Celt 142.50

*

Harvard College Library

FROM THE BEQUEST OF

THOMAS WREN WARD

TREASURER OF HARVARD COLLEGE
1830–1842

# Y TRAETHODYDD.

## AM Y FLWYDDYN 1889.

LLYFR XLIV.

TREFFYNNON: P. M. EVANS & SON.

MDCCCLXXXIX.

HARVARD COLLEGE
JAN 3 1918
LIBRARY
Ward fund

Celt 142.50

2.15-7
36-14

# CYNNWYSIAD.

IONAWR.


TU DAL.

Dyddlyfrau Eben Fardd. III. .. .. .. .. .. .. 5

Llythyr o Fanaw at Gymdeithas D. ab Gwilym yn Rhydychain: Medi, 1888. Gan y Proffeswr Rhys, M.A. .. .. ... .. .. 20

Dammeg y Cwymp. Gan M... .. .. .. .. .. .. 29

Yr Eglwys yn Nghymru: Pregethu Cymraeg. Gan y Parch. Canon Howell, B.D. .. .. .. .. .. .. .. .. .. 34

Goronwy Owain yn marw yn Amerig. Gan y Parch. J. Myrddin Thomas.. .. .. .. .. .. .. .. .. .. 40

Creigiau Môn ac Arfon. Gan y Parch. D. Charles Evans .. .. 48

Y Ddirprwyaeth Frenhinol ar Addysg. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A. .. .. .. .. .. .. .. .. .. 55

Caniadaeth y Cysegr. Gan Peter Edwards.. .. .. .. .. 69

Dadl dros Blant Bwrdd-ysgolion, gan Ysgrifenydd Bwrdd Ysgol. Mrs. Verney .. .. .. .. .. .. .. .. .. .. 74

Duw yn profi Abraham. Gan y Parch. Owen Hughes .. .. .. 77

Pen Carmel. Gan y Parch. Robert Williams, M.A. .. .. .. 79

Nodiadau Llenyddol .. .. .. .. .. .. .. .. 84


MAWRTH.


Geiriau. Gan y Proffeswr Trechmann, B.A., Ph.D. .. .. .. 93

Y Bro-Arluniwr Cymreig, Richard Wilson. Gan Isaac Foulkes .. 105

Lle y Bygythiol yn y Weinidogaeth. Gan y Parch. E. J. Evans .. 114

Dyddlyfrau Eben Fardd. IV. .. .. .. .. .. .. 127

Cynnadledd ar Bregethu Efengylaidd. Gan y Parch. John Thomas, D.D. .. .. .. .. .. .. .. .. .. .. 141

Addysg. Gan Dyfed .. .. .. .. .. .. .. .. 157

Dammeg y Cwymp. Gan M... .. .. .. .. .. .. 160

Y Parchedig William Howells. Gan y Parch William Williams .. 168


MAI.


Achosion Anianyddol. Gan y Parch. Joseph Roberts .. .. .. 181

Y Cynghorau Sirol. Gan A. C. Humphreys Owen, M.A. .. .. 195

Epistolau Ioan yr Apostol. Gan y Proffeswr Ellis Edwards, M.A. .. 206

Y Pasg yn yr Aipht. Gan y Parch. W. Glanffrwd Thomas .. .. 214

Yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. Edward Roberts, D.D. .. 219

Y diweddar Barchedig Joseph Thomas. Gan y Parch. Evan Davies .. 227

| | TU DAL. |
|---|---|
| Gwasanaeth Crist. Pregeth Athrofäol, gan y Parch. A. M. Fairbarn, D.D. | 252 |
| Mr. John Bright. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A. | 256 |
| Nodiadau Llenyddol | 268 |


GORPHENAF.


| | |
|---|---|
| Philo. Gan y Proffeswr Hugh Williams, M.A. | 269 |
| Llyfr Job. Gan y Parch. H. Cernyw Williams | 282 |
| Dyffryn Clwyd. Gan Henry Isgaer Lewis | 291 |
| Dammeg y Cwymp. Gan y Parch. W. Morris Lewis | 297 |
| Crefydd yr Hen Aiphtiaid. Gan y Parch. Griffith Ellis, M.A. | 307 |
| Y Dydd Hwyaf. Gan Barlwydon | 324 |
| Achosion Terfynol. Gan y Parch. Joseph Roberts | 325 |
| Prydain Fawr a'r Fasnach mewn Gwlybyroedd Meddwol ymhlith Brodorion India ac Affrica. Gan y Parch. William Hugh Evans | 339 |
| Nodiadau Llenyddol | 351 |


MEDI.


| | |
|---|---|
| John Jones o Ramoth. Gan y Parch. Evan Roberts | ~~369~~ 357 |
| Hollt Ddaearegol yr Arabah ac Akabah. Gan y Parch. John Jones, F.G.S. | 377 |
| Hen Aralleiriad o'r Bedwaredd Salm ar Bymtheg | 383 |
| Cymeriad yr Iesu a'i Ddylanwad ar y Byd. Gan y Parch. R. D. Rowland | 384 |
| Amaethyddiaeth. Gan John Evans, F.L.S. | 391 |
| Personoliaeth yr Ysbryd. Gan y Parch. Samuel T. Jones | 396 |
| Mr. J. W Prichard, Plasybrain, a Mr. Robert Hughes, Tyddyn y blawd | 300 |
| Y Parch. Edward Roberts, Ceunant, Arfon. Gan y Parch. W. Ryle Davies | 304 |
| Blodeuyn mewn Anialwch. Gan y Parch. O. Parry-Owen | 319 |
| Crybwyllion Henafiaethol. Gan R. Prys Morris | 320 |
| Y Sabboth. Gan Glaswyron | 326 |
| Anffyddlondeb Athrawon. Gan y Parch. J. Myvenydd Morgan | 327 |
| Cau y Tafarnau ar y Sabboth a'r Ddirprwyaeth Frenhinol. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A. | 333 |
| Nodiadau Llenyddol | 352 |


TACHWEDD.


| | |
|---|---|
| Ar ol Marw. Gan y Parch. W. Williams | 445 |
| Y Tad Damien. Gan Edmygydd | 459 |
| Gorthrwm. Gan y Parch. D. Adams, B.A. | 469 |
| "Y Parch. R. Thomas, Beaumaris." Gan Llenor | 476 |
| Carnhuanawc. Gan y Parch. John Davies, F.S.A., Pandy | 478 |
| Angladd Mab y Wraig Weddw o Nain. Gan John Edwards | 496 |
| Smith ar Esaiah. Gan y Parch. Griffith Owen | 500 |
| Y Gwyrthiau. Gan y Parch. W. James | 506 |
| Nodiadau Llenyddol | 523 |

RHIFYN CLXXVI.

JAN 3 1889

Celt 192.50

# Y TRAETHODYDD

IONAWR, 1889.

CYNNWYSIAD.


| | Tu dal. |
|---|---|
| Dyddlyfrau Eben Fardd. III. | 5 |
| Llythyr o Fanaw at Gymdeithas D. ab Gwilym yn Rhydychain: Medi, 1888. Gan y PROFFESWR RHYS, M.A. | 20 |
| Dammeg y Cwymp. Gan M. | 29 |
| Yr Eglwys yn Nghymru: Pregethu Cymraeg. Gan y Parch. CANON HOWELL, B.D. | 34 |
| Goronwy Owain yn marw yn Amerig. Gan y Parch. J. MYRDDIN THOMAS | 40 |
| Creigiau Môn ac Arfon. Gan y Parch. D. CHARLES EVANS | 48 |
| Y Ddirprwyaeth Frenhinol ar Addysg. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A. | 55 |
| Caniadaeth y Cysegr. Gan PETER EDWARDS | 69 |
| Dadl dros Blant Bwrdd-ysgolion, gan Ysgrifenydd Bwrdd Ysgol. MRS. VERNEY | 74 |
| Duw yn profi Abraham. Gan y Parch. OWEN HUGHES | 77 |
| Pen Carmel. Gan y Parch. ROBERT WILLIAMS, M.A. | 79 |
| Nodiadau Llenyddol | 84 |


*CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF MAWRTH 1, 1889.*

SWLLT.

TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR

# Y TRAETHODYDD.

## DYDDLYFRAU EBEN FARDD.

### III.

1838.

Ion. 1. Braidd yn wael, wedi cael cur tost yn fy mhen y dydd o'r blaen. Cychwyn i Chwilog tua 9 o'r gloch y boreu, cyrhaedd Llanarmon 12, ymlaen i Chwilog erbyn 1. Cael John Thomas yn ei wely; rhoddi 5s. fel anrheg iddo oddiwrth berson arall anadnabyddus, gan ddangos nodyn i gadarnhau hyny mewn llaw ddyeithr. J. T. yn meddwl ei fod wedi ei ysgrifenu gan Foneddiges! Tua hanner awr wedi 2, galwodd Dirwestwyr Pencoed a Chapel Helyg heibio, a chyfarfu J. T. a minnau a Laura Griffith hwynt yn y capel; gweddïodd dau, wedi i J. T. ddarllen pennod o'r Bibl.

Ion. 4. Gan fod genyf achos i fyned at y cerbyd, gwelais hen gydysgolor, Thos. Thomas, Tanllan, Tydweiliog. Anerchodd fi yn englyn Richard Charles, a rhoddes i mi 1 g. o wh. Yr oedd yn dew, ac ni fuaswn yn ei adwaen oni bae iddo fy anerch fel uchod.

Galwodd Robt. Hughes yr hwn oedd yma yn talu ei rent, ac yfodd dê gyda mi. Pwysodd arnaf i fyned i'r *society* ar unwaith, heb oedi gydag esgusodion gwag a mân rwystrau, y rhai, fe allai, na chawn byth wedi eu symud yn llwyr.

Ion. 6. Codi 4 y boreu, gwneyd tê a chychwyn i Gaernarfon tua 6, gyda fy nhad yn nghyfraith. Rhoddi £20 yn y Banc, derbyn £2 gan Mr. O. Jones. Cael llyfr yn anrheg ar Law Fer gan Mr. W. Pritchard; prynu *Etiquette for Gentlemen*, 1s., gan Potter.

Ion. 7. Sul. Galwodd Robt. Hughes, yr hwn oedd yn myned i bregethu i Capel ucha; aethum gydag ef.

Ion. 8. Dechreu yr ysgol yn fy nhŷ fy hun. Oer iawn, rhewog, gwynt mawr.

Ion. 11. *Adduned*. Yr wyf yn ymrwymo trwy gymhorth Duw i ochel diod gref, ac na fydd i mi yn y dyfodol wastraffu mwy o arian nag a ymddengys yn angenrheidiol ar yr unrhyw.

Ion. 13. Sadwrn, rhwng 6 a 7, galwodd Mr. Jones, *Tea Dealer*. Telais iddo ar unwaith ei fil, £11, a dychwelodd i mi 5s. Aethum gydag ef yn ei *gig* can belled â'r Sportsman, a disgynodd, gan adael y ceffyl yn y *gig* wrth y drws. Yr oedd Thos. Hughes yno pan aethom i mewn. Eisteddodd ef, fy nhad yn nghyfraith, Mr. Jones, a minnau i lawr yn gysurus, a galwodd Mr. Jones am 3 ch. o g. wedi ei gynhesu, gyda 2 l. o r. wedi ei gymysgu â phob un, diod ddiguro; cymerasom oll braidd ormod; yr oedd Mr. J., mae yn amlwg, yn fwy ymlaen na'r un o honom. Nid oeddwn yn hoffi peidio cymeryd rhan o garedigrwydd Mr. Jones rhag anfoddhau fy nheulu; yr un pryd yr oedd yn ddrwg genyf ei fod yn gwario cymaint, a'i fod yn bradychu cymaint o effeithiau y ddiod, a'r ceffyl yn y *gig* yr holl amser, a gwynt y nos yn rhewllyd ac uchel. Ni fum braidd erioed mewn amgylchiadau cyffelyb. Ni allaswn yn gyfleus wrthod am y rhesymau uchod, a rhai eraill. Os caf fy hun mewn amgylchiadau cyffelyb eto, mi a ymdrechaf yn breifat berswadio fy nghyfaill rhag y fath garedigrwydd anmhriodol a ffol. Ymadawsom am 9 o'r gloch, wedi mwynhau y cwmni yn fawr.

Ion. 14. Yn union wedi dychwelyd o'r Capel ucha y noswaith, daeth cenad o'r Plas i ddyweyd fod Mr. Ed. Parry o Gaer yno, ac yn dymuno fy ngweled. Aethum, a gwelais ef gyda dau neu dri o drafaelwyr, a Roberts, yn y parlwr. Eisteddais i lawr, a rhoddes Mr. P. i ni l. o g. a gl. o r. Dywedai fod fy "Hanes Clynnog" i ymddangos yn rhif. Chwef. o'r *Gwladgarwr*, ac esboniai nad oedd wedi sylwi arno o'r blaen am ei fod yn amryfus wedi ei anghofio, &c. Addewais gyfansoddi Englynion i'r Frenhines, &c. Dywedai na fyddai byth yn myned trwodd heb alw. Nid wyf yn meddwl y gallaf ffurfio unrhyw farn gywir am Mr. P. Nid yw yn hawdd ei adnabod.

Ion. 17. Galwodd y Parch. Mr. Williams, Llandwrog, yma. Aethum gydag ef yn ei *gig* i'r Sportsman, a chynnorthais ef i gyfieithu rhyw Reolau i'r Gymraeg; addewais fyned i Landwrog ddydd Sadwrn i gyfieithu llythyr y Frenhines iddo. Rhoddodd i mi hanner *sovereign*.

Ion. 24 Anfon fy Chwech Hir a Thoddaid i'r Frenhines i Mr. Ed. Parry, Caer, talu y *postage*, 9c. Yr oedd crydd o Landwrog gyda mi yn y Plas ar y pryd, yr hwn a brydyddodd i Mr. Williams yn mhapyr Bangor. Rhoddodd i mi 2¼ p. o g. Darllenais fy Nhoddeidiau i Miss Powell, un ddyeithr, Mr. R. G. Roberts, ac yntau. Fy ffugenw oedd "Paris ab Priam."

Ion. 28. Sul. Adref 2 o'r gloch fy hun. Cael pleser mawr mewn astudio egwyddorion rhyddid Cristionogol fel y maent wedi eu gosod i lawr yn y bedwaredd bennod ar ddeg o lythyr St. Paul at y Rhufeiniaid.

Ion. 29. Ar gais dyeithrddyn yn y New Inn, cyfansoddi pedwar o Englynion i'r *Athraw*, cyhoeddiad newydd sydd yn dyfod allan yn Llanidloes, gan H. Gwalchmai. Ar ginio, galwodd Robt. Jones o Lanllyfni ac ymunodd â mi. Cael ymddyddan dymunol iawn âg ef am tuag awr. Danfon *Sermon Case* i Robt. Hughes, Uwchlaw'rffynnon, ac ynddo 5 o Englynion yn taflu awgrym sut i'w ddefnyddio.

Ion. 31. Neithiwyr cymerais yn y Vic. 2¼ p. o g. a ½ p. yn y Plas. Gwnaeth yr olaf fi yn sâl iawn. *Rhaid* i mi ei ochel byth eto. Byddai gormodedd fel yma eto yn llyfrdra hollol ac yn ynfydrwydd i'r eithaf. Paham cael diwrnod cyfan o ddybryd ofid ac anhwylder, er mwyn dwy awr o fwynhad? Mae yr arferiad yn waradwyddus a ffol. *Ffei o honof!* Galwodd y Parch. W. Williams, Caernarfon (Caledfryn), ar ei ffordd i Maesneuadd, gyda Mr. Ambrose, Porthmadog, wrth yr hwn y dywedodd pwy oeddwn. Edrychai Williams wedi newid yn fawr yn ei wyneb, yn deneu a llwyd, gyda'i lygaid treiglol wedi llonyddu llawer. Dangosais iddo yr Englynion a roddais yn *portfolio* Robt. Hughes, y rhai yr ymddangosai yn fwynhau yn fawr iawn.

Chwef. 1. Myned i gyfarfod yr Annibynwyr yn Maesneuadd. Siaradai y gweinidogion y naill ar ol y llall yn y boreu, ar y drwg o oedi gyda chrefydd, ac offrymid gweddi bob yn ail am fendith. Gwahoddwyd fi i'r Morfa, lle y ciniawais gyda G. Caledfryn, Emrys, ac eraill. Siarad ychydig ar ol ciniaw am farddoniaeth, a chytuno i ddilyn i fyny ddyrnod a roisai Caledfryn i'r clerfeirdd a'r crachfeirdd âg ergydion eraill gan Emrys a minnau. Dychwelyd i Maesneuadd yn nghwmni y beirdd, ysgwyd llaw gyda rhai o'r gweinidogion eraill, a hen gydnabod o Gapel Helyg a manau eraill. Am 2 pregethodd Caledfryn ac Emrys. Pan yn dychwelyd adref attaliwyd fi gan Robt. Hughes, gan yr hwn yr oedd barddoniaeth i'w ddangos i mi. Galwodd y Parch. E. Williams, Frondeg, a Morris Griffith, mab M. Hughes; darllenais fy marddoniaeth a siaredais ar wahanol bethau.

Chwef. 3. Cael rhifynau Ionawr a Chwefror o'r *Gwladgarwr*, yn yr olaf o ba rai ymddengys fy "Hanes Clynnog."

Chwef. 4. Anfoddhaodd fy mam yn nghyfraith fi yn fawr trwy wrthod rhoddi gwrandawiad teg i fy Ella pan yn amddiffyn ei hun yn erbyn cyhuddiad plentynaidd ei chares gelwyddog.

Chwef. 5. Galwodd ewythr i mi, sydd weinidog y Bedyddwyr yn Môn.

Mawrth 3. Derbyn y rhif. am y mis hwn o'r *Gwladgarwr*, lle yr ymddengys fy Nhoddeidiau i'r Frenhines, gyda chyfansoddiadau eraill ar yr un mesur a'r un testun. Gwelaf oddiwrth ddyfarniad y beirniaid mai "Telynor o St. Helena" a "Paris ab Priam" (myfi) oedd y goreu o'r saith, ond yn gyfartal â'u gilydd, a phenderfynwyd dyblu y wobr er rhoddi un i bob un o honom. Yr ydwyf eto yn ystyried yr eiddof fi yn rhagori ar "Telynor" mewn amryw ystyriaethau, ac yr ydwyf yn protestio yn erbyn dyfarniad y beirniaid fel yn wyrdraws ac yn brad-

ychu anghymhwysder i'w swydd. Nid wyf yn bresennol yn bwriadu gwneyd fy hun yn adnabyddus.

Mawrth 5. Robt. Griffith yn tori fy nillad. Dywed fod 4½ llath o *Bilot Cloth* eul yn angenrheidiol i wneyd coat. Yn y boreu aethum i'r Sportsman, cefais 1 p. o g. yno, yn y Plas ½ p. o g., ac yn y Vic. ½ p. o g. Mae hyn yn dra anweddus. Nid wyf byth yn ei gymeradwyo. Yr wyf yn gwybod nad ydyw yn iawn. Paham y byddwn y fath lyfrgi?

Mawrth 6. Arwyddnodi ymrwymiad Dirwestol, i derfynu yn unig pan fydd y papyr ar ba un yr ysgrifenwyd ef, naill ai wedi *colli* neu gael ei *ddinystrio*. Yr wyf yn gweddïo ar i Dduw fy nal i fyny, a fy ngwneyd yn ymwrthodwr ewyllysgar a boddlawn o egwyddor, yn gystal ag o argyhoeddiad o effeithiau daienus hyny ar fy mherson a fy amgylchiadau. Cymerodd fy ngwraig hefyd ymrwymiad ammodol. Yn awr yr wyf yn Ddirwestwr.

Mawrth 8. Gweled na etyb Dirwest dirgel, am hyny dinystriais fy mhapyr.

Mawrth 9. Dechreu gwneyd casgliad rheolaidd o fy marddoniaeth, yr hwn a fwriadwyf yn unig i gynnwys fy narnau goreu, gan gau allan lawer nad ydynt yn werth eu cadw.

Mawrth 16. Galwodd Robt. Hughes, Uwchlaw'rffynnon. Dywedai ei fod yn ystyried fy Nhoddeidiau i yn oreu. Hysbysai fod fy enw yn cael ei ddefnyddio gan P. A. Môn yn ei lyfr yn erbyn Dirwest. Os yn wir, y mae dyfyniad P. A. Môn yn lladradaidd; ni fu dim ymddyddan rhyngof fi ag ef cyn nac wedi un prydnawn yn y Plas tua chwech neu naw mlynedd yn ol.

Mawrth 17. Myned i Bantycrychddwr, ger Llanllyfni, gyda Bibl P. Williams i fy chwaer. Wedi dychwelyd o Lanllyfni, aethum i Gapel ucha i wrando y Parch. John Phillips o Dreffynnon yn pregethu. Ei destun oedd Malachi iii. 16. Sylwedd ei bregeth oedd, 1. Fod ofn Duw yn cael ei ffurfio wrth edrych ar ei fawredd Ef a'n bychandra ni; ei sancteiddrwydd pur Ef a'i gasineb at bechod, a'n natur lygredig a phechadurus ni; ynghyd ag adnabyddiaeth o'i enw fel Jehofah, y Duw trugarog a graslawn, &c. 2. Fod meddwl am ei enw Ef, yn feddwl am ryfeddodau ei fod a'i briodoliaethau: ar un o'r rhai olaf hyn, sef ei hollbresennoldeb, fe draethodd mewn dull arddercheog a choeth, gan sylwi ar anferth nifer y cyrff planedawl yn nosbarth yr haul, lliosogrwydd y ser sefydlog, &c., ac yn nhiriogaethau anfesurol y gwagle mawr nad oedd yr un lleeyn ymhellach nag un arall oddiwrth bresennoldeb Duw. Dan y pen hwn hefyd dangosai fod meddwl am enw Duw yn feddwl am ddyfodiad y Messiah i gadw dyn, &c. 3. Fod y rhai sydd yn ofni yr Arglwydd ac yn meddwl am ei enw Ef, yn hoff o gymdeithas eu gilydd. 4. Fod Duw yn cymeryd sylw neilldnol o'r fath rai, a'u bod bob amser yn wrthddrychau ei ffafr a'i gariad.

Yr wyf yn ystyried y gwr yma yn bregethwr *da iawn*,—llais gwych, ystum priodol, eglurder a threfn yn ei fater, a chariad gostyngedig a gwresog at ei Feistr Dwyfol, &c., yn gwneyd ei bregeth yn llawn o dân ysbrydol a chynhesrwydd nefol.

Mawrth 19. Heddyw yn y prydnawn Betsy yn fy ngwahodd i gymeryd ganddi yn llechwraidd 2g. o wh.; teimlo yn dra rhyfedd am weddill y dydd.

Mawrth 23. Morris Griffith yn dyweyd wrthyf iddo glywed fod y *Poor Law Auditor* yn bygwth fy nghrogi neu fy saethu am nodi allan ei gamgymeriad gyda chyfrif R. G.

Mawrth 24. Tua hanner dydd galwodd Robt. Hughes wrth fyned at ei gyhoeddiad i'r Rhyd-ddu; cymhellai fi yn fawr i ymuno â rhyw eglwys. Aethum i Chwilog. Wrth ddychwelyd o Chwilog i Langybi yr oedd yn bwrw eira, y pothellau mwyaf a welais erioed.

Ple ganwyd y plu gwynion?

gofynais i mi fy hun: ac wedyn,

Can cenedl yn cenedlu
Miliwnau gant o'r plant plu!

Mawrth 31. Derbyn *Yorke's Royal Tribes of Wales*, gwobr y *Gwladgarwr* am fy Nhoddeidiau i'r Frenhines.

Ebrill 7. Cychwyn i Gaernarfon am 12, lle y cyrhaeddais mewn 2½ o oriau. Aethum ar fy union i'r Banc, lle y derbyniais 26s. 8c. o log; gadewais £1, a rhoddais £9 ati; y swm sydd genyf yno yn awr ydyw £80. Rhoddais i Mr. Pritchard y llyfrwerthydd swm o ohebiaeth i'r *Gwladgarwr* i'w anfon yn ei barsel i Gaer i Mr. Ed. Parry.

Ebrill 9. Curwyd fi i fyny tua hanner awr wedi pedwar yn y bore, gan *overseers* Llanllyfni, i wneyd eu cyfrifon, yr hyn a gymerodd i mi 5 awr. Yn y prydnawn galwodd Gwilym Caledfryn yn yr ysgol; ymddyddan âg ef hyd y fynwent, edrych ar fedd Robert Roberts, yn yr olwg ar ba un yr ymddangosai Caledfryn wedi suddo mewn dwysfyfyrdod, ac yn teimlo yn fawr. Adroddodd beth o'i farddoniaeth, fel y gwnes i yr eiddof finnau; gwahoddais ef i'r tŷ i dê, cyn dychwelyd efo'r *mail*, â'r hyn y cydsyniodd. Heddyw symudais yr ysgol yn ol i Eglwys y Bedd wedi ei hadgyweirio.

Ebrill 16. Llun y Pasg. Gorymdaith Ddirwestol, yn llawer llai mewn rhif a pharchusrwydd er y cynnulliad o'r blaen.

Ebrill 20. Lled isel, ac weithiau mewn trallod gan deimladau digalon ynghylch crefydd a fy sefyllfa ddyfodol. Yr ydwyf wedi bod yn gweddio ar Dduw hwyr a bore, ac ar adegau eraill, dros y naw mlynedd diweddaf, am iddo faddeu fy aneirif droseddau, pechodau mawrion fy ieuenctyd, a rhoddi i mi ffydd yn Nghrist, sancteiddio fy enaid, a chyfaddasu fy meddyliau i gymundeb â Duw; rhoddi i mi dueddiadau newyddion, natur newydd, a fy nghuddio a diogelu fy mywyd tragywyddol gyda Christ yn Nuw. Er hyny, ni dderbyniais unrhyw ddylanwadau sanctaidd o nemawr nerth, ac yr wyf yn teimlo fy nhueddiadau i bechu mor gryfion ag erioed. Mae fy Nghreawdwr mawr yn rhoddi i mi yn ei Ragluniaeth bob dydd brofion amlwg o'i ofal am danaf ac am fy nheulu, ac yr wyf yn cydnabod ei ddaioni graslawn a thrugarog gyda dirfawr syndod a diolchgarwch. Ond, O Dduw! ai yn y byd yma yn unig y byddaf gymharol ddedwydd, ac yn cael dyweyd wrthyf mewn tragywyddol drueni, i mi dderbyn fy ngwynfyd yn fy mywyd! O Arglwydd, er mwyn Iesu, trugarhâ a thosturia wrthyf; arwain fi yn dy ffordd, a gosod fy enaid dan weithrediadau achubol dy Ddwyfol Ysbryd. Gosod dy ddelw sanctaidd arnaf fi a'm teulu, a defnyddia ni i'th ogoniant ein holl ddyddiau, er mwyn Iesu. Amen.

Mai 13. Yn bur feddylgar; galw i'm cof brif ddygwyddiadau dechreu fy oes, da a drwg, yn enwedig y pethau a ddygwyddasant ar neu o amgylch y dydd cofiadwy hwn.

Mai 16. Ffair Pwllheli, llawer iawn yn myned, myfi gartref. Ah, hen Bwllhelli! fy nghyrchfa gynt! Yr wyt yn awr wedi dy adael genyf, fe allai am byth.

Mai 20. Ar ol y gwasanaeth prydnawnol, daeth Mr. Hughes i fy nhŷ yn bur ddigllawn, gan *orchymyn* i mi beidio byth a rhoddi agoriad Eglwys y Bedd i bobl yr Ysgol Sul, gan fod rhai o honynt, yn anfwriadol, wedi ei ddigio trwy ganu hymnau ar amser gosper ar y ffordd wrth y Tycerig, fel ag i gael eu clywed yn yr Eglwys. Dywedai rhai eu bod yn canu wrth ddrws Eglwys y Bedd, ond yr oedd fy ngwraig wedi eu gweled a'u clywed yn canu ar y ffordd pan glywid hwy yn yr Eglwys.

Mai 21. Galwodd Mr. Hughes drachefn pan oeddwn i allan, ac mewn tymher ddrwg iawn dywedai wrth fy ngwraig mewn dull edliwgar fod y canu wrth ddrws Capel Beuno. Gwadai fy ngwraig, a pharai yntau iddi dewi! Ufuddhaodd hithau, gan ddyweyd mai yr hyn a ddywedai hi oedd wirionedd. Ni allaf oddef y sarhad yma, ac ni dderbyniaf Mr. Hughes mwy i'm tŷ a'm cyfeillgarwch heb esgusawd.

Mai 23. Gweled fy Englynion i'r *Athraw* wedi eu hargraffu yn rhif. Mai.

Mai 31. Para yn bur isel. Galwodd y Parch. Mr. Williams, Frondeg, i fy ngweled yn yr ysgol, a Mr. Hughes a boneddwr ieuanc gydag ef. Ar ol tê, daeth Miss Marrow a'i newyddiadur i mi i'w weled, a dywedai ei bod yn gweled bai arnaf am nad ydwyf yn dysgu y plant yn yr ysgol i siarad Saesoneg. Mae hyn yn nesaf i anmhosibl mewn ysgol bentrefol wledig, lle nad ydyw y plant yn dilyn hanner eu hamser, a phan wedi myned allan o'r ysgol, na chlywant byth sill o Saesoneg yn un man. Clwb yn New Inn, talu 1s. Ar fy nychweliad daeth Betsy anwyl â ch. o b. cyn ymadael i ymweled â'i ffryndiau. Yn union wedi fy ymddyddan â Miss Marrow, teimlais boen llym yn *asgwrn fy mrest*, ni wn beth yw yr achos o hono.

Meh. 1. Y boen yn fy mrest yn para. Pur isel. Gwrando John Williams, Llecheiddior, yn pregethu. Gorphen fy ch. o b. Betsy yn cymeryd ei chenad.

Meh. 26. Galwodd Betty fy chwaer; rhoddais iddi tua hanner wns o dê; y wraig yn fy nhrin yn arw am wneyd.

Meh. 30. Myned i Bodychain i gario allan ewyllys fy ewythr. Cymeryd tê, a chael 2s. am fy mhoen. Ar fy ffordd yno ymosododd fy nghlefyd dall arnaf;

wedi dychwelyd cymerais 1 p. o g. poeth, i wella. Derbyn rhif. Gorphenaf o'r *Gwladgarwr* gyda fy "Eifionydd" wedi ei gyhoeddi ynddo.

Gor. 3. Yr 28ain o'r mis diweddaf yr oedd coroniad y Frenhines. Mewn anrhydedd i'r amgylchiad gwnaethum 4 pennill i'w canu gan y Dirwestwyr ar dôn benodol, y rhai a ganwyd yn y ddau gapel, ac yn ystod yr orymdaith. Hefyd, gydag eraill, gwnaethum Faner a gosodais hi ar ben tŵr yr Eglwys, a pherais ganu y clychau, &c., gan wisgo y fedal a roddwyd i mi gan ei Mawrhydi.

Gor. 9. Diwrnod gosod degwm; ciniawa yn y Plas; wedi cinio, talodd Mr. Jones i mi £2 am fy chwarter gyda'r ysgol. Gofynais iddo sut yr oedd yn hoffi y beddargraffiadau? Dywedodd ei fod wedi eu dangos i feirniad, un Mr. Thomas, Druggist; rhoddent i'r beirniad hwn lawer o ddigrifwch; gair Mr. Jones oedd ei fod yn gwneyd gwawd o honynt. Purion. Mi wnaf fi wawd o hono ef ynte. Teimlo yn anghysurus ar ol ciniaw, cael fy mhoeni gan gur yn fy mhen. Ni yfais nemawr, nid oeddwn yn teimlo oddiwrth hyny, oddeithr yn wir fod y cur hwnw yn fy mhen yn dilyn.

Gor. 10. O tua Gor. 9fed hyd Gor. 19eg, yr oedd Miss Mary Jane Hughes, merch hawddgar a phrydferth y Parch. Mr. Hughes, Aberystwyth, yn aros yn Nghlynnog. Mae ein Ficer yn berthynas i'w thad. Dymunai gael gweled fy marddoniaeth, ac ymunai â Mr. a Mrs. Hughes i ddymuno arnaf i wneyd rhai pennillion Cymraeg a Saesoneg i wahodd ei thad i Glynnog ar ymweliad, yn ystod ei harosiad hi yma; cydsyniais, a chyfansoddais 4 pennill Saesoneg a 6 pennill Cymraeg, y rhai a ymddangosent yn ei boddhau yn fawr. Rhoddodd i ngeneth Ellen *ribbon-mark* i ddangos ei gwers yn yr ysgol, gyda y geiriau "Watch and Pray" arno mewn gwniadwaith tra destlus o'i heiddo ei hun. Wrth ymadael, rhoddodd i mi bennillion Saesoneg wedi eu cyfansoddi ganddi ei hun, ac yn ei llawysgrif ei hun, ar Ruth ac Orpah a Naomi yn dychwelyd o Moab i wlad Judah. Am y ganiad fer yma, mi ddywedwn ei bod wedi ei hysgrifenu yn brydferth; mae yr amgylchiadau wedi eu trefnu yn naturiol a'u gweithio i fyny gyda destlusrwydd barddonol; mae yn dyner, yn darawiadol, ac yn llawn o addysg. Fe allai nad yw y mydr wedi ei gadw gyda y manylder caeth a nodweddai waith Pope. Erchid fi yn neillduol i beidio eu dangos i neb, ac addewais felly. Mae Miss Hughes tuag 20 oed, yn hynod o lân ac anwyl, yn rhydd, caredig ac isel, ac ymddangosai i mi yn dra chrefyddol.

Gor. 18. Myned i Cochyblig i dê. Ar ol tê myned gyda Dr. Pughe ar wibdaith i Graig y Dinas, yr hen wersyllfa Rufeinig ger Lleuar; lle tra rhamantus; yr afon fawr Llyfni yn rhedeg hyd y llechwedd gyda rhuad murmurol, yn cael ei adseinio o'r coed cyfagos ar y tu arall i'r afon, yr hwn sydd yn codi yn fyth yn agos i 60 troedfedd ar gyfartaledd uwchlaw ei dyfroedd trystfawr. Mae yr hen gaer yn awr wedi ei throi yn gae ŷd! Wrth gerdded hyd yr arglawdd allanol, teimlwn rhyw iasau llesmeiriol, wrth ystyried fy mod ar y pryd yn troedio y fan lle, yn y dyddiau gynt, y bu llawer canwriad gwrol yn gwylio; y crug lle y bu yr Eryr Rhufeinig yn chware yn yr awel; yr uchelfa lle y bu y cadlywydd Rhufeinig, fe allai Agricola, neu rywun o gyffelyb fedr milwraidd, yn gorwedd yn ei babell ymysg ei gadbeniaid dewrion; yn cynllunio darostyngiad y *Vendotia* anhydrin; a lle o dan y dywarchen unig y gorwedd llawer gwron o eiddo y Caisariaid yn yr ystên, yr *urn* henafol a chuddiedig, gyda'i drysor gerllaw, heb byth gael ei folestu gan gwerylon cenedloedd, gan wrthryfel deiliaid, na chan ddymchweliad olynol ymherodraethau nerthol ond dirywiedig, fel yr eiddo ef ei hun! Yfasom botelaid o borter er anrhydedd i'r gwroniaid ymadawedig, ac yna ymadawsom.

Gor. 19. Galwodd y Parch. Mr. Richards o Gaerwys, a cheisiai genyf gyfansoddi rhai emynau i'w cyhoeddi er cyfleusdra i bregethwyr ac eraill mewn addoliad cyhoeddus. Cyfansoddais emyn fechan o 4 pennill ar destun a enwasai efe; gyrais hi gyda Nelw i'r ficerdŷ, a dywedid wrthi ei fod yn cael ei foddhau ynddi yn fawr.

Gor. 21. Sadwrn. Myned i Langybi—fy anwyl Langybi!—cychwyn o Glynnog tuag un y prydnawn; cael 2½ p. o g. yn y Sportsman, a ½ p. o g. yn Pentrebach. Pobl Glasfryn fawr yn cyweirio gwair. Geneth fach Pencaenewydd wedi llosgi i farwolaeth. Wrth yr Ysgoldŷ, sefais am beth amser i edrych ar yr hen addoldŷ, lle gynt yr ymunais â *society* y Methodistiaid, ac y parheais yn aelod am 12 mlynedd. Mor zelog oedd fy mam dlawd yn y lle yma! Dilyn

y cyfarfodydd crefyddol yma oedd hyfrydwch ei meddwl cristionogol; fel y gwleddai yma ar ddwyfol gysuron ffydd a chrefydd! Yr oedd sel a ffyddlondeb fy nhad hefyd at achos y capel yn ddiflino—agorai y drws, goleuai y canwyllau, trefnai y meinciau, adgyweiriai y ffordd a phont Hendregaer, a gofalai am geffylau y pregethwyr; yn wir yr ydoedd yn dra dedwydd yn gwneyd yr holl fân swyddau cysylltiedig â'r addoldŷ; ond nid ydoedd mor dduwiol a defosiynol a fy mam, er fy mod yn credu fod ganddo yntau hefyd ffydd *fechan* o'r iawn ryw. Ond fy mam druan! Yr oedd hi yn santes ar y ddaear, yn wirioneddol ac ymarferol grefyddol; yn ddirgel fel yn gyhoedd, yr oedd yn byw ar bethau ysbrydol; ac yr ydwyf yn credu yn sicr fod ei henaid, pan ydwyf yn ysgrifenu hyn, yn mynwes Abraham, yn gweled ei Gwaredwr, ac yn bythol ganu anthem ei fawl.

Gor. 26. Wrth ddyfod i'r tŷ o'r ysgol pwy a welwn yn eistedd ar gadair ond yr ieithydd hynod, Dic Aberdaron, yn prysur gnoi torth geiniog, yr hon trwy beth anhawsder a ystwffiai i'w enau, yr hwn oedd bron yn guddiedig gan anferth lwyn o flew, ei farf wedi gordyfu yn y dull Iuddewig. Dechreuasom siarad am Cornelius Agrippa, brenin y consurwyr. Yr oedd ei weithiau gan Dic yn Lladin, gyda'u cyfrinion cabalistaidd; ymddangosai fel yn credu yn yr athroniaeth gêl ac yn meddwl yn fawr o Agrippa. Dywedai fod John Calvin wedi llwyddo i losgi Servetus, ond fod ei holl ystrywiau yn erbyn Cor. Agrippa wedi profi yn ofer, gan fod y swynwr mawr, fel y sylwai yn ysmala, yn anghlwyfadwy o herwydd ei fedr yn y *Black Art.* Ymddangosai yn elyn mawr i John Calvin, a dywedai fod ei enw, o'i gyfieithu i'r Galdaeg, yn arwyddo *Sion y Cŵn;* oddiwrth hyn tynai gyffelybiaeth ffol ac isel, fod Calvin yn gi, oedd yn cyfarth ac yn brathu, ac mewn un amgylchiad yn *rhostio* yr ysgyfarnog yn fyw, gan olygu Servetus; yr oedd hyn yn ddigrifwch mawr ganddo, a chwarddai yn galonog; ac yn nghanol pob ystori dychwelai yn fynych at *Sion y Cŵn*, yr hyn a ebychai yn wawdlyd, ac yna chwarddai yn uchel. Dywedai ei fod wedi ymddiried ei Eiriadur Hebraeg i P. A. Môn, i gael tanysgrifwyr ato. Yr ydoedd yn myned i'r Gaerwen i weled Dewi Wyn. Dywedais fod Dewi mewn ystad ddrwg o ran ei feddwl, yn codi, fel y clywswn, oddiar iselder a achosid gan ammheuon crefyddol. Atebodd yn union, "Fe allai ei fod wedi ei *frathu* gan ryw gi o eiddo *Sion y Cŵn!*" Ar y cyfan yr wyf yn ystyried Dic yn un o'r dynion ffolaf y bum erioed yn siarad â hwy—yn mhob peth ond *iaith;* yn hyn y mae wedi gwneyd anferth gynnydd, a bron yn gwbl trwy ei ddyfalbarhad a'i allu naturiol ei hun; ond mewn gwybodaeth gyffredinol, byddai yn fwy priodol ei restru gyda gwirioniaid na chyda dynion o synwyr cyffredin. Y mae yn isel, ffol, garw, anwybodus, a hyd yn nod yn genwynllyd ac ystyfnig.

Galwodd y Parch. Wm. Roberts, Hendrebach, ac eisteddodd i ymddyddan am awr a hanner. Yr wyf yn ei hoffi yn fawr iawn. Y mae mor bwyllog, sicr, a difyrus, a chyda hyny yn ŵr gwir grefyddol, a rhydd oddiwrth ddallbleidiaeth. Sais pur anghywir ydyw, mor belled ag y mae gramadeg a pharabliad yn myned, ond mewn ystyriaethau eraill y mae yn deall yr iaith yn drwyadl. Dywedai y medrai ychydig Hebraeg, fod ei fab yn ysgolhaig Hebreig cyflawn, ac y gallai *ysgrifenu* Hebraeg, yr hyn ni allai Dic Aberdaron, er fod Dic ymhob ystyr arall yr Hebrëwr goreu yn Nghrêd, fel y clywsai Mr. Fry, y diweddar Iuddew dychweledig enwog, yn sylwi.

Awst 13. Galwodd y Meddyg Pughe, a phasiwyd genym benderfyniadau gwladgarol ynghylch ymroddi yn fwy dyfal i ddiwyllio yr iaith Gymraeg a barddoniaeth Gymreig. Yn y prydnawn aethum i'r Sportsman; cefais 2½ p. o g. yno, a dychwelais cyn 9 o'r gloch. Y diwrnod teg cyntaf a gawsom er ys llawer o amser.

Awst 17. Gorphen 12 o Englynion ar Arch Noah i'w hanfon i Eisteddfod Abergafenni.

Awst 24. Danfon trwy y post i Mr. Ed. Parry, Caer, 20 o Englynion, y rhai y ceisiasai genyf eu hysgrifenu iddo ar gyfer Cylchwyl agosâol Abergafenni; sef 8 ar agoriad yr Eisteddfod, 6 i'r Llywydd, Syr Charles Morgan, a 6 ar Goroniad y Frenhines Victoria.

Awst 26. Yn Nghapel Gyrngoch dywedodd y Parch. John Jones, Llanllyfni, o'r pulpud, fod Clynnog yn ddiarhebol fel y lle meddwaf yn y wlad, ac y siaredid am dano felly ymhell ac yn agos! I hyn ni allaf fi ond dyweyd nad wyf fi yn *gwybod* am fwy na deg o bersonau trwy yr holl blwyf sydd yn achlysurol yn

meddwi, ac y mae poblogaeth y plwyf yn agos i 2000. Yr ydwyf fi wedi bod yn byw yn y lle yma am un mlynedd ar ddeg, ac y mae yr hyn a ddywedwyf yn bur gywir. Beth a ddywedwn am haeriadau direswm o'r fath yma o bulpudau?

Awst 29. 36 mlynedd i heddyw y bedyddiwyd fi. Bedyddiwyd fi yn Eglwys Llangybi gan y Parch. M. Roberts, Hendy, y Rector. Mwynhau y cyflychwyr yn fawr. Y fath anferth gwmwl a orchuddiai y wybren ogleddol! Y fath belenau prydferth a wreichionent yn mynwes tragywyddol eangder! Fe allai fod y cwmwl diderfyn yma yn cael ei farchog gan filiynau o ysbrydion, a gallai fod y gem dysglaer yna o fyd, yn cael ei boblogi gan fodau rhesymol a deallol mor wahanol i ni ag ydym ni i'r angelion; fe allai hefyd y bydd i fy enaid i, wedi ei ryddhau o'i gell ddaearol, esgyn i'r rhanbarth unigol yna, ac adeinio ei ehedfa, rhwng miloedd o fydoedd mawrion, i'r byd hwnw a ordeiniwyd yn gartref iddo gan Ben Arglwydd Natur! Y fath fodach diddym ydym. Nid yw y goreu o honom ond pryfyn, ymlusgiad isel, o'i gymharu âg eangder y greadigaeth ac amrywiaeth y bythgyfnewidiol fydysawd. Mae ein sefyllfa ddyfodol bron yn gwbl dywell i ni: "nid amlygwyd beth a fyddwn."

Awst 30. Myned i lan y mor i gael papyr gan Cad. W. Thomas. Gan na welwn neb ar y bwrdd, tynais y cwch i'r lan ac aethum ar fwrdd y llong, ac i'r caban, ystafell gul, ac yn ddigon cyfyng i fygu un, gyda *hammocks* yn fwy fel cuch na gwelyau. Prynu 6 *quire* am 4½c. yr un, cyfanwerth, ond rhoddais i Thomas 1½c. ar y fargen, a rhwyfwyd fi gan longwr i'r lan. Aethum drachefn gyda'r ddwy eneth fach at lan y môr, ac aethom gyda'r Cadben i'r cwch. Dechreuodd Catherine fach le'ain yn y cwch wrth fyned at y llong.

Medi 3. Derbyn llythyr oddiwrth Mr. Edw. Parry, Caer, yn cydnabod derbyniad yr Englynion, ac yn derbyn fy nghynnyg i'w cymeryd fel yr eiddo ei hun yn yr Eisteddfod, ac yn addaw fy nghynnrychioli innau yno os bydd eisieu. Gorphen *ledger* Mr. Pughe, myned â hi i Cochybig gyda Mr. Pughe. Mrs. Pughe yn sylwi fy mod yn myned yn dew iawn, wedi ennill llawer o bwysi o gnawd er pan yno ddiweddaf! Dychwelyd, wedi cael glasiad o win, gan ddwyn gyda mi *York's Tribes*, yr hwn a fenthycaiais yr un diwrnod i Miss Marrow.

Medi 8. *Un mlynedd ar ddeg* i heddyw y daethum i fyw a chadw ysgol yn Nghlynnog. Yr wyf yn awr yn dra gwahanol i'r hyn oeddwn y pryd hyny. Y pryd hyny yn unig yn y byd, yn wyllt, ac i fesur yn anfucheddol; yn awr yr wyf mewn llawnder, a chenyf deulu, a chryn eiddo; a diolch i Dduw, yr wyf yn gofalu am fy mywoliaeth ac yn byw yn sobr a pharchus.

Prydnawn heddyw aethum i weled Dewi Wyn i'r Gaerwen. Dechreuais fy siwrnai yn Llwyn Ne', heibio Brysgyni, hyd ffordd y mynydd heibio Hengwm, Monachdy, a Brynengan; wrth Dyddyn Ruffydd, preswylfod y diweddar Robert Dafydd, hen bregethwr Methodist,* dechreuais ymollwng i hir fyfyrdod am ddyddau sydd wedi hen fyned heibio. Bu fy mam, gwraig wir dduwiol, yn gweini yn hir yn y lle yma, ac yn wir yn y rhan fwyaf o'r ffermdai o amgylch Brynengan; gwelais y bwthyn lle y ganwyd hi, a'r fferm Coedcaedu, a chofiais lawer siwrnai yr aethwn gyda hi i addoli yn Nghapel Brynengan, yr addoldy a garai fwyaf. Cofiais y mil o hanesynau a ddywedai am dani ei hun a'i chyfeillion a'i chydnabod yn yr ardal, yr oll yn dal mwy neu lai o gysylltiad â'i hanes grefyddol a'i defosiynau. Y fath gyfnewidiadau mawrion a wnaeth traigl ychydig flynyddoedd! Yr wyf yn cofio yn dda y teuluoedd duwiol a chrefyddol a drigent yn ac o amgylch Brynengan: Wm. Jones, *alias* Jesus; Pedr Fardd, ei fab; Margaret ei ferch, a'r wraig o'r un enw; Gaynor; Morris a Richard Morris; Richard Jones, Coedcaedu;† Richard Williams; Robert Dafydd; John Dafydd, Cefnpencoed; gyda llawer eraill, y rhai ydynt oll wedi myned i'w hir gartref, neu wedi symud ymhell o lanerchau eu mebyd. Edrychwn ar y lle fel wedi ei suo i ddystawrwydd wrth lem amnaid Angel Marwolaeth! Brysiais i lawr hyd hen lwybr

* Am dano ef y canodd Eben:—

> Nodedig ei ddawn nid ydoedd,—er hyny
> Rhanai fara 'r nefoedd,
> O'i law aur i laweroedd;
> Offeryn Duw a'i ffrynd oedd.

† Wedi hyny y Parch. Richard Jones, y Wern.

adnabyddus at ffordd newydd Maughan; ni welswn y ffordd hono o'r blaen; ymddangosai i mi fel swynyddiaeth; nid oedd iddi na gwrych na mur, ond yn unig ffos ddofn wedi ei chloddio o bob ochr, a choed wedi eu planu,* y rhai erbyn hyn ydynt wedi tyfu yn brydferth, yn ffurfio *avenue* o'r fath fwyaf hyfryd, yn peri i mi feddwl wrth ei cherdded fy mod yn nghanol golygfeydd cyfoethog a theg Llanystumdwy. Yr oedd y lle yma gynt yn ddiffrwyth, oer, a noeth; ond yn awr, yn unig trwy blanu ychydig goed mewn ffordd ddeheuig, fe geir yma am gryn bellder ffordd hynod o ddymunol.

Croesais ffos y ffordd hyd bont bren, a chyrhaeddais annedd y Bardd; curais wrth y drws, yr hwn yn y fan a agorwyd gan D. Wyn ei hun. Ysgwyd dwylaw, a Dewi, druan, yn fy edmygu yn fawr! Dywedai fy mod yn edrych mor dda, mor iach, mor daclus, ac mor bobpeth ag oedd yn brydferth, fel y petrusai pa un ai ni ddylasai fy nghyfarch fel gŵr boneddig! Dywedais na wnai y fath seremoni ond tarfu ein cymdeithas ac oeri ein cyfeillgarwch. Dechreuodd yn y fan ddesgrifio ei ddyoddefiadau a'i drallodion, a chydag iaith mor gref ag a fuasai bron yn desgrifio arteithiau Uffern, y rhai yn wir yr ymddangosai ei fod yn credu eu bod mewn rhan yn cael eu harosod arno yn y byd hwn gan hollalluog law Duw ydoedd wedi digio! Dywedai fod ei ewynau yn llawn o agerdd neu bowdr, bron yn rhwygo ei gorff, ac er ei wendid, y gallai gynnyrchu gallu ydoedd yn dra rhyfeddol a dyeithr, ac fel prawf o hyny dechreuodd fy ngwthio i â'i holl nerth; gwrthsefais ei ymosodiad ar y dechreu heb ymaflyd ynddo, ond pan welai nad oeddwn yn ei wrthwynebu â'm holl nerth, gofynodd i mi ymaflyd ynddo wrth frest ei gôt, ac yntau yn ymaflyd yr un modd ynof finnau, bron yn null "'maelyd codwm breichia'," yna ymosododd arnaf â'i holl nerth, a minnau yn gwrthwynebu i gryn fesur, ond nid cymaint ag a allwn, gan adael iddo ef fyned yn drech yn ol ei ffansi. Nid ydoedd o gwbl yn gryfach na rhyw ddyn arall o'i bwysau, ac nid oedd ei ddychymyg am ei nerth ond camgymeriad pur. Yna gwnaeth i mi ddal fy llaw yn erbyn ei ben, yna pwysai ochr dde ei ben â'i holl nerth yn erbyn fy llaw, ac ymddangosai fel yn synu at anferth bwys ei ben, a dywedai ei fod weithiau bron a rhwygo y gobenydd gan ei enfawr bwys! Dywedai fod ei arteithiau neu ei boenau yn *annyoddefol;* ni allai gael un gair arall i'w desgrifio. Ni theimlai gariad at Dduw, na Iesu Grist. Nid oedd yn edifarhau am ei bechodau, y rhai er hyny a dybiai oeddent yn fwy ysgeler nag eiddo neb dynion eraill. Nid oedd yn gobeithio am ddim, hyd yn nod am faddeuant; yr oedd pob cysur wedi ei dywallt allan o hono, fel dwfr allan o lestr wedi troi ei wyneb i waered. Gwaeddai allan yn fynych, O Dduw! O'r Arglwydd mawr! Duw anwyl! a'r cyfryw ebychiadau. Nid oedd yn esmwyth am eiliad. Ceisiai weddïo, ond teimlai fod Duw yn ddigllawn wrtho, ac ni allai gael dim hyder na gobaith o'i flaen. Pan ar ei ben ei hun yn ei wely, tybiai, meddai, y gallai gael cysur o gymundeb dirgel â Duw, ond y pryd hyny nid oedd ond ysbrydion drwg yn cymdeithasu âg ef. Yr oedd teimladau tyner natur oll wedi myned; ni fyddai iddo, meddai ef, gydymdeimlo o gwbl pe gwelsai fi yn cael fy hollti yn ddau â chleddyf, er yr ymdrechai i'r eithaf i fy amddiffyn. Wrth ddesgrifio ei ingoedd, dywedai eu bod fel pe buasai geffylau yn gwrthdynu yn erbyn eu gilydd er ei rwygo yn ddarnau; fod ei arteithiau yn ddigon i ladd deugain o ddynion; fod Duw yn ei ddal i fyny i'w arteithio i ryw ddoeth ddyben. Nid oedd yn dysgwyl ymwared o'i ddyoddefaint. Yr ydoedd yn bur garedig wrthyf fi, archai de i mi, a phwysai arnaf aros dros y Sul yno. Daeth i'm hebrwng can belled a Chefnpencoed. Sylwais mor ddedwydd y gallasai fod yn mynwes y planigfeydd gwychion hyny, pe gallai ymryddhau oddiwrth ei iselder meddwl. Ei ateb oedd, Pe buasai y lle yn Ardd Eden, ac Adda ac Efa yn cerdded fraich yn mraich ymhlith y coed, nad allai efe deimlo yn ddedwydd. Ysgwydasom law ac ymadawsom. Daethum adref heibio i Langybi, a dygais "Hanes yr Eglwys" gyda mi i'w rwymo i Robert Thomas, yr hwn a ddywedai fod llyfrgell at wasanaeth y bobl ieuainc yn y lle yn cael ei sefydlu yno. Yr haf hwn rhoddwyd busnes y cwrw i fyny yn y lle gan Robert Thomas, wedi iddo gael ei gadw yn y tŷ am yn agos i ganrif.

Medi 9. Sabboth. Yn Nghapel Brynaera, yn gwrando Daniel Evans yn pregethu.

Medi 11. Codi tatws am y tro cyntaf eleni yn Nhyddyn hen. Ar fy nychweliad yr oedd Dr. Pughe, Mrs. Pughe, a Mr. Hugh Jones, cyfreithiwr, Caernarfon,

* "Maughan am goed, minnau am gân."—*Dewi Wyn.*

yn fy nysgwyl; yr oedd ar Mr. H. Jones eisieu copi o'r "Rhestr o bersonau a wrthwynebid," yr hon a roddais iddo. Aethum gyda'r tri ar eu cais i'r Sportsman, lle yr arosasom hyd yn agos i 11 o'r gloch; cawsom chwart o gwrw a photelaid o win rhyngom.

Medi 12. Galwodd Dr. Pughe i ffarwelio cyn symud i ymsefydlu yn Abermaw. Galwodd Miss Marrow cyn ymadael o Glynnog.

Medi 14. Derbyn llythyr oddiwrth Mr. Ed. Parry, o Gaer, yn dyweyd am farwolaeth sydyn ei fam, o'r hon yr ydoedd yn dra hoff, ac yn gofyn i mi wneyd ychydig Englynion ar yr amgylchiad.

Medi 17. Anfon ymaith fy Englynion, deg mewn nifer, yn galaru am farwolaeth mam Mr. Parry, o Gaer. Gwelais yn y llythyrdŷ yr un pryd gyfieithiad Ceiliog o'r "Christmas Hymn."

Medi 22. Yn Nghaernarfon yn talu nifer o filiau, ac yn prynu nwyddau gan R. Griffith a P. Ellis. Gwneyd i'r olaf gydnabod am gaso gwag y dywedai ei fod wedi ei gydnabod o'r blaen yn ol ei *Day Book*, ond darfu i fy nghyfrif i a'i filiau ei hun ei argyhoeddi o'i gamgymeriad. Siaredais â'r Parch. Thomas Thomas, yr hwn a ddywedai ei fod gyda chyfaill y noswaith o'r blaen, yn gresynu na fuasai Cymru yn gwneyd mwy i mi! Cael fy nghyfran arferol gan W., 3g. Cyrhaedd adref 4 15 yn bur wlyb; dechreuodd fwrw wrth Bontlyfni, pan oeddwn wedi galw am arian oedd yn ddyledus. Cael pethau at rwymo heddyw gan Potter. Mr. Barnsby yn sylwi fod Clynnog yn lle tra dyddorol, ac yn cyfeirio at fy nesgrifiad o'r lleoedd yn y *Gwladgarwr*. Gofidio nad oedd yn deall Cymraeg. Prynu *Chambers's Ed. Journal* am 7c., a newyddiadur am 4c.

Medi 24—26. Tynu llun fy ngwraig a'm dwy eneth yn rhodio law yn llaw. Mae arlunio yn tynu fy sylw yn fawr y dyddiau hyn; y mae yn gelfyddyd dra swynol

Medi 28. Ysgrifenu copi o *assessment* treth tlodion Llanllyfni i Mr. Hughes, Gellibach, 4s. Cael chwart o g. heddyw ar wahanol adegau. Clywed y Parch. W. Morris, Sir Benfro, y nos. Mesur muriau tŷ Mr. Hughes, y grisiau, &c.

Hyd. 2. Galwodd Mr. Rees, yr *Herald*, Caernarfon, a Mr. Hughes, gynt o Vaynol House, yn yr un lle, yn Eglwys y Bedd, y cyntaf yn dwyn i mi anrheg o'r "Gwyneddion" oddiwrth Mr. Ed. Parry, Caer, gyda nodyn yn ei ddilyn. Cerdded o amgylch y beddau gyda'r boneddigion, ac anfon bachgen am y clochydd i ddangos yr Eglwys iddynt.

Hyd. 4. Anfon i Mr. Parry, o Gaer, fy niolch am ei anrheg, gyda dau Hir a Thoddaid i Mr. Price, Crughywel, ac un i Comte de Ville, yr hwn a anfona Brenin Ffrainc i Eisteddfod Abergavenni i gynnrychioli ein brodyr yn Llydaw. Yr Eisteddfod i'w chynnal y 10fed a'r 11eg.

Galwodd Mr. Worthington, Mr. Jones, Llanllyfni, a Mr. Hughes yn fy nhŷ, y cyntaf yn dymuno gweled engraifft o fy marddoniaeth Seisonig. I ddangos fy ysgrifau, aethum i'r Ysgol lle yr ydwyf yn eu cadw, gyda y boneddigion. Canmolai y cyntaf fy marddoniaeth yn fawr iawn, a gofynodd pa fath sefyllfa a ddymunaswn gael, gan ddyweyd y byddai sefyllfa efrydgar, gydag yspeidiau o hamdden, yn fwy cyfaddas i mi na chael fy nghaethiwo i fod ar waith yn barhaus mewn swyddfa mewn heol gul mewn tref. Dywedai fy mod yn awr yn cael digon o awyr iach, yr hyn a barai fy mod yn edrych cystal, yr hyn ni chawn mewn sefyllfa o'r fath y cyfeiriai ati. Dadgenais fy nghymeradwyaeth o'i farn, a dywedais y byddai lle o'r fath a grybwyllai gyntaf yn fwy derbyniol, a theimlwn yn dra rhwymedig iddo am ei deimlad caredig. Gofynai a wnai £100 y flwyddyn y tro? Dywedais y gwnai o £60 i £70 y tro i mi, ond goreu bo uchaf. Gofynai fy oed (35), nifer fy mhlant (2), fy enw a fy nhrigfod, yr hyn oll a ysgrifenai yn ei goflyfr. Dywedai yr ymholai am sefyllfa i mi, a rhoddes i mi hanner coron. Clywais Mrs. H. yn dyweyd, wedi iddo ymadael, ei fod yn fy hoffi yn fawr, ac fod yn ddrwg ganddo na wyddai am fy modolaeth o'r blaen. Y mae efe yn foneddwr cryf, cywir, tirion, a charedig.

Hyd. 11. Galwodd Caledfryn ac Emrys. Addefais i mi anfon yr Englynion ar Arch Noah i Eisteddfod Abergafenni, ac yn ol eu cais adroddais hwynt. Ymddangosai y ddau yn eu hoffi yn fawr; dywedent eu bod yn dda iawn. Ceisiodd Caledfryn gael allan a oeddwn wedi ysgrifenu Awdl Coffadwriaeth Gomer, ac wedi deall nad oeddwn, addefai ei fod ef wedi gwneyd. Yr ydoedd gydag ef, a bu mor garedig a'i darllen drwodd; y mae yn dda ragorol, ac mi anturiaf ddyweyd heddyw, er mai dyma ddiwrnod yr Eisteddfod, ac yn y fath bellder hefyd fel nad allaf wybod dim am ei gweithrediadau, mai awdl Caledfryn ydyw yr oreu.

Y mae yn dra barddonol, wedi ei chynllunio yn y modd mwyaf destlus a phriodol, yn gref a llithrig ei chynghaneddion, yn ddesgrifiadol, tyner, a gwir wreiddiol. Mae Caledfryn wedi gwella yn fawr fel bardd y deng mlynedd diweddaf, ac y mae yn awr wedi cyrhaedd y cymeriad a gyfiawn haedda o fod y Bardd Cymreig blaenaf. Cymeradwyai Emrys fy llinellau ar "Y Farn a fydd." Dywedai Caledfryn ei fod yn myned rhagddo gyda chyfansoddi ei awdl yn ol 60 llinell y dydd, oll yn y boreu.

Hyd. 15. Darfu i'r Gwir Barchedig Ddeon Bangor* arholi fy ysgol yn y prydnawn, o tua chwarter i bedwar hyd bump o'r gloch. Y bennod oedd yr olaf o Efengyl Matthew, yr hon a ddarllenwyd *yn bur dda* gan y plant, ac atebwyd yr holl gwestiynau arni mewn ffordd dra chywir a pharod; ond pan adroddid y Catecism, ysgydwai y Deon ei ben, gan ymddangos yn dra anfoddlawn wrth eu diffyg yn y rhan hono. Rhoddodd chwe' cheiniog i Daniel Thomas, yr hwn a fernid yn oreu, a rhanodd swllt mewn ceiniogau a dimeiau rhwng y dosbarth, yn ol teilyngdod pob un yn y pethau a ganlyn :—1. Catecism. 2. Cysondeb yn yr Eglwys. 3. Cysondeb yn yr Ysgol. Ac addawai wobrwyo y flwyddyn nesaf yr eneth fyddo â'i gwallt wedi ei dori yn fwyaf destlus, "fel gwallt bachgen." Fe wnaeth y plant ddau beth yn *rhagorol o dda*, er na ddarfu iddo ef farnu yn briodol cyfeirio atynt fel yn deilwng o unrhyw ganmoliaeth na gwobr. 1. Darllen, gan sylwi ar yr attalnodau a'r gorphwysiadau wrth ddarllen, ac egluro y cynnwys yn glir trwy eu hatebion priodol. 2. Canu tôn dra chrefyddol, yn bur drefnus a chywir. Ymddangosai efe fel yn tybied hyny yn fater tra chanolig o'i gymharu â chanu "God save the Queen," yr hon a ganodd ei hun, ac a fynai i mi ei dysgu i'r plant. Mae y Fam Eglwys yn hen gorff pur gnawdol yn sicr.

Hyd. 18. Dydd Diolchgarwch am y Cynauaf yn cael ei gadw gan y Methodistiaid. Yn Nghapel y Gyrn trwy y dydd. Canwyd fy emynau i ar yr achlysur yno ac yn Capel ucha. Diwrnod pur ystormus; cymeryd anwyd yn fy nillad gwlybion.

Hyd. 27. Myned i Gaernarfon. Codasom am 3 o'r gloch trwy gamgymeriad. Cychwynais tua 6, ac yr ydoedd yn wlaw mawr a gwynt. Ar y cyfan yr oedd fy ngwario heddyw yn llawer mwy nag ar unrhyw achlysur arall er 1828; yr oedd yn wir yn 2s. 6c., a chynnwys rhywbeth i'r plant. Yr oedd yn anghyffredin o ystormus, mae yn wir, ac y mae hyn yn cyfrif mewn rhan am fy ngwario anghyffredin; ond buasai llai yn fy nghadw rhag anwyd.

Hyd. 31 i Tach. 3. Bob dydd yn codi tatws. Cefais ddau ddiwrnod ystormus iawn, yr olaf yn enwedig. Yn wlyb at y croen, ac yn faw droswyf oll. Ni fum erioed yn y fath helynt o'r blaen. Yn bur flin. Daeth fy ngwraig â thua p. o g. i mi. Bwyteais fy mara ac ymenyn yn sych yn y cae tatws. Ystafell giniaw chwith i mi! Ond i Dduw y byddo gogoniant, ac yr ydwyf yn diolch iddo o galon am fy nghadw mewn iechyd a chysur yn y dyddiau hyn o ystormydd a blinder sydd i mi mor anghynnefin. Bendigedig fyddo Duw am ei drugaredd rasiawn.

Tach. 4. Sul. Heddyw, gartref, darllenais lyfr da iawn a elwir *The Christian Remembrancer*, oedd genyf i'w rwymo. Trwy yr holl ddiwrnod teimlo defosiwn neillduol, a meddwl yn ddifrifol am grefydd, am angeu, am y farn, a byd arall. Teimlo fy ystad druenus wrth natur, a gwelaf y gwna fy nghalon dwyllodrus fy hun fy suddo byth i dragywyddol ddamnedigaeth, os na fydd i Dduw yn ei drugaredd dosturio wrthyf, a maddeu fy mhechodau, a rhoddi i mi ras i arwain bywyd sancteiddiach, a phroffesu Iesu. O Arglwydd, achub fi trwy dy fendigedig Fab. Amen.

Tach. 22. Clywed fod fy hen athraw, Wm. Owen, wedi marw yn ysglyfaeth i feddwdod ac aflendid. O, y fath greadur anwadal yw dyn!

## 1839.

Ion. 31. Yn Uwchlaw'rffynnon. Owen Williams, Waenfawr, yno. Tanysgrifio am ei *Drysorfa* am flwyddyn yn unig.

Chwef. 20. Galwodd Ambrose. Rhoddais iddo gopi o fy Englynion i'r Gwanwyn.

* Y Deon Cotton

Mawrth 8. Myned i Chwilog. Crybwyllais wrth John Thomas am Percy Bysshe Shelley. Yr oedd Shelley a Mrs. Shelley, gyda Mrs. Nanney, wedi bod yn ymweled âg ef. Desgrifiai Shelley fel cymeriad hynod iawn, o faint canolig, ac yn troi a thaflu ei ben yn ddibaid, yn edrych at nen y tŷ, ac yn sylwi ar y gwëoedd pryf copyn a grogent oddiwrtho. Yr ydoedd yn wyllt ac anesmwyth, ac nid oedd John Thomas, druan, yn ei hoffi sut yn y byd. Yr oedd Mrs. Shelley yn foneddiges hardd, ac yn edrych yn ieuanc a theg.

Mawrth 16. Eisteddfod Liverpool yn hymbygiaeth felldigedig; pobl yn cael eu twyllo a'u hymbygio am dani; beirniadaeth y cyfansoddiadau yn llawn ffafraeth. Ni yraf ddim byth i Eisteddfodau eto; ni roddaf fy hun yn ormodol byth i fesuraa Cymreig ffol. Y fath ffregod o ynfydrwydd tinciannol.

Ebrill 17. Talodd Mr. Hughes i mi £1 am y chwarter yn terfynu Mawrth 30, er nad oedd genyf ysgol am yr oll o'r chwarter diweddaf. Rhoddodd Mr. H. ar yr un pryd ar ddeall i mi fod y Deon, a'r Esgob ar adroddiad y Deon, yn dangos fod fy ysgol ar y tir isaf o egwyddor *National*, hyny yw, egwyddor Eglwys Loegr, a'i bod yn yr *ystyr yna*, y waelaf yn yr esgobaeth. Cynghorai Mr. Hughes fi i hyfforddi y plant yn fwy manwl yn ol yr egwyddor uchod. Ond dywedais i fod yn anhawdd iawn gwneyd hyny yn Nghlynnog, a fy mod yn meddwl rhoddi yr ysgol i fyny yr haf nesaf.

Ebrill 25. Ymwelodd y Parch. Mr. Thomas a Dr. William Roberts, Caernarfon, â mi. Dechreuodd Dr. Roberts ar ei destun arferol—y diffyg am addysg briodol ymysg gwerin Cymru. Y mae am flynyddoedd, yr wyf yn gwybod, wedi bod yn meddwl pa fodd i gael oddiamgylch ddiwygiad yn nygiad i fyny yr oes sydd yn codi, ond hyd yma heb ddisgyn ar gynllun tebyg i lwyddo. Awgrymais iddo y byddai Cymdeithas i'r perwyl o gynnal darlithydd neu ddau, i draddodi areithiau ar ddiffyg addysg trwy Gymru, yn debyg o godi archwaeth yn yr hen Frythoniaid at ddysg, &c. Cytunai yn fawr â mi, gan fod y Cymry, fel y dywedai, yn hawdd i'w cynhyrfu.

Meh. 1. Galwodd Caledfryn ac Emrys, ac aethum ar eu cais i'w hebrwng can belled â Cefn gwreichion. Addewais gymeryd copi o lyfr Caledfryn, ac hefyd i ysgrifenu iddo lythyr ar y 24 mesurau Cymreig, yr hyn, meddai, a ddymunai gael.

Meh. 22. Aethum i Bwllheli. Cymerodd Robert Jones, Penlon, fi i'w barlwr, a rhoddodd i mi lythyr gwreiddiol o eiddo Goronwy Owen at y Parch. H. Williams, Rector Aberffraw.

Gor. 4. Tynu i fyny gyfammod, a'i gadarnhau â'm deheulaw ar yr Efengyl sanctaidd, i roddi fy hun, gorff ac enaid, i Iesu Grist, i gael fy nghadw trwy ffydd yn ei enw, ac ymdrechu gwneyd pa beth bynag a orchymynodd, a gweddio am ras Duw i fy nghynnorthwyo i'w gadw.

Gor. 9. Robert Hughes yma; peth dadl gydag ef ynghylch ysbryd anoddefol y Methodistiaid gyda golwg ar Ddirwest; dywedais fy mod yn meddwl ymuno â rhyw eglwys, ond fy mod yn cael fy nhaflu yn ol rywfodd, yn hytrach na fy nwyn ymlaen.

Gor. 16. Yn teimlo gyda'r mwynhad puraf a'r hyfrydwch mwyaf dymunol rhyw ogwydd mewnol yn fy enaid at sancteiddrwydd. Yr ydwyf, trwy anfeidrol drugaredd Duw, wedi bod yn ddeisyfwr difrifol a chyson wrth orsedd gras am yr 8 neu y 9 mlynedd diweddaf; yr ydwyf yn ddibaid wedi bod yn erfyn ar Dduw drugarhau wrthyf trwy Iesu Grist, fy argyhoeddi o bechod, fy nghynnorthwyo i wir edifarhau, agor fy llygaid i weled fy angen am Grist, a chymhwysder a gogoniant y Gwaredwr Dwyfol; ond trwy y 9 mlynedd maith a digysur, yr ydwyf wedi bod mewn gwlad sydd fel cysgod angeu, heb ond rhyw belydriad gwanaidd o oleuni yn awr ac yn y man. Yr oeddwn hefyd yn fwy fel y marw na'r byw mewn ystyr ysbrydol. Cyflawnwn bob dyledswydd yn wael, ac ni chyflwynwn ond aberth rhanol a chloff i Dduw. Yr oeddwn, mae yn wir, mewn ystad fwy ffafriol na'r 8 mlynedd blaenorol. Pan yn 8 mlwydd oed, edrychwn ar grefydd fel y trysor gwerthfawrocaf a allai dyn feddu; teimlwn beryg! fy sefyllfa wrth natur, ofnwn Dduw ac ymdrechwn gadw ei orchymynion; carwn ei bobl, cofleidiwn grefydd, daethum yn broffeswr, ac ymborthwn ar laeth y gair; gweddïwn yn fynych, ac, mewn gair, rhoddwn fy hun i Dduw. Arosais felly am 12 mlynedd, gan fynychu pyrth Sïon, a cherdded gyda'r saint i dŷ Dduw. Yr oedd fy mam dduwiol a charedig yr holl amser yma o help a bendith ddifesur i mi. Dygai fi ymlaen, cynghorai, attaliai, calonogai, a dysgai fi, fel y

gofynai yr amgylchiad, gyda serch a chariad duwiol. Mae hi yn awr mewn gogoniant, yn dragywyddol ddiogel o demtasiynau a thrallodau'r byd. Tua'r amser y collais i hi, gweithiai cwpan meddwol pleserau ieuenctyd a hudoliaethau cnawdol y byd hwn mor nerthol ar fy nghalon lygredig, fel ag i fygwth llwyr ddiffoddiad pob tuedd dda a defosiwn nefol o'm mewn. Mi ymdrechais, fodd bynag, i ddal fy mhroffes am ddwy flynedd, nid heb ychydig ynfydrwydd ac afreoleidd-dra ag oedd yn ofnadwy argoelus o'r llwyr ddymchweliad oedd yn fy aros, ac a brofais tua Tachwedd, 1822. Yr oedd fy mam wedi marw yn Mawrth, 1821. Y pryd hyny, Tachwedd, 1822, gadewais y *society*, a theflais fy hun gyda'r rhyfyg mwyaf gwallgof i drobwll cnawdolrwydd, ysgafnder, anghymedroldeb ac aflendid! Parheais yn yr yrfa ofnadwy yma o ddrygioni am tua 5 mlynedd. Yna mi a arefais fy nghamrau ychydig, daethum yn lled gymedrol, ac am 2 neu 3 mlynedd ymollyngwn yn llai gyda phleserau cnawdol. Yna priodais, ac wedi priodi darfu i demtasiwn arall bron ddinystrio fy enaid, sef anffyddiaeth. Darllenwn Paine, Menusin, Byron, Volney, &c., a bron na fwyteid fi i fyny gan groocdil uffernol ammheuaeth ac anffyddiaeth. Yr wyf yn dyweyd *bron*, canys yr oeddwn yr holl amser yma wedi dal rhyw barchedigaeth cynhes i'r hen wirionedd o dragywyddol lawenydd, rhagluniaeth a iachawdwriaeth. Mewn rhyw 3 neu 4 mlynedd yr oedd y cynddaredd dall a'r duedd gableddus yn marweiddio; daethum yn fwy defosiynol, yn bynciol argyhoeddedig o wirionedd y grefydd Gristionogol; ac yn awr, am y 2 flynedd ddiweddaf, mi deimlais ar adegau fawr ddymuniad i ddychwelyd i fynwes eglwys Crist. Eto yr oedd rhyw ysgafnder neu gilydd, rhyw degan, rhyw demtasiwn yn fy rhwystro i feddwl yn ddifrifol yn ei gylch. Ond tua phythefnos neu dair wythnos yn ol, mi deimlais rhyw law gref yn gafaelu ynof. Yn awr yr wyf yn teimlo mawr ddrwg fy mhechodau; mae fy mywyd ffiaidd, a'm gwrthodiad gwaradwyddus o bobl yr Arglwydd, yn pwyso fel mynyddoedd arnaf ar amserau; ac y mae rhai ymadroddion o lyfr Duw y rhai a ymddangosant fel yn fy rhwymo law a throed, fel na allaf symud i droseddu yn erbyn y Jehofah sanctaidd a chyfiawn; megys, "Na thwyller chwi, ni watwarir Duw," &c. Yn awr yr wyf yn teimlo na allaf wneyd dim o honof fy hun, ond yr wyf yn hyderu nad ydyw Duw wedi fy ngadael i ddinystr, er i mi ei ddigio gymaint; ac yr ydwyf yn gweddïo ar i fawredd nerth ei Ysbryd weithio ynof yr oll sydd yn eisieu i'm cymmodi âg ef, ac i'w wasanaethu o'r awr hon a hyd dragywyddoldeb. Yr wyf yn penderfynu peidio byth a throi oddiwrtho, a "phe lladdai efe fi, eto mi a ymddiriedaf ynddo." O Dduw, er mwyn Iesu ——

Gor. 21. Sul. Teimlo tristwch am fy mhechodau, ac yn awr y mae yn dywyll yn wir. Gartref fy hunan y prydnawn, yn darllen y Bibl a gweddïo yn ddifrifol a di-ildio am yr Ysbryd Glân i weithio yn fy enaid. Eto y mae y tywyllwch yn aros. Dychwelyd at y Bibl; cael fod bendithion anmhrisiadwy wedi eu haddaw i'r rhai a ddychwelant at Dduw: ond ammeu gwirionedd fy nhristwch a'm hedifeirwch. Syrthio i lawr o flaen gorsedd gras yr ail waith, a theimlo fel pe buasai genyf ryw afael ar y Ceidwad, ond yr ydoedd yn egwan ac ammheus. Codi yn hwyrfrydig, gan deimlo ychydig iawn o ymwared. Myned i wasanaeth y capel, eto ychydig iawn yn well. Myned i'r gwely gyda gobeithion gweiniaid iawn.

Gor. 22. Yn fuan wedi codi rhedai yr Ysgrythyrau hyn trwy fy meddwl, "Canys anmhosibl yw i'r rhai a oleuwyd unwaith . . . ac a syrthiant ymaith, ymadnewyddu drachefn i edifeirwch!" A hefyd Heb. x. 25—28, y rhai a swnient fel taranau trwy fy enaid euog! Yr ydwyf yn wir wedi esgeuluso cydgynnulliad y saint; mae y canlyniadau gan hyny yn ofnadwy. O Arglwydd, a ydwyf felly wedi fy nhaflu fy hun tu hwnt i derfyn dy drugaredd! Ai nid ydwyf i ddysgwyl dim ond angerdd tân! Maddeuant! Maddeuant! Er mwyn Iesu Grist, maddeu, a dychwel fi!

Gor. 25. Heno yr oedd eglwys y Gyrn goch yn cyfarfod; yr oeddwn ar fyned yno, ond cefais y fath ymryson a rhyfel o'm mewn ag a barai i fy holl gorff grynu. O, y mae yn galed! O Arglwydd, cryfhâ nerth dy ras yn fy enaid. Gan ei bod yn gynauaf gwair, a rhai o'r blaenoriaid oddicartref, trefnwyd i Mary fyned heno, a minnau yr wythnos nesaf, os byddaf byw.

Awst 1. O ryfedd hirymaros ac amynedd Duw! Yr hwyr hon, beth a wnaethum? O ryfedd, ryfedd! Pechadur brwnt, gwrthgiliedig, wedi cael dychwelyd at Dduw heb ei ysu! Fe gofir *yr hwyr hon* i dragywyddoldeb. Yr ydwyf trwy

anfeidrol ras Duw, wedi dychwelyd i'w eglwys yn nghapel Sion. Yr oedd yn galed, bron yn rhy galed i gig a gwaed! Fel yr elwn ar fy mhen fy hun, dysgwyliwn yn fynych gael fy nharo yn farw ar y ffordd. Yr oedd cur tost yn fy mhen trwy y prydnawn, a thra yr oeddwn yn y capel; teimlwn fel pe buasai fy ymenydd ar dori trwodd; yr oedd fy ngenau yn boeth a sych; yr ydoedd yn brofedigaeth ofnadwy. Dychymygwn fy hun fel troseddwr o flaen mainc barn, heb allu codi fy mhen; y gwrthgiliwr dirmygedig o rengau byddin Crist wedi ei ddwyn yn ol trwy yr Ysbryd Glân â chleddyf ei enau, a dysgwyliwn bron y cyhoeddid collfarn arnaf ac na oddefid i mi ymuno â'r rhengau drachefn. Fodd bynag derbyniwyd fi i'r tŷ, a rhoddwyd i mi galondid a gocheliad gyda phob addfwynder a chariad. O Arglwydd, sancteiddia fi, defnyddia fy enaid a'm corff er dy ogoniant weddill fy nyddiau; dyro i mi lawer o'th ras, a thywallt dy Ysbryd sanctaidd arnaf yn barhâus; nertha ac arwain fi, onidê mi syrthiaf eto dan draed fy ngelynion. Ynot ti yn unig yr ymddiriedaf. O cadw fi ac arwain fi! I ti yr wyf yn rhoddi fy mywyd, derbyn fi er mwyn Iesu. Amen.

Awst 2. Bore heddyw, gweddïais yn gyhoeddus ar ol brecwast, a dywedais ras bwyd cyn ac wedi ymborthi. O mor galed ydyw ymryddhâu oddiwrth yr hualau sydd yn glynu wrthyf; yr ydoedd yn ymdrech fawr, ond trwy Grist yr hwn sydd yn fy nerthu, nid oes dim yn rhy galed. Dy ras a'th Ysbryd sanctaidd, O Arglwydd! Eneinia fy enaid â hwynt.

Yn awr y mae wedi gwlawio bron yn ddibaid am yn agos i dair wythnos. Ychydig iawn o wair sydd wedi ei gael, ac mae y cnydau yn gorwedd ac mewn rhan wedi pydru. Mae dy farn arnom, O Dduw; arbed ni eto, a thrwy gleddyf dy Ddwyfol wirionedd, dwg ni i edifeirwch ac i ymostwng i'th lywodraeth.

Heddyw galwodd Mr. Turner, un o amryw foneddigion ieuainc o Gaergrawnt sydd yn aros yn y Plas, i weled fy nhlysau: dymunai hefyd weled peth o'm barddoniaeth; rhoddais fenthyg fy ysgriflyfr iddo; boddheid ef yn fawr gan fy llinellau "I Wraig Rinweddol;" dymunai i mi ysgrifenu copi iddo, yr hyn a wnaethum. Siaradem ynghylch *Mathematics*, a rhoddodd i mi rai cyfarwyddiadau i weithio y *Binomial Theorem*, y rhai a ystyriwn yn dra gwerthfawr. Bu mor garedig ag ysgrifenu y rhai hyn. Y mae yn ysbryd cydnaws, ac yr ydwyf yn ei hoffi yn fawr.

Awst 3. Tywydd teg, sych. Aethum i Gaernarfon; cael llog yn y Banc, £2 17s. 9c., y rhai a orphenais yn £10 i'w gosod at yr hyn oedd i fewn o'r blaen; mae y cyfanswm yn awr yn £110. Yr wyf yn diolch i Dduw am y cysuron hyn, a bydded i mi fyw i'w ogoniant wrth fwynhau ei ddoniau hael. Talu i R. Griffith a chael ychwaneg o nwyddau. Ni archwaethais ddyferyn o ddiod feddwol mewn un modd; cychwynais adref tuag un, a chyrhaeddais tua 4. Yn bur flin, yr hin yn boeth. Yn y prydnawn galwodd Robert Hughes, ac eisteddodd i ymddyddan beth amser.

Awst 4. Clywed heddyw fod Mr. H., sydd weinidog yr efengyl wrth ei broffes, yn dechreu gwawdio fy ymuniad âg eglwys y Gyrn, yn dyweyd llawer o ynfydrwydd celwyddog yn ei gylch er gosod rhyw ddeongliad anffafriol ar fy ngwaith yn myned i'r *society*. Ond yr Iesu a broffeswyf ddilyn a ŵyr nad oes gen' i yr un dyben mewn golwg yn hyn ond ei ogoniant ef a fy iachawdwriaeth dragywyddol fy hunan, mor bell ag yr wyf yn fy adnabod fy hun; ac y mae efe wedi rhybuddio ei ddilynwyr y rhaid iddynt ddysgwyl erledigaeth os deuant ar ei ol ef, ac i'w ddilyn ef y rhaid iddynt gymeryd i fyny eu croes beunydd. Nertha fi, O Arglwydd, ymhob profedigaeth, â'th ras a'th Ysbryd sanctaidd, i'th egluro dy hun yn fy enaid, ac i'm cynnal ymhob sefyllfa, i'th ogoniant ac i achubiaeth fy enaid, trwy Iesu Grist. Amen.

Awst 9. Wedi gwneyd 3 neu 4 o ddyddiau teg, fel y mae yr hen wair wedi ei gael yn lled gyffredinol, ond y mae cryn lawer eto allan, a chyfran helaeth heb ei dori.

Teimlo fy nghalon yn galed iawn y dyddiau hyn. Ofni yn fawr nad oes genyf fywyd newydd, neu y *teimlwn* yn fwy angerddol. Cadw i fyny ddyledswydd deuluaidd bob bore a hwyr.

Awst 10. Gan fod genyf achos i fyned i'r Plas ar fusnes, gwelais R. Tecwyn yno. Eisteddais ryw hanner awr gydag ef a chefais b. o g. gydag ef. Dechreuodd ganmol Englynion Iago Emlyn i Arch Noah, a rhedeg i lawr yr eiddof fi. Nodais allan iddo rai syniadau plentynaidd o'r eiddo Iago, megys cymharu yr Arch i gryd, a'r Diluw i lyn; yr Arch i "gaead i geuffos," &c., &c. Ond nid oedd

Bob yn gweled, a chan ei fod yn benderfynol o farnu yn ddall a rhagfarnllyd, rhoddais ef i fyny; o hyn allan nid ystyriaf ef yn gyfaill. Ni chefais ef erioed yn ddyn trwyadl dda; mae yn anfoesol, yn ammheuwr, ac yn froliwr swnfawr.

*Society* yn nghapel Gyrn goch. Griffith Solomon yno. John Thomas a minnau yn cael ein derbyn i lawn gymundeb. O Arglwydd, gwna fi yn golofn yn dy deml, ac na ad i mi byth fyned allan eto, er mwyn Iesu. Amen.

Awst 17. Galwodd y Parch. Mr. Thomas, Caernarfon, a'r Parch. Mr. Jones, awdwr llyfr ar "Druidism," yn fy nhŷ, gan ddymuno gweled fy nhlysau a pheth o'm barddoniaeth; dangosais iddynt y naill a'r llall, ac ymddangosent yn cael eu boddhau.

Awst 18. Clywed fod Isaac Morris wedi clywed am fy nychweliad i'r *society*, ac fod yn dda iawn ganddo, yn gystal â'r holl eglwys yn Ysgoldŷ, ac y dymunai i mi gael gwybod am ei fawr lawenydd ar fy rhan, gan ddyweyd nad ydoedd erioed wedi fy rhoddi i fyny.

Awst 25 a 26. Teimlo dymuniad mawr am gyflawniad addewid yr Arglwydd arnaf, i "dywallt arnaf ysbryd gras a gweddïau."

Awst 30. Galwodd Mr. Jelf, Athraw yn Christ Church, Rhydychain, a Mr. Baldston, efrydydd o'r un Coleg, yn fy ysgol, ac addawsant i mi 12s. bob un am ddysgu geneth gyntaf ac ail eneth Mrs. Hughes, Tyddyn hen, am un flwyddyn, yr henaf i ddechreu ei hysgol gyntaf, ac os na fydd wedi dyfod mewn mis, ei bod i'w gadael allan, ac unrhyw blentyn a ddewisaf i gael ei lle. Yn y prydnawn cyfansoddais ychydig linellau o farddoniaeth iddynt i ddiolch am y sylw a dalasent i'm hysgol, y rhai a roddais iddynt yn Tyddyn hen yn yr hwyr. Mae Mr. Jelf yn ysgolhaig clasurol uchel iawn, ac yn awr yn golygu rhyw lyfr Groeg. Gwelais gyfrol fawr o farddoniaeth Groeg yn ei lyfrgell, &c. Cynnwys fy llinellau oedd, cwyn o ddiffyg nawdd a chefnogaeth i mi a fy ysgol, sylw ar garedigrwydd y diweddar Ficer at yr ysgol, galar am ei farw, ymweliadau arholiadol Deon Bangor, ond ddim yn ddigon mynych, y côf diolchgar a goleddid genyf fi a'r plant a ffafrient am y ddau foneddwr, a dymuniad am ffafr Duw arnynt. Parent i mi alw yn y Plas yfory am y 24s.

O Arglwydd, i ti y mae pob diolch oddiwrthyf yn ddyledus; dyro i mi dy Ysbryd a'th ras i'th wasanaethu yn ffyddlawn a goleuedig fy holl fywyd, er mwyn Iesu.

Medi 3. Gweddïo yn gyhoeddus am y waith gyntaf yn y *society* yn nghapel Gyrn goch, ac yr oedd fy Nuw yn dda i mi; ni chuddiodd ei wyneb oddiwrthyf. Gogoniant i'w enw.

Medi 5. Diwrnod y Sasiwn yn Nghaernarfon. Hin gymylog. Codi 2 o'r gloch y bore, gwneyd coffi a gwisgo; cymerodd Dic Jones a Will Jones gwpanaid o goffi gyda mi tua 3, a chychwynasom ynghyd i Gaernarfon. Pan gyrhaeddasom y maes yr oedd Charles Mellish yn gweddïo, a phregethodd Foulk Evans ei hunan. Ar y maes am 10, pregethodd Daniel Evans a John Elias. Yr oedd yr hin yn bur annymunol yn ystod y bregeth gyntaf, gwlaw mân yn parhâu; yn ystod yr ail bregeth, eiddo Elias, gwlawiai yn fawr, yr *umbrellas* i fyny a'r gwlaw yn tywallt hyd flaenau eu hasenau. Parhaodd y gwasanaeth am 2 awr, yn ystod pa amser, fel yn yr odfa 6, sefais i fyny yr holl amser fel post. Yr oeddwn yn dra blin, fy aelodau yn *stiff*, fy holl gorff wedi llesgâu trwy flinder, a'm meddwl yn bur isel. Wrth fyned i'r dref, cyfarfyddais â John Owen, Ty'nlon, yr hwn a ddymunai arnaf gymeryd ½ p. o g. Wrth deimlo mor lesg cydsyniais, a dyma yr unig ddyferyn a brofais trwy y dydd; gan na chymerwn gwrw, dymunai arnaf gymeryd ciniaw gydag ef, y talai efe. Ciniawsom mewn *cookshop*, ciniaw gwael iawn a phrin ydoedd. Wedi gwneyd peth busnes mewn amryw siopau, a gwrthod ciniaw gwell ar ol hyny, aethum i'r maes drachefn, Richard Jones, Bala, a William Roberts, Amlwch, yn pregethu yn bur dda ac yn bur hir, dros 2 awr. Yr oedd y wybren erbyn hyn wedi clirio, a pharhaodd felly dros weddill y dydd. Wedi'r gwasanaeth, aethum i'r dref a chymerais dê gyda Wm. Pritchard, y llyfrwerthwr, yr hwn oedd o'r blaen wedi fy ngwahodd. Yr oeddwn yn hoffi Mrs. Pritchard yn fawr iawn; yr ydoedd mor ddoeth, mor barchus, mor ddiymhoniad a dymunol ymhob ffordd, yn dra gwahanol i'r merched yr oeddwn wedi breewesta gyda hwynt. Saesones ydyw, wedi cael addysg dda, ac heb ddim o rodres gwag a ffol y merched eraill. Cyrhaeddais adref tua 8, gyda Griff. Roberts, Tanygraig. Yr oedd y pregethau yn dda iawn, yn cynnwys addysg a chynghor tra ymarferol a gwerthfawr, a theimlwn bleser i ryw radd yn ngwirioneddau yr efengyl a gy-

hoeddid yno, er fy holl flinder. Ond gallwn sylwi fy mod yn dal fod un bregeth yn y capel yn well na 6 ar y maes i ddyn yn fy amgylchiad i, wedi cerdded cymaint ac yn gorfod sefyll yr holl amser. Yr wyf yn dyweyd *gwell*, o ran y lles a all brofi i'r gwrandawr. Mae yn gofyn ansawdd meddwl tawel a sefydlog, a chlirder meddwl i wrando pregeth i fuddioldeb, i'r hyn ni cheir fawr o help oddiwrth gorff llesg a blinedig.

Medi 7. Cael hyfrydwch annhraethadwy mewn cymundeb â Duw trwy weddi a myfyrdod ar fy ffordd i Chwilog.

Medi 28. Yn Uwchlaw'r-ffynnon, wedi cymeryd llyfrau oeddwn wedi rwymo i Robt. Hughes.

Hyd. 4. Y Tra Pharchedig, Deon Bangor, yn arholi fy ysgol. Yr oedd genyf 15 o blant yn fy nosbarth cyntaf; yr oll yn yr ysgol, 12 o enethod a 23 o fechgyn. Y bennod, Ioan xiii. Dechreuwyd trwy weddi, yr hon a ddarllenwyd gan Simon Roberts. Gallai Cadi Jones, fy Ellen i, a Jane Phillip adrodd yr holl Gatecism. Atebai y dosbarth yn gyffredin y cwestiynau a roddid yn bur ganmoladwy; yr oedd y Deon yn cael ei foddhau yn fwy nag erioed y tro hwn; canmolai y plant yn fawr, yn neillduol Cadi Jones; darfu i'r holl blant yn wir wneyd yn bur dda, ac yr oedd yn dda iawn genyf eu gweled yn ateb cystal. Rhoddodd y Deon 3s., a'r Ficer 2s. i'w rhanu rhyngddynt; Cadi Jones 6c., Simon 4c., y lleill 2g. yr un. Yn y Sportsman ar ol yr arholiad, 3½ p. o g. pur ddiniwed.

Hyd. 8. Dydd Mawrth, am 9 o'r gloch y bore, rhoddodd fy ngwraig enedigaeth i eneth braf. Am y waredigaeth drugarog hon, yr ydwyf yn diolch o waelod calon. O drugarog Dad, derbyn fy aberth diolch tlawd am y ffafr fawr hon.

Hyd. 13. Y Sabboth hwn!

Hyd. 19. Sadwrn, yn y prydnawn, tua 3 o'r gloch, bedyddiwyd fy ngeneth fach yn yr Eglwys, gan y Parch. Lewis Hughes, tad a mamau bedydd, Mr. a Mrs. Griffiths, Plas, a Miss Betsy Williams, y Sportsman. Galwyd hi Elizabeth, ac yr wyf yn gweddïo ar i Dduw beri ei haileni a'i gwneyd yn blentyn iddo ef i dragywyddoldeb! Tê wedi dyfod i mewn, wrth yr hwn yr eisteddodd y cwmni uchod a minnau.

Hyd. 29. Diolchgarwch cyhoeddus yn nghapel Sïon, gweddïais yn nghyfarfod y bore.

Tach. 6. Ffair Clynnog. I fewn trwy y dydd yn brysur yn y siop. Dangosodd meddwdod ei hun heddyw yn Nghlynnog yn ei effeithiau mwyaf melldigedig ac adgas.

Tach. 16. Myned i Gaernarfon, prynu amryw nwyddau a "Drych" Caledfryn. Gweled fy hun ynddo.

Tach. 17. Sul. Cyhoeddwr y *Gwladgarwr* yn y Plas, ac anfonodd fachgen i ddymuno arnaf fyned ato yno. Ystyriwn yn ddyledswydd arnaf wrthod, ac felly anfonais genadwri i ofyn iddo ef ddyfod i lawr, gan na thybiwn yn gyfreithlawn i Gristion fyned i Inn ar ddydd yr Arglwydd. Cymerodd Parry, fodd bynag, dramgwydd, a gyrodd heibio fy nhŷ heb gymaint ag edrych arno.

Tach. 18. Aethum i'r Gaerwen, a chyfarfum â Robert Hughes, Uwchlaw'r-ffynnon, yno. Yr oedd Dewi Wyn wedi cychwyn ymaith ar draed, gydag un o'r gweision, rai oriau yn flaenorol. Nid oedd wedi tori ei farf er ys rhai diwrnodau, ac yr oedd ganddo am dano hen grys gwlanen meddai y forwyn; bwriadai fyned i Gaernarfon neu Fangor. Diwrnod gwlyb iawn. Ysgrifenais Englyn yma ar fy siomedigaeth. Wrth ddychwelyd o'r Gaerwen galwodd Robt. Hughes a minnau efo Mr. Robt. Thomas, Llangybi. Cyfarfuom â John Owen, Gwyndy, yno, ac ymneillduasom ynghyd i ystafell i ddarllen fy Awdl ar Job. Canmolai Mr. Thomas a John Owen hi yn fawr iawn, gan ddyweyd fy mod yn sicr o ennill. Yfais dê yno; adref erbyn 8.

Tach. 19. Huw Tegai yma; prynais ei lyfr; argraffodd 1500 o gopïau, y draul argraffu £24; y llyfr yn gwerthu am 1s.

Tach. 22. Galwodd Mr. Robt. Thomas, Llangybi. Addewais iddo gopi o fy Awdl ar Job. Aethum i Gilcoed tua 9 yr hwyr i ymofyn chwarter o *Beef* at ein gwasanaeth.

Tach. 28, 29. Casglu at y Fibl Gymdeithas.

Rhag. 9. Yn ystod fy absennoldeb yn Cochybig, galwodd y Parchn. G. Caledfryn, Ambrose, a Parry, Conwy, yn fy nhŷ.

# LLYTHYR O FANAW AT GYMDEITHAS D. AB. GWILYM YN RHYDYCHEN: MEDI 1888.

DYMA fi wedi treulio wythnos bellach o'm gwyliau y' Mhorth y Santes Fair, yn rhan ddeheuol yr Ynys, a dyma fel y byddaf yn bwrw fy amser: af allan ar ol brecwast i siarad a rhyw hen wraig neu grydd lled segur sydd yn medru Gwyddeliaith yr Ynys, canys rhaid i chwi ddeall mai cangen o'r Wyddeleg yw hen iaith y Manawiaid, ac mai'r Wyddeleg yw fy mhrif gymhorth i'w dysgu, ac nid y Gymraeg—mae hono yn rhy annhebyg iddi. Gofynaf i'r Manawiad pa fodd y gelwir y peth a'r peth; ac yna dynwaredaf ei gynaniad ef o'r gair nes cael fy nhafod obeutu iddo, fel y dywedir yma. Prif anhawsder y Cymro wrth ddysgu'r iaith ydyw y rhoddir dwy sain i'r cydseiniaid *l*, *n*, *r*. Tebyg i *r* Gymreig ac *r* Seisonig yw y ddwy *r*, ac nid oes anhawsder o bwys ynglyn a hwynt, ond y mae i *l* sain fain neu sain wleb fel y geilw y Ffrancod hi: dygwydd yn fynych ddigon yn eu hiaith ac ysgrifenant hi yn *gn*; ac y mae ganddynt hwy, y Ffrancod, sain wleb hefyd i *l* sydd yn anhawsder i mi yma. Y mae'r seiniau gwlybion hyn i'w cael ymhob cangen o'r iaith Wyddelig pa le bynag y siaredir hi, yn Manaw, yn yr Iwerddon neu yn yr Alban a'i hynysoedd; ac y mae yn gryn faen rhwystr i'r Cymro na wŷr ddim am seiniau o'r fath oddigerth hwyrach y sain boerawl a roddir mewn rhanau o Arfon i gydsain ôl geiriau fel *brawd*, *bod*, *het* a *chwt*. Anhawsder arall ydyw y meddala y Fanaweg y cydseiniaid celyd i raddau eithafol pan safont rhwng llafariaid. Cymerer yn engraifft y gair am "ddechreuad," sef *toshiaght*; seinir *shi* ynddo fel *j* y Ffrancod: dyna o leiaf a glywaf i ar brydiau, ond brydiau eraill ni chlywaf ddim ond yr *i* fel hanner cydsain a'r *sh* wedi myned ar ddifancoll hollol. Cymerer eto y gair *peccee*, "pechaduriaid:" y mae'r *cc* mor ddiflanedig ynddo o ran sain fel mai anhawdd i Gymro wybod pa fodd i'w ysgrifenu: seinir yr *g* yn y gair Ellmynig *sagen* rywbeth yn debyg mewn rhai o dafodieithoedd yr Almaen. Un engraifft eto: byddaf yn arferol o gael gan fy addysgwyr wneuthur brawddegau byrion i mi i'w hateb; ac mewn un o honynt defnyddid y geiriau *ro hâvi*: dyna fel yr oeddwn yn ei ysgrifenu yn ol y cynhaniad. Ar ol dyfod i'm lletty byddaf yn edrych am y geiriau yn y geiriadur Manewig, ond methu cael codiad yr oeddwn ar y ddeuair hyn, er y gwyddwn mai yr ystyr oedd "rhy gyflym." Ni wyddai y gwr a'u defnyddiai nemawr i ddim am sillebu, a bu agos i mi orfod addef nas gallwn gael hyd i *hâvi* yn y geiriadur; ond gwyddwn y cymer *h* le *t* ac *s*, er hyny nid oedd *tâvi* na *sâvi* i'w gael yn y llyfr. Pa fodd bynag, erbyn deall dirgelwch toddiad y seiniau, daethum i weled mai *ro happee* yw ffurf ysgrifenedig yr hyn a seinir yn *ro hâvi*, ac mai ffurf annibynol *happee* cyn cyfnewid y gydsain flaen, yw

*tappee*: felly y saif yn yr eirlechres, ac nid rhyfedd nas gallwn ei bigo rhag blaen.

Dyna fi wedi rhoddi i chwi engraifft neu ddwy o gyfnewidiad y cydseiniaid blaen, a gwelwch ei fod yn fwy cyfnewidiad na'r rhan fwyaf o'r cyfnewidiadau cyffredin yn y Gymraeg, oddigerth wrth anfon *g* i ddiddymdra pan, er engraifft, yr aiff *gwr gwraig* yn *'wr un 'wraig*. Ni ddiflana yr *g* Fanewig felly, ond troir hi yn *gh*, a seinir yn *ch* feddal debyg i'r *g* Ellmynig y cyfeiriais ati. Yr oedd y sain hon yn y Gymraeg tua'r 9fed a'r 10fed ganrif, a cheidw ei lle yn y tafodieithoedd Gwyddelig o hyd. O ran hyny gwna lawer mwy, a dyna'r gwaethaf am dani, canys *gh* yw adlawiad *d* yn gystal ac *g*, ac etyb felly weithiau i'n *dd* ni, megys pan êl *dooinney*, "dyn," yn *daa ghooinney*, "dau ddyn." Dangosais eisoes y cyfnewidir *t* ac *s* yn *h*, a naturiol i chwi ofyn pa beth a ddygwydd i *tr* ac *sl*. Rhyw annyben yw y Manawiaid yn eu hateb; cyfnewidir *tr* yn *hr*, ond i'r llygad yn unig, canys seinir yr *hr* fel *chr* yn y Gymraeg. O ganlyniad aiff "pechaduriaid truain" y Litani yn *peccee hreih*, lle y seinir yr ail air yn *chrei*. Nid wyf eto wedi cael fod yma neb yn arfer seinio *hr* fel *rh* y Cymry, fel y buasid yn dysgwyl, ac fel y gwneir mewn rhanau o'r Iwerddon. Gyda golwg ar *hl*, y gair am fynydd yw *slieau*, a seinir yn debyg fel pe buaswn yn ysgrifennu *sliw* yn Gymraeg; ond pan gymer cyfnewidiad y gydsain le buasid yn dysgwyl i'r gair fyned yn *hlieau* ac i'r *hl* gael sain debyg i *hl* yn Gymraeg pan ofynir "y'mh'le," neu yn fyrach fyth "hle;" ond yn yr iaith hon aiff yr *hl* yn *cl* yn ddigon cyffredin y dyddiau hyn; a phan ddodir *mullagh*, "pen," o flaen *slieau* gyda'r fanod rhyngddynt, gwna'r cyfan y geiriau *mullagh y clieau*, "pen y mynydd." Clywais haeru mai *mullagh y chlieau* a ddylai fod, ond nis gwn ond am un dyn a'i seinia felly. Soniwyd wrthyf mewn cyfarfod henafiaethol am dŷ a elwir *Fo lieau*, a holais yn fanwl am yr enw, canys anhawdd genyf goelio ei fod yn ddi-wall; gwisgai y boneddwr a'm hysbysai am dano glos pen glin Sais, os dyna'r Cymraeg am *knickerbockers*; geilw y Ffrancod wisg o'r fath yn glos i beri chwerthin, am mai dyna fyddant hwy yn arfer ei wneyd pan welont Sais yn dangos ei goesau yn y math hwnw o ddilledyn. Nid yw hyny o bwys mawr ar hyn o bryd, ond yr oedd cwtanwch y clos yn ddigon o awgrym i mi nad oedd fawr o wybodaeth o Wyddeliaith yr Ynys ynddo; ac ar ol dyfod yn ol o'r cyfarfod, holais ynghylch yr enw, a hysbyswyd fi mai *Fo hlieau* yw yr enw, a chefais ymhellach y seinir ef yn union fel pe buasid yn ei ysgrifenu yn Gymraeg yn *Fo lliw*, neu yn fwy cyflawn yn *Fo 'n lliw*, sef yw hyny "Tan y Mynydd." Ceir yma fel y gwelwch fod yr *hl* wedi myned yn *ll* Gymraeg, fel y byddwn ni weithiau yn gwneyd, *'h'le ma' fe* yn *lle ma' fe*. Dyna ddigon, hwyrach, a mwy na digon ar y cydseiniaid; ac ar ol ysgrifenu hyn o druth, rhaid i chwi ddeall fod pythefnos wedi pasio cyn ysgrifenu rhagor, a bod rhan o'r amser wedi ei threulio yn y parth gogleddol i'r Ynys. Cefais yma y seinir y llafariaid ychydig yn wahanol i'r deheu, ac na feddalir y cydseiniaid i'r un graddau eithafol.

Ni wyddys nemawr i ddim am hanes yr iaith hon, ond darllenir mewn hen lyfr Gwyddelig am Senchán Torpéist, prif-fardd yr Iwerddon tua'r flwyddyn 600, yn myned ar ei gylchdaith, gyda 50 o

feirdd eraill i'w ganlyn i Ynys Manaw. Perthyn hyn i'r hen arfer a roddai hawl i'r beirdd fyw ar draul boneddigion eu gwlad; a chyffelyb oedd deddfau y Gwyddyl a'r Cymry yn hyn o beth, ac un o ddybenion yr Orsedd a'r Eisteddfod oedd i drwyddedu y rhai oeddynt i hawlio eu cynnaliaeth ar bwys y wlad. Yr oedd i bob bardd o nod ei gylchdaith neillduol, a'r hyn y mynwn ei awgrymu yw fod Ynys Manaw tua dechreu y seithfed ganrif yn gynnwysedig yn nghylchdaith prif-fardd yr Iwerddon. Nid rhaid gwell prawf na hyn mai y Wyddeleg oedd iaith yr Ynys ar y pryd, neu o leiaf iaith tywysogion a boneddigion yr Ynys; a chadarnheir hyn gan y ffaith mai Gwyddelig henafol yw iaith yr arysgrifen hynaf a geir yn y wyddor Ogamaidd yn Manaw. Ni wyddys ond ychydig am ei hanes o ddechreu y seithfed ganrif, nes iddi gael ei darostwng gan y Gynt, neu y Cenhedloedd Duon, fel y gelwid Gwyr Llychlyn a ddechreuasant anrheithio arfordiroedd Prydain a'r Iwerddon tua diwedd yr wythfed ganrif. Bu Manaw am ganrifoedd danynt, a sefydlasant yma lywodraeth reolaidd sydd hyd heddyw yn cadw rhyw ranau o'i ffurf gyntefig, megys yr arfer o gynnal gorsedd, a elwir y *Tynwald*, yn yr awyr agored, i gyhoeddi deddfau ac i benodi swyddogion y flwyddyn. Cymerai hyn le ar hirddydd Alban Hefin yn ol yr hen gyfrif, ond yn ol y cyfrif newydd y pummed o fis Gorphenaf yw dydd yr Orsedd. Aethum yno y llynedd o'm hunswydd i'w gweled, a chefais wahoddiad cynhes eleni gan y Llywodraethwr i'r Proffeswr Freeman i fyned yno yr haf nesaf i weled yr orsedd ac i'w hastudio yn ngoleuni hanesiaeth henafol y cenhedloedd Teutonaidd: y mae yr hanesydd yn rhyw hanner addaw myned os bydd byw ac iach. Maith fyddai olrhain hanes yr Ynys o amser y Llychlyniaid, a digon yw dyweyd iddi fyned i feddiant teulu arglwyddaidd Athol, ac wedi hyny i ddwylaw Iarlliaid Derby, nes o'r diwedd iddi ddyfod i afael y Goron Brydeinig. Y Frenhines, gan hyny, yw Arglwyddes Manaw, a swyddog dani hi ydyw y Llywodraethwr neu Raglaw yr Ynys.

Ond i ddychwelyd at yr iaith, ni wyddys dim am dani o ddechreu y seithfed ganrif hyd ddechreu yr 17eg; ond ceir mai ychydig mewn cymhariaeth a adawodd y Llychlyniaid o'u hôl ar ei geirlechres. Ond enwau Llychlyniaidd a glywir ar amryw o borthladdoedd yr Ynys, ac ar rai rhanau o'i harfordir, megys *Soderick*, *Fleshwick*, *Ramsey*, a'r blaendiroedd a adwaenir yn awr wrth yr enwau *Point of Ayre* a *Langness*. Ceir hefyd enwau o'r un tarddiad ar leoedd mwy canolog, megys *Jurby*, *Surby*, *Sulby* a *Laxey*. Llychlynig hefyd yw enw mynydd uchaf yr Ynys, *Snaefell*, sef yw hyny, "Mynydd yr Eira." Ychydig o lyfrau sydd i'w cael yn y Fanaweg, heblaw gweddïau yr Eglwys Sefydledig, y Bibl, Emynau John Wesley, a nifer o gyfieithadau o fân lenyddiaeth o natur grefyddol. Am weithiau gwreiddiol, nid oes ynddi ond ychydig ganeuon a nifer gweddol o garolau. Y peth hynaf yn yr iaith, heblaw yr arysgrifen Ogamaidd, yw copi anmherffaith o'r Llyfr Gweddi Cyffredin; credir y perthyn hwnw i'r rhan foreuaf o'r 17eg ganrif, a'i fod yn llawysgrif gŵr o Gymro o'r enw Phillips, a wnaed yn esgob Manaw. Wrth fyned heibio, nis gallaf lai na gofyn a oes genym ni ryw dinclwm o hanes yr esgob hwnw? Ond digon prin hwyrach y gellir dysgwyl hyny, pan ystyriom na cheir ymhlith y llu o

fywgraffiadau a eilw yr Eisteddfod a'r Cyfarfodydd Cystadleuol i fodolaeth air o son am enwogion Cymreig megys Edward Llwyd. Sonir am gyhoeddi llawysgrif Phillips ar draul y Gymdeithas Fanewig, ac yr wyf innau wedi rhyw hanner addaw ysgrifenu rhagarweiniad iddo ar seinyddiaeth yr iaith. Dyna y prif reswm i mi ddyfod i'r Ynys i dreulio fy ngwyliau, pe gwyliau hefyd, yn mis Medi yma. Ond i ddychwelyd at yr iaith, ceir ei bod yn llawer mwy clasurol yn llawysgrif Phillips nag ydyw mewn argraffiadau diweddarach o'r Llyfr Gweddi ac o'r Bibl. Ni fedrai y cyhoeddwyr diweddar ddarllen yr hen lawysgrif, o herwydd fod yr orgraff yn ddyeithr iddynt, a daethant i'r penderfyniad arwynebol nad oedd iaith y llawysgrif yn ddealladwy i'w cydoeswyr; ond pe cymerasent y drafferth i ddysgu ei darllen, cawsent ei bod yn berffaith ddealladwy iddynt, o leiaf mor ddealladwy ag ydyw iaith y Bibl Cymraeg i wladwyr Cymru. Cymerais amryw achlysuron i wneuthur prawf o'r pwnc drwy ddarllen i fagad o Fanawiaid rai o weddïau Phillips. Ond gwelodd y cyhoeddwyr diweddar yn dda argraffu y gweddïau a'r Bibl yn yr iaith lafaredig sydd wedi colli y rhan fwyaf o'i ffurfiau berfol, ac yn arfer manu y cyfan fel y gwneir hefyd ar lafar gwlad yn Nghymru, megys pan ddywedir "a 'neiff ê fyn'd" yn lle "a aiff efe," neu pan ysgrifenir mewn newyddiadur, "Pa le y mae y tŷ yn sefyll," yn lle "Pa le y saif y tŷ," neu "Pwy sydd yn gwybod," yn lle "Pwy a wyr." Ond gan fod i'r Gymraeg arddull lenyddol sydd hyd yn hyn yn berffaith ddealladwy, nid oes un esgus gan ysgrifenwyr Cymreig dros fanu yr iaith yn ol arfer gwlad. Pa fodd bynag, nid yw eu pechod hwn i'w gyffelybu o ran ei hacrwch a'u gwaith yn llanw y newyddiaduron Cymreig â dullweddau estronol. Ychydig, ysywaeth, o Gymraeg a geir bellach yn ein newyddiaduron, canys nid yw yr hyn a gynnygir ynddynt i'r darllenydd, gan mwyaf, ond Saesoneg wedi ei wisgo mewn geiriau Cymraeg: nid Cymraeg yw hyny. Ychydig neu ddim a ŵyr y Fanaweg am y fendith o gael newyddiaduron i chware â'i chyfansoddiad. Er hyny y mae llawer o eiriau Seisnig yn yr iaith lefaredig, ond llai ar y cyfan sydd o honynt yn y llyfrau Manewig nag a fuasid yn ddysgwyl.

Ar y dechreu rhoddai yr amrywiaeth cynhaniad a glywn lawer o drafferth i mi, ond wrth daflu dros y pwnc yn fy meddwl fy hun, tebygaf y gallai estron a fynai ddysgu Cymraeg yn y dull yr oeddwn i yn trin y Fanaweg gael llawn mwy o drafferth. Meddyliwch, er engraifft, mai Sais oedd, ac iddo ofyn i ryw weithiwr o Gymro pa fodd y dywedai yn Gymraeg, "Where is the stick," ac i'r Cymro ateb mai "Lle ma'r ffon" yw hyny yn Gymraeg. Dyna'r Sais yn ysgrifenu hyny i lawr goreu y gallai, ac yn gofyn i'r Cymro nesaf i siarad âg ef, "Lle ma'r ffon?" ac i hwnw ddyweyd ei fod wedi ei gamddysgu ac mai "Hle ma 'r ffon" oedd y gofyniad yn Gymraeg; hawdd dychymygu i'r Sais agor ei lygaid wrth glywed hyny, ac iddo benderfynu gofyn ei ofyniad i rywun eto: meddylier fod y rhywun hwnw yn ei gynhanu fel hyn: "'Mh'le ma'r ffon." Dyna'r Sais mewn penbleth cynnyddol, ond nid oes orphen ar y gyfres nes myned drwy amrywiaethau eraill, megys, "Y' mh'le ma'r ffon" neu "Pa le y mae'r ffon." A digon tebyg y byddai raid galw i mewn un o'r newyddiadurwyr sydd yn byw,

dyweder, "yn *C*aerfyrddin" neu "yn *C*aernarfon," i esbonio iddo mai yr unig ffordd briodol i ysgrifenu y gofyniad yw gwneyd hynny heb ddim lol ynghylch cydseiniaid dechreuol, fel y canlyn: "Yn pa le y mae yr ffon." Canys nid drwg o beth yw darn o'r fath yn yr arddull bren fel eglurhad ar y geiriau, er nad yw yn Gymraeg, tra nas gellir gwadu fod y dulliau eraill a nodwyd o eirio y gofyniad bob un yn Gymraeg o ryw arddull neu ryw dafodiaith arferol yn Nghymru. Dyna engraifft o'r hyn a allai ddygwydd gyda golwg ar eiriau digon sathredig yn yr iaith; ond meddylier ymhellach fod yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r Cymry uchod ddeall yn fanwl pa beth a olygai y Sais wrth y gair ffon cyn y rhoddent foddhâd iddo gyda golwg ar ei ofyniad, a bydd genych feddylddrych gweddol am y rhwystrau ar ffordd y neb a fyno efrydu y Fanaweg. Un o'r pethau mwyaf anhawdd ydyw cael allan i ba genedl y perthyn sylwedd-eiriau yr iaith; ni wneir un gwahaniaeth tebyg i'n *dau* a'n *dwy* ni, neu ein *hwn* a'n *hon* ni, ond defnyddir rhagenwau a gyfatebant i *ef* a *hi*, sef *eh* ac *ee* (i'w seinio yn *e* ac *i*), a'm gofyniad i fyddai "pa un ai *eh* neu *ee* a fyddwch chwi yn ddyweyd yn lle enw y peth a'r peth." Ond nid hawdd ambell i waith fyddai cael ateb; er engraifft dygwyddais fod un bore yn holi a chroesholi tyddynwr sydd yn bregethwr gyda'r Methodistiaid Wesleyaidd yn ei ardal. Ymhlith pethau eraill, gofynais pa un ai *ef* neu *hi* oedd yr ynysig a elwir yn Saesoneg y *Calf*. "O," meddai yntau, "nid oes nac *ef* na *hi* yn hwnw; y *Calloo* y gelwir ef yn y Fanaweg." Purion, ond yr oedd y gwirionedd hwnw yn hysbys i mi o'r blaen, gan fod y gair yn y geiriadur; a'r achos i mi ofyn hyn oedd, na ddodir y fanod o flaen yr enw yn y geiriadur. Os *y Calloo* ydyw gyda'r fanod, yna gwrywaidd yw, ond os *y' Challoo*, benywaidd yw y rhyw. Gofynwn gan hyny pa un o'r ddau oedd gywir, ond amwys oedd yr ateb, a chystal ag awgrymu y gallwn gymeryd fy newis, canys y mae y Manawiaid wedi myned yn lled sigledig gyda golwg ar bwnc o'r natur yma. Nid oedd bellach ddim i'w wneyd ond dychwelyd at y gofyniad, pa un ai *ef* neu *hi* yw y *Calloo*, ond yr un oedd yr ateb ag o'r blaen, sef nad oedd y naill na'r llall. Sut felly? ebwn innau; gan nad oes genych chwi ganolryw na gair cyfatebol i *it* y Saeson, rhaid i chwi son am yr ynysig fel *ef* neu *hi*. "O, na raid," ebai yntau, "y *Calloo* a ddywedwn ni." Yr oedd ateb felly bron yn ddigon i'm gyru i foni a myned adref, ond ystyriwn fod fy addysgwr yn hen ac yn ateb oreu y gallai, ac mai rhoddi cynnyg eto oedd oreu. Safai yr ynysig rhwng y dehau a'r gorllewin i ni, ac edrychai yn ddigon diserch yn y niwl a'r nyddach a orchuddient yr ystlys nesaf i'r Iwerddon iddi. "Dacw'r ynysig," meddwn; "yn awr meddyliwch fy mod i yn dyweyd wrthych fod y *Calloo* yn edrych yn ddu ac—" "Aroswch," meddai: "nid *du* fuaswn i yn ddyweyd ond *tywyll*," ac yna cefais araith o ddeng mynyd i chwarter awr i brofi mai *tywyll (dorraghey)* ac nid *du (doo)* oedd yr ansoddair priodol i'w arfer. Gwastraff oedd hyn i gyd ar fy amser i, a gwaeth na hyny, yr oedd yn wastraff ar amser a nerth fy addysgwr; ond pa fodd bynag, nid oedd dim i'w wneyd ond ail ddechreu, gan ddefnyddio yr ansoddair oedd wedi costio i ni gymaint o amser a llafur. "Meddyliwch fy mod i yn dyweyd wrthych chwi," meddwn, "fod y *Calloo* yn edrych yn dywyll, ac i chwithau ateb, 'Ydyw y mae;' oni ddywedech chwi mewn

cysylltiad felly ei fod *ef* neu *hi* yn edrych yn dywyll?" "O'r anwyl, gwnawn felly," meddai: "*hi* sydd yn edrych yn dywyll, a mwy o honi *hi* sydd yn y *Calloo* nag o'r *efe*." Y mymryn yna o hysbysrwydd ar bwnc digon dibwys oedd ffrwyth yr holl groesholi, a gwnaiff hyn y tro fel engraifft o arafwch fy nghynnydd yn y math hwn o wybodaeth. Y rheswm a roddai yr hen frawd dros annybendod ei atebion oedd, nad oedd wedi meddwl am bethau o'r fath er ys ugain mlynedd neu ragor; a boddlonais ef yn fawr drwy awgrymu fod fy ngofyniadau yn galw i weithrediad blyg o'i ymenydd oedd wedi bod heb waith am yspaid maith. Y gair y dygwyddodd i mi ei ddefnyddio oedd *lobe*, a thynodd hwnw ei sylw ar unwaith, a gofynodd pa beth oeddwn yn feddwl wrth son am "lobe of the brain." Eglurais cystal ag y gallwn, gan ei hysbysu mai gair Groeg oedd *lobe* o ran ei darddiad, ac y defnyddid ef wrth son am yr ymenydd a phethau cyffelyb. Mawr oedd ei foddlonrwydd wrth gael gair newydd o darddiad Groeg: "Hwyrach y medrwch chwi, meddai, ddarllen Groeg?" "Ryw ychydig yn lled frith," ebwn innau. "Yr anwyl fach! a fedrwch chwi Ladin hefyd, ac ieithoedd Ffrainc a'r Eidal a'r Almaen?" "Ryw dipyn o rai o honynt," ebwn innau. Synodd yn fawr a thynodd anadl hirach na'r cyffredin, ond cafodd gysur nid bychan wrth feddwl nas gallwn er hyny ymgystadlu âg Adam Clarke oedd, meddai efe, yn medru pregethu mewn dwy iaith ar bymtheg. Nis gallwn lai na chydsynio, ac awgrymu fod yn drugaredd i'r apostolion na chafodd yr Adda hwnw ganiatâd i gydoesi â hwy yn oes y tafodau. Wrth i mi ddiolch i'r hen ŵr drannoeth am y drafferth a fyddwn yn roddi iddo, torodd allan i wneuthur cyffes bur bwysig, gan ddyweyd: "Twt, twt, na soniwch: yr wyf i am a wn i wedi dysgu rhywbeth genych chwithau: gair iawn yw y gair *lobe* yna, ac yr wyf wedi meddwl llawer am dano drwy'r nos neithiwr; *lobe* oeddech chwi yn ddyweyd onitê, *lobe?*" Bûm yn cael gwersi gan bregethwr Wesleyaidd arall yn mhen arall yr Ynys, ac yr oedd hwnw yn fwy hyddysg o lawer yn iaith ei fam; ond nid hawdd ei gadw at bynciau bychain hono; ei hyfrydwaith oedd esbonio i mi brophwydoliaethau Esaiah, a dangos pa fodd y mae rhesymolwyr yr Almaen wedi cyfeiliorni: gosodai hwynt i fyny i'w curo i lawr gyda chyflymder glaslanc yn gwneyd ei oreu am ei bres mewn ffair blaen gwlad yn Nghymru.

Hwyrach fy mod eisoes wedi ysgrifenu digon i awgrymu mai pobl syml a chartrefol yw y Manawiaid. Ond iawn ychwanegu eu bod yn eirwir a gonest, ac nad ydynt hwyrach cyn lawened a chyn ddigrifed â'r Cymry, ond eu bod yn dawelach a sobrach. Nid oes yn eu plith dlodi i'w gymharu â thlodi Lloegr a Chymru, oddieithr yn nhref Douglas sydd yn byw ar ymwelwyr haf o Lynlleifiad a'i hamgylchoedd. Y mae annibyniaeth wedi ei argraffu mor ddwfn ar eu moesau ag i beri i ddyeithriaid deimlo ar y cyntaf mai oeraidd a diserch ydynt o naturiaeth; ond gwellygant yn gyflym o'u hadnabod yn well. Y maent yn grefyddol dros ben, a pherthynant gan mwyaf i'r Eglwys Sefydledig neu i'r Enwad Wesleyaidd: o ran hyny, peth cyffredin yn yr ynys yw i'r un rhai fyned i'r Eglwys ac i'r Capel hefyd Felly gwelwch na wyddys yma nemawr am ryfel enwadol, ac y mae y llew a'r oen wedi byw ynghyd am gymaint o flynyddau fel nad hawdd deall

bellach pa fodd yr ymdarewai y naill heb y llall. Medr y Manawiaid y Bibl ar dafod leferydd, fel y Cymry, ac y mae yr hen bobl heb ei anghofio yn yr hen iaith. Mawr oedd difyrwch un hen fachgen crefyddol wrth edrych y geiriadur Manewig oedd genyf, a dyfod ar draws y gair am gacynen: yr oedd efe yn gwybod am adnod y cacwn yn y drydedd bennod ar hugain o Exodus, a phwy fel efe yn codi ei gloch i hysbysu i'w gymydogion fel yr oedd wedi dyfod o hyd i'r gacynen yn llyfr y dyn dyeithr; a rhag i neb feddwl ei fod yn gwneuthur gormod o'r caffaeliad hwnw, ychwanegai ar y diwedd y gwyddai hefyd pwy a addawsai yru y cacwn o flaen Plant Israel. Aeth â mi yr ail dro y cyfarfûm âg ef i'w dŷ, a siaradai un o'i berthynasau Fanaweg yn dda. Bûm am gryn amser yn ymfrawddegu â hi a'i chwaer, a dygwyddodd i mi son nad oeddwn wedi clywed pobl yn siarad yr hen iaith â'u gilydd. "O," meddai, "mi siaradaf i a'm chwaer fel y caffoch fantais i farnu." Hyny a fu nes iddynt ddeall fy mod yn bras ddirnad beth oedd pwnc yr ymddyddan, neu yn hytrach eu dau bwnc, canys yr oedd ganddynt ddau o leiaf. Yn gyntaf ac yn wreigaidd, "Ai tybed ei fod yn briod?" yn ail ac yn ddifrifol, "Ai tybed ei fod yn bregethwr?" Torwyd ar draws yr ymchwiliad dyblyg hwn yn ddisymwth gan yr hen frawd a fuasai yn ymddifyru yn ymlid y cacwn. Pa fodd, meddai, y gelwir "gelyn yr eneidiau" yn yr iaith Gymraeg? Teimlwn mai gofyniad mawr yn gofyn cryn ofal oedd hwn, pa fodd i'w ateb; ac ymdrechais roddi ar ddeall iddo fod Satanyddiaeth yn rhan o Dduwinyddiaeth sydd wedi ei hastudio gyda manylrwydd mawr yn Nghymru. Deonglais iddo goreu y gallwn byneiau diammheuol y ganghen-wyddor hon, megys mai *diafol* oedd yr enw ar y Sabboth, mai *diawl* oedd ar y chwe' diwrnod gweithio; ond nis gallwn fyned ymhellach heb ymdrin, chwedl yr athronydd, â'r eithriadau a'r cyfyngiadau a wneir yn ffafr amrywiol ddosbarthiadau o gymdeithas, megys pan adewir y *diafl* i'r beirdd a'r Eisteddfod a'r *jawl* i longwyr a bechgyn gweini a boneddigion Cymreig ar fin troi yn Saeson. Ond er i mi drin y penau hyn yn eglurbwyll ac yn hollol anmhleidiol yn ngwyneb haul a llygad goleuni, chwedl beirniaid cydwybodol pob awdl Gymreig er dyddiau Prydain ab Aedd Mawr, nis gallwn lai na theimlo adael o honof amryw bethau pwysig heb eu penderfynu, megys, er engraifft, i bwy y perthyn defnyddio yr enwau—termau oeddwn yn feddwl, canys dyna air yr athronydd—Satan, y cythraul, yr hen fachgen, a'r gŵr drwg, a'r cyffelyb. Pa fodd bynag yr oeddwn eisoes wedi llanw yr hen gacynwr âg edmygedd o dalent genedlaethol y Cymry i efrydu Duwinyddiaeth. Ond i ddychwelyd at y pwnc o grefyddoldeb y Manawiaid, gellir dangos fod y nodwedd hon yn eu cymeriad wedi gwneuthur eu hol ar eu hiaith: er engraifft y mae pob peth byw, yn ol eu geiriad hwy, un ai yn anifail neu yn bechadur, canys dyna ddywedir yw ystyr y gair *peccagh* a ddefnyddir am unrhyw greadur o ddyn. Eto, os byddwch am ymweled âg un o'r Ynyswyr yn ei dŷ, y rheol yw curo wrth y drws a'i agor gan ofyn, "A oes pechadur yn y byd i mewn." Bu y sylwadau dyfnddysg a wnaethum ar y defnydd hwn o'r gair *peccagh* am fôd dynol, a'r rhwyddineb eglurddoeth ac athrylithlawn a ddangosaswn yn dosbarthu enwau y gŵr du, yn achlysur i bobl y pentref gredu nas gallwn fod yn neb llai na phenaeth coleg duwinyddol yn Nghymru, a mynent ar bob

cyfrif mai D.D. oeddwn wedi diano. Meddylddrych newydd fflam, meddwn wrthyf fy hun—hwylio i Gymru a glanio yn Mhwllheli a D.D. o Fanaw ar ol fy enw, i gael gweled pa le y safwn yn ngraddeg teitledigion y Dywysogaeth; ond ofni, ar y cyfan, mai dannod arogl ysgadan a glywn, er fod yno eisoes ambell i ysgolhaig mawr y pery gwynt Môr y Werydd yn gryf ehelaeth ar ei ddoethoriaeth am flwyddyn neu ddwy i ddyfod.

Nid yw yr Eglwys Sefydledig a'r Wesleyaid wedi bod bob amser yn byw mor heddychol ag y maent yn yr oes hon. Adroddai hen dyddynwr dros 80 oed ei fod ef wedi clywed gan ei dad hanes am un Mary Dick, merch ieuanc oedd wedi llyncu rhyw gegaid o sism, yn cael ei holwyddori gydag eraill o'i chyfoedion gan berson y plwyf. Daeth i'w rhan hi ateb y gofyniad, pwy oedd "y cadnaw hwnw" y sonir am dano yn Luc xiii. 32; a dyna a ddywedodd, nas gwyddai, os nad un o'r personiaid yna oedd. Y canlyniad fu iddi orfod gwneuthur ei phenyd ddydd Sul, sef oedd hyny, sefyll i fyny yn yr Eglwys a chynfas wen drosti. Hyny a fu, ond penderfynodd Màlen gael goruchafiaeth ar y person drwy ganu yn uwch na neb arall yn y gynnulleidfa. Cefais fod yr hen ŵr, brodor o blwyf Kirk Bride, ei hun yn cofio gweled pobl yn gwneuthur eu penyd mewn cynfasau gwynion yn Eglwys y plwyf. Ar ol clywed hyn, holais hen ŵr arall, ac yr oedd hwnw yn cofio gweled y penyd a'r cynfasau yn Eglwys ei blwyf ef, sef Kirk Andreas. Yn ngogledd yr Ynys y mae y plwyfydd hyn, a gresyn oedd genyf nad oeddwn wedi holi neb ar y pen hwn yn neheudir yr Ynys. Dygwyddodd i mi son am y peth wrth berson plwyf arall yn y gogledd a dangosodd hwnw i mi hanes am fagad o benydiau yn ei Eglwys ef, megys ar un o'r plwyfolion am godi gormod o dreth oddiar yr archddiacon, ac ar un arall am felldithio ei gymydog yn y geiriau—*Skeab lhome ort!* Mae y felldith yn adnabyddus hyd heddyw, ond methais yn lân a chael hyd i neb a fedrai ei hesbonio yn foddhäol i mi: nid oes anhawsder yn un o'r tri gair, a dyna ydynt yn Gymraeg—Ysgub lom arnat! Ond tebyg y byddid yn nês i'r ystyr wrth eu cyfieithu fel hyn: Ysgubiad llwyr arnat! Pa fodd bynag, cai y neb a ddymunai ddrwg i arall yn y modd hwn gyfleusdra i edifarhau mewn cwrlid gwyn yn nghanol ei gydnabod. Haerai y gŵr parchedig a roddai yr hanes i mi nas dichon fod neb yn fyw yn bresennol sydd yn cofio gweled y penydio yn yr Eglwysi, a thybiais fy mod wedi cael fy nghamhysbysu. Nid hwy na thrannoeth, pa fodd bynag, nes i mi ddyfod ar draws hen ŵr o grydd oedd yn cofio, ebai efe, un ar ddeg o esgobion yn arolygu yr Eglwys yn Manaw; a rhoddodd i mi hanes manwl am y tro diweddaf y bu penydwyr yn edifarhau mewn gwyn yn Eglwys y plwyf y perthynai efe iddo, sef oedd hono yr Eglwys sydd yn ngofal y person crybwylledig ei hun. Yr oedd y crydd ar y pryd tua 25 oed, ac y mae bellach yn agos i 60 mlynedd er yr amser y cyfeiriai ato. Enwai y troseddwyr i mi, a chyfeiriai at eu plant a'u hwyrion: pedwar a ddygent eu penyd ar y pryd, dau ŵr a dwy ferch. Yr oedd y merched wedi tyngu plant i'r gwŷr mewn llys gwladol, ac ymddengys mai dyma oedd yr achlysur mwyaf cyffredin o ymddangos yn yr Eglwys mewn gwyn. Byddai yno swyddog o'r llys gwladol i ddodi y cynfasau ar y troseddwyr, ac am a wn i nad oedd cymeryd ymaith y sachwisg ar

ddiwedd yr oedfa yn rhan hefyd o'i ddyledswyddau; ond adroddir i un hen walch fyned a'r gynfas gydag ef a'i thaflu dros ei ferlen fach wrth ddrws y dafarn tra fyddai efe yn ebargofi ei gywilydd drwy gymhorth diod haidd a hopys. Hwyrach mai dygwyddiadau o'r fath fu yr achos i'r wlad wneuthur pen am yr hen ddysgyblaeth, ac ymddengys na fu hyny yn golled yn y byd i foesau yr Ynyswyr; o leiaf ni chânt y gair y dyddiau hyn o fod yn bobl anllad nac anniwair. Clywais gan un o'r dehau y bydd yn arferiad mewn rhanau o'r gogledd i bobl ieuainc eistedd gyda'u gilydd am oriau o'r nos, neu hyd yn nod hyd frecwast os bydd teulu'r ferch yn cymeradwyo'r gyfeillach; a chlywais yn y gogledd rywbeth heb fod yn annhebyg i hyn am ranau o'r deheudir. Tebyg yw hyny fel petasai Môn a Phenfro yn ymgystadlu i waered ar bwys y Gymdeithas Ddiweirdeb yn Nghymru.

Pan oeddwn un boreu yn aros y gerbydres i fyned tua Ramsey, tynwyd fy sylw at ŵr dyeithr i mi oedd yno i'r un perwyl a minnau: clywn ef yn iselganu rhyngddo ag awel y môr, hen alaw a glywswn o'r blaen, fel y tebygwn. Clustfeinio a gwrando yn gyndyn am eiliad neu ddau yn rhagor, a chael mai "Hen Wlad fy Nhadau" oedd ganddo. Gofyn i mi fy hun yna, brodor o ba barth o Gymru a allai fod: nid o Went na Morganwg, meddwn, canys nid "Hen Wlad fy Nadau" yw ei gân: tebycaf yw mai o Wynedd y daw, gan mai Gwynedd yw y rhan nesaf o'r Dywysogaeth. Ymddengys yn ŵr parchus, meddwn wrthyf fy hun: Arfoniad hwyrach yw. Pa enw sydd i'w gynnyg? dyna'r pwnc nesaf: petruso yn fawr a wnawn rhwng Jones a Williams, rhwng Owens a Roberts, a phenderfynu, pa fodd bynag, na chymerwn yn ganiatäol mai Jones yw pob Cymro; a chynnyg Roberts a wnaethum yn chwim yn y dafodiaith Arfoneiddiaf a fedrwn fel hyn: "Yr argian fawr, Mistar Robaits, be' 'dach *ch'i'n* 'neyd fan yma?" Bu'r canlyniad fel syrthiad gwreichionen i bentwr o bylor, ond ar ol i chwiff o wynt megys chwalu mwg y ffrwydiad, ac i minnau agor fy llygaid yn llydain, deallais fy mod wedi anelu i drwch y blewyn: Roberts oedd yr enw, a gŵr nid anadnabyddus o ardal Bangor Fawr yn Arfon oedd a'i harddelai. Teithiasom ynghyd am encyd, a diau genyf fod dwndwr yr iaith Gymraeg yn goglais clustiau y Manawiaid a gyd-deithient â ni, am rai oriau ar ol i ni eu gadael i'w Saesoneg benthyg eu hunain. Siaradem am yr Ynys a chymharem ei thrigolion â'r Cymry. Y mae Mr. Roberts yn adnabyddus ddigon â Manaw, ac wedi treulio blynyddau o flodau ei ieuenctyd ynddi. Desgrifiwn iddo fy syndod wrth weled cyn lleied o dlodi ynddi, ac wrth ganfod cystal tai gan ei thyddynwyr, a chyfeiriwn at yr olwg lewyrchus sydd ar bethau yma, ac yn anad dim galwn ei sylw at y ffaith fod yr amaethwyr yma yn defnyddio y peiriannau mwyaf newydd a pherffeithiaf sydd i'w cael. "O," meddai yntau, "y mae y peth a nodwch yn amlwg i bawb â llygad yn ei ben, ac yr wyf fi wedi hir flino yn ymdrechu darbwyllo y Cymry i fyned rhagddynt drwy gyfeirio at ffyniant y Manawiaid." "Hawdd genyf gredu hyny," meddwn innau: "ni chewch byth eich coelio yn Ngwynedd pan gynnygioch ddesgrifio yr olwg raenus sydd ar bethau yn yr Ynys hon: bydd yn ddirmygus gan Gymry glywed fod gwers iddynt hwy i'w chael mewn lle fel hwn" Dyna yn union oedd profiad Mr. Roberts ar y pen hwn; a chydsyniem yn hollol mai dyma'r werin-bobl y mae hi

oreu arnynt yn yr Ynysoedd Prydeinig; ac ystyriem mai nid drwg fuasai i rai o'n cydwladwyr sydd yn pryderu ynghylch amaethyddiaeth yn Nghymru ddyfod yma am fis neu ddau, a holi tyddynwyr Manaw yn fanwl o barth i ddirgelwch eu ffyniant. Gwell dyrnaid o ffeithiau sychion na sachaid o freuddwydion gwrach yn ol ei hewyllys.

*Gwyl Fihangel* 1888. JOHN RHYS.

---

# DAMMEG Y CWYMP.

## I.

A YDYW yr hyn sydd ysgrifenedig yn yr ail bennod o Genesis am amgylchiadau y prawf a'r temtiad a wnaed ar ddyn ar ol ei greu, ynghyd a natur y trosedd trwy ba un y syrthiodd, i'w dderbyn fel hanes, ynte fel dammeg neu alegori, yn ngwisg pa un y cyflwynir i ni y gwirionedd hanesyddol? Dichon nad ydyw yn hysbys i bawb o'n darllenwyr fod yr ateb i'r cwestiwn hwn wedi ei roddi yn ffafr y golygiad olaf gan amryw o awdwyr hen a diweddar; awdwyr nas gellir eu cyfrif ymysg anffyddwyr a hereticiaid, nac ychwaith yn anuniawngred; awdwyr ag y mae yr Eglwys dan ddyled fawr iddynt am eu gwasanaeth anmhrisiadwy i Dduwinyddiaeth ac Esboniadaeth yr Ysgrythyrau. Ymysg awdwyr cymhariaethol ddiweddar a ddadleuant dros y golygiad hwn, bydd enwi awdwr y *Christian Dogmatics*—yr Esgob Martensen—yn ddigon er dangos nad ydyw y rhai a ddaliant y cyfryw olygiad i'w cyhuddo, o angenrheidrwydd, o "arferyd ysgafnder" yn eu beirniadaeth ar gynnwys y Gyfrol ysbrydoledig. Ac nid yn unig y mae y cyfryw olygiad yn gyson â chrediniaeth yn ngwirionedd y dadguddiad dwyfol ac ymostyngiad i'w awdurdod, eithr hefyd fe erys gwirionedd ac athrawiaeth y cwymp heb eu cyffwrdd gan y naill olygiad a'r llall.

Y mae yn ffaith dra hynod nad oes cyfeiriad yn yr oll o'r Ysgrythyr, oddieithr yn yr hanes yn Genesis, at *amgylchiadau* y cwymp. Tra y mae *gwirionedd* y cwymp yn cael ei ragdybied ymhob llyfr a phennod, nid oes yr un cyfeiriad gan neb o'r ysgrifenwyr ysbrydoledig at yr amgylchiadau dan ba rai y cymerodd le. Yr ymadroddion a ddeuant agosaf at fod yn gyfeiriadau ydynt: "Hwy a dorasant y cyfammod fel Adda" (Hos. vi. 7; darlleniad ymyl y ddalen); ynghyd a "y rhai ni phechasant yn ol cyffelybrwydd camwedd Adda" (Rhuf. v. 14). Ond ni awgrymir yn yr ymadroddion hyn nac yn eu cysylltiadau, pa rai a olygai y naill ysgrifenydd oeddynt delerau neillduol y cyfammod a dorwyd gan Adda, na pha beth a olygai y llall ydoedd y camwedd neillduol a gyflawnwyd ganddo. Priodol ydyw cofio, gan hyny, os

ydyw barn awdwyr a'r cyhoedd trwy yr oesau, gydag ychydig eithriadau, wedi derbyn yn llythyrenol hanes y cwymp, nad attegir y cyfryw farn gan ranau eraill yr Ysgrythyr; ac o'r ochr arall, nas attelir ni gan unrhyw ymadroddion ysbrydoledig y tu allan i'r hanes ei hun rhag coleddu y golygiad mai dammeg ydyw.

Mewn erthygl arweiniol ar y "*Down Grade*" yn un o'r cyfnodolion Seisonig, ymddangosodd yn ddiweddar frawddeg debyg i'r hyn a ganlyn: "Nid oes neb y dyddiau hyn a'r a dderbyniodd raddau o ddysg a diwylliad yn credu ddarfod i'r dyn cyntaf bechu trwy fwyta yr afal." O'r braidd y gallwn gredu fod y frawddeg hon yn ddesgrifiad cywir o sefyllfa meddwl y mwyafrif o Saeson gyda golwg ar bynciau crefyddol; ond gwyddom nad ydyw yn ddesgrifiad cywir o sefyllfa meddwl a barn ymysg dynion, hen neu ieuainc, goleuedig Cymru. Nodweddir y mwyafrif mawr yn Nghymru, yn ddiau, gan ymostyngiad parchus i awdurdod y Bibl, a derbyniad tawel o'i dystiolaethau, hyd yn nod mewn pethau nas gellir yn hawdd eu cysoni â rheswm. Ar yr un pryd, mae yn debyg y cyfarfyddir yn y rhan fwyaf, â pharodrwydd i roddi ystyriaeth bwyllog a deallus i bob ymgais a wneir i symud yr hyn a gydnabyddir yn anhawsderau, tra y gwneir hyny gyda'r gwylder a weddai i eiriau ysbrydoledig. Cyfarfyddir âg un o'r anhawsderau hyny,—ac nid y lleiaf mewn un modd,—ar drothwy yr Ysgrythyrau, yn hanes y prawf a wnaed ar ein rhieni cyntaf, gan ei fod, os derbynir yr hanes yn llythyrenol, yn wahanol iawn i ddim a gyfarfu neb o'u hiliogaeth, ac fod ei addasrwydd hefyd yn ei berthynas â dyn mewn meddiant o'i gyflawn alluoedd, ynghyd a'i gysondeb â doethineb ddwyfol, ymhell o fod yn amlwg.

Nid ydyw yr anhawsderau a deimlir ynglŷn â hanes y cwymp, o angenrheidrwydd, yn cael eu symud wrth olygu mai dammeg neu alegori ydyw. Pe llwyddid i brofi hyny, arosai yr anhawsderau i ddysgwyl yr ateb i'r cwestiwn, Os dammeg ydyw, pa ddeongliad a roddir iddi? Seilir y sylwadau canlynol ar y dybiaeth mai dammeg ydyw, ond ni chynnygir unrhyw brofion dros y gosodiad, gan y gwyddom y bydd y derbyniad o hono gan ein darllenwyr yn dibynu ar pa un a lwyddir i gynnyg deongliad a fyddo, ar y naill law, yn dwyn y prawf a'r temtiad i fod yn fwy cydweddol â'u rheswm ac â'u profiad, ac ar y llaw arall, yn peidio gwneyd trais â'r geiriau ysbrydoledig ymha rai y cyflwynir yr hanes i ni.

Ymddengys i ni fod rhesymau cryfion o blaid yr esboniad canlynol ar hanes y prawf, y temtiad, a'r cwymp—yr hwn yn awr a geisiwn gyflwyno i ystyriaeth ein darllenwyr.

1. Y mae hanes y cread, *ar wahân oddiwrth yr adran a gynnwys y cyfeiriad at y pren gwaharddedig*, yn ein hysbysu ddarfod i ddyn, wedi ei greu, gael ei osod ar brawf o'i ufudd-dod i'w Greawdwr, yr hwn brawf oedd yn gynnwysedig yn mendigiad a sancteiddiad y seithfed dydd i fod yn ddydd o orphwys iddo oddiwrth ei lafur, yn ol esiampl y Crëwr ei hun. Canlynir yr hanes am fendigiad y seithfed dydd gan yr adran lle y desgrifir yr ardd, a'r pren gwybodaeth da a drwg, &c. Awgryma y cysylltiad hwn mai dammeg neu alegori ydyw yr adran, Gen. ii. 8—17, wedi ei gosod i mewn gan ddwyfol ysbrydoliaeth i'r dyben o bortrëadu mewn modd ffugyrol sefyllfa dyn yn wyneb y prawf a osodwyd arno

trwy fendigiad y seithfed dydd. Cymer yr hanes y wedd ganlynol yn ein golwg:—Crewyd dyn gan Dduw yn olaf a phenaf o'i weithredoedd, a phob peth arall o'r greadigaeth yn wasanaethgar iddo; ac o'r oll a greodd Duw, nid ydoedd yn waharddedig rhagddo ond rhan fechan o'i amser, sef y seithfed dydd, ar yr hwn ddydd y gorchymynwyd iddo orphwys, gan fod yn waharddedig iddo ei ddefnyddio er ei fwyniant ei hun, eithr ei gysegru i'w Grewr. A dyma y ddammeg:—Cyffelyb, gan hyny, ydoedd sefyllfa Adda yn nghanol creadigaeth Duw i pe gosodasid dyn yn nghanol gardd ffrwythlawn, yn yr hon y tyfai pob pren dymunol i'r golwg a daionus yn fwyd, o ba rai nad ydoedd yn waharddedig iddo ond un pren.

Yn ffafr y golygiad uchod ni a gyflwynwn yr ystyriaethau canlynol i sylw.

1. Y mae yr hanes ymha un y gosodir y ddammeg yn awgrymu y deongliad o honi, ac y mae y ddammeg yn gwasanaethu er egluro mewn modd portrëadol sefyllfa dyn yn ol yr hanes. Golygiad Martensen —yr unig olygiad y gwyddom am dano, ydyw mai y byd—"*the world phenomena*"—ydyw y pren gwaharddedig, ac mai ymddarostyngiad i demtasiynau yn cyfodi oddiwrth y byd ydoedd y pechod trwy ba un y syrthiodd y dyn cyntaf. Yr wrthddadl a awgryma ei hun i ni yn erbyn y golygiad hwn ydyw, fod yr awdwr wedi cael deongliad y ddammeg, nid o'r hanes ysbrydoledig, eithr allan o'i dybiaeth ei hun o'r hyn y dylai y prawf fod, a'r hyn a dybiai a fuasai y demtasiwn gryfaf i ddyn i bechu. Nid felly y golygiad y dadleuwn drosto. Y mae deongliad y ddammeg yn cael ei awgrymu gan le y ddammeg yn yr hanes. Seithfed dydd yr hanes ydyw pren gwaharddedig y ddammeg. Nid ydyw yn debyg y gwedir fod dyn ar ol ei greu, dan brawf yn wyneb gosodiad y seithfed dydd. A gadwai efe, ai ni chadwai yn sanctaidd y dydd y gorphwysodd Duw arno, ac a fendigodd Efe er mwyn dyn? Y mae yr hanes yn cynnwys hyn, oblegid dywedir yn Genesis ii. 2, nid yn unig fod Duw wedi gorphwys ar y seithfed dydd, eithr iddo hefyd fendigo y seithfed dydd, "oblegid ynddo y gorphwysasai." Dyma weithred o eiddo Duw yn cael ei dangos, ag ydoedd yn sylfaenedig ar y ffaith ddarfod iddo Ef ei Hun orphwys, sef "bendigo a sancteiddio y seithfed dydd," gwneuthur hyny er mwyn dyn ac i ddyn. A ganlyn ydyw nodiad Calvin ar yr adnod hon:—"Yn gyntaf, gan hyny, Duw a orphwysodd; yna Efe a fendigodd y gorphwysiad hwnw fel yn yr holl oesoedd y delid ef yn gysegredig; neu Efe a gysegrodd bob seithfed dydd, fel y byddai ei esiampl Ef ei Hun yn ddeddf dragywyddol." Yn y gosodiad hwn o'r seithfed dydd hwnw, fel i fod yn ddeddf dragywyddol, y maentumiwn ein bod yn cael yr hyn a wisgwyd yn oesau mebyd y byd â dammeg y pren gwaharddedig, yr hyn a ddengys y Crëwr fel yn dywedyd:—"O bob peth a wnaeth fy llaw, o'r cwbl a greais, ti a gei fwyta a mwynhau o hono; y gyfran yma yn unig o'th amser yr wyf yn ei gadw i mi fy Hun; hyn yn unig, y seithfed dydd, a waharddaf rhagot; na fwyta o hono, na ddefnyddia ef i'th amcanion na'th feddyliau dy hun, oblegid yn y dydd"—a oes i'w weled awgrym o'r golygiad y dadleuwn drosto yn y pwys a roddir ar *y dydd*?—"oblegid yn y dydd y bwytei o hono, gan farw ti a fyddi farw."

2. Dysga ein golygiad fod y prawf y gosodwyd y dyn cyntaf dano yn fwy cydweddol â'n rheswm ac â'n profiad. Nid ydyw ein rheswm yn derbyn gyda pharodrwydd ddarfod i'r dyn cyntaf gael ei roddi ar brawf o'i ufudd-dod trwy waharddiad i fwyta o ffrwyth pren neillduol; nid ydyw y prawf yn ymddangos yn addas i'w roddi ar ddyn wedi ei greu ar ddelw Duw mewn gwybodaeth, &c., ac mewn meddiant o'i gyflawn alluoedd. Ond ni wna rheswm wrthryfela yn erbyn addasrwydd y prawf a gynnwysir mewn cysegru i wasanaeth y Crëwr gyfran o'r amser a roddodd Efe i ni. Dyga ein golygiad hefyd y prawf i undeb â'n profiad ni ein hunain; os y seithfed dydd ydoedd y prawf i ddyn, yna y mae yn parhau i'w hiliogaeth; erys y prawf yn brawf eto i bawb o blant dynion.

3. Dengys ein golygiad unoliaeth goruchwyliaethau Duw tuag at ddynolryw. Ar ol yr ymlygriad cyffredinol cyntefig, dygwyd Abraham a'i hiliogaeth i gyfammod â Duw, a hysbysir i ni mai arwydd y cyfammod hwnw ydoedd y Sabboth. "Rhoddais iddynt fy Sabbothau i fod yn arwydd rhyngof fi â hwynt," Ezec. xx. 12, 20. Ac yr oedd hyn, os yw ein golygiad yn gywir, yn ol portrëad y cyfammod cyntaf âg Adda, oblegid arwydd y cyfammod âg Adda, hefyd, oedd y Sabboth —y seithfed dydd.

4. Crybwylla Calvin am draddodiad a ddywedai mai ar y seithfed dydd y cyflawnwyd y trosedd cyntaf. Dywed efe mai traddodiad heb un sail iddo ydyw hwn; ond ai nid allwn dybied y canfyddir, hwyrach, yn y traddodiad crybwylledig, olion traddodiad arall a gynnwysai fynegiad o'r gwirionedd, mai halogi y seithfed dydd ydoedd y pechod trwy ba un y syrthiodd y dyn cyntaf? neu a ddywedwn ni y cawn yma ddangosiad fod traddodiad wedi bod yn hofran o gwmpas y gwirionedd, er ei fod heb ddisgyn arno?

5. Y mae ein golygiad mewn cydgordiad â'r dywediad cyffredin, mai trwy orchymyn pendant y profwyd y dyn cyntaf, ac nid trwy orchymyn moesol. Gorchymyn pendant ydyw cadwraeth y seithfed dydd; gorchymyn nad allasai y dyn ddarganfod rheswm drosto, ynddo ei hun, nac yn y greadigaeth weledig o'i amgylch, yn nghanol pa un yr ydoedd efe wedi ei osod; gorchymyn yn codi oddiar benarglwyddiaeth Duw. Rhenir amser i ni gan dröadau a symudiadau y ddaear a'r lleuad i ddiwrnodau, misoedd, a blynyddoedd; eithr nid oes ynom, nac y tu allan i ni, ddim yn awgrymu y rhaniad ar amser i wythnosau; ac eto ymddengys fod y cyfryw raniad yn aros mewn grym, neu mewn traddodiad, ymysg agos yr oll, os nad yr oll, o dylwythau dynolryw.

6. Y mae y desgrifiad a roddir o'r pren gwaharddedig, trwy ei alw, y "pren gwybodaeth da a drwg," yn fwy cydweddol â dull dammegol o lefaru, nac âg adroddiad o ffaith mewn natur. Cynnwysa y desgrifiad awgrym mai yn ffugyrol y mae i'w ddeall. Ein dadl yma ydyw, mai felly y dylid ei olygu, ac mai y seithfed dydd a ddangosir trwyddo; ac fel y cyfryw, gwelir priodoldeb yn y desgrifiad a roddir o'r pren, gan ei fod yn awgrymu natur y prawf y gosodwyd dyn dano yn wyneb y seithfed dydd, yr hwn ydoedd i'w ddefnyddio i feithrin "gwybodaeth o'r da" uchaf, mewn cyferbyniad i'r daioni o natur is ag ydoedd, o angenrheidrwydd, yn nodweddu amcan gorchwylion dyddiau eraill yr wythnos. Ac o'r tu arall, "dydd" ydoedd—yn wyneb y gorchymyn

i'w gadw yn sanctaidd—a roddai hefyd "wybodaeth y drwg," gan yr awgrymai y posibilrwydd a'r perygl o droseddu y gorchymyn. Gellir galw y ddammeg dan ein sylw yn ddammeg decbreuad hanes dynolryw, ac yn y desgrifiad a roddir ynddi o'r pren gwaharddedig, gwelir nodwedd gyffelyb i'r hyn y cyfarfyddir âg ef yn gyffredin yn chwedlonau adnabyddus dechreuad teyrnasoedd, sef, fod yr hyn sydd yn hanes, a'r hyn sydd ffugyr, wedi eu cymysgu yn y fath fodd fel mai gorchwyl anhawdd, a mynych anmhosibl, ydyw gwahanu y naill oddiwrth y llall.

7. Cyrhaeddir yn ngosodiad y seithfed dydd yr holl amcanion sydd i brawf ar ufudd-dod dyn, ag y credir, yn ol y golygiad arferol, a gyrhaeddid yn mhrawf y pren gwaharddedig. Pa angen, gan hyny, ydoedd ychwanegu prawf y pren at hwnw? Profid ufudd-dod dyn i'w Grëwr gan, A gadwai ai ni chadwai efe yn sanctaidd y dydd a fendigodd Duw. Pa ddybenion pellach y gellir tybied eu bod yn cael eu cyrhaedd trwy waharddiad i fwyta o ffrwyth un o brenau yr ardd? Nid ennillir, hyd y gallwn weled, unrhyw fantais i gyfanrwydd y prawf yn yr ychwanegiad. Ac yn ddiau nis gallwn deimlo fod unrhyw fantais yn cael ei rhoddi i ni i ddeall ffyrdd Duw tuag at ddynolryw, yn yr alwad a wneir arnom, yn ol y golygiad arferol, i ddychymygu sefyllfa i'n tad cyntaf, yn y prawf a roddwyd arno, o natur wahanol i ddim y cafodd neb o'i hiliogaeth brofiad o honi. O'r ochr arall, yr ydym yn tybied ein bod yn cael ein gosod mewn mantais i ddeall a gwerthfawrogi goruchwyliaethau Duw os gallwn gredu i'r dyn cyntaf gael ei osod mewn sefyllfa ag y gallwn ni ei sylweddoli, ac iddo anufuddhau i orchymyn ag y mae pawb a wasanaethant y gwir a'r bywiol Dduw ymhob oes wedi cydnabod eu rhwymedigaeth iddo.

Pan yn awr yn gadael y ddamcaniaeth uchod a'r rhesymau a'i hattegant i ystyriaeth ein darllenwyr, teimlwn mai gyda gochelgarwch mawr y dylid bob amser amcanu at siglo opiniynau ag ydynt gysegredig mewn meddyliau fyrdd gan eu hoedran; eto nis gallwn oddef i unrhyw ystyriaethau o'r fath ein rhwystro i chwilio am y gwirionedd; ac yr ydym yn hyderu y bernir ein hymchwiliad—ffrwyth yr hwn a roddir yn yr ysgrif hon—fel, o leiaf, yn ymchwiliad teg, a chalonogir ni i'w gyflwyno i ddarllenwyr y TRAETHODYDD gan yr ystyriaeth, pe gallem gredu y cawsai y golygiad dderbyniad, na fyddai yr un o'r athrawiaethau a gredir yn ddiammeu yn ein plith yn dyoddef o'r herwydd; ac mai yr unig ganlyniad i'r derbyniad o hono a fyddai gosod pwysigrwydd mwy ar y gwirionedd mawr, "Y seithfed dydd ydyw Sabboth yr Arglwydd ein Duw."

Erys i ni eto edrych ar y ddamcaniaeth yn ngoleu hanes y temtiad, yr anufudd-dod, a'r gosb a ddilynodd hyny; ond rhydd hyn ddefnyddiau digonol i ysgrif arall.

M.

# YR EGLWYS YN NGHYMRU: PREGETHU CYMRAEG.

PAPYR A DDARLLENWYD O FLAEN Y CHURCH CONGRESS YN MANCHESTER, HYDREF 2, 1888.

GAN Y PARCH. CANON HOWELL, B.D.

MAE Cymru yn wlad pregethu. Fel y Celtiaid oll, mae y Cymry yn hoff o araethyddiaeth. Y maent yn naturiol ymadroddus, gwresog, a brwdfrydig. Y maent yn hoff o gynhyrfiad meddyliol. Er fod y meddwl Cymreig yn meddu cymhwysder neillduol at ymofyniadau uchanianol dyfnion, y mae yn rhagori yn rhandir y cymhariaethol, y desgrifiadol, a'r areithyddol. Nid ydyw yn anhawdd deall, gan hyny, fel y mae y pulpud wedi dyfod y gallu uchaf yn Nghymru. Mae y genedl Gymreig yn gyflym, ac yn llawn bywyd a theimlad, ac felly nid oes yr un yn fwy agored i argraffiadau crefyddol. Pregethwr mawr ydyw syniad uchaf y Cymro am ddyn mawr. Yn Lloegr, y mae y senedd, y bar, a'r ddarlithfa yn rhoddi cyflawnder o gyfleusderau i ymarfer y doniau trwy ba rai y mae dynion yn dylanwadu ar eu cyd-ddynion; ond yn Nghymru y pulpud ydyw bron yr unig le y gall doniau Cymro gael eu gosod ar waith a'u hymarfer. Nid ydyw yn rhyfedd, gan hyny, fod dynion goreu a galluocaf y genedl i'w cael ymysg pregethwyr Cymru. Fe ddywedwyd "nad ydyw y dyn a newidiai ei bulpud am orseddfainc yn deilwng o'r pulpud;" a dyma i fesur mawr ydyw drychfeddwl pobl Cymru am alwedigaeth pregethwr: edrychant arno i fesur mawr fel y prophwydi gynt, fel rhodd neillduol Duw, fel cenad uniongyrchol oddiwrth Dduw. Er mor ddyeithr y gallai ymddangos i'r rhai a ystyriant bregeth fach o ddeng mynyd fel dadblygiad hapus o Gristionogaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y mae er hyny yn llythyrenol wir mai syniad uchaf y Cymro am ddedwyddwch daearol ydyw ymfwynhau mewn rhyw ddeuddydd o bregethu, gyda thri neu bedwar gwasanaeth bob dydd, ac o leiaf ddwy bregeth ymhob gwasanaeth. Y mae pregethu Cymreig, o ran dull a modd, yn llawer mwy tebyg i'r pregethu Ffrengig, ac yn debycach fyth i'r un Italeig, nag i bregethu y Saeson. Y mae yn ymwneyd yn fwy â'r elfenau teimladol a'r elfenau ysbrydol uchaf yn y natur ddynol, nag â'r hyn nad ydyw ond moesol a dealltwriaethol. Nid ydyw yn rhyfedd, gan hyny, ei fod weithiau yn cynnyrchu arddangosiadau allanol cryfion o deimlad. Mi welais fy hun, drachefn a thrachefn, lawer o filoedd mewn cynnulliad mawr yn yr awyr agored, yn cael eu hysgwyd fel ymdoniad maes addfed o ŷd o dan allu gorchfygol pregethwr Cymreig mawr. Mi wybûm am gyfnewidiad sydyn yn nhôn llais pregethwr yn cynnyrchu dystawrwydd ofnadwy mewn torf anferth o feibion a merched; a chyfnewidiad arall yn cynnyrchu yr un mor sydyn doriad allan o orfoledd ysbrydol, fel pe buasai y dyrfa fawr wedi ei hysgogi gan gyffröad trydaniaeth. Ymysg prif nodweddion pregethu Cymreig fe geir ei fywiogrwydd, ei ddesgrif-

iadolrwydd, ei ddwfn ddifrifoldeb, ei afael gref yn y prif egwyddorion, ynghyd a'i ymwneyd uniongyrchol â'r gydwybod ddynol. Y mae pregethu Cymreig yn hynod am ei hyawdledd perseiniol. Y mae iddo swn melodeg hyfrydsain, ac y mae terfyn pregeth yn gyffredin yn cymeryd ffurf cydganiad wresog. Fe sonir am hyn yn Nghymru fel yr *hwyl*,—ymadrodd wedi ei gymeryd oddiwrth long dan lawn hwyliau. Y mae yn awgrymu math o ysbrydoliaeth ar y pryd, pan dybir fod llefarwr yn cael ei gario ymlaen gan yr awel nefol, yn debyg iawn i'r hen brophwydi gynt. Y mae pregethu Cymreig hefyd yn hynod am ei dân. Mae yr arwedd yma ynddo wedi ei ddesgrifio nid yn anaddas yn y geiriau :—

Begin low, go on slow—
Then rise higher, and strike fire.

Y tri pregethwr mwyaf yn Nghymru yr hanner gyntaf o'r ganrif hon oeddent Christmas Evans, John Elias, a Williams o'r Wern. Yr oedd John Elias yn hynod fel duwinydd ac areithydd; Williams fel uchanianydd; a Christmas Evans am ei allu digyffelyb o ddarluniaeth fyw, fel y mae efe yn briodol wedi cael ei alw yn John Bunyan Cymru.

Yn ystod y blynyddoedd diweddaf nid ydyw yr Eglwys yn Nghymru wedi cynnyrchu ond ychydig o bregethwyr Cymreig gwir fawr, os neb—prin un dyn o nerth angerddol ac o allu ar y bobl i'w gorchfygu. Llawer o ddynion galluog a phregethwyr poblogaidd, yn ystyr gyffredin y gair, a gynnyrchodd; ond dim un Griffiths o Nevern, neu Jones o Langan, neu Rowlands o Langeitho. Pa fodd y gallwn gyfrif am y diffyg yma o bregethwyr mawrion yn yr Eglwys Gymreig? Y rheswm mewn rhan ydyw am nad ydyw pregethu Cymreig, yn ei ffurfiau uchaf a rhagoraf, wedi cael ei gefnogi yn yr Eglwys. Heblaw hyny, nid ydyw yr Eglwys wedi chwilio am, a chymeryd gerfydd eu llaw, a dwyn allan ddynion ag yr oedd eu prif gymeradwyaeth yn y doniau a'r grasau â pha rai yr oedd Duw wedi eu cynnysgaeddu. Hefyd y mae traul parotoad wedi gosod derbyniad i urddau sanctaidd y tu allan i gyrhaedd y lliaws o fy nghydwladwyr. Ac yn fwy fyth, am nad oedd llywodraethwyr yr Eglwys yn y gorphenol yn deall anghenion arbenig a neillduolion pobl Cymru, nac yn cydymdeimlo â hwynt ond yn llai fyth. Yn rhy fynych y mae dynion wedi cael eu hanrhydeddu, eu hanwesu, a'u dyrchafu, a hyny i'r graddau ag yr oeddent, mewn iaith, a chydymdeimlad, a chalon, yn estroniaid i bobl Cymru; tra, ar y llaw arall, yr oedd yr ansoddau ag ydynt fwyaf deniadol i'r bobl, yn ymddangos fel y rheswm paham nad oedd y rhai a'u meddent yn cael unrhyw ffafr yn ngolwg llywodraethwyr yr Eglwys. Fe wyddys yn dda trwy Gymru oll mai felly yn amlwg y mae wedi bod mewn llawer o amgylchiadau yn ystod y 70 mlynedd cyntaf o'r ganrif hon. Yr oedd bod yn enwog fel pregethwr neu ysgrifenydd Cymreig, bron yn rheswm sicr a dilys dros i ddyn gael ei anwybyddu gan lywodraethwyr yr Eglwys. Pa fodd i roddi cyfrif am ragfarn mor drofaus sydd ddyrysbwnc nad yw yn hawdd ei esbonio. Myn rhai mai am y tybid fod diwyllio pregethu Cymreig yn estyn bodolaeth yr iaith Gymraeg. Eraill, am y tybid fod pregethu Cymreig da yn arogli o Ymneillduaeth, ac yn tueddu at gynnyrchu math o dduwioldeb ag nad oedd esgobion y dyddiau gynt yn gymeradwyo. Fe fyn eraill, llai caredig, fod

rhwyddineb mewn defnyddio yr iaith Gymraeg, yn cynhyrfu eiddigedd y rhai oedd yn anwybodus o honi, a'i fod felly yn cael ei ystyried fel beiad arnynt hwy. Y mae yn sicr fod esgobion Seisonig-Gymreig y dyddiau a aethant heibio yn gweithredu fel pe buasai rhagoriaeth mewn pregethu Cymraeg yn anghyson âg effeithiolrwydd gweinidogaethol. Ystyrid bod yn zelog o blaid addysg, ac yn weithgar gyda dyledswyddau bugeiliol, fel y brif ffordd, os nad yr unig ffordd, i ffafr esgobol. O dan y fath amgylchiadau, a ydyw yn rhyfedd o gwbl fod yr Eglwys yn y Dywysogaeth yn awr mewn sefyllfa isel? Ac eto y mae y ffaith noeth fod yr Eglwys wedi gorfyw camlywodraethiad alaethus y 180 mlynedd diweddaf, yn sicr yn ernes nad ydyw Duw wedi ei gadael, a bod dyddiau gwell eto yn ei haros. Meddyliwch am sefyllfa pethau yn y ganrif ddiweddaf, pan y gallai Esgob Bangor (Hoadley) ddal ei esgobaeth heb gymaint a gosod ei droed o'i mewn yn ystod tymmor o chwe' blynedd ac ychwaneg y bu yn ei dal. Meddyliwch am y rhan gyntaf o'r ganrif hon, pan nad oedd Esgob Watson o Landâf, a ystyrid fel patrwn o esgob yn ei amser, yn ymweled â'i esgobaeth ond yn anaml iawn yn ystod y tymmor maith y bu yn ei dal, ond yn byw fel amaethwr a choedwigwr yn Westmoreland bell, i'r lle yr oedd raid i glerigwyr tlodion y Deheudir fyned, pryd bynag yr oedd ganddynt achos i gydymgynghori â'u hesgob. Meddyliwch am adeg ddiweddarach yn y ganrif hon, pan na thybiai esgob Seisonig-Gymreig arall yn anaddas ynddo orfaelu, rhyngddo ei hun a'i deulu, rhyw £23,679 y flwyddyn o gyllid yr Eglwys yn ei esgobaeth, gan adael i'r oll o'r clerigwyr eraill ddim ond £18,391 y flwyddyn i'w rannu rhyngddynt. Ac yn ddiweddarach eto, ddim ond rhyw ugain mlynedd yn ol, meddyliwch am esgob Cymreig, wedi gweini y ddefod o Gonffirmasiwn yn Saesoneg mewn plwyf ag oedd bron yn hollol Gymreig, yn diolch yn gyhoeddus i Dduw nad ydoedd yn deall yr iaith Gymraeg! A ydyw yn beth i synu ato, wedi i'r tadau fwyta y grawnwin surion, fod y dincod ar ddannedd eu plant? Ond mae y drefn ddisynwyr hon o anwybyddu yr iaith Gymraeg a thymher neillduol pobl Cymru, yn effeithio ar y presennol yn ogystal ag ar y gorphenol. Ni fu yr iaith Gymraeg erioed, o leiaf yn ystod y 180 mlynedd diweddaf, yn gymaint gallu yn Nghymru, neu yn meddu cymaint o ddylanwad ar bobl Cymru ag yn y dyddiau hyn. Ni fu llenyddiaeth Gymreig, beth bynag a ddywedir am ei hansawdd, erioed yn cael ei chynnyrchu mor helaeth, neu yn cael ei darllen gyda'r fath awyddfryd, a chan yr oes o Gymry sydd yn codi yn y dyddiau hyn. Y mae yn sicr yn canlyn, fel mater o angenrheidrwydd, y dylai y clerigwyr Cymreig, o'r esgobion i'r curadiad ieuengaf, fod yn feistriaid ar yr iaith Gymraeg: nid yn ei siarad yn ofnus, yn anystwyth, yn drwsgl, ond yn rhwydd a chyda nerth, gan feddwl, a siarad, ac ysgrifenu Cymraeg loew a naturiol y bobl gyffredin. Heb hyn, yr wyf yn ofni y bydd i lîaws mawr o bobl Cymru sydd yn siarad Cymraeg, barhau i edrych ar y clerigwyr fel estroniaid mewn meddwl a chydymdeimlad. Nid ydyw Cymraeg wedi ei dysgu, pa mor gywir bynag, ond o ychydig ddefnydd i ddylanwadu ar fy nghydwladwyr sydd yn siarad Cymraeg. Yn wir fe ddywedir fod i un mewn oed feistroli cynaniad yr iaith Gymraeg fel ag i'w alluogi i anerch cynnulleidfa Gymreig gyda rhwydd-

ineb ac awdurdod, bron yn anmhosibilrwydd. Pa un bynag a ydyw felly ai peidio, yr wyf yn hyf i herio neb i ddwyn ymlaen gymaint ag un engraifft ymha un y bu Cymraeg wedi ei dysgu o ddefnydd helaeth mewn dylanwadu ar bobl Cymru, trwy y pulpud, y wasg, neu yr esgynlawr. Ac yr wyf yn myned ymhellach eto, ac yn dyweyd nad oes dim ond Cymraeg frodorol—nid meddyliau Seisonig wedi eu gwisgo mewn geiriau Cymreig, ond Cymraeg naturiol, gynhenid, gartrefol—yn alluog i ddylanwadu i unrhyw fesur helaeth ar bobl Cymru sydd yn siarad Cymraeg. Ychydig bethau sydd ag y mae fy nghydwladwyr yn llai goddefgar o hono na'r hyn a adwaenir yn Nghymru fel *lledliaith*, yr hyn a olyga Gymraeg yn cael ei siarad gydag acen Seisonig. Yr ydwyf fi, wrth reswm, yn gwybod yn dda nad oes gan y Saeson nemawr o gariad at yr hyn a adwaenir fel acen Gymreig. Y maent yn ddigon caredig i ddyoddef acen Wyddelig, ac acen Ysgotig, er nad ydyw y naill na'r llall yn hynod o seinber; ond—acen *Gymreig!* Wel, y mae rhai pobl ddiried wedi myned mor bell a dyweyd, pe buasai i un o bysgodwyr Galilea ymddangos o flaen cynnulleidfa Seisonig, ac i'w lediaith Galilëaidd gael ei chymeryd am acen Gymreig, na fyddai iddo gyfarfod ond â derbyniad pur ammheus. Fy mrodyr, a gredwch chwi? ond y cyfryw ydyw effaith esiampl ddrwg, fel ag y mae gan fy nghydwladwyr anhoffder cyffelyb, ond y mae yn ddrwg genyf ddyweyd ei fod yn llawer mwy angerddol, hyd yn nod i'r drwgdybiaeth lleiaf o acen Seisonig mewn un yn darllen neu yn ysgrifenu Cymraeg; ac nid cyfrol fechan fyddai raid gael i gofnodi y camddarlleniadau gwrthun o rai ymadroddion yn yr Ysgrythyr Lân gan rai o glerigwyr y dyddiau gynt, y rhai yr oedd eu meistrolaeth ar yr iaith Gymraeg braidd yn llai na'u budd mewn gwaddoliadau Cymreig! Nid ydyw, gan hyny, yn beth i synu ato fod yn llawer gwell gan y Cymry, fel rheol, Sais pur na Chymro Seisonig. Gwnant ymdrech i ddeall y naill; ond trugaredd brin sydd ganddynt i'r llall. Yr wyf yn gwybod, yn wir, ei fod wedi bod, a'i fod eto, yn ffasiynol mewn rhai cylchoedd, i siarad yn ddirmygus am yr iaith Gymraeg a chenedlaetholdeb Gymreig, a gweithredu fel pe na fuasai y naill na'r llall yn bod. Nid ydwyf yn siarad yma fel dadleuydd dros y naill na'r llall, llawer llai dros y cri cul o "Gymru i'r Cymry." Ond nid oes genyf un argyhoeddiad dyfnach nag fod ymdrechion parhaus a disynwyr y 180 mlynedd diweddaf i Seisnigeiddio clerigwyr a phobl Cymru, gan anwybyddu y dymher genedlaethol a theimladau cenedlaethol pobl Cymru, yn fwy na dim arall, wedi dyeithrio cyfran helaeth o fy nghydwladwyr oddiwrth fam Eglwys y wlad. Nid ydyw iaith, yn yr hon y mae yn awr ddim llai na 37 o newyddiaduron wythnosol a chyfnodolion misol a chwarterol yn cael eu cyhoeddi, un o ba rai sydd yn meddu lledaeniad o 37,000 y mis, yn beth ag y gellir yn ddiogel ei hanwybyddu; ac nid ydyw egwyddor o genedlgarwch nad ydyw yr elfen wanaf yn nychweliad 32 o'r 35 aelodau Seneddol Cymreig, yn beth i'w ddiystyru. Er mwyn asio gwahanol genedloedd i un wladwriaeth unrhywiol, gallai fod yn drefn dda i amcanu at undod iaith, deddfau, a gweinyddiad, ac ymdrechu at ennill undod bywyd cenedlaethol trwy wneyd y cenedloedd llai yn un â'r genedl sydd yn y mwyafrif. Gallai fod hyn, neu nad ydyw, yn drefn ddoeth. Ond ni ellir ei gymhwyso at yr Eglwys,

heb fyned ar draws rhai o'i hegwyddorion mwyaf sylfaenol. Y mae Cristionogaeth yn cydnabod egwyddor o undod, sydd yn gorwedd o dan amrywiaethau cenedlig. Cyrhaedd yr undod hwn ydyw amcan mawr yr Eglwys Gristionogol. I wneyd hyny yn llwyddiannus, rhaid iddi ei chyfaddasu ei hun at angenrheidiau ac amgylchiadau neillduol y gwahanol genedloedd. Hawlia Cristionogaeth drawsffurfio a dyrchafu nodweddion cenedlaethol, heb eu dinystrio. Os ydyw hanes yr Eglwys Gristionogol yn dysgu dim i ni, dysga mai un o ffynnonellau mwyaf ffrwythlawn cynhen ac ymraniad crefyddol ydyw ymgais y canghenau cryfaf o'r Eglwys Gatholig i wthio eu rheolau a'u harferion hwy eu hunain ar ganghenau llai a gwanach. Canlyniad y drefn yma bron yn ddieithriad a fu, naill ai syrthni ysbrydol a marwolaeth, neu wrthwynebiad a gwrthryfel. Yr ydym yn gweled hyn yn yr Iwerddon ac yn Nghymru, a gwyddom gyda pha ganlyniadau, yn gymdeithasol, politicaidd, ac eglwysig. Rhaid i genadwri yr Eglwys beidio byth a chael ei rhoddi mewn gwisg estronol. Mae iaith cenedl yn iaith calon ei phobl; ac y mae y dymher genedlaethol yn gorfyw diffoddiad iaith cenedl. Ac o hyn y cyfyd y pwys o fod clerigwyr mewn llawn gydymdeimlad â greddfau crefyddol eu cydwladwyr. Dyma, yn arbenig, fel y mae yn y Dywysogaeth yn awr, pan mae y Cymry yn amlwg mewn ystad o newidiad, gan fod nerth ysbrydol mawr y ganrif ddiweddaf bron wedi ei dreulio allan. Yn y Cynghor Pan-Presbyteraidd diweddar, dywedai y *Principal* Edwards, o Aberystwyth, gŵr o ddirnadaeth graff, ac ysgolhaig enwog:—"Yn sefyllfa bresennol pethau yn Nghymru, yr ydych yn cael pobl wedi llwyr flino ar gyfundrefnau yn cydymryson, ond yn hynod o fyw ar yr un pryd i hudoliaeth drychfeddyliau newyddion, gwleidyddol a gwyddorol, ac am y rheswm yma mewn perygl o gael eu cario ymaith oddiwrth wirionedd duwinyddol yn gwbl." I gyfarfod y fath sefyllfa ar bethau, nid oes dim, yn fy marn ostyngedig i, mor gyfaddas ag athrawiaethau cryfion Eglwys Loegr, yn cael eu gosod allan gydag egni argyhoeddiad, a chyda nerth yr Ysbryd Glân. Mae yr hyn a ellir alw yn wyneb-weryd y Dywysogaeth bron wedi treulio ei nerth. Yr hyn sydd eisieu yn awr ydyw aredig dwfn i'r is-weryd,—pregethu a gyrhaedda at wreiddiau cymdeithas, gan roddi i wirioneddau na theimlwyd hwynt nerth bywyd newydd. Rhaid i'r moddion trwy ba rai y dyeithrwyd y Cymry oddiwrth yr Eglwys, gael eu defnyddio i'w dwyn yn ol, os byth y dygir hwy yn ol—yr un Efengyl o eiddo yr Ysbryd Glân, yn cael ei phregethu gyda yr un gwresogrwydd ysbrydol; yr un defnydd o wasanaeth lleygwyr, galwch hwynt cynnorthwywyr lleyg, Efengylwyr, neu swyddogion Byddin yr Eglwys; yr un zel angerddol dros eneidiau, a'r un cyfaddasiad o foddion i ddybenion; yr un ffydd apostolaidd yn nerth gweddi, a'r un cyhoeddiad difloesgni o wirioneddau mawrion y ffydd Gristionogol. Beth bynag a ellir ddyweyd am fanau eraill, nid Cymru yn sicr ydyw y lle i ryw fath meddal, anmhenodol, anenwadol o Gristionogaeth. Os ydyw yr Eglwys yn Nghymru i gael ei hachub, rhaid iddi gael ei hachub o fewn, trwy fywyd ysbrydol cynnyddol yn yr Eglwys ei hun: undeb, ysbrydolrwydd, a hunan-anghof cynnyddol yn ei chlerigwyr; zel, haelioni, a hunan-aberth cynnyddol ar ran y lleygwyr. Ni all dim oddiallan, o hono ei hun, byth achub yr

Eglwys. Nid ydyw bywyd galfaniedig ond rhith o wir fywyd. Rhaid i fywyd belydru o'r canolbwynt i'r amgylchedd. Nid ydyw diogelwch yr Eglwys yn Nghymru yn gorwedd yn llwyddiant pleidiau gwleidyddol, neu yn ewyllys da gwladweinwyr, neu yn nghyfoeth ei haelodau, neu hyd yn nod yn nghyflawnder ei threfniadau; ond yn hytrach yn ei hegni ysbrydol, yn ei ffyddlondeb i athrawiaeth a dysgyblaeth apostolaidd, ac uwchlaw y cwbl, yn ei ffydd yn addewidion Duw. Nid ydyw nerth yr Eglwys yn Nghymru yn gorwedd yn ei huchafiaeth cymdeithasol a'i thraddodiadau eglwysig, er fod y pethau hyn yn werthfawr; ond yn hytrach yn ei chariad at ei holl blant, ïe, yn ei chariad at y rhai nad ydynt fe allai yn ei charu hi. Cariad ydyw unig arf holl-orchfygol yr Eglwys. Mae dadl yn cynhyrfu dadl. Mae ysbryd o gydymgais ynom ni yn angerddoli cydymgais mewn eraill. Ond fe fydd i gariad dwfn, llydan, caredig, di-ddannod, sydd yn cofleidio pawb, ein sicrhau o wên Duw, ac o leiaf o gydymdeimlad pob dynion da.

A ofynech i mi pa awgrymiadau ymarferol sydd genyf i'w cynnyg? Yr wyf yn ateb,—

1. O hyn allan bydded i gyrhaeddiadau clasurol ymgeiswyr am weinidogaeth yr Eglwys yn Nghymru gael eu sicrhau yn benaf yn Ngholegau y Brifysgol a manau eraill, a defnyddier manteision a pheirianwaith Coleg Dewi Sant yn fwy fwy at hyfforddiant duwinyddol ac ymarferol at waith yr Eglwys.

2. Penoder pregethwyr teithiol Cymreig ymhob esgobaeth—dynion o ddoniau neillduol, y rhai a ânt i bob man, gan ddeffro clerigwyr a lleygwyr yr un ffunud. Y mae hanes yr Eglwys ymhob oes yn ein dysgu fod bron bob adfywiad mawr ar fywyd crefyddol wedi ei ddwyn oddiamgylch trwy bregethu neillduol gan ddynion o benodiad neillduol, ac—ysywaeth!—weithiau o hunan-benodiad. Y mae mewn gweinidogaeth sefydlog, fel yr eiddom ni, duedd sydd bron yn anocheladwy i syrthni; ac y mae syrthni wedi bod bron yn farwolaeth i'r Eglwys yn Nghymru. Mae arnom eisieu goruchwyliaeth i fywhau ein cylchrediad marwaidd, ac i gyfodi clerigwyr a lleygwyr i lefel uwch o fywyd ysbrydol.

3. Yn olaf, ond yn gyntaf mewn pwysigrwydd, yr hyn ydyw y mwyaf o holl anghenion yr Eglwys yn Nghymru, sef Bywhâd ar ysbryd gweddi. Yn hyn, fy mrodyr Seisonig, gellwch chwi oll ein cynnorthwyo. Nid ydym yn gofyn am eich cydymdeimlad, oblegid gwyddom ei fod genym. Nid ydym yn gofyn genych am gynnorthwy arianol, er cymaint sydd arnom ei eisieu. Nid ydym yn gofyn i chwi amddiffyn ein hawliau a'n rhagorfreintiau, oblegid nid ydyw yn eich natur Seisonig i beidio gwneyd hyny. Ond yr ydym yn y modd mwyaf difrifol a thaer yn gofyn i chwi am yr hyn, uwchlaw pobpeth arall, sydd yn anhebgorol angenrheidiol i ni,—fod i chwi *ymdrechu* gyda Duw ar ein rhan, yn enwedig ar ddyddiau ympryd yr Eglwys. Yn unig caniatewch i ni y ffafr hon, ac yna, pa un bynag ai sefydledig ai ansefydledig, fe fydd i'r Eglwys yn Nghymru—sydd yn ddiammheuol yn ddisgynydd uniongyrchol o'r Eglwys Brydeinig gynhenid—flodeuo fel yn y dyddiau gynt, ac eto ddyfod yn ffrwythlon fam cenedlaethau sydd eto i ddyfod.

# GORONWY OWAIN YN MARW YN AMERIG.

GAN Y PARCH. J. MYRDDIN THOMAS, YR WYDDGRUG.

YN marw, yn marw, yr ydwyf o'm gwlad!
Ai breuddwyd, atolwg, yw'r geiriau?
Rhy wir yw 'm tafodiaith, yr enaid ym âd,
A'r meddwl brysura fy angau.

Tybiaswn yn ieuanc y treuliwn fy nydd
Yn Ngwynedd ag oeddwn yn garu,
A phan y gollyngid fy ysbryd yn rhydd
O'r corff, y cawn farw yn Nghymru.

Ond llaw y Penllywydd a drefnodd im' droi
Fy wyneb o Walia fynyddig;
Mae niwl y glyn tywyll o'm deutu 'n crynhoi,
Rhaid marw ar weryd Amerig!

Ti gynneddf ymadgof, gad lonydd i'm bron
Fedd galon ar dori gan hiraeth;
Mae 'm bywyd fel pluen a deilen ar dòn,—
Yn cyflym nesâu mae marwolaeth.

Ni wiw im' warafun, fy nghalon rydd lam,
Heb amnaid fy mebyd ymddengys;
I'm cof daw Mathafarn† a mynwes fy mam—
Goreuon gwrthddrychau Môn-ynys.

* Y mae yn anhebgorol dilyn, hyd byth y gellir, briod ieithwedd y neb a ddynwareder; felly, oddigerth i gyfansoddydd hunanymddyddan o rywogaeth y ddyfalgerdd hon geisio cyfleu myfyrdodau a theimladau gwrthddrych ei gân yn yr arddull, yn ol ei farn ef, a arferasai efe pe cyfansoddasai ar wely marwolaeth, ni fydd ei waith yn bersonoliad cwbl gyfaddas. Pa fesur bynag a ddewisasai Goronwy Owain ped eiliasai hunanymddyddan o ansawdd y cyfansoddiad hwn, efe a ymgyrhaeddasai, ond odid, ar ol cynghanedd, oblegid ar gynghanedd yn unig, oddieithr cyfieithiad o un o'r Salmau, y buasai efe yn cyfansoddi ar hyd ei fywyd.

Hyn yw rheswm yr awdwr dros ymgais am gynghanedd yn y gerdd hon. Teimlai y buasai yn haws o lawer ei llunio fel arall; ond o herwydd y tybiai y buasai Goronwy Owain—druan gŵr!—pe gosodasai ei fyfyrdodau ynghyd ar fesur cerdd yn nghyfwng pwysfawr diwedd ei einioes yn debyg o wneuthur hyny gan ymgyrchu at gynghanedd, ymdrechodd yntau, goreu y gallodd, wneuthur defnydd o honi.

Diau y canfydd y darllenydd fod yr awdwr weithiau yn debyg i Dafydd yn nillad Saul, ac fel yn cael ei lyffetheirio gan gelfyddyd y gân; er hyny y mae yn gobeithio na fydd y darlleniad o honi yn ddifudd iddo, ac yr ystyria mai ei ymgais oedd cyflëu meddyliau a theimladau Goronwy Owain, gŵr wrth gerdd a gyfrifir yn un o'r rhai penaf, os nad y penaf o bigion beirdd Cymru, ar wedd hunan-ymddyddan, hyd byth y gallai, yn arddull y bardd, yn oriau diweddaf ei fywyd, mewn gwlad estronol, ymbell o Fôn a garai gymaint ag y carodd neb erioed y wlad y ganed ac y maged ef ynddi.

† Llanfair yn Mathafarn Eithaf yn Môn, y plwyf y ganed ac y maged Goronwy Owain ynddo. Dywed y bardd yn un o'i lythyrau a ysgrifenwyd ganddo pan oedd yn gurad yn Donnington, "Yn y flwyddyn 1745, e'm hurddwyd yn ddiacon, yr hyn a eilw

Cyfrifwn yn elyn y dyfnfor, y daeth
  Y llong hyd ei wyneb a'm dygodd
I Wlad y Gorllewin; pan ganfum ei thraeth
  Fy nghalon o'm mewn a lesmeiriodd.

O gwsg! fy mreuddwydion chwanegant fy mriw,
  A'm pen ar obenydd, ymdeithio
Y byddaf yn Nghymru, yn llathraidd fy lliw,
  Ond derfydd fy hawddfyd wrth ddeffro.

Cymysglyd yw cwpan adgofion i gyd,
  Cyforiog o'r chwerw a'r melus;
Un mynyd llawenydd sy 'n llenwi fy mryd
  Y llall sydd yn fynyd drallodus.

Myfyrdod am enyd â'm mebyd i mi
  A ddaw gan fwyhau fy nyddanwch;
Disyfyd y derfydd, a'm llygad yn lli',
  Daw adgof, ow! drostof â'i dristwch.

Y mynyd meddyliaf am Mona* a'm hoes
  Foreuol o fewn ei therfynau,
Wrth edrych o'm deutu yn glynu mae gloes,—
  Amerig sydd yma a'i muriau.

Ochenaid ddiniwaid o'm mynwes a ddaw,
  Gwae fi! na chawn farw yn Nghymru;
O fewn ei magwyrydd yn llonydd fy llaw
  Cyfrifwn yn well cael fy nghladdu,

Na daear estronol, bellenig oer bau,
  Heb neb uwch fy llwch i alaru
O'r beirddion a garwn, yr wyf yn tristâu
  Am na fydd im' feddrod yn Nghymru.

Fel doe yw 'r mwyn foreu yr aethym o Fôn
  I Fangor† i fyw dan addysgiad,
A'm cyflawn gymhwyso yn genad yr Ion
  Ac addas gyhoeddydd y Ceidwad.

A dydd fy neillduad ger allor fy Nuw
  A changell yr Eglwys Gadeiriol,

ein pobl ni *Offeiriad haner pann*; ac yno fe ddigwyddodd fod ar Esgob Bangor eisiau Curad y pryd hyny yn Llanfair Mathafarn eithaf yn Môn; a chan nad oedd yr Esgob ei hun gartref, ei *Chaplain* ef a gyttunodd â mi i fyned yno. Da iawn oedd genyf y fath gyfleusdra i fyned i Fôn, ac yn enwedig i'r plwyf lle'm ganesid ac y'm magesid."

* Yn Môn y bwriodd ddyddiau bachgendod hyd nes yn un mlwydd ar ddeg oed, pan yr ymadawodd i drigiannu yn swydd Dinbych a swydd Gaernarfon. Dywed mewn llythyr at Mr. Risiart Morris, o Lundain:—"Da iawn oedd genyf y fath gyfleusdra i fyned i Fôn, oblegid yn Sir Gaernarfon a Sir Ddinbych y buaswn yn bwrw'r darn arall o'm hoes er yn un ar ddeg oed."

† "Trwy ddiflin ddiwydrwydd fy rhieni, y rhai sydd yn dra thlodion, galluogwyd fi i ganlyn yr Ysgol Gyhoeddus yn Mangor o'r flwyddyn 1737 hyd 1741."—GORONWY OWAIN.

Gan addaw 'r ymroddwn tra byddwn i byw
  I waith fy Mhryniawdwr Sancteiddiol.

Y Fenai a hudai fy awen i fod
  O fewn golygfeydd glan yr afon,
A minnau a glymwn linellau o glod
  I'w glendyd yn hyfryd fy nwyfron.

Ceis ddyddiau dedwyddyd a bywyd di-boen
  Yn Ysgol Mynachdŷ* yn Mangor,
Heb wybod am drymloes, a'm heinioes mewn hoen
  Yn llonydd fel llong wrth ei hangor.

Trwy gymhorth gwyr mawrion† a'u moddion, i mi
  Rhoed uchel ysgolfraint Rhydychain;
Mewn dysg fy athrawon, frodorion o fri,
  Dda fwriad, wnaent beunydd fy arwain.

I'r llanc o Fôn-ynys hyd dyrys rawd dysg
  Mewn maboed y rhoed rhyw anrhydedd;
A llawryf ei gwisgwyd, fe 'i maethwyd yn mysg
  Dysgawdwyr, myfyrwyr o fawredd.

Dych'mygion y borau am fryniau o fri
  Ac urddas yn Ngwynedd gynt gerddwn,
Yn fuan a chwalwyd, mesurwyd i mi
  Oes galed, yr hyn ni ddysgwyliwn!

Meddyliais am fawrfri, ond surni a siom
  A malais a brofais, wael bryfyn;
Bum lawer diwrnod â'm calon yn drom
  Gan gilwg a gogan y gelyn.

Ni roed nac anrhydedd na mawredd na mael
  I mi o fewn Eglwys fy nhadau;
Anghofid Goronwy, dyrchefid y gwael
  Amddifad o ddysg ac o ddoniau.

Annichon yw tewi, o'm cyni daw 'm cwyn,
  Er maddeu e gyfyd adgofion;
Dyeithriaid a'm gwelsant a fuant yn fwyn,
  Er rhwystrau yn nawdd im' bu 'r estron.

*O'm* gwlad ac nid *ynddi*, er cymaint y cais
  Am gael bod o'i mewn yn offeiriad,
Y bum yn gweinyddu 'n nhafodiaith y Sais,
  O'm hanfodd, hyd adeg f' ymfudiad.

* Gelwir hi yn [illegible], Ysgol y Friars.

† Pan yn ddeunaw mlwydd oed ysgrifenodd lythyr Lladin at Owain Meirig, Ysw., Bodorgan, yr hwn oedd ymddiriedolwr dau ddyddiau *exhibitions* o Sir Fôn er cynnal dau ddyn ieuainc yn Mhrifysgol Rhydychain neu Gaergrawnt. Ni wyddir a lwyddodd efe ai peidio yn ei ymgais er cael y boneddwr hwn yn gynllaw iddo; ond galluogwyd ef i fyned i Rydychain drwy haelioni Mr Edward Wynne o Fodewryd. Graddiodd yn A.C., yn Rhydychain.

Tylodi o ddiffyg fy noddi a wnaeth
  I'm gefnu ar Gymru a garaf;
Er bod yn nhir estron, O galon yn gaeth
  Wyd iddi 'n dy oriau diweddaf!

Ai effro ai huno yr ydwyf ar hyd
  Yr amser? Ai 'n Môn ai 'n Amerig!
Fy meddwl a'm bywyd sy fel rhwng dau fyd
  Yn chwareu fel tòn ysgwydedig.

Er gwel'd diystyrwch, er tristwch i'm trem,
  Ar law urddasogion y gangheli,
Er teimlo i'm gwyneb yr awel yn llem,
  A chanfod yr wybren yn dywell;

Os gorfu im' gefnu ar Gymru, bro 'r gân,
  A thrigo ar ddaear yr estron,
Yn methu â llwyr ymlonyddu yn lân
  Yr oeddwn, i Walia äi 'r galon!

Cyfeillach â'r awen felusai fy oes
  Yn fynych, a chwenych ei chynhes
Ac haelaf amgeledd mawr gysur im' roes
  Yn nghanol y Saeson a'u rhodres.

Ar aden y g'lomen hon hedwn yn glau
  I'm gwlad er mwynhâd ar ei mynydd;
Ond pan y dychwelwn dechreuwn dristâu
  Heb arbed am *weled* ei moelydd.

Y galon ymglymai am Gymru a'i hiaith
  Po hwyaf y byddwn o honi;
Beunyddiol hiraethwn a'm llygad yn llaith,
  Gael gwenwisg ei llan dan glogwyni.

Bro wledig o'r Mwythig* lle bum gŵr o'm hoes,
  Hyd hon mae y galon i'm galar
Ar droion am fyned, er maswed ei moes,
  Ar aden hêd awen i'w daear.

I ddaear ddu Walton† hebryngais fy merch
  Er trymed fy mron a'm cerddediad;
O herwydd mai yno rhoed gwystl fy serch,
  Wèn g'lomen, am hon mae ymglymiad.

Byth bydd swydd Gaerwerydd i mi er ei mwyn
  Yn ail i Fôn-fynydd a'r Fenai;
Cwyd tristwch mewn henaint er cymaint yw 'm cwyn
  Ac hiraeth am Neli a'm carai.

* Wedi y siomedigaeth a gafodd yn Môn ynglŷn â churadiaeth Llanfair-Mathafarn-Eithaf, aeth Goronwy oddiyno yn gurad plwyf bychan ger Croesoswallt, lle yr ymbriododd â boneddiges ieuanc ddysgedig, ond heb fedru odid ddim Cymraeg.

† Pan yn gurad yn Walton, ger Lle'rpwll, claddwyd unig ferch y bardd, yr hon oedd dra anwyl ganddo, yn bum' mis a blwydd oed. Cyfansoddodd Farwnad dra thostur ar gynghanedd am dani.

O bobman ar hedfan fy anian yn fyw
  Fyn grwydro hyd meusydd mabolaeth,
A minnau yn ymyl cyfarfod â'm Duw
  Ar alwad yn adwy marwolaeth.

Ni ddarfum ymennyn fel gelyn i'm gwlad,
  Er symud o Wyndud dros wendòn;
Er bod mangre beddrod fy mam a fy nhad
  O'r golwg, i hon yr äi 'r galon.

Ni throis yn erlidiwr neu 'n fradwr y fro,
  Pan groesais y môr i Amerig;
Bu enaid Goronwy yn tramwy gan' tro,
  Mewn heddwch, ei llwybrau mynyddig.

Ni pharodd aflwyddiant na siomiant i'm serch
  Erioed ati oeri, na'r awen
Sarugo neu ddigio, nac unwaith yn dderch
  Roi 'i thelyn ar unrhyw helygen.*

Can' amlach yr hedai fy meddwl yn ol
  O'r moroedd, na thua 'r Amerig;
Ystyriwn yn fynych fy antur yn ffol,
  Rhoed anfri i mi ar y donfrig.†

Bedyddiais fy hunan dirf faban ar fôr,
  A chleddais rai gerais mewn geirwon
Wanegau gwyllt, dyrys, wrth wyllys doeth Iôr,
  Ymdaflai, amrwygai 'r mawr eigion.

Y dwthwn mordwywn hiraethwn ar hyd
  Fy hwylfa am Walia a'i moelydd;
Heb osteg, am redeg yr ydoedd fy mryd
  Dros foryn y dulyn i'w dolydd.

Cymysgais fy nagrau â'r tònau oer, tan
  Chwerw riddfan ym hunan am Wynedd,
Hyd eigion glyfoerllyd, heb gilfach na glàn,
  A'n llong gyfrdo 'n morio mewn mawredd.

Wrth groesi y cefnfor dygyfor, du, gau
  Haint farwol i nol fy anwyliaid
A ddaeth ar y wèndòn, trwst hon wnai 'n tristâu,
  Ddydd arwyl rhai anwyl yr enaid.‡

* Prawf o hyny ydyw Marwnad Lewis Morris, Ysw., yr hon a gyfrifir yn gampwaith cydradd â *Chywydd y Farn*.

† "Och yn ein calonau! Dynion bawaidd aruthr yw dynion y môr. Duw fo'n geidwad. Ni welwyd erioed fwystfil o ddyn gwaeth na'r penaeth. Y mae'n gorfod arnom er ys pythefnos yfed dwfr drewedig neu dagu."—GORONWY OWAIN.

‡ Collodd Goronwy, druan, ei deulu gan mwyaf wrth groesi y Môr Werydd o Lundain i Amerig, yn y flwyddyn 1757. Dywed yn ei Farwnad i Lewis Morris, Ysw., a gyfansoddodd yn Virginia, yn America:

Llwydais i gan golledion,
Oer a fu 'r hynt i'r fro hon.

Wrth gefnu ar Gymru i'm teulu bu 'm taith
Heb londid, ni welsom ond blinder;
Hebryngwyd anwyliaid a'n llygaid yn llaith,
Hyd eofndon sarug y dyfnder.

Ar ogwydd i'r eigion äi 'r galon dra gwyw,
Bu och wrth in' gladdu 'n rhai bychain;
Cyflwynem rhwng tônau ei ddoniau i Dduw
'R holl ddaear gan lafar wylofain.

Ein hing nid ä 'n angho', hyd heno ein taith
A'm dilyn, mor fawr ydyw 'm dolur!
Ar ol y rhai gollais gwn wylais gan' waith,
Ond cefais a geisiais,—Duw 'n gysur.

Gobeithio yr oeddwn wrth forio i fyd
Is haul y gorllewin dros heli,
Ar olwyn Rhagluniaeth, y deuai y pryd
Pan ganwn yn iach i'w lanerchi.

Gan lawen droi adref yn hydref fy oes
I dreulio ei gweddill yn Ngwynedd;
Ond amgen drachefn, Ow! y drefn a droes,
Dir, Duw yw gosodwr y diwedd.

Meddyliau marwolddyn a derfyn ein Duw
O'i orsedd, boed dlawd neu foneddig;
Doeth drefnodd yn rhyfedd o'i fawredd im' fyw,
A marw o fewn i Amerig.

O'm bodd neu o'm hanfodd arfaethodd im' fan,
'N ol hwyliaw, gerllaw y gorllewin;
Yn nhalaeth Virginia bu gyda y gwan
Beriglor, mewn goror tra gerwin.*

Am dymmor mi dybiwn mai goror y gân
Ai drechaf, mai rhaid f'ai dychwelyd;
Fe deimlwn ar brydiau fy mynwes yn dân,
A'm hiraeth yn llethu 'm meddylfryd.

Yn ngwigfa Virginia, cyn belled o Fôn,
Egr wylwn aml ddagrau o heli;
Yn ddyrys y gwelwn ewyllys yr Iôn,
A'm calon ordirion ar dori.

* Wedi bod yn beriglor yn rhai plwyfi—un neu ddau o honynt—yn y dalaeth hono, neillduwyd ef yn un o athrawon Coleg Williamsburgh. Ymhen ysbaid symudodd oddiyno i weinyddu mewn pethau sanctaidd mewn lle o'r enw St. Andrew yn yr unrhyw dalaeth. Trafferthus fu ei helynt yn Virginia fel yn y wlad hon. Yn ei Awdl Farwnad am Lewys Morris, Ysw., ceir yr englyn a ganlyn:—

Bro coedydd, gelltydd gwylltion,—pau prifwig,
Pob pryfed echryslon;
Hell fro eddyl llofruddion,
Indiaid eres haid arw son.

Yn alltud y rhodiwn, meddyliwn am mam,
   Am goed, a mynwent y mynydd;
Lle 'r huna 'r un anwyl a'm cadwai rhag cam,
   Yn wanwr, a'r dwr ar ei dwyrudd.

Mil gwell nag Amerig ynysig o nod,
   Bro 'r awen lle cefais fy ngeni;
O'i mewn carwn sengu a ch'lymu ei chlod
   Ar gân, a fy mron heb oer gyni.

Sisialgerdd yr awel, brefiadau yr wyn,
   Llais bugail o gwmpas ei gorlan,
A bloedd yr amaethwr mewn llannerch a llwyn
   A godent fyfyrdod ar hedfan.

Fel mellten i Lanfair Mathafarn yn Môn,
   Lle 'm ganed a chartref fy mebyd,
A'r man y carswn was'naethu yr Ion
   Nes myned i orwedd i'w weryd.

Bu cywir gyfeillion o galon im' gynt,
   P'le maent, yn wŷr lleyg a llenorion!
Wrth enwi 'r gwŷr hygar fo 'm gwatwar y gwynt
   Yn glau,—"Maent rhwng muriau y meirwon!"

Yr awron yn Môn o'm cyfeillion nis cawn
   Neb odid, pe rhoddid arwyddion
Yr oedid machludiad haul bywyd prydnawn
   Fy oes, er ymwel'd â'm gwlad dirion.

Pe cawn fyr ollyngdod a diwrnod o daith,
   Yn unswydd, er gwel'd eu gwynebau,
Yn lle cael croesawiad, â'm llygad yn llaith,
   Ymwel'd, gwn, y byddwn â'u *beddau.*

Pwy seinia fy enw, ai 'n anghof yr aeth
   O Fôn, ac o Fenai hyd Fynwy?
Pwy yno sy 'n adrodd rhyw linell a wnaeth
   Dawn awen yr estron Goronwy!

Pa galon a ddyry amgeledd i ddarn
   Neu ddwyfraich o Fonedd yr Awen!
Ai i ebargofiad aeth Cywydd y Farn,
   Dymuniad i Fôn, Marwnad Elen!

Os tybir mai calon anffyddlon a ffol
   A'm gyrodd o Gymru i Amerig,
Gadawodd fy awen ryw offrwm ar ol
   Yn arwydd o'm serch dyrchafedig.

Ni noddid mo 'i pherchen os noddid ei waith,
   Haws mudo na dyoddef tylodi;
Wrth gyfrif yr awron holl droion y daith,
   Dir yw, mae fy nghalon ar dori.

Cwrs einioes fu 'n arw, cael marw yn Môn
  Fai 'n derfyn dymunol i'm bywyd;
Ymbwyllwch, deimladau, gwell tewi a son
  A minnau ar ael tragwyddolfyd.

Fy mywyd ymedy, ar wely yn wael
  Daeth arnaf ryw adwyth a'i oernych,
Er hyn dros fro Neifion y galon fyn gael
  Myn'd fynyd, rawd enbyd, ger Dinbych.*

Pan fyddaf yn huno ai 'n angho' yn nhir
  Amerig wyreinig Goronwy?
Pwy bery i ddarllen gwaith awen goeth, ir,
  Rhwng bryniau fy mamwlad glodadwy?

Pwy weithion o'r beirddion o fewn yr hen bau
  A nyddant, dan gamp, gynghaneddion?
Wŷr eres! fy mynwes oedd yno 'n mwynhâu
  Eich enwog oludog deleidion.

Er dysg ac er doniau mewn bedd mae 'r Llew Du;
  Pa le mae Wyn, Richard, a Ieuan
Fardd enwog yr awron, brydyddion o'r bru†—
  Ai byw ydyw heddyw 'r gwŷr dyddan?

Mae angau 'n cryfhâu a llesgâu mae fy llais,
  Hawdd deall mae 'm natur yn pallu:
Attolwg, fy Ngheidwad, na ommedd fy nghais,
  Bydd agos y nos sydd yn nesu!

"Pa les" im' yw son am "gael lloches o'r llaid,
  Tŷ i'r enaid" yn ngwynfyd "Duw rano;"‡
Clyw deimlad, gwell tewi, â'm poeni O! paid,
  Af ymaith o f' ymdaith i f' amdo.

Y corff sydd yn curio, gorphwyso a gaf
  Hûn oesoedd, nid gyda 'r Monwysion,—

* Ymadawodd Goronwy â thŷ ei dad pan nad oedd ond un ar ddeg oed, ac aeth i fyw at berthynasau iddo yn Sir Ddinbych.

Dywaid mewn llythyr at Mr. Rhisiard Morys, o Lundain, a ysgrifenwyd ganddo yn Donnington, pan yn crybwyll am ei siomedigaeth o barthed curadaeth ei blwyf genedigol,—"Gorfu arnaf fyned i Sir Ddinbych yn fy ol, ac yno y cefais hanes Curadaeth yn ymyl Croesoswallt, yn Sir y Mwythig, ac yno y cyfeiriais; ac er hyny hyd y dydd heddyw ni welais ac ni throediais mo ymylon Môn, nag ychwaith un cwrr arall o Gymru, onid unwaith pan orfu i mi fyned i *Lan Elwy* i gael urdd Offeiriad."

† Cyfeirir yma at Lewis Morris, Ysw., *Llewelyn Ddu o Fôn*, a'r Parch. W. Wyn, Llangynhafal; Edward Richard, Ystradmeurig, a E. Evans, *Ieuan Brydydd Hir*.

‡ Yn ei Gywydd yn cynnwys dymuniad da i Fôn, ceir y llinellau a ganlyn:—

Pan fo Môn a'i thirionwch,
O wres fflam yn eirias fflwch,
A'i thorog wythi arian,
A'i phlwm a'i dur yn fflam dân!
Pa les cael lloches o'r llaid!
Duw rano dŷ i'r enaid,
Gwiw ganaid dŷ gogoniant
Ynghaer y ser, ynghôr sant.

Ond lawn diogeled dan nodded Duw Naf—
Rheolwr helyntoedd marwolion.

Daearen lygredig Amerig a Môn
Yn wir ddyry 'n ol lwch dynoliaeth;
Yn ebrwydd o'r dulaid ar amnaid yr Ion
I'r *corff hwn* daw dydd prynedigaeth.

Yr Arglwydd sydd Dduw yr holl ddaear a ddaw 'r
Dydd hwnw â'm lludw o'r lleid-dir,
Pan gyfyd â'i fawrfloedd holl luoedd y llawr,
Ac angeu gan fywyd a lyncir.

Duw Naf, ar y dydd mawr diweddaf, dir, dyd
Fawr eirias a sycha Fôr Werydd;
Y Dwyrain a gwlad y Gorllewin i gyd
Oll wywant yn ngwydd y Penllywydd.

Mynegaf f' ewyllys diweddaf, a Duw
Pob dawn ryngo fodd i'w gyflawnu,—
Dyrchafaf fy nwylaw rhwng marw a byw,
Rhag camrwysg, O cadwed dir Cymru

---

# CREIGIAU MON AC ARFON.

## I.

FEL y mae Llysieuaeth yn ein dwyn i fwynhau y prydferth a'r tyner, a Seryddiaeth yn tynu ein sylw at yr aruchel a'r mawreddog, arweinia Daeareg ni at y rhamantus a'r aruthrol. Fe allai nad oes yn ystod y blynyddoedd diweddaf unrhyw gangen o wyddoniaeth wedi cael cymaint o sylw â Daeareg. Y mae dysgedigion gwahanol wledydd yn cymeryd dyddordeb neillduol mewn astudio crawen y ddaear; a pho fwyaf manwl a llwyr y ceir allan ansawdd a threfn y creigiau a ffurfiant haenau y lloriau sydd o dan ein traed, mwyaf oll fydd y sicrwydd fod eu lleferydd yn dwyn tystiolaeth o'r fath gadarnaf i wirionedd Dadguddiad. Gellir dywedyd yn ddibetrus fod llyfr y Creigiau a llyfr Dadguddiad yn cydgordio yn berffaith, ac megys yn teithio yn ol, law yn llaw, i bellafoedd y gorphenol. Ac nid ydyw hyny yn rhyfedd pan gofir eu bod yn gynnyrchion yr un Meddwl anfeidrol, ac yn weithrediad o eiddo yr un Ewyllys berffaith. Nid oes yr anghysondeb lleiaf i fod rhwng Dadguddiad a Gwyddoniaeth. Mae yn wir fod duwinyddion a gwyddonwyr wedi bod yn anghydweled, ac, i raddau pell, eu bod felly eto; eithr rhaid cofio mai yn eu mabandod y maent, ac fe ellir dysgwyl y bydd pob ymrafael wedi ei derfynu yn fuan, oblegid mae

ymchwiliadau gwyddonol yn prysur ddwyn yr hyn oedd guddiedig i oleuni. Nid oes eisieu ond amser ac amynedd i gario ymlaen archwiliadau ar ffurfiad ac ansawdd y gwahanol greigiau, na fydd yr holl anhawsderau yn cilio. Mae yn wir nad llyfr gwyddonol ydyw y Bibl; eto ceir ynddo gyfeiriadau gwyddonol, a hyny cyn geni gwyddoniaeth, cyn i'r meddwl dynol gychwyn ei archwiliadau tuag at gael allan natur a threfn crystyn y ddaear. Hefyd nid ydyw Llyfr Dadguddiad yn penderfynu oedran y ddaear; ac nis gall dadblygiad gwyddonol ond yn unig ddangos perthynas rhanau y ddaear â'u gilydd, ac fod eu huniad yn gystal â'u ffurfiad yn ol deddfau neillduol. Dengys y naill fel y llall henafiaeth y ddaear. Ac y mae pob daearegwr medrus a diragfarn yn barod i gytuno a dywedyd yn ngeiriau Moses, "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear."

Y mae Daeareg yn ddysgeidiaeth na wnaiff adeiladu ar dybiau a damcaniaethau sylfaenedig ar dystiolaethau oddiallan; ni chymer hi ddim yn ganiataol, eithr rhaid iddi gael profion gweledig, neu gyfrifiad perffaith gyson â hyny. Tuag at gael gafael ar wirionedd, treiddia i ddyfnderoedd y ddaear, myn allan y dirgelwch sydd wedi ei gadw o'r golwg er ys miliynau o flynyddoedd, ac sydd i'w ddarllen yn unig ar ddail gonest llyfr y creigiau. Y mae dysgeidiaeth Daeareg yn eglur gyfeirio at ddechreuad y ddaear, ond yn ei chyrhaeddiadau eithaf nid ydyw wedi cael allan i sicrwydd am gareg sylfaen yr adeiladaeth, nac ychwaith yn medru dangos y chwarel o ba le y cloddiwyd hono allan. Dangosir fod gallu a defnydd o dan lywodraeth fanol a pherffaith gyson, yn gweithio allan gynllun mawreddog; ac wrth ddyfod yn nês atom, canfyddir fod yr adeiladaeth yn dyfod yn fwy gorphenol; ond pa bryd y cwblheir y palas godidog, a pha mor brydferth y bydd pan orphener ef, sydd yn hollol ddirgelwch. Awgryma Dadguddiad rhyw ddiwedd mawreddog ac ofnadwy.

Mor bell ag y mae nerth meddyliol wedi treiddio yn unol â'r wybodaeth sydd genym am allu deddfau a natur defnydd, y golygiad mwyaf cymeradwy am ffurfiad crawen y ddaear ydyw yr un Nifwlaidd. Flynyddoedd yn ol gwrthodid y ddamcaniaeth hon, o herwydd diffyg profion digonol am natur y ser a elwir y *Nebulæ;* eithr erbyn hyn y mae celfyddyd wedi dyfeisio gwydrau—*spectroscopes*—sydd yn meddu y fath nerth fel ag i ganfod cronfa o nwyau yn ymffurfio yn ser neu fydoedd. Fe ellir tybied i'r seren-gwmwl, y *nebula,* ymffurfio yn ganolyn neu gnewyllyn tanllyd, gyda dysgleirder terwynol yn amgylchedd enfawr iddo, ac yn raddol i'w arwyneb dewychu nes myned yn grawen. Yr oedd yn rhaid fod y crystyn ffurfiedig yma o dan bwysau nwyfre dew gymysglyd o nwyau, yn mygdarthu oddiwrth effeithiau y gwres, ac yn disgyn fel gwlaw arno. Y gwres mawr fel yn lleibio, ac am dymmor yn gorchfygu yr hylifau a ymarllwysent arno, ond y gwlybwr yn parhau i ddisgyn, ac yn amgylchu fel môr berwedig. Yna, o dan nerth y gwres tumewnol, ymrwygai y grawen, gan ymgodi uwchlaw y dyfroedd yn gyfandiroedd anwastad, a'r dyfroedd yn dònau cryfion, ac am y waith gyntaf yn taro wrth eu hochrau noethlwm a chrasboeth. Gan nerth a phwysau y tywalltiadau wybrenol parhaus, yr oedd y cyfandiroedd a wthiwyd i fyny yn malurio, a'r llifeiriaint mawrion yn cludo y malurion i waelodion y moroedd, ac effaith pwys y dwfr a'r gwres yn eu

caledu yn haenau trwchus. Pa mor gywir y gall syniadau o'r fath hyn fod, nis gellir penderfynu; eithr y mae yn eithaf amlwg fod y defnyddiau cyntaf, adnabyddus, a gyfansoddant waelodion y ddaear, wedi eu dwyn allan o wres tanllyd, ac hefyd mai yn araf iawn y gorchfygodd y lleithder a'r dyfroedd deyrnasiad y tân. Diau fod cyfnodau hirfaith ac annirnadwy, yn ol ein dull ni o gyfrif amser, wedi myned heibio cyn i sylwedd y seren-gwmwl ddyfod yn ddefnydd caled ac yn graig. Ond nid ydyw son am filiynau o flynyddoedd, a cheisio teithio yn ol i'r pellafoedd yn nghwmni y graig henafol at y defnydd cyntaf a greodd Duw, ond rhoddi help i'r meddwl ystyriol i gael syniadau eglurach a llawer helaethach am fawredd y Creawdwr, yr Hwn nad ydyw mil o flynyddoedd iddo Ef ond megys un dydd. Sicrhâ Datguddiad fod tân eto i deyrnasu, a'r defnyddiau gan wir wres i doddi, a'r môr ni bydd mwyach, a bydd y ddaear gyntaf wedi myned heibio, a "daear newydd" megys wedi cael ei geni o honi, a chynllun mawreddog Duw wedi ei gwblhau.

Y mae yn perthyn i Ddaeareg dair cangen ag sydd yn meddu arbenigrwydd neillduol. Y gyntaf a enwir ydyw *Lithology*, Haenyddiaeth. Cyfeiriad hon yw gwneuthur ymchwiliadau i ansawdd y gwahanol haenau o greigiau a gyfansoddant y trwch sydd yn ffurfio crawen y ddaear. Cyflawnir y gwaith hwn yn benaf trwy help chwyddwydrau (*microscopes*) cryfion, fel y gall y cyfarwydd wrth eu harfer benderfynu natur y creigiau a'r meteloedd, er mwyn eu rhestru gyda eu tebyg, a'u gosod mewn trefn gyfnodol. Yr ail gangen a elwir yn *Palæontology*, sef yr hon sydd yn dysgu am Weddillion anifeiliaid, coed, a llysiau, y rhai a fuont feirw pan ydoedd y gwahanol greigiau yn ymffurfio ac yn caledu, ac sydd wedi creigeiddio yn eu canol. Yr oedd y rhai hyn yn byw, yn tyfu, yn marw, ac yn cael eu cuddio yn nghanol y sylwedd maluriol oedd yn raddol yn ymffurfio yn graig. Y mae y ffosylau hyn a ddarganfyddir yn nghreigiau gwahanol wledydd yn fantais bwysig i'r daearegwr tuag at benderfynu trefn ffurfiad y rhywogaethau o greigiau. Oblegid fod llawer o greigiau trwy fferylliaeth natur, wedi cyfnewid o'u hansawdd gyntefig, bydd y ffosylau a ddarganfyddir ynddynt yn arwain i sicrwydd am eu haniad, a'u perthynas gyfnodol â chreigiau heb fyned o dan gymaint o gyfnewidiadau. Y drydedd a elwir yn *Stratigraphy*, neu *Petrography*, Creigyddiaeth. Hon sydd yn dysgu am drefn y gwahanol haenau yn ol eu gwelyau priodol, perthynas y creigiau â'u gilydd, yn ol eu hoedran â'u hansawdd. Pan yn sefyll ar lân y mor ac yn edrych ar y geulan uchel, neu y toriad mawr tuag at wneuthur lle i'r ffordd haiarn, bydd yn hawdd canfod fod yr haenau yn lled-orwedd y naill ar y llall. Ac y mae yn eithaf eglur mai yr haen uchaf yn ein golwg ydyw yr henaf, a'i bod wedi cael ei ffurfio o flaen yr haen sydd yn gorwedd dani. Cafodd yr ysgrifenydd ddarlun o hyn yn ddiweddar, pan yn edrych ar bobl yn gwneuthur llyn perthynol i weithfa wlân. Wrth iddynt dori i lawr trwy y tir, yr oedd amryw o haenau i'w gweled, rhai o honynt yn drwchus ac eraill yn deneuach, yr hyn oedd i'w briodoli i nerth a gweithrediad y llifddwfr. Yr oedd y llifogydd wedi cario y llaid i'r llyn ar wahanol adegau, a'r cynnwys wedi ymffurfio yn haen, a hono wedi suddo o dan bwys y dwfr oddiarnodd; y llifeiriaint eilwaith yn cario

trwch o laid, a hwnw wed'yn yn caledu. Fel yr oeddys yn tori yr haenau yna tuag i lawr, yr oedd yn hawdd deall fod yr haen isaf yn llawer mwy caled na'r haenau oedd wedi ymffurfio oddiarni. Fe all hyn, ar raddfa fechan, roddi cipolwg i'r darllenydd ar ffurfiad haenau creigiau y ddaear, oblegid fel y ceisir dangos, fod y mwyafrif o honynt wedi ymffurfio mewn dwfr, a hyny o falurion creigiau henach a gludid gan lifeiriaint.

Nid amcanwn gymeryd golwg gyffredinol ar Ddaeareg, ond yn unig mor bell ag y bydd hyny yn fantais i osod allan ansawdd a threfn creigiau Môn, ynghyd a'r gwledydd sydd o ran natur eu ceryg yn cydio wrthi. Ac wrth wneuthur hyny, cedwir golwg fanol a pharhaus ar ffrwyth yr archwiliadau a wnaethpwyd o bryd i bryd gan nifer o'r daearegwyr galluocaf. Flynyddoedd lawer yn ol cyhoeddwyd llyfr gan y *Cambridge Philosophical Society*, yn rhoddi darluniad manwl o Ddaeareg Môn, yn seiliedig ar ymchwiliadau y diweddar Broff. Henslow, M.A. Hefyd ceir yn yr *Woodwardian Museum*, yn Cambridge, gasgliad lled gyflawn o rywogaethau creigiau yr Ynys, ynghyd a nifer o ffosylau, gyda chyfeiriadau at y cymydogaethau y perthynant iddynt. Tua saith mlynedd yn ol, trwy orchymyn y Llywodraeth, cyhoeddwyd *survey* manwl, oedd yn ffrwyth ymchwiliadau Syr A. C. Ramsey, *Director General*, ac eraill oedd yn ei gynnorthwyo. Ond erbyn hyn y mae profion diweddarach, gan y Doctoriaid Callaway a Hicks, a'r Proffeswyr Bonney, Hughes, a Blake, wedi dwyn i'r golwg lawer o bethau yr oedd yn flaenorol gryn ammheuaeth yn eu cylch. Yr ydoedd felly mewn cysylltiad â'r creigiau yn nghymydogaethau Llangwyllog a Chemmaes. Nid oeddid yn gallu penderfynu oedran a dosbarth creigiau yr ardaloedd yna, o herwydd eu bod wedi myned o dan gymaint o gyfnewidiadau, ac wedi ymddyeithrio oddiwrth eu teulu henafol. Ac yr ydoedd canlyn eu llinell yn anmhosibl, oblegid fod ysgytiadau tanddaearol wedi eu symud o'u gwely priodol mewn lliaws o leoedd, nes bod rhwyg, neu *fault*. Darganfyddwyd gan y Proff. Hughes, Cambridge, ffosylau yn y creigiau hyn sydd yn cadarnhau ar unwaith i ba ddosbarth y perthynant. Wrth fyned ymlaen deuwn o hyd i samplau eraill tebyg.

Y mae dringo i fyny ar un o fynyddoedd Arfon a chael cipolwg trwy sylldrych *(telescope)*, yn dangos Môn fel cyfangorff o wastadoedd, gyda yr eithriadau o dri neu bedwar o fryniau bychain, a'r uchaf o honynt ar y terfyn eithaf. Ac nid yw y mynydd hwnw yn ymgodi ond 709 troedfedd uwchlaw arwyneb y môr. Wrth ddyfod i mewn i'r Ynys a'i theithio, fe welir fod yn perthyn iddi ychydig o anwastadrwydd, rhywbeth fel mân donau yma ac acw ar hyd ei gwyneb, ac weithiau ceir codiadau o 150 troedfedd i 300 troedfedd uwchlaw lefel y môr. Y mae cyfeiriad y dyffrynoedd bychain, neu y mân donau hyn, o ogledd-dwyrain a de-orllewin. Hefyd y mae arwyneb y wlad yn meddu nodwedd neillduol arall, sef y profion mynych ei bod wedi cael ei gorchuddio â dyfroedd, mewn cyfnod cymhariaethol ddiweddar. Y mae gwyneb y creigiau pan yn noeth, neu ar ol tynu ymaith yr haen deneu o bridd a mwswgl a'u cuddiant, yn llyfn, yn dangos rhigolau a threuliadau iäol. Diau fod y rhigolau hyn yn cyfeirio at y cyfnod iäol *(glacial)*, pryd y gorchuddid y wlad gan ddyfroedd a gludent

[illegible] a rwbient wyneb y creig-[illegible] y creigiau yn [illegible] ac eid o Eryri, yr oedd [illegible] fod pantle y Fenai [illegible] llifeiriaint rhewog [illegible] i'r dyfroedd fyned [illegible] gyfeirio at hyn eto.

[illegible] a wnaed ar ansawdd [illegible] y drefn ganlynol—yr [illegible] Ramsey :—

Y [illegible]
Yr Haenau [illegible]
[illegible]
Y [illegible] neu [illegible]
Yr [illegible] Dywodfaen Coch.
Yr [illegible]iaidd, neu y [illegible]
Y Cambriaidd.

Y mae yr olaf a enwyd wedi myned mor llwyr dan gyfnewidiadau trwy [illegible], fel yr ydys yn fynych yn ammeu ei pherthynas â'r haen Gam-[illegible]. Y maent wedi myned dan fferylliaeth natur, nes eu crasu a'u [illegible] yn llawer mwy na'u perthynasau yn Arfon. Y mae rhandir llydan yn ngogleddbarth Môn yn cynnwys gwely trwchus o grutiau tebyg i'r rhai a welir yn Llanberis a Nant Ffrancon, eithr yn gyffredin wedi [illegible] graddau pell o gyfnewidiad, fel ag y gellir eu galw mewn rhai ymnotiau yn haenithfaen *(gneiss)*. Fe welir haenau tebyg yn ngogledd orllewin Lleyn, gyda glanau y môr. Dengys hyn fod rhai o'r haenau sydd yn ffurfio lloriau Môn, yn ogystal a rhanau helaeth o Gymru, yn cynnwys rhai o greigiau henaf adnabyddus y belen ddaear-ol. Y creigiau dyfnaf, ac felly y mwyaf henafol, ag y mae cynhyrfiad-au [illegible] wedi taflu eu hymylau i'r golwg, ydynt yr haenau [illegible] yn ngogledd America. Gelwir hwynt wrth yr enw hwn o [illegible] fod yr afon St. Laurence yn llifo rhwng y mynyddoedd lle mae y [illegible] mwyaf o'r lloriau hyn yn amlwg. Y mae ychydig [illegible] o'r unrhyw graig i'w cael mewn gwledydd eraill, megys [illegible], Norway, Sweden, ac yn rhai o'r ynysoedd yn ngogledd-[illegible] [illegible]. Peth posibl, ie, ac erbyn hyn, tra thebyg ydyw, fod y [illegible] o graig wedi ei darganfod yn Môn. Yn mis [illegible] darllenodd y Proff. J. F. Blake, M.A., bapyr i [illegible], Llundain, yn cynnwys ffrwyth ei archwil-[illegible] yr [illegible]. Yn un peth, profai i gryn foddlonrwydd [illegible] Cambriaidd, sef craig wedi ymffurfio o'i [illegible] oddiwrthi o ran ansawdd, yn gystal ag am-[illegible] y gorwedd y Cambriaidd. Yr enw y [illegible] ydyw y *Pre-Cambrian*, neu y [illegible]. Y mae Proff. Blake yn fedrus iawn gyda y [illegible] i ddeall cyfansoddiad y graig. [illegible] fod y Fonaidd o'r un oedran a'r [illegible] America. Mor bell ag y mae yn wybyddus, [illegible] yn uheyrnasiad y dyfroedd. Y

mae cryn wahaniaeth rhwng y creigiau henafol hyn o'u cymharu â'r rhai a ffurfiwyd o falurion cwrel, cregyn, a graian, mewn cyfnodau diweddarach. Ymddengys fod llawer o'r creigiau yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd, nid yn gymaint yn nefnyddiau eu cyfansoddiad ag yn y cyflwr y ffurfiwyd hwynt. Yr oedd y lleithder a'r gwres mawr, ynghyd a'r pwysau oedd arnynt, yn eu coethi a'u caledu nes newid eu gwedd allanol.

Yn gymdeithion i'r haenau a nodwyd, ac yn fynych yn ymwthio i fyny rhyngddynt a thrwyddynt, ceir yr Ithfaen (*Granite*); yr *Horneblende*, sef craig yn cynnwys sylwedd gwydraidd du; y *Trap Felspar*, neu y Pilergraig; y Tywodfaen glas neu wyrdd (*Greenstone*); hefyd yr *Elvan Dykes*, yr hon sydd gymysgedd o'r delltfaen a'r crisialaidd. Creigiau tân a chrugdarddol ydyw yr Ithfaen, ac yn gyfansoddedig o *Mica*, *Quartz*, *Felspar*, neu y Talc, y Celltfŵn, a'r Canfaen. Y maent yn gyfansoddedig o ronynau bychain wedi ymgymysgu ac ymgaledu mewn undeb â'u gilydd, eithr yn cadw eu hunaniaeth. Nid yw y risianau hyn yn grynion, ac ôl treulio arnynt, fel y tywod ar lân y môr. Nid oes yn perthyn i'r Ithfaen haenyddiad na gwaddodiad, fel y creigiau a ymffurfiasant mewn dwfr. Yn gyffredin prif ddefnydd y creigiau hyn ydyw y *Felspar*, neu y Canfaen; bydd y *Quartz* gan amlaf yn gryfach na'r *Mica*. Y mae y gwahaniaeth yn y lliw yn ymddibynu ar y cyfartaledd o'r defnyddiau a'u cyfansoddant. Pan fyddant yn llwydlas neu yn ddu, bydd y talc yn helaeth ynddynt; os yn goch neu yn tueddu i fod yn wyn, bydd hyny yn amlygu helaethrwydd o'r celltfŵn a'r canfaen. Mewn ambell i grug ni cheir ond y *Felspar* a'r *Quartz*; hwyrach, bryd arall, y bydd y *Mica* wedi dyfod i mewn at y *Quartz*, neu y *Mica* a'r *Hornblende-gneiss*; a phan y bydd y granitaidd yn cael ei wneuthur i fyny yn helaeth o'r olaf, bydd ei safle yn sicr o fod yn agos i'r creigiau a ffurfiwyd o ludw mynydd tanllyd. Mewn rhai parthau ceir chwarelau mawrion o *Granite*, a'r elfen dalcaidd yn gwbl ar goll; yr *Hornblende* wedi cymeryd ei le. Gelwir y math yma yn *Syenite*, sef ar ol enw dinas yn yr Aipht, lle y cloddiwyd hi allan, ac y tybir fod y crug mwyaf o'r math yma o graig. Oddiyma y cludwyd y cofgolofnau ardderchog sydd i'w gweled yn Llundain, a threfydd eraill. Math arall a elwir yn *Serpentine*, Sarflaidd, am fod ei ymddangosiad yn debyg i liw brith croen y sarph. Hefyd y mae math o *granite* sydd wedi ei newid o'i wedd gyntefig, ac ychydig o arwyddion haenyddiad arno, rhyw fath o Ithfaen llechog. Fe allai ei fod o ran defnydd yn falurion granitaidd wedi gwaddodi yn y dyfroedd, a dylanwad gwres wedi ei wneuthur yn fflintaidd. Er fod yr Ithfaen yn myned o dan wahanol enwau, a hyny yn benaf o herwydd dosbarthiad a ffurfiad y defnydd, eto y mae yn hawdd eu gwahaniaethu oddiwrth y creigiau tân a ymffurfiasant o hylif y mynyddoedd llosgedig. Eglura Lyell ac eraill y gwahaniaeth trwy ddangos fod y teulu Plutonaidd, fel eu geilw, yn ronynau crisialaidd, heb fod ynddynt y mân dyllau a'r gwagleoedd sydd yn nodweddu y creigiau cyfansoddedig o *lava* y llosgfynyddoedd. Ymffurfia y tyllau hyn pan y mae yr hylif tanllyd yn oeri o dan ddylanwad awyr. Ymddengys fod y *Granite* wedi oeri yn llawer mwy araf, a hyny mewn dyfnderoedd, ac o dan bwysau anferth, heb ddylanwad awyr beri iddo ymledu ac ymagor Y mae wedi ymwthio i fyny yn grugiau anferth

[illegible] y [illegible] [illegible]. [illegible] mae y [illegible] hyny wedi ym-[illegible] [illegible] yn gorwedd ar unrhyw [illegible]. [illegible] y [illegible] [illegible]. [illegible] y [illegible] yn was-garedig [illegible] y [illegible]. Ac y mae yn hawdd canfod eu [illegible] [illegible] amrywiol ddyfnion, [illegible] y teuluoedd [illegible]. Y mae y [illegible] [illegible], yn taro ei [illegible] y creigiau a ffurfiwyd mewn dyfroedd, gan eu [illegible] [illegible] yn lled-[illegible]. [illegible] creigiau [illegible] yn [illegible] mewn dyfnder-[illegible] [illegible] o'r Cambriaidd a'r Is-gambriaidd, [illegible] y Monaidd a'r Laurentaidd. Ac y mae [illegible] o ddaeargrynwyr [illegible] yn [illegible] i [illegible] y [illegible] a ffurfiwyd, ac a drefnwyd gan y Creawdwr [illegible] i fod yn sylfaen-gareg i'r holl greigiau eraill yn [illegible] y ddaear.

Cyfaddefwyd yn [illegible] fod y llawr Cambriaidd yn Môn wedi myned o dan gyfnewidiadau mawrion trwy [illegible] natur, ac ar yr olwg gyntaf, mewn rhai amgylchiadau, y mae cryn anhawsder i'w hadnabod. Yn ganlyniad i'r archwiliadau a wnaethpwyd trwy gynnorthwy y *microscope*, yn gystal ag oddiwrth ymchwiliadau manylach i gysylltiadau yr haenau, profir fod rhai o'r creigiau a ystyrid yn perthyn i'r haen Gambriaidd ac a nodir allan felly ar y *survey map* diweddaf, yn ffurfiad hŷn ac is, ac a elwir yn Cyn-Cambriaidd neu y Monaidd. Wrth fyned ymlaen amcenir dangos ymha barthau o'r Ynys y mae ymylau y Cyn-Cambriaidd yn dyfod i'r golwg. Wrth dynu llinell o dywodtir Niwbwrch i Landdona, y mae lled y gwely Metamorphaidd, sef y cyfryw greigiau ag sydd wedi myned dan gyfnewidiadau mawrion, ond a ystyrir yn perthyn i'r teulu Cambriaidd, yn amrywio o hanner milldir i filldir a hanner bob tu i'r llinell. Y mae lliw y creigiau hyn yn amrywio yn fawr, oblegid fod eu cyfansoddiad yn gwahaniaethu yn ol cyfartaledd y gwahanol ddefnyddiau; newidiant o lwyd, gwyrdd, a rhuddgoch, i fod yn wyn. Y mae mwyafrif y creigiau yn gyfansoddedig o Haenithfaen llechog a Thalcaidd, ond fod ambell i ysmotyn o'r *Dioritic Type*, sef amrywiaeth o graig wyrddlas, felly agos o Bont Menai i Lanfair P.G., ac yn nghymydogaethau Niwbwrch i gyfeiriad Llanddwyn, ac o Ruddgaer i'r *Ferry*. Yn agos i Bont Britannia, ar làn y traeth, y mae llawer o'r Talc yn gymysgedig â'r Shistiau, ac ymledant yn haenau mawrion teneu. O dan Dŵr y Marquis, yn gystal a'r creigiau oddiamgylch, ceir y Celltfŵn teg, a'r Hoegddelfaen (*chlorite*) o liw gwyrddlas. Cymdeithion i'r rhai hyn, ac yn wanafau teneu, ydyw y Celltfaen; y mae fel gwregys yn eu hamgylchu yn fynych. Hefyd nid ydynt yn gwbl rydd oddiwrth ysmotiau o'r crisial a'r talc.

A chymeryd golwg gyffredinol ar y rhanbarth o bob tu i'r llinell a nodwyd, a chychwyn o ffordd Caergybi rhwng Llanfair a'r Gaerwen, gan fyned ymlaen trwy Lansadwrn hyd Landdona, y Llechfaen Dalcaidd, a'r Haenithfaen lwydlas, ydynt y creigiau sydd yn gyffredin i'w gweled. Wrth dref Beaumaris, gyda glàn y môr, yn llinell led gul am filldir a hanner, dechreua gwely eang o'r graig Siluriaidd; ymleda at y goleudy, ac o'r tu arall ymestyn heibio i Laniestyn, at Glanyffynnon, pwynt Traeth Coch. Pan yn Llaniestyn, a chyfeirio tua y gogledd at

godiad Mynydd Llwydiart, fe welir gwedd wahanol ar y creigiau, fel pe y byddai yn eu cyfansoddiad fwy o'r *quartz*. Wrth fyned ymlaen at ysgythredd y Crwgarth, y mae gwyneb y creigiau yn ymddangos fel math o fwndeli rhwymedig o bwynteli, ac yn eglur ddangos eu bod wedi cael eu haflonyddu gan ysgytiadau tanddaearol. Fe welir creigiau tebyg yn nghymydogaeth Llangaffo. Yn ol barn y Proff. Blake, ac eraill, hyd yma y cyrhaedd y Cambriaidd; ar ymylau y creigiau hyn y gorphwys ei therfyn eithaf. Gellir tynu y llinell o'r Wern i Minffordd. O'r ochr arall iddynt y mae y gwely Siluriaidd yn llinell gul yn ymestyn ymlaen; â heibio i Plasberw a Thaihirion at Hendregadog, lle y cyferfydd â therfyn swta gan rwygiad sydd yn taflu y Permiaidd yn erbyn y Cambriaidd. Cynnwysa y graig hon grutiau sydd i'w gweled i'r de a'r gogledd o ffordd Caergybi. Mewn ambell randir y mae y basal Glocynfaen *(conglomerates)* i'w gweled, ac wrth y ffordd ceir trwch mawr o lechau llwyd a Chelltaidd, a ellir alw yn *Hornblende gneiss*. Hawdd deall fod y creigiau hyn yn gymysg o wahanol elfenau, ac o edrychiad prydferth, fel y geilw rhai ranau o honynt yn gareg sidan. Y mae Syr A. C. Ramsey yn ystyried creigiau Plasberw yn perthyn i gyfres y Bala, a'i reswm dros eu rhestru felly, ydyw fod y ffosylau a gafwyd ynddynt yn tebygu i'r ffosylau perthynol i'r haen hono. Ond wrth wneuthur archwiliad manwl ar y ffosylau, profwyd i sicrwydd eu bod o'r unrhyw natur ac oedran â'r rhai a gafwyd yn nghraig Treiorwerth, ac nid oes ammheuaeth bellach nad perthyn i ddosbarth yr Arenig y maent. Profir oddiwrth hyn nad ymestynodd y Cambriaidd ymhellach na'r llinell lle y cyfarfyddir â'r Haenithfaen lwydlas, ac felly fod rhan helaeth o'r Ynys yn dir sych yn ystod cyfnod ffurfiad yr haen Gambriaidd.

D. Charles Evans.

---

# Y DDIRPRWYAETH FRENHINOL AR ADDYSG.

Mae gwaith y *Commission* mawr hwn bellach ar ben, y mae ffrwyth ei lafur wedi ei osod yn helaeth ger bron y wlad, ac y mae lliaws o bobl feddylgar yn ddyfal yn ceisio ystyried beth sydd i'w feddwl o hono. Fe allesid dysgwyl cryn lawer oddiwrth y Ddirprwyaeth hon. Gyda 23 o'r gwŷr a ystyrid fwyaf cymhwys i chwilio i fewn i sefyllfa ein haddysg elfenol; a'r rhai hyny wedi bod wrth eu gwaith o Ion. 20, 1886, hyd Meh. 27, 1888; wedi eistedd am 146 o ddyddiau, a threulio 95 o honynt i wrando tystiolaethau 151 o bersonau oedd yn ymddangos o'u blaen, a 51 i ystyried eu Hadroddiad, ni fuasai yn rhyfedd pe buasai ganddynt awgrymiadau i'w cyflwyno ag y buasai y deyrnas oll yn teimlo eu gwerth, ac yn foddlawn i weithredu yn eu hol am lawer o flynydd-

[illegible] hadreddiad yn dra
[illegible] a wnaed yn y deyrnas
[illegible] i'w 59,809 o
[illegible] a theimlad y wlad
[illegible] sydd ganddynt
[illegible] y mae yn dra
[illegible] en gadael fel yr
[illegible] agor o newydd.
[illegible] ein haddysg,
[illegible] yn hawdd
[illegible] gyfundordeb neill-
[illegible] a ddymunont
[illegible] Dyma yr
[illegible] *First Report of*
[illegible] *the Element-*
[illegible] pris 5s. 9c.;
[illegible] *Report*, 744 o du
[illegible] 3s. 6c. Ond os
[illegible] eimioes fer, ar
[illegible] nifer o lyfrau
[illegible] manwl i'r holl
[illegible] *An Examination*
[illegible] *Chronology*
[illegible] HOLLOWELL,
[illegible] James Clarke & Co. 1s.).
[illegible] *Churches. An*
[illegible] *national Union of*
[illegible] By the Rev.
[illegible] *Royal Com-*
[illegible] *the Recommenda-*
[illegible] *Reports of the*
[illegible] Executive of the
[illegible] published at their
[illegible] *recommended in*
[illegible] *the working*
[illegible] 1888 (Central
[illegible] *Education: the*
[illegible] *and evils of*
[illegible] Chairman of the
[illegible] *The Reactionary*
[illegible] Liberation Society,
[illegible] *Conference at*
[illegible] T. E. Minshull,

[illegible] yn achos addysg y
[illegible] fesur yn 1807
[illegible] chynnorthwy y
[illegible] Yn 1808 darfu
[illegible] Brytanaidd, y rhai a
[illegible] y rhai y rhoddid addysg

grefyddol, anenwadol. Cyn hir fe welid fod llwyddiant yr ymdrechion hyny y fath fel ag i beri i Eglwyswyr da deimlo fod "yr Eglwys mewn perygl." Fel y cydnabyddid yn *Prospectus* y *National Society*: "Y mae yn wir yn hanfodol er cadwraeth y Cyfansoddiad, yn yr Eglwys ac yn y Wladwriaeth, fod y grefydd genedlaethol yn cael ei gwneyd yn sail addysg genedlaethol, ac mae yn amlwg os dysgir plant y tlodion mewn egwyddorion amgen nag eiddo yr Eglwys Sefydledig, y bydd yr Eglwys Sefydledig, mewn oes arall, a mwyafrif yn ei herbyn." Ac meddai y *Quarterly Review*: "Daeth ychydig bersonau i ddychrynu wrth weled mor gyflym yr oedd trefn o addysgu y tlodion yn dyfod yn gyffredinol, yn yr hon y dygid hwy i fyny, nid yn wir yn egwyddorion Ymneillduaeth, ond yn sicr nid yn naliadau Eglwys Loegr." I ochelyd y fath drychineb, fe sefydlwyd yn y flwyddyn 1811 y *National Society*, "i addysgu plant y tlodion yn egwyddorion Eglwys Loegr." Dan y naill a'r llall o'r trefniadau hyn yr oedd addysg yn myned ar gynnydd amlwg, a llawer iawn o rai na fuasai ganddynt yr un ffordd arall unrhyw obaith am hyfforddiant, yn derbyn drwyddynt fanteision gwerthfawr. Yn 1833 rhoddodd y Llywodraeth *grant* at adeiladu ysgolion o £20,000, a gwnaed hyny bob blwyddyn hyd 1838, a gweinyddid y cynnorthwy trwy gyfrwng Cymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd a'r Gymdeithas Genedlaethol. Yn 1839 codwyd y swm i £30,000, a phenodwyd *Committee of Council* i edrych ar ol y rhaniad a wneid arno. Yr un flwyddyn fe gynnygid sefydlu Coleg Athrawol gan y Wladwriaeth, ond tynwyd ef yn ol o herwydd gwrthwynebiad Eglwys Loegr iddo "fod ar y sylfon o gydraddoldeb crefyddol." Yn Medi a Rhagfyr yr un flwyddyn, 1839, mae yn hyfryd gweled fod y *Committee of Council* wedi dadgan mewn cofnod, neu *minute*, y rhoddid y flaenoriaeth mewn unrhyw achos gyda golwg ar *grant*, i ysgolion ymha rai na orfodid plant "i ddysgu catecism, neu fyned i le o addoliad i'r hwn yr oedd gan eu rhieni ar dir crefyddol wrthwynebiad." Yn 1840 rhoddwyd ar ddeall i Arolygwyr y Llywodraeth fod "addysg ddealltwriaethol i fod yn ddarostyngedig i athrawiaethau a gorchymynion crefydd ddadguddiedig." Yn 1842 ceisiodd Syr James Graham osod adranau yn y *Factories Bill* i roddi cynnorthwy i ysgolion enwadol o'r trethoedd; ond bu raid eu tynu yn ol o herwydd gwrthwynebiad yr Ymneillduwyr. Yn 1846 rhoddwyd y cynnorthwy cyntaf at *gynnaliaeth* ysgolion dyddiol. I fyny hyd 1847 yr oedd tua 3300 o ysgolion wedi eu codi trwy gynnorthwy y *building grants*, ac yr oedd yr holl gynnorthwyon bellach tua £1,000,000. Yr oedd y cyfanswm am 1847 yn unig yn £100,000. Yn 1850 cyfrifid nad oedd mwy nag un plentyn o bob wyth ag oedd mewn ysgolion yn cael eu dysgu yn llwyddiannus, ac yr oedd y *grant* y flwyddyn hono yn £120,000. Yn 1853 yr ydoedd wedi codi i £260,000. Yn 1857 cynnaliwyd Cynnadledd ar Addysg yn Llundain, dan lywyddiaeth y Tywysog Albert, pan ddangosid fod 64 y cant o'r plant oeddynt mewn ysgolion yn aros ynddynt am lai na dwy flynedd. Yr oedd y *grant* y flwyddyn hono yn £541,000. Yn 1858 gofynai Syr John Pakington am Ddirprwyaeth ar Addysg, gan ddywedyd "fod yr alwad am lafur plant mor barhaus ac mor galed fel yr ydoedd yn anobeithio gweled plant gweithwyr yn aros yn yr ysgol cyhyd ag yr oedd yn angenrheidiol er eu haddysgiaeth." Yn 1861 caed *Revised Code*

anffodus Mr. Lowe; ond yr oedd y gwaith yn myned ymlaen, y grant yn £813,441, a chyfartaledd y nifer yn yr ysgolion yn 855,677. Yn 1862 yr oedd ysgolion yr Eglwys yn bedair o bob pump o'r ysgolion oedd dan y *Privy Council*. Yn 1864 ceisiodd Mr. Lingen, Ysgrifenydd y Cynghor Addysg, gael gan y *National Society* dderbyn adran yn ngweithredoedd ei hysgolion yn caniatâu i blant Ymneillduwyr fyned iddynt heb orfod derbyn addysg grefyddol, neu fyned i'r Eglwys ar y Sul; ond gwrthodwyd. Yn 1867 dygwyd "Education of the Poor Bill" i Dŷ y Cyffredin gan y Meistri Bruce, Forster, ac Egerton, yr hwn a gynnygiai fod pob ysgolion yn cael eu cynnal o'r trethoedd lleol. Yn 1870 dygwyd i fewn fesur mawr Mr. Forster, yr hwn sydd wedi creu y cyfnod pwysicaf yn holl hanes ein haddysgiaeth

Drychfeddwl arbenig y mesur hwn ydoedd darparu moddion addysg ar gyfer holl blant y boblogaeth, a gorfodi holl blant y boblogaeth i ddyfod dan addysg. Ar y dechreu yr oedd y syniad am gario y fath fesur yn ymddangos yn dra direswm, a siaradwyd ac ysgrifenwyd llawer yn ei erbyn, a hyny mewn arddull hynod o arwraidd. Ond yn fuan iawn fe dawelodd y gwrthwynebiad, ac erbyn hyn y mae pawb fel wedi ei anghofio, os nad yn synu na fuasai y fath drefniant mewn grym yn ein gwlad er ys oesoedd lawer. Nid ydyw yn hawdd i'r dosbarth ieuengaf o'n darllenwyr synied maint a nerth yr anhawsderau oedd ar ffordd pasio y fath fesur. Yr oedd nerthoedd gwrthgyferbyniol yn dal yn ffyrnig dros eu buddion neillduol eu hunain, ac er holl rym a phenderfyniolrwydd y Gweinidog, nid oedd dim i'w wneyd ond dingyn ar fath o *compromise*, neu ymgytundeb rhyngddynt, gan ildio, i ryw fesur, i'r naill ochr a'r llall. Yn araf iawn yr ydym fel teyrnas yn dyfod i ddeall fod hawliau y bobl yn fwy na hawliau unrhyw ddosbarth; a'r hyn oedd yn gwneyd rhyfel 1870 yn hynod ydoedd, ei bod yn ymgyrch rhwng dosbarth sydd o'r dechreuad wedi bod yn hawlio pob gallu fel ei etifeddiaeth fraint, a'r bobl, a gredent fod iddynt hwythau hefyd eu hawliau cyfiawn, ac mai gormes oedd ceisio eu hattal oddiwrthynt. Yr oedd Deddf 1870 ymhell o fod yn foddhaol gan Ymneillduwyr, yn gystal â llawer eraill a deimlent y dylai addysg y genedl gael ei chario ymlaen yn gwbl ar wahan oddiwrth bob amcanion enwadol. Ond dylid cofio fod y Ddeddf, fel y ceir hi yn-awr, yn dra gwahanol i'r hyn ydoedd pan y dygwyd hi i'r Senedd. Trwy ymdrech egniol cyfeillion rhyddid, fe gaed adran cydwybod i'r daflen amser; fe ddilewyd y trefniant fod i rieni ddadgan mewn ysgrifen eu gwrthwynebiad i'w plant fod dan addysg grefyddol; nid ydyw yr Arolygwyr i ymofyn â, nac arholi y plant mewn pynciau crefyddol; penodwyd chwech yn lle deuddeng mis fel yr adeg i ymofyn *grant* at adeiladu ysgolion gwirfoddol ychwanegol; rhoddwyd gallu i ardal fŷnu cael bwrdd ysgol; gwnaed i ffordd â chatecismau enwadol yn ysgolion y byrddau; trefnwyd fod byrddau ysgol i'w hethol trwy bleidlais uniongyrchol y trethdalwyr, ac nid gan gynghorau trefol neu *vestries*; gwnaed yr oedran gorfodol o 5 i 13 (yn lle 12); diddymwyd yr adran a drefnai i'r byrddau gynnorthwyo ysgolion gwirfoddol; ac yn lle fod byrddau ysgol naill ai yn adeiladu yr ysgolion angenrheidiol eu hunain, neu yn rhoddi arian o'r trethoedd i eraill wneyd, trefnwyd fod i'r byrddau eu hunain "ddarpar y fath le ychwanegol ag sydd, yn eu barn

hwy, yn angenrheidiol i dderbyn y plant i ysgolion o fewn eu dosbarth." A rhaid dyweyd fod y *compromise* y disgynwyd arno wedi gweithio yn rhagorol. Cyfrifir y dylai fod lle yn ein hysgolion elfenol i'r chweched ran o'r boblogaeth. Yn 1870 nid oedd y chweched ond 3,682,000, ac eto nid oedd lle ond i 1,879,000, neu 51 y cant; nid oedd y nifer ar y llyfrau ond 1,559,000, neu 42 y cant; ac nid oedd cyfartaledd y presennoldeb ond 1,152,000, neu 31 y cant o'r chweched ran o'r boblogaeth. Yn 1886 cyfrifid fod y chweched ran o'r boblogaeth yn 4,645,097; ond yr oedd lle yn yr ysgolion i 5,145,000, neu 111 y cant; yr oedd y nifer ar y llyfrau yn 4,506,000, neu 97 y cant; ac yr oedd cyfartaledd y presennoldeb yn 3,438,000, neu 74 y cant o'r chweched ran o'r boblogaeth. Nid oedd y *grant* yn 1870 ond £562,611; yn 1887 yr ydoedd yn £3,071,547; ac yr ydoedd y *grant* a'r trethoedd at addysg am 1887 yn £5,648,000. Y mae rhai pobl ddoniol yn ymgroesi yn enbyd rhag ffigyrau; ond i ni y mae ffigyrau o'r fath yma, sydd yn dangos cymaint sydd wedi ei wneyd gydag addysgiaeth y werin, yn bethau ardderchog a hyfryd. Ac fel ffrwyth yr holl ofal yma am blant y tlodion, y mae yn hynod o ddymunol gweled, er fod nifer y plant a anfonwyd i garcharau yn 1870 yn 10,000, nad ydoedd y flwyddyn ddiweddaf ond 5000. Yr un modd y mae cyfartaledd nifer y carcharorion wedi disgyn o 20,000 i 14,000; ac y mae cyfartaledd y rhai sydd yn derbyn cymhorth plwyfol wedi disgyn o 48 y fil i 28 y fil. Mae yn sicr fod llawer o ddylanwadau eraill wedi bod ar waith yn dwyn oddiamgylch y cyfnewidiadau gwerthfawr hyn; ond fe gydnebydd pawb fod ein hymdrechion addysgawl, trwy ddwyn cynifer o arabiaid ein heolydd, &c., dan ddysgyblaeth ac addysg, wedi gwneyd llawer iawn tuag at ddyrchafu y bobl trwy yr holl deyrnas.

Ond er fod ymgytundeb 1870 o hyd yn cael ei deimlo yn feichus i'r rhai a edrychent ar addysg yn ei pherthynas â'r bobl ac nid â'r sectau, y mae yn awr ymdrech egnïol wedi ei gwneyd i'w ddiddymu, ac i osod sectyddiaeth yn oruchaf yn addysgiaeth yr holl deyrnas. Ymddengys fod y syniad o alw am hyn wedi codi yn meddwl Cardinal Manning, yr hwn, er mwyn yr ysgolion Pabaidd, a ddadleuai y dylai yr ysgolion enwadol gael eu gosod ar yr un tir yn eu perthynas â'r trethoedd âg ysgolion y byrddau. A dadleuai y Llywodraeth Doryaidd, trwy ei Hysgrifenydd Cartrefol, Syr Richard Cross—yn awr Arglwydd Cross—"fod ysgolion gwirfoddol dan anfantais fawr yn bresennol, ac y dylid eu gosod yn yr un sefyllfa âg ysgolion y byrddau." Ac mewn trefn i ddwyn hyny oddiamgylch y penodwyd y *Royal Commission*.

Ac ni fu erioed offeryn cymhwysach at y gwaith a ddysgwylid oddiwrtho. Ei lywydd ydoedd Arglwydd Cross. Yr oedd saith o'i aelodau yn arglwyddi Toryaidd, neu aelodau seneddol Toryaidd; yr oedd un, Mr. Alderson, yn frawd yn nghyfraith i Arglwydd Salisbury; yr oedd pedwar yn urddasogion neu glerigwyr enwog o'r Eglwys Sefydledig; un yn Gardinal Pabaidd; un, er yn llywydd Coleg Athrawol y Wesleyaid, eto yn bleidiwr cryf i addysg enwadol; ac un arall yn lleygwr o olygiadau enwadol cryfion. Yr oedd felly *bymtheg* y gellid cyfrif arnynt ymlaen llaw, beth bynag am y tystiolaethau a allent ddyfod ger eu bron, fel yn barod i fyned i bob eithafion o blaid addysg enwadol. Mae yn wir yr enwyd *wyth* o olygiadau mwy eang, ac fod y

rhai hyny, er holl ragfarn eu cymdeithion, wedi sicrhau trwy eu holiadau dystiolaethau o ddirfawr werth, a chyhoeddi Adroddiad sydd yn sicr o gael ystyriaeth dda yn nhrefniadau addysgawl y dyfodol; ond eto nid oedd eu llais, o'i gymharu âg eiddo y pymtheg, ond dibwys yn y Ddirprwyaeth. "A'u llefau hwynt a'r archoffeiriaid a orfuant."

Yr un modd, ni ofelid nemawr am gael ond rhyw un dosbarth o dystion i ymddangos o'u blaen. Cyfrifa Mr. Hollowell fod 20,000 o offeiriaid yn cael eu cynnrychioli gan 30 o dystion, tra nad oedd 20,000,000 o weithwyr yn cael eu cynnrychioli ond gan 3. Dywed mwyafrif y Dirprwywyr na chauwyd allan, hyd y gwyddent, neb cynnrychioladol rhag rhoddi tystiolaeth o'u blaen. Eto fe geir fod Bwrdd Ysgol Nottingham,—sydd yn meddu 30 o ysgolion, a 23,000 o blant ar eu llyfrau, ac wedi ennill yn 1887 £19,000 o *grants*,—wedi pasio penderfyniad unfrydol yn dymuno ar i'w gadeirydd, Mr. Henry Ashwell, U.H., gael rhoddi tystiolaeth o'u blaen, o'r hyn ni wnaed unrhyw sylw pellach na chydnabod derbyniad y llythyr. Yr oedd yn wybyddus hefyd fod Mr. Mundella yn barod i roddi tystiolaeth, ond ni alwyd yntau. A theimlid yn gyffredin y dylasai Syr Francis Sandford, oedd wedi bod yn Ysgrifenydd y Cynghor Addysg er 1870, gael ei alw. Anfonodd Mr. Cumin, yr ysgrifenydd presennol, lythyr, yn yr hwn y dywedai y dylid ystyried ei dystiolaeth ef yn anghyflawn heb yr eiddo Syr Francis, yr hwn fuasai am gyhyd o amser yn swyddog uwchraddol iddo yn y *Department*. Ond ymddengys ei fod ef, fel Dirprwywr, yn edrych ar yr Act yn dra gwahanol i'r hyn oedd ganddo i'w wneyd fel un a fu am gynifer o flynyddoedd yn gyfrifol am ei gweinyddiad.

Fel y gallesid dysgwyl, nid oedd yn bosibl i'r Dirprwywyr gytuno ar un Adroddiad i'w gyflwyno fel ffrwyth eu hymchwiliad. Mewn llawer o bethau, a phethau sydd yn sicr o fyned yn nghyfeiriad diwygiad, yr oeddynt oll yn cytuno yn galonog. Y mae yn hynod o foddhäol gweled nad oedd eisieu ond gosod amgylchiadau neillduol Cymru gyda golwg ar ei haddysg elfenol o flaen y fath gorff o foneddigion, nad oeddent, heb unrhyw anhawsder, ar unwaith yn condemnio yr anwybyddiad yn yr ysgolion o'r unig iaith a ddeall a miloedd lawer o'n plant, ac yn cytuno yn galonog ar y dadganiad iachus a ganlyn :—

Yr ydym wedi delio â'r cwestiwn o ysgolion Cymreig, a'r anhawsder dwy-ieithog. Y mae llawer o'r ysgolion hyn yn llafurio dan yr anhawsder sydd yn codi o'r ffaith, er mai iaith y plant ydyw y Gymraeg, eu bod yn ymarferol yn cael eu dysgu gan y Côd fel pe buasent bob amser yn siarad Saesoneg. Y mae wedi ei [illegible] yn y tystiolaethau fod llawn ddwy ran o dair o bobl Cymru yn arfer siarad Cymraeg, ac er fod cryn lawer o'r rhai mewn oed yn siarad Saesoneg gyda rhwyddineb, y mae corff y plant, fe ddywedir wrthym, yn dyfod i'r ysgol yn gwbl anwybodus o'r iaith hono; ac eto y Saesoneg ydyw y cyfrwng trwy ba un y maent i dderbyn pob peth, ac ymha un y maent i gael eu harholi. Fe ddywedir hefyd fod y wybodaeth o'r Saesoneg a gyrhaeddant, tra yn yr ysgol, mor anmherffaith [illegible], yn ol y tystiolaethau, y mae y Saesoneg yn yr ardaloedd sydd yn siarad Cymraeg yn cael ei cholli mewn rhan fawr yn fuan wedi i blentyn [illegible] yr ysgol. Y mae darpariaeth yn y Côd sydd o gwbl yn ymgais at gyf[illegible] yr anhawsder ydyw yr un lle y trefnir y gellir profi dealltwriaeth y plant [illegible] mewn darllen, trwy i Arolygwr ei Mawrhydi ganiatáu [illegible] a ddarllenant. Nid oes un dymuniad wedi [illegible] o'u blaen ar fod i'r defnydd o'r iaith Saesoneg mewn un modd [illegible]. Ond fe deimlir, mewn trefn i alluogi yr ysgolion hyn i orchfygu yr anhawsderau neillduol sydd ganddynt i'w gwynebu, y dylid caniatáu iddynt,

yn ol doethineb eu llywodraethwyr, i ddysgu darllen ac ysgrifenu iaith y wlad yn gyfamserol â'r Saesoneg. Gan fod yr iaith Gymraeg yn cael ei swnio bron yn gwbl yn ol y llythyrenau, ac nad yw yn arddangos yr anhawsderau a brofir wrth feistroli y Saesoneg, fe gyfarfyddai caniatâd i ddefnyddio llyfrau darllen dwy-ieithog â gwrthddadl yr athrawon, y rhai a gwynant fod y swm o ddarllen sydd i fyned drwyddo mewn ysgolion Cymreig yn rhy fawr. Ond fe deimlir y dylid caniatâu iddynt gymeryd Cymraeg i fyny fel testun neillduol cydnabyddedig gan y *Code;* cymeryd i fyny gynllun a ddewiser yn lle Saesoneg fel testun dosbarth cyfaddas i anghenion neillduol ardaloedd Cymreig,—y cynllun hwnw i fod yn seiliedig ar yr egwyddor o gymeryd trefn raddoledig o gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesoneg, yn lle yr hyn a ofynir yn bresennol mewn gramadeg Saesoneg; dysgu Cymraeg gyda y Saesoneg fel testun dosbarth; a chymeryd Cymraeg i fewn ymysg yr ieithoedd ymha rai y gellir arholi ymgeiswyr am ysgoloriaethau y Frenhines ac am dystysgrifau o deilyngdod. Mae yr holl bethau hyn yn cael eu dwyn ymlaen yn yr atebion a dderbyniasom i'r cylchlythyr D oddiwrth ysgolfeistriaid yn siroedd Morganwg a Meirionydd. Gan fod pethau lled gyffelyb i'r hyn a geisir yn awr yn Nghymru wedi eu caniatâu eisoes yn y *Code* Ysgotaidd i'r boblogaeth sydd yn siarad y Gaeleg yn Ysgotland, y mae rheswm da yn ymddangos dros eu caniatâu yn y *Code* Seisonig er mwyn ein poblogaeth sydd yn siarad Cymraeg.

Ond wedi i'r *pymtheg* wneyd i fyny eu Hadroddiad, yr hwn a gynnwysai lawer o bethau nad allai yr *wyth* gymeradwyo,* darfu iddynt hwythau wneuthur eu Hadroddiad, ymha un, wedi nodi y pethau gyda golwg ar ba rai y llawn gytunent â'u cydlafurwyr, y maent yn nodi hefyd y pethau ymha rai y gwahaniaethent oddiwrthynt, gan roddi eu rhesymau. Ychwanegir hefyd drydydd Adroddiad maith a llafurus, gan *bump* o'r wyth, yn yr hwn yr ymdrinir yn fwy helaeth â'r materion y cytunent arnynt yn yr ail. Gwelsom fod Mr. Sydney Buxton yn rhoi ar ddeall yn y Gynnadledd fawr y dydd o'r blaen yn *Exeter Hall*, ei fod ef, er nad oedd ei enw wrth y trydydd Adroddiad, yn llawn gytuno â'r oll a gynnwysai.

Anhawdd, mewn cylch cryno, ydyw dangos y gwahaniaeth rhwng y ddwy blaid yn y Ddirprwyaeth a adwaenir fel y Mwyafrif a'r Lleiafrif. Ond ymdrechwn wneyd hyny mewn cyfeiriad at ychydig o'r prif faterion gyda golwg ar ba rai y gwahaniaethent.

1. Edrycha y Mwyafrif gydag eiddigedd neillduol ar Fyrddau Ysgol. Golygant na ddylai fod ganddynt hawl, er wedi eu hethol gan y bobl, i benderfynu pa un a ddylai ysgol o fewn eu dosbarth dderbyn *grant* neu beidio, ond y dylid gadael hyny i'w benderfynu gan y Cynghor Addysg; ni chydnabyddant ychwaith fod yn ddyledswydd ar y byrddau, er y gallai fod ganddynt hawl, i barhau i ddarpar ysgolion newyddion er cyflenwi anghenion y boblogaeth; argymhellant fod cydsyniad yr holl ymddiriedolwyr yn angenrheidiol cyn y galler trosglwyddo ysgol wirfoddol i'r bwrdd; ac awgrymant, pe y cydnabyddid addysgiaeth y genedl fel rhan o waith y Cynghorau Sirol, a'i gysylltu mewn rhyw ddull â llywodraethiad yr ardaloedd, y diflanai llawer o'r cydymgais afiachus rhwng ysgolion y byrddau a'r ysgolion gwirfoddol, ac y gostyngid y draul a achosir gan eu cystadleuaeth.

Ond ymddangosai hyn oll i'r Lleiafrif—fel yn wir y mae yn rhwym

* Yr wyth oeddent, yr Anrhydeddus E. Lyulph Stanley, Syr John Lubbock, Barwnig, A.S., Syr Bernard Samuelson, Barwnig, A.S., y Parch. R. W. Dale, D.D., Mr. Sydney Buxton, A.S., Mr. T. E. Heller, Mr. Henry Richard, A.S., a Mr. George Shipton.

o wneyd i bawb a edrycho ar y mater o safle y genedl—ar wahân oddiwrth eiddo y sectau—yn dra afresymol. Gofynir am allu i'r *Cynghor* Addysg i ommedd *grant* i ysgol a fo yn cael ei chydnabod gan fwrdd ysgol; ac eto gwarafunir i'r Cynghor Addysg gael unrhyw reolaeth ar daliadau y plant mewn ysgolion gwirfoddol, er fod llaweroedd o'r ysgolion hyny â'u *fees* mor uchel fel nad ydynt yn gofyn ceiniog o gyfraniad i gyfiawnhau eu cyfenwad o "wirfoddol." Yn wir, er fod Act 1870 yn trefnu nad oedd mwy na 9c. yr wythnos i'w dalu dros unrhyw blentyn mewn ysgol yn derbyn cynnorthwy y Llywodraeth, fe geid o flaen y *Commission* fod gan *Prebendary* Richardson ysgol Eglwysig yn Isleworth, lle yr oedd y bechgyn yn yr adran uchaf yn talu £5 y flwyddyn, ac eto fod y *grant* yn cael ei dalu drostynt. Deallai y Lleiafrif hefyd fod yr Act yn amlwg yn ei wneyd yn ddyledswydd ar fyrddau ysgol i dalu yn barhaus am gyflenwad digonol o ysgolion. Fel y dywedai Mr. Forster ei hun pan oedd ei fesur o flaen y Senedd: "Addysgiaeth plant y bobl gan swyddogion y bobl, wedi eu dewis yn eu cynnulliadau lleol, dan lywodraeth cynnrychiolwyr y bobl yn y Senedd, dyma yr egwyddor ar ba un y saif y mesur, dyma y nerth eithaf sydd yn gorphwys y tu cefn i bob adran o hono." Y mae adran 18 o'r Act yn dangos fod y rhwymedigaeth yma yn gorphwys ar fyrddau ysgol, ac y gall y Cynghor Addysg anfon archiad i fwrdd ysgol yn galw arno i gyflawni y ddyledswydd o ddarparu digon o le i blant y dosbarth mewn ysgolion, ac os gommedda wneyd hyny, y gall y Cynghor Addysg gyhoeddi nad ydyw wedi gwneyd ei ddyledswydd, ei gyhoeddi *in default*, a gweithredu yn ol hyny. Pan mae y genedl Brydeinig yn ymgymeryd â chyflenwi ei hanghenion addysgawl, y mae braidd yn ormod i unrhyw sect neu sectau a allo fod o'i mewn, fyned i ddyweyd ei bod yn cydymgais, neu yn ei gosod ei hun mewn ystad o "*rivalry*" â hwynt! Ac y mae yn ddireswm hefyd ceisio trefnu fod yn rhaid i'r holl ymddiriedolwyr gytuno cyn y galler trosglwyddo ysgol wirfoddol i fwrdd. Nid ydyw yr ymddiriedolwyr ond yn dal yr eiddo yn enw y llywodraethwyr a'r gymydogaeth, a lle y byddont hwy yn gweled mai gwell fyddai gosod yr ysgol dan fwrdd ysgol, fel y galler ei dwyn ymlaen mewn ffordd a fyddo yn cyfarfod âg anghenion y boblogaeth, y mae yn sicr yn llawer gormod rhoddi gallu i unrhyw ymddiriedolwr chwareu y ci yn y preseb—na phora ei hun ac na âd i neb arall wneyd. Sylwa y Lleiafrif na chynnygia eu cydlafurwyr orfodi yr ymddiriedolwyr eu hunain i gadw ysgol ymlaen fel ysgol elfenol gyhoeddus, pe yn gwrthod cydsynio i'w throsglwyddo; "ac yr ydym ni o'r farn," ychwanegant, "y dylai adeiladau a neillduwyd at addysgiaeth elfenol, ac a adeiladwyd trwy gynnorthwy y Llywodraeth, os ydyw y rhai sydd yn gofalu am danynt yn analluog neu yn anfoddlawn i gadw ysgolion ynddynt, gael eu trosglwyddo i'r awdurdod leol ag y mae yn ddyledswydd arno wneyd darpariaeth addysgawl ar gyfer y dosbarth. Yr ydym gan hyny, nid yn unig yn anghytuno â'r hyn a argymhella ein cydlafurwyr, ond hefyd yn argymhell, lle y mae unrhyw adeilad a gafodd gynnorthwy y Llywodraeth at ei chodi er dwyn ymlaen addysgiaeth elfenol y tlodion, ac nad ydyw yn cael ei defnyddio ddyddiau yr wythnos i'r perwyl hwnw, fod i'r bwrdd ysgol feddu

hawl i ddefnyddio y cyfryw adeilad fel ysgoldy at wasanaeth y dosbarth." A thebyg ydyw yr awgrymiadau eraill a wna y Mwyafrif, sydd yn tueddu at gyfyngu ar allu neu lesteirio gweithrediadau y byrddau ysgol. Ymddengys y cwbl fel yn codi, nid oddiar awyddfryd i berffeithio ein cyfundrefn addysgawl, ond yn unig er rhoddi gwell mantais i'r ysgolion enwadol yn y "*rivalry*" ag y mae y Dirprwywyr mor hoff o edrych arnynt yn ei chario ymlaen yn erbyn gwaith y genedl Brydeinig yn gofalu am addysgiaeth ei phlant!

2. Y mae y mwyafrif yn argymhell fod ysgolion enwadol yn cael eu cynnal o'r trethoedd lleol, yr un modd ag ysgolion y genedl, a lle na bo byrddau ysgol, fod *school attendance committees* i feddu hawl i godi trethoedd at eu cynnaliaeth, a hyn oll heb adael i gynnrychiolwyr y bobl unrhyw ran yn eu llywodraethiad. Cwynant yn fawr fod baich yr ysgolion enwadol yn trymhau, tra nad oes ganddynt ond cyfraniadau gwirfoddol i syrthio arnynt am eu cynnaliaeth, pan y mae ysgolion y byrddau yn cael eu cynnal o'r trethoedd. Ond erbyn edrych, nid ydyw yn ymddangos fod baich y cyfraniadau gwirfoddol wedi trymhau o gwbl. Y mae *grants* yr ysgolion enwadol wedi chwyddo yn anferth. Nid oeddynt yn 1870 ond £562,000; ond yn 1887 derbyniasant £1,844,000. Ond gyda'r fath gynnydd dirfawr yn y *grants*, nid ydyw cynnydd y cyfraniadau gwirfoddol ond bychan iawn: yn 1870 yr oedd y cyfanswm yn £418,800, ac yn 1887 nid ydoedd ond £742,000; neu tra yn 1869 yr oedd yn 7s. 3c. ar gyfer pob ysgolor, nid ydoedd yn 1887 ond 6s. 7¾c. Drachefn, y mae yr ychwanegiadau a gynnygia y Mwyafrif at gynnaliaeth yr ysgolion hyn mor ryfeddol o fawr. Cynnygiant waddoliad o'r trethoedd at addysg gelfyddol, *technical*, yr hyn na ddeuai i ddim llai na £1,000,000; cynnygiant ychwanegu eto y *grant* i ysgolion bychain gwledig, yr hyn i rai felly o gymeriad enwadol, a ddeuai i tua £400,000; cynnygiant ychwanegu y *grants* sefydlog i 10s. y pen, yr hyn a ddygai i'r un ysgolion £500,000 eto; gofynant ymhellach am gynnorthwy o'r trethoedd lleol, na fyddai yn llai na £1,000,000; ac erbyn ychwanegu hyn at y £1,844,000, y *grant* am 1887, fe wneid y swm a ofynid at gynnaliaeth ysgolion enwadol bob blwyddyn tua £4,744,000. A thra y gofynir am y fath swm aruthrol o'r cyllid cyhoeddus at gynnaliaeth yr ysgolion hyn—y rhai ydynt, gan mwyaf o lawer, yn ysgolion Eglwys Loegr—ni feddylir am wneyd unrhyw ddarpariaeth o gwbl tuag at roddi i'r bobl, o boced au pa rai y ceid y fath swm, na rhan na chyfran yn eu llywodraethiad!

3. Ac fel na fyddai i gynnrychiolwyr y bobl lais yn llywodraethiad yr ysgolion hyn, ni chynnygia y Mwyafrif ychwaith unrhyw amddiffyn i gydwybod y rhai a anfonant eu plant iddynt, amgen nag ewyllys yr offeiriaid a'u cyfeillion, y rhai sydd yn meddu pob awdurdod arnynt. Dywed y Mwyafrif eu bod yn cael fod yr "adran cydwybod" wedi gweithio yn rhagorol ynddynt; ac yn awr y maent wedi darganfod nad oes ei heisieu mwyach, yn gymaint ag nad oedd a fynai, meddant, ond ag ysgolion a gynnorthwyid o'r trethoedd, er fod yr Act yn ei gwneyd yn anhebgorol i bob ysgolion a broffesent fod yn rhai "elfenol cyhoeddus," ac a dderbynient o gyllid y Llywodraeth. Fe deimla y bobl, o'r ochr arall, ac fe ddangoswyd hyny gan lawer o'r dynion mwyaf

parchus o flaen y Dirprwywyr, nad ydyw yr adran cydwybod, mewn llawer mawr o amgylchiadau, wedi bod o unrhyw ameliffyn oll, ond fod yr ysgolion yn gyffredin wedi bod mor enwadol â phe na fuasai y fath adran mewn bod. Ac yn awr fe gynnygir ei hysgubo ymaith, a bod enwau y plant yn cael eu galw *o flaen* y gwasanaeth crefyddol, ac nid ar ei ol. Y mae 11,800 o'n hysgolion cyhoeddus yn perthyn i Eglwys Loegr, ac y maent, i bob dyben a bwriad, yn ysgolion Eglwysig. Mae yr athrawon yn rhwym o fod yn Eglwyswyr, ac y mae y llywodraethwyr—yn fynych nid oes ond un, y person—yn ei ystyried yn berffaith deg eu gwneyd yn offerynau proselytiaeth. Chwedl Mr. Cumin, ysgrifenydd y Cynghor Addysg, "mae yr adran cydwybod yn [illegible], ond peth ar bapyr ydyw. Y gwir beth ydyw y gallu i benodi yr athraw." Dywedai ymhellach os na ddysgai athraw fel y mynai yr offeiriad, y troid ef ymaith. Ceid o flaen y Dirprwywyr fod 286 o ysgolion gwirfoddol mewn 10 o siroedd, lle y nodid y rhestrau *o flaen* y gwasanaeth crefyddol, ac am hyny yr oedd *raid* i'r plant fod yn bresennol y pryd hyny. Yn [illegible], Caergrawnt, gorfodwyd plant na ddymunai eu rhieni iddynt gael yr addysg a fynai y ficer uchel-Eglwysig weinyddu, i wneyd penyd trwy ymgrymu *ar linell wen* o flaen yr holl ysgol. Yn Kidlington, swydd Rhydychain, cafodd plant eu chwipio am fod o'r ysgol [illegible] i fwynhau *treat* ynglŷn âg Ysgol Sabbothol Ymneillduol. Dywedai un tyst o flaen y *Commission*—Mr. T. Smyth, a etholwyd i roddi tystiolaeth dros y *London Trades Council*—fod bachgen iddo ef wedi cael ei osod i sefyll yn un pen i'r ystafell o flaen yr holl ysgol, o herwydd iddo ef ddymuno ar iddo beidio bod dan yr addysg grefyddol, ac yn briodol iawn "gwrthdystiai yn erbyn cael amddiffyn i'w gydwybod mewn ffordd a osodai y fath ddarostyngiad ar ei blentyn." Yn Stow on the Wold, swydd Gloucester, yr oedd y rector yn gadeirydd y bwrdd ysgol, a hyd yn nod yn y cymeriad hwnw, honai fod addysgiaeth grefyddol plant ysgol y bwrdd wedi ei hymddiried iddo ef, a gorfodai hwynt i *fyned i Eglwys y plwyf bob bore cyn myned i'r ysgol*. Nid oes dim i'w ddyweyd yn erbyn pethau fel yma mewn ysgolion gwirfoddol, ysgolion fo yn cael eu cynnal gan y rhai sydd yn credu ynddynt, ac y bo y bobl, tra yn gwybod fel y maent yn cael eu cario ymlaen, yn dewis anfon eu plant iddynt. Ond am osod i fyny drefn fel yma i ddwyn ymlaen addysgiaeth plant y genedl, ar draul o tua £4,000,000 o arian y cyhoedd, heb fod i'r bobl eu hunain unrhyw lais yn llywodraethiad yr ysgolion, a thra y defnyddir hwynt fel cyfleusderau i ddysgu i'r plant, a hyny dan yr esgus o addysg grefyddol, lawer o bethau na all eu rhieni lai nag ystyried yn gyfeiliornus, ie yn sarhad ar eu cydwybod, y mae y syniad am y fath beth yn annyoddefol.* Yr ydym yn clywed llawer am yr "addysg ddiddaw" a

* Fel engraifft o'r hyn a ddysgir gan lawer o'r rhai ag y mae yr ysgolion hyn yn gwbl yn eu llaw, cymerer y pethau canlynol. Yn y *Banner of Faith* darllenwn: "Y mae bedydd sanctaidd yn golchi ymaith bechod gwreiddiol." "Y mae bedydd yn [illegible]." [illegible] mae y *[illegible] Guide*, tua 80,000 o ba un [illegible] adnewyddiad yn medydd; cyffes i, a gollyngdod [illegible] groes, ac athrawiaethau [illegible] a [illegible] hwn, nodir "myned i [illegible]." A dyma *Some Questions of the Church* [illegible] *and parochial schools*, sydd [illegible] "na all neb ddyfod yn Gristion heb

weinyddir y tu allan i gylch yr ysgolion enwadol. Ond y mae hyny yn swnio yn dra chwithig pan geir nad oes ond *saith* allan o holl fyrddau ysgol Lloegr nad ydyw y Bibl yn cael ei ddarllen ac addysg grefyddol anenwadol yn cael ei rhoddi yn eu hysgolion; ac fe welir yn amlwg oddiwrth yr arholiadau a gynnelir ynglŷn â llawer o'r byrddau hyny fod y llafur yma mewn lliaws mawr o honynt yn ffrwythlawn a bendithiol. Mae yn ddrwg genym fod nifer y byrddau lle na ddarllenir y Bibl yn eu hysgolion yn Nghymru yn *hanner cant;* ond fe ŵyr pawb na fuasai felly mewn gwlad nad oes dan haul yr un ag sydd yn fwy ei pharch a'i chariad at Air Duw oni b'ai am yr ymdrech benderfynol a wnaed i ddefnyddio yr ysgolion dyddiol, a gynnelid i'r fath raddau ar draul y wladwriaeth, i geisio dwyn y plant o fynwes eu rhieni, a'u corlanu mewn lle ag y teimlent *hwy*—a chanddynt hwy yr oedd yr hawl i farnu—na fuasai mor fanteisiol iddynt. Heblaw hyn oll, beth a ddywedwn am y llafur gyda yr Ysgol Sabbothol, a chyfleusderau eraill ag y gwneir cystal defnydd o honynt i ddysgu y plant am bethau mawrion Duw? Fe gyhoeddir yn *Final Report* y Dirprwywyr *Memorandum* a dynwyd i fyny gan Dr. Dale, yn seiliedig ar dystiolaethau boneddigion oedd wedi ymddangos o'u blaen, ar gyfrifon y *Sunday School Union*, a chyfrifon y gwahanol gyfundebau crefyddol, yn yr hwn y ceir, tra nad yw y cyfanrif yn yr ysgolion dyddiol am Loegr a Chymru ond 4,405,000, fod y cyfanrif yn yr Ysgolion Sabbothol yn 5,200,776; a thra nad ydyw athrawon ac athrawesau yr ysgolion dyddiol ond 92,000, fod athrawon ac athrawesau yr Ysgolion Sabbothol yn 593,427. Y mae ei gyfrifon yn dangos hefyd fod mwy o 228,830 o blant rhwng saith a phedair ar ddeg oed yn Ysgolion Sabbothol y deyrnas nag yn yr *holl* ysgolion dyddiol. Nid rhyfedd fod

fedydd," ac y rhaid i hwnw fod "gan offeiriad gweinyddol, neu berson fo wedi derbyn awdurdod ysbrydol." Gofynir ynddo, "A ydyw Ymneillduaeth yn bechod mawr? *Ateb*. Ydyw, y mae yn hollol groes i'n dyledswydd tuag at Dduw." Drachefn: "Rhaid ei fod yn bechadurus a rhyfygus i'r bobl hyny a elwir athrawon Ymneillduol i gyfarch Gorsedd Gras, gan gymeryd arnynt y swydd offeiriadol." "A ydyw yn bechod, gan hyny, myned i dŷ cwrdd o gwbl? *Ateb*. Ydyw, yn gwbl sicr: oblegid, fel y dywedasom uchod, y mae yn fan lle yr addolir Duw yn wahanol i'r hyn a orchymynodd, ac am hyny, nid ydyw wedi ei gysegru i'w anrhydedd a'i ogoniant," &c. A lled debyg y Deon Gott yn ei *Parish Priest of the Town:* "Nac ymunwch âg Ymneillduwyr ar esgynloriau crefyddol, er maint a ddymunech yn fynych wneyd; ymogelwch am dri rheswm: (1) Fe gaed ei fod yn amlwg ac yn gyffredin yn profi yn fethiant. (2.) Fe bâr benbleth a dyryswch i'ch Cymunwyr sanctaidd eich hun. (3.) Y mae yn ddrwg mewn egwyddor, er engraifft, fe ofynir i chwi yn fuan i ddyfod i gyfarfod o'r Fibl Gymdeithas." A'r fath drychineb fyddai hyny! Dywedai rector arall yn ddiweddar mewn llythyr bugeiliol y gofynid i ddynion "Pa un a oeddent yn myned i'r Eglwys ynte i'r Capel, yn nydd y farn;" ac ychwanegai: "Y mae Ymneillduaeth boliticaidd yn adgas genyf fi, ac yr ydwyf yn credu ei fod yn adgas gan yr Hollalluog." Offeiriad arall yn swydd Rutland, pan ofynwyd iddo weinyddu yn angladd merch i bregethwr Wesleyaidd, a gydsyniai i wneyd hyny ar y dealltwriaeth ei fod i dalfyru y gwasanaeth: dywedai "nad oedd yr eneth wedi ei bedyddio gan offeiriad o Eglwys Loegr, ac am hyny na ddarllenai wrth ei bedd ond yr un geiriau ag a ddarllenai uwch bedd hunan-leiddiad." Ac mae yn ddiammeu mai nid ei deimladau ei hun yn unig a ddadganai yr offeiriad Cymreig, y Parch. W. O. Edwards, pan ddywedai yn ddiweddar yn nghyfarfod Coleg Llanbedr mai Eglwys Loegr "oedd yn gwneyd yr unig les ag oedd yn cael ei wneyd yn Nghymru," "ei fod yn dirmygu yr Ymneillduwr politicaidd," ac yn ychwanegu: "Y mae fy mhrofiad yn fy arwain i ddyweyd, 'Peidiwch ymostwng i Ymneillduaeth.' Ymwelwch âg Ymneillduwr a chynnorthwywch ef os ydyw yn glaf neu yn wael, ond dywedwch wrtho yn bendant, os bydd raid, fod Eglwys Loegr yn well ugain mil o weithiau na'i gredo ef."

gwrthwynebydd parchus fel y *Guardian* yn cydnabod fod yr hen gri ffol ynghylch addysg ddiddduw, yn cael ei wrthbrofi yn hollol a'i droi o'r neilldu, mewn rhan gan y tystiolaethau a roddasid gyda golwg ar yr addysg grefyddol a roddid yn ysgolion y byrddau, ond yn fwy fyth gan y cofnodiad hynod a barotoisid gan Dr Dale gyda golwg ar waith Ysgolion Sabbothol y deyrnas. O'r ochr arall, y mae cryn bwys yn nhystiolaeth un mor alluog a phrofedig o Arolygwyr ei Mawrhydi â Mr Blakiston, yr hwn a ddywedai o flaen y Dirprwywyr:—"Llawer gwaith y bu raid i mi wrando, yn anfoddlawn ddigon, ar draethiadau ynghylch dirfawr bwysigrwydd yr 'elfen grefyddol' yn yr addysgiaeth a roddid yn hysgolion dyddiol i blant y tlodion,—yr 'elfen grefyddol' hono yn gynnwysedig o adrodd ar dafod-leferydd y ffurfiau sychaf, neu ddarllen a dysgu rhan o'r Ysgrythyr, tra nad ydoedd ond damwain pa un a oedd yr athraw yn teimlo y dyddordeb crefyddol lleiaf yn y mater. Nid oes dim yn sefyll yn fwy andwyol yn ffordd cyfundrefn o addysg genedlaethol dda, na'r syniad fod rhithyn o ddiwylliad crefyddol yn cael ei roddi trwy waith o'r fath yma. Y rhyfeddod mewn gwirionedd ydyw, pan ystyriwn fel y mae plant bach yn cael dysgu crefydd felly, fod y mymryn lleiaf o barchedigaeth crefyddol yn aros. Am fy mod yn credu mor ddwfn yn mhwysigrwydd yr elfen grefyddol mewn addysgiaeth, yr ydwyf yn anghymeradwyo mor ddifrifol yr ymdrechion truenus yma a wneir o honi. Gadewch i ni gael addysg gyffredin o ddifrif yn ein *National Schools*—gwaith crefyddol ddigon ynddo hefyd a hyny—ac yna os na all rhieni Cristionogol, Ysgolion Sabbothol, addoliadau Cristionogol, ac awyrgylch cenedl Gristionogol, ychwanegu y dylanwad uwch, sef yr un gwir grefyddol, fe allai mai goreu po leiaf a siaradwn am ein Cristionogaeth genedlaethol."

4. Mae y mwyafrif yn teimlo fod pethau fel y dylent fod pan y mae cynifer o'r Colegau Athrawol, tra yn derbyn tair rhan o bedair o'u cynnaliaeth o'r Llywodraeth, eto yn cael eu cario ymlaen yn gwbl oll fel sefydliadau enwadol. Eu rheswm am hyny ydyw, am fod 69 y cant o ysgolion elfenol, yn cynnwys 56·37 y cant o ysgoleigion, eu hunain yn enwadol. Ond mae yn anhawdd credu fod cynifer yn myned i ysgolion felly, mewn llawer man o anghenraid, am nad oes ysgolion eraill o fewn eu cyrhaedd. Sonir llawer gan y boneddigion hyn am i rieni gael rhyddid i anfon eu plant "i'r ysgol a ddewisant;" ac eto y mae 10,000, allan o 15,000, o blwyfi y deyrnas, nad oes bwrdd ysgol o'u mewn, ac nad oes ond ysgol sectol, a hono bron bob amser yn ysgol yr Eglwys, i'w chael ynddynt. Cwyna y Lleiafrif o'r ochr arall, tra nad oes ond 10 y cant o'r ysgoleigion mewn ysgolion enwadol, fod 80 y cant o'r hefrydwyr, [illegible] yn parotoi at fod yn athrawon, mewn colegau enwadol. [illegible] 1880 mewn colegau enwadol, yn lle [illegible] mewn colegau anenwadol, yn lle [illegible] Cwyna y Lleiafrif [illegible] colegau athrawol enwadol am [illegible] teimlaidd Cristionogol [illegible] ac eto y mae colegau y *British and Foreign School Society* [illegible] a cholegau [illegible] a Newnham i fenywod, yn [illegible] brofi unrhyw anhawsder [illegible] yn [illegible] o athrawesau yn cael eu derbyn [illegible] mewn unrhyw goleg.

Amcan y Ddirprwyaeth oedd dymchwelyd y dealltwriaeth y daethid iddo trwy Act 1870, ac fe wnaeth y Mwyafrif eu gwaith yn ffyddlawn er cyrhaedd yr amcan oedd gan y Llywodraeth mewn golwg wrth eu hapwyntio. Mae holl ysbryd eu hadroddiad yn cael ei ddangos yn yr ymadrodd eu bod "yn teimlo fod yr amser wedi dyfod i wneyd cychwyniad newydd," *a new departure*, gydag addysg, ac mae y cychwyniad hwnw, yn ol eu barn hwy, i fod yn gryf yn ffafr addysg enwadol. Y maent wedi bod ychydig yn rhy zelog, ac felly wedi gor-wneyd y gwaith a osodasid iddynt.

The lady doth protest too much, methinks.

Ac yn anffodus, y mae llafur pybyr Canon Gregory a'i frodyr, a hwnw yn cael ei gyfnerthu gan wŷr fel Dr. Rigg a Mr. S. G. Rathbone—y gallesid dysgwyl pethau gymaint gwell oddiar eu llaw!—wedi myned gymaint tu hwnt i'r nod, fel yr oedd cynnrychiolwyr y Cymdeithasau Ceidwadol yn Nghynnadledd fawr Wolverhampton yn penderfynu mai annymunol fuasai derbyn eu hargymhelliad gyda golwg ar gynnorthwyo yr ysgolion gwirfoddol o'r trethoedd; ac yn awr dyma hyd yn nod y *National Society* hefyd yn mabwysiadu penderfyniad cyffelyb. Ac nid yn unig hyny, ond wedi gweled codiad y dôn Ryddfrydol fawr ynglŷn âg ymweliad Mr. Gladstone â Birmingham, ac un arall gyffelyb yn codi ar ei hol yn y Gynnadledd ddylanwadol ar Addysg oedd i'w chynnal yn Neuadd Exeter, dyma y *Vice-President*, Syr W. Hart-Dyke, ar y 9fed o Dachwedd, yn dyweyd yn Nhŷ y Cyffredin, "yr edrychai efe gyda'r pryder dyfnaf ar unrhyw ymgais i ddinystrio y cyd-ddealltwriaeth y daethid iddo yn 1870," ac y byddai "y fath ymgais yn llwythog o'r canlyniadau mwyaf andwyol." Braidd yn galed ar y Mwyafrif! Ond lled debyg i helynt yr adranau trwyddedol yn mesur Mr. Ritchie; wedi gweled y digllonedd â pha un y gwrthdystiai y deyrnas yn erbyn *compensation*, ac er dadgan eu penderfyniad, "Certainly, Sir," bedair awr ar hugain yn flaenorol o fŷnu eu cario, gofyn yn ostyngedig am ganiatâd i'w tynu yn ol. Fel y "Bytheuad wedi heneiddio" gan Nicander, gall ein Llywodraeth ddyweyd,—

Nid pallu wnaeth f' ewyllys,
Ond pallu wnaeth fy nerth.

Dywedai y *Times* "fod *Exeter Hall* wedi bod yn ymladd â chysgod, ac yn lladd y lladdedigion." Caled iawn eto ar y Mwyafrif! Ond ni ddylem anghofio am fynyd, yn enwedig pan dan y fath Lywodraeth â'r un bresennol, mai pris ein rhyddid ydyw gwyliadwriaeth barhaus. Yn wir yr oedd atebiad Syr W. Hart-Dyke wedi hyny, i Mr. Molloy, yr hwn a amlygai ei syndod nad oeddent yn bwriadu gwneyd dim yn ychwaneg yn ffafr ysgolion enwadol, mor drofaus fel nad allem ryfeddu at unrhyw ymgais a wneler i gario allan amcan sydd yn amlwg mor agos at eu calon.* Heblaw hyny, y maent *hwy*, a hyny mewn modd tra

* "Na! na! ni allaf adael i hynyna sefyll. Dywedais y cymerid yn ganiataol mewn rhai cylchoedd ei fod yn mwriad y Llywodraeth i wneyd ymosodiad ar hyd yr holl linell ar y gyfundrefn bresennol o addysg wirfoddol, a chan belled ag yr oedd a fynwn i â'r peth, yr edrychwn gyda'r pryder mwyaf ar unrhyw ymgais i ddymchwelyd dealltwriaeth 1870. Y mae gwahaniaeth llydan rhwng hyny a'r peth a ddywed yr aelod anrhydeddus yn awr."—Attolwg ymha "gylchoedd" y caed neb yn ddigon ehud hyd yn nod i freuddwydio fod y fath beth "yn mwriad y Llywodraeth?"

phenderfynol, wedi cynnyg dadwneyd dealltwriaeth 1870, yr hwn trwy y blynyddoedd a deimlid mewn llawer iawn o'n hardaloedd—ac yn neillduol felly yn Nghymru—yn rhyfeddol o feichus; ac nid ydyw yn debyg y gorphwysir, bellach, heb gael ail drefniad arno, ond mewn cyfeiriad cwbl wahanol. Y mae yr amser i wneyd "cychwyniad newydd" yn sicr wedi "dyfod;" ond cychwyniad *ymlaen* raid iddo fod, ac nid cychwyniad *yn ol!* Yr oedd hyn i'w weled yn bur amlwg yn Nghynnadledd *Exeter Hall*, yr hon oedd yn gynnwysedig, nid yn unig o Ymneillduwyr, ond hefyd o Eglwyswyr, a chynnrychiolwyr yr holl bleidiau politicaidd, a'r oll yn cydgyfarfod ar y tir ëang a gwladgarol o geisio diogelu a pherffeithio ein cyfundrefn o addysg genedlaethol. Ac y mae yr un amcan rhagorol yn ymaflyd yn gryfach o ddydd i ddydd yn ysbryd y bobl nad ydyw hanesyddiaeth yn gallu cofnodi eu bod wedi gosod eu bryd ar unrhyw amcan na fuont yn llwyddiannus i'w gyrhaeddyd! Rhaid cael addysg ein hysgolion elfenol mor effeithiol ag y bo modd; rhaid dinystrio gorfaeliaeth enwadol yn ein hysgolion gwledig; rhaid i'r bobl trwy eu cynnrychiolwyr gael llais yn llywodraethiad yr ysgolion y gelwir arnynt i gyfranu at eu cynnaliaeth; nid ellir goddef y gwyriad lleiaf oddiwrth yr ymgytundeb y daethpwyd iddo yn 1870 gyda golwg ar addysg grefyddol yn yr ysgolion cyhoeddus; y mae y drefn o fyrddau ysgol mor gyfaddas i amgylchiadau y deyrnas fel y mae yn rhaid gosod yr holl deyrnas dani, fel y galler cario allan argymhelliad rhesymol y Lleiafrif, "fod ysgolion anenwadol dan lywodraethiad poblogaidd yn cael eu sefydlu trwy yr holl wlad lle bo nifer rhesymol yn dymuno hyny, a lle na ellir cynnal ond un ysgol effeithiol, fod hono dan lywodraethiad cyhoeddus, ac heb fod mewn cysylltiad âg unrhyw enwad crefyddol;" ac yn olaf, rhaid cael y colegau athrawol, y rhai y mae yr holl wlad yn talu cymaint at eu cynnaliaeth, yn agored i bobl ieuainc gymeradwy yn ddiwahaniaeth, ac nid yn gyfyngedig i unrhyw sect, a rhaid cael y bobl ieuainc hyny, wedi dyfod allan o honynt, yn athrawon i'r genedl sydd yn talu eu cyflogau, ac nid yn genadon i Eglwys Loegr na'r Eglwys Babaidd. Mae ymdrech culni sectol i gyfyngu ar hawliau y genedl yn profi yn barhaus y moddion mwyaf effeithiol i sicrhau a pherffeithio y rhyddid sydd yn anhebgorol i'w dyrchafiad a'i llwyddiant.

DANIEL ROWLANDS.

# CANIADAETH Y CYSEGR.

YN un o'i lythyrau i'r *Goleuad*, ceir gan Mr. Owen M. Edwards, B.A., y sylw awgrymiadol canlynol:—"Nid yn yr un oes â chrefydd bur y mae'r celfau cain yn blodeuo. 'Does gan ddynion mo'r amynedd i ddarlunio eu teimladau mewn ceryg neu baent pan fo eu heneidiau ar dân. Pan fo diwygiad wedi llosgi allan, pan fo'r ystorm wedi llonyddu, y daw'r adeiladydd a'r arlunydd at eu gwaith. Pan fo cenedl yn nghryfder ei meddwl, yn ngrym ei dadblygiad, yn ymysgwyd o'i chadwynau, ni fedr ond *dyweyd* a *chanu*."

Mae darllen y frawddeg hon yn ystyriol yn awgrymu i'r meddwl, ai nid yw y sylw yn gymhwysiadol at Gerddoriaeth, yn ogystal a'r celfau eraill y cyfeirir atynt? Wrth gwrs, gwyddom nas gellir defnyddio darluniau a cherfluniau i gynnyrchu ynom deimladau i'r un graddau ag y gellir defnyddio seiniau cerddorol. Ond wedi'r cwbl, celfyddyd yw cerddoriaeth, fel ei chwiorydd; ac yn ngwyneb y frawddeg uchod, y mae y gofyniad yn codi, Ai nid yw rheolau manwl mynegiant cerddorol yn trethu amynedd y Cristion pan fyddo ei enaid "ar dân?" Rhoddir grym i'r gofyniad pan y cofir am ddylanwadau cerddoriaeth gysegredig ymhlith ein cyndadau yn Nghymru. Y mae rhai o ddarllenwyr y TRAETHODYDD yn ddigon hen i gofio yr effeithiau nefolaidd a geid trwy ganu yr hen donau diaddurn yn ystod blynyddoedd blodeuog y Cymanfaoedd a'r Diwygiadau Crefyddol. Yr oedd yn y canu hwnw wir addoliad; y tyrfaoedd yn ymgolli mewn hwyl, ac yn gwbl analluog i sylwi ar reolau manwl mynegiant (os gwyddent am danynt); ac eto dyna y canu mwyaf bendithiol yn ein hanes crefyddol. Yr ydym, yn wir, wedi cynnyddu yn fawr mewn gwybodaeth gerddorol er yr amseroedd hyny, ond, atolwg, pa le mae yr ennill mewn gwresogrwydd teimlad addoliadol?

Y mae y sylw hwn yn ein harwain i dynu casgliad pellach, sef, a ydyw canu, o unrhyw fath, yn anhebgorol yn y cysegr? Rhaid ateb nad ydyw. Pe buasai yn anhebgorol, buasai lle i ammeu effeithiolrwydd hollol yr efengyl yn y pregethiad o honi, i'r gwaith o droi pechaduriaid o'u ffyrdd cyfeiliornus. Mater o ddewisiad Dwyfol yw yr adran gerddorol o wasanaeth y cysegr; ond y mae doethineb y Creawdwr yn cael ei amlygu yn hyn, gan fod canu yn gyfrwng mor naturiol i apelio at galon y ddynoliaeth, yn ogystal ag i roddi mynegiant i'w theimladau.

Os cydolygir â'r sylwadau uchod, rhaid addef nad oes llawer o bwysigrwydd yn y gofyniad, Pa un yw y canu mwyaf effeithiol a buddiol, yr hen ynte y diweddar? Yn ngolwg Duw, y canu mwyaf cymeradwy yw y cyfryw ag sydd yn ddangoseg gywir o ddwysder ysbryd ac addfedrwydd teimlad addolgar. Gyda dyn, nid yw y safon bob amser felly. Y mae efe yn taro ei ben yn barhaus wrth gelfyddyd a'i hawliau.

Creadur ydyw ef sydd beunydd yn ymestyn at, ac yn dyheu am, fwy o oleuni, mwy o wybodaeth; ac y mae y syniad yn ymgynnyg yn naturiol i'w feddwl y rhaid fod canu coeth yn sicr o fod bob amser yn fwy cymeradwy gan Dduw na chanu diaddurn. Y mae gwirionedd yn y syniad, ond nid yr holl wirionedd. Sicr yw fod Duw yn hoffi mawl soniarus, ond dysgwylia i'r cyfryw fawl fod mewn cydgordiad perffaith â'r dyn yn yr oll o hono. Nis gall yr Hwn a orchymynodd i dryblith y greadigaeth wisgo ffurf drefnus a golygus, lai na thystio, yn unol â sefydlogrwydd ei gymeriad, mai "da" hefyd yw y drefn ar y tryblith o seiniau a ddygir oddiamgylch gan gelfyddyd y Cerddor. Ymddengys hyn yn hollol resymol a theg; ond er hyny yr ydym fyth mewn anhawsder. Un ai y mae y gelfyddyd gerddorol yn alluog i ateb uwch dybon na gosod gwedd olygus ar seiniau, neu nid ydyw. Os ydyw, paham na cheid profion amlwg a chyson o hyny yn effeithiau y canu cynnulleidfäol? Os nad ydyw, o ba fudd ymarferol y mae? Cyfeiriais yn fyr at effeithiau grymus canu di-ymgais, anghelfydd, yr hen dadau Cymreig, o'i gyferbynu â chanu coeth ond claiar y dyddiau hyn, fel un prawf o gywirdeb gosodiad Mr. O. M. Edwards—hyd yn nod yn y cymhwysiad o hono at gerddoriaeth: "Nid yn yr un oes â chrefydd bur y mae'r celfau cain yn blodeuo." A yw y cymhwysiad yn un teg? Ai nid oes modd egluro y mater fel ag i roddi boddlonrwydd i'r meddwl, ac urddas dyladwy i gelfyddyd y cerddor? Credaf fod.

Y mae y darllenydd, o bosibl, wedi sylwi fod gwahaniaeth rhwng canu gyda *mynegiant* a chanu gyda *theimlad*. Nid yw y naill, o angenrheidrwydd, yn cynnwys y llall. Rhaid i wir fynegiant gyfleu a chynnyrchu teimlad; ond y mae mynegiant *mechanical*, yn yr hwn nid oes ond rhith teimlad. Ar y llaw arall, gellir arllwys gwir deimlad mewn anwybodaeth o "fynegiant," yn yr ystyr gelfyddydol i'r gair. Y mae yr anghelfydd cerddorol pan yn dadganu gyda gwir deimlad, yn anymwybodol iddo ei hun yn rhoddi amrywiaeth "mynegiant" i'r teimlad hwnw, ac ar ryw wedd ac i ryw raddau, y mae yn fynegiant celfyddydol. Iddo ef, y mae y geiriau,

Wrth gofio 'i ruddfannau 'n yr ardd,

yn d'od â'r fath adgof dwys, nes y mae teimlad brwd ei galon drist yn llanw pob sill o'r geiriau hyd yr ymylon: mae y llais yn crynu, yn arafu a thyneru, a'r oll yn hollol naturiol. Sylwer drachefn fel y mae y syniad sydd yn y llinell

Pa dafod all dewi am hyn?

yn nerthu ei feddwl, yn d'od â sefydlogrwydd a grym i'w lais. Teimla fod y cyfle wedi d'od i dystio yn ngwydd diafol, cnawd, a byd, nas gall ei dafod ef dewi a son am yr oll a wnaeth yr Iesu drosto. Fel hyn cynnyrchir, yn ddiymgais, effeithiau nas gall celfyddyd eu hangerddoli. Gwir y gall gaboli dadganiad fel hwn, ond nis gall ddyfnhau y teimlad sydd odditano; y mae hwnw yn gwbl berffaith. Dyma ganu anghelfydd, ond gwir deimladol.

Ond y mae hefyd ganu gyda mynegiant celfyddydol perffaith, a pha beth a ddichon hwnw wneyd? Gall yn fynych gynnyrchu teimlad dyfnach mewn arall nag a deimlir gan y dadganydd ei hun, tra y mae

canu anghelfydd, ond gyda gwir deimlad, yn debyg o effeithio yn fwy ar y dadganydd ei hun nag ar y gwrandäwr. Pan yr ystyrir nad yw rheolau dadganu ond cyfryngau a ddefnyddir i roddi amrywiaeth lliwiau neu effeithiau i deimladau, gwelir fod yn bosibl i'r hwn sydd yn feistr ar gyfrinion dadganiaeth eu defnyddio er cynnyrchu ynom deimladau amrywiol iawn, y rhai nad yw ef, bob amser, o dan orfod i'w sylweddoli. Nid wyf yn haeru nad yw yn angenrheidiol i'r dadganydd deimlo grym y gerddoriaeth *o gwbl;* ymddengys i mi y rhaid ei fod, ryw bryd, wedi llwyddo—a goreu po fynychaf y llwydda—i weithio ei hun i deimlad y darnyn a genir ganddo, cyn gwneyd y dernyn yn feddiant gwirioneddol iddo ei hun, cyn meddu sail i'r sicrwydd o allu dylanwadu ar arall. Wedi hir gynnefino â chanu dernyn, ceir nad yw y dadganydd bob amser yn llwyddo i gael y cyfryw ddylanwad arno ei hun, ag a gai ar y dechreu; ac eto dichon fod y gân yn dal mewn llawn boblogrwydd. Ceir engraifft o hyn yn nghaneuon goreu yr *Operas*—caneuon a genir gannoedd o weithiau, noson ar ol noson; a phe teimlai y dadganydd bob tro fel y tybid, buasai yn sicr o effeithio yn angeuol arno yn lled fuan. Ond na, y mae mor galon-iach ymheu blwyddyn ag erioed! I mi, y mae hyn yn brawf diammheuol fod dyfeisiau celfyddyd, o dan reolaeth fanwl, yn gwneyd eu rhan er cynnyrchu teimlad mewn arall nad yw y dadganydd ei hun hob amser yn ei deimlo. Y mae yn werth i'r ammheuwr sefyll uwch ben y mater hwn.

Y mae yr un peth yn wir am y *drama.* Er fod y chwareuwr yn cynnrychioli person mewn ystad o deimladrwydd angerddol, nid yw, ac nis gall, y cynnrychioliad fod yn un hollol gyflawn. Dro yn ol, pan yr oedd y chwareuyddes fyd-enwog Sarah Bernhardt yn cymeryd rhan mewn golygfa dorcalonus ar y chwareufwrdd, meddiannwyd rhyw feddyg âg awydd cryf i gael ymddyddan â hi ar derfyn yr olygfa. Cafodd y boddhâd a chwennychai, ond er ei ddirfawr syndod yr oedd y foneddiges mor dawel ag y gallai fod, a chylchredai ei gwaed mor araf â'r eiddo yntau! Sicr yw ddarfod iddi ryw bryd, a llawer gwaith o ran hyny, deimlo grym yr olygfa, ond nid bob tro; a'r unig gasgliad y gellir dyfod iddo yw, fod celfyddyd yn "gymhorth wrth raid" iddi. Pan yn darparu yr ysgrif hon, bûm yn holi dadganwyr a chwareuwyr ar y mater, a dywedent fod eu profiad hwy yn unol â'r golygiadau hyn o'r eiddof.

Credaf fod gan gydberthynas syniadau, *association of ideas*, lawer i'w wneyd â'r dylanwad a geir arnom gan ganu a chwareu *(acting).* Dichon y bydd y gân yn cyfeirio at ofal tirion mam anwyl sydd yn awr yn y bedd. Y mae y syniad ar unwaith yn gafael yn nheimladau dyfnaf ein natur. Gofal *mam* wedi pallu; mam mewn *bedd!* I'r sawl sydd heb golli mam, y mae y fath syniad yn gyru'r dagrau i'r llygaid, ac yn llechu ymhob deigryn y mae teimlad angerddol. Neu meddylier am chwareuyddes ar y *stage* yn sefyll wrth wely ei geneth fach sydd yn ffugio marw. Mae y fam yn wylo, a'r fach yn ceisio ei chysuro. Onid yw y syniad sydd yn yr olygfa yn suddo i'n teimlad ac yn dwyn dagrau i'n llygaid, er ein bod yn gwybod mai ffug yw y cwbl? Fel hyn gwelir modd y gall celfyddyd greu cyffro yn ngwersyll y teimladau drwy apelio at y gallu sydd ynom i gysylltu meddylddrychau. Yn wir y mae y posibilrwydd sydd ynglŷn â hi bron yn ddiderfyn, ond

y mae perygl ei gamddefnyddio. Peidier meddwl fod celfyddyd y cerddor—canys â'r wedd hono ar gelfyddyd y mae a wnelwyf yma—yn cyrhaedd ei man uchaf pan yn dylanwadu ar arall, pryd nad yw yn effeithio yn gyfatebol ar y dadganydd ei hun. Na, ei gogoniant sydd yn ei gallu i apelio at deimlad personol y dadganydd i'r un graddau ag y bwriedir iddi drosglwyddo y teimlad i arall. Ofer tramgwyddo wrth gelfyddyd oblegid ei chamddefnyddiad. Y mae iddi amcan teilwng. "Art is nature well ordered." Nid yw yn goresgyn natur, ond ymdrecha godi natur i safle uwch; ac os yw, yn natur pethau, yn ymddangos fod yn bosibl cyflwyno mawl i Dduw trwy gyfrwng cerddoriaeth o gwbl, ac os amcan uchaf celfyddyd ydyw gosod uwch safle i natur, y mae yn dilyn y gall celfyddyd y cerddor ddwyn oddiamgylch effeithiau na cheir mo honynt hebddi.

Edrychwn eto ar y wedd ymarferol i'r cwestiwn. Yr ydym yn ceisio dangos fod gwahaniaeth rhwng canu gyda mynegiant a chanu gyda theimlad. Mae y darllenydd, yn ddiau, wedi sylwi pan yn y cysegr, nad yw y gerddoriaeth yn apelio i'r un graddau at y naill ddosbarth ag y gwna at y llall. Y mae yr addolwr cerddgar, diwylliedig, yn canfod prydferthwch yn holl gysylltiadau y nodau a genir; y mae cymesuredd yr adranau, a chyfaddasder y gerddoriaeth i'r syniad barddonol yn ei swyno yn fawr. Ond nid yw, o bosibl, bob amser yn gallu esgyn yn uwch na'r tir swynol hwn. Yn wir, y mae yn hawdd i lygad y meddwl gael ei swyno gymaint gan y prydferthwch yma nes i'r addolwr golli y mwynhad dyfnach y dylai, ac y gall cerddoriaeth ei weinyddu. I'r addolwr angherddorol sydd yn ei ymyl, nid yw y prydferthwch hwn yn ganfyddadwy; ond waeth am hyny, y mae, fe ddichon, yn gristion o'r iawn ryw, ac, fel y cyfryw, fe wêl yn y gerddoriaeth gyfrwng effeithiol i arllwys ei deimlad brwd ger bron ei Dduw. Iddo ef, nid yw y seiniau ond megys llinynau y delyn, ar ba rai y ceir adsain o'r teimladau hyny sydd eisoes wedi meddiannu ei enaid, ac sydd yn ffrwyth cymundeb agos â Duw.

Hwyrach y dywedir fod yn anmhosibl i neb gyflwyno mawl i Dduw heb yn gyntaf deimlo dylanwad prydferthwch y gerddoriaeth. Hwyrach hefyd fod rhywun yn myned mor bell a dyweyd y rhaid yn gyntaf ganfod y prydferthwch sydd yn y gerddoriaeth cyn y gellir teimlo ei ddylanwad. Atebaf nad oedd tuedd gerddorol yn ddigon i alluogi ein henafiaid duwiol i ganfod prydferthwch ac i lawn werthfawrogi y gerddoriaeth oedd yn cynnyrchu dylanwadau mor nerthol arnynt. Digon iddynt hwy oedd y ffaith fod cerddoriaeth yn gyfrwng addas i arllwys eu teimladau diolchgar ger bron Duw. Sicr yw fod swyn y gerddoriaeth yn dylanwadu arnynt, a hyny er bendith, ond yr oeddynt yn ddall i holl brydferthwch y gerddoriaeth, ac felly yn sicr o fethu derbyn a mwynhâu cyfran o'i heffeithiau. Nid oes eisieu diwylliant cerddorol i allu teimlo oddiwrth effeithiau seiniau soniarus; ond i fwynhâu y cyfryw yn yr oll ag ydynt, rhaid wrth lygad yn ogystal â chalon,—diwylliant cerddorol a thuedd at gerddoriaeth.

Yr wyf eisoes wedi lled awgrymu yr atebiad i'r gofyniad, Pa un yw y canu mwyaf buddiol, yr hen ynte y diweddar? Y mae y ddau yn oreu, pan eu defnyddir yn briodol. Nid yw diffyg y naill yn ei goethder, na rhagoriaeth y llall yn ei symlrwydd diaddurn. Ceir fod achos

claiarineb y naill yn bodoli yn yr ysbryd oer, beirniadol, trwy ba un ei cyflwynir ar allor moliant, tra y mae grym bywydol y llall, er ei hagrwch, i'w olrhain i'r ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio yn syml fel moddion i gyflwyno i Dduw fawl eirias oddiar allor enaid ar dân. Gan hyny, na ddibrisier canu celfyddgar, fel y cyfryw, ac na ddyrchafer chwaith hawliau canu diaddurn, fel y cyfryw. Y mae yn disgyn i ran ysbryd y dyn ei hun i wneyd caniadaeth y cysegr mor effeithiol yn awr ag ydoedd yn y blynyddau a fu. Ni fu caniadaeth y cysegr erioed yn fendithiol ond i'r graddau yr oedd yn cynnorthwyo yr addolwr i gynnal cymundeb â Duw. Dyma ddirgelwch pob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus. Dyma ddirgelwch yr eneiniad oedd ar ganu y tyrfäoedd a ddeuent yn ddyddiol i wrandaw ar yr efengylwyr, Meistri Moody a Sankey. Yr oeddynt yn cyffwrdd âg ymyl gwisg yr Anweledig. Cred, hynaws ddarllenydd, fod yn bosibl i gerddoriaeth, ar ei goreu, dy godi i ymyl porth y nefoedd; ond cofia hefyd y rhaid i'th fawl godi o waelod calon gywir cyn yr esgyn at Dduw. Ac ond esgyn, cei ad-daliad i'th enaid mewn bendith y teimlir ei swn yn dy fawl byth mwy!

Wrth derfynu yr ysgrif hon, goddefer i mi gyffwrdd â mater sydd a fyno âg urddas Caniadaeth y Cysegr. Yr wyf yn teimlo, er ys blynyddau, nad yw cerddoriaeth yn ennill y dylanwad a allai ei ennill oblegid fod y dorf yn cael ei gollwng i'r gwasanaeth adeg y canu. Y mae, a dyweyd y lleiaf, yn arddangos chwaeth isel, ac yn sicr o ddiffodd ysbryd addoli. Gresyn meddwl ein bod cyhyd heb weled hyn. Dylid gollwng y dorf i mewn *rhwng* rhanau y gwasanaeth. Nid seibiant rhwng y weddi, y darllen a'r bregeth, ddylai y canu fod; nid adeg fanteisiol i bobl fyned i'w heisteddleoedd heb i'w twrf fod yn glywadwy; na, y mae i ateb dyben anfesurol uwch. Da genyf ddeall fod diwygiad amlwg wedi cymeryd lle gyda golwg ar hyn mewn llawer o'n cynnulleidfaoedd yn Nghymru, ond yn sicr y mae eto waith mawr i'w wneyd cyn y byddwn yr hyn a weddai i ni fod. Mae yr un peth i'w ddyweyd am fod y llyfr Hymnau a ddefnyddir yn llaw y rhai sydd yn gwneyd i fyny ein cynnulleidfaoedd. Dylai pob un feddu llyfr Hymnau, fel y gallo ymuno yn y gân, a gwneyd ei ran tuag at "wneuthur ei foliant Ef yn ogoneddus."

Dichon y bydd gwahaniaeth barn rhwng ambell ddarllenydd â mi parth yr ymdriniad â'r rhan bwysicaf o'r ysgrif hon, ond credaf y llwyr gytuna pob un â'r sylwadau olaf hyn; ac os yw neb yn hoff o gerddoriaeth ac yn teimlo dros ei hurddas, ac yn meddu rhyw ddylanwad yn y cylch crefyddol y try ynddo, erfyniaf arno i wneyd ei oreu i ddwyn y diwygiad pwysig hwn oddiamgylch yn ddioed. Erfyniaf hyn er mwyn anrhydedd ac effeithiolrwydd Cerddoriaeth, ac er mwyn Gwasanaeth y Cysegr, yr hwn y gall cerddoriaeth ei addurno gymaint.

PETER EDWARDS *(Pedr Alaw)*.

*Holloway, Llundain.*

## DADL DROS BLANT BWRDD-YSGOLION, GAN YSGRIFENYDD BWRDD YSGOL.

Fe haerir yn fynych fod dirywiad mewn moesau yn y genedl sydd yn codi, fod bechgyn a genethod yn cael eu dwyn i fyny heb barch i'r rhai sydd uwchlaw iddynt, a fod y plant hyd yr heolydd yn arw a drygionus: a chyda dosbarth neillduol o'r boblogaeth fe briodolir hyn oll i'r —— "Bwrdd-ysgolion ofnadwy yna!" Fe ofynwyd yn ddiweddar i un o Arolygwyr ei Mawrhydi yn Nghymru, A ydoedd efe yn cael unrhyw wahaniaeth rhwng plant ysgolion y byrddau a rhai yr ysgolion gwirfoddol? Dywedai fod plant ysgolion y byrddau, ar y cyfan, yn cael eu dysgu yn well, ond fod plant yr ysgolion gwirfoddol, yn sicr, yn cael gofalu am danynt yn well. Os ydyw yr atebiad yna yn dangos diffyg dyddordeb personol caredig yn y plant sydd yn myned i ysgolion y byrddau, ni raid, yn ddiammeu, ond galw sylw at y peth mewn trefn i gael diwygiad.

Yn mrwydr addysgawl fawr 1870, fe ddaeth Byrddau Ysgol, yn enwedig yn Nghymru, i gael eu hystyried fel gwystl ac arwyddlun cydraddoldeb crefyddol; am hyny fe gymerwyd atynt yn helaeth; ac yn nymuniad naturiol yr holl enwadau i gymeryd rhan yn yr hyn oedd i fod o hyny allan yn waith cenedlaethol, fe etholid dynion, nid am fod ganddynt unrhyw wybodaeth neillduol neu ddyddordeb mewn addysgiaeth, ond am eu bod yn Eglwyswyr, Bedyddwyr, Methodistiaid Calfinaidd, Wesleyaid, neu Annibynwyr. Gwych a gwrol yr ymroisasant at eu gwaith, a chyfodwyd adeiladau dros yr holl wlad oeddent lawer rhagorach, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, na'r hen ysgolion pentrefol. Yna fe ddaeth amser o wrth-weithiad: yn yr iselder cyffredinol ar fasnach ac amaethyddiaeth, edrychid ar ysgolion yn benaf fel baich ychwanegol ar y trethoedd; fe siaredid am eu traul yn hytrach nag am eu heffeithiolrwydd, ac anfonid dynion i fod ar y Byrddau Ysgol oeddynt wedi ymwystlo i gynnildeb, doed a ddêl. A chyda threthdalwyr beichiedig a grwgnachlyd ar y naill law, a'r cyfrifon llafurus a ofynir gan yr Archwiliwr a'r Arolygwr ar y llaw arall, mae y Byrddau blinderog wedi gweled llawer gormod o'u *cash-books, ledgers, stock and store books, minute books, financial statements*, a *vouchers*. Yr hyn na welant o gwbl ac y maent mewn perygl o anghofio, ydyw—y Plant!

Nid ydwyf yn gwybod cystal sut y gallai fod yn y trefydd, ond yn yr ardaloedd gwledig, sut bynag, y mae bwrdd-ysgolion nad oes yr un aelod o'r Bwrdd Ysgol byth yn myned i fewn iddynt. Nid yw yr Athrawon yn cael dim cydymdeimlad na chalondid yn eu gwaith; nid oes dim dylanwad tirion yn cael ei ddwyn i weithredu ar foesau ac ymddygiad y plant; ac y mae yr elfen ddynol yn y llywodraethiad yn cael ei chau allan mor lwyr fel y gallai ysgol fod bron yn beiriant hunan-

symudol, fel yr un y clywn am dano yn America, lle y teflir mochyn byw i fewn yn un pen, i ddyfod allan yn y ffurf o *sausages* yn y pen arall.

Ymgynghorai boneddiges, mam a gwraig ragorol, â mi y dydd o'r blaen gyda golwg ar pa un a ganiatäi i gymeryd ei henwi mewn etholiad Bwrdd Ysgol. "Nid oes genyf ddim gwybodaeth am fusnes," meddai, "ac yr ydwyf yn bur ddwl gyda chyfrifon; beth allwn i wneyd ar Fwrdd Ysgol?" "Gallech edrych ar ol plant yr ysgol," atebais innau, "a rhoddi iddynt beth o'r cariad a'r gofal a wastreffwch ar eich rhai bychain eich hun." "A allwn i?" ebe hithau: "mae hynyna yn ddrychfeddwl hollol newydd i mi; yr oeddwn yn meddwl nad oedd Byrddau Ysgol yn gwneyd dim ond cadw cyfrifon ac ysgrifenu cofnodau." Ymddengys fod y syniad yna yn helaeth ar lêd. Yn yr hen Frawdlysoedd yr oedd hyd yn nod y Diafol yn cael ei ddiffynydd; a ydyw yn ormod gobeithio y gallem ar bob Bwrdd Ysgol gael aelod dros y Plant?

Pa ddiffygion bynag oedd ar yr ysgolion gwirfoddol, nid ydynt wedi bod yn beiriannau yn unig, canys yr oedd rhywun yn gofalu. Yr oedd rhywun yn gweithio yn galed i gasglu arian, rhywun yn cymeryd balchder personol yn llwyddiant yr addysg, rhywun yn gofalu am gael *treat* blynyddol, rhywun yn adnabod y bechgyn a'r genethod yn yr ysgol, ac yn cadw i fyny gydnabyddiaeth â hwynt yn eu bywyd ar ol hyny. Am fod y Bwrdd Ysgol yn waith i bawb, a ydyw am hyny i ddyfod yn waith i neb? Mae yn wir fod angenrheidiau addysgiaeth yn awr yn cael eu darparu trwy y trethoedd, ond y mae yr hyn a ellid ei alw ei gysuron a'i ddanteithion eto yn ymddibynu ar ymdrech wirfoddol; ac y mae digon o waith da i'w wneyd os bydd i Fyrddau Ysgol alw allan a threfnu galluoedd rhai a garent weithio yn wirfoddol, ond y rhai na allant gymeryd arnynt eu hunain y dyledswyddau heb awdurdodiad y Bwrdd.

Y mae plant yn cael eu haddysgu gan y pethau o'u hamgylch yn hir cyn y dysgant o lyfrau. Y mae plant ieuainc rhieni cyfoethog yn fynych heb gael eu dysgu cystal, nac mor reolaidd mewn darllen, sillebu, a rhifyddiaeth, â phlant gweithwyr, y rhai o'u mabandod sydd wedi bod mewn ysgol èlfenol dda; ond pan y mae yn gwestiwn, nid o eiriau a *multiplication table*, ond o ffeithiau a syniadau, mae yn hynod gymaint gwell y gall y plant blaenaf ddangos ystyr yr hyn a ddarllenant, a chymaint o wybodaeth y maent yn ddiarwybod iddynt wedi dderbyn wrth fyw ymysg yr amrywiaeth o wrthddrychau a gynnwysir mewn tŷ llawn. Os ydyw plant y bwthynod yn dyoddef oddiwrth dlodi ac undonaeth y pethau a'u cylchynant yn eu cartrefi, y mae o gymaint a hyny yn fwy pwysig iddynt eu bod, yn yr ysgol, yn cael ystafelloedd heulog, lliwiau dysglaer, blodau a darluniau, a pha beth bynag a all ddeffro eu dychymyg a chynhyrfu eu sylw yn y dulliau mwyaf deniadol.

Y mae hapusrwydd yn anhebgorol i ddadblygiad plentyn, a'r nesaf mewn pwysigrwydd i addysgydd caredig a siriol, ydyw ysgol-ystafell ddysglaer, awyredig, brydferth. Yn bresennol y mae llawer ysgol mor noeth â charchar, ond yn cael ei chadw yn llawer llai glanwaith; mae y ffenestri yn rhy uchel i edrych allan drwyddynt; ac y mae o amgylch

ymhob man rhyw liw llwyd, wedi ei wneyd i fyny o lwch, ystaeniau inc, a gwyngalchiad budr, digon i lethu ysbrydoedd unrhyw blentyn.

Dylai troi y fath deml o hagrwch i fod yn Gartref cymhwys i Blant, yn sicr, fod yn waith merch, ac nid oes un rheswm paham na phenodai Bwrdd Ysgol *Bwyllgor o Foneddigesau* gyda'i ddyledswyddau wedi eu nodi allan yn fanwl. Dylai harddu yr ysgol fod yn llafur cariad i'r holl ardal. Y mae genethod yn awr bron yn mhob cymydogaeth a ymhyfrydant mewn addurno eu hystafelloedd eu hunain gyda darluniau cywrain; y maent, mae yn debyg, wedi gorchuddio pob *panel* a ellid gael gartref â llafrwyn a chamined *(irises)*, murwyll a haulflodau; a byddai yn falch ganddynt gael eu gofyn i addurno drysau a *shutters*, ac fe allai *dado* yr ysgol â'r cyfryw ddarluniau, y rhai, er nad o'r fath oreu o ran celfyddyd, a fyddant yn hyfrydwch i'r plant. Y mae boneddigesau eraill wedi cymeryd pleser mewn cerfio, ac y mae ganddynt, mae yn debyg, estyll ffawydd heb eu defnyddio ar y rhai y buont yn ymarfer, y rhai wedi eu paentio yn wyn a wnaent gypbyrddau prydferth i lyfrau ysgol, papyrau, &c. Gofelid am gymeryd mapiau llychlyd oddiar y muriau, i'w defnyddio ar gynnalydd neu *easel*, fel y bo eisieu, a gosodid i fyny ddarluniau o'r papyrau a'r almanaciau darluniadol, y rhai yr edrychid drwyddynt ac y gosodid rhai newyddion yn eu lle bob blwyddyn. Telid sylw mawr hefyd i wnïadwaith y genethod, a thrwy bwrcasu defnyddiau prydferth a'u gwerthu i'r plant wedi eu gwneyd i fyny yn ddilladau destlus, fe ellid gwneyd llawer tuag at ddiwyllio chwaeth a gweddeidd-dra mewn gwisgo.

Gallai boneddigesau na fyddai yn gyfleus iddynt ymweled â'r ysgol fod yn foddlawn i roddi blodau i'w gosod i dyfu yn y ffenestri, a blodau wedi eu tori i'w gosod mewn llestri prydferth ar *mantelpiece* yr ysgol, a gallai geneth fo yn byw yn agos alw am danynt ar ei ffordd i'r ysgol fore Llun; gyda gofal priodol, dalient yn dda hyd brydnawn dydd Gwener, pan deflid hwynt ymaith ac y glanheid y llestri. Dilynid hyn yn naturiol gan drefn o roddi gwobrau am ddilyn yr ysgol, llyfrgell fenthyciol, clwb dilladu yr ysgol, cymdeithas gerddorol, a phethau eraill; a byddai meddu ystafell ddeniadol, ynddo ei hun, yn rheswm dros ei defnyddio i gynnal cyngherddau ac ysgolion nos. Pe teimlid unwaith gan bob dosbarth y balchder o fod yn feddiannol ar yr ysgol, ni fyddai gweithwyr yn ddiffygiol mewn caredigrwydd, a gwneid llawer gorchwyl yn rhad gan saer, paentiwr, a gôf y pentref, ar adegau a allont hebgor, a byddai yn hyfryd gan athrawon ac ysgolorion, fel eu gilydd, berthyn i ysgol y gofelid mor garedig am dani.

Gallai rhai o'r pethau hyn ymddangos yn fychain, pan mae y fath gwestiynau mawrion yn aros i'w hystyried gan Fyrddau Ysgol â pha fodd i borthi, heb gardotaeth, y cyrff bychain hanner-newynllyd sydd yn cynnyrchu ymenyddiau gweiniaid, a pha fodd i ddysgu gwirionedd Cristionogol, cyfiawnder a phurdeb, heb gatecismau a chredöau; ond rhaid i gariad at y plant a gwybodaeth bersonol o'u hangenrheidiau ragflaenu pob diwygiad.

"Moesau sydd yn gwneyd dyn;" ni all un gyfundrefn sydd yn dysgu y tair R, ac yn gadael yn ddisylw gymeriad ac ymddygiad plant, gymeryd arni ei bod yn cyflenwi addysgiaeth cenedl. Mewn oes werinol, pan mae y parch gwasaidd a delid i sefyllfa a chyfoeth yn

unig, yn myned heibio, y mae yn fwy pwysig fyth fod ein plant yn cael eu dysgu fod pethau yn y nefoedd a'r ddaear sydd yn deilwng o barchedigaeth; fod arwr-addoliad o'r iawn ryw, parch i oedran, a gofal caredig am y rhai sydd yn weiniaid ac yn dyoddef, y pethau mwyaf rhagorol a all berthyn i ieuenctyd.

Pan oedd y prophwyd gynt yn desgrifio y ddinas berffaith, yr ydoedd "ei heolydd yn llawn o fechgyn a genethod yn chwareu yn ei heolydd hi;" ac yr ydym yn teimlo mor lawen oedd y chwerthin, ac mor rydd oddiwrth bob rhith o ddrygioni a chreulondeb raid fod y chwareu hwnw pan ddarllenwn fod yr heolydd oedd "yn llawn o fechgyn a genethod" yn drigfanau dedwydd "hen wŷr a hen wragedd, a phob gŵr â'i ffon yn ei law o herwydd amlder dyddiau." Y mae yn dorcalonus ein bod ni yn ein dinasoedd Cristionogol yn cael yn eu heolydd rai bechgyn a genethod nad ydynt na llawen na diniwed. Yn ystod blynyddoedd eu hysgol, o leiaf, dylent gael eu cylchynu gan ddylanwadau da a hapus; ac ni fydd hyny yn bosibl nes y deffrown i ymdeimlo â'r ffaith fod gwasanaeth i'w wneyd i'r rhai bychain hyn sydd hefyd yn wasanaeth i'r Meistr.

MARGARET M. VERNEY.

*Rhianva.*

---

# DUW YN PROFI ABRAHAM.

UN cymhwysder i ddeall y prawf hwn ydyw meddwl syml, diragfarn, a di-*system*. "Oddieithr eich troi a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd." Ymdroi gyda y plisgyn y byddwch heb y cnewyllyn, syllu ar allanolion heb fyned i mewn at yr hyn sydd tu fewn i'r llen; "nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd," hyny yw, nid y nefoedd, ond teyrnas gwirionedd. Bwriwn ymaith, ynte, bob mympwy a rhagsynied, a deuwn at yr amgylchiad hwn gyda meddwl agored i oleuni, deled o'r man y delo, gan newid ein cyfundrefn at y Bibl ac nid dirdynu y Bibl at ein cyfundrefn, gan ei droi ef yn *brop* i gynnal hen furddynod o syniadau, pa un bynag ai cam ai cymhwys. Yn yr ail le, ymdrechwn osod ein hunain yn safle Abraham. Prydeinwyr a Chymry ydym ni, gydag arlliw ein hamseroedd a'n gwlad a'n cenedl ar ein gwydrau, a dulliau y byd gorllewinol o feddwl genym, tra y mae Abraham yn estron i ni, o genedl bell oddiwrthym o ran amser a lle. Ymddiosgwn, gan hyny, ac awn allan o honom ein hunain i'r cynfyd dwyreiniol, er mwyn suddo i galon yr amgylchiad a gafaelyd yn ei ysbryd a'i fywyd.

Bydd yn fantais i ni glirio ystyr gair mawr arweiniol, llywodraethol, y darn hwn. *To tempt*, temtio, ydyw y gair Saesoneg. Ystyr bresennol y gair hwn yw hudo, denu, llithio i ddrwg, trwy ddeffro y drwg gwreiddiol sydd tu fewn i bob dyn. Dyma waith priodol y diafol a'i offerynau. "Na ddyweded neb pan demtier ef, Gan Dduw y'm

temtir, canys Duw nis gellir ei demtio â drygau, ac nid yw efe yn temtio neb." Felly nis gellir derbyn y gair hwn yn y fan hon, gan y dywedir yma fod *Duw* wedi "temtio" Abraham. *Profi* yw y Cymraeg, hyny yw, dwyn allan, dadblygu y daioni gwreiddiol sydd mewn dyn *er* y cwymp; canys credwn mewn daioni gwreiddiol, yn gystal ag mewn pechod gwreiddiol. Mae hwn yn well gair na'r cyntaf. Ond gwell na'r ddau yw yr ymadrodd *dysgu gwers*. Ysgol yw bywyd, a dyma un o wersi Duw i Abraham er ei addasu i fod yn ddiwygiwr moesol i'w oes. Edrychar y prawf yn ei berthynas â Duw, ac yna yn ei berthynas âg Abraham.

I. Mae holl helyntoedd y byd yn profi llywodraethwr yn gystal a deiliaid y llywodraeth. Yn yr anialwch yr oedd y genedl yn profi yr Arglwydd, yn gystal a'r Arglwydd yn profi y genedl. Felly mae yr amgylchiad yma yn profi yr Arglwydd. Dywed Herbert Spencer nad yw hwn ond un o lawer o'r defodau gwaedlyd oedd yn ffynu yn y cynoesoedd. Ceisia Henry Rogers (*Superhuman Origin of the Bible*) gyfiawnhau pobpeth trwy hòni hawl hollol Duw fel Creawdwr i ufudd-dod ei greadur; ond nis gallwn gymeradwyo y dull hwn o amddiffyn. Y mae yn gosod moesoldeb i orphwys ar ewyllys Duw, ac nid ar ei gymeriad hanfodol. Mae hefyd yn anwybyddu y ffaith fod gan ddyn natur foesol, ac nas gellir edrych ar un gorchymyn yn ddwyfol sydd yn gwrthdaro natur foesol dyn. Pa fodd y gallasai Abraham yn gydwybodol gredu mai Duw y Bibl oedd yn ei alw i aberthu ei anwyl fab? Ond os edrychwn ni ar yr *holl* amgylchiad gyda'i gilydd, gwelwn ddoethineb Duw yn dyfod i'r golwg trwy ymostwng i wendid Abraham ac *ymddangos* fel yn cytuno âg aberthu bodau dynol, ond fel athraw perffaith, ymgyfaddasu i amgylchiadau Abraham y mae; gesyd ei draed ar ffon isaf yr ysgol; ymafla yn ei law, a chyfyd ef yn *raddol* o bydew erchyll eilunaddoliaeth. Camp fawr yw codi dyn neu genedl uwchlaw lefel eu hoes. Yr oedd gwaith codi ar Abraham o syniadau barbaraidd y cynfyd, a'i sefydlu yn addysgwr y byd, ac *yn ei berson ef* godi cenedl gyfan yn geidwaid oraclau Duw. I gyrhaedd y dyben hwn yr oedd yn rhaid ymostwng llawer. Rhaid i'r athraw, os am gyrhaedd amgyffrediad plant, wneyd ei hunan yn blentyn. "Gwneuthum fy hunan i'r Iuddewon megys yn Iuddew, fel yr ennillwn yr Iuddewon." Felly yma, mae yr Arglwydd yn dwyn y byd, yn mherson Abraham, dan gwrs addysgawl, ac i gario allan amcanion eithaf y cyfryw gwrs, rhaid dechreu yn y dechre; ac nis gallwn weled dim anfoesol mewn rhoi gwyneb i gyfeiliornad os trwy hyny y gellir cychwyn person hanesyddol ar lwybr goleuni, a hwylio cerddediad y byd i'r iawn allan o faglau y diafol. Hefyd y mae gwirionedd wedi ei wau yn edefyn main teneu, trwy symiau anferth o gyfeiliornadau; mae gwirionedd wrth wraidd eilunaddoliaeth a llu ofergoelion y byd paganaidd, ac nid gwiw cymeryd ysgubell dystryw ac ysgubo y cwbl ymaith mewn gwallgofrwydd. Na, rhaid dattod, ysgar, gwahaniaethu, dadrys y gwir oddiwrth y gau. Yr oedd rhyw wirionedd mawr yn y gyfundrefn o aberthu. Dichon mai y gwirionedd hwnw oedd hwn, ein bod ni a'r oll sydd yn ein meddiant yn eiddo Duw, ac i'w cyflwyno iddo mewn ffydd yn ei ddaioni. Dyma graig, safadwy yn nghanol y tywod; dysgodd Abraham y gwirionedd hwn a chyfrifwyd ef yn dad y ffyddloniaid; a thrwy addysgu Abraham

yn y gwirionedd hwn, rhoes yr Athraw dwyfol ddyrnod angeuol i'r arferiad waedlyd o aberthu plant i'r duwiau. Wrth orchymyn i Abraham aberthu ei fab, rhoddes yr Arglwydd derfyn effeithiol ar yr arferiad. "Trugaredd a ewyllysiaf ac nid aberth." Efengyl trugaredd yw efengyl pen Moriah; "Duw a edrych iddo ei hun." Ac ni chododd yr arfer hwn ei ben byth mwy yn holl hanes y genedl. Nid nad oedd rhai yn llithro i dynu eu plant trwy y tân i Moloch; ond nid dyna y cwestiwn, ond beth oedd gogwydd y genedl fel y cyfryw? Nid oeddynt yn meddwl boddio Duw trwy aberthu eu plant iddo. Y mae prawf pen Moriah yn greadigaeth cyfnod newydd yn eu hanes. Dyma Dduw Abraham wedi llwyddo i ddinystrio y cyfeiliornad oedd ynglŷn âg aberthu, ac ar yr un pryd i ddysgu *self-surrender*, neu ddiogelu y gwirionedd sydd yn asgwrn cefn y ddefod o aberthu.

II. Perthynas yr amgylchiad âg Abraham. Gwelwn na ddylid tybied dyn yn annuwiol o herwydd ei brofedigaethau. Yr *oedd* llawer, ac y *mae* llawer eto yn tybied felly. I wrthdystio yn erbyn y dyb hon yr ysgrifenwyd llyfr Job. Mae dyoddef wedi ei godi gan y Testament Newydd i safle rhagorfraint. "I chwi y rhoddwyd fod i chwi er mwyn Crist, nid yn unig gredu ynddo, ond dyoddef hefyd erddo ef." Ni a welwn hefyd fod profedigaethau bywyd yn tyfu mewn nerth wrth fyned ymlaen. Llawer profedigaeth gafodd Abraham, ond dyma y fwyaf. "Trymhaodd dy law arnaf." Yr oedd y tir heddychlawn a'r gwŷr traed, yn blaenu ymchwydd yr Iorddonen a'r meirch.

Y mae dychryniadau cyffredin bywyd yn ein cymhwyso at frenin dychryniadau; mae y brenin yn ein haros. Hefyd daliodd Abraham y prawf. "Gwyn ei fyd y gŵr sydd yn goddef profedigaeth," yn dyfod trwy *examinations* neu arholiadau Duw gydag anrhydedd; "canys pan fyddo profedig efe a dderbyn goron y bywyd." Diwrnod rhanu'r coronau fydd dydd y farn; rhanu y *prizes*, y rhai a addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant ef. Dywedai John Wesley ei fod am fŷnu y nefoedd *with honours*. Credwn fod Abraham, nid o'r braidd yn gadwedig, ond yn gadwedig *with honours*,—er anrhydedd iddo ei hun, a chlod tragywyddol i'r Duw a'i cynnaliodd.

OWEN HUGHES.

*Tanyrallt, Talysarn.*

---

## PEN CARMEL.

"GWINLLAN y Duwdod" yw ystyr yr enw,
A Gwinllan i Dduw oedd Carmel pryd hwnw.

Yn Ngharmel, mïeri a llysiau 'r anialwch
Ragorent ar lili y gerddi mewn harddwch.

Yr ydoedd un olwg ar degwch y mynydd,
Yn dangos mai Dofydd raid fod y gwinllanydd.
Wrth hwn aiff tlysineb celfyddyd yn hagrwch,
Ni allsai ond Duwdod byth greu y fath harddwch.
Ni all'sai beirdd Canaan, a'r sanctaidd brophwydi,
Fyn'd heibio i Garmel heb fynu ei enwi.
Pan chwiliai doeth awdwr gwych Gân y Caniadau,
Am harddwch digymhar, ddangosai mewn geiriau
Syniadau ei galon am ben ei anwylyd,
Ar ol synfyfyrio a meddwl am enyd,
Dechreuai y frawddeg "dy ben sydd fel"—cwrel?
Mil harddach na hyny,—"dy ben sydd fel Carmel."

Pan ydoedd Esaiah yn arllwys galarnad
Am ddifrod Senach'rib, y creulon Assyriad,
Tywalltai ei ddagrau, yn ffrydlif ddyferol,
Wrth feddwl am Saron a Charmel fythwyrddol.
"Och, megys anialwch aeth hardd-deg fro Saron,
Fe fathrwyd pob rhosyn dan draed y meirch creulon;
A Charmel yn ymyl a grynodd mewn ofnau
Y collai ei degwch ei hun dan eu carnau."
Pan noethid y dolydd a'r bryniau gan wyntoedd,
Prydferthwch Pen Carmel oroesai dymhestloedd;
Ond Carmel er herio pob gauaf a stormydd
A grynai mewn ofnau rhag traed y gorthrymydd.

Pan ydoedd Esaiah o draw yn prophwydo,
Am lanw diderfyn Brenhiniaeth y Silo,
Y llanw sydd heddyw ond dechreu ymdori,
Y llanw erfynir gan bawb yn ei weddi,—
Beth all'sai 'n fwy grymus arddangos y llwyddiant,
Na d'wedyd "fel Carmel y bydd ei Ogoniant."

Pan welai 'r hen brophwyd o'r pellder y difrod
A ddaw ar bob gelyn i'r Arglwydd ryw ddiwrnod;
Y dystryw na chredir er clywed ei ruad,
Llifeiriant orchuddia binaclau y Cread;
Yn afon daw allan o Orsedd y nefoedd,
O ddyfnder dihysbydd derbynia ei dyfroedd;
Yn nghanol bugeiliaid annuwiol Tecöa,
"Och, och," fe grochlefai, "pen Carmel a wywa."
'R oedd bygwth caethgludo hoff blant y Cyfammod,
I glust yr Israeliad yn swnio mor hynod
A d'wedyd, gwyrddlesni tragwyddol a gilia:
O, dyma ryfeddod, "Pen Carmel a wywa!"

Ond er ei brydferthwch ac uchder ei gedrwydd,
Oddiwrth ei *lochesau* y cadd ei enwogrwydd.
O gopa y mynydd cychwynai llochesau
Gan ddisgyn yn droellog i'w dywyll ddyfnderau.

Llawn mil o rai felly, rhai cudd a diogel
I dderbyn ffoadur, a feddai Pen Carmel.
Yn un o'r rhai yma ymguddiodd Elias
Rhag cleddyf Jezebel, rhag creulon alanas.

Trwy yr oesau Carmel ydoedd un o brif lochesau 'r byd,
I'r ffoadur yr oedd pobpeth yma er ei wneyd yn glyd.
Pan ffy neb i unrhyw fynydd arall, buan iawn y daw
Newyn ato, ac yn dilyn ar ei sodlau frenin braw;
Ond yn Ngharmel 'r oedd bob amser flodau Gwanwyn, ffrwythau haf,
Ac nis gallai Newyn oddef arogl ei berllanau brâf.

Rhag ffoadur mynydd Carmel, 'r oedd cymdeithas wedi cloi,
Y trwm deimlad o unigedd a ymlidia bawb sy 'n ffoi.
Pan âi neb i fynydd Carmel, caffai fil o frodyr llon
Yn arweinwyr i'r llochesau ac i ysgafnhau ei fron.

Er cau ar ddyn oddiwrth y byd
O Garmel gwelai hwn i gyd.

Yn hwylio am Dyrus yr ydoedd i'w gweled,
O Garmel, holl longau y môr yn afrifed.
Mae un yn cyflymu yn llwythog o saphir,
Daw arall yn araf dan bwysau aur Ophir.
Llong frethyn o Ddedan a ddaw yn y mynyd,
Daw arall o Darsis yn cludo pob golud.
Ond para i edrych, ceir gwel'd yn cyhwfan
Faneri llong lwythog o haiarn o Jafan.
Perarogl y cassia a'r peraidd galamus,
A gludir gan donau yr eigion i Dyrus,
A lanwant ben Carmel; a'r peraidd awelon
A leddfant ofidiau ffoadur digalon.
Yn gymysg â llongau pellenig ynysoedd
Mae hwyliau symudliw brenhines y moroedd.
Nis gellir dych'mygu i'r llygaid uwch mwyniant
Na syllu o Garmel ar eu mawr ogoniant.

Edrycher ar *un* o'r heirdd longau a welir,
O ddrudfawr ystyllod ffynnidwydd o Senir;
Cedrwydden braff odiaeth o Liban yw 'r hwylbren,
Mewn uchder cystadla â chartre 'r gedrwydden.
Pob rhwyf yn dy longau oedd dderwen o Basan;
I'w tynu ar ifor eisteddai plant Canaan
O Arfad a Sidon, gweddillion y cewri,
Hwy rwygent â'r derw wyllt dònau y weilgi.
Mae brodwaith addurnol o'r Aipht ar ei hwyliau,
Y dwylaw a wisgir â meinllin a gemau.
Yn gysgod rhag pelydr yr haul ar ei yrfa,
Mae porphor aml-liwiog ynysoedd Elisah.
Y cyfryw olygfa a geid yn wastadol
O ddrysau pob lloches yn Ngharmel aeronol.

Bob diwrnod o'r flwyddyn 'r oedd môr y Canoldir
Fel gwinllan yn Helbon, neu goedwig ar Senir.

Oddiyno, na 'r llongau ceir harddach golygfa ;
O Garmel mae gweled bro deg Palestina.
Fan acw mae Tabor yn nghanol mynyddoedd,
A Liban a Hermon gusanant y nefoedd.
Wrth odrau y mynydd mae gwastad Esdraelon,
O Garmel mae gweled prydferthwch bro Saron.
Fel cadwyn ddysgleirwen ar ddwyfron y mynydd
Mae Cison, ga'dd ganiad am ddifa 'r gorthrymydd.
Gofynai 'r ymholydd ryw ddydd i Deborah
Pa le mae cerbydau a byddin Sisera ?
Atebai 'r brophwydes yn ysgafn ei chalon,
"Ysgubwyd hwy ymaith gan hen afon Cison."

Mae mynydd yr Arglwydd a Charmel 'r un enwau,
Ac felly cyfetyb y ddau yn eu pethau.
Ond craffu ar Garmel a'i lïaws rhagorion,
Ceir ynddo wan ddarlun o hardd fynydd Sïon.

Er cymaint oedd harddwch pen Carmel, fro iesin,
  Prophwydwyd gan Amos y gwywai cyn hir ;
Er para yn wyrddlas mewn gauaf a dryhgin,
  Gwynt pechod a ddeifiodd ei holl brenau îr :
Ond ni ddaw un Amos i ddywedyd am Sïon,
  "Fe wywa ;" na, pery pob deilen yn las
Byth bythoedd yn hwn ; a daw hen brenau crinion
  Anialwch y ddaear, wrth ffrydiau rhad ras
I wreiddio, a ffrwythant dan Ddwyfol gafodau,
  Heb ofni 'n dragywydd nac oerni na gwres ;
Ni wela plant Sïon eu tir yn agenau,
  Byth ni wna anwiredd eu nefoedd yn bres.

Ar hen fynydd Carmel mae mil o lochesau ;
Ond miloedd o filoedd, myrddiynau myrddiynau,
Sy 'n canu am holltau y Graig sydd yn Sïon,
I'r euog ymguddio fel un o'r cyfiawnion.
Amddiffyn ardderchog i'r euog sydd yma,
Mae 'n fil-fil mwy diogel na'r hen ddinas noddfa
Gysgodai y lleiddiad amryfus â'i chaerydd ;
Ond hyrddid yr euog i law y dialydd ;
Ond os daw yr euog i Noddfa y Cristion,
A'n gyfiawn a diogel yn holltau Craig Sïon.

Ah, copa bryn Sïon yw 'r man am olygfa !
Nid Môr y Canoldir a welir oddiyma,
Ond môr Iachawdwriaeth a'i dònau mawreddog,
Bob un yn ymdori ar greigiau byd euog.
Mae llongau afrifed ar wyneb yr eigion,
A'r cwbl ar soddi dan bwysau bendithion ;

Cefn llydan cadarngryf yr eigion diderfyn
Sy 'n crynu dan bwysau rhad-roddion i'r cyndyn.
Daw yma bob diwrnod ryw hen adnod newydd,
Fel llestr yn llwythog o fendith yr Arglwydd;
Ond nid myned heibio mae *rhai 'n* tua Sidon;
Na, glania pob adnod wrth droed mynydd Seion.
A rhaffau ffydd gadarn, fe 'u llusgir hwy beunydd
A'u trymlwyth i borthi preswylwyr y mynydd.

O Seion ceir gweled mynyddau y Nefoedd.
  A dolydd ac afon y Wynfa wen lân.
Cadarnach na Thabor yn nghanol mynyddoedd
  Yw dwyfol gyfiawnder sy 'n llosgi gan dân.
Wrth uchder ei gariad, pen Liban ddiflana,
  Cywilydd a'i töa mewn affwys ddofn serth;
Sancteiddrwydd y Duwdod sy 'n wynach na 'r eira
  Ar Hermon, pan d'wyna yr haul yn ei nerth.

Gwastadedd y byd oll a welir o Sïon,
Rhyfeddach yw hwn nag oedd un Esdraelon.
Mewn rhyw ran o hwnw y clwyfwyd Josïah;
Yn rhandir y byd y mae mangre Calfaria.
Bu galar mawr dwys am frwydr Megidon,
Ond beth ydoedd hono wrth Iesu dan hoelion?
Rhyfeddod pob oes ydyw Iesu yn marw;
Bydd galar am hyn a gofid mwy chwerw
Na galar y fam a welai Esdraelon
Yn agor ei fron i dderbyn ei chalon;
O Garmel gwel hon ei hunig anwylyn
Yn syrthio i'r bedd dan gleddyf y gelyn;
O Sïon ca 'r byd, a'r nen, gwlad y glendid,
Wel'd Awdwr pob nerth yn marw o wendid.
Bryn Seion yw 'r fan i weled rhyfeddod;
Sancteiddrwydd ei hun mewn gafael â phechod!
Gorchfygodd y drwg heb staen ar ei ddillad,
Ysigodd ei ben heb obaith adferiad.

Fe ganwyd cân Deborah gan y llu;
Gall seintiau glân ei chanu eto fry,
Ond newid gair am Cison,--seinier Gwaed,—
Cawn ddarlun gwir o'r rhyfedd Iawn a gaed.

Bydd canu uwch am afon Calfari,
Na 'r canu fu am Cison hen a'i lli'.
Pa le mae gwae, a phechod drwg ei ryw?
Ysgubwyd hwynt gan genllif Afon Duw.

Am hon a'i rhin cawn ganu, yn y man,
Heb friw na braw cawn orphwys ar ei glàn,
Ac yfed byth o'i dyfroedd tawel byw:
I Sïon dewch i yfed afon Duw!

Nid yw 'r di-dduw 'n ddiogel pe dringo wnai i'r nef;
"Fe llechai ar ben Carmel oddiyno mynwn ef."
Mae *yma* noddfa addas i'r edifeiriol rai:
Ond demnid yr annuwiol o Garmel am ei fai.

Mae diwrnod chwilio Carmel a Sïon gyda thân:
O Arglwydd cyn y chwilio rho im' gyfiawnder glân!
Er myned i ymguddio i frig y tewfrig bren
Fe losgir hwnw 'n ulw gan Awdwr dae'r a nen.

Er ffoi i grombil Carmel, fe dodda hwnw 'n llyn;
Nid oes ond Iawn Calfaria yn gysgod y pryd hyn:
Pan dawdd y byd yn afon, pan ruthra gyda 'r lli,
Mi ganaf y pryd hwnw â'm traed ar Galfari.

ROBERT WILLIAMS.

*Corwen.*

---

# NODIADAU LLENYDDOL.

*The Sabbatical Rest of God and Man: an Exposition of Hebrews* iv. 3—9. By Rev. JOHN HUGHES, M.A. London: Nisbet & Co.

DARLLENASOM y gyfrol hon gyda dwfn foddhâd. Yr ydym yn calonog longyfarch ein cyfaill teilwng o Fachynlleth ar ei waith yn ychwanegu at lenyddiaeth y deyrnas lyfr mor wir werthfawr a dyddorol. Yn ddiweddar galwem sylw at waith meistrolgar arall ar yr Epistol at yr Hebreaid wedi ei ysgrifenu yn yr iaith Saesoneg gan Gymro. Ai tybed ein bod i gasglu oddiwrth waith Cymry dysgedig a galluog yn troi fel yma i ymofyn marchnad i'w llafur yn yr iaith Saesoneg, fod eu cydwladwyr yn "barnu eu hunain yn annheilwng" o gael y fath weithiau â'r rhai hyn yn yr iaith Gymraeg? Pan yn llongyfarch boneddiges ieuanc ar ei hadferiad o gystudd dywedai Coleridge—

Besides, what vexed us worse, we knew,
They have no need of such as you
In the place where you were going:
This world has angels all too few,
And heaven is overflowing!

Ni ellir o leiaf ddyweyd fod prinder am weithiau rhagorol ar yr *Hebreaid* yn y Saesoneg, ond yn y Gymraeg y mae ein tlodi yn yr ystyr yma yn fawr. Hyderwn nad ydyw cariad y Cymry at efrydiau o'r fath yma wedi oeri yn gymaint fel nad allo cyfeillion teilwng anturio cyhoeddi llyfrau da iddynt eto yn yr iaith Gymraeg. Mae llawer o'n cydwladwyr bellach yn darllen llyfrau Saesoneg, ac fe allai, ambell un yn ddigon gwasaidd i feddwl na ddichon dim da ymddangos ond yn yr iaith hono. Hyderwn y bydd llawer o'r rhai hyny yn mynu darllen y gwaith hwn, a gallant wneyd hyny yn fwy calonog wrth weled y gwerth mawr a osodir arno gan Saeson enwog a dysgedig, Nid oes llawer o amser er pan alwem sylw ein darllenwyr at gyfrol Gymraeg dra gwerthfawr o eiddo Mr. Hughes ar *Ragluniaeth*. Byddai yn dda genym ddeall fod yr ymdrech deilwng hono

I gyfiawnhau i ddynion lwybrau Duw,

wedi cael cefnogaeth addas, ac os felly mae yn ddiau fod meddyliau llawer o'n cydwladwyr wedi derbyn llawer o oleuni ar gwestiynau tra phwysig, ac wedi dyfod trwy efrydu y gwaith yn gryfach ac yn fwy pur. Testun y gyfrol hon ydyw yr *Orphwysfa* y sonir am dani yn y bedwaredd o'r *Hebreaid*, "Gorphwysfa Duw a dyn." Cwyna yr awdwr ei fod allan o gyrhaedd llyfrgelloedd, yn gystal ag fod ei amser i wynebu ar y fath lafur ag a dorasai iddo ei hun yn y gwaith yn brin. Ond yr oedd yr awdurdodau ag oedd ganddo at ei law y rhai goreu; y mae yntau hefyd wedi eu hastudio yn dda; a'r hyn sydd well fyth, y mae, ac mewn ysbryd gwrol a defosiynol, wedi meddwl i bwrpas ei hunan uwch ben y materion mawrion yr ymwnelai â hwynt, ac wedi ysgrifenu arnynt gyda goleuni ac eneiniad.

Yn nghanol yr amrywiaeth golygiadau a gymerid ar y geiriau, y mae efe, yn nrychfeddwl yr Orphwysfa, yn cael ystyr sydd yn rhoddi unoliaeth prydferth a dyrchafedig i'r holl drafodaeth. Wrth gadarnhâu yr Hebreaid yn wyneb y demtasiwn yr oeddent ynddi i ollwng eu gafael o'r Efengyl, y mae yn cael fod yr Apostol yn ceidwadu yn y modd mwyaf effeithiol holl ddaioni y gorphenol, trwy ddangos mewn modd gogoneddus fel yr oedd Duw wedi llefaru wrth eu tadau; ond oddiwrth hyny, ei fod yn tynu nerth o anfesurol gryfder i'w cymhell i lynu yn eu proffes, trwy ddangos fod yr un dadguddiad yn Nghrist yn cael ei gario ymlaen yn llawer pellach, ac i'w ogoniant eithaf. Fe orphwysodd Duw oddiwrth waith y greadigaeth. Ond yr oedd hyny yn golygu llawer mwy na'i fod yn peidio a chreu; cynnwysai ei fod Ef yn gorphwys yn nghyflawniad ei amcanion, y rhai a wnaethai Efe yn Nghrist, ac fod hyny yn rhan o'i ymorphwysiad tragywyddol yn ei Fab. Ac fe neillduodd y seithfed dydd, pan orphwysodd ei Hunan, i fod yn orphwysfa sanctaidd i ddyn, yn gyfle cysegredig iddo i gynnal cymundeb neillduol â Duw, ac felly i ymbarotoi at ystad uwch o fodolaeth, pan y gallai orphwys yn berffaith ac yn dragywyddol yn ei Orphwysfa Ef. Fel rhan o'r hyfforddiant mawr ag oedd i gymhwyso Israel i'r Orphwysfa hono, fe drefnwyd gwlad Canaan yn orphwysfa iddynt; a thra yn mwynhâu hapusrwydd llawn "y wlad dda hono," fe ddysgid llawer o honynt ag yr oedd "ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosbarthu drwg a da" mewn diwylliad ysbrydol, i synied pa mor dra gogoneddus raid fod y "wlad well," yr Orphwysfa berffaith, ag yr oedd greddfau dyfnaf eu henaid yn dyheu am ei mwynhâu. I ddangos nad oedd na'r Sabboth na gwlad dda yr addewid yn llanw i fyny y drychfeddwl mawr am yr Orphwysfa, y mae yr Apostol yn cael fod y Salmydd yn son am Orphwysfa o eiddo Duw ag oedd yn aros wedi hyny, ac yn casglu, "Y mae, gan hyny, orphwysfa eto yn ol i bobl Dduw." Mae yr Orphwysfa hono yn Nghrist. Fe drefnwyd y Sabboth gynt ar y seithfed dydd, o herwydd mai dyna y pryd y gorphwysodd Duw oddiwrth waith y greadigaeth; ond yn adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw, yr oedd gwaith anfeidrol ogoneddusach wedi ei gyflawni, gwaith ag oedd yn gwblhâd anfesurol lawnach ar amcanion mwyaf Duw; ac fel y mae Efe yn gallu gorphwys yn hwnw yn llawer mwy nag yr oedd yn bosibl iddo yn ngwaith y greadigaeth, y diwrnod y cymerodd hyny le, bellach, sydd i fod i'r Eglwys hefyd yn Sabboth gorphwysfa. Ac fel cynt, felly yn awr, nid y dydd, ond y peth, yr hwn sydd wedi gosod mawredd tragywyddol arno. Y mae yn Orphwysfa, ac nid yw pobpeth allanol a berthyn iddi, mwy nag arwyddluniau yr hen oruchwyliaeth, ond cynnorthwyon ac awgrymiadau i ni yn yr ymgais i "fyned i mewn i'w Orphwysfa Ef." Ond mae y dadguddiad a geir yn yr Efengyl am yr Orphwysfa yn derfynol. Ni ellir dysgwyl dim mwy oddiwrth Dduw. Y mae "yn y dyddiau diweddaf hyn wedi llefaru wrthym ni yn ei Fab, yr Hwn a wnaeth Efe yn etifedd pob peth, trwy yr Hwn hefyd y gwnaeth Efe y bydoedd: yr Hwn ac Efe yn ddysgleirdeb ei ogoniant Ef, ac yn wir lun ei berson Ef, ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth, wedi puro ein pechodau ni trwyddo Ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd." Ac os dyma air olaf Duw i ddyn, mae yn

amlwg mai cwbl ofer ydyw dysgwyl dim goleuni pellach ar faterion mawrion ein tynged oddiwrth ddim ymchwiliadau o eiddo dyn ei hunan. Mae yn wir fod dyn yn fynych yn gwneyd honiadau cryfion y ffordd yna. Er nad ydyw yn nghanol y mawredd sydd o'i amgylch ond "aelod bychan," eto y mae "yn ffrostio pethau mawrion." Am ei fod, trwy ymdrechion oesoedd lawer, yn gallu sillebu yn floesg rai o ddeddfau mawrion y greadigaeth, y mae yn rhoddi y ffrwyn i'w ddychymyg ac yn rhuthro i gasgliadau beiddgar, y rhai yn ei fryd ef, sydd yn esbonio pob dirgelwch. A phan y mae rhai o'i gyd-bryfaid yn synu at ei fawredd, y mae yntau, wedi meddwi ar y tipyn gogoniant, fel yn teimlo fod ei waith ef yn darganfod, o gymaint urddas â'r creu ar y dechreu; ac er a hona i'w athroniaeth, y mae, yn nannedd ei holl ganonau, yn dychymygu dychymygion gwylltion, y rhai er hyny y dysgwylia i'r byd eu derbyn fel y derbynia ei ddeongliad o ddeddfau y greadigaeth. Ac os gall wneyd cymaint gyda y gorphenol, paham nad all hefyd gymeryd ei ddammeg a phrophwydo am y dyfodol? Y mae yr oracl yn gallu dyweyd cymaint am anian; paham nad all hefyd ddyweyd y cwbl am yr ysbryd? Gan fod cymaint cynnydd wedi ei wneyd mewn gwyddoniaeth, paham na allai efe, sydd yn etifedd yr oesoedd, ddarganfod yn nhiriogaeth crefydd hefyd bethau mwy gogoneddus nag a feddyliwyd erioed am danynt gan neb arall, a gwneyd â'i gyd-ddynion y gymwynas fendigaid o'u dysgu iddynt, ac felly eu dyrchafu yn annhraethadwy? Wel, pe buasai y boneddigion parchus hyn yn gallu gwneyd rhywbeth heblaw "ffrostio" eu pethau ysblenydd, ni a ddylasem cyn hyn fod oll ymhlith y ser. Ond yn llwch y ddaear yr ydym eto, ac am ddim y maent hwy hyd yn hyn wedi allu ddangos, o ran gallu i ddyrchafu yr hiliogaeth, yn y llwch y byddwn. Ië, y m e llawer o honynt hwy eu hunain, er ar dir dysg a gwyddoniaeth yn greaduriaid megys o rywogaeth uwch, eto mor bell oddiwrth y gogoniant a gyrhaedda dyn trwy ddiwylliad ysbrydol, fel y ceir hwynt ymysg yr ymlusgiaid. "Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid." Ond y mae Mr. Hughes yn cael fod yr Efengyl ar y pethau mawrion hyn yn derfynol. Mae yr Orphwysfa yn Nghrist. Y mae hono mor fawr fel y mae yn Orphwysfa Duw. Mae Duw, ynddo Ef, yn gallu gorphwys. Yr ydoedd yn wir, er tragywyddoldeb, "yn hyfrydwch iddo beunydd." Fe'i cyflwynai hefyd i'r byd fel yr Hwn y "boddlonwyd" Ef ynddo. Ac yn y gwaith mawr a wnaeth, yn yr hwn y cyflawnodd amcanion mwyaf yr arfaeth dragywyddol, gan "ddwyn meibion lawer i ogoniant," y mae y Tad yn gallu gorphwys mewn anfeidrol foddhâd. Ac er y dirywiad ofnadwy a ddaeth arnom trwy bechod, y mae yr Orphwysfa sydd ynddo Ef yn ddigon i ninnau hefyd. A phaham na fyddai? Yr oedd y syniad am gael myned i "Orphwysfa Duw" i ysbryd galluog, hawddgar, a sanctaidd y diweddar Ddr. Parry, yn troi y nos yn ddydd. Ac felly i fyrddiynau heblaw efe. Mae yr Orphwysfa yn ffaith bresennol. Mae y saint ar y ddaear, yn mynydd Seion, yn nghwmni holl dywysogion y llys, ie, yn mhresennoldeb y Brenin ei hunan. Mae ymdriniaeth Mr. Hughes ar nodwedd wrthddrychol gobaith yr Efengyl yn dda iawn. Yn lle ymddyrysu gydag uchaniaethau ein cyfundrefnau duwinyddol, neu ymgolli yn siglenydd ein profiadau ein hunain, y mae efe am ein cael i dderbyn, fel plant bychain, y gwirionedd gwrthddrychol a gyhoeddir i ni, ac felly i fyned i mewn i'n hetifeddiaeth. Nid oedd gan yr Apostolion ond yr ystori syml,—"Farw o Grist dros ein pechodau ni, yn ol yr Ysgrythyrau, a'i gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd yn ol yr Ysgrythyrau." Ac yr oedd eu gwrandawyr felly yn ei derbyn; ond wrth wneyd hyny yr oeddynt yn cael eu hunain ar unwaith yn nghanol y daioni mawr, "yn llawenhau â llawenydd annhraethadwy a gogoneddus." Fe arweiniai y gyfryw bregeth a'r cyfryw wrandaw eto i'r un canlyniadau, a dygid llawer yn uniongyrchol i fwynhau y cysur cryf a'r diddanwch annhraethadwy sydd i bechadur pan y mae yn cael gorphwys yn Iesu Grist. Ac nid ydyw yr Orphwysfa fry ond peth o'r un natur, ond yn unig fod yr holl attalfeydd

wedi eu tynu ymaith, a'r Haul gogoneddus, gan lewyrchu yn ddigwmwl, yn llanw yr ysbryd byth â'i oleuni a'i ogoniant. "Ei goleuni hi ydyw yr Oen."—Os mynai y darllenydd tirion ymdriniaeth lawn a chyfoethog ar y materion ardderchog hyn, gydag aml ddyfyniad dysglaer hyd y tudalenau o syniadau yr ysgrifenwyr goreu, hen a diweddar, mewn perthynas iddynt, a'r cyfan wedi ei osod ger bron gyda meddylgarwch addfed ac ysbryd o'r fath fwyaf rhagorol, mewn Saesoneg coeth ac arddull nad all yn fynych lai na'i swyno â'i phrydferthwch, ni allai wneyd yn well na mynu y gwaith hwn i'w feddiant, a'i wneyd, yn yr ystyr oreu, yn eiddo bythol iddo ei hun. Pris y llyfr yw 7s. 6c.

*Beyond the Stars: or, Heaven, its Inhabitants, Occupations, and Life.* By THOMAS HAMILTON, D.D., Belfast. Edinburgh: T. & T. Clark.

YMDDENGYS fod awdwr y gyfrol brydferth hon, fel llawer eraill, wedi cael ei arwain i fyfyrdodau ar y wlad well trwy ymadawiad rhywun oedd anwyl iddo yno o'i flaen. Y cyflwyniad ydyw, *In Aliciæ carissimæ Memoriam dulcem:* I felus Goffadwriaeth fy anwylaf Alice! Ar y wyneb-ddalen ceir pennill tra phrydferth o eiddo Mrs. Southey:

Oh change! stupendous change!
Burst are the prison bars;
This moment there, so low, so agonized,
And now—BEYOND THE STARS!

O newid aruthr fawr!
Fy ngharchar ddrylliodd Ner;
Un fynyd yma 'n isel, mewn dwfn ing,
Y llall—TU HWNT I'R SER!

Ac nid rhyfedd fod y gyfres o bregethau a draddododd ar y mater wedi ennill cymaint o sylw fel ag i'w argymhell i'w cyhoeddi fel yma yn llyfr. Mae yn rhyfedd na fyddai ein meddwl yn cael ei lyncu i fyny lawer yn fwy mewn myfyrdodau am "y wlad dda hono." Ychydig sydd wedi ei "amlygu" eto yn ei chylch; ac am hyny nid annaturiol ydyw i ddynion, pan feddyliont am dani, ymollwng i ddychymygu, a phob un yn llunio ei nefoedd yn ol syniad ei galon ei hun. Y mae yn rhagoriaeth ar Dr. Hamilton ei fod wedi astudio yn dda y cyfeiriadau a geir ati yn y Gair, a'i fod felly yn "prophwydo yn ol cysondeb y ffydd." Y mae ei feddwl hefyd wedi ei drwytho i'r fath raddau gan yr hyn sydd wedi ei ddadguddio, fel y mae ei syniadau yn nawsaidd ac awgrymiadol, ac y mae aros gyda hwynt yn tueddu yn gryf i godi bryd y darllenydd uwchlaw trybestod a mân helyntion einioes ddiflanedig, i feddwl am y cartref gwell. Nid oes ganddo ammheuaeth nad ydyw y nefoedd yn lle, ac nid cyflwr yn unig; nid y ddaear ychwaith, wedi ei hadnewyddu, a fydd; canys bydd "y nefoedd newydd a'r ddaear newydd" y fath fel "na chofir ac na feddylir" am y rhai cyntaf; heblaw y byddai anhawsder dirfawr i synied ymha le y mae yr ysbrydoedd gwynfydedig yn awr, a pha le y gallent fod dros yr anferth dymmor pan fydd y ddaear yn oeri ar ol y goddeithiad diweddaf. Mae y syniad cyffredin ei bod fry, goruwch y ser, yn arwain yn anocheladwy i ddyryswch, oblegid y mae cyfeiriad ein huchelder yn wahanol ar bob awr o ymlwybriad y ddaear trwy yr eangder, ac felly byddai nefoedd ein hanner dydd yn y pwynt gwrthgyferbyniol i nefoedd ein hanner nos. Tybia efe ei fod yn cael awgrym ffrwythlawn ar hyn yn y gair a geir yn Eph. iv. 8—10, fod yr Iesu yn wedi esgyn "goruwch yr holl nefoedd;" a chan fod seryddiaeth ddiweddar wedi cael, heblaw fod y ddaear, &c., yn troi o amgylch yr haul, fod yr haul ei hunan, a holl fydoedd

[illegible] rhyw fyd
[illegible] yr hwn, yn
[illegible] dybia
[illegible] tragy-
[illegible] y lle da
[illegible] yn hyderus
[illegible] er yn
[illegible] gorff; ac
[illegible] Saviour),
[illegible]
[illegible]
[illegible] &c.; ac
[illegible] o'r
[illegible]
[illegible] efe yn
[illegible]
[illegible] Crist i
[illegible] mewn
[illegible] ond
[illegible]
[illegible]
[illegible] y mae
[illegible] fwy o
[illegible] hyny, ni
[illegible] ac
[illegible] byth
[illegible]
[illegible] hyn
[illegible]
[illegible] Testament a'r
[illegible]
[illegible] ond
[illegible]
[illegible] y Gair
[illegible] fodd i
[illegible]

[illegible] Commentary on Genesis. [illegible] Translated by Sophia [illegible]
[illegible] Doctor [illegible] Additions [illegible] Vol. II. [illegible]

[illegible] yn [illegible]

yn y diwedd yn bur fyw i ddiffygion y gwaith; ac wrth deimlo na all obeithio cael gwneyd cyweiriad ychwanegol arno, ei weddi ydyw, "Bywioged yr Arglwydd dduwinyddion ieuangach i gadw yr hyn sydd dda ynddo, ac i gynnyrchu yr hyn sydd well!" Y mae ysbryd y gwaith, fodd bynag, yn aros yr un. Nid ydyw, medd efe, "yn credu yn Nghrefydd amseroedd Darwin;" creda yn nadganiad mawr y Pasg, fod Iesu wedi codi o feirw, a derbynia yn barchedig holl ganlyniadau y ffaith. Ond mae ei feddwl yn agored gyda golwg ar lawer o bethau ag y buasai beirniadaeth geidwadol y llythyrenau yn ymgroesi yn fawr rhag cymaint â chydnabod fod dim ond un farn yn eu cylch; ond y mae efe, gan deimlo fod llafur yr ysgol ddinystriol mewn beirniadaeth wedi bod yn achlysur i gyfoethogi yn ddirfawr ein dirnadaeth o'r Ysgrythyrau, yn derbyn yn ddibetrus bob goleuni a ddaw yn ei ffordd, o ba gyfeiriad bynag, ond yn ymwneyd â'r cwbl mewn dwfn ffyddlondeb i egwyddorion mawrion Gair yr Arglwydd.

Crybwyllasom o'r blaen am waith Keil ar *Henafiaethau Biblaidd*, wrth gyflwyno i sylw y gyfrol gyntaf o'r gwaith a nodir uchod. Y mae yntau bellach wedi myned

At y dorf aneirif fawr
O rai cyntafanedigion
Ag sydd yn y nef yn awr.

Ac nid yw yn anhawdd meddwl gyda pha afiaeth a hyfrydwch y mae gwŷr fel y rhai hyn, a dreuliasant einioes yn ymroddi gyda'r fath zel i astudio yr Ysgrythyrau, bellach yn dilyn eu hefrydiau dan amgylchiadau sydd gymaint yn fwy manteisiol, yn "gweled wyneb yn wyneb," "yn adnabod megys eu hadwaenir." Ond yn wir efrydydd yr ydoedd hyd y diwedd yn llafurio i berffeithio y gwaith hwn, a llwyddodd cyn i'r Gorchfygwr ei gyfarfod, i anfon ei "Gyfnewidiadau a'i Ychwanegiadau" er perffeithio yr argraffiad Seisonig yma o'i waith. Fel y dangosem yn ein nodiad ar y gyfrol gyntaf yn y TRAETHODYDD am Orphenaf, y mae wedi hysbyddu pob ffynnonell a allasai wneyd unrhyw gyfraniad tuag at berffeithio ein gwybodaeth am Henafiaethau y Bibl, ac nid arno ef yn sicr y bydd y bai os na fydd gan ei ddarllenydd syniadau cyflawn a chlir iawn am yr hen amseroedd, ac os na fydd hefyd mewn canlyniad yn gallu astudio y Llyfr sanctaidd gyda mwy o hyfrydwch, a chyda mwy o adeiladaeth.

*Cofiant a Phregethau y Parch. Griffith Williams, Talsarnau.* Gan y Parch. ROBERT OWEN, M.A., Pennal. Bala: Davies ac Evans.

DYLASEM fod wedi galw sylw at y gyfrol ddyddorol hon cyn hyn, ond yn amryfus yr ydoedd wedi ei gosod o'r neilldu. Mae ein darllenwyr ond odid yn cofio darllen erthygl dra dyddorol yn y TRAETHODYDD ar y Parch. Griffith Williams, rhyw bedair neu bum' mlynedd yn ol; a da iawn y gwnaeth Mr. Owen, gan fod y defnyddiau oedd o fewn ei gyrhaedd mor werthfawr, a chymaint yn helaethach nag a ddysgwyliai, eu gosod ynghyd fel yma a'u cyhoeddi yn gyfrol ddestlus, gyda darlun rhagorol, er cof am ŵr mor anwyl a gwerthfawr. Mae ei hanes yn hynod o ddifyrus, ac yn llawn o addysg. Gyda chymeriad pur a meddwl cryf a gwrol, fe weithiodd efe ei ffordd trwy lawer o anfanteision i sefyllfa o ddefnyddioldeb mawr, ac yn ei holl lafur cyhoeddus fe edrychid arno gan bawb oedd yn ei adnabod gyda chymaint o barch a chariad fel y rhoddid bob amser y derbyniad goreu i bob ymdrech o'i eiddo i lesâu a dyrchafu ei gydwladwyr. Yr oedd hefyd wythïen ddofn o ysmaldod dyddan yn ei natur, a'i gwnai yn gydymaith hynod o ddymunol, a theimlai llawer o'i gyfeillion y gallasai, yn hollol gyfreithlawn, roddi mwy o le i'r gallu yma yn ei weinyddiadau cyhoeddus, ac y buasai hyny

yn ychwanegiad at ei nerth; ond yr oedd yr argraff o ddifrifwch y weinidogaeth wedi suddo yn gymaint i'w feddwl fel yr arswydai rhag pobpeth a allai, ynglŷn â'r gwaith mawr, ymddangos fel yn dynesu at ysgafnder. Felly y diweddar Barch. Hugh Hughes, Beaumaris. Yr ydoedd yn gyforiog o *humour*, ond yn ei lafur cyhoeddus fe fyddai hyd yn nod yn drymaidd ddifrifol. Lled debyg oedd y diweddar Barch. John Davies, Nerquis, yn y rhan gyntaf o'i oes weinidogaethol, er iddo wedi hyny weled ei ffordd i wneyd defnydd, a brofai yn fynych yn hynod o hapus, o'r gallu oedd mor naturiol iddo i oglais ei wrandawyr, ac felly i'w cael nid yn anaml i dymher fanteisiol i dderbyn gwersi doethineb. Yr oedd *humour* Mr. Griffith Williams hefyd yn hynod o gyfoethog. Mae Mr. Owen wedi casglu llawer o'i ddywediadau da yn y ffordd hono, ond mae llawer eto ar lafar gwlad. Pan welwyd ef gyntaf wedi ei briodas gan Mr. Robert Sennar, yr hwn wrth ei longyfarch am ei fod yn edrych mor dda, a ychwanegai, "Mae arna i ofn nad ydach chi 'n astudio dim," a gafodd ei bêl yn ol yn y ffordd ddeheuig a ganlyn, "Na, dygymmod â fi yn *noble* y mae." Yr ydoedd ei dŷ a'i siop yn Nhalsarnau wedi eu gwneyd o'r hen gapel oedd yn y lle, a phan sylwai rhyw wraig garedig, wrth glywed fod ychwanegiad wedi cymeryd lle at ei deulu, fod ganddo lon'd y tŷ o blant, cywirai hi yn dawel, ond mae yn debyg er ei mawr syndod, trwy ddywedyd, "Na, mae ein tŷ ni wedi ei wneyd i ddal tri chant." Wedi dychwelyd o Lundain, dyma y ffordd yr eglurai i'w gyfeillion yn Nhalsarnau natur y *telegraph*: "Mae ci wrth i chwi wasgu ei gynffon yn gwaeddi â'i geg. Dychymygwch fod ci mawr hir, yn cyrhaedd oddiyma i Lundain; dim ond i chwi gydio yn ei gynffon a rhoddi plwc arni, mi gyfartha y ci yn Llundain yr un fynyd. Peth fel yna ydyw y *telegraph*." A byddai ei egluriadau wrth bregethu yn fynych yn fyw a gafaelgar. Yn y bregeth ar "Y cyfarfod gweddi ar lân afon Ahafa" (Ezra viii. 21—23), wrth ddangos fod Ezra yn cymeryd hamdden cyn cychwyn i edrych ar beryglon y daith, "i'n cynnorthwyo rhag y gelyn ar y ffordd," dywed:

> Mae yn llawn bryd i ninnau ymbwyllo i edrych yn ngwyneb ein peryglon. Byddai yn dda genym allu argyhoeddi ein pobl ieuainc fod maglau wedi eu gosod yn eu llwybrau, a'u bod yn y perygl o gael eu dal ynddynt. Gellir gweled ar yr *Omnibuses* yn y trefydd mawrion enwau yr heolydd y byddant yn myned trwyddynt, a'r lleoedd y byddant yn aros ynddynt, wedi eu gosod mewn llythyrenau mawrion o'r tu allan, er cyfarwyddyd i'r teithwyr, ond er hyny fe fydd rhai yn camgymeryd ac yn myned yn hollol groes i'r hyn y bwriadent. Bydd yn hawdd gan y *guard* ofyn pan y gwel ddyn dyeithr yn myned i mewn, pa le y bydd arno eisieu disgyn. Cyn cymeryd eich lle yn ngherbydau gwag bleserau, edrychwch enwau y lleoedd y maent yn myned drwyddynt ac yn aros ynddynt. Pe byddai tafarnwyr ein gwlad yn ymddwyn yn garedig, fe ofynent i'r bachgen ieuanc deunaw oed, wrth ei weled yn dringo i mewn i'w cerbyd hwy, "Pa le yr ydych yn dewis cael eich rhoddi i lawr, 'machgen i? Pa un ai wrth ddrws y tlotty, y gwallgofdy, ai ynte y carchar? Dyna y lleoedd yr ydym ni yn arfer galw ac yn rhoddi i lawr y rhai sydd yn ewyllysio teithio gyda ni; ond byddwn yn cymeryd ambell un ychydig ymhellach,—i'r *dienyddle!*"

Mae ei lythyrau at ei blant yn neillduol deilwng o sylw ein holl bobl ieuainc. Yn wir mae y llyfr oll, fel Cofiant y Parch. Richard Humphreys a Hanes William Ellis, Maentwrog, &c., gan Mr. Griffith Williams, yn un a dalai yn dda mewn difyrwch ac adeiladaeth am ei ddarllen. Ei bris yw 2s. 6c.

*Yr Ysgol Sabbothol, Addysgiaeth, a Chynheddfau y Meddwl.* Gan EDWARD JONES, Bangor. Newport, Mon.: W. Jones.

YCHYDIG sydd genym yn Gymraeg wedi ei ysgrifenu ar y materion hyn mewn ffordd o gynnorthwy ymarferol i rai a ddymunent wneyd a allont er

perffeithio yr Ysgol Sabbothol yn ein gwlad. Y mae Mr. Edward Jones wedi gwneyd gwasanaeth gwerthfawr trwy ysgrifenu y gyfrol fechan ddestlus hon, a hyderwn y bydd llawer yn gwneyd defnydd da o honi. Yr oedd efe yn meddu cymhwysder neillduol at y fath orchwyl. Y mae ei hunan wedi cael ei hyfforddi yn y gelfyddyd o addysgu; wedi astudio amryw o'r gweithiau goreu a ysgrifenwyd ar y gelfyddyd; wedi cael blynyddoedd o brofiad llwyddiannus fel ysgolfeistr; ac y mae, trwy ei hyfforddiaut a'i astudiaeth a'i brofiad, wedi ennill llawer o wybodaeth ag y buasai y rhai na chawsant ei fanteision yn fawr ar eu hennill o gael cyfleusdra i'w gwneyd yn eiddo iddynt eu hunain. Y mae hefyd o'i febyd yn gyfaill pur i'r Ysgol Sabbothol. Nid oes perygl iddo mewn un modd edrych yn isel ar sefydliad ag y mae ei genedl wedi derbyn trwyddo y fath annhraethol les, nac awgrymu dim a allo dueddu tuag at ddarostwng ei urddas. Ar yr un pryd y mae ei gariad at yr Ysgol Sabbothol yn peri iddo wynfydu wrth feddwl fod y fath fanteision gwerthfawr ynglŷn âg addysgiaeth yn ein hysgolion dyddiol, y rhai, er y byddai yn hawdd eu cymeryd i fewn i beirianwaith yr Ysgol Sabbothol, ac na allent lai na gwneyd ei haddysg yn llawer mwy effeithiol, eto y dangosir mewn llawer o'n hardaloedd gymaint o arafwch i wneyd unrhyw ddefnydd o honynt. Fe roddai darllen ei lyfr syniad rhagorol am y pethau hyny, a doeth y gwnelai y darllenydd meddylgar pe yr elai i un neu ychwaneg o'n hysgolion dyddiol goreu i weled mor foddhäol y mae y cynlluniau y cyfeirir atynt yma yn gweithio. Wedi gwneyd hyny, fe fyddai yn hyfryd ganddo wneyd a allai er gosod y trefniadau da sydd yn ateb y fath ddyben ynddynt hwy, ar waith yn yr Ysgol Sabbothol hefyd, ac felly beri cynnyrchu ynddi lawer ychwaneg o waith, a hwnw yn waith llawer gwell. Mae y crynodeb a roddir ar gynneddfau meddwl y creadur ag yr amcenir trwy addysg yr Ysgol Sabbothol i'w oleuo a'i ddyrchafu, yn glir a phwrpasol. Argymhellwn y llyfr—pris 2s.—yn galonog iawn i sylw athrawon ac athrawesau yr Ysgol Sabbothol trwy Gymru oll. Fel engraifft o'r hyn a geir ynddo, dywed "fod y pethau canlynol yn anhebgorol angenrheidiol er gwneyd yr holi a'r ateb yn effeithiol:"—

1. Rhaid i'r athraw fod wedi meistroli yn drwyadl y wers neu y mater y mae yn myned i holi arno.
2. Rhaid iddo fod yn fywiog a siriol, er sicrhau bywiogrwydd ac awydd i ateb yn y dosbarth.
3. Rhaid i'r cwestiynau fod yn hawdd eu deall, onidê nis gellir dysgwyl atebion.
4. Dylent gael eu cyfeirio at bob un yn y dosbarth, yn enwedig y rhai llwfr a hwyrfrydig i ateb.
5. Rhaid iddynt gyfateb i gyrhaeddiadau y dosbarth, heb fod yn rhy hawdd ar y naill law, nac yn rhy anhawdd ar y llaw arall.
6. Ni ddylid gofyn ond ychydig gwestiynau ag y gellir eu hateb gydag *ie* neu *nage*, gan nad ydyw cwestiynau o'r fath yn rhoddi gwaith i'r meddwl.
7. Dylai y cwestiynau feddu cymhwysder i gynnyrchu meddylgarwch ac ysbryd ymchwilgar yn y dosbarth.
8. Dylai y cwestiynau hefyd fod yn dwyn perthynas y naill â'r llall, a dilyn eu gilydd yn y fath fodd ag i daflu goleuni ychwanegol ar y mater dan sylw.

Traethodau Bywgraffyddol. Rhif 6. *William Williams, Pantycelyn.* Gan T. L. Rhif 7. *Thomas Charles o'r Bala.* Gan T. L. Llundain: Cymdeithas y Traethodau Crefyddol.

Da genym groesawu dau yn ychwaneg o'r *Traethodau Bywgraffyddol*, y rhai, fel eu rhagflaenyddion, sydd yn rhoddi hanes cryno a thra darllenadwy am wŷr ag y bydd y Cymry yn eu mawrhau hyd byth. Maent yn dra chyfaddas i'w dodi yn llaw ein plant a'n pobl ieuainc, a hyderwn y bydd

niferi mawr o ddeiliaid ein Hysgolion Sabbothol trwyddynt yn dechreu ffurfio cydnabyddiaeth â'r ddau sant enwog, William Williams a Thomas Charles, a fydd yn addfedu i gymundeb llawn, ac yn profi yn fendith iddynt yn dragywydd. Buom mewn cryn benbleth yn ceisio gwneyd allan ystyr y geiriau canlynol yn Rhif. 6: "Dywed traddodiad y byddai pan yn laslanc yn hoff o wneyd cân neu rigwm i ddynion ardaloedd o gwmpas ei ofni. Yn yr amser hwnw, yr oedd prydydd wrth wneyd cân yn gwneyd gwasanaeth gormesol a drygionus, ac y byddai hyny yn peri i'r cyffelyb i'r hyn y mae y Newyddiadur yn ei wneyd yn awr, i ddynoethi gweithredoedd dynion anghyfiawn a gorthrymus." Buom am enyd yn tybied y rhaid fod synwyr yn y geiriau, pe yn unig y gallesid cael y pelydr goleuni allan o'r *cucumber;* ond pan yn gorfod penderfynu nad allai fod yn ddim ond *nonsense*, gwelsom mai gwr y wasg oedd wedi camgyfleu y drydedd linell yn tu dal. 5, ac y dylasai ddarllen fel hyn: "Dywed traddodiad y byddai pan yn laslanc yn hoff o wneyd cân neu rigwm i ddynion gormesol a drygionus, ac y byddai hyny yn peri i'r ardaloedd o gwmpas ei ofni. Yn yr amser hwnw, yr oedd prydydd wrth wneyd cân yn gwneyd gwasanaeth cyffelyb i'r hyn y mae y Newyddiadur yn ei wneyd yn awr," &c. Ymddengys fod rhyw gamgymeriad yr un ffunud wedi dianc yn Rhif 7, tu dal 8, pan ddywedir "a phrofodd ei wraig yn rhodd arbenig iddo gan yr Arglwydd—yn 'ymgeledd gymhorth iddo" ger ei fron.' Dylasai teulu y wasg gael eu cadw dan well gwastrodedd. Nid gair da ydyw "arholi" yn tu dal 12: "Dechreuodd gydag arholi plant yn yr eglwysi cyn gadael Eglwys Loegr." Yr oedd y gorchwyl a wnelai Mr. Charles yn dra gwahanol, fel y dengys efe ei hun yn y dyfyniad ar tu dal. 14: Yr wyf fy hun yn ymweled â'r ysgolion, ac yn eu holwyddori ar gyhoedd." Holwyddori y byddai efe, a gwaith gwych a wnelai. Dyma eiriau pwysig, sydd yn dangos y fath ysbryd rhagorol oedd yn Mr. Charles: "Gallaswn i fod wedi cael dyrchafiad yn yr Eglwys; cynnygiwyd hyny i mi droion; ond, yn wir, buasai yn well genyf dreulio y 23ain blynedd diweddaf o'm hoes fel y gwnaethum, i grwydro ein gwlad oer, fynyddig, yn ol a blaen, na phe cawswn fy ngwneyd yn archesgob."—Nid ydyw pris y Traethodau ond 2g. yr un.

IONAWR 1, 1889,
CYHOEDDIR RHIFYN CLXXVI. O'R

# TRAETHODYDD:

## CYLCHGRAWN CENEDLAETHOL CYMRU.

DAW ALLAN BOB DAU FIS,
**SWLLT Y RHIFYN.**

Bydd y TRAETHODYDD am 1889

YN CYNNWYS

## ERTHYGLAU GWERTHFAWR

MEWN

*Duwinyddiaeth, Athroniaeth, Llenyddiaeth, a Gwleidyddiaeth, ynghyd a darnau o Farddonlaeth,*

GAN YR YSGRIFENWYR CANLYNOL:—

Prifathraw D. CHARLES DAVIES M.A.
Prifathraw GETHIN DAVIES, B.A.
Parch. OWEN DAVIES, Caernarfon.
. RICHARD DAVIES (Tafolog).
Parch JOHN DAVIES, F.S A., Pandy.
Proffeswr ELLIS EDWARDS, M A.
Parch. JOHN EVANS (Eglwysbach)
Parch. D. CHARLES EVANS, Pont Menai.
D. H. EVANS *(Daniel Ddu o Fon)*, Australia
JOHN EVANS, F.L.S
Parch. W. H. EVANS, Liverpool.
ISAAC FOULKES, Liverpool.
D. LLOYD GEORGE, Criccieth
Parch. CANON HOWELL B.D., Wrexham.
Parch. JOHN HUGHES, D.D.
Parch J. ELIAS HUGHES, M.A., Llundain.
A. C. HUMPHREYS-OWEN, M.A., U.H
Parch. WILLIAM JAMES, Aberdar.
Proffeswr HENRY JONES, M.A.
Parch. J. MORGAN JONES, Caerdydd.
Parch. J. R. KILSBY JONES.
ROGER W. JONES, B.A.. Gelligaer.
Prifathraw THOMAS LEWIS, B.A., Bangor.
Y Parch W. MORRIS LEWIS, Tyllwyd.
Y Parch. J. MYVENYDD MORGAN, Abercanaid.
Y Parch. R MORGAN, Treffynnon
Y Parch. WILLIAM OLIVER, M.A., Wrexham.
Y Parch. GRIFFITH PARRY, D.D.
Mr. W. JOHN PARRY, Bethesda.
Y Parch. EVAN REES *(Dyfed)*
Y Proffeswr RHYS. M.A.
Y Parch. DAVID RICHARDS, M.A . Bangor.
Y Parch. EDWARD ROBERTS, D.D., Pontypridd.
Y Parch. EVAN ROBERTS, Dyffryn.
Y Parch. THOMAS ROBERTS, Bethesda.
MR. WILLIAM ROWLANDS, M.D.
Y Parch. JOHN THOMAS, D.D., Liverpool.
Y Parch. J. MYRDDIN THOMAS, yr Wyddgrug.
Y Parch. W. GLANFFRWD THOMAS, Llanelwy.
Y Proffeswr TRECHMANN, B.A., PH.D.
Mrs. VERNEY, Rhianva.
Y Proffeswr HUGH WILLIAMS, M.A.
Y Parch. H. CERNYW WILLIAMS.
Y Parch. WILLIAM WILLIAMS, Abertawe.
&c., &c.

*I'W GAEL GAN YR HOLL LYFRWERTHWYR.*

HOLYWELL: P. M. EVANS & SON, CYHOEDDWYR.

# CYFROL GOFFADWRIAETHOL CYNFAEN.

YN AWR YN BAROD, YN UN GYFROL,

PRIS PEDWAR SWLLT,

DETHOLIAD O BREGETHAU Y DIWEDDAR BARCHEDIG JOHN HUGH EVANS (Cynfaen). Mae y Gyfrol yn cynwys Braslun o Fywyd yr Awdwr, a'i ddarlith ar Job, yn nghyda PHRYDDEST FUDDUGOL CADVAN er coffadwriaeth am dano. Anfoner pob archebion at MRS. J. H. EVANS, 43, Tennyson Street, Liverpool. Rhoddir yr elw arferol i Lyfrwerthwyr a Dosbarthwyr.

---

**Yn awr yn barod, mewn llian hardd, pris 8s. 6c.**

# WILLIAMS PANT-Y-CELYN.

YN CYNNWYS EI

## Holl Gyfansoddiadau Barddonol,

Oddieithr ei Hymnau, gyda Hanes ei Fywyd, a Thraethawd Beirniadol ar ei Weithiau, gan y Golygydd, y

## PARCH. N. CYNHAFAL JONES,

LLANIDLOES.

Mae y gyfrol hon y cydgasgliad cyflawnaf o Weithiau Perganiedydd Cymru a gyhoeddwyd erioed—ac mae y ffaith fod cannoedd lawer o'r gyfrol wedi eu herchi cyn ei hymddangosiad o'r wasg yn siarad yn uchel am ei theilyngdod, a'r angen a deimlid yn y wlad am Weithiau Prif Emynydd y Genedl.

P. M. EVANS & SON, PUBLISHERS, HOLYWELL.

---

**Yn awr yn barod, Pris 1s. 6c., mewn amlen liwiedig, y Ffugchwedl Boblogaidd**

# Y DREFLAN:

## EI PHOBL A'I PHETHAU.

WEDI EI HYSGRIFENU GAN

## AWDWR "RHYS LEWIS."

Mae y chwedl hon wedi derbyn cymeradwyaeth mwyaf calonogol y wasg, ac ynddi ceir desgrifiadau naturiol o gymeriadau ac amgylchiadau gwir Gymreig, wedi eu portreadu yn null dihafal a mwyaf hapus yr Awdwr.

**Ar werth gan yr holl Lyfrwerthwyr, neu yn uniongyrchol oddiwrth y Cyhoeddwyr,**

P. M. EVANS & SON, HOLYWELL.

RHIFYN CLXXVII.

JAN 3 1913

# Y TRAETHODYDD.

MAWRTH, 1889.

CYNNWYSIAD.


| | Tu dal. |
|---|---|
| Geiriau. Gan y Proffeswr Trechmann, B.A., Ph.D. ... ... ... ... ... | 98 |
| Y Bro-Arluniwr Cymreig, Richard Wilson. Gan Isaac Foulkes ... | 105 |
| Lle y Bygythiol yn y Weinidogaeth. Gan y Parch. E. J. Evans ... | 114 |
| Dyddlyfrau Eben Fardd. IV. ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 127 |
| Cynnadledd ar Bregethu Efengylaidd. Gan y Parch. John Thomas, D.D. ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 141 |
| Addysg. Gan Dyfed ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 157 |
| Dammeg y Cwymp. Gan M. ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 16[illegible] |
| Y Parchedig William Howells. Gan y Parch. William Williams ... | 16[illegible] |


*CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF MAI 1, 1889.*

SWLLT.

TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

# Y TRAETHODYDD.

## GEIRIAU.

CYFIEITHIAD O DDARLITH A DRADDODWYD GER BRON Y MENAI SOCIETY GAN Y PROFFESWR TRECHMANN, B.A., PH.D.*

### Y MAE i Eiriau eu Genedigaeth, eu Cymdeithas, a'u Marwolaeth.

I.

Y mae geiriau yn cael eu GENI mewn dwy ffordd; yn gyntaf, trwy greadigaeth newydd, neu newyddeiriaeth *(neologism of words)*; yn ail, trwy greadigaethau newyddion o ystyr *(neologisms of meanings)*. Pan y mae iaith yn ffurfio *geiriau newyddion* y mae yn gwneyd hyny o hen ddefnyddiau; y mae naill ai yn benthyca oddiar ieithoedd eraill, byw neu farw, neu y mae yn ffurfio geiriau newyddion o eiriau sydd eisoes yn bod, trwy darddiad, hyny yw, trwy ychwanegu blaenddodiaid neu olddodiaid, neu trwy gyfuno dau neu ychwaneg o eiriau mewn dull cyfansawdd. Pan y mae iaith yn ffurfio *ystyron newyddion*, y mae yn rhoddi i eiriau sydd eisoes yn bod swyddogaethau oedd hyd hyny yn ddyeithr iddynt. Heb, yn ymddangosiadol, ychwanegu at yr eirlechres, y mae, mewn gwirionedd, yn gwneyd o'r geiriau hyny eiriau newyddion. Gyda threfnidedd ar seiniau, y mae yn rhoddi i'r un cynnulliad o seiniau wahanol swyddogaethau. Fel hyn pan ddywedwn am ddyn ei fod yn "*bat* da" neu yn "first-rate *oar*," yr ydym yn ffurfio newyddiaethau o ystyr; yr ydym yn rhoddi i'r geiriau "*bat*" ac "*oar*," ystyron oeddynt hyd hyny yn ddyeithr iddynt. Mae yn debyg mai un o'r newyddiaethau mwyaf diweddar yn y wlad hon ydyw "boycottio."

Yn gyffredin y mae geiriau yn cadw eu hystyron; y maent yn dal at y gwrthddrychau neu y syniadau a ddynodant, ac y mae y berthynas rhwng yr arwydd a'r peth a arwyddoceir yn aros heb ei newid. Felly, er gwaethaf cyfnewidiadau mewn sain sydd wedi cymeryd lle yn eu ffurfiau, y mae niferi o eiriau wedi dyfod i lawr yn Saesoneg o'r Anglo-Saxon, neu o'r Lladin trwy y Ffrancaeg, gyda'r ystyron oedd iddynt yn wreiddiol; ac wrth olrhain llawer o eiriau o'r fath yn ol i'r iaith Indo-

* Y mae Dr. Trechmann, wedi tymmor o wasanaeth llwyddiannus yn Ngholeg y Brifysgol, Bangor, fel Darlithydd ar Ieithoedd Diweddar, yn awr ar ei daith i Awstralia, i fod yn Broffeswr Ieithoedd Diweddar yn Mhrifysgol Sydney.

Ewropeaidd gyntefig, ni a gaem nad ydyw llawer o honynt wedi newid eu hystyr o gwbl yn ystod yr holl filoedd o flynyddoedd yr aethant drwyddynt. Engreifftiau: *father*, *mother*, *brother*, a'r rhifnodau.

Ond yn gyfochr â'r nerth ceidwadol yma trwy ba un y cedwir unol-iaeth iaith, y mae hefyd ar waith nerth chwyldröadol, sydd yn tueddu i'w chyfnewid, gan ei throi i gyfeiriadau newyddion, trwy drawsffurfio ystyr geiriau. Y mae achosion y cyfnewidiadau hyn mor amrywiol â'r amrywiol weithrediadau sydd yn peri cyfnewidiad mewn gwareiddiad. Y mae hyd geirlechres cenedl ar unrhyw fynyd o'i bodolaeth, yn cyfateb o angenrheidrwydd i nifer y syniadau sydd ganddi. Yr un modd â chyda'r person unigol; fe fydd geirlechres dyn diwylliedig yn gymaint ddeng waith neu yn ychwaneg ag eiddo llafurwr. Ni all dylifiad parhaus ffeithiau a syniadau newyddion y mae pob cenedlaeth yn ddwyn gyda hi lai na gadael ei ôl ar ei geirlechres.

Ymysg achosion cynnydd geirlechres Seisonig, y penaf ydyw yr hyn a ellid alw yn *achosion hanesyddol*, megys y gwahanol oresgyniadau a fu ar Loegr, megys y goresgyniad Rhufeinig, yr un Saxonaidd, ac yn enwedig yr un Normanaidd; dygiad Cristionogaeth i fewn; y Croes-gadau; y gyfundrefn wriogaethol a marchwriaeth; tyfiant y cyfansodd-iad a chyfreithiau; y Diwygiad Protestanaidd ac Adfywiad dysgeid-iaeth; masnach, a'r ymwneyd parhaus â chenedloedd tramor; a dad-blygiad enfawr gwyddoniaeth mewn amseroedd diweddar. I roddi dadganiad i'r lliosogrwydd o syniadau newyddion, yr oedd yn rhaid i iaith ffurfio geiriau newyddion, er mewn llawer o amgylchiadau felly ei bod wedi ymfoddloni ar ddefnyddio hen air.

Y mae yr holl wahanol ranau o ymadrodd yn agored i gyfnewidiad ystyr, ond yn neillduol sylweddeiriau, ansoddeiriau, a berfau; yn llai mynych y geiriau dinewid, ac yn llai mynych fyth, y rhagenwau. Ond nid ydyw natur ramadegol y gair ond o ychydig bwys i iaith; y mae ymdaith meddwl yr un yn y cwbl. Mae y cyfnewidiad yn y sylweddair yn haws ymaflyd ynddo; a'r sylweddair ydyw y rhan ymadrodd sydd wedi myned dan y cyfnewidiadau mynychaf, ac sydd fwyaf pwysig i'w astudio. Am hyny cyfyngaf fy hun yn benaf i'r cyfnewidiadau sydd wedi cymeryd lle yn y sylweddeiriau.

Y mae pob sylweddair ar y cyntaf yn dynodi gwrthddrych trwy ansawdd neillduol sydd yn ei ddeffinio; felly y mae yr hyn a alwai y Rhufeiniaid *fluvius* (afon), yn gosod ger bron nifer o arweddion nod-weddiadol, megys y swm o ddwfr, ysgogiad dylifol y dwfr, arwedd y glanau a'u cauent i fewn, ac felly ymlaen—unrhyw un o ba rai a allesid ddewis i roddi iddi enw. Dewiswyd un o'r arweddion, sef symudiad dylifol y dwfr, a cheir *fluvius (quod fluit)*, yr hyn sydd yn dylifo, i wasanaethu fel ei dynodiad. Mae y gair Saesoneg *river*, o'r ochr arall, yr hwn hefyd sydd o darddiad Lladin, yn cymeryd arwedd arall i'r cyfrif, sef y glanau, Ll. *ripa*, Ffr. *rive*.

Fe elwir yr ansawdd neu yr arwedd a wasanaetha i ddynodi y gwrth-ddrych y *terfynydd*, am ei fod yn ei derfynu neu yn ei ffinio allan, ac yn ei wneyd yn wybyddus trwy nodwedd neillduol. Yn y gair *river* nid yw y terfynydd i'w weled ar yr olwg gyntaf; y mae yn gofyn ychydig ymdrech meddwl ac efrydiaeth o eirdarddiad i gael allan beth oedd yr arwedd neillduol a ddewisid i'w enwi, neu ei derfynydd. Nid yw yr

hyn a derfynir yn cael ei ddadgan. Yn *fluvius* y syniad o ddylifiad yw y terfynydd; nid yw yr hyn a derfynir eto yn cael ei ddadgan. Yn y gair *capital, capital* ydyw y terfynydd, tra y mae yr hyn a derfynir yn cael ei ddeall, sef *city*, neu *letter*, fel y dygwyddo. Yn y rhan fwyaf o enwau cyfansawdd mae y terfynydd a'r terfynedig yn cael eu dynodi, megys *cart-horse, carriage-horse, cab-horse*, &c., lle y mae y geiriau *cart, carriage, cab*, yn terfynu y syniad ceffyl. Mewn nifer o eiriau, oeddynt yn wreiddiol yn gyfansawdd, ceir y naill a'r llall, ond wedi eu tywyllu trwy lygriad seiniol, megys *harbour*, yn wreiddiol byddin-achles; *neighbour*, trigianydd cyfagos; *orchard, ort or wort yard*, neu ardd-lysiau, &c. Ymhob un o'r rhai hyn y rhan gyntaf yw y terfynydd, yr ail yw yr hyn a derfynir.

Fe ellid sylwi, fel ffaith hynod, na raid i'r ansawdd a wasanaetha i derfynu gwrthddrych fod, o angenrheidrwydd, ei ansawdd fwyaf arbenig, neu hyd yn nod yn ansawdd arbenig oll. Cymerwch y gair *soldier*; mae y syniad *soldier* yn awgrymu amryw arweddion arbenig, megys gwisgo dillad unwedd, cludo arfau, byw ynghyd mewn lluestai neu bebyll; y ffaith ei fod yn derbyn tâl ydyw, fe allai, yr arwedd leiaf arbenig a berthyn iddo; eto y syniad yma, ei fod yn derbyn tâl (Ll. *solidus*, It. *soldo*, C. *swllt*), yw yr un a roddes iddo ei enw; dyma yw y terfynydd. Eto, *tortoise*, neu *turtle*, môr-grwban; arweddion mwyaf arbenig y *tortoise* ydyw ei gragen galed, fod ei ben a'i gynffon fel yr eiddo sarph, ac fod ei symudiad yn ddiarebol o araf; ond wrth edrych arno yn fwy craff, yr ydym yn cael fod ei draed wedi eu cymhlethu, ac oddiwrth yr arwedd yma o draed cymhlethedig y cafodd ei enw. Eto, cymerwch gyfres o eiriau, gyda'u hystyron cyntefig: megys *corporal*, pen neu benaeth; *sergeant*, gwasanaethwr; *adjutant*, cynnorthwywr; *lieutenant*, un yn lle un arall; *captain*, pen neu benaeth; *major*, un mwy; *colonel*, un yn llywodraethu colofn; ac y mae i *general* ystyr dra anmhenodol. Eto: *deacon* neu *dean*, gwas; *priest*, henuriad; *bishop*, arolygydd; *cardinal*, prif un (o *cardo*, colyn, yr hyn y try unrhyw beth o'i amgylch); *pope*, tad; *lord*, meistr tŷ; *peer*, un cyfartal (Ll. *par*); *duke*, arweinydd (Ll. *dux*); *count*, cydymaith (Ll. *comes*); *baron*, gŵr neu ryfelwr; *knight*, gwas; *esquire*, un yn dwyn tarian. Gan hyny ni raid i'r terfynydd o angenrheidrwydd ddynodi natur hanfodol gwrthddrych, oblegid nid ydyw yn perthyn i enw ddesgrifio, ond ad-alw syniad. Ni raid i iaith ddyweyd pobpeth. Os clywn un yn siarad am *capital*, gwyddom ar unwaith pa un a olyga *capital city, capital letter*, neu swm o arian.

Y mae iaith, gan hyny, yn enwi gwrthddrychau trwy eu dynodi wrth ryw un o'u hansoddau. Ar y dechreu, mae enwau yr ansoddau hyn yn galw i fyny o flaen y meddwl y syniad o'r ansawdd ei hunan, ac yn ailraddol eiddo y gwrthddrych; wedi hyny y syniad am y gwrthddrych ei hunan a elwir i fyny. Er engraifft, golygai *thumb* yn wreiddiol *thick*, tew, y bys tew. Gan ei fod yn cael ei gymhwyso at un bys neillduol o'r llaw, fe ddaeth y gair yn ddynodiad neu enw ar y bys hwnw. Galwai y gair i fyny ar y dechreu y drychfeddwl o dewder, ac o'r diwedd y syniad o'r gwrthddrych a alwn *thumb*. Mewn gair y mae pob sylweddair ar y dechreu yn dynodi gwrthddrych trwy un o'i ansoddau; y mae wedi hyny yn dynodi yr ansawdd, ac yn terfynu trwy alw i fyny y

[illegible] [illegible] [illegible] [illegible] y daw yn sylweddair. Y mae yn [illegible] [illegible] [illegible] Ferfad sylweddair—ac y mae hyn yn [illegible] [illegible] [illegible] oi ystyr eiryddol. Fel hyn ni [illegible] y [illegible] [illegible] yn [illegible] ac i sefyll am sylwedd neillduol, [illegible] [illegible] ei [illegible] [illegible] "[illegible] ei grasu ddwywaith," wedi ie [illegible].

Dechwn yn awr at [illegible] [illegible] mewn geiriau. Yr oedd hyn am dymmor maith yn [illegible] [illegible] [illegible] ysgrifenwyr ar Reitheg, y rhai a'u galwent yn *T[illegible]* [illegible] [illegible]. Yr oedd Grammadegwyr hefyd wedi eu [illegible] [illegible] [illegible] [illegible] [illegible] o safle arddull lenyddol, ac nid o safle [illegible]. Mewn ysgrifenydd neu areithiwr mae y troell-ymadroddion hyn yn [illegible] personol; ond ymysg y bobl fe'u defnyddir gan bawb, a [illegible] yn gysegredig trwy hir arferiad, ac megys yn arferion iaith.

Byddai Grammadegwyr yn [illegible] pedwar math o droell-ymadroddion: *Synecdoche*, cyfordlwyn; *M[illegible]*, trawsenw; *Metaphor*, trawsddwyn; *Catachresis*, [illegible]. Mewn camgymeriad y cyfrifid *catachresis* fel un o'r troell-ymadroddion.

Mewn *Cyfordlwyn* (synecdoche), y mae dau air nad ydynt ogyfled o ran ystyr yn cael eu cyfnewid y naill am y llall; megys yr oll am ran, neu ran am yr oll. (1.) Saif y rhywogaeth (*genus*) am y math (*species*), megys "llestr" am long (math neillduol o lestr); a'r math am y rhywogaeth, fel "dyn," am y bod dynol, yn ddyn a dynes, megys, "Mae dyn yn farwol." Ceir llawer o engreifftiau o hyn yn y dynodiad cyffredin o anifeiliaid. (2.) Saif y lliosog am yr unigol, megys, "fel y mae yn ysgrifenedig yn yr ysgrythyrau," h.y., mewn llyfr neillduol o'r ysgrifeniadau sanctaidd; "ni welais chwi er ys oesoedd," h.y., oes; y "canol oesoedd," h.y., y cyfnod rhwng henafiaeth ac amseroedd diweddar. Hefyd saif yr unigol am y lliosog, megys, "amddiffynydd y weddw a'r amddifad," h.y., gweddwon ac amddifaid; "gwarcheidwad y gyfraith," h.y., y cyfreithiau; "y gyfraith a'r prophwydi." (3.) Saif yr oll am y rhan, megys, "mae y fyddin yno," h.y., cyfran o honi. A'r rhan am yr oll, megys "hwyl" am long, "llaw" am weithiwr. Mae hyn i'w weled yn fynych mewn enwau cyfansawdd, megys, "pengrwn," h.y., un yn meddu pen crwn; "brongoch," "llwydwedd," "croengoch," "gwynfarf," "moelyn," "llewgalon," &c. (4.) Saif yr enw cyffredin am yr enw priodol, megys "y Frenhines" am y Frenhines Victoria; "y Diffynydd," am Cromwell; "y Gorchfygwr," am William I. A'r enw priodol am yr enw cyffredin, megys, "Crœsus," "Hercules," "Adonis," "Judas," "Jehu," "Jezebel," "Magdalen."

*Trawsenw* (metonymy), neu gyfnewidiad enw neu ystyr,—term penagored a diystyr,—a roddir ar y troelleiriau a ganlyn;—(1.) Yr achos am yr effaith, megys "*engine*" (Ll. *ingenium*, *genius*), dyfais,—*engine* yw yr hyn a ddyfeisir gan *genius*; "gwaith," yn golygu canlyniad gwaith neu lafur, megys "gwaith neu gweithiau Shakespeare." A saif yr effaith am yr achos, megys y "*falling-sickness*," yr anhwyldeb sydd yn peri i ddynion syrthio. (2.) Y cynnwysydd am y cynnwysedig; felly ni a siaradwn am "y tŷ," "y dref," "y wlad," am breswylwyr y tŷ, &c.; megys, "yr oedd yr holl dŷ mewn cyffro;" "yr oedd yr holl dref yn ei wybod;" "mae y wlad mewn ystad derfysglyd," &c. Neu y cyn-

nwysedig am y cynnwysydd, megys, "*convent,*" mynachlog (Ll. *conventus*, cynnulliad), yn cael ei gymhwyso at yr adeilad a breswylir gan gynnulliad; "*college,*" coleg (Ll. *collegium*, nifer o bersonau wedi ymgynnull i'r dyben o ddarllen), yn cael ei gymhwyso at yr adeilad a ddefnyddir gan *collegium;* "ysgol" yr un modd. (3.) Saif enw lle am gynnyrch neu arwedd nodweddiadol lle: "*currant,*" am resin Corinth; "*calico,*" o Calicut; "*damask,*" o Damascus; "*parchment,*" o Pergamum; felly enwau gwinoedd—Port, Sherry, Bordeaux, Champagne, Cognac, a gwahanol fathau o gaws—Caer, Stilton, &c., oll yn wreiddiol yn enwau lleoedd Neu gynnyrch neu arwedd nodweddiadol lle am y lle ei hunan: Bath, Wells, Sevenoaks, &c. (4.) Yr arwydd am yr hyn a arwyddoceir: megys, "yr orsedd a orphwys ar yr allor," h.y., y mae brenhindod yn cael ei gynnal gan yr eglwys; "araeth o'r orsedd," h.y., oddiwrth yr un a eistedd ar yr orsedd. A'r hyn a arwyddoceir am yr arwydd: "*royalty,*" brenhindod, am y brenin neu y frenhines; "yr oedd y cynnulliad yn cael ei anrhydeddu gan *royalty.*" (5.) Y dansoddol (*abstract*) am y cyfun (*concrete*): megys "*office*" am y lle y mae *office* neu swydd yn cael ei chario ymlaen; "elusen" am yr hyn a roddir mewn elusen, "y mae yn byw ar elusen;" "dyoddefodd anmharch," gweithredoedd o anmharch; "fe'i llwythid âg anrhydedd," h.y., arwyddion o anrhydedd. Neu y cyfun am y dansoddol: megys, "dyosg yr hen ddyn," sef y duedd flaenorol i'r ystâd o ras, yn y Germanaeg, "yr hen Adda."

*Trawsddwyn* (metaphor, Gr. μεταφορά, trosglwyddiad). Trwy hyn y mae enw y naill wrthddrych neu ddrychfeddwl yn cael ei drosglwyddo i wrthddrych neu ddrychfeddwl arall, ar gyfrif y tebygolrwydd rhyngddynt, neu arwedd fo yn gyffredin i'r ddau. Y mae trawsddwyn felly o ddau fath. (1.) Y mae dau wrthddrych cyfun yn cael eu cymharu, ac y mae enw y naill yn cael ei drosglwyddo i'r llall; megys "ceg afon," oddiwrth ei thebygolrwydd i geg creadur byw. Y mae trawsddwyn yn cael ei ddefnyddio yn dra mynych yn enwau planhigion ac anifeiliaid, hefyd offer a phethau a ddefnyddir mewn bywyd cyffredin. Megys, mewn blodau, "*snowdrop,*" "*foxglove,*" "blodau ymenyn," "llygad y dydd" (*daisy, day's eye*), "dant y llew," "*bluebell,*" "*cowslip,*" &c.; mewn anifeiliaid, pysgod, megys "penbwl" (*bullhead*), "bawd y melinydd," &c.; a phethau eraill, megys "*bull's eye,*" "*dovetail,*" "*dog's ears,*" "*bird's eye,*" "*mountain dew,*" &c. (2.) Y trawsddwyn mwyaf cyffredin ydyw dadgan syniadau dansoddol trwy gymhariaeth â syniadau cyfun. Y mae pob enw sydd yn dynodi syniadau dansoddol yn tarddu o syniadau cyfun: mae engreifftiau yn rhy liosog i'w crybwyll,—ymaflyd, amgyffred, cymeryd i fewn, brathair, dibris, uniondeb, camwri.

I symio i fyny y gwahanol droell-ymadroddion: y mae *Cyforddwyn* yn gwneuthur yn neillduol ystyron cyffredinol, ac yn gwneyd yn gyffredinol ystyron neillduol; y mae yn cyfyngu ac yn eangu. Y mae *Trawsenw* yn cymhwyso at un gwrthddrych enw un arall â pha un y mae wedi ei uno trwy berthynas barhaus o achos ac effaith, o arwydd a pheth a arwyddoceir, o gynnwysydd a chynnwysedig, &c. Y mae *Trawsddwyn* yn meddu canlyniadau cyffelyb, wrth gymharu dau wrthddrych rhwng pa rai y mae tebygolrwyddd neu gyfatebiaeth.

Yn awr, mi a elfenaf y troell-ymadroddion hyn, fel ag i gael allan y modd y mae y cyfnewidiadau yma mewn ystyr yn cael eu dwyn oddiamgylch.

Y mae *Cyforddwyn* o ddau fath. (1.) *Cyfyngiad ar ystyr.* Cymeraf engraifft oddiwrth yr ymadrodd, *Yr Adferiad*, h.y., Adferiad brenhiniaeth y Stuartiaid. Yma y mae genym air cyffredinol, "Adferiad," yr hwn a gyfyngir yn ei ystyr gan y geiriau, "y Stuartiaid;" yr olaf ydyw y terfynydd, "Adferiad" ydyw y peth a derfynir. Yn awr, pan siaradwn am Adferiad y Stuartiaid, dywedwn yn unig, Yr Adferiad, ac fe wyr pawb beth a feddyliwn. Y mae Adferiad felly yn cael ei gyfyngu mewn ystyr, ac yn dyfod yn *gyforddwyn;* yn yr amgylchiad yma mae yr holl syniad yn cael ei ddadgan trwy y peth a derfynir; mewn gair arall, mae y peth a derfynir wedi llyncu y terfynydd. O'r ochr arall, ceir y terfynydd yn llyncu yr hyn a derfynir: y cyfoethog, y tlawd, h.y., pobl cyfoethog neu dlawd; felly wythnosolion, misolion, &c., am gyhoeddiadau fo yn ymddangos felly. Yn yr achosion hyn, a llawer o rai eraill cyffelyb, y mae y syniad neillduol a ddynodir gan y terfynydd, ac sydd yn cyfyngu ystyr gyffredinol y gair, wedi dyfod yn ddealledig, ac heb fod eisieu ei ddadgan. (2.) Yr ail fath o gyforddwyn sydd *ehangiad ar yr ystyr.* Cymer hyn le pan ddefnyddir y math am y rhywogaeth, yr unigol am y lliosog, y rhan am y cyfan, yr enw priodol am yr enw cyffredin, fel yn yr engreifftiau a enwyd.

Y mae *Trawsenw*, fel y sylwasom, yn cymeryd i fewn ddau syniad, y rhai a gysylltir trwy berthynas barhaus. Trwy drawsenw, y mae enwau dansoddol yn cymeryd ystyr gyfun, megys *difyrwch*, y gelfyddyd o ddifyru, yna unrhyw beth sydd yn difyru. Hefyd y mae enwau wedi eu ffurfio o ferfau yn myned drosodd o ystyr ddansoddol i ystyr gyfun. Felly y mae dyfodfa, mynedfa, rhodfa, yn wreiddiol y gweithrediadau o ddyfod, myned, rhodio, wedi dyfod i arwyddocâu *drws* i ddyfod, a *ffordd* i fyned, a *lle* i rodio.

Y mae *Trawsddwyn* yn trosglwyddo enw un gwrthddrych i un arall, o herwydd rhyw nodwedd sydd yn gyffredin i'r ddau. Er engraifft, yr ydym yn siarad am *ddail* llyfr, fel y siaradwn am ddail coeden, o herwydd nodwedd sydd yn gyffredin i'r ddau, sef teneuder. Yn debyg yr ydym yn siarad am *droed* bwrdd, am *gefn* tŷ, am *ben* afon, am *droed*, *crib*, *ysgwydd*, a *chefn* mynydd, am *ddannedd* llif, am *wddf* potel, am *fraich* cadair, am *wyneb* cloc, am *frig* tòn: yn yr holl achosion hyn y mae enw gwrthddrych sydd yn rhan o fôd byw wedi ei *drosglwyddo* i wrthddrych arall ar gyfrif y tebygolrwydd sydd rhyngddynt; mewn gair arall, y mae *trawsddwyn* wedi ei ffurfio. Yn yr achosion a grybwyllwyd y mae enw un gwrthddrych [illegible] wedi ei roddi i un arall: ond yn y rhan fwyaf o lawer o achosion, y mae un o'r termau, sef y gwreiddiol, o natur faterol, a'r ail derm o natur ddansoddol. Y mae trawsddwyn o ddau fath: yn y cyntaf y mae y trawsddwyn eto yn weledig; mae yr enw tra yn dynodi y gwrthddrych newydd, eto yn galw i fyny ddelw y cyntaf. Yn yr ail, y mae delw y cyntaf wedi ei anghofio, ac mae yr enw yn sefyll am yr ail wrthddrych, ac yn dyfod yn gyfaddas i hyny. Y trawsddwyn o'r math cyntaf ydyw yr un yn ystyr gyffredin neu rethegol y gair; y trawsddwyn ydyw a ddefnyddir yn [illegible] gan yr [illegible], yr ysgrifenwyr [illegible], megys y bardd, er mwyn rhoddi lliw a darlun-

ioldeb i'w harddull. Yr ydym yn cael trawsddwyn o'r fath yma yn ysgrifenwyr a beirdd yr holl oesoedd, ac ymysg yr holl genedloedd, cyntefig a gwareiddiedig. Yr oedd y beirdd Anglo-Saxon boreuol, er engraifft, yn ei ddefnyddio yn bur fynych yn eu barddoniaeth, lle y gelwir llong nid yn anfynych yn "fôrfarch," gelwir saeth yn "rhyfel-neidr," y galon yn "drysor-gell," y corff yn "asgwrn-gell." Defnyddir trawsddwyn dra phrydferth fel yma gan y bardd Italaidd:—

O, wanwyn, ieuenctyd y flwyddyn!
O, ieuenctyd, gwanwyn einioes!

Y mae ambell i drawsddwyn yn iaith Malay yn dra bywiog: er engraifft, y gair am glefyd y môr a arwydda yn llythyrenol, "ton-feddw;" mae sarhâd yn llythyrenol yn "*charcoal* ar y wyneb;" asgwrn penglin ydyw "cneuen cocoa y glin;" digywilydd ydyw "bwrdd-wyneb." Prin lai cywrain ydyw eiddo y Chinëaid, lle y dynodir mympwyol fel "tri bore, pedwar prydnawn;" anghytundeb fel "myfi ddwyrain, chwi orllewin;" iaith gyfrwys neu berswadiol fel "cyfleus gil-ddannedd, parod flaen-ddannedd;" digofaint fel "rhuad dwfr ymysg ceryg." Yn yr ail math o drawsddwyn y mae y gymhariaeth â'r gwrthddrych cyntaf wedi ei hanghofio gan y meddwl. Fel hyn, pan siaradwn am *ddail* llyfr nid ydym mwyach yn meddwl am ddail coeden; yr ydym wedi anghofio y cysylltiad. Pan glywn y gweithiwr yn son am *crane*, nid ydym yn meddwl ond am yr offeryn i godi pwysau, ac nid ydyw y cysylltiad â'r aderyn o'r enw, y crëyr, yn dyfod i'n meddwl. O ganlyniad trwy fyfyrdod, ac yn ngoleuni geirdarddiad yr ydym yn canfod y trawsddwyn mewn nifer o eiriau yn dynodi gwrthddrychau materol neu syniadau dansoddol: megys *umbrella*, yn wreiddiol, cygod bychan, cysgoden; *pavilion*, yn wreiddiol, glöyn byw; *musket*, yn wreiddiol, cudyll; *cape*, yn wreiddiol, pen; *carbuncle*, yn wreiddiol, glöyn gwynias; *muscle*, yn wreiddiol, llygoden fechan (Ll. *musculus*). Yn yr holl achosion hyn mae yr ystyr wreiddiol wedi ei anghofio. Yn wir, y mae anghofio yr ystyr gyntaf neu eirdarddol yn anhebgorol i bob newyddeiriad neu gyfnewidiad ystyr mewn gair, trwy yr holl droellymadroddion. Heb yr anghofiad hwn, mae yr enw o hyd yn aros yn *gysylltiedig* â'r ystyr gyntaf, ac ni all ei *ddad-gysylltu* ei hun a dyfod yn air annibynol. Mewn *cyforddwyn* rhaid i ni anghofio y terfynedig a'r terfynydd, cyn y gall y naill na'r llall, ei hunan, ddynodi y gwrthddrych newydd. Fel hyn yn *capital*, rhaid i ni anghofio y peth a derfynir, tref neu ddinas, cyn y daw y gair yn sylweddair annibynol, yn golygu prif-ddinas.

Pa fodd y mae yr anghofiad hwn yn cael ei ddwyn oddiamgylch? Mewn dull tra syml. Mae y meddwl, wedi ei daro ar y dechreu gan debygolrwydd yr ail wrthddrych i'r cyntaf, wedi eu cymeryd dan un arwedd a'u dynodi dan yr un enw, yn ymlynu yn raddol wrth yr ail, ac yn raddol yn ei unoli â'r enw a fenthyciwyd oddiwrth y cyntaf, nes y mae yn gwneyd yr enw yn arwydd a ffyddlawn arddangosiad o'r gwrthddrych newydd. Arferiad yn unig sydd yn dwyn oddiamgylch yr anghofiad yma o'r ystyr gyntefig, a chyfaddasiad cyflawn yr enw at y peth newydd.

Oddiwrth hyn y mae yn amlwg y gallai fod ymadroddion ffugyrol, trwy yr arferyniaeth yma o anghofiad, wedi dyfod, i rai personau, yn [illegible] a wrthddrychau newyddion, tra i eraill, y maent eto yn cadw [illegible] eu hystyr cyntefig. Gallai unrhyw un o honom fod wedi gweled hyn wrth ddarllen mewn iaith ddyeithr, pan yn syrthio ar draws gair sydd yn anghynefin i ni, ond sydd yn dynodi rhywbeth cyffredin. Ystyr y gair umbrella, nad ydyw i ni yn ddim mwy na llai na darpariaeth i gadw y gwlaw ymaith, i un dyeithr a fai yn astudio yr iaith, yn awgryma y syniad o haul-gysgoden, *sun-shade.* Sais, wrth glywed y gair Ffrengig *cornet*, a welai ynddo gorn bychan; ond i'r Ffrancwr ni awgrymai ond darn o bapyr wedi ei blygu i bwynt, ymha un y mae y siopwr yn gosod siwgr.

Mae y trawsffurfiadau hyn yn dyfod oddiamgylch yn hynod o raddol, ac y mae yn efrydiaeth dra dyddorol i olrhain geiriau yn ol i'w hystyron cyntefig, trwy eu gwahanol gyfnodau. Gellid dangos y cyfnewidiadau hyn trwy ddau ffugyr. Pelydriad (*Radiation*). Cydgadwyniad (*Concatenation*), a chyfuniad o'r ddau.

Pelydriad yw y mwyaf syml o'r ddau. Cymer le pan y mae gwrthddrych yn rhoddi ei enw i gyfres o wrthddrychau eraill, yn rhinwedd nodwedd sydd yn gyffredin i'r oll. Mae yr enw yn *pelydru* megys o'r gwyrthddrych cyntefig, fel o ganolbwynt, i'r lleill. Er engraifft, *Gwreiddyn.* Dyna yr enw; y *gwrthddrych* a ddygai yr enw gyntaf ydyw gwreiddyn coeden; yna y *nodwedd* a berthyn i'r gwrthddrych gwreiddyn; yna nifer o wrthddrychau neu syniadau i ba rai y rhoddwyd yr enw gwreiddyn,—megys gwreiddyn gair, gwreiddyn drwg, &c., a hyny o herwydd nodwedd sydd yn gyffredin iddynt oll. Drachefn, *Llaw*, gair a drosglwyddir i lawer o wahanol wrthddrychau o herwydd gwahanol fathau o debygolrwydd. (1.) Yr hyn sydd yn nodi, "*hand of a clock.*" (2.) Ei lled, mesur ceffyl, "14 *hands.*" (3.) Ei nerth, "y mae wedi cael y *llaw* uchaf." (4.) Y peth sydd yn dal meddiant, "mae yr eiddo wedi dyfod i'w *law.*" (5.) Sefyllfa, ochr; "ar ei *law* aswy," "ar y naill *law*," "neu ar y *llaw* arall." (6.) Medr, "mae ganddo *law* ragorol at y peth" (7.) Cynnorthwyon, "*dwylaw* ar y dec," "dyro help *llaw.*" (8.) Yr hyn sydd yn celu, "dan *law*," *under hand.* (9.) Yr hyn a wneir gan law, "ysgrifenu *llaw* dda." (10.) Yn cynnwys, "mae ganddo *law* dda at *whist.*"

Mewn Cydgadwyniad, *concatenation*, y mae enw un gwrthddrych yn cael ei drosglwyddo i wrthddrych *arall;* yna y mae ystyr gyntaf y gair yn cael ei anghofio, ac y mae yr enw yn myned drosodd o'r ail wrthddrych i drydydd, ar gyfrif nodwedd *newydd*, yr hwn yn ei dro a anghofir; ac felly ymlaen. Gyda phob ystyr newydd, mae yr un blaenorol yn cael ei anghofio. Gellid nodi llawer o engreifftiau. *Lozenge*, ar y dechreu, a olygai fawl, neu weniaeth; defnyddid ef yn neillduol am arwyddair o glod i farchog a osodid ar ei arfbais; yr oedd yr arfbais ar ffurf neillduol, *rhomboid;* cymhwyswyd yr enw at y ffigyr hwnw, ac at unrhyw ffigyr o'r un ffurf; yna teisenau bychain o'r ffurf hwnw a gymerasant yr enw, ac wedi colli yr ystyr hwnw, gallai teisenau bychain melusion o unrhyw ffurf ei gymeryd, megys *lozenges* rhag peswch. Eto, *Rubric:* i ddechreu, daear goch; yna inc coch; yna teitl mewn inc coch; yna teitl neu gyfarwyddyd mewn unrhyw liw.

*Salary;* yn wreiddiol, swm o halen a roddid yn dâl. *Emo'ument,* yn wreiddiol, taliad arian melinydd; yna ennill, elw. *Marshall,* yn wreiddiol, gwas yn gofalu am feirch, &c.

Yn fynych y mae *cyfuniad* o Belydriad a Chydganwyniad yn cymeryd lle, sydd yn dyfod yn fwy cymhlethedig. Megys *Box,* yn wreiddiol, pren; yna coed pren, a derbynle wedi ei wneyd o goed *box;* wedi colli yr ystyr gyntefig. gelwid unrhyw dderbynle, o ba goed bynag, yn *box ar gyfrif* ei ffurf. Yna cymer Pelydriad le: o'r ffurf yma ar *box,* cymhwysid yr enw at *box* mewn chwareudŷ, at *box* saethu, *box* yn mlaen cerbyd a allai gynnwys clûd teithwyr, ac ar yr hwn yr eisteddai y gyriedydd; yn awr, trwy gydgadwyniad ac anghof o'r ystyr, gellir defnyddio y gair am eisteddle y gyriedydd, pa un bynag a oes *box* dani ai peidio.

Ceir engraifft dda o anghofiad geirdarddiaeth yn ngwahanol raddau ei ddadblygiad yn y gair *dais,* nenlawr, a'i gyfeiriau. Arwyddai y Groeg δίσκος, o'r hwn y ceir y Lladin *discus,* ar y dechreu, peth a deflid, *quoit,* coet, o'r ferf δίκειν, taflu. Gan fod y coetiau hyn yn gyffredin yn grwn o ran ffurf, fe drosglwyddwyd yr enw at wrthddrychau crynion eraill, a daeth *discus* i olygu crwn neu gylch, megys *disc* neu gylch y lleuad,—yr ystyr gyntefig o daflu, o angenrheidrwydd, yn flaenorol wedi ei anghofio. Fe'i cymhwysid hefyd at *haulddeial* crwn. O'r Lladin aeth y gair i wahanol ieithoedd Ewrop, gan ddadblygu gwahanol ystyron. Yn Saesoneg daeth i olygu, ymysg pethau eraill, lestr crwn i gynnwys bwyd, *dish,* dysgl, yna llestr o unrhyw ffurf; yna *cynnwys* y llestr, "Irish stew is an excellent dish;" yn y gwahanol ieithoedd diweddar fe'i cymhwysid yn neillduol at *fwrdd,* ar y dechreu bwrdd crwn, yna bwrdd o unrhyw ffurf (ac o hyny, Ger. *tisch,* bwrdd); yn Saesoneg cymhwysid ef yn neillduol at fwrdd neu safbren i ddarllen neu ysgrifenu arno, *desk, reading-desk, writing-desk.* Felly o air yn arwyddo yn wreiddiol beth tafledig, yr ydym yn cael y gwahanol ystyron, o (1.) *coet,* (2.) cylch, (3.) deial, (4.) llestr i ddal bwyd, (5.) y bwyd ei hun, (6.) unrhyw fath o fwrdd, (7.) bwrdd ysgrifenu neu ddarllen, *desk.* Yn awr mewn hen Ffr. daeth *disc* yn *dais,* ac arwyddai bwrdd, bwrdd ciniaw, ac yn neilluol bwrdd ciniaw a ddefnyddid ar achlysuron arbenig, wrth yr hwn yr eisteddai personau o bwysigrwydd. Yr oedd y byrddau ciniaw hyn ar achlysuron arbenig yn cael eu gorchuddio â *canopy,* gortho, i ochel rhag i bryfed copyn a phethau annymunol eraill ddisgyn ar y platiau a'r gwydrau. Yna trosglwyddwyd yr enw i'r gortho ei hunan; yna i unrhyw fath o ortho yn gorchuddio pulpud, gorseddfainc, neu allor; gelwid hyd yn nod gortho o ddail yn *dais,* hefyd gortho a gerid mewn gorymdaith, dan ba un y cerddai neu y marchogai brenhinoedd neu urddasolion uchel eraill. Ac yr oedd y byrddau ciniaw hyny, heblaw yn orchuddiedig â gortho, hefyd yn sefyll ar uchlawr dyrchafedig, yr hwn ei hun a ddaeth i gael ei alw yn *dais,* fel yn Saesoneg. Felly yn ychwanegol at y saith ystyr a grybwyllwyd yn barod, gallwn ychwanegu yr ystyron o ortho, neu *canopy,* ac uchlawr, neu *blatform.*

Mae y gair *pocket handkerchief* neu *neck handkerchief* yn dangos cyfuniad rhyfedd o syniadau; y mae yn beth a gerir mewn poced neu a wisgir am wddf; ond yr oedd *handkerchief* gynt, dybygid, yn cael ei

dal yn y llaw, ac yr oedd *kerchief*, Ffr. *couvere-chief*, yn ben-orchudd. Felly os elfenwn *pocket handkerchief*, y mae yn beth i orchuddio y *pen* i'w dal mewn *llaw*, i'w chario mewn *poced*.

## II.

Yr ydwyf yn awr yn dyfod at yr ail ran, CYMDEITHAS GEIRIAU.

Nid ydyw geiriau yn byw ar wahân, nac yn ein meddyliau nac ar ein gwefusau. Y maent yn byw ynghyd, megys, mewn cymdeithas â'u gilydd; oblegid fel y maent yn cynnrychioli ein meddyliau, y maent yn adgynnyrchu yn nghyfuniad y frawddeg bob symudiad o eiddo y meddwl, a hyny gyda'r holl gymhlethrwydd o ffeithiau deallтwriaethol sydd yn gwneyd i fyny feddwl. A'i ystyried o'r safle yma, y mae efrydiaeth geiriau yn codi cwestiwn newydd, sef y dylanwad sydd iddynt y naill ar y llall. Mae eu dylanwad ar *ffurf* eu gilydd yn gwestiwn tra eang, ond yn perthyn i efrydiaeth *Phonology*, Seinyddiaeth. Y mae geiriau, sut bynag, yn fynych yn effeithio ar ystyr y naill y llall; y maent yn *ad-weithio* ar eu gilydd. Weithiau y mae geiriau, wedi eu huno trwy ryw berthynas mewn ffurf neu ystyr, yn derbyn trwy *rinwedd*, neu adlamiad, megys, yr ystyron neu y meddwl nad ydyw yn eiddo ond i un o honynt. Fe geir eglurhad da ar hyn yn nharddiad yr enw *East India*. Pan ddarganfyddwyd America, fe gredid ei bod yn ffurfio rhan orllewinol India, ac felly fe alwyd y rhan gyntaf o India a ddarganfyddwyd, Ynysoedd India Orllewinol. Yna daeth India briodol i gael ei galw, mewn ffordd o wahaniaethiad, India Ddwyreiniol. Yr oedd yr ymadrodd *India Orllewinol* felly yn adweithio ar yr ymadrodd *India Ddwyreiniol*.

Mae yn debyg mai trwy yr un achos y daeth y gair *profane* i'w ystyr bresennol. Yr ystyr wreiddiol ydoedd, nid cysegredig, *pro-fanum*, yr hyn oedd o *flaen* neu y tu allan i'r deml, ar wahan oddiwrth yr hyn oedd oddifewn i'r deml, fel y mae eto genym ni yn yr ymadrodd "sacred and profane writings," ysgrifeniadau cysegredig neu sanctaidd, a rhai heb fod felly. Ond trwy gael ei gyferbynu yn barhaus â *sacred* neu gysegredig, y mae wedi dyfod i olygu y gwrthwyneb hollol i sanctaidd neu ddwyfol, h.y., drygionus neu gableddus. Mae y gair *sacred* wedi adweithio ar ystyr y gair *profane*. Drachefn, y mae rhai defnyddiau yn cael eu galw mewn iaith feddygol yn *malignant*, maleisus, am eu bod yn cael eu dilyn gan ddrwg ganlyniadau neillduol; y mae defnyddiau eraill na ddilynir gan y cyfryw ganlyniadau, yn cael eu galw yn *benignant*, hynaws, [illegible] yn hawdd i unrhyw gredu fod yn hynaws. Yma mae y gair *malignant* wedi adweithio ar ystyr *benignant*. Mae [illegible] natur wedi cymeryd lle yn y geiriau [illegible], fel ag y maent, megys, wedi newid lleoedd; *curate* yn wreiddiol oedd [illegible], ac ystyr gyntefig y gair [illegible], ar [illegible] arall.

Fe geir engraifft o un gair wedi gwneud yn dylanwadu ar ystyr un arall ond o natur wahanol [illegible] yn y gair *miniature*, mân-ddarlun, [illegible] neu arlunio gyda *minium*, plwm coch. [illegible] mewn llawysgrifau, y rhai a [illegible], a chan fod yr arluniau hyn yn

fychain, daeth *miniature* i olygu arlun o faintioli bychan, ac yna, mewn canlyniad, unrhyw beth o faintioli bychan. Dylanwadwyd ar yr ystyr, mae yn dra thebygol, gan y gair *minutus*, *minute*, bychan.

Nid ydys i dybied mai adweithiad geiriau ar ystyron eu gilydd ydyw y *rheol*, er fod y fath achosion yn fynych; eto wedi y cwbl eithriadau ydynt yn hytrach na'r rheol. Yn fwyaf cyffredin y mae geiriau yn dilyn eu cwrs eu hunain, yn annibynol ar eu gilydd, fel y gall gair fyned dan gyfnewidiadau mewn ystyr ag y mae rhai sydd yn tarddu o hono, neu rai perthynasol iddo, yn rhydd oddiwrthynt. Fe welir hyn wrth gymharu y fath eiriau a *miser*, cybydd, a *miserable*, truenus; *host*, llettywr, a *hostile*, gelyniaethus; *success*, llwyddiant, a *succession*, olyniad; *physics*, sydd yn delio â deddfau natur yn gyffredinol, a *physician*, sydd yn delio â'r corff dynol; *clerk*, ysgrifenydd, a *clergy*, clerigwyr; *faith*, ffydd, a *faithful*, ffyddlawn. Er y rhwymau teuluaidd sydd rhyngddynt, y mae geiriau, fynychaf, yn byw eu bywyd eu hunain, ac yn dilyn eu tynged eu hunain; fel pan ddiflano gair o arferiad, nad ydyw yn canlyn y diflana y rhai sydd yn deilliaw o hono. *Shoplifter* ydyw dyn sydd yn lladrata o siop; ond mae y gair *lift*, lladrata (y gair Gr. κλέπτω), wedi diflanu o arferiad.

Mae y ffordd hunanol ymha un y mae geiriau yn byw eu bywyd eu hunain, heb falio dim am eu cyd-eiriau, i'w gweled yn yr hyn a ellir alw yn *ymdrech am fywyd* sydd yn barhaus yn myned ymlaen ymysg geiriau, yr un modd ag ymysg anifeiliaid a phlanhigion. Y mae geiriau yn barhaus yn myned ar draws swyddogaethau geiriau eraill, ac yn raddol yn eu gwthio allan o fodolaeth. Yn y ffordd yma y mae miloedd o eiriau yn marw marwolaeth araf, tra y mae geiriau eraill yn cymeryd eu hesgidiau. Fel yma yn Shakespeare, cyfarfyddwn weithiau â'r ferf *hight*, yn arwyddo *a elwir* (engraifft arbenig o ferf oddefol yn Saes.), Ger. *heisst*.

> This gristly beast, which lion *hight* by name.
>
> This child of fancy, that Armado *hight*.

Mae y gair yma wedi cael cymeryd ei le yn raddol gan *call*, galw, yr hwn a olygai yn wreiddiol, ac eto a olyga *to cry aloud*.

Mae yr ymdrech yma am fywyd yn awgrymu trefn gyffelyb mewn ffeithiau, yr un o gyfystyriaeth, *synonymy*. Ar yr olwg gyntaf y mae rhywbeth direswm yn modolaeth gyfochrog geiriau o'r un ystyr; ond fe ddengys ychydig o sylw nad oes mewn iaith drefnus ddim cyfystyron cyflawn. Nid oes unrhyw ddau air yn yr un iaith yn union yr un ystyr â'u gilydd. Y mae i bob gair a ddefnyddir ei swyddogaeth briodol, ac er yn gynghreiriaid, y mae ystyr dau air a elwir yn gyfystyr mewn gwirionedd yn wahanol. Yr ydym yn sicr yn yr iaith Saesoneg yn cael llawer o eiriau gwahanol yn dynodi yr un gwrthddrych: gallai planhigyn, offeryn, neu gynnyrch celfyddyd feddu dau neu dri, neu ragor o enwau; ond nid yw y geiriau hyn, er y gallent fod oll mewn arferiad, yn cael eu harfer yn yr un lle, gan yr un personau; y maent yn lleol, ac o ganlyniad nid ydynt, yn ystyr fanwl y gair, yn perthyn i'r un iaith. (Nid ydyw iaith swydd York neu Northumberland yr un ag eiddo swydd Devon.) Ni ddefnyddia yr un nifer o ddynion ond un

gair am yr un peth, h.y., y mae ganddynt eu hiaith eu hunain. Mae yn wir fod ysgolheigion ac ysgrifenwyr wedi dwyn i fewn i iaith nifer o *gyfeiriau* a chyfystyron, y rhai yn fynych ydynt *bron* yn dynodi yr un *peth*, ond byth *yn hollol*. Gallai y rhithiau o ystyr fod yn bur ysgeifn, ond y *mae* rhithiau o ystyr. Cymherwch y geiriau *frail* a *fragile*; gallai deffiniad y geiriau fod yr un fel ei rhoddir yn y geiriaduron, ond mae yr arfer o honynt yn wahanol. Mewn iaith gyffredin ni all *cyfystyron* perffaith fodoli, ond ar yr ammod fod un o honynt mewn ychydig o arferiad; os arferir y ddau, *ni all eu cyfystyr barhau yn hir*; oblegid ni feichia iaith ei hun â chelfïach diddefnydd, a myn wared o'r naill neu y llall mewn amser; naill ai y mae gwahaniaeth yn cymeryd lle yn eu hystyron, neu fe wthir un o honynt allan o fodolaeth.

Gellid dosbarthu geiriau cyfystyr, yn ol eu tarddiad, i dri math. (1.) Y mae yr un gair yn cymeryd dwy ffurf, trwy ddamweiniau geir-darddiaeth, megys *frail* a *fragile*, y naill a'r llall o'r gair Lladin *fragilis*. (2.) Mae yr un gair yn cael ei gyfweddu yn wahanol, trwy flaenddodiaid neu olddodiaid neillduol, megys *apprehend* a *comprehend*. (3.) Y mae geiriau o wahanol darddiad ac ystyr, yn dyfod, yn nghwrs iaith, i groesi eu gilydd, ac ar ystad neillduol yn eu dadblygiad yn cael eu cymhwyso at yr un syniad, megys *town* a *city*.

## III.

Yr ydwyf yn awr yn dyfod at y rhan ofal o'm darlith, sef MARWOLAETH GEIRIAU.

Pa fodd y mae geiriau yn diflanu o arferiad, neu yn marw? Y maent yn marw o ddau achos. (1.) Y maent yn cael eu hanghofio, am eu bod yn dynodi gwrthddrychau sydd yn peidio a bod. (2.) Y mae geiriau sydd yn dynodi syniadau parhaus yn rhoddi lle i rai eraill.

Yn yr achos cyntaf y mae colled am ffaith ac enw; yn yr ail nid oes ond cyfnewidiad yn unig yn y mynegiad o ffaith sydd yn aros. Gellid dyweyd fod geiriau sydd yn myned allan o arferiad gyda y pethau a ddynodant, yn marw o achosion hanesyddol. Felly y mae rhan helaeth o enwaduriaeth y Canol-oesoedd wedi diflanu am ei bod yn cynnrychioli *gwrthddrychau*, megys arfau, offer, arian bathol, dilladau,—neu *sefydliadau*, ffeithiau neu syniadau cymdeithasol, megys marchwriaeth (*chivalry*), y gyfundrefn wriogaethol (*feudalism*), moesau, chwareuon,—neu *wyddorau*, megys *alchemy* ac *astrology*, y rhai ydynt oll wedi diflanu gyda'r amseroedd hyny. Mae y fath eiriau yn cael eu dwyn i oleuni trwy ymchwiliad allan o hen lyfrau, ysgrifeniadau, a gweithredoedd, ac y maent yn ddigon lliosog i lanw geiriaduron cyfain. Gallwn dybied na fu pob geiriau yn ddigon ffodus i ganfod eu ffordd i ysgrifen neu argraff, fel y mae llawer o filoedd o eiriau, mae yn dra thebygol, wedi diflanu am byth.

Yr ail ddosbarth o eiriau sydd yn diflanu, ydyw y rhai sydd yn dynodi gwrthddrychau neu syniadau parhaus, ac y cymerir eu lle gan eraill. Beth ydyw achosion diflaniad geiriau eu hunain, neu eu hystyron neillduol? Oblegid pan y mae gair yn colli ystyr arbenig, y mae colled megys am air.

Un achos o golli geiriau ydyw *cyfystyriaeth*. Fe geir fod dau air yn gwbl yr un fath, ac y mae y naill yn rhoi ffordd o flaen y llall. Y mae hyn i'w weled yn neillduol yn yr ieithoedd Rhufeinaidd, megys y Ffrancaeg a'r Italaeg, yn enwedig y Ffrancaeg. Mewn geiriau Ffrancaeg, mae yr holl sillau oedd yn Lladin yn dilyn y sill acenol, yn cael eu gadael, a *p*, *b*, *f*, *r*, yn dyfod yn *f* neu *v*. Mewn canlyniad fe ddenai y geiriau Lladin *avis*, aderyn, ac *apis*, gwenynen, yn y Ffrancaeg yn eiriau unsill bychain a disylw, Yn awr fe ddiflanodd y ddau air yma, a chymerwyd yn eu lle darddedigion mwy; aeth *avis* yn *avicellus*, yr hwn yn Ffrancaeg a ddaeth yn *oiseau*, yn Italaeg *angello;* ac aeth *apis* yn *apicula*, yr hwn yn Ffrancaeg a aeth yn *abeille*, Italaeg, *picchia*. Drachefn, fe gynnyrchasai y Lladin *aurum*, aur, ac *auris*, clust, yn Ffrancaeg yr un gair *or;* ni ddarfu ond i un o'r geiriau hyn orfyw a buddugoliaethu ar y llall, lle yr hwn drachefn a gymerwyd gan darddedig trwy *auricula*, Ffrancaeg, *oreill*, Italaeg, *orecchia*. Gellid cael llawer o engreifftiau o un o ddau air cyfystyr yn marw yn Saesoneg; mae yn debyg fod y gair a grybwyllwyd o'r blaen, *lift*, yn yr ystyr o ladrata (Gr. κλέπτω), yn achos o'r fath. Gan fod gair arall o ystyr a tharddiad gwahanol yn yr iaith, gadawyd i hwn farw.

Mae yn debyg fod llawer o achosion eraill o ddiflaniad geiriau, ond o natur rhy ddyrys i'w trafod mewn darlith fer.

Y mae yn aros i gael gweled *dull* eu diflaniad. Y mae cenedlaeth o ddynion, ar fynyd neillduol, yn dechreu rhoddi y goreu i ddefnyddio gair, ac mae y syniad a arddangosai yn cael ei ddadgan trwy air newydd I'r genedlaeth ddilynol fe fydd yn llai cynnefin, ac fe ddaw dydd pan nad yw yn wybyddus ond i ychydig o hen bobl, y rhai a'i cymerant gyda hwynt i'w beddau. Yn yr un ffordd y mae ieithoedd cyfain yn marw. Felly y bu farw y Gernywaeg tua'r flwyddyn 1821, gyda'r hen wraig olaf a'i siaradai. Gadewch i ni obeithio na fydd i'r Gymraeg byth ddilyn ei hesiampl.

---

# Y BRO-ARLUNIWR CYMREIG, RICHARD WILSON.

Yn y rhestr hirfaith o Enwogion Cymru, a'i chymeryd o ddechreuad cof a hanes hyd y flwyddyn 1870, nid oes ond dau enw yn sefyll yn rheng flaenaf y Celfau Cain, wrth yr hyn y meddylir Arluniaeth a Chorfluniaeth; a'r ddau enw hyny, Wilson a Gibson, nid Cymreig mo honynt. Gwir mai Cymry gwladgar oedd y ddeuddyn enwog a'u gwisgent, yn hanu o hen deuluoedd Cymreig, a'r ddau wedi eu geni a'u magu—un ar lân yr afon Dyfi, a'r llall ar lân y Gynwy. Ac o'r ddau hyn, delweddwr oedd Gibson, heb ond ychydig a wnelai âg arliwiaeth; ac felly un arluniwr mewn gwirionedd sydd genym y gŵyr y byd yn dda am dano, sef RICHARD WILSON.

Y mae hon yn ffaith ryfedd pan gofiom mor gyfoethog yn ei golygfeydd ydyw Cymru, a chynifer o estroniaid a ymwelant â hi er ys

[illegible] a sylwai yn ddi- [illegible] yn holl [illegible] Dyffryn Conwy, [illegible] Cymraeg yn dyfod [illegible]

[illegible] dan sylw, nid [illegible] pan na [illegible] a wnaed yn [illegible] y gelfyddyd hon [illegible] mewn cysylltiad [illegible] yn ol yr [illegible] a fu o arddeliad [illegible] gan Eisteddvodau [illegible] athrylith [illegible] y cymmyrch [illegible] rhoddwyd y [illegible] yn Lerpwl :—

[illegible]

[illegible]

Gallesid [illegible] y bussai [illegible] a gafwyd y tro [illegible] yn y byd at [illegible] bobpeth a nodir [illegible] y lili yn [illegible] angenfilod tebyg [illegible]

[illegible] gwerin [illegible] Yr ydym yn [illegible] a godwyd yn ystod [illegible] Gwyddys yn [illegible] yr un tŷ. Yn [illegible] bob Cymro a [illegible] yn barod [illegible] yr ydym bob amser yn [illegible] a pherygleddol, hon a [illegible] a phaent ydyw ein [illegible] yn defnyddio

*Lliw* i arddangos ein meddwl, a chenedloedd eraill (y Groegiaid yn arbenig) yn defnyddio *ffurf*. Ac fel prawf o'r ddamcaniaeth hon, cymerer y *Mabinogion*, a meddylier mor dlawd a fuasai y darlun hwnw o Olwen, sydd wedi ei ddyfynu mor fynych fel na raid ond ei grybwyll—"Pan ddaeth, gwisg o sidan *fflamgoch*," &c. Gallem nodi ugeiniau o engreifftiau cyffelyb; ac am y fabinogi ysplenydd "Breuddwyd Rhonabwy," ymddigrifiad mewn lliwiau gorwych ydyw hono o'i dechreu i'w diwedd—ei gwŷr, ei meirch, ei gwisgoedd, a'i meini gwerthfawr yn hanner ein dallu gan eu dysgleirdeb. Nodweddir barddoniaeth y prif-fardd serchglwyfus, Dafydd ab Gwilym, gan yr un neillduolrwydd. Dyma ei ddesgrifiad o ruddiau ei gariad-ferch :—

> Granau cwyr mewn gryniau calch,
> Grawn gwingoed ar groen gwyngalch ;
> Ceirios addfed, cwrs addfwyn,
> Cwrel, lliw criawol llwyn,
> Dwy sêl o liw grawn celyn,—
> Dagrau gwaed ar deg eiry gwyn.

Mewn lle arall :—

> Ei chlaerwin fin chwerthinog
> A'i grudd mal Rhosyn y Grog.*

* Passion Flower.

Lliw a phaent, fel y gwelir ond darllen ei waith, ydyw yr anelwig ddefnydd o'r hwn y lluniai Dafydd ab Gwilym ei filoedd delweddau prydferth; a'r un modd, Rhys Goch ap Rhicciert, Dafydd Nanmor, Tudur Aled, ac eraill feirdd i lawr i'r ganrif bresennol ac i'r dyddiau hyn. "Môr *gwaed* ar y marwor *gwyn*," ebai Eben Fardd ; "*Glasfor* yn *gochfor* i gyd," ebe Gwilym Hiraethog ; dyna ddull y ddau brif-fardd o ddysgrifio echryslonrwydd rhyfel. Ac ebe Ceiriog, wrth ddarlunio plant Catrin o Ffrainc ar foddi, a'u dillad cochion yn gwibio hyd wyneb y llyn :—

> Lili y dyfroedd a gymerth i'w bron,
> Fantell ysgarlad ar wyneb y dôn.

Fel hyn, dengys ein beirdd a'n llenorion y fath gyfoeth o liwiau a'r fath fedr a chelfyddyd wrth eu trin a'u trafod, fel y mae yn syndod pan yr eir i chwilio am yr arliwyr Cymreig na cheir ond cynifer ag un o honynt. Pa le y mae ein perchenogion y llygad craff a'r llaw gelfydd a all drosglwyddo ar len geinder swynol natur, a phortreadu y dyn yn allanol nes y gwelom trwyddo y mewnol, ac nes hawlio ein boddhad a dwyn y deigryn dystaw diofyn-am-dano i'r llygaid ? Fel y dywedwyd, hyd 1870, nid oedd genym o'r cyfryw ond RICHARD WILSON.

Ganwyd ein hunig arliwydd Cymreig yn y flwyddyn 1713, ac yn Mhenegos, llan bychan llonydd gerllaw Machynlleth, y dywedir yn gyffredin i hyny gymeryd lle. Offeiriad y plwyf hwnw oedd ei dad, y Parch. John Wilson, ar y pryd ; ond nid oes yno yr un cofnod yn llyfr y plwyf o'i enedigaeth na'i fedydd. Parodd hyn i rai o'i fywgraffwyr awgrymu mai yn Gwaenysgor, Sir Fflint, hwyrach, y ganed ef, gan fod y tad, yn ol arfer reibus ei oes, yn dal y fywoliaeth hono hefyd ; ond nid oes yno ychwaith unrhyw gofnodiad o'r ffaith. Felly y mae ei fan genedigol yn ansicr, a rhydd hyny un drwydded iddo,

beth bynag, i blith enwogion. Bernir mai brodor o Drefeglwys, yn Sir Drefaldwyn, oedd y Parch. John Wilson, gan mai yno y dygwyd ef i'w gladdu. Mam RICHARD WILSON oedd Miss Wynn cyn priodi, un o deulu hybarch y Wynniaid o Goedllai, ger y Wyddgrug. Efe oedd y trydydd mab o bump a fu i'r ddeuddyn cariadus hyn; bu y pump feirw yn ddibriod; ac yn ol pob hanes, nid oedd dim neillduol yn yr un o honynt ond RICHARD.

Ond pa le bynag y ganwyd ef, yn mhersondŷ Penegos y treuliodd efe foreuddydd ei einioes, gan roddi prawf yn fuan i'w gymydogion gwledig, ar y muriau, y llidiardau a'r drysau cyfagos, fod yno ddarlunydd ieuanc yn rhywle gerllaw; canys ei chwareu ef pan yn blentyn ydoedd hanner llosgi brigau coed, a'u defnyddio i dynu pob math o luniau—o'r gath ar yr aelwyd hyd Jac Dô ar grib y simddeu. Yr oedd papyr a thaclau ysgrifenu yn brinion, hyd yn nod mewn persondŷ, yn yr oes hono. Rhoddai Mr. Wilson, y tad, bob cefnogaeth i'r dueddfryd anarferol yma yn y plentyn; ond bu ef farw pan nad oedd Richard ond pymtheg oed, a chwalwyd y teulu. Cymerwyd gofal yr arlunydd ieuanc gan ei ewythr, frawd ei fam, Syr George Wynn, o'r Coedllai, yr hwn a'i dygodd i Lundain gan ei ddodi yno dan addysg un o'r enw Wright,—"Arlunydd," meddai Allan Cunningham, "rhy ddinod hyd yn nod i Walpole wneyd sylw o hono." Dyma'r unig grybwylliad a geir am yr ewythr-noddwr, Syr George; ac er na bu yn ffodus iawn yn ei ddewisiad o Wright fel athraw i'w nai talentog, diau iddo ef weithredu goreu y gallai; ond y mae yr un mor sicr na bu cynnydd Wilson dan y ddysgeidiaeth hon ond bychan iawn, ac yn wir i'w alluoedd gael eu crebachu yn hytrach na'u heangu. Cafodd Wright gyfleusdra am chwe' blynedd i adnabod athrylith ei ddysgybl, ac i'w chyfarwyddo ar yr iawn lwybr; ond yn ol pob tystiolaeth, nid oedd y llanc nemawr pellach ymlaen ar derfyn ei dymmor addysg nag yn ei ddechreu—hwyrach, fel y dywedwyd, ei fod yn nês yn ol.

Pan yn 21 oed (1734) gadawodd ei athraw carbwl, a dechreuodd arlunio ar ei gyfrifoldeb ei hun; ac yr oedd arluniaeth, fel celfyddydau eraill, y pryd hwnw yn ei babandod yn Mhrydain. Yr unig arluniwr o nod yn y wlad hon oedd Hogarth, er y myn llawer mai gwawdarluniwr (*caricaturist*) yn unig oedd yntau. Deng mlynedd yn ddiweddarach na Wilson y ganwyd Syr Joshua Reynolds; ac yr oedd Thomas Gainsborough, yr hwn a gyplysir gyda Wilson fel sylfaenwyr broarluniaeth ymysg y Saeson, yn ieuengach o rai blynyddau na Reynolds.

Y mae cryn amrywiaeth barn ymhlith beirniaid parth teilyngdod celfyddydol Wilson tua'r amser hwn; rhai a ddywedant mai digon canolig ydoedd, er y cydnabyddant ar yr un pryd ei fod yn rhagori cymaint fel y cafodd ei ddewis gan Esgob Norwich i dynu darlun o'i ddau ddysgybl—Tywysog Cymru a'r Duc o York. O'r tu arall, dywed Edwards yn ei *Anecdotes of Painters*, nad oedd neb tebyg iddo am lun pen, a'i fod yn ei fedr i drin lliwiau yn hafal i Rembrandt. Mae yn debyg mai tua'r canol rhwng y ddwy dybiaeth y safai ein cydwladwr. Teflir ychydig o oleuni ar y ddadl, hwyrach, gan y ffaith fod y nifer lliosocaf o'i bortreadau yn y cyfnod dan sylw wedi myned i ebargofiant; a'r hanesyn goreu sydd ar gael am yr un o honynt ydyw

i'w bortread llawn maint o J. H. Mortimer, gael ei brisio gan John Britton, un a wyddai werth y cyfryw, i £157 10s., a'r hwn, yn 1842, a ysgrifenodd draethodyn arno ac ar bortreadau eraill Wilson. Fel hyn, yn ymladd â'r tònau y bu yn Llundain hyd 1749, ac erbyn hyny yr oedd wedi casglu digon o arian oddiwrth ei waith, beth bynag oedd ei deilyngdod, i allu fforddio myned i'r Eidal er gweled ac efrydu gweithiau pencampwyr y byd yn ei hoff gelfyddyd.

Cafodd yn Rhufain dderbyniad croesawus fel yr haeddai dyn o dalent, a cheisid a mawrheid ei gymdeithas gan enwogion celf a chan uchelwyr cyfoethog. Parhaodd yno i efrydu portreadaeth am rhyw yspaid, a chyda chryn lwyddiant, meddir. Ond un bore, daeth cyfnewidiad sydyn—trofa annysgwyliadwy, yn llwybr ei efrydiaeth; un o'r dygwyddiadau diofyn am danynt hyny nad oes odid i fynyd hebddynt—weithiau er gwell a phryd arall er gwaeth. Iddo ef cauodd yr amgylchiad a nodir y ffordd i gyfoeth, ac agorodd un i enwogrwydd. Yr oedd ar ymweliad âg efrydfa yr arlunydd enwog Zucarelli; a thra yn dysgwyl yn lled hir am ddyfodiad y meistr i mewn, er mwyn difyru ei hun, efe a dynodd ar y ffenestr lun yr olygfa brydferth a welai oddiallan. Pan ddychwelodd Zucarelli, sylwodd yn y fan ar y darlun, mawr foddhäwyd ef ynddo, a gofynodd i Wilson os oedd efe erioed wedi efrydu y gangen hono o arluniaeth; ac os nad oedd, am iddo ymroi ati ar unwaith, a bod llwyddiant sicr ar ei gyfer. Hefyd, rhoddai Vernet, arlunydd Ffrengig enwog a breswyliai yn Rhufain, gynghor cyffelyb; ac addawodd y ddau eu cymhorth iddo gyda'i efrydiaeth newydd. Derbyniodd ein cydwladwr eu cynghor yn ddibetrus; a chynnyddai fel bro-arluniwr yn gyflymach nag y dysgwyliai ef ei hun nac un o'i gyfeillien. A pha ryfedd, gan fod yn ei feddwl adnoddau at y gwaith a drysorwyd yno er pan oedd efe yn ieuanc, wrth syllu ar olygfeydd swynol a rhamantus gwlad ei enedigaeth?

O hyn allan rhoes Wilson ei holl fryd ar fro-arluniaeth (er chwilio pob *Geiriadur* wrth law dyma y gair goreu allaf gael am *landscape-painting*), a chafodd bob cymhorth gan y celfyddydwyr enwog oeddynt yn Rhufain ar y pryd. Yr oedd eu hymddygiad tuag ato fel yr eiddo boneddigion at foneddwr, a gwŷr o athrylith at eu cydryw, ac yn dra gwahanol i'r dull y trinwyd ef yn Llundain ar ol hyn. Er engraifft, ymwelodd Vernet, yr arlunydd a nodwyd eisoes, â'i efrydfa un diwrnod, a chafodd ei fod newydd orphen darlun ysplenydd; deisyfodd ei gael, ar yr ammod y cai Wilson un o'i waith yntau yn gyfnewid. Derbyniwyd y cynnyg yn llawen, a rhoes Vernet ef i fyny yn ei arddangosfa ei hun; a phan alwai Sais yno a chanmawl ei waith ef, atebai, "Paham na chanmolwch waith un sydd yn teilyngu ei ganmawl yn fwy na fi? Dyma i chwi ddarlun o waith eich cydwladwr, Richard Wilson!"

Dewisai Wilson yn Rhufain gynllun o'i eiddo ei hun i efrydu; yn lle copïo gweithiau yr hen bencampwyr, ymroddai ef i feistroli egwyddorion eu rhagoroldeb. Dewisai ei wrthddrychau yn ddigyfrwng o natur, a thrwy hyny daeth yn gydnabyddus âg amrywiol olygfëydd digymhar yr Eidal, a throchodd ei ddarfelydd yn eu hysblander. Dywed Allan Cunningham am ei ddarluniau yr amser hwn: "Y mae

awyr bur yn anadlu ynddynt, heuliau dysglaer yn eu cynhesu, adfeilion temlau yn eu britho, a phelydra trwyddynt yr afonydd grisialaidd a'r llynau llachar sydd yn nodweddu y wlad glasurol hono." Lledodd ei glod yn fawr yn Rhufain, lliosogodd ei ddysgyblion; ac fel teyrnged o barch i'w athrylith, tynodd yr enwog Mengs ei bortread, ac ad-dalodd yntau y pwyth gyda darlun gwerthfawr.

Wedi aros chwe' blynedd yn yr Eidal, yn 1755 dychwelodd i Lundain. Bu yr yspaid hwnw yn chwe' blynedd o lwyddiant a chysur iddo. Yr oedd y ganmoliaeth a ennillasai yn Rhufain fel bro-arluniwr dïail wedi ei ragflaenu i brifddinas ei wlad, ac ychydig o'r un dosbarth ag ef a ddychwelasant i Brydain, na chynt na chwedyn, dan ragarwyddion am ddyfodol mwy hwylus a heulog. Yn gyntaf, yr oedd yn ddyn hardd, tàl, a lluniaidd; gwisgai yn ysplenydd, fynychaf mewn gwisg werdd wedi ei chyfrodeddu âg aur; ac o ran moes ac ymddygiad, ni fuasai raid iddo wyleiddio yn nghwmni tywysogion ac ymherawdwyr. Cymerodd ystafelloedd gorwych yn y rhan fwyaf ffasiynol o'r ddinas; cyrchai uchelwyr o nôd a dysg ato, ac ystyrid hi yn fraint cael bod yn ddysgybl i un a gymeradwyid mor uchel gan brif arlunwyr ei oes. Wrth gwrs, yr oedd digon o ddynion bychain yn Llundain yn ddigon parod i'w fychanu ef a'i fro-arluniaeth, ac i ddyn o uchelfryd ac unplygrwydd cymeriad, fel Wilson, newydd ennill edmygedd y prif-feistriaid ar làn y Tiber, yr oedd yn ddigon anhawdd dyoddef diraddiad maleisus torllwyth o deulu bôn-y-glêr ar làn y Tafwys. Pa fodd bynag, ychydig o niwed a wnaethant iddo am rai blynyddoedd. Danfonodd ei ddarlun ardderchog—ei gampwaith yn marn rhai—o "Niobe," i Arddangosfa 1760, a chanmolid ef yn fawr; a chododd ei "View of Rome" ef i fod yn ben ar holl fro-arlunwyr Prydain, heb os nac oni b'ai. Prynwyd y cyntaf gan y Duc Cumberland, a'r ail gan Ardalydd Tavistock; er y dywedir mai bychan yn ol yr herwydd oedd y pris a gafodd yr awdwr am danynt. Cyfrifir hyn hefyd i ddichellion un neu ddau o'i wrthwynebwyr. Mae yn ddiddadl fod ei elynion bellach yn dechreu cael y llaw uchaf arno,—eu bod yn amlhau ac yn hyfhau. Nid oedd ein cydwladwr ychwaith fawr o *diplomatist;* ychydig o honom sydd; yr oedd ganddo ddull gyda dyeithriaid o roddi'r "gair garwa' ymlaenaf,"—dyna un arall o'n gwendidau cenedlaethol. Y mae'r Cymro wrth reddf ei natur yn garedig a chalongynhes; ond yn lle gwisgo y nodweddion rhagorol hyn yn yr amlwg, cuddia hwynt o dan rhyw gaenen o erwindeb, a bydd y dyeithr am gryn amser cyn ei adnabod a'i brisio yn ol ei wir werth. Fel dynion dwys a dilys yn gyffredin, yr oedd yn chwannog i deimlo i'r byw oddiwrth unrhyw ddiraddiad iddo ei hun neu ei waith; neu fel y dywedir weithiau, yr oedd braidd yn *groendeneu,*—yn brochi wrth ei grachfeirniaid yn lle eu dirmygu. Pe deallasai y natur ddynol cystal ag y deallai pa fodd i drin lliwiau a'r brws, buasai yn un o'r dynion dedwyddaf dan haul; ond yn anffodus i'w gysur tymmorol, nid oedd yn fedrus yn y gelfyddyd gain o ladd gelyniaeth gyda gweniaeth, ac ystryw gyda gwrthystryw. Pan wgodd y byd arno, neu y dyrnaid o ddynion a ystyriai efe yn fyd, mònodd trwyddo, a thynodd ei hun iddo ei hun. Gadawodd ei ystafelloedd gwychion, a chymerodd rai llai yn rhywle tua chymydogaeth Tottenham Court Road; ac yno am yspaid y trigianai tad bro-arlun-

iaeth Seisonig—yn paentio megys am ei damaid bara, tra yr oedd corachod y gelf yn ei ymyl yn ymdroi mewn cyfoeth ac yn derbyn miloedd o bunnau am ddarluniau nad elai undyn o chwaeth yn yr oes hon i'r drafferth o'u cario gartref.

Syr Joshua Reynolds sydd yn gyffredin yn cael y bai am y rhan fwyaf o aflwydd Wilson. Fel portreadydd, safai Reynolds ar ben y rhestr yn y wlad hon. Plygid i'w farn ar deilyngdod arluniau; ymofynid âg ef gan gyfoethogion fel oracl anffaeledig yn mhobpeth bron a berthynai i'r celfau cain; ac yr oedd yn gydymaith i oleuadau llenyddol yr oes hono, megys y Dr. Samuel Johnson, Garrick, Goldsmith, &c. Ond er ei holl ddoniau a'i freintiau, *dyn* bychan bach ydoedd; hunandybus, hunangarol, ac eiddigeddus o'i ogoniant. Nis gallai oddef i undyn ddyfod yn agos at ei orseddfainc; ac yr oedd yn ddigon naturiol iddo deimlo yn bryderus am ei ddylanwad pan ddaeth un o alluoedd Richard Wilson i'r un cysawd ag ef. Hustyngwr llechwraidd ydoedd, yn gwenwyno gyda gwên ragrithiol, ac yn melldithio mewn canmoliaeth egwan. Erlidiodd Wilson hyd farw, ac ar ol hyny, dan gochl deneu ffalsedd a ffug gyfeillgarwch. Mewn ciniaw perthynol i'r *Royal Academy*, a Reynolds, fel llywydd y sefydliad, yn y gadair, cynnygiodd iechyd da Gainsborough, gan ddywedyd mai efe oedd y *landscape painter* goreu yn yr ystafell. Sarhâd bwriadol i Wilson oedd y sylw; a chan iddo deimlo i'r byw oddiwrtho, atebodd yn hyglyw a chynhyrfus y dylasai'r cadeirydd ddyweyd ei fod y *portrait painter* goreu hefyd,—yn y gangen olaf yr ymfalchïai Reynolds.

Pan oedd ein cydwladwr ddyfnaf yn ei adfyd, daeth y swydd o Lyfrgellydd y *Royal Academy* yn wag. Gofynodd yntau am ei chael; a chan ei fod yn aelod o'r sefydliad, yn wir yn un o'i gychwynwyr, nis gallai ei wrthwynebwyr yn hawdd ei gwrthod iddo, yn enwedig gan mai ychydig bach oedd y tâl. Gellir casglu pa mor gyfyng ydoedd ei amgylchiadau pan yr ymostyngai y fath ysbryd balch i grefu am gardod mor gwta a hon oddiar law y rhai a ddirmygai. Mae'n wir i rai o'i gyfeillion barhâu yn ffyddlawn iddo a charedig tuag ato yn ei holl helbulon; a'r penaf o honynt oedd Syr William Beechey, yn mhalas yr hwn, oddiallan i ddinas Llundain, y treuliai efe ysbeidiau o amser dedwydd yn nghanol tymhestloedd blinion.

Bu yn byw yn Llundain ar ol dychwelyd o'r Eidal am tuag ugain mlynedd; ond gan ei fod erbyn diwedd yr amser hwnw wedi cefnu ar ei driugain oed, pallasai ei ȳni a'i fywiogrwydd i ymladd â'r byd ac â'i elynion. Yn wir dywedir eu bod hwythau wedi lliniaru cryn lawer tuag ato yntau, ac fod hyd yn nod yr uchelfryd Reynolds wedi ymddirioni cymaint wrth weled darostyngiad dyn o gynneddfau mor ddysglaer, fel yr annogodd un neu ddau o'i gyfeillion cyfoethog i brynu ychydig o'i ddarluniau a rhoddi pris go lew am danynt. Dyna ddywed amddiffynwyr y dawnsfeistr ffals fel ymddiheurad dros ei ymddygiad annheilwng.

Pa fodd bynag, bu farw un o'i frodyr yn Nghymru, gan adael tipyn o dir ac arian iddo; a thua 1775 cefnodd ar y Brifddinas, a daeth i fyw at gares iddo a breswyliai yn y Colomendy, palas hardd mewn llanerch hyfryd yn mlaen Dyffryn Alun. Yr oedd yn anhawdd i ddyn a luchiwyd ar dônau bywyd gael hafan mwy dymunol i dreulio pryd-

nawn einioes o'i fewn na chwm llonydd Llanferres, cymydogaeth Maeshafn, neu fel yr adwaenir y lle fynychaf yn bresennol, "Ardal y *Loggerheads.*" Gorwedda ar derfynau Dinbych a Fflint; ei erchwyn ar y tu gorllewinol ydyw cadwen-fynyddau Clwyd, ac ar yr ochr ddwyreiniol creigiau cellt Gwernymynydd. Llifa yr afonig fechan Alun yn hamddenol a thawedog hyd waelod y cwm,—nid yw ei thrwst hi ond ar uchelwyliau llifeiriant byth uwchlaw siffrwd. Rhed y brif-ffordd sydd yn arwain o'r Wyddgrug i Ruthyn ar draws y cwm, ac yna ar hyd ei lechwedd; ond er pan agorwyd y rheilffordd trwy Ddinbych rhwng y ddwy dref, gallech saethu magnel ar hyd milldiroedd o honi heb beryglu bywyd undyn. Ychydig o aur enwogrwydd a gloddiwyd o'r fangre; hyd y gwyddom, yr enwocaf ydoedd y Dr. John Davies, o Fallwyd, er ei fod ef yn dalp o gryn faint a gwerth. Ond yr hwn sydd yn hoff o natur pan fyddo ar ffurf llain o Wyllt Walia, a gaiff wledd wrth syllu ar y gesail hyfryd hon, lle mae y graig noeth a'r ddôl ddeiliog yn gwgu ac yn gwenu yn ngwynebau eu gilydd, a'r palas cain a'r bwthyn gwyngalch yn ymryson pa un yw'r harddaf.

Dyg yr enw "Ardal y *Loggerheads*" ni i gysylltiad â Richard Wilson, canys efe fu yr achlysur o'i galw felly. Uwch ben drws tafarndŷ bychan sydd ar ochr y brif-ffordd ac yn min yr afon, gwelir llun dau ynfytyn, ac o dano y geiriau, "*When shall we three meet again?*" Llawer edrychydd dinlwod a safodd o'i blaen, gan synu pa fodd yr oedd dau yn gwneyd tri; ac ymholiad y symliaid hyn ydyw prif ddifyrwch yr ardalwyr gwledig o oes i oes. Wilson a baentiodd yr arwyddlun hwnw gyntaf, yn un o'i yspeidiau hamddenol, ac a anrhegodd y publican âg ef; cyn hyny, gelwid y tŷ yn "*Waterside Hotel,*" "*Fama View,*" neu rhyw enw ardderchog o'r fath. Cyfeirir at y lle gan Fardd y Nant yn un o'i chwareuon:—

'R un fath a *sign* y ddau bendefig,
Sydd ar y ffordd rhwng Rhuthyn a'r Wyddgrug.

. . . .

*There's a company of Loggerheads in this place,*
*My brother's face, good morrow.*

Wedi i waith Wilson aros i fyny am rai blynyddau, tynwyd ef i lawr, trwy orchymyn Mrs. Garmons, o'r Colomendy, a dodwyd copi o hono yn ei le. Yr oedd yr hen arlunydd bellach mewn amgylchiadau cysurus, ymhell oddiwrth erlidwyr Llundain, ac yn nghanol golygfeydd wrth fodd ei galon. Cymerai ei fyd yn hamddenol, gan droi yn mysg ei gymydogion dysyml, ac yn fawr ei barch ganddynt. Arluniai dipyn wrth ei bwys, a rhodianai hyd y llechweddi cyfagos, a llwybrau y coedwigoedd gerllaw; a'i gyfrinach yn y crwydriadau hyn ydoedd ei ymlyngar a deallus. Ond yr oedd yn eisieu arno yr hyn nis gallai cyfoeth na hamdden eu rhoddi, sef nerth ac iechyd i'w mwynhau; a disgynai barug henaint yn gyflym ac yn drwm arno. Yr oedd llesgedd yn cwtogi hyd ei rodfeydd, yn byrhâu ei gam, ac yn lleddfu ei ysbryd bywiog. Un boreu oer oed heulog, yn niwedd Ebrill, 1782, cerddodd allan, ond eraill a'i cludasant yn ol. Dywed traddodiad, sydd yn aros eto yn yr ardal, mai ei neges y boro hwnw ydoedd myned i dynu llun hen bren llyfanen ag oedd yn anwyl ganddo, a furiesid i lawr y noson cynt gan dymhestl o wynt, cyn i'r coedwyr ddyfod i'w ysgythru; iddo eis-

tedd ar faen gerllaw, a chael ergyd o ryndod, a syrthio i lawr mewn math o lewyg. Rhedodd y ci gan udo tua'r palas; aeth at y morwynion i'r gegin, a gwnai bob ystum a allai er ceisio dyweyd wrthynt beth a ddygwyddasai,—megys eu llusgo gerfydd eu dillad yn nghyfeiriad y fan y gorweddai ei feistr,—a chafodd ganddynt o'r diwedd ddeall fod rhywbeth o'i le, a'i dilyn. Cafwyd y claf yn y sefyllfa a nodwyd, yn ddiymadferth ac yn analluog i yngan gair, a chludwyd ef gynted gellid i'r tŷ. O dipyn i beth, hybodd ychydig; cwynai gan flinder a phoenau; gwrthodai bob lluniaeth; a bu am rai dyddiau yn dihoeni felly "rhwng bywyd a bedd," nes y cauodd ei lygaid am y tro diweddaf ar olygfeydd y "ddaear hawddgar hon."

Claddwyd ef yn mynwent Eglwys y Wyddgrug, a dodwyd cist hardd yn mhen rhai blynyddau ar ol hyny i nodi y llecyn, ac yn doredig arni:—

The remains of
RICHARD WILSON, Esquire,
Member of the Royal Academy of Artists.
Interred May 13th, 1782. Aged 69.

Yr ydym yn cyfieithu yr hyn a ganlyn o waith Allan Cunningham ar *Great English Painters*:—"Fel bro-arlunydd, medd Wilson deilyngdod uchel; ei drychfeddyliau yn y cyffredin yn urddasol, a'u gweithiad allan yn rymus a dysglaer, ac anfynych y rhagorwyd arno am newydd-deb gwlithog, gloewder naturiol a threfniad dymunol ei olygfeydd. Ymgodai ar unwaith o farweidd-dra dof yr olygfa gyffredin, i fawredd ac ardderchogrwydd naturiol; mae ei ffrydiau fel trigfanau y dwfr-wyryfon; ei fryniau yn gyrchfeydd cymhwys i'r awenau; a'i demlau yn deilwng o dduwiau. Yr oedd ei holl galon yn ei gelfyddyd a'i holl siarad a'i freuddwydion am fro-arluniau."

"Yr oedd Wilson," ebe Frueli, wrth draethu ar Gelf yn 1801, "yn sylwi ar natur yn ei holl ymddangosiadau, a chanddo gyffyrddiad nodweddiadol i'w holl ffurfiau. Ac er mai ychydig oedd cystal ag ef, a llai fyth a ragorent arno, am newydd-der gwlithog a goleuadau dystaw yr hwyr, y mae ei fawredd fynychaf wedi ei uno gyda dychryn, ffwdan a therfysg, yn hytrach na chyda llonyddwch a thawelwch. Rhestrir ef yn awr gyda chlasurwyr y Gelf, er nad oes nemawr dros y bummed ran o ganrif er pan ryddhäodd angeu ef oddiwrth anwybyddiaeth ddifraw beirniaid, cenfigen gwrthymgeiswyr, ac esgeulusdod cyhoedd dichwaeth; canys yr oedd Wilson, gweithiau yr hwn yn fuan a hawlient brisiau cyfartal i'r eiddo Claude, Poussin, neu Elzheimer, yn tebygu yn ei ffawd i'r olaf, a bu fyw a marw yn agosach i eisieu na digon."

Y mae bro-arluniau Wilson yn lliosog, ac yn wasgaredig, fel y dylent fod, yn yr orielau cyhoeddus ac anghyhoedd. Fel rheol, cynnyrchion ei ddarfelydd ydynt—ffrwyth ei ddychymyg yn hytrach na chopïau caeth o natur; eto y mae digon o natur ynddynt i foddio'r symlyn mwyaf cyffredin, a digon o farddoniaeth i wynfydu y chwaeth uchaf. Weithiau, mae'n wir, byddai yn paentio golygfeydd ail llaw, ond digon diflas ydoedd caledwaith di-awen felly ganddo; canys preswyliai ei feddwl ef beunydd beunos rhwng mynyddau ac ar finion afonydd enwog

mewn cân a chwedl; carai ef ymdroi oddeutu adfeilion temlau, a rhodio hyd feusydd lle cyflawnwyd gwrhydri ac yr ymddangosodd duwiau ymysg dynion. Anfynych y bu yn ffodus gydag unpeth; tynodd lun yr olygfa o Erddi Kew i'r brenin—gwaith ysplenydd o ran lliw, a phrydferth o ran trefniad, ond dychwelwyd ef gan ei fawrhydi; ac ni chydnabyddwyd tlysni awenyddol ei gynnyrchion nes oedd eu hawdwr tu draw i gyrhaedd canmoliaeth y byd hwn.

Dengys enwau ychydig o'i brif weithiau yn mha ysbryd hanesyddol a barddonol y dewisai ei destunau:—"Marwolaeth Niobe," "Phaëton," "Bore," "Golwg ar Rufain," "Tŷ Mecænas yn Tivoli," "Celadon ac Amelia," "Golygfa ar yr afon Po," "Apolo a'r Tymmorau," "Meleager ac Atalanta," "Cicero yn ei Gartref," "Llyn Narni," "Golygfa ar Gyffiniau Baiæ," "Y Tiber gerllaw Rhufain," "Teml Bacchus," "Cartref Adrian," "Pont Remini," "Llyn Rosamond," "Pont Llangollen," "Castell Dinas Bran," "Teml Venus yn Baiæ," "Bedd Horatii a Curatii," "Pont doredig Narni," ac "Afon forwynion yn ymdrochi."

O ran ei ddyn allanol, yr oedd dipyn talach na'r cyffredin; o gorff cryf a thueddol at dewychu; ei ben yn fawr, a'i wynebpryd yn rhuddgoch; yn ei ymddyddanion, yn llawn arabedd a gwybodaeth. Cydsyniai pob un a gafodd y pleser o fwynhau ei gyfeillgarwch ei fod yn ddyn o synwyr cryf, deallgar a choeth, ac ymhob modd yn deilwng o'r gweithiau sydd yn cadw yn fyw enw Richard Wilson.

ISAAC FOULKES.

---

# LLE Y BYGYTHIOL YN Y WEINIDOGAETH.

PAPYR A DDARLLENWYD MEWN CYFARFOD O WEINIDOGION YN LIVERPOOL.

DEFNYDDIR y gair bygythiol genym yn yr ysgrif hon i gynnwys y gwirioneddau a'r athrawiaethau hyny sydd yn tueddu yn uniongyrchol i ddeffroi cydwybodau y gwrandäwyr, i ddinystrio eu tawelwch pechadurus, i'w dwyn yn deimladwy o'u sefyllfa beryglus, ac i'w cynhyrfu i ffoi rhag y digofaint sydd ar ddyfod. Mawr ddrwg pechod; llygredigaeth y galon; pechadurusrwydd y natur; manylder ac ysbrydolrwydd y ddeddf; cyfiawnder a sancteiddrwydd natur Duw; sicrwydd ac ofnadwyaeth y gosb; perthynas cyfiawnder â chosbedigaeth; mai barn Duw yw fod y rhai sydd yn gwneuthur pechod yn haeddu marwolaeth; ac mai cyflog pechod yw marwolaeth, a bod hyn yn dibynu ar gyfiawnder a sancteiddrwydd natur Duw, yn ogystal ag ar gyfansoddiad ac awdurdod ei ddeddf ef.

Amcanwn,

1. Brofi fod i hyn le yn y Weinidogaeth, ac 2. Ddangos beth yw ei le priodol.

Y mae iddo le yn y Weinidogaeth. Diau genyf ein bod oll mor unfarn ar hyn fel, ar un olwg, yr ymddengys yn ddiangenrhaid aros o gwbl i brofi yr hyn a gredir yn ddiammeu yn ein plith. Eto gan fod syniadau gwahanol yn ymledu ac yn cael eu cyhoeddi o rai o bulpudau ein teyrnas yn y dyddiau hyn, ac nad yw Cymry heb fod mewn perygl, fel eraill, i gael eu llithio gan athrawiaethau newydd a dyeithr, fe allai mai priodol a fyddai i ni yn gyntaf oll brofi y gosodiad fod i'r bygythiol le yn y weinidogaeth. Wrth gwrs y lle blaenaf i droi iddo am gadarnhâd o hyn yw y gyfraith a'r dystiolaeth—Gair Duw, yr hwn yw sylwedd y weinidogaeth yn gystal a rheol holl weinidogion Crist i weithredu wrthi. Gwelir yn amlwg yn y gwirionedd fod i'r bygythiol le yn y weinidogaeth yn ol gosodiad Dwyfol, dan y gyfraith, a than yr efengyl. Am yr hen oruchwyliaeth, cydnabyddir yn gyffredin mai goruchwyliaeth fygythiol mewn modd neillduol ydoedd: cyhoeddiad o fygythion Duw yn erbyn pechodau a throseddiadau o'i ddeddf sanctaidd Ef. Yr un oedd natur swydd prophwyd o dan yr oruchwyliaeth hono a swydd gweinidog dan yr efengyl, sef bod yn enau cyhoeddus dros Dduw wrth ddynion. Tystiolaethu cenadwri Duw wrth y bobl oedd gwaith y prophwyd, a cheir digon o esiamplau i brofi fod i'r bygythiol le pwysig yn ei genadwri, yn ol gorchymyn Duw ei hunan. "Llefa â'th geg, nac arbed, dyrchafa dy lais fel udgorn," meddai wrth Esaiah, "a mynega i'm pobl eu camwedd, a'u pechodau i dŷ Jacob." Gorchymyna i Jeremïah "wregysu ei lwynau, a chyfodi a dywedyd wrth Judah yr hyn oll a orchymynai iddo;" ac eglur yw mai chwerw a chroes i'w teimladau hwy oedd y genadwri hono, oblegid rhybuddir ef i beidio arswydo eu hwynebau, rhag iddo Ef ei ddystrywio ger eu bron hwynt. Yr oedd gair yr Arglwydd yn ei enau megys tân, ac fel gordd yn dryllio y graig. Yr oedd y pryd hyny, fel yn awr, brophwydi llyfn eu tafodau yn prophwydo breuddwydion celwyddog, gan hudo dynion â'u celwyddau ac â'u gwagedd, heb wneuthur dim lles iddynt;" ond "pan ofynant i ti," meddai Duw, "Beth yw baich yr Arglwydd? dywed yn eglur wrthynt, Eich gwrthod a wnaf, a mi a roddaf arnoch warthrudd tragywyddol." "Mab dyn," meddai wrth Ezeciel drachefn, "mi a'th wnaethum yn wyliedydd i dŷ Israel," ac fel gwyliedydd yr oedd yn ddyledswydd orphwysedig arno lefaru i rybuddio y drygionus oddiwrth ei ddrygffordd, rhag i'r drygionus farw yn ei anwiredd a'i waed gael ei ofyn oddiar ei law ef.

Ond nid mor rwydd, o bosibl, y cydnabyddir fod i'r bygythiol le yn ngweinidogaeth yr efengyl. Goruchwyliaeth cariad, trugaredd, a gras yw hi. Newyddion da o lawenydd mawr yw swm ei chenadwri. Perswadio a denu yw natur ei gweinidogaeth hi, ac nid bygwth Anmhosibl rhoddi gormod o bwys na lle rhy amlwg i'r gwirioneddau hyn yn y weinidogaeth; ond ar yr un pryd y mae i'r bygythiol le ynddi, yn ol gorchymyn Dwyfol, dan yr efengyl yn gystal a than y gyfraith. "Ewch," meddai yr Arglwydd Iesu, "a phregethwch yr efengyl i bob creadur. Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig; eithr y neb ni chredo a gondemnir." Yn y rhan gyntaf y mae holl addewidion yr efengyl megys wedi eu cydgrynhoi i un frawddeg, a'i holl fygythion wedi eu cydgasglu yn y llall. Ceir crynodeb cyffelyb yn y geiriau hyny: "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo

fywyd tragywyddol; a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef." Yn wir, y mae holl lyfrau y Testament Newydd yn llawn o ymadroddion cyffelyb—ymadroddion sydd yn cynnwys y bygythiol yn gystal â'r dymunol, y chwerw yn gystal a'r melus, yr hyn sydd yn cyffroi a dychrynu yn gystal a'r hyn sydd yn cysuro a dyddanu; ac ar ba dir y gellir yn gyfiawn gau y naill mwy na'r llall allan o weinidogaeth y gair? Mae i'r efengyl, fel i'r gyfraith, ei bygythion; yn wir, cyfraith yw hi, ac felly y maent yn briodol iddi; ond gwahaniaethant yr un pryd oddiwrth fygythion y ddeddf. Bygythion yn erbyn pechaduriaid o herwydd pechodau a gyflawnwyd ganddynt yw bygythion y ddeddf; ond y mae bygythion yr efengyl yn erbyn pechaduriaid am wrthod y waredigaeth a ddarparwyd ar eu cyfer ac a gynnygir iddynt. Gosodwyd hwynt i lawr yn y gwirionedd fel y pregethid ac y cyhoeddid hwynt fel rhan o hono. Oni esyd gweinidogion y gair bwys ar y gwirioneddau hyn yn eu cenadwri, gan eu traddodi yn eglur yn ysbryd yr efengyl, nis gallant fod yn oruchwylwyr ffyddlawn, am eu bod yn attal oddiwrth ddynion ran o gynghor Duw, ac yn ymddwyn yn dwyllodrus tuag at eu heneidiau. Gwan a llesg fydd gweinidogaeth y fath rai, a thrwm a phruddaidd y cyfrif a fydd ganddynt i'w roddi yn y diwedd.

Y mae i'r elfen fygythiol le amlwg hefyd yn ngweinidogaeth Crist. Anhawdd i un meddwl diragfarn ddarllen y bregeth ar y mynydd, a dysgeidiaeth gyffredinol yr Arglwydd Iesu yn ystod ei weinidogaeth gyhoeddus, heb hefyd orfod cydnabod fod yr elfen fygythiol yn cael lle amlwg ynddi. Cyhoedda yn eglur y gwirioneddau mawrion ynghylch ysbrydolrwydd y ddeddf a'i hawliau tragywyddol; cyfiawnder a sancteiddrwydd natur Duw, yn gystal a'i gariad, ei ddaioni, ei drugaredd, a'i gymeriad tadol; perthynas dyn â Duw, a'i gasineb yn erbyn pechod; yr amlygiad anfeidrol o'i gariad yn anfoniad ei Fab, a'r perygl ofnadwy o'i wrthod; natur ysbrydol ei deyrnas, yr angenrheidrwydd am edifeirwch ac ailenedigaeth, mewn trefn i ddyfod yn ddeiliaid o honi, a sancteiddrwydd yn mhawb a berthynant iddi; yr angenrheidrwydd am yr Ysbryd Glân, a'r perygl o bechu yn ei erbyn; a gosodiad Crist gan Dduw i fod yn Farnwr byw a meirw. Cyhoedda y gwirioneddau am y farn ddiweddaf gydag awdurdod a mawredd. Llefara am ei ddyfodiad yn ei ogoniant, ei eisteddiad ar ei orseddfainc, cydgasgliad yr holl genedloedd ger ei fron, a'u didoliad ganddo i ddwy dyrfa, a hyny gyda'r fath nerth a mawrhydi nes peri i ni wrando gyda dwysder a phryder ar y geiriau a benderfynant dynged dragywyddol holl ddynolryw, a theimlo, ar ymadawiad y gynnulleidfa fawr i'w gwahanol sefyllfaoedd, fel pe buasem ni ein hunain a'n tynged wedi ei phenderfynu byth. Un o'r pethau cyntaf a darawai feddwl ei wrandawyr oedd y gwahaniaeth rhwng ei ddysgeidiaeth Ef ag eiddo y Phariseaid a'r ysgrifenyddion—eu dysgawdwyr beunyddiol hwynt. Yn lle cyhoeddi y gwirioneddau mawrion am gyfiawnder, trugaredd a chariad Duw, traethent hwy am y degymau, y phylacterau, y gwyliau, y seremonïau, yr ystumiau priodol mewn gweddïau, a phethau dibwys eraill. Ond am yr Arglwydd Iesu, pregethai Efe fel un oedd yn deimladwy o bwysigrwydd ei genadwri. Dynoethai yn ddiarbed ragrith y Phariseaid, a chyhoeddai yn ddifloesgni waeau uwch eu

penau. Ni phetrusai ddywedyd wrth y rhai a ddibrisient ac a anghredent ei eiriau, y byddai yn esmwythach i'r Ninefëaid ac i breswylwyr Sodom a Gomorra yn nydd y farn nag iddynt hwy. Rhybuddiai ei wrandawyr fod eu gwynfyd neu eu gwae tragywyddol yn dibynu ar dderbyniad neu wrthodiad o'i genadwri. Tra y gwahoddai yn y modd tyneraf bechaduriaid i ddyfod ato, ni cheisiai gelu perygl yr annuwiol, ac ni thaflodd unrhyw ammheuaeth ynghylch y "pryf na bydd marw, a'r tân na ddiffydd" Ni süodd eneidiau i gysgu yn eu trueni â nodau melus gweniaith, ond gyda chariad gonest, gofal pryderus, a ffyddlondeb llawn i'r gwirionedd, rhybuddiai ei wrandawyr yn ddifrifol i ffoi rhag y llid a fydd, a galwai arnynt i edifarhau fel na ddyfethid hwynt. Wrth syllu ar falchder, rhagrith, gwrthnysigrwydd ac anghrediniaeth y rhai a ddeuent i wrandaw arno, gwisgai yr addfwyn a'r gostyngedig o galon zel fel cochl, ac âg eiddigedd yn ei ysu dros anrhydedd Duw a sarheid ganddynt, ymosodai yn ddiarbed arnynt â chleddyf ei enau. Cyhoeddai waeau uwch eu penau, a dynoethai eu rhagrith a'u pechodau.

Yr oedd i'r un elfen le amlwg hefyd yn nysgeidiaeth ei Apostolion. Dengys Pedr yn ei bregeth ar ddydd y Pentecost, trwy yr ysgrythyrau, mai yr Iesu, a groeshoeliasent hwy, oedd y Crist. Gweinidogaeth nerthol a threiddiol oedd ei weinidogaeth yntau. Llefarai yn hyf wrthynt, a daliai gleddyf miniog yr Ysbryd ar eu mynwesau, gan ddywedyd yn groew wrthynt mai HWY, â dwylaw anwir, a groeshoeliasent Dywysog y bywyd. "Yr hwn," meddai Paul "yr ydym ni yn ei bregethu, gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn ymhob doethineb, fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu." Yn ei bregeth yn Antiochia, rhybuddiai ei wrandäwyr i wylied rhag dyfod arnynt y peth a ddywedwyd yn y prophwydi: "Edrychwch, O ddirmygwyr, a rhyfeddwch a diflenwch." Ger bron Ffelix ymresymodd am gyfiawnder, dirwest, a'r farn a fydd gyda'r fath nerth nes y dychrynodd y rhaglaw annuwiol, ac y dywedodd wrtho, "Dos ymaith ar hyn o amser, a phan gaffwyf fi amser cyfaddas mi a alwaf am danat:" ac wrth henuriaid Ephesus tystiai ei fod yn lân oddiwrth waed pawb oll, am nad ymattaliodd rhag mynegu iddynt holl gynghor Duw. Sylweddolai dynged ofnadwy yr annuwiol, gofidiai ei galon o herwydd y difrawder a'u gordoai, a'r difaterwch â pha un yr edrychent ar sylweddau mawrion y byd tragywyddol, a rhybuddiai hwynt yn hyf a ffyddlon o'u perygl ofnadwy. Cyhoeddai yn llawn iddynt ddrwg pechod, a thystiolaethai fod digofaint Duw wedi ei ddadguddio o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion. Rhybuddiai hwynt eu bod oll wrth natur yn blant digofaint, a deisyfai arnynt ffoi at Grist am ddiogelwch. Daeth gan fynegu nad oedd iachawdwriaeth i bechaduriaid trwy weithredoedd y ddeddf, ac eglurodd y ddeddf hono yn ei helaethrwydd a'i phurdeb, gan ddwyn ei hawliau adref at gydwybodau pechaduriaid. Er gwaethaf rhagfarn Iuddewon a Groegiaid, ni phetrusodd ddyrchafu a chyhoeddi Crist croeshoeliedig, a'i gydnabod fel ei Arglwydd a'i Athraw, ac ymdrechodd trwy bob moddion ddwyn pechaduriaid euog a cholledig ato am faddeuant a derbyniad gyda Duw. Dangosodd yn eglur i'r Iuddewon hunangyfiawn nad oedd un gwahaniaeth ger bron Duw yn y weithred o

gyfiawnhau y naill mwy na'r llall. Ni thymherai ei athrawiaeth i gyfarfod âg archwaeth yr amserau, ac nid oedd ganddo un athrawiaeth i'r naill ddosbarth ac un arall i'r llall, ond pregethai yr un gwirioneddau i bawb yn ddiwahaniaeth, heb dderbyn wyneb neb—i'r Groegiaid dysgedig, yr Iuddewon hunangyfiawn, a'r barbariaid anwybodus. Ymddygodd fel gwyliedydd ffyddlawn oedd yn argyhoeddedig o'i gyfrifoldeb ei hun, ac o werth eneidiau anfarwol. Cynghorai Timotheus ieuanc hefyd i rodio yr un llwybr ag a rodiodd ef. "Yr ydwyf fi gan hyny," meddai "yn gorchymyn ger bron Duw a'r Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a farnā y byw a'r meirw yn ei ymddangosiad a'i deyrnas: pregetha y gair; bydd daer mewn amser, allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog gyda phob hirymaros ac athrawiaeth. Canys daw yr amser pryd na ddyoddefont athrawiaeth iachus." Cyfieithir y gair "bydd daer" amryw weithiau yn y Testament Newydd yn "ddyfod arno"—"ddyfod arno yr archoffeiriaid a'r ysgrifenyddion;" "rhag dyfod y dydd hwnw arnoch yn ddisymwth." Unwaith cyfieithir ef yn "osod"—"ac a osodasant ar dŷ Jason." Bydd daer, saf yn ymyl, gwrthwyneba, ymosod. Dyna oedd nodwedd gweinidogaeth yr Apostolion i raddau mawr; ymosod, ymosod i aflonyddu, i wrthwynebu ac i berswadio; ymosod ar gyfeiliornadau, anghrediniaeth, calongaledwch, anystyriaeth, difrawder, ac annuwioldeb ymhob gwedd arno. Defnyddient bob moddion i ymosod ar amddiffynfeydd cedyrn y gelyn. "Arfau eu milwriaeth hwy nid oeddynt gnawdol, eithr nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr." Fel rhai yn aflonyddu y byd yr edrychai eu gelynion arnynt, ac felly hefyd yr oeddynt, a rhai felly yw eu holl ddilynwyr gwirioneddol ymhob oes. Tystion yw pregethwyr. Tystiolaethu yw eu gwaith—tystiolaethu yr hyn a dderbyniasant; ac nid oes modd gwneuthur hyny gyda ffyddlondeb, yr hyn a ddysgwylir mewn tyst, heb fynegu holl gynghor Duw. Y mae rhai gwirioneddau yn llawer mwy dymunol i'r teimlad a llawer mwy cydnaws â natur y tystion nag eraill, a phrofedigaeth aml un o bosibl yw aros gyda'r naill, a hyny ar draul esgeuluso y llall. Mwy hyfryd yw son am gariad Duw nag am ei gyfiawnder, am wynfydedigrwydd y saint nag am gosbedigaeth yr annuwiol, am addewidion ac athrawiaethau nag am fygythion a dyledswyddau; ond nid teimlad sydd i lywodraethu tyst, ond ffyddlondeb i'r hwn y mae yn tystio drosto, ac i'r genadwri a ymddiriedwyd iddo.

Dengys hanes yr Eglwys Gristionogol drwy yr oesau hefyd fod i'r elfen hon le pwysig yn ngweinidogaeth y rhai a arddelwyd mewn modd neillduol gan Dduw i droi llawer i gyfiawnder. Y moddion pwysicaf a mwyaf effeithiol er achubiaeth y byd, yw pregethu. "Gwelodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethu gadw y rhai sydd yn credu." Effaith pregethu nerthol oedd y diwygiadau nerthol a gymerasant le mewn gwahanol oesau. I ddefnyddio geirau Dr. Hughes, "Y mae pob adfywiad mawr fu ar grefydd yn effaith adnewyddiad ar ysbryd a dawn y weinidogaeth. Felly yr oedd dau ddiwygiad mawr yr oesoedd diweddaf—y Diwygiad Protestanaidd a'r Diwygiad Methodistaidd. Y weinidogaeth nerthol a ddygwyd i fod yn y cyntaf o'r cyfnodau hyn, ac a gafodd ei hadnewyddu yn yr ail, ydyw yr Angel sydd yn ehedeg yn nghanol y nef â'r efengyl dragywyddol ganddo."

Na thybier ein bod yn golygu ei bod yn nerthol am ei bod yn fygythiol; nid y dull hwn, nac unrhyw ddull arall ynddo ei hun, sydd yn cyfansoddi nerth y weinidogaeth. Dwyfol yw y nerth, nerth Ysbryd Duw yn cydfyned â hi, ac yn trigo ynddi. Ond ein pwnc ni yn awr yw dangos fod yr elfen hon yn meddu lle dwfn yn y pregethau nerthol hyny a arddelwyd yn y fath fodd, ac a barodd y fath chwyldroadau mawrion yn y byd. Dywedir am bregethau y mynachod cyn toriad gwawr y Diwygiad Protestanaidd, eu bod yn wagsaw, diafael, a thruenus i'r eithaf. Nid oeddynt ond chwedlau traddodiadol anhygoel am sylfaenwyr rhyw urddau crefyddol, y gwyrthiau a gyflawnasent, eu hymladdfeydd â'r diafol, eu hymprydiau, eu gwyliadwriaethau, a'u poenydiau; rhinweddau y dwfr sanctaidd, dychrynfeydd y purdan, a sothach o'r fath. Ond daeth y Diwygwyr allan yn nerth Duw i gyhoeddi yn eofn a gonest wirioneddau sylfaenol yr efengyl: iachawdwriaeth trwy Grist croeshoeliedig; cyfiawnhad trwy ffydd; ailenedigaeth; hawliau y ddeddf, ac felly ymlaen. Dywedir am Luther, fod pob gair o'i eiddo yn disgyn fel taranfollt ar ei wrandawyr. Rhai o gyffelyb ysbryd oedd Wickliffe, Huss, Calvin, Knox, a'r diwygwyr Methodistaidd, Whitfield a Wesley. Dynoethai Latimer yn y modd mwyaf diarbed bechodau y gwahanol ddosbarthiadau a wrandawai arno. Nid arbedid neb ganddo, ni phlygai i'r ddelw aur, ac ni adawai i rwysg a mawredd daearol ei attal i ddywedyd y gwir; ond dangosai i'r brenin ei gamweddau, yr un modd ag i'w ddeiliaid. Pan oedd Harri VIII. unwaith yn gwrando arno safodd i fyny yn y pulpud, ac wrth ei weled, meddai mewn math o hunanymddyddan, "Latimer, Latimer, Latimer; cymer ofal beth a ddywedi, y mae y brenin galluog Harri VIII. yn bresennol." Yna safodd yn fud am enyd ac aeth ymlaen gan ddywedyd, "Latimer, Latimer, Latimer, cymer ofal beth a ddywedi, oblegid y mae Brenin mawr yr holl frenhinoedd yma;" ac yna aeth rhagddo i ddynoethi pechadurusrwydd y llys annuwiol. "Yr wyf yn sefyll," meddai Knox, "mewn man lle y mae y gydwybod yn hawlio i mi ddyweyd y gwir, a dyweyd y gwir a wnaf, digied a ddigio." Ni raid ond darllen pynciau pregethau Jonathan Edwards, yr hwn a wnaeth gymaint yn ei ddydd, ac a ddefnyddiwyd mewn modd mor neillduol fel offeryn yn llaw Duw i ddychwelyd lluoedd o bechaduriaid, na welir ar unwaith fod yr elfen fygythiol yn cael lle amlwg yn ei weinidogaeth yntau. "Cyfiawnder Duw yn namnedigaeth pechaduriaid," "Cosbedigaeth ddyfodol yr annuwiol yn anocheladwy ac yn annyoddefol," "Tragywyddol barhâd poenau uffern," "Pechaduriaid yn llaw Duw digllawn," &c. Wrth bregethu yn Enfield ar y pwnc diweddaf, oddiar y geiriau hyny, "Mewn pryd y llithr eu troed hwynt," dywedir fod golwg ysgafn ac anystyriol ar y gynnulleidfa cyn dechreu yr odfa. Prin yr ymddygent gyda gweddeidd-dra cyffredin; ond fel yr oedd y pregethwr yn myned rhagddo, gordöwyd hwynt â'r fath gyfyngder ac wylofain fel y gorfu arno ddymuno arnynt fod yn ddystaw mewn trefn iddo fod yn glywadwy. Yn y man aeth y cynhwrf yn angerddol, a dywedir i weinidog a eisteddai gydag ef yn y pulpud, yn angerddoldeb ei deimladau, ymaflyd yn ei wisg a llefain, "Mr. Edwards, Mr. Edwards, ai nid yw Duw yn Dduw trugarog?" Ymaflai lliaws o'r gwrandäwyr, megys yn ddiarwybod iddynt eu hunain, â'u

holl nerth yn y colofnau, y pyst, ac ochrau yr eisteddleoedd, fel pe buasent yn teimlo eu hunain eisoes yn myned ar y llithrigfa i'r pwll. Yr oedd ef yn ymresymwr cadarn, ymdrinai gyda manylder ar athrawiaethau mawrion crefydd, ond nid ymfoddlonai heb gyrhaedd y gydwybod a'r galon trwy y deall. Am weinidogaeth y cyfnod hwn dywed un: "O fel yr oeddym yn *smartio* dani. Mynem ni fyned i'r nefoedd ar hyd ffordd esmwythach, ond yn lle lleddfu un iot nac un tipyn i roddi i ni esmwythyd, pwysent arnom yn galetach galetach, gan ein hymlid o'r naill loches i'r llall, fel nad oedd un ymguddfa wedi ei gadael. Gorfodid ni i deimlo fod y gyfraith droseddwyd genym ddirif o weithiau yn gyfiawn. Crogai ei chosbedigaeth danllyd uwch ein penau fel yr oedd yn rhaid ymostwng neu drengu."

Rhoddid lle amlwg hefyd i'r bygythiol gan hen gewri Cymru yn eu gweinidogaeth. I ddefnyddio geiriau Dr. Hughes eto: "Daeth y diwygwyr i'r maes gan gyhoeddi y gwirioneddau mawrion, difrifol, sydd yn trywanu calonau dynion, cyflwr damniol dyn, ac iachawdwriaeth gras Duw. Ac nid eu trafod fel pynciau a wnaent, ond eu bwrw i fysg y bobl fel talpiau o dân—eu cyflwyno ger eu bronau fel geiriau bywiol. Nid pregethu er mwyn diwygio moesau y bobl, a gorfod edrych arnynt yn suddo yn ddyfnach i anfoes ac anystyriaeth; ond cyhoeddi yn hyf, 'Mae yn rhaid eich geni chwi drachefn,' a'r nefoedd yn gwneyd y gwaith pan oeddynt hwy yn sôn am dano." Nid rhai yn ceisio perswadio dynion nad oedd y perygl yn fawr oeddynt hwy, ond rhai yn ymosod ar bechodau, gan chwalu esgusodion a dinystrio noddfeydd celwydd pechaduriaid. Tra yn dangos digonolrwydd yr iachawdwriaeth, haeddiannau anfeidrol yr Iawn, a pharodrwydd Duw i dderbyn pechaduriaid, cyhoeddent hefyd fanylder cyfiawnder gofynion y ddeddf, a digofaint Duw yn erbyn pechod, a hyny yn y fath fodd nes peri i'r gwrandawyr deimlo fod yr ystorm ar ymdori am eu penau, a mynych y clywid hwy yn llefain ac yn ffoi am y noddfa a bortreadid mor ogoneddus ger bron eu meddyliau. Dengys y desgrifiad a ddyry Williams o Daniel Rowlands fod i'r bygythiol le mawr yn ei weinidogaeth yntau, a diau ei fod yn ddarnodiad i raddau pell nid yn unig o'r eiddo ef, ond hefyd o weinidogaeth y cyfnod hwnw.

> Daniel chwythodd yn yr udgorn
> Gloew udgorn Sïon fryn,
> Ac fe grynodd creigydd cedyrn
> Wrth yr adsain nerthol hyn.
>
> Boanerges oedd ei enw,
> Mab y daran gadarn gref,
> Sydd yn siglo yn ddychrynllyd
> Holl golofnau dae'r a nef:
> Dewch, dihunwch, oedd yr adsain,
> Y mae 'n dinas ni ar dân,
> Ffowch oddiyma mewn mynydyn,
> Ynte ewch yn ulw mân.

Am effeithiau ei weinidogaeth ar y gwrandawyr, dywedir:—

> Arswyd, syndod, dychryn ddaliodd
> Yr holl werin fawr a mân,
> Nid oedd gwedd wynebpryd ungwr
> Fel y gwelwyd ef o'r blaen.

Gliniau 'n crynu gan y daran,
 Fel pe buasai angeu 'i hun
Wedi cym'ryd llawn berch'nogaeth
 Ar y dyrfa bob yr un.

Clwyfau gaed, a chlwyfau dyfnion,
 Ac fe fethwyd cael iachâd,
Nes cael eli o Galfaria,
 Dwyfol ddwr a dwyfol waed.

Gweinidogaeth yn meddu ar yr un elfenau ag eiddo y tadau yw y weinidogaeth sydd âg angen am dani eto yn ein dyddiau ninnau.

Heblaw hyn oll, y mae yr efengyl y fath o ran ei hanfod fel na ellir ei phregethu yn onest a chyflawn heb roddi lle i'r bygythiol yn y cyhoeddiad o honi. Swm a sylwedd yr efengyl yw Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Pregethu Crist yw gwaith gweinidogion yr efengyl; nid ein hunain; nid ein mympwyon a'n syniadau ein hunain; nid athroniaeth fel y cyfryw, nid moesoldeb sych; ond Crist yn mawredd ei Berson, cyflawniad ei swyddau, cyflawnder ei fendithion, ac anfeidroldeb ei aberth. Ei arddangos fel y Gair oedd gyda Duw, oedd yn Dduw,—a "wnaethpwyd o wraig, a wnaethpwyd dan y ddeddf, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad;" "wedi ei wneuthur yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef;" wedi rhoddi ufudd-dod llawn i'r gorchymynion, gan "fawrhau y gyfraith a'i gwneyd yn anrhydeddus;" "wedi ei draddodi dros ei pechodau ni ac wedi cyfodi i'n cyfiawnhau ni." Nid yw yn oddefol tynu ymaith dramgwydd y groes trwy ei haddurno â blodau, neu geisio ei chuddio â'r hyn a dybir yn amwisg hardd. Gellir trwy dderbyn gyda rhwyddineb gormodol y syniadau newyddion a gyfodant eu penau gyda'r fath gyflymdra, fod mewn perygl o droi o'r neilldu neu guddio tramgwydd y groes. Gwelir weithiau bregethwr poblogaidd, a dybir gan lïaws yn feddyliwr cadarn, yn pregethu ac yn codi i sylw ryw un pwnc o athrawiaeth, gan osod o'r neilldu bob peth arall, neu ynte ymdrechu ystumio pobpeth arall i wasanaethu ei hobi ef; traetha weniaeth a cheisia berswadio dynion nad yw pechod cynddrwg ag y myn llawer ei osod allan. Dibrisia sancteiddrwydd a chyfiawnder Duw, gan osod y pwys yn gyfangwbl ar ei dynerwch a'i gariad. Pâr hyn i eraill llai nag ef, yn ngwres eu hedmygedd o hono, gofleidio ei athrawiaeth gyda brwdfrydedd, a daw iddynt megys unig erthygl eu ffydd. Teflir pobpeth arall o'r neilldu, a mabwysiedir athrawiaethau sydd yn ddinystriol i Gristionogaeth. Ofnus yw fod tuedd ormodol yn y dyddiau hyn i blygu y groes at ddiwylliant yr oes. Ond gwell fyddai i weinidog beidio dringo i bulpud byth os nad oes ganddo amcan annhraethol uwch mewn golwg nag ennill dynion i edmygu ei ddysg, ei dalent, ei allu i gyfansoddi, coethusrwydd ei iaith, a phethau o'r fath. Rhaid i bechaduriaid wrth rywbeth annhraethol fwy na iaith goethedig, geiriau soniarus, a brawddegau tlysion, i gyfarfod â'r sefyllfa y maent ynddi. Pa werth i ddyn dan deimlad o golledigaeth yn llefain, "Beth a wnaf fel y byddwyf gadwedig?" yw traethawd tlws, cyfansoddiad cywrain, neu resymeg fanol? Un atebiad cyflawn sydd i'r cwestiwn mawr a thragywyddol yna, a hwnw yn dyfod allan o groes Calfaria. "Hwn a osododd Duw yn iawn," &c. Digon o Grist yn y

weinidogaeth a'i gwna yn weinidogaeth effeithiol i gyfarfod âg angen y byd. Y mae efengyl amddifad o brynedigaeth, yn efengyl amddifad o iachawdwriaeth ac o nerth. Prynedigaeth yw grym Cristionogaeth. Rhaid i bob pregethu effeithiol gymeryd hwn, a'r gwirioneddau cysylltiedig âg ef, fel ei sylfaen. Methiant fydd y weinidogaeth os collir golwg ar y gwirioneddau pwysig hyn a gyhoeddir yn enw Duw, sydd yn ymglymu am y gydwybod, ac ydynt, hyd yn nod pan heb arwain i argyhoeddiad, yn gadael yn mynwesau y gwrandawyr ryw ymdeimlad ofnadwy o'u pwysigrwydd, ac o'r ynfydrwydd o'u dibrisio. Rhaid i'r gwirioneddau hyn lywodraethu a rheoleiddio yr oll a ddywedir ar weddau mwy ymarferol bywyd. Rhaid i'r ymarferol a'r moesol yn y weinidogaeth, y cymhelliadau i fywyd ysbrydol a bywyd ger bron y byd, fod wedi eu seilio ar y prynedigaeth, onidê ni bydd nerth ynddynt.

Ond nis gellir pregethu Crist croeshoeliedig heb hefyd bregethu y ddeddf foesol. Gesyd y "gwirionedd fel y mae yn yr Iesu" y Goruchaf allan fel Duw gogoneddus mewn sancteiddrwydd ac anfeidrol gyfiawn, yn llywodraethu y byd trwy ddeddf sydd yn amlygiad o'i gymeriad ei hun, ac felly yn hawlio ufudd-dod llawn a pherffaith; eto mewn cysondeb llawn â'i gymeriad ac âg anrhydedd ei ddeddf sanctaidd ac anghyfnewidiol, yn amlygu ei hun yn Dduw tragywyddol ei gariad a'i ras, anfeidrol mewn trugaredd, yn Dduw cyfiawn ac yn achubydd. Y mae y ddeddf yn athraw at Grist. Purdeb ac anghyfnewidioldeb y ddeddf oedd yn gwneuthur gwaith Crist yn angenrheidiol. Ynddo Ef cafodd ei mawrhâu a'i hanrhydeddu. Dewisodd Duw roddi ei Fab i farw yn hytrach na gwneuthur cam â'i ddeddf. Dengys y ddeddf i ddynion yr hyn ydynt, a'r hyn sydd iddynt i'w ddysgwyl. Ni fraenerir braenar y galon, medd un, ond âg aradr y ddeddf. Rhaid i hon wneuthur cwysau dyfnion yn y galon cyn rhoddi hadau cysur i mewn ynddi. Er nad yw pregethu y ddeddf yn dychwelyd, eto y mae yn fanteisiol i ddwyn oddiamgylch ddychweliad, yn gymaint a'i fod yn cyflawni y gwaith o barotöad iddo. Trefn cadwedigaeth trwy Grist yw yr arddangosiad penaf a wnaed erioed yn llywodraeth Duw o ogoniant ac anghyfnewidioldeb ei ddeddf, ac os mynir gwneuthur lles trwy y weinidogaeth rhaid i ni godi ein llef yn erbyn pechodau a throseddau o honi. "Nid ydym yn pregethu Crist," meddai Dr. Edwards, "os nad ydym i ryw radd yn ceisio pregethu fel yr oedd Crist yn pregethu, a cheir darluniad o hyny yn y bregeth ar y mynydd. Pe pregethid y ddeddf foesol yn ysbryd y bregeth hono, byddai yn sicr o fod yn effeithiol i ddwyn dynion at Grist, i ofyn am faddeuant o'u pechodau trwy waed ei groes Ef. Pan ddangosir moesoldeb yr hyn ydyw mewn gwirionedd yn ngoleuni deddf foesol Duw, yr ydym yn rhwym o deimlo yn euog yn wyneb pob gorchymyn, ac nad oes obaith am waredigaeth ond trwy gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist."

Anmhosibl pregethu Crist, a hwnw wedi ei groeshoelio, yn ffyddlawn, heb hefyd bregethu cyfiawnder anfeidrol a santeiddrwydd gogoneddus natur Duw, a mawr ddrwg pechod. Gallu yr efengyl yw y groes, a gallu y groes yw cariad. Ynddi hi ymddysgleiria cariad anfeidrol Duw at fyd colledig; ond lle y gwelir egluraf ei gariad y canfyddir hefyd amlycaf ogoniant ei sancteiddrwydd, manylder ei gyfiawnder, a mawredd ei ddigofaint yn erbyn pechod; ac nid oes gan

weinidog yr efengyl hawl i esgeuluso na gadael allan o'i genadwri y naill mwy na'r llall o'r gwirioneddau hyn, ond traddodi yn ffyddlawn holl gynghor Duw. Marwolaeth y groes yw y prawf mwyaf ofnadwy a fedd y greadigaeth fod digofaint Duw yn cynneu yn erbyn pechod, a bod haeddiant a melldith pechod y tu hwnt i amgyffrediad meddwl dyn. Tarana llais ofnadwy cyfiawnder yn ocheneidiau, gruddfanau, ac angeu yr Arglwydd Iesu. Cymerodd bechod dyn arno ei hun, ac am hyny rhaid oedd iddo farw, oblegid lle bynag y ceir pechod hawlia cyfiawnder Duw iddo gael ei gosbi. Rhaid i Farnwr yr holl ddaear wneuthur cyfiawnder, a chyfiawn yw i bechod gael ei gosbi. Tystia y groes yn eglur na chyfrifa Duw yr anwir yn gyfiawn, a tharana yn fwy ofnadwy na Sinai ei hun yn erbyn pechod. Cynghor priodol iawn i bob gweinidog yw yr un a roddwyd gan Mr. Henry Rees ar yr achlysur o ordeiniad ei frawd, Dr. William Rees: "Os byddi, fy mrawd, yn pregethu am Dduw allan o Grist, cofia ddyweyd mai tân ysol ydyw. Os cyfeiri at bechadur allan o Grist, dangos ei fod yn ddamniol ar ei dir goreu; os dygi Dduw a phechadur ynghyd, nac anghofia ddyfod â Christ fel Cyfryngwr i'r adwy; os cyfarfyddi â phechadur yn rhedeg ar ol ei chwant, tro ei wyneb at y groes, a gofyn iddo, 'Os gwnant hyn yn y pren îr, beth a wneir yn y crin?' os deui ar draws yr hunan-gyfiawn, dywed wrtho 'Os o'r ddeddf y mae cyfiawnder, yna y bu Crist farw yn ofer.'"

Nid yw yn ddiberygl i ryw fath o bregethu cariad Duw, a gamenwir felly, ac adferiad pawb yn y man o afaelion y gosbedigaeth, godi ei ben yn y dyddiau presennol, gan osod cyfiawnder a deddf o'r neilldu, a bychanu canlyniadau pechod i'r fath raddau nes süo dynion i aros ynddo, a pheri iddynt dybied nad yw eu sefyllfa mor druenus wedi y cwbl, ac felly dawelu eu hofnau a'u dychryn. Gosodir Duw allan fel un yn llawn tynerwch, fel pe mai hyn fuasai ei gymeriad yn gyflawn, heb son am ei gyfiawnder, ei wirionedd, ei uniondeb, a'i sancteiddrwydd. Cariad a thynerwch yw eu pobpeth. Alltudir pobpeth arall o'u credo yn hollol. Ni chydnabyddant un wedd arall arno, ond apeliant yn unig at yr hyn sydd drugarog a thyner ynddo. Nid oes modd canmol gormod ar gariad Duw, ond y mae gwneuthur hyny ar draul dibrisio ei gyfiawnder yn rhwym o wneuthur yr oll yn aneffeithiol ac yn ddinystriol i'r cariad ei hun. Gellir pregethu dyndod, esiampl, hunanaberthiad, graslonrwydd ac addfwynder yr Arglwydd Iesu, yn y fath fodd fel na fyn y byd wrando am yr awdurdod â'r hwn y gorchymyna, y gallu â'r hwn y llywodraetha, ei aberth iawnol, ei gyfiawnder diysgog, y farn gyffredinol, &c. Yn yr un modd cynnyrchir gwyrdroad peryglus oddiwrth y ffydd gan y rhai a osodant yr holl bwysigrwydd ar agweddau moesol yr efengyl. Os yw athrawiaethau o'r fath hyn yn wirionedd, yna bu Crist farw yn ofer, ac y mae angeu y groes y weithred fwyaf anesboniadwy ymhlith holl weithredoedd y Duwdod. Nid oes i'r groes ystyr o gwbl os nad yw pechod y peth mwyaf ofnadwy yn yr holl greadigaeth. Os yw cyfiawnder yn gofyn am iawn, os yw y gosbedigaeth yn annhraethol, beth fydd tynged y rhai hyny a geisiant wneuthur ymaith â'r pethau hyn yn eu gweinidogaeth, yn y dydd y byddant yn sefyll ochr yn ochr â'u gilydd ger bron brawdle Crist? Diogelwch gweinidogion y gair, a dyweyd y

lleiaf, yw cyhoeddi holl gynghor Duw, ac nid ceisio iachâu briwiau yn ysgafn, a dywedyd "Heddwch, heddwch, pryd nad oes heddwch." Ni ellir cyhoeddi yn rhy uchel a mynych fod Duw yn gyfiawn, fod deddf na oddefir iddi gael ei mathru dan draed, a Deddfroddwr y mae yn haws i nefoedd a daear fyned heibio nag i un iot nac un tipyn o'i eiriau ballu.

Ein cwestiwn nesaf yw, Beth yw lle y bygythiol yn y weinidogaeth? Amcan pregethu yw achub y byd ac adeiladu y saint. Ynddo ei hun nid oes i'r bygythiol allu i wneuthur y naill na'r llall o'r pethau hyn. Y mae o'i le pan y ceisir ei ddefnyddio fel gallu digonol i achub dynion. Camddefnydd o hono hefyd yw ei arfer i greu *sensation*, a chynhyrfu teimladau heb fod unrhyw amcan pellach mewn golwg. Os na ddefnyddir yr elfen hon yn briodol, gyr ddynion ymhellach oddiwrth Grist. Cariad yw y gallu sydd yn gorchfygu. Hwn yn unig a ddichon doddi caledwch calon pechadur. Gorfodai Moses ddynion i ufudd dod trwy gyhoeddi deiliaid ei deyrnas yn felldigedig; ond gwahodda Crist, gyda'r tynerwch mwyaf, ddynion i ufuddhau iddo, trwy gyhoeddi deiliaid ei deyrnas yn wynfydedig. Dyma y tant cyntaf a darawyd ganddo yn ei bregeth ar y mynydd, a hwn sydd i fod yn gyweirnod y weinidogaeth. Nid trwy eu bygwth a'u dychrynu y mae dynion i gael eu gwneuthur yn grefyddol mwy, ond eu denu a'u hennill i gyfiawnder trwy gariad a gobaith. Ni all ufudd-dod, yn ol y darnodiad a ddyry yr Arglwydd Iesu o hono, darddu oddiar ofn. Nid yw ufudd-dod ofn ond anufudd-dod cuddiedig. Yn ol dysgeidiaeth Crist, oddiar gariad y mae ufudd-dod i darddu. "O cherwch fi, cedwch fy ngorchymynion." "Yr hwn sydd â'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i." Y mae y ddau yn gysylltiedig ac yn gymhlethedig â'u gilydd. Rhaid i wir edifeirwch darddu, nid oddiar ofn y gosb yn unig, os o gwbl, ond oddiar gariad at Dduw. Felly y moddion cymhwysaf i ennill dynion i osod eu serch ar Dduw yw y mwyaf effeithiol hefyd i weithio edifeirwch yn yr enaid o herwydd pechu i'w erbyn; a'r cyhoeddiad o gariad Duw yn Nghrist yw hwnw. Dyma dodda galedwch calon. Nis gall cyhoeddi y perygl yn unig dueddu neb i ddychwelyd. Y tyner sydd yn dylanwadu gryfaf ar y galon ddynol, ac nid y bygythiol. Os ceisir ein gorfodi, y mae yn ein natur i wrthwynebu; ond os denir trwy gariad, y mae yn ein natur i ddilyn. Y mae y Duw a roddodd y natur hon i ni wedi penderfynu ein hachub yn unol â hi. Golwg ar dynerwch, trugaredd, graslonrwydd a chariad Duw yn Nghrist sydd yn dylanwadu yn effeithiol ar galonau dynion. Ni wna taranau Sinai na mellt y ddeddf, yn unig, ond eu dychrynu; y mae amlygiad o gariad yn denu. Nid yw dychrynfeydd y ddeddf, ynddynt eu hunain, ond yn caledu; ond y mae llef ddystaw, fain cariad, yn toddi. Trwy ddadguddio cariad Duw, ac nid trwy bregethu y ddeddf, yr achubir y byd. Dirgelwch mawr dylanwad yr efengyl yw ei bod yn ddadguddiad o gariad anfeidrol Duw tuag at y byd. Y mae dirnadaeth grediniol o'r cariad hwn gan galon y pechadur yn rhwym, yn ol egwyddorion ei natur ef ei hun, o ladd ei elyniaeth, a'i ennill yntau i garu Duw yn ol. Ond a ydym yn awr wedi cau y bygythiol allan o'r weinidogaeth? Nac ydym, mewn un modd, ond yn

hytrach wedi ceisio ei gyfyngu i'w le priodol ei hun. Deil y bygythiol berthynas gyffelyb â'r weinidogaeth ag a wnai Ioan Fedyddiwr â'r Arglwydd Iesu: parotoi ffordd yr Arglwydd. Moddion i gyrhaedd dyben neillduol yw y bygythiol yn y weinidogaeth, ac nid dyben ynddo ei hun. Dylid defnyddio y bygythiol fel y defnyddia yr amaethwr yr aradr i barotoi y tir i dderbyn yr had. "Braenerwch i mi fraenar." Y mae yn berygl fod ofni defnyddio y bygythiol, rhag archolli teimladau a deffroi cydwybodau y gwrandäwyr, yn brofedigaeth i rai yn y dyddiau hyn, ac felly cadwant draw y gwirioneddau sydd â thuedd ynddynt i gynnyrchu ofn a thristwch. "Nid oes gan rai pregethwyr," medd un, "yr un aradr finiog ar eu tir, ac am hyny nid oes ganddynt yr un dâs yn y gadlas." Pysgotant heb fachau, rhag briwio y pysgod, a saethant heb fwledi o barch i deimladau y rhai yr annelant atynt. Creulondeb ac nid cariad at eneidiau y gwrandäwyr yw hyn. Nid tynerwch yw goddef i ddynion syrthio i drueni yn hytrach na thrallodi eu meddyliau, a'u süo i ddifaterwch a cholledigaeth â gweniaeth, gan gelu neu wadu eu perygl tragywyddol rhag ofn cynnyrchu braw yn eu mynwesau. Y mae cariad gwirioneddol a phryder angerddol am ddiogelwch tragywyddol eneidiau dynion, yn rhwym o beri i'r genad fod yn onest, er y gall hyny beri poen iddo. Rhaid wrth nerth, ie nerth Duw, i ddyweyd y gwir yn llawn wrth bechaduriaid. Gellir pregethu yn esmwyth heb aflonyddu dim ar gydwybodau y gwrandäwyr yn eu pechodau; ond "diod gwsg," meddai y Parch. Hugh Pugh, Mostyn, yw peth felly, ac nid gloew-win puredig. Angeu ac nid bywyd sydd yn y fath weinidogaeth. Rhaid dryllio y galon galed, onidê y mae yn rhwym o wrthod y Gwaredwr. Ni ellir iachâu enaid heb yn gyntaf ei glwyfo. Rhaid deffro y gydwybod cyn y gwrandawa yn ddifrifol ar yr alwad i edifeirwch. Pan deimlir yn wirioneddol fawr ddrwg pechod y gwerthfawrogir yn briodol alwad yr Efengyl. Y mae cyhoeddi y perygl yn angenrheidiol i barotoi yr enaid i dderbyn y waredigaeth a gynnygir yn nhrefn yr iachawdwriaeth. Rhaid dwysbigo y gydwybod mewn trefn i ddenu y pechadur âg addewidion yr efengyl i dderbyn Crist. "Nid yw y galon yn barod," meddai Gurnal, "i dderbyn yr efengyl hyd nes y byddo yn gyntaf wedi ei dryllio â dychrynfeydd y ddeddf." Tra y coleddir y syniad nad yw pechod ond anhwyldeb ysgafn, ymfoddlonir ar feddyginiaeth ysgafn, ac y mae y berthynas rhwng cymhwysiad meddyginiaeth wan a methiant gwellhâd oddiwrth afiechyd trwm yn amlwg. Fel gydag afiechyd corff, felly hefyd gydag eiddo yr enaid, os na bydd y dyoddefydd yn argyhoeddedig o berygl yr afiechyd, esgeulusa y feddyginiaeth. Er cyhoeddi fod gwaed Crist yn glanhâu oddiwrth bob pechod, ac er gwahodd i'r ffynnon a agorwyd i bechod ac i aflendid, dibrisir y cyfan gan y pechadur, hyd nes yr argyhoeddir ef yn gyntaf o fawr ddrwg pechod. Os yw pechadur i gael ei gadw rhaid ei ddeffro ef. Rhaid deffro y gydwybod gysglyd, ymdrechu glanhâu ymaith y cen oddiar y llygad, a gosod ger ei fron yn y modd egluraf a llawnaf ddigofaint ac angerdd llid Duw digllawn. Rhaid llenwi ei fynwes â'r fath ddychryn ag a'i hamddifada o'i holl heddwch gau, a pheri iddo deimlo yn anfoddlawn i aros un fynyd yn hwy yn ei sefyllfa beryglus.

Ond yn gydfynedol â'r bygythiol, rhaid bob amser ofalu am gyhoeddi y waredigaeth sydd yn Nghrist Iesu, onidê bydd o'i le priodol, a gall wneuthur mwy o ddrwg nag o les. Nid dyben y bygythiol yw dychrynu dynion i anobaith, a'u gyru ymhellach oddiwrth y Ceidwad, ond yn hytrach parotoi y ffordd i'w tynu hwynt ato. Os dychrynu, gofaler dychryn dynion at Grist, ac nid oddiwrtho. "Na rwyga ei ddolur ef," meddai John Jones, Talysarn, "yn ddyfnach nag y bo angen; gwylia fod yn gigydd yn lle yn feddyg; os llwyddi i agor y cornwyd, paid a'i brocio wedyn, ond dyro olew ynddo yn y fan." Wrth gyhoeddi mawredd a pherygl yr afiechyd, cyhoedder hefyd ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y feddyginiaeth. Wedi dangos y pechadur yn garcharor condemniedig, cyfeirier ei olwg hefyd at helaethrwydd maddeuant Duw. Cydbregether â hawliau cyfiawnder Crist y Gwaredwr fel un a dalodd yr holl ofynion. Tra y cyhoeddir truenus rwydd y cyflwr, gwahodder y trueiniaid i dderbyn y Ceidwad, i roddi eu hunain iddo, ac i ymorphwys yn hollol arno, a hyny yn y modd mwyaf dengar, tyner, a chymhelliadol. Os dywedir am yr afiechyd, dyweder hefyd fod balm yn Gilead a bod yr Iesu yn feddyg mawr. Trocher yr holl fygythion yn ngwaed yr Oen fu ar Galfaria.

Ni bydd y bygythiol yn ei le priodol yn y weinidogaeth, heb ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn ysbryd addfwynder, ac yn codi oddiar gariad angerddol at eneidiau y gwrandawyr. Cariad yw ffynnonell trefn yr iachawdwriaeth, oddiar gariad y tarddodd ac i gariad yr adfera, gan hyny mewn cariad y dylai gael ei chyhoeddi. "Mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus." Bygythion yn llaw cariad sydd yn llwyddo Ni chyrhaedda y bygythiol ei ddyben os na bydd argyhoeddiad yn cydfyned âg ef i galonau y gwrandawyr, ei fod yn codi oddiar gydymdeimlad angerddol â'u heneidiau hwy, a dymuniad angerddol am eu gwaredu oddiwrth eu pechodau a'u canlyniadau. "Nid yw pregethwyr yr oes bresennol," meddai Proffeswr Blackie, "yn ymosod yn ddigonol na chyda'r nerth dyladwy ar y pechodau sydd yn barod i amgylchu dynion. Pe buaswn i yn bregethwr," ychwanegai, "buaswn yn dyrnodio pechodau dynion." Nid oes ammheuaeth na ddylid dyrnodio pechod, ond y mae yn dra phwysig gofalu ymha ysbryd y gwneir hyny.

Fel tystion dros Dduw cyflawnwn ein goruchwyliaeth yn ffyddlawn, heb ddarnguddio y gwirionedd, ond mynegu yn hyf a gonest holl gynghor Duw, fel y byddom lân oddiwrth waed pawb oll, fel na chywilyddiom ger ei fron Ef yn ei ddyfodiad, ac fel y caffom lawenhau a gorfoleddu yn mharhâd yr hyn a oruwchadeiladwyd genym ar y sylfaen a osododd Duw, yn y dydd y dadguddir ac y profir gwaith pob un o honom trwy dân. "Os gwaith neb a erys, yr hwn a oruwchadeiladodd, efe a dderbyn wobr. Os gwaith neb a losgir, efe a gaiff golled, er bod ei hun yn gadwedig, eto felly megys trwy dân."

E. J. EVANS.

*Walton.*

# DYDDLYFRAU EBEN FARDD.

## IV.

### 1840.

Ion. 1. Cyfarfod gweddi trwy y dydd i ofyn am yr Ysbryd Glân. Gweddïo yn gyhoeddus yn nghapel Sïon.

Ion. 14. Y nwyddau i'r siop newydd yn Nghlynnog yn dyfod mewn pump o gerti.

Ion. 15. Y siop newydd yn agor mewn rhan; fy masnach i yn ddim llai. 21s. yn y *drawer*.

Ion. 17. Yr wyf yn byw ar Dduw. 17s. yn y d.

Ion. 18. Teimlo yn fawr o herwydd ymddygiad dideimlad fy mam-yn-nghyfraith. Gweddïo Duw, sut bynag, ac ymddiried ynddo. Efe yw fy noddfa pan fo pawb yn troi yn fy erbyn.

Ion. 20. Y Parch. M. Williams yn galw. Aethum i'r Eglwys gydag ef, a darllenais fy Awdl, yr hon a hoffai yn fawr iawn. Dywedai nad oedd yn bosibl cyfansoddi un well. Aethum gydag ef can belled a Llwyngwanadl.

Ion. 25. Gorphen fy Awdl ar Job. Aeth Nelw i'r Gors.

Ion. 28. Nelw yn dyfod o'r Gors; teimlo dim hiraeth; mor hynod! 17s. yn y dr.

Ion. 29. Dr. 7s. Eistedd i fyny yn hwyr i ysgrifenu fy Awdl ar Job.

Chwef. Mr. —— yn y Plas yn derbyn rhenti. Ciniawais gydag ef. Dywedai y cynnorthwyai yr ysgol ar gynllun newydd, sef talu am bob plentyn a ddanfonid iddi, ac nid talu tanysgrifiad blynyddol, pa un bynag a fyddai y plant yno oll ai peidio. Hawliai hefyd fod fy mhlant, y telid felly drostynt, yn glanhau y fynwent, &c. Gwrthodais hyny ar unwaith. Mor ddarostyngol; dyn y byd, oer, dideimlad, nad oes ganddo syniad am ddim ond casglu cyfoeth a boddio ei drachwant baweidd am fawredd, yn nghyflawnder yr awdurdod orthrymus a roddwyd iddo yn ceisio gwasgu i lawr ddyn tlawd, sydd yn deall ei ryddid ac yn teimlo ei annibyniaeth, i'r slafeidd-dra isaf a mwyaf ffiaidd, a'r oll er mwyn ennill ffafr ei uchafiaid. Dywedai y byddai i Mr. O. Evans (dyn gwell, wrth reswm, nag ef) ddyfod â gwaith i mi i wneyd i fyny werth y plwyf mewn mis. Mae Mr. ——, er pan gefais y gofid o'i adnabod, wedi ymddwyn tuag ataf yn y modd mwyaf trahaus. Ni chefais iddo erioed wneuthur un weithred garedig i mi o hono ei hun, ond mewn ufudd-dod i'w feistriaid, a hyny yn gyffredin mewn ffordd an-raslawn. . . Teimlo yn bur isel. Maddeu i mi, O Dduw, am ddysgwyl dim oddiwrth ddyn; a phaham y pwyswn ar neb ond Tydi, yr hwn a oruwchlywodraethi bob peth er fy lles?

Chwef. 6. Ni ddywedai Thos. Thomas fawr am fy Awdl, ond meddyliai, wrth reswm, yr ennillwn.

Chwef. 8. Caernarfon. Cyfarfod Thomas, Tanyllan, yn awr Cadben Thomas, y *Josephine*; rhoddodd i mi ddau l. o wh., tra y siaradwn am hen helyntion yn Nhydweiliog. Yr oedd yn cofio yr holl englynion a wnaethwn yn ysgol Tydweiliog; adroddai rai, er ei bod yn awr yn agos i ugain mlynedd er pan oeddym ynghyd.

Chwef. 25. Anfon llythyr i'r Parch. M. Williams, Bangor, yn cynnwys fy syniad am ei Psallwyr.—Dic Aberdaron yma; rhoddi bwyd iddo; dangosai ei ysgriflyfr Hebraeg, yr hwn a gynnwysai ffurfiau i godi cythreuliaid, ynghyd a swynion a chyfareddau eraill perthynol i'r gelfyddyd ddu. Dechreuais ddarllen un o'i ddarswyniadau yn Lladin, a alwai am i'r ysbryd ymddangos yn ffurf llew creulawn, ac attaliodd fi, gan ddyweyd nad oedd yn hoffi yr ysbrydion, eu bod yn beryglus i ymyraeth â hwynt.

Mawrth 9. Aethum gyda Mr. Hughes i Lanwnda i dderbyn y degwm tatws. Ciniawa yno.

Mawrth 19. Gorphen ysgrifenu fy Awdl ar Job i'w hanfon i Eisteddfod Liverpool, a defnyddio y ffugenw Zerah.

Ebrill 9. Ysgrifenu fy enw priodol, Ebenezer Thomas, Clynnog, Carnarvonshire, ar y tu dalen olaf ond un o fy Awdl ar Job, y tu dalen hwnw oll yn wag, a'i orchuddio â darn o bapyr gyda chŵyr, ar yr hwn y gosodais fy sêl. Plygais hi i fyny mewn *envelope*, a seliais ef; pwysai beth lai na 2 wns, ond telais 4c. o *postage* yn y Plas (rhag ofn y buasai clorian y *Post-office* yn ei wneyd yn 2 wns.), yr hyn yw y tâl am y pwysau hwnw. Rhoddais y llythyr yn llaw R. G. Roberts wrth y *bar;* yr oedd ei wraig yno hefyd, a rhoddais y pres ar y bwrdd. Cyn ei roddi yn y *post*, aethum ar fy ngliniau i ofyn amddiffyn Duw ar fy Awdl, ac i ddiolch iddo am fy ngalluogi i'w chyfansoddi, ac i addunedu y byddai i mi, mewn llecyn penodol uwchlaw Llwyn ne, wrth ffrwd gerllaw y gwrych, yn ddefosiynol roddi iddo Ef yr holl ogoniant a'r diolch a godai oddiar y cyfansoddiad hwn, os gwelai yn dda oruwchlywodraethu trwy ei Ragluniaeth bob peth yn ffafr fy Awdl fel ag i'w gwneyd yn llwyddiannus.

Ebrill 16. Planu tatws yn yr ardd. Galwodd y Parch. Mr. Williams, Llandwrog; aethum gydag ef can belled â'r hen Derfyn. Dywedai ei fod yn meddwl na fyddai i Arglwydd ac Arglwyddes Newborough fy nghymeradwyo fel ysgolfeistr i Landwrog, am nad oedd gan fy ngwraig Saesoneg a chymhwysderau eraill i ddysgu y genethod i wnïo, ac ofnai hefyd y byddai fy ngwaith yn ymuno â *society* y Methodistiaid yn fy erbyn i fyned yno. Gofynai fy rhesymau dros adael yr Eglwys. Dywedais fy mod mor ymlyngar ag erioed wrth yr Eglwys, ond fod arnaf eisieu ymddyddan mynychach ar faterion crefyddol, ac ychydig gymdeithas â chyfeillion crefyddol, yr hyn na allai yr Eglwys, fel yr ydoedd yn fy mhlwyf i, ei roddi. Dywedais fy mod mewn mawr gyfyngder meddwl ar y dechreu, ac na ddarfu i fy ngweinidog ymddyddan â mi o gwbl am fater fy enaid, a theimlwn innau fod yn rhy anhawdd i mi rywfodd ddechreu ymddyddan felly gydag ef, a phenderfynais fyned i blith y rhai a arferent ymgynnull er adeiladaeth ysbrydol y naill y llall, gan dybied y gallwn gael rhyw ymwared ysbrydol a lles, yr hyn prin y gallaswn ddysgwyl yn Eglwys y plwyf. Yr oeddwn hefyd yn wrthwynebol i dderbyn pob math o gymeriadau at fwrdd y Cymun, heb unrhyw ymofyniad i'w golygiadau, eu teimladau, a'u hargyhoeddiadau fel Cristionogion; yr oedd yr holl lacrwydd yma gyda golwg ar dduwioldeb ymarferol a welwn, yn fy ngyru i Eglwys arall am ymwared ac adeiladaeth. Am yr Eglwys fel Sefydliad, fod ei herthyglau, ei gwasanaeth, ei duwioldeb pwyllog, cyson, gweddaidd a thawel, yn ennill fy edmygedd, ac y dewiswn yn hytrach fod yn Eglwyswr nag o un enwad arall pe buasai yr Eglwys yn cael gofalu am dani yn ysgrythyrol gan ei gweinidog, yn ol ysbryd ei rheolau a'i ffurf-wasanaeth, &c. Gwelai Mr. Williams fod y rhesymau yn dda, a chydsyniai â mi yn y modd mwyaf calonog, ond gofidiai na fuaswn wedi ceisio yn fwy dyfal am yr ymwared oedd arnaf eisieu gan weinidogion eraill yn Eglwys Loegr, y rhai, ni ammheuai, a fuasent yn gwneyd yn hyny yr oll a ddymunaswn.

Ebrill 20. Y wraig yn bur isel neithiwyr, minnau yn bur isel hefyd; yr wyf yn ofni ambell dro y collir fi wedi y cwbl.

Ebrill 24. Rhoddi yn y post fy "Esgyniad Elias" ac "Englyn i'r Afr," cyfeiriedig at Ysgrifenydd Eisteddfod y Gordofigion; cyflwyno y rhai hyn, fel fy Awdl, i Dduw a gofal ei Ragluniaeth, yr hwn y gweddïais ar iddo fod yn ffafriol, ac addunais ddiolch yr un pryd, fel am yr Awdl, ac yn yr un lle.

Mai 28. Iau Dyrchafael. Cyfarfod yn nghapel Sïon y prydnawn. Daeth Robt. Hughes a'i wraig yma, ac arosodd y Parch. John Jones, Talysarn, fynyd neu ddau. Y tro cyntaf i mi ymddyddan âg ef erioed.

Mai 30. Pwyso mochyn, 9 *score* 16 pwys; eto fy hunan, 8; llai o 18 pwys nag oeddwn ddwy flynedd yn ol.

Meh. 6. Clywed trwy lythyr oddiwrth Robt. Hughes fod Ellis Owen i fod yn un o feirniaid Liverpool.

Meh. 8. Yn y Sportsman, clywed gan bregethwr Wesleyaidd o Gaernarfon fod y Parch. Evan Evans i fod yn un o feirniaid Liverpool. Dywedai hefyd fod Parry, Conwy, Dic yr Erw, a David Griffith *(Clwydfardd)* wedi ysgrifenu ar Job i'r Eisteddfod. Yn hwyr y prydnawn daeth mab Humphrey Hughes yma i gael gwers mewn Barddoniaeth.

Meh. 13. Derbyn llythyr yn pwyso arnaf fod yn bresennol yn yr Eisteddfod. Penderfynu myned.

Meh. 16. 2 o'r gloch y bore, cychwyn i Liverpool gyda fy chwaer yn nghyfraith,

Betsey, a Nell Jones; yn Mhont Menai myned ar fwrdd yr agerlong *John Mc Adam*, cyrhaedd Liverpool mewn tua 5 awr, gydag ychydig iawn o glefyd y môr, er ei bod yn lled ystormus. Argymhellai Mr. Jones i mi i lettya gyda Wm. Jones, crydd.

Meh. 17. Ymuno â'r orymdaith i Benbryn y blodau; gan fy mod yn fardd cerddwn ar y blaen, yn nesaf i'r Derwyddon. Dychwelyd i'r *Amphitheatre*, lle, wedi rhai areithiau arweiniol a dyfarnu gwobrwyon, y cefais fy hun yn ennillydd dwy wobr, un o honynt y gadair. Siaradodd Syr Love Parry ddwywaith, yn fy nghanmol yn fawr am fy llwyddiant. Arweiniwyd fi i'r gadair gan Ioan Tegid a Ieuan Glan Geirionydd, gyda Syr Love Parry yn fy mraich. Adroddais Englyn yn dadgan fy nheimladau ar yr achlysur; yr oedd yno fanllefau diderfyn a churo dwylaw. Teimlwn yn dra chynhyrfus,—dim bwyd o 7 y bore hyd 5 y prydnawn: diwrnod caled.

Meh. 18. Myned gyda chyfaill i weled y *Custom House* a'r *Mansion House;* ciniawa yn nhŷ fy nghyfaill, a myned i'r Eisteddfod hyd 5 o'r gloch; dychwelyd yno drachefn tua 7, i ddarllen fy Awdl i'r beirdd.

Meh. 19. Yn yr Eisteddfod y rhan fwyaf o'r dydd; galw efo Peter Jones; wedi llwyr flino ar yr Eisteddfod.

Meh. 20. Bod yn bresennol mewn Gorsedd, lle yr urddwyd fi yn ol hen arfer yn Dderwydd a Bardd wrth fraint a defawd Ynys Prydain. [Mewn llyfr arall: Ennill dwy wobr yn Eisteddfod Liverpool a myned yno, lle y cadeiriwyd fi ac y derbyniwyd fi i'r Frawdoliaeth Farddol dan yr enw Eben Fardd, gan Glan Geirionydd, Tegid, Syr Love Jones Parry, &c.] Diolchais i Syr Love ac aethum ar fwrdd yr agerlong *Zephyr* tuag 11, cyrhaedd Bont Menai tuag 8, Caernarfon gyda'r cerbyd tua 9; cysgu yn nhŷ Wm. Jones, a chyrhaedd adref yr 21ain, gyda'r cerbyd, 8 y bore. Ar ben Llwyn ne, yn agos i'r lleoyn, difrifol delais fy addunedau y rhai a wnaethum gyda golwg ar Liverpool.

Meh. 27. Myned i Bwllheli i dalu yswiriant. Robert Jones yn ei wely yn wael. Gweled bron neb, o gyfaill neu gydnabod. Rhyfedd mor ddwl ydyw y lle hwn, y dref a'r gymydogaeth yn dawel a dystaw fel y fynwent. Yr wyf yn meddwl nad af yno yn bur hir eto.

Meh. 28. Fy swydd fel arolygwr Ysgol Sul Clynnog ar ben.

Gor. 4. Myned i Gaernarfon, cyfarfod â Dr. Roberts a myned gydag ef i'r *Surgery*, lle y cymerodd ei ddyn ieuanc ymaith ddant drwg oedd genyf, y pellaf yn fy mhen, yr ên isaf, yr ochr chwith. Briwodd fi yn dost iawn, ni ddyoddefais gymaint oddiwrth offeryn meddyg erioed o'r blaen. Rhoddais £20 yn y Banc. Gwelais lawer o gyfeillion, boneddigion a rhai boneddigesau; dywedent oll y gwnaent rywbeth i mi; pawb yn llongyfarch a chanmol, ond diflana y cyfan fel mwg; y mae geiriau teg fel tarth yn fuan yn diflanu, ac ni cheir gafael arno. Adref 4 o'r gloch.

Gor. 7. Gosod degwm yn Nghynnog; cael fy ngwahodd i'r ciniaw, ond gwrthod yr anrhydedd.

Gor. 12. Yn hynod o isel byth er pan oeddwn yn Liverpool, dymuno na welwn un dyn yn agos i mi; ammeu fy nghrefydd, a bron grefydd pawb eraill! Ah, y fath gaddug ofnadwy sydd arnaf!

Gor. 31. Galwodd Mr. Walter Griffith, gŵr ieuanc a adwaenwn o'r blaen, gyda mi; y mae yn ngwasanaeth yr *Anti-corn-law Association;* dywedai ei fod wedi bod yn areithio o blaid Dilëad Deddfau yr Yd yn Nefyn a Phwllheli y dydd o'r blaen. Sylwais wrtho ei fod wedi disgyn ar gwrs o fywyd oedd yn llawn maglau, gofidiau a phenbleth, y rhai a anmharent ei dawelwch meddwl, yn ol fy marn i.

Awst 3. Derbyn llythyr oddiwrth y Parch. L. Edwards, M.A., yn fy ngwahodd i ddyfod i Athrofa y Bala, lle y cynnygiai addysgiaeth a chynnaliaeth i mi yn rhad.

Awst 6. Yn nghyfarfod eglwysig Gyrngoch, gofynwyd i mi ddyweyd ychydig mewn ffordd o gynghor: ond gwrthodais wneyd hyny oddiar deimlad o fy annheilyngdod; ond dywedais wrthynt ychydig o'r hyn a deimlwn fy hun am fy sefyllfa ysbrydol; ni ddywedwyd gair gan neb o gysur, cynghor, nac adeiladaeth i mi. Yr wyf yn synu yn fawr at y fath ddiofalwch gwrthun.*

* Tybed nad allai fod wedi ei daro fod yn bur bosibl mai prin y teimlai ei frodyr dysyml yn ddigon eofn i'w gynghori?

Awst 13. Yn y cyfarfod uchod drachefn: gofynwyd i mi weddio ar ddiwedd y cyfarfod. Dyma y weddi gyhoeddus salaf a wnaethum erioed. Nid oedd genyf syniadau, na lewn na dim. Yr oedd arnaf yn wir gywilydd o honof fy hun; ond yr wyf yn meddwl mai yr achos oedd hyfdra rhyfygus dau ddyn, aelodau o gangen-eglwys arall, y rhai a godasant ac a wnaethant y fath areithiau hyfion, hunanol, a rhagrithiol ag oeddynt yn fy synu, wrth feddwl am eu hanferth anwybodaeth a'u penboethni.

Awst 15. Aethum i Gaernarfon a gelwais gyda'r Parch. Thos. Thomas, yr hwn, wedi peth ymddyddan yma a thraw, a ofynodd a ddymunwn fod yn weinidog yn Eglwys Loegr; dywedais fy mod wedi rhoddi i fyny y drychfeddwl a'r gobaith am hyny o gwbl er ys llawer o amser, ac nad oedd genyf ddymuniad neillduol yn awr am y fath anrhydedd, o herwydd fy mod yn fy ystyried fy hun yn gwbl annheilwng, ac y crynwn wrth y cyfrifoldeb ofnadwy oedd ynglŷn â galwedigaeth mor uchel; eto pe gallwn gasglu oddiwrth ryw gyfleusdra ffafriol a agorai i mi fy mod yn cael fy ngalw gan Ragluniaeth ddoeth Duw i'r fath swydd ddyrchafedig, y byddai arnaf ofn ei gwrthod, yn neillduol am y gallai fy ngosod mewn sefyllfa i fod yn fwy defnyddiol i mi fy hun, fy nheulu, achos Crist, a'r bobl y gallai fy nghoelbren yn y dyfodol ddisgyn i'w plith. Gadael y mater i'w ystyried am ychydig ddyddiau gartref, a fy mhenderfyniad terfynol i gael ei anfon trwy lythyr i'r Parch. Mr. Thomas yn ystod yr wythnos nesaf. Dywedai Mr. Thomas ei fod yn sicr y cai gan Esgob Caer fy ordeinio wedi blwyddyn o astudio gyda chyfeillion ac yn St. Bees, Cumberland. Dywedai hefyd y gallai gael arian tuag at fy nghynnaliaeth i a'm teulu yn ystod yr amser hwnw, yn gystal ag i dalu pob traul llyfrau ac addysgiaeth.

Awst 20. Anfon llythyr a rhai ysgrifeniadau i'r Parch. Mr. Thomas.

Awst 24. Galwodd y Parch. Mr. Williams wrth fyned a dychwelyd gyda'r *coach*, yr oedd arno eisieu i mi yn fawr iawn fyned i'r cyfarfod cenadol yn Nghaernarfon.

Awst 26. Pregeth genadol gan y Parch. Mr. Richards, Caerwys, yn yr Eglwys, llawer o offeiriaid yn bresennol; cefais ymddyddan neillduol â'r Parch. Mr. Thomas a Mr. Williams, Caernarfon, ynghylch fy myned i'r weinidogaeth; dymunai Mr. Thomas i mi fyned i Gaernarfon ryw ddiwrnod, am fod gŵr Eglwysig yn ei dŷ yn dymuno fy ngweled, Mr. Bird, câr i Esgob Caer; addaw myned yno wythnos i'r Sadwrn nesaf.

Awst 29. Ysgrifenu sylwedd y bregeth uchod, a'i hanfon i Mr. Thomas, Caernarfon. Derbyn llythyr oddiwrth y Parch. John Jones, Talysarn, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.

Medi 5. Myned i Gaernarfon yn *gig* Mr. Thomas, Tŷmawr. Cynnygiai i mi le yn Nghaernarfon, £60 y flwyddyn, a thŷ yn rhad. Dywedais y derbyniwn ef yn llawen a diolchgar—os myned, myned fis Tachwedd nesaf—cael gwybod yn sicr mewn tua mis. Yn Nghaernarfon siarad â David Williams, pregethwr Methodist, Clwydfardd, O. Williams, Waenfawr, D. R. Pugh, chwarelwr ieuanc o Llanddeiniolen, a Dr. Roberts. Talodd Mrs. O. Jones i mi £2, arian chwarterol yr ysgol. Talu i O. Williams am 7 rhifyn o'r *Drysorfa*, a dychwelyd un. Rhoddi peth arian yn y Banc. Myned gyda Mr. Thomas i weled Mr. Bird, yr ydoedd wedi myned i'r wlad, gwrthod aros yn hwy. Mr. Thomas yn addaw dyfod i Glynnog i fy ngweled gyda Mr. Bird, ac anfon nodyn ymlaen llaw. Dywedai ei fod wedi ysgrifenu at yr Esgob. Cychwyn adref 6 o'r gloch. *Y Gwladgarwr* yn canmol fy Awdl yn fawr.

Medi 11. Cymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd yn Mhwllheli. Myned yno erbyn yr odfa 10; y Parch. John Elias yn pregethu olaf. Aros am y pregethau 2 o'r gloch, y Parchn. Wm. Williams, Talgarth, a Wm. Morris yn pregethu. Pan oeddwn yn myned y bore, y ffordd yn orlawn o feirch a cherbydau, yr ydoedd yn dra pheryglus i rai ar draed. . . . Wedi yr odfa 10, gan fod y tai bwyta oll wedi eu llanw â chwsmeriaid newynog, cymerais fy mara a chaws ac aethum dros y morglawdd gorllewinol, ar ochr pa un, ar ychydig laswellt wrth fin y dwfr, y bwytëais fy mara a chaws a 3 o afalau. Wedi dychwelyd i'r dref cymerais ddau lasiad o win, ac aethum i wrando'r pregethau 2 o'r gloch. Yn uniawn wedyn, cychwyn adref heb damaid na dyferyn o ddim. Yr holl ffordd adref ofnwn gael fy sathru dan draed ceffylau, neu gael fy rhedeg drosodd gan gerbydau. Fy Amddiffynydd mawr, fodd bynag, a'm dygodd i derfyn y dydd heb niwed; iddo Ef y byddo y gogoniant. Fy holl dreuliadau am y dydd, am ddiod 1s. 11c., ymborth 8c., oll

2s. 7c., yn cynnwys rhai pethau i'r plant. Cymeryd tê can gynted ag y daethum adref, a chael yr anrhydedd o gwmni y Parch. John Jones, Talysarn. Siarad â Mr. Jones yn Mhwllheli, a Mrs. Jones, hefyd â Robert Hughes a John Parry, Porthsgadan. Dim ymddyddan â neb arall drwy y dydd. Yr wyf yn casglu oddiwrth y tyrfâoedd pobl sydd yn mynychu y cyfarfodydd hyn,—y mwyafrif o ba rai ydynt ddiofal, annuwiol, hyf a gwatwarus, yn myned yno er mwyn pleser, —y byddai yn well peidio eu cynnal; mae y da a wneir yn cael ei orbwyso gan yr anferth ddrwg, heblaw yr anghyfleusdra a brofa pobl dawel, feddylgar, trwy ddirfawr ffwdan a phrysurdeb lluoedd annuwiol, temtasiynau, hudoliaethau, ac anghyfleusdra y fath gynnulliad mewn tref fechan, &c. O, na chynnalier hwynt mwyach. "Eich lleuadau newydd a'ch gwyliau gosodedig a gasäodd fy enaid; y maent yn faich arnaf, blinais yn eu dwyn."

Medi 23. Ffair Caernarfon. Wedi yr ysgol y prydnawn, tua 4 30 neu 5, cychwyn i Gaernarfon, Mr. Thomas wedi gofyn i mi trwy nodyn y bore i ddyfod i weled Mr. Bird, o sir Gaer, yr hwn a fu yn genadwr yn Calcutta, ac sydd yn gefnder i Esgob Caer. Yr ydoedd gynt yn far-gyfreithiwr, ond aeth i'r weinidogaeth yn 40 ml. oed. Cyrhaeddais Gaernarfon tua 7, wedi cael *lift* yn nghar y Sportsman. Myned i'r Ficerdŷ, ac yno canfod y Parch. Mr. Thomas a Mr. Robert Williams ynghyd yn y parlwr. Eisteddais gyda hwynt, dywedent fod y rhagolwg yn dra ffafriol. Ymunodd Dr. Roberts â ni, hefyd y Parch. Mr. Morgan, o ryw le yn Leicestershire, bywgraffydd Charles, a dywedai ei fod yn myned i gyhoeddi Bywyd Williams, Pantycelyn, a'i Hymnau, a dymunai arnaf ysgrifenu fy ngolygiadau ar yr Hymnau a'u hanfon iddo ef, fel y gallai eu rhoddi yn y Bywyd. Ymadewais gyda Mr. Thomas ac R. Jones. Yn lletty Mr. Bird, daeth Mr. B. i'r parlwr a gofynodd rai cwestiynau am fy ardal a fy ngalwedigaeth, hefyd holodd fi ynghylch fy nghrefydd, pa fodd yr argyhoeddwyd fi o bechod, &c., a dywedai ei fod wedi clywed fy mod am gymeryd arnaf siars gweinidog. Dywedais i mi brofi argyhoeddiad dwfn o bechod, yn benaf trwy air o'r Ysgrythyr, "Na thwyller chwi, ni watwarir Duw," &c., a'm bod yn meddwl i mi fod yn rhy ddiddefnydd a segur yn fy nghylch bychan am y fath ysbaid o fy mywyd, &c., a'm bod yn penderfynu gweithio yn y winllan hyd angeu, a llwyr adael ffordd pechod, &c.; eto fy mod yn teimlo yn anghymhwys i gynghori eraill, ac yn annheilwng o ymddiried o swydd y—— Yna dywedai yntau ein bod oll yn annheilwng ac annigonol i'r fath daag, ond na ddylai ystyried hyny mo'n rhwystro i ymdrechu er lles ein cyd-ddynion. Gofynai i mi a oeddwn yn credu fod fy mhechodau wedi eu maddeu? Dywedais na allwn ddyweyd fy mod yn credu hyny. Yna gofynai paham nad oeddwn yn credu? Dywedais na wyddwn, tybiwn mai o herwydd llygredigaeth fy natur. Yna dywedai fod yr Ysgrythyr yn sicrhâu pob un a deimlai faich ei bechod yn glir a diammheuol, fod ei bechod wedi ei faddeu. Dywedais fy mod yn ammeu fy edifeirwch, yn ofni nad ydoedd yn wirioneddol, &c.; ond dilynai efe ymlaen yn yr un dull, a dywedai, i ddyn oedd yn gofidio am ei bechod, fel y dywedwn i fy mod, nad oedd dim a ellid yn briodol ddyweyd ond "Cred." Y mae efe, dybygaf, wedi cyrhaedd llawn sicrwydd ffydd ei hun, ond beïwn ef am beidio cydnabod graddau mewn ffydd, a chydymdeimlo â'r rhai bach, neu y babanod, yn Nghrist. Bendithied Duw yr ymddyddan yma, a phob moddion arall i fy nwyn i adnabyddiaeth y gwirionedd, ac i gredu yn llawn a chlir holl air Duw. O Arglwydd, dyro i mi ffydd.—Eisteddais i fyny yn nhŷ Mr. Thomas hyd hanner nos, a chysgais yno. Cychwyn adref 6 o'r gloch y bore, 2 lasiad o *rum*.

Medi 26. Derbyn ail lythyr oddiwrth y Parch. L. Edwards, Bala, yn fy nghymhell i ddyfod i'r athrofa yn y dref hono heb oedi.

Medi 27. Sul. Yn teimlo rhyw lawenydd mewnol a thangnefedd yn yr Ysbryd Glân, mi hyderaf. Yr wyf yn synu at oruchwyliaeth Duw tuag ataf. Cefais genadwri oddiwrtho Ef, "Na thwyller chwi," &c., yr hon a gafodd effaith dra mawr ar fy meddwl; ychydig cyn hyny, fe'm tueddwyd gan ddystaw weithrediad yr Ysbryd Glân i dynu i fyny gyfammod, yn ymrwymo i fy rhoddi fy hun i'r Iesu; ond mi barheais wedyn, 'rwy'n ofni, i fod yn gnawdol o ran fy meddwl, ac nid oeddwn yn hollol barod i gymeryd i fyny y groes, ymwadu â mi fy hun, a dilyn Crist yn fy ysbryd; ac yr ydwyf yn credu mai i adgofio i mi fy ymrwymiadau diweddar, a'm diffyg mewn canlyniad yn cyflawni yn ysbrydol yr hyn a ymrwymaswn, y danfonodd Duw y genadwri grybwylledig. Cafodd hyn allu ac effaith i fy nwyn i *broffesu* Crist yn fwy cyhoeddus, ac am rai wythnosau teimlwn

yn llwyr ymroddedig i wasanaeth Iesu am byth. Yn fuan, sut bynag, dygwyddodd amgylchiad a dynodd fy sylw mewn rhan ac yn raddol oddiwrth fy nyledswyddau crefyddol; dygodd hyn fy meddwl mor lwyr am rai misoedd fel y teimlwn fy hun yn llacio gyda chrefydd, ac fe'm cymerwyd trwy hyny mor bell oddiwrth fy nghwrs priodol o gymundeb â Duw a dibyniad ar Grist, fel yr oeddwn am lawer o fisoedd yn ychwaneg yn broffeswr pur ddifater ac yn Gristion claiar; dechreuodd fy nghalon ddrwg gasglu nerth, a bu agos i'r diafol, wrth weled ei gyfleusdra, fy mwrw drachefn i laid ffurfioldeb a rhagrith, ac yna i ammheuaeth a hollol ddifaterwch. Ond tua dechreu y mis hwn, y Medi bendigaid hwn, 1840, o fewn tua thri mis ar ddeg o fy mywyd dychweledig, mi glywais y Parch. J. Elias yn pregethu yn Brynaera, ar *Ffydd, y gras o ffydd, yr ymarferiad o ffydd, ffrwythau ffydd, yr angenrheidrwydd anhebgorol am ffydd*, &c., &c. Darfu i hyny fy nal a fy nwyn yn ol i'm hiawn bwyll; ar y dechreu yr oeddwn yn synu at fy niffyg hollol o ffydd, yr hyn yn amlwg ydoedd achos fy holl anffrwythlondeb crefyddol; yr oeddwn wedi myned yn bur isel, bron mewn anobaith. Ond gweddïais am *ffydd*, gan ddadleu mai rhodd Duw ydoedd, a dymunais yn y modd mwyaf difrifol ar iddo Ef roddi ei rodd werthfawr i mi. Clywais gyfres o bregethau wedyn ar yr un mater, ac yr ydwyf yn sicr gredu mai llais Duw ydoedd yn fy ngalw i fywyd ac i'r ymarferiad o'r gras hanfodol hwn i fywyd duwiol. Mae y gyfres o bregethau ac ymddyddanion ar y mater ollbwysig hwn hyd yma fel y canlyn:—Y Parch. J. Elias yn Brynaera; Lewis Morris, Gyrn; J. Elias yn y Gymdeithasfa; Ymddyddan efo Mr. Bird yn Nghaernarfon; Lewis Hughes, ficer Clynnog, &c., &c. Yn awr yr wyf yn hyderu, fe yr wyf yn credu yn sicr, gyda'r diolchgarwch mwyaf gostyngedig a defosiynol, fod Duw yn ei drugaredd *wedi rhoddi i mi ffydd*, a'i fod wedi bendithio ei air—y pregethau a'r ymddyddanion uchod, a rhai llyfrau da ar yr un mater—i fod yn foddion i fy nwyn i weddïo yn wresog am y gras hwn, ac i weled ei werth fel bywyd oll-dreiddiol a ffynnonell cwrs o broffes dduwiol a sanctaidd; ac er nad wyf yn meddu y gras hwn, fe ddichon, ond mewn gradd fechan hyd yn hyn, eto y mae genyf lawn hyder ei fod Ef, a ddechreuodd y gwaith da, yn abl ac yn sicr o'i orphen, i'w ogoniant ac i iachawdwriaeth fy enaid. Fy ngweddi ddifrifol bob dydd a nos, a phob awr hefyd, ydyw, "Arglwydd, anghwanega fy ffydd i." Yr wyf yn teimlo fod yn rhaid i mi fyw yn ysbrydol ar Grist, ac ymddibynu yn gwbl arno Ef am ras a chymhorth cyfamserol i'w ddilyn yn ostyngedig a gwirioneddol, canys yr wyf yn gobeithio fy mod *yn greadur newydd ynddo Ef*, ac fod yr holl hen bethau wedi myned heibio am byth; eto rhaid i mi edrych ato Ef am ras gwastadol, onidê mi syrthiaf ymaith, canys hebddo Ef ni allaf wneuthur dim.

Hyd. 15. Cyfarfod diolchgarwch yn Gyrngoch; dechreuais y cyfarfod trwy ddarllen a gweddïo.

Tach. 6. Ffair Clynnog. Robt. Hughes ac O. Owens, Gors, oedd y prif ymwelwyr heddyw.

Tach. 7. Myned i godi tatws yn y Tyddyn hen trwy y dydd (tasg bur anghydnaws).

Tach. 16. Derbyn nodyn oddiwrth y Parch. Mr. Thomas yn cynnwys dyfyniad o lythyr Esgob Caer ato ef, yn dadgan ei barodrwydd i fy ordeinio os gallwn gael fy nghymhwyso, gyda rhai cyfarwyddiadau at hyny. Cafodd effaith dra mawr ar fy meddwl, gan fod a fyno â fy holl helynt, tymmorol ac ysbrydol, bydol ac eglwysig. Gweddïais ar i Dduw edrych yn ffafriol ar yr holl achos hwn, rhoddi i mi ras a'i Ysbryd sanctaidd, llwyddo yr amcan, a rhoddi i mi feddwl ymostyngol.

Rhag. 12. Am y mis diweddaf yr ydwyf wedi bod yn y benbleth fwyaf yn achos myned i'r Coleg i gael fy mharotoi i'r Eglwys. Bum ar gychwyn ddwy neu dair gwaith, ond fy ngwraig a'i theulu, ynghyda fy anghymhwysder mewn ystyr ysbrydol, yn fy nghadw yn ol. Fy hapusrwydd a fyddai byw yn fwthynwr gostyngedig gartref, gan ddibynu ar Dduw am foddion cynnaliaeth; ond wedi rhoddi yr amcan yma i fyny, mae fy ngwraig yn rhyfeddol o groes wrthyf, er fod arni eisieu i mi aros *cyn* i mi benderfynu. Yn ystod y mis diweddaf dysgais elfenau Lladin a Groeg.

Rhag. 19. Yn Mhwllheli yn ymgeisio am yr Ysgol Rad. Wedi dyfod adref, Mr. Hughes a Mary yn bur angharedig wrthyf. Bu agos i mi a thori fy nghalon yn wir; ond mewn cwpl o oriau, tynerodd Mr. Hughes a daeth Mary yn fwy nawsaidd. Mrs. Hughes, o bawb o welais erioed, oedd fwyaf caredig yn yr ar-

gyfwng hwn; rhoddodd i mi lasiad o gin, fel y dywedai, i godi fy nghalon. Rhodded Duw i mi dangnefedd, a digon at fy nghynnaliaeth i a fy nheulu.

Rhag. 25. Canwyd carol a gyfansoddaswn yn yr Eglwys, gan G. O. Williams, a'i ferch, a Betsan, New Inn.

Rhag. 26. Myned i Chwilog. Cynghorai John Thomas fi i chwilio a phrofi fy amcanion cyn myned i'r weinidogaeth. Nid oedd efe yn gweled dim anffafriol i fywyd sanctaidd yn yr Eglwys Sefydledig, ond i ddyn allu cydffurfio â hi â chydwybod rydd. Dywedais y gallwn i gydffurfio â'r Eglwys yn gystal ag â rhyw enwad crefyddol arall; fy mod yn yr holl gyrff crefyddol yn canfod llawer o bethau y caraswn eu gweled wedi eu symud. Robert Thomas a ofynai pam yr oeddwn wedi rhoddi i fyny fy nghynllun cyntaf o fyned i'r Coleg? Meddyliwn wrth hyny nad ydoedd yn ffafriol i mi gael Ysgol Pwllheli.

Rhag. 28. Galwodd y Parch. Robert Williams, Caernarfon, a dygodd i mi bregeth Mr. Thomas, a dywedodd fod Mr. Thomas wedi ysgrifenu at Esgob Caer, i ddyweyd fy mod wedi rhoddi y goreu i fyny i fyned i'r weinidogaeth am ryw resymau teuluaidd a phersonol.

1841.

Cyhoeddi llyfr yn cynnwys detholion o fy marddoniaeth [*Caniadau*], pris 1s.
Adeiladu tŷ bychan ar ran o fy nhir prydlesol.
Cael fy mhenodi yn Bostfeitr Clynnog.

1842.

Yr ysgol yn fy nhŷ yn ystod gauaf y flwyddyn hon a'r un flaenorol.

1843.

Tori yr ysgol i fyny am byth yn Eglwys y Bedd, y cyflog gan yr offeiriad a roddid i mi yn St. Beuno yn cael ei dynu yn ol. Cadw ysgol yn fy nhŷ fy hun ran o'r flwyddyn hon.

Ddechreu y flwyddyn hon ganwyd fy mhedwerydd plentyn (mab).

Cynnygiwyd ysgol Pwllheli i mi; ond gwrthwynebiad gan blaid yr Eglwys, a chelwyddau yn cael eu dyweyd arnaf. O herwydd eu dichellion, eu malais, a'u cynllwyn, rhoddais hi i fyny.

Cadw ysgol yn fy mwthyn bychan yn yr ardd.

Dr. Tregelles yn pregethu yno.

Cael fy ethol yn flaenor yn eglwys Sïon.

1844.

Awst 23. Rhoddi benthyg *Christophilus* i Morris Hughes, Felin heli; *Mammon* i Robert Hughes; *Cristion Dystaw* i John Jones, Factory. Galwodd Mr. John Morgan, o Goleg Pontypool, yn fy nhŷ; gŵr ieuanc dymunol, Bedyddiwr. Galwodd rhyw Ieuan ap Ieuan wedyn, yn gwerthu llyfr i Brutus; clywed wedyn fod hwn yn greadur traws, yn gosod pobl yn yr *Haul*, &c.

Awst 24. Benthyca i Robt. Hughes Bregeth ar "Deled dy Deyrnas," yn dadleu y Milflwyddiant a'r Teyrnasiad personol, gan un o'r "Brodyr." Hefyd *The Blessed Hope*, yn dadleu yr un golygiadau gan yr un Brodyr.

Awst 29. Gwerthu 100 o'r *Caniadau* i Mr. Robt. Griffith, Llyfrwerthydd, Caernarfon, yn ol 6c.

Medi 17. Derbyn oddiwrth Mr. Hugh Humphreys 144 o gopïau o fy *Emynau Cynauaf*, 2s. 6c.

1845.

Meh. 26. Y Parch. Henry Rees yn pregethu 11 y boreu yn y pentre, a Wm. Roberts, Amlwch, talu 5s. bob un.

1850.

Mai 24. Yn llawn argyhoeddedig o fudreddi yr arferiad o gnoi Tobacco, ac o'r effaith niweidiol ar fy nannedd a thymheredd gyffredinol fy nghorff; yr ydwyf yn wirfoddol yn aberthu yr arferiad, ac yn rhoddi i fyny unrhyw foddhad dychymygol y tybid ei fod yn roddi, ac o hyn allan gyfyngu fy hun at ysmocio pibellaid ar ol pob pryd. Yr wyf yn gwneyd yr un peth gyda golwg ar b., neu unrhyw wlybwr alcoholaidd arall; oddieithr yr hyn a gymerir yn gymedrol ac yn hollol wyliadwrus, wedi profi ei effaith niweidiol, ie, yn y symiau lleiaf ar fy iechyd.

Meh. 2. Dywedai Griffith Roberts, Tanygraig, ei fod ef yn clywed y Parch. Evan Richardson o Gaernarfon, yn gorfoleddu ar lechwedd Mynydd y Cennin ar ei ddychweliad o bregethu o·Foelderwin i Frynengan, lle yr oedd y pryd hyny yn cadw ysgol, a bod y lle yr oedd efe (Griffith Roberts) yn gwrando, fwy na milldir o ffordd oddiwrth lwybr Mr. E. Richardson, sef ar ganol tir Hengwm. Y pennill a ganai wrth orfoleddu oedd hwn :—

E gofiodd Duw am dana i 'n forau,
E roes fy enw ymysg yr achau,
Nid oes na byd, na chnawd, na Satan,
Byth all *flotio* f' enw i allan.

Bendigedig, &c., a waeddai ar ol y pennill. Y mae tua 64 o flynyddoedd er yr amser hwnw.

Meh. 11. Y Parch. J. Jones, Talysarn, yn Llanhaiarn, galwodd yn fy nhŷ a chymerodd de.

Gorphen ysgrifenu fy Mhryddest ar yr Adgyfodiad. Bydded gymeradwy gan Dduw, i'r Hwn yr wyf yn ei chyflwyno gyda diolchus fawl am ei hollalluog ffafr yn fy ngalluogi i'w chwblhau.

Meh. 26. Anfon llythyr i'r *Amserau* i roddi i ryw "Ymgeisydd" holl hanes Eisteddfod Tredegar. Mr. Jones Parry, Madryn, a J. Gibson yma. Ymrwymo i olrhain achau Madryn hyd Adda, ac esbonio ynghylch Tegd. Bais Wen. Son wrtho am John Thomas, Chwilog; addawai alw gydag ef.

Meh. 28. Anfon cofiant Isaac Morris heddyw i'r Parch. Roger Edwards i'w osod yn y *Drysorfa*.

Meh. 29. Cerdded gyda'r Parch. W. Jones, Nefyn, can belled â'r Sportsman; yn ystod yr ymddyddan dywedai ei fod ef yn gwbl o'r un farn â mi gyda golwg ar deilyngdod Awdlau Aberffraw, a'i fod yn hollol gytuno â mi mai eiddo "Addolwr" yw yr oreu.

Gor. 8. Tua 7 y bore, myned i'r Capel, ac yno yn nghongl ogledd-ddwyrain y sedd, gan benlinio, gyda fy neheulaw a'm Pryddest ar Efengyl Ioan, yn ddifrifol cyflwynais fy Mhryddest ar yr Adgyfodiad i'r Hollalluog Dduw, gan erfyn ar iddo ei derbyn, ac yn ei arglwyddiaeth fawr beri iddi ddyfod allan yn ddiogel a bendigedig i'w ogoniant. Addunedu cydnabod ei Ddwyfol oruchwyliaeth mewn gras a rhagluniaeth tuag ati yn yr un lle mewn iawn bryd. Yr wyf yn anfon y Bryddest, dan y ffafr Ddwyfol, y prydnawn hwn. "Gwron."

Gor. 11. Anfon ymaith Farwnad Blackwell gan Robt. Hughes, Llangybi, y prydnawn hwn gyda'r post, wedi ei hysgrifenu ar ei gais; y ffugenw, "Winifred." Ymwelodd bardd o'r Dyffryn, Meirionydd, "Gweryddon," â mi.

Gor. 12. Llythyrau oddiwrth y Parch. Morris Williams a'r Parch. William Rees.

Gor. 13. Galwodd y Parch. Mr Ellis, Glasfryn.

Gor. 14. Dechreu cyfieithu *Part* XI. o Chambers. Boed bendith Duw arnaf.

Gor. 16. Y dyddiad olaf i anfon cyfansoddiadau Eisteddfod Rhuddlan.

Gor. 31. Y Parch. Peter Maurice, D.D., New Coll., Oxon., gyda y Parch. M. Williams y ficer, yn galw yn fy ysgol.

Awst 3. Anfon fy Nghywydd, "Talhaiarn yn Nghlynnog," i Aled o Fôn, Llundain.

Awst 17. Fy Nghywydd ar Talhaiarn yn Nghlynnog yn yr *Herald*.

Awst 19. Yn Nghaernarfon yn ymgynghori â'r Parchn. W. Rees a W. Ambrose. Prynu *spectacles*. Wedi suddo yn fy ysbrydoedd yn anfesurol isel. Wedi darfod â'r byd llenyddol am byth.

Awst 23. Dau freuddwyd fy ngwraig, fy mod yn fuddugol yn yr Eisteddfod. Adrodd rhai delweddau breuddwydiol a dywyll ymddangosent i minnau. Bytheuad o Ddeon adnabyddus yn erlyn ysgyfarnog trwy yr awyr, ond wedi cadw ei hun i fyny yn fawreddog am amser, fe syrthiodd bron arnaf, fel y meddyliwn, ond mewn gwirionedd yn ymyl, fel anifail o fath arall, a mwy dwl. Tad Morris Williams yma.

Awst 24. Clywed Robt. Hughes yn dyweyd fod Ellis Owen wedi rhoddi i fyny feirniadaeth Rhuddlan wythnos yn ol.

Awst 27. Derbyn llythyr oddiwrth D. Williams, Bron Eryri, yn fy ngwahodd i Dremadog ddydd Sadwrn nesaf i gyhoeddi Eisteddfod Tremadog. Addaw myned.—31. Myned i Dremadog, yn ol gwahoddiad, i gyhoeddi yr Eisteddfod, yn nghwmni Cad. Ellis ac Ellis y Bardd. Wedi bod mewn pwyllgor parotoawl,

lle yr oedd Syr Love Parry yn gadeirydd, aethom i gae, lle, o gerbyd Syr Love, yr anerchais gynnulliad tra pharchus o foneddigesau a boneddigion, ac y cyhoeddais yr Eisteddfod *pro forma*, gyda chleddyf yn fy llaw. Wedi hyny graddio Mrs. Gwynne yn Ofyddes, wrth yr enw "Gwenynen Gwynedd." Cymeryd tê gyda John Thomas, Chwilog, yn nhŷ ei nai, a dychwelyd yn *Phaeton* Mr. R. J. Jones can belled â Phantglas, lle y cysgais y noswaith, gan ei bod yn wlaw mawr. Cyrhaedd adref bore drannoeth erbyn tua 6 o'r gloch.

Medi 5. Galwodd y Parch. Mr. Williams yn yr ysgol; dywedai iddo glywed ei frawd-yn-nghyfraith, Mr. Benjamin Ellis, yn dyweyd fod boneddwr yn Beaumaris, Mr Tarkinson, a welais yn Aberffraw, newydd gyrhaedd gyda chwmni o Ruddlan (neu Rhyl), ac yn ei sicrhau ef ei fod yn cael ei ddyweyd yn bur gyffredin mai fi oedd Bardd Cadeiriol Rhuddlan. O fy Nuw, dyro i mi ras i ddal effaith hyn, sut bynag y try allan, ac i roddi i Ti y gogoniant trwy Iesu Grist. Amen. Isel, *nervous*.

Medi 7. Cywydd Talhaiarn i mi yn yr *Herald* heddyw, hefyd hanes Cyhoeddiad Eisteddfod Tremadog. Ellen yn y dref. Llifogydd o ddigalondid yn tori arnaf!

Medi 11. Dim toriad gwawr.

Medi 17. Parchn. Robt. Hughes, Wm Ambrose, a Wm. Rees, y tri yn aros y noswaith gyda mi; darllenais fy Mhryddest ar yr Adgyfodiad iddynt; cyhoeddent hi yn unfrydol yn orchestwaith, rhanau o honi y pethau goreu yn yr iaith. Beïent y gair "tommen" mewn un lle, tra y cymeradwyent ef mewn lle arall; hefyd fod "hyd gyrn eu gyddfau" yn ymadrodd isel.

Medi 20. Galwodd y Parchn. Mr. Rees a J. Roberts, Llanbrynmair. Sicrhâi Mr. Rees fi fod fy Mhryddest o'r fath oreu; na raid i mi anobeithio; beth bynag fo ei thynged yn Rhuddlan, ei bod yn waith i *fyw*, ac mai gwell fyddai i mi ei chyhoeddi heb oedi.

Medi 21. Breuddwyd neithiwyr. Afon lydan lawn o ddwfr—pysgodyn yn rhuthro ymlaen gyda'r fath gyffymdra fel ag i rwygo y dwfr i dònau ac ewyn. Rhedwn gyda'r lan, gweled digon yn rhuthro yn mhob cyfeiriad, nodi ar un ac ymdaflu i'r dwfr, a chyda'm llaw noeth ei ddal a'i gymeryd yn fuddugoliaethus i'r ochr arall yn nghanol llawer o edrychwyr.

Medi 22. Llythyr o Rhyl. Son mai y Bryddest ydyw yr oreu. Llawn o bryder ac ofn, eto gobeithio.

Medi 23. Llun. Pryderus iawn. Clywed gan Mr. Williams fod Mr. Jones, Nefyn, yn ymgeisydd ar yr Adgyfodiad, wedi ysgrifenu Pryddest o 1600 o linellau!

Medi 25. Derbyn nodyn o Rhyl heddyw y bore yn dyweyd fod Ieuan Glan Geirionydd wedi ei gadeirio, a Gwilym Caledfryn wedi cael yr ail wobr. "Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg." Trugarhâ wrth fy enaid, O Arglwydd, a dyro ras i ddal y siomedigaeth hon gydag ymostyngiad Cristionogol. Bydd ar fy neheulaw i'm hamddiffyn a'm bendithio, ac arwain fi yn y ffordd a ddylwn rodio!

Medi 26. Mae y digalondid, y prudd-der, a'r duedd i gilio o'r byd oedd yn rhag-gysgodi y siomedigaeth uchod, yn awr yn sefydlu i ymwrthodiad penderfynol o orchwylion blaenorol; yr wyf yn cyflwyno gweddill fy mywyd i Dduw a chrefydd, fy nheulu a'm gorchwylion bydol tuag at fywoliaeth. Nid ydwyf mwy yn gymeriad cyhoeddus yn ngwladwriaeth lenyddol fy ngwlad.

Hyd. 1. Wedi methu fel ymgeisydd am y gadair gyda fy Mhryddest ar yr Adgyfodiad, ond yn annheg yn ol y llais cyhoeddus. Cynnygiwyd y *National School* sydd yn cael ei hadeiladu i mi gan y ficer ar yr ammod i mi gydffurfio. Gwrthodais. Mae yr Eglwys a'r Capel wedi eu gosod yn erbyn eu gilydd trwy y mesurau a gymerwyd gyda golwg ar yr ysgol, a chyda golwg ar amser gwasanaeth yr Eglwys ar y Sabboth.

Hyd. 2. Mae y dydd hwn yn dyfod â dyrnod drom arall i'm teimladau a'm bywoliaeth trwy agoriad y *National School* newydd, yr hon oblegid anhawsderau o natur grefyddol y teimlwn yn rhwym o wrthod bod yn feistr arni. "Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymerodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd."

Hyd. 7. Gosodwyd achos fy ysgol o flaen y Cyfarfod Misol, pan benderfynwyd fy annog i barhau i'w chadw, a rhoddi *grant* o £15 i £20 i mi am ddysgu plant aelodau yn rhad, gan benodi pwyllgor lleol i ofalu am dani, yr hwn sydd i gyfarfod yn Nghapel Clynnog brydnawn ddydd Gwener nesaf.

Hyd. 21. Agor yr Ysgol Frytanaidd newydd yn y Capel. Dros 120 yn yr ysgol.

Hyd. 24. Anfon 12 *Caniadau*, 9c. yr un, i Mr. Ambrose, llyfrwerthydd, Bangor. Hefyd yn yr un parsel 1 *Caniadau* ac 1 *Robt. Williams* i'r Parch. John Phillips, fel anrheg. Gyru fy Mhryddest ar yr Adgyfodiad i'r Parch. Lewis Edwards, M.A., Bala, i'w chyhoeddi yn y TRAETHODYDD.

Hyd. 25. Ysgrifenu at Mr. G. Jones, cyhoeddwr, Bala, yr hwn a gynnygiai i mi £14 am fy Mhryddest, i ddyweyd na allwn yn awr ddyfod i ddim telerau o gwbl—ond y gallwn, fe allai, mewn 2 neu 3 mis.

Hyd. 26. Mr. Robt. Hughes yn pwyso arnaf i gyhoeddi fy Mhryddest, a galw yn ol fy nghytundeb âg Edwards. Dywedai fod ganddo 500 o danysgrifwyr mewn un ardal.

Hyd. 28. Anfon *Mab Afradlon* Mr. David Jones i Mr. Thos. Levi, Ystrad, near Swansea.

Hyd. 30. Derbyn *grant* o lyfrau Ysgol Frytanaidd o Lundain; talu eu cludiad, 3s. 4c.

Tach. 8. Dychwelyd traethawd cyntaf i'r TRAETHODYDD. Helynt fy Mhryddest allan yn yr *Amserau*.

Tach. 15. Derbyn anrheg o bwrs destlus iawn yn cynnwys 1 gini oddiwrth Mrs. Gwynne, wedi ei wneyd ganddi ei hun.

Tach. 22. Pwyllgor Eisteddfod Madog. Yno, cysgu yn nhŷ Mr. Ambrose.—26. Ysgrifenu at Mr. Ellis Owen i wrthod bod yn Fardd yr Eisteddfod.

Rhag. 9. Rhoddi £3 i Hugh Ellis, yr hwn sydd yn myned i Fangor yforu, i'w talu i'r Parch. John Phillips am fapiau.

Rhag 16. Cynnyg cymeryd Cae glas am £20 y flwyddyn o ardreth, ac adeiladu arno, os ceid prydles. Gofynid £30.

Rhag. 19. Ysgrifenu at Ieuan Gwynedd.

Rhag. 27. Galwodd y Parch. Mr. Ambrose.—28. Galwodd y Parch. Samuel Roberts.

Rhag. 31. Siarad efo'r Parch. Edward Morgan, Dolgellau, yr hwn a bregethai y bore heddyw.

Mor ddiolchgar y dylwn fod i Dduw am ei drugareddau i mi y flwyddyn hon. Fy mhrif orchwylion llenyddol eleni oeddynt y Bryddest ar yr Adgyfodiad, a hyrwyddiad Eisteddfod Tremadog. Mae fy amgylchiadau wedi cael ergyd yn agoriad yr ysgol newydd; ond yn y cwbl y mae amddiffyn Rhagluniaeth wedi bod yn amlwg drosof; mae yr oll ag oedd yn ymddangos yn fy erbyn wedi eu gor-uwchlywodraethu gan Ddwyfol ffafr er daioni i mi; ac uwchlaw y cyfan cefais fy nheulu heb na gwaeledd nac aflwydd. Derbyn fy aberth diolch, O fy Nuw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd a'n Cyfryngwr. Amen.

*Ar Fedd Mary, gwraig Mr. William Morris, Crugan.*

Yma rhan o Mair heini—faluria,
Fel eraill fu 'n oesi;
Daw awr ei chael, a dyrch hi
I'r lân o'i marwol leni.

*Ar Fedd Geneth* 18 *oed.*

Hi dynai 'mlaen i'w deunaw mlwydd,—yna
Edwinodd yn ebrwydd;
Aeth fel blod'yn gwŷn o'n gŵydd
I wywdra cyn addfedrwydd.

*Mewn llythyr i Awstralia.*

Postio yr wyf epistol—o Glynnog,
Olwyna 'n gylchynol
Bêl y byd, o bôl i bôl,
I Ddwyrain danddaearol.

1853.

Hyd. 19. Yn *Yr Amserau* am heddyw: "Yn y TRAETHODYDD am y mis hwn y mae gan Eben Fardd ganiad ogoneddus ar 'Afäon, y Bardd Ieuanc o Balas Anian.'"

1855.

Ion. 30. Anfon fy "Nghalfaria" ac "Ymweliad â Llangybi" i'r Parch. Roger Edwards, Wyddgrug, i'r TRAETHODYDD.

Chwef. 10. Anfon fy adolygiad ar *Fywyd Nicholas I.* gan Dr. Hughes, i'r Parch. Roger Edwards, i'w gyhoeddi yn y *Drysorfa* nesaf.

Mawrth 5. Clywed heddyw am farwolaeth y *Czar* Nicholas a Richd. Jones, Tyddyn drain.

Mawrth 21. Ympryd cyhoeddus. Ateb y Parch. Samuel Roberts.

Ebrill 12. Anfon adolygiad ar *Fyfyrdodau* y Parch. David Jones i'r *Drysorfa.*

Ebrill 23. Catherine yn bur anesmwyth, ond ar unwaith yn cael hyfrydwch melus wrth feddwl am orphwys gyda Christ yn y nefoedd. Dywedai fy mod wedi rhoddi iddi lawer o gysur trwy ddyfod â'r mater o flaen ei sylw. Canai gyda'i mam y prydnawn—

Duw, pwy a saif yn d' wyneb di,
Os crefi ar anwiredd?
Ond fel y'th ofner di yn iawn,
Yr wyt yn llawn trugaredd.

Y llinell ddiweddaf gyda neillduol bwys. Amlygai beth dychryn rhag fod ei phechodau yn fwy nag y gellid eu maddeu, ond yn bur fuan adenillodd ei hymddiried yn nhrugaredd Crist, a dywedai y byddai yn well ganddi farw os wedi ei hachub, gan obeithio yn lled gryf ei bod felly.

Ebrill 24. Catherine yn ymddangos yn dra gwahanol, fel yn wir yr ydoedd i raddau ddoe; yn bur wan, ac annhebyg iddi ei hun rywfodd; yn gysglyd, ac yn canu iddi ei hun "Y Cristion yn marw;" ail-adroddai y pedair llinell yn tertynu, "O f' enaid dwêd, ai angau yw?" Ymddengys yn llawer mwy tawel ac ymostyngol. Siarada ychydig am gariad Crist gyda gwresogrwydd diolchgar ac addoliadol. O Iesu, tosturia wrthi; dangos iddi ei bod o nifer dy bobl, nertha hi, ac os da yn dy olwg, adfer hi i iechyd a bywyd newydd, er mwyn dy ddyoddefaint a'th dyner gariad!

Y Doctor yma heddyw eto, yn dyweyd mai ei hafiechyd yn awr ydyw *gangrene*, anhwyldeb poenus a chaled. Ailadroddai ei ofnau o herwydd ei gwendid a llymder ei dyoddefiadau. Bydded i'r Iesu dosturio wrthyf ac iachâu fy merch.

Ebrill 28. Yn nghlaf ystafell Kate trwy y dydd, fel arferol.

Ebrill 30. Ymwelodd Dr. Williams, Tynewydd, a Dr. Pughe â hi. Effeithiai hyn ar ei chyfansoddiad gwanaidd yn fawr. Daeth yn llawer gwaelach, fel pe wedi blino ar y byd hwn gyda'i ddyoddefaint a'i fethiant, ac fel yn cael trem ar y trigfanau gwynfydedig a barotowyd gan ein Gwaredwr i bechaduriaid fel hi wedi eu gwneyd yn saint trwy ei waed. Adroddai rai llinellau o "*Ganaan hyfryd*" gydag ymostyngiad gobeithiol a thawel.

Mai 1. Catherine yn wael iawn. Heddyw y boreu hi adroddai ddwywaith, "Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw." Ceisiwn ei chysuro trwy ddyweyd fod Dafydd yn dymuno, "Bid i mi syrthio yn llaw yr Arglwydd, canys aml yw ei drugareddau ef, ac na chwympwyf yn llaw dyn." "Ië, Ie, Nhad bach," oedd ei hateb.

Mai 14. Dr. Pughe yma y prydnawn; yn dyweyd fod Catherine yn gryfach. Annhraethol ddiolch i'r Arglwydd! Gobaith yn adfywio. Addoli a rhyfeddu.

Mai 16. Y ddeuddegfed wythnos o waeledd Catherine. Ni wn beth i feddwl am dani. O hyd yn wael iawn, a dim tebyg i wellhau, mwy nag ydoedd chwech wythnos yn ol. Duw a'i helpo, a'r oll o honom. Dywedai y byddai yn well ganddi farw. Dymunai i Thomas Ellis weddïo gyda hi.

Mai 19. Catherine yn bur anesmwyth trwy y dydd. Gofynai i mi weddïo gyda hi. Sicrhëais hi fy mod yn gwneyd felly lawer gwaith yn y dydd, ac mai fy ngweddi oedd, 1. Ar i Dduw ei gwneyd yn dduwiol; 2. Ar iddo weled yn dda ei hiachâu; 3. Os na welai yn dda iddi gael mendio, ar iddo ryglyddu i roddi tystiolaeth iddi hi a ninnau ei bod yn dduwiol. "Nhad," meddai, "*gweddïwch fel yna o hyd.*"

Mai 28. Llun y Sulgwyn, am chwarter i bedwar, diangodd ein hanwylaf Catherine o'i holl ddyoddefaint i dangnefedd a gorphwysfa ogoneddus, fel yr ydym yn hyderus obeithio, trwy fawr drugaredd ei hanwyl Waredwr.

Meh. 2. Yn Mur Mawr. Mae yn ddrwg genyf fod Mary mor isel o ran iechyd ac ysbryd. Cynnorthwyed Duw hi.

Gor. 3. "Tosturiol iawn a thrugarog yw yr Arglwydd." *Profedigaeth a cherydd*—y gwahaniaeth.

Gor. 7. Anrheg Talhaiarn o'i lyfr yn cyrhaedd.

Gor. 12. Y Parchn. D. Silvan Evans a Wm. Rees yn cyrhaedd y prydnawn, i aros am heno ac yforu, i feirniadu Barddoniaeth Eisteddfod Llundain.

Gor. 18. Anfon fy meirniadaeth i'r Parch. D. Silvan Evans, i gael ei enw.—20. Derbyn y feirniadaeth oddiwrth y Parch. D. Silvan Evans â'i enw wrthi.

Awst 10. Anfon sylwadau ar Orgraff Gymreig i'r Parch. Thomas Phillips, Henffordd.

Awst 22. Anfon fy erthygl ar Eisteddfod Llundain i'r Parch. Roger Edwards, i'r TRAETHODYDD nesaf.

Medi 4. Rhoddi Eliza a James yn ngofal Duw i fyned gyda'r *excursion* i Gaergybi, fel aelodau o'r Ysgol Sabbothol. Bydded yr Arglwydd ar eu deheulaw i'w cadw, a rhodded iddynt les a bendith.

Medi 5. Dr. Pughe yn addaw talu 2g yr wythnos am yr *Amserau*, minnau i dalu y geiniog arall am ei gael i'w ddarllen am un diwrnod, i'w anfon iddo yntau yr ail ddiwrnod. Diolch i'r Hollalluog am ddychweliad diogel fy mhlant o Gaergybi.

Medi 9. Y cymundeb cyntaf i fy anwyl fachgen, James. Bydded ei fod wedi bwyta cnawd ac yfed gwaed Crist mewn gwirionedd.

Medi 29. Brynrodyn. Yn feirniad yn y Cyfarfod Llenyddol. Aros y noswaith a rhan o'r Sul gyda Mr. J. Jones, Groeslon.

Hyd. 20. Adref trwy y dydd yn trefnu fy helyntion fy hun ac eiddo y Capel.

Rhag. 16. Cyfarfod Llenyddol Pentir. Byw yn y Castell, a myned at John Owen, Ty'nllwyn, y noswaith.

Yn teimlo annigonolrwydd pob iaith ac ymadrodd i ddadgan fy niolchgarwch i'n Hollalluog Dad am ei ffafrau aneirif y flwyddyn hon. Yr wyf yn tywallt fy nghalon yn llawn o fawl iddo Ef yn enw fy Iachawdwr, Iesu Grist. Eleni fe gymerwyd fy anwyl Catherine oddiwrthym; ond bendigedig fyddo Duw, canys Efe a roddodd ac Efe a gymerodd ymaith; ac y mae genyf reswm i obeithio fod fy anwyl ferch yn mynwes Abraham. Mae ein gwaredigaethau, trwy ragluniaeth raslawn Duw, a'i fendithion mewn gras, wedi bod y tu hwnt i allu iaith i'w dadgan. Mollianus fyddo ei enw sanctaidd.

*Derbyniadau o privy purse* Dwyfol Ragluniaeth am y flwyddyn 1855:—Cyfarfod Llenyddol Bwlan, 2s.; ychwanegol o Borthmadog, £1; Eisteddfod Llanfairtalhaiarn, £2 2s.; Bethesda, *postage* yn cael ei ddychwelyd, 4s.; Eisteddfod Pontypridd, £1; Cyfarfod Llenyddol Talysarn, £1; Dyrchafael, Rhostryfan, 12s. 6c.; Cyfarfod Llenyddol Dinorwig, £4; Cyfarfod Brynrodyn, £2; Cyfarfod Llenyddol Pentir, £1 10s.; Cyfarfod Llenyddol Llanllyfni, 10s.

*Cofnod o helyntion a gweithrediadau llenyddol am y saith mlynedd yn terfynu Medi*, 1855.

1848. Archwilio Cyfrifon Undeb Caernarfon dros amryw flynyddoedd; gorchwyl anhawdd a phwysig, gan fod a fynai â chymeriad a chymhwysder amryw o'r swyddogion.

Dechreu cyfieithu *Chambers' Information for the People* i'r Gymraeg; tasg dra anhawdd ac anferth.

1849. Beirniadu fy hun gyfansoddiadau Eisteddfod Llanhaiarn. Cydfeirniadu gyda Joseph Jones a John Richards Farddoniaeth Eisteddfod Aberffraw (dim tâl); ond yr anffawd o ddigio y clerigwyr a'r boneddigion. Y ddadl fawr a maith ar Aberffraw. (Richards a Morris Williams wedi eu tramgwyddo.) Unig feirniad Eisteddfod Merthyr. Un William Edwards, gweinidog Annibynol yn Aberdar, wedi ei dramgwyddo.

1850. Beirniad Tredegar. Robt. Ellis, gweinidog y Bedyddwyr, a Ieuan Gwynedd, &c., yn anfoddlawn. Beirniadaeth Merthyr. Pryddest yr Adgyfodiad.

1851. Cydfeirniad, gyd'r Canghellwr Williams o Landaf, a Chaledfryn, ar Farddoniaeth Eisteddfod Athenæum, Caerdydd. Ieuan Gwynedd yn cwyno, &c. (Dim tâl.) Cydfeirniad gyda Tegid, Hiraethog, Caledfryn, &c., ar Farddoniaeth

Eisteddfod Liverpool. Ymosodiad llym gan rywun ar Gwalchmai, ennillydd y wobr, yn cael ei agor yn y papyrau. Unig feirniad Eisteddfod Dowlais. "Myfyr" a "Gorseddogion y Maen Chwyf" wedi tramgwyddo wrth Dewi Wyn o Essyllt, ennillydd gwobr y gadair. Beddargraff Dafydd Ionawr; petruso, a'i ollwng o fy nwylaw heb ei benderfynu. Cydfeirniad gyda Chaledfryn a'r Parch. Morris Williams yn Eisteddfod Madog. (Ellis Wyn wedi ei anfoddhau.) Beirniad Cyfarfod Llenyddol Ffestiniog.

1852.—Darlith Bangor. Anerchiad yn Mangor. Eto yn Nghaernarfon. Y personiaid wedi eu tramgwyddo yn ofnadwy. Beirniadaeth Merthyr, gyda y Parch. Richard Parry *(Gwalchmai)*. Cyfarfodydd Llenyddol Talysarn, Clynnog, Tregarth, a Charneddi.

1853.—Cyfarfodydd Llenyddol Caernarfon, Clynnog, Dinorwig, Talysarn. Cyhoeddi Eisteddfod Bangor. Cyfarfod Dosbarth Ysgol Sabbothol Talysarn. Cyfarfodydd Llenyddol Rhostryfan a Ffestiniog. "Afäon" wedi ei ysgrifenu y flwyddyn hon a'r un flaenorol.

1854.—Cyfarfod Ysgol Sabbothol Penygroes Llanllyfni. Cyfarfodydd Llenyddol Rhostryfan, Capel Coch (Llanberis), a Thalysarn. Eisteddfod Ffestiniog, cydfeirniad â'r Parch. Wm. Ambrose *(Emrys)*. Cyfarfodydd Llenyddol Rehoboth (Llanberis), Bethesda (cydfeirniad â'r Parch. Richard Parry), Clynnog, ac Ysgoldy Pencaenewydd. Eisteddfod Treforris (unig feirniad y testunau a roisid i mi; rhai yn ymddangos yn siomedig yma, a throes yr holl bwyllgor a'i swyddogion yn greaduriaid anffyddlawn a bawaidd. Dim tâl). Cyfarfod Llenyddol Porthmadog. Eisteddfod Merthyr. (Codwyd terfysg mawr gan y brodyr o Lanbrynmair yn y *Cronicl* a manau eraill ynghylch y feirniadaeth, am fod un o honynt yn aflwyddiannus. Ymddangosodd ymosodiad arall ar y traethawd a'r feirniadaeth yn y *Carnarvon and Denbigh Herald* fel adolygiad, a gellid meddwl o soriant am fod y Gogledd wedi cael y wobr ac nid y Deheudir, heblaw cymhellion annheilwng eraill a ddangosid gan yr ysgrifenydd. Ond cymeradwyid a chanmolid y traethawd a farnwyd yn fuddugol yn fawr, gan *Y Methodist*, *Y Gwerinwr*, a'r TRAETHODYDD.) Awdl "Calfaria."

1855.—Eisteddfod Cymmer. Eisteddfod Llanfairtalhaiarn. (Unig feirniaid yn y ddwy ar y testunau a roisid i mi.) Cyfarfod Llenyddol Dinorwig. (Cafwyd fod yr ymgeisydd a farnwn yn ail yma yn euog wedi hyny o len-ladrad yn ei draethawd, wedi cymeryd 194 o linellau o Eiriadur W. Jones, a 150 o linellau o waith gan y diweddar Wm. Cobbett, y rhai a gorfforid gyda ei eiddo ei hun heb eu nodi fel dyfyniadau.) Eisteddfod Llundain, lle yr oeddwn yn gydfeirniad â'r Parchn. D. Silvan Evans a Wm. Rees. (Dangoswyd cryn lawer o anesmwythyd ac anfoddlonrwydd gan rai o'r ymgeiswyr, yn neillduol "Robyn Wyn" a "Llanerchydd," sef Thomas Parry, Llanerchymedd. Dywedir fod Caledfryn yn chwyrnu yn bur fygythiol. Nid yn unig ni thalwyd i mi yma, ond ni thalwyd i mi y *postage*.—Talwyd y *postage* wedi hyny.)

**Yn awr ar derfyn y saith mlynedd yma o wasanaeth cyhoeddus parhaus, yr wyf yn meddwl am newid fy nghynllun ychydig, fel ag, 1. I gadw yn fwy neillduedig. 2. I gwtogi fy ngohebiaeth. 3. I wneyd llai o farddoniaeth a phethau eraill i gardotwyr llenyddol, a rhai yn ceisio Englynion, &c. 4. I feirniadu llai, yn wir i beidio beirniadu o gwbl oddieithr i Gymdeithasau Llenyddol yn fy Ngoror Farddol fy hun a geisiont fy ngwasanaeth, neu ar ryw achlysuron neillduol, ac i hawlio ar fod *tâl* rhesymol yn cael ei dderbyn ymlaen llaw. 5. I grynhoi fy ymadferth eithaf i ychwanegu, gwellhau, a threfnu fy nghynnyrchion fy hun, a defnyddio fy amser er fy mudd fy hunan. 6. Mewn trefn i ochel gofidiau a phylu saethau soriant llenyddol, i ystyried fy hun yn gelfofydd *(amateur)* yn hytrach nag yn broffeswr, a fy ngweithiau fel arbrofion yn hytrach na gorchestion gorphenedig.**

---

Yn ddigon hynod, wedi ffurfio y penderfyniadau uchod ymwelwyd â mi gan Dr. Edwards o'r Bala, Gor. 29, 1856, yr hwn a'm cynghorai yn gryf i roddi i fyny feirniadu, gan fod yn rhaid ei fod yn cymeryd cymaint o fy amser i ddarllen ac ysgrifenu, yr hyn wedi y cwbl na ateba ond ychydig ddyben. Mae y cyd-darawiad yma o opiniwn cyfeillgar a barn oleuedig yn cryfhau fy mhenderfyniad blaenorol i roddi i fyny y cwrs yma ar unwaith ac am byth, wedi saith mlynedd faith o drybestod a sarhâd.

## 1862

[illegible] ... fy mhen-blwydd-yn ... [illegible] ... [illegible] ... [illegible] E. Thomas.

---

Ymddengys mai y paragraff diweddaf [illegible] a [illegible] am ei helynt am y saith mlynedd y cyfeiria atynt. Ond cawsom ysgrif-lyfr bychan wedi ei ysgrifenu yn 1861 am [illegible] olaf ei fab James, marwolaeth yr hwn a effeithiodd mor dwys arno fel y bu farw ei hunan Chwefror 17, 1863. Dyma y cofnodion, ac y maent wedi eu hysgrifenu yn Gymraeg:—

### James ar ei Glaf Wely.

Yn gynnar yn Ionawr, 1861, wedi bod yn holi y Sul blaenorol am ysgrif yr adnod, dywedai tua dydd Mawrth neu ddydd Mercher, "Byddaf yn meddwl am y wers hono, 'Canys y mae arnaf chwant i'm dattod, a bod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw.'"

Ion. 12. "Fyddwch chwi'n gweddio, Nhad, am i mi gael fy achub?" "Byddaf bob amser, James bach, erioed; ond yr wyf yn meddwl dy fod wedi cael dy achub; diolch am hyny y byddaf fi fwyaf yrwan." "O, wn i ddim yn wir, bydd arnaf lawer o ofn."

Ion. 18. "Fyddwch chwi 'n gweddio, Nhad, drosta i?" "Byddaf, James bach; ai ni fyddi di yn cael dim ambell air o gysur oddiwrth Iesu Grist?" "Byddaf, ambell air weithiau; yr wyf yn methu cael fy hun yn ddigon agos, cywilydd, &c." Dywedais res o bethau sydd rhyngom ac Ef yma, yr hyn a'i tawelodd; megys salwch, poen, ofn, &c.

Ion. 21. "Wyt ti yn cael ambell air o gysur oddiwrth yr Arglwydd, James bach?" "Ambell air, nid mor aml ag y byddwn, pennill weithiau." "Wel, yn dywyll y mae hi ar y goreu yma, trwy ddrych, mewn dammeg; ond yr wyf yn hyderus iawn dy fod yn ddiogel dy gyflwr." "O, peidiwch a bod yn rhy hyderus am beth mor fawr, rhag ofn i ni gael siomedigaeth." Wrth son am y Doctor, "Fedr e wneyd dim byd i mi, mae *marw* yn fy ymyl; yr ydw i'n myn'd wanach, wanach, o hyd!"

Ion. 22. Dywedai yn ddystaw ei fod yn meddwl am y wers bach hono, "Iesu Grist ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

Ion. 23. Dywedai wrthyf fod rhes o wersi yn rhedeg trwy ei feddwl, megys, "A hyn a fu rhai o honoch chwi, eithr chwi a olchwyd," &c., gan adrodd y geiriau ynglŷn ac ol i'r geiriau uchod.

Ion. 24. Cwynai nad oedd yn cael fawr o gysur crefydd, a'i fod yn ofni nad oedd yn gweddio digon. Cynghorais ef i fwrw ei ofal ar yr Arglwydd, ei *fod* Ef yn gofalu drosto; nas rhoddai i fyny, ac nas llwyr adawai.

Ion. 25. Boreu tuag 11, gofynai sut yr oedd diwedd y pennill,

"Cyfammod rhad, cyfammod cadarn Duw;"

dywedais ef wrtho ar ei hyd, ac yr oedd yn falch iawn o hono. Yr oedd y wers "Cyfammod fy hedd ni syfl," &c., hefyd wedi dyfod ato, a sylwai mor ryfedd oedd fod geiriau fel hyn yn dyfod ato, a gofynai, A allai, tybed, bwyso arnynt? Yn y prydnawn yr oedd wedi cysgu a deffrodd yn sal iawn, dywedai wrthyf. "Mae marw yn beth mawr! Yr wyf yn nesu ato o hyd."

Ion. 30. Pan ddywedais wrtho mai dyma ei ddydd genedigaeth, sylwai, "Mor wir yw y Bibl, onide? Mae y deunaw mlynedd yma wedi cilio fel cysgod."

Ymhen ychydig ddyddiau wedi hyny ymddangosodd y marw-goffa canlynol yn y *Carnarvon and Denbigh Herald*.—

On the 27th ult., after a long, lingering illness, endured with the most pious and calm resignation, James Ebenezer, the only and beloved son of Mr. Ebenezer Thomas (Eben Fardd), Clynnog Fawr, aged 18 years.

Och! O! fy Mab, ni chaf mwy—dy wyddfod
  Addfwyn, anmhrisiadwy;
O! dyma gledd!—dyma glwy!
Fy enaid wyfa ynwy'! — EBEN FARDD.

Mae yn debyg mai tua'r amser yma, pan oedd y cymylau iddo yn dychwelyd ar ol y gwlaw, y canodd y Bardd y ddau bennill tyner a ganlyn:—

Rho'f fy nhroed y fan a fynwyf,
  Ar sigledig bethau 'r byd;
Ysgwyd mae y tir o danaf,
  Darnau 'n cwympo i lawr o hyd:
Ond os caf fy nhroed i sengi,
  Yn y dymhestl fawr a'm chwyth,
Ar dragwyddol Graig yr Oesoedd,
  Dyma fan na syfla byth.

Pwyso 'r boreu ar fy nheulu,
  Colli rheiny y prydnawn!
Pwyso eilwaith ar gyfeillion,
  Hwythau 'n colli 'n fuan iawn:
Pwyso ar hawddfyd—hwnw 'n siglo,
  Profi 'n fuan newid byd;
Pwyso ar Iesu—dyma gryfder
  Sydd yn dal i'r pwysau i gyd.

## CYNNADLEDD AR BREGETHU EFENGYLAIDD.

MAE sylw arbenig yn cael ei dalu i bregethu yn Lloegr yn y dyddiau hyn. Cwestiwn a ofynir yn aml yn Nghymru ydyw, A ydyw y pulpud yn colli ei afael ar y genedl? Ac yn llawn mor fynych gofynir, A ydyw nerth y pulpud yn gwanychu? Nid ydym yma am gynnyg unrhyw atebiad i'r naill na'r llall o'r cwestiynau hyn; yn unig dywedwn mai y rhai parotaf i ateb y fath gwestiynau, yn aml, yw y rhai anghymhwysaf i wneyd hyny. Ceir rhai, mor lawn o ddallbleidiaeth i'r dyddiau o'r blaen, a phob peth ynddynt, fel nas gallant roddi barn deg a diduedd ar ddim y sydd yn awr; a cheir rhai hefyd mor lawn o edmygedd o bob peth eu hoes eu hunain, fel mai gorchwyl anhawdd ydyw eu hargyhoeddi fod dim o werth wedi ei wneyd mewn gwlad nac eglwys, hyd nes y gwnaethant hwy eu hymddangosiad. Mae y ddau ddosbarth yna i gael eu troi allan o'r llys fel rhai anghymhwys i ddwyn tystiolaeth, pa mor onest bynag y gallont hwy fod yn nghywirdeb yr hyn a draethant. Cyn y byddo unrhyw un yn gymhwys i roddi barn ar weinidogaeth ei oes ei hun, a chaniatâu ei fod yn gymhwys ymhob peth arall, rhaid iddo feddu cydnabyddiaeth helaeth â hi; a hyny nid mewn rhyw un rhanbarth o'r wlad, ond trwy y wlad oll; ac nid ychwaith ymysg un enwad, ond ymysg pob enwad yn ddiwahaniaeth. Profedigaeth gyffredin dynion ydyw tynu casgliadau cyffredinol oddiar seiliau cyfyng iawn. Synwyd ni yn fawr, lawer gwaith, gan yr anffaeledig-

aeth gyda'r hwn y mae rhai dynion yn traethu eu barn ar weinidogaeth yr oes neu y genedl, pan y gwyddem fod eu holl wybodaeth yn gyfyngedig i ranbarth o wlad, ac agos yn gwbl i un enwad yn y rhanbarth hwnw. Nid yw Cymru oll ond bechan, ac eto byddai yn syn gan lawer, pe gwybyddent, mor ddyeithr ydyw lliaws mawr o bobl, oddiwrth y rhai y gallesid dysgwyl pethau amgenach, i bawb y tu allan i derfynau eu henwad eu hun. Prin yr ydym yn credu, ac yr ydym yn sicr nad oes, yr un pregethwr yn Nghymru ag y mae hyd yn nod ei enw yn adnabyddus i bawb o bob enwad yn ein gwlad. Na ddigied ein pregethwyr poblogaidd wrthym am ddywedyd hyn. Nid eu bai hwy ydyw, ond y mae y rheswm yn anwybodaeth y bobl, ac yn nyeithrwch yr enwadau i'w gilydd. Yr ydym yn dyweyd hyn oll i ddangos mor anghymhwys yw y rhan fwyaf o ddynion i roddi barn deg hyd yn nod ar weinidogaeth eu hoes eu hun. Yn awr y mae gwneyd cyferbyniad rhwng pulpud yr oes hon a phulpud yr oes o'r blaen, yn gofyn cymhwysderau ychwanegol. Rhaid i'r cyfryw feddu, nid cydnabyddiaeth ëang â phulpud yr oes hon yn unig, ond hefyd â phulpud yr oes a'r oesau a fu o'r blaen; yn gystal â medr i elfenu nodwedd yr amseroedd, a theithi amlycaf y weinidogaeth ynddynt. Cyfeiriwn at y pethau hyn i ddangos nad cwestiynau i'w hateb yn frysiog ydyw y cwestiynau, a ydyw y pulpud yn colli ei afael yn Nghymru, neu a ydyw nerth y pulpud yn gwanychu; ac nid doeth rhoddi barn ehud arnynt.

Mae un peth, pa fodd bynag, yr ofnwn fod yn rhaid i ni ei gydnabod am Gymru, a'r hyn y mae Lloegr, ar hyn o bryd, ar y blaen arnom; rhoddir mwy o fri ganddynt ar bregethau cyhoeddedig. Sicrheir gan amryw o lyfrwerthwyr penaf Llundain nad oes yr un dosbarth o lenyddiaeth ag y mae mwy o alw am dano na phregethau; a dywedai un yn ddiweddar ei bod yn ymrysonfa galed rhyngddynt â'r nofelau. Nis gall y neb nad yw wedi talu sylw i hyn ddirnad cynifer o gyfrolau o bregethau a fwrir allan o'r wasg bob blwyddyn. Ceir pregethau mewn nifer mawr o'n newyddiaduron wythnosol, heb gyfrif y rhai a ddaw allan yn rheolaidd bob wythnos heb ddim ond pregethau ynddynt. Nid ydym yn ammeu nad "coed, gwair, a sofl" yw llawer o honynt, heb sylwedd nac ysbryd ynddynt. Nid ydynt yn dysgu unrhyw wirionedd yn eglur, nac yn cymhell unrhyw ddyledswydd yn bendant; nid oes ynddynt oleuni i'r deall na gwres i'r galon; ond dyweder a fyner, y mae y lledaeniad sydd iddynt yn profi fod llawer o ddarllen arnynt. Ond ymysg y rhai a gyhoeddir ceir rhai o'r cyfrolau gwerthfawrocaf. Cynnwysant bregethau sydd yn gyfoeth ynddynt eu hunain. Nis gellir eu darllen heb dderbyn rhyw ysbrydiaeth drwyddynt. Arweinir y meddwl ganddynt i diriogaethau uchel a chysegredig. Teimlwn wrth ddychwelyd oddiwrthynt ein bod wedi bod yn nghymdeithas prophwydi sydd yn gweled gweledigaethau Duw. Ond dechreuasom gyda dyweyd ein bod yn ofni nad yw Cymru yn rhoddi y fath fri ar bregethau cyhoeddedig ag a roddid unwaith; a haerir gan rai o'n cyhoeddwyr Cymreig, mai pregethau yw y nwyddau mwyaf anwerthadwy yn y farchnad. Dichon ein bod fel cenedl yn fwy o wrandawyr nag o ddarllenwyr; ac yn enwedig ynglŷn â phregethau, ein syniad ydyw eu gwrando, ac nid eu darllen Tueddir ni hefyd i feddwl fod dirywiad yn hyn ymysg ein cenedl. Mae llenyddiaeth newyddiadurol wedi dyfod

yn genllif dros ein gwlad, ac ysfa am nofelau yn bwyta pob peth arall i fyny, fel nad oes cymaint o ddarllen ag a fu ar bethau pur a sylweddol, ac yn enwedig felly ar bregethau. Mae y cyfrolau pregethau a gyhoeddwyd yn ein hiaith y chwarter canrif diweddaf, a'u cymeryd gyda'u gilydd, yn uwchraddol i ddim a gyhoeddwyd yn ein hiaith yn flaenorol; a deil rhai o honynt gyferbyniad ffafriol â'r pregethau goreu yn yr iaith Saesoneg; er y gwelsom hefyd ryw feirniad er ys tro yn ol yn gofyn, "Pa bryd y cyhoeddir yn yr iaith Gymraeg gyfrol o bregethau o nodwedd pregethau Canon Liddon?" Nid yw yn debyg y cyflenwir dysgwyliadau uchel y gŵr hwnw, hyd oni chyhoeddir cyfrol o'i bregethau ef ei hun. Credwn fod pregethau o nodwedd uchel, pregethau sydd yn gynnyrch meddyliau cryfion a diwylliedig, wedi eu cyfansoddi yn gelfydd a gorphenol, ymysg y pethau goreu i bregethwr eu darllen yn achlysurol. Nid er mwyn eu defnyddio, ond er deall y cynlluniau uchel o gyfansoddi, ac er ymberffeithio mewn arddull. Ni feddyliai neb am dd'od yn arlunydd heb ymdroi yn yr orielau, lle y ceir y lluniau goreu, a thalu sylw helaeth i orchestion y rhai a ystyrir yn feistriaid yn y gelfyddyd. Pwy ddychymygai am dd'od yn fardd o radd uchel heb ddarllen yn helaeth weithiau prif-feirdd yr oesau? Wrth gymdeithasu â hwy y cyfranogir o'u hysbryd. Yr un modd yn hollol y mae darllen, yn gystal a gwrando pregethau "meistriaid y gynnulleidfa," yn rhoddi i'r pregethwr ieuanc syniad am gynllun a chyfansoddiad pregeth, yn gystal â'i gweithiad allan. A pha beth mor annheilwng mewn pregethwr ieuanc, gyda holl fanteision yr oes hon, ag ydyw pregeth ddigynllun, wasgarog, anghysylltiol, ddarniog ei brawddegau, heb ôl llafur lenyddol arni. Er y gall gynnwys llawer o feddyliau cryfion ac eglurhadau hapus, a'r cwbl yn cael eu traddodi gyda gwres mawr, eto y mae y dyn a foddlona ar y fath gyfansoddiad amrwd ac anaddfed yn rhwym o ddisgyn yn syniad pob dyn craff a meddylgar a'i gwrandawo. Un prawf, pa fodd bynag, o'r sylw arbenig a delir yn Lloegr y dyddiau hyn, ydyw y galw mawr sydd am bregethau cyhoeddedig.

Mae y sylw ychwanegol a roddir yn ein Colegau i bregethu yn myned ymhell i brofi yr un peth. Yn y rhan fwyaf o honynt rhoddir lle amlwg i hyn yn yr addysg reolaidd; a dylai fod felly ymhob man. Gan mai pregethwyr y bwriedir i'r efrydwyr fod, i hyny yn arbenig y dylid eu cymhwyso, mor bell ag y gall hyfforddiant athrawol gymhwyso dynion i waith y weinidogaeth. Beth bynag arall ddylai athrawon ein Colegau Duwinyddol fod, dylent, yn mlaen pob peth, fod yn bregethwyr, ac mewn cydymdeimlad trwyadl â phregethu. Mae yr athraw fedr wneyd gwawd o hwyl pregethwr ieuanc, neu ddynwared ei ymgais at fod yn ddoniol, nes peri ei fod yn chwerthiniad yn ngolwg yr holl ddosbarth, yn hollol annheilwng o'r safle y mae ynddi. Gellid cael digon o ffyrdd i gywiro camgymeriadau dyn ieuanc heb wneyd gwawd o hono, ac heb lethu yr ysbryd a'r asbri sydd ynddo; oblegid y mae y cyfryw yn bethau ag y gellid, o dan ddysgybaeth briodol, eu troi yn gynnorthwyon effeithiol i'r weinidogaeth. Nid oes dim mor bwysig a chael "dynion ffyddlawn, y rhai a fyddant gymhwys i ddysgu eraill," yn holl gadeiriau ein Colegau duwinyddol. Ond heblaw y cyfarwyddiadau a roddir yn nghwrs rheolaidd ein Colegau, y mae darlithiau i

fyfyrwyr, gan ddynion o oedran a phrofiad wedi dyfod yn lled gyffredinol yn y blynyddau diweddaf. Mae Darlithiau Spurgeon, Dale, Beecher, ac eraill, a draddodwyd ac a gyhoeddwyd, wedi profi yn hyfforddiant gwerthfawr i bregethwyr. Maent yn llawn o addysg ymarferol, gan eu bod yn ffrwyth sylwadaeth graff a manwl dynion galluog wedi cael hir brofiad yn y weinidogaeth. Ond yr ydym ni yn cyfeirio atynt yma, nid er mwyn galw sylw at eu gwerth, ond er mwyn dangos fel y mae pregethu yn ennill sylw yn Lloegr, ac y ceisir ei wneyd, nid yn rhyw ran ffurfiol o'r gwasanaeth, ond fel y dylai fod, yn enaid a bywyd yr holl addoliad.

Ond y mae y pregethiad o'r Efengyl a'r lle a ddylai gael yn ein haddoliad wedi cael mwy o arbenigrwydd na hyn eto. Penderfynodd Pwyllgor Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru, fod un eisteddiad yn y cyfarfod Hydrefol diweddaf yn Nottingham i gael ei gyflwyno yn llwyr i'r mater. Enwyd tri o wŷr galluog i gymeryd y pwnc i fyny yn ei wahanol agweddau: Y Parch. J. Mackennal, B.A., D.D., ar "*Hyfforddiant i bregethu yn ein Colegau;*" y Prifathraw Cave, B.A., o Goleg Hackney, ar "*Feithriniad yr Arfer o bregethu heb ddarllen;*" a'n cydwladwr, y Parch. J. M. Gibbon, ar "*Y pwysigrwydd i bregethu gadw ei le yn ngwasanaeth cyhoeddus yr Eglwys.*" O herwydd rhyw amgylchiadau gorfuwyd gohirio y ddau fater cyntaf hyd y cyfarfod blynyddol yn Mai; felly ni chafwyd ond yn unig yr olaf. Mae y papyr yn un galluog, yn llawn o sylwadau bywiog a bachog; er hwyrach y tybia rhai y gallasai wneyd â llai o fwstard a phupyr a halen, ac na buasai ychydig yn ychwaneg o urddas a defosiwn mewn un modd yn anghydweddol â phwysigrwydd y testun a'r amgylchiad. Ond y mae y papyr, er hyny, yn un nas gellir ei ddarllen heb deimlo ei fod yn tori i'r byw. Cymerer y dyfyniadau a ganlyn :—

Mae gan y Testament Newydd bedwar gair i ddarlunio y pregethwr. Lleferir am dano fel Cenadwr yn dwyn cenadwriaeth oddiwrth Dduw; fel Efengylwr, yr hwn sydd yn dwyn newyddion da oddiwrth Dduw; fel Athraw, sydd yn egluro yr hyn a gyhoedda; ac fel Tyst, yr hwn sydd yn alluog, allan o'i brofiad ei hun, i ddwyn tystiolaeth i wirionedd ei genadwri. Y cyfryw ydyw pregethwr y Testament Newydd; nid un neu ddau o'r rhai hyn ydyw, ond y rhai hyn oll mewn un. Yn awr edrychwch ar anghenion byw dynion byw, a gwelwch ai nid oes ei angen. Tuedda y Proff. Mahaffy i feddwl nad oes angen y cenadwr mwy. Yn ei lyfr dywed wrthym fod grym ac ystyr yn y geiriau, "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist a chadwedig fyddi," pan y cyferchid y Paganiaid gan bregethwyr y ganrif gyntaf; o'u ni byddai i ni o'u cyfeirio at gynnulleidfa o Gristionogion, wneyd dim ond eu cymhell i wneyd yr hyn y maent eisoes wedi ei wneyd. Ond ymhob cynnulleidfa yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y mae nifer o wŷr a gwragedd y rhai *nad* ydynt yn Gristionogion o gwbl, yn ystyr y Testament Newydd. Nid ydynt nac yn credu, nac yn proffesu credu yn Iesu Grist fel eu Harglwydd. Y maent yr hyn a alwasai ein tadau yn "bobl annychweledig." Dywedir wrthym mai y cwestiwn mawr sydd genym yn awr i'w wynebu ydyw adeiladwaith a hanesiaeth yr Hen Destament. Mae hyny yn bwysig yn ddiau; ond yr wyf yn argyhoeddedig mai cwestiwn llawer mwy pwysig i ni, a'r hwn y mae yn rhaid i ni ei wynebu ydyw, A ydym ni, neu ai nid ydym, yn credu mai Iesu Grist yw Uniganedig Fab Duw, ac unig Waredwr dynion? A ydym ni yn parhau i ddal fod bod yn Nghrist yn rhywbeth mor wahanol i fod allan o Grist, ag ydyw bod yn y goleuni i fod yn y tywyllwch—ag ydyw bod yn fyw i fod yn farw? . . . A awn ni rhagom gan bregethu Crist? Dibyna ein hatebiad ar yr atebiad a roddir i gwestiwn arall, A oes ar y byd angen Crist? Nid ei angen fel dysgawdwr ac esiampl, ond ei angen fel

Gwaredwr. "Nid eisieu blodau sydd arnaf, ond eisieu ymolchi," meddai *sweep* bychan du wrth eneth a gynnygiai flodau iddo. Y fath wrthuni fuasai addurno y bychan cyn ei olchi; llawn mor wrthun ydyw son am addurno a phrydferthu dynion â blodau addysg a moesoldeb, heb eu golchi yn gyntaf. "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist a chadwedig fyddi." Fel yr oedd gan Grist yn yr anialwch o'i flaen dyrfa o bobl iach newynog, ac na phetrusodd osod o'u blaen fara cyffredin Galilea, ac ychydig bysgod o'r llyn gerllaw, gan wybod yn dda y byddai eu hangen yn ddigon i roddi blas arnynt; felly y mae gan y pregethwr o'i flaen y dyddiau hyn wŷr a gwragedd newynog am y Duw byw. Maent yn afiach ac yn bruddaidd; mae ganddynt eu colledion a'u croesau. Maent yn siomedig mewn bywyd; mae arnynt ofn marw; ac nid oes unrhyw ddysg newydd o'r eiddom ni a'u diwalla yn gyffelyb i hen bethau Duw. Mae cyffroadaeth yn cenedlu dirmyg yn anocheladwy. Blina dynion yn edrych ar y *fireworks*, ond byth ni flinir edrych ar y ser. Mae y gwreiddioldeb yn yr Efengyl ei hun. Mae yn hynach na'r mynyddoedd, eto yn newyddach na gwawr ruddgoch y boreu. Os cynnygia dyn o'i logell ei hun foddhau cynnulleidfa yr Arglwydd, caiff ei hun yn fuan yn fethdalwr. Erys basgedi y rhai a gymerant gan Grist yn gyntaf, cyn rhoddi i eraill, byth yn llawn; ac y mae bendith y Tad trwy Eiriolaeth y Mab yn gorphwys ar yr hyn a roddir yn gystal âg ar yr hyn a gesglir. Nid yw ein pregethau yn dyhysbyddu y Bibl, mwy nag y gwna bwcedi y plant y môr; erys yn llawn o ddefnydd pregethau, y fath ag y sydd ar ddynion eu hangen. Pa le bynag y mae dynion—euog, trallodus, ofnus—heddyw, yno y mae yn rhaid wrth y pregethwr—yn rhaid, meddaf, nid i barotoi dysgleidiau o'i ddamcaniaethau ei hun wedi eu pupyro â gwawdiaeth a'u halltu â bratheiriau; ond i roddi i ddynion yr hyn y mae Crist wedi ei roddi iddo yntau, sef geiriau bywyd tragywyddol.

Nis gallwn ddyfynu ychwaneg, er fod y papyr hyd ei derfyn yn llawn o'r fath bethau; ac yr oedd y modd y gwrandewid ef a'r gymeradwyaeth uchel a roddid iddo yn brawf o'r sylw mawr y mae pregethu yn ei gael, ac yn dangos yn eglur fod deffroad amlwg wedi cymeryd lle yn y teimlad am i'r pulpud barhâu a chyunyddu yn ei effeithioldeb. Mae yn eglur fod dyddiau pregethau oer a difywyd wedi eu rhifo; pregethau, beth bynag a ddywedid am eu hiachusrwydd, oeddent yn fwy o gymhorth i gysgu nag i fyw yn well. Yr oedd eu gwrando yn faich, ac ar ol eu gwrando ni adawent ddim i ailfeddwl am dano. Ni dderbynid unrhyw ysbrydiaeth oddiwrthynt i fywyd uwch, ac nid oes dim mor sicr o ddwyn y pulpud i anfri a'r fath bregethu. Nid rhyfedd fod y gwrandawyr yn myned fel delwau o dan y fath bregethau sych ac annyddorol.

Ond i ba le yr ydym wedi myned? Yr ydym wedi myned i ryw le ymhell oddiwrth benawd ein hysgrif, onid ydym? Ac eto, yr ydym yn ceisio cadw golwg arno, ac yn ceisio ymlwybro ato, er o bosibl yn ymdroi cryn lawer ar y ffordd. O'r braidd hefyd nad ydym yn credu ein bod ar ein ffordd ato. Os nad ydym yn camgymeryd, yr oedd a fynai y pethau hyn oll â pharotoi y llwybr er galw ynghyd y Gynnadledd ar Bregethu Efengylaidd, at yr hon yn arbenig y dymunem gyfeirio. Dichon hefyd fod a fynai y cyhuddiad a ddygwyd gan Mr. Spurgeon yn erbyn gogwyddiadau duwinyddol y dyddiau hyn, â galw ynghyd y Gynnadledd; a'i bod wedi ei hamcanu, er heb ddyweyd hyny, i fod yn atebiad, mewn modd anuniongyrchol, i'r cyhuddiad hwnw. Ni pherthyn i ni yma gyffwrdd â dadl "y Goriwaered," fel ei gelwir, a'r cynhwrf mawr a achoswyd drwyddi; y cwbl a ddywedwn ydyw, beth bynag o annoethineb a fu yn y dull y gwnaed yr ymosodiad, pa eiriau caledion bynag a lefarwyd o'r ddau du, a pha mor fawr

bynag yw y blinder a all achosi, dros amser, yn enwedig yn eawad parchus y Bedyddwyr, y mae yn sicr y daw daioni mawr o honi yn y diwedd. Gosodir attalfa ar ryw rai hyf a allasai fod yn gogwyddo i fyned ar y goriwaered; deffroir yr eglwysi i fwy o wyliadwriaeth pa beth a gynnygir iddynt fel gwirionedd; telir sylw helaethach i athrawiaethau yr efengyl, y rhai y mae perygl iddynt o dan ryw amgylchiadau, ymhob oes, i gael eu hesgeuluso; ac y mae yn eglur ei bod eisoes wedi effeithio er rhoddi i'r hyn sydd yn hanfod pregethu efengylaidd le mwy amlwg yn y weinidogaeth. Er i'r cwestiwn yma gael ei gadw allan yn hollol o'r Gynnadledd dan sylw, eto nid oedd yn anhawdd, ond darllen rhwng y llinellau, i ddeall ei fod yn ngolwg amryw o'r rhai a gymerent ran ynddi; eu bod, er heb ymhoni i hyny, yn awyddus i ddangos nad oedd sail i'r cyhuddiad eu bod yn cilio oddiwrth y symlrwydd sydd yn Nghrist.

*Idea* Dr. Parker, fel yr ymddengys, oedd cael y Gynnadledd. Meddwl cynnyrchiol mewn dyfeisiau, a phan y tybia fod pethau yn myned yn rhy dawel, y mae yn y fan yn galw rhyw angel i ddisgyn i gynhyrfu y llyn. Ac y mae yn gwneyd pethau na feiddiai neb arall eu gwneyd; a'r hyn sydd yn rhyfedd ydyw, o dan ei law ef fod y cwbl yn troi yn ymarferol; ac nid yw yntau ei hun yn myned yn anghof. Efe oedd y symudydd yn yr amgylchiad yma; er mai Dr. Newth, o Goleg St. John Wood, a weithredai fel ysgrifenydd, a thrwy ei fedr ef, yr oedd yr holl drefniadau bron yn berffaith. Sicrhawyd cydweithrediad yr holl enwadau Ymneillduol, a gwnaed ymgais i gael yr Eglwyswyr hefyd i gydweithio. Ceisiwyd gan Esgob Gloucester, a Deon Canterbury, ac Archddeon Farrar, a Canon Wilberforce gymeryd rhan; ond ymesgusodent yn y modd mwyaf parchus, oblegid ymrwymiadau blaenorol o'r eiddynt. Ymysg y rhai oeddynt bresennol, ac yn cymeryd rhyw ran, yr oedd y Parchedigion Dr. Allon, Dr. Parker, Dr. Clifford, Dr. Fairbairn, Dr. Newth, Dr. Stevenson, Dr. Reynolds, Newman Hall, T. V. Tymms, Dr. Stoughton, Dr. Green, J. C. Harrison, J. G. Rogers, B.A., E. E. Jenkins, S. McFarlane, Dr. Munro Gibson, Proff. Davison, Proff. Agar Beet, Dr. Mackennal, Dr. Adamson, Hugh Price Hughes, M.A., R. F. Horton, M.A., R. H. Roberts, B.A., a J. Morgan Gibbon. Cymerodd y rhai hyn oll ryw ran gyhoeddus yn yr eisteddiadau; ac yr oedd heblaw hyn ugeiniau, os nad cannoedd, o weinidogion a myfyrwyr yn bresennol, gyda lliaws mawr o leygwyr, a boneddigesau parchedig nid ychydig.

Nis gallwn fyned yn fanwl trwy yr holl weithrediadau. Cymerai hyny rifyn cyfan o'r TRAETHODYDD, ond cymerwn olwg frysiog ar y cwestiynau a ddygwyd ger bron, gan roddi i'n darllenwyr ddyfyniadau o'r hyn a dybiem fydd yn fwyaf dyddorol ganddynt. Cynnaliwyd yr eisteddiad cyntaf yn Union Chapel, Islington, lle y gweinidogaetha Dr. Allon, nos Lun, Tachwedd 19eg, 1888. Ystyrid hwn yn fath o gyfarfod arweiniol. Y Cadeirydd ydoedd Mr. H. H. Fowler, A.S. Teimlid y buasai yn fantais cael lleygwr craff, deallgar, a chrefyddol i lywyddu y cyfarfod cyntaf, a chael clywed ganddo pa fodd yr edrychai efe, o safbwynt y gwrandawyr, ar bregethu y dyddiau hyn. Wrth agor, dywedai y cymerai yn ganiataol mai y pregethwyr a gai ran y llew o'r siarad, fel yr oedd yn naturiol dysgwyl; ac, oblegid

hyny, cymerai ei ryddid fel un o wŷr y seti i ddyweyd gair am bregethu. Yr oedd y pregethwyr yn cael llawer cyfle i ddyweyd eu dyledswyddau hwy, ond anaml y rhoddid iddynt hwy gyfle i ddyweyd gair wrth y pregethwyr; ac yr oedd yr hyn a ddywedodd yn air yn ei bryd. Wele ei eiriau :—

Gyda golwg ar deitl y Gynnadledd, cymerai yn ganiataol na olygent wrth bregethu efengylaidd i gyfyngu hyny i unrhyw ddosbarth, neu ysgol, neu eglwys, ond fel pregethiad o Gristionogaeth. Y cwestiynau a ofynai efe oedd, Beth yw pregethu efengylaidd? Beth a wna a pha beth a all wneyd? Yr oedd pobl wedi dyfod mor gyfarwydd â phregethu, nes yr oeddynt yn edrych arno fel rhan hanfodol o wasanaeth yr addoliad cyhoeddus; ond ychydig a feddylient am dano fel moddion ynddo ei hun, a'r hanes ryfeddol oedd iddo. Ni chymerai arno amddiffyn nac egluro yr hyn a ystyriai yn sefydliad Dwyfol. Dysgir ni y "gwelodd Duw yn dda, trwy ffolineb pregethu, gadw y rhai sydd yn credu." Galwai y byd hyny ar y cyntaf yn ffolineb, a pharheir i wneyd hyny, gan rai yn agored, a chan y lleill yn ddirgelaidd; er hyn oll, cyfrifid ef gan Gristionogion fel yn offerynoliaeth Ddwyfol er cyhoeddi yr efengyl i'r byd. Tybiai mai y cwestiwn cyntaf a ddeuai i'w meddyliau ydoedd, A ydyw pregethu y dyddiau hyn yr un peth ag ydoedd yn nyddiau yr Apostolion? A oedd y pregethau yn awr yr un a'r hyn oedd pregethau Pedr a Phaul, a sylfaenwyr yr eglwys? Nid oedd yn tybied eu bod, ond ystyriai fod yr egwyddor yr un; ac os syrthiai yn fyr o'r prawf-faen uchel, "pregethu Crist, a hwnw wedi ei groeshoelio," yr hyn oedd hanfod pregethu efengylaidd, yr oedd yn colli yn enaid yr efengyl. Nid oedd yn credu eu bod, a chredai hefyd y daliai hyn i'w bregethu hyd y diwedd. Yn yr eglwysi boreuol darllenid y wers am y diwrnod, yna eglurid hi gan y gweinidog er budd y gynnulleidfa. Ar ol hyny daeth yr hyn a ellir ei alw yn bregethu cenadol. Tybiai nad yr un dosbarth o bregethau a bregethir i Baganiaid ag a bregethir bob Sabboth yn *Union Chapel* a'r *City Temple*. Yr oedd y rhai hyn oll yn ddosbarthiadau gwahanol o bregethau. Felly hefyd yr oedd gan bregethu y dyddiau hyn ei neillduolion; ond nis gallasent edrych ar y mater yn deg heb edrych ar hanesiaeth pregethu, a hyny mewn rhan fawr oedd hanes yr eglwys. Daliai ef nad oedd yr un symudiad mawr wedi bod yn hanes yr eglwys, o dan unrhyw amgylchiad, yn yr hwn nad oedd y pulpud y prif beiriant, pa mor alluog bynag yr oedd y wasg wedi bod. Pan ddeuent i lawr i'r oes pan yr oedd yr eglwys wedi colli tôn ei moesoldeb pur, cynhyrfwyd hi gan bregethau y mynachod teithiol yn yr oesau boreuaf. Gwaith y pulpud i raddau helaeth oedd y Diwygiad Protestanaidd. Drachefn yn oes ein tadau Puritanaidd, teimlwyd nerth y pulpud; felly hefyd yn adfywiad mawr y ganrif ddiweddaf, o'r hwn y tarddodd ei enwad ef ei hun, fel ffrwyth pregethau Whitfield a Wesley. Nid oes unrhyw symudiad mawr er llesiant y byd wedi cymeryd lle yn y pymtheg can' mlynedd diweddaf yr hwn na chafodd ei gychwyniad yn yr eglwys Gristionogol, a chrefydd Iesu Grist oedd wedi lefeinio ein holl sefydliadau a'n deddfau, y rhai sydd wedi ein gwneyd yr hyn ydym. Ychwanegai hefyd mai y rheswm am bresennoldeb y drygau mawr yn ein plith, y rhai y rhaid i ni eu cyfarfod, ydyw absennoldeb tôn ac ysbryd Cristionogaeth, a chymhwysiad llawn o'r egwyddorion goruchel a ddysgir yn y Testament Newydd. . . . Esgusodai ei hun am gyfeirio gair at y pulpud o'i safle ef fel gwrandawr. Yr oedd corff y cynnulleidfaoedd, trwy helaethrwydd eu manteision, wedi cyrhaedd tir uwch mewn gwybodaeth rhagor yr hyn yr arferai cynnulleidfaoedd fod. Gosodai hyn angenrhaid ar y pregethwr i lafurio yn helaethach, er cyfarfod eu dysgwyliadau a'u dymuniadau. Cynghorai hwy i ochel pregethu dadleugar, ac i gadw pob dadleuaeth o'r pulpud. Nid oedd y bobl yn hoffi y fath bethau; ac yr oedd yn ammheus iawn ganddo a oeddent yn gwneyd lles hyd yn nod i'r rhai a flinid gan ammheuon. Nid y bregeth ydyw y lle i'w cyfarfod. Am dano ei hun, pa bryd bynag y clywai bregeth ddadleugar, dechreuai yn y fan ar y gorchwyl o'i thynu yn ddarnau, ac yr oedd yn llwyddo i wneyd hyny, o leiaf i'w foddlonrwydd ei hun. Nid oedd yn credu fod neb yn cael eu llesâu trwy y fath bregethau. Awgrymai hefyd ar iddynt ochel gwleidyddiaeth bleidiol yn y pulpud. Nid oedd yn cyfeirio at y wleidyddiaeth uchaf. Credai y dylai y pulpud gymeryd y blaen ynglŷn â holl gwestiynau sydd a fynont â phechodau a drygau cymdeith-

asol y dydd. Yr oedd yn ammheus ganddo a fuasai caethwasiaeth wedi ei ddileu oddiar ddeddflyfrau y wlad hon, oni buasai am y rhan a gymerodd y pulpud. Ond cyfeiriai at wleidiadaeth fel y mae yn rhanu pleidiau, a thybiai mai annymunol oedd i'r pregethwr yn y pulpud ymyraeth â'r cyfryw. Meddyliai hefyd fod gallu y pulpud i'w weled oreu mewn ennill dynion, nid eu synu a'u dychrynu. Yr oedd gan rai dynion a berchenogant y pulpud *nerves* o haiarn. Gallant ddyweyd y pethau mwyaf arswydus heb ysigo eu gewynau; ond ceir pobl yn yr eisteddleoedd, a'r rhai hyny yn aml y bobl oreu yn y capel, i'r rhai yr oedd y fath bethau yn niwed anianyddol. Bwriadai ddyweyd peth arall, er fod y drwg at yr hwn y cyfeiriai yn llai nag y bu, hyny ydyw, meithder y pregethau. Rhaid oedd iddynt gofio fod ganddynt i ymwneyd â dynion nad oeddynt wedi eu hyfforddi i roddi sylw maith i'r un mater. Adgofiai hwy hefyd nad oedd dylanwad y pulpud yn gyfyngedig i'r pedair gwâl yn yr eglwys neu y capel lle y pregethid. Ni bu erioed amser pryd y mae y fath ddarllen ar bregethau. Gofynwch i unrhyw gyhoeddydd, a chwi gewch allan fod llyfrau duwinyddol a phregethau, yn y blynyddoedd diweddaf yma, o'r braidd ar y blaen i nofelau yn y galw sydd am danynt. Os ydyw y bregeth y fath allu yn ein bywyd cenedlaethol a Christionogol, dylid parchu, gyda llawer o urddas, y rhai sydd yn gweini mewn pethau sanctaidd. Nid gorchwyl hawdd ydyw, ac ni ddylai cynnulleidfaoedd drethu gormod ar amser y rhai sydd yn llafurio yn y weinidogaeth. Rhaid i bregethau, er mwyn bod yn effeithiol, gael eu meddwl yn drwyadl a'u parotoi yn fanwl. Nis gallasai dim fod yn fwy niweidiol na'r syniad fod pregethu yn waith hawdd, ac mai ei unig wasanaeth oedd llenwi i fyny nifer o fynydau. Yr oedd yn uchel werthfawrogi y rhai y gwnelai ei awgrymiadau iddynt, a gwyddai mai hwy wyddai oreu pa fodd i wneyd eu gwaith yn fwyaf effeithiol; yn unig gan iddo gael y cyfle taflodd allan ryw bwyntiau fel yr ymddangosent i'w feddwl, a'r rhai hwyrach a gymerid i fyny gan eraill yn ystod eisteddiadau y gynnadledd.

Teimlai pawb fod y gynnadledd wedi dechreu yn dda; er yn anymhongar hollol, eto yr oedd anerchiad Mr. Fowler yn gwbl ymarferol. Mae y fath ddyn yn anrhydedd i gyfundeb parchus y Wesleyaid, i'r hwn y perthyna. Dilynwyd y Cadeirydd gan y Parch. T. V. Tymms. Cymerodd ef i fyny haeriad o eiddo Cardinal Newman yn erbyn y blaid efengylaidd, yr hwn a wnaed ganddo yn y *British Critic*. Dywedai y Cardinal: "Gyda golwg ar grefydd efengylaidd, yr wyf yn gweled nad oes iddi gynseiliau deallol, nad oes iddi ddrychfeddyliau mewnol, nad oes iddi unrhyw egwyddor o unoliaeth, nad oes iddi dduwinyddiaeth. Mae ei dilynwyr yn barod yn ymwahanu oddiwrth eu gilydd, a thoddant ymaith fel yr eira a chwelir gan y gwynt. Nid oes ganddi syniadau pendant ar unrhyw bwynt y proffesa ei ddysgu; ac i guddio ei thlodi gwisga ei hun â phentwr o eiriau. Nid oes arnaf ei hofn o gwbl, ond yn unig o'r hyn y gall arwain iddo. Nid yw yn sefyll ar dir gwarchaedig, yn unig meddianna y lle cydrhwng y pleidiau cydymgeisiol dros y ffydd Gatholicaidd ar y naill law, a rhesymoliaeth ar y llaw arall." Cydnabyddai Mr. Tymms mai at y blaid efengylaidd yn yr Eglwys Sefydledig y cyfeiriai y Cardinal; ac ni theimlai fod galwad arno ef i'w hamddiffyn hwy fel plaid; ond gan fod y cyhuddiad yn cael ei ddwyn yn erbyn crefydd efengylaidd yn gyffredinol, ac felly o angenrheidrwydd yn erbyn pregethu efengylaidd, teimlai fod ganddo hawl i'w gymeryd i fyny; ac nid yw yn gollwng ei afael arno cyn gwneyd gwaith llwyr arno. Profa yn glir fod gan grefydd efengylaidd bob peth yr haera y Cardinal nad oedd ganddi, a phrofa hefyd mai ganddi hi yn unig y maent.

Dywedai y Parch. Newman Hall ei fod ef er ys hanner can' mlynedd yn ymgeisio at fod yn bregethwr efengylaidd, ond teimlai ei fod

ymhellach oddiwrth hyny nag erioed. Y darnodiad cyflawnaf o bregethu efengylaidd, yn ol ei syniad ef, a roddwyd mewn un ymadrodd oedd gan y pregethwr mwyaf fu ar ol Iesu Grist: "Tystiolaethu i'r Iuddewon ac i'r Groegiaid hefyd, yr edifeirwch sydd tuag at Dduw, a'r ffydd sydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist." Dyna oedd gweinidogaeth Paul, cael dynion i gymmod â Duw yn Nghrist, a "chyflwyno pob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu." Cafwyd cyn y diwedd anerchiad galluog ar Agnosticiaeth gan Dr. Parker, a thra y trinai yr anwybodyddion sydd yn gwneyd pob peth yn ansicrwydd, yn y modd mwyaf cellwair-gnöawl, eto dangosai fod y fath beth ag Agnosticiaeth ysbrydol, sydd yn dysgu, wedi pob peth a ellir wybod am dano, "fod yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy." "Am yr Hollalluog, ni allwn ni mo'i gael ef." "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? A elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd?" Wedi dangos yn rymus mor ansicr yw holl ddamcaniaethau dynion, mae yn dychwelyd yn y diwedd ac yn cael mai yr unig le y gall pechadur fod yn esmwyth ynddo, a theimlo yn ddiogel, ydyw y lle a elwir Calfaria.

Boreu Mawrth, Tachwedd 20fed, cyfarfyddwyd yn y City Temple. Dyma yr eisteddiad a ystyrid bwysicaf. Yr oedd ynghyd dyrfa fawr. Yn ol y trefniad, cymerwyd y gadair gan Dr. Allon; ac wedi i Dr. Green arwain mewn gweddi, cafwyd anerchiad y Cadeirydd. Dywedodd wrth gychwyn nad oedd yn tybied mai amcan eu cynnulliad oedd amddiffyn pregethu fel ordeiniad o eiddo Duw, nac egluro y gwirioneddau oedd i'w pregethu, na desgrifio y cymhwysderau i'r gwaith, na dadleu y cynlluniau goreu i'w gyflawni. Eu gwaith oedd ymdrin â phregethu efengylaidd. Beth oedd yr Efengyl oedd ganddynt, a pha fodd yr oeddynt i'w phregethu? Nid oedd yn tybied ar yr un pryd y buasai amddiffyniad i bregethu yn gyffredinol mewn un modd yn anamserol. Cristionogaeth yn unig sydd yn dibynu ar foddion moesol er ei lledaeniad, gan ymwrthod â phob ffurf ar ormes a gorfodaeth, ac ymddiried yn gwbl i'w dylanwad moesol. Saif yn hyn ar ei phen ei hun ymysg crefyddau y byd. Nid oedd heb feddwl hefyd fod yr adeg wedi dyfod i ddadleu hawl y bregeth i le amlwg yn y gwasanaeth, pan y mae y fath awydd, os nad i'w bwrw allan, i'w gwasgu o fewn y terfynau mwyaf cyfyng sydd yn bosibl. Dangosodd fel y mae holl hanes yr Eglwys—yr Eglwys Ddwyreiniol a'r Eglwys Orllewinol—yn dangos fod amlhâd seremoniau a defodau yn llethu ysbryd pregethu; ac o'r ochr arall, yn mhob engraifft lle y mae pregethu wedi ei gydnabod fel yr offerynoliaeth bwysicaf er lledaeniad Cristionogaeth, fod y llwyddiant wedi bod yn amlwg. Rhoddodd le amlwg hefyd i'r cysylltiad sydd rhwng gwybodaeth dduwinyddol â bywyd crefyddol uchel, ac nas gellir diogelu yr olaf yn barhaol os collir y blaenaf. Dangosai fod pob ffurf o fywyd crefyddol—o Babyddiaeth i Galfiniaeth—wedi cael gwreiddyn ei ysbrydiaeth mewn syniadau duwinyddol, a bod eu nerth mewn bywyd yn ol eu gallu mewn athrawiaeth. Gallai y galluoedd cryfion mewn bywyd ymarferol a gynnyrchwyd gan syniadau duwinyddol grymus, aros am ychydig yn yr eglwys, er colli y syniadau; fel tonau y môr yn parhau yn aflonydd am ysbaid wedi i'r ystorm ostegu. Nis gellir parhau bywyd crefyddol a ddeil ystormydd a phrofedigaethau, oni bydd yn derbyn ei ysbrydiaeth oddiwrth wirioneddau

mawrion, hanfodol yr Efengyl. Os ydyw yn wir fod [illegible] yn gwanychu yn ein heglwysi, y canlyniad anocheladwy ydyw fod [illegible] mewn crefydd ysbrydol. Disgynodd yn lled drwm ar y [illegible] am bregethau byrion; ac yn ngoleuni hanes y gorphenol [illegible] mater o bryder ar y gorwyddiad yma. Y brawd na [illegible] o hanner awr yn hir, a mynd gwneyd yr amser i fyny trwy [illegible]iaeth a defodaeth. Gofynai pwy erioed yn y Senedd [illegible] y Tŷ a wnaeth araeth anfarwol mewn hanner awr? Pwy feddyliai am [illegible] amser i'r dadleuydd y mae achos bywyd ei gyd-ddyn wedi ei ymddiried iddo? Paham, ynte, y meddylir am gwtogi ar amser y pregethwr sydd yn dwyn cenadwri oddi wrth Dduw at ddynion, ac yn erfyn ar ddynion trwy Grist i ddod i gymmod â Duw? Cyffyrddodd â phregethu cyffroadol, ac y teimlai na ddaeth yr amser eto i ddwyn tystiolaeth yn ei erbyn; ond ni phetrusai ddywedyd, heb ofni gael ei gyhuddo o anfrawdgarwch, mai ei sylw ef ydoedd fod y pregethwr cyffroadol yn ddieithriad yn gofalu yn fwy am dano ei hun nag am ei neges; yn pregethu ei hun ac nid Crist Iesu yr Arglwydd. Yna y daeth mater oedd yn uniongyrchol dan sylw y Gynnadledd; ac yma ca ef ei hun lefaru:—

Y cwestiwn blaenaf ydyw, "Beth yw yr Efengyl sydd i'w phregethu?" Yr ateb cyntaf ydyw, Yr hyn sydd yn arbenig i Gristionogaeth. Mae pob cyfundrefn grefyddol o angenrheidrwydd yn cynnwys elfenau sydd yn gyffredin iddynt oll mewn duwinyddiaeth, a chrefydd a moesddysg. Ond nid neillduolion gwahaniaethol Cristionogaeth ydyw yr elfenau cyffredin yma. Er engraifft, nid yr athrawiaeth mai Un Duw sydd—nid moesoldeb uchel y bregeth ar y Mynydd—nid dysgeidiaeth Crist am Dadolaeth Duw—nid ysbrydolrwydd a sancteiddrwydd y bywyd crefyddol—nid yr un o'r pethau hyn, na'r oll o'r rhai hyn ynghyd, yw yr Efengyl. Pan y mae dyn yn dysgu y fath athrawiaethau a'r rhai hyn nid yw yn dysgu Cristionogaeth, ond yn unig yr elfenau cyffredin sydd ymhob crefydd, y rhai y mae Cristionogaeth wedi eu corffori. Y mae purdeb a sancteiddrwydd yn elfenau cyffredin pob crefydd. Y cwestiwn i'w ofyn i bob cyfundrefn wahaniaethol o grefydd ydyw, Pa fodd y mae i ni ei sylweddoli? Pa foddion ydych chwi yn eu cynnyg trwy yr hwn y gallaf fi, ddyn pechadurus, gael maddeuant gan y Duw yn erbyn yr hwn yr wyf wedi pechu, a gwaredigaeth o'r natur bechadurus o'r hon y mae fy nghamweddau yn codi? Yr atebiad boddhaol i'r cwestiynau hyn ydyw y wir Efengyl. Yr atebiad a rydd Cristionogaeth i'r cwestiynau hyn ydyw ei neillduolion gwahaniaethol. Mae yn bosibl dysgu llawer o bethau gwirioneddol mewn Cristionogaeth heb fod yn Gristion; fel y mae yn bosibl dysgu llawer o bethau mewn Budhiaeth heb fod yn Fudhiad. Mae y casgliad gan hyny yn dilyn, mai nid yr Efengyl ydyw yr elfenau sydd yn gyffredin rhwng Cristionogaeth a chyfundrefnau a chrefyddau eraill; ond yr elfenau gwahaniaethol ynddi, sydd yn cynnyg maddeuant pechodau trwy aberth iawnol Crist, a bywyd newydd a hollol trwy adenedigaeth gan yr Ysbryd Glân. Dyma oedd efengyl Cristionogaeth yr oes Apostolaidd. Pregethiad yr athrawiaethau gwahaniaethol hyn ydyw pregethiad yr Efengyl. Nid pregethu Efengylaidd ydyw hòni ac amddiffyn anffaeledigrwydd ac ysbrydoliaeth y Bibl, cywirdeb y testun, a chanoniaeth ei wahanol lyfrau. Nid pregethu yr Efengyl ydyw pregethu gwyrthiau Crist, ei ddynoliaeth berffaith, nac hyd yn nod ei natur Ddwyfol. Mae y rhai hyn yn gwestiynau pwysig, ac o'r pwysigrwydd mwyaf, ac hebddynt nis gall fod Efengyl; ond nid dyma yr Efengyl, ond eu bod yn unig sylfeini ar y rhai y gorphwys ein crediniaeth ynddi. Nid pregethu Efengylaidd ychwaith ydyw pregethu y bywyd crefyddol sydd yn codi o honi. Er na buasai y bywyd uchaf yn bosibl hebddi, eto y mae yr Efengyl ei hun yn rhywbeth gwahaniaethol oddiwrth hyd yn nod y bywyd a [illegible]. Cyhoeddiad Efengylaidd Ioan Fedyddiwr oedd, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd." Cyhoeddai Paul gyda chymeradwyaeth "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid, o'r rhai y pennaf ydwyf fi," a dechreu y gân newydd yn y nef

ydyw, "Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun." Dyma y pregethu a ddynodir yn Efengylaidd, a dyma gyweirnod Cristionogaeth; dyma yr Efengyl y gosodwyd angenrhaid arnom i'w phregethu yn mhob oes a gwlad; a bydd nodweddion moesol y natur ddynol byth yr un, dan bob amgylchiad. Mae dyn yn bechadur, ac yn ymwybyddol o'i bechadurusrwydd, ac oblegid hyny rhwymedigaeth gyntaf pob crefydd sydd yn hawlio ei dderbyniad o honi, ydyw dangos iddo pa fodd y mae ei bechod i gael ei faddeu, a'i bechadurusrwydd i'w gymeryd ymaith. Yr hyn nad yw yn Efengyl i ddynoliaeth yn holl amrywiaeth ei hamgylchiadau nid yw yn Efengyl o gwbl. Ein dadl ydyw mai yr Efengyl yma ydyw angen cyffredinol y natur ddynol; ac oblegid hyny yr ydym yn penderfynu peidio gwybod dim ymysg dynion, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio.

Nis gall fod camsyniad mwy, pa beth yw pregethu Efengylaidd yn ol deongliad Dr. Allon; ac yn ol pob argoel yr oedd yn cario yr holl gynnulleidfa gydag ef. Nis gallwn lai nag ail-alw sylw at yr hyn a ddywedodd gyda golwg ar bregethu Tadolaeth Duw. Ceir rhai yn y dyddiau hyn fel pe yn credu mai pregethu Tadolaeth Duw ydyw pregethu hanfod yr Efengyl. Siaradant fel pe byddai rhyw wirionedd newydd wedi ei ddadguddio iddynt, pan nad ydyw ond yr hen wirionedd yr hwn oedd genym o'r dechreuad. Mae yr eglwys yn mhob oes wedi derbyn, a chredu, a phregethu yr athrawiaeth am Dadolaeth Duw. Fel pob gwirionedd mawr arall, rhoddir iddo fwy o amlygrwydd ar rai adegau, a rhoddir arbenigrwydd mawr iddo yn y dyddiau hyn. Nis gellir rhoddi lle rhy amlwg iddo. Nis gellir rhoddi gormod o arbenigrwydd i unrhyw wirionedd. Yr unig berygl ydyw tynu casgliadau camarweiniol oddiwrtho. Dyna y perygl gyda phob athrawiaeth. Y casgliadau annheg y mae dynion wedi eu tynu oddiwrth athrawiaeth ogoneddus penarglwyddiaeth, sydd wedi creu rhagfarn mewn meddyliau yn ei herbyn. Gwnant Dduw yn fôd mympwyol, unochrog, caled, pan nad oes dim yn yr athrawiaeth, o'i hiawn ddeall, a rydd gysgod i'r fath syniad. Yr un fath yn hollol am athrawiaeth dyner Tadolaeth Duw, mae y perygl yn y casgliadau camarweiniol a dynir gan ddynion oddiwrthi. Ond nid pregethu yr Efengyl, er hyny, ydyw pregethu Tadolaeth Duw. Mae yn brofedigaeth i ni grybwyll am amgylchiad a ddaeth dan ein sylw rai blynyddau yn ol. Dygwyddem fod yn nghyfarfod sefydliad gweinidog ieuanc mewn cynnulleidfa barchus,—gŵr ieuanc galluog a thalentog, ond fel llawer un o'i oed, wedi ei swyno gan y syniad fod ganddo ryw ddysg newydd ar Dadolaeth Duw. Yr oedd yn bresennol yn y cyfarfod gryn nifer o weinidogion, a rhai o honynt o oedran a phrofiad; ac yn eu plith un hen weinidog, yn Ddoctor mewn Duwinyddiaeth, wedi gwasanaethu i'r un eglwys am dymmor hir, ac mewn cysylltiad agos âg un o'r Colegau. Galwyd y gweinidog ieuanc i fyny i ddyweyd ei farn, a dywedodd ychydig eiriau yn syml ac anymhongar, nes y daeth i fynegu pa fodd y bwriadai gyflawni ei weinidogaeth. Eisteddai yr hen athraw parchedig yn grymedig ei war, a'i ben bron rhwng ei liniau, a'i lygaid yn hanner cauedig. O'r diwedd dywedodd y gŵr ieuanc, gyda chryn hyder, wedi amgylchynu cryn dipyn, a'n cadw oll i ddysgwyl, mai yr hyn a fwriadai ef ei wneyd yn brif destun ei weinidogaeth yn y lle, yn Alpha ac yn Omega ei genadwri atynt, oedd Tadolaeth Duw. Unionodd yr hybarch Ddoctor ar ei gadair, cododd ei lygaid at y gŵr ieuanc, ac edrychodd arno yn syn o'i

goryn i'w sawdl, ac nid oedd pellder mawr o'r naill i'r llall; ac yna ymollyngodd yn ol i'r un agwedd ag o'r blaen. Gymaint yn fwy priodol fuasai iddo ddyweyd gyda Phaul, "Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio."

Ond rhaid i ni fyned ymlaen, ond fel y temtiwyd ni i roddi y "dyeithr lam" yna, fel y dywedai y "patriarch o Droedrhiwdalar." Darllenwyd papyr gan Dr. Reynolds ar "Grefydd Efengylaidd yn gyferbyniol i grefyddau hen a diweddar a gydymgeisiant â hi." Yr oedd hwn yn bapyr galluog, o nodwedd uchel, ac yn dangos meddwl cyfarwydd â holl ogwyddiadau yr oes; yn meddu cydymdeimlad eang â'r rhai a allasent fod yn gwyro dipyn o'r ffordd, er ei hunan yn glynu yn ddiysgog wrth yr hen angorion. Gan fod a fynai yn fwy â chrefydd efengylaidd nag â phregethu efengylaidd, nis gallwn aros i dalu iddo y sylw a haeddai ei werth. Cafwyd dau bapyr hanesyddol yn ddilynol, y cyntaf gan Dr. Stoughton, mewn atebiad i'r gofyniad, "Beth wnaeth pregethu Efengylaidd yn Mhrydain?" a'r llall gan y Parch. E. E. Jenkins, M.A., ar "Beth wnaeth pregethu Efengylaidd mewn gwledydd paganaidd?" Dau bapyr nodedig o ddyddorol. Buasai yn dda genym eu gosod yma yn llawn, ond ni oddef ein terfynau. Yr oedd cysylltiad Mr. Jenkins â Chenadaeth y Wesleyaid yn ei wneyd yn un cymhwys iawn i gymeryd y mater i fyny; ac yr oedd Dr. Stoughton yn gyfarwydd iawn â'r maes a barthwyd iddo. Dechreuodd gyda'r Diwygiad Protestanaidd, a dywedai y gallesid edrych ar y symudiad hwnw mewn tair gwedd: yn wleidyddol, yn eglwysyddol, ac yn ysbrydol. Cymerai y pulpud a'r wasg yr arweiniad yn y cyfnod hwnw, ond mewn argraff uniongyrchol tueddid ef i roddi y flaenoriaeth i'r pulpud. Dywedai Wycliffe wrth ei fyfyrwyr mai yr hyn oedd ganddynt i'w bregethu oedd gair Duw. Trwy bregethu y cyflawnodd ef ei hun ei genadwriaeth, a chyfododd o'i gylch fyntai o'r rhai y cyffyrddasai Duw â'u calonau, i fod yn genadon cartrefol. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg yr oedd John Ruff, un o'r *Black Friars*, yn Stirling, yn bregethwr galluog o ddau du y Tweed. Un arall oedd Bernard Gilpin; a gwyddent oll fel yr ymgasglai y bobl i St. Paul's Cross i glywed Latimer yn cyhoeddi iachawdwriaeth rad. Gwnaethai Bitney waith mawr yn Nghaergrawnt, ac anfonodd ddynion allan, y rhai, er eu bwrw i garcharau, a bregethent yr Efengyl nes ennill llawer i gredu. Cyfeiriodd at lwyddiant pregethiad yr Efengyl yn nyddiau Elizabeth, er fod y Frenhines yn rhoddi ei gwyneb yn erbyn hyny. Daeth i lawr i'r eilfed ganrif ar bymtheg, at John Stoughton, Bilton, a Sibbes, Richard Baxter, John Bunyan, John Owen, a John Howe. Rhoddodd rai engreifftiau o nerth mawr pregethu Whitfield a Wesley, a daeth i lawr hyd at ei adgofion ei hun o'r pregethwyr oedd yn eu nerth yn Lloegr yn moreu y ganrif hon. Wrth gyfeirio at agwedd bresennol pethau, dywedai fod ei obaith yn gryfach na'i ofn. Yr oedd yn wir ddrwg ganddo weled fod ymadawiad oddiwrth rai gwirioneddau a ystyriai efe yn werthfawr; ac ar ol triugain mlynedd o ddarllen ar dduwinyddiaeth, yr oedd yn methu deall rhai pethau a gyhoeddid mewn llyfrau a chyfnodolion. Ni ddigiai wrthynt os dywedent wrtho nad oedd hyny yn ddim ond gwendid hen ŵr a wnaeth dipyn o gynnydd pan yn ieuanc, ond nas gallasai mwyach fyned rhagddo. Ond pa

gysgodion bynag oedd yn croesi y wybren, gwelai heulwen ogoneddus yn goleuo i fyny ar y meusydd yr ochr draw. Credai yn mhresennoldeb arosol yr Ysbryd Glân, a dysgwyliai am dywalltiad helaethach o'i ras. Cyfeiriai at eiriau olaf Dr. McCall o Manchester, pan ofynwyd iddo a oedd efe yn para i gredu y gwirioneddau a bregethodd i eraill, "Ydwyf, i'r byw." *(Yes, to the core.)* Cariodd Dr. Stoughton argraff ddofn ar bawb yn y lle, ac yr oedd gweled un o'i oedran a'i safiad yn y fath brofiad yn olygfa ardderchog.

Ail gyfarfu y Gynnadledd yn City Temple boreu Mercher, o dan lywyddiaeth Dr. Green, yr hwn, ar ol y gwasanaeth arweiniol, a wnaeth rai sylwadau rhagorol. Cyfeiriodd yn arbenig at yr addysg a ddylai y pulpud gyfranu. Yr oedd ei gysylltiad ef â Chymdeithas y Traethodau Crefyddol yn gwneyd yn naturiol iddo gymeryd y cyfeiriad hwnw. Nis gellir adgofio y pregethwr yn rhy fynych ei fod yn athraw yn gystal ag yn efengylwr. Darllenwyd papyr gan Dr. Clifford ar "Y camgymeriadau gyda golwg ar bregethu Efengylaidd." Gwnaeth un haeriad a ddisgynodd yn ddyeithr ar glust llawer yno, sef mai camgymeriad ydyw cysylltu y syniad o bregethu Efengylaidd âg unrhyw athrawiaeth neillduol. Yr oedd Dr. Reynolds wedi dyweyd fod y gair yn Germani yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr eang iawn, gan gynnwys yr Undodiaid ar y naill law, a'r Jesuitiaid ar y llaw arall; ac os nad oes a fyno bod yn Efengylaidd âg unrhyw athrawiaeth, nid ymddangosai Dr. Clifford ymhell o fod yr un farn â hwy; ac eto y mae efe ei hun yn dyweyd fod yr ymadrodd yn cynnwys pedwar drychfeddwl: yn gyntaf, fod Duw yn Dad i ni oll mewn ystyr wirioneddol, ac nid duwinyddol; yn ail, y gellir maddeu i ddyn; yn drydydd, fod dyn pechadurus yn cael ei wneyd o'r newydd mewn meddwl ac ewyllys a bywyd; yn bedwerydd, cynnydd beunyddiol mewn crefydd er gwaethaf ein colliadau. Nid ydynt yn eglur iawn. Cydymdeimlem â'r Proff. Agar Beet, yr hwn a ddywedai fod papyr Dr. Clifford, er mor alluog ydoedd, yn ddiffygiol; a dadleuai dros fynegiad syml mewn iaith eglur a dealladwy, o'r hyn yw Efengyl Crist. Darllenodd Dr. Munro Gibson bapyr galluog ar "Athrawiaeth Efengylaidd wedi ei hysgaru oddiwrth amcan moesol ac ysbrydol yn gamgynnrychioliad drygionus o groes Crist;" a dilynwyd ef gan bapyr gan y Proff. Davison, ar "Lêd ac eangder yr athrawiaeth efengylaidd." Rhaid i ni adael y papyrau hyn a'r oll a ddywedwyd arnynt, er y buasai yn dda genym ddifynu y geiriau cryfion a geir yn y papyr cyntaf yn condemnio y rhai a addawant hapusrwydd a dedwyddwch i ddynion yn y byd nesaf, heb iddynt yn gyntaf "ddysgu gwadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon."

Cafwyd eisteddiad drachefn nos Fercher, yn yr un lle; ac yr oedd y cynnulliad llïosocaf eto, er nad oedd cynifer o weinidogion ynghyd. Llywyddid gan Mr. Percy W. Bunting, golygydd y *Contemporary Review*, ac ŵyr i'r enwog Dr. Bunting; ac anerchwyd y cyfarfod gan y Parchedigion J. G. Rogers, R. F. Horton, a H. Price Hughes, M.A.—Nos Iau drachefn yr oedd yr eisteddiad olaf, o dan lywyddiaeth Dr. Parker; a chafwyd anerchiadau gan y Parchedigion J. Morgan Gibbon a R. H. Roberts, a'r cadeirydd ar y diwedd yn dirwyn y cwbl i fyny. Ni ddarllenwyd papyrau yn yr eisteddiadau olaf, ac yr oeddynt yn fwy o

gyfarfodydd cyhoeddus nag o gynnadleddau. Yr oedd y rhai a gymerent ran ynddynt, gan mwyaf, yn ieuengach hefyd; ac er yn alluog a dysgedig, ac yn llawn gweithgarwch, eto heb gyrhaedd yr addfedrwydd barn hwnw nad oes ond oedran a phrofiad yn unig a'i rhydd. Tueddai Mr. Horton i edrych braidd yn bruddaidd ar bethau, ac ymddangosai i ni ei fod yn talu gormod o deyrnged i allu a thalent gweithwyr anffyddol Lloegr. Diau fod rhai felly yn eu plith, ond arwynebol yw y rhan fwyaf o honynt. Maent yn cipio hen wrthddadleuon oddiar eu gilydd, ond erbyn gwasgu arnynt, gwelir mai gwynt a gwegi yw y rhan fwyaf. Ymddangosai Mr. Hugh Price Hughes yn cymeryd golwg fwy calonog ar bethau. Gall ei fod o dymherodd naturiol siriolach, ac y mae wedi ei ddwyn i fyny gyda'r Wesleyaid, y rhai, fel rheol, sydd yn fwy tueddol i gymeryd yr olwg oreu ar bethau, heblaw ei fod wedi cael mwy o brofiad ar y byd. Dynion gwerthfawr yw y rhai hyn; ac os estynir eu dyddiau, gwnant waith mawr dros Dduw yn eu cenedlaeth. Buasai yn dda genym pe buasai rhywun o Gymru wedi ei alw i'r Gynnadledd; oblegid y mae gan Gymru rywbeth i'w ddyweyd ar bregethu Efengylaidd nas gall yr un wlad arall ei ddyweyd. Yn niffyg hyny, yr oedd yn dda genym weled tri Chymro yn cymeryd rhan mor amlwg, sef y Parchedigion R. H. Roberts, H. Price Hughes, a J. Morgan Gibbon: y cyntaf yn Fedyddiwr, yr ail yn Wesleyad, a'r trydydd yn Annibynwr.

Yr oeddym wrth gychwyn yn bwriadu gwneyd rhyw sylwadau o'r eiddom ein hunain, tra yn meddylio ar yr hyn a fu dan sylw; ond y mae genym ofn ein bod eisoes wedi cymeryd llawn cymaint o le ag a fwriadwyd ar ein cyfer, a rhaid i ni oblegid hyny gyfyngu ein hol-nodiadau i gylch bychan iawn. Nis gallwn, pa fodd bynag, lai na dadgan ein llawenydd fod y fath Gynnadledd wedi ei galw, yn gystal ag am y teimladau dymunol oedd yn rhedeg drwyddi. Cadwodd pawb yn y dymher oreu, ac er fod yn eglur fod cryn wahaniaeth meddyliau ar rai pynciau, ac y rhoddai rhai ystyr llawer helaethach nag a roddai eraill i'r ymadrodd pregethu Efengylaidd, eto dangosid y brawdgarwch puraf, ac ni ddywedwyd gair oedd yn arogli o unrhyw angharedigrwydd. Dangosodd rhyw ddau frawd Plymouthaidd awydd i wyntyllio eu syniadau neillduol yn un o'r eisteddiadau, ond gwnaed byr waith arnynt gan y Gynnadledd, oblegid yr oedd hyny yn estronol i amcan y cynulliad. Gwrandawyd ar bawb yn y modd mwyaf parchus, tra y cedwid at y mater dan sylw; ond nid anhawdd hefyd oedd deall oddiwrth y gymeradwyaeth a roddid, pa ffordd yr oedd gogwyddiad y lluaws. Glynai pawb wrth yr hyn yw enaid yr Efengyl, er nad oedd y pwyll a roddid iddi gan bawb yn dwyn yr un ffurf: credent oll yn ddiysgog mai hanfod pregethu Efengylaid dydyw pregethu Crist, a hwnw wedi ei groeshoelio, a chyhyd ag y cytuna dynion ar hyny, gallant oddef eu gilydd mewn cariad ar bob peth arall.

Yr oedd y rhai hynaf yn y Gynnadledd, a'r rhai oedd wedi cael y profiad hwyaf yn y weinidogaeth, ac oblegid hyny, o angenrheidrwydd, braidd yn naturiol lawer ceidwadolach, yn glynu yn lled lwyr wrth yr hyn a elwir yn "athrawiaeth iachus," er nad oeddynt mewn un modd am gadw yn gaeth at yr hen dermau fel pe byddent yn ysbrydoledig. Dangosent ereill dueddiad i dderbyn ffurfiau newyddion i'r gwirionedd,

os oeddent yn cynnwys y ffeithiau a'r gwirioneddau a ddysgir yn y Bibl; er fod yn eglur mai syniad llawer o honynt oedd, "Gwell yw yr hen," hyd yn nod yn y ffurf o osod allan y gwirionedd. Ymddangosai un peth yn eglur, dybygem, i bawb, fod y rhai a ymlynent wrth yr hyn a elwir yr hen athrawiaeth, yn traethu eu meddyliau yn llawer mwy amlwg a phendant. Nis gallesid camgymeryd eu hystyr, pa un bynag a gytunid â hwy ai ni wneid. Ond nis gallesid dyweyd hyn am y rhai oedd yn gogwyddo at y dduwinyddiaeth newydd, fel ei gelwir. Er na throdd y cwestiynau hyny i fyny yn uniongyrchol, eto yr oedd yn ddigon hawdd gweled pa le yr oedd gogwyddiad y rhan fwyaf; ac yr oedd rhyw aneglurdeb ac amwysedd o gylch llawer o ymadroddion y rhai oedd wedi gadael yr hen derfynau. Nid ymddangosai fod ganddynt weledigaeth eglur o gwbl. Nis gallasent ddangos eu bod wedi cyrhaedd tir cadarn i sefyll arno, i'r hwn y gallasent, yn ddibetrus, wahodd pawb atynt. Rhoddai yr ymadroddion dyeithr ac amwys a ddefnyddient ryw wedd o fawredd arnynt, yn enwedig yn ngolwg y rhai sydd wedi arfer cysylltu mawredd â thywyllni ac aneglurdeb; ond y mae yn rhaid i ddynion gael gwirioneddau pendant a diammheuol cyn y gallant orphwys yn ddiysgog arnynt. Gellir ysigo hyder dynion yn eu hen olygiadau trwy draethiad niwliog ac ammheus o syniadau; a gall hyny greu llon'd gwlad o ammheuwyr; ond os mynir cael dynion i gredu unrhyw olygiad yn gryf, rhaid ei draethu iddynt mewn ymadroddion mor eglur fel na bydd yn bosibl camgymeryd eu hystyr. Tarawai hyn ni yn arbenig yn mhapyr galluog Dr. Clifford; a gallwn gydymdeimlo yn drwyadl â Dr. Stoughton pan ddywedai ei fod, ar ol triugain mlynedd o ddarllen ar dduwinyddiaeth, yn methu yn glir a gwneyd ystyr llawer o'r hyn a ysgrifenir ar dduwinyddiaeth yn y dyddiau hyn. Pa amcan sydd i iaith ond i fod yn gyfrwng trosglwyddiad meddyliau, ac nid yn gwmwl i'w cuddio? "Y prophwyd sydd â breuddwyd ganddo, myneged freuddwyd; a'r hwn sydd ganddo fy ngair i, myneged fy ngair i mewn gwirionedd."

Fel y gallesid dysgwyl, y rhai ieuengaf a ymddangosai yn fwyaf awyddus am ychwaneg o ryddid yn y pulpud; er y rhaid i ni ddyweyd hefyd, nad oedd yno neb am ryw ryddid eithafol. Mae asbri yn naturiol i'r ieuanc. Mae ganddynt eu damcaniaethau, ac y mae eu gwyntyllio yn fwynhad iddynt. Gwell gan y bachgen pan yn myned gyda'i dad, gerdded ar ben y clawdd, neu gerdded ar y ceryg culion ar ochr y droedffordd, neu gamu o gareg i gareg ar y ceryg rhyddion a ddygwyddo fod ar y ffordd, na cherdded yr heol galed, ddiogel gyda'i dad. Nid yw yn gweled camp yn y byd mewn gwneyd hyny. Dyma y ffordd y mae pawb yn myned, a beth yw ef fwy nag eraill, oni wna rywbeth amgen? Tyr lwybr newydd iddo ei hun. Nid yw o un gwahaniaeth ei fod yn drafferthus ac yn beryglus. Mae yn newydd ac yn wahanol i'r eiddo y lliaws, ac yntau felly yn wreiddiol o'i gymeryd; ac nid argyhoeddir ef nes y syrthia i lawr y clawdd a chael dolur, neu syrthio i'r pwll a diwyno ei ddillad; yna daw dan wylo yn ol at ei dad, i'r hen ffordd dda. Ysfa ryfedd yw ysfa yr ieuanc am dori llwybr newydd. Dyna ei syniad am wreiddiolder. Clywid yn y Gynnadledd gryn lawer o siarad, gan un neu ddau, am ryddid yn y pulpud. Dywedent hefyd nad oeddynt ychwaith am ryddid ond o fewn terfynau

gair Duw. Rhyddid oddiwrth gredoau, a chyfundraethau, a *dogma*. Nid ydym yn deall fod neb am eu rhwymo â na chredo na chyfundraeth na ddysgir yn eglur a phendant yn y Bibl. Ni thybia neb fod rhyddid y pulpud yn caniatâu i neb fwrw ymaith ffeithiau mawrion cnawdoliad, marwolaeth, ac adgyfodiad Crist; ond nid yw rhyddid y pulpud, er eu pregethu, yn caniatâu eu hesbonio ymaith, nes na byddont yn y diwedd yn ddim ond *myth*. Mae i dermau duwinyddol eu hystyr arbenig, ystyr sydd wedi ei gysylltu â hwy gan yr eglwys ymhob oes; a chamarweiniol hollol ydyw eu defnyddio a chysylltu â hwy ystyr hollol wahanol. Trin gair Duw yn dwyllodrus ydyw defnyddio ymadroddion yn meddwl un peth i'r pregethwr, a pheth arall i'r gwrandawyr.

Trodd y cwestiwn o feithder y bregeth i fyny fwy nag unwaith. Nid ymddangosai neb mor anfoddhaol i'r cri am bregethau byrion a Dr. Allon. Edrychai arno fel arwydd o adfeiliad amlwg, a chredai na ddeuai pregethu byth yn allu grymus mewn gwlad, os cyfyngid ar ei amser. Gwnaeth Mr. Fowler yn yr eisteddiad cyntaf gyfeiriad at y mater; ond wrth wneyd hyny gwnaeth ddau sylw a ymddangosai i ni yn myned braidd yn erbyn eu gilydd. Wrth gymhell y pregethwyr i barotoi ar gyfer eu cynnulleidfaoedd, dywedai fod y gwrandawyr yn awr yn fwy addysgiedig a diwylliedig nag oeddynt gynt; ond er eu cymhell i fyrhau y bregeth, dywedai am yr un gwrandawyr nad oeddynt o ran eu diwylliant yn gyfryw ag a allasai ddal eu meddyliau gyda'r un mater am yspaid maith. Yn ol Dr. Stevenson, pymtheg mynyd ar hugain oedd hyd pregeth i fod; dyna ei fesur ef, ac y mae pob dyn yn dueddol i osod ei hun yn safon. Da oedd genym weled ddarfod i Dr. Fairbairn, noson y Gynnadledd, bregethu yn y City Temple am fwy nag awr, ac ni feddyliodd neb am ei hyd. Nid ydym yn synu dim fod y cwestiwn yma o hyd pregeth yn cael cymaint o sylw yn yr Eglwys Sefydledig, a'u bod yn awyddus am ei dwyn i lawr o fewn y terfynau cyfyngaf fyddo yn bosibl; oblegid ni bu i'r bregeth erioed le amlwg yn eu gwasanaeth hwy. Y ffurfiau a'r defodau sydd yn cael mwyaf o le ganddynt. Ond ymysg Ymneillduwyr, y rhai y mae eu bodolaeth a'u llwyddiant i'w briodoli i bregethu, y mae yr ysfa yn ymddangos i ni yn un afiachus iawn. Nid ydym yn amddiffyn pregethau meithion. Nid yw hir feithder yn un prawf o ragoriaeth. Yr hyn yr achwynwn arno ydyw y cri am bregethau byrion; a pha mor fyrion bynag fyddant, mynai rhyw rai eu cael yn fyrach fyth. Nis gellir gosod rheol ar fater fel hyn. Mae gwahaniaeth yn noniau pregethwyr. Gall ambell un wneyd yn well mewn hanner awr na phe rhoddid iddo fwy o amser; ond ceir ambell un arall, ymhen yr hanner awr y bydd wedi d'od i'w lawn hwyliau; ond gwna waith cyn y diwedd a dâl yn dda am bob dysgwyl a fu wrtho. Nid ydym yn ammheu ychwaith na allai y cyfryw fyned ati yn gynt, a myned yn unionach at eu gwaith. Mae hanner awr i un yn hwy nag ydyw awr i'r llall. Wrth y glust, ac nid wrth yr awrlais, y mesurir hyd pregeth. Gwelwyd cynnulleidfa weithiau yn fel mewn syndod i edrych ar yr awrlais, gan ryfeddu fod y bregeth wedi darfod mor fuan, er iddi barhau am fwy nag awr; a gwelwyd yr un gynnulleidfa yn anesmwytho cyn pen hanner awr, a phob perchen oriawr yn ei thynu allan er gweled pa faint yn hwy yr oedd yn rhaid

bod yno, os nad hefyd i fod yn awgrymu i'r pregethwr i brysuro i derfynu. Dylai pob pregethwr ddeall ei ddawn a'i allu i gadw cynnulleidfa i wrando arno heb flino. Mae gwahaniaeth hefyd rhwng pregethu yn rheolaidd a phregethu ar achlysuron neillduol. Pan y mae pregethwr yn cyfarfod yr un gynnulleidfa ddwywaith bob Sabboth, rhaid iddo gwtogi, pe na byddai ond yn unig er ei fwyn ei hun; ond y mae gwasanaeth achlysurol, mewn cynnulleidfa ddyeithr, yn eithriadol; ac nis gellir tynu y rhai hyny i lawr i lefel cyfarfodydd arferol. Cafodd Cymru brawf ar y naill a'r llall; ac os byddai y pregethwr yn feistr y gynnulleidfa, ni fesurid hyd y bregeth. Gollyngai Daniel Rowlands, a Robert Roberts, Clynnog, a David Davies, Abertawe, a Christmas Evans, a Williams o'r Wern, a Dr. Rees, Abertawe, eu cynnulleidfaoedd ymaith ar hanner awr neu ddeugain mynyd o bregeth; ond ni theimlai y gwrandawyr eu bod byth yn cael eu gollwng ganddynt ar eu cythlwng. Cadwai John Elias, John Jones, Talysarn, Henry Rees, Dr. William Rees, a Joseph Thomas, Carno, gynnulleidfaoedd mawrion yn eu llaw am awr ac awr a chwarter, ac awr a hanner, ac yr oeddynt yn eu golwg fel ychydig fynydau, gan faint oedd swyn y pregethwyr anfarwol iddynt. Arferai Joseph Thomas ddyweyd nad oedd ganddo ef fawr golwg ar y "pytiau pregethau;" a gallwn ninnau ychwanegu nad oes genym fawr golwg ar y bobl sydd â'u cri gwastadol am danynt. Ofnwn am y rhan fwyaf o honynt y gellir cymhwyso atynt eiriau y prophwyd, "Wele, eu clust hwy sydd ddienwaededig, ac ni wrandawant; wele, dirmygus ganddynt air yr Arglwydd, ac nid oes ganddynt ewyllys iddo."

Esgusoded ein darllenwyr ni am eu cadw cyhyd. Chwyddodd ein hysgrif yn llawer hwy na'n bwriad. Nid oes dim ag y mae iddo gymaint o swyn i ni a phregethu. Ni byddwn byth yn blino gwrando a siarad am dano; ac ni bu cenedl erioed yn fwy dyledus i'r pulpud na chenedl y Cymry. Yr ydym yn llawenhau yn lledaeniad addysg, ac yn nerth cynnyddol y wasg; profa yr ysgolion dyddiol a'r Colegau Cenedlaethol eu hunain yn alluoedd cryfion yn nyrchafiad a dylanwad ein gwlad yn y dyfodol: ond os parheir i ni o oes i oes, yn ein pulpudau, olynwyr teilwng o'r hyn y mae pregethwyr Cymru wedi bod er ys dau cant a hanner o flynyddoedd, erys pregethu Efengylaidd yn uwchraddol yn ei ddylanwad, fel y mae wedi bod o'r dechreuad.

JOHN THOMAS.

*Liverpool.*

---

# ADDYSG.

GAN DYFED.

NID ydyw cân y fwyalch heddyw 'n well
Na 'r hon a ganwyd yn Mharadwys bell;
Pob nodyn a chynghanedd sydd yr un,
Mor ddigyfnewid ag yw greddf ei hun.

Ond dyn! Ardderchog ddyn! Y mae diwylliant
Yn tywallt dydd, yn ddiluw o ogoniant
Ar amcan ei fodolaeth. Mae *cynnyddu*
Yn un o'r deddfau sydd yn penderfynu
Ei *wynfyd* a'i *barhâd*. Fe ymestyna
Byth at berffeithrwydd Duwdod; ac fe nofia
Ar lif gwybodaeth a myfyrdod tawel,
Drwy ddrychfeddyliau nad yw profiad angel
Yn gwybod dim am danynt. Hen feddyliau
A chalon Duw yn tywallt gwybodaethau
Ei Hanfod drwyddynt, i fywiogi gallu
Syrthiedig ddyn, a'i droi i efelychu
Yr hwn a'i gwnaeth.

Mae hwn yn gallu yfed
Gwybodaeth fel yr afon, ac yn myned
Fel hwythau 'n gryfach, nes yw anhawsderau
Yn peidio yn ei wydd, gan droi 'n gysgodau
I gadw pob gerwinder ar ei antur,
Rhag tori ar gysondeb byw ei lafur.

Ardderchog fôd! Yr wyf yn llawenhau
Fy mod yn ddyn, yr hwn sydd i barhau
I fyn'd ar gynnydd byth. A llusern Addysg
Yn oleu yn fy llaw, caf adael terfysg
Cymdeithas wag, a lloniant yr anifail,
A rhodio 'n ysbryd a ffyddlondeb bugail,
Drwy eang gyfandiroedd o sylweddau
Gwybodaeth gyfrin, lle mae gwirioneddau
Yn gruddfan am ryddhad, ac am oleuni
Rhyw ysbryd diwylliedig i'w bywiogi
I ymlid cyfeiliornad.

Oes, mae llu
O wirioneddau mewn tywyllwch du,
Heb aflonyddu arnynt gan athrylith,
Na neb i dderbyn y cyflawnder bendith
A ymddiriedwyd iddynt. Dychymygion
Yr oesau yn eu pasio drwy 'r cysgodion
Fel drychiolaethau gwag, ac yn dychwelyd
A'r gwrthun opiniynau mwyaf ynfyd
I'w gwthio ar y byd; a'r twyll effeithiau
Yn codi llawer storm o ymrysonau
Ar diroedd anwybodaeth.

Ond mae Addysg
Fel cenad dwyfol yn llonyddu 'r terfysg,
A dianc mae 'r dych'mygion mwyaf penrhydd,
Yn llewyrch tanbaid y goleuni newydd
Ar encil i ddiddymdra! Cyfeiliornad
A grina hyd ei wraidd yn ddiwrteithiad,
I roddi lle i wirioneddau pur,
I gnydio 'n llawn, heb unrhyw ddalen sur

I greu ammheuon, na thramgwyddo pwyll,
I gredu yn mharhâd cicaion twyll.

Tydi, O Addysg, sydd yn gosod trefn
Ar feddwl dyn, ac yn rhoi nerth drachefn
I'w holl alluoedd. Wyt yn medru dysgu
Y meddwl mwyaf hurt i allu plygu
Elfenau cyfrin natur i'w wasanaeth,
A beiddia drwy eangder creadigaeth
Ond cael dy drwydded di. Fry i'r uchafoedd,
O haul i blaned, ac o nef i nefoedd,
Ehed yn wrol yn ei flaen o hyd,
A'r llwybr ar ei ol o fyd i fyd
Fel heol o oleuni!

Gall yn gywir
Gyfodi drwy 'r eangder geryg milldir,
I ddangos i ol-oesoedd gwell eu tynged,
Y bellaf fan gall meddwl *heddyw* fyned.
Pwy ŵyr nad yw y cyfnod yn nesâu,
Pan fydd y meddwl wedi ei gryfhâu
Gan addysg a diwylliant, fel y gallo
Fyn'd ar ei ymdaith anturiaethus heibio
I'r seren bellaf, yna sefyll yno,
Heb ddim tu draw ond Duw!

"I fyny," ac i fyny yn ddiddiwedd
Yw glân arwyddair Addysg. Y mae gorsedd
Enwogrwydd, fel gorseddfa y goleuni,
Yn tywallt ei dylanwad er daioni
Ar benau 'r myrdd sydd obry yn ddiymgais,
Heb deimlo un wreichionen o uchelgais
Yn llosgi yn eu natur. *Rhaid* yw dringo;
Po uchaf eir, mae anhawsderau 'n cilio
Yn ol i'r pant; fel teimlir ambell fynydd,
A'i frig yn glir, a'r cymyl a'r ystormydd
Yn difa 'u nerth islaw.

Os am *eangder*,
I fyny y mae hwnw; mae'r *cyfyngder*
Yn y gwaelodion obry, lle mae 'r miloedd
Yn dewis aros ynddo, a'u galluoedd
Yn ymgrebachu, ac yn magu malldod
Yn drwch difäol drostynt; ac heb wybod
Fod anfeidroldeb o wahaniaeth eglur
Rhwng *bywyd* a *bodolaeth* yn eu natur.
O Addysg bur! nid wyt yn derbyn wyneb:
*Dyn* yw dy nôd, a'i godi o'i ddallineb
Yw amcan dy genadaeth, heb ymholi
Dim am y graig y naddwyd ef o honi.

Tydi, fel gras, a godi 'r tlawd o'r llwch,
Ac ar ei ben yr wyt yn tori blwch
Dy enaint goreu. *Rhaid* yw i gymdeithas
Gydnabod hwn; oblegid mae dy urddas
Yn aros yn ogoniant ar ei berson,
Yn ennill cariad ac edmygedd calon
Yn eiddo iddo 'i hun. Yr wyt yn gwisgo
Cymeriad hwn â gwisg nad yw 'n heneiddio
Ar ei ysgwyddau llydain. Dyna nodwedd
Y nwyddau hyny ag y mae anrhydedd
Yn gadw yn ystôr. Nid allanolion
Yn cuddio rhagrith i gamarwain dynion
Yw addurn hwn, ond rhagoriaethau ysbryd
Yn rhoddi swyn i holl agweddau bywyd,
Barhâ yn newydd byth.

Pwy ddiystyra Addysg, ond yr adfail
Dynoliaeth hono, sydd ymron anifail
Ar ddelw dyn? Rhyw natur mewn gwylltineb
Fel pe am groesi terfyn cyfrifoldeb.
O fôd dirmygus! wedi cau ei lygaid
Ar lawnder bywyd, gan newynu 'i enaid!

# DAMMEG Y CWYMP.

## II.

I must first give the stories in their oldest and most genuine form, and then offer, in meagre contrast, all that can be collected or conjectured of the real history. . . . .

To try to practise his master art of believing rightly and doubting rightly.

DR. ARNOLD, *History of Rome*, Vol. I.

CYN dilyn ymlaen gyda'r prawf y dechreuwyd arno mewn ysgrif flaenorol, ceisiwn osod ein darllenwyr mewn mantais i gymharu y ddamcaniaeth a gynnygir genym â'r golygiadau a fabwysiadwyd gan y gwahanol awdwyr a wrthodant esboniad llythyrenol ar hanes y cwymp. Teimlwn fod hyn yn angenrheidiol, gan nad ydym yn cofio gweled, yn y wasg Gymreig, nemawr gyfeiriad at y cyfryw feirniadaeth; a dichon, gan mor ddystaw yn ei chylch ydyw yr esboniadau mwyaf adnabyddus ac arferedig, ei bod wedi dianc sylw llawer ag ydynt yn dra chyfarwydd âg esboniadaeth ysgrythyrol.

Yn ystod canrifoedd boreuol Cristionogaeth, ceir yn dal y golygiad allegawl ar hanes ysgrythyrol y cwymp, Origen, Clemens Alexandrinus, awdwr y *Clementine Homilies*, a'r Gnosticiaid. Y mae yn hysbys fod gwerth ysgrifeniadau helaeth y cyntaf a enwyd yn cael ei andwyo yn

fawr gan ei duedd i roddi esboniad allegawl ar holl hanesyddiaeth yr Hen Destament; nid rhyfedd, gan hyny, ydyw iddo roddi esboniad felly ar hanes y cwymp. Golyga efe fod yr hanes yn arwyddluniol o'r hyn a gymer le ymhob oes, mewn bodau sydd yn meddu rhyddid ewyllys. Dadleua mai ffolineb ydyw esbonio yn llythyrenol llaws o'r ymadroddion a ddefnyddir yn yr hanes, megys: "Hefyd yr Arglwydd Dduw a blanodd ardd;" "Y sarph a ddywedodd;" "A hwy a glywsant lais yr Arglwydd Dduw yn rhodio yn yr ardd gydag awel y dydd," &c. Dilyna Philo Judæus mewn golygu mai arwyddlun ydyw "pren y bywyd" o dduwioldeb, "pren gwybodaeth da a drwg" o ddoethineb, a'r "sarph" o bleser. Cymer yr ail awdwr a enwyd lwybr cyffelyb i'r eiddo Origen; rhydd ystyr allegawl i'r hanes, a gesyd y "sarph" yn arwyddluniol o felus-chwant. Yr ydym, mewn cysylltiad â'r awdwr hwn, yn gallu ychwanegu cyfeiriad ato a welsom yn ngwaith Dr. Hammond, sef fod y Clement hwn yn golygu mai arwyddlun ydyw "pren y bywyd" o'r meddwl a gynnwysir yn yr ymadrodd, "Os ufuddhawn;" ac mai arwyddlun ydyw "y pren gwybodaeth da a drwg" o'r meddwl a gynnwysir yn yr ymadrodd, "Os pechwn."

At y rhai hyn yn unig, o'r rhai a gyfrifir ymysg y Tadau, yr ydym yn gallu cyfeirio.

Y mae yr awdwyr canlynol, o fysg beirniaid ysgrythyrol yr Almaen, i'w cyfrif yn gwrthod y golygiad mai yn llythyrenol y mae deall yr hanes, er yn amrywio llawer drachefn yn eu barn gyda golwg ar ba gymaint o wirionedd hanesyddol sydd yn gorwedd dan y wisg ddammegol:—Winer, Gesenius, Eichhorn, Reuss, Oehler, a Müller. Bydd yn ddigon rhoddi golygiad yr olaf o honynt, fel engraifft ffafriol o'r oll:—"Y mae yr hanes mewn rhan yn arwyddluniol, ac mewn rhan yn hanesyddol. Amcan yr hanes ydyw dangos tarddiad neu ddechreuad drwg yn ei ystyr fwyaf cyffredinol, ac nid dechreuad unrhyw bechod neillduol; math o chwedl ydyw yr adroddiad, ymha un y cymysgir hanes a dychymyg; cnewyllyn hanesyddol am yr hwn y gwisgodd dychymyg wahanol bethau wedi eu cymeryd allan o draddodiadau cenedlaethol; yr hanes Hebreig a geir yn Genesis ydyw y traddodiad mwyaf pur o'r gwirionedd sylfaenol [dyfodiad pechod i'r byd], a'r eglurhad mwyaf ffyddlawn a chywir ar ei ystyr."

Y mae yr awdwr a'r esboniwr tra adnabyddus, Delitzsch, o'r ochr arall, yn yr esboniad a ddaeth allan y llynedd o dan ei enw, yn glynu wrth y golygiad llythyrenol a fabwysiadwyd gan Keil ac yntau mewn argraffiad blaenorol, sef i ddyn gael ei demtio o'r tu allan iddo ei hun, gan anifail a ddefnyddid yn enau dros fôd syrthiedig ac uwchraddol i'r ddynoliaeth.

Ymysg beirniaid ysgrythyrol ein gwlad ein hunain, enwn y rhai a ganlyn fel yn gwrthod yr esboniad llythyrenol ar hanes y cwymp: Dr. Samuel Davidson, S. T. Coleridge, a Dr. Marcus Dods. Dywed y cyntaf yn ei *Introduction to the Old and New Testament*, nad yw o bwys hanfodol pa un a ddeallir yr hanes yn Genesis am y cwymp yn llythyrenol ai yn arwyddluniol, os cydnabyddir mai yr athrawiaeth amlwg a ddysgir yn yr hanes, ydyw dyfodiad pechod a dyoddefaint i'r byd. Ar yr un pryd, dadleua dros y golygiad mai yn arwyddluniol y mae i'w ddeall, a rhydd y rhesymau canlynol o blaid ei olygiad. 1. Ni oddefa y desgrifiad a

roddir o leoliad gardd Eden i'w ddeall yn llythyrenol; awgryma y desgrifiad nodwedd ddychymygol yr holl hanes. 2. Presennoldeb ymadroddion eraill lliaws nad oddefant eu deall yn llythyrenol, sef ymadroddion o fath y rhai y cyfeiriai Origen atynt. 3. Y priodoleddau rhyfeddol a berthynent i'r ddau bren. 4. Cerubiaid yn cael eu gosod i wneuthur yr hyn y buasai gorchymyn Duw yn ddigonol i'w gyflawni. 5. Y desgrifiad a roddir o greadigaeth y wraig gyntaf. 6. Enwi yr holl greaduriaid. Yr oedd eu cydgynnulliad yn beth anmhosibl. 7. Desgrifir Satan yn gweithredu yn annibynol ar y Jehofah, ac nid trwy ei ganiatâd, megys gyda Job. Derbyniodd y meddwl am annibyniaeth Satan ddadblygiad mawr, tuag adeg y caethgludiad, trwy ddylanwadau Asiaidd. Ymddengys nad yw yr awdwr hwn yn golygu mai Satan ydoedd y prif weithredydd yn y temtiad.

Dichon y gellir cyfrif Dr. Davidson yn esiampl o feirniadaeth yr ysgol Germanaidd ar y pennodau hyn, ac o'r nifer fwyaf o'r awdwyr a enwyd uchod a berthynant i'r ysgol hono. Y mae yn ammheus a fyddai y feirniadaeth hon yn foddlon cydnabod fod sylfaen hanesyddol o gwbl i'r hyn a adroddir yn y pennodau, ac awgryma fod yr adroddiad cyntefig wedi ei liwio gan ddwylaw lawer mewn gwahanol oesau, hyd amser y caethgludiad; tuedda hefyd, fe allai, i olygu mai yr adeg hono yr ysgrifenwyd yr oll o lyfr Genesis.

Rhoddwn y dyfyniadau canlynol allan o nodiad yn ngwaith adnabyddus Coleridge (*Aids to Reflection*) i ddangos cyfeiriad y feirniadaeth a gynnygir gan yr awdwr hwn:—"Nid yw yn ymddangos fod Eglwys Loegr yn gofyn, fel pwnc o ffydd, esboniad llythyrenol o'r ysgrif gynnwysedig yn Gen. ii. 4—iii., nac yn cyfrif esboniad gwahanol yn an-uniawngred; y mae duwinyddion o uniawn-grededd diammheuol, a gwrthwynebol iawn i esbonio hanesiaeth ysgrythyrol yn allegawl—er oesoedd boreuaf yr Eglwys Gristionogol—wedi ei fabwysiadu, neu ei oddef, yn y cysylltiad hwn. A phe mewn unrhyw ysgrif, o awduriaeth ddwyreiniol, y cyfarfyddid â phrenau bywyd a gwybodaeth, ac â seirph yn ymddyddan, ni fuasai angen profion pellach ar unrhyw ddarllenydd diragfarn, mai darllen alegori yr ydoedd, ac un yn cael ei bwriadu i'w deall fel y cyfryw." Y sarph, yn ol yr awdwr hwn, ydyw "y deall" ("syniad y cnawd" Paul), mewn cyferbyniad i'r "rheswm" ("syniad yr ysbryd"); y deall, yr hwn sydd mewn cytundeb parhaus â'r rhan isaf o'n natur—yr Efa yn y ddynoliaeth. "Y mae yr adroddiad yn Genesis yn esboniad cywir a ffyddlawn ar ddechreuad, tadolaeth, a graddoldeb pechod gweithredol, hyny yw, pechod fel y mae yn dadguddio ei hun mewn amser." Terfynir y nodiad gyda y sylw: "Fy argyhoeddiad cydwybodol ydyw, fod y profion mai fel dammeg neu alegori y mae Awdwr llyfr Genesis yn bwriadu i'w adroddiad gael ei esbonio, yn amlwg ar wyneb yr hanes ei hun."

Dengys y frawddeg ganlynol allan o waith Dr. Marcus Dods ar Genesis (*Expositor's Bible*, 1888), gyfeiriad meddwl yr Awdwr hwn eto ar y cwestiwn. "Plainly, this is merely a pictorial representation intended to convey some general impressions and ideas." Eto, yn ei esboniad ar lyfr Genesis (*Handbooks for Bible Classes*), dywed yr un un awdwr: "The character of this narrative has been very accurately described by Martensen, as a 'combination of history and sacred symbolism, a figurative presentation of an actual event.' This is the idea

of the narrative which may be said to have gained greatest favour among believing critics. Thus Quarry calls it 'a true history setting forth under allegorical form undoubted facts.'" Cyfeiria Dr. Dods hefyd at Laidlaw, fel un a fabwysiadai y golygiad hwn. Y mae ei holl sylwadau ar y Cwymp yn dra theilwng o ddarlleniad ac astudiaeth. Diniweidrwydd cyntefig dyn—ei demtiad, ei drosedd, a'i gosb—ydyw y gwirioneddau hanesyddol a ddysgir; "*picture*," "*symbol*," ydyw y gweddill.

Rhaid i ni eto gael cyfeirio at un awdwr—barn yr hwn, os ydyw yn ddangosiad o'r golygiad a goleddid gan ei genedl, yn, neu o flaen yr adeg yr ysgrifenai, sydd ar lawer o ystyriaethau yn fwy pwysig na dim y cyfeiriwyd ato—sef yr eiddo Josephus; dyma ei eiriau: "Ymhellach, y mae Moses wedi myned heibio i'r seithfed dydd, yn dechreu siarad yn athronyddol." Ac at y pennodau hyn yn Genesis y cyfeiriai yn ei ragymadrodd: "Tra y mae ein deddfroddwr yn llefaru am rai pethau yn ddoeth ond mewn dull tywyll, a than aralleg weddaidd. . . Fodd bynag, gellid ti ag y mae genyt feddwl i ddeall rheswm pob peth, ganfod yma ddamcaniaeth athronyddol dra hynod, yr hon yn wir ni cheisiaf ei hesbonio yn awr, ond os caniatâ Duw i mi amser, mi a ymroddaf i ysgrifenu yn ei chylch, wedi i mi orphen fy ngwaith presennol." Os cyfeirio y mae yn y geiriau hyn at "curious philosophical theory" o'i eiddo ar ddammeg y Cwymp, temtir ni i ddyweyd gyda Fabricius, "I would give a great deal to find it still extant."

Dywed Coleridge, yn y dyfyniad a roddwyd uchod, fod nodwedd allegawl yr adran sydd yn dechreu yn Gen. ii. 4, yn amlwg ar wyneb yr hanes ei hun. Nid yw y darllenydd craffus o'i Fibl Cymraeg heb deimlo gwirionedd y sylw hwn, ac y mae'n bosibl fod yr holl resymau a ddygir ymlaen gan Dr. Davidson wedi ymgynnyg o bryd i bryd i'w feddwl. Nid yw braidd yn bosibl pan y symudir ymlaen o hanes y cread yn y bennod gyntaf a dechreu yr ail, ac y deuir at y geiriau, "Dyma genedlaethau [yn fwy cywir, "hanes"] y nefoedd a'r ddaear pan grewyd hwynt," &c. (Gen. ii. 4), i osgoi yr argraff ein bod yn mhresennoldeb adroddiad o nodwedd wahanol i'r hyn a gafwyd yn flaenorol. Pan yr ailadroddir ffeithiau, gosodir y ffeithiau hyny mewn gwisg fwy lliwiedig. Collir i raddau pell y symlrwydd a nodweddai y bennod gyntaf, ac arweinir ni i awyrgylch lle y mae y dychymygol a'r arwyddluniol yn elfenau amlwg. Cydnabyddwn gyda pharodrwydd rym y rhesymau a ddefnyddir er dangos hyn a'i gadarnhau.

O'r ochr arall, mor bell ag y mae golygiadau yr awdwyr uchod yn awgrymu deongliad o'r adroddiad ag y dadleuant sydd yn ddammegol, neu arwyddluniol, ymddengys i ni fod dyfodiad pechod i'r byd, yn yr ystyr y mae hyny yn ei wisgo yn meddyliau yr awdwyr, yn fater rhy amwys, anmhenodol, a chyfriniol, i amcanu ei egluro mewn unrhyw adroddiad—dammegol neu arall—gan awdwr llyfr sydd mor henafol ag y credwn ydyw llyfr Genesis, neu gan yr ysbrydoliaeth a lefarai trwyddo ar adeg mor foreu yn hanes dynolryw. A dichon fod y traddodiad a gorfforir yn y llyfr, yn y pennodau hyn, oesau lawer yn hŷn na'r awdwr.* Ac yn ddiau, rhaid gadael athroniaeth y meddwl

* Mae'n anhawdd i ni sylweddoli fod cymaint o amser yn gwahanu rhwng Moses a'r cwymp, ag sydd yn ein gwahanu ni yn y ganrif hon oddiwrth adeg y caethgludiad i Babylon.

dynol, yn ol fel ei deallir yn y dyddiau hyn o'r neilldu, pan yn ceisio esbonio ysgrif mor henafol â'r un sydd dan ein sylw, a disgyn at y gwirionedd syml—i'r Crëwr roddi gorchymyn, ac i'r dyn anufuddhau.

Heblaw hyn, nid ydym yn petruso cymhwyso at yr oll o'r golygiadau uchod, y feirniadaeth y beiddiasom ei rhoddi yn flaenorol ar Dr. Martensen a'i olygiad ef. Y mae yr awdwyr yn gwneyd o'r adroddiad dammegol yn llyfr Genesis, yr hyn y byddent hwy yr olaf i'w oddef gydag unrhyw adroddiad dammegol arall yn yr Ysgrythyr—er engraifft, unrhyw ddammeg a lefarwyd gan ein Hiachawdwr—sef ei chymeryd allan o'i chysylltiadau, allan o'i *setting*, yn yr hanes, a chwilio i'w meddyliau neu eu dychymyg eu hunain, yn wir i holl gylch posibilrwydd am yr hyn y gallent ddyfalu ydyw y deongliad mwyaf addas iddi.

Drachefn, nid ydym yn gallu gweled yn un o'r golygiadau uchod, le i gyfammod rhwng Duw a'r dyn cyntaf, fel pen-cynnrychiolydd ei holl hiliogaeth. Pechod yn ei ystyr fwyaf cyffredinol, pechod yn erbyn ei natur foesol, y ddeddf ysgrifenedig yn ei galon, ydyw y pechod y golygir a gyflawnwyd gan y dyn; ac nid troseddiad o orchymyn penarglwyddiaethol a ragdybiai gyfammod a gynnwysai ynddo fywyd yn wyneb ufudd-dod a marwolaeth yn wyneb anufudd-dod. Byddai yn haws gan ein darllenwyr, yr ydym yn tybied, ollwng eu gafael o'r golygiad llythyrenol ar hanes y cwymp, er mor anhawdd yn ddiau ydyw hyny gan lawer o honynt, na gollwng eu gafael o'r gwirionedd ddarfod i Dduw ymostwng i wneyd cyfammod â'r dyn cyntaf. Ac fe allai mai un o'r rhesymau paham yr ydys wedi glynu wrth y golygiad llythyrenol ar yr hanes, er yr anhawsderau a deimlir yn gyffredinol sydd ynglŷn âg ef, ydyw fod mabwysiadu y golygiad mai dammeg ydyw, yn wyneb pob deongliad ag ydoedd wedi ei gynnyg arni, yn eynnwys taflu o'r neilldu y drychfeddwl o gyfammod, a thrwy hyny ddinystrio un o sylfeini pwysicaf ein duwinyddiaeth.

Y mae deall clir dynion goreu y cyfnod Cristionogol, y dynion a yfasant helaethaf o ysbryd y Bibl, ac a gyrhaeddasant y ddirnadaeth gliriaf o feddwl Duw yn ei air, wedi esbonio yn gywir y rhanau o'r Ysgrythyr sydd dan ein sylw, pan osodasant fel un o erthyglau sylfaenol eu duwinyddiaeth, fod hanes dynolryw wedi dechreu mewn cyfammod rhwng Duw a dyn; ac mai bodolaeth y cyfryw gyfammod, ynghyd a throseddiad o'i delerau gan ddyn, yn unig, a ddichon esbonio hanes dilynol dynolryw. Ceir cadarnhad pwysig a dyddorol i'r gwirionedd hwn o fewn y pennodau hyn, yn yr enw gwahanol a roddir i'r Creawdwr i'r hyn a ddefnyddiwyd yn yr hanes blaenorol. Yn hanes y cread, "Duw" ydyw yr enw a ddefnyddir; yn yr adran ddilynol, hyd ddiwedd y drydedd bennod, defnyddir yn ddïeithriad yr enw, "yr Arglwydd Dduw." Cydnabyddwn, yn unol â beirniadaeth ddiweddar, fod y gwahaniaeth hwn yn dangos eu bod yn ddau draddodiad gwahanol, ac wedi eu cael o ffynnonellau gwahanol. Dichon hefyd mai yn y traddodiadau hyny yn llyfr Genesis lle y defnyddir yr enw diweddaf, y mae i ni weled sylfaen y llyfr, ac mai amcan gosodiad i mewn y lleill ydyw cyflenwi y rhai hyn—eu cysylltu, llanw eu diffygion, a'u gwneyd yn ddealladwy. Hwyrach hefyd y gallwn gasglu mai y rhai hyn ydyw y traddodiadau a gafodd yr hanesydd wedi eu tros-

glwyddo i lawr trwy Abraham, Isaac, a Jacob, nes cyrhaedd o honynt ei ddwylaw ef. Nid wrth anwybyddu ffrwyth beirniadaeth fanol y mae cyrhaedd y gwirioneddau mwyaf a dyfnaf, a chanfod y sylfeini cedyrn ar ba rai y maent yn gorwedd; eithr yn hytrach wrth gredu na wna pob craffder a arferir i chwilio i natur a chynnwys y dadguddiad Dwyfol ond dadleuu cyfoeth newydd yn y mwngloddiau pur. Yr ydym, gan hyny, yn croesawu y feirniadaeth y cyfeiriwyd yn awr ati, a galluogir ni, trwy ei chymhorth, i weled gyda mwy o amlygrwydd, ac i osod ar sylfaen fwy cadarn y gwirionedd y cyfeiriwyd ato,—ddarfod i Dduw ymostwng i ddyfod i berthynas agosach â dyn nag a awgrymir yn ei waith yn ei greu. Y mae "Duw," y Creawdwr, yn amlygu ei hun yn "Arglwydd Dduw." Ni a welwn yr "Elohim" (y mae y gair yn y rhif liosog), yr Hwn sydd yn Un, ac ar yr un pryd yn fwy nag un; yr Hwn sydd, nid yn unig yn meddu yr unoliaeth sydd mewn bod yn Un, ond hefyd yn meddu yr unoliaeth uwch a mwy gogoneddus sydd yn codi oddiar undeb a chytundeb mwy nag Un; yr "Elohim" yn dadguddio ei hun yn "Jehofah Elohim," yn Arglwydd Dduw, yn Greawdwr a Llywodraethwr. Ac er ein bod, yn yr ysgrifau hyn, yn dewis ammeu addasrwydd un o brenau yr ardd i fod yn "arwydd" o'r cyfammod yr ymostyngodd Duw i'w wneuthur â dyn, eto y mae y ddamcaniaeth a gynnygiwn er esbonio yr hanes, yn rhagdybied ac yn cydnabod bodolaeth cyfammod; a dadleuwn fod y pren yn arwyddlun cymhwys, mewn adroddiad dammegol, o'r hyn y credwn ydoedd yn "arwydd" o'r cyfryw gyfammod. Y sefyllfa y desgrifiwyd dyn ynddi yn nhraddodiad y greadigaeth, yn nghanol cysuron a manteision dirifedi—gydag un gwaharddiad, "Na wna ynddo," sef yn y seithfed dydd, "ddim gwaith," ydyw y sefyllfa a ddesgrifir yn nhraddodiad Eden, mewn modd dammegol, arwyddluniol, a chymhwys i'w drosglwyddo gan dad i ddeall a chof ei blentyn, lle y gwelir y greadigaeth yn Baradwys, ei chysuron dirif ac amrywiol yn brenau dymunol yr olwg a da yn fwyd yn tyfu yn yr ardd; a'r un peth gwaharddedig yn un o'r prenau a wnaethpwyd i "dyfu o'r ddaear."

Ni a ddychwelwn yn awr at yr hyn a ddywedwyd a fyddai yn destun yr ysgrif hon, sef edrych pa fodd y cydsaif ein damcaniaeth â'r desgrifiad ysgrythyrol o'r demtasiwn a arweiniodd ein rhieni cyntaf i droseddu y gorchymyn Dwyfol. Y mae yr anhawsderau a deimlir ynglŷn â'r esboniad llythyrenol ar yr hanes, yn ein canlyn yma, gan ei fod yn ein gorfodi i dybied fod y demtasiwn o nodwedd wahanol i ddim a gyfarfu neb o blant dynion. O'r ochr arall, pan yr amcenir osgoi yr anhawsder hwn, anwybyddir yn fynych yr hanes ysgrythyrol. Y mae pawb a roisant ystyriaeth feddylgar i demtasiwn yr ardd, wedi ei gael yn orchwyl anhawdd dros ben, wrth dderbyn a dilyn yr hanes, i beidio gwneyd trais â rheswm; ac, ar y llaw arall, wrth wrando ar reswm, i beidio gwneyd trais â'r hanes. Mae yn ddiau, gan hyny, y cydnabyddir yr ennillid mantais bwysig ar ammheuaeth, a thuag at i'r hanes gael ei derbyn yn grediniol a chalonog, pe gellid llwyddo, heb wneyd trais â'r adroddiad ysgrythyrol, i ddangos fod y demtasiwn trwy yr hon yr ymosodwyd ar ein rhieni cyntaf, yn gyffelyb i'r temtasiynau yr ydym ein hunain yn brofiadol o honynt; iddynt gael "eu temtio yn gyffelyb i ninnau."

Dysgwylir i ni, mae'n debyg, roddi atebiad i'r gofyniadau a ganlyn:—

1. A gydnabyddwn ni weithrediad y diafol yn y demtasiwn? Y mae yr hanes yn Genesis yn ddystaw ar hyn, ac felly y mae yr oll o'r Hen Destament, oddieithr mor bell ag y mae yn dysgu gweithrediad y diafol yn nhemtasiynau arferol dynolryw. Gallesid dadleu am y geiriau a arferir ddwywaith yn llyfr y Dadguddiad (xii. 9; xx. 2), "yr hen sarph, yr hon yw diafol a Satan," nas bwriadwyd hwynt i ddangos cysylltiad y diafol â sarph y demtasiwn gyntaf; ac fod geiriau Paul (2 Cor. xi. 3), "megys y temtiodd y sarph Efa trwy ei chyfrwysdra," o leiaf yn gydbwys â hwynt o'r ochr arall, ac yn ymddangos yn cau allan y dybiaeth fod eu hawdwr yn golygu fod gweithrediad y diafol gyda'r eiddo y sarph yn y demtasiwn. Y mae geiriau ein Harglwydd, modd bynag, yn derfynol ar y mater: "Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad; canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo" (Ioan viii. 44); geiriau ag ydynt, nid yn unig y rhai mwyaf pwysig ac eglur yn yr Ysgrythyrau ar fodolaeth, personoliaeth, a gweithrediad Satan, eithr hefyd ydynt yn amlwg yn gyfeiriad at y cwymp, ac yn ein dysgu mai y diafol ydoedd y prif weithredydd yn nygiad oddiamgylch ddinystr a marwolaeth dynolryw, ac hefyd mai efe ydoedd awdwr y celwydd a briodolir yn hanes y cwymp i'r sarph. Hwyrach y caniateir i ni hefyd gyfeirio at eiriau y tu allan i'r Ysgrythyrau, i ddangos y farn a ffynai ymysg yr Iuddewon anysbrydoledig ar y cwymp: "Duw a greodd ddyn yn anllygredig, ac a'i gwnaeth ef yn ddelw ei lun ei hun, a thrwy genfigen y cythraul y daeth marwolaeth i'r byd." *Doeth. Sol.* ii. 23, 24.

2. Trwy ba gyfrwng neu gyfryngau y dylanwadwyd gan y diafol ar feddyliau ein rhieni cyntaf? A ydym i olygu fod sarph naturiol wedi ei defnyddio yn gyfrwng i drosglwyddo y demtasiwn, ai ynte arwyddlun yn unig ydyw, mewn adroddiad dammegol, o ryw egwyddor, tuedd, neu deimlad? Yr ydys wedi gweled mai yr olaf ydyw barn yr awdwyr y cyfeiriwyd atynt yn nechreu yr ysgrif hon. Mae y sarph gan un, yn arwyddlun o "bleser;" gan arall, o "feluschwant;" gan arall, o'r "deall;" a chan arall (Martensen), o'r hyn a eilw "*the worldly principle;*" ac yn yr oll o'r golygiadau hyn, y mae yn amlwg nad oes le i sarph naturiol. Fel gwisg yn unig am ryw wirionedd y cyfeirir ati yn yr adroddiad, a chan belled ag y gallwn weled, gwnaethai gwisg arall y tro yn llawn cystal â'r hon a ddefnyddir. Y mae yn dra anffodus i'r golygiad hwn, fod nid yn unig y traddodiad yn llyfr Genesis, ond hefyd y traddodiadau sydd ar gôf a chadw yn yr India, yr Aipht, a Phersia, oll yn dangos fod i sarph ran bwysig yn nygiad oddiamgylch gwymp y dyn cyntaf. O'r ochr arall, os derbynir yr esboniad llythyrenol, gan gydnabod fod sarph yn wirioneddol neu mewn ymddangosiad wedi ei defnyddio gan y diafol i drosglwyddo y demtasiwn, gorfodir ni i ofyn, ai ymddangos ar lun sarph a wnaeth y temtiwr? ai ynte cymeryd meddiant a wnaeth o un o seirph yr ardd, gan ei gallnogi i drosglwyddo i glyw a deall y dyn feddyliau wedi eu gwisgo âg iaith? Pa un bynag o'r golygiadau hyn a fabwysiedir, y mae yn rhagdybied gallu gan y diafol, nad ydyw rhanau eraill o'r ysgrythyr yn dangos ei fod yn feddiannol arno. Ni roddir unrhyw awgrym yn y Bibl fod y diafol, i'r dyben o demtio dynolryw, yn alluog, neu yn cael ei ganiatâu, i ymddangos ar lun, neu i gymeryd meddiant o anifail, ymlusgiad, nac ehediad. Heblaw hyn hefyd, nid trwy yr un o'r llwybrau hyn y daw temtasiynau; mae eu llwybrau hwy yn llai

amgylchog a thrwsgl, ac ar yr un pryd yn fwy effeithiol i gyrhaedd eu hamcan.

Un o fanteision y ddamcaniaeth a gynnygiwn er esbonio dammeg y cwymp, ydyw ei bod yn ein galluogi i gydnabod gweithrediad y diafol yn y demtasiwn, ac i roddi lle i'r sarph fel cyfrwng ei throsglwyddiad, ac ar yr un pryd heb wneyd cymaint o drais â'r hanes ysgrythyrol ag a wneir gan y naill o'r golygiadau uchod, nac ychwaith, wneyd cymaint o drais ar reswm ag a wneir gan y llall. Oblegid, os y seithfed dydd ydoedd "arwydd" y cyfammod cyntaf, yna yr oedd gweled creaduriaid direswm yn gweithredu ar y dydd hwnw, megys ar ddyddiau eraill, yn gyfryw beth ag y gallai y diafol awgrymu trwyddo i feddwl y dyn i weithredu yn gyffelyb. Yn ystod y trosglwyddiad i'r meddwl o'r argraff oddiwrth y gwrthddrych y gweithredir arno gan y synwyrau, y mae y lle a'r cyfleusdra i weithrediad y diafol er gwneyd y cyfryw argraff yn demtasiwn i bechod, a'i heffeithioli i gyrhaedd ei hamcan. Temtasiwn o'r natur yma, sef o'r un natur â'n holl demtasiynau ninnau, ydoedd yr un a olygwn ddarfod i'r dyn cyntaf gyfarfod â hi, ac a ddesgrifir yn yr hanes fel yn deilliaw oddiwrth y sarph; ac nid yw y golygiad yn gwneyd ychwaneg o drais â'r hanes nag sydd yn gynnwysedig mewn tybied y sarph yn dywedyd mewn geiriau, y meddyliau ag yr ydoedd yr olwg arni, gyda gweithrediad y diafol trwy hyny, yn eu hawgrymu.

Dangosa yr hanes fod i'r demtasiwn dair gris, y rhai a oddefant eu dwyn i gysondeb â'n golygiad yn y llwybr a ganlyn. Yn gyntaf, "Ai diau ddywedyd o Dduw?" &c. Nid ydyw yn debygol fod y dadguddiad a roddes Duw o'i feddwl i'n rhieni cyntaf yn gyfryw fel na adawsid lle i ammheuaeth ac anghrediniaeth i weithredu, ac yr oedd gweled anifeiliaid ac ymlusgiaid y ddaear, er amrywiaeth a graddau eu deall a'u cyfrwysdra, heb fod yn ddarostyngedig i'r un ddeddf ag y gosodasid hwy dani, yn awgrymu ammheuaeth am fodolaeth y cyfryw ddeddf. Eithr os methiant a fu yr ymosodiad hwn i siglo eu ffydd, y mae llwybr arall yn bosibl, a dyma yr ail ris; y mae anifeiliaid y ddaear o herwydd eu cyfrwysdra, yn ddiau dan yr un ddeddf, a gwelwch eu bod yn ei throseddu yn ddigosb; "Ni byddwch feirw ddim." Ac yn drydydd, y mae eu cyfrwysdra i'w briodoli i'r ffaith eu bod yn defnyddio eu holl amser, heb golli un gyfran o hono, i ddablygiad eu galluoedd; ac nid oes reswm y gellir ei roddi am y gwaharddiad y gosodir chwi dano, ond yr angenrheidrwydd i roddi attaliad ar eich dadblygiad; rhoddwch eich holl amser, heb eithrio y seithfed dydd, i'r dadblygiad o'r galluoedd tra rhagorol â pha rai y cynnysgaeddwyd chwi amgen yr holl ymlusgiaid a'r anifeiliaid, a "chwi a fyddwch megys duwiau," a gwybod hyny y mae Duw. Gorfu y demtasiwn; cadwynodd balchder am y wraig, "a hi a estynodd ei llaw, ac a gymerth o'r ffrwyth, ac a'i bwytaodd."

Ni osodir ni dan un math o angenrheidrwydd i wrthod yr ymadrodd a ddyfynwyd yn awr yn ei ystyr lythyrenol, a golygu ei fod yn desgrifio yn llythyrenol gywir y weithred trwy yr hon y troseddwyd deddf y seithfed dydd. Ymhen oesau ar ol hyn, pan y gwlawiodd Duw fanna o'r nefoedd i'w bobl Israel, gorchymynodd iddynt gasglu, ar y chweched dydd, ddau cymaint o fanna ag a gasglent beunydd, gan ddywedyd, "Y fory y mae gorphwysfa Sabboth sanctaidd i'r Arglwydd."

A allwn dybied mai dyma ydoedd un llwybr syml, trwy ba un yr oedd yn ddealledig gan ein rhieni cyntaf eu bod i sancteiddio y dydd a fendigodd Duw er eu mwyn; eithr i'r gelyn diafol, ar ryw seithfed dydd (yn unol â'r traddodiad y cyfeiriwyd ato, Ysgrif I.), gymeryd mantais ar waith y wraig yn edrych ar y sarph yn arfer ei chyfrwysdra i geisio ei hymborth, i'w themtio hithau i ddiystyru ac anufuddhau y gorchymyn dwyfol. Y mae y dybiaeth naturiol hon yn ein cynnorthwyo i weled pa fodd y mae yr hanes wedi cymeryd y ffurf ymha un y mae wedi ei drosglwyddo i lawr i ni, a'i fod i'w briodoli i'r achos syml fod meddyliau dynion wedi methu cadw ar wahân y trosedd gwirioneddol a'r weithred trwy ba un y troseddwyd; ac felly aeth y pren o ffrwyth pa un y bwytäwyd yn bren gwaharddedig, yn bren gwybodaeth da a drwg, gan mai trwy fwyta o'i ffrwyth, ar y seithfed dydd, y troseddwyd y cyfammod o ba un yr ydoedd y seithfed dydd yn "arwydd."

Yn ngoleu yr hyn a ddywedwyd, goddefa temtasiwn ein Harglwydd Iesu Grist ei chymharu a'i chyferbynu yn darawiadol a dyddorol â themtasiwn yr Adda cyntaf. Gris gyntaf temtasiwn yr ail ddyn, megys yr Adda cyntaf, ydoedd, i fwyta mewn anufudd-dod i eiriau Duw; yr ail ris (gan gymeryd adroddiad Matthew), ydoedd, "Ni byddwch feirw ddim," er rhyfygu; a'r drydedd, ymgais i ddwyn i mewn i'r meddwl dueddiadau hunangeisiol a balch. Goddefant, o'r ochr arall, eu cyferbynu. Yn yr ardd y temtiwyd y cyntaf, yr ail yn yr anialwch. Temtiwyd yr Adda cyntaf ar y seithfed dydd a ganlynai chwe' diwrnod o lawnder dymunol; yr Ail Ddyn a demtiwyd ar y seithfed wythnos ar ol chwech wythnos o newyn: "Ac wedi iddo ymprydio ddeugain niwrnod a deugain nos, ar ol hyny efe a newynodd."

Rhaid i ni adael gorpheniad ein hymresymiad i ysgrif arall.

M.

---

## Y PARCHEDIG WILLIAM HOWELLS.

WRTH gymeryd fy ysgrifell mewn llaw i osod i lawr rai adgofion am hanes a theithi fy hen a'm hoffus gyfaill, yr wyf yn wybyddus y bydd i'r hyn a ysgrifenaf ddyfod i ddwylaw llaweroedd na welsant erioed ei wyneb ef yn y cnawd. Y mae lliaws o'n gweinidogion wedi ein gadael, y rhai nid oes ond ychydig wedi ei ysgrifenu am danynt, ac oeddynt yn adnabyddus trwy holl Gymru; a phe byddai fy ngwybodaeth, a'm gallu, a'm hamser yn caniatâu i mi i ysgrifenu hanes teilwng am danynt hwy, gallai y rhan amlaf o fy narllenwyr yn y TRAETHODYDD fy nilyn bob cam, ac weithiau, fel y dywedai yr hen bregethwyr, "fyned o fy mlaen," a chymharu yr hyn a ysgrifenaswn â'r hyn a wyddent ac a welsent hwy eu hunain. Ond ychydig, mewn cymhariaeth, a allant wneuthur hyny â fy ysgrif bresennol, oblegid gellir dywedyd yn ddibetrus na fu yr un dyn mawr yn byw ac yn llafurio ymhlith Methodistiaid Cymru am yr hanner canrif diweddaf, oedd yn

cael ei adwaen mewn cylch mor gyfyng, a chan cyn lleied o bobl â'r diweddar Barchedig William Howells. Nid am nad oedd yn werth ei adnabod, ond am reswm arall, yr hwn a ymddengys, fel y byddai yr hen dduwinydd, William Thomas o Gaerdydd, yn arfer dywedyd, "Pan ddelo i yn y blaen i drin."

Ychydig o'm darllenwyr, mi feddyliaf, sydd yn gydnabyddus â'r Bontfaen (Cowbridge), tref fechan yn mro Morganwg, ac un o'r rhai glanaf a thlysaf trwy holl Gymru. Y mae ynddi un heol fawr a llydan, yn estyn tua thri chwarter milldir o hyd o'r dwyrain tua'r gorllewin; a heol fechan fer, yn cychwyn o'i chanol tua'r dehau, heb fod yn hwy na chant a hanner o latheni, os cymaint a hyny. Y mae ei thrigolion trwy yr oesoedd yn parhau yn agos i'r un nifer, ychydig yn fwy neu yn llai na mil. Y mae yn gorwedd ar wastadedd ffrwythlawn, yn cael ei derfynu gan fryniau bychain a phrydferth, ac ar un o'r uchelaf o honynt, tua'r gorllewin, y saif Castell Penllin, yn edrych i lawr ar y dref, fel yn cadw gwyliadwriaeth drosti ddydd a nos. Yr uchelaf oll yw y *Stallion Down*, tua'r dwyrain, ac ar ben hwnw y byddent yn crogi dynion drygionus yn yr amser gynt. Y mae Pontfaen wedi bod, er cyn cof, yn lle tra Seisnigaidd. Yr wyf yn cofio, ac nis gall fod llawer llai na thriugain mlynedd oddiar hyny, ymddyddan rhwng dau fachgen yn yr ysgol, pan oedd y naill yn dywedyd, fel peth rhyfedd iawn, fod bachgenyn bychan yn byw yn agos i'r Eglwys a fedrai *siarad Cymraeg*, a'r llall yn gwrthod credu fod hyny yn bosibl.

Bu y Bontfaen unwaith yn dref gaerog. Adeiladwyd mur o'i hamgylch gan Robert St. Quintin, wedi goresgyniad Morganwg gan y Normaniaid, a thua'r flwyddyn 1091. Tynwyd i lawr y pyrth dwyreiniol a gorllewinol o fewn cof rhai ag yr oeddwn yn eu hadwaen, ond y mae porth y dehau, a darn cysylltiol o'r mur, yn sefyll hyd y dydd heddyw, ac y mae y cae lle y byddem yn arfer chwareu, ar yr ochr ogleddol i'r dref, yn cael ei adwaen wrth yr enw *Town Walls*. Y mae y ffordd fawr o Gaerloyw i Milford yn rhedeg trwy y dref, a byddai y cerbyd mawr yn myned heibio bob boreu o'r gorllewin i'r dwyrain, a phob prydnawn o'r dwyrain i'r gorllewin, hyd o fewn deugain mlynedd yn ol, a rhedai y bobl yn fawrion a bychain tua'r *Bear Inn*, i weled pwy oedd wedi dyfod gydag ef, fel y mae ymwelwyr â Llandrindod yn y dyddiau hyn yn nhymmor yr haf yn rhedeg tua'r orsaf i weled pwy fydd wedi dyfod gyda'r gerbydres.

Yn agos i ben gorllewinol y dref, y tu allan i'r fan lle safai yr hen borth, ac mewn tŷ a adwaenid wrth yr enw *Westgate House*, y ganed William Howells, ar y 4ydd o fis Hydref, 1818.

Cyn dywedyd ychwaneg am dano ef, fe ddichon y goddefir i mi i ddyweyd rhyw gymaint am ei deulu. Yr oeddynt wedi bod am genedlaethau mewn ffermdŷ cyfagos o'r enw Llwynhelyg, ac yr oedd David Howells, tad William, yn un o ddeg o blant—chwech o feibion a phedair o ferched, a'r hynaf o honynt oedd yr enwog William Howells, Long Acre, pregethwr mawr Llundain am lawer o flynyddoedd. O ddechreuad ei weinidogaeth, yr oedd efe yn llawn o ysbryd pregethu. Bu am ryw gymaint o amser yn gurad i'r Parchedig David Jones, Llangan, ac, fel ei Reithior, ymgymysgai a chydweithredai â'r Methodistiaid, gan bregethu yn eu capeli, a phregethu ar hyd y tai, ac ymhob man lle y gallai gael cyfleusdra i gyhoeddi yr efengyl dragywyddol i bechaduriaid.

Wedi myned i Lundain, a chyfodi i sylw ac i enwogrwydd mawr yno, parhaodd tra y bu fyw i goleddu y teimladau mwyaf cariadus at ei hen Gyfundeb. Yn uchder ei boblogrwydd, pan y gallai rifo rhai o bendefigion y deyrnas ymhlith ei wrandawyr a'i gyfeillion mwyaf mynwesol, nid oedd neb ymwelwyr yn cael croesaw mwy calonog ganddo *ef* na phregethwyr Methodistaidd. Gadawer i mi roddi un esiampl o hyny; gallwn roddi ychwaneg, ond gwasanaethed un. Yr oedd y Parchedig Richard Thomas o Lysyfronydd, yn gwasanaethu gyda'r Cymry yn Llundain, ac un noswaith aeth i Long Acre i wrando ei hen gymydog. Ar ol yr odfa gofynodd i'r rhingyll a allai efe weled y gweinidog. "Gellwch," ebe hwnw; "y mae yn y Festri, ewch trwy y drws acw, a chewch ei weled." Fe aeth trwy y drws i ystafell gysurus, a thyna lle yr oedd y pregethwr mawr yn ysmocio yn ymyl y tân, ac amryw gyfeillion yn eistedd o amgylch. Golygfa bur Fethodistaidd, onide? Pan syrthiodd ei lygad ar ei ymwelydd, rhoddodd y bibell i lawr, llamodd i ganol yr ystafell, a chan daflu ei freichiau o amgylch y pregethwr, dywedodd, "Richard Thomas anwyl, anwyl, pa bryd y daethoch chwi yma?" Ac yna gan droi at ei gyfeillion synedig a eisteddent o amgylch y tân, dywedodd, "*There is Welsh love for you, gentlemen!*"

Rhaid i mi beidio ag aros yn hir gyda'r offeiriad, ond nis gallaf ymattal rhag adrodd hanesyn am dano, yr hwn, hyd y gwn i, nad ydyw wedi ymddangos erioed o'r blaen mewn un cyhoeddiad Cymraeg, a'r hwn, *fel* yr wyf yn tybied, a'i gesyd mewn goleuni newydd o flaen llawer o'n darllenwyr. Yr wyf yn ei gymeryd allan o'r *Calvinistic Methodist Record* am 1852, yr hwn a gyhoeddwyd yn Nghaerfyrddin y flwyddyn hono a'r un ddilynol, dan olygiad ein hanwyl gyfaill. Yr oedd merch i'r Parchedig David Jones, Llangan, Maria wrth ei henw, wedi priodi âg un Mr. Llewelyn, ac fe allai mai nid anmhriodol yw dywedyd mai un o'u meibion hwy oedd y diweddar Ddr. Llewelyn, Deon Tŷ Ddewi, a Llywydd Athrofa Dewi Sant. Yn foreu yn ei bywyd priodasol, cyfarfu Maria â phrofedigaeth lem yn marwolaeth mab bychan o'r enw Daniel. Galwodd Mr. Howells, yr hwn ar y pryd oedd yn gurad i'w thad, i'w gweled yn ei thrallod, a chafodd hi wedi ei gorchfygu mor llwyr gan alar am ei bachgen, fel "na allai lefaru." Cymerodd yntau i fyny hen lythyr, ac ar ei gefn ysgrifenodd y geiriau a ganlynant. Rhoddir hwy yn y *Record* am fis Tachwedd, 1852, yn Gymraeg, fel yr ysgrifenwyd hwy, ac ochr yn ochr â hwy y mae cyfieithiad Seisonig o honynt gan y Golygydd:—

Fe wylodd Iesu ei hun
   Cyn sychu gruddiau 'r gwan;
Ca's Mair a Martha 'u brawd yn ol,
   O waelod bedd i'r lân,
A phrofi cariad Crist,
   A gwel'd gogoniant Duw
Yn troi yn olwg wendid ffydd,
   Wrth godi 'r marw 'n fyw.

Maria! mwy na hyn
   Sydd eto 'n ol i ti,
O fewn i'r udgorn ola' 'i sain,
   I lenwi 'th fron yn lli':

I wel'd gogoniant gwell,
   Cei lygad gan dy lôr,
A chalon lawn am galon brudd;
   O! wynfyd fwy na môr.

Cei weled angau 'n glaf,
   Gan wenwyn Dwyfol waed,
Yn rhoddi 'r meirw 'n rhyddion gwiw,
   A marw dan eu traed;
A chwympo byth i'r bedd,
   I'r meirw byth gael byw,—
A'th blentyn anwyl yn eu plith,
   Yn iach yn ie'nctyd Duw.

Cei eto glywed Dan
   Tu draw 'r Iorddonen ddu,
Yn canu Haleluia 'n llon
   Yn mhlith y nefol lu;
A'i ddwylaw medrus ef
   Yn seinio 'r delyn aur,
Pob bys, pob tant yn fyw o fawl
   I Fab ac Arglwydd Mair.

Hynyna am yr Ewythr.

Mab Dafydd, brawd ieuengach, oedd fy anwyl gyfaill, ac yr oedd yntau yn enwog yn Sir Forganwg, a thu hwnt i'w therfynau, am ei zel a'i weithgarwch crefyddol. Yr oedd yn flaenor yn hen eglwys Aberthyn, milldir i'r gogledd o'r Bontfaen. Y mae genyf gof niwlog i mi fod unwaith yn euog o fwyta afal yn yr odfa ar foreu Sabboth yn Aberthyn, a rhoddwyd ar ddeall i mi ar ol hyny, pe buasai Dafydd Howells wedi fy ngweled, y buasai y canlyniadau yn ddifrifol iawn. Yr oedd arnaf gryn ddipyn o'i ofn ef, oblegid yr oedd yn ddyn mawr, ac o edrychiad awdurdodol a mawreddog.

Aeth unwaith i Lundain i weled ei frawd, a daeth yno i gyffyrddiad ac i gyfeillgarwch â'r enwog a'r Parchedig Rowland Hill. Aeth gydag ef yn ei gerbyd i amryw fanau, ac un diwrnod dywedodd Mr. Hill wrtho: "Yr wyf yn myned i'ch cymeryd y prydnawn yma, Mr. Howells, i weled boneddiges urddasol (*grand lady*), os byddwch yn foddlon i ddyfod." Yr oedd Mr. Howells yn berffaith foddlawn, a phan ddaeth yr amser cychwynasant. Safodd y cerbyd o flaen tŷ bychan a thlodaidd, a synai Mr. Howells fod *grand lady* yn preswylio yn y fath le. Curodd Mr. Hill wrth y drws, a daeth hen wreigan dlawd yr olwg arni, i agoryd, a meddai Mr. Hill wrthi: "Yr wyf wedi dyfod â brawd Cymreig i'ch gweled, Betty, ac yr ydym yn myned i aros gyda chwi i dê. Ewch i fyny i'r llofft, newidiwch eich *cap*, roddwch ffedog lân am danoch, a gwnewch yn barod i ni." Diflanodd yr hen wraig i fyny y grisiau, a chyn gynted ag yr aeth o'r golwg, dyna Mr. Hill yn agoryd y cwpbwrdd, ac yn taflu i mewn iddo o'i logellau mawrion ddigon o bob darpariaeth ar gyfer y tê, a thros ben. Yn fuan daeth Betty i waered, huliodd y bwrdd ac eisteddwyd wrtho, a chafwyd tê rhagorol, a *society* fendigedig. Yr wyf yn credu na bu yr hanesyn yna am Rowland Hill "mewn argraff erioed o'r blaen."

Nid oedd gan y Methodistiaid y dyddiau hyny yr un capel yn y Bontfaen, a phenderfynodd Mr. Howells adeiladu un yno. Prynodd dŷ i'r hwn y perthynai gardd eang, ac aeth iddo i fyw. Neillduwyd darn o'r ardd i adeiladu y capel arno, a mawr

fu gofal a llafur Mr. Howells nes ei orphen, ac wedi ei orphen yr oedd, o leiaf, yr ail oreu yn Sir Forganwg. Wedi penderfynu amser yr agoriad, aeth Mr. Howells i Wotton-under-Edge i geisio Mr. Hill i bregethu ar yr achlysur, ac wedi hyny aeth i Gaerfyrddin i weled Mr. Charles ar yr un neges. Llwyddodd gyda'r ddau, ac yr oedd yn haeddu llwyddo. Nis gallai y ddwy daith fod yn llawer llai na dau gant a hanner o filldiroedd, a rhaid cofio nad oedd rheilffyrdd yn bod yn y dyddiau hyny. Ar un o'r teithiau yma cafodd anwyd trwm, a phan y daeth dydd yr agoriad, yr oedd yn rhy glaf i fyned i'r capel. Cludwyd ef yn ei gadair i ben pellaf yr ardd, a gosodwyd ef i eistedd am amser o dan un o ffenestri agored y capel; clywai y swn a deallai rai o'r geiriau, a thyna'r cwbl a gafodd efe o'r gwasanaeth. Ymhen ychydig wythnosau, ar y 15fed o Awst, 1825, bu farw, heb fod yn fwy na 44 mlwydd oed. Fel i Moses, rhoddwyd iddo i weled gwlad yr addewid, ond ni chaniatawyd iddo fyned i mewn iddi. Parodd ei farwolaeth alar dwys a chyffredinol trwy yr holl ardaloedd cylchynol. Yr oeddwn y pryd hyny rhwng 7 ac 8 mlwydd oed, ac yr wyf yn cofio amgylchiad sydd yn profi fy mod wedi clywed llawer o ymddyddan am dano. Un diwrnod daeth dyn dyeithr i'r tŷ, a siaradai am beth amser â fy rhieni, ond er fy syndod ni ddywedwyd gair am yr hyn yr oeddwn i, wrth glywed ymddyddanion blaenorol, wedi dyfod erbyn hyny i edrych arno fel pwnc mawr y dydd, ac edrychais ar un o honynt, a chan gyfeirio at yr ymwelydd, gofynais: "Odi fe'n gwybod fod Dafydd Howells wedi marw!"

Fel hyn gadawyd William Howells, pan yn blentyn llai na 7 mlwydd oed, heb dad ar y ddaear, ac yr oedd iddo frawd bychan ieuengach nag efe ei hun, o'r enw Dafydd. Gadawyd y teulu heb lawer o gyfoeth, ond ar yr un pryd a digon o fodd i fyw yn gymharol gysurus. Yr oedd y fam yn gwybod y ffordd i wneuthur y goreu o'r hyn a adewsid yn ei llaw, ac yn wraig wir grefyddol, a gofalodd am feithrin y plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd.

Yr oedd William rai misoedd yn ieuengach na mi, ac er pan yr wyf yn cofio yr oeddym yn hoff gymdeithion. Chwareuem ynghyd, ac weithiau byddem yn adrodd pennodau gyda'n gilydd ar ddechreu odfeuon crefyddol, yn ol arferiad mynych y dyddiau hyny. Y mae argraffiadau boreuol yn gwneuthur eu rhan tuag at ffurfio cymeriad dyn dros ei holl fywyd, ac nid wyf yn sicr nad wyf fi i fesur mawr yn ddyledus am yr hyn yr wyf wedi bod ar hyd fy oes, a'r hyn ydwyf yn awr, i ddylanwad boreuol cymdeithas â William Howells. Oblegid gallaf sicrhau ei fod yn fachgen da, a da iawn. Elai trwy y tân a'r dwfr i [illegible]; ac am ddywedyd anwiredd, neu dwyllo wrth chwareu, neu wneuthur dim maleisus neu ddianrhydeddus, nid oedd y cyfryw bethau yn cael cyffwrdd ag ef.

Yn y dyddiau hyny byddai gwasanaeth plygain yn cael ei gynnal ar foreu Nadolig mewn capelau Methodistaidd yn dra chyffredinol, a mawr fyddai y darparu a fyddai ar ei gyfer. Gallaf sicrhau fod [illegible] y Capel ar y cyfryw achlysuron yn curo addurniadau yr [illegible] yn y dyddiau hyn, ac yn eu curo o ddigon. Yr oedd [illegible] canwyllau, a rhai o honynt yn oreuredig, dros yr holl le, a dwy gannwyll [illegible] mewn dau ddarn o glai ar bob sedd trwy y capel, yn ychwanegol at y canwyllau a fyddent yno bob amser.

Heblaw hyny oll, byddai llawer o'r gwrandawyr yn dyfod â'r cyfryw ganwyllau gyda hwy, ac yr oedd yn fater pwysig ymhlith pobl ieuainc yr ardaloedd pwy a ddeuai â'r ganwyll fwyaf ardderchog. Erbyn goleuo y cwbl, yr oedd yno ddau beth a barai i bawb deimlo eu presennoldeb, sef goleuni mawr, a gwres braidd annyoddefol. Ni threuliais erioed awr fwy anhawdd i fyw trwyddi, nag mewn capel bychan yn yr ardal, yr hwn nad oedd y bedwaredd ran o faint un Pontfaen, a lle y cyfrifais gant ac ugain o ganwyllau.

Yr oedd fy nghartref i tua dwy filldir oddiwrth y capel, ac ar un achlysur yr oedd ein rhieni wedi trefnu i mi fyned i gysgu gyda William y nos cyn y Nadolig, fel y gallwn fyned gydag ef i'r plygain. Bu ymddyddanion pwysig rhyngom yn y gwely, ond cysgasom ryw gymaint. Deffrowyd ni mewn pryd i fyned i'r capel erbyn pump o'r gloch y boreu, a chawsom y lle yn orlawn o bobl. Y pregethwr oedd y Parchedig Richard James, Pontrhydyfen; gŵr corffol, oedranus, yn siarad yn rhwydd ac yn rhugl, ac afonydd o ddagrau yn rhedeg dros ei ruddiau; ond nid oeddwn i yn cael llawer o flas ar ei bregeth am nad oedd yn bloeddio. Ei destun oedd, "Bydded yr oen genych yn berffeith-gwbl." Y cwbl yr wyf yn ei gofio o'r bregeth yw y frawddeg hon, "Mi allwn feddwl wrth yr holl oleuo yma fod genych chwi, yn yr ardal hon, barch mawr i'r Oen." Fe ddichon fod rhywbeth yn hyny, ond yr wyf yn ofni bod llawer o'r "goleuo" yn fynegiad o deimlad nad oedd yn dal un berthynas â'r "Oen."

Gosodwyd William Howells yn ysgol yr "*Eagle*," yn y Bontfaen. Gelwid hi wrth yr enw hwnw am ei bod yn cael ei chynnal mewn adeilad a fuasai unwaith yn brif westŷ y dref, ac a elwid *The Spread Eagle*. Y Prifathraw y pryd hwnw oedd Mr. Thomas Rhys, yr hwn oedd wedi bod o'i ieuenctyd yn gynnorthwywr i'w ewythr, Mr. Thomas Williams. Cyfodasai Mr. Williams yr ysgol i'r fath sylw ac enwogrwydd fel yr oedd boneddigion o bob parth o Forganwg a'r siroedd cymydogaethol yn anfon eu meibion yno i gael addysg. Yr oedd Mr. Williams yn awr wedi ymneillduo, gan adael yr ysgol i ofal ei nai; ond preswyliai mewn rhan o'r tŷ, ac ymwelai yn fynych â'r ystafell fawr i weled pa fodd yr oedd pethau yn myned ymlaen, a thynodd William Howells ei sylw a'i serch. Cymerai ef yn fynych i'w barlwr, i roddi iddo wersi ar ei ben ei hun, a gwersi ag oeddynt y tu allan i gwrs cyffredin yr ysgol. Yr oedd yr hen ŵr boneddig yn ddarllenwr mawr ac eang, yn gyfarwydd â gweithiau prif feirdd a llenorion y deyrnas, ac y mae yn bur sicr mai yn ei barlwr ef y cychwynwyd yn ysbryd y bachgen yr hyn a'i nodweddodd dros ei fywyd, ac a'i gwnaeth yn un o brif feistri ei wlad ar lenyddiaeth Seisonig.

Wedi gorphen â'r ysgol, gosodwyd ef yn egwyddorwas gyda Mr. William Trueman, Penybont ar Ogwr, i ddysgu yr alwedigaeth o Haiarnfaelwr. Er budd y rhai hyny o'm darllenwyr ag y mae eu haddysg wedi bod yn ddiffygiol, yr wyf yn rhoddi i lawr y gair Saesoneg, a thyma fe, "*Ironmonger*." Ar ol treulio ei dymmor yno, aeth i Gaerdydd i wasanaethu yn yr un alwedigaeth gyda Mr. Job James.

Yn ystod ei arosiad yma y traddododd ei araeth gyhoeddus gyntaf, ac yr oeddwn innau yno yn gwrando. Fe ddichon i'r fraint hon ddisgyn i mi fel etifeddiaeth oddiwrth fy Mamgu; pe buaswn yn

Ogleddwr buaswn yn dywedyd fy *nain*. Yr oedd hi yn bresennol ar enedigaeth y *baban*, ac yr oeddwn innau yn bresennol ar enedigaeth yr *areithiwr*. Pa fodd bynag am hyny, fel hyn y bu. Derbyniais lythyr oddiwrtho yn fy ngwahodd i ddyfod i Soar, capel ar ymyl y ffordd fawr rhwng Caerdydd a'r Bontfaen, lle yr oedd efe ac amryw gyfeillion ieuainc o Gaerdydd yn bwriadu cynnal Cyfarfod Cymedroldeb, Cymedroldeb, dealler, oblegid yr oedd Dirwest heb ddyfod y pryd hwnw. Aethum yno, a chefais ddau neu dri o'r areithwyr wedi dyfod, a chyda hwy y Cadben Cory, yr hwn oedd o leiaf wedi cyrhaedd canol oedran. Gosodwyd y Cadben yn y gadair, a bu pedwar neu bump o honom yn siarad. Yr oedd hyny yn hir cyn i mi ddechreu pregethu, ond yr oeddwn wedi bod yn "dywedyd tipyn" mewn dau neu dri chyfarfod Cymedroldeb, ac wedi arfer "areithio" am ddeng mynyd ar y pryd, heb fod genyf ddim neillduol i'w ddywedyd, yn nghyfarfodydd y Cymreigyddion; ond am fy nghyfaill, nid oedd efe wedi cynnyg dywedyd dim yn gyhoeddus erioed o'r blaen. Ychydig a ddywedodd, ac yr oedd yr ychydig hyny yn anhawdd i'w glywed ond gan y rhai oeddynt yn ei ymyl, ac yn dyfod allan gydag anhawsder mawr, tra yr oedd y siaradwr yn crynu fel dail yr aethnen. Yr oedd yn bresennol bregethwr, yr hwn yn y man a brophwydodd iddo ddyfodol gogoneddus, a'r teimlwn ydoedd fod rhyw swn yn ei wddf, yr hwn a alwai efe yn *energy*, a'r hwn oedd yn profi tu hwnt i bob dadl y deuai efe yn areithiwr ardderchog.

Tra yr oedd yn Nghaerdydd o'r braidd y diangodd y Methodistiaid rhag ei golli. Yr wyf wedi dywedyd eisoes fod y Bontfaen yn lle Seisnigaidd, ac o ran ei dafodiaith yr oedd efe, er yn fachgen, yn fwy o Sais nag o Gymro. Ni bu erioed yn alluog i siarad Cymraeg heb gryn lawer o lediaith, a naturiol yw casglu ei fod yn gallu mwynhau gweinidogaeth Seisonig yn well nag un Gymreig. Nid oedd gan ein Cyfundeb yr un achos Seisonig yn Nghaerdydd ar y pryd, nac am flynyddoedd lawer ar ol hyny. Yr oedd yno eglwys o Fedyddwyr Seisonig yn ymgynnull yn Nghapel *Bethany*, o dan ofal y Parchedig William Jones, yr hwn fel cristion, fel gŵr boneddig, ac fel pregethwr, oedd yn un o oreuon ei oes. Yr oedd W. Howells yn hoff iawn o hono, ac yn ei wrando yn fynych. Daeth y gair unwaith i'r Bontfaen ei fod yn myned i ymuno â'i eglwys ef, a phe buasai yn aros yn Nghaerdydd y mae yn dra thebygol mai hyny a wnaethai. Ond symudodd oddiyno i Chichester yn Sussex, lle y bu am rai blynyddoedd gyda masnachydd eang o'r enw Mr. Owen. Yma y daeth i deimlo argraffiadau crefyddol dwysach a dyfnach nag a deimlasai erioed o'r blaen. Dangosai ei lythyrau adref ei fod ar y pryd yn myned trwy gyfyngderau mawrion gyda golwg ar ei berthynas â'r byd a ddaw. Yr oeddwn yn credu, ac yr wyf yn credu eto, ei fod yn wir grefyddol cyn hyny; ond y mae yn dra sicr i'r wasgfa ddifrifol yn Chichester fod yn fendith iddo, a thrwyddo ef i laweroedd, dros ei holl ddyddiau.

Nid oedd wedi bod yn hir yn y lle hwn cyn dyfod i'r penderfyniad nas gallai aros ynddo, a dywedodd hyny wrth y meistr. Yr oedd hwnw yn anfoddlawn i ymadael âg ef, a gofynodd iddo pa beth oedd yn ei aflonyddu. Cafodd atebiad tebyg i William Howells, a dyma fe: "Y mae genych nwyddau yma, syr, y rhai nis goddef fy nghydwybod

i mi eu hargymhell ar eich cwsmeriaid. Dyma bethau wedi myned yn hen ac yn sâl, ac y mae o bwys i chwi allu eu gwerthu, ond nis *gallaf* fi eu gwerthu drosoch; nis gallaf fi ddywedyd fod pethau yn dda pan yr wyf yn gwybod eu bod yn ddrwg." "Wel, wel," ebe y meistr, "rhaid i mi eich gosod yn y cyfrifdŷ," ac yn y cyfrifdŷ y bu mwy tra yr arosodd yn Chichester. Ond cyn hir daeth arno gyfyngder arall, a chyfyngder o ba un nas gallodd gael rhyddhâd hyd nes y penderfynodd ymgysegru yn llwyr i waith y weinidogaeth.

Wedi dyfod adref ymroddodd i barotoi ei hun ar gyfer myned i'r Athrofa, ond bu am rai wythnosau, os nad misoedd, heb benderfynu pa Athrofa a fyddai. Yr oedd y fantol yn sefyll rhwng Trefecca a Cheshunt. Pe buasai yn myned i'r olaf, mae yn dra thebygol y buasem ni yn ei golli. Fel hyny y dygwyddasai gyda golwg ar amryw o bregethwyr ieuainc ein Cyfundeb. Gallwn enwi pedwar o Forganwg a aethent i Cheshunt cyn ei amser ef, ac na ddaethant byth yn ol i Gymru. Ond yn ei achos ef, ar ol pwyso a mesur, a meddwl ac ymgynghori ac ymohebu, trodd y glorian o blaid Trefecca. Yn y dyddiau hyny o ansicrwydd, derbyniodd lythyr oddiwrth un mewn awdurdod yn ei wahodd i ymuno â'r Eglwys Sefydledig, gan addaw rhwyddhau ei ffordd i gael urddau. Anfonodd atebiad nacäol yn y fan, ac er na welais ei lythyr, y mae genyf sail i gredu iddo lwyr argyhoeddi ei ohebydd mai gwaith ofer fuasai ceisio ei berswadio i droi oddiwrth ei benderfyniad; ond ysgrifenodd y boneddwr ato drachefn. Gwelais y llythyr hwnw, a chynnwysai y frawddeg hon: "Fe ddichon y bydd i chwi edifarhau am eich gwrthodiad pan ddeloch yn henach ac yn gallach." Fe aeth yn henach fel y mae pawb yn myned, ac fel y rhan amlaf o ddynion, fe aeth yn gallach; ond ni welais yr arwydd lleiaf iddo erioed edifarhâu am wrthod urddau yn yr Eglwys Sefydledig.

Yn ystod ei arosiad yn Nhrefecca, bu yn gwasanaethu am amryw Sabbothau, o bryd i bryd, yn Nghapel yr Arglwyddes Huntingdon, yn Worcester, a gwnaeth y fath argraff y Sabboth cyntaf, fel pan aeth yno yr ail waith yr oedd y capel yn orlawn o wrandawyr. Bu rhyw gymaint o ymdrafodaeth gyda golwg ar ei gael yno yn weinidog. Nid wyf yn sicr iddo dderbyn galwad ffurfiol oddiwrth yr eglwys, ond y mae genyf reswm dros gredu y buasai yn ei derbyn pe buasai sail i obeithio y buasai yn llwyddiannus.

Yn mis Gorphenaf, 1845, penderfynwyd cychwyn achos Seisonig Methodistaidd yn Abertawy, ac y mae hanes y cychwyniad pwysig hwnw yn awr o fy mlaen yn ysgrifenlaw Mr. Howells ei hun. Yr oedd yma achos perthynol i Gyfundeb Arglwyddes Huntingdon oddiar y flwyddyn 1787. Agorwyd capel, triugain troedfedd o hyd wrth ddeugain o led, ar y 5ed o Ebrill, 1789, a phregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. David Jones, Llangan, ac amryw eraill. Nid wyf yn gwybod dim o'i hanes am y saith mlynedd dilynol; ond yn 1796 dewiswyd y Parchedig William Kemp yn weinidog, a bu efe yn llafurio yno gyda llawer o lwyddiant am bum' mlynedd ar hugain. Yr oedd yr Arglwyddes yn cael ei hystyried yn Fethodist Calfinaidd, ac felly yr ydoedd. Cyn ei marwolaeth gwnaeth ymgais i sefydlu Cyfundeb yn Lloegr "ar gynllun y Cyfundeb Cymreig;" ond yr oedd eisoes wedi trosglwyddo ei holl gapeli i ddwylaw Ymddiriedolwyr; gwrthwyneb-

[illegible] yr ymgais allan yn fethiant. Pe [illegible] wedi [illegible] am y [illegible] rhoddi y gallu o'i dwylaw ei hun, buasai Corff [illegible] Methodistiaid Calfinaidd yn awr yn Lloegr. Yr oedd ei gweinidog yn Abertawy yn mynychu Cymdeithasfaoedd a Chyfarfodydd Misol y Methodistiaid, yn cymeryd rhan yn eu gweithrediadau, ac yn [illegible] yn ei eglwys yn ol trefniadau a defodau Methodistiaid Cymru. Ond wedi ymadawiad Mr. Kemp, i gymeryd [illegible] America [illegible], daeth cyfnewidiad mawr, ac o radd i radd symudwyd pob peth ag oedd yn dwyn delw Methodistiaeth. Rhoddwyd i fyny y cyfarfod eglwysig wythnosol, a chymerodd y gweinidog arno i dderbyn pobl i'r gymundeb heb ymgynghori â'r eglwys. Yr oedd [illegible] yn Fethodistiaid trwyadl, wedi eu dysgu felly gan eu [illegible] weinidog oddiar ddechreuad eu bywyd crefyddol. Ar ol [illegible] a phoenus ymdrechion i gael gan y gweinidog ddychwelyd at yr hen drefniadau, y rhai oll a brofasant yn aflwyddiannus, penderfynodd amryw o honynt ymadael. Cymerwyd ystafell yn Orange Street, a threfnwyd hi yn gapel cyfleus a chysurus, yr hwn a allai gynnwys rhywbeth fel cant o bobl. Cynnaliwyd gwasanaeth agoriadol ar y 9fed o Dachwedd, 1845, ac ar yr achlysur yr oedd Mr. Howells yn un o'r pregethwyr. Gyda chydsyniad Cyfarfod Misol y Sir, rhoddodd yr eglwys ieuanc wahoddiad iddo i ddyfod yn weinidog iddi; cydsyniodd yntau, a dechreuodd ar ei waith ar y 4ydd o Ionawr, 1846. Teilwng yw dywedyd i'r symudiad hwn gael cefnogaeth galonog, a chymhorth mawr oddiwrth y gweinidog Cymreig yn y dref —y diweddar Barchedig Dafydd Howells.

Ymhen tua phedwar mis ar ol ymsefydlu yn Abertawy, ar yr wythfed o Ebrill, 1846, priododd Mr. Howells â Miss Margaret Morgan, Glanbrydan, ger Llangadog, Caerfyrddin. Rai blynyddoedd cyn hyny yr oedd wedi dywedyd wrthyf na byddai iddo ef byth briodi, gan roddi yn rheswm am hyny rywbeth a ddywedasai yr Apostol Paul. Pan oedd yr amgylchiad dyddorol ar fin cymeryd lle, adgofiais ef o'r hyn a ddywedasai gynt ar y mater. "Ië," ebe yntau, "ond dyma fi yn awr yn weinidog, yn fugail; ac nis gall bugail gydymdeimlo yn drwyadl â'i braidd heb fyned ei hunan trwy eu holl amgylchiadau." Fe ddichon fod rhywbeth yn hyny, ond yr wyf yn lled dybied mai ar y penderfyniad blaenorol yr oedd y bai, ac na buasai yn syrthio iddo pe buasai y pryd hwnw wedi gweled Margaret Morgan.

Buan yr aeth yr ystafell yn rhy gyfyng i'r gynnulleidfa, cafwyd caniatâd y Cyfarfod Misol i adeiladu capel, a gosodwyd y gareg sylfaen i lawr ar yr 22ain o Fehefin, 1846, gan wraig ieuanc y gweinidog. Traddodwyd anerchiadau gan y Parchedigion Thomas Richards, Abergwaen, a David Howells, Abertawy, a galwyd y capel oedd i fod, *Bethany*. Adeiladwyd ef i gynnwys rhwng pump a chwe' chant o bobl. Costiodd tua £800, a thrwy lafur mawr y gweinidog yr oedd tua'r hanner wedi ei gasglu erbyn yr agoriad, yr hwn a gymerodd le ar y 7fed o Fai, 1847, pan y pregethwyd gan y Parchedigion Richard Lumley ac Edward Davies. Yr oedd holl bobl yr ystafell yno yn ddiau, ond rhyfedd mor ychydig yr ymddangosent yn y capel.

Neillduwyd Mr. Howells i "gyflawn waith y weinidogaeth" yn Nghymdeithasfa Aberteifi, yn mis Awst, 1847. Bu am dymmor wedi

dyfod i Abertawy yn cymeryd rhan bur flaenllaw mewn achosion cyhoeddus. Yr oedd ymgais yn cael ei gwneuthur ar y pryd i sefydlu Coleg Normalaidd yn y dref, a llafuriodd yn galed yn yr achos hwnw. Yr oedd yr Ymneilldüwyr yn rhy bur, neu yn rhy rywbeth, i dderbyn cymhorth oddiwrth y Llywodraeth at ysgolion dyddiol, gan y golygent y byddai yn drosedd yn erbyn yr egwyddor wirfoddol; a bu hyny am flynyddoedd yn fantais i'n cyfeillion Eglwysig. Cynnaliwyd cyfarfod lliosog a chynhyrfus yn Neuadd y Dref, lle yr oedd Mr. William Williams, yr Aelod Seneddol dros Lambeth, yn bresennol, ac yn addaw mil o bunnau at sefydlu Coleg, *os* derbynid cymhorth ato oddiwrth y Llywodraeth. Bu yno ddadleu mawr, a Mr. Howells oedd arwr y gwirfoddolwyr. Traddododd araeth hyawdl a nerthol, ennillodd y fuddugoliaeth, a chollwyd y mil punnau. Mewn cyfarfod arall, amcan yr hwn oedd cefnogi y symudiad i gau y llythyrdai ar y Sabboth, cymerodd un o brif foneddigion y dref yr ochr wrthwynebol. Cyfododd Mr. Howells ar ei ol, ac yn nghanol banllefau o gymeradwyaeth, dymchwelodd ei holl resymau, a chwilfriwiodd ei araeth mor llwyr, fel am beth amser y galwyd y boneddwr hwnw "*Y diweddar Mr. Blank.*" Ond cafodd ein cyfaill ddigon ar bethau felly, a mwy na digon. Ymhen blynyddoedd ar ol hyny dywedai wrthyf ei fod, tra yn Abertawy, wedi laru ar ddau ddosbarth o bethau, sef *cockles* a chyfarfodydd cyhoeddus. Yr oedd fel ei ewythr enwog o Lundain, ac yn wir fel holl deulu ei dad, o dymher sydyn a brysiog. Ni byddai yn arfer meddwl llawer cyn penderfynu, nac aros yn hir ar ol penderfynu cyn dechreu gweithredu. Ar yr ail Sabboth o bob mis byddid yn arfer gwneuthur casgliadau cyhoeddus yn y capel at gynnaliaeth yr achos, a daeth i'w feddwl ef nad oedd hyny yn berffaith gyson â gwirfoddolrwydd. Cynnygiodd fod i'r casgliadau gael eu rhoddi i fyny, a bod blychau i gael eu gosod yma ac acw ar hyd y capel, fel y gallai pobl daflu i mewn iddynt yr hyn a fynent, heb fod neb yn gwybod pa mor fawrion na pha mor fychain fyddai eu cyfraniadau, oblegid bod ewyllysrydd—*spontaneity* oedd ei air ef—yn myned i mewn i hanfod yr egwyddor wirfoddol, ac oblegid fod lle i gredu fod pobl dlodion yn cael eu hattal gan y casgliadau rhag dyfod i'r addoliad. Yr oedd y mwyafrif o'r brodyr yn ofni yr anturiaeth, ond gan ei fod ef mor daer, ac yn enwedig gan iddo ymgymeryd â dyoddef y golled ei hun, os colled a fyddai, nid oedd ganddynt ddim i'w wneuthur ond rhoddi ffordd. Trodd y prawf allan yn fethiant, ac yn fethiant difrifol, ond nid wyf yn deall iddo fod yn golled arianol i neb ond iddo ef ei hunan. Yr oeddwn yn adwaen rhai ag y bu yn rhyw gymaint o elw iddynt, oblegid gallent roddi llai yn y blwch nag y goddefai rhywbeth oedd ynddynt ei roddi ar y plât agored.

Llafuriodd Mr. Howells yn ffyddlon yn Abertawy, a chyda mesur calonogol o lwyddiant, ac ennillodd ddylanwad mawr a llawer iawn o gyfeillion yn y dref a'i hamgylchoedd; ond cyfododd amgylchiadau, y rhai, er gofid mawr i'w eglwys yn Bethany, a'i harweiniodd i benderfynu ymadael. Yr oedd yn teimlo fod ei iechyd yn gwaelu, a daeth i feddwl nas gallai barhau i lafurio fel gweinidog sefydlog mewn tref fawr heb dori i lawr o dan y baich. Ond yr oedd rheswm arall am y symudiad, a dyma fe. Yr oedd ei frawd, Mr. David Howells, yn gyf-

[illegible] mewn [illegible] yn y blaen yn rhagorol; ond pall- [illegible] ar ddeall iddo nad oedd un gobaith am ei [illegible] iddo roddi i fyny lafurio mewn swyddfa, a threulio [illegible] yn yr awyr agored. Yr oedd bellach wedi priodi â [illegible] hon oedd eisoes yn Mrs. Howells, a pherswadiodd [illegible] at i'r America, i wneuthur yr un peth ag y gorfod- [illegible] pan afonwyd ef allan o Eden—llafurio y [illegible] yn meddwl am y fath beth o hono ei hun, [illegible] ar hyd ei oes, a gwnaeth yr aberth [illegible] Yr oedd ganddynt ddigon o arian [illegible] o dir, a gallai yr arianydd ymroddi i lafur [illegible] y cai gyfleusdra ar y Sabbothau [illegible] ymgymeryd â gofal eglwysig. Yn mis [illegible] y ddau frawd a'u gwragedd, ynghyd a [illegible] hemaf, am yr Unol Daleithiau: [illegible] pan y goddiweddwyd hwynt gan [illegible] holl gynlluniau. Cymer- [illegible] ac ymhen ychydig oriau bu [illegible] allan, ac arno ef yr oedd- [illegible] anturiaeth. Ond wele ef [illegible] mewn cyfyngder mawr, [illegible] pa beth i'w wneuthur [illegible] a wnaethant yn fuan, oedd [illegible] Mrs. Howells hemaf wedi cartrefu yn [illegible] Mr. a Mrs. James [illegible] a chyn fod y [illegible] drachefn; ond [illegible] i'r Werydd

[illegible] Adeilad- [illegible] a dewiswyd [illegible] yn Nghaer- [illegible] 1857, pan [illegible] a ymgym- [illegible] i [illegible]

[illegible] Parchedig Dr. [illegible] Yr oedd [illegible] Parchedig Dr. Harris [illegible] [illegible] Lian- [illegible] a [illegible] Parch. David [illegible] dewisiad [illegible]

[illegible] Mr. Howells a Dr.

Jones. Yr oeddynt yn annhebyg iawn i'w gilydd, ac fe allai fod hyn yn help iddynt gydfyw a chydweithio mor gysurus am ugain mlynedd, hyd oni ddisgynodd y Dr. anwyl, yn annysgwyliadwy, i'r bedd, yn mis Gorphenaf, 1885.

Am deithi Mr. Howells fel Athraw, nid wyf yn teimlo fy hun yn gymhwys i roddi barn. Dywedai un o'i hen efrydwyr mwyaf galluog wrthyf ei fod yn nodedig am gyflymdra a chraffder ei amgyffredion, am ei fedrusrwydd i egluro ei feddwl trwy siamplau a chymhariaethau, ac am goethusrwydd, eglurder, a nerth ei iaith; ac ychwanegai ei fod fel dysgawdwr mewn areithyddiaeth, ac yn yr holl bethau a berthynent yn neillduol i waith y weinidogaeth, yn un ag y byddai yn anhawdd cyfarfod â'i gyffelyb.

Yr oedd yn hoff iawn o'i fyfyrwyr, ac yn eiddigus dros eu henw da. Os rhoddai iddynt ambell drinfa led arw ei hunan pan fyddent ar fai, yr oedd yn rhaid i bawb eraill ofalu i gadw eu dwylaw oddiarnynt. Meddai yr holl elfenau sydd yn cyfansoddi boneddwr perffaith, ac nis gall neb ddyfalu pa faint o fendith i laweroedd o ddynion ieuainc, yn hyn o beth, y bu aros o dan ei lygad ef, a dyfod i gyffyrddiad beunyddiol âg ef am flynyddoedd.

Am bregethu a phregethwyr y mae gan bob un ei farn, a'm barn i am dano ef yw ei fod ar brydiau yn un o'r pregethwyr goreu a mwyaf nerthol a wrandewais erioed. Yr oedd bob amser yn dda, ac yn ddoeth, ac yn addysgiadol, ac yn dduwiol, ac yn athronyddol, ac yn dduwinyddol, a'r rhan fynychaf yn farddonol; ond ar amserau lledai ei adenydd ac esgynai i'r uchelderau, ac i'r *gor*-uchelderau, a'r prydiau hyny byddai—wel, byddai yn ogoneddus. Rhoddai rhywun gyfarwydd-yd fel y canlyn i bregethwr:—"Dechreuwch yn isel,—ewch yn eich blaen yn araf,—cyfodwch yn uwch,—tarewch dân." Byddai yntau yn dechreu yn isel, ond nid yn rhy isel i bobl ei glywed; elai yn y blaen yn araf; ac nid yn anfynych y tarawai dân. Yr oedd tân yn fflachio allan o'i lygaid, yr oedd y tân yn cochi ei ruddiau. Yr oedd meddyliau a geiriau tanllyd yn ymarllwys dros ei wefusau, ac yn disgyn yn wreichion byw ar y gynnulleidfa. Nis gallaf feddwl am ddim mwy tebyg i ber-ffaith ddedwyddwch ar y ddaear nag "eistedd o dano ef," pe gallai un eistedd hefyd, ar y cyfryw achlysuron, ac yn enwedig os byddai y Parch. Ebenezer Williams, Defynog, yn un o'r gwrandawyr. Cefais y fraint hono amryw weithiau, a byddwn yn foddlawn i gymeryd taith hir-faith er mwyn ei chael eto. Ond y mae hyny drosodd am byth. Y mae y ddau frawd anwyl, bellach, wedi cyfarfod yn y nefoedd, lle y maent yn gweled golygfeydd ac yn clywed geiriau annhraethadwy.

Awgrymais ar y cychwyn ei fod yn llawer llai adnabyddus nag yr haeddai ei dalentau dysglaer iddo fod. Y rheswm am hyny oedd ei gariad mawr at neillduedd. Gartref, gyda'i lyfrau a'i waith yno, yr oedd efe yn hoffi bod. Yr oedd fel pe buasai wedi penderfynu cadw ei hunan allan o'r golwg. Mor bell ydoedd oddiwrth wthio ei hun i sylw fel na chymerai ei wthio gan neb arall. Buasai ei frodyr oeddynt yn ei adwaen yn dda wedi ei hen osod ar yr orsedd a'i goroni yn frenin, oni buasai ei fod bod amser yn ymguddio, fel Saul, ymhlith y dodrefn.

Cyfarfu âg amryw brofedigaethau llymion yn ystod ei fywyd. Yr wyf eisoes wedi enwi yr un chwerw iawn a ddaeth arno ef a'r teulu yn

America. Bu y bachgen bychan oedd gyda hwynt farw cyn hir wedi iddynt ddychwelyd i Gymru, ac yr oeddynt eisoes wedi claddu un ieuengach nag ef cyn gadael Abertawy. Ganwyd eu mab, Alfred, yn 1851, a thyfodd i fyny yn ŵr ieuanc nerthol o feddwl ond gwanaidd o gorff. Ymgysegrodd yn fore i'r Arglwydd; dechreuodd bregethu, ac yn y dechreuad rhoddodd arwyddion sicr, os estynid ei oes, y byddai iddo ragori. Ar ol efrydu yn Nhrefecca, aeth am dymmoran i Glasgow. Aeth wedi hyny i'r Almaen; dychwelodd oddiyno mewn gwendid mawr, ac ymhen ychydig ddyddiau bu farw ar y 15fed o Fai, 1879, yn 28 mlwydd oed.

Bu Mrs. Howells yn gystuddiol am flynyddoedd, ac yn hir cyn dyfodiad y diwedd dangosai arwyddion amlwg fod ei phabell frau yn addfedu i'r bedd, ac arwyddion llawn mor anghamsyniol fod ei hysbryd yn addfedu i ogoniant. Bu farw ar y 1af o Dachwedd, 1887. Yr oedd ei bywyd yn peri i ni feddwl nad oedd erioed wedi llawn sylweddu ei bod hi ei hunan mewn bodolaeth. Cysur ei gŵr, daioni ei theulu, a gwasanaeth ei Duw, oeddynt bob amser yn cymeryd i fyny ei holl ofal a'i holl fryd. Bum yn ddiweddar yn ymddyddan â gwraig a fuasai yn gwasanaethu yn y teulu am flynyddoedd, pan oeddynt yn byw yn Abertawy, ac nid oedd terfyn ar ei chanmoliaeth i Mrs. Howells. I goroni y cwbl dywedai, "Yr *oedd* yn wraig dduwiol;" a thrachefn, gyda brwdfrydedd, a'i dagrau yn llanw ei llygaid, dywedai, "Ydoedd Mr. W., yr *ydoedd* yn dduwiol iawn."

Rhoddodd ei hymadawiad ysgydwad difrifol i iechyd ein hanwyl frawd, a'r Nadolig ar ol hyny rhoddodd rybudd i'r Cyfeisteddfod y byddai iddo yr haf dilynol roddi ei swydd i fyny; ond ar ddymuniad taer y brodyr yn Nghymdeithasfa Castellnedd yn mis Ebrill, 1888, cydsyniodd i aros am flwyddyn arall. Yn ystod yr haf, ymwelodd âg amryw leoedd yn Lloegr yn nghwmni ei fab, Mr. Edward Howells, a dychwelodd adref, fel y gellid tybied, wedi cryfhau llawer. Ond nid hir y bu cyn dechreu gwaelu drachefn. Bu yn Nghymdeithasfa Talgarth, Hydref 15—17, a chymerodd ran yn rhai o'r cyfarfodydd; ond yr oedd yn amlwg i bawb nad oedd yn iach. Ymhen ychydig ddyddiau ar ol hyny cyfyngwyd ef i'w ystafell, ac yna i'w wely, ac yno y gorweddodd yn dawel a heddychol, yn llwyr argyhoeddedig fod y diwedd yn nesâu, a'i fod yn myned i dangnefedd. Yr oedd ei fab arall, Dr. William Howells, un o'r meddygon mwyaf medrus a llwyddiannus yn yr holl wlad, yn gweini arno ddydd a nos; ond er pob peth a allai efe a'i gynnorthwywr wneuthur drosto, suddo a wnaeth, ac ar y 15fed o Dachwedd, 1888, ac ymhen blwyddyn a phythefnos ar ol ei anwyl wraig, hunodd yn dawel yn yr Iesu, yn 70 mlwydd oed.

Rhaid i mi derfynu, ond gallaf ddywedyd: "Gofid sydd arnaf am danat ti, fy mrawd; cu iawn a fuost genyf fi; rhyfeddol oedd dy gariad tuag ataf fi." Hawdd i mi yw galaru ar ei ol, ond ni allaf ei ddwyn yn ol mwyach. Myfi a af ato ef, ond ni ddychwel efe ataf fi.

WILLIAM WILLIAMS.

*Abertawy.*

CYFROL GOFFADWRIAETHOL CYNFAEN.

YN AWR YN BAROD, YN UN GYFROL,

PRIS PEDWAR SWLLT,

DETHOLIAD O BREGETHAU Y DIWEDDAR BARCHEDIG JOHN HUGH EVANS (Cynfaen). Mae y Gyfrol yn cynwys Braslun o Fywyd yr Awdwr, a'i ddarlith ar Job, yn nghyda PHRYDDEST FUDDUGOL CADVAN er coffadwriaeth am dano. Anfoner pob archebion at MRS. J. H. EVANS, 43, Tennyson Street, Liverpool. Rhoddir yr elw arferol i Lyfrwerthwyr a Dosbarthwyr.

Yn awr yn barod, mewn llian hardd, pris 8s. 6c.

WILLIAMS PANT-Y-CELYN,

YN CYNNWYS EI

Holl Gyfansoddiadau Barddonol,

Oddieithr ei Hymnau, gyda Hanes ei Fywyd, a Thraethawd Beirniadol ar ei Weithiau, gan y Golygydd, y

PARCH. N. CYNHAFAL JONES,

LLANIDLOES.

Mae y gyfrol hon y cydgasgliad cyflawnaf o Weithiau Perganiedydd Cymru a gyhoeddwyd erioed—ac mae y ffaith fod cannoedd lawer o'r gyfrol wedi eu herchi cyn ei hymddangosiad o'r wasg yn siarad yn uchel am ei theilyngdod, a'r anghen a deimlid yn y wlad am Weithiau Prif Emynydd y Genedl.

P. M. EVANS & SON, PUBLISHERS, HOLYWELL.

Yn awr yn barod, Pris 1s. 6c., mewn amlen liwiedig, y Ffugchwedl Boblogaidd

Y DREFLAN:

EI PHOBL A'I PHETHAU.

WEDI EI HYSGRIFENU GAN

AWDWR "RHYS LEWIS."

Mae y chwedl hon wedi derbyn cymeradwyaeth mwyaf calonogol y wasg, ac ynddi ceir desgrifiadau naturiol o gymeriadau ac amgylchiadau gwir Gymreig, wedi eu portreadu yn null dihafal a mwyaf hapus yr Awdwr.

Ar werth gan yr holl Lyfrwerthwyr, neu yn uniongyrchol oddiwrth y Cyhoeddwyr,

P. M. EVANS & SON, HOLYWELL.

RHIFYN CLXXVIII

JAN 3 1916

# Y TRAETHODYDD.

## MAI, 1889.

CYNNWYSIAD.


| | Tu dal. |
|---|---|
| Achosion Anianyddol. Gan y Parch. JOSEPH ROBERTS ... ... ... | 181 |
| Y Cynghorau Sirol. Gan A. C. HUMPHREYS OWEN, M.A. ... ... ... | 195 |
| Epistolau Ioan yr Apostol. Gan y Proffeswr ELLIS EDWARDS, M.A.... | 206 |
| Y Pasg yn yr Aipht. Gan y Parch. W. GLANFFRWD THOMAS ... ... | 214 |
| Yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. EDWARD ROBERTS, D.D. ... | 219 |
| Y diweddar Barchedig Joseph Thomas. Gan y Parch. EVAN DAVIES | 227 |
| Gwasanaeth Crist. Pregeth Athrofäol, gan y Parch. A. M. FAIRBAIRN, D.D. ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 252 |
| Mr. John Bright. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A. ... ... ... | 256 |
| Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 268 |


*CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF GORPHENAF 1, 1889.*

SWLLT.

TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

# Y TRAETHODYDD.

## ACHOSION ANIANYDDOL.*

### I.

Ein hamcan yn yr erthygl hon fydd cyfleu o flaen y darllenydd esboniad mor glir a syml ag y gellir o'r syniad am Achosion Anianyddol, a hyny yn eu natur ac yn eu dosraniadau. Rhaid i'n hymdriniaeth ar faes mor eang, o angenrheidrwydd, fod yn fyr ac elfenol. Wrth ymdrin â'r gangen hon o wybodaeth, defnyddir yr ymadroddion Achos, Achosiaeth, Egwyddor Achosiaeth, a Deddf Achosiaeth; a chyflwynir i sylw drwyddynt rai o brif gwestiynau ein hoes mewn gwyddoniaeth ac athroniaeth.

Beth all fod yn fwy boddhäol i'r meddwl ymchwilgar, ymhlith dynion ac angelion, na'r gwaith o olrhain Effeithiau yn ol i'w Hachosion, yn ol dull yr *à posteriori;* neu, os rhaid yw, rhedeg gyda'r Achosion at yr Effeithiau, yn ol dull yr *à priori?* Ac onid mwy boddhäol eto fyddai cyrhaedd gwybodaeth ddyfnach na hon, trwy ddeall yr Achos ei hun yn ei wreiddyn, ei natur, a'i ddosraniadau? Yn ei berthynas â'r meddwl dynol, gellir dyweyd fod y syniad am Achos mor hen â thoriad gwawr gyntaf ei ymchwiliad i arddangosion symlaf natur. Gorwedd egwyddor achos ac effaith ar y rhan fwyaf o'r llwybrau ar hyd pa rai y canfyddir gwirionedd, yn ogystal ag yn nghorff mawr ein hargyhoeddiadau gyda golwg ar y gorphenol. Pa le bynag yr ymladdwyd brwydr; pa bryd bynag y gorlifodd afon dros ei cheulenydd; pa bryd bynag y llosgwyd coedwig yn lludw; mewn gair, pa bryd bynag y canfyddwn effeithiau, yr ydym yn casglu, yn ol deddf y meddwl, fod iddynt eu hachosion. Os ydym yn credu ar dystiolaethau dynion fod dygwyddiadau neillduol wedi cymeryd lle yn y gorphenol, yr ydym yn casglu fod y rhai a fu yn weithredyddion ynddynt yn cael eu hysgogi gan gymhelliadau tebyg i'r rhai sydd yn ysgogi dynion yn bresennol; neu wrth edrych ar ranau o wyneb y ddaear, yr ydym yn casglu fod y naill wedi cael ei waddodi yn ngwaelod y môr, a'r llall wedi ei daflu i fyny yn foreu gan ffrwydriad nwyon nerthol. Fel hyn, ar yr egwyddor o Achosiaeth, galluogir ni i gysylltu y presennol wrth y gorphenol, a'r oll

* Bwriadwyd i'r erthygl hon ddilyn ein herthygl ar "Y Pedair Gwyrth a Gwyddoniaeth," TRAETHODYDD 1887, tu dal. 278, &c.

wrth Dduw fel yr Achos Cyntaf. Ond er fod y syniad am achos mor hen â'r foment hono y dechreuodd y meddwl chwilio am darddiad arddangosion natur, eto cymysglyd ac anmherffaith iawn a fu y syniad hwnw am oesoedd. Tueddai y byd Dwyreiniol i edrych ar achos fel deilliad y naill beth o'r llall, a'r oll o Dduw. Nid oedd y syniad hwn byth yn diweddu ei daith mewn gwlad iach, eithr yn nghorsydd a lleoedd lleidiog Pantheistiaeth. Beïai yr hen athronydd naturiol, Aristotle, Plato, am ei fod yn ddiffygiol o sylwi ar Achosion Effeithiol a Therfynol, a chyfyngu ei sylw at y defnydd o'r hwn y lluniwyd pob peth, ynghyd ag at y ffurf a roddwyd ar bob peth. O holl ganghenau gwybodaeth, yn wyddonol ac yn athronyddol, nid oes yr un mor bwysig âg Achosiaeth i'r efrydydd ieuanc gael dirnadaeth glir yn ei feddwl am dani. Y mae cymeriad pob cyfundrefn a damcaniaeth yn y meusydd hyn yn ymweithio i'n sylw yn ol syniad eu hawdwyr am natur a lle Achosiaeth. Pan y ceir allan syniad awdwr am achos, gwreiddyn, a natur y drychfeddyliau, eu perthynas â mater ac â meddwl, gellir dyweyd i ba Ysgol o feddylwyr y perthyna; pa un ai i'r Materolwyr ai i'r Delfrydwyr, i'r Orddodwyr ai i'r Tragorianwyr, i'r Tyngedfenwyr ai i'r Credinwyr mewn Ewyllys Rydd, i'r Atheistiaid ai i'r Dwyfiaid. Tra mai ein hamcan yn syml yn y nodiadau dilynol fydd ceisio cyflwyno syniad i'r darllenydd ieuanc am Achosiaeth, a hyny i raddau yn feirniadol ac yn hanesyddol, eto caniatäed y dysgedig i ni awgrymu ein hargyhoeddiad fod yr amser wedi dyfod ag y dylai y maes hwn fyned o dan aildrefniad manwl. Pan yr ymwneir âg achosion mewn Anianyddiaeth, yn fynych defnyddir y termau *Force*, *Energy*, *Power*, *Phenomenon*, *Correlation of Forces*, &c., mewn cysylltiadau mor anmhenodol fel na chyflwynant un ystyr neillduol. Y mae y frawddeg gyda'r hon y dechreua Hegel ei gyfundrefn athronyddol yn arddangosiad tra chywir o ddull gwag rhai gwyddonwyr yn defnyddio yr ymadroddion hyn, pan y dywed, "Y mae meddwl a bod yn un." Gwelir fod y frawddeg yn syml ac yn ramadegol, a'r geiriau yn hollol adnabyddus, eto nid yw yn cyflwyno un syniad i'r meddwl, mwy na phe dywedid fod meddwl a cheffyl yr un, am fod ceffyl yn ffurf neillduol ar fod. Y mae y termau yn benagored a'r berthynas yn anmhosibl, yr hon a guddir gan anmhenodolrwydd y mwyaf anmhenodol o'r holl dermau—Bod. Yr un modd am ddarnodiad Mr. Herbert Spencer o fywyd pan dywed, "Bywyd ydyw cyfaddasiad parhaus o berthynasau mewnol â pherthynasau allanol." Y mae y darnodiad mor anmhenodol fel y gellir ei gyfaddasu at lïaws o bethau eraill yn gystal a bywyd, megys at gysylltiad ein synwyrau â'r byd allanol, a chysylltiad dwfr berwedig â'r awyr.

I. Cysylltiadau a Gwahanol Ystyron y Gair.

Golyga y gair Lladin (*causa*) y peth, neu yn fwy llythyrenol, fel y golyga y gair Ellmynaeg (*Ursach*), y peth cyntaf. Wrth Achos y golygir y peth hwnw a benodir neu a briodolir fel yn wreiddyn effaith neu arddangosiad. O dan bob amgylchiad rhaid iddo fod yn *allu gweithredol.* Nis gellir profi ei fodolaeth o gwbl ond yn unig wrth ei weithrediad; a'r gweithrediad hwnw o'i eiddo ydyw yr *effaith*, neu yr arddangosiad. Gweithreda yr achos fel *peth*, fel *gallu penodol* mewn lle. Rhaid i bob achos fod yn allu—personol neu anmhersonol; arddangosion o'r naill

neu y llall ydyw pob peth, yn weledig ac anweledig. Profa arddangosion o bob math fod gallu arddangosol; ac nis gellir rhoddi bodolaeth i arddangosion ond mewn un o dair ffordd, sef trwy greadigaeth, trwy weithrediad gallu naturiol, a thrwy darddiad. Gallu Dwyfol yn unig sydd yn rhoddi bod i'r rhai cyntaf, ac y maent bob amser yn newyddion; gallu, neu weithrediad egni naturiol ar y pethau sydd yn bodoli, sydd yn rhoddi bod i'r ail; tra y mae y trydydd dosbarth, sef yr arddangosion etifeddol, yn cael eu bod trwy allu cenedlol. Yn ei berthynas â'r cyntaf, daw yr annhebyg o'r annhebyg; yn ei berthynas â'r ddau olaf, daw y tebyg o'r tebyg. Gyda golwg ar yr oll o honynt, daw y lleiaf o'r mwyaf: neu mewn geiriau eraill, y mae yr achos yn fwy na'r effaith.

Pa beth a olygir wrth Effaith, neu fel y gelwir ef yn fynych, dygwyddiad neu arddangosiad? Rhywbeth ag y gwyddom sydd yn bodoli yn awr, yr hwn a gynnyrchir mewn amser a lle. Golyga y ffaith ei fod yn bodoli fel effaith, ei fod yn beth dechreuol a chyfnewidiol; o ganlyniad, wedi cael ei achosi. Onid oes cyfnewidiadau yn cymeryd lle yn barhaus yn y byd elfenol, materol, bywydol, ac anifeilaidd? Yn y byd materol, cymer cyfnewidiadau le mewn pethau; cyfnewidir pethau yn eu perthynas â'u gilydd, ac yn eu perthynas â lle. Dyna'r aur, er engraifft, yn cael ei gloddio allan o'r ddaear, ei olchi, ei doddi yn y ffwrn, a'i anfon allan yn ddarnau bathedig a chylchredol. Dyma y pethau, sylwer, a elwir yn gyfnewidiadau neu ddygwyddiadau, y rhai a gydnabyddir gan ein synwyrau neu ein hymwybodolrwydd. O fewn holl derfynau natur y mae pob peth yn cyfnewid. Treulir y bryniau a'r mynyddoedd, gan eu golchi i'r gwaelodion yn fân ronynau, gan nerthoedd natur ei hun. "Pob pant a gyfodir, a phob mynydd a bryn a ostyngir; y gŵyr a wneir yn uniawn, a'r anwastad yn wastadedd." Neu meddylier am y môr mawr o ether crëedig; pwy all blymio ei ddyfnder, neu gael allan ei derfynau pellenig, ar y rhai y mae ei donau mân yn marw gan flinder? Yn hwn y chwyrnella holl fydoedd y Duwdod; yn hwn y llithra goleuni holl heuliau y cread i oleuo, i wresogi, i fywiocâu, ac i adnewyddu y bydoedd a berthynant iddynt. Palla amser i ni alw sylw at y cyfnewidiadau parhaus a gymerant le mewn tyfiant, ffurf, cyfansoddiad, a symudiad yn y byd llysieuol ac anifeilaidd; ac yn neillduol y cyfnewidiadau a gymerant le yn y byd meddyliol, mewn syniadau, amcanion, ewyllysiau, a theimladau. Digon yw nodi yma fod y rhai hyn oll, a phob dygwyddiad a gymer le trwy holl gylchoedd natur, yn effeithiau o ryw achosion anweledig.

Yn awr, y berthynas a fodola rhwng yr achos a'r effaith a elwir weithiau yn egwyddor a phryd arall yn ddeddf Achosiaeth. Wrth egwyddor Achosiaeth y golygir yn syml, fod gan bob cyfnewidiad yn y greadigaeth anianyddol, pob symudiad, neu attaliad symudiad, ei achos. Wrth ddeddf Achosiaeth y golygir, nid yn unig fod i bob effaith ei achos, ond fod y berthynas hono rhyngddynt yn rhedeg trwy yr holl greadigaeth. Yr un pryd, achosion, er eu bod yn anweledig, sydd yn teyrnasu trwy holl natur. Nid ydyw y frawddeg ystrydebol "Teyrnasiad Deddf" yn gywir. Achosion, ac nid deddfau, sydd yn teyrnasu. Dull gweithrediad achosion, a dim arall, yw deddfau natur. Fel hyn

y mae deddf Achosiaeth yn golygu y berthynas gyffredinol a dïeithriad a fodola rhwng achos ac effaith. Gellir ei gosod i lawr fel y canlyn: Y mae pob dygwyddiad terfynol yn ddygwyddiad achosedig, neu yn effaith; ac felly, yn ol rheidrwydd rhesymegol, yn cynnwys yr achos. Y mae dyweyd fod yn rhaid i'r effaith gael ei achosi, mor resymol a dyweyd fod dygwyddiad achosedig yn cael ei achosi ($x\ y = x + y$).

Gellir sylwi ymhellach, nid yn unig fod yr achos yn beth gweithredol, ac yn cynnyrchu effaith, ond y mae achosion ac effeithiau naturiol yn llïosog. Y mae achos naturiol yn cynnwys ynddo ei hun yn wastad ddwy elfen, neu ddau weithredydd, ac weithiau fwy na hyny—y rhai a weithredant ar eu gilydd. Cafodd rhai o'r hen athronwyr ryw gipdrem ar y syniad hwn. Llefara Aristotle am *συναίτιον*, yr hwn a gyfieithir gan Syr W. Hamilton yn gyfachos (*concause*).* Ond o bawb a gyffyrddodd â'r pwnc hwn Mr. J. S. Mill a'i dygodd i fwyaf o eglurder. Profir ganddo ef, a hyny yn foddhaol fel y tybiwn, fod dwy neu ychwaneg o elfenau yn cyfansoddi achosion naturiol.† "Y mae pob effaith yn cael ei gynnyrchu gan gyfuniad o ddau achos o leiaf," medd Syr W. Hamilton, "ac wrth achos yr wyf yn deall pob peth nas gellir cyrhaedd yr effaith hebddo." Nodwn rai engreifftiau o hyn er ei wneyd yn fwy eglur. Dyna ddyn yn syrthio oddiar ysgol, dyweder, ac yn cael ei ladd yn y codwm. Mewn dull rhydd o lefaru, gellir dyweyd mai llithro oddiar yr ysgol a fu yr achos o'i angeu; ond sylwer yn fanylach, a gwelir nad yw y dywediad yn cymeryd i mewn yr holl ffeithiau. Yr oedd uchder yr ysgol, pwysau y dyn, caledrwydd y ddaear, a breuolder y corff dynol, yn gynnwysedig yn yr achos o angeu y dyn. "A llefaru yn athronyddol, y gwir achos ydyw yr holl bethau hyn, ac nis gellir dyweyd fod un o honynt yn achos ar wahan i'r llall."‡ Pa beth yw yr achos o lanw y môr? Cyn y gellir ateb y cwestiwn yn llawn a chywir, rhaid cymeryd i ystyriaeth attyniad yr haul a'r lleuad, symudiadau y ddaear a'r lleuad, ffurf gron a thröadau y ddaear, dwfr y môr a'i gyflëad ar wyneb y ddaear. Os gofynir pa beth yw yr achos o dyfiad y llysieuyn, rhaid cymeryd i'r cyfrif ei hedyn, y pridd, yr awyr, a dylanwad y gwres a'r goleuni arno.|| Heb yr elfenau hyn oll, yn eu hundeb â'u gilydd, ni buasai tyfiant y planigyn yn cymeryd lle. Gall y darllenydd ychwanegu llïaws o engreifftiau cyffelyb yn ei feddwl ei hun.

Yn awr, gellir cario yr un egwyddor allan yn ei pherthynas â'r effaith; ac y mae Dr. McCosh o Princeton wedi profi hyn yn llwyddiannus.§ Ymhob amgylchiad, o fewn maes gweithrediadau anianyddol, y ceir fod mwy nag un elfen yn cyfansoddi yr achos, rhaid fod yr elfenau a gyfansoddant yr effaith hefyd yn llïosog. Gellir egluro hyn eto trwy yr engreifftiau canlynol. Dyna ddarlun yn syrthio oddiar fur yr ystafell ac yn taro y bwrdd sydd dano. Os gofynir, Pa beth yw yr achos o doriad y bwrdd, rhaid ateb mai cwymp y darlun, ynghyd a'i ddyrnod i'r bwrdd. Drachefn, dyna fachgen yn chwyrndaflu pelen yn erbyn un arall; dyna y belen dafledig yn rhoddi dyrnod symudol i'r

* Sextus Empiricus speaks (III. 15), of *συναιτιον, συνεργον, συνεκτικα*, all pointing to joint action. † J. S. Mill, *Logic*. Book IV., Chap. v. ‡ J. S. Mill, *Logic*. Book III., Chap. V. || *A Study of Religion*, James Martineau. Vol. I., page 189. § *Philosophic Series*. *Efficient and Final Cause*, by Dr. McCosh.

belen sydd yn sefyll, yna yn sefyll ei hun. Yr holl achos ydyw y bachgen, a'r sefyllfa neillduol sydd ar y peleni; a'r effaith ydyw y peleni yn eu sefyllfa newidiedig—hyny yw, yr hon oedd yn symud yn gorphwys, a'r hon oedd yn gorphwys yn symud. Neu meddylier eto am ddyn wedi cymeryd arian byw, ac wedi cael anwyd trwm; nid oerni yr awyr yn unig, ac nid effaith yr arian byw yn unig, a fu yn achos o'i anwyd, ond y ddau yn eu hundeb â'u gilydd ac yn eu dylanwad ar eu gilydd. Yn awr, fel y mae y gair *achos* yn cynnwys yr holl weithredyddion sydd yn cynnyrchu yr effaith, felly hefyd y mae y gair *effaith* yn cynnwys ynddo ei hun yr holl ganlyniadau, megys yn yr engraifft ddiweddaf a nodwyd,—cyfnewidiad yr awyr, a dylanwad yr oerfel ar y corff.

Ar ol i ni osod yr engreifftiau uchod o flaen y darllenydd, y rhai a ddangosant fod achosion naturiol a'u heffeithiau yn gynnwysedig o amryw elfenau, dylid sylwi ar hyn,—fod yr achos yn beth gweithredol, am mai gweithredyddion, neu gyrff bychain yn gweithredu ar eu gilydd, sydd yn ei gyfansoddi. Cofier mai am achosion naturiol yr ydym yn dywedyd. Nid oes genym un ddeddf i benderfynu pa un o'r gweithredyddion hyn sydd yn chwareu y rhan amlycaf yn nghyfansoddiad yr achos. Weithiau nodir yr elfen fwyaf anuniongyrchol yn yr achos fel yn achlysurol (*occasional cause*). Nid ydyw achosion achlysurol ond enw yn unig, naill ai ar yr amgylchiadau sydd yn peri i ryw egni weithredu, neu ynte rhywbeth sydd yn cydweithio âg achosion sefydlog. Er engraifft, dyna goeden, heb fod ganddi wreiddyn dwfn yn y ddaear, yn cwympo ar wynt uchel; yr achlysur o'i chwymp ydyw y gwynt uchel. Rhoddai Malebranche bwys arbenig ar achosion achlysurol. Yn ei dyb ef, ewyllys uniongyrchol y Duwdod ydyw y gwir achos o bob symudiad creadigol, er y gallai ewyllys dyn fod yn achlysur i gario allan y gallu Dwyfol. Fel hyn, os ydyw dyn yn symud ei droed, y mae y gwir achos yn ewyllys Duw, ond ei ddymuniad ef ei hun yw yr achos achlysurol. Ond nid ydym yn gallu gweled fod dim yn cael ei ennill trwy y geiriad hwn; oblegid pa bethau bynag sydd yn weithredyddion yn nghyfansoddiad achos, galwer hwy yn *amgylchiadau*, *achlysuron*, *ammodau*, ni roddir bodolaeth i'r effaith heb eu cydweithrediad.

II. Amryw Fathau o Achosion.

Nid oedd y gair achos, yn ei ystyr ddiweddaraf, yn cael ei ddefnyddio hyd ddyddiau Awstin, yn y bedwaredd ganrif. Defnyddid ef gan y Groegiaid cyn hyny i olygu egwyddor neu ddechreuad pethau; ond ni ddefnyddid y gair achos y pryd hwnw yn yr ystyr o allu, yr hwn a gysylltir â'r gair effaith fel ei gydberthynas.* Dosbarthai Aristotle, a rhai o'r Ysgolwyr ar ei ol, bob math o achosion posibl a dirnadwy i bedwar;† ond defnyddiai ef y gair mewn ystyr mwy rhydd ac eang nag y gwneir yn bresennol. Yn bresennol cyfyngir ef yn gyffredin i'r hyn a elwir yn achos effeithiol, achos cynnyrchiol, neu, fel y dynodir ef gan Hume, *invariable antecedent*. Deffiniad Aristotle o achos ydyw, "Yr hyn oll sydd yn angenrheidiol

* *The Philosophy of the Supernatural*, by W. H. Platt, D.D., LL.D., p. 25.
† *Physics*, ii. 3; *Metaphysics*, i. 3; *Post Anal.* ii. 11.

*i beri fod peth yr hyn ydyw.*" Nodir ganddo bedwar o'r pethau hyn: *ὕλη, ἀρχὴ κινήσεος, εἶδος,* a *τέλος,* yr hyn a olyga achosion *materol, effeithiol, ffurfiol,* a *therfynol.* Fel hyn, yr achos materol o'r tŷ ydyw ei goed a'i geryg; yr achos ffurfiol ydyw y ffurf neillduol sydd arno, ag sydd yn ei wneyd yn dŷ ac nid yn rhywbeth arall; yr achos effeithiol ydyw ei adeiladydd; yr achos terfynol ydyw dyben ei wneuthuriad, sef i fyw ynddo. Neu, yr achos materol o'r papyr yr ydym yn ysgrifenu arno ydyw y bratiau o'r rhai y gwnaed ef; yr achos ffurfiol ydyw y nodwedd neillduol a berthyn iddo fel papyr, ac nid llïan; yr achos effeithiol ydyw ei wneuthurwr; yr achos terfynol ydyw i ysgrifenu arno.

Hyd y gallwn weled, ni thalodd yr Ysgolwyr ond ychydig sylw i'r dosraniad hwn, ond yr oedd Bacon yn ei dderbyn. Cymhwysai ef yr achos materol ac effeithiol at Anianeg; yr achos ffurfiol a therfynol at Uchanianaeth. Nid ydyw Bacon yn gwrthod achos terfynol, fel y myn rhai; ond cyffelyba ef i wyryf bur, anffrwythlawn mae yn wir, eto cysegredig i Dduw. Tra yn derbyn achosion terfynol mewn Uchanianaeth, fel y nodwyd, camgymerodd pan yn ei gau allan o Anianeg. Gellir ei ddefnyddio yn effeithiol o fewn terfynau priodol yn yr ymchwiliad i bob math o gyfluniad (*organism*), lle y gwelir moddion yn ddyben a dyben yn foddion. Ymresymai Harvey, yr hwn oedd yn cydoesi âg ef, a'r hwn a ddarganfyddodd gyntaf gylchrediad y gwaed, y rhaid fod y *valves,* y rhai a agorant yn unig un ffordd i ollwng y llifnodd bywydol trwyddynt, wedi eu bwriadu i hyny. Ond cyn myned ymhellach, dichon y byddai yn fanteisiol sylwi yn fanylach ar y dosbarthiad uchod mewn trefn i'w esbonio yn eglurach, ynghyd a'i ddal yn ngoleuni y dull diweddaraf o feddwl.

*Achos Materol.*—Nid ydyw hwn ond enw arall ar yr egwyddorion neu yr elfenau materol o'r rhai y cyfansoddir unrhyw beth, yn faterol neu yn ysbrydol. Ni olygai Aristotle fod y mater neu y sylwedd cyntaf, o'r hwn y gwnaethpwyd pob peth, yn beth *gweithredol,* o herwydd ei gyflwr cymysgryw, chaosaidd, a hollol anmhenodol. Yr oedd yn rhywbeth, ac eto yn ddim penodol; neu, mewn geiriau eraill, nid oedd wedi derbyn *ffurf.* Oddiwrth y darnodiad a roddasom o achos, sef y peth sydd yn gweithredu, gwelir nad ydyw yn briodol galw y defnydd o'r hwn y cyfansoddir unrhyw beth yn achos. Yr un pryd, rhaid cofio nad oes genym un syniad am egni anianyddol ar wahân i gorff; o ganlyniad, wrth egluro natur pethau, eu defnydd a pha fodd y gweithredant, rhaid cymeryd y corff i'r cyfrif yn gystal a'r egni. Fel hyn nid ydym i olygu dim mwy wrth achos materol na'r defnydd gwreiddiol sydd yn cyfansoddi pethau, gyda'r hwn y terfynir ein hymchwiliad mewn Fferylliaeth ac mewn Eneideg.

*Achos Ffurfiol.*—Wrth yr achos hwn y golygir yr elfenau neu y cydgasgliad o'r pethau hyny sydd yn cyfansoddi natur neu gynnwys tybiedig unrhyw beth. Nid oedd Aristotle yn ystyried fod mater yn ddim penodol hyd nes y derbyniai ffurf (τὸ εἶδος). Yn rhinwedd y ffurf y daw yr hyn sydd yn rhywbeth anmhenodol a chyffredinol gyntaf yn beth neillduol, a'r ffurf yw ei hanfod. Gan hyny y nodwedd neillduol sydd ar unrhyw beth ydyw ei briodoleddau, y rhai sydd yn amlygu ei hanfod. Rhaid adnabod pob peth wrth ei briodoleddau;

dyma'r unig ffordd at ei natur. Mewn trefn i wneyd hyn yn eglurach, nodwn yma rai engreifftiau. Hanfod neu natur haiarn ydyw ei fod yn fetelaidd, dur-dŷnol, a mwrthwyladwy. Felly hefyd mater llefariad ydyw swn, a'r mynegiad yw y ffurf. Yn ol iaith gwyddoniaeth, y cyn-ddefnydd *(protoplasm)* ydyw y mater o'r hwn y cyfansoddir pob corff bywydol; y gell a'r gymhlethwe neillduol a ffurfir o hono, ydyw y ffurf. Os gofynir pa beth yw mater a ffurf gwybodaeth, gellir ateb, yn ol athroniaeth Kant, mai mater gwybodaeth ydyw dirnadaeth y meddwl; ac mai gofod, amser, undeb, achos, &c., ydyw ei ffurf, trwy ba un y daw pethau yn wybyddadwy i'r deall. Wrth *der Inhalt* yr Almaenwyr, h.y., cynnwys neu fater gwybyddiad, y golygir, y meddwl cyntaf ar ol iddo ddyfod i ffurf resymegol.

Gellir sylwi ymhellach fod y gair ffurf gan Aristotle yn gyfystyr â'r gair drychfeddwl gan Plato; neu â'r gair cynddelw *(type)*, a ddefnyddir gan naturiaethwyr; neu â'r gair deddf, a ddefnyddir gan wyddonwyr ein hoes ni. Y mae Bacon yn rhoddi cymaint o bwys ar ffurfiau, hyny yw, yr hyn sydd yn gwneyd pob peth yr hyn yw, fel y mae yn eu galw yn Amcan uchaf pob gwyddor. Yn ol Plato a Bacon, y *ffurf*, y *cynllun*, y *drychfeddwl*, yw coron gogoniant pob gwyddor; eithr yn ol y cyntaf, y mae hwnw i'w ganfod yn y meddwl, tra yn ol yr ail, y mae i'w ganfod trwy gasgliad oddiwrth bethau allanol. Hefyd, gellir nodi yma fod y gair hanfod *(essence)* a ddefnyddir gan Hegel, yn gyfystyr â'r gair ffurf, yr hwn sydd yn golygu bob amser yn ei ddamcaniaeth athronyddol ef, gyfansoddiad mewnol pethau, yr hwn a amlygir trwy ei briodoleddau allanol. Y mae y greadigaeth faterol, lysieuol, ac anifeilaidd, yn orlawn o ffurfiau,—pob peth yn meddu ei ffurf ei hun. A phe gallesid dyweyd fod yr achos ffurfiol yn beth gweithredol, ei wasanaeth fuasai rhoddi ffurf a threfn i holl wrthddrychau natur. Ac ymhellach, pe gallesid meddwl ei fod yn achos, buasem dan angenrheidrwydd i gredu ei fod ynddo ei hun yn gydgasgliad o amryw elfenau neu o weithredyddion, megys attyniad, perthynasau fferyllaidd, &c. Meddylier am y nifer o weithredyddion sydd ar waith yn ffurfiad gronyn o wenith, neu o ryw rawn arall; neu yn ffurfiad anifail, neu ddyn, hyd nes y maent wedi cyrhaedd eu perffeithrwydd, wedi llanw eu plan, neu eu drychfeddwl yn gyflawn. Ond er fod natur yn llawn o ffurfiau, planiau, a drychfeddyliau, eto yn ol yr esboniad a roddasom ar yr hyn a elwir achos ffurfiol, nis gellir ei olygu yn achos o gwbl, am y rheswm nad ydyw yn cynnyrchu un math o weithred na chyfnewidiad y tu allan iddo ei hun. Yr unig wasanaeth a wneir ganddo ydyw dangos y berthynas barhaus a sefydlog sydd rhwng hanfod pethau â'u priodoleddau. Yn ddiweddar, y mae y pwnc hwn wedi cael sylw arbenig gan naturiaethwyr, am ei fod yn dal cysylltiad â pharhâd rhywogaethau llysieuol ac anifeilaidd. A ellir tybied fod dosbarthiadau a rhywiau yn y deyrnas fywydol yn barhaol, ai ynte a ydynt yn diflanu, yn ail godi, ac yn gwellhau?

Arweinia y cwestiwn ni, fel y gwelir, i galon y ddadl ar Ddadblygiad Rhywogaethau. Yn ol syniad Darwin, Huxley, Spencer, a'u dysgyblion, nid ydym i olygu fod y rhywogaethau llysieuol nac anifeilaidd yn dadblygu yn ol un math o gynddelw neu gynllun rhagordeiniedig. Daeth y rhywogaethau presennol, fel y myntumir ganddynt hwy, i'w

berffeithrwydd trwy ddadblygiad graddol o rai llai perffaith; ac nid ydym i olygu fod yr ammodau neu y deddfau i'r rhai y maent yn ddyledus am eu bodolaeth a'u parhâd, ond cyfnodol yn eu gweithrediadau a chyfnewidiol yn eu canlyniadau. "Y mae pob *type* sydd mewn bodolaeth," medd Spencer, "yn faterol ac yn ysbrydol, wedi dadblygu o ffurfiau is, y rhai a barhasant i fodoli hyd nes y daeth ffurfiau uwch a pherffeithiach allan o honynt."* Ond y mae dosbarth arall o wyddonwyr, megys Owen, Agassiz, Dana, &c., yn gosod dadblygiad y rhywogaethau i orphwys ar sylfaen gadarnach a mwy parhaol, trwy edrych arnynt fel mynegiadau o gynllun digyfnewid y meddwl Dwyfol. Y mae holl egrion natur, y rhai a weithiant yn niogeliad y rhyw a'r *type*, yn y byd llysieuol ac anifeilaidd, yn llanw i fyny gynllun rhagordeiniedig Duw.† O ganlyniad, cytuna y syniad hwn â syniad Plato, nad yw yr holl arddangosion a'r ffurfiau lluosog mewn natur, ond mynegiadau o'r drychfeddyliau gwirioneddol a thragywyddol a fodolant yn annaearol ac yn anllygredig yn meddwl y Duwdod yn unig. Y mae afon bywyd y greadigaeth, yn ei natur, yn ei holl ddelweddau a'i ffurfiau, fel pob afon arall, yn meddu ei ffynnonell darddol, yr hon sydd o dan orseddfainc y Creawdwr Dwyfol ei Hun. Nis gellir esbonio holl ddelweddau, ffurfiau, cyfnddelwau, a'r amrywiaeth diddiwedd a phrydferth a welir yn nodweddu y greadigaeth, heb eu cysylltu â Duw ei Hun fel yr Achos Cyntaf.

*Achos Effeithiol.*—Gellir dyweyd am hwn, "Ti a ragoraist arnynt oll;" efe ydyw yr anrhydeddusaf o'i frodyr. A ganlyn ydyw darnodiad Aristotle o'r Achos hwn: "ὅθεν ἡ ἀρχὴ τῆς κινήσεως;" hyny yw, Yr hyn sydd yn wreiddyn symudiad, yn cynnyrchu cyfnewidiad yn y byd allanol. Gwelir fod y darnodiad hwn yn cytuno â'r syniad a roddir iddo mewn gwyddoniaeth ddiweddar, [illegible] hyn: cymhwysai Aristotle y term at yr elfen amlycaf, neu y gweithredydd penaf yn nghyfansoddiad yr achos: [illegible] mewn [illegible] cymhwysa yr holl elfenau, neu yr holl weithredyddion sydd yn [illegible] â'u gilydd, yn rhoddi bodolaeth i effaith. Gelwir ef gan yr Almaeniaid yn "*Ursprung*," hyny yw, ffynonell cyntaf pob symudiad yn y greadigaeth. Yn ngwaelodion isaf y byd anianyddol gwelir yr achos hwn i fyny o gydgasgliad terfynol, meddir, y rhai yn [illegible] elfenau bychain, a weithiant ar eu gilydd mewn [illegible] [illegible], o angenrheidrwydd, fel pob gweithwyr arall, gan [illegible] ar i symud ynddo.

Fe allai y byddai yn well i ni nodi yma [illegible] arall mewn arferiad, y rhai sydd yn golygu yr un peth â'r achosion [illegible] ac effeithiol, sef achos [illegible] (*immanent cause*), ac achos trosweithredol (*transient cause*). [illegible] y cyntaf ei [illegible] gan ysgrifenwyr y [illegible], ac y [illegible] yn cael ei [illegible] gan Spinoza, ac ysgrifenwyr [illegible] eraill. [illegible] yr achos hwn yn wastad yn [illegible]. Yn hyn, [illegible] ei fod yn [illegible] â'r achos ffurfiol. [illegible] yr achos trosweithredol (*transient cause*), golyga hwn yn wastad [illegible] hyn,

* *The Human Intellect*, by Noah Porter, D.D., Professor of Moral Philosophy and Metaphysics in Yale College, p. [illegible]. † Agassiz, *Essay on Classification.*

gweithredol, ac ymwybodol, yr hwn sydd yn effeithio ar wrthddrychau y tu allan iddo ei hun; mewn gair, y mae yn achos effeithiol. Er engraifft: nodwedd fewnol lwmp o glai ydyw syrthni; dyna ydyw ei *immanent* ef; ond y mae egnïon trydanol, attynol, &c., yn gweithredu y tu allan iddynt eu hunain ar wrthddrychau eraill, ac yn peri cyfnewidiadau. Y mae gofid a llawenydd, myfyrdod a dymuniad, yn nodweddau mewnol o eiddo y meddwl; ond nid ydynt yn cynnyrchu un weithred y tu allan i ymwybodolrwydd y person sydd yn meddwl. Ond y mae yr ewyllys pan yn ewyllysio yn taflu ei dylanwad y tu allan iddi ei hun nes peri i'r corff redeg, sefyll, a gweithio. "*God is the immanent, but not transeunt, cause of all things,*" medd Spinoza; hyny yw, nid yw Duw yn bodoli yn weithredol o gwbl yn y greadigaeth; math o sefyllfa barhaol ac anweithredol yw ei hanfodiad, yn amlygu byth yr un nodweddau. Drachefn, pan y meddylir am sefyllfa wreiddiol y ddaear, naill ai fel cydgasgliad anferth o ronynau afrifed, yn ol Democritus a Lucretius, ai fel niwlen boeth a hylifol, yn ol y ddamcaniaeth ddiweddarach, rhaid y buasai yn aros byth mewn sefyllfa farw, anweithredol, a digyfnewid, heb weithrediad rhyw achos effeithiol. Heb y cyfryw weithrediad buasai y ddaear yn parhau mewn cyflwr afluniaidd a gwag; heb dân yn ei ffwrneisiau, heb awel yn symud ar wyneb ei môr du a thywyll, ac heb dòn yn tori ar ei draethellau dystaw a thawel. Dengys holl arbrofion gwyddonol yr oes hon ddau beth: 1. Nad oes y fath beth yn bod a bywyd hunan-gynnyrchiol; 2. Nad oes y fath beth yn bod ag egni naturiol hunan-gynnaliol. O ganlyniad, rhaid i ni fyned tu draw i'r hyn a elwir yn "Egnïon Anianyddol," "Gallu Bywydol," &c., i chwilio am achos gwreiddiol pob symudiad, pob cynllun, pob math o ffurf, a phob amlygiad o drefn yn y bydysawd.

Gadawer i ni ddisgyn i lawr at wreiddyn tybiedig yr hyn a eilw y gwyddonwyr yn Achos Anianyddol, hyny yw, fel achos effeithiol. Pan y darganfyddwyd yn ddiweddar gan fagad o wŷr o Sank Center, Minnesota, darddellau cywir yr afon Mississippi, deallwyd ei bod yn tarddu o ddau lyn, i'r rhai yr arllwysa amryw ffrydiau ar hyd ceunentydd dyfnion. Gwelwyd fod dyfroedd y ddau lyn yma yn arllwys i un mwy, sef Glazier, yr hwn, fel y tybid yn flaenorol, oedd tarddell yr afon hwyaf yn y byd. Yr un modd am achosion anianyddol; y maent yn cynnwys yn eu ffynnonell yn wastad, ac yn neillduol pan yn cyfansoddi achos, ddau neu ychwaneg o weithredyddion, y rhai a weithredant ar eu gilydd. Yn awr, pa beth a olygir wrth yr egnïon hyn, a pha fodd y gweithredant? Gyda golwg ar y rhan gyntaf o'r cwestiwn, gellir ateb mai gweithrediadau yr hyn a elwir yn egni gallofyddol, egni fferyllol, egni gwefrol, egni attynol, &c., ydynt. Egni, gan hyny, yw y gair sydd ar dafodiaith yr oes hon am weithrediadau symudol a chyfnewidiol natur faterol. Nis gall egni fodoli yn yr ystyr hwn heb fater, fel y dangosir gan Meyer, Joule, Grove, ac eraill. Ac fel yr ydym yn disgyn i lawr at ranau isaf mater, mynir i ni gredu fod yr egnïon a nodwyd yn gweithredu yn eu tro y naill ar y llall. Y cydweithrediad hwn o'r eiddynt a elwir yn "Gydberthynas Egnïon Natur." Gweithreda a gwrthweithreda y rhai hyn ar eu gilydd yn barhaus, gan gynnyrchu symudiadau a chyfnewidiadau yn arddangos-

hon natur. Eu gweithrediad ar eu gilydd sydd yn cyfansoddi yr achos. Drachefn, wrth weithredu ar eu gilydd y mae un gallu yn cymedroli rhyw gymaint ar y llall, a'r canlyniad o hyny yw yr effaith. Y mae hyn yn atebiad i'r rhan olaf o'r cwestiwn, sef, Pa fodd y gweithredant?

Gellir egluro hyn yn mhellach trwy dybied ein bod yn edrych ar blant yn chwareu gyda pheleni. Dyna y belen sydd yn gorphwys yn cael ei tharo gan yr hon sydd yn symud, fel y mae hithau yn symud. Galwn y belen sydd yn gorphwys yn A, a'r belen sydd yn symud yn B. Y ddwy belen yn eu hundeb â'u gilydd sydd yn cyfansoddi yr achos. Yr achos yw A B. Fel y maent yn gweithredu dilyna yr effaith: hyny yw, y mae A yn symud, a B yn sefyll; gan hyny, yr effaith yw $A^1B^1$. Ond wrth symud, tybier yn mhellach fod A yn taro C, a B yn cael ei tharo gan D; yna cawn ddau achos, $A^1C$ a $B^1D$, ac effaith ddeublyg, $A^2B^1$ a $B^2D^1$.

Drachefn, os tybir fod y pelenau hyn yn effeithio ar belenau eraill, nid yn unig ceir golwg ar amryw achosion a'u heffeithiau, ond ar effeithiau yn troi yn eu tro i fod yn achosion. Bellach, os ydyw y darllenydd wedi cael golwg glir yn ei feddwl ar y gosodiadau uchod, gadawer i ni symud ymlaen at y casgliadau.

1. Nid oes y fath beth yn bosibl ag i achos bychan gynnyrchu effaith mawr. Rhaid i'r achos fod yn fwy na'r effaith, i'r peth sydd yn cynnyrchu fod yn fwy na'r peth a gynnyrchir. Onid yw hyn yn hollol amlwg?

2. Ni feddwn un drychfeddwl am achos effeithiol yn annibynol ar y syniad o weithrediad rhyw egni; ac nis gallwn feddu un syniad am egni anianyddol yn annibynol ar weithrediad elfenau neu gyrff materol ar eu gilydd. Ni buasai A byth yn symud, heb i B ei tharo; buasai B wedi ei symud, yn rhedeg byth i'r un cyfeiriad, oddieithr i ryw gorff neu gyrff materol ei hattal. Gan hyny nis gall un corff materol weithredu heb i ryw un arall weithredu arno. Dyma, yn ol Syr I. Newton, ddeddf gyntaf symudiad.

3. Er fod mater yn oddefol, eto gweithreda pan y gweithredir arno. Dyma ddau gorff materol, A a B; newidiwyd hwy trwy iddynt gael dyrnod yn erbyn eu gilydd. Dyna A, yr hon oedd yn gorphwys, yn symud, a B yr hon a'i tarawodd yn gorphwys. Ac ymhellach, wrth daro collodd B ei hegni trwy ei gyflwyno i A, ac y mae yr egni a gafodd A yn gyfartal i'r hyn a gollodd B. Dyma eto, yn ol Newton, drydedd deddf symudiad. Syniad pellach ar hyn yw dyweyd fod egnion naturiol yn gyfnewidiadwy; h.y., gall un ffurf ar egni gael ei newid i ffurf arall, megys gwres yn waith a gwaith yn wres. Os diflana egni yn ei ffurf allofyddol, dyweder, pan yn symud rhyw gorff materol, ymddengys mewn un arall, megys gwres. Ond er eu bod yn gyfnewidiadwy ac yn drosglwyddadwy, eto myn y gwyddonwyr genym gredu fod cyfanswm gallu yr un o hyd, heb leihâd na mwyhâd. Yn ol y syniad hwn, mynir genym edrych ar y greadigaeth fel llong, wedi ei llwytho â phob math o elfenau materol, ac wedi ei hamgau mor ddiogel, fel nad all un temig o'r elfenau materol a roddwyd ynddi roddi bod i un newydd, na difodi hen un. Dyma un o adnodau gwyddonol Clerk Maxwell ar y pwnc hwn: "Nis gellir lleihau na mwyhau egni un

corff neu gyrff trwy eu gweithrediad ar eu gilydd, er y gellir eu trawsnewid i ryw un o'r moddau ag yr adnabyddir egni."* Fel hyn, os paid egni a bodoli mewn un ffurf, rhaid iddo fodoli mewn ffurf arall. Onid yw hyn yn debyg neillduol i'r ymresymiadau a glywir weithiau gan bobl syml; megys, os bydd un aden i olwyn i lawr rhaid i'r llall fod i fyny; neu fe lenwir y llestr gwag i'r un mesur ag y gwagheir y llawn? Os collir mewn symudiad, ennillir, meddir, mewn gwres; os collir mewn gwres, enillir yn gyfartal mewn symudiad. Yn ol y syniad hwn rhaid fod natur yn onest iawn. Er ei bod, fel Coron Lloegr, yn wastad mewn dyled, eto ceidw gyfrif manwl, a thâl yn ol yr hyn a wariodd, a dychwela y benthyg adref i'r temig. Os defnyddia wres, gofala am ei dalu yn ol mewn gwefr, neu mewn rhyw egni arall. Yn mhob gweithrediad, hi a dâl yn ol mewn gwrthweithrediad cyfartal. Dyma yr hyn a elwir gan wyddonwyr yn "Gydberthynas Gallu," neu fel y dymunant ei alw yn awr, "Cydberthynas Egni," yr hwn a ddarnodir ganddynt yn "*Energy in Motion.*" Y mae yn beth gwrthun siarad am symudiad heb egni, ac am egni heb gynnyrchu symudiad. Yr un ystyr, ond mewn geiriau eraill, â dyweyd fod egni i'w fesur wrth y gwaith a wna; o herwydd y gwaith a wneir yw cyfanswm y symudiad a gynnyrchir, ac nis gellir cynnyrchu symudiad oddieithr gan egni yn ei waith.

Ond y cwestiwn sydd yn cymhell ei hun arnom yma ydyw: A ydym i ddeall fod yr egni hwn yn beth gwirioneddol, ai ynte peth galluadwy *(potential)* yn unig yw? Nid yw ond peth galluadwy yn unig. Ac y mae synwyr pawb yn ei ddysgu nad yw egni galluadwy, tra yr erys felly, yn egni gwirioneddol o gwbl. Y mae yr adamant gloew wedi ei gyfansoddi o'r un defnyddiau â'r glo, sef o goed llosgedig; ond nid oes neb yn barod i feddwl fod darn o olosg yn adamant, tra yn unig mewn cyflwr posibl i hyny. Pan syrthia gallu gweithredol i fod yn allu posibl yn unig, nid ydyw mwyach mewn bodolaeth yn y cymeriad o allu. Trwy holl derfynau ymherodraeth mater, nis gall y posibl byth, a hyny o hono ei hun, ddyfod yn beth gweithredol; rhaid i rhyw allu weithredu arno cyn y symuda. Rhaid i rhyw allu weithredu oddiallan ar olwynion y peiriant cyn y trŷ. Erys pob melin wynt a phob melin ddwfr; holl beiriannau agerawl a thrydanol y ddaear, ar dir ac ar fôr, byth yn llonydd, oddieithr i rhyw egni gweithredol, ac nid posibl, eu symud. Yr un modd am bob temig, a phob elfen faterol, trwy holl derfynau gofod, o'u rhan hwy eu hunain, y maent mor ddiallu i gynnyrchu un cyfnewidiad ag yr oedd diddymdra i gynnyrchu creadigaeth. Dengys hyn pa mor anfoddhaol, a hyd yn nod diystyr yw yr ymadroddion a ddefnyddir gan wyddoreg anianyddol pan yn llefaru am "*energy in motion,*" ac ar yr un pryd yn llefaru am dano fel egni galluadwy; hyny yw, egni mewn symudiad, yr hwn nid yw yn symud. Arweinia hyn ni at y casgliad nesaf.

4. A siarad yn syml, nid yw yr hyn a elwir yn Egnïon Anianyddol,—egni attynol, fferyllol, gwefrol, gallofyddol, a gronynol—yn ddim ond enwau ar wahanol symudiadau. Cymer holl arddangosion natur

* *Grove on Correlation of Forces*, p. 19; *Matter and Motion*, p. 165; *The Unseen Universe*, p. 184, W. H. Platt, D.D. LL.D.; *The Philosophy of the Supernatural*, p. 258.

le, y rhai a weithiant o flaen ein synwyrau trwy gwasgiad a symudiad, naill ai yn nghyfanswm neu yn nhemigau sylweddau. Rhaid fod gan bob dygwyddiad ei ragflaenorydd a'i ganlyniad. Os bydd y rhagflaenorydd yn ddigyfnewid, parotoir ein meddyliau gan sylw a phrofiad i ddysgwyl oddiwrtho bob amser yr un math o ganlyniadau. Os rhwbir dwy briddfaen yn erbyn eu gilydd, neu rhyw sylweddau celyd eraill, gwyddom trwy brofiad mai gwres ac nid dwfr a gynnyrchir trwy y rhwbiad. Rhwbiad y ddwy briddfaen yn erbyn eu gilydd yw achos anianyddol gwres; ac undeb y ddwy â'u gilydd, sylwer, a elwir yn ddeddf natur. Ond nid yw yr egnïon anianyddol hyn ond gwahanol enwau ar symudiad, na deddf natur yn ddim ond casgliad rhesymegol. Yn wir, maes priodol ymchwiliad yr anianydd ydyw canlyniadau ac nid *egnïon*. Os dywedir fod egnïon naturiol yn gyfnewidiadwy, dylid deall a chofio eu bod felly am y rheswm fod gwahanol fathau o symudiad. Ac onid yw yn hunan-brofedig nas gall symudiad gynnyrchu dim ond symudiad? Ac os yw y pethau hyn felly, mor afresymol ydyw tybiaethiadau Materolwyr, y rhai a haerant nad yw y meddwl ond arwedd ar weithrediadau mater! A yw ymweithiad temigau haiarn poeth yn alluog i gynnyrchu athroniaeth Plato? Y fath ynfydrwydd dan enw gwyddoniaeth!

Yn awr, nid yw egnïon anianyddol yn ddim ond enwau ar symudiad, fel y nodwyd; neu mewn geiriau eraill, nid ydynt yn egnïon achosol o gwbl. Ac nid ydynt yn bodoli o gwbl fel y cyfryw, ond yn y meddwl. Nis gellir eu canfod gan y synwyrau. Oni ddywed yr anianydd wrthym fod uniad un demig ar bymtheg o oxygen, a dau ronyn o hydrogen, yn cynnyrchu dyferyn o ddwfr? Gwir. Uniad y gronynau elfenol hyn yn y cyfartaledd manwl a nodwyd, sydd yn cyfansoddi holl ddyfroedd y greadigaeth. Ond y cwestiwn yw, Beth sydd yn eu huno yn y cyfartaledd manwl a chywrain hwn? A oes gallu ynddynt hwy eu hunain i dynu at eu gilydd? Yr atebiad gwyddonol yw, Attyniad fferyllol. Pa beth, attolwg, yw hwnw? A yw yn fath o egni ynddo ei hun? Yr ateb gwyddonol cywiraf yw, Nac ydyw. Y mae o'i ran ei hun mor farw a'r llwch a gyfansoddai gorff Nero y creulawn. Rhaid i ryw allu y tu allan iddo ei symud. Yr ydym wedi cyrhaedd i waelod y pwnc o achosiaeth anianyddol, ac yn y gwaelod nid ydym yn canfod un egni anianyddol yn gweithredu. Gorweddant yn mynwes natur mor ddiegni, o'u rhan eu hunain, a llwch y meirw yn y fonwent. Wrth ddyweyd hyn yr ydym yn siarad yn wyddonol ac athronyddol. Fel y canlyn y dywed un o brif wyddonwyr Ffrainc mewn gwaith dysgedig, ac o awdurdod uchel, a gyhoeddwyd yn ddiweddar: "Nis gellir esbonio arddangosion attynol trwy symudiadau temigau materol y rhai a fodolant rhwng y cyrff sydd yn attynu, ond gorfodir ni i gydnabod gallu anweledig yr Hwn nas gellir ei ddarostwng i demigau (*atoms*)."* Addefwn yn rhwydd fod tuedd gref, yn ol fel y mae sefyllfa bresennol y gwyddorau naturiol ac anianyddol, i gysylltu egni a mater; ac ar yr un pryd addefir gan y gwyddonwyr eu hunain, oddieithr y Materolwyr, nas gellir cael o fater ddim ond mater. A phan

* M. Hirn de Colmar, *La Vie Future et la Science Moderne*; "*History of Materialism*," vol. ii., p. 879; *A Study of Origins*, E. De Pressense, p. 188.

ymdrechir cysylltu egni â mater, ac edrych arno fel achos symudiad, ni bydd hyny amgen na chynnyrch tywyll y duedd sydd yn y meddwl i bersonoli y pethau a argymhellant eu hunain arno. Yn fyr, y ffaith yw hyn: A y greadigaeth yn ddim ond pentwr o demigau difywyd a diegni o dan lygaid y gwyddonwyr, a phawb arall, heb dybied fod ynddi rhyw Achos byw, un yn meddu Ewyllys Bersonol, yr hwn âg ysgydwad tyner ei law, a hyny o hono ei Hun, ac o'i hunan-benderfyniad, sydd yn tynu holl demigau diegni mater at eu gilydd, i gydymgofleidio yn chwareus, ac i roddi bod i arddangosion natur. O hono ei Hun ac o'i hunan-benderfyniad, meddwn, am y rheswm fod synwyr cyffredin cenedlaethau y ddaear o'r dechreuad yn edrych ar yr Achos Cyntaf, nid fel effaith cyn-achos, ond fel gwreiddyn a hunanbenderfynydd ei weithrediadau; nid fel cynnyrchydd dygwyddiadau yn unig, ond fel trefnydd eu hamser a'u lle.

Dichon nad yw y darllenydd yn barod eto i ollwng ei afael o'r syniad, nad oes rhyw egnïon mewn natur, a'r rhai hyny yn hanfodi yn wirioneddol ac nid yn enwol. Pa beth am Ddeddfau Natur? Onid ydynt hwy yn egnïon? Onid ydynt hwy yn cynnyrchu arddangosion natur? Onid yw deddf fawr dysgyrchiad yn egni dirfawr *ynddi ei hun?* Y mae tuedd yn y meddwl cyhoeddus i olygu felly; ond y ffaith yw hyn: Nid yw deddfau Natur yn bodoli o gwbl ar wahan i gasgliad y meddwl. Nid ydynt wedi eu creu gan Dduw, ond gan y meddwl dynol. Enwau yn unig ydyw deddfau natur, ar y perthynasau sydd rhwng achos ac effaith. Nid ydynt yn weithredyddion, nac yn rhoddi bod i un math o ddygwyddiadau; trefn y dygwyddiadau yn unig ydynt. Pa beth am ddeddf fawr dysgyrchiad? Onid yw hon yn meddu gallu ynddi ei hun? Lleferir am dani fel pe byddai yn cynnal ac yn llywodraethu, ac yn meddu rhan bwysig yn ffurfiad y cread; ond nid yw hyn oll amgen na chymysgedd meddyliol, a chyfeiliornad hollol. Pe na buasai ond un corff materol yn hanfodi mewn gofod, a fuasai hwnw yn attynu rhywbeth, neu yn hytrach, yn meddu gallu attynol? Na fuasai, o angenrheidrwydd. Pa fodd y gall mater attynu? A'r hyn sydd wir am un corff sydd wir am bob corff materol. Rhaid i bob corff materol effeithio ar gorff arall trwy ddylanwad oddiallan iddo ef ei hun—*ab extra;* a pha fodd y gall wneyd hyny oddieithr ei fod yn meddu y gallu hwnw yn fewnol ynddo ei hun? A all yr haul effeithio ar y ddaear nawdeg o filiynau oddiwrthi? Pe buasem yn tybied fod canolbwynt attyniad yn yr haul, nis gallasai gymedroli ei attyniad o gwbl fel ag i effeithio llai ar y byd agosaf ato, a mwy ar y pellaf oddiwrtho yn ei gyfundrefn. Gan hyny, a thybied fod ganddo egni attynol, a'i fod yn gollwng yr egni hwnw yn gyfartal ar bob planed yn ei gyfundrefn, y canlyniad naturiol ac anocheladwy fuasai iddo sugno y bydoedd lleiaf ac agosaf ato ei hun, wrth ddal ei afael yn y rhai mwyaf a phellaf oddiwrtho. Yn fyr, nid yw attyniad yn gynhenid mewn mater; nid yw yn ddim ond syniad athronyddol am allu uwchanianol, yr hwn sydd yn bodoli rhwng cyrff materol, ac nid ynddynt. Dyma y rheswm am fod rhai anianyddwyr wedi dechreu ymwrthod â'r gair "attyniad" am ddysgyrchiad, am na wyddant pa un ai *tynu* ai *gwthio* y mae. "Y mae y syniad fod tyniad yn fewnol, yn etifeddol, ac yn hanfodol mewn mater," medd Syr Isaac Newton, "fel ag i beri i un corff effeithio ar y

[illegible] yn y [illegible] wagter [illegible] [illegible] yn ddiddanol, [illegible] [illegible] [illegible] [illegible] yn [illegible] ei daddfan [illegible] [illegible] yn [illegible] mater o [illegible], ond yn [illegible] [illegible] [illegible] ond y mae achos [illegible] [illegible] yn [illegible]. Os cymer y [illegible] [illegible] [illegible] ei le priodol [illegible] [illegible] y mae anianyddwyr [illegible] [illegible] Materolwyr ac Agnosticiaid [illegible] [illegible] am achosion anianyddol.

[illegible] berthynas y Duwdod fel yr Achos [illegible] [illegible] yn debyg i berthynas y dydd â'r haul, neu [illegible] y [illegible] y galon. Dibyna yr holl greadigaeth [illegible] [illegible] [illegible] a'i threfn, fel y mae [illegible] y [illegible] yn [illegible] yr haul. Gweithreda y Duwdod megys [illegible] ar y [illegible] Hun yn barhaus fel achos effeithiol [illegible] y greadigaeth, nid fel un weithred yn dechreu [illegible] penodol, ond fel ymdrech barhaus, amlyg[illegible] y Gallu Dwyfol, yr hwn, pe yr attelid ef am foment, [illegible] i'r diddymdra y daeth allan o hono. Mor [illegible] hwn am y greadigaeth, o'i gymharu â'r syniad am [illegible], yn yr hwn y tybid fod math o egni mewnol, hunan[illegible], yn ymddadblygu yn organyddiaeth fyw, o'r [illegible] Dyma y syniad o flaen yr hwn yr ymgryma [illegible] y *Mud Fetish*, y Baw-dduw! Ond y mae Herbert [illegible] ar gasgliad olaf y meddwl athronyddol ar y [illegible] dyweyd: "The axiomatic truth of physical science [illegible] Absolute Being as the common basis:" Y mae [illegible] gwyddoniaeth anianyddol yn anocheladwy yn [illegible] Fod Diammodol fel cynsail gyffredin. Gan hyny, [illegible] Diammodol hwn ydyw Achos anfeidrol a hollbresennol pob [illegible] achosion, oddieithr fel mynegiad yn unig o allu [illegible] y Bod hwn. Achosiaeth ydyw y mynegiad o un [illegible] anhysbyddadwy, a hollddigonol, ac nid cyf[illegible]. Os un Bod Diammodol ydyw yr Achos, yna, [illegible] Bod Diammodol hanfodi, felly nis gall fod mwy nag [illegible] yn un fel yr haul; yr effeithiau yn llawer [illegible]

JOSEPH ROBERTS.

*Racine, Wisconsin.*

# Y CYNGHORAU SIROL.

GAN A. C. HUMPHREYS-OWEN, M.A.,
CADEIRYDD CYNGHOR SIROL SIR DREFALDWYN.

GELLID delio âg achosion cyhoeddus ar un o ddwy egwyddor: naill ai eu gosod yn nwylaw swyddogion taledig, yn nwylaw pa rai y gosodir gallu neillduol, a'r rhai ydynt yn cael eu hyfforddi yn arbenig at eu gwaith ac yn cael eu cyfyngu yn gwbl iddo; neu, ymddiried y cyfan i ofal goleuedig y bobl eu hunain am eu buddiannau, a hyny yn cael ei gario allan trwy eu cynnrychiolwyr etholedig. Yr ydym yn dynodi y naill egwyddor trwy yr enw cyffredinol o ganoleiddiad, *centralization;* y llall ydyw yr egwyddor o lywodraeth leol. Yn yr hen amseroedd yr oedd yr egwyddor o lywodraeth leol, neu, fel y dewiswn i yn hytrach ei galw, o gyd-bartneriaeth neu gydweithrediad, bron yn oruchaf. Undod gwreiddiol y cyd-drefniad lleol oedd y dref ddegwm, y *township*, ac yr ydoedd bron yn annibynol a hunan-lywodraethol. Dewisai y dref ddegwm ei swyddogion ei hun, yr oedd ganddi allu i godi ei threthoedd ei hun, ac i wneyd deddfau lleol er iawn lywodraethiad y rhai a breswylient o fewn ei therfynau; ac yr oedd ei pherthynas â'r awdurdod oruchaf, y Brenin neu y Senedd, yn codi bron yn gwbl oddiar ei rhwymedigaeth i ymuno yn amddiffyniad y deyrnas, ac yn ei darostyngiad i awdurdod llysoedd y brenin. Fel y gweler pa fodd yr arferai ein tadau drefnu eu hachosion lleol, tra, os elent dros derfynau uniondeb a chyfiawnder yr oeddent yn agored i gael eu gosod yn iawn gan lysoedd y Brenin, mi a roddaf hanes cryno am achos a gymerodd le mor bell yn ol â theyrnasiad Edward III. Addefai y diffynydd ei fod wedi attafaelu, a dywedai mewn amddiffyniad fod cyfarfod o'r plwyfolion wedi ei gynnal i adgyweirio diffygion yn nhô yr eglwys, a'u bod wedi gosod treth arnynt eu hunain o £10 i'r perwyl hwnw, a chodi yn ol fel yr oeddent wedi cytuno, am bob cae, 6c., am bob buwch, 1½c., ac am bob deg dafad, ½c. Yr erlynydd, gan yr hwn yr oedd tir a defaid a gwartheg, ac ydoedd yn un o'r plwyfolion, a wrthodai dalu, ac am hyny yr oedd y diffynydd wedi attafaelu arno. Wedi dadleu yr achos, ystyrid fod y dreth wedi ei harosod yn gyfreithlawn a phriodol, fod gan y plwyf hawl i'w drethu ei hun, fod y cyfarfod wedi cytuno, ac fod yr hawl i arosod treth yn cario gyda hi yr hawl i attafaelu am dani.

Fel hyn ni a welwn, ymhell cyn i unrhyw weithred seneddol roddi gallu i arosod trethi fel mewn amseroedd diweddar, fod gan y dref ddegwm allu i arosod trethiad arni ei hun i amcanion cyhoeddus, a hyny nid yn unig er adgyweirio eglwys y plwyf, yr hon a ystyrid y dyddiau hyny fel eiddo cyffredin, ond hefyd i amrywiol amcanion eraill. Er engraifft, mi a ddarllenais am achosion mewn amseroedd diweddar lle y gwneid taliadau allan o'r trethi am ladd llwynogod, dinystrio adar y tô, a phethau eraill cyffelyb. Nid oedd y trethi yma, fel y mynai gweision

[illegible] Llywodraeth gael genym gredu, yn gam-[illegible] ond yn weddillion cyfraith y wlad, yr hon a [illegible] neu y plwyf i wneyd eu [illegible].

Yr oedd y [illegible] yn yr hen amser pan oedd bywyd yn syml, pan [illegible] leoedd yn anhawdd, a phan nad oedd y [illegible] ar [illegible]iadau ac amrywiaeth budd-iannau [illegible]. Fel yr oedd cyfoeth y wlad yn [illegible] yn dyfod yn fwy cymhleth-[illegible] io a threthu yn annigonol i [illegible], a'r canlyniad ydyw y [illegible] â hi heddyw. Mi a wn na [illegible] yr hen gyfundrefn, ond collasom lawer [illegible] deimladau o gyfrifoldeb, o [illegible]. Y mae dynion yn llawer tebycach o'u parchu eu hunain [illegible], os caniateir iddynt drin eu hachosion eu hunain [illegible] y mae yn awr, y maent yn cael eu [illegible] a gymerant gan drefniadau oddi-wrth [illegible] o Whitehall, neu gan aw[illegible] nad oes ganddynt hwy eu hunain un [illegible] fe allai, yn gwbl mewn cydym-deimlad â [illegible].

[illegible] y gyfundrefn yr ydym wedi bod dani hyd yn [illegible], ni a gawn ei bod yn cyn-[illegible] y pedair bwrdeisdref, Trallwm, [illegible] Bwrdd Lleol y Drefnewydd, a'r [illegible]—bedwar Bwrdd Gwarcheidwaid, bedwar [illegible] yr un â Byrddau Gwarcheidwaid, bedwar o [illegible] o Fyrddau Ysgol. Mae y [illegible] waith lleol, ac y maent oll, fwy [illegible] hwnw, trwy y ffaith eu bod yn derbyn [illegible] oddiwrth y Llywodraeth; ac yn [illegible] yn talu i'r crythor, y mae yn [illegible] ydyw, fod y Llywodraeth [illegible] lywodraethu a rheoli yn swydd-[illegible]. Y mae, heblaw hyny, ddyblyg-[illegible] Byrddau Gwarcheidwaid, [illegible]. Yn olaf, heblaw y cyrff [illegible] Chwarterol, sydd yn gwario [illegible] y rhan fwyaf o lawer o'r hyn a [illegible]—awdurdod ag sydd yn gwbl anghyf-[illegible]. Y mae sefyllfa pethau hyd yn [illegible] ymhel â hi mewn siroedd [illegible].

[illegible] yma wedi bod yn hir yn uchel-[illegible] a galwn yn neillduol enwi Mr. [illegible] yn y maes hwn. Ond yr [illegible] drwodd y Senedd-dymmor [illegible] Cynghorau Sirol bellach wedi [illegible] Mr. Ritchie yn llawer mwy

uchelgeisiol nag y dangoswyd yn y canlyniad fod yn bosibl ei gyrhaeddyd. Er gwaethaf cynnorthwy calonog ei wrthwynebwyr politicaidd—cynnorthwy a gydnabyddwyd ganddo ef ei hunan yn yr ymadroddion mwyaf agored a charedig—fe fu raid iddo roddi o'r neilldu gyfran helaeth o'r gwaith â pha un yr ydoedd wedi ymgymeryd, yn neillduol yr Adranau Trwyddedol a'r rhai am Gynghorau Rhanbarthol. Mae y Weithred Seneddol, fel y saif yn awr, yn gadael heb eu cyffwrdd gyrff etholiadol llai y wlad, megys Byrddau Gwarcheidwaid, Byrddau Ffordd Fawr, Awdurdodau Iechyd, Cyrddau Plwyfol, a Byrddau Ysgol, ac yn cymeryd i fewn yn unig i waith gweinyddiadol y Brawdlys Chwarterol, neu y *Quarter Sessions.*

A pha beth, mewn gwirionedd, ydyw y Brawdlys Chwarterol? Ei aelodau, fel y gŵyr pawb, ydyw Ynadon y wlad. Ac y mae yr ynadon yn derbyn eu gallu o ddwy ffynnonell wahanol, ac yn ei ymarfer dan amgylchiadau neillduol. Yn y lle cyntaf, y maent yn Geidwaid yr heddwch yn rhinwedd Awdurdodiad, *Commission*, wedi dyfod yn uniongyrchol oddiwrth y Goron ar enwad yr Arglwydd-Raglaw. Mae y gallu yma yn cael ei ymddiried iddynt byth er diwedd teyrnasiad Edward II. Cyn yr amser hwnw byddai rhydd-ddeiliaid y wlad, wedi ymgynnull yn eu Llys Sirol, yn arfer ethol ceidwaid yr heddwch. Ond yn yr amseroedd terfysglyd yn niwedd teyrnasiad Edward II., fe gymerwyd y gallu yma oddiar y rhydd-ddeiliaid trwy weithred led dra-arglwyddaidd o eiddo y Penadur, yn llaw yr hwn y mae byth er hyny wedi aros. Dyna y gallu dan ba un y mae y Brawdlys Chwarterol yn eistedd fel Llys Troseddau i brofi carcharorion ac i wrando appeliadau. Dan yr awdurdodiad yna hefyd y mae yr ynadon yn barnu troseddau yn Mân-lysoedd, neu *Petty Sessions*, y dosbarthiadau. Ond heblaw y galluoedd barnedigaethol hyn, â pha rai na chyffyrddir gan Act y Senedd-dymmor diweddaf, fe arosodwyd ar yr ynadon hefyd, o bryd i bryd, gryn lawer o ddyledswyddau gweinyddiadol, *administrative.*

Yn awr y mae y ffordd trwy ba un y cawsant y swyddogaethau gweinyddiadol yn ddyddorol, ac yn ein galluogi i weled yn lled eglur fel yr oedd y gyfundrefn leol, am ba un y crybwyllais, yn graddol fethu yn ei gweithrediad, ac fod yn rhaid gosod rhywbeth o nodwedd eangach yn ei lle. Y gallu cyntaf yr wyf fi yn abl i gael allan fel wedi ei roddi i'r ynadon, ac sydd eto mewn bodolaeth, a roddwyd mor bell yn ol â theyrnasiad Harri VIII., trwy y weithred seneddol dan ba un y mae y sîr yn adgyweirio ei phontydd a'r mynedfeydd iddynt. Mi roddaf grynodeb o rai o'r darpariadau, oblegid fe allai fod yn ddyddorol gweled rhywbeth o'r dull y byddai ein tadau, dri chant a hanner o flynyddoedd yn ol, yn delio â'r materion hyn. Wedi dadgan y bydd "gan yr ynadon allu, yn mrawdlysoedd yr heddwch, i benderfynu ynghylch pob math o flinder am bontydd wedi eu tori ar y ffordd fawr, ac i wneyd y fath erlyniad ar y cyfryw bersonau ag a fydd yn angenrheidiol," ä ymlaen i gyfeirio at fanau lle na ellid gwybod neu brofi pa adran neu pa berson oedd i adgyweirio pontydd drylliedig; yr hyn sydd yn dangos fod y lle cyfagos, neu, mewn rhai amgylchiadau, fel yn bresennol, fod corfforiaethau neu berchenogion tiroedd neillduol, dan yr hen gyfraith, i adgyweirio pontydd. Yna fe ddaw y dadganiad, lle na ellir dangos fod neb arall yn gyfrifol, y bydd

iddynt gael eu cadw i fyny gan y sir, ac eir ymlaen — "Unrhyw achos o'r fath fe fydd gan ynadon yr heddwch a[illegible] o fewn [illegible] awdurdodiaeth pob un, i alw o'u blaen gwnstabliaid pob [illegible] a [illegible] o fewn y Sir, y *Riding*, y Ddinas, neu y Dref Gorfforedig [illegible] y [illegible] y cyfryw bontydd fod, neu ddau o drigolion mwyaf parchus y [illegible] dref neu blwyf, a bydd gan yr ynadon allu, ar ymddangosiad y [illegible] neu y trigolion [h.y., wedi clywed beth sydd ganddynt i'w [illegible]], i drethu pob trigiannydd yn y cyfryw dref neu blwyf i'r fath swm ag a farnont yn eu doethineb yn ddigon i adgyweirio, ail-adeiladu neu wellhau y cyfryw bontydd." Yma fe welir yr hen drefniad o gyrff bychain lleol, yn tori i lawr, a'r Senedd, yn lle meddyginiaethu y diwg, cryfhau gallu y cyrff lleol, a'u cynnorthwyo i [illegible] i wneyd yr hyn oedd yn angenrheidiol—yr hyn a fuasai yn llawer gwell yn syml yn trosglwyddo eu gallu i drethu i'r Ynadon yn Mrawdlysoedd yr Heddwch.

Engraifft arall ydyw yr Act a basiwyd yn nheyrnasiad y Frenhines Elizabeth, yr hon, fel y gŵyr aelodau Byrddau Gwarcheidwaid, sydd eto yn sylfon ein darpariaeth er cynnal y tlodion. Trefnai ar fod yr *overseers* yn trethu trigolion pob plwyf i amcanion yr Act, ac elai ymlaen i ddywedyd os na fyddai trigolion plwyf neillduol yn alluog i gyfarfod y dreth, yna fod dau o'r ynadon i godi treth gynnorthwyol yn y plwyf neu y gantref fel y dygwyddai fod—fyddai nesaf. Mae hon yn engraifft gyffelyb o gyrff lleol yn analluog i gyflawni eu dyledswyddau, ac o allu yn cael ei roddi trwy weithred seneddol i'r ynadon i wneyd i fyny y diffyg. A thrachefn, yn nheyrnasiad William III., gwneir darpariaethau cyffelyb i alluogi yr ynadon i godi carcharau, ac mewn amseroedd diweddarach fe'u hawdurdodwyd i drethu y Sir at yr heddlu, at wallgofdai, ac ysgolion i droseddwyr ieuainc, ac i amcanion eraill. Fel hyn, heb unrhyw fwriad penodol ar ran yr awdurdod llywodraethol neu y Senedd, ond yn syml i ddarparu ar gyfer anghenion fel y cyfodent, ac mewn rhan, rhaid addef, i gyflenwi diffygion yn ngwaith yr ardaloedd eu hunain, fe roddwyd i ynadon y *Quarter Sessions*, ochr yn ochr â'r awdurdodau lleol llai, allu i drethu gwlad i amcanion penodol. Dyma yr awdurdodau a'r galluoedd y mae Deddf y Seneddlymmor diweddaf wedi drosglwyddo oddiwrth yr Ynadon i'r Cynghorau Sirol.

Am gyfansoddiad y Cynghorau hyn, y mae tair rhan o bedair o'u haelodau yn Gynghorwyr wedi eu hethol gan y bobl, a'r bedwaredd arall yn Henaduriaid neu *Aldermen* wedi eu hethol gan y Cynghor ei hun. Mae etholiad Cynghorwr fel Henadur yn gwneyd ei sedd yn wag fel Cynghorwr, a gwna yn angenrheidiol cael etholiad newydd dros ei adran neu ei *ward*. A siarad yn gyffredinol, mae yr etholfraint yn etholiad Cynghorwyr yr un ag mewn etholiadau Seneddol, ond ni all llettŷwyr, etholwyr ar gyfrif gwasanaeth, na pherchenogion annhrigiannol bleidleisio, tra y gall Arglwyddi a merched, os yn gymhwys fel tŷ-ddalwyr, a rhai yn trigo yn y lle. Y mae pob person sydd yn gymhwys i bleidleisio yn etholiad Cynghorwr Sirol—oddieithr merch, fe allai—yn etholadwy fel Cynghorwyr, fel hefyd y mae Arglwyddi sydd yn berchen eiddo yn y Sir, a pherchenogion annhrigiannol. Mae yr etholiadau, yn ymarferol, yn cael eu dwyn ymlaen yn yr un modd ag

etholiadau Seneddol. Mae eu traul yn cael ei thalu o'r dreth sirol; ond nid ydyw hyny, wrth reswm, yn cynnwys treuliau personol yr ymgeisydd am anerchiadau, cyfarfodydd cyhoeddus, &c. Mae y Cynghorwyr wedi eu hethol yn eistedd am dair blynedd, a'r Henaduriaid—oddieithr hanner y rhai a etholir gyntaf—am chwe' blynedd. Mae y Cynghorwyr yn eu cyfarfod cyntaf yn ethol Henaduriaid, trwy bapyrau wedi eu harwyddnodi, ac fe benderfyna yr Henaduriaid cyntaf trwy balot pa hanner a aiff allan ar ben y tair blynedd. Deil yr hanner arall eu seddau am chwe' blynedd. Bydd gan y Cynghor gadeirydd, ac, os barna yn briodol, is-gadeirydd. Mae y swyddogion hyn yn cael eu hethol bob blwyddyn, ond gellir eu hail-ethol. Gellir talu i'r cadeirydd, ac y mae, yn rhinwedd ei swydd, yn un o ynadon y sir. Rhaid iddo feddu cymhwysder i fod—ond ni raid iddo fod—yn Gynghorwr neu yn Henadur. Rhaid i'r is-gadeirydd fod y naill neu y llall. Cyn gadael y rhan yma o'r mater, mi ddylwn ddyweyd fod y cwestiynau hyn o etholfraint a chymhwysder, ac yn benaf o herwydd sefyllfa warthus y deddfau cofrestrol, o natur dra dyrys, ac ni allaf ond rhoddi syniad cyffredinol am danynt heb fyned i fanylion cyfreithiol.

Yr ydwyf yn awr yn dyfod at y gwaith fydd gan y Cynghorau i'w wneyd, ac mi ddilynaf drefn yr Act. Yn y lle cyntaf bydd ganddynt i wneuthur, arosod, a chodi trethoedd y sir a'r heddlu, a gofalu am ei defnyddio a'i thalu, a gwneyd archiadau am dalu symiau sydd i'w talu o'r trethoedd hyn, a pharotoi a chywiro y sylfon neu y safon am dreth y sir. Yn bresennol y mae trethoedd y Sir a'r Heddlu yn cael eu casglu gyda threth y tlodion. Yn Sir Drefaldwyn fe wnaed prisiad bump neu chwe' blynedd yn ol, yn seiliedig ar brisiad treth y tlodion yn mhob plwyf. Yn nesaf daw y gallu i fenthyca. Gellid ymarfer hyny (1) er mwyn cydgrynhoi dyled y sir; (2) er mwyn cario allan weithiau parhaus yn y sir; (3) er mwyn ymfudiaeth neu drefedigiad; (4) unrhyw amcan arall at ba un y mae y Brawdlys Chwarterol neu y Cynghor yn meddu gallu yn ol y gyfraith. Mae cydsyniad Bwrdd Llywodraeth Leol yn angenrheidiol i bob benthycion oddieithr i dalu dyledion sydd yn bod eisoes, a rhaid ad-dalu pob benthyciad o fewn deng mlynedd ar hugain. Yr wyf yn meddwl fod hyny yn drefniad doeth, yr hwn a osyd attalfa ar bob tuedd i wastraff, oblegid fe ŵyr pob un a fo yn tueddu i fod yn afradus gyda'r cyllid cyhoeddus, y bydd raid iddo ymgymeryd â rhan sylweddol o ad-daliad y cyfanswm yn gystal ag o'r llog. Mae y sir hon, fel y rhan fwyaf o siroedd, wedi gorfod benthyca arian i adeiladu pontydd a gwallgofdŷ, ac y mae y ddyled yn awr tua £25,000, yr hon a delir ymaith yn ol rhyw £1200 y flwyddyn. Y ddyledswydd nesaf ydyw pasio cyfrifon y Trysorydd Sirol. Un o Ddeddfau y ganrif ddiweddaf, yr hon a roddes i'r sir allu i godi trethoedd at amcanion y sir, a roddes hefyd iddi allu i benodi Trysorydd Sirol. Mae y gŵr hwn yn berson o gryn bwysigrwydd, oblegid iddo ef y mae pob trethoedd yn cael eu talu, ac arno ef y mae pob archiadau am dalu biliau yn cael eu gwneyd. Yn y lle nesaf mae y Cynghor i ofalu am neuaddau y sir, y brawdlysoedd, llettŷau y barnwyr, carcharau, llysoedd ynadon, gorsafoedd heddgeidwaid, ac adeiladau, gweithiau, ac eiddo y sir. Mae y gwahanol adeiladau hyn, oddieithr llettŷau y barnwyr, wedi cael

edrych ar eu hol yn y sir hon gan arolygydd y sir, y *county surveyor*. Nid oes genym gartref i'r barnwyr, fel rhai siroedd, a pha bryd bynag y daw y barnwr y mae yr uchel-sirydd i ymofyn am letty iddo. Felly y mae yn rhaid i ni yn y Drefnewydd ardrethu y Neuadd Gyhoeddus at frawdlysoedd, ac yn y Trallwm yr ydym wedi trefnu gyda'r Gorfforaeth am wasanaeth Neuadd y Dref. Y peth nesaf ydyw trwyddedu tai a manau eraill at gerddoriaeth neu at ddawnsio, a chaniatâu trwyddedau dan Act Trwyddedu Rhedegfeydd. Perthyna y rhai hyn i gymydogaeth Llundain, felly ni raid i ni ymdrafferthu yn eu cylch. Mae y peth nesaf, darparu a chynnal noddleoedd i wallgofiaid tlodion, yn fater o bwys mawr. Tua deugain mlynedd yn ol darfu i'r Senedd, gan weithredu trwy yr ynadon, arosod ar y siroedd y ddyledswydd o ddarparu gwallgofdai, i ba rai y gellid danfon personau a drallodid felly nad allai eu perthynasau fforddio cael gofalu am danynt mewn manau eraill, ar draul yr Undebau. Y mae genym un gwallgofdy i siroedd Amwythig a Threfaldwyn, a bwrdeisdrefi Sir Amwythig. Mae Sir Drefaldwyn yn cyfranu tua 27 y cant o holl draul adeiladu ac adgyweirio yr *Asylum*, tra y mae yr Undebau sydd yn anfon eu tlodion anmhwyllus iddi yn talu am eu cynnaliaeth yno. Y llynedd yr oedd traul eu cynnaliaeth yn 8s. $0\frac{3}{4}$c. y pen, o'r hyn y mae 4s. y pen yn yr wythnos yn cael eu talu i'r Gwarcheidwaid gan y Llywodraeth. Yn bresennol mae y gwallgofdai yn cael gofalu am danynt gan bwyllgor o ynadon ymweliadol. Yr ynadon hyny am Sir Drefaldwyn ydynt Cadben Mytton, Mr. R. E. Jones, a minnau. Bellach cymerir ein lle gan ymwelwyr wedi eu hethol gan y Cynghor Sirol. Mae gwaith y gwallgofdy yn ddiweddar wedi bod yn lled drwm; pa un ai o herwydd cynnydd yn nifer gwallgofiaid, ai o herwydd fod pobl yn fwy gofalus i anfon personau felly i'r lle, nid wyf yn gwybod, ond fe gaed yn wir fod yn angenrheidiol helaethu cryn lawer ar yr *Asylum*, ac y mae ein cyfran ni o'r swm a dreuliwyd ar y gwaith, am ba un y mae y sir yn awr yn gyfrifol, yn gwneyd rhan o'r ddyled o £25,000 am ba un y crybwyllais o'r blaen. Mae y ddyled hono yn cael ei thalu ymaith, ac yr oeddym yn darpar cyflenwad o ddwfr a cheuffosaeth, *sewerage*, gweithiau a drosglwyddir i'n canlynwyr. Yn nesaf yr ydym yn dyfod at sefydliad a chynnaliad ysgolion i droseddwyr ieuainc, *reformatories and industrial schools*. Ysgolion yw y *reformatories* lle yr anfonir plant ydynt wedi eu profi yn euog o droseddau; *industrial schools* sydd ysgolion lle y gellir anfon plant esgeulusedig heb eu profi yn euog o droseddau. Yn ffodus nid oes arnom ni yn Nghymru ond ychydig angen am sefydliadau o'r naill fath na'r llall. Mewn parthau lle y mae poblogaeth fawr y maent yn fwy pwysig. Pan y mae genym achosion o'r fath yn Sir Drefaldwyn, yr ydym yn anfon plant i ysgolion mewn siroedd eraill; ond mae yn dda genyf ddyweyd nad oes genym lawer o blant o'r fath. O gwbl yr ydym yn gwario at yr amcan hwn rhwng £50 a £60 yn y flwyddyn; swm nad ydyw yn bwysig iawn, ac nid ydyw y mater yn un sydd yn debyg o roddi nemawr drafferth i'r Cynghor Sirol.

Mae y pontydd a'r ffyrdd, a'r gallu a roddir i'r Awdurdod Sirol gan *Highway and Locomotive Act*, 1878, mewn ystyr gyllidol o bwysigrwydd llawer mwy. Yr ydym wedi gweled eisoes pa fodd y daeth pontydd i gael gofalu am danynt gan y siroedd. Y mae rhai achosion yn Sir

Drefaldwyn lle y mae pontydd cyffredin yn cael eu cadw, nid gan y sir oll, ond gan y plwyfydd neu y rhanbarthau lle y maent. Mae y pontydd hyn, sut bynag, yn dyfod yn llai lai mewn nifer, ac yn ddiammheu cyn hir fe fydd y cyfan wedi eu cymeryd drosodd trwy gytundeb â'r Cynghor Sirol, ac yn cael gofalu am danynt gan yr awdurdod hwnw. Y gallu pwysicaf a roddir gan yr Act ydyw yr un sydd yn rhoddi hawl i'r Cynghor Sirol i erlyn awdurdodau y ffordd fawr am esgeuluso adgyweirio y ffyrdd, i gyhoeddi ffyrdd neillduol yn brif-ffyrdd, neu i ofyn i'r Bwrdd Llywodraeth Leol am archiad i ddadgan nad ydyw ffordd mwyach i'w hystyried yn brif-ffordd. Prif-ffordd sydd ffordd a gedwir, nid fel ffordd fawr gyffredin yn unig gan Fwrdd Ffordd Fawr, ond mewn rhan gan y Bwrdd hwnw ac mewn rhan gan dreth y sir a rhoddiad y Llywodraeth. Yn y dyfodol fe ddygir traul cadw y ffyrdd hyn yn gwbl gan y Cynghorau, ond bydd ganddynt allu i barhau y drefn bresennol dan ba un y mae y gwaith o'u cadw yn cael ei adael i Awdurdodau y Ffordd Fawr, dan arolygiaeth gyffredinol y *County Surveyor*.

Yna daw y daflen o daliadau a gymerir gan, a'r treuliau a ganiateir i unrhyw arolygwr, elfenydd, neu berson yn dal unrhyw swydd yn y sir, heblaw Ysgrifenydd yr Heddwch ac Ysgrifenydd yr Ynadon. Mae Ysgrifenydd yr Heddwch yn swyddog sirol pwysig. Mae ei swydd yn rhydd-ddaliad, ac ni ellir ei ddiswyddo ond am gamymddygiad. Ceidw gofnodau o waith gwladol a barnedigaethol y sir; y mae yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Llys, ac, os yn angenrheidiol, yn ei bwyllgorau; ac y mae yn gyfrwng cymundeb rhwng y Llys a phob personau a chyrff cyhoeddus eraill. Fe gyflawna bob dyledswyddau o'r fath o hyn allan dros y Cynghor Sirol. Deil Ysgrifenyddion yr Heddwch presennol eu swydd fel Ysgrifenyddion yr Heddwch ac Ysgrifenyddion y Cynghor, yr un modd ag yr oeddynt o'r blaen yn dal Ysgrifenyddiaeth yr Heddwch. Fe fydd eu holynwyr yn cael eu penodi a'u symud, a'u cyflogau yn cael eu trefnu, gan bwyllgor unedig o'r Cynghor a'r *Quarter Sessions*. Ysgrifenyddion yr Ynadon ydynt eu cynghorwyr cyfreithiol mewn achosion cyhoeddus, ac fe'u penodir a threfnir eu cyflogau ganddynt hwy. Fe'u telir allan o dreth y sir, ond y mae gallu i reoleiddio eu cyflogau yn ol y gwaith a wnant a'r taliadau a dderbyniant yn y llysoedd. Yn fwy uniongyrchol dan lywodraeth y Cynghor Sirol fe fydd penodi, symud, a phenderfynu cyflog Trysorydd y Sir, yr Arolygwr Sirol, yr Elfenydd Cyhoeddus, unrhyw swyddog dan *Explosive Act*, 1885, ac unrhyw swyddogion y telir iddynt o dreth y sir, heblaw Ysgrifenydd yr Heddwch ac Ysgrifenydd yr Ynadon. Trysorydd y Sir, fel yr eglurais, ydyw y person trwy ddwylaw yr hwn y mae holl dderbyniadau a thaliadau y sir yn myned. Mae swydd yr Arolygwr Sirol yn un o bwysigrwydd mawr, oblegid mae ganddo i edrych ar ol y pontydd, y prif-ffyrdd, a'r holl wahanol adeiladau sirol; a phrin y mae eisieu i mi ddyweyd, gyda yr holl wario sydd yn angenrheidiol ar y pethau hyn, y gallai ychydig anfedrusrwydd neu ddiofalwch ar ei ran ef osod beichiau trymion ar ein trethoedd. Nid ydyw yr elfenydd cyhoeddus, a'r swyddogion dan yr *Explosives Act*, o bwys mawr yn y sir hon mewn ystyr gyllidol. Mae y gwaith a ofynir gan yr Act hono yn cael ei wneyd yn awr gan heddgeidwaid, ac nid oedd

yr holl draul y llynedd ond £23. Fe ddaw dyledswyddau yr elfenydd cyhoeddus, yr wyf yn dysgwyl, yn fwy, fel y daw y cyhoedd i gredu yn y pwys o burdeb mewn dwfr ac ymborth, ac mewn gwrteithiau. Yna daw y gallu i benodi cyflogau trengholwyr, ac i ranu y sir i ddosbarthiadau trengholiadol. Ni raid i hyny ein dal. Yn nesaf deuwn at raniad y sir yn ddosbarthiadau pleidleisiol i amcanion etholiadau seneddol, a phenodi lleoedd i ethol, a chynnal llysoedd i edrych dros restrau etholwyr, a threfnu at gofrestru etholwyr. Yna daw cario allan fel yr awdurdod leol yr Actau perthynol i glefydau heintus mewn anifeiliaid, i bryfaid dinystriol, i ofalu am bysgod, i adar gwylltion, i bwysau a mesurau, ac i nwy fesurau, a *Local Stamp Act* 1869. Mae dau o'r rhai hyn o beth dyddordeb i'r wlad, sef gofalu am y pysgod a heintiau anifeiliaid. Fe fydd gweinyddiad y gwahanol ddeddfau er attal heintiau ar wartheg ac anifeiliaid eraill, yn y dyfodol, yn llaw amaethwyr ymarferol, awdurdod pa rai a gyrhaedda dros yr holl sir. Bydd ganddynt i ddelio â'r anhawsder pa fodd i attal haint heb daflu rhwystr yn ffordd masnach y wlad. Yna daw delio â hawliau am niwed i eiddo trwy derfysgwyr; ac yn olaf cofrestriad rheolau cymdeithasau gwyddonol, rhoddion elusenol, cofrestru addoldai, a chadarnhau a chofnodi rheolau cymdeithasau benthyciol. Gyda golwg ar hyn, ni chawsom ni o gwbl, er pan ydwyf fi yn ynad, ddim gwaith o'r fath yn y Brawdlys Chwarterol, er y gallai ddyfod felly mewn siroedd mwy.

Heblaw y galluoedd yma a drosglwyddwyd o'r Brawdlys Chwarterol, y mae rhai eraill wedi eu rhoddi i'r Cynghor Sirol gan yr Act. Yn gyntaf, mae y Cynghor Sirol i benodi y Trengholydd. Yn flaenorol etholid ef gan rydd-ddeiliaid y sir, a chan nad oes rhestr ar wahan o rydd-ddeiliaid y sir, mae yr etholiad wedi bod o nodwedd dra chostus ac anfoddhaol. Hefyd y mae gan y Cynghor allu i adeiladu pontydd, ac i gymeryd drosodd bontydd oedd yn bod o'r blaen. Bydd ganddo hefyd i gyfranu at y draul o gadw a gwellhau unrhyw ffordd fawr neu lwybr o fewn y sir, ac i gadw hawl y cyhoedd mewn lleiniau ochr ffordd. Ac y mae yn eu llaw y gallu, oedd hyd yma yn cael ei weinyddu gan ynadon yn y llysoedd bychain, o roddi trwyddedau at chwaryddiaethau, i weinyddu yr *Explosives Act*, ac i gario allan Act Llygriad Afonydd, 1876. Mae hon wedi ei bwriadu i attal aflanhau afonydd trwy arllwysion o drefydd neu fwngloddiau. Heblaw hyny y mae ganddynt allu i wrthwynebu, er nad i hyrwyddo ymlaen, fesurau yn y Senedd. Ni fyddai yn ddrwg genyf eu gweled yn cael y gallu olaf i'r dyben o wneyd rheilffyrdd a thramffyrdd mewn ardaloedd. Mae ganddynt allu hefyd i wneyd deddfau lleol, ac i benodi Swyddog Meddygol Iechyd. Yn awr pan y mae ein gwybodaeth am y fath anhwylderau â cholera, clefyd, diphtheria, a croup, gymaint yn gyflawnach nag mewn oesoedd o'r blaen, bydd o wasanaeth mawr i'r cyhoedd sicrhâu gwasanaeth gwyddonwyr medrus i archwilio achosion y fath anhwylderau, a rhoddi i bersonau unigol ac i gyrff cyhoeddus y budd o'u gwybodaeth. Mae yr Act hefyd yn cynnwys adranau yn rheoleiddio y defnydd o *bicycles* a *tricycles*.

Yr ydwyf yn awr yn dyfod at allu o r pwysigrwydd mwyaf oll, yr un i lywodraethu yr Heddlu, y *Police*. Gwelsom fod llywodraethiad achosion lleol yn yr hen amseroedd yn nwylaw yr ardal, neu y dref ddegwm. Yn

y dyddiau hyny yr oedd y cwnstabl yn ŵr o bwysigrwydd tra mawr, ac i lawer amcan yn brif ddyn y gymydogaeth. Fe gofir ei fod yn cael ei enwi fel un o'r personau a elwid i gario allan drefniadau deddf y pontydd, a'dwy neu dair cenedlaeth wedi dyddiad yr Act hono, dywedai Arglwydd Coke: "Mae cyfraith y wlad yn gofyn fod gan gwnstabl dri pheth; gonestrwydd i weinyddu ei swydd yn wirioneddol heb falais, cariad, na phleidgarwch; gwybodaeth i ddeall beth a ddylai yn briodol ei wneuthur; a gallu mewn amgylchiadau yn gystal ag mewn corff, fel y gallo amcanu at a gweinyddu ei swydd, pan fo angen, yn ddiwyd, ac nid o herwydd gwendid neu dlodi ei hesgeuluso." Sut bynag, y mae y swydd mewn amseroedd diweddar wedi ei thrawsffurfio yn dra thebyg fel y mae rhai eraill. Wedi i'r hen gwnstabliaid plwyfol ddyfod yn llai lai eu pwys—ac yr wyf yn ofni yn llai lai effeithiol, nid fe allai yn bersonol, ond i amcanion yn gofyn cydweithrediad dros gylch eang—y mae corff o gwnstabliaid sirol, wedi eu penodi trwy Act Seneddol, bron yn gwbl wedi cymeryd eu lle. Mae yr Heddlu sirol yma dan lywodraeth Prif Gwnstabl, penodedig gan yr ynadon, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifenydd Cartrefol. Mae hanner traul eu cyflog a'u dillad yn cael ei ddwyn gan y sir, a hanner trwy roddiad oddiwrth y Llywodraeth, yr hon a ellir attal os na fydd yr heddlu yn boddloni arolygwr y Llywodraeth. Yn awr mewn rhai manau y mae canlyniad y canoli yma ar yr heddlu wedi bod yn ddrwg mawr. Mae yr heddlu sirol wedi llithro i fod yn fath o gorff hanner-milwraidd, yn nerth oddiallan, yn cael edrych arnynt gan lawer fel yn cael eu cadw bron yn gymaint i ffrwyno rhyddid naturiol y bobl ag i attal neu gosbi troseddau. Mae yn dda genyf feddwl ein bod ni yn Sir Drefaldwyn wedi bod yn hollol rydd oddiwrth ddrygau o'r natur yna. Mae yr heddlu, yma, wedi cydweithredu yn y modd mwyaf calonog â'r bobl, a chael eu hystyried, fel y dylid eu hystyried, yn syml fel dineswyr wedi eu dewis o'n plith ein hunain, a'r ddyledswydd yn gorphwys arnynt o gadw trefn ac edrych ar ol eiddo, tra y mae y gweddill o honom yn myned o amgylch gyda'n helyntion. Yr oedd dadl fawr pan oedd y mesur o flaen y Senedd gyda golwg ar benodiad y Prif Gwnstabl. Cynnygid ar fod y Prif Gwnstabl, yn lle cael ei benodi gan yr Ynadon gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifenydd Cartrefol, a'r Ynadon yn cael gallu i'w ddiswyddo, yn cael ei benodi gan y Cynghor Sirol. Penderfynwyd y cwestiwn yn y diwedd trwy adael penodiad y Prif Gwnstabl a llywodraeth yr heddlu i Bwyllgor, yn cynnwys yr un nifer o aelodau o'r Cynghor Sirol ac o Ynadon y sir. Ar y Pwyllgor unedig hwn y mae y Brawdlys Chwarterol a'r Cynghor Sirol yn gadael yr holl gyfrifoldeb am benodiad a gwaith yr heddlu, yr hwn o'r blaen oedd yn gyfyngedig i'r Ynadon; a bydd gan y Pwyllgor yr un gallu gyda golwg ar Ysgrifenydd yr Heddwch ac Ysgrifenyddion y Llysoedd Bychain ag oedd gan yr Ynadon yn y Brawdlys Chwarterol o'r blaen. Buasai yn llawer iawn gwell pe buasai holl lywodraethiad yr Heddlu wedi ei drosglwyddo i'r Cynghor Sirol.

Yn olaf, heblaw y gallu a roddir gan yr Act ei hun, mae y Cynghor Sirol o hyn allan i weithredu dan yr *Allotments Act* a *Railway Rates Act*, 1888. Mae y gyntaf yn galluogi yr Awdurdod Iechyd yn y wlad a'r Cynghor Sirol ynghyd, i brynu tir trwy orfodaeth er mwyn darpar i weithwyr erddi a lleiniau, heb fod yn fwy nag acer mewn maint.

[illegible] Sirol, ymysg cyrff eraill, i [illegible] o'r *Railway and* [illegible] mater, gallaf grybwyll [illegible] Sirol yn Ngogledd Cymru [illegible]

Y [illegible] o gyllid. Y mae [illegible] yn y dyddiau hyn, [illegible] ddiweddaf, wedi [illegible] a thlodion eraill, [illegible], yr heddlu, [illegible] o osod holl faich [illegible] ar drethiad lleol [illegible] yma nid oedd dim [illegible] y rhai a delir gan [illegible] Senedd yr haf diweddaf [illegible] dderbyn yn [illegible] canlynol [illegible] £1726; swydd-ogion [illegible] y gweith-dai £5[illegible] meddyg-ol £3[illegible] cyfanswm o £5[illegible] wastraff, [illegible] yn fanwl ar [illegible] y teimlad o [illegible] Ni [illegible] fe dala [illegible] Cynghorau Sirol [illegible] masnach-[illegible] cerbydau, [illegible] Cynnyrchai [illegible] o £6426. [illegible] o leiaf [illegible] ar ein [illegible] Sirol i [illegible] Cymru oddi-wrth [illegible] per-[illegible] i'w rhanu [illegible] yn barod, [illegible] i tua [illegible] ewyll-[illegible] yn ol cyfar-[illegible] yn [illegible] yn lled [illegible] yr aelodau [illegible] yr awr wedi [illegible] y [illegible] yr Exchequer [illegible] y cyllid; [illegible] ar Awdurdodau [illegible] y Llywodr-

aeth at gyflogau athrawon, swyddogion meddygol, ac arolygwyr budreddi, cofrestrwyr bedyddiadau a marwolaethau, a gwallgofiaid plwyfol; a hefyd daliadau newyddion—sef y tâl am addysg plant a anfonir o'r tlottŷ i ysgolion elfenol, cyflogau swyddogion yr Undebau, a'r draul i'r cyrff hyny am gyfferi a darpariaethau meddygol.

O'r un cyllid y maent hefyd i drosglwyddo i gyfrif heddlu y sir, ac unrhyw fwrdeisdref o'i mewn sydd yn meddu heddlu ar wahan, hanner traul cyflog a dillad yr heddlu; ac y mae y gweddill i gael ei ranu rhwng y sir a bwrdeisdrefi y Brawdlys Chwarterol o'i mewn, neu lle na bo bwrdeisdref felly, rhwng Awdurdodau Iechyd y sir. Heblaw y cyfraniadau hyn, fe barha y Cynghor i dalu allan o drethoedd y sir a'r heddlu, ac oddiwrth eu derbyniadau amrywiol, y gweddill o draul yr heddlu, holl draul cadwraeth ac arolygiaeth y prif-ffyrdd a phontydd y sir, eu rhan o draul adeilad y gwallgofdŷ, llôg a rhandal cyfanswm y ddyled sirol, cyflogau swyddogion sirol, yn cynnwys ysgrifenyddion yr ynadon, ac ychydig dreuliau eraill. Mae yn ddrwg genyf ddyweyd fod yn anmhosibl rhoddi amcandŷb o'r ymwared i'r trethdalwyr dan y trefniadau hyn, ond nid ydwyf yn dysgwyl y bydd yn fawr.

Wrth derfynu, mi nodaf rai o'r pethau ymha rai y mae eisieu gwella yr Act. I ddechreu, fe gydnabyddir ei bod yn anghyflawn. Fe unir Awdurdodau Iechyd, Byrddau Prif-ffyrdd, a Gwarcheidwaid Tlodion, cyn bo hir iawn, i Gynghorau Rhanbarthol. Gan fod terfynau y sir ac eiddo Undebau Deddf y Tlodion yn rhedeg i'w gilydd, fe fydd hyn yn fater o beth anhawsder; ond fe'i cyfarfyddir yn lled dda gan adran 50, dan ba un y gellir dosranu Undebau i'r amcan o roddi cymhorth oddi allan, tra yn parhau i gael yr un Tlottŷ i'w tlodion oddi fewn. Dylid adfywhau galluoedd y plwyf, sydd yn awr yn nghwsg, i drefnu ei helyntion ei hun, oblegid er y gellir yn awr wneyd yn well yr hyn oedd gynt yn waith y plwyf gan Gynghor y Rhanbarth neu y Sir, eto nid all fod neb gwell i ofalu am elusenau ac addysg elfenol y plwyf na'r rhai sydd yn trigo ynddo. Eto, yr oedd yr egwyddor y dylai y wlad gael gallu ar drwyddedu tafarnau yn cael eu chydnabod yn y *Bill* fel y dygwyd ef i fewn gyntaf, er i'r Llywodraeth dynu yn ol yr holl adranau trwyddedol oblegid fod y deyrnas yn gwrthdystio yn erbyn y *compensation* a gynnygiai. Mae yr egwyddor y dylai y bobl gael llywodraeth ar y fasnach feddwol yn cael ei chydnabod yn awr gan yr holl bleidiau, a thybia llawer y gellid, fe allai, ymddiried y ddyledswydd i'r Cynghorau Sirol, er yn wrthwynebol i'r cynllun o ad-daliad a gynnygid ar y dechreu. Mewn rhyw ddull rhaid i gymhwysiad yr egwyddor hon fod yn un o ddiwygiadau cyntaf ein llywodraeth gartrefol. Ac fel y mae yr Act yn sefyll, y mae Addysgiaeth yn cael ei adael allan yn gwbl o waith y Cynghorau. Mae hyn yn ymddangos yn ddiffyg mawr. Yr wyf yn credu y gwnaent waith da fel cyrff llywodraethol Ysgolion Canolraddol, y rhai y cytunir bellach gan y ddwyblaid y dylid eu sefydlu yn Nghymru. Yn olaf, yr ydwyf yn hyderu y byddant yn barod, pan ddaw yr amser, i weithredu ar awgrymiad Mr. Morley, a thrwy gyfrwng pwyllgorau unedig, ddadblygu i'r Dywysogaeth oll, drefniad o'r fath urddas ac effeithiolrwydd ag a alluogo bobl Cymru i drin drostynt eu hunain bob achosion ag a fyddo yn perthyn yn unig i Gymru.

# EPISTOLAU IOAN YR APOSTOL.*

## I.

1 Yr hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn yr ydym
wedi ei glywed, yr hyn yr ydym wedi ei weled
â'n llygaid, yr hyn yr edrychasom arno, ac y
2 [illegible] am air y bywyd; canys y
bywyd a amlygwyd, ac yr ydym wedi gweled ac
yn tystiolaethu ac yn mynegu i chwi y bywyd
[2]tragwyddol yr hwn oedd [3]gyda'r Tad ac a am-
3 lygwyd i ni. Yr hyn yr ydym wedi ei weled ac
wedi ei glywed yr ydym yn ei fynegu i chwithau
hefyd, fel y caffoch chwithau hefyd gymdeithas
gyda ni: a'n cymdeithas ni hefyd sydd gyda'r
4 Tad, a chyda'i Fab Iesu Grist. A'r pethau hyn
yr ydym ni yn eu hysgrifenu fel y byddo [4]ein
llawenydd wedi ei gyflawni.

5 A hon yw y genadwri yr hon yr ydym wedi ei
chlywed ganddo, ac yn ei hadrodd i chwi: Mai
goleuni yw Duw, ac nad oes ynddo ddim tywyllwch.
6 Os dywedwn fod i ni gymdeithas âg ef a rhodio
yn y tywyllwch, [6]celwyddog ydym, ac nid ydym
7 yn gwneuthur y gwirionedd: ond os yn y goleu-
ni y rhodiwn, fel y mae efe yn y goleuni, y mae
i ni gymdeithas â'n gilydd, a gwaed Iesu ei
Fab ef sydd yn ein glanhau oddiwrth bob pechod.
8 Os dywedwn nad oes genym bechod yr ydym yn
ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw
9 ynom. Os cyffeswn ein pechodau, ffyddlawn
yw a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein [8]pechodau,
ac y'n glanhao oddiwrth bob anghyfiawnder.
10 Os dywedwn nad ydym wedi pechu, yr ydym yn
ei wneuthur ef yn [10]gelwyddog, a'i air nid yw
II. ynom. Fy mhlant bychain, y pethau hyn yr
wyf yn eu hysgrifenu atoch fel na phechoch.
Ac os pecha neb y mae genym [1]Eiriolwr
2 gyda'r Tad, Iesu Grist y [2]cyfiawn. Ac y
mae efe yn iawn am ein pechodau: ac nid
am ein rhai ni yn unig, eithr hefyd am yr
3 holl fyd. Ac yn hyn y gwyddom ein bod yn ei
4 adnabod, os cadwn ei orchymynion. Yr hwn

1 Neu, a gyfranogasom. [illegible]
2 Gr. y bywyd y [illegible] tragwyddol.
3 Gr., yng at.
4 [illegible] ein cymdeithas ni [illegible] hefyd ni.
5 Gair hefyd [illegible]
6 Gr. yr ydym yn [illegible] celwyddog.
7 Gr., gwneud.
8 Neu, yr [illegible]
9 Neu y pechodau.
10 Gr., yn gelwyddog.
1 Neu, [illegible]
2 [illegible]
3 [illegible]
4 Neu, wedi ei adnabod.

* [illegible] a adnabyddir hi; y mae wedi ei newid gan yr [illegible] dechreuadau arall.

sydd yn dywedyd, Mi [5]a'i hadwaen, ac nid yw
yn cadw ei orchymynion, [6]celwyddog yw, a'r
5 gwirionedd nid yw yn hwn. Ond pwy bynag a
gadwo ei air ef, yn wir yn hwn y mae cariad
Duw wedi ei berffeithio: yn hyn y gwyddom ein
6 bod ynddo [7]ef. Yr hwn sydd yn dywedyd ei
fod yn aros ynddo ef a ddylai yntau hefyd rodio
megys ag y rhodiodd [8]ef.
7 Anwylyd, nid gorchymyn newydd yr wyf yn ei
ysgrifenu atoch, eithr gorchymyn hen yr hwn oedd
genych o'r dechreuad. Y gorchymyn hen yw y
8 gair a glywsoch. Trachefn, gorchymyn newydd
yr wyf yn ei ysgrifenu atoch, yr hyn sydd wir
ynddo ef ac ynoch chwithau: oblegid y tywyll-
wch sydd yn myned heibio, [8a]a'r gwir oleuni sydd
9 eisoes yn tywynu. Yr hwn sydd yn dywedyd
ei fod yn y goleuni ac sydd yn casâu ei frawd,
10 yn y tywyllwch y mae hyd yr awr hon. Yr
hwn sydd yn caru ei frawd, yn y goleuni y mae
11 yn aros, ac achos rhwystr nid oes ynddo. Ond
yr hwn sydd yn casâu ei frawd, yn y tywyllwch
y mae, ac yn y tywyllwch y mae yn rhodio; ac
ni ŵyr i ba le y mae [9]yn myned, oblegid y ty-
wyllwch a ddallodd ei lygaid.
12 Ysgrifenu yr wyf atoch chwi, blant bych-
ain, am fod eich pechodau wedi eu maddeu
13 i chwi drwy ei enw. Ysgrifenu yr wyf atoch
chwi, dadau, am eich bod [10]yn adnabod yr
hwn sydd o'r dechreuad. Ysgrifenu yr wyf
atoch chwi, wŷr ieuainc, am eich bod wedi
gorchfygu yr un drwg. Ysgrifenais atoch chwi,
rai bychain, am eich bod [10]yn adnabod y Tad.
14 Ysgrifenais atoch chwi, dadau, am eich bod
[10]yn adnabod yr hwn sydd o'r dechreuad. Ys-
grifenais atoch chwi, wŷr ieuainc, am eich bod
yn gryfion, a bod gair Duw yn aros ynoch, a'ch
15 bod wedi gorchfygu yr un drwg. Na cherwch
y byd na'r pethau *sydd* yn y byd. O châr
neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo.
16 Canys pob peth a'r sydd yn y byd, chwant
y cnawd, a chwant y llygaid, a [10a]balch hyder y
bywyd, nid yw o'r Tad, eithr o'r byd y mae.
17 A'r byd sydd yn myned heibio, a'i chwant: ond
yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw sydd yn
18 aros yn dragywydd. Blant bychain, [11]awr ddi-
weddaf ydyw: ac megys y clywsoch fod ang-
hrist yn dyfod, yr awrhon hefyd anghristiau
lawer sydd wedi cyfodi; oddiwrth yr hyn y
19 gwyddom mai [11]awr ddiweddaf ydyw. O honom
ni yr aethant allan, eithr nid oeddynt o honom:

5 Neu, yr wyf wedi ei adnabod.
6 Gr., celwyddwr.
7 Neu, mai ynddo ef yr ydym.
8 ἐκεῖνος, hwnw.
8a Gr., y goleuni y gwir (oleuni), neu y goleuni sydd wir.
9 Neu, yn ymadael, yn myned ymaith.
10 Neu, wedi adnabod.
10a Neu, gwag-ogoniant.
11 Neu, yr awr.

canys pe buasent o honom, hwy a arosasent
gyda ni: eithr *hyn a fu fel y gwnelid hwy yn*
20 amlwg [12]nad ydynt oll o honom. Ac y mae
genych chwi eneiniad oddiwrth y Sanctaidd,
21 a [12a]gwyddoch bob peth. Ni ysgrifenais atoch
oblegid na wyddoch y gwirionedd, eithr
eithr oblegid eich bod yn ei wybod, ac nad yw
22 un celwydd o'r gwirionedd. Pwy yw y [13]cel-
wyddog ond yr hwn sydd yn gwadu mai Iesu
yw y Crist? Hwn yw yr anghrist, yr hwn
23 sydd yn gwadu y Tad a'r Mab. Pob un a'r sydd
yn gwadu y Mab, nid yw y Tad ganddo chwaith:
yr hwn sydd yn cyffesu y Mab, y mae y Tad
24 ganddo hefyd. Chwychwi, arhosed ynoch
yr hyn a glywsoch o'r dechreuad. Od erys
ynoch yr hyn a glywsoch o'r dechreuad,
chwithau hefyd a [14]arhoswch yn y Mab ac
25 yn y Tad. A hon yw yr addewid a addaw-
odd [14a]efe i [15]ni, y [16]bywyd tragywyddol. Y
26 pethau hyn a ysgrifenais atoch yn nghylch
27 y rhai sydd yn peri i chwi [17]gyfeiliorni. A
chwychwi, yr eneiniaid a dderbyniasoch ganddo
sydd yn aros ynoch, ac nid oes arnoch eisieu
dysgu o neb chwi: eithr fel y mae ei eneiniad
ef yn eich dysgu am [18]bob peth, a gwir yw, ac
nid yw gelwydd, ac megys y'ch dysgodd [19]yr
28 arhoswch ynddo. Ac yr awrhon, blant bychain,
arhoswch ynddo; fel, os [20]amlygir ef, y byddo
hyfder genym, ac na chywilyddiom [21]oddiger ei
29 fron yn ei [22]ddyfodiad. Os gwyddoch [23]ei fod
yn gyfiawn, [24]chwi a wyddoch [25]mai pob un
hefyd a'r sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd
wedi ei eni o hono.
III. Gwelwch pa fath gariad y mae y Tad wedi
ei roddi i ni, fel y'n gelwid yn blant Duw: ac
*felly* yr ydym. Oblegid hyn nid yw y byd
yn ein hadwaen, oblegid nad adnabu efe ef.
2 Anwylyd, yr awrhon plant Duw ydym, ac nid
amlygwyd eto beth a fyddwn; gwyddom, os
[1]amlygir [2]*ef*, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid
3 cawn ei weled ef megys ag y mae. A phob un
a'r sydd ganddo y gobaith hwn arno, sydd yn ei
4 buro ei hun, megys y mae [2a]yntau yn bur. Pob
un a'r sydd yn gwneuthur pechod sydd yn
gwneuthur anghyfraith hefyd: ac anghyfraith
5 yw pechod. A gwyddoch [3]ymddangos o hono
ef, fel y tynai ymaith bechodau: ac ynddo ef
6 nid oes pechod. Pob un a'r sydd yn aros ynddo,
nid yw yn pechu; pob un a'r sydd yn pechu,
7 nid yw wedi ei weled [4]na'i adnabod. Blant

12 Neu, nad yw pawb o honom.
12a Neu, gwyddoch oll.
13 Gr., Celwyddwr, un celwyddog.
14 Amser dyfodol.
14a Neu, efe ei hun.
15 Rhai Llawysg., chwi.
16 Gr., Y bywyd y tragywyddol, neu sydd dragywyddol.
17 Neu, yn eich twyllo.
18 Neu, bawb.
19 Amser presennol. Neu, arhoswch ynddo.
20 Neu, ymddangoso efe.
21 Gr., oddiwrtho.
22 Neu, bresennoldeb
23 Neu, mai cyfiawn yw.
24 Neu, gwybyddwch
25 Neu, fod pob un hefyd a'r sydd yn gwneuthur cyfiawnder wedi ei eni o hono.

1 Neu, os ymddengys.
2 Person, neu beth.
2a ἐκεῖνος, hwnw.
3 Neu, ddarfod ei amlygu.
4 Neu, nac yn ei adnabod.

bychain, [5]na chaffed neb eich arwain ar gyf-
eiliorn: yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawn-
der sydd gyfiawn, megys y mae [5a]efe yn gyfiawn.
8 Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod, o'r diafol y
mae; canys y mae y diafol yn pechu o'r de-
chreuad. I hyn yr [6]ymddangosodd Mab Duw,
9 fel y dattodai weithredoedd y diafol. Pob un a'r
sydd wedi ei genedlu o Dduw, nid yw yn
gwneuthur pechod; oblegid ei had *ef* sydd yn aros
ynddo, ac ni all bechu, [7]o herwydd o Dduw y
10 mae wedi ei genedlu. Yn hyn y mae yn amlwg
plant Duw, a phlant y diafol: pob un nad yw yn
gwneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw, na'r hwn
11 nid yw yn caru ei frawd. Oblegid hon yw y
genadwri a glywsoch o'r dechreuad, bod i ni
12 garu ein gilydd. Nid megys yr oedd Cain o'r
un drwg, ac y lladdodd ei frawd. Ac o achos pa
beth y lladdodd efe ef? Oblegid fod ei weith-
redoedd yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn gyfiawn.
13 Na ryfeddwch, frodyr, os eich casâu y
14 mae y byd. Nyni a wyddom ein bod wedi
[8]symud o farwolaeth i fywyd, [8a]oblegid ein bod
yn caru y brodyr. Yr hwn nid yw yn caru sydd
15 yn aros yn marwolaeth. Pob un a'r sydd yn
casâu ei frawd, lleiddiad dyn yw: a gwyddoch
nad oes gan neb lleiddiad dyn fywyd tragywydd-
16 ol yn aros ynddo. Yn hyn yr ydym [9]yn ad-
nabod cariad, oblegid dodi o hono [9a]ef ei [10]einioes
drosom: a ninnau a ddylem ddodi ein [11]heinioes
17 dros y brodyr. Ond pwy bynag fyddo ganddo
[12]dda y byd, ac a welo ei frawd mewn eisieu ac
a gauo ei [13]dosturi oddiwrtho, pa fodd y mae
18 cariad Duw yn aros ynddo? Blant bychain, na
charwn ar air, nac â'r tafod, eithr mewn gweith-
19 red a gwirionedd. Yn hyn y [14]cawn wybod
[15]ein bod o'r gwirionedd, ac y [16]sicrhawn ein
20 calon ger ei fron yn mha beth bynag y byddo
i'n calon ein condemnio, canys mwy yw Duw na'n
21 calon, ac y mae yn gwybod bob peth. Anwylyd,
os [17]ein calon ni'n condemnia, y mae genym hyfder
22 tuag at Dduw, a pha beth bynag a ofynom, yr
ydym yn ei dderbyn ganddo; oblegid [18]ein bod
yn cadw ei orchymynion, ac yn gwneuthur y
23 pethau sydd yn rhyngu bodd yn ei olwg. A
hwn yw ei orchymyn: credu o honom i enw ei
Fab Iesu Grist, a charu ein gilydd, megys y
24 rhoes orchymyn i ni. A'r hwn sydd yn cadw ei
orchymynion sydd yn aros ynddo, ac yntau
ynddo ef. Ac yn hyn [19]y gwyddom ei fod yn
aros ynom, *sef* o'r ysbryd a roddes i ni.

5 Neu, na thwylled neb chwi.
5a ἐκεῖνος.
6 Neu, yr amlygwyd.
7 Neu, am mai o Dduw y mae wedi ei genedlu.
8 Neu, trawsfudo.
8a Neu, oblegid yr ydym yn.
9 Neu, wedi adnabod.
9a ἐκεῖνος, hwnw.
10 Neu, enaid, bywyd.
11 Neu, eneidiau, bywydau.
12 Neu, bywyd, adnoddau, moddion bywyd.
13 Gr., ymysgaroedd.
14 Gr., amser dyfodol.
15 Neu, mai o'r gwirionedd yr ydym.
16 Neu, perswadiwn.
17 Neu, y galon.
18 Neu, yr ydym.
19 Neu, yn hyn gwyddom.

1 [illegible]
[illegible]
[illegible]
2 [illegible]
[illegible]
[illegible]
3 [illegible]
[illegible]
[illegible]
4 [illegible]
[illegible]
[illegible]
5 [illegible]
hwy, o'r byd y maent [illegible] y llefarant, a'r byd [illegible] yn eu gwrandaw.
6 Nyni, o Dduw yr ydym. Yr hwn sydd yn
adnabod Duw sydd yn ein gwrandaw: yr hwn
nid yw o Dduw nid yw yn ein gwrandaw.
Oddiwrth hyn yr adwaenom ysbryd y gwirionedd,
ac ysbryd y cyfeiliorni.
7 Anwylyd, carwn ein gilydd: oblegid cariad o
Dduw y mae: a phob un a'r sydd yn caru, o
Dduw y mae wedi ei genedlu, ac y mae yn
8 adnabod Duw. Yr hwn nid yw yn caru nid
9 adnabu Dduw: oblegid Duw cariad yw. Yn
hyn yr [8]amlygwyd cariad Duw [7]ynom, [8]oblegid
fod Duw wedi anfon ei [9]Unig-anedig Fab
10 i'r byd fel y byddom byw trwyddo. Yn
hyn y mae cariad, nid [10]ddarfod i ni garu
Duw, eithr [11]ddarfod iddo Ef ein caru ni, ac
11 anfon ei Fab yn iawn am ein pechodau. Anwyl-
yd, os felly y carodd Duw ni, ninnau hefyd a
12 ddylem garu ein gilydd. [12]Ni welodd neb
Dduw erioed. Os carwn ein gilydd y mae
Duw yn aros ynom, ac y mae ei gariad wedi ei
13 berffeithio ynom. Yn hyn [13]y gwyddom ein bod
yn aros ynddo, ac efe ynom ni, am ei fod wedi
14 rhoddi i ni o'i Ysbryd. Ac yr ydym ni wedi
gweled ac yn tystiolaethu fod y Tad wedi anfon
15 [14]y Mab yn Waredwr y byd. Pwy bynag a
gyffeso mai Iesu yw Mab Duw, y mae Duw yn
16 aros ynddo, ac yntau yn Nuw. Ac yr ydym ni
wedi adnabod a chredu y cariad sydd gan Dduw
[15]ynom. Duw cariad yw, a'r hwn sydd yn aros
mewn cariad sydd yn aros yn Nuw, ac y mae
17 Duw yn aros ynddo ef. Yn hyn y mae cariad
wedi ei berffeithio gyda ni, fel y caffom hyfder
yn nydd y farn; oblegid megys ag y mae [16]efe,
18 yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn. Ofn nid
oes mewn cariad, eithr y mae perffaith gariad

[illegible]

14 Neu, ei Fab

15 Neu, yn ein hachos

16 Gwel, hwnw.

yn bwrw allan ofn; oblegid y mae i ofn
[17]gosbedigaeth. A'r hwn sydd yn ofni nid yw
19 wedi ei berffeithio mewn cariad. Yr ydym ni
yn caru am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.
20 Os dywed neb, Yr wyf yn caru Duw, a chasâu
ei frawd, [18]celwyddog yw; canys yr hwn
nid yw yn caru ei frawd yr hwn [19]a welodd,
21 [20]nis gall garu Duw yr hwn [21]ni welodd. A'r
gorchymyn hwn sydd genym oddiwrtho ef,
Bod i'r hwn sydd yn caru Duw, garu ei frawd
hefyd.
V. Pob un a'r sydd yn credu mai Iesu yw y
Crist, o Dduw y mae wedi ei genedlu: a phob
un a'r sydd yn caru yr hwn a genedlodd sydd
yn caru hefyd yr hwn sydd wedi ei genedlu o
2 hono. Yn hyn y gwyddom ein bod yn caru
plant Duw, pan fyddom yn caru Duw, ac yn
3 gwneuthur ei orchymynion. Canys hyn yw
cariad Duw, bod i ni gadw ei orchymynion;
4 a'i orchymynion nid ydynt drymion. Oblegid
pob peth a'r sydd wedi ei genedlu o Dduw
sydd yn gorchfygu y byd; a hon yw yr [1]oruch-
5 afiaeth a orchfygodd y byd, ein ffydd. [2]Ond
pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd ond
yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw?
6 Hwn yw yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed,
Iesu Grist; nid [3]yn y dwfr yn unig, eithr [3]yn y
dwfr ac [4]yn y gwaed. A'r Ysbryd yw [5]yr hyn
sydd yn tystiolaethu, oblegid yr Ysbryd yw y
7 8 gwirionedd. Oblegid tri yw y rhai sydd yn
tystiolaethu, yr ysbryd, a'r dwfr, a'r gwaed; a'r
9 tri [6]i'r un y maent. [7]Os tystiolaeth dynion yr
ydym yn ei derbyn, tystiolaeth Duw sydd fwy:
canys hon yw tystiolaeth Duw, [8]ei fod wedi
10 tystiolaethu am ei Fab. Yr hwn sydd yn credu
i Fab Duw sydd ganddo y dystiolaeth ynddo *ei hun*: yr hwn nid yw yn credu i Dduw sydd
wedi ei wneuthur ef yn [9]gelwyddog, oblegid
[10]nad yw wedi credu i'r dystiolaeth yr hon y
11 mae Duw wedi ei thystiolaethu am ei Fab. A
hon yw y dystiolaeth, roddi o Dduw i ni fywyd
tragywyddol; a'r bywyd hwn [11]sydd yn ei Fab.
12 Yr hwn y mae y Mab ganddo y mae y bywyd
ganddo; yr hwn nid yw Mab Duw ganddo, nid
yw y bywyd ganddo.
13 Y pethau hyn a ysgrifenais atoch fel y
gwypoch fod genych fywyd tragywyddol, *sef* at y
14 rhai sydd yn credu [12]i enw Mab Duw. A hyn
yw yr hyfder sydd genym tuag ato, os gofynwn
ddim yn ol ei ewyllys, ei fod yn ein gwrandaw.

17 Neu, gerydd.
18 Gr., Celwyddwr, un celwyddog.
19 Gr., Yr hwn y mae wedi ei weled.
20 Yn ol Llawysgrif. eraill, Pa fodd y gall?
21 Gr., yr hwn nid yw wedi ei weled.
1 Y fuddugoliaeth, y gorchfygiad.
2 Neu, A phwy.
3 Neu, mewn dwfr.
4 Neu, mewn gwaed.
5 Neu, yr hwn.
6 Felly y Groeg., Cyf. Cym., Cyf. Awd., a Chyf. yr Adolygwyr—*yn un y maent yn cytuno.*
7 Neu, os ydym yn derbyn tystiolaeth dynion.
8 Neu, am ei fod wedi, neu, canys y mae wedi.
9 Gr., Un celwyddog.
10 Neu, nid.
11 Neu, yn ei Fab y mae.
12 *eis.*

15 Ac os gwyddom ei fod yn ein gwrandaw, pa beth
bynag a ofynom, gwyddom [13]ein bod yn cael [14]y
16 pethau yr ydym wedi eu gofyn ganddo. Os
gwel neb ei frawd yn pechu pechod nad yw i
farwolaeth efe a ofyna, ac [15]a rydd iddo fywyd,
i'r rhai sydd yn pechu nid i farwolaeth. Y mae
pechod i farwolaeth: nid am hwnw yr wyf yn
17 dywedyd ar ddeisyf o hono. Pob anghyfiawnder,
pechod yw; ac y mae pechod nid i farwolaeth.
18 Gwyddom nad yw neb sydd wedi ei genedlu
o Dduw yn pechu; eithr y mae yr hwn a
genedlwyd o Dduw yn ei gadw ei hun, a'r un
19 drwg nid yw yn cyffwrdd âg ef. Gwyddom
[16]ein bod o Dduw, a'r byd oll yn yr un drwg y
20 mae yn gorwedd. [16a]Ond gwyddom fod Mab
Duw wedi dyfod, ac wedi rhoddi i ni ddeall, fel
yr adnabyddom yr hwn sydd wir; ac yr ydym
yn yr hwn sydd wir, yn ei Fab, Iesu Grist.
Hwn yw y gwir Dduw, a bywyd tragywyddol.
21 Blant bychain, [17]ymogelwch rhag eilunod.

13 Neu, *fod genym.*
14 Gr., *Y gofynion, neu ddeisyfiadau.*
15 Neu, *efe a rydd.*
16 Neu, *mai o Dduw yr ydym.*
16a Neu, *A gwyddom, neu, Gwyddom.*
17 Gr., *Gwyliwch eich hunain.*

---

## II.

1 Yr henuriad, at etholedig arglwyddes a'i phlant,
y rhai yr wyf fi yn eu caru mewn gwirionedd,
ac nid myfi yn unig, eithr pawb hefyd sydd [1]wedi
2 adnabod y gwirionedd, er mwyn y gwirionedd,
yr hwn sydd yn aros ynom, a chyda ni y bydd yn
3 dragywydd. Bydd gyda ni ras, trugaredd,
tangnefedd, oddiwrth Dduw Dad, ac oddiwrth
Iesu Grist, Mab y Tad, mewn gwirionedd a chariad.
4 [2]Bu lawen iawn genyf fy mod wedi cael o'th
blant *rai* yn rhodio mewn gwirionedd, megys y
5 derbyniasom orchymyn oddiwrth y Tad. Ac yn
awr yr wyf yn deisyf arnat, arglwyddes, nid
megys yn ysgrifenu atat orchymyn newydd, eithr
yr hwn sydd genym o'r dechreuad, garu o honom
6 ein gilydd. A hyn yw cariad: bod i ni rodio
yn ol ei orchymynion. Hwn yw y gorchymyn,
megys y clywsoch o'r dechreuad, fod i chwi
7 rodio ynddo. Oblegid llawer o dwyllwyr a
aethant allan i'r byd, rhai nid ydynt yn cyffesu
[3]fod Iesu Grist yn dyfod mewn cnawd. Hwn
8 yw y twyllwr a'r anghrist. Edrychwch arnoch
eich hunain, fel na [4]cholloch y pethau a weith-
9 iasom, ond bod i ni dderbyn llawn wobr. Pob

1 Neu, *yn adnabod.*
2 Neu, *Yr wyf yn llawenychu yn fawr.*
3 Neu, *Iesu Grist (fel, neu, yn un) yn dyfod.*
4 Neu, *ddinystrioch.*

un a'r sydd yn [5]myned o'r blaen, ac heb aros yn
nysgeidiaeth Crist, nid yw Duw ganddo. Yr
hwn sydd yn aros yn y ddysgeidiaeth, hwnw y
10 mae y Tad a'r Mab ganddo. Od oes neb yn
dyfod atoch, ac heb ddwyn y ddysgeidiaeth hon,
na dderbyniwch ef i dŷ, ac na chyferchwch well
11 iddo. Canys yr hwn sydd yn cyfarch gwell
iddo sydd yn cyfranogi o'i weithredoedd drwg.
12 Er bod genyf lawer o bethau i'w hysgrifenu
atoch nid ewyllysiais ysgrifenu â phapyr ac inc:
eithr gobeithio yr ydwyf [6]fod gyda chwi, a
llefaru [7]wyneb yn wyneb, fel y byddo eich
13 llawenydd wedi ei gyflawni. Y mae plant dy
chwaer etholedig yn dy anerch.

5 Yr un gair ag yn Luc xviii. 39.
6 Neu, ddyfod atoch.
7 Gr., enau wrth enau.

---

## III.

1 Yr henuriad at Gaius yr anwylyd, yr hwn yr
wyf yn ei garu mewn gwirionedd.
2 Anwylyd, [1]yr wyf yn gweddïo ar dy fod gyda
phob peth yn llwyddo ac yn iach, megys y mae
3 dy enaid yn llwyddo. Canys llawenychais yn
fawr pan ddaeth brodyr a thystiolaethu i dy
4 wirionedd, megys yr wyt ti yn rhodio mewn
gwirionedd. Mwy [2]llawenydd na'r pethau hyn
nid oes genyf, *sef* clywed fod fy mhlant fy hun
yn rhodio yn y gwirionedd.
5 Anwylyd, [3]ffyddlawn yr wyt yn gwneuthur,
pa beth bynag yr wyt yn ei weithio tuag at y
6 brodyr, a thuag at [4]ddyeithriaid hefyd, y rhai a
dystiolaethasant i dy gariad di ger bron yr
eglwys; y rhai da y [5]gwnei os hebryngi yn deilwng
7 o Dduw. Canys er mwyn [6]yr enw yr aethant
allan, heb gymeryd dim oddiwrth y cenedl-
8 oedd. Nyni, gan hyny, a ddylem groesawu
y cyfryw rai, fel y delom yn gydweithwyr â'r
gwirionedd.
9 Ysgrifenais [7]ychydig at yr eglwys; eithr yr hwn
sydd yn chwennych y blaen yn eu plith, Dio-
10 trephes, nid yw yn ein derbyn. O herwydd
hyn, os deuaf, dygaf ar gof ei weithredoedd y
rhai y mae yn eu gwneuthur, gan wag-siarad i'n
herbyn â geiriau drygionus: ac heb fod yn
foddlawn ar y pethau hyny, nid yw efe ei hun
ychwaith yn derbyn y brodyr; a'r rhai sydd yn

1 Gr., ynghylch pob peth, neu, am bob peth yr wyf yn gweddïo ar dy fod.
2 Neu, gras.
3 Neu, sicr.
4 A hwy yn ddyeithriaid.
5 Gr., amser dyfodol.
6 Neu, ei enw.
7 Gr., rywbeth.

8 Neu, rhwystro.

ewyllysio y mae yn eu [8]gwahardd, ac yn eu
11 bwrw allan o'r eglwys. Anwylyd, na ddynwared
yr hyn sydd ddrwg, ond yr hyn sydd dda. Yr
hwn sydd yn gwneuthur da o Dduw y mae:
yr hwn sydd yn gwneuthur drwg nid yw
12 wedi gweled Duw. I Demetrius y mae tystiol-
aeth wedi ei dwyn gan bawb, a chan y gwirion-
edd ei hun: a ninnau hefyd ydym yn tystiol-
aethu; a gwyddost fod ein tystiolaeth yn
wir.
13 Llawer o bethau oedd genyf i'w hysgrifenu atat,
14 ond ni fynaf ysgrifenu atat âg inc a phin, ond
gobeithio yr ydwyf dy weled ar fyrder, ac ni a
15 ymddyddanwn [9]wyneb yn wyneb. Tangnefedd
i ti. Y mae y cyfeillion yn dy anerch. Anerch
y cyfeillion wrth eu henwau.

9 Gr. enau wrth enau.

ELLIS EDWARDS.

---

# Y PASG YN YR AIPHT.

MACHLUDA 'r haul, gan baentio 'r gorwel claer,
A lliwio ar y môr ei heol aur,
Fel rhyw gysgodlun gwan o'r heol hyfryd
Sy 'n aur i gyd, trwy ganol Tir y Bywyd,
Ac Israel Duw, yn rhydd o'u Haipht-ofidiau
'N myn'd drosti ar dragwyddol orymdeithiau.

Machludiad haul dydd olaf eu caethiwed
Yw toriad gwawrddydd cyfnod eu heidduned!

Pan sudda ef yn nghochni tòn a gwybr,
Dangosa newydd waredigol lwybr.
Yr haul yn machlud dros y llewin porphor
Yw Baner arwyddluniol eu Priodor,
I ddangos iddynt ar y fynyd hono,
Ddechreuad Goruchwyliaeth newydd yno.
A thybia Moses fod y gloew huan
Ar fin y gorwel pell yn ceisio llercian,
Er mwyn cael golwg ar yr Aberth gloew,
A chyntaf Oen y Pasc, yn awr yn marw!
Ond sudda 'r haul gan gochi 'r du gymylau,
A rhudda gwaed yr ŵyn wedd Gosen hithau.
Cred ein dychymyg fod rhyw fardd Hebrëig
Yn eistedd wrtho 'i hun ar lanerch unig,

Yn gwylio 'r haul yn rhoi ei gusan olaf
Ar dyrau hyf y Pyramidiau uchaf.
Yn gollwng yno ei deimladau allan,
A'i deimlad ef yw teimlad cenedl gyfan :—

"Sŵn y deadelloedd mawrion,
Ydyw ein peroriaeth wir;
Sydd yn llwytho 'r nos awelon
Grwydrant trwy ein hymdaith dir;
Pan ddystawodd cân yr adar,
Pan aeth lleisiau 'r Aipht yn fud,
Clywid cerdd brefiadau achar
Wyn a defaid yn ein tud.

"Dirmyg Israel oedd y defaid,
Meddai ein gormeswyr cas;
A gwatworid ni 'r Bugeiliaid
Hoffwyr praidd y doldir glâs;
Er mai Canaan yw ein cartref,
Er mai Abram yw ein Tad,
Rhaid oedd ini hir ddyoddef
Gwarth-nod bugail yn y wlad!

"Ond er hyny, ŵyn a defaid
Ddilynasom yn ein haidd;
Canys credem mai bendigaid
Fyddai perchenogion praidd;
Erbyn heddyw Duw ei hunan
Dremiodd i'n calonau llawn,
Ac a nododd i ni allan,
Oen y Pasg yn aberth iawn!

"Dyma olaf ddydd ein hymdaith
Yn yr Aipht gaethiwus hon;
Mwy na phedair canrif hirfaith
Ledant yma, ger fy mron;
Ie, hanes y Ddynoliaeth,
Roddir megys o dan wasg,
Yn nechreuad Goruchwyliaeth
Eglwys Ior, trwy Oen y Pasg!"

Gwaed, gwaed,
Diniwed waed yr ŵyn, yn awr a gaed
Yn rhuddo Gosen, ac yn lliwio 'r tai
Yn arwydd "Bywyd," er pob poen a bai;
Nid seremoni wag, na gau addoliad chwaith,
Ac nid chwedlonol arfer oesau maith
Yw hon,—fod dyn yn dyfod gyda 'r hwyr,
A'r cawg a'r isop i borphori 'n llwyr
Ystlysau 'r drws a'r capan uwch ei ben,
Ond newydd ddefod yw wrth arch y Nen.

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

Beth ydyw hyn? Ai Sabboth yw
I'r Genedl gael addoli Duw?
Duw yr Hebrëwr—meddai ef—
A grëodd ddaear, môr a nef,
Ai mwy yw ef na 'n Hiris ni,
Ein duw Osiris mawr ei fri?
Os Duw 'r Hebrëwr wnaeth y byd,
A greodd Anian fawr i gyd,
A wnaeth y storm, a'i tharan fyllt,
A luniodd y lucheden wyllt,
A wnaeth i'r gwyntoedd ruo draw,
A'r ddaeargryn i droi is-law,
A'r Nile, a gorlif ei phell daith,
A'r môr a'r dòn gynddeiriog laith,
A'r rhu fel dystryw bydoedd, pan
Y try ei ffrewyll ar ei làn;
Os felly, pam y ceisia 'n awr
Addoliad mewn dystawrwydd mawr?
Ah, onid gwell yw cerddi 'r gwynt
Cynddeiriog, groesa ar ei hynt
Ddigofus, dros gopäon hyf
Y Pyramid tragwyddol gryf,
Heb flino dim, ond brochi 'n fwy
A chanu 'n uwch wrth ruthro trwy
Rigolau 'r tŵr, a llawr di-serch
Ogofau creigiau 'r moroedd erch?
Gwell ydyw *cyffro* Anian gref
I roi addoliad iddo Ef,
Na 'r prudd ddystawrwydd hynod hwn
Sy 'n llethu 'r wlad fel anferth bwn!"

Ond nid oedd llef na neb yn ateb iddo,
A cherdda rhag ei flaen trwy Gosen eto;
Ar hanner nos fe etyb Duw ei hunan
Ei ofyniadau ef â llais o Daran!

Gwela Moses fwy na defod
  Yn y weithred hynod hon;
Mwy na Chenedl fawr yn dyfod
  Ar ei thaith i Ryddid llon;
Mwy na therfyn blin gaethiwed,
  A throi gormes dan ei thraed
Gwelai ddarlun Duw yn arbed
  Yn llinellau coch y Gwaed!

Safa ef ac Aaron hefyd,
  Ar y rhiniog law yn llaw;
I roi trem dros wlad eu hadfyd,
  Oddiweddid yn ei braw.
Gwelant ar dir Gosen loew,
  Fod y cawg a'r Gwaed, yn sych;

[illegible],
[illegible] yn wych !

[illegible]
[illegible] fyd ;
[illegible] ddeiliedd
[illegible] :
[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible]

[illegible],
[illegible] :
[illegible][*]
[illegible] .
[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible] !

[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible] fryn.
[illegible]
[illegible] .

[illegible],
[illegible] :
[illegible]
[illegible] ddiddiwedd.

[illegible],
[illegible] .
[illegible]
[illegible]

[illegible]
[illegible] y Gwaed;
[illegible]
[illegible]

[illegible]—
[illegible]
[illegible] :
[illegible] fen."

[illegible]

Mewn Aberth y daethant i ymyl eu Hior,
  O nos eu Caethgludiad, heb deml na lle
Cysegredig, ond arwydd y Gwaed ar y ddôr,
  Ar ddaear fenthyciol gelynion y Ne'.

Meddyliau cyfoethog y Nefoedd sy 'n awr
  Mewn aberth ac arwydd a chysgod yn d'od
Trwy 'r Pasg, ac arosant pan syrthia i'r llawr
  Y Pyramid talaf yn falur di-nod.

A'i sail ar gystwydir yr Eglwys, i ni
  Fel Pyramid arall, â'i frig yn y gwynt,
Yw 'r Pasg, ac ôl-oesau yr Eglwys, fel lli'
  Y Nilus, a'i ddelw ar dreigliad ei hynt.

Os llwyda 'r adeilad, os tyf arno ef
  Lwydfwsog canrifoedd o oesau, ni syrth;
Bydd cnwd o adgofion fel blodau y nef,
  Yn tyfu 'n fythwyrddach o amgylch ei byrth!

Er pelled, er garwed taith Eglwys yr Iôr,
  Mae brig y Pasg-byramid hwn megys bys
Ar dir Ysbrydoliaeth, uwch anial a môr,
  Yn dangos y genffordd sy 'n arwain i'r Llys!

Mewn Aberth y daliwyd cymdeithas â Duw,
  Y nos y cofrestrwyd "Cyfammod y Gwaed;"
Pan gododd yr Eglwys o wendid i fryw,
  I ddattod hualau caethiwus ei thraed.

Pasg arall aberthwyd—O! Crist ein Pasg ni
  Yw gwledd fawr yr Eglwys, a'r sicrwydd caiff dd'od
O Aipht ei hir gystwy, i fwyniant a bri,
  I ganu 'n dragwyddol Basg-emyn ei glod!

GLANFFRWD.

*Llanelwy.*

---

# YR EPISTOL AT Y GALATIAID.

ENW ar dalaeth led eang, yn agos i ganol Asia Leiaf, oedd Galatia. Y talaethau a'i hamgylchynent oeddynt Phrygia i'r gorllewin, Lycaonia a Cappadocia i'r dehau, Pontus i'r dwyrain, a Bithynia a Paphlagonia i'r gogledd. Gwyllt a mynyddig oedd rhanau gogleddol y wlad, ond cynnwysai y rhanau deheuol ddyffrynoedd cynnyrchiol. Prif fynydd-oedd y wlad oeddynt Olympus, Orminium, a Dindymus; a'r prif afon-ydd, Halys a Sangarius. Cynnwysai y dalaeth dair dinas o gryn bwys, sef Ancyra, y brifddinas, Tavia, a Pessinus. Yn yr olaf y dygid ymlaen

[illegible] y duwies. Cynnwysai ei theml ddelw bren neu [illegible] a ddisgynodd o'r nefoedd; ac ar gyfrif hyny y [illegible] y ddinas yr Pessinus, o'r gair Groeg πίπτω, am ddisgyn neu [illegible]. Yn amser yr Ymherawdwr Cystenyn gwnaed Pessinus yn [illegible] Galatia, yn lle Ancyra.

[illegible] pobl eu henw oddiwrth y wlad, [illegible] megys Galileaid, Samariaid, Cret[illegible] Ephesiaid, &c. Ond gyda y [illegible] derbyn eu henw oddiwrth y [illegible] y dalaeth ei henw oddiwrthynt [illegible] yn lled gyffredinol fod yr enw [illegible] haneswyr Groegaidd a Lladin[illegible] am lwythau Celtaidd a boblogent [illegible]. Yn ei *Hanes o Ryfelgyrchoedd y* [illegible] yn "Galiaid;" ac, ar y [illegible] Ffrainc ar yr enw [illegible] "Galiaid" a "Galatiaid" yn [illegible] enw a roddid ar y llwythau [illegible]

[illegible] yn gyfystyr â *Gaul* neu [illegible] yn Ewrop, yr hon yw [illegible] gorllewinol, yn gystal â'r [illegible] Crist, gwnaeth rhai [illegible] ddwyrain Ffrainc, [illegible] gyda hwy, ryfelgyrch[illegible] Brennus. Ymranodd [illegible] ar gais Nicomedus, brenin [illegible] eu hymdrechion mil[illegible] Nicomedes iddynt ran helaeth o [illegible] effeithiol a gaf[illegible] y rhanbarth yn Galatia. [illegible] ryfelgyrchoedd mynych i'r [illegible] eu tiriogaeth eu hun[illegible] y rhan ddeheuol o'r hyn [illegible] eu llwyddiant [illegible] gan y *Consul* Rhuf[illegible] o fewn y terfynau [illegible] llywodraeth o [illegible] fu farw Amyntas, [illegible] eu gwlad yn dalaeth

[illegible]

[illegible] fabwysiadu [illegible] yr adeiladodd [illegible] ei hoffeir[illegible] helaeth, ac [illegible] y gwasanaeth [illegible] a llygredig [illegible] eu hiaith a'u [illegible] lawer o ddi[illegible] ac mai sabiynt o lawer

mor anwaraidd a'r cenedloedd o'u hamgylch. Yn hytrach, nodweddid hwynt gan ddealltwriaeth a hyddysgrwydd. Dywed Themistius, yr areithydd Groegaidd, "eu bod yn fwy craffus na'r Groegiaid;" ac ychwanegai, "Pa bryd bynag yr ymddengys dyn athrylithgar, glynant wrtho fel dur wrth y tynfaen." O ran tymheredd darlunir hwy fel dynion brwd, haelfrydig, cymdeithasgar, a thwymgalon; ac yr oeddynt yn wrol a rhyfelgar tu hwnt i'w cydoeswyr.

Dyma rai o'r nodweddion mwyaf dysglaer yn nghymeriad y Galatiad; ond fel ymhob cenedl arall, yr oedd rhai nodweddion anghymeradwy ynddynt hwythau. Ymhlith yr ansoddau gwrthwynebus a briodolir iddynt, nodir ofergoeledd a gwamalrwydd. Y mae yn amlwg fod aelodau eglwysi Galatia, cyn eu tröedigaeth, yn eilunaddolwyr, ac yn ymroddgar i ddefodau a seremonïau; ac y mae y parodrwydd a ddangosent i dderbyn yr efengyl ar y cyntaf, ac ar ol hyny i encilio oddiwrthi, yn brawf o'u hanwadalwch. Gwel yr Esgob Lightfoot yn y nodwedd hwn brawf eu bod yn perthyn i'r genedl Gymreig o'r teulu Celtaidd; ond teimlwn fath o orfodaeth i wrthsefyll y gwarthnod a esyd y cyhuddgwyn hwn ar y Cymry; oblegid ni ymlyna yr un genedl yn fwy tyn wrth ei syniadau crefyddol a gwleidyddol nag y gwna y Cymry. Sefydlwyd y ffurf Rufeinig o Gristionogaeth ymhlith y Saxoniaid gyda llawer o rwyddineb trwy lafur Awstin Fonach; ond costiodd iddo ef a'i olynwyr ymdrech galed am flynyddau cyn llwyddo i gael gan y Cymry i dderbyn y ffurf hono o Gristionogaeth yn lle yr un a dderbyniasent lawer yn foreuach a mwy uniongyrchol o darddell Apostolaidd. Ac ar ol i Erastiaeth, wedi ymdrech hirfaith, lwyddo i ddwyn Cristionogaeth Gwyllt Walia i gydymffurfiad â Christionogaeth Lloegr, costiodd aberthau mawrion a llafur dybryd a hirfaith i'r Diwygwyr Cymreig, a'r Puritaniaid cyn hyny, a'r ychydig Efengylwyr brwdfrydig a fuont yn flaenorol i'r oll yn braenaru y tir ac yn hau ynddo yr hâd da, cyn llwyddo i symud yr ofergoeledd a'r anwybodaeth oedd fel y fagddu yn gorchuddio y tir fel effaith y ddefodaeth flaenorol, ac i lefeinio y Dywysogaeth eilwaith â gwirioneddau bywiol Efengyl bur yr Iesu. Ac yn awr, ar ol dwyn y cyfnewidiad dedwydd hwn oddiamgylch, metha bostfawredd a chamddarluniadau Esgobaethol, llwgr-wobraeth a gweniaeth, diystyrwch a dial o du y cyfoethogion, nac un moddion arall, ddenu y Cymry i ymwrthod â'u Hanghydffurfiaeth am grochanau eu caethiwed blaenorol. Ac mewn ystyr wladwriaethol hefyd, gŵyr y Saeson nad chwareu plant oedd darostwng Cymru i'r orsedd Seisonig, ac nad yw hyny i'w briodoli i anwadalwch y trigolion. Cododd hyn o allu y Saeson i ddwyn yn olynol luoedd ar ol lluoedd o filwyr yn eu herbyn; ac er hyny ni effeithiwyd eu darostyngiad heb i lawer brwydr waedlyd gael ei hymladd, ac i'r gwrthsafiadau mwyaf dewr a chyndyn gael eu gorchfygu. Ac yn awr, ar ol i Loegr amlfyddinog lwyddo i ddarostwng Cymru fach, mae pob cynnyg i lyncu y trigolion i'r genedl Seisonig, a dinystrio ei hysbryd cenedlaethol, wedi troi yn fethiant. Dengys mudiadau diweddar fod y nodweddion hyn mor fyw yn y Cymry ag erioed, a goreu po gyntaf y cydnabydda y Saeson hyn, ac y rhoddant iddynt fwy o ryddid. Na; nid cenedl wamal ac ansefydlog yw y Cymry, yn grefyddol na gwladwriaethol; ac mae yr hyn sydd

[illegible] Epistol [illegible] gwahaniaeth [illegible] rhyngddynt [illegible] y [illegible] ac [illegible] ac [illegible]

[illegible] Sainct; [illegible] ryw [illegible] Rhufeinwyr [illegible] y [illegible]

[illegible] yn [illegible] Apostol Paul [illegible] a Sinai, a [illegible] a gwedi [illegible] (x. 13—15). [illegible] yr apostol [illegible] y waith [illegible]

[illegible] Paul a'i gymdeithion [illegible] Rhufeiniaid [illegible] gwedi [illegible] iv. 13, yr [illegible] "O herwydd gwendid [illegible] y waith gyntaf." Ond chwi

neu iach, mewn dolur neu yn ddianaf, nis gall Paul esgeuluso ei waith arbenig. Yn un o'r dinasoedd, fe ddichon Pessinus, mangre addoliad gorwych Cybele, cododd faner y groes am y tro cyntaf yn y dalaeth, a bu yn llwyddiannus i ennill deiliaid yno i Frenin Sïon. Ar ol efengyleiddio hon, yn ol ei arfer o bregethu mewn manau poblogaidd, symudodd i ddinasoedd a threfydd eraill, yn ol fel yr oedd amgylchiadau a'i nerth corfforol yn caniatâu, a llwyddodd i blanu amryw gynnulleidfaoedd Cristionogol yn y dalaeth.

Y mae peth gwahaniaeth barn o berthynas i'r amser y pregethodd Paul gyntaf i'r Galatiaid. Penderfyna Conybeare a Howson ar y flwyddyn O.C. 51, ac eraill ychydig yn ddiweddarach. Cynnwysa yr Epistol ddau fynegiad cynnorthwyol i benderfynu hyn, sef amser ymweliad cyntaf Paul â Jerusalem, yr hwn, yn ol i. 18, a gymerodd le dair blynedd ar ol ei dröedigaeth; a'r pedair blynedd ar ddeg a nodir yn ii. 1, fel yr amser yr aeth efe gyda Barnabus a Titus i'r gynnadledd yn Jerusalem. Ar y dybiaeth debygol fod y pedair blynedd ar ddeg hyn i gael eu cyfrif o'i ymweliad cyntaf â Jerusalem, aeth dwy flynedd ar bymtheg heibio rhwng ei dröedigaeth a'r gynnadledd. Cytunir yn gyffredin i'w dröedigaeth gymeryd lle oddeutu y flwyddyn 36. Gan hyny, nis gall fod y gynnadledd wedi cymeryd lle lawer yn gynt na'r flwyddyn 53, er fod Conybeare a Howson, yn ol cyfrifiad yr Iuddewon, yn ei gosod yn y flwyddyn 50. Yn awr, yn ol Act. xvi. 6, cymerodd ymweliad cyntaf Paul â Galatia le tua dechreu ei ail daith genadol, yr hon a ddechreuodd ar ol y gynnadledd yn Jerusalem. Gan hyny nis gellir gosod ei fynediad i Galatia yn gynt na'r flwyddyn 51, a thebygol yw iddo gymeryd lle flwyddyn neu ddwy yn ddiweddarach.

Cynnwysa yr epistol amryw grybwylliadau a roddant ar ddeall i'r Galatiaid roddi derbyniad parod a brwdfrydig i weinidogaeth Paul, a derbyn ei genadwri gyda llawenydd, ac iddynt oddef peth erledigaeth oblegid eu Cristionogaeth (i. 6—8; iii. 1—4; iv. 13—16). Ond ni pharhaodd eu brwdfrydedd a'u hymlyniad wrth yr efengyl ond dros fyr amser, a daeth eu gwamalrwydd cenedlaethol i'r golwg cyn hir. Yn y gwres a'r brwdfrydedd a ennynwyd gan bregethau byw ac eglur yr Apostol, nid rhyfedd yw os dygwyd rhai heb feddu argyhoeddiadau dyfnion i broffesu Cristionogaeth. I feddyliau felly, nid oedd crefydd ysbrydol, heb ddim ynddi yn allanol i dynu sylw, yn debyg o fod mor ddeniadol â'r hen grefydd gyda'i harferion rhwysgfawr yr oeddent wedi arfer â hi. Yr oedd yma, gan hyny, dir manteisiol i athrawon Iuddewaidd, y rhai a gynnygient i'w sylw bethau allanol cyffelyb i fesur i'r arferion crefyddol yr oeddent yn gynnefin â hwynt o'r blaen, i hau eu had. Cymerasant fantais ar y cyfleusdra, a buont i fesur yn llwyddiannus i'w hennill eilwaith at elfenau llesg a thlodion, "i gadw diwrnodau, a misoedd, ac amseroedd, a blynyddoedd." Swynwyd hwy gan lais hudolus y temtiwr yn mhersonau y dysgawdwyr Iuddewaidd, addysg pa rai oedd yn wyriad cyflawn oddiwrth yr efengyl bur. Tueddai i osod haeddiant dynol yn lle iawn y groes, gweithredoedd y ddeddf yn lle ffydd yn Nghrist, a defodau allanol yn lle gwasanaeth y galon.

Gwelai yr Apostol, megys â'i lygaid, fod y gau athrawon yn gweithio yn gyflym o dan y sail a osodwyd ganddo ef, ac yn peryglu buddiannau

[illegible] ai, oedd
[illegible] gyfroi
[illegible] y rhai a'u
[illegible] ar ei [illegible],
[illegible] oedd-
[illegible] yn ei
[illegible] modd
[illegible] hi yn
[illegible] a [illegible]
[illegible] yn ei [illegible]
[illegible] oedd
[illegible] neu [illegible],
[illegible],
[illegible] y [illegible] yr
[illegible] pery[illegible]
[illegible] oedd-
[illegible] y
[illegible] a [illegible]
[illegible] yr Efengyl i
[illegible] oedd-
[illegible]

[illegible]
[illegible] a i [illegible]
[illegible] iddo
[illegible]
[illegible] y [illegible]
[illegible] y [illegible]
[illegible] yr
[illegible] yn [illegible]
[illegible]
[illegible] yr
[illegible] yn [illegible] ei
[illegible] y [illegible] a
[illegible] yr Apostol
[illegible]

[illegible]
[illegible] yr [illegible]
[illegible] a [illegible]
[illegible], os
[illegible] ar [illegible],
[illegible] a [illegible]
[illegible] yr [illegible]."
[illegible] a
[illegible] y [illegible] a'r
[illegible] a [illegible] yr efengyl
[illegible] ei i [illegible]
[illegible] ar a
[illegible]
[illegible] yn
[illegible] ar y

ddadl; ond nid felly; y mae cyfeiliornad yn hir yn marw. Yn hytrach, aeth yr ymryson yn fwy angerddol, yn cael ei feithrin gan ragfarn, balchder, a phenboethni Iuddewig. Bygythiai ddryllio yr eglwysi, a bu agos iddo wneuthur hyny âg eglwysi Galatia. Yma llwyddodd dysgawdwyr Iuddewig i frawychu cydwybodau y dychweledigion, ac i wenwyno eu meddyliau yn erbyn yr Apostol. Ysgydwyd yr adeilad orwech yr oedd efe wedi ei chodi yno, ac ymddangosai bron ar ddymchwelyd hyd ei sylfeini; ac o hyn y codai pryder yr Apostol a llymder yr Epistol. Ni fyn efe gydnabod Cristionogaeth ei athrodwyr; gwada fod yr efengyl a bregethent yn efengyl, a hyrddia felldithion ar benau ei chyhoeddwyr. Rhybuddia yr eglwysi eu bod yn syrthio oddiwrth ras, ac yn peryglu eu hundeb â Christ a'r bendithion a ddeilliant trwyddo, wrth dderbyn y genadwri wrthefengylaidd a ddysgai yr athrawon Iuddewig iddynt. Trwy ras Duw profodd ei hun yn ddigonol i gwrdd â'i holl wrthwynebwyr. Ymladdodd, ac ennillodd y frwydr; llwyr orchfygwyd y gelynion. Yn ei Epistolau a ysgrifenwyd yn ddiweddarach, ni chlywir nemawr ddim o swn y frwydr a ymladdodd mor ddewr yn erbyn ei wrthwynebwyr Iuddewig. Dilynir ystormydd y ddadl gan dawelwch, cyd-ddealltwriaeth, heddwch a chyfeillgarwch. Diau yw i'r Epistol at y Galatiaid, y mwyaf miniog o'r cyfan, wasanaethu yn helaeth i ddwyn oddiamgylch y cyfryw ganlyniadau dedwydd.

Pa effaith a gafodd yr Epistol gonest a grymus hwn ar y Galatiaid? A fu e'n llwyddiannus i'w hattal i wrando ar lais yr hudolwyr cyfrwys a chyfeiliornus, ac i'w dychwelyd yn ol eilwaith i'w safle ddechreuol yn y bywyd Cristionogol? Hyny oedd y nod mewn golwg wrth ei ysgrifenu; ac y mae yn anhawdd tybied iddo fethu yn ei amcan, os cafodd sylw dyladwy gan ei ddarllenwyr. Ychydig o gymhorth a geir i ateb y gofyniadau difrifol hyn, am fod y defnyddiau mor brin. Ni cheir ond dau gyfeiriad ysgrythyrol at y Galatiaid ar ol i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu, sef 1 Pedr i. 1, a 2 Tim. iv. 10; a'r oll a allwn gasglu gyda diogelwch oddiwrth y cyfeiriadau hyn yw, fod yno Gristionogion yn Galatia ryw wyth neu naw mlynedd ar ol anfoniad yr Epistol hwn. Ond beth oedd eu safle grefyddol? A oeddent wedi rhoddi gwrandawiad i rybuddion gonest yr Apostol, ac wedi gadael addysg gymysglyd yr Athrawon Iuddewig am yr efengyl bur a dderbyniasent ar y cyntaf o enau Paul? Nid yw y cyfeiriadau uchod yn cynnwys un cymhorth i ateb y gofyniadau oll-bwysig hyn.

Nid yw hanes foreuol Cristionogaeth, ar ol yr oes Apostolaidd, yn taflu llawer o oleuni ar yr ymofynion yma; ond mor bell ag y mae yn myned, dengys fod Galatia, fel cynt, yn faes toreithiog i newyddiannau, credöau, ac ymarferion gwrth-efengylaidd. Dywed Esgob Lightfoot "fod Asia Leiaf yn fagwrfa heresi, ac nad oedd hyny yn fwy ffynedig yn un man nag yn Galatia. Prifddinas Galatia oedd castell yr adfywiad Montanaidd, yr hwn a arosodd yno am fwy na dwy ganrif, ac a ymranodd yn bleidiau gwahanol, y rhai a nodweddid gan ystumiau a threfniadau defodol. Ceid yma hefyd Ophiaid, Manichëaid, a sectau o bob math." Yn nhymmor y ddadl fawr ar Berson Crist, cawn yma ddau esgob olynol, Marcellus a Basilius, y rhai a achosasant ofid dirfawr. Gŵyrodd y cyntaf at Sabeliaeth, a mabwysiadodd y llall

syniadau yr Ariaid. Cododd [illegible] y gwahanol sectau, fel y dywed un hanesydd : [illegible] gael eu diboblogi o'u herwydd.

Ond os bu eglwysi Galatia yn dir [illegible] i heresiau a chyfeiliornadau dyfu ynddo, buont hefyd yn faes [illegible] oddiwrth y galluoedd gwladol o achos Cristionogaeth, pan y cafwyd engreifftiau gogoneddus o ffyddlondeb a [illegible]. Yma y merthyrwyd yr esgob Clement, yn amser [illegible] yr ymherawdwr Diocletian. Ac yn ddiweddarach pan y gwnaeth Julian gais penderfynol i adfer addoliad a pharch y duwiau [illegible] i fenur wedi mynod allan o arferiad yn Pessinus, gwrthwynebwyd ef yn gadarn gan y Cristionogion ; ac yn yr ymdrech [illegible] yr [illegible]-iaid lluaws goron merthyr. Felly, os cafwyd engreifftiau galarus o wamalrwydd yn ymddygiad llawer o Gristionogion Galatia, cafwyd yn eu plith hefyd esiamplau gogoneddus o Gristionogion pur, ffyddlawn, a dewr galon.

Ond er gofid, mae yr eglwysi hyn wedi diflanu oddiar wyneb y ddaear er ys llawer oes, fel yn wir holl eglwysi Cristionogol y Dwyrain ; oblegid y mae galw crefydd y Drusiaid, y Nestoriaid, ac eraill a geir yn awr yn y Dwyrain, yn Gristionogaeth, yn gam, ac yn gamddarluniad o'r mwyaf ar y Gristionogaeth a bregethodd Paul i'r Galatiaid. Onid oes yma rybudd difrifol i ni, y Cymry, i ofalu am lynu wrth y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu ? Perthynasau agos i ni yn ol y cnawd oedd y Galatiaid, yn dwyn llawer o ddelw ein cenedl. Er hyn oll symudwyd eu canwyllbren hwy allan o'i le, o herwydd eu gwyriadau oddiwrth symledd yr efengyl. Dechreuodd y gwyriadau hyn mewn peth a ymddangosai yn fychan a diniwed. Pa berygl a allasai godi o enwaedu ar y dychweledigion ? Oni ddywed Paul, "Enwaediad nid yw ddim, na dienwaediad ?" Oni enwaedodd efe ar Timotheus, er mwyn gwneyd ei weinidogaeth yn fwy derbyniol a llwyddiannus ? Er hyny o'r ffynnon hon y tarddodd dirywiad y Galatiaid ; dirywiad a gynnwysai droi oddiwrth y Duw a'u galwodd, ymwahanu oddiwrth Grist, a chwympo oddiwrth ras. "Y mae ychydig lefain yn lefeinio yr holl does." Cymerwn ninnau rybudd oddiwrthynt i lynu yn dŷn wrth yr efengyl heb ddim cymysgedd, i wneyd y Groes yn unig sail ein hymddiried a'n gorfoledd, i ymwrthod â phob peth a fynai sefyll rhyngom â Christ neu ymgystadlu âg Ef fel sylfaen ein hiachawdwriaeth ; i gadw ordinhadau yr eglwys yn eu lleoedd priodol, heb wneuthur dim mewn cysylltiad â hwy a dueddo i beri i neb briodoli iddynt unrhyw effeithiolrwydd sacramentaidd. O wneuthur felly â gosodiadau allanol crefydd, y cododd defodaeth ymhob oes a gwlad, effaith yr hyn ydyw cuddio trefn y cadw, a chau drws y nef fel na all y werin "weled arch ei gyfammod Ef yn ei deml."

Ar yr un pryd, diolched yr eglwysi am yr Epistol at y Galatiaid. Tarddodd daioni o ddrwg : "allan o'r bwytäwr y daeth bwyd, ac o'r cryf y daeth allan felusdra." Amryfusedd tost a galarus oedd dirywiad eglwysi Galatia ; ond bu hyny yn achlysur i Paul ysgrifenu yr Epistol hwn, un o drysorau penaf yr Eglwys Gristionogol, fel dadguddiad byr ond eglur a digonol o drefn y cadw trwy ffydd yn Nghrist; goleudy i rybuddio yr eglwysi i ymgadw oddiwrth greigiau dinystr;

tŵr arfau yn cynnwys pob darpariaeth ofynol i wrthsefyll a throi yn ol brif gyfeiliornadau crefyddol yr oes Gristionogol; ac esboniad ysbrydoledig ar gyfammod Abraham, perthynas yr Hen Destament â'r Newydd, ansawdd gysgodol gosodiadau cyfammod Sinai, a'u sylweddoliad yn Nghristionogaeth y Testament Newydd, ynghyd a diflaniad llwyr y cyfammod cyntaf, "o herwydd ei lesgedd a'i afles," er mwyn rhoddi "lle i'r ail."

EDWARD ROBERTS.

*Pontypridd.*

---

# Y DIWEDDAR BARCHEDIG JOSEPH THOMAS.

Y PARCH. Thomas Binney—neu bwy?—a ddywedodd mai "y peth mwyaf a ellir ddyweyd am unrhyw ddyn ydyw ei fod heb dad—iddo godi o ddim, a gwneyd ei hun yn rhywbeth—iddo ddyfod i'r byd yn glai, a myned o hono yn farmor." Y mae darllenwyr y TRAETHODYDD yn deall athroniaeth hanes yn ddigon da i weled fod y frawddeg yna yn traethu oes yr hybarch a'r anwyl Joseph Thomas o Garno yn hynod o gyflawn a chywir. Yn yr ystyr o enwogrwydd cyhoeddus ni bu neb yn fwy amddifad nag ef; yr oedd heb dad, heb fam, ac heb achau. Beth pe buasai rhyw angel yn dyweyd wrth y Parch. Robert Davies—y gweledydd craffaf a fu yn Sir Drefaldwyn erioed—y diwrnod y cafodd ei ordeinio yn y Bala, Mehefin 16eg, 1831, fod y gŵr a adnabyddid ymhen rhyw ddeng mlynedd ar hugain ar ol hyny fel y pregethwr mwyaf derbyniol, dyddorol a defnyddiol yn Nghymru, ac a lanwai holl gylchoedd cyhoeddus y Methodistiaid, o lywydd cyfarfod ysgolion hyd gadair y Gymanfa Gyffredinol, gydag urddas a graslonrwydd digyffelyb, yn byw yn fachgen tlawd cyffredin yn un o bentrefi dinod gwaelod Sir Drefaldwyn; a fuasai efe yn dyfod o hyd iddo ac yn ei nodi allan? Nid wyf yn tybied. Pe dywedasid wrtho mai o bymtheg i ugain oed ydoedd ar y pryd, ac yr anfonasid ef allan i chwilio am dano, teimlasai y buasai yn haws dyfod o hyd i darddiad afon yr Aipht na darganfod y pryd hwnw y bachgen yr oedd y fath ddyfodol iddo. Buasai yn chwilio llawer pentref a chymydogaeth yn bur lwyr cyn ymwthio dan asgell y Berwyn, i le mor neillduedig ac anghysbell â Llangynog; ac wedi dyfod yno, ni buasai ei goelbren yn syrthio yn gyntaf ar fwthyn diymhongar Edward a Phali Thomas, am yr afon a'r Llan; ac yn y tŷ, o'r pum' bachgen, prin y buasai ei graffder eithriadol yn nodi allan y bachgen hir, teneu, cyhyrog, cymmalog, amrosgo, a llonydd, fel yr un yr oedd Rhagluniaeth yn ei wregysu i waith. Yn anialwch anghyfannedd tlodi a dinodedd y mae yr Arglwydd yn fynych yn gadael y rhai y mae yn eu donio i wneyd pethau mawrion drosto, hyd yr amser yr ymddangosant i Israel. I'r rhai na chawsant gyfleusdra i

adnabod Mr. Thomas ond yn unig fel un o feistriaid y gynnulleidfa, bydd yn ddifyrus olrhain ei hanes i'w gychwyniad—sylwi ar yr anhawsderau a orchfygodd, y caledi a ddyoddefodd, a'r gorchestion a gyflawnodd ar ei ffordd, o ddyfnder dinodedd i uchder enwogrwydd, nes cael ei gydnabod ymhob man fel un o brif bregethwyr Cymru. Ni pherthyn i mi mewn ysgrif fel hon adrodd ei hanes ymhellach nag y mae yn dangos pa mor bell y mae ei lwyddiant i'w briodoli i'w alluoedd cynhenid ef ei hun, i'r llafur yr aeth drwyddo, neu y manteision a gafodd. Wrth ymholi i'r pethau hyn, a gweled mor brin fu ei fanteision, teimlir ei fod yn deilwng iawn o'r warogaeth uchel o barch a delid iddo.

Ni buaswn yn adrodd ei hanes boreuol gyda dim manylder, oni buasai fod rhai yn amryfus wedi ysgrifenu rhyw bethau am dano nad ydynt gywir, a bod cyfeillion ei febyd yn dymuno eu cywiro. Brodor o ardal Llanberis, yn Arfon, oedd ei dad, ac y mae iddo liaws o berthynasau yno a'r cymydogaethau cylchynol. Daeth ar ddamwain i ddilyn ei alwedigaeth fel chwarelwr i Langynog. Ymhen amser priododd ferch i John ac Alice Morris, Penygeulan, a ganwyd iddynt wyth o blant, pump o feibion a thair o ferched. Fel yr oedd y bechgyn yn tyfu i fyny, cymerid hwy o un i un i weithio i'r chwarel at eu tad, yr hwn ar y pryd oedd wedi prydlesu Chwarel y Gribin, ac yn ei gweithio ar ei gyfrifoldeb ei hun. Bu Edward Thomas, y mab, yn ei gweithio am rai blynyddoedd ar ol marw ei dad; ond gan mai rhyw grystyn go sych o graig oedd yn y lle, ni thalodd yn rhy dda iddynt am ei gweithio. Yr oedd y rhieni yn byw mewn tŷ o'r eiddynt eu hunain, a adeiladwyd gan Edward Thomas ar dir Iarll Powys, heb ddim sicrwydd am dano ond ewyllys da y gŵr boneddig mewn gair yn unig. Rhyw bymtheng mlynedd yn ol y collodd y Parch. Edward Thomas bob hawl a meddiant ar y tŷ. Ni ddylid ymddiried i neb o herwydd ei radd, na rhoddi mantais i ŵr boneddig i ddwyn eiddo dyn tlawd, a dangos i'r wlad ei fod yn gyfiawn ac yn garedig yn ei holl waith. Byddai trigolion Llangynog, er cyn cof, yn rhoddi llysenwau ar bersonau, ar dai, ac ar leoedd; a mawr y priodoldeb fyddai yn yr enwau a roddid iddynt, yn enwedig i bersonau, am eu bod yn dangos y nodwedd amlycaf yn eu cymeriadau. Dywedid am un mai ei enw *priodol* oedd "Pendew," ac nad oedd "William" ond enw bedydd arno. Gelwid y rhan o'r pentref lle yr oedd Edward Thomas a'i deulu yn byw yn Lerpwl; wedi hyny, o fewn cof rhai sydd yn fyw yn awr, galwyd y lle yma yn *Parliament Street*, a hyny am y rheswm fod yno yr amser hwnw un teulu yn byw a fyddai yn trafod helyntion gwlad a thref, ac yn penderfynu achosion pawb drwy yr ardal, gan hòni rhyw awdurdod i ddeddfu i'w cymydogion ar bob cwestiwn. Oddiwrth hyn galwyd annedd y teulu yn *Parliament*, a galwyd enw y rhes tai yn *Parliament Street*, fel y cywilyddiodd y teulu,—a'r wlad a gafodd lonydd. Am frodyr a chwiorydd y Parch. Joseph Thomas, yn ol eithaf gwybodaeth y perthynasau sydd yn Llangynog, efe oedd yr olaf o'r teulu i aros ar dir y byw. Bu Robert ei frawd farw cyn cyrhaedd oedran llanc. Dilynodd John ei alwedigaeth fel chwarelwr yn Llangynog a Llandderfel, nes marw yn hen ŵr yn y Bala, tua phymtheg mlynedd yn ol. Cafodd Thomas ei ladd er ys blynyddoedd lawer, wrth agor chwarel yn nghymydogaeth Llanwyddyn. Bu y Parch. Edward Thomas farw yn

ddiweddar, wedi bod yn arolygu chwareli, trafod masnach, a phregethu yr efengyl, gyda graddau helaeth o gymeradwyaeth, am yn agos i hanner can' mlynedd. Am Ellen, ei chwaer, priododd hi Sais o Sir Amwythig, ac aeth yno i fyw heb ddychwelyd mwy, ac nis gŵyr ei pherthynasau chwaneg am dani. Priododd Elizabeth ddwywaith, y tro cyntaf gydag un John Rowlands, o'r un ardal â hithau, yr hwn a fu farw yn lled fuan. Cyn hir hi a briododd eilwaith, gyda dyn o'r enw Mr. Moss, o Sir Fflint, a symudasant i fyw i'r Mwnglawdd, yn agos i Wrexham, ac nid oes wybodaeth bellach am dani hithau. Bu Mary farw yn ddibriod, ac erbyn hyn y mae yr olaf o'r teulu wedi ei gymeryd ymaith.

Ni chafodd Mr. Thomas fawr o fanteision addysg pan yn blentyn; bu am beth amser mewn ysgol a gedwid gan hen ferch yn y gymydogaeth, a chafodd ychydig addysg achlysurol ar ol hyny. Dysgodd ddarllen ac ysgrifenu yn lled dda yn bur foreu, a byddai yn hoff iawn o'r Ysgol Sabbothol, ac yn llafurio peth ar ei chyfer er pan oedd yn cofio dim. Yr oedd yn teimlo parch mawr i'w hen athraw yn yr Ysgol Sul, gan ei fod yn ffyddlawn ac yn gwneyd ei oreu, er nad oedd cylch ei wybodaeth ond cyfyng, na mesur ei ddawn ond bychan. Yr oedd ganddo er yn blentyn gof rhagorol, a daeth yn anad ei gyfoedion mewn cydnabyddiaeth â chynnwys y Bibl a gwybodaeth o hono. Pa mor fyw bynag ydoedd i'r arferion a ddilynid gan ieuenctyd y lle, yn nghanol pobpeth yr oedd ynddo chwilfrydedd am wybodaeth, ac awydd cryf am ddeall meddwl Duw yn ei Air. Mewn ychydig gofion a ysgrifenodd am dano ei hun i Mr. Levi, i'w cyhoeddi yn *Nhrysorfa y Plant* am 1877, dywed:—

Nid oedd genyf yr un *Concordance* y pryd hwnw, ac nid oedd arnaf angen am dano. Yr oeddwn yn ddigon cyfarwydd â'r Bibl i gael pob adnod a fyddai arnaf eisieu. Erbyn hyn y mae yn dda fod *Concordance* wrth law yn fynych; ond yr wyf yn dra argyhoeddedig na wnaeth ond drwg i mi, ac mai llawer gwell fuasai fy mod hebddo. Y llyfr a brofodd yn fwyaf o gynnorthwy i mi yr adeg hon i barotoi at wers y Sabboth oedd *Geiriadur* bychan o waith un Roberts o Gaergybi. Yr oedd hwnw yn egluro ystyr geiriau, ac yn rhoddi y gwahanol feddyliau oedd i'r un gair mewn gwahanol fanau o'r Ysgrythyrau. Nid wyf yn cofio fy hun heb fod yn fyw i ryw fath o bleserau, megys pysgota, hela, a saethu; a byddwn yn myned yn llwyr gyda yr hyn yr ymaflwn ynddo. Pan yr oeddwn o gylch un ar bymtheg oed ceisiais wneyd bardd o honof fy hun. Cyfansoddais lawer o ryw fath o bennillion, a rhai cywyddau; ond yr oedd arnaf ofn mawr rhag i neb wybod fy mod yn ceisio barddoni, oblegid dosbarth go isel oedd hyny o feirdd y gwyddwn i am danynt y pryd hwnw. Nid wyf yn meddwl fod fawr o werth mewn dim a gyfansoddais, ond cefais lawer o ryw fath o hyfrydwch pan gawn y naill linell i gydodli â'r llall yn weddol daclus. Byddwn yn methu yn lân a gorphen y pennill weithiau, ond delai rhyw ysbrydiaeth arnaf drachefn, a'r pryd hwnw byddai yn hawdd cael y pennill i ben. Credu yr oeddwn mai rhyw angel yn disgyn ar amserau i gynhyrfu y dwfr oedd yr ysbryd barddoni; a phan ddelai rhyw gynhyrfiad, byddwn gyda brys yn ceisio bwrw rhyw bennill oloff i'r llyn. Beth bynag am dalent naturiol, credu yr wyf, pe buaswn yn dal ymlaen, y buaswn yn gwneyd cystal bardd a rhywbeth arall.

Fel yna yr ysgrifenai am dano ei hun a'i awydd barddoni. Ond er mor ofalus fu rhag i neb gael allan ei fod yn arfer prydyddu, ni lwyddodd yn hollol i gelu y ffaith oddiwrth ei gyfeillion, o herwydd y mae yn hysbys i un o'i gywyddau fyned i law y Parch. David Price, Penybont

fawr. Mynai Mr. Price, o anfodd yr awdwr, ei anfon i'w gyhoeddi i'r *Dysgedydd*, ac yr oedd mor benderfynol o'i gyhoeddi, fel na roddai y cyfansoddiad o'i law i neb. Yr oedd Mr. Price, yr hwn a adnabyddid ymysg y beirdd wrth yr enw Dewi Dinorwig, yn fardd da ei hun, yn deall y mesurau caethion, ac yn arfer canu yuddynt, fel y mae ei zel am gyhoeddi y cywydd yn dyweyd rhywbeth am deilyngdod gwaith y bardd ieuanc o Langynog. Yn wyneb yr anhawsder o gael y cyfansoddiad o afael Mr. Price trwy ddangos anfoddlonrwydd i'w gyhoeddi, dangosodd ryw radd o awydd i gydsynio â hyny ar yr ammod iddo ei gael yn ol i newid ychydig arno; ond nid cynt y cafodd ef i'w law nag y rhoddodd ef yn y tân; a dyna yr olwg ddiweddaf a gaed arno. Yr oll a wn i am Mr. Thomas fel bardd, ydyw ei fod yn deall y cynghaneddion yn lled dda, ac yn gydnabyddus â'r mesurau mwyaf arferedig o'r pedwar mesur ar hugain. Byddai yn hoff iawn o linellau diarebol cyflawn o feddwl yn "cloi synwyr mewn clysineb," megys:—

Eithr gwas pan deyrnaso
Mae llaw barn yn drwm lle bo.

neu:—

Gormod o dafod efydd,
Bach o ddystaw syniaw sydd.

A'r rhai hyn am yr hunanol:—

Fel llyn tro mae o 'mhob man
Yn tynu ato 'i hunan.

Ond byddai yn ddig wrth ryw linellau cywrain a chymhlethedig eu cynghaneddiad, megys:—

Ser dduwies oer ddwys yw hi.

a'r cyffelyb. Nid oedd yn hoffi barddoniaeth os na byddai yn eglur, yn bert, a hawdd ei gofio. Yn unol â'r syniad yma mi a'i clywais yn dyweyd fod mwy o feddylgarwch nag o farddoniaeth yn mhryddest Eben Fardd ar yr Adgyfodiad. Y mae yn wir fod gradd o amwysedd yn y frawddeg wrth gyferbynu "meddylgarwch" â "barddoniaeth;" ond y mae er hyny yn dangos nad oedd ef yn cyfrif ac yn gwerthfawrogi fel barddoniaeth yr hyn oedd yn gofyn astudrwydd a dyfalwch meddyliol i'w ddeall.

Yn Nghymru yn yr amser a fu, yr oedd bron bob bachgen meddylgar yn ceisio gwneyd bardd neu bregethwr o hono ei hun, ac yn fynych y naill a'r llall. Nid oedd drysau eraill i gyhoeddusrwydd, fel y mae yn awr, yn agored y pryd hwnw. Heblaw hyny yr oedd cryn dipyn o ysbrydiaeth farddonol yn Llangynog ar y pryd. Yr oedd Mr. David Humphreys (y Parch. David Humphreys, Llanrhaiadr ar ol hyny) yn gyfoed, yn gâr, ac yn gydymaith i Mr. Joseph Thomas, ac yr oedd ef pan yn ieuanc yn arfer prydyddu llawer. Yr oedd ganddo fedr arbenig i wneyd pennillion, a gresyn na buasai llawer o honynt wedi eu cyhoeddi. Y mae cyfeirio at emyn ragorol o'i waith sydd mewn amryw Lyfrau Hymnau arferedig,

Babell gwympa er ei chryfed,
  Dagon gwymp er maint ei barch, &c.

a

Clywir swn yn mrig y morwydd,
  Deulu Seion, ymgryfhewch, &c.,

yn ddigon o brawf o hyn. Gwnaed yn hysbus yn y *Drysorfa* flynyddoedd lawer yn ol mai efe ydyw awdwr yr emyn hon, a gyfansoddwyd ganddo ynglŷn â'r Cyffröad Dirwestol yn y wlad. Yr oedd bardd a llenor da yn aros yn yr ardal y pryd hwnw o'r enw John Evans (*Ioan Maelor*), yr hwn yr oedd llawer o fechgyn deallus yn tyru ato ac yn cael lles oddiwrtho. Yn yr adeg yma hefyd yr oedd y Parch. Samuel Evans, Trelogan, yn byw yn Llangynog; yr oedd yntau yn gryn dipyn o fardd, ac o herwydd ei sefyllfa fydol a'i gymeriad, yr oedd yn llon'd y wlad o ddylanwad. Hwyrach mai y penaf o feirdd Llangynog ar y pryd oedd Edward Humphreys (*Iorwerth Cynog*), brawd i'r Parch. David Humphreys. Cyhoeddwyd amryw o gyfansoddiadau da o'i eiddo yn y *Drysorfa*, a rhai lled ganolig. Yr oedd ef yn hŷn o flynyddoedd na'i frawd a Mr. Joseph Thomas, a chydnabyddent yn rhwydd ei ragoriaeth arnynt fel bardd. Yr oedd Edward Humphreys yn berchen athrylith ddiammheuol, a phe buasai ei esgeiriau yn ogyhyd, buasai yn ŵr o werth a defnyddioldeb mawr. Cyfansoddodd lawer o ganeuon hynod o swynol, ac y mae ar ei ol ugeiniau o englynion â rhyw bertrwydd gorphenol ac ergyd barddonol ymhob un. Dyma un englyn yn engraifft, beddargraff y dywededig Ioan Maelor, yn yr hwn y mae y gareg fedd yn anerch y darllenydd fel hyn:—

Bedd Ioan gwiwlan, gwelwch—o danaf,
  Dyna le ei fan-lwch;
  Nid Ioan cyfan cofiwch,
  Mae rhan fry uwch lletty llwch.

Yr oedd lliaws ieuenctyd Llangynog pan oedd Mr. Joseph Thomas yn fachgen yn dilyn ffyrdd oferedd, a llawer o gastiau drygionus yn cael eu dyfeisio a'u cyflawni ganddynt; ac er iddo yntau mewn rhan ymroi i'r oferedd hwn, ymgadwodd rhag cyflawni yr un pechod gwarthus. Nid oes eisieu i gymeriad mor hawddgar feddiannu camweddau ei ieuenctyd, hyd yn nod yn ei goffadwriaeth; eto dylid dyweyd ei fod cyn ei dröedigaeth wedi cychwyn i gyfeiriad a fuasai yn rhoddi hanes tra gwahanol i w fywyd i'r hyn ydyw heddyw, pe na buasai i'r Arglwydd yn ei drugaredd ragflaenu ei aflwydd. Y mae meddwl am ei oes ddefnyddiol yn wyneb hyn yn peri i ni fawrhau gras Duw yn fwy ynddo. Y mae yn wir ei fod yn un o waredigion y Diwygiad Dirwestol, ar ei doriad cyntaf allan yn yr ardaloedd hyn. Ond nid oedd ef, fel y dywedir yn un man, "yn un o'r rhai cyntaf, os nad y cyntaf oll, i ymuno â'r Gymdeithas Ddirwestol yn Llangynog." Tachwedd 2il, 1836, yr areithiwyd gyntaf ar Ddirwest yn Llangynog; a gwŷr nodedig oedd yno yn areithio ar y pryd, nid amgen y Parchn. Henry Rees, D. Charles, B.A., wedi hyny D.D., Thomas Aubrey, a William Morris, Llanfyllin. Y diwrnod hwnw yr oeddynt yn areithio yn Mhenybont fawr am 10 o'r gloch, Llangynog 2, a Llanfyllin yr hwyr. Ymhen y pythefnos ar ol hyn, Tach 16eg, y sefydlwyd Cymdeithas Ddirwestol yn Llangynog, ac ymunodd amryw â'r achos y pryd hwnw. Dywedwyd wrthyf gan rai o'i gyfoedion mai yn y dafarn y traddododd Joseph Thomas ei araeth Ddirwestol gyntaf, ac y mae tystiolaeth brawd parchus a pharchedig a fagwyd yn Llangynog yn cadarnhau hyn. Yr oedd amryw wedi dyfod at eu gilydd i'r dafarn i ddiota ac i fod yn llawen, ac yr oedd Joseph yn eu plith fel bywyd y

[illegible] Daeth Dirwest dan sylw, [illegible] un y [illegible] [illegible] Annogwyd ef i [illegible] effeithiol [illegible] Wrth weled gobaith [illegible] yn cyffroi ac yn [illegible] [illegible], ac yn dyweyd y [illegible] [illegible] yn erbyn y [illegible] ar ol hyny, ac ymunodd â [illegible] y flwyddyn 1837. Y [illegible] Mr. Evan Jones, Glynd[illegible] ar Dirwest yn y fan ar [illegible] [illegible] mal ar ol iddo ymuno â [illegible] [illegible] fel areithiwr Dirwestol.

[illegible] am gyfnod go hir [illegible] [illegible] â chrefydd; ac yn gymaint ag [illegible] [illegible] gyda dim manylder, [illegible] [illegible] Ar foreu oerllyd yn nechreu y flwyddyn [illegible] [illegible] Athrofa a adnabyddid y pryd hwnw fel Mr. Owen Thomas [illegible] dywedyd wrth y darllenydd mai hwnw yw Dr. Thomas, [illegible] yn hen gapel Llangynog. Yn yr odfa hon y [illegible] Joseph Thomas gyntaf am ei fater mawr rhyngddo [illegible] flwyddyn wedi hyny heb ymuno â'r eglwys, [illegible] ar ol y Sabboth hwnw. Gwnaeth y ffaith hon [illegible] yn ymddyddan âg ef yn y Gymdeithasfa [illegible] a dywedodd yr un peth o dro i dro mewn [illegible]. Ymddengys mai y wedd oedd ar genadwri [illegible] ydoedd, dangos i'r gwrandawyr eu [illegible] yr Efengyl; ac felly teimlad o'i gyfrifoldeb [illegible] yn mynwes Joseph Thomas ar y pryd. [illegible] ar ol hyny yr oedd yn siarad â rhyw frawd am [illegible] Beth oedd ei ragoriaeth mawr fel pregethwr? [illegible] neu ddau, dywedai yntau: "Byddaf [illegible] mai ei ragoriaeth mawr ydyw gallu i ddwyn [illegible] gyfryngiad â rheswm a chydwybod dyn fel [illegible] Nid wyf yn gwybod am neb wedi ei alw tebyg iddo [illegible]. Y mae llawer iawn o wrandawyr â gobaith gwan am eu [illegible] iddynt y dylent fel creaduriaid cyfrifol i Dduw [illegible] i'r Efengyl, a bod eu gwrthodiad o honi yn [illegible]." Fel hyn yr ymddengys yr ennillwyd ef; ac fe ennillwyd yn [illegible] lawer yn gyffelyb trwy weinidogaeth Dr. Thomas. Gosododd y Pen mawr anrhydedd arbenig arno ef trwy ei [illegible] yn foddion dychweliad y fath un mewn gallu a defnyddioldeb â Joseph Thomas.

Dywedwn mai teimlad o'i rwymedigaeth a'i gyfrifoldeb, yn fwy na dim arall, oedd yn ei gymhell at grefydd ac i ymuno âg eglwys Dduw; ond yr oedd yn rhyw ofni fod hyny yn rhy fach o gymhelliad i fyned yn llwyddiannus drwy yr ymchwiliad a wneid i ansawdd ysbryd a theimladau y rhai a gynnygient eu hunain am aelodaeth yn eglwysi y Methodistiaid. Hyn oedd y rheswm ei fod mor hwyrfrydig i ymuno

â'r eglwys. Nid oedd arno gymaint o ofn cael ei holi o ran ei wybodaeth, ond yr oedd yn ofni mewn gwirionedd cael ei holi am ei brofiad a natur ac ansawdd y cymhellion a'i tueddai i fwrw ei goelbren gyda phobl yr Arglwydd. Tra yr oedd mewn pryder meddwl fel hyn byddai yn dyfod yn aml i gyffyrddiad â Mr. Price, gweinidog yr Annibynwyr yn Mhenybont fawr a Llangynog, wrth ddilyn y Cyfarfodydd Dirwestol i areithio ynddynt. Fel y gwelwyd, yr oedd y ddau ar delerau tra chyfeillgar â'u gilydd, a'r naill yn meddwl yn uchel o'r llall. O herwydd hyn yn benaf, a'r ffaith ei fod yn tybied nad oedd yr Annibynwyr yn holi cymaint ar yr ymgeiswyr a'r Methodistiaid, aeth i gapel yr Annibynwyr yn Llangynog i wrando Mr. Price, ac ymunodd â'r eglwys ar ddiwedd yr odfa. Nid oedd erioed yn arfer mynychu capel yr Annibynwyr ar y Sabboth, a darfu i'r ffaith fod un o'u gwrandawyr mwyaf cyson wedi eu gadael ac ymuno âg enwad arall, gynhyrfu ychydig ar yr hen Fethodistiaid yn y lle. Penwyd i'r brawd addfwyn Robert Jones fyned i ymddyddan âg ef, a'r unig reswm oedd ganddo dros ei ymddygiad ydoedd ei fod yn teimlo yn haws ymuno â hwynt nag â'r Methodistiaid; a'r unig addewid a gaed ganddo oedd, —"Lle bynag y byddaf y Sabboth nesaf, yno yr arosaf am fy oes!" Bu yr hen flaenoriaid ar y pryd yn ffyddlawn i'w Cyfundeb yn hyn o beth, er mai arfer y Methodistiaid o'r dechreuad ydyw rhoddi i fyny yn heddychol, fel Isaac, y meddiant o'r hyn y bydd bugeiliaid Gerar yn ei ddwyn oddiarnynt, ac ni fu yn y Cyfundeb fawr o'r ysbryd gwrol oedd yn Abraham i geryddu Abimelech am ei raib yn dwyn ei bydewau. Modd bynag, gwnaeth blaenoriaid Llangynog eu dyledswydd yn hyn. Yr oedd un dylanwad arall lled gryf yn gweithio yn ffafr y Methodistiaid: barn a theimlad ei fam. Yr oedd hi yn Fethodist o'r Methodistiaid, ac yn dwyn mawr zel dros draddodiadau a neillduolion ei henwad, ac nis gallai oddef y syniad o weled ei mab talentog yn ei adael. Ebe Edward Thomas, ei dad, wrth Edward Morris y blaenor,—"Ni chawsech chwi mo Joseph yn ol oni buasai fod Pali ar y ffordd iddo fyn'd at y *'Sentars.*" Ateb parod Edward Morris oedd,—"Y mae gormod o Pali tan groen Joseph i wneyd *'Sentar* byth." Nid oedd dim i'r bachgen ond pob credyd o'r ffaith fod llawer o Pali ynddo. Ymunodd â chrefydd, ar ol misoedd lawer o arofyn, yn nechre y flwyddyn 1840.

Y mae ei hanes ynglŷn â Dirwest yn ddigon hysbys, ei ddull o wneyd areithiau, ei boblogrwydd yn y cyfarfodydd, a'i gymeradwyaeth yn yr ardal, a'r ardaloedd cylchynol; onid yw y pethau hyn yn ysgrifenedig yn *Nhrysorfa y Plant?* Nid wyf yn meddwl am adrodd yma hanes y darganfyddiad a wnaed gan Dr. Edwards yn Llwyneinion, Nadolig, 1840. Pan adroddir yr hanes hwn yn ei fanylion, y mae llawer o bethau dyddorol i'w dyweyd am dano nad ydynt yn ysgrifenedig eto. Y mae y cyfaill a aeth gydag ef o Langynog i areithio yno yn awr yn fyw, ac yn flaenor parchus mewn eglwys gref yn yr America; a cheir arfod rywbryd, fe allai, i roddi ei adgofion dyddorol ef am yr amgylchiad. Bydd raid ysgrifenu ychydig hefyd am yr hen flaenor Richard Roberts o Landderfel, a aeth i Langynog i berswadio Joseph Thomas i ddyfod yno. Wedi sicrhau yr areithiwr, nid oedd Richard Roberts foddlawn heb sicrhau un gwrandawr oedd yn ddigon craffus i

weled pregethwr a dyn cyhoeddus yn yr [illegible] oedd ef ei hun yn yr areithiwr gwledig o Langynog. Aeth yr hen wr hwn i'r Bala i ddyweyd wrth Dr. Edwards am dano, ac i geisio ganddo ddyfod yno i'w wrando, gan ei fod yn un mor hynod. Enwyd Richard Roberts; y mae ychwanegu i'w ddyweyd am dano. Yr oedd Dr. Edwards yno yn y cyfarfod y boreu heb fod yr areithiwr yn gwybod: ac fel hyn y mae Mr. Thomas yn adrodd am hyny: "Areithiwr [illegible] oedd genyf, ond pwy oedd yno yn gwrando ond Dr. Edwards o'r Bala. Bychan y gwyddwn fod y fath wr yn gwrando arnaf: a da oedd hyny, onide buaswn yn waelach nag oeddwn. Dywedodd gŵr y tŷ lle yr oeddwn yn cael cinio fod Mr. Edwards yno, ynghyd ag amryw bregethwyr eraill. Yn nghyfarfod y prydnawn, ymddygodd Dr. Edwards yn dirion dros ben tuag ataf, ac annogodd fi i ddyfod i'r Athrofa mor gynted ag y gallwn, gan ymrwymo y cymerai ef y cyfrifoldeb, ac yr ysgrifenai at y Cyfarfod Misol yn fy achos. Bu hefyd yn llawn cystal a'i addewid. Dangosodd i mi garedigrwydd a hynawsedd mawr wedi hyny, gymaint fel y gallwn ddywedyd wrtho gyda yr hodlaw, Os anghofiaf di, anghofied fy neheulaw ganu." Canlyniad yr ymddyddan hwn â Dr. Edwards fu iddo fyned i'r Bala y mis Mawrth canlynol. Bu yn yr Athrofa am derm a hanner cyn dechre pregethu, felly yn niwedd y flwyddyn 1841 yr aeth John Hughes, Pontrobert, i Langynog i ymddyddan âg ef gyda golwg ar ddechre pregethu. Annogwyd ef i ddechre y Sabboth dilynol, yr hyn a wnaeth gyda y Parch. Thomas Davies o Lanwyddelan. Bu y brawd hwnw farw yn dra sydyn yn fuan ar ol hyn (Ionawr 20, 1842). Daeth y peth ar Joseph Thomas mor annisgwyliadwy fel nad oedd ganddo bregeth yn barod; ond yr oedd wedi meddwl ychydig am yr adnod, "Cytuna â'th wrthwynebwr ar frys," &c. Wrth fyfyrio arni ymagorodd iddo yn dair pregeth: I. *Natur yr anghydfod a dybir yn y testun.* II. *Trefn y Cymmod.* III. *Yr alwad i gymmodi.* Y gyntaf a draddodwyd o flaen Thomas Davies y Sabboth hwnw. Y mae yn ffaith o ryw ddyddordeb iddo ddechre pregethu y flwyddyn y bu farw John Elias, a chael ei eni yr un flwyddyn ag y bu farw Charles o'r Bala.

Llafuriodd yn galed yn y Bala. Byddai yn arfer dyweyd ei fod wedi dysgu digon Roeg yno i ddarllen ei destun yn yr iaith hono, a byddai yn dra gofalus rhag gwneuthur un camgymeriad i fradychu anwybodaeth. Dywedodd sylw unwaith ar un adnod oedd yn taro yn rhyfedd, a gofynodd Dr. Edwards gwestiwn iddo oddiwrth y sylw, a chafwyd allan fod sail dda i'r sylw, a chynghorodd y Dr. parchedig yr ychydig efrydwyr oedd yn y fan a'r lle i debygu i Joseph Thomas yn y gofal i beidio dyweyd dim yn gyhoeddus heb eu bod wedi meddwl am dano o amgylch-ogylch, fel y byddai ganddynt rywbeth i'w ateb i'r neb a ofynai gwestiwn oddiwrth hyny. Rhy brin dair blynedd fu ei arosiad yn y Bala, ond gwnaeth y defnydd goreu o'i amser yno i gymhwyso ei hun at oes o ddefnyddioldeb. Dysgodd y peth mwyaf pwysig i'w ddysgu o bob peth, sef dysgu astudio ar ol gadael yr Athrofa. Ni waeth beth a ddysgir, na pha swm o wybodaeth a gesglir; os na ddysgir astudio ar ol gadael yr ysgol, bydd y cyfan yn ofer. Nid dyma y lle i adrodd yr hanesion difyrus sydd am dano yn ystod ei fywyd athrofäol: y maent yn dangos fod rhyw hynodrwydd ynddo y pryd hwnw,

a'i fod yn wrthddrych o ddyddordeb mwy na chyffredin ymhlith ei gydefrydwyr. Adroddodd hanesyn neu ddau am dano ei hun yn fy nghlyw sydd yn dangos un o'r pethau mwyaf amlwg ynddo ar hyd ei oes, sef gallu i gyfaddasu ei hun at yr amgylchiad. Yr oedd bob amser, yn anad un braidd, yn gallu ymgodi at alwad yr amgylchiadau. Y mae llawer un mewn amgylchiad o bwysigrwydd yn myned yn llai nag ef ei hun. Ond am Mr. Thomas yr oedd yn hollol fel arall. Yr oedd yn anhawdd dyweyd ei faint na'i fesur rywfodd, o herwydd ni welwyd ef erioed yn methu llenwi y lle y gelwid ef iddo. Dywedai unwaith mai un o'r pethau rhyfeddaf a ddygwyddodd yn ystod ei arosiad yn y Bala oedd gwaith Dr. Edwards yn ei orfodi bron i fyned i Gymanfa Ysgolion Dosbarth Edeyrnion yn hollol ddirybudd a diragbarotöad, pryd nad oedd ond newydd ddechre pregethu. Yr oedd rhyw ŵr y dysgwylid llawer wrtho (Robert Owen, mi dybiaf), wedi siomi y brodyr yno yn dra sydyn. Anfonwyd gŵr ffyddlawn ar farch, gan ddwyn march cyfrwyedig arall yn ei law, i'r Bala i ofyn am i Dr. Edwards benodi y cymhwysaf oedd bosibl i gyflawni gwaith y diwrnod yn ddibrofedigaeth, i ddyfod gydag ef adref erbyn cyfarfod deg o'r gloch y boreu. Cododd Dr. Edwards allan gyda'r gŵr cyn cael ei foreufwyd, ac aed yn y fan at Joseph Thomas. Yr oedd yntau yn dychryn wrth feddwl am fyned yno heb barotoi dim. Gofynid iddo holi y plant yn un cyfarfod, holi y bobl mewn un arall, ac areithio ar yr Ysgol Sul yn y llall. "Mi a aethum," meddai, "yn unig o ofn y Doctor." Nid oedd ganddo ond ymddiried am yr holi i ddamwain yr adeg, ond yr oedd yn ceisio parotoi hyd y ffordd at yr araeth trwy gofio darnau o hen areithiau oedd wedi eu traddodi yn Llangynog a'r cylchoedd ar yr Ysgol Sul. "Ni chymeraswn i ddim llawer," meddai, "a myned felly wedi dyfod yn hŷn, ond daeth arnaf yn llawn gwell na'r dysgwyliad. Yr oedd y bobl yn bur garedig wrthyf." Cododd y tro hwn ef i gryn dipyn o sylw, a bu cryn son am dano fel holwr ac fel areithiwr. Yr oedd yn dra hyddysg yn yr Ysgrythyr cyn myned i'r Bala, ond dygwyddodd un amgylchiad yn ei hanes a barodd iddo astudio y Bibl yn ddyfalach nag erioed, a cheisio gwybod rhywbeth am ystyr ac amcan pob rhan o hono Yr oedd yn pregethu yn Ninbych, ac yn y prydnawn yn myned i'r Ysgol Sul; arweiniwyd y pregethwr i'r dosbarth penaf, yr hwn oedd yn cael ei wneyd i fyny o athrawiaethwyr dadleugar a checrus. Gwelodd yn fuan mai amcan un neu ddau o honynt oedd ei arwain ef i'r fagl; ond gan y dygwyddai fod yn bur gydnabyddus â'r adran a ddarllenid, gallodd gadw ei hun yn rhydd o'u gafael nes gweled eu heithaf. Wedi hyny dechreuodd eu holi, a chafodd rai o honynt i wrthddyweyd eu hunain yn lled fuan. Yr oeddynt yn fwynaidd a hawdd eu trin o hyny i'r diwedd. Ar ol myned i'r tŷ lle yr arosai, clywodd eu bod wedi baeddu yr hen frawd oedd yno y Sabboth blaenorol yn dost iawn. Wrth weled hyn meddyliodd beth pe buasai yr adran a ddarllenid yn ddyeithr iddo, mor druenus fuasai ei dynged yn eu plith. O hyny allan penderfynodd astudio y Bibl oll o adran i adran, yn y fath fodd ag y byddai ganddo ryw syniad am gynnwys ac ystyr pob rhan o hono. Penderfynodd neillduo rhyw gyfran o amser bob dydd i'r amcan hwnw, ac ni roddodd i fyny nes myned trwy bob llyfr o hono, oddigerth y Dadguddiad a Chaniad Solomon. Y dull oedd ganddo

ydoedd darllen adran drosti, nodi yr anhawsderau a gyfarfyddai ynddi, ac yna chwilio pob peth oedd yn ei gyrhaedd am eglurhad ar y pethau a ymddangosent yn dywyll iddo. Yr oedd wedi darllen y Testament Newydd ac wedi dechreu ar yr Hen Destament cyn gadael y Bala; a daliodd yr arfer ymlaen nes gorphen yr holl Fibl oddigerth y ddau lyfr a nodwyd.*

Wedi iddo aros yn y Bala am yn agos i dair blynedd, trefnwyd iddo fyned i lafurio i Birmingham a Bilston, lle yr oedd yn gorfod pregethu yn fynych i'r un bobl, ac felly yn cael ei gadw mewn llafur parhaus. Am ei lafur a'i lwyddiant yn y lleoedd hyn, dyma fel yr ysgrifena y blaenor craffus a gweithgar, Mr. Evan Thomas, Birmingham, mewn llythyr dyddorol a anfonodd ataf:—

Daeth Mr. Thomas i wasanaethu yr achos i Birmingham a Bilston yn niwedd y flwyddyn 1843, a bu yno hyd Hydref 1846, felly bron am dair blynedd o amser. Yr oedd yma dan nawdd y Genadaeth Gartrefol am £50 yn y flwyddyn: swm bychan, gan nad oedd y lleoedd hyn yn gwneyd dim i ychwanegu cyflog y cenadwr. Yr oedd yn dywedyd mewn Cymdeithasfa yn Amlwch, ryw ugain mlynedd yn ol, pan y ceisiwyd ganddo ddyweyd gair o blaid Wolverhampton am help o'r Genadaeth: "Yr ydwyf yn gwybod yn bur dda am y lleoedd hyn, ac yn meddwl yn siwr y gellwch chwi *fentro* cefnogi y cyfeillion sydd yn gofyn am help. Y mae yno dipyn o bobl bach go lew. Dyna Birmingham y darfu i chwi ei cynnorthwyo am dymmor byr, wedi d'od yn hunan-gynnaliol er's blynyddoedd; ac nid hyny yn unig, ond yn cynnal yno ddau weinidog, ac yn gwneyd yn llawer mwy anrhydeddus iddynt nag y darfu i chwi wneyd i mi. Byddaf yn meddwl mai peth da ydyw cynnorthwyo pobl sydd am weithio," &c. Drwg genyf mai ymhen blwyddyn neu ddwy ar ol ymadawiad Mr. Thomas y daethum i i'r lle hwn, ond yr wyf wedi bod yn ymddyddan â'r unig bedwar sydd yma yn awr, a fu yn mwynhau ei weinidogaeth, ond nid yw eu hadgofion ond rhai cyffredinol, heb ddim arbenigrwydd neillduol arnynt. Byddai yn treulio ei amser yn gydwybodol rhwng y ddau le. Pregethai ddwywaith bob Sabboth, ac yn fynych yn yr wythnos, heblaw cynnal cyfarfod eglwysig. Wedi cadw seiat yma nos Fercher, cychwynai boreu Iau i Bilston, gan gerdded yr holl ffordd, pellder o ddeng milldir, a darllen wrth fyned, a chario sypyn o lyfrau gydag ef. Yr un modd y dychwelai yma erbyn y seiat nos Iau yr wythnos drachefn. Efe hefyd fyddai y rhan amlaf yn holi yr ysgol. Yr oedd pawb yn synied am dano nad oedd ei fath am ddarllen a myfyrio, ac yn sicr ni bu neb yma mor dra chymeradwy ag ef. Yr oeddid am dano yn gyntaf o bawb i'r cyfarfodydd blynyddol hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd iddo le uchel yn syniadau, a chynhes yn serchiadau pawb yma. Teimlid ei fod mewn ffafr gyda Duw a dynion. Yr oedd ei awydd am lyfrau yn angerddol, byddai yn treulio oriau mewn *Second-hand Book Shops*, ac yn dyhysbyddu cynnwys ambell lyfr fel na byddai raid iddo ei brynu. Prynodd fath o *Encyclopedia* oedd yn cynnwys llawer o gyfrolau gan hen Iuddew am 25s., a chan afael ynddynt yn ei gollaid mynai eu cario adref. "Nid ewch ymhell," meddai yr Iuddew, "dan y fath bwysau;" er hyny cymaint oedd ei awydd fel y cychwynodd gyda ei faich mawr; ond gorfu arno droi i siop *grocer* cyn myned ymhell i ofyn am adael eu hanner yno nes y dychwelai. Byddai Mr. Price, gyda yr hwn y lletŷai, yn arfer dyweyd i Mr. Joseph Thomas yfed cymaint o wybodaeth gyffredinol o'r llyfr hwnw mewn dwy flynedd, ag a fuasai llawer un go lafurus yn ei wneyd mewn ugain mlynedd. Byddai yn pregethu ar achlysuron neillduol, am chwech o'r gloch foreu Nadolig, a'r nos olaf o'r flwyddyn.

Nid oedd yn hoff o ddysgyblu, gadawai y gwaith hwnw i Mr. Price, a thybiai ei fod yntau yn aml yn myned yn rhy bell. Dangosodd wrthwynebiad i ddysgyblu un brawd am esgeuluso moddion gras o herwydd tramgwydd, gan ei

* Gwnaed camgymeriad bychan wrth adrodd yr hanesyn hwn yn ei Angladd. Nid cydefrydydd oedd ei ragflaenydd yn y dosbarth y cyfeiriwyd ato, ac nid oedd ef yn gwybod dim ymha le yr oeddid yn darllen cyn myned i'r ysgol: felly nid oedd wedi parotoi ar gyfer y ddadl, ond mater o ddamwain oedd ei fod yn hyddysg yn y wers.

fod wedi cael achos tramgwydd. Byddai yn ddigalon wrth weled rhai yn ymadael, ac nid rhyfedd pan oedd yr achos mor wan fel yr oedd presennoldeb un yn cael ei deimlo; ond byddai Mr. Price yn dra chalonog ac yn dyweyd, "Gadewch iddynt, Mr. Thomas, dyna y cyfrifoldeb olaf am y rhai yna." At Mr. Thomas y byddai y profedigaethus yn myned, gan y dysgwylient fwy o gydymdeimlad ganddo ef na chan Mr. Price. Yr oedd yma ddau frawd o Aberystwyth yn hoff iawn o gario chwedlau, a gwyddent na chaent groesaw gan Mr. Price. Aethant at Mr. Thomas, a dywedasant lawer o bethau wrtho am rai o'r brodyr. Wedi gwrando arnynt dywedodd yntau wrthynt, "Yr ydych yn dyweyd y pethau hyn gyda y bwriad i mi fyned i siarad â'r brodyr i'w hargyhoeddi fel na wnelont y pethau hyn eilwaith." "O na," meddent hwythau, "peidiwch a son ein bod ni wedi dyweyd dim." "Os felly," meddai yntau "peidiwch a chario dim o'r fath i mi mwyach, am nas gall fod o ddim lles i mi nac iddynt hwythau; ac nis gallaf roddi fawr o bwys ar eich geirwiredd a'ch gonestrwydd am fod arnoch ofn iddynt wybod y pethau a ddywedasoch am danynt." Cafodd lonydd ganddynt byth mwy.

Wedi iddo ymadael oddiyma, nid oedd dim a wnai y tro gan y bobl fwyaf meddylgar a darllengar, ond cael dyn ieuanc arall fel Joseph Thomas. "Wel," meddai Mr. Price, "mi wnaf fy ngoreu gyda chwi i gael dyn ieuanc fel Joseph Thomas; ond y mae yn haws i chwi gael gwydd dew yn y farchnad na chael dyn ieuanc fel Joseph Thomas." Efe a greodd yr ysbryd darllengar sydd mor amlwg yn Birmingham o'r pryd hwnw hyd yn awr; a gellir dyweyd mai Mr. Price fu yr ysbryd arweiniol i haelioni. Y mae Birmingham yn hynod am ei haelioni, ac hefyd am ei chariad at lenyddiaeth ysgrythyrol; Mr. Price a ddysgodd i ni y cyntaf, a Mr. Thomas yr olaf. Daeth dyn llai ei allu, a llai ei ymroddiad i lafurio yma ar ei ol, ond gorfu iddo ymadael ymhen chwe' mis am nad oedd llafur yn ei weinidogaeth. Fe ddysgyblwyd John Ellis am godi cynhwrf y mae yn wir, ond barnodd y genad dros y Gymdeithasfa yn addas ei dderbyn yn ol heb edifeirwch. Bu y gŵr ieuanc hwnw farw yn fuan, ac wrth goffau am dano, dywedai Mr. Price, "ei fod wedi myned i'r nefoedd, ac mai dyna y lle goreu iddo, gan nad oedd yn gwneyd fawr o honi hi ar y ddaear yma." Er cymaint yr awydd, nid hawdd oedd cael dyn ifanc arall *fel Joseph Thomas.*

Yr oedd Mr. Thomas yn ŵr eangfrydig iawn. Ryw dro yr oedd yma, holai am amryw frodyr, ac am John Ellis, yr hwn y cydnebydd pawb ei fod yn fwy gonest nag o synwyrol. Dywedwyd wrtho ei fod gyda'r Presbyteriaid Seisonig er ys tro. "Wel," meddai yntau "dyn da yw John Ellis, ac y mae yn siwr o fyned i'r nefoedd trwy ba eglwys bynag yr aiff yno."

Y mae rhai o'r sawl oedd yn Birmingham ar y pryd yn dyweyd fod tôn ei weinidogaeth ac ansawdd ei ysbryd wedi newid yn fawr yn y blynyddoedd dilynol. Nid oedd ei ysbryd mor siriol, a gwedd ei weinidogaeth mor galonog y pryd hwnw; a thybiant fod y Parch. Edward Price, gyda yr hwn y llettyodd y rhan fwyaf o'r amser, wedi cario mesur o ddylanwad arno yn y cyfeiriad hwn. Y mae yn bosibl fod llawer o wir yn hyn; o herwydd ni buasai dyn ieuanc o graffder a difrifwch Mr. Thomas yn nghymdeithas y fath un heb ddysgu a manteisio rhywbeth drwy hyny.

Fel y gwelir, symudodd o Birmingham yn niwedd y flwyddyn 1846, ac fel Joseph Thomas, Llangynog, y mae ei enw yn y *Dyddiadur* am 1847. Yn nechreu y flwyddyn hon dechreuodd lafurio yn Nosbarth Llanfyllin, Llanrhaiadr, a'r lleoedd cylchynol, yn ol trefniant Robert Davies o Lanwyddelan. Flynyddoedd lawer cyn hyn yr oedd y gŵr anturus hwnw wedi gosod y Parch. Richard Jones yn Nosbarth Llanfair i ofalu am yr eglwysi, bron o Fwlch Llyn mawr i Groesoswallt, ac wrth ei osod yn ymrwymo yn ei dlodi, dros yr Hwn y mae y ddaear a'i chyflawnder yn eiddo iddo, y derbyniai am ei lafur wythnosol fwy nag a ennillai wrth ddilyn ei gelfyddyd fel gwehydd. Pa galedi bynag a

ddyoddefodd Richard Jones, derbyniodd lawn cymaint ag a ddysgwylid, ac ni bu raid i'r meichiau dalu yr un geiniog iddo. Erbyn yr adeg y daeth Joseph Thomas i Lanfyllin a'r amgylchoedd yr oedd pethau wedi gwella i'r fath raddau fel yr oeddid yn gwneyd cytundeb [illegible] ag ef; a dyma gopi o hono o fy mlaen yn llawysgrifen y brawd anwyl a ffyddlawn, y diweddar Humphrey Evans, Llanrhaiadr, gyda mam yr hwn y llettyai Mr. Thomas tra yn aros yn y lle. Yn ol y cytundeb hwn yr oedd i gael £50 yn y flwyddyn yn holl faes ei lafur. Yr oedd i gael 2s. y nos am ei lafur wythnosol, a swm penodol am ei lafur Sabbothol. Ymddengys fod ei gydnabyddiaeth wythnosol i fod yr un yn holl gylch y dosbarth, ond yr oedd Llanfyllin yn gwneyd ychydig yn fwy iddo am y Sabbothau. Yr oedd y cyfan a dderbyniai yn syrthio yn fyr o'r swm o £50; ac mewn cofnodiad yn Llanfyllin gwelir iddo dderbyn £6 7s. 6c. ymhen amser maith ar ol ymsefydlu yn Ngharno, yr hyn, fel y tybir, oedd yn gwneyd y swm addawedig i fyny. Danghosir yma hefyd ryddfrydigrwydd anrhydeddus yr hen flaenoriaid da oedd yn y dosbarth hwn, o herwydd y mae i fewn yn y cytundeb, "Os byddai iddo fethu llenwi ei gylch yn ol y trefniant, yr ymdrechid gwneyd y gydnabyddiaeth iddo yn gyflawn." Y mae yn y *Dyddiadur* gofnodiad ei fod yn cael ei ryddhau i fyned i bregethu i Lanarmon y noson yr oedd i fod yn Llanrhaiadr, a pha gydnabyddiaeth bynag a dderbyniodd yno, ni thollwyd arno gan Humphrey Evans. Ni byddai byth braidd yn cadw seiat yn Llanrhaiadr, gan fod y Parch. David Humphreys yno yn fawr ei barch, ac yn hynod ddefnyddiol yn y seiadau. Byddai Mr. Thomas yn pregethu yn Llanrhaiadr unwaith bob pythefnos heblaw y Sabbothau, ac yn y capelau cylchynol byddai yn pregethu ac yn cadw seiat yr un noson; seiat weithiau o flaen, a phryd arall ar ol y bregeth. Bu fel hyn ar gylch trwy yr holl ddosbarth, cynnwysedig o naw neu ddeg o eglwysi, am flwyddyn, yn pregethu bron bob nos oddigerth nos Sadwrn. Gwnaeth le mawr iddo ei hun yn y wlad hon mewn byr amser, ac yr oedd pawb yn foddlawn iddo gael y lle hwnw. Aeth Robert Davies gydag ef am yr wythnos gyntaf trwy y rhan fwyaf o'r lleoedd i'w gyflwyno i'r eglwysi a'r cynnulleidfaoedd, ac wrth ganu yn iach, a dymuno yn dda iddo, dywedai, "Wel, Joseph, dyma fi wedi dy osod di yma, a thi a gei, fel yr ebill yn y graig, y lle a wnei di i ti dy hun." Yr oedd yn hynod o boblogaidd trwy yr holl gylch, er nad oedd y ffurf appeliadol, a'r wedd ymddyddanol oedd ar ei bregethau yn mlynyddoedd ei nerth wedi dyfod i'r golwg eto.. Yr oedd yn arfer cymhariaethau y pryd hwnw, ond yr oeddynt yn wahanol i'r hyn a ddefnyddiai mewn blynyddoedd dyfodol. Yr oedd ei gymhariaethau yr adeg yma yn cael eu gwneyd i fyny yn hollol o bethau cyffredin oedd wedi eu gweled a'u clywed. Nid oedd ganddo nemawr gymhariaeth o'r Ysgrythyr am flynyddoedd ar ol hyn. Yr oedd ei draddodiad hefyd yn llawer mwy undonol, er hyny yr oedd yn ddymunol iawn, a'i lais yn well nag wedi iddo ddechreu gwaeddi. Bu yn pregethu am flynyddoedd heb ddyrchafu ei lef i waeddi; siarad yr ydoedd. Bu ganddo yn y tymmor hwn ar ei weinidogaeth rai brawddegau llanw yn cael eu harfer, nad oeddynt yn taro yn ddymunol iawn; megys y frawddeg hon wrth fyned at sylw arall, "Yr oeddwn i yn meddwl ddoe;" yr hyn a fyddai yn taro yn lled chwithig i ambell un a fyddai

wedi bod yn ei wrando mewn lle arall, ac yn clywed yr un bregeth drachefn. Ond cafodd waredigaeth lwyr oddiwrth bethau felly cyn blino llawer ar neb. Tra yr oedd yma llanwyd capel Llanfyllin â chynnulleidfa, ac yr oedd wyneb y wlad yn yr holl gylch at Fethodistiaeth. A dywedai Mr. Thomas yn ddiweddar wrth yr Ynad parchus, a'r blaenor galluog, Mr. J. Jones, Llanfyllin, ei fod i raddau yn edifarhau am adael y rhan isaf o Sir Drefaldwyn, am ei fod yn credu y gallasai fod yn fwy defnyddiol yno nag y bu yn y rhan arall. Y mae yn anhawdd i neb benderfynu mater fel hyn; y mae yr Hwn sydd yn trefnu lle ein preswylfod yn dyweyd, "Nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi."

Dywedir mai y neb oedd â'r llaw uchaf yn ei ddygiad i'r dosbarth yna i lafurio, a fu yn foddion mewn rhan i'w symud oddiyno. Yr oedd Robert Davies, wrth weled elfenau mor boblogaidd ynddo, yn pryderu rhag i Sir Drefaldwyn ei golli; a thybiai pe byddai iddo briodi a sefydlu ei gartref, y sicrheid ef i aros Pan yr oedd y Parch. R. Jones, Llanfair, yn myned dros Mr. Thomas at Mr. Edward Owen, i ddyweyd y byddai ef yn debyg o ddyfod ato i ofyn am ei ferch; yr oedd Robert Davies wedi rhoddi y gŵr da hwnw dan ei rybudd i ddyweyd wrtho, am ofalu peidio addaw ei ferch iddo, ond ar yr ammod nad oedd byth i'w symud o'i chartref. Yr unig reswm fod Robert Davies yn ymyryd mewn achos fel hyn oedd awydd angerddol am sicrhau gwasanaeth un mor gymeradwy i Sir Drefaldwyn. Pan y gofynodd un gwestiwn i Mr. Thomas gyda golwg ar y llaw oedd gan Robert Davies yn y symudiad hwn, yr ateb oedd, "Y gallai Robert Davies weithio gyda llaw anweledig." Ac y mae hyn yn hollol wir am dano, gan mor weithgar a medrus ydoedd.

Byddai Mr. Thomas bob amser yn dyweyd mai Robert Davies yn ei amser oedd "ysbryd y peth byw" yn Nghyfarfod Misol Sir Drefaldwyn. Efe oedd cychwynydd ei holl symudiadau. Pan oedd rhywun yn ammeu cywirdeb yr hyn a ddywedai am dano, ac yn enwi eraill a dybiai ef yn fwy pwysig fel aelodau o'r Cyfarfod Misol, "Gallai eu bod yn fwy pwysig," meddai Mr. Thomas, "ond ni waeth am eu pwysigrwydd, ni wnaent ddim, ac ni byddent fawr iawn o werth hebddo ef. Llosgi a glynu yn ngwaelod y crochan a wnai y cig a'r pethau eraill sydd yn angenrheidiol i wneyd potes, oni b'ai fod yr uwdffon yno i roi tro ac ambell broc. Felly am danynt yma i gyd yn y Cyfarfod Misol, ni wnaent ddim ond glynu yn ngwaelod y crochan a llosgi, ond fel y mae Robert yn dyfod ac yn rhoi proc. Pan y byddant yn dechreu glynu, y mae Robert yn siwr o roi proc." Y mae y gŵr a arloesodd anialwch moesol Sir Drefaldwyn i'r Efengyl, a ddiddymodd arferion drwg yr ardaloedd, a sefydlodd achosion ac a adeiladodd gapeli mewn naw neu ddeg o wahanol leoedd, y gŵr a sefydlodd ofalaeth weinidogaethol am y rhan fwyaf o eglwysi rhan isaf y sir, ac a ddysgodd y wlad i arfer haelioni, yn haeddu coffadwriaeth gwell nag a gafodd. Goddefer hanner gair ymhellach am dano wrth fyned heibio. Dyma y gŵr a feiddiodd ddyfod â phenderfyniad i'r Cyfarfod Misol, a thrwy fedr a'i pasiodd yn nannedd gwrthwynebiad cyfoethogion y sir: "Nad oedd un gweinidog yn Sir Drefaldwyn i gael llai na deg swllt o gydnabyddiaeth mewn un daith am ei lafur Sabbothol." Yr oedd

hyn yn gam pwysig ymlaen, pryd yn ei [illegible] [illegible] [illegible] [illegible] y llecwdd cryfaf yn rhoddi [illegible] [illegible] [illegible]. [illegible] y [illegible] eto, canys ef yn dwyn ymlaen penderfyniad arall, a [illegible] ddiwethiol, medrusrwydd, a gwawdiaeth [illegible]: y [illegible] yn [illegible] [illegible] y Cyfarfod Misol yn gweled yn angenrheidiol i annog y pregethwyr, hyd y mae ynddynt, i ymryddhau oddiwrth eu gorchwylion, ac [illegible] i wasanaethu yr achos; ac i'r eglwysi [illegible] [illegible] [illegible] yn [illegible] gallu i ddwyn hyn oddiamgylch." Cynhyrfodd y penderfyniad hwn wrthwynebiad cryf mewn rhai personau o [illegible]. [illegible] [illegible] yn ei erbyn, a daethpwyd i'r Cyfarfod Misol [illegible] [illegible] [illegible] [illegible] [illegible], a phasio penderfyniad arall fel hyn: "Fod y Cyfarfod Misol hwn yn gweled yn angenrheidiol i annog y pregethwyr [illegible] wrth eu gorchwylion, a pheidio myned yn faich ar yr eglwysi." [illegible] Robert Davies yn gadeirydd i'r cyfarfod hwnw, ni [illegible] y [illegible] [illegible] y diwedd. Siaradodd y cadeirydd yn ffafriol i'r [illegible], gan mai mawredd mewn dyn oedd unioni ei gamgymeriadau, mawredd mewn pob cymdeithas o ddynion oedd gwneyd yr un [illegible]. [illegible] siarad y mater yn dda, rhag pasio dim yn fyrbwyll [illegible] [illegible] eu unioni eto. Ar derfyn y siarad, enwodd y [illegible] [illegible] o frodyr cydnaws â'u gilydd i gyfarfod i dynu allan [illegible] [illegible] fel ffrwyth yr ymddyddan hwnw, i'w gynnyg a'i [illegible] [illegible] drannoeth. Ond cyn i'r trannoeth ddyfod cafodd Robert [illegible] [illegible] ei bregeth ddifyfyr ar Demas. Ergyd y [illegible] [illegible], Mai nid gadael crefydd ddarfu Demas, ond gadael y [illegible] [illegible] a myned i gadw siop i Thessalonica. Ni wnaeth [illegible] [illegible] wrth ei orchwyl er mwyn peidio myned yn [illegible] [illegible]. Tynai ddarlun o Demas yn cyfateb i'r hyn y [illegible] [illegible] penderfyniad y gwir bregethwr, yn cadw ceffyl da ac yn [illegible] [illegible] Sabboth, ac yn dychwelyd o daith ugain milltir [illegible] naw o'r gloch ddydd Llun. Dangosai mor fawr ei [illegible] Demas yn Nghyfarfod Misol Sir Drefaldwyn o'i gymharu [illegible] [illegible] a ddysgai fod i'r rhai oedd yn pregethu yr Efengyl [illegible] [illegible], gan y rhai a benodasid i dynu allan y penderfyniad [illegible] [illegible] ei basio drannoeth. Wedi cadw y personau [illegible] [illegible] am yn agos i awr a hanner, yr oedd yn dda [illegible] [illegible] am y cyntaf; ac nid oedd un o honynt yno i [illegible] y penderfyniad y boreu dilynol. Gofynwyd i Robert Davies [illegible] [illegible] gyda golwg ar y bregeth hono. Yr ateb oedd, "Ei [illegible] [illegible] po buasai yn gwybod y buasai yn y farn ar ol [illegible] [illegible], na buasai ar y pryd yn traddodi yr un bregeth arall yn ei lle." Robert oedd yn ddifrifol, er ei fod yn arfer gwawdiaeth: a'r [illegible] [illegible] oedd yn ei erbyn, yn gadael yr achos i ddihoeni o ddiffyg [illegible], yn hytrach na gweithredu haelioni, oedd yn arfer ysgafnder. "Gadewch [illegible] i [illegible] Rhagluniaeth weithio, Robert," ebe un hen [illegible] cyfoethog pan yn cael ei symbylu i waith. "Y mae Rhagluniaeth wedi gweithio," ebe yntau, "ac wedi rhoddi y gallu i wneyd hyn yn eich llaw chwi, dim ond i chwi ei hagor." Y mae hanesion dirifedi am Robert Davies ar wasgar hyd Sir Drefaldwyn: dylid eu casglu.

Yn gynnar yn y flwyddyn 1848, symudodd Mr. Thomas i Gaerno mewn canlyniad i'w briodas; ond byr fu parhad ei fywyd priodasol, a

herwydd ymhen ychydig gyda phedair blynedd, rhoddodd angeu derfyn ar fywyd daearol yr addfwyn, a'r ostyngedig, a'r wasanaethgar Mrs. Thomas. Y mae cofiant byr iddi yn y *Drysorfa* am 1853, tu dal. 385. Ni bu ond ychydig rhwng Sir Drefaldwyn a cholli llafur defnyddiol Mr. Thomas, o herwydd ychydig cyn symud i Garno rhoddwyd cais ar iddo ddyfod i wasanaethu yr Achos yn un o eglwysi cryfaf Sir Ddinbych. Yr oedd Dr. Edwards y Bala wedi ei enwi fel un tra chymhwys i gyfeillion yr Achos yn Llanrwst, a hwythau yn addfed i'w alw. Yn y flwyddyn y daeth i Garno y cafodd ei ordeinio. Fe allai nad annyddorol gan rai ydyw gwybod pa fodd y byddid yn dewis yn Sir Drefaldwyn y pryd hwnw. Yr oedd y frawdoliaeth yn dygwydd cyfarfod yn Llangynog, John Hughes yn y gadair; a dyma fater yr ordeinio yn dyfod dan sylw. Annogai y cadeirydd y blaenoriaid i enwi y neb a ystyrient yn gymhwys. Ond gan nad oedd neb yn enwi, dywedodd y cadeirydd ei hun: "Y mae yn rhaid ordeinio Richard Herbert, rhaid ordeinio Evan Jones, rhaid ordeinio David Humphreys, a rhaid ordeinio Joseph Thomas. Beth ydych chwi yn ei feddwl, Foulk Evans?" "*Right* foddlon," ebe yntau, "ond i chwi ordeinio Dafydd Cywarch," sef Dafydd Dafis o Gywarch. "Purion," ebe John Hughes, a dyna y brodyr wedi eu dewis trwy appwyntiad y ddau batriarch a chymeradwyaeth y cyfarfod. Ordeiniwyd y pum' brawd o Sir Drefaldwyn mewn math o Gymanfa Gorfforedig a gynnelid yn Machynlleth yn mis Gorphenaf y flwyddyn hono; yr oedd y Gymdeithasfa Chwarterol wedi ei chynnal yn mis Mehefin yn y Bala. Traddodwyd yr Araeth ar Natur Eglwys gan y Parch John Owen, Gwyndy, Ty'nllwyn wedi hyny, a rhoed y Cynghor gan y Parch. John Hughes, Liverpool. Gwel *Y Drysorfa*, 1848, tu dal. 289, &c.

Wedi ymsefydlu yn Ngharno, llafuriodd yn ddiwyd i godi yr achos yn y lle, ac yr oedd cysylltiad ffurfiol rhyngddo âg eglwysi Carno a Saron fel gweinidog er ys blynyddoedd lawer. Dywedai unwaith iddo lafurio yn y lle am ddeg neu ddeuddeng mlynedd heb weled dim o ffrwyth ei lafur. Yn amser y diwygiad, 1859 ac 1860, y gwelodd yr arwyddion sicr cyntaf fod ei lafur yno yn fendithiol. Yr oedd yn gofalu am borthi praidd Duw, gan fwrw golwg drostynt; ac nid oedd yn fwy ei barch a'i ddefnyddioldeb yn un man nag ymysg pobl ei ofal. Clywais ŵr oedd yn alluog i farnu pethau ysbrydol yn tystio fod y seiat yn Ngharno yn wledd i enaid o'r fath fwyaf danteithiol. Ei ragoriaeth mawr mewn cyfarfod fel yma oedd ei graffder, ei addfwynder, a'i dynerwch, ynghyd a chyfaddasder ei sylwaadu at bob gradd ac oedran yn y gymdeithas. Nid oedd yn caru holi a chwilio llawer ar neb wrth ddyweyd ei brofiad; ac yn y blynyddoedd diweddaf byddai yn siarad llawer ei hun o bethau tra gwerthfawr a phwrpasol. Yr oedd yn hynod o gartrefol gyda phethau mwyaf mewnol crefydd, ac yn peri i bawb deimlo yn gartrefol yn y cyfarfod eglwysig. Medrai ei gynnal mor ddifyrus ac addysgiadol nes ei gwneyd yn demtasiwn i'r aelodau ei fynychu. Ni byddai byth yn hoffi cyffwrdd â rhyw neillduolion a berthynent i neb yn y cyfarfodydd hyn; ac os byddai angen dyweyd rhywbeth felly, mynai ei ddyweyd yn gyfrinachol, a gallai wneyd hyny yn ddoeth a didramgwydd, a hynod o gyrhaeddgar. Yr oedd gŵr unwaith dan angen-

rhoddrwydd amgylchiadol i newid ei enwad. Oddi yma [illegible] yn dwyn mawr zel dros ei enwad ei hun, [illegible] fyddai yn eu plith hwy, a thuedd [illegible] o honno. Mynai Mr. Thomas ei dderbyn, [illegible] rhaid iddo aros lle [illegible] ar y pwynt hwnw. [illegible] Mr. Thomas [illegible] dderbyniad yn ysbryd yr efengyl, ac ni roddodd [illegible]. Ond ar ddiwedd y cyfarfod galwodd ef o'r neilldu, a [illegible] ei hoffi fel un yn byw gyda ei ail wraig. "Yr oedd y wraig gyntaf yn ddynes dda iawn," meddai, "ac [illegible], ond a fyddwch chwi yn canmol llawer ar y gyntaf wrth yr ail?" "Na fyddaf," meddai y dyn, "y mae hi yn [illegible] beidio, o herwydd nis gallai hi beidio meddwl [illegible] yn canmol hono yn achwyniad arni hi." "Arferwch yr un [illegible] yn union gyda y ddau enwad yma," ebe Mr. Thomas. "Os canmolwch chwi lawer wrth y rhai hyn ar yr enwad yr oeddych gydag ef, gallant hwy dybio eich bod yn achwyn arnynt hwy."

Yr oedd yn llanw lle mawr fel gofalwr am Gyfarfod Ysgolion y dosbarth. Pan ymadawodd Mr. Robert Evans, Llanidloes, i fyned i fyw i Aberteifi, dewiswyd Mr. Thomas i ofalu am y Cyfarfod Ysgolion yn y rhan hono o'r wlad, a daliodd i ofalu am dano mewn rhan hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd y Cyfarfod Ysgolion yn boblogaidd iawn, a hyny o herwydd poblogrwydd Mr. Thomas. Gwelsis adgofion am dano yn y cyfarfodydd hyn wedi eu hysgrifenu; ond nid ydynt yn gosod digon o arbenigrwydd ar neillduolion Mr. Thomas. Gwaith y cofais i y fraint o'i weled mewn cyfarfod ysgolion. Pennod o'r *Hyfforddwr*, "Am waith yr Ysbryd Glân," a holid. Y peth mawr yr amcanai yr holwr ato oedd cael gan yr atebwyr nodi allan y gwahaniaeth a'r gwahaniaeth rhwng "argyhoeddiad ac edifeirwch;" yna rhwng "edifeirwch a dychweliad;" ac wedi hyny rhwng "dychweliad ac ailenedigaeth." Dangosai fedr anarferol i gadw y dyddordeb i fyny yn y gynnulleidfa pryd nad oedd neb yn gallu ateb yn hollol gywir. Wedi cynnyg a chynnyg, agorid cil y drws iddynt at yr atebiad cywir; a phan y ceid ef, yr oedd yr atebwr yn ateb mewn modd oedd yn gosod allan ymffrost y darganfyddwr.

Pa rinweddau bynag oedd ynddo mewn unrhyw gysylltiad, yn y Pulpud y gwelodd Cymru ei fawredd, a phregethu oedd gwaith mawr ei fywyd. Antynych y cysegrodd neb ei oes yn fwy llwyr i un amcan nag y gwnaeth ef. Ni bu yn ymrwystro gydag unrhyw negeseuau bydol, i ddwyn ei feddwl oddiar, nac i gymeryd ei amser i fyny yn lle, gwaith y weinidogaeth. Er ei fod yn wleidyddwr goleuedig a blaenllaw, ac er ei fod yn gryf dros yr hyn a gredai yn iawn, eto nid ymyrodd â chwestiynau gwladol yn y fath fodd ag i effeithio dim ar ei gysegredigaeth i'w waith a'i swydd fel gweinidog yr efengyl. Ni chymerodd ran flaenllaw iawn erioed gyda symudiadau y Corff, er nad oedd yr un o'i ffyddlonach i drefniadau y Cyfundeb; ni roddodd fawr o'i amser na'i lafur i ddwyn dim neillduol o amgylch, fel ag i ormesu dim ar yr amser oedd ganddo i barotoi at y pulpud. Ystyriai ef, er yn wahanol i farn rhai o'i gyfeillion, na alwyd ef i arwain mewn trefniadau Cyfundebol, ond i bregethu. Pregethu, darllen a pharotoi i bregethu, a theithio i bregethu, ydyw holl hanes ei oes gyhoeddus. Nid oedd neb

yn fwy derbyniol nag ef yn y cyfarfodydd pregethu trwy Dde a Gogledd Cymru am y deng mlynedd ar hugain diweddaf o'i oes, na neb y sychedai y cynnulleidfaoedd fwy am ei weinidogaeth; ac addefid yn gyffredinol nad oedd cenadwri neb yn fwy bendithiol i'r wlad. Yr oedd yn gyfuniad o'r pregethwr mawr a'r pregethwr buddiol. A chymeryd pob dosbarth yn ein cynnulleidfaoedd i ystyriaeth, nid oedd neb yn fwy poblogaidd nag ef. Yr oedd yn "bregethwr y bobl" yn ngwir ystyr y gair. Fe allai fod eraill o'i frodyr yn cael eu hedmygu yn fwy nag ef gan ryw ddosbarth o wrandawyr; gallai fod y dosbarth anwybodus yn ein cynnulleidfaoedd yn synied yn uwch o ambell un nag ef, ond yr oedd y dosbarth deallus yn dirmygu y personau hyny; ac nid wyf yn sicr nad oedd y dosbarth gwybodus a darllengar yn gwneuthur cyfrif uwch o rai enwogion nag o Joseph Thomas; ond nid oedd y lliaws yn derbyn fawr o lesâd trwy y rhai hyny, nac yn teimlo fawr o ddyddordeb ynddynt. Ond a chymeryd pob dosbarth gyda'u gilydd, a chwilio am bregethwr i'w boddhau ac i'w llesoli yn ddiwahaniaeth, rhaid enwi Joseph Thomas yn gyntaf. Yr oedd pob dosbarth yn ei wrando yn ewyllysgar, ac yn derbyn lles drwyddo. Yn hyn gellir dyweyd am dano, mewn cymhariaeth i'w frodyr, fel y dywedid am Edward Irving a Dr. Chalmers. Yr oedd Irving yn fwy poblogaidd gydag un dosbarth na Dr. Chalmers, ond y gwahaniaeth oedd hyn, mai nid dyn un dosbarth oedd Chalmers, ond dyn pawb. Yr oedd ef yn boblogaidd gyda phob dosbarth yn ddiwahaniaeth. Y mae yr ehedfaen *(magnet)* yn tynu rhyw fath o bethau ato gyda mwy o rym nag y mae y ddaear yn eu tynu; ond nid un math o bethau a attynir gan y ddaear, ond pob peth yn ddiwahaniaeth. Attyniad yr ehedfaen oedd eiddo Irving, ond attyniad y ddaear oedd eiddo Chalmers. Yr un modd am Joseph Thomas. Y mae rhai pregethwyr mawr yn Nghymru hwyrach a dynant y dosbarth dysgedig a meddylgar yn ein cynnulleidfaoedd ar eu hol gyda mwy o rym nag y gwnai ef; ond nid oes ganddynt ddim gafael ar y cyffredin; attyniad yr ehedfaen ydyw hwn; ond am dano ef, yr oedd pawb o'r mwyaf gwybodus a meddylgar, hyd y mwyaf anwybodus a hurt, am dano. Attyniad y ddaear oedd yr eiddo ef. Ond beth oedd y rheswm am y poblogrwydd eithriadol hwn oedd yn perthyn iddo, a pha gyfrif sydd i'w roddi am y swyn a'r dylanwad a feddai? A ellir nodi allan elfenau ei boblogrwydd i'r fath raddau ag y gellir yn hyf ddywedyd, Dyma y rheswm am ei lwyddiant, a dyma guddiad ei gryfder? Beth bynag oedd yn ei hynodi, mi dybiaf fod ei boblogrwydd i'w briodoli i gyfuniad o amrywiol ragoriaethau oedd ynddo o ran ei gymeriad a'i weinidogaeth, yn fwy nag i ryw un peth arbenig.

Y peth cyntaf a nodir fel ei hynodrwydd, ac fel rheswm am ei boblogrwydd ydyw, gwreiddiolder diammheuol. Yr oedd yn wreiddiol yn ei ddull o feddwl, yn ei ddull o eirio, ac yn ei ddull o lefaru. Yr oedd cynllun ei bregethau yn hollol wreiddiol, a'r modd y llanwai y bregeth i fyny yn gwbl wreiddiol, ac yr oedd mor wreiddiol yn ei ddull o draddodi ag oedd yn nghyfansoddiad y bregeth. Nid yw bosibl i ddyn fod yn fwy gwreiddiol nag oedd Joseph Thomas, a bod o ryw werth hefyd. Nid wyf wrth ddywedyd hyn yn meddwl nad oedd yn darllen, ac yn manteisio ar yr hyn a ddarllenai; ond darllen i gryfhau a maethu ei feddwl ei hun yr ydoedd, ac nid darllen i arbed y llafur o feddwl a

myfyrio iddo ei hun. Yr oedd ef yn arfer darllen, ac yn darllen yn drwyadl. Nid oedd gangen o wybodaeth yr oedd ef yn farbariad hollol iddi, ond byddai yn mynu gwybod rhywbeth am bob peth a fyddai yn cael sylw gan feddylwyr a darllenwyr yn gyffredin. Dywedai wrth gyfaill unwaith ei fod wedi darllen gwaith Cunningham ar *Hanes Duwinyddiaeth*, ac yn ei ganmawl yn fawr. Yr oedd y cyfaill hwnw ar y pryd yn darllen Shedd ar *Hanes yr Athrawiaeth*, ac yn dyweyd rhywbeth am ei gynllun a'i gynnwys, ac yn cyfeirio at farn Dr. Edwards ar waith Cunningham ac yntau. "Yn wir," meddai, "rhaid i mi gael hwna eto; nid wyf yn foddlawn i fod heb ddim sydd yn rhyw help gyda'r pregethu yma." Ymhen amser cyfarfuant â'u gilydd drachefn, a gofynwyd a oedd wedi prynu gwaith Shedd. "Na," meddai, "yr ydwyf wedi ei ddarllen heb ei brynu." Buasai yn aros rhwng dau gyfarfod am ddiwrnod a noswaith mewn tŷ lle yr oedd copi o Shedd yn dygwydd bod; darllenodd y gyfrol gyntaf o hono yno; a chafodd fenthyg yr ail gyfrol am ryw ddeuddydd, a darllenodd hi. Yr oedd y darlleniad o angenrheidrwydd yn dra brysiog, ond yr oedd yn gydnabyddus â chynnwys y llyfr yn ei holl ranau a'i fanylion. Yr ydwyf yn dyweyd hyn i ddangos ei awydd am ddarllen a'i allu i gymeryd cynnwys llyfr i fyny. Ond pa beth bynag a ddarllenai, a pha beth beth bynag a gofiai, yr oedd y bregeth bob amser yn gynnyrch tyfadwy o'i feddwl ef ei hun. Yr oedd yn darllen i wrteithio a chyfoethogi maes ei feddwl ei hun, ac nid yn myned i faes neb arall i ddwyn llysiau na phlanhigion wedi tyfu yno. Ni byddai byth arogl na blas y gwrtaith ar ei gynnyrchion. Pan y mae tir tlawd yn cael ei wrteithio yn drwm fel ag i ddwyn cnwd toreithiog, fe fydd blas ac arogl yr hyn a roddwyd ynddo i'w ffrwythloni ar y cynnyrch, nes y bydd yr anifail yn ffroeni arno yn lle ei fwyta; felly y mae dyn o feddwl tlawd a diffrwyth wrth ddarllen; bydd arogl a blas y llyfr ar y bregeth ac ar bob peth a wna. Y mae y tir da, wrth gael ei wrteithio, yn cyfoethogi ei hun, ac yn cadw yr elfenau a dderbyniodd o'r newydd yn gryfder ynddo ei hun am flynyddoedd, ac nid oes neb yn gwybod pa wrtaith a dderbyniodd oddiwrth arogl na blas ei gynnyrch. Tir da, ffrwythlawn, cynnyrchiol, oedd meddwl Joseph Thomas; ni wyddai neb ar ansawdd y cynnyrch a ddygai pa beth a fu yn ei ffrwythloni.

Yr oedd neillduolrwydd cymeriadol a phersonol yn dyfod i'r golwg yn yr oll a wnai. Nid oedd yn debyg i neb, ond yn gymeriad hollol ar ei ben ei hun. Y mae cryn lawer o gwyno am nad oes cymeriadau ymhlith ein dynion cyhoeddus, a dywedir fod addysg yn diddymu hynodion cymeriadol dynion; ond ni ddylai hyny fod, a rhaid gwneyd cam âg addysg iddi effeithio felly. Planer dau blanhigyn gwahanol yn yr un ddaear, bydded i'r un garddwr eu trin, a'u trin gyda yr un offerynau, cloddio o'u hamgylch a bwrw tail i bob un o honynt fel eu gilydd; nid yw hyny yn eu gwneyd yn debycach y naill i'r llall na phe buasent yn tyfu gannoedd o filldiroedd oddiwrth eu gilydd. Y maent yn tyfu, ond y mae y pwyntiau yr oeddynt yn gwahaniaethu yn cynnyddu hefyd. Os ydyw addysg a gwybodaeth yn cynnyddu galluoedd y meddwl, dylai nodweddion gwahaniaethol gynnyddu hefyd. Po fwyaf y bo dynion, hawsaf yn y byd ydynt i'w gwahaniaethu. Y mae yn haws i'r llygad o lawer wahaniaethu rhwng dau fynydd na

dau dywodyn, pryd y mae cymaint ar gyfartaledd o wahaniaeth rhwng y ddau dywodyn ag sydd rhwng y ddau fynydd; ond y mae bychander y tywod yn peri fod eu nodweddau gwahaniaethol yn anamlwg. Y mae rhyw dywod o ddynion yn ymddangos yn debyg i'w gilydd, ond y mynyddoedd mawrion yn hawdd i'w gwahaniaethu. Y mae addysg yn gwneyd dynion yn fwy, ac felly dylai eu nodweddion gwahaniaethol ddyfod yn fwy amlwg. Y mae Duw yn gwneyd pob dyn yn gymeriad, ond fod rhai yn gymeriadau bychain, a'u nodweddion gwahaniaethol o gymaint â hyny yn llai amlwg. Yr oedd Mr. Thomas yn fawr a'i nodweddion gwahaniaethol yn amlwg, a diau fod hyn yn elfen yn ei boblogrwydd. Yr oedd ef unwaith yn rhoddi rheswm am boblogrwydd un nad oedd yn un o'r rhai mwyaf teilwng, ond a fu yn boblogaidd iawn am dymmor byr. Yr oedd ychydig bach o adfywiad ar grefydd yn nhymmor gweinidogaeth hwnw; a dyma resymau Mr. Thomas: "Ni pharhaodd ond am dymmor byr; pe buasai ei oes yn hŵy, cawsai waith cadw ei boblogrwydd. Daeth allan ar amser da, rhyw sirioldeb a myn'd ar bobpeth; pe buasai yn dyfod ar amser marwaidd ac oer ar grefydd, ni buasai mor dderbyniol; ac hefyd yr oedd rhywbeth ynddo yn wahanol i bawb. Y mae rhyw fantais mewn bod yn wahanol i eraill pe byddai dyn yn salach. Dyna y gôg, canu yn o dlawd y mae hi, ond nid oes yr un o'r adar sydd yn canu yn well na hi mor boblogaidd. Tymmor byr ydyw tymmor ei chân; pe canai drwy y flwyddyn, ni byddai dim son am dani. Y mae hi yn dyfod allan ar amser da—dyfodiad haf; pe deuai o flaen y gauaf, ni byddai mor dderbyniol. Hefyd y mae ei chân yn wahanol i eiddo pob aderyn arall. Rhyw gôg oedd y brawd yma." Nis gellir cymhwyso ond un o'r rhesymau hyn at boblogrwydd Mr. Thomas ei hun: yr oedd yntau yn wahanol i bawb, ac yr oedd hyny yn un elfen yn ei boblogrwydd.

Yr oedd yn berffaith naturiol, ac yr oedd ei naturioldeb yn codi oddiar y pethau goreu sydd yn perthyn i ddyn—difrifwch a chywirdeb. Y mae pob rhodres a ffuantrwydd, a phob math o ganu wrth draddodi yr efengyl, yn codi o ddiffyg cywirdeb a difrifwch yn y pregethwr. Nid oedd Joseph Thomas yn meddwl am foddhau y bobl, ond am wneuthur lles, ac yr oedd hyn yn ei wneyd yn brydferth a dirodres—yn ei wneyd yn naturiol. Yr oedd yn naturiol, nid yn unig yn y pulpud, ond ymhob man. Yr oedd yn haws iddo fod felly na phawb. Y mae dau fath o ddynion ag y mae yn anhawdd iddynt fod yn berffaith naturiol: y rhai hyny y mae gras yn gorfod gwneyd rhyw ddinystr arnynt fel dynion wrth eu cyfnewid, a'r rhai hyny nad ydyw eu hansoddau dynol yn cael eu hennill yn gyflawn i grefydd. Yr oedd tymher naturiol Mr. Thomas, ac ansawdd ei ysbryd cyn ei dröedigaeth mor gydnaws â'r efengyl, fel nad oedd dim rhyw ddifrod mawr yn cymeryd lle yn ei dröedigaeth. Pan yr oedd ef yn fachgen gwyllt, a rhai yn ofni yn Llangynog fod y Fall yn ei nodi allan fel arweinydd y lliaws i wneuthur drwg, nid oedd y pryd hyny yn amddifad o'r ansoddau ardderchog mewn dyn a eilw yr Arglwydd Iesu yn "galon hawddgar a da." Pan y mae dynoliaeth afrywiog, greulawn, ddichellgar, mewn dyn, rhaid i ras wneyd rhyw anrhaith arno cyn ei adferiad. Y fath ddifrod a wnaed ar y disodlwr dichellgar yn Peniel, i'w wneyd yn Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dwyll. Am Joseph Thomas.

yr oedd ei ddyuodiaeth naturiol â rhywbeth ynddi yn [illegible] â [illegible] [illegible] Hefyd pan y mae dyn heb ei ennill yn llwyr i grefydd, y [illegible] yn anhawdd iddo fod yn naturiol hollol. Y mae [illegible] rhywbeth sydd yn naturiol iddo. Pan y daw rhyw [illegible] y [illegible] hono, ac i'r hyn sydd yn naturiol yn y dyn [illegible] ei hunan am [illegible] ydyw, "Un fel yna ydwyf fi." Y mae y [illegible] heb ei ennill yn llwyr i grefydd. Ond am Mr. Thomas, [illegible] wedi ei ennill yn llwyrach nag ef i grefydd. Yr oedd [illegible] a [illegible] wedi eu sancteiddio i waith yr efengyl. Y mae [illegible] yn [illegible] fod yn naturiol. Yr oedd y naturioldeb [illegible] [illegible] yn [illegible] na byddai dim byd tebyg i [illegible] yn [illegible] dim.

Yr oedd ganddo hefyd y fath stôr o arabedd (*humour*), ac yr oedd [illegible] mawr. Yr oedd mwy o ddigrifwch â thuedd i [illegible] yn arabedd Mr. Humphreys, y Dyffryn; ond yr oedd mwy o [illegible] ac amcan yn arabedd Mr. Thomas. Yr oedd ei [illegible] ei ymadroddion, yn gyfunedig â synwyr a chraffder [illegible] yn ei arabedd, yn gwneyd gwaith trwy un frawddeg nas gellid ei [illegible] trwy awr o ymresymu. Yr oedd yr arabedd hwn wedi ei [illegible] i amcan mawr y weinidogaeth ynddo, fel na chafodd [illegible] dymher, fantais i'w geryddu ef am ormod [illegible] fel y [illegible] am rai yn ceryddu Mr. Humphreys. Yr oedd arabedd Mr. Humphreys yn fwy ffraethbert, ond yr eiddo Mr. Thomas yn [illegible] mwy o addysg guddiedig. Cofir am dano unwaith yn [illegible] ar y maes, ar ol brawd oedd wedi pregethu yn [illegible] rhagymadrodd hir, nes yr oedd y pregethwr a'r [illegible] wedi [illegible] cyn dyfod at y bregeth. Cododd Mr. Thomas [illegible] a'r gair cyntaf a ddywedodd oedd, "Nid wyf am [illegible], ond af i symud y gwrych i gyd, ond mi doraf [illegible]." Yr oedd symud y gwrych i gyd yn lle tori adwy i [illegible] mor ddarluniadol o waith y llall, nes yr [illegible] trwy yr holl Gymdeithasfa. Dro arall yr oedd yn [illegible] wedi gwaeddi gormod i ateb i'w nerth a maint y [illegible] a ddywedodd ar ol darllen y testun oedd, "Nid [illegible] y mae gwaeddi yn myned yn llai ei werth [illegible] tipyn."

Yr oedd ganddo [illegible] i ganfod gwirionedd ac i adnabod [illegible] ei syniad allan, ar darawiad [illegible]. Gydag un frawddeg tynai ddarlun [illegible] heb lai na'i adnabod wrtho; a byddai [illegible] a tharawgar yn ei ddarluniau, fel y byddid [illegible]. Yr oedd un brawd yn pregethu yn hwyliog, [illegible] am [illegible], a thawelu wedi hyny; [illegible] Mr. Thomas ar ei ol [illegible]. "Rhyw drot mochyn ydyw ei [illegible] yr arabedd hwn yn y pulpud gyda [illegible] rhyw [illegible] i'w sylwadau synwyrol a [illegible] i galonau ei wrandawyr, a byddent yn [illegible] yn eu cof am byth. Nid oes neb o'n pregethwyr [illegible] ar gael yn nghof ei wrandawyr. Y mae hyn i'w briodoli, mewn rhan, i'w [illegible] ddyweyd pethau yn fyr a

chryno, i'w gymhariaethau priodol a tharawgar, ynghyd ag i'r arabedd oedd ynddo yn gwneyd y cyfan mor dra derbyniol. Byddai yr *humour* yma yn gwneyd gwasanaeth mawr yn y Cyfarfodydd Misol ac yn y Gymdeithasfa. Y mae yr engreifftiau o hyn yn afrifed; gwasanaethed un fel esiampl. Yr oedd brawd, yn tueddu at fyned yn hen, yn rhoddi hanes yr achos yn nghylch y Cyfarfod Misol; ac yr oedd y sylwadau yn dangos y gofynai y brawd hwnw, "Paham y bu y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn?" Teimlid fod hyny yn tueddu i ddigaloni y rhai oedd ar y maes y pryd hwnw yn gwneyd eu goreu, ac nid oedd neb yn barod i godi i wneyd un sylw ar yr adroddiad; ond gorfododd y cadeirydd Mr. Thomas i siarad arno. Wedi canmol rhyw bethau yn yr adroddiad, dywedai: "Ond y mae yn amlwg fod yr adroddwr wedi priodi yr oes o'r blaen. Y mae ef yn byw gyda'r oes hon, ac wedi priodi yr oes o'r blaen. Rhaid cael dyn call iawn i fyw yn hapus gyda dwy wraig, a rhaid cael dyn synwyrol, ac o ysbryd go dda, i fyw yn hapus gyda dwy oes hefyd. Yr oedd gŵr a adwaenwn i wedi ail briodi. Y tro cyntaf priododd wraig nad oedd yn deall yr amgylchiadau yr oedd hi ynddynt; yr oedd wedi ei dwyn i fyny i gylch gwahanol; ac aeth yn ol yn y byd yn fawr gyda hi. Yr ail dro priododd un addas i'w sefyllfa, a gwraig dda ydoedd, a dechreuodd ei amgylchiadau yntau wella. 'Y mae yn dda iawn genyf dy weled wedi taro mor hapus,' ebe ei frawd wrtho; 'y mae hon yn wraig dda, a phob peth fel yn gwella dan ei llaw. Ond yr oeddwn i yn ofni am danat ti gyda'r llall.' 'O na,' meddai yntau, 'y llall oedd y wraig; mi briodais i y llall o wirfodd fy nghalon, ond rhaid i mi dreio byw gyda hon.' Felly am Mr. ——; y mae yntau wedi priodi yr oes o'r blaen, ond rhaid iddo dreio byw efo hon."

Am ei ddull o feddwl a gosod ei feddwl allan, y mae yn rhy adnabyddus i'r darllenwyr i mi allu dyweyd dim na wyddant. Yr oedd rhyw ëangder ynghylch ei feddwl, a rhyw gymhwysder neillduol yn y cymhariaethau a ddefnyddiai i osod ei feddwl allan mewn dull tarawgar ac effeithiol. Y peth amlycaf hyd yn nod yn y cymhariaethau a ddefnyddiai oedd ei awydd angerddol am lesâu ei wrandawyr. Yr oedd mwy o gysylltiad rhwng ei ddull o bregethu â'i awydd i fod yn ddefnyddiol a buddiol nag y mae llawer yn feddwl. Yr oedd ganddo allu i drin pwnc pe buasai yn ewyllysio. Mi a glywais dair o bregethau felly ganddo. "Ysbryd yw Duw," oedd testun un; "Edifeirwch i Israel a maddeuant pechodau" oedd testun y llall; a chlywais un arall ganddo ar "Etholedigaeth Gras." Yr oedd y ddwy gyntaf yn fwy pynciol na'r olaf. Dywedodd llawer wrtho fod y rhai hyny yn bregethau â gwaith arnynt. Yr oedd yntau yn dyweyd wrth adrodd nad oedd fawr o waith iddo ef ar y rhai hyny, gan nad oedd yn gwneyd dim ond adrodd yr hyn a wyddai; ac mai nid mewn gwneyd traethodau mawr y mae llafur i bregethwr, ond mewn dwyn y gwirionedd i'r ffurf debycaf o daro a chyffwrdd ystyriaeth y bobl i wneyd rhyw les iddynt. Gallasai bregethu yn alluocach, yn nghyfrif rhai, oni buasai ei awydd mawr am wneuthur daioni. Yr oedd hyn yn ei wneyd yn ddiystyr o rai rhagoriaethau y gallasai yn hawdd eu cyrhaeddyd, megys mwy o drefn a chysondeb yn nghyfansoddiad y bregeth. Yr oedd mwy o hyny i'w weled yn y pregethau a draddodai yn nghyfnod

cyfnod ei weinidogaeth [illegible] o'r flwyddyn 18[illegible] hyd 1870. Ar ol hyny aeth i raddau yn fwy [illegible] ragoriaethau [illegible] gydd yn perthyn i [illegible]. Aeth [illegible] i'w [illegible] ei hun yn fwy. Yr oedd yn [illegible] gyfnod yr [illegible] ei fod wedi gwneyd pregeth newydd mewn pum mlynedd i [illegible]. Gofynid iddo, A oedd y bregeth yn newydd? Atebai yntau fod y tŷ yn newydd, ond fod y [illegible] wedi bod [illegible] mewn rhyw [illegible] neu gilydd o'r blaen.

Yn nechreu cyfnod ei weinidogaeth gyffredinol, cyfansoddodd gyfres o bregethau ar wahanol faterion yn cynnwys holl feddwl Duw can[illegible] ag yr oedd ef yn gweled cymhwysder ynddo ei hun i'w bregethu i'r cynulleidfaoedd. Yr oedd tair neu bedair o honynt ar lwyddiant [illegible] yn y byd; rhyw nifer ar alwad yr efengyl, yn cynnwys cymhelliadau i bechaduriaid; ac felly ymlaen ar amryw faterion. Un o'r rhai hyny oedd yr un y cyfeiriwyd ato ar "[illegible] Gras." Yr oedd hon yn un o'r pregethau goreu a glywais neu a ddarllenais i erioed. Un o'r rhai hyn hefyd ydoedd y bregeth ragorol hono o'i eiddo, "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain," &c. Pe gellid cael pymtheg neu ugain o'r pregethau y cyfeiriwyd atynt, byddent yn ddrych tecach o'i weinidogaeth ar hyd ei oes na'r pregethau a draddododd yn y blynyddoedd diweddaf.

Ond pa ragoriaethau bynag a'i hynodent mewn un cyfnod ar ei oes, ag y bu i ryw raddau yn esgeulus o honynt ar ol hyny, cadwodd y pethau penaf hyd y diwedd. Yr oedd yn "ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd, yn dwyn allan o'i drysor bethau newydd a hen," ac yn eu dangos i'r tyrfaoedd nes y byddent yn synu at eu gogoniant a'u mawredd. Yr oedd ganddo allu anarferol i ddylanwadu ar deimladau ei wrandawyr. Ac yr oedd yn myned yn fwy dylanwadol fel yr oedd yn heneiddio. Yr oedd ei ymddangosiad hardd, tywysogaidd, a chariadlawn, yn ddeniadol i'r gynnulleidfa, ac yn creu rhyw hapusrwydd a boddlonrwydd yn y dorf, nes y byddai y bobl yn ei law cyn iddo ddechreu llefaru. Yr oedd ei bregethau bob amser yn gyflawn o'r efengyl, ac yn cynnwys meddyliau ëang a chryfion, a'r rhai hyny yn cael eu gosod allan gyda y fath gyfoeth o amrywiaeth a thlysni trwy y cymhariaethau a ddefnyddiai, o hanesion y Bibl, o natur, ac o gylch ei sylw cyffredin. Ni byddai cymhariaeth byth yn methu cyrhaedd ei hamcan dan ei law. Nid oedd raid iddo byth wrth ystryw areithyddol i ddylanwadu ar y bobl, ond yr oedd ei feistrolaeth arnynt yn hollol, a hwnw trwy ddylanwad hollol bur a theg.

Nodweddid ei bregethu bob amser gan eneiniad tawel a digyffro. Nid grymusder oedd nodwedd ei bregethu, ond yr hyn a ddynodir yn gyffredin trwy y gair "gwlithog." Yr oedd yn bregethwr gwlithog mewn gwirionedd. Dywedai ei frawd Mr. Edward Thomas, gyda syndod fod rhyw frawd heb fod yn bregethwr effeithiol iawn, wedi pregethu ar ol ei frawd ef mewn rhyw gyfarfod pregethu. "Wel, beth fu y canlyniad?" meddai y cyfaill wrtho. "Wel, fe gafodd fy mrawd odfa hapus," meddai yntau; "yr oedd llewyrch arni o'r dechreu i'r diwedd. Nid oedd yr un wyneb sych yn y lle, ac fe ddybenodd gan adael y gynnulleidfa yn foddfa o ddagrau. Ond fe ddaeth y llall i fyny ac a sychodd bob deigr oddiwrth eu llygaid mewn pum' mynyd."

Dyna ddarlun o'r rhan fwyaf o odfeuon Mr. Thomas, "dybenu â'r gynnulleidfa yn foddfa o ddagrau." Mwydid y cynnulleidfaoedd trwy ei weinidogaeth yn ysbryd yr efengyl; a gwelwyd y dyrfa dano lawer gwaith yn plygu fel cnwd y weirglodd ar foreu haf dan bwys gwlith trwm y noson flaenorol.

Yr oedd ei synwyr eithriadol yn help iddo hyd yn nod wrth bregethu. Y mae synwyr, fel pob rhagoriaeth arall, yn gwneyd dyn yn fwy o allu ymhob cylch. Yr oedd mor enwog am ei synwyr â Mr. Humphreys y Dyffryn, ond gallai fod hyn o wahaniaeth rhyngddynt: synwyr i ddeall amgylchiadau oedd gan Mr. Humphreys, synwyr i ddeall personau a'u hamcanion yn benaf oedd eiddo Mr. Thomas. Yr oedd un o wŷr blaenaf Sir Drefaldwyn yn dyweyd mai unig ragoriaeth Mr. Joseph Thomas ar Mr. Edward Thomas, ei frawd, oedd ei synwyr. Yr ydwyf yn bell o feddwl hyn, er fod yn Mr. Edward Thomas gryn dipyn o'r gallu oedd yn hynodi Mr. Joseph Thomas. Yr oedd un brawd yn pregethu yn nghlyw Mr. Edward Thomas gryn lawer yn fwy llafurus nag o effeithiol. Yr oedd rhywun yn ceisio ei gyfiawnhau am ei fod wrthi â'i holl nerth. "Oedd," meddai Edward Thomas, "yr oedd o wrthi hi â'i holl egni, ond yr oedd mor ddieffaith a phe buasai dyn yn poeri ar gorff marw." Yr oedd peth o'r hynodrwydd oedd yn ei frawd ynddo ef; ond nid mewn synwyr yn unig yr oedd y gwahaniaeth rhyngddynt. Er fod Joseph Thomas wedi ei gynnysgaeddu gan natur â mesur helaeth o synwyr, yr oedd ganddo allu anarferol i brynu synwyr hefyd. Adroddai ryw dro trwstan mewn rhyw frawd, ac oddiwrth hyny dywedai: "Mi welais yn y fynyd pa mor ofalus y dylai pregethwr fod ar y pen yma." Yr oedd yn hynod o ochelgar gyda phawb na byddai yn siwr o honynt, ac yn hynod o rydd gyda phawb y byddai ganddo ymddiried ynddynt. Yr oedd rhyw stori yn y gwynt un tro, a phawb am y cyntaf yn ei hadrodd. Aeth un pregethwr ato i'r trên ac adroddodd yr ystori iddo wrth gyd-deithio. Siaradai yntau yn hynod o rydd ynghylch ei manylion. Mewn lle arall dyma bregethwr eto yn dyfod i mewn, ac yn adrodd yr un ystori, gan synu na buasai Mr. Thomas wedi ei chlywed. "Ni welsoch chwi erioed lai o beth fel yna fyddaf fi yn ei glywed," meddai yntau. Nid oedd waeth beth a ddywedid, yr oll a geid ganddo oedd, "Yr ydwyf fi yn farw iawn i bethau fel yna," a rhyw ymadroddion o'r fath. Ymhen tipyn dyma y brawd hwnw yn myned i lawr. "Dyna fo wedi myned," meddai Mr. Thomas, "ni a allwn siarad bellach. Rhyw dipyn gormod o geg ydyw y brawd yna." Ond er mor synwyrol a llygadog oedd, ni welwyd un erioed rhyddach oddiwrth bob ystryw a dichell; yr oedd yn gyfuniad o gallineb a diniweidrwydd. Anfynych y gwelwyd un mor nodedig am ei synwyr, â chymaint o'r plentyn ynddo.

O herwydd ei synwyr, ei bwyll, a'i ochelgarwch, byddai rhai yn dueddol i ddyweyd ei fod i raddau yn llwfr, ac y byddai yn well ganddo adael i wirionedd ac egwyddor ddyoddef na dolurio ei gnawd ei hun wrth eu hamddiffyn. Ond y mae hyn yn gamgymeriad mawr. Nid oedd yn brysur i ddyfod allan mewn achlysuron o gerydd a dysgyblaeth, ac nid oedd yn dueddol iawn i wrthwynebu neb yn haerllug; ond os byddai egwyddorion yn debyg o gael cam, deuai allan yn gryf ac anwrthwynebol. Gallwn nodi hanner dwsin o amgylchiadau lle y dangosodd ei hun yn eithriadol gryf dros yr hyn a gredai oedd yn iawn. Y

syniad oedd ganddo, fod yn hawdd gwneyd drwg mewn cymdeithas fel hyn, oedd y rheswm am ei arafwch mewn pethau o'r fath. Yr oedd ganddo feddwl uchel iawn o'r rhai sydd yn gryfion i [illegible]. Wrth wneyd coffâd am un hen frawd, dywedai rhywun am dano ei fod yn debyg iawn i Iesu Grist, "Am nad allai oddef gweled y newidwyr yn y deml." "Nid mor debyg," ebe Mr. Thomas, "a [illegible] fe ddaliodd Dafydd lawn cymaint o lestri y deml allan ag a [illegible] ef o allan y newidwyr." Dyma un engraifft o'i gryfder yn y cysylltiad a nodwyd. Ychydig gyda deng mlynedd yn ol yr oedd "Trysorfa y Gweinidogion" a gwedd addawol ar ei chyllid, fel yr oedd rhai am godi y tâl mewn afiechyd i bunt. Ond adroddai un brawd o [illegible] wrth Mr. Thomas iddo ef rwystro hyny, gan os codent i bunt y byddai rhai o'r hen frodyr gartref o hyd. Gofynai yntau, ai dyna yr unig reswm ganddynt dros beidio codi y cymhorth i'r swm hwnw. "Ie," meddai y blaenor. "Tybed fod un pregethwr yn y Cyfundeb yn ddigon gwael," meddai Mr. Thomas, "i ffugio afiechyd er mwyn ychydig sylltau o arian?" Atebai y blaenor, fod llawer. Wedi hir ddadl, Mr. Thomas yn dal fod yn anhawdd iawn ganddo ef gredu fod un o'i frodyr yn euog o beth nad oedd ef yn teimlo un duedd ato; fod ynddo duedd at ddrygau yn gyffredin, a'i fod yn gorfod milwrio yn eu herbyn, ond am ffugio afiechyd, am fod y cynnorthwy o'r Drysorfa yn fwy na'r gydnabyddiaeth Sabbothol, nas gwyddai am un duedd ynddo at beth felly. Ac nis gallai gredu am ei frodyr eu bod yn euog o fai nad oedd ef yn teimlo un tueddiad ato. Ond yr oedd y gŵr yn ddi-ildio. "Wel," ebe Mr. Thomas, "y mae pob dyn sydd yn adnabod un dyn cywir yn barod iawn i gredu fod rhai eraill yn gywir hefyd; a'r dyn nad yw yn adnabod un dyn cywir, nis gall hwnw gredu fod neb arall yn gywir. Peth difrifol ydyw i ddyn fod heb adnabod un dyn cywir." Yr oedd angen am nerth moesol go fawr i ddyweyd peth fel hyn; ond yr oedd i'w gael os byddai eisieu yn Mr. Joseph Thomas.

Yr oeddwn wedi meddwl cyfeirio at ei dynerwch at bregethwyr ieuainc, a'i ofal am danynt. Nis gallaf anghofio ei garedigrwydd y troion y bum gydag ef yn mlwyddyn fy mhrawf. "Efe a'm dysgai," fel y dysgai Dafydd ei fab, gydag addfwynder a thynerwch. Byddai hefyd yn ofalus iawn am i bob un a ddeuai o'r newydd i Gyfarfod Misol Rhan Uchaf Sir Drefaldwyn gael lle ynddo. Ciliai o'r ffordd yn fynych, hyd y goddefid iddo, i roddi lle i eraill. Dywedai yn ddiweddar iddo wneyd ei oreu i bob un a ddaeth yno erioed; ac y mae pob cydwybod yn tystio i wirionedd hyn.

Ni chaf gyfeirio ychwaith at adegau ac amgylchiadau neillduol ynglŷn â na Chyfarfod Misol na Chymdeithasfa. Ond y mae y rhai a'i gwelodd yn llywyddu y Gymdeithasfa yn y flwyddyn 1868, yn cofio mor fedrus a chartrefol oedd yn y gadair. Ac yn arbenig ei ddeheurwydd anarferol yn llywyddu y Gymanfa Gyffredinol yn Aberystwyth 1878. Yr oedd trwy ei arabedd a'i natur dda yn gallu attal siarad ofer ar bob mater yn ddidrafferth a didramgwydd. Torai galon y siaradwyr siaradus trwy eu canmol. Ei ragoriaeth arbenig fel llywydd oedd ei allu i gadw pethau yn wastad, a dal yr ymdriniaeth rhag gwyro i un ochr; ac os dygwyddai ogwyddo, gallai ddyweyd gair yn ei amser a ddygai bethau i'w lle eilwaith. Yr ydwyf yn cofio un tro arbenig felly yn Nghyfarfod Misol Llanidloes, Ion., 1869, yn y seiat wyth

o'r gloch foreu yr ail ddydd. Y mater oedd, "Yr angenrheidrwydd am waith yr Ysbryd Glân." Rhedodd yr ymddyddan rywfodd at wrando yr Efengyl heb dderbyn lles drwyddi, a bod rhyw swyn ar weinidogaeth rhai yn peri i rai ymhyfrydu yn ei gwrando, heb feddwl am dderbyn lles drwyddi. Bron nad eid mor bell a dyweyd y dylai y pregethu fod yn annyddorol i'r gwrandawyr, os na byddai yr Ysbryd yn ei arddel. Beïai un fod llawer iawn o wrando anghrediniol, un yn gwrando pregeth gydag edmygedd am ei bod yn athronyddol; un arall am ei bod yn dlws, &c. Adroddid sylwadau am eu bod yn dlws, neu am fod rhyw ragoriaeth allanol yn perthyn iddynt, ac nid am fod yr enaid wedi cael lles drwyddynt. Tueddid braidd i feïo ar brydferthwch a thlysni mewn pregethu, i wneyd gwrando a chofio yn rhyw ddifyrwch a swyn i'r gwrandawyr. Gwelodd Mr. Thomas fod pethau yn myned yn rhy bell, ac wrth wneyd rhyw grynhoad o'r sylwadau a wnaed, dywedai, "Ei fod yn credu fod llawer o wir yn yr hyn a ddywedid am wrando a chofio yr efengyl o ryw gywreinrwydd, a bod llawer yn cofio sylwadau o'r pregethau am eu bod yn darawiadol o herwydd eu tlysni, heb gael fawr o les trwyddynt. Eto byddaf fi yn hoffi gweled pechadur yn cofio gair o efengyl rywlun. Y mae llawer wedi manteisio ar hyny; cofio y sylw am eu bod yn gweled rhyw dlysni neu ryw werth ynddo, heb feddwl am ddim byd pellach. Fe anwyd Moses, dan amgylchiadau anffafriol, plant gwryw yr Hebrëesau i gael eu boddi, a buasai Moses wedi ei daflu i'r afon oni buasai i'w fam ei weled yn fachgen tlws. Tlysni Moses gododd awydd yn ei fam am ei guddio dri mis yn ei thŷ; nid oedd hi yn meddwl am ddim pellach na'i gadw oblegid ei dlysni; ond wrth gael ei guddio a'i gadw felly, fe ddaeth ef yn ddigon o ddyn i fyned â'r genedl o'r Aipht ar ol hyny. Felly y byddaf fi yn meddwl am ambell sylw wedi ei guddio yn nghof ambell ddyn ieuanc am ei fod yn sylw tlws, fe allai mewn rhyw amgylchiad neu gilydd y daw hwnw yn ddigon pwysig i arwain y dyn o dŷ y caethiwed. Y mae gormod o'r sylwadau a draddodir yn myned gyda y dŵr i anghof; ac i'r rhai sydd yn gallu, mi garwn iddynt roddi cymaint o dlysni ag a allont ar eu sylwadau er mwyn iddynt gael eu cuddio yn eu cof." Fe lwyddodd fel yna i ddwyn meddwl y cyfarfod i'w le, ac ar yr un pryd i wneyd un o'r sylwadau tlysaf a wnaeth dyn erioed.

Yr oedd ei feirniadaeth ar bersonau weithiau yn llem a miniog iawn, ond gwyddai pawb ei bod yn cael eu rhoddi gyda'r fath natur dda, ac ysbryd hollol amddifad o falais a chenfigen, fel na chlywais i neb erioed dramgwyddo wrtho. Dyma un engraifft o lawer. Dangosid iddo unwaith bregethwr oedd wedi gadael Cyfundeb y Methodistiaid, ac ymuno âg enwad arall. Gofynai yntau a oedd y gŵr yn bregethwr da? "Na, un gwael iawn ydyw," ebe y cyfaill. "Felly y mae hi," ebe yntau; "nid yw y Cyfundeb fawr ar ei golled o herwydd y rhai sydd yn ei adael. Ac ni byddai fawr o ennill iddo eu cael i gyd yn ol." "Tybed?" meddai y llall, gan enwi rhai oedd yn addurniadau amlwg perthynol i un enwad. "Ië," meddai yntau, "rhai *ciwt* iawn ydyw y bobl yna, y maent yn gallu gwneyd dodrefn go dda o ysglodion yr hen Gorff." Yr oedd yn dyweyd hyn gyda chalon mor agored ac ysbryd mor ddiwenwyn ag a fu mewn dyn erioed.

Colled fawr i Gymru mewn mwy nag un ystyr oedd ei golli ef, ac yr wyf yn ofni y bydd y Methodistiaid yn hir cyn cael achlysur i ymgysuro ar ei ol. Nid yw y ffaith fod marw yn elw iddo ef yn gwneyd yn haws i ni fod hebddo. Rhoddodd ef ei le a'i barch i bawb ymhob cylch, ac nid oedd neb yn chwennych ei le yntau. Gallwn ysgrifenu digon i lanw cyfrol o'r TRAETHODYDD o fân hanesion am dano, ac o ddywediadau o'i eiddo. Ond ni waeth terfynu yn fuan nag yn hwyr.

EVAN DAVIES.

*Trefriw.*

---

# GWASANAETH CRIST.

PREGETH ATHROFAOL A DRADDODWYD YN MANGOR, MAWRTH 21AIN, 1889.

GAN Y PARCH. A. M. FAIRBARN, D.D.,

O GOLEG MANSFIELD, RHYDYCHAIN.

GALATIAID ii. 20: "Mi a groeshoeliwyd gyda Christ: eithr byw ydwyf; eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi: a'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosof fi."

MAE geiriau y testun i'w cymeryd fel dadganiad o'r gwirionedd yma, Fod gwasanaeth Duw a gwasanaeth dyn wedi eu dwyn ynghyd a'u gwneyd yn un yn ngwasanaeth Crist. Byw iddo Ef ydyw byw i ogoniant Duw ac er lles i ddyn. Yr oedd Paul yn gwasanaethu ei Feistr Mawr, nid fel gwrthgiliwr ond fel un dychweledig. Rhwng y ddau hyn y mae pellder anfesurol; y mae cyfnewidiad yn achos y ddau, ond y mae y gwrthgiliwr yn gwneyd ei gyfnewidiad, tra y mae yr un dychweledig yn myned trwy yr eiddo ef. Y mae gwrthgiliwr yn newid ei ochr heb newid ei argyhoeddiadau; ond y mae un dychweledig, am ei fod wedi newid ei argyhoeddiadau, yn newid ei ochr. Y mae gan wrthgiliwr un ffydd fawr yn yr hyn fydd o wasanaeth iddo ef ei hunan; tra y mae gan un dychweledig un amcan mawr—byw yn ol y gwirionedd y mae wedi ei ddarganfod. Mewn trefn i gyfiawnhau ei gyfnewidiad, y mae gwrthgiliwr yn casâu y bobl a adawodd heb garu y bobl a gafodd; ond y mae un dychweledig yn caru y rhai a adawodd hyd yn nod yn fwy na'r rhai a'i cawsant ef. Ac felly yr oedd Paul, fel un dychweledig, yn caru y brodyr a'i casäent. Yr hwn a wyr fod Duw yn caru pawb a ymdrecha anrhydeddu y Duw hwnw trwy wasanaethu pawb y mae Efe yn garu.

Mae y bennod ryfedd sydd yn cynnwys y testun yn rhoddi, megys, un fynyd o drem fyw i'r eglwys gyntefig a'i sefyllfa. Mae dynion heddyw yn fynych yn meddwl fod yr eglwys gyntefig yn berffaith; fod y brodyr yn byw mewn cariad heb byth wahaniaethu oddiwrth eu gilydd; eu bod yn ysbrydoledig mewn gair, mewn gweithred, mewn

ymarweddiad. Ond ni allai camgymeriad mwy gymeryd meddiant o feddwl dyn. Yr oedd Iago a Phaul yn Apostolion etholedig, ond nid ydyw yn canlyn eu bod yn meddwl yr un fath. Mewn llawer golygiad meddylient yn wahanol, a dangosent eu gwahaniaeth mewn gair a gweithred. Ac ni wnaed hyny erioed yn fwy na phan anfonodd Iago i Antiochia y dynion a gymerasant ymaith Pedr, a hyd yn nod Barnabas, oddiwrth gymdeithas Paul. Ond ni allai Paul oddef i'r gwirionedd gael derbyn niwed hyd yn nod oddiwrth Pedr; gwrthwynebodd ef mewn cariad, ond yn ei wyneb. Mewn cariad yn unig y myn gwirionedd gael ei lefaru. Os llefarwn mewn casineb, nid ydyw gwirionedd yn wir i ni. Os ydyw brawd i'w argyhoeddi, rhaid ei wneyd yn ei wyneb. Na fyddwn hyawdl mewn beïo dyn wrth ail neu drydydd person. Na feïwch ddyn byth yn ei absennoldeb; ac os yn ei wyneb, byddwch sicr ei fod i'w feïo.

Os ydyw y cwestiwn am berthynas gwasanaeth Crist i wasanaeth dyn i gael ei drafod, rhaid i hyny fod gyda'r amcan o gael allan nodwedd y naill a'r llall, a'u cydgysylltiad â'u gilydd. Ychydig amser yn ol cyhoeddodd gŵr, sydd bellach wedi gadael y byd, lyfr ar *The Service of Man*, "Gwasanaeth Dyn," yn yr hwn y dywedai wrthym mai gwasanaeth Duw oedd Cristionogaeth, a'i bod yn hollol wrthwynebol i wasanaeth dyn; fod ffydd yn gwbl groes i rinwedd. Ond pa fodd y profai hyn? A aeth efe yn ol at Grist, gan ddywedyd, Gad i mi ddeall dy eiriau a'th weithredoedd? A aeth efe yn ol at Paul a'r Apostolion? Naddo, ond aeth yn ol yn unig at yr hyn a alwai yn "oesoedd ffydd," wrth yr hyn y golygai oesoedd y pethau anmhosibl, y pethau gwrthun a mympwyol, yn y rhai y credai dynion yn gydwybodol,—yr hyn oedd yn dra afresymol. Elai yr awdwr yma ymlaen ar yr egwyddor, pan y ceir dynion yn credu pethau anmhosibl gyda golwg ar rinwedd, ar yr eglwys, a mil o ryfeddodau, yna ei bod yn oes ffydd; ac fod yr un bresennol, nad ydyw yn ymroddi i bethau o'r fath, yn dyoddef oddiwrth ddirywiad mewn crefydd. Ond nid ydoedd yn deall nad oes dim mor gydnaws âg anghrediniaeth ag ydyw coelgrefydd; a thrwy dynu ymaith y gorchuddiadau anferth hyny oddiar grediniaeth, ein bod yn dyfod yn nês at Gristionogaeth, ac yn cael at y meddwl byw gwirioneddol. Yr ydym yn dyfod at galon y Meistr, i bresennoldeb Duw a'i Efengyl.

Y mae cysylltiad o'r fath agosaf rhwng cymeriad dyn a gwasanaeth yr hiliogaeth. Y mae dyn o allu, ond heb gymeriad, yn fwy niweidiol nag ydyw o ddaionus. Gallai gwladweinydd o athrylith, ond heb egwyddor, fod o fwy o drychineb i'r wlad na'r mwyaf anneallus. Y mae deddfau da mewn dwylaw drwg yn dyfod yn offer gorthrwm a cham. Fe ddywedodd cydwladwr i mi, "Gadewch i mi wneyd caniadau y bobl, ac ni waeth genyf pwy a wnêl eu cyfreithiau." Mi ddywedwn i, Gadewch i mi wneyd gwladweinwyr ac ynadon y bobl, ac ni ofalaf beth fydd eu cyfreithiau. Gallai dyn fod yn athrylith creadigol mewn llenyddiaeth neu gelfyddyd, a gadael ar ei ol weithiau anfarwol sydd yn "things of beauty and joy for ever,"—yn bethau tegwch a llawenydd byth; ond os ydyw yn un isel, os ydyw yn un o fuchedd aflan, ni all byth wneyd dim lles. Mae gwasanaeth dyn, gan hyny, yn rhagorfaint y da. Y sanctaidd yn unig all iachâu, a rhaid i sancteiddrwydd fod yn

wirioneddol ac nid mewn ymddangosiad. Pwy ni wyddom ysbys ddrygau cablddiedig. Dywedir fod rhagrith y warogaeth y mae drygioni yn dalu i rinwedd, ond nid ydyw rhinwedd yn talu a thwyllo. Ac wrth ei dalu, beth a wna ond ceisio ymwisgo ac urddas cymeriad anrhydeddus? Os ydyw dyn, gan hyny, i wasanaethu dynion yn ffordd Crist, rhaid i hyny fod yn ei Ysbryd Ef. Mewn rhyw ystyr, y mae rhinwedd mewn ymddangosiad yn well na'r rhagrith o fanteision ffasiynol; mae rhywbeth da yn y naill nid oes i'w gael ond trwy ddigwyddiad yn y llall. Eto y mae dirfawr wahaniaeth rhwng hyn ymddangosiadau, a brwdfrydedd teimlad byw tuag at y Goruchaf.

Y mae hyn, fodd bynag, yn ein harwain ymhellach. Y mae nodwedd ac ansawdd y gwasanaeth yn dibynu ar nodwedd ac ansawdd cymeriad y dyn, oblegid ni all gwasanaeth dyn i ddynion fod yn wahanol i'w gymeriad ef ei hunan. Ond pa fodd yr ydym i gyfnewid dynion o gymeriad, a sicrhant y gwasanaeth goreu sydd yn bosibl i ddynion? A pha fodd y gallwn wneyd dynion o ddefnyddiau amherffaith a thruenus, i wneuthur daioni i'r hiliogaeth?

Mewn trefn i ateb hyn, rhaid i ni weled pa fath fu gweithredoedd Crist. Nid ydyw Crist i gael ei ystyried yn unig fel yr ydoedd yn byw ar y ddaear yn hanner gyntaf y ganrif gyntaf, ond fel y dywedodd Ffrancwr mawr unwaith: "Nid ydyw perffeithrwydd cymeriad Crist i'w ddysgu yn gymaint hyd yn nod oddiwrth yr Efengylau ag oddiwrth holl ystyryd a chwrs y byd ar ei ol." Dylem sylwi, i ba le bynag y trowi Crist, nad ydoedd yn sefyll wrth ddygwyddiad; nid damwain a'i gwnaeth Ef. Nid ydyw Hanesiaeth i ni yn gydgasgliad o demigau; y mae yn ymhareddraeth deddf, yn dangos teyrnasiad deddf, a'r person sydd yn rheoli iddi ei chymeriad yw Crist. Cymerwch Ef allan, a diflanai hanesiaeth; cymerwch Ef ymaith, ac ni safai ond dwy golofn gadarn hwn heb ei faen clo bywiol, a'r rhai hyny yn graddol falurio yn llwch. Fe wnaeth Crist yn wir yr hyn a alwn ni yn wyrth, a byddai yr hyn sydd yn naturiol iddo Ef i ni yn wyrth fawr. Yr oedd Crist yn ei berthynas â'i gymeriad goruwchnaturiol, yn gwneyd gwyrthiau yn naturiol. Yr oedd Efe, wrth weithredu yn ol trefn natur megys, yn gwneuthur ei wyrth fwyaf. Ond tra y gwnaeth lawer gwyrth er mwyn dynion, ni wnaeth yr un erioed er ei fwyn ei hun, ond cadwai ei Hun yn yr ufudd-dod manylaf i ddeddf Ddwyfol. Y mae gwyrth, gan hyny, wedi ei hamlygu mewn natur, ac yn dyfod allan drachefn dan wedd arall. Deddf gyffredinol sydd yn gwneyd dynion; ond i'r ddeddf hono fe fu un eithriad ysblenydd,—yr oedd Crist yn ddibechod. Ni allai hyd yn nod ei elynion ei argyhoeddi o bechod. Y mae y dibechadurusrwydd hwnw wedi creu drychfeddwl hollol newydd o ddyn, a chynllun o gymeriad i ddynion dan ddylanwad sancteiddrwydd Crist. A'r sancteiddrwydd goruchel hwn sydd yn galluogi dynion i fyned i mewn i ysbryd Crist. Cymerodd Crist mewn llaw Pedr ac Ioan, dau o ddynion anwybodus, y rhai, trwy un cyffyrddiad rhyfeddol o'i eiddo Ef, a ddaethant yn brogethwyr crefydd hollol newydd, gan ddwyn gyda hwynt wirionedd a rhinwedd a bywyd fel eu harf a'u hoffer. Ystyriwch yr hyn a ddyoddefasant. Ni chawsant anrhydedd, ond dirmyg; ni chawsant eu canmol, ond eu beio. Ac wedi hyny, ystyriwch y gymdeithas a gre-

asant. Mae pobl Lloegr yn falch o waed pur, a hen etifeddiaeth. Y mae ymherodraeth Germany yn hen, a hen ydyw ymherodraeth Lloegr; ond nid ydynt ond er doe mewn cymhariaeth i'r ymherodraeth a greodd y dynion hyn. Ond ni ddarfu i'w allu Ef farw gyda y gwŷr yma. Y peth rhyfedd ydyw fod y gallu, mor bell o farw, wedi cymeryd ffurfiau newyddion. Aeth ei gariad Ef i'r apostolion hyn, ac o honynt hwy aeth i'r Tadau Apostolaidd,—buont hwy feirw, a chreodd Dadau mawrion. Wrth archiad y cariad yma, cododd Athanasius i fyny a safodd yn erbyn y byd, i amddiffyn Duwdod Crist; ac Awstin, o safn pechod, a safodd i fyny a daeth yn Dad meddyliau ac athrawiaethau ydynt i fyw am genedlaethau sydd eto i ddyfod. Aeth cariad Duw i mewn i Bregethwyr mawrion a Diwygwyr mawrion; lluniodd y fam a gosododd ogoniant ar y mab. Na ddywedwch fod hwn yn gariad darfodedig. Nid oes dim a all ddiffodd neu ddinystrio y cariad yma, sydd nerthol fel cynt, yr hwn sydd yn ein gwneyd, ac yn ein hadwneyd, i fod yn ddelw a llun Duw yn y nefoedd. Os gwrthodwn garu dynion ni allwn wneyd lles i ddynion. Absennoldeb cariad ydyw presennoldeb casineb a pharodrwydd i wneuthur niwed. I garu, y mae nid yn unig ddiffyg ewyllys mewn dyn, ond hefyd ddiffyg gallu. Y mae caru dynion yn orchwyl caled. Y mae dynion, yr wyf fi yn cyffesu yn onest, na allaf garu. Nid wyf yn caru rhagrith, ac am hyny ni allaf garu rhagrithwyr. Ond nid wyf yn gofyn i chwi garu unrhyw ddyn fel y mae, ond cerwch Grist, a phob dyn ynddo Ef. Ac y mae ymhob dyn bosibilrwydd i ddyfod yr hyn y mynai Crist iddo fod. Nid y drygioni yn y dyn, ond y rhinwedd; nid y diafol fel y mae, ond y duw posibl; nid y pechadur byw, ond y sant posibl. Gellid cael y rhai hyn oll yn Nghrist; ac fel y mae dynion yn dyfod i'w garu Ef, y maent yn caru eu cyd-ddynion, ac y maent yn abl i achub, ac yn cael eu hachub.

Yr ydwyf yn neillduol wedi dyfod i siarad wrth ddynion ieuainc, rhai y mae bywyd o'u blaen, rhai a safant ar flaenau eu traed ar y rhiniog ac a ofynant, Beth sydd o'n blaen? Nid ydyw bywyd yn dyfod ond unwaith, a gofyna y gŵr ieuanc, Beth ydwyf i fod, a beth ydwyf i'w wneyd? Y cwestiwn mawr yma ydyw *bod*, ac o hono y daw *gwneyd*. Mae y pulpud yn alwedigaeth sanctaidd. Ond yr ydym oll yn weinidogion Crist, neu ni a ddylem fod. I mi y mae y meddyg sydd yn gweinyddu meddyginiaeth, i wneyd y byd yma o boen yn fyd a adnebydd beth hapusrwydd a llawenydd; i mi y mae yr athraw mewn ysgol neu goleg sydd yn agor y meddwl ieuanc, gan ddangos iddo ryfeddodau byd meddwl a gwirionedd; i mi y mae y cyfreithiwr, sydd yn gwrando ar chwedl o gamwri, ac yn myned i lys cyfiawnder i ddadleu dros yr hyn sydd iawn, dros gyfiawnder, neu dros drugaredd; i mi y mae pob dyn a elwir i unrhyw swydd neu broffeswriaeth neillduol, yn cael ei alw i fod yn wasanaethwr ac yn weinidog dyn a Duw. Ond i fod yn wasanaethwr a gweinidog, rhaid i ddyn yn gyntaf ac uwchlaw pobpeth fod yn ddyn Duw, yn feddiannol ar wirionedd Duw, ac yn cael ei fywhau gan gariad Duw. Mae y cariad yma yn cymhell dyn i fyw, nid iddo ei hun, ond i'r Hwn a fu farw drosto, ac a gyfododd drachefn. I'r gwasanaeth yma yr ydwyf yn eich gwahodd oll, ac yn gofyn i bob un o honoch ufuddhau.

# MR. JOHN BRIGHT.

*The Life of the Right Honourable John Bright, M.P.* By GEORGE BARNETT SMITH. Based on the Author's Larger Work. With Portrait. London: Hodder and Stoughton.

Y MAE tywysog a gŵr mawr wedi syrthio yn ein plith, ac y mae yr holl deyrnas mewn galar ar ei ol. Yr oedd enw Mr. Bright er ys llawer o flynyddoedd wedi bod yn un o'r rhai mwyaf anwyl ymysg y genedl Brydeinig, ac yr oedd ei gyfuniad cyfoethog o ragoriaethau—mewn cymeriad uchel, synwyr cryf, gallu mawr, hyawdledd hyfryd a gorchestol, ynghyd a'i ymroddiad ardderchog i bob amcan a dueddai at ddiogelwch a dyrchafiad ei gyd-ddynion—yn peri fod lliaws mawr o [illegible]gwŷr y deyrnas yn edrych arno fel tŵr o nerth dros gyfiawnder a daioni. Yn wir y mae y ddynoliaeth oll yn wanach o'i fyned i lawr. Cofiwyd yn y cyfeiriad a wnelid at ei farwolaeth yn Nhŷ y Cyffredin mai efe ei hun oedd y cyntaf i ddefnyddio yr ymadrodd, "myned at y mwyafrif." Y mae yntau bellach wedi ymuno â'r dyrfa fawr hono, a chwyddir gan filiynau yr oesoedd, ac a fydd cyn pen nemawr wedi tynu iddi ei hun yr olaf o feibion Adda. Ac y mae yn hyfryd meddwl fod ei ymlyniad parchedig wrth Geidwad dyn y fath fel nad oes unrhyw achos i betruso nad ydyw hefyd wedi cael ymuno

Gyda'r dorf aneirif fawr
O rai cyntafanedigion
Ag sydd yn y nef yn awr.

Y mae yn gorphwys oddiwrth ei lafur, gan deimlo yn dragywyddol dawel fod y llywodraeth ar ysgwydd Un ag sydd yn ddigon cadarn i ymgynnal dan ei holl gyfrifoldeb, ac nad all lai na theyrnasu mewn cyfiawnder.

Fe'i ganwyd yn Greenbank, gerllaw Rochdale, yn y flwyddyn 1811. Yr oedd ei deulu, er cenedlaethau, yn aelodau dichlynaidd gyda y Cyfeillion neu y Crynwyr. Dywedai yn 1880, pan yn gadeirydd yn nghapel Dr. Allon i ddarlith o eiddo Dr. Dale ar "Gyfodiad Anghydffurfiaeth Efengylaidd," ei fod yn hanu o gyff merthyron dwy ganrif yn ol. Nyddwr cotwm oedd ei dad, Jacob Bright, a dywedai efe wrth bobl Durham pan ymgeisiai am yr anrhydedd o'u cynnrychioli yn y Senedd : "Yr oedd fy nhad i fy hun can dloted ag un dyn yn y dorf yma. Yr ydoedd yn gwbl o'ch corff chwi eich hunain. Ni ymffrostiai, ac nid wyf finnau yn ymffrostio, mewn genedigaeth, nac enwogrwydd teuluaidd dysglaer. Yr hyn a wnaeth efe, fe'i gwnaeth trwy ddiwydrwydd a masnach lwyddiannus, ac y mae yr hyn sydd gen' innau wedi dyfod oddiwrtho ef a fy ymdrechion fy hunan." Trwy ddarbodaeth a diwydrwydd anrhydeddus daeth Jacob Bright yn berchen llawweithfa o'i eiddo ei hun, a gosododd i lawr mewn llafur a chyfiawnder

seiliau masnach a ddaeth dan ddwylaw ei feibion yn arbenig, y Bright Brothers, yn un dra llwyddiannus. Fe anwyd iddo un ar ddeg o blant, ac oll o'r ail o'r tair gwraig a fu iddo. Dywedir fod y wraig hono, enw morwynol yr hon oedd Miss Martha Word, Bolton-le-Moors, o gynneddfau neillduol. Yr ydoedd wedi cael addysg dda, wedi darllen yn helaeth, yn dra hoff o farddoniaeth, ac yn meddu meddwl neillduol o glir a gafaelgar. Ymddengys nad oedd efe ond bachgen gwanaidd, ond fe'i meithrinid mewn dwfn dynerwch, ac yn nghanol dylanwadau na allent lai nag effeithio yn dda ar ei gymeriad. Ni adawyd ef yn yr ysgol ond hyd bymtheg oed, ond bu hyny o ysgol a gafodd, ac yn enwedig gyda yr hoffder a etifeddai oddiwrth ei fam—ac y gwnaeth hi gymaint er ei feithrin—at hanesyddiaeth a llenyddiaeth oreu yr iaith Saesoneg, yn foddion i wneyd efrydydd o hono tra y bu byw, ac fe ŵyr pawb gyda pha fath ganlyniadau. Wedi gadael yr ysgol, rhoddwyd ef yn y *mill* i gynnorthwyo ei dad gyda ei fasnach, a dywedir, wedi iddo ddyfod yn aelod o Lywodraeth ei Mawrhydi, ac i gael ei adnabod fel y Gwir Anrhydeddus John Bright, y byddai rhai o'r hen "ddwylaw" yn y felin yn hoff o'i hawlio fel un o honynt hwy. Wrth ymgymysgu gyda'r dynion yno, yn gystal a than ddylanwad yr ysbryd rhagorol a nodweddai ei gartref, fe ddaeth ei feddwl cryf a gweithgar yn fuan i gyffyrddiad â'r cwestiynau mawrion oedd y pryd hwnw yn ymwthio i sylw ac yn galw am gael eu penderfynu. Yr oedd yn Rochdale *Literary and Philosophical Institution*, ac yn ystafell y sefydliad hwnw y dechreuodd ar y gorchwyl o areithio, ymha un wedi hyny y cyrhaeddodd y fath enwogrwydd. Ymysg materion eraill a ddelent dan ei sylw, mae yn ddyddorol gweled, tra yr oedd Disraeli ieuanc yn weriniaethwr, fod Bright, y dyddiau boreu hyny, yn areithio ac yn pleidleisio dros y gosodiad "Mai brenhiniaeth derfynol sydd oreu i'r wlad hon." Yn 1832 fe'i ceir yn areithio yn nghyfarfod y Fibl Gymdeithas yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr yn Rochdale. Yr oedd y Parch. John Aldis, meibion yr hwn a ennillasant y fath anrhydedd yn Nghaergrawnt, wedi dyfod o Fanchester i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwnw, a dyma yr hanes dyddorol a ddyry am waith Bright ieuanc yn galw gydag ef i'w gymeryd i'r cyfarfod, ac am ei araeth:—

Yn fuan daeth boneddwr ieuanc eiddil a gwylaidd, yr hwn a'm synai â'i ddealltwriaeth a'i feddylgarwch. Mi gymerais ei fraich ar y ffordd i'r cyfarfod, a meddyliwn ei fod yn ymddangos yn grynedig. Yr wyf yn meddwl mai ei araeth gyhoeddus gyntaf ydoedd, o leiaf ar y fath achlysur. Yr ydoedd yn dra hyawdl a nerthol, ac yn cario y cyfarfod gyda hi; ond yr ydoedd yn llafurfawr ac yn cael ei thraethu o'r cof. Ar ein ffordd yn ol, fel yr oeddwn yn ei longyfarch, dywedai fod y fath ymdrechion yn costio gormod iddo, a gofynai i mi pa fodd y siaradwn mor rwydd. Yna mi a gymerais fantais ar fy oedran addfetach i osod ger bron fy syniadau, y rhai nad oes eisieu i mi eu hadrodd yma, oddieithr hyn, y meddyliwn mai gwell, yn ei achos ef, fel yn y rhan fwyaf, fyddai peidio beichio y cof yn ormodol, ond wedi parotoi yn ofalus, a dysgu unrhyw ranau pan ddymunid effaith neillduol, yn unig osod i lawr bethau eraill yn y drefn a fernid oreu, gan adael eu geiriad i'r fynyd. Treiglodd blynyddoedd heibio. Yr oeddwn wedi llwyr anghofio enw y Cyfaill ieuanc, pan gynnelid *Free Trade Basaar* yn Llundain. Un o'r rhai a ofalent am hyny, Mr. Baker o Stockport, a ofynodd a oeddwn wedi galw gyda Mr. Bright. Dywedais nad oeddwn wedi gallu bod yn y cyfarfodydd, ac nad oeddwn yn ei adwaen. Atebodd yntau, "Rhaid eich bod, canys mi a'i clywais yn dyweyd mai chwi roddes iddo ei wers gyntaf mewn siarad yn gyhoeddus." Aethum i gyfarfod dilynol, ac adnabum Gyfaill ieuanc 1832.

Yr ydoedd yn fore yn gyfaill cynhes i Ddirwest, a pharhaodd felly ar hyd ei oes. Myn rhai ei fod wedi dechreu Dirwest yn Rochdale yn 1830. Ond dywed Mr. Alexander Somerville, awdwr "Free Trade and the League," ei fod ef a gwŷr ieuainc eraill o Rochdale, yn Mai 1833, y flwyddyn wedi penderfynu cwestiwn y Diwygiad, wedi galw ynghyd gyfarfod i ystyried achos sobrwydd ychydig filldiroedd o'r dref, mewn pentref o'r enw Cattle Lane Head. Gwnaent hyny, yn hytrach na dechreu yn y dref, rhag ofn iddynt dori i lawr, a chael chwerthin am eu pen gan y rhai a'u hadwaenent. Cawsant eu gwlychu at y croen wrth ddyfod adref, "a dyna," meddai Mr. Somerville, "oedd dechreu gyrfa Mr. Bright fel siaradwr cyhoeddus." Mae yn amlwg na wyddai efe am y cyfarfod Biblau yn 1832, heb son am areithiau y *Literary and Philosophical Institution*. Ond fe ychwanega Mr. Somerville un frawddeg dra dyddorol: "Fe wyddys i Mr. Bright dori i lawr fwy nag unwaith gan *nervousness*, ond yr oedd ganddo bob amser y gwroldeb i ddechreu drachefn." Yr oedd yn well iddo fethu a chael ceisio drachefn mewn cynnulliadau bychain felly, na methu fel Mr. Disraeli ar lawr Tŷ y Cyffredin. Byddai yn ddigon cartrefol i gymeryd ei wrandawyr i'w gyfrinach, a dywedai wrthynt mai dysgu siarad yn gyhoeddus yr ydoedd, ac y gobeithiai allu gwneyd hyny cyn bo hir.

Nid yw yn ymddangos ei fod wedi bwriadu ymgymeryd â bywyd cyhoeddus, ond yr oedd amgylchiadau yn gweithio yn y fath fodd fel ag i nodi ei lwybr yn ddiarwybod iddo ef ei hun. Wedi y rhyfel â Ffrainc, ac er mwyn cadw i fyny y rhenti uchel a godai y boneddigion y pryd hyny ar eu ffermydd, gosodwyd treth drom yn 1815 ar ŷd tramor, yr hyn, er fod y gwleidyddwyr yn gyffredin yn ei ystyried yn anocheladwy, a barai yn y wlad ddirfawr gyfyngder. Yr oedd Mr. Cobden, ac ychydig gydag ef, yn teimlo y dirfawr anfadrwydd o godi treth o'r fath er mwyn y cyfoethogion, pan oedd lliaws mawr o'r bobl ar farw o newyn, a dechreuasant bregethu yn ei herbyn. Yn 1835 daeth llafn o ŵr ieuanc teneu i swyddfa Cobden yn Manchester, i ofyn iddo ddyfod i anerch cyfarfod ar Addysg. Aeth yntau, ac fe'i tarawyd yn gymaint gan hyawdledd y gŵr ieuanc hwnw ei hunan fel y ceisiodd ganddo ymuno âg ef yn y croesgadiad yn erbyn Deddf yr Yd. Y gŵr ieuanc hwnw oedd John Bright. Yn 1838 mewn gwledd i Mr., wedi hyny Syr John Browning, gwnaeth y boneddwr hwnw yn ei araeth y sylw fod yn anmhosibl amgyffred maint y trueni a achosid gan Ddeddf yr Yd. Cynnygiodd boneddwr arall, Mr. Howie, fod y cwmni fel yr ydoedd, yn ymffurfio yn Gymdeithas er ei llwyr ddileu. Dyma ddechreuad yr *Anti-Corn Law League*, ac ymysg yr enwau cyntaf ar ei Phwyllgor Parotöawl yr oedd eiddo John Bright. Priododd yn fuan wedi hyny â boneddiges ieuanc deilwng o Newcastle, o'r enw Miss Priestman, ond yn 1841 fe'i gadawyd yn weddw. "Y pryd hyny," meddai ymhen blynyddoedd, "yr oeddwn yn Leamington, ac ar y diwrnod y galwodd Mr. Cobden gyda mi—canys dygwyddai fod yno ar y pryd yn ymweled â rhyw berthynasau—yr oeddwn yn nyfnder gofid, gallwn bron ddyweyd anobaith, canys yr oedd goleuni a heulwen fy nhŷ wedi diffodd. Yr oedd yr oll a adawsid ar y ddaear o fy ngwraig ieuanc, oddieithr y cof am fywyd sanctaidd a dedwyddwch oedd yn rhy fyr, yn gorwedd yn llonydd ac oer yn yr ystafell oedd uwchlaw i ni.

Galwodd Mr. Cobden gyda mi fel fy nghyfaill, a chyfarchodd fi, fel y gallech feddwl, gyda geiriau o gydymdeimlad. Ymhen amser fe edrychodd i fyny a dywedodd, 'Y mae miloedd o gartrefi yn Lloegr y fynyd hon lle y mae gwragedd a mamau a phlant yn marw o newyn. Yn awr, pan fydd llymder cyntaf eich gofid wedi myned heibio, mi a'ch cynghorwn chwi i ddyfod gyda mi, ac ni orphwyswn nes y bydd Deddf yr Yd wedi ei dileu.'" Ychydig cyn hyny yr oedd Mr. Cobden wedi traddodi ei araeth gyntaf yn Nhŷ y Cyffredin, a'r Ddeddf felldigedig hono ydoedd ei thestun, ac yr ydoedd mor lawn o fater ac ysbryd fel yr oedd pawb yn gorfod teimlo oddiwrthi. Dywed Mr. John Morley mewn cyfeiriad ati, yn ei *Life of Richard Cobden:* "Er gwaethaf holl ddymuniad cryf pawb ar ochr y mwyafrif, a llawer ar ochr y lleiafrif, i gadw Deddf yr Yd allan o'r ddadl, fe fynai Cobden mai Deddf yr Yd mewn gwirionedd oedd yr unig fater oedd y pryd hyny yn werth ei ddadleu o gwbl. Yr oedd teulu pendefig, fe ddangosai i'r Tŷ, yn talu i dreth y bara tua dimai am bob can' punt o incwm, tra nad oedd effaith y dreth ar deulu y gweithiwr yn llai nag 20 y cant. Yr oedd ffaith o'r fath yma, fel y dywedent am areithiau Pericles, yn gadael colyn yn meddyliau ei wrandawyr." Aeth Bright gydag ef i'r rhyfel yn erbyn y camwri anfad hwn, a gwnaethant waith ag y mae yn anhawdd i ni yn y dyddiau hyn—pan ydym bron wedi anghofio i'r gwenith erioed fod yn £5 y chwarter, a miloedd lawer o drigolion y deyrnas yn newynu—amgyffred ei faint. Yr oedd ganddynt ymddiried llwyr yn eu gilydd, ac yr oedd eu parch a'u cariad y naill tuag at y llall yn cynnyddu hyd y diwedd. A chwedl Mr. Morley, "Yr oedd yr olwg ar ddau ŵr plaen yn gadael eu cartref a'u busnes, ac yn myned drwy hyd a lled y wlad i droi y genedl, yn meddu o'i amgylch rywbeth Apostolaidd." Yr oedd y ddau yn credu â'u holl enaid yn eu cenadwri, a gwnaeth hyny areithwyr anorchfygol o honynt. Ond fel yr oedd eu personoliaeth yn wahanol, felly yr oedd dull y naill a'r llall o osod yr achos pwysig hwn o flaen eu cydwladwyr yn briodol iddynt eu hunain. Yr oedd meddwl Cobden yn glir fel y goleuni; yr ydoedd yn gweled, nid yn unig trwy holl fanylion a chysylltiadau ei fater, ond hefyd trwy feddyliau ei wrandawyr, ac yn gosod ei bethau o'u blaen mewn dull a barai iddynt bron feddwl mai eu syniadau hwy eu hunain a ddadganai, pan mewn gwirionedd yr oeddent, yn gyffredin, yn dra dieuog o feddwl am y fath bethau erioed o'r blaen. Yr oedd hyny yn rhoddi i'w areithyddiaeth y cymeriad gwerthfawr o ddarbwyllusrwydd, *persuasiveness*—fel y nodai Arglwydd Beaconsfield yn *Endymion*, wrth ei ddesgrifio dan yr enw Job Thornton,—yr hyn a wnai ei wrandawyr yn rhy weiniaid i feddwl am ei wrthwynebu. Gadawai o'r neilldu gyda dirmyg bob addurniadau a thriciau areithyddol ag yr oedd ffasiwn wedi wneyd yn anrhydeddus, ac ymfoddlonai ar lefaru "right on," chwedl Brutus, yn hollol syml a dirodres; ond cyrhaeddai drwy hyny goncwest uchaf hyawdledd, trwy ennill ei wrandawyr yn gymaint i'w olygiadau nes peri iddynt synu ddarfod iddynt erioed feddwl yn amgen. Yr oedd Bright, o'r ochr arall, yn dwyn i'r ymgyrch angerddolrwydd teimlad a barai i'r bobl, heblaw gweled y gwirionedd, benderfynu codi i ymladd o'i blaid. Fel yr oedd yr hen Atheniaid dan Demosthenes, yn anghofio yr areithiwr ac yn gwaeddi, I lawr â Phylip, felly yr oedd y cynnulliadau mawrion drwy yr holl deyrnas

a wrandawent ar Mr. Bright yn teimlo fod yn rhaid iddynt ar unwaith ymroddi i symud ymaith yr anfad gamwri. Nid ydoedd yn llai ymresymiadol na Mr. Cobden; ond tra yr oedd rhesymeg Cobden yn dysglaer lewyrchu, yr oedd yr eiddo ef hefyd yn cynneu ac yn tanio. Ymroddai i'w waith gyda zel a difrifoldeb un o'r hen brophwydi. Yr oedd y drwg a wrthwynebai yn orthrwm ac yn bechod, a daliai nad oedd neb a wrandawai arno nad ydoedd yn gyfrifol am yr anferth drueni a achosai yn y wlad, os heb wneyd ei ran tuag at ei symud ymaith. Yn 1843 dychwelwyd ef i'r Senedd dros Durham, pan oedd Syr Robert Peel yn Brifweinidog, a Mr. Gladstone yn Llywydd y Bwrdd Masnach. Yn niwedd ei araeth gyntaf apeliai yr aelod ieuanc atynt yn y geiriau hyn :—

Yr wyf yn synu at y cwrs a gymer y gwir anrhydeddus Farwnig. Fe fuasai yn dda genyf ei weled, nid yn unig yn Weinidog y Frenhines, ond yn Weinidog y bobl hefyd. Mi a lawenychwn ei weled yn dadgysylltu ei hun oddiwrth y blaid y dywed fod ei hegwyddorion yn ansafadwy. Fe fyddai yn dda genyf ei weled yn cofio y ffynnonell o ba un y tarddodd, ffynnonell ei allu a'i gyfoeth, fel y mae yn ffynnonell llawer o allu a chyfoeth a mawredd yr ymherodraeth. Gallai fod ganddo uchelgais canmoladwy, gallai ei fod yn ceisio enwogrwydd; ond ni all un dyn fod yn wir fawr sydd yn foddlawn i wasanaethu nifer fechan na faliant ond am eu buddiannau eu hunain, a deddfwriaeth y rhai a brofa nad oes ganddynt ddim cydymdeimlad âg anghenion corff mawr eu cydwladwyr. Yr wyf fi yn byw mewn gwlad law-weithfäol, yr wyf yn gwybod yn dda am ddymuniadau a theimladau y boblogaeth, ac nid wyf yn petruso dyweyd, pan welaf mor ddiystyr ydynt gan y Ty hwn, fod y peryglon sydd ar ddyfod arnom yn fwy na'r rhai sydd yn awr yn ein hamgylchynu. Mi allaf sicrhau gwir anrhydeddus Lywydd y Bwrdd Masnach na fydd ei esgusodion gwagsaw o ddim gwerth iddo o flaen bàr y farn gyhoeddus. Fe ŵyr efe beth sydd iawn, ac y mae yn gwrthod ei wneyd; a pha un bynag a yw yr eisteddiad hwn yn dechreu ai yn agos i'w derfyniad, y mae yn ddyledswydd arnom gynnyg mesuran o ymwared i fasnach y wlad. Nad dyma yr amser, sydd esgus mor anwireddus ag ydyw o sarhaus. Pa bryd y daw yr amser? A ollynga gorfaeliaeth ei afael o gynnaliaeth y bobl? A newidia yr Ethiop ei groen, neu y llewpard ei frychni? Fe ŵyr y Llywodraeth beth sydd iawn; geilw y bobl ar ei fod yn cael ei wneyd, ac y mae y Weinyddiaeth, sydd yn gommedd gweithredu, yn myned dan gyfrifoldeb ofnadwy.

O'r diwedd, yn ol desgrifiad enwog Mr. Disraeli, aeth Arglwydd John Russell un diwrnod i ymdrochi, a lladrataodd Syr Robert Peel ei ddillad. Felly y gwnaeth Disraeli ei hun yn 1867, a llawer adeg arall o ran hyny; ac felly,—bondigrybwyll,—y gwna y Blaid Gyfansoddiadol fawr trwy y blynyddoedd. Er hyny y mae y boneddigion hyn yn gallu taeru, tra nad oes ganddynt haiach fretyn i guddio eu noethni ond a gymerasant oddiar bobl eraill, mai eu dillad hwy oeddynt erioed. Wedi dal trwy y blynyddoedd, a gwrthwynebu â'i holl egni hyd yn nod i ostwng y dreth i wyth swllt, fe ddarganfyddodd Syr Robert Peel,—a hyny fel pe na buasai y cynhwrf am ddileu Treth yr Yd ag oedd yn gwneyd y deyrnas yn oddaith, ond rhyw helynt dibwys yn un o leuadau Sadwrn,—mai y peth goreu oedd ei symud ymaith yn llwyr; yr ydoedd hefyd yn ddigon gwylaidd i obeithio y gallai mewn cysylltiad â'r fath fesur drosglwyddo ei enw i'r oesoedd fel un o brif gymwynasgarwyr yr hiliogaeth. Poed felly! Ond "eraill a lafuriasant;" ac yr oedd buddugoliaeth ardderchog eu hachos yn ddigon o wobr iddynt am flynyddoedd o ymdrech. Ysgrifenai Mr. Cobden,

Mehefin 26, 1846, "My dearest Kate,—Hurrah! hurrah! The Corn Bill is law, and now my work is done." A dywedai Mr. Bright mewn araeth ysblenydd o'i eiddo yn Bradford: "Yr oedd lluoedd dirif wedi ymuno â'n hachos; wedi hyny darfu i'r newyn ei hunan, yn erbyn yr hwn yr ymladdent, ymuno â hwynt, ac o'r diwedd yr oedd y gwrthglawdd wedi ei fwrw i lawr yn llwyr." Gorphenaf 2, 1847, mewn cyfarfod mawr yn y Town Hall, Manchester, eiliai Mr. Bright gynnygiad Mr. Cobden fod y *Corn Law League* yn cael ei ddiddymu Yr ydoedd wedi gorphen ei waith.

Yr oedd gormod o yni, a gormod o deimlad dros eu cydwladwyr oeddent eto yn cael eu llethu dan lawer o feichiau, yn y naill a'r llall, iddynt feddwl am allu gorphwys er wedi ennill buddugoliaeth mor ogoneddus. Ond ar y pryd ni allent deimlo yn sicr ar ba beth y dylent grynhoi eu nerth. Tueddai Mr. Cobden i feddwl mai Pwnc y Tir oedd yn galw uchaf am eu hymdrech; ond teimlai Mr. Bright yn gryf mai cael Diwygiad Seneddol, mewn ffordd a sicrhâi fod y bobl yn ddiwahaniaeth yn cael eu cynnrychioli yn neddfwrfa y deyrnas, oedd fwyaf angenrheidiol, ac yn enwedig am y gellid dysgwyl i hyny arwain i ddiwygiad mewn llawer o gyfeiriadau eraill. Ac ar hyny y disgynasant.

Cyn gwneyd llawer yn y cyfeiriad yma fe ddaeth amryw bethau eraill ar eu traws. Yn 1847 dychwelwyd Mr. Bright yn ddi-wrthwynebiad fel aelod dros Manchester. Dygwyd ger bron y Senedd fesur mewn cysylltiad â pha un y taflwyd ef i gryn anhawsder,—mesur leihau oriau llafur yn y llaw-weithfeydd. Yr oedd efe a Mr. Cobden yn wrthwynebol i'r mesur hwn, a theimlai llawer yn hawdd ei gyhuddo o fod felly am ei fod ei hunan yn berchen llaw-weithfa, er y gellid yn hawdd brofi nad oedd un angen am unrhyw ymyriad o'r fath ynglŷn â'i *factory* ef. Ond y tir y safai efe a'i gyfaill enwog arno oedd, eu bod wedi dadleu dros fasnach rydd mewn ŷd, ac fod arnynt eisieu masnach rydd ymhob peth, ac ymysg pethau eraill mewn llafur. Ond gan fod llawer iawn o berchenogion llaw-weithfëydd yn gweithredu yn dra gwahanol, yr oedd yn dda gosod attalfa trwy gyfraith ar eu ffordd i wneyd cymaint o niwed, yn enwedig i ferched a phlant a weithient yn eu melinau. Mewn cysylltiad â hyn gwnaeth ymosodiad cryf ar fesur anghyfiawn y Llywodraeth er addysgu plant, a rhoddodd ddyrnod cyrhaeddgar i Macaulay, oedd ar y pryd yn aelod dros Edinburgh, ac wedi llefaru gyda dirmyg trahaus am "frefiad Exeter Hall," a'r "dadwrdd oddiallan" am y mesur a gynnygiai, ar draul y cyllid cyhoeddus, achlesu addysg enwadol. Tua'r un amser daeth sefyllfa adfydus yr Iwerddon i dynu ei sylw, a hyd yr anghyd-ddealltwriaeth diweddar, ni fu neb a deimlai yn fwy dwfn neu a ddadleuai yn fwy nerthol dros y wlad druenus hono. Cyn hir torodd y rhyfel allan rhwng Rwssia a Thwrci, ac fel cyfaill pur i heddwch, ac un a deimlai nad oedd dim yn galw am i ni ymyraeth o gwbl yn yr achos, fe safodd efe a Mr. Cobden yn gryf yn erbyn i Loegr wneyd hyny, er fod bron yr holl deyrnas yn cynneu gan ysbryd rhyfel. "Pe buasai y deyrnas hon 70 mlynedd yn ol," meddai, "wedi cymeryd i fyny yr egwyddor o beidio ymyraeth mewn unrhyw achos nad oedd ei buddiannau yn uniongyrchol ac yn amlwg yn cael ymosod arnynt, fe allasai

Llongyr fod yn ardd, gallasai pob anneddwr fod o farmer, a gallasai pob un sydd yn sangu ei daear fod wedi ei addysgu." Ac ni allai weled fod dim yn yr achos hwnw oedd yn galw am i ni gymeryd rhan ynddo. Gwnaeth hyn Mr. Cobden ac yntau yn rhyfeddol o amhoblogaidd, ac fel y sylwai Mr. Gladstone yn y Tŷ mewn cyfeiriad at ei farwolaeth, dangosodd y ddau y pryd hyny wroldeb mawr mewn ffyddlondeb i'w hegwyddorion, trwy aberthu poblogrwydd ag y gallesid meddwl ei fod iddynt fel anadl eu ffroenau, am eu bod yn gydwybodol yn credu fod y deyrnas yn gwneyd dirfawr gamgymeriad. Wedi i'r blinder hwnw fyned drosodd yr oedd ei iechyd wedi ei anmharu yn gymaint fel y bu raid iddo geisio adferiad trwy deithio. Yr ydoedd oddicartref, pan, yn 1857, mewn canlyniad i gynnygiad o eiddo Mr. Cobden yn beio y Llywodraeth am y rhyfel yn China—yn y rhaniad ar ba un na chafwyd ond 16 o'i phlaid—y cymerodd etholiad cyffredinol le, pryd y collodd Cobden ei sedd yn Huddersfield, a Bright a Milner Gibson yr eiddynt hwythau yn Manchester. Yr oedd hyn yn mis Mawrth; ond yn mis Awst o'r un flwyddyn fe etholwyd Mr. Bright yn aelod Seneddol dros Birmingham, a pharhaodd yn y cysylltiad hwnw hyd ddydd ei farwolaeth.

Yn 1858 fe ymdaflodd gydag egni mawr i'r ymgyrch yn mhlaid Diwygiad Seneddol, a pharhaodd am flynyddoedd i wneyd gwasanaeth ardderchog er sicrhau i bobl y deyrnas hon gynnrychioliad teg yn Nhŷ y Cyffredin. Fe'i condemnid gan lawer fel dyn rhyfeddol o beryglus; yn wir ni ellid cael geiriau digon cryfion i'w ddarostwng a'i warthruddo, a hyny gan y bobl oedd, cyn y diwedd, yn ei fawrhau fel y doethaf o ddynion. Ac eto yr ydoedd efe yn foddlawn y pryd hyny ar fesur ag oedd yn gymedrol mewn cymhariaeth i'r hyn sydd bellach wedi ei basio, ac nad oes neb wedi cael unrhyw achos i gwyno o'i herwydd. Yn 1860 cafodd efe a'i gyfeillion foddlonrwydd mawr yn ngwaith Mr. Gladstone, fel Canghellydd y Trysorlys, yn cario mesur yn mhlaid Masnach Rydd, oedd yn gyflenwadol i'r eiddo Syr Robert Peel, ac yn anfon Mr. Cobden i Ffrainc i ddwyn oddiamgylch y Cytundeb Masnachol a wnaeth gymaint tuag at hyrwyddo trafnidiaeth rhyngom â'r wlad hono. Yn 1859 torodd y rhyfel allan rhwng Italy a Ffrainc yn erbyn Awstria, ac wrth ddadleu yn erbyn i ni fyned i'r helynt hwnw a thywallt gwaed Prydeinig mewn achos nad oedd a fynom âg ef, dywedodd y geiriau a ddaethant mor gyhoeddus ar y pryd, "Perish Savoy!" Buasai hyny, pe yn anocheladwy—yr hyn nad ydoedd yn well na'r trychineb mwy y mynai yr ymyrwyr ei ddwyn oddiamgylch. Yn 1861, pan oedd Mason a Sliddell wedi eu cymeryd ar fwrdd y Trent, fe daflodd ei holl ddylanwad yn erbyn yr ysbrydiaeth oedd yn gryf yn y wlad dros ymyryd yn y rhyfel cartrefol yn America, a chymerodd Llywodraeth America olwg mor resymol ar yr amgylchiad fel ag i lawn gyfiawnhau doethineb y cwrs a argymhellai efe ar ei gydwladwyr. Yn 1865 bu farw Mr. Cobden, ac fel y gallesid dysgwyl, yr oedd ei golli yn ddirfawr alar i'w gyfaill ffyddlawn a charuaidd, a thalodd lawer teyrnged dra thyner a phrydferth i'w goffadwriaeth. Yr oedd Palmerston mewn gallu, ond nid oedd a fynai mewn un modd â dwyn i fewn fesur o Ddiwygiad. Dan Iarll Russell dygodd Mr. Gladstone, yn 1866, fesur felly i mewn, a dadleuodd Mr.

Bright yn nerthol o'i blaid. Mewn cyfeiriad at Mr. Horsman a Mr. Lowe, dau Ryddfrydwr ag oedd yn dra gwrthwynebol i'r mesur, parodd Mr. Bright lawer o ddifyrwch i'r deyrnas, a gwnaeth hefyd lawer o blaid y mesur trwy ei gyfeiriad enwog at Ogof Adulam a'r *Scotch terrier.*

Dywedodd y boneddwr gwir anrhydeddus islaw i mi (Mr. Horsman) ychydig yn erbyn y Llywodraeth ac ychydig yn erbyn y mesur, ond fe gafodd neithiwyr faes agored i ymosod ar un mor wael a mi. Y boneddwr gwir anrhydeddus ydyw y cyntaf o'r blaid newydd sydd wedi dadgan ei fawr ofid, yr hwn sydd wedi encilio i'r hyn a ellid alw ei Ogof Adulam bolitioaidd, ac y mae wedi galw o'i amgylch bob gŵr helbulus a phob gŵr cystuddiedig o feddwl. Mae y boneddwr gwir anrhydeddus wedi bod yn awyddus am ffurfio plaid yn y Tŷ. Nid oes haiach un yr ochr yma i'r Tŷ, a all anerch y Tŷ i bwrpas, neu gymeryd llawer o ran yn ein dadleuon, na cheisiodd ei ddwyn drosodd i'w blaid neu i'w ochr; ac o'r diwedd y mae y boneddwr gwir anrhydeddus wedi llwyddo i fachu y boneddwr gwir anrhydeddus yr aelod dros Calne. Yr wyf yn gwybod y dadganwyd y farn lawer o flynyddoedd yn ol gan aelod o'r Cyfrin-gynghor, y gallai dau ddyn wneyd plaid. Pan wneir plaid o ddau ddyn mor hawddgar, mor ddoeth, a'r ddau foneddwr gwir anrhydeddus, ni a allem obeithio gweled am y waith gyntaf yn y Senedd blaid berffaith unfrydol ac o gydymddiried llawn a llwyr. Ond y mae un anhawsder na ellir ei symud. Mae y blaid o ddau, yn peri i mi feddwl am y *Scotch terrier* oedd wedi ei orchuddio yn gymaint â blew fel nad allech ddyweyd pa un oedd ei ben a pha un oedd ei gynffon.

Yn nghof neb ni orchfygasid y Tŷ yn gymaint gan chwerthin, ac aeth yr Ogof yn ddigrifwch yr holl deyrnas. Ond trechwyd y Weinyddiaeth ar y mesur, a Mehefin, 1866, rhoddasant eu swyddi i fyny.

Cymerodd Mr. Bright ran flaenllaw yn y cyffrawd am Ddiwygiad yn ystod yr hydref, ac mewn ffordd o ddangos eu bod hwythau wedi blino yn dysgwyl, fe ddrylliwyd rheiliau Hyde Park gan y bobl; a darfu i hyn, ynghyd a dymuniad Arglwydd Derby i "wneyd" y Whigiaid—*to dish the Whigs!*—dueddu y Toryaid, fel o'r blaen gyda Deddf yr Yd, i basio mesur mwy eang; ac yn 1867 estynwyd yr etholfraint i bob tŷ-ddaliwr yn y bwrdeisdrefi. Ond fe'i pasiwyd megys ar flaen y bidog gan y Rhyddfrydwyr, er mai eu gwrthwynebwyr oedd yn dal yr awenau. Yr oedd Mr. Disraeli, fel Mr. "Anything" yn *Nhaith y Pererin,* yn ildio pobpeth a fynai y Tŷ,—eu mesur hwy ydoedd, gwnaent fel y mynent ag ef. Sylwid ar y pryd mai yr unig air a gafodd ei ffordd i'r Act yn y diwedd oedd y gair *Whereas* yn ei dechreu!

Yn y flwyddyn hono, fel ar lawer adeg arall, dadleuodd Mr. Bright yn gryf dros leddfu trueni yr Iwerddon, a dadganai fod yn rhaid i Eglwys Iwerddon beidio a bod fel Sefydliad. Cafwyd etholiad y flwyddyn hono dan Ddeddf y Diwygiad, a dychwelwyd Mr. Gladstone i allu gyda mwyafrif mawr, a bu raid i Mr. Bright gymeryd swydd yn y Weinyddiaeth fel Llywydd y Bwrdd Masnach. Cafwyd cymhorth tra effeithiol ganddo i basio Dadsefydliad yr Eglwys Wyddelig. Wedi i'r mesur hwnw fyned yn llwyddiannus trwy Dŷ y Cyffredin, ofnid am ei dynged yn Nhŷ yr Arglwyddi, ac yn yr amgylchiad hwnw ysgrifenodd Mr. Bright lythyr at un o'i etholwyr yr achwynid yn fawr yn ei erbyn ar y pryd fel wedi ei ysgrifenu gan un o Weinidogion ei Mawrhydi, lle y dywedai: "Mewn cysondeb â'r genedl gall yr Arglwyddi fyned

ymlaen am lawer o amser: ond os taflant eu hunain ar draws ei llwybr, rhaid iddynt gyfarfod â damweiniau na fydd yn hyfryd iddynt feddwl am danynt." Pasiwyd y mesur yn 1869, ac mae yn gysur meddwl nad oes dim o'r pethau ofnadwy, y dywedid ar y pryd nad oedd yn bosibl eu cadw draw, eto wedi cymeryd lle! Yn 1870 yr oedd ei iechyd wedi gwaelu i'r fath raddau fel nad allai gymeryd unrhyw ran mewn bywyd cyhoeddus. Yr oedd y croesaw a roddid iddo ar ei adferiad yn 1873, pan yn dychwelyd i gymeryd ei ran yn helyntion y wladwriaeth, yn gwisgo gwedd genedlaethol. Nid oedd dim llai na 17,000 wedi ymgynnull i'w groesawu ac i wrando arno yn y Bingley Hall, Birmingham. Cymerodd achlysur y pryd hyny i ddadgan ei farn yn bur groew ar fater ag ydoedd, pan oedd efe yn analluog i dalu sylw i achosion cyhoeddus, wedi peri llawer o deimlad yn y wlad. Dywedai nad ydoedd yn meddwl y gallai Addysgiaeth trwy y Sectau byth fod yn wirioneddol dda.

Dychwelwyd y Toryaid i allu yn 1874. Gwnaeth Mr. Bright araeth gref yn Birmingham yn Ionawr, 1875, ar Ddadsefydliad, ond ni chaed hamdden gan bethau eraill i ddyfod â'r mater i'r Senedd. Daeth y Cwestiwn Dwyreiniol drachefn i sylw, a chyflafan Bulgaria i ennyn digllonedd y deyrnas. Hawliai yntau mewn araeth fawr yn Manchester, yn Hydref y flwyddyn hono, "Na byddai gwaed a thrysor Lloegr byth eto yn cael eu treulio yn ofer ar ran y Twrc;" a gwnaeth ei oreu yn y Senedd ac oddiallan i wrthwynebu ysbryd ffol ac andwyol y *Jingoes*, y rhai a fynent ein llusgo i ryfel, tra yn gwbl ddibris am y canlyniadau. Yn 1877 yr oedd yn bresennol yn Birmingham yn "yr wythnos fawr," pan oedd Mr. Gladstone, ar wahoddiad Mr. Chamberlain, yn anerch y bobl, ac yn cael croesaw digyffelyb. Yn Mai, 1878, daeth cwmwl du dros ei babell trwy farwolaeth ei anwyl briod. Yn 1879 yr ydoedd wedi bod yn taranu yn enbyd yn erbyn y Weinyddiaeth Doryaidd oedd mewn awdurdod. "Dyma y cwbl," meddai, "a wna y Gweinidogion, —dim byd oll sydd o wasanaeth adref, a phobpeth a ellwch ddychymygu sydd niweidiol oddicartref." Darfu i etholiad cyffredinol 1880, chwedl yntau, "chwyrndaflu o allu y bobl ag oedd wedi ei gamddefnyddio." Yn ail Weinyddiaeth Mr. Gladstone yr ydoedd efe yn Ganghellydd Duciaeth Lancaster. Yr oedd 349 o Ryddfrydwyr yn y Senedd hono, 240 o Doryaid, a 60 o *Home Rulers.* Un o'i helyntion cyntaf oedd ystranciau gwaradwyddus y Toryaid i rwystro i Mr. Bradlaugh gymeryd ei sedd fel aelod dros Northampton, er iddynt wedi hyny, pan ddaeth y peth yn gyfleusdra iddynt hwy eu hunain, gydsynio â hyny fel pe na buasent erioed wedi yngan gair i'w anghymeradwyo. Yna fe dynodd yr Arglwyddi ddirfawr warth arnynt eu hunain trwy wrthod y mesur oedd wedi pasio yn gryf trwy Dŷ y Cyffredin i roddi Ad-daliad i denantiaid yr aflonyddid arnynt—*Compensation for Disturbance*—yn Iwerddon, yr hyn a wnaeth lawer tuag at brysuro y diwedd yn y wlad druenus hono, ac a osododd orfodaeth wedi hyny hyd yn nod ar y Toryaid i wneyd, er mewn ffordd anraslawn, yr hyn, y pryd hyny, a fuasai i fesur helaeth yn ddiogelwch iddynt. Mor aml y mae y bobl dda hyn yn "cau drws yr ystabl wedi i'r march ddianc." Dyma y pryd y dywedodd Mr. Bright y geiriau doeth: "Nid ydyw gorthrech yn feddyginiaeth. Y mae adegau pan y gall fod yn angen-

rheidiol, a phan y mae ei ddefnyddio yn gwbl anocheladwy; ond, o'm rhan i, byddai yn well genyf ystyried mesurau o ymwared na mesurau o orthrech, y rhai nad yw eu dylanwad ond amserol, nac yn y pen draw, yr wyf yn credu, ond trychinebus." Yn 1881 pasiwyd mesur o orfodaeth, *coercion*, â'r hwn, "dan deimlad difrifol o ddyledswydd," y cydsyniai yntau. Pasiwyd mesur gyda golwg ar y Tir yn Iwerddon y flwyddyn hono, i'r hwn y rhoddodd gefnogaeth effeithiol; ond gyda hyny yr oedd ei wasanaeth cyhoeddus bron yn terfynu. Daeth cyflafan Phœnix Park, a thaflodd bethau lawer yn eu hol; ac yn fuan wedi hyny, mewn canlyniad i'r rhyfel yn yr Aipht, rhoddodd ei swydd i fyny fel aelod o'r Weinyddiaeth. Yr oedd yn gwbl naturiol iddo roddi ei gefnogaeth wresog i estyniad yr etholfraint yn y Siroedd yn 1884, fel y gwnaethid yn y bwrdeisdrefi yn 1867. Yn 1885 fe'i gwrthwynebwyd yn Central Birmingham gan Arglwydd. Randolph Churchill, pryd y dychwelwyd ef gyda mwyafrif o 773. Tra yr ydym yn ysgrifenu, yr ydym yn gweled fod ei fab yn yr un etholiadaeth, ond fel "Undebwr," a chan ymffrostio ennill buddugoliaeth ar "y Rhyddfrydwyr" na ddychymygent am ei bath, yn cael ei ddychwelyd gyda mwyafrif o 3,060.

Pan ddygodd Mr. Gladstone ymlaen ei fesurau enwog o Lywodraeth Gartrefol i'r Iwerddon, teimlodd Mr. Bright ei fod yn myned yn llawer pellach nag y gallai efe ei ddilyn, a cheid ef o hyny i'r diwedd ymysg yr "Undebwyr Rhyddfrydol." Ni siaradodd ond ychydig ar y mater yma, a'i anhawsder ydoedd, nad allai oddef meddwl am "ymosod ar Gladstone." Ond ysgrifenodd gryn nifer o lythyrau at hwn a'r llall, y rhai a gyhoeddwyd yn y newyddiaduron, ac yr oeddynt yn dangos ysbryd anhapus a chwerw.

Yr oedd yn anffawd dybryd ei fod yn terfynu ei ddyddiau â'r fath anghyd-ddealltwriaeth rhyngddo â chynifer o'i gyfeillion goreu, ac wedi cymeryd ei le gyda phobl a fuont ar hyd ei oes yn ei ddarostwng ac yn ei gablu,—pobl na chyrhaeddodd yr un o'r amcanion mawrion ag y teimlai mor gydwybodol ei fod yn gwasanaethu Duw a dynion wrth ymdrechu drostynt ond er gwaethaf eu gwrthwynebiad mwyaf ystyfnig; ac ni allasai,—gan nad oedd obaith, chwedl yntau i'r "Ethiop newid ei groen neu y llewpard ei frychni,"—ddysgwyl oddiwrthynt ond ychydig iawn o ddaioni yn y dyfodol chwaith. Er y cwbl, o herwydd rhyw "angenrhaid presennol," teimlai nad oedd dim i'w wneyd ond cymeryd ei le yn ngwersyll ei elynion. Mae Mr. Chamberlain wedi ennill cysur iddo ei hun yn y fath gwmni am ei fod yn ei gael ei hunan ymysg "boneddigion." Rhy brin y gallasai Mr. Bright dynu cysur o hyny. Ac er, ar un olwg—fel y sylwai Mr. Gladstone—fod yn ffodus fod y rhai a deimlent bob amser mor wahanol tuag ato, wedi cael cyfleusdra i'w werthfawrogi, tra nad oedd yn bosibl i'w hen gyfeillion anghofio ei wasanaeth a'i rinweddau, eto rhaid fod y cyfnewidiad iddo ef wedi bod yn dra phoenus. Chwedl Coleridge:

> And to be wroth with those we love
> Doth work like madness in the brain.

Ystyriai efe ei fod yn gyfaill pur i'r Iwerddon, ac wedi ymladd ei rhyfeloedd am flynyddoedd lawer; ond tybiai fod cynnygiad Mr.

Gladstone yn arwain yn anocheladwy i ysgariad yr Iwerddon oddiwrth Loegr, a'i gwneyd yn deyrnas annibynol. Yr oedd yn brofedigaeth chwerw iddo orfod gwahaniaethu oddiwrth ei hen gyfaill, wrth ochr yr hwn yr oedd wedi ymladd cynifer o frwydrau, ac ennill cynifer o fuddugoliaethau, a'r oll yn llawn o fendith a daioni i'r bobl. Ac yn enwedig yr oedd yn annyoddefol ganddo, wrth weled llanw Rhyddfrydiaeth y deyrnas yn ei adael, feddwl am i neb fyned i gwestiyno ei Ryddfrydiaeth. Ystyriai ei fod, fel y buasai ar hyd ei oes, yn ffyddlawn i Ryddfrydiaeth fel yr ydoedd hyd 1885; ond credai fod Mr. Gladstone y pryd hyny wedi dwyn i fewn heresi niweidiol a pheryglus, wedi ei wneyd ei hun yn apostol Rhyddfrydiaeth arall, yr hon nid oedd arall, ac nad oedd yn bosibl i ddim ond trychineb ddilyn. Nid oedd lle mewn un modd i ammeu purdeb ei gydwybodolrwydd yn hyn oll; ac y mae erbyn hyn, er holl chwerwder y llythyrau y cyfeiriwyd atynt, yn ddirfawr gysur na feddyliodd neb o'i hen gyfeillion am ei atal yn yr un ysbryd, ond iddynt ymddwyn yn barchus a charedig tuag ato hyd y diwedd. Coffâ Mr. Barnett Smith hanesyn a adroddai, ei fod yn cerdded un diwrnod, yn fuan wedi ymddangosiad un o'i lythyrau yn erbyn Llywodraeth Gartrefol, ar hyd Pall Mall, ac wrth edrych ar draws yr heol lawn, yn sylwi ar henafgwr yn gwneyd ei ffordd rhwng y cerbydau, ac yn cyfeirio tuag ato. Mr. Gladstone ydoedd, wedi ei weled ymhell oddiwrtho. Nid oeddent wedi cyfarfod er ys peth amser, a phetrusai Mr. Bright am y derbyniad a roddid iddo. Cymerodd Mr. Gladstone ei hen gydymaith gerfydd ei law gan ei gyfarch yn y modd mwyaf calonog, ac ymholi yn garedig am ei iechyd a'i deimlad. Pan ddywedodd Mr. Bright rywbeth am y gwahaniaeth anffodus rhyngddynt, atebodd, "Wel, yr hen gyfaill, ni a fyddwn yn fuan ynghyd eto." Yr oedd Mr. Bright yn teimlo yn ddwfn oddiwrth ysbryd caredig a gwresogrwydd Mr. Gladstone, ac wrth adrodd yr amgylchiad siaradai am ei henaeth blaenorol fel arweinydd ardderchog a gwych, a gwrthwynebydd caredig a thyner.

Mae yn debyg y rhaid i ni briodoli anhawsder mawr Mr. Bright i fesur o gulni ysbryd a'i hanalluogai, yn enwedig yn y diwedd, i wneyd lle yn ei feddwl i syniadau ag yr oedd amgylchiadau newyddion yn eu dysgu. Fe brofodd ei sel dros Fasnach Rydd yn ddaioni anmhrisiadwy; eto ni a welsom fod hyny, yn gynnar yn ei yrfa, yn ei rwystro i weled uniondeb y mesur o amddiffyn i ferched a phant yn y *factories*, er nad oedd y rhyddid a fodolai ond yn gwbl *ar un ochr*, ac fod y rhai a wesgid wedi eu gadael yn hollol ddigymhorth. Yn gyffelyb, pan anfonodd rhywun ato yn lled ddiweddar ynghylch cael Mesur Tir i Gymru, ystyriai efe y gallesid gadael yr holl fater i'w benderfynu gan ddeddf gyffredin *Supply and Demand*, tra nad ymddangosai ei fod yn cael lle yn ei feddwl i'r ystyriaeth nad ydyw y gallu yn y mater yma, yn Nghymru, ond yn gwbl yn llaw y boneddigion, ac nad oes gan y bobl, yn llawer rhy fynych, ddim i'w wneyd ond dyoddef yn unig. Yr un modd, fe deimlai fod pobpeth wedi ei wneyd i'r Iwerddon yn y deddfau da oeddent wedi eu pasio ar ei rhan; ac os byddai yn angenrheidiol, y gellid myned eto ymhellach yn yr un cyfeiriad. Ond am roddi Llywodraeth Gartrefol iddi,—a chofio y Ffeniaid, a chyflafan Phœnix Park, a helyntion y *Land League*,—yr oedd hyny yn ei olwg ef yn wall-

gofrwydd, ac nid oedd ond ffolineb meddwl am ymresymu yn ei gylch. O'r ochr arall, yr oedd Mr. Gladstone yn gweled fod yr Iwerddon—wedi estyn iddi etholfraint deg a chyfiawn 1884—wedi anfon i'r Senedd 87 o'r 103 o aelodau a ganiateid iddi, 84 y cant, yn galw am Lywodraeth Gartrefol; a thra yn gwneyd hyny, ei bod yn barod i adael yr undeb rhyngddi a Lloegr heb ei anmharu mewn un modd. Gwelai hefyd fod yn anmhosibl i bethau fod yn waeth o ran ei chysylltiad â'r wlad hon nag yr oeddynt wedi bod yn y can' mlynedd ag yr oedd y drefn presennol wedi parhau. Ac wedi dwys fyfyrdod, fe luniodd gynllun i ddwyn hyny oddiamgylch mewn ffordd a gyfarfyddai â holl ddymuniadau yr Iwerddon, ac ar yr un pryd a ddiogelai—ie, a wnelai yn fwy diogel nag erioed—holl hawliau Coron Prydain. Yr oedd ei gynnygion yn fawrion a beiddgar, ond yn hanfodol Ryddfrydig; ac er yr anhawsderau a deimlai llawer ynddynt ar y dechreu,—anhawsderau er hyny ag y mae Mr. Gladstone wedi dangos pob parodrwydd rhesymol i'w cyfarfod,—nid ydyw yn rhyfedd erbyn hyn fod Rhyddfrydiaeth yr holl deyrnas,—gyda'r eithriad o'r dyrnaid yn Nhŷ y Cyffredin a'u galwant eu hunain yn "Undebwyr,"—wedi eu cymeryd i fyny fel yr unig ymwared ag y gellir dysgwyl iddo adfer heddwch a llwyddiant i'r Iwerddon. Mae ei feddwl eang ef, gydag ieuengrwydd ag y mae yn agos i bedwar ugain mlynedd wedi methu menu arno, yn gallu myned ymlaen yn barhaus i'r dyfodol, a darpar ar ei gyfer. Yr oedd Mr. Bright, o'r ochr arall, er ys llawer o amser yn byw yn y gorphenol, ac yn teimlo i gryn fesur fod y pethau mawrion wedi eu sicrhau, ac y dylasem fod yn llawer mwy diolchgar am danynt. Ond tra yn falch fod arweinydd eto wedi ei arbed sydd, tra yn gwneyd mwy na neb arall tuag at sicrhau y daioni a ennillwyd trwy fuddugoliaethau y gorphenol, eto yn myned ymlaen yn wrol i wynebu anhawsderau y dyfodol, yr ydym hefyd yn mawrhau â'n holl galon wron brwydrau lawer sydd yn awr wedi myned i orphwys, ond y bydd ei gydwladwyr am oesoedd eto yn mawrhau ei burdeb, ei allu, ei ddoethineb, a'i wasanaeth.

Byddai yn anhawdd i'r darllenydd a ddymunai fyned ymhellach i ystori werthfawr ei fywyd a'i lafur, wneyd yn well na mynu y gyfrol o eiddo Mr. Barnett Smith a nodasom uwch ben yr erthygl hon, yr hon sydd adargraffiad o un arall a gyhoeddwyd dro yn ol, ond yn dwyn yr hanes i lawr hyd farwolaeth Mr. Bright. Ei phris ydyw 7s. 6c.

DANIEL ROWLANDS.

## NODIADAU LLENYDDOL.

*Flashes from the Welsh Pulpit.* Edited by the Rev. J. GWYNORO DAVIES, Barmouth. With an Introductory Paper by the Rev. T. CHARLES EDWARDS, D.D., Principal of the University College of Wales, Aberystwyth. London: Hodder and Stoughton.

MAE y gyfrol hon yn un o'r ymgeisiadau mwyaf chwaethus a llwyddiannus a welsom eto i osod ger bron darllenwyr Seisonig bethau da, os nad pethau goreu y pulpud Cymreig. Ni chynnwysa bregethau cyflawn, ond detholion, a'r rhai hyny gan mwyaf yn "fflachiadau," wedi eu cymeryd o gylch lliosog o bregethwyr, o wahanol amserau ac o wahanol enwadau, a'r oll yn arddangos yn dra nodweddiadol ragoriaethau pregethu Cymru. A'r hyn sydd yn neillduol werthfawr yn y gwaith, y mae Mr. Davies wedi gallu gosod y pethau hyny mewn Saesoneg mor dda fel na raid i'r syniadau gywilyddio o'r wisg a osodir am danynt. Gwelsom rai wedi methu mor boenus yn hyn fel na allasai Cymry o ychydig feistrolaeth ar iaith ein cymydogion lai na dwys ofidio fod ein pethau da yn cael eu harddangos yn y fath ddirfawr dlodi, ac na allai Saeson a'u darllenent lai na rhyfeddu fod y fath bethau wedi cael eu hedmygu mewn unrhyw iaith, ac yn neillduol eu bod o gwbl wedi ennill y fath allu ar ysbryd y genedl Gymreig. Ond am y gyfrol hon, gallwn gyda hyfrydwch ddymuno iddi ledaeniad mawr. Fe'i darllenid gan Saeson a Chymry gyda hyfrydwch ac adeiladaeth, ac ni ryfeddem pe byddai llawer o bobl dda yn ei chymeryd fel hoff-gyfrol, i droi yn fynych iddi am addysg, a mwynhad, a bendith. Ni roddir enwau wrth y detholion, ond rhoddir yn y dechreu restr o enwau y gweinidogion o bregethau pa rai y maent wedi eu cymeryd. Byddai yn ddysgyblaeth dda i lawer o'n pobl ieuainc ymdrechu cael allan dadogaeth y gwahanol ddetholion. Dylai y llyfr hwn gael derbyniad parchus yn ein teuluoedd Cymreig lle y darllenir llawer o Saesoneg, a dylai yn arbenig gael croesaw mawr gan ein heglwysi a'n cynnulleidfaoedd Seisonig. Ei bris ydyw 5s.

*Ymweliadau â'r Dwyrain a'r Gorllewin.* Gan EDWARD OWEN. Liverpool: Argraffwyd (dros yr Awdwr) gan Isaac Foulkes.

MAE Mr. Owen wedi teithio cryn lawer. Aeth i ymweled â Phalestina, a thrachefn âg America; cymerodd dro hefyd i wahanol ranau o'r Cyfandir. A chan gymeryd dyddordeb deallgar yn y golygfeydd a'r helyntion a ddelent o dan ei sylw yn ei deithiau, fe ysgrifenodd nodiadau er cadw y pethau hyny at ei wasanaeth ei hun, yn gystal ag er dyddordeb i'w gyfeillion. Yr ydym yn cofio darllen gyda hyfrydwch rai o'r nodiadau am Palestina yn *Y Drysorfa*. Yn awr y maent oll wedi eu cyhoeddi yn gyfrol fechan, ddestlus. Ni wyddom pa un a ydyw yn y farchnad ai peidio; ond dylai fod, a theimlai llawer o'n cydwladwyr hyfrydwch neillduol wrth ei darllen, heblaw y byddai y goleuni a gaent ynddi ar fywyd Dwyreiniol yn llawer o gymhorth iddynt i ddeall yn well y Llyfr sanctaidd. Byddai dilyn Mr. Owen yn ei deithiau yn eangu cryn lawer hefyd ar eu dirnadaeth am y byd y maent yn byw ynddo, ac am yr hiliogaeth y perthynant iddi. Mae y llyfr wedi ei ysgrifenu yn naturiol a thra darllenadwy.

## CYFROL GOFFADWRIAETHOL CYNFAEN.

Yn awr yn barod yn y [illegible]

**PRIS PEDWAR SWLLT.**

DETHOLIAD O BREGETHAU Y DIWEDDAR BARCHEDIG JOHN HUGH EVANS (Cynfaen). Mae y Gyfrol yn cynnwys Darlun a Bywyd yr Awdwr, a'i ddarlith ar Job, yn nghyda PHRYDDEST FUDDUGOL CADVAN ar goffadwriaeth am dano. Anfoner pob archeb at Mrs. J. H. Evans, 43, [illegible] Street, Liverpool. Rhoddir yr elw arferol i Lyfrwerthwyr a Dosbarthwyr.

---

Yn awr yn barod, mewn llian hardd, pris 3s. 6c.

# WILLIAMS PANT-Y-CELYN,

YN CYNNWYS EI

## Holl Gyfansoddiadau Barddonol,

Oddieithr ei Hymnau, gyda Hanes ei Fywyd, a Thraethawd Beirniadol ar ei Weithiau, gan y Golygydd, y

## PARCH. N. CYNHAFAL JONES,

LLANIDLOES.

---

Mae y gyfrol hon y casgliad cyflawnaf o Weithiau Pereiniedydd Cymru a gyhoeddwyd erioed, ac mae y ffaith fod cannoedd lawer o'r gyfrol wedi eu herchi cyn ei hymddangosiad o'r wasg yn siarad yn uchel am ei theilyngdod, a'r angen a deimlid yn y wlad am Weithiau Prif Emynydd y Genedl.

P. M. EVANS & SON, PUBLISHERS, HOLYWELL.

---

Yn awr yn barod, Pris 1s. 6c., mewn amlen liwiedig, y Ffugchwedl Boblogaidd

# Y DREFLAN:

## EI PHOBL A'I PHETHAU.

WEDI EI HYSGRIFENU GAN

## AWDWR "RHYS LEWIS."

---

Mae y chwedl hon wedi derbyn cymeradwyaeth mwyaf calonogol y wasg, ac ynddi ceir desgrifiadau naturiol o gymeriadau ac amgylchiadau gwir Gymreig, wedi eu portreadu yn null dihafal a mwyaf hapus yr Awdwr.

---

Ar werth gan yr holl Lyfrwerthwyr, neu yn uniongyrchol oddiwrth y Cyhoeddwyr,

P. M. EVANS & SON, HOLYWELL.

RHIFYN CLXXIX JAN 3 1916

# Y TRAETHODYDD.

## GORPHENAF, 1889.

CYNNWYSIAD.


| | Tu dal. |
|---|---|
| Philo. Gan y Proffeswr HUGH WILLIAMS, M.A.... ... ... ... ... | 269 |
| Llyfr Job. Gan y Parch. H. CERNYW WILLIAMS ... .. .. ... ... | 282 |
| Dyffryn Clwyd. Gan HENRY ISGAER LEWIS ... ... ... ... ... ... | 291 |
| Dammeg y Cwymp. Gan y Parch. W. MORRIS LEWIS ... ... ... ... | 297 |
| Crefydd yr Hen Aiphtiaid. Gan y Parch. GRIFFITH ELLIS, M.A. ... | 307 |
| Y Dydd Hwyaf. Gan BARLWYDON ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 324 |
| Achosion Terfynol. Gan y Parch. JOSEPH ROBERTS ... ... ... ... | 325 |
| Prydain Fawr a'r Fasnach mewn Gwlybyroedd Meddwol ymhlith Brodorion India ac Affrica. Gan y Parch. WILLIAM HUGH EVANS... | 339 |
| Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 351 |


*CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF MEDI 1, 1889.*

SWLLT.

TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

# P. M. EVANS & SON, HOLYWELL

Yn awr yn barod, pris mewn llian hardd, 1s. 6c.; amlen, 1s.,

## Y SISWRN,

SEF

DETHOLION PRUDD A DYDDANOL, NEWYDD A HEN

O WEITHIAU

## DANIEL OWEN,

Awdwr poblogaidd "RHYS LEWIS," "Y DREFLAN," &c.

---

## GWOBR-LYFR I BLANT.

Yn awr yn barod, pris mewn llian, 1s. 6c.; amlen. 1s.,

## DARLITHIAU TODD I BLANT

Wedi ei gyfieithu gan y Parch. ELLIS EDWARDS, M.A., Bala.

---

Yn awr yn barod, pris mewn llian, 1s. 6c.; amlen, 1s.,

## CANEUON,

Ar destynau Crefyddol a Moesol, gan y diweddar Barch. ROGER EDWARDS, Wyddgrug, cyn-Olygydd "Y Drysorfa."

---

Yn awr yn barod, pris mewn llian, 1s. 6c.

Llyfr Rhagorol fel Gwobr i Ferched Ieuainc

## FY CHWAER,

Coflant am Miss JONES, Cefn y gader, yr Wyddgrug, gan ei brawd y diweddar GLAN ALUN.

# Y TRAETHODYDD.

## PHILO.

### YR IUDDEW YN MEDDWL FEL Y CENEDLOEDD.

I.

Un nôd arbenig ar ysgrifeniadau Philo, gŵr yn wir o Iuddew, nod hefyd sydd i'w gael mewn Iuddew arall mwy adnabyddus, Flavius Josephus, yw ei fod yn galw dysgeidiaeth grefyddol Iuddewig yn Philosophi. Yr oedd y gair eisoes wedi mawr newid ei ystyr a'i gymhwysiad er dyddiau Plato, nes agos gynnwys pob math o wybodaeth,—grammadeg, cerddoriaeth, a hyd yn nod daearyddiaeth. Yr ydoedd felly ymhlith y Groegiaid eu hunain. Ond pan welir dysgeidiaeth Iuddewig wedi ei sylfaenu ar yr Hen Destament yn dwyn yr enw hwn, enw a fathwyd mewn tiriogaeth mor wahanol ac i ddyben mor wahanol, gwelwn hefyd fod y cyfryw ddysgeidiaeth ei hun wedi myned dan gyfnewidiad mawr. O'i galw felly, rhan ydyw o wybodaeth y byd, ac amgen na "gwybodaeth y Sanctaidd"—y penaf fudd oedd o'r enwaediad, a'r rhagorfraint oedd i'r Iuddew. Megys y sonia yr apostol am "efengyl arall" Galatia, felly y soniai Hebreaid sobr Jerusalem am Iuddewiaeth arall Alexandria. Arall oedd, am fod y math perffaith wahanol o feddwl a gaed yn niwylliant Groeg wedi lefeinio meddyliau rhai a fynent, ar yr un pryd, fod yn ddysgyblion Moses. Y drych goreu i ganfod ffrwyth yr ymweithiad rhyfedd yma yw ysgrifeniadau Philo, a chais at ddesgrifio y peth a welir yn y drych hwnw yw yr erthygl hon.

Ganwyd y gŵr nodedig hwn tuag ugain neu ddeng mlynedd ar hugain cyn Crist, a chan iddo farw mewn gwth o oedran, a gweled Rhufain, fe allasai gyfarfod yno â rhai o wŷr cyntaf yr Eglwys Gristionogol. Pe daliem ar chwedlau, arosem gyda'r ystoriau am ei gymdeithas yn y ddinas ymherodrol â'r Apostol Pedr, a'i dröedigaeth at Gristionogaeth, ynghyd a'i ymchweliad drachefn at grefydd ei dadau. Ond er cystal fuasai genym gredu y rhai hyn, erys ei ysgrifeniadau ef ei hun, sydd yn wag o ddim cyfeiriad at Gristionogaeth, yn dystiolaeth eglur yn eu herbyn. Iuddew ydoedd; Iuddew hefyd o fath gwahanol hollol i'r hyn oedd Paul cyn ei dröedigaeth; Iuddew fel yr hyn, fe allai, oedd Apolos cyn cael agor iddo "ffordd Duw yn fanylach," neu awdwr y llythyr at yr Hebreaid cyn ei ddychweliad.

Mynych mewn llyfrau duwinyddol y cyfarfyddir âg ymadroddion a geiriau detholedig wedi eu dyfynnu o ysgrifeniadau Philo. [illegible] ein dyddordeb ynddo yn gyfyngedig i [illegible] y ffaith fod Zeller, yn ei waith gorphenol ar Athroniaeth y Groegiaid, yn rhoddi i'r ymdriniaeth uniongyrchol am dano ef, [illegible] o du dalenau o'i drydedd gyfrol. Mae iddo felly le yn [illegible] hynod meddwl y byd. Ond pan edrychir yn ystyriol ar y [illegible] mynych a geir mewn llyfrau fel yr eiddo Dorner, neu yn yr [illegible] am "y Gair" yn y bennod gyntaf o Efengyl Ioan, neu ynglŷn âg awduriaeth yr Efengyl hono,—pan edrychir arnynt gan eu cymharu â'r un ymadroddion yn ngwaith yr awdwr ei hun, yn [illegible] o wedd a chymeriad arall. Mae i'r gŵr hwn yn sicr berthynas â chwestiynau duwinyddol y grefydd Gristionogol; mae iddo, [illegible], berthynas â chyfansoddiad y Testament Newydd ei hun: eto, rywfodd, y mae ceisio cymdeithasu âg ef ei hun fel y peth yr ystyriai ei hun—Athronydd yn ol Moses—yn peri i'r naill a'r llall ymddangos yn bur wahanol i'r peth y tybir eu bod wrth ddarllen dyfyniadau wedi eu dethol i bwrpas neillduol. Nid yw wedi ysgrifenu yn uniongyrchol o gwbl ar y cyfryw faterion. Ysgrifeniadau athronyddol yw ei ysgrifeniadau, eto o ran mater nid oes na llun na lliw o drefn a dosbarthiad arnynt; ymddengys llawer o honynt fel tref Dolgellau, neu un o hen drefydd y Cyfandir, wedi eu taflu megys i gymeryd eu trefn neu eu hannhrefn eu hunain o honynt eu hunain. Credai ef, fel Iuddew, mai Moses oedd y dyn mwyaf a fu erioed mewn pob gwybodaeth a doethineb, ddynol a dwyfol, a bod holl drysorau doethineb a gwybodaeth i'w cael yn y Pum' Llyfr: felly y mae yn ymgymeryd â'r gwaith o dynu allan ddysgeidiaeth feddyliol a moesol mewn math o homiliau ar eiriau neu destunau o honynt o Genesis ymlaen. Yn hyn pregethwr ydyw; pregethwr doethineb a rhinwedd ar wedd athronyddol; pregethwr hefyd yn mynu cael yn ei destun feddyliau na freuddwydiasai ysgrifenydd y testun erioed am danynt. Er mwyn deall pa fodd y daeth hyn o amgylch, buddiol fyddai i ni geisio deall y math o Iuddew, newydd ei ryw, a ddygwyd i fod dan ddylanwadau arbenig yn Alexandria. Yn Philo cyrhaeddodd nodweddion y tymmor hwn yn hanes yr Iuddewon ddadblygiad ac addfedrwydd a barodd iddo fod o ddirfawr ddylanwad am dymmor yn hanes ei genedl, ac yn arbenig yn hanes yr Eglwys Gristionogol. Llanwodd gyfwng hynod iawn fel gweledydd a mynegydd dwy ganrif o gyfeiriad newydd y meddwl Iuddewig: cynnyrch ei oes symudliw ydoedd, eto gyda digon o nerth gwreiddiol i'w gwneyd, trwyddo ef, yn gynnyrchiol am amser maith. Er da? ïe, ond er drwg hefyd.

Mae tŷ ar y Garneddwen y dywedir fod y dwfr oddiar un fargod iddo yn disgyn ar y ddaear i gyrhaedd y môr yn Nghaer, ac o'r fargod arall yn rhedeg i lawr i'r Abermaw. Safle y tŷ yma yn unig sydd yn gosod arbenigrwydd arno ragor tai eraill. Ar fin cyflawnder yr amser, pan oedd yr eglwys Gristionogol ar gael ei geni, y rhoed llafar cyfuniad dau ysbryd i Philo: rhoed iddo wneyd yn un grefyddolder yr Iuddew ac ymchwiliad athronyddol y Groegwr. Ennillodd glust dynion at athrawiaethau o'r fath yma oedd wedi araf ymffurfio er ys talm, ac y mae ei ôl, medd rhai, fel y cyfeiriwyd, ar y Testament Newydd; mae ei ôl yn ddiau ar y prif ys-

grifenwyr eglwysig, ac yn enwedig ar y rhai a berthynent i "Ysgol Alexandria."

Yn ninas Alexandria yr oedd yr Iuddewon yn llïosocach nag yw y Cymry yn Ngogleddbarth Liverpool. "Mae y ddinas yn bum' rhan," medd Philo, "yn cael eu galw yn ol llythyrenau cyntaf y wyddor; o'r rhai hyn gelwir dwy yn rhanau Iuddewaidd, o herwydd fod mwyafrif eu trigolion yn Iuddewon, ac y mae nifer nid bychan yn preswylio y rhanau eraill yn wasgaredig."* Preswylient yma dan amgylchiadau gwahanol hollol i'r rhai a berthyn i ffurf neillduol eu crefydd. Allan o Balestina rhaid oedd i Iuddew fyw dan yr un dylanwadau â phobl eraill. Nis gallent yn Alexandria gymaint a son, "Y mae genym ni ddeddf:" yr un llywiawdwyr, yr un gyfundrefn o wleidyddiaeth oedd iddynt hwy ag i'r Groegiaid y preswylient fel "rhai ar wasgar" yn eu plith.† Wedi eu didoli, fel hyn, oddiwrth eu pobl a'r bywyd a berthynai i Ganaan, eto gan gadw a choleddu yn gryf eu hymlyniad wrth eu synagogau ac ysgrythyrau yr Hen Destament, tyfasant i ffurf arbenig, o herwydd dylanwad arall perffaith wahanol ei natur. Mewn manau eraill yr oedd yr Iuddewon a wasgarasid yn ddidoledig oddiwrth fywyd gwlad eu tadau; ond yn ystod y ddwy ganrif cyn Crist nid oedd un man, er enwi Rhufain ac Athen, o gymaint dylanwad i roddi cyfeiriad newydd i'w meddyliau ag Alexandria. O'i sefydliad cyntaf yr oedd dinas Alexandria—mewn rhan fe allai, dan gynhyrfiad hen draddodiadau yr Aipht fel cartrefle cyntaf gwyddonau rhif a mesur—a'i gogwydd i fod yn gartrefle gwybodaeth. Yma daeth ail fywyd i'r meddylgarwch oedd agos wedi marw yn nhir Groeg wedi ei darostyngiad gan Alexander Fawr: ail fywyd oedd, nid o'r un gwreidd-iolder nac o'r un nerth, mae'n wir, ag a welsid yn marddoniaeth, hanesiaeth, athroniaeth, a rheitheg Groeg ei hun, eto yr oedd mewn yni mawr. Cesglid llyfrau i lyfrgelloedd y ddinas hon o bob cwr, nes chwyddo y casgliad, yn ol Tzetzes, erbyn tua'r flwyddyn 236 cyn Crist, i 532,800 o gyfrolau. I'w hathrofa, a defnyddio enw diweddar, tyrai ysgolheigion goreu pob gwlad. Ynglŷn â'r llyfrgell ryfedd hon gwnaed mawrwaith mewn casglu ynghyd, trefnu a beirniadu ffrwyth yr oesoedd blaenorol o lenyddiaeth gyfoethog. Yn nwylaw y rhai a ddenwyd i gartrefu fel meddylwyr a dysgawdwyr yn Alexandria, rhoed perffeith-rwydd nodedig i *Geometry*. Yma y casglodd Euclid ei Elfenau; yma hefyd y darganfyddwyd ac y perffeithiwyd, i raddau sydd yn synu un a ddarlleno yr hanes, ranau uwch y gangen hon. Eto, fel y sylwa Zeller, athroniaeth oedd enaid diwylliad Alexandria; i'w hydlan hi y cludid ysgubau o rawn a godasid ar feusydd llenyddiaeth a gwydd-oreg rhif a mesur. Pan ddarllenom yr ysgrifenwyr Cristionogol a fagesid yma—Clement ac Origen—rhyfeddir mor aml ac eang yw eu dyfyn-iadau allan o lïaws o ysgrifenwyr. Daw i ni yr un profiad hefyd wrth ddarllen Philo, ond ynddo ef a hwythau teimlir fod, gyda'r cynnefindra rhyfedd hwn âg awduron, wedd athronyddol i'r oll. O newydd hefyd, dan symbyliad yr ysbryd athronyddol, daw syniadau cyfriniol Pytha-

* *In Flaccum*, 8.

† Yr oedd ganddynt ryw fath o gyfundraeth o'r eiddo eu hunain, ac yr oedd brawd Philo yn brif swyddog, dan yr enw Alabarch.

gorau i mewn i'r ffrwd feddyliol, yn llawn o gywreinrwydd, gwir ddefnyddiau digon allan o ymchwiliadau rhifyddol yr amseroedd, gwir hefyd o ddyddordeb, ond dilês iawn i uchel ddybenion athroniaeth.* Wrth ddarllen Philo, teimlir fod ynddo bob aiddgarwch a beiddgarwch i ymchwiliadau athronyddol; ond fel plentyn ei oes, ail-law, gyda chasgliadau arbenig, yw y meddyliau, o herwydd mai ail fyw y gorphenol yr oedd Alexandria ddysgedig. Y mwyaf o bawb oedd yn byw drachefn yn y meddylgarwch, neu yn yr adfywiad nerthol hwn o feddylgarwch, oedd Plato. Mawr yn enwedig oedd dylanwad ei ddysgeidiaeth am "y meddylddrychau," i'r rhai, fel ffurfiau yn bod cyn pob peth, a thrwy gyfranogi o'r rhai y caiff pob peth ei wir fodolaeth a'i heffeithrwydd, y priodolir bythol barhad, megys y maent hefyd yn ddwyfol, digreedig, a diddechreu. Yn y rhan hon yn arbenig, Platoniaid oedd meddylwyr Alexandria; yr oeddynt felly hefyd yn unfarnwydd eu syniadau gyda golwg ar fater, ac enaid, a'r Duwdod. Ond yn y pethau hyn tramwyasai dylanwad Plato hyd atynt trwy ddysgeidiaeth y Stoiciaid. Iddynt hwy yr oedd athroniaeth yn ymwneyd yn helaethach â rheol buchedd ymarferol nag â damcaniaeth ymchwiliadol am natur pethau. Felly y dechreuodd gyda'r sylfaenydd Zeno, yr hwn oedd yn fwy o ddiwygiwr moesau oes wedi dirywio, nag o un yn chwilio am wirionedd; felly hefyd y parhaodd ysbryd y gyfundrefn hon hyd amser Philo. Yn ol eu barn hwy, yr oedd mater yn bod erioed; yr oedd hefyd o angenrheidrwydd yn ddrwg, ac yn ffynonell pob drwg. Gan fod yr enaid yma ynglŷn â'r corff materol, mae pechod, yn herwydd y chwantau sydd â'u cartref yn y corff, ac yn herwydd anmherffeithrwydd y synwyrau corfforol, yn rhwym wrth yr enaid. Rhaid gan hyny bod heb arbed y corff, rhaid ei gosbi a'i ddwyn yn gaeth, rhaid ei ddarostwng trwy lymder dysgyblaeth bywyd manwl. Dyma unig obaith yr enaid i gyrhaedd purdeb. Duw o bell oedd Duw iddynt hwy; prin yr oedd ganddo briodoledd na bodolaeth ond megys yn yr holl fydysawd, a breswylid ganddo fel Rheswm (*logos*) pob peth. Diflanasai pob cred yn yr aml dduwiau sydd mor dryfrith yn hen farddoniaeth Groeg, ond tyfasai math o goel mewn bodau uwchddaearol llai na Duw, mwy na dyn. Ochr yn ochr â'r rhai a ddysgent hyn, yr oedd yn sefydliad eangfawr y Llyfrgell yn Alexandria wŷr o ddysgeidiaeth a llafur, fel Zenodotus ac Aristarchus, yn eangu gwybodaeth dynion am Homer ac eraill o'r hen feirdd. Yr oedd Homer yn fyw yn eu golwg, a'i ddwy gân fel Bibl y Groegiaid; hŷn oedd y rhai hyn na dim cof, ac yr oedd y parch iddynt yn dyfnhau. Nid annaturiol felly oedd coleddu y gred fod pob dysgeidiaeth i'w chael yn Homer, ac o hyny y cododd ac y ffynodd yn ddirfawr yr arfer o esbonio yr *Iliad* a'r *Odyssey* fel alegorïau. Daeth felly hen ystorïau prydferth y bardd yn ffynnonellau dysgeidiaeth foesol ac athronyddol. Nid aroswn i ddethol engreifftiau o'r rhai hyn, gan y cawn ddigonedd o rai mwy rhyfedd yn ngweithiau Philo allan o Ysgrythyrau yr Hen Destament.

Yr oedd dylanwad y bywyd Groegaidd yn Alexandria yn rhy gryf i'r Iuddewon ei wrthsefyll. Treiddiodd yn araf araf drwyddynt hyd

* Clement, *Stromata*, vi. 11.

at yr enaid, a'r canlyniad fu i fath newydd o feddwl godi yn y byd. Cyfunwyd syniadau Groegaidd fel y rhai y cyfeiriwyd atynt, wedi hanu o Plato, Pythagoras, a'r Stoiciaid, â'r ddysgeidiaeth grefyddol a gafwyd trwy Moses a'r Ysgrythyrau. Heblaw natur gyffredinol y diwylliant Groegaidd er effeithio i newid y meddwl Iuddewaidd, da fyddai cadw mewn cof fod tuedd *neillduol* yn yr athroniaeth a ffynai tua'r adeg y bu y cyfuniad, o'r fath ag i'w hyrwyddo. Gwelwn hyn o sylwi ar gyfodiad y rhai cyntaf o'r ail Blatoniaid, a'r ail Bythagoriaid, o'r adeg yma. Tyfasai yn mynwes athroniaeth y Groegiaid ysbryd o ammheuaeth. Nid ammheuaeth am grefydd, ond ammheuaeth o athroniaeth ei hun. Yn ei hirfaith daith nid oedd wedi nac yn rhoddi i eneidiau y tawelwch a geisient; felly dechreuasant edrych am rywbeth tebyg i ddadguddiad goruwchnaturiol yn yr hen grefyddau, neu yn y crefyddau dwyreiniol, neu yn nghyfrinion gwŷr a ymddangosent fel rhai anfonedig y duwiau. Gŵr wedi ei anfon oddiwrth Dduw, yn nghyfrif llawer, oedd Pythagoras, gyda'i seremonïau a'i gyfrinion a'i athroniaeth ryfedd mewn ffigyrau. Hwy geisient gael gafael ar Dduw, eto bellach nid trwy chwilio, oblegid, yr argyhoeddiad na allai y byd trwy ddoethineb mo'i adnabod. Ar ol y Stoiciaid y daw y symudiadau hyn, ac allan o'u dysgeidiaeth am foesau i raddau; ond mae y Duw a geisir, yr ymbalfalir am dano, yn myned yn uchel a dyrchafedig, yn Fôd o fawredd anamgyffredadwy. Nid yw *yn* y cwmpasfyd, fel y dywedai y Stoiciaid; ond uwchlaw pob peth, ac ar wahan i bob peth. Daw dau ganlyniad i'r fath argyhoeddiad: ar un tu, dychymygir am fodau cyfryngol; ar y tu arall, daw gofyn newydd am burdeb trwy gosbi y corff, yn meddyliau dynion, er mwyn cyrhaedd gwir amgyffred o bethau dwyfol. Gan fod mater yn bod fel Duw, erioed, mae yn achos o'r greadigaeth fel yntau. Os yw Duw yn achos gweithredol, mae mater yn achos goddefol, ac ynddo mae anmherffeithrwydd a drwg yn bod o angenrheidrwydd. Yn y cyfeiriadau hyn yr oedd athroniaeth wedi gadael ei gwyddoniaeth, gan ymholi am bethau y rhaid eu galw yn dduwinyddol; am grefydd hefyd, ac am foesau. Cryfhâ yr awydd am yr ymarferol mewn buchedd rinweddol yn ol doethineb, ac o herwydd cryfhad y sylw a delid i hyn, ni phetrusid derbyn athrawiaethau athronyddol llwyr wahanol eu natur. Fel y gallai gŵr ag y mae crefyddoli a gwella moesau yn brif, neu yn unig amcan ganddo, uno yn ei ddysgeidiaeth bethau detholedig o Hume *ac* o Kant, felly ryw ddwy ganrif cyn Crist, a gwedi, hyd Philo —ynddo ef yn arbenig—mae yr athroniaeth yn dangos ôl Aristotle yn ogystal â Plato, y Stoiciad a Pythagoras. Yn fyr, ail ddywedwn, mae y Platoniaid newydd a dilynwyr newydd Pythagoras yn llenwi yr awyr â syniadau uchel am Dduw ac isel am fater; y maent o awgrymiadau blaenorol yn llenwi y cyfwng rhwng Duw a byd â bodau i gyfryngu rhyngddynt mewn creadigaeth a chynnaliaeth yr hyn a grëwyd; maent, yn annigonedd athroniaeth, yn mynu d'od o hyd i bethau cuddiedig trwy alegori mewn hen lyfrau, a thuag at bureiddiad y cnawd er dyrchafu yr enaid, dygir i mewn seremonïau, ymattal oddiwrth fwydydd a diodydd, ac athrawiaethau cyfriniol. Hawdd oedd i'r meddwl Iuddewig, gyda'i sicr ddadguddiad yn Ysgrythyrau yr Hen Destament o Dduw yn Jehofah dyrchafedig, ymbriodi â'r athroniaeth hon. Gwnaeth hyny, a gorchfygwyd ef ganddi; fel Iuddewiaeth newidiodd ei gwedd a

danfonwyd hi ymaith. Er bod ei Duw yn uchel, eto, yn yr Hen Destament, Duw o agos ydoedd hefyd; ond yn nerth yr ymweithiad newydd gwnaeth yr Iuddewiaeth newydd ei goreu i ladd agosrwydd Duw—i ladd y gwirionedd gwerthfawrocaf sydd yn bod. Nid oedd yr Iuddewon hyn yn peidio â bod yn Iuddewon; adeiladent Synagogau mewn crefyddolder mawr, ac ymroddent i ddarllen ac egluro yr Ysgrythyrau, yn y rhai yr oedd yn ddilys ganddynt y ceid pob gwirionedd yn ei burdeb gwreiddiol. Eto, gan lawned oeddynt o win dysgeidiaeth, oedd iddynt hwy yn newydd, yr oedd eu dirnadaeth o wir ystyr yr Hen Destament ac o'i ddysgeidiaeth yn eiddilo. Yn ei Esboniad ar 1 Cor. x. 2, dywed Principal Edwards: "Y mae y lle uchel a roddir i Moses yn y Testament Newydd yn haeddu sylw, gan ei fod yn dilyn y dystawrwydd cymharol sydd yn yr Hen Destament. . . Mae yn arwydd o ddirywiad mewn crefydd fod enw ei sylfaenydd yn cael ei osod gymaint ar y blaen." Ceir cadarnhad o'r sylw cyrhaeddgar hwn yn ysgrifeniadau Philo. Edrycher ar yr *Index* a wnaed gan Mangey: dyfynir neu eglurir rhanau o Bum' Llyfr Moses tua saith gant a hanner o weithiau; tra na chyfeirir at eiriau seraphaidd Esaiah ond tair gwaith yn ei holl weithiau, ac nad oes yn yr oll hefyd ond tuag ugain cyfeiriad at Lyfr y Salmau. Yr oedd Moses yn wir yn ddeddfroddwr, wrth yr hwn enw y gelwir ef beunydd gan Philo; ond yr ydoedd hefyd iddo ef yn llawer mwy: efe oedd y doethawr ag y mae ei ysgrifeniadau i gynnwys *pob* gwirionedd, nid yn unig nac yn benaf ddadguddiedigaethau Duw, ond hefyd dysgeidiaeth am yr enaid a'i gynneddfau, am ddoethineb a gwybodaeth am rinwedd, a'r ddysgyblaeth sydd yn tywys enaid goleuedig iddi, fel y caed y ddysgeidiaeth hon o philosophi y Groegiaid. Y dull y ceir y gwirioneddau hyn yn Moses yw eu *gosod* yno yn gyntaf, ac yna eu tynu allan ar ffurf alegoriau.

Wrth edrych ar gymeriad yr Iuddewiaeth newydd a gododd fel hyn yn Alexandria, enwir yn ol amryw gyfeiriadau a wnaed eisoes, y pethau canlynol fel ei nodweddion arbenig:—

1. Eglurhad yr Hen Destament trwy *alegori*, a chyda chymhorth syniadau y Pythagoriaid, er mwyn cael allan o hono ddysgeidiaeth athronyddol.

2. Y syniad am Dduw yn dyfod yn fwy fwy nacäol: Duwdod bron yn ddibriodoledd, fel y byddai yn annhebyg hollol i ddyn a phob peth: Duwdod hefyd ar wahan i'r byd, nid mewn dig sanctaidd am bechod, ond o herwydd mai mater ydyw, a bod mater, o angenrheidrwydd, yn ddrwg ac anmherffaith. Oddiwrth y byd y mae Duw, am hyn, mewn anfeidrol bellder, a cheir ar hyn syniadau hollol groes i ddysgeidiaeth yr Ysgrythyrau.*

3. Y gred mewn bodau goruwchnaturiol fel cyfryngau rhwng Duw â'r byd, ac â dynion, yn cael ei dysgu dan y fath enwau âg angelion, grasau, galluoedd, cysgodau, meddylddrychau, seliau, delw, geiriau, y Gair. Gwelir yn arbenig, yn y cyfryw enwau, wedi eu benthyca rai o Plato, rai o ddysg y Stoiciaid, ac erail o'r Hen Destament, dystion byw o'r cymysg feddyliau a ddaethai i'r Iuddew.

* "Mae y golygiad sydd yn llywodraethu Philo am fater yn un perffaith groes i'r Bibl."—*Siegfried.*

4. Diystyrwch o bob peth a berthyn i'r synwyrau, yn tarddu o'r dŷb isel a ffynai am fater, ac am y corff fel carchar yr enaid.

5. Galwad am fywyd o lem ddysgyblaeth ar y corff, er puro yr enaid oddiwrth chwantau a chyrhaedd amseroedd o bêrlesmair a myfyrdod, yn y rhai, megys wedi ei ryddhau oddiwrth faich y cnawd, y cyrhaeddai yr enaid weledigaethau uchel, anmhosibl heb hyny.

Yn y pum' peth a nodwyd, cyfarfyddwn â gwedd orphenol y dadblygiad a darddodd o gyfathrach meddwl yr Iuddew â meddwl y Groegwr. Fel hyn yr oedd ar fin yr amser y dechreuodd, yn benaf hwyrach trwy ysgrifeniadau Philo, osod ei ddelw ar ysgrifenwyr yr Eglwys Gristionogol. Ond nid annyddorol yw yr ymchwiliad, pa bryd y dechreuodd y cyfryw gyfuno, neu pa bryd y dechreuodd y rhan hon o Israel beidio a bod yn bobl yn preswylio eu hunain?

Mae Philo, yma ac acw, yn cyfeirio at lyfrau lawer a ysgrifenasid gan ei gydwladwyr, ond mae, ysywaeth, agos yr oll o honynt wedi eu colli. Er hyny mae darnau ar gael sydd yn profi fod ysgrifenwyr Iuddewig yn dewis ffurfiau Paganaidd, Groegaidd—megys y drama a'r oracl—i osod allan feddyliau a gawsent o'r Hen Destament cyn y flwyddyn 150 C.C. Hynod yw y dystiolaeth a geir gan un o'r enw Aristobulus, yr hwn a osodir tua'r flwyddyn 160 C.C. Mae ef yn argyhoeddedig fod llyfrau Moses yn cynnwys yr un ddysgeidiaeth â'r goreu sydd yn yr ysgrifenwyr Groegaidd. Rhaid, meddai ef, fod cyfieithiad hŷn o'r Ysgrythyrau i'r Groeg nag un y Deg a Thriugain yn bod, lle y cafodd yr hen feirdd a'r athronwyr—Plato ac Aristotle yn eu mysg—eu pethau rhagoraf. Yn ol ysbryd y Groegwr oedd ynddo, myn symud ymaith neu leddfu ystyr ymadroddion sydd yn priodoli i Dduw bethau a berthyn i ddyn, megys "llygaid yr Arglwydd," "llaw yr Arglwydd," &c.; ac ymddengys hefyd ei fod yn cymeradwyo y dull o drin yr Ysgrythyr mewn alegori, a hyny er gochel—hynod reswm yn ngenau Iuddew—derbyn pethau a ystyria ef yn chwedlonol (τὸ μυθῶδες).

Ond mae y mwyaf o'r llyfrau a ysgrifenwyd yn Alexandria ar gael genym. Yno y cyfieithiwyd yr Hen Destament i'r Groeg; yno hefyd y cyfansoddwyd, a hyny yn y Groeg—onid oes un i'w eithrio—y llyfrau a elwir yr Apocrypha. Myn rhai—Dähne yn benaf,—fod ôl y dull newydd o feddwl oedd yn ymweithio drwy yr Iuddewon ar y cyfieithiad pwysig hwn. Nis gallai hyny beidio a bod mewn rhan, o herwydd fod yr iaith ei hun wedi ei lliwio gan y meddyliau yr oedd dros gyhyd o amser wedi bod yn gyfrwng iddynt. Heblaw hyn, ac heblaw y duedd i leddfu rhai ymadroddion Hebreig, ag eithrio ychydig fanau gwasgaredig, ymddengys fod y dyb hon heb seiliau digonol iddi. Yn y cyfieithiad hwn y darllenai Philo yr Ysgrythyrau a ystyriai ef yn ysbrydoledig; hwn hefyd a ddefnyddid i fesur mawr gan ysgrifenwyr y Testament Newydd, a hwn oedd Bibl canrifoedd cyntaf yr Eglwys Gristionogol. Pan edrychwn i'r Apocrypha, cynnyrch gwreiddiol y tymmor effro ymhlith Iuddewon Alexandria, y mae un llyfr yn arbenig yn dangos arwyddion amlwg o feddyliau a gawsid gan y Groegiaid. Llyfr Doethineb Solomon yw hwnw. Yn xi. 17, darllenwn, "Oblegid, ni rwystrwyd dy law di, yr hon sydd hollalluog, ac a wnaeth y byd o afluniaidd ddefnydd. . . ;" awgrym o athrawiaeth y Stoiciaid a Philo i Dduw ffurfio y byd o fater

oedd yn bod erioed. Felly hefyd yn viii. 7, o'r pedwar prif rinwedd a ddosbarthir felly am y tro cyntaf gan Plato yn wythfed llyfr y "Wladwriaeth:" "Rhinweddau da yw ei llafur hi, canys y mae hi yn dysgu *sobrwydd* a *synwyr, cyfiawnder* a *gwroldeb*." Mae yn y llyfr hwn ychwanegol i'n tywys i gyfeiriad Philo, yn enwedig at bersonoliaeth y Gair, am y rhai y cawn eto ddywedyd. Er hyny yn hwn, y mwyaf Groegaidd o lyfrau yr Apocrypha, y mae llawer o brif nodweddion Philo yn absennol. Bernir i'r rhanau cyntaf o'r Hen Destament gael eu cyfieithu i'r Groeg cyn 250 C.C., a'r rhanau olaf tua 150 C.C., ac y mae amseriad y rhagoraf o lyfrau yr Apocrypha—Ecclesiasticus, neu Ddoethineb Jesus Mab Sirach—ynddo ef ei hun, sef tua 132 C.C. Yr ydym yn cael felly fod yr Iuddewon yn Alexandria er ys mwy na dau can mlynedd cyn Crist, dan angenrhaid i gael yr Ysgrythyrau yn yr iaith a ddeallent, sef y Groeg, a'u bod wrth ysgrifenu llyfrau eu hunain, gyda'r bwriad o gyflenwi cynnwys y llyfrau oedd ganddynt o'r Hen Destament, neu ychwanegu atynt ffrwyth myfyrdodau crefyddol, yn gwneyd hyny nid yn yr Hebraeg mwyach, ond yn iaith Alexandria.

Athronyddol y gelwir gweithiau Philo. Ond pan ddechreuwn yn y dechreu, a'u darllen yn ddilynol, nid ymddengys yr athronydd mor amlwg â'r meddyliwr crefyddol. Math o Homiliau ar Bum' Llyfr Moses yw llawer, er fod y teitlau yn awgrymu yn amgen. Oddiyma cyfyd damcaniaethau am greadigaeth y byd, am ddyn, ac am Dduw; uchel werai hefyd am ddoethineb a bywyd o fyfyrdod, am ragoriaeth y rheswm a rhinwedd; am Dduw a dyn yn eu priodoleddau; am y bodau angelaidd hanner sylweddol, sydd yn hanfodi rhyngddynt fel cyfryngau. Dyma y pethau y cyfeirir atynt gan yr ysgrifenydd hynod hwn; ac wedi llafurus ddarllen trwy lawer a deimlir yn ddiwerth, erys yn y meddwl, wedi dodi y llyfr heibio, adgof o ranau aruchel mewn desgrifiadau byw, meddyliau cyrhaeddgar, damcaniaeth feiddgar. Gwahanol iawn yw barnau dynion am dano: "*philosophic trifling*," medd cyfieithydd Plato am y gwaith; "un o Dadau yr Eglwys" y gelwir ef gan ŵr arall; "gŵr hynod a mawr ei ddylanwad," medd Zeller, a chyffelyb yw barn y cyflawnaf o'r ysgrifenwyr arno—Siegfried.

Wrth geisio dangys pa fath ddysgawdwr oedd, ymdrechaf wneyd hyny gan mwyaf yn ei eiriau ef ei hun.

"Yr hyn bethau ydynt mewn alegori." Yn y geiriau hyn y mae Paul yn awgrymu i ni un peth ag yr oedd ef yn dilyn Philo ynddo. Felly hefyd y gwna mewn manau eraill, ac felly y gwneir gan awdwr y llythyr at yr Hebreaid. Eto, gyda'r tebygrwydd yma rhyngddynt, mae yr annhebygrwydd mwyaf ar yr un pryd o ystyr a dyben, er cyfaddef fod rhai rhanau o'r Hebreaid yn ein hadgofio o Philo mewn dull tarawiadol iawn.

Nid yw alegori mewn un modd yn newydd i Philo. Wrth gyfeirio at briodas Abraham a Sarah, o'r hon y ganwyd "cenedl gyfan—cenedl yn caru Duw yn fwy na'r holl genedloedd—yr hon, yn ol fy marn i, sydd wedi derbyn offeiriadaeth a phrophwydoliaeth dros bob cenedl o ddynion," dywed ymhellach: "Clywais athronwyr naturiol yn esbonio yr adran hon, gan ddefnyddio alegori nid heb briodoldeb. Dywedant fod y dyn yma [Abraham], yn arwyddluniol, yn golygu meddwl da, gan gasglu oddiwrth ddeongliad yr enw, Abraham, mai yr ystyr yw, cymer-

iad perffaith yn yr enaid. Mae ei wraig o'r tu arall yn golygu rhinwedd, gan mai ei henw yn yr Hebraeg yw Sarah, hyny yw, yn y Groeg, tywysoges, o herwydd nad oes dim yn fwy tywysogaidd a chymhwys i arwain nag yw rhinwedd."

Solomon yw doethawr yr Apocrypha;—i hwn, Moses ydyw. Ond gan fod Philo, heb yn wybod iddo ei hun, yn *fwy* awyddus i ddysgeidiaeth Groeg nag i grefydd ei dadau, yn *fwy* o feddyliwr Groegaidd nag o Iuddew, mŷn wau gwê o ddysgeidiaeth ddyrchafedig allan o lyfrau Moses. Ni ellir gwneyd hyn ond trwy gymeryd yn ganiatäol fod *dwy ystyr* i bob peth a ddarllenir yno. Un yw yr ystyr lythyrenol—yr ystyr briodol fel y dywedwn ni—a'r llall yw yr ystyr gyfriniol. Wrth dynu yr olaf hon allan aberthir y gyntaf, a chyda hi aberthir yn ddiau ystyr yr ysgrifenydd ei hun. Nid yw yn petruso dyweyd fod llawer adran yn anghredadwy, naill ai o herwydd ei bod yn cynnwys pethau anmhosibl am Dduw, neu am nad yw ond chwedl *(myth)* yn unig. Mae ef ei hun yn cyfeirio at rai a wrthwynebent y dull hwn o egluro yr Ysgrythyrau—Iuddewon uniawngred Hebreig hwyrach; eto, fel y dengys un yn neillduol o'i draethodau ar Fywyd o Fyfyrdod nid yw yn ymgymeryd â'r gwaith fel peth newydd. Dyma ddull y byd iddo ef.

Yn ei lyfr cyntaf, ar Greadigaeth y Byd (liv.), dywed: "Tra yr oedd dyn yn byw bywyd unig, cyn eto greu y wraig, dywedir i Dduw blanu paradwys hollol annhebyg i'r gerddi sydd yn ein plith ni. Yn y gerddi hyn mae coedydd heb enaid; llawn ydynt o bob math o brenau, rhai yn fythwyrddion er boddhâd parhaus i'r llygaid, eraill yn blaendarddu yn y gwanwyn, ac yn dwyn ffrwyth . . . . . Ond yn mharadwys Duw prenau âg enaid ganddynt, yn feddiannol ar reswm, oeddynt oll, a'u ffrwyth yn rhinweddau, a chyda hyny, deall a synwyr anniflanedig, trwy yr hyn yr adwaenir da a drwg; bywyd hefyd heb afiechyd ac anllygredigaeth, a chyda phob peth priodol i'r cyfryw. Ymddengys yr ymadroddion hyn i mi yn rhai i'w hystyried yn arwyddocäol yn hytrach na'u meddwl yn llythyrenol. Canys ni welwyd erioed ar y ddaear, ac nid yw yn debygol y gwelir eto, bren y bywyd neu bren gwybodaeth. Ond ymddengys mai dammeg sydd yma—yn 'mharadwys' o gynneddf lywodraethol yr enaid, am ei bod yn llawn o fyrdd o feddyliau, megys o goed; ac yn 'mhren y bywyd,' ddammeg o'r fwyaf o'r rhinweddau, sef duwioldeb, trwy yr hon y daw yr enaid yn anfarwol; yn 'mhren gwybodaeth da a drwg,' o'r synwyr sydd yn dosbarthu pethau gwrthgyferbyniol eu natur."

Wrth ddyfynu y geiriau, "Ac ymguddiodd Adda a'i wraig o olwg yr Arglwydd Dduw," gofynir gan Philo: "Pa fodd y dywedir fod neb yn ymguddio oddiwrth Dduw?" Ymddengys hyn yn hawdd iawn, ond gwelwn ddylanwad ei gyfundrefn ar feddwl ein hawdwr yn ei ateb. "Oni ddefnyddir alegori; mae yn anmhosibl derbyn yr hyn a ddywedir yn y geiriau, canys y mae Duw yn llenwi pob peth ac yn treiddio trwy bob peth, ac nid oes dim wedi ei adael yn wag ganddo o hono ei hun. . . . Rhaid deall fel y canlyn, yn y dyn drwg mae y gwir syniad am Dduw wedi ei gymylu a'i guddio, gan fod y fath un yn llawn tywyllwch, heb y ddysgleirdeb dwyfol, ag y canfyddir trwyddo y pethau sydd yn gwir fod."*

* *Legis Alleg.* iii., 2, 3

Nid oes derfyn i feddwl o [illegible] [illegible], [illegible] i [illegible] pethau moesol, ac y penderfynid : [illegible] y [illegible] [illegible]. Er nad yw yn wir eglurhad o eiriau syml y Bibl, nac ychwaith yn [illegible] athronyddol, eto wedi mynych syniu ac [illegible] y [illegible], nid yr un mor fynych edmygu llu o [illegible] a [illegible] neillduol. Cymerwn eto esiampl neu ddwy, er gweled [illegible] [illegible] yw alegori yn nwylaw Philo. Mewn hen lyfr Cymraeg "[illegible] Gristionogawl," gan Moris Clynog, a gyhoeddwyd yn Milan yn 1568, enwir "y pedair prif rinwedd" fel hyn, "pwylldeb, [illegible], cyfiawnedd, tymheredd." Cyfeirir at y dosbarthiad yma, yr hwn, fel y gwyddys, sydd eiddo Plato, amryw weithiau gan Philo, a gelwid mewn Cymraeg diweddar eu henwi—doethineb, gwroldeb, cyfiawnder, cymedroldeb. Wedi dwyn y rhai'n i gof, mae y darn canlynol, i'n tyb i, yn flasus hynod. "Ac afon a aeth allan o Eden i ddyfrhau yr ardd, ac oddiyno hi a ranwyd ac a aeth yn bedwar pen. Enw y gyntaf yw Pison; hon sydd yn amgylchu holl wlad Hafilah, lle mae yr aur. Ac aur y wlad hono sydd dda; yno y mae Bdeliwm a'r maen Onix .... a'r bedwaredd afon yr Euphrates" (Gen. ii. 10—14. Dyma y geiriau i'w hesbonio, ac fel hyn yr ysgrifena Philo:—"Bwriad yr ysgrifenydd yn y geiriau hyn yw darlunio y rhinweddau neillduol. Maent yn bedair mewn nifer—doethineb, cymedroldeb, gwroldeb, cyfiawnder. Y brif afon, o'r hon y ffrydia y pedair, yw rhinwedd gyffredinol, yr hon a enwasom yn ddaioni, a'r pedair ffrwd yw y rhinweddau sydd o'r nifer hwnw. Yn awr mae rhinwedd, a'i hystyried yn gyffredinol, yn cael ei dechreuad o Eden, sef o ddoethineb Duw—yr hon sydd yn llawenychu ac yn ymorfoleddu, gan gael ei mawrhau a'i hurddas yn ei hunig Dad, sef Duw. Mae y pedair rhinwedd neillduol yn tarddu o'r gyffredinol, yr hon fel afon sydd yn dyfrhau unionder pob un â ffrwd gref o ddaioni. Un o'r pedair yw doethineb, yr hon a elwir yma Pison gan Moses; o herwydd fod yr enaid yn ymattal oddiwrth ac yn gwarchod rhag gweithredoedd anghyfiawn.* Mae yn dolenu ac yn amgylchu gwlad Hafilah, hyny yw, mae yn dilyn bywyd tawel, addfwyn, a hynaws. Ac megys mai y goreu a'r goreuocaf o'r sylweddau a doddir yw yr aur, felly y rhinwedd goreuocaf yn yr enaid yw doethineb." "A phan ddywedir, 'lle y mae yr aur,' nid man neillduol a feddylir ag y ceir aur yndd, ond y lle y mae y ddoethineb eurliw wedi ei phrofi trwy dân, a gwerthfawr, yn berchenogaeth. A chydnabyddir mai hi yw perchenogaeth ragoraf Duw. Ond lle y mae rhinwedd mae dau gymeriad, y naill yw y doeth, a'r llall yw y hwn a arfer ddoethineb, y rhai a gyffelybir gan Moses i'r Bdeliwm a'r maen Onix. 'Ac enw yr ail afon yw Gihon, hono sydd yn amgylchu holl wlad Ethiopia.' Arwyddocad yr afon hon yw gwroldeb; canys ystyr Gihon o'i ddeongli yw dwyfron, neu anifail sydd yn cornio; mae y ddau ddeongliad yn awgrymu gwroldeb; oddeutu y ddwyfron y mae trigle gwroldeb, lle hefyd y mae y galon, ac yno y parotoir er amddiffyniad. Canys gwybodaeth o'r hyn sydd i'w wrthsefyll a'r hyn nad yw i'w wrthsefyll, ac o'r hyn nad yw y naill na'r llall, yw gwroldeb.† Mae yn amgylchu

* *Pheison* yw yr enw yn y Groeg, a *pheidomai* yw y ferf am ymattal.
† Adgof o hen ddysgeidiaeth Socrates, mai doethineb yw rhinwedd.

Ethiopia ac yn rhyfela yn ei herbyn, yr hon, o'i deongli, yw darostyngiad, a pheth darostyngol yw llwfrdra, tra y mae gwroldeb yn wrthgyferbyniol i ddarostyngiad a llwfrdra. 'Y drydedd afon yw y Tigris'—yn ol darlleniad y LXX., yr hwn a ddefnyddid gan Philo—ac y mae hon yn golygu cymedroldeb, am ei bod yn rheoli pleser, yr hwn sydd yn rhoi ei gyfeiriad i wendid y ddynoliaeth. Ceir hyn, o ddeongli yr enw Assyria, y wlad y mae yr afon o du y dwyrain iddi, ac hefyd am fod pleser yn debyg i deigr gwyllt, yr hyn a awgrymir yn yr enw Tigris. 'A'r bedwaredd afon yw Euphrates." Ystyr yr enw hwn, Euphrates, yw ffrwythlondeb, ac y mae yn arwyddocaol o'r bedwaredd rinwedd, sef cyfiawnder, yr hon sydd wir ffrwythlon ac yn llawenhau y deall. Pa bryd y bydd hyn? pan fo tair rhan yr enaid mewn cydgordiad â'u gilydd; a chydgordiad rhyngddynt hwy yw goruchafiaeth yr oreu, sef pan fo y chwant a'r nwyd yn cael eu ffrwyno gan y rheswm; yna y daw cyfiawnder."

Pan y dywed Jehofah, "Myfi yw Duw Abraham, Isaac, a Jacob," y *gwir* ystyr yw yr un mewn alegori, yn ol Philo: fod y tri gŵr yn arwyddo tri math o rinweddau: Abraham yw y rhinwedd sydd yn ffrwyth hyfforddiant, gwybodaeth, a doethineb; Isaac yw y rhinwedd sydd yn tarddu o natur dda; ac yn Jacob gwelir y rhinwedd a fegir gan ddysgyblaeth a phrofiad bywyd ystormus. Eto, meddir, mae Duw trwy alw ei hun wrth yr enw hwn yn cydnabod y tri rhinwedd fel ei eiddo ef.

Yr ydys eisoes wedi cyfeirio at y defnydd a wneir o'r dull arwyddocaol hwn o drin yr Hen Destament gan Paul, ac yn y llythyr at yr Hebreaid. Pan y dywed yr Apostol ddarfod bedyddio holl Israel i Moses yn y cwmwl ac yn y môr, a bwyta o bawb o honynt yr un bwyd ysbrydol, ac yfed o'r un ddiod ysbrydol, ac mai Crist oedd y graig ag oedd yn canlyn, y casgliad naturiol yw ei fod yn rhoddi i'r ffeithiau hyn ystyr tu hwnt i'r un hanesiol. Yr oedd hyn yn naturiol i un oedd yn credu ei fod yn cyfeirio at oruchwyliaethau Duw yn hanes y genedl etholedig; yr oedd hefyd yn arbenig naturiol yn y cyfryw lyfr â'r llythyr at yr Hebreaid; ac yn y manau hyn mae y Testament Newydd wedi cydnabod fod alegori neu ddammeg i'w chymhwyso at gynnwys yr Hen Destament. Ond edrychwn ar Philo yn trin yr un pethau mewn alegori, fel y gweler mor ddyeithr yw *mater* y rhanau alegoriaidd o'r Testament Newydd i ddim a geir yn Philo:—"'A Moses a gymerodd y babell ac a'i lledodd o'r tu allan i'r gwersyll, ymhell oddiwrth y gwersyll, ac a'i galwodd pabell y cyfarfod; a phob un a geisiai yr Arglwydd, a äi allan i babell y cyfarfod, yr hon ydoedd o'r tu allan i'r gwersyll' (Ex. xxxiii. 7). Oni welir pan dderbyniodd Moses y tabernacl, hyny yw, *doethineb*, gan Dduw, yn yr hwn y trig ac y preswylia y doeth, iddo ei osod a'i sylfaenu yn gadarn, nid yn y corff, ond allan o hono. Canys y mae yn cyffelybu y corff i wersyll llawn o'r hyn a berthyn i ryfel, ac heb feddiant o dangnefedd. 'A thabernacl y dystiolaeth y galwyd ef' [fel y darllena y LXX.], sef yw hyny, doethineb yn cael tystiolaeth gan Dduw. Canys yn hollol naturiol yr oedd pob un a geisiai yr Arglwydd yn myned allan o'i dŷ ei hun. Os myni, O fy enaid, geisio Duw, dos allan o honot dy hun, a chais Ef; ond os arosi yn sylwedd y corff, neu yn y syniadau a berthyn i'r deall, nid oes ynot gais am bethau dwyfol,

[illegible] . . . Digon er cyfranogi o'r hyn [illegible] o geisio, canys mae cyrchu [illegible] yn peri llawenydd i'r rhai a'i [illegible]."

Yma [illegible] y diffaethwch. Mewn man arall, [illegible], yr hwn nid oedd llygaid [illegible] y pur feddylddrych o o rinwedd;" a'r [illegible] rinwedd sydd weledig i'r synwyrau [illegible].

Trwy y [illegible] hon y deuwn i ganfod athroniaeth Philo [illegible] yn ymwneyd â meddylddrychau [illegible] a gwahanir oddiwrthi, â pharch prin, y [illegible] arwyddocaol o alegori y [illegible] i Adda, hyny yw, a roddwyd i'r [illegible].

[illegible] yma [illegible] dangos natur y dull yma o dynu [illegible] Moses na fwriadwyd iddynt eu cyfleu; daw eto yr amser i weled [illegible] wedi dwyn i ni gynnyrchion aruchel o feddyliau am [illegible] a Duw, er eu bod y cyfryw ag yr oedd yr Eglwys Gristionogol yn [illegible] ar amryw gyfrifon, eu hystyried yn elyniaethol, tra y [illegible] a manteisio arnynt.

Yn awr, o ran [illegible], er gweled dull o feddwl a fu unwaith yn fawr ei barch, [illegible] erbyn hyn wedi llwyr ddiflanu, erfyniwn [illegible] y darllenydd yn mhellach, i wrando ar Philo yn trin yr Ysgrythyrau yn ysbryd [illegible] newydd Pythagoras, gan fod y gyfundrefn hon hefyd yn ei bri yn Alexandria. Nid oes neb nad yw wedi teimlo fod pethau rhyfedd, sydd yn peri i'r meddwl synu, yn ein cyfarfod yn mherthynas rhifau (*numbers*) a'u gilydd. O deimlo y rhywbeth cyfriniol sydd yn y rhai hyn, arweiniwyd dynion i'r gred fod a fynont â hanfod pethau, ac ar y gred hon y sylfaenwyd damcaniaethau cywrain gan Pythagoras, ac yn llawer diweddarach gan rai a alwent eu hunain ar ei enw.

Ynglŷn â hanes y greadigaeth yn mhennod gyntaf Genesis, cawn gan Philo bron draethawd maith ar ddirgelion hynod yn natur pob rhif, o un hyd ddeg, ac y mae y cyfryw gywrain gyfrinion, bid sicr, oll i'w priodoli i Moses fel arch-feddyliwr y byd. Digon fydd yma gyfeirio at yr hyn a ddywedir am y rhif saith:—"Wedi gorphen yr holl fyd yn ol natur berffaith y rhif chwech, sancteiddiodd y Tad y seithfed, gan ei fendigo a'i gyhoeddi yn sanctaidd Canys mae hwn yn ddydd gwyl, nid i un ddinas nac i un wlad, ond i'r holl fyd, un y gellir yn briodol ei alw yn wyl yr holl genedloedd, a dydd genedigaeth y byd. Nis gwn a all neb ddatgan clod y rhif saith yn briodol gan ei fod uwchlaw pob rheswm. Eto er ei fod yn tra rhagori ar bob peth a ddichon dyn ddyweyd am dano, gweddus yw ceisio yn ol ein gallu. Heblaw mai natur y rhif saith yw *un* wedi ei ychwanegu gynifer o weithiau, y mae iddo y briodoledd hynod a ganlyn: Cychwyner o *un*, gan ddyblu y naill ar ol y llall, hyd y *seithfed* (1, 2, 4, 8, 16, 32, 64); gwelir mai 64 yw hwnw: yn awr mae 64 yn ysgwâr o 8, ac yn *cube* o 4. Felly hefyd trwy dreblu pob ffigyrau a gychwynant o un (1, 3, 9, 27, 81, 243, 729) ceir fod y *seithfed*, sef 729.

yn ysgwâr o 27 ac yn *cube* o 9.* Daw yr un peth i'r golwg pe baem yn lliosogi pob ffigyr â 4, neu unrhyw rif arall; bydd y seithfed ysgwâr ac yn *cube*."

"Heblaw hyn mae y triongl ysgwâr, dechreuad pob priodoledd, a'i ochrau yn 3, 4, 5.† Ond os yw y triongl hwn yn gyfryw, ac os yw hanfod y rhif saith—sef tri a phedwar—yn gwneyd rhanau hanfodol o hono, sef yr ongl ysgwâr, gellir ystyried saith fel ffynnonell pob ffurf a phob priodoledd. Ond fe berthyn i'r rhif saith weddeidd-dra cysegredig arall, sydd yn ei osod yn uwch ei radd na'r un arall o fewn y deg. O'r lleill mae rhai yn cynnyrchu heb gael eu cynnyrchu; eraill yn cynnyrchu heb allu i gynnyrchu eu hunain; eraill eto yn cynnyrchu ac yn cael eu cynnyrchu. Mae *un* yn cynnyrchu yr oll, heb gael ei gynnyrchu yn ol; felly daw 8 o ddau bedwar, ond nis gall genedlu yr un arall; mae 4 yn dad 8 trwy ei ddyblu, ond yn blentyn 2 trwy yr un ffordd; eithr am *saith*, ni ellir na'i wneyd o un rhif arall o fewn y deg, na gwneyd yr un o hono yntau. Am hyn gallwn yn rhesymol weled delw Llywodraethwr ac Arglwydd y bydysawd yn y rhif hwn. Canys y mae Duw yn Llywodraethwr ac Arglwydd pob peth, gan ei fod yr un, yn dragywyddol, yn barhaol, yn ansigledig, yn tebygu iddo ei hun yn unig, ac yn gwahaniaethu oddiwrth bob peth arall."

Llawer yn ychwaneg sydd i'w ddywedyd ac a ddywedir gan Philo am y rhif saith. "Ond anrhydeddwyd y rhif hwn yn fawr gan Moses, cyfaill rhinwedd, yr hwn a ysgrifenodd ei brydferthwch ar gysegredicaf bileri y gyfraith, ac ar feddyliau ei holl ddysgyblion, gan orchymyn ar derfyn chwe' diwrnod gadw y seithfed yn sanctaidd, ac ymattal oddiwrth orchwylion er cynnaliaeth bywyd, a chysegru y dydd i'r un amcan o wella eu buchedd a chwilio eu cydwybod."

Er ofni blino y darllenydd, angenrhaid, fe allai, yw na adewid y pethau hyn heibio wrth geisio dangos *yn mha ffurf* y cymhlethid ffrwyth ysgolion Groegaidd Alexandria âg addysg y Synagog yn ysgrythyrau yr Hen Destament.

Mae un effaith o hyn ar feddwl y fath un a Philo i'w dwys ystyried, sef ddarfod i'r cyfuniad hwn yn ei amryfal ddylanwadau beri eangiad yn nheimlad yr Iuddew, nid annhebyg i'r un a sicrhawyd trwy Apostol y Cenedloedd. "Mae gwasanaeth pethau cysegredig," medd Philo, "a ffydd yn yr aberthau yn blanigyn o'r fath ragoraf, eto fe dwf yn agos ato un drwg, sef coelgrefydd, yr hwn y dylid ei ddiwreiddio cyn iddo flaendarddu. Tybia rhai fod aberthu ychain yn dduwioldeb, a chyfranant o'r hyn a ladratânt neu a gânt trwy wadu a thwyllo ac yspeilio, at yr allorau,—rai melldigedig,—gan dybied hyny yn bridwerth, fel na ddyoddefont gosbedigaeth am eu pechodau. Eithr wrth y dynion hyn y dywedwn, 'Chwi wŷr, nid yw brawdle Duw i'w llygru â gwobrau; caiff y rhai sydd o feddwl euog eu gwrthod pe offryment gant o fustych bob dydd, a'r dieuog eu derbyn pe heb offrymu dim. Canys mewn allorau heb dân arnynt, y cyfryw

* Mae y peth sydd yn ymddangos i Philo yma mor gyfriniol yn amlwg ddigon i'r rhai sydd yn gydnabyddus âg elfenau cyntaf Algebra. Rhaid i'r seithfed rhif yn ol y dull hwn fod yn $x^6$; yna $x^6=(x^3)^2=(x^2)^3$.

† 

ag a amgylchir gan gôr o rinweddau, y mae Duw yn ymhyfrydu.'"

Mae Philo mewn un man wedi ysgrifenu ei brofiad gyda'r gwaith yr ymgymerasai âg ef, a chan yr ymddengys yn hynod nodweddiadol, dodir ef yma:—"Nid yw gywilydd genyf ddyweyd y profiad a gefais filoedd o weithiau. Weithiau pan yn ewyllysio, yn ol fy arfer, ddyfod at y gwaith o ysgrifenu am athrawiaethau athroniaeth, er y gwyddwn yn dda pa beth oedd genyf i'w ddodi i lawr, ymadawn heb gyflawni dim, gyda meddwl diffrwyth, digynnyrch. Yr oeddwn yn ddig wrth natur fy meddwl, ond yn llawn rhyfeddod at allu y Bôd Mawr, oddiwrth yr hwn y daw agor neu gau croth yr enaid. Ond weithiau, pan y deuwn at fy ngwaith yn wag, llenwid fi yn ddisymwth gan feddyliau yn dyfod arnaf fel plu yr eira, neu fel hadau oddiuchod, nes, trwy ddylanwad dwyfol, fy nghynhyrfu yn gyffrous, a llwyr anghofio y lle yr oeddwn a'r rhai oedd gyda mi, a mi fy hun, ynghyd a'r peth a ddywedwn neu a ysgrifenwn. Canys deuai megys eglurhad darganfyddiad, mwynhad o oleuni, dirnadaeth dreiddiol, bywiogrwydd eglurdeb at waith, y cyfryw ag a geir o ganfyddiad y llygaid ei hun pan fo oreu."*
Y peth mwyaf i'r rhai a brofant y cyfryw bethau, medd ef, yw, cyrchu at un nod goruchel trwy ddwfn ddifrifwch ac awydd, sef na wahaner hwy oddiwrth Dduw Hollalluog, ond bod yn abl i oddef ei ddyfodiad atynt yn ddigryn, heb ddychryn, ac, yn y fath feddwl, ei ddeffiniad o *fawredd* yw—*Bod yn agos at Dduw, neu at yr hyn y mae Duw yn agos ato.*

HUGH WILLIAMS.

---

# LLYFR JOB.

*Lectures on the Book of Job.* By the Rev. G. G. BRADLEY, D.D., Dean of Westminster. Oxford, at the Clarendon Press.

MAE rhyw swyn rhyfedd i'r meddwl dynol mewn pellder a dirgelwch. Tynwyd sylw dyn yn dra boreu gan y ser a'r planedau, er eu bod filiynau o filldiroedd oddiwrth fangre ei breswylfod. Gadawai i ryfeddodau lawer gysgu yn y graig wrth ei draed, a chai nerth dirfawr aros yn ddiwasanaeth yn yr elfenau o'i gwmpas, am y rheswm, ond odid, fod y pethau hyny yn agos ato. Mae dirgelwch lawer mewn natur ymhob man,—yn y blodau a'r llysiau, yn y môr a'r tir, y dyffryn a'r mynydd, yn yr adar a'r pysgod, yr anifeiliaid amrywiol, ac hefyd yn nghyfansoddiad dyn; ac y mae olrhain y cyfryw ddirgelwch yn

* *De Migra. Abra.*, 7.

rhoddi boddhâd nid bychan i'r llysieuydd, y daearegwr, y naturiaethwr, a'r athronydd. Mae dirgelwch lawer, ac o wahanol nodweddau, i'w gael yn y Bibl, a dyna un rheswm paham y mae y fath newydd-deb tragywyddol yn perthyn iddo, a'r fath ddyddordeb dihysbydd yn cael ei gynnyrchu gan ei du dalenau.

Mae llawer o nodweddau y pell, yr hynod, a'r dirgel, yn perthyn i Job a'i lyfr, ac o herwydd hyny ceir yma faes dymunol gan lu o esbonwyr hen a diweddar. Yn nghanol yr holl ddyeithrwch, ceir ynddo drysorau gwerthfawr yn gorwedd yn agos i'r wyneb, trysorau y gellir yn rhwydd gael gafael arnynt i'n cyfoethogi. Mae y llyfr a nodir uwch ben yr ysgrif hon, sef Darlithiau y Deon Bradley, wedi cyrhaedd yr ail argraffiad, yr hyn sydd yn profi eu bod yn dderbyniol gan lïaws o ddarllenwyr. Dywed yr awdwr fod ei astudiaeth o'r llyfr wedi dechreu mewn canlyniad i ddarllen erthygl nodedig ar y pwnc yn y *Westminster Review* yn y flwyddyn 1853. Awdwr yr erthygl hono oedd yr hanesydd enwog, Mr. J. A. Froude, yr hwn a ddywedai, pan ddeallid y farddoneb hon yn iawn y ceid ei bod yn rhagori ar bob barddoniaeth arall, fel y mae pyramidiau yr Aipht yn ymgodi uwchlaw adeiladau eraill. Yn gyffelyb ceir tystiolaeth gref Thomas Carlyle, yr hwn, yn ei lyfr ar *Heroes*, a ddywed: "I call that, apart from all theories about it, one of the grandest things ever written with pen. There is nothing written, I think, in the Bible or out of it, of equal literary merit." Ceir yn llyfr Dr. Bradley y darlithoedd fel y traddodwyd hwynt i gynnulleidfaoedd yn Mynachlog Westminster. Yn ychwanegol at beth mantais rydd ei ffurf hon, ceir rhai anfanteision, megys ail adroddiad o'r un syniadau, a chryn lawer o ymesgusodion a ymddengys braidd fel rhodres, yr hyn dichon na theimlid wrth ei draethu ar y pryd, ond nad yw yn edrych cystal wedi ei argraffu mewn llyfr. Ar yr un pryd buasai yn golled i lenyddiaeth gysegredig y cyfnod pe na chyhoeddasid y darlithiau hyn, y rhai ydynt gynnyrch myfyrdod manwl meddwl goleuedig a chlir. Mae yr arddull yn dra dymunol: siaredir cryn lawer mewn trofegau a darluniau, nes y cipir y darllenydd ymlaen gan rym y meddwl a swyn yr iaith. Dilynir y Cyfieithiad Diwygiedig braidd yn ddïeithriad drwy y llyfr, ac wrth wneyd hyny rhydd y Deon y ganmoliaeth uchelaf i lafur a llwyddiant anrhydeddus y cyfieithwyr. Ystyria eu bod, tra heb gyrhaedd y perffeithrwydd hwnw nad oedd gan neb hawl i'w ddysgwyl, eto wedi gwneyd gwaith ardderchog, ac wedi dwyn goleuni i lawer brawddeg oedd yn dywyll yn yr hen gyfieithiad, ac wedi dwyn i'r golwg y nerth, y prydferthwch, a'r tynerwch sydd yn perthyn i'r gwreiddiol. Sieryd y Parch. G. A. Smith, M.A., yn uchel iawn, er nad yn hollol mor gryf â Dr. Bradley, am ragoriaeth y Cyfieithiad Diwygiedig o brophwydoliaeth Esaiah. Ai nid yw yr amser wedi d'od i wneyd defnydd helaethach o'r cyfieithiad hwn? Ai ni allai y Cwmni anrhydeddus gyfarfod drachefn i adolygu eu gwaith eu hunain, gan gymeryd mantais ar yr awgrymiadau a'r feirniadaeth a wnaed ar eu cynnyrch? Beth hefyd am gyfieithiad Cymraeg o'r Bibl? A raid i ni hyd y diwedd ddwyn nodau cenedl orchfygedig, a thalu yn ddrud am fychandra ein rhif? A raid i'n gwahaniaethau enwadol a chenfigen sectol gael eu haddef yn fur digon uchel i gadw cyfieithiad cywirach ac eglurach o'r

Ysgrythyrau oddiwrthym? Yn nghanol y cri am ddiwygiadau pwysig eraill ag y mae arnom fel cenedl angen am danynt, nac anghofiwn yr angen presennol hwn.

Bellach, mae yn bryd i ymweled â'r "gŵr o wlad Uz," gan gredu y bydd i'w ymadroddion, eto, fel o'r blaen, godi i fyny y rhai sydd yn syrthio. Dilynwn y rhaniad a gymerir gan y darlithydd.

CYNNWYSIAD Y LLYFR.—Nid oes angen sylwi yn helaeth ar hyn, gan fod y maes hwn yn un mor agored i bob darllenydd, ac nad oes nemawr le i wahaniaeth golygiadau. Cynnwysa y llyfr hwn bum' rhan. 1. Y rhagarweiniad, wedi ei ysgrifenu mewn rhyddiaeth. Mae y rhan flaenaf yn gystal a'r rhan olaf wedi eu gosod ar ffurf rhyddiaeth yn y Cyfieithiad Diwygiedig, tra y mae corff y gwaith wedi ei gyfleu mewn ffurf farddonol. Dygir o'n blaen hanes gŵr perffaith ac uniawn o'r enw Job, yn byw yn ngwlad Uz. Amgylchynir ef gan ei deulu a'i gyfeillion, ac yn ei berson ef cynnrychiolir daioni uchelryw, mewn cysylltiad â llwyddiant mawr. Ond traws-symudir ni i lys y nef, lle y gwelwn y gwrthwynebwr Satan yn dwyn cyhuddiadau brwntion yn erbyn cymeriad Job, ac yn cael cenad gan Dduw i wneyd prawf arno. Ar ddydd neillduol daw adfyd chwerw i gyfarfod â'r patriarch; ymddengys fel pe byddai elfenau natur a llwythau yspeilgar ac anwaraidd yr anialdir wedi cydgynghreirio er niwed iddo. Dinystrir ei anneddau, cymerir ymaith ei anifeiliaid, a lleddir ei blant; ond erys ei ffydd a chadernid ei gymeriad yn ddisigl. "Yn hyn i gyd ni phechodd Job, ac ni roddodd yn ynfyd ddim yn erbyn Duw." Eilwaith arweinir ni i'r Cynghor nefol, ac eilwaith cawn y gwrthwynebwr yn dadgan ei ammheuaeth o ddilysrwydd cymeriad Job. Rhoddir cenad iddo ymosod arno, ond i ofalu cadw ei hoedl. Tarewir Job â chornwyd blin, ac erbyn hyn nid oedd ganddo ddim wedi ei adael ond cragen a chydwybod lân. Gwir fod ei wraig wedi ei gadael iddo, ond yr oedd hyny yn elfen newydd o boenedigaeth i'w ran. Sylwa Cynfaen yn ei Ddarlith ar Job, na osodir y patriarch allan yn euog o amlwreiciaeth, fel dynion yr oes hono: "A'r fath drugaredd oedd hyny iddo—nad oedd ganddo ond un," meddai. Llawer o ddadleu sydd wedi bod o barthed i gymeriad gwraig Job, a natur ei chynghor i'w gŵr. Mae amryw feirniaid diweddar wedi ceisio tyneru ei geiriau, ar sail y ffaith fod y gair *berec* a ddefnyddir ganddi yn golygu "bendith" yn gystal a melldith, ac i'w esbonio yn ol fel y bydd yr amgylchiadau. Ond mae atebiad Job iddi hi yn ddigon o ateb hefyd i syniadau fel hyn. Druan o honi! os ceir rhai yn ei hamddiffyn, ceir eraill yn ei gwawdio. Mae hyd yn nod Delitzsch, yr hwn sydd mor rydd oddiwrth ffraethineb ac ysgafnder a nemawr un, yn methu peidio sylwi fel rheswm paham na chymerwyd gwraig Job oddiarno, na chafodd pan mewn canlyniad i'w adferiad dedwydd ar ol ei ddyoddefiadau, y rhoddwyd iddo bob peth yn ddwbl, dderbyn y swmbwl hwn yn y cnawd yn ddwbl! Er gwaethaf temtasiwn ei wraig, ni phechodd Job â'i wefusau. Daw tri o gyfeillion y patriarch i'w gysuro. Yn eu presennoldeb cyll Job ei hunanfeddiant blaenorol, a melldithia ddydd ei enedigaeth. Y mae yr iaith yma yn aruchel a'r wisg yn farddonol, ond mae y syniadau yn taro yn dra chwithig ar ein clyw, ar ol ei dawelwch hynod blaenorol. Yn angerdd ei deimladau siomedig, ymeifl yn y cymhariaethau cryfaf a mwyaf ar-

wyddlocaol, gan eu hyrddio ar ol eu gilydd mewn iaith sydd wedi cydio yn nghalon dynoliaeth hyd heddyw. Ond er mor eithafol ei siomedigaeth, ac er ei fod yn camfarnu am lywodraeth yr Anfeidrol, ni chyll ei ymlyniad wrth Dduw.

2. Cymerir ail ran y llyfr i fyny gan y ddadl rhwng Job â'i gyfeillion. Eliphaz, mae'n debyg, oedd yr henaf o'r tri chyfaill, ac efe yw y mwyaf galluog a boneddigaidd. Y mae Bildad yn fyrach ei anadl na'r un o'r lleill, ac yn llawer chwerwach ei ysbryd nag Eliphaz. Y mae Sophar yn waeth fyth o ran diffyg boneddigeiddrwydd, ac y mae yn dueddol i ail adrodd ei syniadau. Aiff y ddadl ar gylch dair gwaith, a'r tri chyfaill yn fwy uniongyrchol eu cyhuddiadau y naill ar ol y llall; ond ceir Job yn ennill buddugoliaeth mor dda yn y diwedd nes y mae ffynnon seniadau Sophar wedi myned yn hesb, ac ni ddaw cynnorthwy chwaith oddiwrth yr un o'r lleill.

3. Ymadroddion Elihu, pen. xxxii.—xxxvii. Mae y rhan hon wedi peri llawer o ddyryswch i'r beirniaid. Achosir hyn gan y ffaith fod Elihu yn ymddangos ar y chwareu-fwrdd mor sydyn, a hyny pan oedd y ddadl, yn ol pob tebygolrwydd, wedi cau, a dim ond dysgwyl am ddedfryd yr Anfeidrol, at yr Hwn yr oedd y naill blaid a'r llall wedi apelio. Ni enwir Elihu yn flaenorol i hyn, ac ni sonir am dano eto. Cyfeiria yr Arglwydd at Job i'w gymeradwyo, ac at Eliphas a'i gymdeithion i'w condemnio, ond ni chyfeirir at Elihu mwy na phe buasai heb agor ei enau o gwbl. Heblaw hyn oll, nid ydyw geiriau y dyn ieuanc hwn yn taflu nemawr oleuni ar y dyrysbwnc, nac yn dwyn nemawr o syniadau newyddion i fwrdd y cyfnewid.

Coleddir barnau hynod o amrywiol am werth cyfryngiad Elihu gan wahanol ysgrifenwyr, hen a diweddar. Tra y barnai Awstin ei fod yn "ddyn doeth a gwylaidd," edrychai Gregory arno fel dyn "ffol, rhyfygus." Rhai a edrychant arno fel un medrus i siarad llawer heb ddyweyd dim, ac, ysywaeth, os ydyw felly, mae iddo lawer o ddilynwyr rhy ffyddlawn. Nis gall Dr. Bradley uno gyda y rhai a ddaliant mai ychwanegiad diweddar yw y gyfran hon, a hyny heb fod yn gwasanaethu un pwrpas. Dyfynwn ei eiriau:—

Nis gallaf, yr wyf yn cydnabod, gyfrif am y ffaith fod y traethiad maith hwn yn cael ei adael yn hollol ddisylw yn nedfryd yr Anfeidrol. Paham y mae Job a'i gyfeillion yn derbyn eu cyfran o gymeradwyaeth neu gondemniad, tra na chaiff ef na'r naill na'r llall? Paham y gadewir y siaradwr diweddaf, ar ol araeth anarferol faith, yn hollol ddisylw? I'r gwrthwynebiad hwn nid wyf erioed wedi gweled atebiad boddhaol. Eto, ar yr un pryd, nis gallaf lai na meddwl nad yw ei ymadroddion, fel un yn cynnrychioli teimladau dosbarth ieuengach o amgylch Job, er yn achlysurol yn dywyll a chymysglyd, eto yn meddu hawl wirioneddol ar ein sylw a'n parch. Credaf y gallwn gasglu oddiwrth ei eiriau rai syniadau newyddion, na ddygwyd ymlaen hyd yma yn ystod y ddadl. Pa un bynag a ffurfia y geiriau hyn ran o'r gwaith fel yr oedd yn wreiddiol ai peidio, nis gallaf eu gwrthod fel ychwanegiad diwerth oes arall mwy diweddar. Ac nid hyn yw yr oll. Mae rhywbeth dyddorol ac addysgiadol yn y dull y daw y llefarwr hwn ymlaen. "Ieuanc ydwyf fi," meddai, "chwithau ydych hen iawn;" eto cynneuodd ei ddigofaint yn erbyn Job a'i dri chyfaill, ac yn ei ymdrech i gyfryngu rhyngddynt, ac yn ei gyfeiriad at yr hen fel heb fod yn ddoeth bob amser, gall fod yn ddangosiad o'r cyfnod pan y daeth cenedlaeth ieuengach yn fwy agored i syniadau newyddion, ac yn gymhwysach i weithredu fel moddion trosglwyddiad goleuni ysbrydol a gwybodaeth grefyddol na'r genedlaeth a'i blaenorai.

4. Lleferydd yr Arglwydd allan o'r corwynt (pen. xxxiii.—xli. Rhydd gyfres o ofyniadau i Job am weithrediadau rhyfeddol Anfeidrol mewn natur, er mwyn meithrin ymwybodolrwydd byw · fewn am anmherffeithrwydd y dealltwriaeth dynol mewn cyferbyn iad i'r doethineb a'r hollalluogrwydd Dwyfol. Mae y gyfran hon o'r llyfr fel cyfansoddiad yn aruchel a dyrchafedig iawn.

5. Y Cynghlead (pen. xlii. 7—14). Yma adrodd'dir am gyfiawnhad Job, a'r modd y tywynodd yr haul yn siriol ar ei babell, ar ol y dryghinoedd.

Oes ac Awduriaeth y Llyfr.—Mae rhai beirniaid yn dadleu mai dychymygol hollol ydyw y llyfr, nad yw Job ond cymeriad wedi ei greu gan ddychymyg y bardd. Ceir Duw ei hun trwy y prophwyd Eseciel yn cyfeirio at Job ar yr un tir a Noah a Daniel (Esec. xiv. 14). Ymddengys fod Iago, wrth ysgrifenu ei Epistol, yn credu fod Job yn berson gwirioneddol, oblegid pa rym fuasai cyfeirio at amynedd person ffugiol? Mae George Eliot wedi portreadu rhai cymeriadau gwirioneddol brydferth yn *Middlemarch*, ond pwy feddyliai am annog darllenwyr i feithrin rhinwedd, gan ddal yn ffyddlawn yn ngwyneb temtasiynau cryfion fel y gwnaeth rhai o'r bodau dychymygol hyny? Daliwn i gredu yn nilysrwydd prif gymeriad y llyfr, ac os methwn felly, hònwn ein bod mewn cwmni tra urddasol.

Pwy a ysgrifenodd y llyfr sydd gwestiwn nas gellir rhoddi ateb iddo. Gwir fod llawer o ddyfaliadau wedi ac yn cael eu gwneyd, a phriodolir yr awduriaeth bron i bob un o fri yn yr hen amser. Mae yn gysur, fodd bynag, i rai feddwl, fel y dywed Dr. Davidson yn ei lyfr gwerthfawr, fod rhai pethau yn aros yn dywyllwch hyd yn nod i'r oes hollwybodol hon. Onid yw yn syndod gymaint o gynnyrchion anwylaf gwahanol genedloedd ac oesau sydd, o ran eu tarddiad, yn anhysbys? Pa sawl myrdd o'r teulu dynol ganasant, er yn y cywair lleddf, yn awr gorthrymder, eiriau rhyw Salmydd anhysbys, a glywir fel tôn yn canu drwy nos yr oesau? Cenir rhai o ganiadau Sïon yn nghyfarfodydd crefyddol y Cymry, ond nis gellir dyweyd pwy a'u cyfansoddodd. I nodi un engraifft, nid wyf yn deall y gall neb ddyweyd yn bresennol pwy yw awdwr "Bydd myrdd o ryfeddodau," a genir mor fynych yn gymysgedig â dagrau ar yr achlysur o osod ein hanwyliaid yn y bedd, mewn gwir ddiogel obaith am adgyfodiad gwell.

Er nas gellir meddu gwybodaeth am enw awdwr llyfr Job, ychydig a geir nad ydynt yn barod i gydnabod mai rhyw Israeliad a'i cyfansoddodd. Ymhlith y lliaws profion o hyn, gellir nodi y ffaith fod yr awdwr yn wastad, pan yn ysgrifenu yn ei enw ei hun, yn defnyddio yr enw am Dduw a ddadguddiwyd i Moses yn y berth, hyny yw, fel y dywed Dr. Bradley, "mae yn ysgrifenu am Dduw fel y buasai Hebrëwr o'r Hebreaid yn gwneyd. Yn y rhagarweiniad hefyd rhydd yr enw hwn yn ngenau Job." Ac o herwydd rhyw reswm, llithra yr enw unwaith neu ddwy i ymddyddanion y personau eraill (gwel xii. 9. Nodir xxviii. 28 fel engraifft o hyn gan Dr. Davidson, ond y gair *Adonai* geir yno). Gwneir i'r cymeriadau yn nghorff y gwaith ddefnyddio yr enwau patriarchaidd am Dduw, megys El, Eloah, El-Shaddai.

Ffynai tybiaeth gyffredinol braidd unwaith, i'r llyfr gael ei gyfansoddi yn foreu iawn yn oes y byd, yn uniongyrchol wedi i'r dygwydd-

iadau a gofnodir ynddo gymeryd lle. Tybid hyny yn ddiau am fod arogl henafiaeth ar ei gynnwysiad, ac na cheir cyfeiriad o'i fewn at ddeddf Sinai, nac arferion Iuddewig o fath yn y byd. Y grefydd batriarchaidd yn ei phurdeb cynhenid yw y grefydd a ddilynir, ac y mae oedran Job, a lliaws o ystyriaethau eraill, yn dangos ein bod yn sangu llanerchau mewn byd boreuol cyn bod gwlad Canaan wedi ei meddiannu gan hil Abraham, a chyn bod Groeg a Rhufain wedi rhoddi defnydd i'r un hanesydd. Cydnebydd pawb y pethau hyn, ond dadleuir gan lawer fod y wisg henafol hon wedi ei gosod yn bwrpasol gan yr awdwr yn gyson â'r cyfnod a'r lle yr oedd Job yn byw, ond fod ystyriaethau eraill yn pwyntio at ddyddiad cymharol ddiweddar i'r llyfr fel cyfansoddiad. Yn awr, gan ba ochr y ceir y rheswm cryfaf o'u plaid? Barna Barnes, yr hwn sydd yn dadleu yn gryf dros yr hen olygiad, y buasai yn nesaf peth i anmhosibilrwydd i unrhyw awdwr ymdaflu mor llwyr i ysbryd oes ei arwr fel ag i beidio bradychu ei hun weithiau. Teimlwn fod grym yn yr wrthddadl hon. Ceir y mileneidiog Shakespeare weithiau, er ei graffder anghymharol, wrth ddarlunio oes y Cesariaid, yn gwneyd i rai personau ymddangos fel Prydeinwyr; a cheir Syr Walter Scott rai prydiau yn gwneyd i arwyr yr oes o'r blaen ymwisgo yn rhy gynnar yn arferion ei oes ei hun. Ond cwestiwn arall ydyw, ai nid oes rhywbeth tebyg yn cymeryd lle yn achlysurol yn llyfr Job? Ar gwestiwn adeg ysgrifeniad y llyfr, tra gochelgar a chynnil yw y Deon. Mae ffurf ei lyfr fel darlithiau, ond odid, yn rhwystr iddo drin y mater yn ddyhysbyddol a llwyr, oblegid ceir y pwnc hwn yn cael ei drafod yn llawer mwy manwl gan awduron eraill—rhai ar bob ochr. Ond ar bwnc mor ammheus nis gallwn ei feio am fod yn anmhenderfynol. Ffafria y golygiad diweddar, ond pa mor ddiweddar nis gall ddyweyd. Pan ofynai rhyw foneddiges i Dr. Johnson paham na buasai wedi nodi rhyw wybodaeth angenrheidiol yn ei *Eiriadur*, ateb gonest yr hen ddoethawr oedd, "Anwybodaeth hollol, m'am." Ar bwnc fel sydd dan ein sylw, bydd cyfaddefiad gonest o anwybodaeth yn iechyd. Ymddengys y pethau canlynol, ac ystyriaethau eraill, yn ffurfio dadl gref, rhyngddynt, dros gredu na chyfansoddwyd y llyfr cyn amser Solomon:—1. Nas gallesid cyfleu o flaen meddyliau yr Hebreaid olygfa fel ag a geir yma, mor estronol i arferion a dullwedd Iuddewig, cyn y cysylltiad agos y daethpwyd iddo yn nheyrnasiad Solomon. 2. Y dull o osod y meddwl allan drwy ddammegion neu ddiarebion. Cymharer Job xxviii. a Diar. viii. 3. Gelwir Job y mwyaf o feibion y dwyrain, gyda doethineb pa rai y cymherir doethineb Solomon (1 Bren. iv. 30). Yr oedd llwyth Teman, i'r hwn lwyth y perthynai Eliphas, yn enwog am feddiant o'r cyfryw wybodaeth. "Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd am Edom, Onid oes doethineb mwy yn Teman?" (Jer. xlix. 7). 4. Ymddengys y cyfeiriadau mynych at ddaearyddiaeth, athroniaeth naturiol, &c., yn annaturiol i'w rhoddi mor foreu yn oes y byd â dyddiau Abraham. 5. Y defnyddiad o'r enw Jehofah am Dduw. 6. Cynllun ac adeiladaeth y bryddest a'r iaith. Gweddus cofio nad oes yn y llyfr ei hun unrhyw haeriad am ei amseriad, ac felly gellir yn gyfreithlawn chwilio i'r mater.

AMDDULL A NODWEDD CYFANSODDIAD Y LLYFR.—Mae llyfr Job yn

briodol iawn wedi cael ei restru ymhlith llyfrau barddonol yr Hen Destament, a gosodir ef yn y Bibl Hebraeg ymysg yr Hagiographa. Ond y mae gwahanol rywiau o farddoniaeth ymhlith y beirdd ysbrydoledig hyn. Telynegion bugeilaidd gan mwyaf yw Salmau per ganiedydd Israel; barddoniaeth addysgiadol geir yn y Pregethwr a'r Diarebion; a barddoniaeth arwyddluniol yn rhai o'r prophwydi. Prin y gellir dyweyd fod llyfr Job yn perthyn i un o'r rhywiau uchod. Ceir fe allai farddoniaeth addysgiadol ynddo, ond nid dyna y nodwedd amlycaf. Y mae yn cyfranogi o nodwedd yr arwrgerdd i ryw raddau, yn gymaint a bod gwron enwog yn cael ei osod allan, yn dechreu mewn llwyddiant, yn cyfarfod â siomedigaethau a helbulon, ond yn gweithio ei ffordd drwy gymoedd dyfnion adfyd, a thrwy ddyryslwyni temtasiynau enfawr i dir cadarn, iach, heulog dedwyddwch a thangnefedd. Portreadir hefyd is-gymeriadau, y rhai a gymerasant ran israddol yn y gwaith, a cheir ystlys-ganiadau llawn o swyn a phrydferthwch.

Mae Dr. Bradley yn foddlawn i'w galw yn *ddrama*, eto felly mewn ystyr gyfyngedig, yn gymaint ag na cheir ynddi gyfnewidiad golygfa, dim symudiad, dygwyddiad, na gweithred. "Nid yw y weithred ond yr ing, yr ymdrech, yr ymsiglo yn ol ac ymlaen, yr ammheuon, yr holiadau, a ffydd un enaid unigol, wedi ei osod mewn gwasgfa a chaledi, gwaeth na'r cystudd garwaf, a'r tlodi mwyaf eithafol. Ac os dyma yw eithaf y weithred, fel y gelwir hi, beth yw yr olygfa ddiweddol? Nid yw ond gwaith yr enaid hwnw yn dyfod wyneb yn wyneb â'i Dduw, a chwaliad y cymylau trwchus a guddient oddiwrtho wyneb ei Dad." O herwydd yr hyn a nodir gan Bradley, mae llawer o feirniaid yn anfoddlawn rhestru y gerdd yn nosbarth y ddrama; ond paham na chaiff y ddrama Hebreig flodeuo ar ei thir ei hun yn ei ffordd ei hun, fel y caiff y ddrama Roegaidd yn ei gwlad hithau? Paham y rhaid i awdwr llyfr Job gael ei fesur wrth safon Æschyles, Sophocles, neu Euripides? Nodweddir y cyfansoddiad gan feiddgarwch barddonol, ehediadau dychymygol, a dyfnder teimlad, sydd yn gwisgo y gân â swyn anghymharol. Ceir ynddi fwy o gyfeiriadau cyffredinol na lleol, a daw y dyn i'r golwg yn llawer amlycach na'r Arabiad neu yr Idumead. Mae amgylchiadau cyfnewidiol y patriarch yn ddrych i ni weled ei galon, a'r rheswm fod y fath ddyddordeb yn cael ei deimlo yn hyny yw, fod calonau myrdd yn gartref i deimladau cyffelyb, ac yn faes brwydrau egwyddorion cyfunryw. Chwareuir tànau y teimlad ar gylch gan hapusrwydd, gofid, gobaith, siomiant, dysgwyliad, hiraeth, digter, llawenydd, a mwyniant.

Mae yr oes hon dan rwymau neillduol i'r Esgob Lowth am y cyffröad a barodd i'r ymchwil i natur barddoniaeth y Bibl, er mai ychydig o gynnydd sydd wedi ei wneyd er ei amser ef. Dangosodd fod barddoniaeth Hebreig yn cael ei nodweddu nid gan fesur, nac odl, na chynghanedd, ond yn benaf gan linellau ystlysol, neu gyfochrol, a chan y nodwedd benenwol neu lythyrenol (*acrostic or alphabetical*). Ceir y nodwedd ddiweddaf yn Salm cxix., yr hon sydd yn rhanedig i ddwy ar hugain o ranau yn ol rhifedi llythyrenau y wyddor Hebreig. Mae y rhanau drachefn wedi eu dosbarthu yn wyth o adnodau, pob adnod yn y rhan yn dechreu gyda'r un lythyren. Mae Galarnad Jeremïah, pen. i.—iv., yr un modd; ond nid ydym wedi sylwi fod un rhan o lyfr Job yn

dwyn y nodwedd hwn. Fodd bynag, ceir llawer o'r nodwedd ystlysol neu gyfochrol ynddo. Dyfynir engraifft o'r gwahanol fathau a nodir gan Lowth.

1. *Cyfochraeth cyfystyrol*, hyny yw, pan fynegir yr un gwirionedd mewn dull gwahanol mewn dwy linell agosaf i'w gilydd—megys,

Tywyllwch a chysgod marwolaeth a'i halogo,
Ac arosed cwmwl arno.

Paham na bum farw o'r bru,
Na threngais pan ddaethum allan o'r groth?

2. *Cyfochraeth cyferbyniol*, hyny yw, pan y cyfetyb dwy linell i'w gilydd drwy wrthwynebiad termau neu syniadau.

Wele ymlaen yr äf, ond nid ydyw efe yno,
Yn ol hefyd, ond ni fedraf ei ganfod ef, &c.

3. *Cyfochraeth gyfosodol*, yn yr hon ni cheir y cyfochraeth fel y rhai blaenorol, gair yn ateb i air, na brawddeg i frawddeg, drwy fod yn gyfystyr neu yn wrthwynebol, ond lle ceir rhanau ymadrodd yn ateb i'w gilydd, berf yn ateb berf, enw yn ateb enw, &c.

Pan y'm clywai clust, hi a'm bendithiai,
Pan y'm gwelai llygad, efe a dystiolaethai gyda mi.

Nid yw y rhai hyn ond ychydig engreifftiau allan o lawer. Felly y mae llyfr Job yn cynnwys y syniadau mwyaf dyrchafedig, wedi eu gosod allan yn y wisg fwyaf cywrain.

Prif Bwnc y Llyfr.—Dywedai Luther yn chwareus fod Job wedi dyoddef mwy oddiwrth ei gyfieithiad ef nag oddiwrth ei gornwyd ei hun, a bod yn well ganddo ei le ar y domen na'i le yn llyfr y Diwygiwr. Ond beth a ddywedwn am y dull rhyfedd o esbonio amcan llyfr Job, sydd wedi cael ei gymeryd, oes ar ol oes? Cymerodd amryw o'r Tadau olwg arno fel alegori, ac wedi colli y llinell felly wrth gychwyn, rhyfedd yr eithafion a gyrhaeddent cyn gorphen. Barnai Gregory fod ei saith merch yn sefyll am saith gras yr Ysbryd, ond cyn hir, trwy yw gyfnewid hynod ar rif a phob peth, golygant y deuddeg apostol. Nid llawer gwell oedd esboniad yr Esgob Warburton yn y ganrif ddiweddaf. Barnai efe fod gwraig Job yn golygu y gwragedd dyeithr am ba rai y ddarllenwn yn llyfr Ezra, a bod y tri chyfaill yn sefyll am Tobïah, Sanbalat, a Geshem.

Bellach mae y dull hwn o ddeongli yr Ysgrythyrau wedi myned, byth i ddychwelyd, ni a hyderwn. Ond er fod amryw wersi buddiol yn ymgynnyg i'n meddwl wrth ddarllen y llyfr rhyfedd hwn, nid mor hawdd yw gosod ein bys ar un egwyddor fawr a dyweyd, Dyna amcan uniongyrchol y llyfr. Er mwyn gwneyd cyfiawnder â Dr. Bradley, gosodwn yr hyn a ddywed yn ei eiriau ei hun:—"Nid yw y rhai a ddywedant wrthym mai gwers fawr y llyfr yw dangos y patriarch Job fel esiampl o amynedd, neu y rhai a chwiliant ynddo am amddiffyniad ac eglurhad cyflawn ar drefn Duw o lywodraethu y byd, nac ychwaith y rhai a welant ynddo ddadguddiad o obaith sicr anfarwoldeb, erioed

wedi myfyrio geiriau Job i bwrpas. Un meddwl a ddygir i'r wyneb ynddo ydyw fod y byd yn llawn o ddirgelion, dirgelion rhyfedd, annhreiddiadwy, a gorchfygol, nas gellir eu darllen. Ymddiried ynte, yn ngallu, yn noethineb, ac yn naioni yr Anfeidrol Fôd sydd yn rheoli y cyfan. . . . Dyna, mewn sylwedd, yr ateb ddaeth at Job,—mor annigonol, mor anwyddonol, mor anghyflawn, fel yr ymddengys i rai. Eto er rhyfedded yr ymddengys, profodd yn foddhaol i Job. Yr oedd yn rhywbeth fod Duw wedi ei ateb o gwbl. . . . Dysgir ef hefyd, a dysgir ninnau drwyddo, nad ydyw gofid a chystudd yn profi anfoddlonrwydd yr Anfeidrol, y gall y dyrnodiau trymaf a'mwyaf gorchuddiol dd'od oddiwrth Wneuthurwr a Meistr sydd yn llawn o gariad at yr hwn ar ba un y disgynant, y gall y cymylau tywyllaf groni uwch ben y bywyd dynol, tra y mae heulwen ddigyfnewid, dawel a dymunol, tu draw. Bu raid i'r dyoddefydd edrych ar Dduw fel ei elyn, ond gall dynu yn nês ato, ac ymddiried yn hollol ynddo."

Gymaint yn fwy du yw pynciau pwysicaf bodolaeth yn llyfr Job, er iddo gael ei gyfansoddi, a dyweyd y lleiaf, amryw ganrifoedd cyn yr Ymgnawdoliad, nag y ceir hwy yn llenyddiaeth fwyaf blodeuog y byd paganaidd, lle nad oedd ysbrydoliaeth wedi bod yn symud ar wyneb y dyfroedd. Cyfeiria Dr. Fairbairn at engreifftiau o gynnyrchion dramayddol y Groegiaid, lle yr edrychir ar bob peth fel effaith ffawd neu dynged. Mae gallu mawr o'r byd anweledig yn llethu dynion, ond ni wahaniaetha y gallu hwnw rhwng y drwg a'r da, rhwng rhinwedd a drygioni. Athrawiaeth Budha ydyw fod bodolaeth yn anffawd, a thrueni yn anwahanol gysylltiedig â bywyd. Eithaf cysur Budha ydyw, Goddef am ychydig; nid ydyw dy gyfran ond cyffelyb i eiddo eraill. Cais waredigaeth oddiwrth y fath sefyllfa yn nhawelwch y Nirvana. Ond dywed Job, Gwn fod drwg yn bodoli, ond ni ddylai fodoli. Mae gofid yn ddysgyblaeth i'th dynu di ac eraill o hono.* Mae llyfr Job yn tueddu i ddyrchafu ein syniad am Dduw o ran ei allu, ac o ran ei gymeriad. Mae ei holl weithrediadau mewn trefn, ac wedi eu bwriadu o gariad at ddyn. Gosodir bri ar ddyn hefyd, ïe dyn, yn annibynol ar ei gysylltiadau. Er mai Hebrëwr, mae yn dra sicr, yw yr ysgrifenydd, un o'r tu allan i'r cylch cysegredig hwnw ydyw yr arwr, fu yn ganwyll yn goleuo ac yn llosgi, a dynion tu draw i wlad yr addewid, a thu hwnt i derfynau y genedl etholedig, yn ewyllysgar i aros yn ei oleuni ef. Yr oedd Job ar y domen, pan oedd ei feddiannau daearol wedi myned yn wawd elfenau ac ymgiprys yspeilwyr, yn werth sylw yn llys gogoneddus y nefoedd. Mae Duw yn adnabod dynolryw nid wrth oesau, neu wledydd, neu yn dyrfaoedd, ond fel unigolion, ac yn ol eu cymeriad. "Dos dithau hyd y diwedd, canys gorphwysi, a sefi yn dy ran yn niwedd y dyddiau."

H. CERNYW WILLIAMS.

*Corwen.*

* *The City of God*, tu dal. 186.

## DYFFRYN CLWYD.

O! 'r ymchwyddol donau hiraeth,
  Yn fy mynwes brudd a gwyd,
Wrth adgofio myrdd teleidion,
  Anwyl, anwyl Ddyffryn Clwyd;
Alltud wyf mewn bro estronol,
  Heb ei dawel, dawel hedd,
Heb gusanau ei awelon,
Na pher sawyr ei bwysïon,
  Fu i'm henaid gynt yn wledd.

O! na chawn yn awr ollyngdod
  Gan y byd o'i dd'ryslyd rwyd,
Fel y gallwn roi fy nghalon
  Yn fy nghân i Ddyffryn Clwyd:
Brysia, brysia, hafddydd melyn,
  Mynaf eto roddi 'm troed,
Ar ei lwybrau cysegredig,
Yn swyn byw nefolaidd fiwsig,
  Engyl bach ar gangau 'r coed.

Yma y mae Natur geindeg
  Yn ei holl ogoniant gwiw;
Dyma drothwy aur y gwynfyd,
  Dyma fan yn ymyl Duw;
O! hudolus fwyn dawelwch,
  Fel addoliad engyl cûn;
Ffarwel byth i flin ofidiau,
Croesaw, croesaw, hoff fwynderau,
  Melus hanfod nef ei hun.

Dringaf lethrau serth y *Famau*,
  Gwnaf ei choryn balch yn sedd,
Ac oddiyma ar y Dyffryn
  Syllaf mewn gwynfydol hedd;
Yma 'n deyrnfardd ar fy ngorsedd,
  Urddir fi gan Anian fawr;
Dyma orsedd fil esmwythach,
Uwch ei bri a nefoleiddiach
  Na gorseddau teyrnoedd llawr.

Yma megys rhwng dwy nefoedd,
  Nefoedd dyn a nefoedd Duw,
Nis gallasai 'r uchaf angel
  Beidio hoffi 'r fan i fyw;

Credwn na cha'dd melldith Eden
  Roddi yma 'i throed i lawr;
Gwelir y boreuol burdeb
Yma 'n gwenu yn ein gwyneb,
  Ac yn ddwyfol wŷn ei wawr.

Anwyl, anwyl, angel-ddyffryn!
  Beth, ai gwên y nef wyt ti,
Wedi prydferth ymgoffori
  Mewn teleidion mwya 'u bri?
Mae dy fynwes fawr, ymledol,
  Fel caruol fynwes tad;
A gogoniant mewn gogoniant,
Yn rhoi newydd dant i'th foliant,
  Yn nhelynau glynau 'n gwlad.

O! 'r eangfaith felyn-wenawg
  Feusydd, sy 'n ymledu draw,
Yn eu hamwê eur-sidanog,
  Ddaeth o ryw gyfoethog law;
O dan awel haf ymdonant,
  Suant alaw hedd o hyd,
A thrugaredd hael sy 'n gwenu,
Ymhob gwelltyn bach wrth blygu
  I gusanu angen byd.

Sawyr y perllanau ffrwythlawn
  Gluda 'r awel ar ei hynt,
Nes ein gyru i freuddwydio
  Am y Wynfa hono gynt;
Cana 'r gwenyn eu mêl-emyn,
  Ar aurdelyn rhwng y dail,
Gan ddylanw cwpan bywyd,
A melusder nefol wynfyd—
  O! ysbrydol swyn dïail!

Wele 'r derw llydan-frigog,
  Sydd yn tlysu bronau 'r ddôl,
Ac yn taflu eu cysgodion
  Breiniol dros ganrifau 'n ol;
Ac o fronau 'r glân anneddau
  Dyrcha 'r mwg-golofnau fry;
Dringol fynegfysau ydynt,
Ac yn argraffedig arnynt
  Y dedwyddwch yma sy!

Wele eto 'n ymddyrchafu,
  Hen gastellau Rhyddid prid;
Duwies deg Gwladgarwch wena
  Arnynt yn ei dwyfol wrid;

O na b'ai tafodau iddynt,—
  Traethant i ni chwedlau lu
Am fradwriaeth ein gelynion,
Ac am lwyddiant eirf ein dewrion,
  Dewrion feibion "Cymru Fu."

Oesol fryniau sy'n tynghedu
  Yr ystormydd ar eu rhawd
I arafu, fel na feiddiont
  Wneyd y tlysni hwn yn wawd;
Taflant eu cysgodion drosto,
  Fel i'w noddi rhag un cam,
Yntau chwardd mewn rhôs a blodau,
Megys angel diofidiau—
  Llifa nef o'i wên ddinam.

Yma y mae pob aderyn
  Am y goreu 'n eilio cerdd,
A phob deilen fach sy 'n siarad
  Wrth ei chymhar-ddeilen werdd;
Byddai 'n werth i'r byd ddystewi
  Er cael gwrando Anian gûn,
Gydag aml lais melusaf,
Yn ei diniweidrwydd puraf,
  Yn cyngherddu iddi ei hun!

Tyr'd yma, dref-gyfaill, cei 'th galon yn rhydd,
  Tyr'd, gyda 'r lân wawr a'r ehedydd,
Gael i ti wel'd anian a rhôs ar ei grudd,
  Yn ymolchi yn ngwlith y boreuddydd;
  A cheinciau melodus yr adar
  Yn tynu y nef at y ddaear,
A'r ddaear yn esgyn i wynder o wawl,
At orsedd y Duwdod ar edyn ei mawl.

Fy mrawd, sy 'n nghadwynau afiechyd yn dŷn,
  Yn cwynfan yn brudd am ollyngdod;
Yn gwywo i'r bedd o dan awel y glyn,
  A mwynder y byd yn ymddarfod;
  Ond ha, yn dy ffydd, ymwregysa,
  Yn llaw angel gobaith tyr'd yma,
I yfed awelon y mynydd a'r ddôl;
Daw 'r gwyngoch rosynau i'th ruddiau yn ol.

Ymdeithydd chwilfrydig, wrth rodio y byd,
  Canfyddaist lanerchau llawn swynion;
Ond welaist ti rywle wnai 'th dafod yn fud
  Gan ymchwydd edmygedd dy galon?
  Os naddo, attolwg, tyr'd yma,
  Ar werddlen ddarledol cei Wynfa,

A'i gwychder yn denu heirdd engyl y ne'
Fel i gymdeithasu âg *ysbryd* y lle.

Arlunydd cywreindeg, a welaist erioed
  Olygfa yn trechu dy bwyntel,
A'th enaid yn plygu o'i blaen yn ddioed,
  Mewn teilwng addoliad goruchel?
  Os naddo, ymwêl â'n glân Ddyffryn,
  A wisgwyd gan ddwylaw y gwanwyn:
Mae 'r bryniau dyrchafol ar nes oleu dâr
Yn traethu am dano yn nghymanfa y sêr!

Ond tremiaf acw, draw,
  Ar Forfa Rhuddlan,
Lle gwelwyd ingol fraw,
  Ac erch gyflafan;
Pan oedd Hedd-dduwies wen,
Yn wylo uwch ei ben,
A gwaed fel porphor len,
  Ar Forfa Rhuddlan.

Pryd hyn 'r oedd gwŷr ein gwlad
Yn rhuthro allan,
I gwrdd ellyllon brad,
  Ar Forfa Rhuddlan;
Gan roi eu gwladgar fron,
Fel craig yn erbyn ton:
Awr gyfyng ydoedd hon
  Ar Forfa Rhuddlan.

Ond wele hedd yn awr
  Ar Forfa Rhuddlan!
Ni chlywir dolef fawr,
  Na swn cyflafan:
Yr unig gofnod sydd
O erchyllderau 'r dydd,
Yw yr hen gastell prudd
  Ar Forfa Rhuddlan.

Ac wrtho, Amser certh,
  Bydd dyner weithian;
I'n gwlad, yn nydd ei nerth,
  Bu 'n rymus darian;
Mae 'n syllu arno, fry,
Ysbrydion dewrion lu,
Mewn adgof am a fu
  Ar Forfa Rhuddlan!

Ond eto prif addurn ein Dyffryn ni
Yw 'r Glwyd ferth, ymlifol, arianol li';

Ymdreigla ei haraf wyleiddiaf dòn,
A delw hudoliaeth sydd ar ei bron;
Mewn serchog gusanau cyfranai 'i rhin
I'r briall ieuangoed oreura 'i min;
Yn mhalas ei thònau y gleisiaid glân
Chwareuant â'r gemfyw frithylliaid mân;
Ei gwyneb sy 'n ddrych i Aurora wen,
Gwawlwenau yr hon sy 'n goleuo 'r nen;
Ac wrth syllu arni o'r nef heb ball,
Delweddwyd y naill yn nghain wenau y llall.
Uwch ben ei haur-wely graianog, glân,
Y deiliog orielau sy 'n llawn o gân;
A gwena fel duwies hawddgaraf lun,
Fel pe yn mwynhau ei pharadwys gun.
Yn cludo ei chedau er's oesau lu
Mae 'r Elwy seirianwawr, a'r Aled gu;
Fel dwy lân forwynig garedig änt
I'w teithiau bendithfawr, a chanu wnant.
Ymbrancia y däoedd wrth swn eu tòn,
A nefol lawenydd yn chwyddo 'u bron;
Ar fythleision gangau pob cethlydd cân
Arllwysant ber foliant eu dyfroedd glân;
Eu byw bresennoldeb fyth geidw wên
I chwareu ar wyneb tlws Natur hen.

Ond aeth yr Aled wenawg
  Yn uwch mewn clod a bri,
Hon ydyw mam athrylith
  Ddysgleiria 'n cenedl ni;
Swyn ei cheulanau rhosliw
  Fu 'n denu dysg a dawn,
I fynwes ei thawelwch
  Am faith ganrifau llawn.

Bu 'r awenyddfawr Tudur*
  Yn odli cân i'w chlyw,
Er marw 'r bardd, mae 'r afon
  Yn cadw 'i enw 'n fyw.
Pan oedd ein gwlad yn gorwedd
  Dan leni 'r fagddu fawr,
Ac ofergoeledd ynfyd
  Yn llwyr feddiannu 'r llawr;
Ond wele haul yn codi
  Ar fin yr Aled ferth,
Nid oes ond Duw ei hunan
  Yn llwyr a ŵyr ei werth.

O flaen ei fflam-dywyniad
  Diangai 'r gwyll o'n gwlad
A diluw o oleuni
  Ddysgleiria 'i gwyneb mad.

* Tudur Aled.

Yr enwog William Salsbri
Oedd y goleuad gwiw,
Cyfieithydd cyntaf ini
Oludog eiriau Duw;
A hen adnodau 'r Bibl,
Fel ser y nosawl nen,
Yn arllwys ter oleuni
Wnaeth Gwalia 'n "Walia Wen."

Ac Henry fawr* seraphol,
Hedd-genad ucha 'i fri,
A ysbrydolwyd filwaith
Yn ei chyfrinach hi;
Trwy ddysglaer ddrych yr afon
Canfyddodd afon Duw,
O! fel y traethai ini
Am rin y dyfroedd byw.

O! pwy na theimla 'n wylaidd
Wrth sangu ei min yn awr,
Pan gofir ei gysegru
Gan droed Hiraethog fawr?
Yn swn ei mân sibrydion
Deffrôdd ei awen gref,
A'i cododd megys angel
I uchaf farddol nef.

Fy ngwlad, fy ngwlad ddiddiolch
I'th gymwynaswyr hyn,
Pa le mae 'th gofgolofnau
Mewn meini mynor gwyn?
Mae 'r Aled fach wrth ymdaith,
Gan serch-gusanu 'r lle,
Mewn murmur prudd, hiraethus,
A mi 'n cydofyn, "P'le?"

A thlysau yn nghoron ein Dyffryn goludog,
Yw 'r temlau mawreddog ar enw ein Duw;
Yn uchel cyhoeddant, mewn ffrydlif o foliant,
Fod crefydd a rhinwedd yn bur yma 'n byw;
Gwel acw 'n ymsaethu i'r wybren risialog,
Ein ceindwr† godidog a llathrog ei fri;
Saif byth yn arwyddnod o haeledd ein bonedd,
Yn wrthddrych edmygedd am oesoedd diri'.

Er cadw ein balchder tu fewn i derfynau
Cawn wersi beddrodau yr hen Eglwys Wen;

* Y Parch. Henry Rees.
† Pinacl uchel Eglwys Bodelwyddan, un o'r adeiladu harddaf yn Nghymru, rhoddedig gan Arglwyddes Willoughby de Broke. Costiodd yr adeilad yn unig £60,000.

Y llanerch gysegrwyd â dagrau yr oesau,
  Anwylwn ei henw tra haul yn y nen;
Ah! yma yr huna Brythoniaid gwladgarol,
  Boneddion urddasol, dysgawdwyr o glod,
Ond awel y Dyffryn fydd yma 'n wastadol,
  Yn suo 'u hûn olaf am oesau i dd'od.

Yn nghysegredigrwydd y llanerch hoff yma
  Yr huna yr enwog Awenydd o'r Nant;
Ei ffrewyll fawreddog yn awr a orphwysa,
  Y byd ga'dd ei phrofi am ddrygedd ei chwant;
Y gwanwyn dymunol ddaw fel hen gydnabod,
  I daenu gwyrddlesni o'i amgylch yn llon,
A choron o flodau a rydd yn arwydd-nod
  O fywyd yn gwylio marwoldeb fan hon.

Ond er mor ddwyfol yw fy oriau hyn
Yn nghysegr sancteiddiolaf Natur lân,
Fel llygad aur serenig fach yr hwyr,
Sy 'n gwylaidd wneyd ei hymddangosiad tlws,
I'm hadgoffhau i 'mado cyn y nos.
Ffarwel, ffarwel, fawledig Ddyffryn hoff!
Dy erddi gwridog a'th roslwyni teg,
Dy Glwyd angel-drem, a'th enfysliw ddôl,
Dy leddf awelon, anadl blodau byw,
A'th gyfareddol swyn didranc, ffarwel!

HENRY ISGAER LEWIS.

*Porthdinorwig.*

---

## DAMMEG Y CWYMP.

III.

Y MAE y llwybr yr ydym wedi ei gymeryd yn yr ysgrifau hyn, wedi ein harwain i gyfeirio fwy nag unwaith at y syniad o addasrwydd, neu ei wrthwyneb, yn ei gysylltiad â'r prawf ar ufudd-dod dyn; ac yn wyneb fod y syniad hwnw yn dwyn perthynas agos â'n hymresymiad, gosodir angenrheidrwydd arnom i amcanu ateb y cwestiwn :—Ymha beth y mae yn gynnwysedig addasrwydd prawf o fath yr un a roddwyd ar ufudd-dod y dyn cyntaf? Tuag at ateb y cwestiwn, mae yn amlwg mai at ein rheswm yn unig y gellir apelio. At eu rheswm yr apelir gan y rhai a lynant wrth y golygiad llythyrenol ar hanes y Cwymp, pan y maent yn barnu ac yn dadleu nad ydoedd anaddasrwydd yn y gwahardd-iad i fwyta o ffrwyth un o brenau yr ardd fel prawf ar ufudd-dod dyn

i'w Grëwr. O'r ochr arall, eu hargyhoeddiad o anaddasrwydd prawf o fath hwn sydd wrth wraidd yr ymchwiliad am ystyr arall i'r hanes gan y rhai a wrthodant y golygiad llythyrenol, ac at reswm yr apeliant hwythau. Gesyd y naill, mae yn debyg, fwy o bwys ar ystyriaethau a gyfodant oddiar y syniad o awdurdod benarglwyddiaethol y Creawdwr nag a wneir gan y lleill; ond rheswm sydd o angenrheidrwydd gan y naill a'r llall yn penderfynu i'w meddyliau addasrwydd neu anaddasrwydd y prawf. O herwydd yr amrywiaeth a nodwyd yn yr hyn a ddywed rheswm mewn gwahanol ddynion,—rhydd hi ei dedfryd yn ol natur a graddau y goleuni a fwynheir gan y deall,—anmhosibl ydyw i ni wybod a fydd yr hyn a fernir genym ni yn rhesymol yn cymeradwyo ei hun i reswm a barn ein darllenwyr; eithr gan fod y cwestiwn o addasrwydd prawf wrth wraidd ein hymresymiad, y mae yn ofynol i ni egluro pa elfenau a olygwn ydynt yn angenrheidiol i'r cyfryw addasrwydd. Cynnwysir ein hateb yn y tri pheth canlynol:—

1. Symledd ac esmwythder, neu hawsder. Yr ydym yn cysylltu y ddau beth hyn, er eu bod yn wahaniaethol, gan mai ar y ddadl fod y gwaharddiad i fwyta o ffrwyth y pren yn syml ac yn esmwyth, y dybynir yn benaf gan y rhai a lynant wrth y golygiad llythyrenol, er eu harwain i ymdawelu yn addasrwydd y prawf a gynnwysid yn y cyfryw. "Yr oedd ammodau y cyfammod yn dra hawdd ac esmwyth i'w cyflawni." (Charles, *Geiriadur.)* Mae yn debyg mai yr esbonwyr llythyrenol a dueddant i roddi mwyaf o bwys i'r ystyriaethau hyn; ond nis gall yr esbonwyr allegawl fforddio bod yn ddiystyr o honynt, gan yr ymddengys yn rhesymol synio am y sefyllfa y gosodwyd dyn ynddi ar y dechreu fod ammodau ei ddedwyddwch yn gwbl eglur, ac anmhosibl i'w camddeall; ac hefyd y byddai daioni y Creawdwr yn gwneyd y cyfryw ammodau yn hawdd ac esmwyth.

2. Fod natur y prawf yn cyfateb i urddas y dyn y gosodwyd y prawf arno. Rhydd Mr. Charles yn y *Geiriadur* y desgrifiad canlynol o urddas y dyn cyntaf yn ei gyflwr creadigol—gwirionedd yr hwn ddesgrifiad sydd mor amlwg ag ydyw yr iaith ymha un y gwisgir ef o rymus a choeth: "Yr oedd ei wybodaeth yn eang, tu hwnt i raddau pell iawn i wybodaeth ei holl hiliogaeth wedi hyny. Yr oedd, trwy fywiogrwydd ei feddwl, yn treiddio yn drwyadl i naturiaeth a chynneddfau y creaduriaid, fel y gallodd, ar unwaith, roddi enwau addas i'w naturiaethau iddynt oll. Yr oedd ei wybodaeth am Dduw, ei berffeithrwydd a'i ogoniant dwyfol, yn gyflawn, yn ol ei radd fel creadur—er nas gall dim meidrol gynnwys anfeidroldeb. Yr oedd ei feddwl pur heb len, yn ddigwmwl, yn edrych ar y gogoniant dwyfol yn y pethau a welir; ac yr oedd agwedd ei holl ysbryd yn hollol addas i'w adnabyddiaeth o'r Bod Dwyfol. Fel yr oedd ei wybodaeth am Dduw yn eang, yr oedd ei ewyllys a'i serchiadau yn gweithredu yn fywiog, mewn gwresogrwydd rheolaidd, ac ymostyngiad sanctaidd iddo. Nid oedd dim palldod, na dim yn ormod ynddo mewn un gradd."* Syniad cyffelyb

* For what reach of observation could be wanting to him, to whom the knowledge of all animal life was intuitive, and what power of intellect could be deficient in him, in whom the gift of language was an original endowment? The words of the poet do but go along with our natural feeling—

"Adam, the goodliest of his sons since born."

i'r hyn a gyflwynir yn y dyfyniad uchod, ag y gorfodid hwy i ffurfio am urddas dyn yn ei gyflwr creadigol, yn cael ei gyplysu âg ystyriaeth o'r hyn a fuasai y Crëwr yn ei ddoethineb yn ei osod yn brawf ar ufudd-dod un yn meddu y fath urddas, sydd wedi arwain cynifer o feirniaid galluog i chwilio am ystyr heblaw yr un llythyrenol i hanes ysgrythyrol y cwymp; ac y mae y ddadl oddiwrth reswm a ddygir ymlaen ganddynt er attegu eu barn, yn un a gydnabyddir yn gyffredinol fel â grym mawr ynddi, a byddai, mae yn debyg, yn dwyn argyhoeddiad i feddyliau pawb oni b'ai ei bod yn dyfod i wrthdarawiad, yn meddyliau rhai, â'r dybiaeth nas gellir ei derbyn yn unol âg ymostyngiad dyladwy i awdurdod Gair Duw.

3. Ymddengys i ni y dylai y prawf fod âg addasrwydd ynddo i barhau yn brawf ped arosasai dyn am yspaid mewn ufudd-dod. Yr oedd Duw yn rhagweled mai anufuddhau yn ebrwydd, fe allai, a wnaethai dyn; golygwn, er hyny, ei fod yn rhesymol tybied y byddai y prawf, o ran ei natur, yn gyfryw ag a allasai barhau. Os caniateir rhesymoldeb hyn, yna, cyn y gellir canfod addasrwydd ffrwyth un o'r prenau a dyfai o'r ddaear i fod yn brawf ar ufudd-dod dyn, y mae yn rhaid tybied gwyrth mewn natur a fuasai yn cadw ffrwyth addfed, bwytadwy a dymunol ar y cyfryw bren, ymhob tymmor ac amser, heb addfedu na myned yn or-addfed. Ac awgrymir i ni gwestiynau eraill, megys, A ydoedd y pren hwn, fel prenau eraill natur, i ddwyn ei rywogaeth? A ydoedd pob pren o'r un rhywogaeth i fod yn brawf ar ufudd-dod y neb a'i gwelai? &c., &c. Fe ddichon mai am yspaid byr yn unig yr arosodd dyn mewn ufudd-dod; ond ymddengys i ni yn dra afresymol tybied fod natur y prawf y gosodwyd ef dano, yn cynnwys ynddo awgrym y byddai ei ufudd-dod yn fyr-barhäol.

Pa gymaint bynag o resymoldeb a fernir sydd yn y pethau a enwyd, fe welir y gall pleidwyr y golygiad llythyrenol ar hanes y cwymp hawlio y cyntaf o honynt yn ffafr eu golygiad hwy; tra y mae yr ail a'r trydydd o honynt yn ffafrio yn hytrach y golygiad ffugyrol neu allegawl ar yr hanes; eithr y mae pob un o'r tri pheth yn gyfryw ag y gellir eu hawlio mor llwyr gan y deongliad a gynnygir yn yr ysgrifau hyn, ag a wneir gan y naill neu y llall. Oblegid, 1. Y mae y gorchymyn "Na wna ynddo"—yn y seithfed dydd—"ddim gwaith," mor syml ag ydyw y gorchymyn, "Ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwyta o hono." Y mae hefyd mor hawdd ac esmwyth ag ydyw hwnw, yn gymaint felly fel y dichon ei fod wedi awgrymu i rai o'n darllenwyr ofyn, yn wyneb ein golygiad, Pa anhawsder a allasai fod yn ngorphwysiad y seithfed dydd i ddyn sanctaidd? I hyn digon ydyw ateb, nad ydoedd anhawsder o gwbl ynddo, oddieithr yr hyn ydoedd yn gynnwysedig yn y gwaharddiad i'w ddefnyddio i'w amcanion ei hun, y cyfryw anhawsder ag a awgrymir yn ngeiriau Paul, "Eithr pan ddaeth y gorchymyn yr adfywiodd pechod." 2. Y mae yn cyfateb i urddas dyn. Annuwiaeth yn unig a feiddiodd erioed, neu a faidd byth wadu ei resymoldeb. 3. Yr oedd addasrwydd mewn prawf o fath hwn i barhau, ped arosasai dyn mewn ufudd-dod. Ac y mae ystyr ymha un y mae yn parhau, nid yn gyfryw, ni a addefwn, ag ydoedd i'r dyn cyntaf, ar ymddygiad yr hwn yn ei wyneb, y gorphwysai tynged dynolryw; ond y mae yn parhau yn brawf yn yr ystyr

o'i fod yn arwyddocaol, yn mhawb, o'u hymostyngiad i ewyllys ac awdurdod eu Creawdwr; ac ymhob cychwyniad newydd yn hanes dynolryw, adnewyddir ef fel ammod bendith ar ddyn ac ar waith ei ddwylaw.

Y peth nesaf a ddaw dan ein hystyriaeth ydyw yr hyn a ddywedwyd yn niwedd yr ysgrif gyntaf a fyddai yn ail brif ran ein hymresymiad, sef edrych pa fodd y cydsaif ein golygiad â'r hanes a rydd yr Ysgrythyr am y gosb a ddilynodd anufudd-dod dyn. Yr ydym yn barnu y ceir yma gadarnhad pwysig a tharawiadol i gywirdeb ein damcaniaeth, gan y galluogir ni i weled fod y rhan ag ydoedd dymmorol a gweledig o'r gosb a ddilynodd y trosedd yn ganlyniad naturiol ac anocheladwy i'r trosedd, ac ei fod o'r un fath, o'r un natur a'r trosedd. Nid yw ein cyfeiriad at y farwolaeth ysbrydol a thragywyddol a gynnwysir yn yr ymadrodd, "Gan farw ti a fyddi farw," yr hyn ydoedd canlyniad ymadawiad oddiwrth Dduw ac anufudd-dod i'w orchymyn, o ba natur bynag ydoedd y trosedd trwy ba un yr anufuddhawyd; eithr at y rhan o'r gosb a gynnwysir yn y geiriau, "Melldigedig fydd y ddaear o'th achos di, trwy lafur y bwytei o honi holl ddyddiau dy einioes. . . . Trwy chwys dy wyneb y bwytei fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaear." Yn ol y golygiad y dadleuwn drosto, ammod bendith ar lafurwaith ei ddwylaw a osodwyd i ddyn yn ngosodiad y seithfed dydd i fod yn ddydd iddo orphwys arno a'i sancteiddio, yr hwn ammod a dorwyd ganddo, yr hyn a ganlynwyd yn naturiol ac anocheladwy gan attaliad y cyfryw fendith, ac yn ei lafur y dygai y gosbedigaeth. Deddf gyffredinol ac adnabyddus cosbedigaeth pechod ydyw yr hyn a ddangosir yn y geiriau, "Dy bechod dy hun a'th gosba di, a'th wrthdro a'th gerydda." Deddf ydyw ag y rhoddir arbenigrwydd mawr iddi yn mhrophwydoliaeth Hosea, ac a ddangosir mewn ymadroddion fel y rhai canlynol: "Arddasoch i chwi ddrygioni, medasoch anwiredd;" "Canys gwynt a hauasant, a chorwynt a fedant;" "Ephraim a ymgysylltodd âg eilunod, gad iddo;" "O herwydd amlhau o Ephraim allorau i bechu, allorau fydd ganddo i bechu." Yn unol â'r ddeddf hon, os ydyw ein golygiad am natur ei drosedd yn gywir, y cosbwyd Adda, a'r un modd ei hiliogaeth. Nid cosbedigaeth wedi ei dwyn arno megys o bell, ac heb berthynas agos ac amlwg rhyngddi â'r trosedd ydoedd; eithr cynnwysid y gosb yn y trosedd. Dewisodd lafur, am hyny "trwy lafur y bwytei o'r ddaear." Ni fynai orphwys, am hyny ni chaiff orphwys: "Trwy chwys dy wyneb y bwytei fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaear." Dysgeidiaeth gyntaf yr Ysgrythyr, gan hyny, ydyw yr hyn y mae pob oes, a phrofiad pob dyn yn ei gadarnhau, mai pechod ydyw ei gosbedigaeth ei hun.

Ymadrodd dewisol er desgrifio a symio i fyny ganlyniadau anufudd-dod dyn ydyw, iddo "golli delw Duw." Ymadrodd ydyw sydd yn cymeradwyo ei hun i'r meddwl, fel un yn meddu cymhwysder arbenig i grynhoi ynddo wahanol effeithiau y cwymp. Ac ni ddylai unrhyw ymdriniaeth ar hanes ddechreuol dynolryw fod heb sylw arno, ac ymgais i benderfynu beth a feddylir wrth y ddelw hono ag y rhoddir cymaint o arbenigrwydd iddi yn hanes creadigaeth y dyn cyntaf: "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain." Am y

ddau air a gyfieithir "delw" a "llun," nid ydyw Delitszch yn gallu siarad yn benderfynol am eu hystyr, nac am y gwahaniaeth rhyngddynt. Cynnwysir ei farn yn y dyfyniadau canlynol;—"The idea of I. [*delw*] is more rigid, that of II. [*llun*] more fluctuating, and, so to speak, more spiritual; in the former, the notion of the original image, in the latter, that of the ideal predominates. Hence the Greek and many of the Latin Fathers started from at least a correct feeling, when they referred I. to the physical, and II. to the ethic side of the '*imago divina*,' though there is no linguistic necessity for this distinction. The narrative does not expressly state wherein the Divine likeness consisted." Ni welsom yr un cyfeiriad gan yr awdwr hwn at eiriau Paul (Eph. iv. 23, 24; Col. iii. 10), a ddefnyddir yn aml er esbonio y gair "delw;" a hyn sydd briodol, gan nas gellir seilio ar eiriau a fwriadwyd i ddesgrifio y ddelw yn ol pa un y crewyd y dyn newydd, ddadl mai hon ydoedd y ddelw ar ba un y crewyd y dyn cyntaf. Nid ydyw yr hanes, meddai Delitzsch, yn dangos yn benderfynol ymha beth y cynnwysid y ddelw a'r cyffelybrwydd dwyfol; ymddengys i ni, er hyny, y ceir awgrymiadau o gryn bwysigrwydd yn yr hanes ei hun, ac y mae yn dra rhesymol dysgwyl y ceid y cyfryw; oblegid onis ceir hwynt, gadewir ni heb awgrym yn yr oll o'r Hen Destament, ac oddieithr yn ngeiriau Paul y cyfeiriwyd atynt, yn yr oll o'r Ysgrythyr, am ystyr yr ymadrodd. Y mae fod a wnelo yr hanes â'r cynfyd, ac yn seiliedig ar, os nad yn corffori, traddodiadau yn dyddio o'r cynfyd, yn ffafrio y golygiad fod cyfeiriad yr ymadrodd at nodweddion allanol ac amlwg, yn hytrach nag at nodweddion meddyliol a mewnol, neu dueddiadau moesol. Ac â hyn y cytuna y defnydd a wneir o'r ymadrodd, yn ei unionffurf ddechreuol, mewn cysylltiad â genedigaeth Seth (Gen. v. 3). Eithr os allanol a gweledig ydoedd, ymha bethau yr oedd y ddelw yn gynnwysedig? 1. Arglwyddiaeth ac awdurdod: "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain; ac arglwyddiaethant" &c. (Gen. i. 26). "A dywallto waed dyn, trwy ddyn y tywelltir ei waed yntau, o herwydd ar ddelw Duw y gwnaeth efe ddyn" (Gen. ix. 6). Cynnwysa yr ymadroddion hyn fod yr arglwyddiaeth â pha un y gwisgwyd dyn, nid yn unig yn cyrhaedd dros yr anifeiliaid direswm, ond hefyd, mewn achosion neillduol, dros ei gyd-ddyn ("awdurdod boliticaidd," Delitzsch); ac y mae y cyfeiriad at y ddelw Ddwyfol yn y ddau gysylltiad, yn awgrymu mai yn yr arglwyddiaeth â pha un y gwisgwyd dyn, mewn rhan o leiaf, yr ydoedd y ddelw hono yn gynnwysedig. 2. Ai nis gellir golygu fod yr adnodau Gen. i. 27, v. 1, 2, yn awgrymu fod y drychfeddwl a gyflwynir yn y gair "dyn," yr un modd a'r drychfeddwl a gyflwynir yn y gair "Duw" (Elohim), yn cynnwys unoliaeth ac undeb mwy nag un? 3. Yn ol y ddelw a'r cyffelybrwydd Dwyfol y gosodwyd i ddyn orphwys ar y seithfed dydd. Bendigwyd a sancteiddiwyd y seithfed dydd, oblegid ynddo y gorphwysasai Duw ei hun oddiwrth ei holl waith. "Cofia y dydd Sabboth i'w sancteiddio ef; chwe' diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith. . . . O herwydd mewn chwe' diwrnod y creodd," &c. Ni ddefnyddir yn y cysylltiadau hyn y geiriau "delw" a "llun," ond y mae yr hyn a gynnwysir ynddynt i'w weled mor amlwg yn y geiriau "oblegid" ac "o herwydd" â phe defnyddiasid

hwynt. Cynnwysid y ddelw ddwyfol ar ddyn, gan hyny, mewn rhan, yn y ffaith ddarfod i ddyn gael ei osod ar y ddaear i amlygu yn ei waith a'r gorphwysiad ar y seithfed dydd, drefn y gweithrediad Dwyfol yn nygiad i fod y greadigaeth, o ba un yr ydoedd dyn yn rhan mor bwysig. Oblegid yr ydoedd y gwaith yn gystal â'r gorphwysiad yn ol y ddelw. "When the name 'work' is given to God's six days creation, human work is ennobled to the highest conceivable degree as being the copy of this model" (Delitzsch). Mewn cyffelyb fodd, gan hyny, ag yr ordeiniwyd cadw mewn coffhâd y waredigaeth a wnaeth bobl Israel yn genedl, yr ordeiniwyd hefyd fod gwaith a threfn y greadigaeth i'w gadw mewn coffhâd; nis gosodwyd y gwirionedd yn ei gylch i ddibynu ar ansicrwydd trosglwyddiad trwy draddodiad dynol, nac ychwaith ar gerfiadau mewn llechau ceryg; eithr gosodwyd ef yn argraffedig mewn arfer, defod a gweithred, a fyddai yn ol delw a chyffelybrwydd y gweithrediad dwyfol; fel "pan ofyno dy fab, gan ddywedyd, Beth yw hyn? yna dywed wrtho: O herwydd mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear a'r môr a'r hyn oll sydd ynddynt, ac a orphwysodd y seithfed dydd, ac a'i sancteiddiodd ef." Neu, os newidid ffurf yr ymholiad, a gofyn, "Eiddo pwy y ddelw hon a'r argraff?" ac yr atebid, "Eiddo Duw," yna rhoddid grym adnewyddol bob tro yn y teimlad o'r rhwymedigaeth i roddi "yr eiddo Duw i Dduw." Collwyd y ddelw; ac os cywir y golygiad y dadleuwn drosto, mai halogi y seithfed dydd ydoedd y trosedd dechreuol, trwy ba un yr anufuddhaodd dyn i'w Grëwr, nid cosbedigaeth ydoedd hyn wedi ei dwyn ar ddyn, heb berthynas uniongyrchol ac amlwg rhyngddi â'r trosedd, eithr cynnwysid y gosb yn y trosedd, gan mai y prawf a osodasid arno ydoedd, A gadwai, ai ni chadwai efe, y ddelw ddwyfol y crewyd ef arni? A barhâi, ai nis parhâi efe, i amlygu yn ei fywyd a'i weithred drefn y gweithrediad dwyfol yn y greadigaeth, o ba un yr ydoedd yn rhan, ac yn nghanol yr hon y bwriadwyd iddo gynnrychioli a dangos y Duw a'i gwnaeth?

Yr ydym, hyd yn hyn, wedi cyfyngu ein sylwadau i'r cwestiynau hyny a awgrymir gan y pennodau ymha rai y cynnwysir hanes y cwymp; erys i ni eto, cyn gorphen, i edrych ar ein golygiad yn ngoleu hanesiaeth ddilynol dynolryw. Profion uniongyrchol ac amlwg o gywirdeb ein golygiad am natur y trosedd dechreuol nis gallwn ddysgwyl eu cael, ac yn hyn, nid ydym dan unrhyw anfantais amgen y golygiadau eraill a gynnygir, gan nas gellir cael prawf uniongyrchol y tu allan i'r hanes ei hun o gywirdeb yr un o honynt; ond mae yn debyg y dysgwylir i ni geisio ei attegu â rhyw ffeithiau neu awgrymiadau mewn hanesiaeth ysgrythyrol. Gosodir y Sabboth genym i ddal lle "y pren gwybodaeth da a drwg," yn "arwydd" y cyfammod cyntaf â dynolryw, yn wyneb yr hwn y cyflawnwyd y weithred gyntaf o anufudd-dod, yr hwn a ddygodd farwolaeth ar bob dyn. A ydyw hanesyddiaeth yr Ysgrythyrau yn ein cyfiawnhau mewn gosod y fath arbenigrwydd arno? Fod arbenigrwydd mawr ac amlwg yn cael ei roddi ar y Sabboth yn yr Ysgrythyrau, a addefir yn barod gan ein darllenwyr, ac fe ddichon yr addefai llawer o honynt fod iddo y fath arbenigrwydd yn hanes dynolryw yn gyffredinol fel ag i awgrymu, os nad i ddangos, perthynas o'r fath agosaf,—mor agos ag ydyw y

berthynas rhwng achos ac effaith,—rhwng y Sabboth yn y parch a delid iddo, neu y gwrthwyneb, â dyrchafiad neu ddirywiad cenedloedd, teuluoedd, a phersonau unigol. Rhaid i ni, fodd bynag, adael i'n darllenwyr dynu y casgliad a dybir ganddynt yn rhesymol oddiwrth ystyriaethau cyffredinol o fath y rhai hyn, a chyfyngu ein sylwadau at ffeithiau ac awgrymiadau a ymddangosant yn gosod arbenigrwydd ar y Sabboth, a ofyna dybiaeth o fath yr un y dadleuwn drosti, tuag at gyfrif am dano.

Bydd ein cyfeiriad cyntaf at y diluw. Yn yr hanes a geir yn llyfr Genesis am y diluw, cyfarfyddir bedair gwaith âg ymadroddion fel y rhai a ganlyn: "Ac wedi saith niwrnod;" "Ac efe a arosodd eto saith niwrnod eraill." Yn un o'r manau lle y dygwydda yr ymadrodd, rhydd ymyl y ddalen y darlleniad, "Ac ar y seithfed dydd." Mewn dau le ceir yr ymadrodd mewn cysylltiad â dyfodiad y diluw ar y ddaear, ac yn y ddau le arall mewn cysylltiad âg anfoniad y golomen allan o'r arch er gwybod a dreiasai y dyfroedd. Nis gallwn gyfrif yn ddamweiniol y cyfeiriadau hyn, o ran y ffaith a gofnodir, nac o ran manylrwydd y cofnodiad gan yr hanesydd.* Ai nid ydym, yn hytrach, i weled yma awgrym fod cyfeiriad y diluw fel cosbedigaeth, nid yn unig at ddrygioni cyffredinol dynolryw, ond hefyd at yr halogiad cynnyddol o'r dydd a sancteiddiodd Duw; ac fod Noah a'i deulu ar y dydd hwnw yn addoli Duw, ac yn dysgwyl amlygiadau o'i drugaredd?

Yn hanes y diluw, megys yn hanes y greadigaeth, ceir dau adroddiad gwahanol, y naill yn gwneyd defnydd yn unig o'r enw DUW, a'r llall o'r enw JEHOFAH. Y mae y cyfeiriadau at y seithfed dydd yn dygwydd yn unig yn yr olaf. Y mae yr adroddiad a gydnebydd y berthynas gyfammodol ddechreuol gan hyny, yn ofalus hefyd i roddi ei le priodol i "arwydd" y cyfammod hwnw—y seithfed dydd.

Yr eglurhad, mae yn debyg, a roddid gan rai ar y cyfeiriad at y rhif "saith" yn y manau hyn, fyddai ei fod yn dwyn ei ystyr gyfriniol, megys mewn lliaws o leoedd yn yr Ysgrythyr; ond gellir gofyn, O ba le y daeth y nodwedd gyfrin a berthyn iddo, os nad oddiar y seiliau a awgrymir gan y golygiad y dadleuwn drosto?

Ymhen tua mil o flynyddoedd ar ol y diluw, gwelir had Abraham wedi dyfod yn genedlaeth gref, ac wedi ei haddysgu trwy brofiadau dyeithr i fod yn bobl ag y gallasai Duw adnewyddu ei gyfammod â dynolryw ac â'r ddaear ynddynt. Aneglur a rhanol ydoedd y berthynas gyfammodol cyn hyn, eithr yn awr yr ydoedd i fod yn amlwg a diammheuol. "Erbyn fy enw Jehofah ni bum adnabyddus iddynt;" eithr o hyn allan yr ydoedd i'w adnabod yn "Jehofah, Jehofah,"—ail gyfammod. A phan y llefarodd Duw wrth Moses yn mynydd Sinai y deng air deddf, gosodir "arwydd" y cyfammod yn y lle amlycaf yn eu mysg; a phe b'ai briodol i fesur ei bwysigrwydd cymhariaethol yn ol nifer y geiriau a ddefnyddir i'w fynegu, y mae y mwyaf pwysig o honynt oll. Arno ef hefyd yn unig, o'r holl orchymynion, y gosodir yr

* According to the Cuneiform account of the flood, discovered 1872, in the British Museum by Geo. Smith, Flood and Storm raged for 6 days and 7 nights in a continual tempest. At the dawn of the 7th day, however, the storm abated. On the 7th day after the vessel stranded—he let the dove fly out, which, because it found no resting place, returned.—*Delitzsch.*

arbenigrwydd a gynnwysir mewn cysylltu âg ef y gair "cofia." A chyn gorphen o Dduw lefaru wrth Moses yn y mynydd, dychwelir drachefn at bwysigrwydd y pedwerydd gorchymyn; ato ef yn unig o eiriau y ddeddf y dychwelir; ac olaf hefyd ydyw o'r geiriau a lefarodd Duw yn y mynydd: "Llefara hefyd wrth feibion Israel"—pe dilynasai y cyfieithwyr Cymraeg eu harfer yn llyfrau Moses, hwy a roisent air mwy grymus, "gorchymyn" (Gen. xxvi. 2),—"Gorchymyn hefyd i feibion Israel; diau y cedwch fy Sabbothau" (Edrychwch ar gadw). A dangosir ymhellach y pwysigrwydd a berthyn iddo, trwy nodi yr ystyriaethau amrywiol—pump mewn nifer—ymha rai y mae i'w gyfrif: 1. Y mae yn "arwydd rhyngof fi a chwithau." 2. "Sanctaidd ydyw i chwi." 3. "Gorphwysdra sanctaidd i'r Arglwydd ydyw." 4. Y mae yn "arwydd mewn cyfammod tragywyddol." 5. Y mae yn "arwydd tragywyddol mai mewn chwe' diwrnod," &c., ac mai "ar y seithfed dydd y peidiodd, ac y gorphwysodd efe" (Exod. xxxi. 12—17).

Ni a adawn i'r rhai ydynt hyddysg mewn geiriadaeth Hebreig i benderfynu a oes yn y gair "cofia," heblaw ei gyfeiriad i'r dyfodol—"edrychwch ar," neu "gwyliwch ar"—gyfeiriad hefyd i'r gorphenol; ac a geir awgrym ynddo fod y "gorchymyn hwn o'r dechreuad." Boddlonwn yma yn unig ar ddywedyd fod yr arbenigrwydd a roddir yn llyfrau Moses a'r Hen Destament ar y dydd Sabboth, mynychder a difrifolder y cyfeiriadau ato, manylrwydd y sancteiddiad a ofynir iddo, ynghyd a'r ffaith fod yr ymadrodd, "Halogasant fy Sabbothau" yn cael ei gyfrif yn ddigon grymus i ddesgrifio yr annuwioldeb mwyaf, wedi arwain Calvin i ddefnyddio y gair "dirgelwch" wrth ymdrin am dano. "If there had not been some excellent and peculiar mystery, &c." A gyfrifir yr hyn a ysgrifenwyd genym yn gwasanaethu er egluro y "dirgelwch" a berthyn i "Sabboth gorphwysfa sanctaidd yr Arglwydd ein Duw?" Yr ydym yn maentumio, modd bynag, mai yr hyn a osododd y Sabboth yn y fath arbenigrwydd fel ag i fod yn sacrament goruchwyliaeth y ddeddf, ydoedd mai y Sabboth a fu hefyd yn sacrament y sefyllfa greadigol.

Y mae yn demtasiwn gref i ni aros enyd gyda'r gyfundrefn eang a manol hono, a gynnwysai y seithfed flwyddyn i'r tir, blwyddyn y Jubili, &c., i ba un yr oedd y seithfed dydd yn ganolbwynt, yr hon a ddengys mor amlwg a dim a nodwyd neu a ellid ei nodi genym, yr arbenigrwydd rhyfeddol a osodid ar y Sabboth; ond rhaid i ni ymattal, a chymeryd llam eto dros fil o flynyddoedd, a disgyn ar y geiriau y cyfarfyddir â hwynt yn niwedd ail lyfr y Chronicl (xxxvi. 21), lle y gwelwn y gellir symio i fyny ymddygiad plant Israel ar y Sabboth, er pob gwrthglawdd a godwyd yn y ddeddf i'w amddiffyn, ynghyd a chysylltiad y cyfryw ymddygiad â dadl yr ysgrifau hyn, mewn geiriau ag yr ydym eisoes wedi cyfeirio atynt: "A'r rhai hyn, fel Adda, a dorasant y cyfammod, yno y buont anffyddlawn i'm herbyn" (Hosea vi. 7); ac y dangosir hefyd mai yr halogiad parhäol o'r Sabboth a ddygodd ar y genedl y caethgludiad i Babylon, yr hwn a fu yn llwyr ddinystr arnynt fel teyrnas. Ac fel y byddai hyn yn hollol amlwg, gosodir Duw allan fel yn mesur, gyda manylrwydd dyeithriol, feithder y caethiwed, yn ol nifer y blynyddoedd y collodd y wlad ei Sabbothau, "i gyflawni deng mlynedd a thriugain;" oddiwrth yr hyn y casglwn y cyfrifid fod y

wlad heb fwynhau ei Sabbothau am yr yspaid o 70 × 7—deg a thrigain o flynyddoedd saith o weithiau.

Awgryma hyn fod ystyr ymha un y gellid dywedyd fod y ddelw a'r argraff sydd eiddo Duw, ac sydd gyffelybrwydd trefn y gweithrediad Dwyfol yn y greadigaeth, yn cyrhaedd ymhellach ac yn ddyfnach na'r dynion a breswylient wyneb y ddaear, i'r tir, o gynnyrch pa un y derbynient eu cynnaliaeth.* Wrth y tir hefyd, dydd a nos yr hwn ydyw ei haf a'i auaf, y dywedir, "Chwe' diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith, ond y seithfed dydd, &c." A phan, o herwydd anufudddod dyn i orchymyn ei Grëwr, y dilëir llinellau yr argraff hon, melldigedig fydd y ddaear o'i achos, drain ac ysgall a ddwg hi iddo. Dichon hefyd, pan y caffer gwlad yn hanes y ddaear yr hon y bydd ei phreswylwyr, mewn ymostyngiad i ewyllys eu Crëwr, yn rhoddi iddi ei Sabbothau, yr eglurir y pryd hwnw y dirgelwch sydd yn awr i lawer yn anesboniadwy, pa fodd y gallodd gwlad Canaan, allan o'i chynnyrchion ei hun, gynnal llïosogrwydd y boblogaeth ag y dywed hanesiaeth yr Ysgrythyr iddi ar rai adegau yn ei phreswylio.

Effaith cosbedigaeth y caethiwed tost yn Babylon ar y genedl a fu iddynt fyned i'r eithaf gwrthwynebol. Yn lle halogi y Sabboth yn y modd ag y gwnaethai eu tadau, cauasant o'i amgylch â rheolau manwl a beichus; achleswyd ac anweswyd ef ganddynt i'r fath raddau, fel, megys ag y dygwydd yn fynych gyda phrenau natur pan yr achlesir hwy yn ormodol ac y gwrteithir hwy mewn annoethineb, bwriant allan ganghenau mawrion, deiliog, a bras, ond ychydig a fydd eu ffrwyth. Felly y bu, os caniateir i ni yma ddefnyddio iaith ffugyrol Eden, gyda y pren gwybodaeth da a drwg; pan ddaeth cyflawnder yr amser, ymhen tua hanner mil o flynyddoedd ar ol y caethiwed, ac y daeth pren y bywyd i'w ardd, yr oedd y pren oedd yn nghanol yr ardd wedi tyfu i'r fath faintioli, a'i ddail mor fras, fel ag i guddio pren y bywyd, ac ychydig yn unig, gan ordyfiant y cyntaf, a welsant ogoniant yr olaf, ac a estynasant eu dwylaw i gymeryd ac i fwyta o'r ffrwyth dymunol a da a dyfai arno.

Maes y frwydr i'r Adda diweddaf, megys y ceisiwyd dangos y bu i'r Adda cyntaf, rhyngddo â gallu y tywyllwch, ydoedd y Sabboth. Efe yn awr ydoedd yr ymosodydd, ac Efe a ddewisai y maes trwy amlygu ei ogoniant yn ngweithredoedd rhyfeddol ei drugaredd ar y dydd hwnw, a dangos fod "y Sabboth wedi ei wneuthur er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn y Sabboth," tra yr oedd rhengau y gelyn yn "gwylied." Mynych ar y maes hwn y clywyd trwst eu harfau, pan y deuai ar y cryfarfog a'i saith ysbryd eraill gwaeth nag ef ei hun—un cryfach nag ef, ac y gwelwyd hwy, dan ei ymosodiadau yn gwladeiddio, yn cywilyddio, ac yn ffoi. "Y mae Mab y dyn yn Arglwydd hefyd ar y Sabboth."

Eithr dechreu eâd yn unig ydoedd yr ymosodiadau hyn, i ddysgwyl y frwydr dost "yn nglŷn terfyniad," at yr hon y cyfeirir mewn

* Os, fel y bernir yn gyffredin, y mae "seliau" ac "udganiadau" llyfr y Dadguddiad i'w golygu yn dangos cyfnodau yn hanes dynolryw, yna gellir dywedyd fod yr hyn a alwn uchod yn ddelw Ddwyfol o drefn y gweithrediad mewn creu, yn cyrhaedd hyd at gyfnodau hanesyddol, oblegid nodweddion y "seithfed sêl" ydyw gosteg, dystawrwydd, gorphwysdra, viii. 1, a nodwedd udganiad y seithfed angel ydyw gorpheniad gwaith. "Ond yn nyddiau llef y seithfed angel pan ddechreuo efe udganu y gorphenir dirgelwch Duw." Dat. x. 7, gwel hefyd xi. 15.

ymadroddion o fath y rhai a ganlyn:—"Nid ymddyddanaf â chwi nemawr bellach, canys tywysog y byd hwn sydd yn dyfod;" "Hon yw eich awr chwi a gallu y tywyllwch;" "Yn awr y mae barn y byd hwn, yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn."

> Draw ar gopa bryn Golgotha
> Bu 'r ymladdfa fwya' erioed.

Mesurwyd amser gan arfaethau nef i'r ymladdfa hon gyda manylrwydd mor fawr, fel nas dechreuodd hyd derfyn y chweched dydd hwnw. Fe'n hysbysir o'i enau Ef ei Hun ymha le y bu y cyfarfyddiad rhyngddo â thywysog y byd hwn, yn y geiriau a ddywedwyd ganddo wrth y lleidr, "Heddyw y byddi gyda mi yn Mharadwys." Nid ydym, er chwilio, a gofyn gan eraill chwilio, yn cael un engraifft o ddefnyddiad y gair Paradwys, hyd ar ol y pryd hwn, am y drydedd nef. Yr ydym, gan hyny, hyd yr argyhoeddir ni o'n camsyniad, yn dewis gweled yn y gair hwn gyfeiriad at ymwybyddiaeth yn meddwl ein Harglwydd, fod tywysog y byd hwn yn agosáu i ail ymladd brwydr y Baradwys gyntaf, ac ei fod Yntau ei Hun yn myned i'w gyfarfod ar ran dynolryw. Yn achos y ddau leidr, gan hyny, y mae Efe, yn ol prophwydoliaeth Esaiah, "yn rhanu yr yspail gyda'r cedyrn," ac yn dwyn ei ran o'r yspail gydag Ef i gyfarfod y cedyrn yn maes y frwydr. Ar y seithfed dydd y bu hefyd y frwydr hon. Pa ganlyniadau a fu iddi, caiff yr Apostol Paul eu desgrifio yn y tri ymadrodd rhyfedd a ganlyn:—"gan fadden i chwi yr holl gamweddau;" "gan ddileu ysgrifenlaw yr ordeiniadau yr hon oedd i'n herbyn ni, yr hon oedd yn ngwrthwyneb i ni;" "gan yspeilio y tywysogaethau a'r awdurdodau" (Col. iii. 13—15).

Cynnwysa nodiad Ellicott ar yr ymadrodd anhawdd, "ysgrifenlaw yr ordeiniadau," y geiriau, "clearly not the command given to Adam. (Theoph)." Ymddengys, gan hyny, fod Theophylact yn golygu fod cyfeiriad yr ymadrodd at y cyfammod âg Adda. Os derbynir y golygiad hwn, yna ni a gawn yn y geiriau ystyrfawr hyn gadarnhad o'r fath fwyaf uniongyrchol a tharawiadol i'n dadl am natur y cyfammod âg Adda, a'r "arwydd" ag ydoedd iddo; oblegid amcan uniongyrchol yr Apostol Paul, wrth ddesgrifio canlyniadau marwolaeth ein Hiachawdwr yn y modd y gwna yn yr adran hon, ydoedd tynu y casgliad, "Am hyny na farned neb arnoch chwi am . . . Sabbothau" (Col. ii. 16). Ni ddechreuodd y frwydr rhwng yr Adda diweddaf a'r tywysogaethau a'r awdurdodau, hyd ddechreu y seithfed dydd; ac ni pharhaodd y tu hwnt i'r seithfed dydd; oblegid arferir manylrwydd mawr gan yr oll o'r Efengylwyr, i ddangos, pan ddaeth y gwragedd at y bedd, "ar y cynddydd," a "hi eto yn dywyll," nad oedd Efe yno, "canys cyfododd." Cyfododd i roddi cyfammod newydd i ddynolryw, ac arwydd newydd iddo mewn Sabboth newydd, yr hwn sydd yn brawf newydd ar ddynolryw a dderbyniant hwy yr Ail Ddyn—yr Arglwydd o'r nef, yr Hwn ar y Pasc bythgofiadwy hwnw "a ddinystriodd yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw diafol;" ac a ufuddhant hwy i'r gwahoddiad i gyfranogi o ddedwyddwch a gorphwysfa Sabboth tragywyddol yr Oen.

Nid oes i ni yn awr ond gadael yr hyn a ysgrifenwyd genym i ystyriaeth ein darllenwyr, y rhai sydd i farnu a ydym wedi llwyddo i gyfranu rhyw gymaint o oleuni ar ran bwysig a dyddorol o'r Ysgrythyr, ac ar yr hyn sydd o annhraethol bwysigrwydd yn hanes dynolryw; ac a ydym ar ol eu harwain ar hyd ffordd ddisathr, wedi cyrhaedd man y gall eu meddyliau orphwys ynddo. Rhaid, modd bynag, a fu i ni ddifeichio ein hunain o syniad ag ydoedd, gyda holl nerth gwirionedd, wedi ymgynnyg i'n meddwl.

W. MORRIS LEWIS.

---

# CREFYDD YR HEN AIPHTIAID.

*Lectures on the Origin and Growth of Religion, as Illustrated by the Religion of Ancient Egypt.* By P. LE PAGE RENOUF. (The Hibbert Lectures, 1879.) Williams and Norgate, 1880.

*Outlines of the History of Religion to the Spread of the Universal Religions.* By C. P. TIELE. Translated by J. ESTLIN CARPENTER, M.A. Trübner & Co., 1880.

*History of Ancient Egypt.* By Professor RAWLINSON, M.A. Two Volumes. Longmans & Co., 1881. [Chapter v., Literature. Chapter vi., Religion.]

*The Religions of the Ancient World.* By Professor RAWLINSON, M.A. The Religious Tract Society. [Chapter i., The Religion of the Ancient Egyptians.]

*The Story of the Nations.* By Professor RAWLINSON, M.A. T. Fisher Unwin, 1887.

*The Faiths of the World.* St. Giles' Lectures. Second Series. Blackwood and Son. [Lecture v., Religion of Ancient Egypt. By Rev. JAMES DODDS, D.D.]

*Egypt from the Earliest Times to B.C. 800.* By S. BIRCH, LL.D. S.P.C.K., 1883.

OLRHAIN pethau i'w dechreuad ydyw un o brif orchwylion y dyddiau presennol, a hyny oblegid argyhoeddiad nas gellir deall dim yn drwyadl ar wahan oddiwrth hanes ei gynnydd a'i darddiad. Mewn oesoedd eraill gadewid i athronwyr y gwaith o chwilio i mewn i darddiad pethau. Ac yn ei dechreuad cyntaf ymysg y Groegiaid dyna ydoedd athroniaeth,—cais i gael gafael ar darddiad y byd. O'r frawddeg syml oedd yn swm a sylwedd athroniaeth Thales, "Dwfr yw pob peth," y mae holl athroniaeth yr oesoedd wedi cychwyn. Ond erbyn hyn y mae y gwyddonydd a'r hanesydd, ac yn wir pob ymchwilydd ymhob maes, yn teimlo mai eu gorchwyl mawr ydyw gweithio eu ffordd yn ol hyd at ddechreuad pethau. Credir y deuid o hyd felly i eglurhad ar yr amrywiaeth presennol, ac y gellid, nid yn unig ganfod unoliaeth ynddo, ond ei olrhain hefyd yn y diwedd i undod. Hyny ydyw, y mae pawb bellach, can belled a hyn, wedi myned yn athronwyr,—y

maent yn ymofyn am yr "un ymysg y lliaws." Ac yn hyn oll nid oes ond defnydd cysur digymysg i'r rhai a gydnabyddant awdurdod y dadguddiad yn y Bibl; y mae athroniaeth a gwyddoniaeth â'u gwyneb ar yr un nôd eithaf â dadguddiad. Un gwreiddyn sydd i'r hil ddynol; un gwreiddyn i iaith; ac un gwreiddyn hefyd i grefydd. Yn wir, credir yn awr mai un yn y dechreuad oedd yr holl fydoedd yn y gyfundrefn y perthyna y ddaear iddi; ac mai un hefyd yn y dechreuad oedd yr holl gyfundrefnau yn y greadigaeth. Nis gall meddwl dyn orphwys nes olrhain pob peth crëedig i un; ac ni raid i ni erfyn maddeuant neb am ddywedyd mai ystyr hyn yw, nas gall meddwl dyn orphwys ond yn unig yn nhystiolaeth syml yr Ysgrythyr Lân nad oedd yn bod yn y dechreuad ond Duw.

Fel canlyniad y duedd uchod cymerir dyddordeb dwfn mewn llawer o bethau y tybid unwaith mai goreu po gyntaf y gollyngid hwy i ebargofiant. Cydnabyddir nad oes dim yn hanes dyn yn annheilwng o sylw. Ac felly yn arbenig y teimlir gyda golwg ar ei hanes crefyddol. Y mae yn hwnw lawer o bennodau nas gellir eu darllen heb i deimladau dyfnaf ein natur gael eu cyffroi: ond y mae pob llinell er hyny yn bwysig, a rhaid cadw i lawr yn benderfynol bob cyffro hyd nes y byddom wedi llwyr ddeall eu hystyr. Dichon llawer o honom fod heb gydymdeimlad âg amcanion y rhai y mae eu zel yn fwyaf aiddgar gyda'r wyddor newydd a adwaenir dan yr enw *The Science of Religion*; ond nis gallwn fod yn ddiystyr o'u hymchwiliadau. Ni raid i ni ar yr un pryd eu hofni; yn hytrach dylem eu gwerthfawrogi a'u defnyddio, o leiaf i'r amcan o ddeall gwir hanes gweithrediad y teimlad crefyddol yn natur dyn.

Ni fyddai yn anmhriodol ar y tir cyffredinol hwn i ni wahodd sylw darllenwyr y TRAETHODYDD at Grefydd yr Hen Aiphtiaid. Ond y mae hefyd lliaws o ystyriaethau neillduol yn gwneuthur y mater yn nodedig o ddyddorol. Rhed ein meddwl ar unwaith at y cysylltiad agos rhwng yr Aiphtiaid a'r Israeliaid,—y bobl gyfammodol, y rhai yr ymddiriedwyd iddynt am ymadroddion Duw. Yn yr Aipht, a hyny mewn caethiwed, yr ymffurfiodd meibion Israel yn genedl; ac nid yw ond naturiol casglu fod i'r cysylltiad agos hwn ddylanwad mawr ar y caethion. Heblaw hyn, yr ydym yn yr Aipht yn sefyll megys wrth gryd gwareiddiad, yn man genedigaeth hanesiaeth. Ac fel y dangosir eto, yr ydym mewn meddiant o wybodaeth sicr am yr Aiphtiaid a'u crefydd ddwy neu dair mil o flynyddoedd cyn geni Herodotus yn ngwlad Groeg. Tra y mae hanesiaeth Groeg a Rhufain ychydig ganrifoedd cyn y Cyfnod Cristionogol yn ymgolli mewn chwedloniaeth, yr ydym yn yr Aipht ar dir caled hanesiaeth dair mil o flynyddoedd cyn y cyfnod hwnw. Yr hyn sydd yn fanteisiol gyda golwg ar yr Aipht ydyw fod genym wybodaeth foreu am dani, a hono yn wybodaeth sicr.

Y peth cyntaf sydd i'w ddywedyd am grefydd yr hen Aiphtiaid ydyw ei bod yn cael lle mawr yn eu bywyd. Yn ol tystiolaeth Herodotus, yr hwn a ymwelodd â'r wlad, yr oeddynt yn dra chrefyddol, yn llawer mwy crefyddol nag un genedl arall. Ac felly neillduir ganddo ef un a deugain o bennodau olynol i ddesgrifio eu temlau, eu hoffeiriaid, a'u defodau crefyddol. Ymweithiai eu crefydd trwy eu holl fywyd. Eu hoffeiriaid oeddynt i fesur mawr eu llywodraethwyr;

ac yr oedd gwedd grefyddol ar eu holl wyddorau. Ystyrid y brenin yn dduw, ond yr oedd dylanwad yr offeiriaid yn fawr arno yntau. Coleg o offeiriaid oeddynt ei gyfrin-gynghor; aelodau o'r tri dosbarth i ba rai y rhenid yr offeiriaid oeddynt yn cyfansoddi y llys uchaf i weinyddu cyfiawnder ynddo; ac yr oedd bywyd y brenin, i lawr hyd at ei fanylion, yn cael ei reoleiddio trwy gyfarwyddiadau offeiriadol. Meibion yr offeiriaid oedd gweision y brenin, y rhai a gadwent yn feunyddiol y wyliadwriaeth fanylaf arno; a chan mai yr offeiriaid yn unig a drosglwyddent i lawr hanesiaeth i oesau dilynol, yr oedd cymeriad y brenin braidd yn gwbl yn eu llaw. A theimlid yr un dylanwad ymhob trigfa trwy y wlad, yn gystal ag yn mhalas y brenin. Heb ffyddlondeb i'r offeiriaid nid oedd llwyddiant yn bosibl mewn unrhyw gyfeiriad; ac o wrthryfel yn eu herbyn nid oedd dim i'w ddysgwyl ond dinystr.

Yr hyn sydd yn peri i ni ddywedyd fod genym wybodaeth sicr am grefydd yr hen Aiphtiaid ydyw ei bod yn seiliedig ar dystiolaeth gyfoesol,—tystiolaeth a gerfiwyd neu a ysgrifenwyd filoedd o flynyddoedd yn ol, ond a ddarllenir ac a ddeonglir i ni yn yr oes hon gyda chywirdeb perffaith gan y rhai sydd wedi gwneuthur yr iaith yn efrydiaeth eu bywyd. Nid ydym mwyach yn dibynu ar Herodotus, nac ar y dyfyniadau o Manetho sydd i'w cael yn ngweithiau Josephus ac Eusebius, nac ar dystiolaethau neb o'r Tadau Cristionogol yn y canrifoedd cyntaf; y mae genym, mewn cyflawnder, dystiolaethau sydd mor sicr ag ydyw yr hysbysrwydd am y meirw a geir ar y cofgolofnau yn mynwentydd y wlad hon yn y dyddiau presennol. Yn wir, y mae yn amlwg mai i raddau tra anmherffaith y deallid crefydd yr hen Aiphtiaid gan y Tadau, Clement ac Origen, yn gystal a chan ysgrifenwyr paganaidd gwlad Groeg.

Dichon mai nid annyddorol yn y fan hon fyddai adroddiad o'r prif ffeithiau yn hanes darganfyddiad yr agoriad i iaith arwyddluniol yr Aipht. Er's llawer o ganrifoedd ystyrid yr arwyddluniau Aiphtaidd yn gwbl annealladwy, ac nid oedd, hyd o fewn 60 neu 70 o flynyddoedd yn ol, ond ychydig obaith y ceid byth afael ar eu hystyr. Yr oedd yr iaith wedi cwbl farw.

A welodd rhai o ddarllenwyr y TRAETHODYDD y *Rosetta Stone* yn yr Amgueddfa Brydeinig? Llech ydyw o ryw fath o farmor tywyll, yn dair troedfedd o hŷd wrth ddwy droedfedd a hanner o lêd, yr hon a osodwyd i fyny er anrhydedd i Ptolemy Epiphanes, yn y flwyddyn 193 C.C. Ceir yr arysgrifen arni mewn llythyrenau arwyddluniol, llythyrenau cyffredin, ac hefyd yn yr iaith Roeg. Ac yn y llinell olaf dywedir fod yr arysgrifen i'w gosod ar y gareg "*in the sacred characters, in the vernacular, and in Greek*"—τοῖς τε ἱεροῖς καὶ ἐγχωρίοις καὶ ἑλληνικοῖς γράμμασιν. Nid yw y llech, ysywaeth, yn gyfan. Y mae rhan helaeth o'r llythyrenau arwyddluniol neu gysegredig ar goll; a'r rhan olaf o'r Groeg yr un modd. Ac y mae pymtheg llinell o'r llythyrenau cyffredin wedi colli y llythyren neu y gair dechreuol. Gwelir ar unwaith fod yma, er yr anmherffeithrwydd uchod, dir sicr a diogel i gychwyn arno. Ond buwyd am lawer o flynyddoedd heb wneuthur nemawr o gynnydd gyda'r gwaith. Yn 1822, trwy lafur Ffrancwr o'r enw Champollion, y cafwyd gafael ar yr agoriad. Heblaw y *Rosetta*

*Stone*, yr oedd ganddo ef y pryd hwnw arysgrifen arall, ddwyieithawg, a fu yn gynnorthwy gwerthfawr iddo gyda'i lafur. Yn hono yr oedd enw *Cleopatra*; lle y ceid yr un lythyren, *a*, ddwywaith, a lle y ceid hefyd amryw o'r llythyrenau oedd yn yr enw *Ptolemy* yn yr arysgrifen arall. Cafwyd cymhorth gwerthfawr hefyd oddiwrth y Goptaeg, yr hon sydd hithau, erbyn hyn, yn iaith farw, ond sydd yn hysbys er hyny mewn cyfieithiadau boreu o'r Bibl, ac a ddarllenir hyd y dydd heddyw yn yr Eglwysi Coptaidd. Oblegid er mai nid yr un â'r hen Aiphtaeg oedd y Goptaeg, yr oedd perthynas agos rhyngddynt, ac y mae llawer o'r geiriau yn yr iaith arwyddluniol ar y cofgolofnau yn gwbl ddealladwy i'r ysgolhaig Coptaidd.

Er yr adeg uchod (1822), y mae gwaith mawr wedi cael ei wneyd; a gellir dywedyd yn awr fod hen iaith yr Aiphtiaid yn nyddiau Moses, ac yn llawer boreuach na hyny, wedi ei llwyr adferu. Wedi bod yn farw am ganrifoedd, hi a ddaeth yn fyw drachefn; ac y mae yn gwbl sicr na adewir iddi farw mwy, o leiaf hyd nes y byddo ei chyfoeth wedi ei ddiogelu i'r oesoedd a ddêl.

Dywedir wrthym fod y llenyddiaeth Aiphtaidd sydd eisoes yn adnabyddus yn rhyfeddol o helaeth, ac o henafiaeth sydd braidd yn anhygoel. Nid yw y llawysgrifau henaf o'r Testament Newydd sydd yn awr ar gael—y *Codex Vaticanus* yn Rhufain, a'r *Codex Sinaiticus* yn St. Petersburg—yn dyddio yn foreuach na'r bedwaredd ganrif; nac o ganlyniad yn fwy o oedran na rhyw 1550 o flynyddoedd. Ond yn yr Aipht y mae sychder yr hinsawdd wedi peri fod llawysgrifau ar y papyr-frwyn brau wedi cael eu cadw yn ddiogel er dyddiau Moses.* Rhoddir hanes un o'r cyfryw gan y diweddar Emanuel Deutsch (*Literary Remains: Egypt, Ancient and Modern*, pp. 173—181), a ysgrifenwyd yn nyddiau Rameses II., yn llys yr hwn—yn ol y farn fwyaf cyffredin—yr addysgwyd Moses. Chwedl ydyw a ysgrifenwyd er addysg a difyrwch mab y brenin uchod; ac o ran ei chynnwys y mae yn dra chyffelyb i'r hanes Ysgrythyrol am Joseph a gwraig Putiphar. Ac heblaw y papyr-frwyn, y mae yn y beddau a'r temlau, yn nghanol adfeilion yr hen ddinasoedd gwychion, gyfoeth dihysbydd o arysgrifau yn ein harwain i mewn i holl fywyd cymdeithasol, gwleidyddol, a chrefyddol y bobl, bedair a phum' mil o flynyddoedd yn ol. Cwynir fod dinystr mawr yn cael ei wneutbur yn barhaus ar yr hen drysorau hyn. Y maent wedi eu diogelu trwy yr oesoedd gan y tywod sych a'u gorchuddiai; ond wedi symud hwnw, y mae hyd yn nod dylanwad yr awyr yn niweidiol i ddefnyddiau brau. Ac y mae y temlau a'r beddau, wedi eu dwyn i'r golwg, a gwneuthur ffordd rydd iddynt, yn driglecedd cyfleus i'r Arabiaid, y rhai ydynt yn gwneuthur difrod a galanas dirfawr ynddynt. Ond dywedir mai teithwyr o'r wlad hon a gwledydd eraill Ewrop, ac hefyd o'r America, ydynt y dinystrwyr mwyaf arswydus. Fel engraifft o'r dinystr a wneir ganddynt crybwylla Renouf yr hyn a ganlyn:—"Y mae, neu o leiaf, yr oedd yn Benihassan ddar-

* The Egyptian manuscripts which we now possess—very few, alas! in comparison with the myriads which have perished—have been preserved by being kept from the air and damp in a perfectly dry climate, hermetically sealed in earthen or wooden vessels, or under mummy coverings, sometimes at a depth of ninety feet within the living rock, and still further protected by a thick covering of the pure, dry sands of the desert.—(Renouf, 169, 170.)

lun nodedig, yr hwn a dybid ar un adeg oedd yn gosod allan Joseph yn cyflwyno ei frodyr i Pharaoh. Clywyd boneddiges Seisonig unwaith yn gofyn i'w harweinydd dori allan iddi hi o'r darlun wyneb Joseph!"

Oddiwrth y llenyddiaeth uchod gellir cael gwybodaeth sicr am grefydd yr hen Aiphtiaid; oblegid mewn rhyw ystyr y mae y cwbl o honi yn llenyddiaeth grefyddol. Gellir o leiaf dywedyd fod gwedd grefyddol arni oll. Nid oes ynddi ddim y gellid ei ystyried yn "Gyffes Ffydd" y bobl,—mewn oesoedd llawer diweddarach y meddyliwyd am "Gyffes Ffydd;" ond y mae yr hyn a gredid yn eu plith yn ddigon amlwg oddiwrth eu hemynau a'u gweddïau. Yn wir y mae yn llawer haws desgrifio crefydd yr Aiphtiaid dair mil o flynyddoedd cyn Crist, nag a fyddai desgrifio crefydd Groeg a Rhufain dri chant o flynyddoedd cyn yr adeg hono. Ac nid oes gwahaniaeth hanfodol rhwng crefydd yr Aiphtiaid, yn nghanrifoedd cyntaf y cyfnod Cristionogol, â'r cyfnod boreuaf y cawn hanes am dano. "Yr oedd yn yr Aipht, lawn dair mil o flynyddoedd cyn Crist, lywodraeth unbenaethol gref a chyflawn ei threfniadau; ac nid oedd gwareiddiad materol y cyfnod boreu hwnw, mewn llawer ystyr, yn is na'r hyn ydoedd gwareiddiad materol Ewrop yn y ganrif ddiweddaf. A rhaid oedd fod y gwareiddiad hwnw yn gynnyrch llawer o ganrifoedd o gynnydd; ac nid oes genym un awgrym hanesyddol o gwbl am gyfnod o farbareidd-dra, neu hyd yn nod gyfnod patriarchaidd yn flaenorol i'r cyfnod y dygir tystiolaeth iddo ar y cofgolofnau. Y mae y cofgolofnau boreuaf sydd wedi eu darganfod yn dwyn tystiolaeth i'r un gwareiddiad addfed a'r un grefydd ag y tystiolaethir iddynt gan y cofgolofnau diweddaraf. . . . Addolid y duwiau y cawn eu henwau yn y beddrodau mwyaf henafol i lawr hyd y cyfnod Cristionogol. Ac yr oedd yr un math o offeiriadaethau ag a grybwyllir yn llechau Canopus a Rosetta yn amser Ptolemy, mor henafol â'r pyramidiau, ac yn fwy henafol nag un pyramid ag y mae genym sicrwydd am ei ddyddiad."--(Renouf, 81.)

Dichon mai yn y fan hon y byddai yn fwyaf priodol gwneuthur crybwylliad byr am rai o brif lyfrau yr hen Aipthiaid. Ofer fyddai ceisio cyfleu syniad cywir am helaethrwydd y lenyddiaeth a gynnwysir ynddynt. Meiddiodd Syr George Cornewall Lewis ddywedyd, yn ei *Astronomy of the Ancients*, "nad oedd gan yr Aiphtiaid na llenyddiaeth na hanesiaeth:" ond y mae eisoes lawer o gyfrolau wedi eu cyhoeddi yn Lloegr ac yn Germany, a dywedir wrthym nad yw yr hyn sydd wedi ei gyfieithu ond megys dyferyn o'r cyflawnder sydd yn weddill. Ac y mae amrywiaeth mawr yn materion y cyfrolau hyn.

Besides history, which is largely represented on the monuments, and is occasionally illustrated by the papyri, Egyptologers enumerate works on religion and theology; poems, historical and lyrical; travels; epistolary correspondence; reports, military and statistical; romances, or rather short tales; orations; treatises on morals and rhetoric; mathematical and medical works; books on geography, astronomy, astrology, and magic; collections of proverbs; calendars; books of receipts; accounts; catalogues of libraries, and various others.—(Rawlinson's *Egypt*, i., 135.)

Ond gweddus ydyw cydnabod nad ydyw efrydwyr mwyaf brwdfrydig llenyddiaeth Aiphtaidd yn meddwl am foment ei bod i'w chymharu o ran gwerth â llenyddiaeth Groeg a Rhufain. Nid rhagoriaeth llen-

yddol sydd yn ei gwneuthur yn bwysig, ond yn hytrach y ffaith ei bod yn ein galluogi i ddeall yn llawn a chywir fywyd y bobl mewn adegau mor bell yn ol.

Ymlaenaf oll, o ran pwysigrwydd a henafiaeth, rhaid crybwyll y llyfr a adwaenir yn gyffredin wrth yr enw "Llyfr y Meirw." Buwyd yn tybio mai Ffurfwasanaeth claddedigaeth y marw ydoedd; ond y mae rhanau helaeth o hono yn iaith i'w defnyddio gan y marw ei hun. Dywed Renouf mai ystyr ei deitl Aiphtaidd—*peri em hru*—ydyw "Coming forth by day." Yr ystyr a roddir gan Rawlinson yw, "Y llyfr sydd yn dadguddio goleuni i'r enaid." Y mae braidd bob arysgrif a gafwyd yn y beddau yn cynnwys rhanau o'r llyfr hwn; * ond y mae y testun cyflawn o hono yn beth na cheir mewn un man.† Ac y mae ansicrwydd am ystyr rhanau helaeth o hono o herwydd y cyfeiriadau chwedlonol sydd ynddynt, y rhai nad oes llawer o obaith mwyach cael gafael ar yr agoriad iddynt. Rhenir y llyfr gan Champollion yn dair rhan. Cynnwysa y rhan gyntaf un ar bymtheg o bennodau o ffurfweddïau i'w harfer uwch ben y marw, o foment ei farwolaeth hyd ddechreuad y gorchwyl o berarogli. Cynnwysa yr ail ran gant ac wyth o bennodau; ac yn y rhai hyn ceir yn gyntaf oll fath o grynhoad o'r "Ffydd Aiphtaidd," mewn iaith dra chyfriniol a chwbl annealladwy, er pob ymdrech a wnaed i gael gafael ar yr ystyr. Yn dilyn, ceir nifer mawr o weddïau. Cynnwysa y drydedd ran uwchlaw deugain o bennodau, y gyntaf o ba rai sydd yn desgrifio y Farn. Gwneir cyfeiriad pellach at y bennod hon pan y deuir i osod allan syniadau crefyddol yr hen Aiphtiaid. Yr oedd i'r llyfr hwn le mawr yn eu meddyliau. Honai fod yn ddadguddiad oddiwrth y duw Thoth (*Tehuti*), neu Hermes, yr hwn a hysbysai ynddo i ddynion ewyllys y duwiau, a'r dirgelwch a berthyn i natur pethau dwyfol. Dywedir fod rhanau o hono wedi eu hysgrifenu â bys y duw hwn, tra y dywedir am eraill eu bod wedi eu cyfansoddi gan "dduw mawr." Y fath oedd y parchedigaeth iddo fel y dodid rhanau o hono yn eirch y meirw mewn gwahanol ddulliau o amseroedd hynod foreu (*the eleventh dynasty*).

Hawdd fyddai nodi llyfrau eraill, megys "Dagrau Isis;" "Anadliadau Bywyd;" "Dinystr Dynolryw gan Ra:" y rhai ydynt wedi eu cyfieithu i'r Saesoneg (*Records of the Past*). Ond ofer fyddai myned ymhellach yn y cyfeiriad hwn, gan mai amcan ein herthygl ydyw cyflwyno rhyw syniad am grefydd yr hen Aiphtiaid.

Un peth arall y rhaid dyweyd ychydig eiriau arno ydyw, Amseryddiaeth Aiphtaidd. Yr ydym wedi cyfeirio eisoes yn fynych at henafiaeth mawr y lenyddiaeth sydd yn ein dwylaw, ac at y ffaith fod genym arysgrifau sydd yn dair a phedair a phum' mil o oedran. Ond rhaid cydnabod ar unwaith nas gellir ffurfio cyfundrefn o Amseryddiaeth ag y mae y gobaith lleiaf am dderbyniad unfrydol iddi. Y rheswm am hyn ydyw

* It is not only in papyrus rolls that the Book of the Dead has been preserved. Many of the chapters are inscribed upon coffins, mummies, sepulchral wrappings, statues and the walls of tombs. Tombs of the time of the twenty-sixth dynasty, like those of Bekenrenef or Petamonemapt, may be said to contain entire recensions of the book. The chambers of the latter of these tombs occupy together nearly an acre and a quarter of ground excavated in the rock, and every square inch of their high walls is covered with beautifully sculptured inscriptions from the Book of the Dead and other religious texts.—(Renouf, 173.)

† None of the copies contains the entire collection of chapters.—(Renouf, 174.)

nad oedd gan yr Aiphtiaid eu hunain gyfundrefn o gwbl. Cofnodent ddygwyddiadau yn ol blynyddoedd teyrnasiad eu brenhinoedd. Ac nid oes genym bob amser sicrwydd fod y flwyddyn uchaf a gysylltir âg enw brenin yn flwyddyn olaf ei deyrnasiad; ond fe welir mai y camgymeriad a ddygwyddai trwy hyny fyddai cyfrif llai, ac nid mwy o flynyddoedd nag a ddylid. Y mae y cofgolofnau yn ein galluogi i gael gafael ar olyniad y brenhinoedd; ond y mae camgymeriadau yn bosibl weithiau trwy fod blynyddoedd cyntaf teyrnasiad eu brenin yr un â blynyddoedd diweddaf teyrnasiad ei ragflaenydd. Mewn cysylltiad â'r cwestiwn o Amseryddiaeth y mae lle pwysig wedi ei roddi i restrau Manetho, ymha rai y ceir 30 o deyrnachau (*dynasties*). Yn anffodus nid yw y rhestrau hyn ar gael ond mewn dyfyniadau yn ngweithiau haneswyr eraill, ac nid ydynt ar gael yn gyflawn o gwbl. Ond y maent er hyny o werth mawr; ac mewn llawer o fanau profir eu cywirdeb gan dystiolaeth y cofgolofnau.

Yr hyn y mae ysgrifenwyr yn gwahaniaethu gyda golwg arno ydyw, A oedd rhai o'r teyrnachau hyn yn gyfoesol â'u gilydd? Ond y mae yr ansicrwydd mwyaf ynghylch amseryddiaeth y teyrnachau boreuaf. O'r 18fed hyd y 26ain, y mae yr ansicrwydd yn gyfyngedig o fewn terfynau gweddol gyfyng. Rhana Manetho yr holl frenhiniaethau hyn i dair rhan. Yn gyntaf, y mae ganddo yr Hen Ymherodraeth, yn cynnwys y 14 cyntaf o'r teyrnachau; yna yr Ymherodraeth Ganol, yn cynnwys y 3 dilynol; ac yn olaf, yr Ymherodraeth Newydd, yn cynnwys y 13 diweddaf. Mewn manau eraill, ysywaeth, y mae eu tystiolaeth yn cael ei gwrthddywedyd gan y cofgolofnau. Neu os terfynir yr hanes gyda goruchafiaeth Cambyses, gadewir allan felly y pedair olaf.* Offeiriad Aiphtaidd oedd Manetho, yn byw yn y drydedd ganrif cyn Crist, ac yn ysgrifenu hanes ei wlad a'i bobl er mwyn hysbysrwydd i'r Groegiaid, y rhai oeddynt ar y pryd wedi darostwng yr Aipht dan eu llywodraeth; ac y mae yn gwbl amlwg fod ganddo wrth ei law awdurdodau gwreiddiol a diogel. Ond arweinid ni yn rhy bell pe ceisiem fanylu ar anhawsderau y mater hwn. Digon fydd dyfynu ychydig frawddegau o waith rhagorol y Proffeswr Rawlinson;—

> Gorchfygwyd yr Aipht gan Cambyses, brenin Persia, C.C. 527. Chwe' mis y buasai Psamatik III., yr hwn a ddiorseddwyd ganddo, yn teyrnasu; teyrnasasai ei dad Amasis 44 mlynedd; Apries, rhagflaenydd Amasis (can belled ag y gellir casglu), 25 mlynedd; Psamatik II., tad Apries, 6 mlynedd; Neco, ei daid, 16 mlynedd; a Psamatik I., tad Neco, 54 mlynedd,—cyfanswm o 145 mlynedd. Esgynodd Psamatik i'r orsedd gan hyny C.C. 672. Ei ragflaenydd ef ydoedd Tirhakah, yr hwn a deyrnasodd 26 mlynedd; ac felly a ddechreuodd deyrnasu C.C. 698. Can belled â hyn yr ydym ar dir cwbl sicr.

Pan elom ymhellach yn ol, y mae ansicrwydd yn dyfod i mewn; ond dywed Rawlinson nad ydyw yn bosibl i'r ansicrwydd am adeg dechreu-

* Yn ol Birch cyfrifir yr Ymherodraethau fel y canlyn:—
"Old Empire: From the First to the Close of the Sixth Dynasty. From about 3000 B.C. to 2000 B.C.
"Middle Empire: From the Seventh to the Eighteenth Dynasty. From about 2000 B.C. to 1600 B.C.
"New Empire: From the Eighteenth to the Twentieth Dynasty. From about 1600 B.C. to 1100 B.C."

ad yr Ymherodraeth Newydd fod yn gymaint a dwy ganrif. Y dyddiad yn ol Birch ydyw C.C. 1600, yn ol Brugsch C.C. 1700, ac yn ol Stuart Poole *(Smith's Bible Dictionary)*, C.C. 1525. Addefa Rawlinson fod yr ansicrwydd yn yr Ymherodraeth Ganol yn cynnyddu i bum' canrif; ac yn yr Ymherodraeth Gyntaf i ddwy fil o flynyddoedd. Yn ol Manetho, parhaodd yr Ymherodraeth Gyntaf 2905 o flynyddoedd. Wedi gwneuthur ychydig gywiriadau yn y rhestrau, cyfrifa Mariette ei pharhâd yn 2790 o flynyddoedd; a chyfrifa Brugsch ei pharhâd yn 2400 o flynyddoedd. Nid oedd ei pharhâd yn ol Bunsen ond 1076 o flynyddoedd; a dyddia efe ei chyfodiad C.C. 3059. Ac yn ol Stuart Poole a Wilkinson, nid oedd ei pharhâd ond 637 o flynyddoedd. Y modd y gostynga y ddau awdwr diweddaf y cyfrif mor fawr ydyw trwy gymeryd nifer o'r teyrnachau a enwir gan Manetho yn gyfoesol; ond y mae y profion o wirionedd y fath dybiaeth yn eiddil ac annigonol. Fel y canlyn y dywed Renouf:—

Nis gellir, yn ol unrhyw gyfrifiad, dyddio gwaredigaeth yr Israeliaid o'r Aipht yn nês atom na 1310 c.c.;* ac nis gellir dyddio dechreuad y llywodraeth unbenaethol ag y mae ei hanes genym yn yr Aipht lai na 2050 cyn yr amgylchiad hwnw. Anmhosibl ydyw credu i'r Pyramid Mawr gael ei adeiladu lai na 3000 o flynyddoedd cyn Crist.

Y mae yr ansicrwydd amseryddol y cyfeiriwyd ato yn dra annymunol; ond fe welir nad ydyw mewn un modd yn siglo yr hyn a ddywedwyd eisoes am sicrwydd ein gwybodaeth am yr Aiphtiaid a'u crefydd mewn cyfnodau tra boreuol.† O'r bedwaredd o deyrnachau Manetho, sef o ddyddiau Senopheru, y mae genym arysgrifau cyfoesol *(contemporary inscriptions)*. Hwn oedd y cyntaf o frenhinoedd yr Aipht ag y mae y fath arysgrifen o'i eiddo yn awr ar gael. Cafwyd yn ngenau ogof yn mynydd Sinai lech, ac arni arysgrifen yn gosod allan ei fuddugoliaeth ar bobl yn y parth hwnw a adwaenid wrth yr enw "Bugeiliaid y Dwyrain." Am y brenin hwn y dywed Dr. Dodds:—"Gorchfygodd Arabiaid cymydogaeth Sinai, a gweithiodd ei mwngloddiau 1100 o flynyddoedd cyn geni Abraham, 2200 cyn gwarchaead Caerdroia, a 2600 cyn sylfaenu dinas Rhufain."

Ond y mae yn llawn bryd i ni bellach fyned ymlaen at y gorchwyl o gyflwyno rhyw fath o ddesgrifiad o grefydd yr hen Aiphtiaid. Ac ni raid petruso pa le y dylem ddechreu, gan mai sylfaen crefydd cenedl ydyw ei syniad am Dduw. Yr ydym, pa fodd bynag, ar unwaith mewn

* Ymdrecha ysgrifenydd yn y *Theological Monthly* am fis Mawrth diweddaf, Jacob Schwartz o New York, brofi mai dyddiad yr Exodus oedd oddeutu Ebrill 20, yn y flwyddyn 1438 cyn Crist.

† The chronological riddle is insoluble. The historian of early Egypt must set it aside. But he needs not therefore to set aside that immense mass of material, possessing the highest interest, which the toils of travellers and explorers, and the labours of philologists, have accumulated during the last century. The "Old Empire" of Manetho is a reality. It lives and moves before us in the countless tombs of Ghizeh, Saccarah, and Beni-hassan, on the rocks of Assouan and the Wady Magharah, on the obelisk of Heliopolis, and in numerous ancient papyri; its epochs are well marked; its personages capable in many cases of being exhibited distinctly; its life as clearly portrayed as that of the classical nations. And that life is worth studying. It is the oldest presentation to us of civilised man which the world contains, being certainly anterior, much of it, to the time of Abraham; it is given with a fulness and minuteness that are most rare; and it is intrinsically most curious.—Rawlinson's *Egypt*, ii. 21, 22.

anhawsder. Ar y naill law ceir ymysg yr hen Aiphtiaid amldduwiaeth, ac ar y llaw arall grediniaeth mewn un gwir Dduw. I ni ymddengys yn anhawdd rhoddi cyfrif am hyn. Onid yw y naill yn gwneuthur y llall yn anmhosibl? Pa fodd y gall cred yn modolaeth un gwir Dduw gydsefyll â chrediniaeth mewn llawer o dduwiau? Ac onid yw crediniaeth mewn llawer o dduwiau yn gwneuthur y gred mewn un gwir Dduw yn anmhosibl? Ond ymysg yr hen Aiphtiaid y mae profion diymwad o fodolaeth y naill a'r llall. Dywedwyd eisoes fod eu crefydd yn hanfodol yr un o'r adegau boreuaf hyd adeg ei diflaniad yn ngoleuni Cristionogaeth. Ond cydnabyddir ar yr un pryd mai yn y cyfnodau pellaf yn ol yr ydoedd yn fwyaf pur. Fel y deuir i lawr ac yr agosëir at y Cyfnod Cristionogol, cawn hi yn ymlygru; ond nid ydym am foment i dybio mai nodwedd y grefydd yn adeg ei phurdeb cymharol oedd crediniaeth mewn un gwir Dduw, ac mai ei nodwedd yn adeg ei llygriad oedd crediniaeth mewn llïosogrwydd o dduwiau. Cawn y naill a'r llall gyda'u gilydd yn yr un oes. Drachefn, y mae yn naturiol tybio mai y ffordd allan o'r anhawsder ydyw, mai nid gan yr un bobl, er fod y rhai hyny yn byw yn yr un oes, y coleddid y naill grediniaeth a'r llall. Onid crediniaeth y llïaws anwybodus oedd y grediniaeth mewn llawer o dduwiau? Ac onid yr ychydig, oeddynt wedi cyrhaedd diwylliant a dysgeidiaeth uchel, oeddynt wedi ymddyrchafu at y syniad am un gwir Dduw? Can belled ag y gallwn weled, dyma ydyw syniad y Proffeswr Rawlinson ar y mater:—

Yn y lle cyntaf, ynte, ymddengys yn dra sicr fod i grefydd yr hen Aiphtiaid, fel i'r rhan fwyaf o grefyddau eraill yr hen fyd, ddwy wedd. Yn y naill y cyflwynid hi i'r llïaws; ac yn y llall yr edrychid arni gan y rhai deallus a dysgedig. Yn y wedd gyntaf, amldduwiaeth tra isel mewn llawer ystyr ydoedd; ond yn yr ail wedd, cyfundrefn ydoedd yn yr hon yr unid crediniaeth mewn un Duw â rhyw fath o athroniaeth uchanianol yn nghylch natur Duw a thynged dyn. Yn ol y golygiad iselaf ar y grefydd hon, cydnabyddir fod yn dybiedig yn y syniadau a ddysgid ynddi "y drychfeddwl am un duw hunan-hanfodol;" a bod y drychfeddwl hwn i'w gael mewn llawer o'r emynau a'r gweddïau a arferid. Ond buasai y fath ddrychfeddwl yn gwbl anmhosibl heb fod yno ryw ddosbarth o bersonau yn canfod y tu hwnt i'r chwedloniaeth boblogaidd, ac yn deall ei nodwedd arwyddluniol neu uchanianol, ac felly yn alluog i gysoni eu cydffurfiad a'r addoliad cyffredin â ffydd yn ngwirioneddau mawrion crefydd naturiol, a ddeallid ac a anwylid ganddynt yn eu calonau.—(*Ancient Egypt*, i. 313—4.)

Dywed Rawlinson ymhellach mai erthygl sylfaenol y grefydd hon, a goleddid gan y deallus (*the esoteric religion*), oedd Undod gwirioneddol a hanfodol y Duwdod. A dyfyna ymhellach nifer o ymadroddion ymha rai y gosodir hi allan yn y llyfrau cysegredig. Darllenir hwynt gyda dyddordeb gan aelodau Ysgolion Sabbothol Cymru:—"Unig gynnyrchydd pob peth yn y nefoedd a'r ddaear, heb gael ei gynnyrchu ei Hunan gan neb;" "Yr unig wir a bywiol Dduw, a'i darddiad o hono ei hun;" "Yr Hwn sydd yn bod o'r dechreuad;" "Yr Hwn a wnaeth bob peth, ond na wnaed ei hunan." Ac y mae y brawddegau canlynol o eiddo Rawlinson yn llawn mor ryfedd:—"Nid ymddengys y gosodid y Bôd hwn allan o gwbl mewn unrhyw ffurf faterol, nac hyd yn nod arwyddluniol. Tybir nad oedd iddo un enw, neu ynte, os oedd iddo enw, nad cyfreithlawn oedd ei lefaru na'i ysgrifenu. Ysbryd pur ydoedd, perffaith ymhob ystyr; hollddoeth, hollalluog, ac anfesurol yn ei ddaioni."

Dyeithrol ydyw cyfarfod y fath syniadau ac ymadroddion yn llenyddiaeth yr hen Aiphtiaid. Gosodant allan, mewn modd clir a diamwys, y gwirionedd am un gwir Dduw. O ba le, ynte, y daeth y duwiau? Ateb Rawlinson ydyw yr edrychid ar dduwiau y chwedloniaeth boblogaidd gan y deallus a'r dysgedig, rai ai fel priodoliaethau y Duwdod wedi eu personoli; neu ynte ranau o natur, a grëwyd ganddo, yn cael eu hysbrydoli ganddo:—

Cynnrychiolai Num neu Kneph y meddwl creadigol; Phthah y llaw greadigol; neu y weithred o greu; Maut a gynnrychiolai ddefnydd; Ra yr haul; Khons y lleuad; Seb y ddaear; Khem y gallu cenedliadol (*generative*) mewn natur; Nut, ffurfafen y nefoedd (*the upper hemisphere of heaven*); Athor y byd isod (*under hemisphere*); Thoth oedd bersonoliad o'r doethineb dwyfol; Ammon o'r dwyfol ddirgelwch (*mysteriousness or incomprehensibility*), fe allai; Osiris, yn ol rhai, o'r dwyfol ddaioni. Mewn llawer o amgylchiadau, anhawdd yw penderfynu pa nodwedd, gweithred, neu ran mewn natur a fwriedid; ond am yr egwyddor nis gall fod yr ammheuaeth leiaf. Y mae yn sicr na syniodd un offeiriad dysgedig, nac ychwaith, yn ol pob tebyg, un lleygwr dysgedig ymysg yr hen Aiphtiaid, am y duwiau poblogaidd fel bodau ar wahan. Gwyddent oll nad oedd ond un Duw, a deallent pan yr addolid Khem, neu Kneph, neu Phthah, neu Maut, neu Thoth, neu Ammon, mai addoli yr Un Duw yr oeddid o dan ryw un o'i ffurfiau neu mewn un o'i agweddau. Nid ymddengys ddarfod i'r grefydd Aiphtaidd, fel y dealllid hi gan y dysgedig, oddigerth mewn ycnydig iawn o amgylchiadau, ddwyfoli pethau crëedig, neu ddwyn i mewn ddosbarth o dduwiau eilraddol yn dibynu am eu bodolaeth ar y gwir Dduw. Nid duw yr haul, yn meddu bodolaeth ar wahan, oedd Ra, ond y Duw goruchaf yn gweithredu yn yr haul, yn peri i'w oleuni dywynu ar y ddaear, i'w chynhesu, ei lloni, a'i bendithio; ac mewn canlyniad gellid addoli Ra gyda'r holl deitlau anrhydeddus uchaf; ac felly yn wir y gellid addoli unrhyw dduw, gyda'r eithriad o'r rhai a lanwent yn y gyfundrefn Aiphtaidd y lle sydd i'r angelion yn y gyfundrefn Gristionogol. Un o'r rhai diweddaf hyn, y mae yn debyg, ydoedd Anubis, arweinydd eneidiau yn y byd isod, ynghyd ag Amset, Tuamutef, Hapi, a Kebhsnauf.—(*Ancient Egypt*, i. 315—6.)

Hyderwn fod syniadau Rawlinson yn eglur oddiwrth y dyfyniadau uchod. Ond nid ydyw pawb yn cytuno â hwy. Dadleua Emmanuel Rougé, yr hwn a ddyfynir gan Renouf, mai crediniaeth mewn Un Duw oedd erthygl sylfaenol crefydd yr hen Aiphtiaid. Wele ei eiriau:—

Nid oes neb wedi ammeu ystyr sylfaenol y prif adranau trwy gymhorth pa rai yr ydym yn alluog i benderfynu pa beth a ddysgai yr hen Aiphtiaid am Dduw, am y byd, ac am ddyn. Am *Dduw*, a ddywedais, ac nid am *dduwiau*. Nodwedd neillduol gyntaf eu crefydd ydyw Undod [Duw] yn cael ei osod allan mewn iaith gref; Un ac Unig Dduw; heb neb eraill gydag Ef. Efe yw yr Unig Fôd—yn byw mewn gwirionedd. Tydi ydwyt Un, a miliynau o fodau a ddeilliant o honot ti. Efe a wnaeth bob peth, ac Efe yn unig ni wnaed. Y mae y syniad o'r fath egluraf, symlaf, a mwyaf penodol.—(Renouf, 89.)

Ond y cwestiwn yma eto ydyw, O ba le y daeth y duwiau? Ac nis gallwn wneyd yn well na rhoddi atebiad Renouf yn ei eiriau ei hun:—

Ond pa fodd i gysoni Undod Duw âg Amldduwiaeth yr Aipht? Hwyrach y teflir goleuni ar y mater gan ddaearyddiaeth a hanesyddiaeth. Cynnwysa y grefydd Aiphtaidd llaws o addoliadau lleol. Rhenid yr Aipht, a ddygwyd gan Menes o dan ei awdurdod, i ddwy brif dalaeth, a'r ddwy yn meddu bob un ei phrif ddinas ei hun. Yr oedd i'r naill a'r llall ei phrif dduw, dan enw neillduol; ond yr un athrawiaeth a geir bob amser dan amrywiol enwau. Ac ymhob man ymweithia i'r golwg y syniad am un Duw, yn bod o'r dechreuad; ymhob man; a phob amser. Un Sylwedd, yn hanfodi o hono ei hun ydyw, a Duw nas gellir nesâu ato.—(Renouf, 90.)

Ystyr yr ateb ydyw mai amrywiaeth lle a roddodd fod ar y cyntaf i amldduwiaeth. Gan yr addolid y gwir a'r unig Dduw dan wahanol enwau, daeth i mewn y syniad am lïosogrwydd o dduwiau. Yn y lle nesaf, ymlygrodd y grefydd, yn nhreigliad oesoedd, fel y dygwyd i mewn iddi mewn adegau diweddarach y grediniaeth mewn llawer o dduwiau. Ond y mae Renouf yn galw sylw at y ffaith nad ydyw Rougé yn meiddio haeru nad oedd ar unrhyw adeg ag y mae genym hanes am dani yn yr Aipht ond yn unig addoliad un Duw. Y gwirionedd, yn hytrach, ydyw fod y ddwy grediniaeth i'w cael gyda'u gilydd. Nid crediniaeth yn bodoli yn unig cyn cyfodiad amldduwiaeth oedd y grediniaeth mewn Un Duw; ac nid crediniaeth a gafodd ei dwyn i fod wedi colli y grediniaeth mewn Un Duw oedd y grediniaeth mewn llawer o dduwiau. A dywed Renouf nad oes yn holl gylch llenyddiaeth yr Aipht unrhyw ffeithiau sydd yn fwy sicr na'r ddwy ganlynol:—(1) Fod yr athrawiaeth am Un Duw a'r athrawiaeth am lawer o dduwiau yn cael eu dysgu gan yr un dynion; (2) Nad oedd, yn eu meddyliau hwy, unrhyw anghysondeb rhwng y naill athrawiaeth a'r llall.

I ni y mae y diweddaf yn gwbl annealladwy. Byddai mor hawdd i ni gredu fod Duw a chredu hefyd nad oes Duw, ag a fyddai i ni gredu yn modolaeth Un Duw ac hefyd yn modolaeth llawer o dduwiau. Yr eglurhad a roddir gan Renouf ar y mater ydyw fod ystyr y gair Duw gan yr hen Aiphtiaid yn dra gwahanol i'r ystyr sydd iddo genym ni. *Nutar* yw y gair Aiphtaidd am Dduw, ac y mae ystyr y gair hwn, medd efe, yr un peth ag ydyw ystyr y gair Hebraeg *El*,—gallu. Y mae yr ymadrodd Aiphtaidd *Nutar Nutra* yn gwbl gyfystyr â'r Hebraeg *El Shaddai*,—Duw Hollalluog. Ac ni ddaeth y gair *nutar* yn yr Aiphtaeg byth i gael ei ddefnyddio fel enw priodol; parhaodd yn hytrach yn enw cyffredin hyd y diwedd; a chymhwysid ef yn ddiwahaniaeth at yr amrywiol alluoedd oeddynt, yn ol dychymyg yr Aiphtiaid, yn gweithredu mewn natur, yn gystal ag at y gallu o'r hwn y mae pob galluoedd eraill yn deilliaw. "Enwau ar alluoedd terfynol ac unigol oedd Ra ac Osiris a Set; ond cyfeirir hefyd at Allu sydd heb enw, ac heb unrhyw neillduolion chwedlonol yn perthyn iddo, yr hwn nas gellir ei ystyried ond yn unig fel gwrthddrych canfyddiad uniongyrchol o'r Anfeidrol."—(Renouf, 99, 100.)

Wedi dyfynu amryw frawddegau o wahanol fanau yn cyfeirio at y *gallu* hwn, dirwyna i fyny fel y canlyn:—

Yn y modd yma ymhob cyfnod o'u hanes, yn y boreuaf yr un mor hyderus â'r diweddaraf, llefarai yr hen Aiphtiaid am y *Nutar* (Gallu) yn y rhif unigol. Ac nis gall, mi gredaf, fod un ammheuaeth pwy yw y Gallu hwnw, yr hwn nad ydym ni yn ein cyfieithiadau yn petruso ei alw, Duw. Yn ddiddadl yr unig wir Dduw ydyw yr hwn nad yw "neppell oddiwrth bob un o honom; oblegid ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod," yr hwn y mae ei "dragywyddol allu ef a'i dduwdod," a'i lywodraeth ar y byd, wedi ei wneuthur yn adnabyddus gan y "Goleuni sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd." Yn y dyfyniadau a wnaed gwelir elfenau gwir grefydd, yn rhydd oddiwrth bob cymysgedd chwedlonol.—(Renouf, 103.)

Rhaid i ni adael y mater hwn gydag ychydig eiriau ar y berthynas rhwng y Gallu a'r gallucedd, fel y deallir hi gan Renouf. Ac yma eto ei eiriau ef ei hun fydd oreu:—

Os dyma yw y Gallu, pa beth yw y galluoedd *(Nutriu)*, a pha beth yw eu perthynas âg ef? Yn ffurfiad unrhyw gyfundrefn gyda golwg ar y bydysawd hawdd fyddai i'r dryohfeddwl o Allu, yn dwyn oddiamgylch ganlyniadau, yn ol y deffiniad a rodder o hono, arwain i gasgliadau tra gwahanol. Gellid synio am dano yn gyffelyb i'r modd y gwneir am Achos, a chael ein harwain ganddo, fel yr arweinir dynion meddylgar yn wastad, er pob gwrthdystiad oddiwrth athronwyr beirniadol, at y gydnabyddiaeth o Un Achos Cyntaf, neu Allu o'r hwn y tardda pob galluoedd eraill. Ond, fel y gwyddom oddiwrth hanes gweithrediadau meddwl dyn, dichon hefyd i'r dryohfeddyliau o Allu a Sylwedd gael eu gwneyd yn Un; a hawdd fyddai dychymygu am un Nerth *(Force)* cyffredinol mewn natur, ynddo ei hun yn dragywyddol ac anghyfnewidiol, ond yn amlygu ei hun yn y ffurfiau mwyaf amrywiol. Yn y naill achos a'r llall arweinid ni at Undod; ond byddai yr Undod yn y ddau achos yn dra gwahanol.—(Renouf, 104.)

Yn y cyntaf byddai yn *Theistic*, yn yr ail yn *Pantheistic*. Hyny ydyw, arweinid ni yn y naill at Dduw personol, ond yn y llall at Oll-dduwiaeth,—pob peth yn dduw; duw yn gyfanswm y cwbl sydd mewn bod. Yn y grefydd Aiphtaidd, yr Undod diweddaf a geir yn adegau diweddaraf ei hanes; ond nid felly yn yr adegau ag yr oedd yn fwyaf pur. Ond pa un bynag, nid oedd duwiau y chwedloniaeth boblogaidd yn ddim amgen na'r galluoedd gwirioneddol neu ddychymygol ydynt yn gweithredu mewn natur.

Nis gallwn aros i roddi unrhyw hysbysrwydd am y "duwiau lawer" oedd gan yr hen Aiphtiaid. Amlwg yw fod enwau y duwiau yn lliosocach na'r duwiau eu hunain, er amled oeddynt hwy. Ceir 75 o enwau ar Ra yn ysgrifenedig ar furiau y Beddrodau Brenhinol yn Biban-el-moluk; a cheir un bennod gyfan o enwau Osiris yn Llyfr y Meirw. Nid oes neb a ddichon roddi rhestr gyflawn a chywir o'r duwiau; ond gall y neb sydd yn teimlo dyddordeb yn y cwestiwn gael llawer o hysbysrwydd yn ngwaith y Proffeswr Rawlinson *(Ancient Egypt*, i., 322—401).

Rhenir y duwiau gan Herodotus yn dri dosbarth,—y cyntaf yn gynnwysedig o wyth, a'r ail yn gynnwysedig o ddeuddeg o dduwiau, tra y mae y nifer yn y trydydd yn anmhenodol. Nid oes un cyfeiriad at y fath raniad ar un o'r cofgolofnau, nac yn yr un o'r llyfrau henafol; ond gan fod Manetho i ryw fesur yn cadarnhâu tystiolaeth Herodotus, tybir iddo gael ei ddwyn i mewn yn gymharol ddiweddar. Anhawdd, pa fodd bynag, ydyw cael gafael ar egwyddor y dosbarthiad; ac y mae llawer o amrywiaeth barn pa rai oedd y duwiau hyd yn nod yn y dosbarth cyntaf. Yn wir, ymddengys fod y rhestr yn amrywio mewn gwahanol fanau. Yn Memphis y rhestr yn ol Rawlinson, oedd (1) Phthah; (2) Shu; (3) Tafné; (4) Seb; (5) Nut neu Netpe; (6) Osiris; (7) Isis (gyda Horus); (8) Athor. Y rhestr yn Thebes, yn ol yr un awdurdod, oedd (1) Ammon-Ra; (2) Mentu; (3) Tum; (4) Shu (gyda Tafné); (5) Seb; (6) Osiris; (7) Set (gyda Nephthys); (8) Horus (gydag Athor). Ystyrir mai cwbl ofer ydyw ceisio cael gafael ar y deuddeg a gyfansoddent yr ail ddosbarth; a thybia Rawlinson y cynnwysid ynddo yr holl dduwiau na pherthynent i'r dosbarth cyntaf; tra y rhestrid yn y trydydd dosbarth fodau israddol,—demoniaid ac ysbrydion *(genii)*—nad edrychid arnynt fel duwiau.

Mwy pwysig na'r rhaniad uchod ydyw yr arferiad gyffredinol o neillduo tri o'r duwiau fel gwrthddrychau arbenig addoliad. Yn yr holl drefi o bwysigrwydd yr oedd gan y trigolion eu triawd ymysg y

duwiau,—yn Memphis, Phthah, Sekhet, a Tum; yn Thebes, Ammon-Ra, Maut, a Chonsu; yn Abydos, Osiris, Isis, a Horus. Yr un modd yr oedd gan ddinasoedd eraill eu tri duw neillduol eu hunain. Ac mewn rhai lleoedd ychwanegid pedwerydd, yr hwn a ystyrid bob amser yn israddol i'r lleill. Yn Memphis yr oedd Bast neu Pasht (os nad yr un oedd y dduwies hon a Sekhet); ac yn Thebes yr oedd Neith. Safai y cyntaf o'r tri duw ar dir uwch na'r lleill, ac yn gyffredin (er nad bob amser) duwies oedd yr ail o'r triawd. Yr oedd i'r trydydd, fel rheol, safle israddol.

Heblaw y duwiau, addolid hefyd, am ryw resymau, lliaws o anifeiliaid a ystyrid yn gysegredig; ac fe allai mai y rhan hon o grefydd yr hen Aiphtiaid sydd fwyaf adnabyddus. Ystyrid rhai anifeiliaid yn gysegredig trwy yr holl wlad, y rhai nas gellid eu lladd na'u niweidio dan unrhyw amgylchiadau. Edrychid ar eraill bron yn gyffredinol yn gysegredig; tra yr oedd eraill yn meddu cysegredigaeth lleol yn unig. I'r dosbarth cyntaf perthynai y gath, cysegredig i Bast neu Sekhet; yr *ibis*, a math o epa gyda phen ci, cysegredig i Thoth; y cidyll coch a'r chwilen, cysegredig i Ra; y gacynen, yn ol pob tebyg; a'r gwartheg, neu o leiaf y gwartheg gwynion, cysegredig i Athor. Yn yr ail ddosbarth yr oedd y defaid, cysegredig i Kneph; a'r cwn, y rhai nad oeddynt gysegredig i un duw neillduol. Yn y trydydd dosbarth, yr oedd lliaws mawr o anifeiliaid, megys llewod, crocodilod, ceffylau y dwfr, bleiddiaid, ceirw, geifr, llyffaint, math o nadrodd, a rhai mathau o bysgod, &c. Yn yr holl ddosbarthiadau hyn edrychid ar y rhywogaethau yn gysegredig; ond mewn rhai amgylchiadau rhoddid parch i un anifail neillduol. Credai yr Aiphtiaid fod y duwdod yn achlysurol yn ymgnawdoli mewn anifail, ac y byddai yr anifail hwnw, o hyny allan hyd ei farwolaeth, yn drigfa neillduol iddo. Yn wir, edrychid arno yn dduw; ac arweinid ef i'r deml briodol iddo i fod yno yn wrthddrych gofal ac addoliad. Yn Memphis, er engraifft, yr oedd ystafell ardderchog yn breswylfa i darw cysegredig, yr hwn y tybid oedd yn ymgnawdoliad o'r duw Phthah, a ymwelai yn bersonol, yn ol y farn gyffredin, o bryd i bryd â gwlad yr Aipht. Yr offeiriaid a benderfynent pa un oedd yr anifail cysegredig. Ac wedi iddynt hwy gyhoeddi fod y nodau priodol ar lô gwryw, rhoddid iddo yr enw Apis, ac arweinid ef i'r deml, yr hon ni adawai mwyach hyd ddydd ei farwolaeth, oddigerth ar y dyddiau neillduol yr arweinid ef trwy heolydd y ddinas, ac y rhoddid iddo barch cyffredinol yr holl boblogaeth. Wedi marw Apis, naill ai o farwolaeth naturiol neu ynte trwy foddiad, os na welai yn dda farw o hono ei hun cyn bod uwchlaw 25 mlwydd oed, peraroglid ei gorff, a chleddid ef gyda rhwysg mawr yn y deml oedd wedi ei chodi yn arbenig i'r pwrpas hwnw. Ac ar ol ei farwolaeth, deuai yr anifail yn wrthddrych addoliad neillduol. Byddai yr holl wlad mewn galar hyd oni phenderfynai yr offeiriaid ar ei olynydd. Yn Heliopolis yr oedd tarw cysegredig arall, yr hwn a ystyrid yn ymgnawdoliad o Ra neu Tum. Enw hwn oedd Mnevis. Ac yr oedd anifeiliaid cyffelyb mewn rhai lleoedd eraill.

Nid rhyfedd fod y Groegiaid dysgedig, er bod eu hunain yn baganiaid, yn gystal â'r Cristionogion, yn edrych gyda gwawd a dirmyg ar y fath ofergoeledd. Ond y mae yn werth ceisio ei ddeall, er mor isel ydoedd, a cheisio cael gafael ar y gwir reswm neu resymau am ei fodolaeth.

Yn ol un golygiad, yr oedd gwreiddyn yr holl gyfundrefn yn nghraffder yr offeiriaid yn rhoddi i'r anifeiliaid gwir ddefnyddiol gysegredigaeth, er mwyn diogelu eu ffyniant a'u lliosogiad. Ond fe welir ar unwaith fod ymysg yr anifeiliaid lawer nad oeddynt yn ddefnyddiol o gwbl. Bwystfilod niweidiol oedd amryw o honynt. Mewn canlyniad y mae llawer cais arall wedi ei wneuthur i daflu goleuni ar eu cysegredigaeth gan awdwyr hen a diweddar. Goddefer y dyfyniad canlynol ar y mater hwn :—

In modern times the Pantheistic nature of the Egyptian religion has been alleged as the "true reason" of the worship by one writer, while another has seen it in an original African fetishism, on which was afterwards engrafted a more elevated form of belief by an immigrant Asiatic people. To us it seems a sufficient and probably a true account of the worship, to say that it grew out of that exaggerated symbolism which was so characteristic of the Egyptian religion, which, beginning by tracing resemblances in certain animals to certain attributes of the Divine Nature, proceeded to assign to particular deities the heads of these creatures, or even their entire forms; after which it was but a short step to see in the animals themselves a quasi-divinity, which elevated them above their fellows, and rendered them venerable and sacred. If this explanation does not cover the whole of the worship, as (it must be admitted) it does not, still the exceptions are so few, and, comparatively speaking, so unimportant, that their existence is perhaps not incompatible with the truth of the origin suggested. —(Rawlinson's *Ancient Egypt*, i. 417—9.)

Yr ydym bellach yn symud ymlaen oddiwrth dduwiau yr hen Aiphtiaid—gyda chrybwyll eu bod yn dwyfoli eu brenin, ac yn talu gwarogaeth addoliadol hefyd i'w henafiaid ymadawedig—i wneuthur rhai nodiadau ar eu haddoliad. Yr oedd eu temlau yn nodedig am eu gwychder, ond oll yn rhoddion brenhinol i'r duwiau arbenig a addolid ynddynt. O hen adeiladau yr Aipht nid oes yn awr ddim yn aros oddieithr eu temlau a'u beddau. Ond camgymeriad fyddai ystyried y temlau yn lleoedd o addoliad i'r cyhoedd. Ni dderbynid y bobl gyffredin i mewn iddynt o gwbl; ac nid oedd iddynt unrhyw ran yn yr addoliad oddieithr yn y gorymdeithiau y cyfeiriwyd atynt eisoes, ac ar achlysuron cyffelyb. Gwaith yr offeiriaid oedd y cwbl yn y temlau, heb i'r bobl eu hunain fod yn gymaint a llygaid-dystion o'r gwasanaeth.*

Yr oedd yr addoliad yn gynnwysedig o weddi, mawl, ac aberth. Ac o'r gweddïau a'r emynau a arferid y mae lliaws mawr ar gael. A ddymunai darllenwyr y TRAETHODYDD weled engraifft?

I AMMON RA.

Hail to Thee for all these things,
The One alone with many hands;
Lying awake while all men sleep,
To seek the good of Thy creatures!
O Ammon, sustainer of all things,

* We must not take for granted that temples at this early period were places of worship in our modern sense of the term. At no period of the Egyptian religion were the public admitted to the temples as worshippers. All the temples we know were royal offerings made to the divinity of the locality, and none but the priestly personages attached to the temple itself had free access to its precincts. But the images of the god and those of the divinities associated with him were often brought out in solemn processions, in which the entire population took part."—(Renouf, 82—3.)

Atum-Horus of the horizon!
Homage to Thee from all voices!
Salvation to Thee for Thy mercy towards us;
Acknowledgement to Thee, who hast created us.

Hail to Thee, say all creatures,
Salutation from every land—
To the height of heaven, to the breadth of the earth;
To the depths of the sea.
The gods adore Thy Majesty;
The spirits Thou hast created exalt Thee,
Rejoicing before the feet of their Begetter.

They cry out welcome to Thee,
Father of the father of all the gods;
Who raisest up the heavens, who fixest the earth.

Maker of beings, Creator of existences,
Sovereign of life, and health and strength, Chief of the Gods!
We worship Thy spirit, which alone has made us:
We whom Thou hast made, thank Thee that Thou has given us birth
We give praises to Thee for thy mercies towards us.

*Records of the Past*, ii. 133.

Am eu haberthau yr oeddynt mewn rhan yn waedlyd, ac mewn rhan heb waed. Yn fwyaf cyffredin cyflwynid offrymau yn hytrach nag aberthau; ond cyflwynid hefyd lawer o anifeiliaid yn aberthau. Ac nis gellir darllen rhai o'r trefniadau arferedig yn eu plith heb gael ein hadgofio o rai o ordeiniadau deddf Moses. Ond ni chaniatâ ein gofod i ni fyned i mewn i unrhyw fanylion, nac ychwaith i wneuthur unrhyw grybwyllion am y lliaws gwyliau ac amserau nodedig oedd ymhlith yr hen Aiphtiaid. Oddiallan yr oedd llawer o rwysg yn perthyn i'w crefydd; ac nid oedd pall ar eu gweddïau a'u haberthau. Pa dywyll-wch bynag, fel y sylwa y Proffeswr Rawlinson, oedd yn gordoi yr Aipht, yr oedd ynddi dystiolaeth amlwg i deimlad o angen am ymbiliau gwastadol ger bron Duw.

Ceisiwn yn awr wneuthur ychydig nodiadau ar syniadau yr hen Aiphtiaid am sefyllfa ddyfodol. Ac yn gyntaf oll gellir dywedyd yn ddibetrus eu bod yn credu yn gryf yn modolaeth yr enaid ar ol ei ym-adawiad â'r corff. Brawddeg hynod a ddywedir gan Diodorus:—"Geilw yr Aiphtiaid eu tai yn lletŷau *(hostelries)*, am fod yr amser i aros ynddynt mor fyr; ond galwant y beddau yn dragywyddol drigfan-au." A dyma yr enw a gyfarfyddir yn barhaus ar y bedd yn yr arys-grifau, *pa t' eta*, "tragywyddol drigfan." Yn gyffelyb y gelwir y rhai ymadawedig, "y rhai byw." Y mae yr ymadrodd *ânch t' eta*, "bywyd tragywyddol," ymysg yr ychydig eiriau ysgrifenedig ar arch goed y brenin Mykerinos, sydd yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig. A dywedir wrthym mai at ysbrydion drwg yn unig y cymhwysir yr enw "y meirw" yn ysgrifeniadau cysegredig yr hen Aiphtiaid.

Credent yn ddiau yn anfarwoldeb yr enaid, ond nid yn ei anfaterol-deb. A chredent fod rhyw berthynas rhwng yr enaid a'r corff ar ol marw. Am y rheswm hwn y peraroglent y corff er sicrhau ei barhad; ac am yr un rheswm y treulid cymaint ar y beddau—beddau oedd y pyramidiau—sef er mwyn diogelwch y corff ar ol ei berarogli rhag pob math o elynion a allent ei ddinystrio. Y mae yr adeiladau mawrion a

chedyrn hyn yn dystion gweledig heddyw o ffydd yr hen Aiphtiaid mewn sefyllfa ddyfodol. Ond yr oedd yn eu syniadau am dani lawer o gymysgedd tra dyeithrol. Un peth a gredid yn ddiysgog ganddynt ydoedd fod y marw ar unwaith yn cael ei ddwyn i farn. Yn Llyfr y Meirw (cxxv.) cawn ddesgrifiad o'r farn, yr hwn nis gall neb o honom ei ddarllen heb deimlo fod ganddynt lawer o wirionedd, er yn gymysgedig â chwedlau ofergoelus. Dygid yr ymadawedig i "Neuadd Gwirionedd," neu yn fwy cywir "Neuadd Dau Wirionedd" *(Hall of Two Truths)*, i'w farnu ger bron Osiris a dau a deugain o farnwyr cynnorthwyol. Dygir allan gan Anubis glorian, a gosodir ganddo yn y naill ben arwyddlun Gwirionedd *(Maat)*, ac yn y pen arall ban calon, yn gosod allan swm a sylwedd cymeriad yr hwn a fernir. Y mae y barnwyr cynnorthwyol yno i ymholi am ddau a deugain o wahanol bechodau, a'r rhinweddau gwrthgyferbyniol iddynt. Y mae Horus yno i wylio pa fodd y byddo y clorian yn troi, a Thoth *(Tehuti)* i ysgrifenu i lawr y canlyniadau. A chyhoeddir y farn gan Osiris yn hollol yn ol y canlyniad hwnw.

Yr ydym yn cael amrywiaeth barn ymysg gwahanol ysgrifenwyr am yr hyn a ddilyna y farn. "Caniateid i'r da fyned i mewn i 'gwch yr haul;' ac arweinid ef gan ysbrydion da i Aahlu (*Elysium*), i 'lynoedd heddwch,' i breswylfod Osiris" (Rawlinson's *Ancient Egypt*, i. 318). Dywed Renouf yr edrychid ar fywyd tragywyddol i'r ffyddloniaid mewn tair agwedd. Yn y lle cyntaf, edrychir ar eu bywyd mewn gwynfyd yn gyffelyb i'w bywyd ar y ddaear. Y mae ganddynt y defnydd o'u holl aelodau; bwytânt ac yfant, a llenwir eu holl anghenion anianyddol yn hollol yr un fath ag yn y byd hwn. A dilynir ganddynt yr un gorchwylion—aredig, hau a medi, casglu ffrwythau, rhwyfo yn y cychod ar gamlesi, &c. Yn y lle nesaf, dysgir eu bod yn myned trwy drawsffurfiadau, ond fod y rhai hyn yn dibynu yn hollol ar eu hewyllys eu hunain. Ymysg yr amrywiol ffurfiau y mae amryw anifeiliaid, math o ddurtur, math o aderyn, a math o lysieuyn, a ffurf rhai o'r duwiau. Ond y mae Renouf yn dadleu yn gryf nad oes yn llenyddiaeth yr Aipht un awgrym am drawsffurfiadau cosbawl neu boenydiawl. A dywed ymhellach nad oes ynddi ychwaith awgrym am unrhyw sefyllfa o bureiddiad rhwng marwolaeth dyn a'i wynfyd. Rhaid teithio wrth gwrs, a myned trwy lawer o ffurfweddïau, ond nid oes yn y pethau hyn un elfen gosbawl. Yn olaf, y mae uniad y ffyddloniaid âg Osiris, ag â rhai o'r duwiau eraill.

Y mae Rawlinson, pa fodd bynag, yn dysgu yn wahanol. Dadleua efe y collfernir y drygionus i fyned trwy nifer o drawsffurfiadau yn nghyrff anifeiliaid mwy neu lai aflan, y rhai a ddibynant ar raddau drwg haeddiant yr hwn a gosbir. Wedi myned trwy gylch o drawsffurfiadau lawer gwaith, cyhoeddid barn derfynol gan Osiris, yn dadgan ei fod yn hollol ddiobaith, a thraddodid ef mewn canlyniad i ddifodiant llwyr a therfynol. Fel rheol gwelir yr enaid drygionus yn cilio o wydd Osiris ar ffurf mochyn, a chymerir ef yn ol i'r ddaear gan Anubis mewn cwch, yn cael ei warchod gan nifer o epäod. A dywed Rawlinson ymhellach am y da fel y canlyn:—

Wedi i'r enaid da gael ei ryddhau oddiwrth ei wendidau trwy dân puredigol, yn cael ei wylio gan y pedwar ysbryd gyda gwyneb epa, a'i wneuthur mewn can-

lyniad yn gydymaith i Osiris am 3000 o flynyddoedd, dychwelai o Amenti, i ail drigo yn ei gorff ei hun, a chyfodi o feirw, a byw drachefn ar y ddaear. Eid trwy y cylch hwn amryw weithiau, nes cyflawni nifer cyfriniol o flynyddoedd, pan y cyrhaeddai y rhai bendigaid y gwynfydedigrwydd perffaith o uniad â Duw, gan lwyr ymgolli yn yr Hanfod Ddwyfol, a dyfod i fwynhad o'r perffeithrwydd uchaf a llawnaf sydd yn bosibl i'w natur.—(*Ancient Egypt*, i. 318—9.)

Rhaid i ni bellach brysuro i ddwyn ein sylwadau i derfyniad. Y mae syniad yr hen Aiphtiaid am farn wedi ein harwain ni eisoes i ryw fesur i edrych ar eu syniadau am foesoldeb. Ond y mae yn awr ar gael amryw lyfrau yn cynnwys eu moesddysg. Un o'r rhai hyn ydyw y "Llyfr Henaf yn y Byd," sef "Gosodiadau (*Maxims*) Ptahhotep." Am y llyfr hwn a llyfrau eraill cyffelyb, ceir gan Renouf y sylwadau canlynol:—

O ran eu cymeriad a'u tôn y maent yn debyg i Lyfr y Diarhebion yn y Bibl. Cymhellant ymchwiliad am ddoethineb, a gosodant allan ddyledswyddau plant at eu rhieni ac isafiaid at eu huwchafiaid, parch i eiddo, manteision teimladau da a charuaidd, tangnefedd a boddlonrwydd, haelioni, gostyngeiddrwydd, diweirdeb a sobrwydd, geirwiredd a chyfiawnder; a dangosant hefyd ffolineb a drygioni anufudd-dod, cynhen, balchder ac uchder, diogi, anghymedroldeb, anniweirdeb, yn gystal ag arferion ffiaidd eraill.

Y mae M. Chabas yn myned mor bell a dywedyd nad oes yr un rhinwedd Cristionogol yn cael ei adael allan o foesddysg yr hen Aiphtiaid. Ac y mae yn rhyfedd darllen nid yn unig y cyfarwyddiadau moesol mewn gwahanol lyfrau, ond y geiriau a ddefnyddid gan ddynion yn y farn o flaen Osiris a'i gynnorthwywyr.

Ni niweidiais erioed blentyn bach. Ni orthrymais erioed weddw. Ni chamdriniais erioed fugail. Yn fy nyddiau i nid oedd un cardotyn, na neb yn newynu. A phan y deuai blynyddoedd newyn, byddwn yn aredig holl dir y dalaeth, ac yn darpar ymborth i'w thrigolion. Ni adewais neb mewn eisieu, ac yr oeddwn i'r weddw megys pe buasai gŵr ganddi.

Arall:

Cymerais hyfrydwch mewn dywedyd y gwir. Er bod yn fawr, ymddygais megys pe buaswn un bach.

Arall eto:

Bara oeddwn i'r newynog, dwfr i'r sychedig, dillad i'r noeth, a noddfa i'r neb oedd mewn eisieu; a'r hyn a wnaethwn iddo Ef a wnaeth y Duw Mawr i mi.

Ond yr oedd eu bywyd yn dra gwahanol i'w dysgeidiaeth. Mewn ymarferiad rhoddid pob rhinwedd dan draed. Ac y mae yn amlwg mai tra arwynebol oedd eu syniad am bechod. Yn eu gweddïau nid oes unrhyw arwydd o deimlad dwfn o euogrwydd yn ganfyddedig. Ymffrostiant yn helaeth yn eu rhinweddau; ond nid ymddengys fod eu drygau yn pwyso yn drwm ar neb o honynt.

Hawdd fyddai ymhelaethu, ond ymattaliwn. A dichon mai gwell fyddai gadael i'n darllenwyr gasglu oddiwrth y nodiadau uchod eu golygiadau eu hunain am hen grefydd yr Aiphtiaid, na cheisio crynhoi eu cynnwys i ychydig nodiadau. Gwelant fod ynddi ronynau gwerthfawr o wirionedd, ond yn gymysgedig â llawer iawn o sothach. A gwelant ynddi arwyddion eglur o ymdrech y meddwl dynol i gael gafael hyd yn nod ar y gwirioneddau uchaf.

GRIFFITH ELLIS.

## Y DYDD HWYAF.

O DDYDD, y gogoneddus ddydd: pa beth wyt ti?
Rhyw ronyn bychan wyt o amser dyn.
Ac nid yw 'r Hwyaf Ddydd ond cysgod gwan
O hirfaith Dragwyddoldeb,—Cyfnod Duw.
Os swyna tragwyddoldeb deulu 'r Nef,
Cofleidia plant y llawr y cysgod, gan
Eiddilwch eu dirnadaeth am y wlad
Lle nad oes nos o fewn ei dydd-lyfr hi.
O Hwyaf Ddydd, rhagorach dydd nid oes,
A chreadigaeth i'th groesawu gawn
Mewn amwisg o brydferthwch nas gall neb
Ond Natur fod yn awdwr i'r fath un.
Eisteddais, do, dan oleu canaid loer,
I weled geni 'r hwyaf blentyn hwn.
Dy dad â'i bwyntel aur a baentiai fyd,
Fe wridai 'r greadigaeth gan ei drem,—
Cyfodai byd o flinder eithaf cwsg
Yn adnewyddol eilwaith i fwynhau
'R afrifed ddoniau a gyfreni di.
Mae 'th gael dy hunan yn nodedig rodd.
Mae trefn y rhod yn newid. Teyrn y dydd
Yn Alban Hefin gawn; y tanllyd gawr!
A'i lygad byw yn dân o ufel poeth,
Ac amwisg o ogoniant sydd o'i gylch;
Mor lachar yw ei lygad treiddgar ef
Fel nas gall dyn ond crymu yn ei wydd,
A gwyro pen mewn rhyw wyleidd dra mawr.
O Hwyaf Ddydd! O'th ôl daw tymmor haf,
A gwres i beri tyfiant cnydau byd.
Cynnyrchion daear yn addfedu gawn,
I fod yn gymhwys ymborth dynolryw,
A dirifedi greaduriaid Nâf.
O Hwyaf Ddydd, bendithion fyrdd a ddaw
Fel ffrwyth blynyddol dy ymweliad di.
Cyfoethog yw dy fynwes; llwythog, llawn
O drugareddau fyrdd at angen byd.
Ni fedd un cymwynaswr mwy na thi.
Paradwys fydd ein dae'r dros enyd fer
Yn rhinwedd dy ddyfodiad, Hwyaf Ddydd;
Croesawol fyddi byth gan deulu 'r llawr.

BARLWYDON.

*Blaenau Ffestiniog.*

# ACHOSION TERFYNOL.

## II.

Hyderwn ein bod wedi llwyddo yn ein herthygl flaenorol i gyfleu i feddwl y darllenydd yr hyn a ddeallwn wrth "Ddeddfau Natur," ac wrth "Achosion Naturiol." Yn gymaint ag fod llawer yn meddu syniadau cyfeiliornus am le a gwaith priodol y rhai hyn, dymunwn gadarnhau yr hyn a ddywedwyd genym yn yr erthygl hono. Yn ol y meddylwyr diweddaraf mewn Gwyddoniaeth ac Athroniaeth, fel Agassiz, Dr. Carpenter, Lionel Beale, J. S. Mill, Mansel, Martineau, &c., nid ydym i ddeall fod y greadigaeth yn cael ei llywodraethu gan ddeddfau, eithr yn ol deddfau. Mynegiadau yn unig ydyw deddfau natur o ddull gweithrediad cyson a rheolaidd yr Ewyllys Ddwyfol a Hollbresennol; nid allant hwy roddi cyfrif am ddechreuad dim, nac am eu dechreuad eu hunain. Cydnabyddir hyd yn nod gan ammheuwyr yn bresennol, fod rhyw Un, yr hwn a alwant weithiau yn "Allu," a phryd arall yr "Anwybyddadwy," y tu ol i holl ddrama fawr Natur. Pa bryd bynag a pha le bynag y gwelir mynegiadau o ddeddfau Natur, dylem gofio fod Personoliaeth yr Anwybyddadwy hwnw yn cyffwrdd â ni; oblegid yn ol y syniad o Achosion Terfynol, Efe yw cynllunydd holl beirianwaith Natur, yr hwn sydd mor lawn o *amcan* ag ydoedd olwynion y cerubiaid yn ngweledigaeth Ezeciel o lygaid. A phwy a ddywed nad yw Amcan yn profi dealltwriaeth? Y mae Achos Terfynol y greadigaeth yn Achos deallgar, yn Feddwl. Os mynwn ddilyn camrau gwyddonwyr ein hoes, fe'u ceir yn y ddau osodiad canlynol:—1. Y mae rhyw Allu y tu ol i Natur. 2. Y mae y Gallu hwnw yn Un; yn rhywbeth anrhanadwy. Yn ol yr athrawiaethau gwyddonol diweddaraf am "barhâd gallu" a "chydberthynas galluoedd natur," cynnwysant y syniad nad oes ond un Achos gwreiddiol i'r holl greadigaeth. Os ydyw Duw yn bod, nid oes ond un Duw. Gan hyny, y mae yr Achos sydd y tu ol i natur yn Un, yr hwn ydyw yr Achos Cyntaf. Ymhellach, y mae yn achos anammodol, yn achos hunanfodol, ac yn achos effeithiol. Trown eto oddiwrth y gwrthddrychol, yr hyn sydd o'r tu allan i ni, at yr hyn sydd oddimewn i ni, a safwn uwch ben y gosodiadau canlynol:—1. Rhaid fod gan bob cyfnewidiad ei achos digonol. 2. Yr oedd dyfodiad dyn i'r byd fel bôd yn meddu *meddwl*, ewyllys rydd, a chydwybod, yn gyfnewidiad. 3. Nis gall effaith gynnwys dim nad ydyw yn yr achos: gan hyny, i roddi bod i greadur yn meddu meddwl, ewyllys rydd, a chydwybod, rhaid fod yr Achos yn meddu meddwl, ewyllys rydd, a chydwybod. 4. Rhaid fod yr achos, gan hyny, o bersonoliaeth dyn fel bôd yn meddu meddwl, ewyllys rydd, a chydwybod, yn Achos Personol. 5. Arddengys y greadigaeth gynllun, ac amcan, a hyny trwy ei holl derfynau, mor bell ag y maent yn adnabyddus i ni.

Yn awr, y mae cynllun yn amlygiad o feddwl, ac yn bodoli o angenrheidrwydd yn y meddwl cyn ei roddi mewn gweithrediad. Gan hyny rhaid fod yr hwn a gynlluniodd y greadigaeth yn ei hachosion, ac yn ngweithrediad rheolaidd ei deddfau, yn Feddyliwr; ac y mae Meddyliwr yn Berson.

Fel hyn, dygir ni gan osodiadau gwyddonol ein hoes i sefyll ar drothwy teml fawr a gogoneddus Achosion Terfynol, yn yr hon y gwelir y mynegiadau llawnaf o ddoethineb y Meddwl Dwyfol yn cynllunio ac yn cyfaddasu y naill beth ar gyfer y llall mewn trefn i gario allan ei amcanion ei hun. Fel y mae gweledigaeth y bwa yn y cwmwl ar ddydd gwlawog, yr hwn sydd o dan y gwlaw ac yn nghanol y gwlaw, felly hefyd y mae gweledigaeth Achosion Terfynol,—gweledigaeth gogoniant yr Arglwydd ydyw, yn dyfod i'r golwg oddi arnodd, oddi tanodd, ac yn nghanol yr holl greadigaeth.

Bellach, chwiliwn i berthynas achosion terfynol ac achosion effeithiol; yr egwyddor ar yr hon y gorphwysant; eu tynged yn eu perthynas â'r ddamcaniaeth o Ddadblygiad; a pherthynas yr athrawiaeth hon â'r ymresymiad duwinyddol am fodolaeth Duw Personol. Y mae yr ymresymiad oddiwrth achosion terfynol yn ymranu i ddwy gangen; sef yn gyntaf, fod natur yn arddangos trefn, a chyfaddasiad moddion i amcan; ac yn ail, fod pob amlygiad o drefn, neu, yn fanylach, fod pob cyfaddasiad o foddion i ddyben yn tybied dealltwriaeth; neu ymhellach, fod y syniad o ddyben mewn natur yn gyfartal â'r syniad fod Achos cyntaf y gread yn Fôd Deallgar. Ond gadawer i ni edrych yn fyr ar

BERTHYNAS ACHOSION TERFYNOL AG ACHOSION EFFEITHIOL.

Nid ydyw achosion terfynol yn rhoddi cyfrif am ddechreuad dim; yr achos effeithiol sydd yn gwneyd hyny; o ganlyniad, ni pherthyn iddynt yr un swyddogaeth. Nid ydyw achos effeithiol yn dangos pa fodd y cyfunir galluoedd neu ddygwyddiadau i gario allan rhyw ddyben neillduol. Nid y ffaith mai i glywed y bwriadwyd y glust a'i gwnaeth, er fod Lamarck yn ceisio profi mai dymuniad y pysgodyn i ehedeg a roddodd iddo adenydd. Defnyddir yr achos effeithiol i egluro cynnyrchiad, a'r achos terfynol i egluro cyfuniad o bethau i amcan defnyddiol,—*y da*, fel y galwai Aristotle yr achos hwn.

Heblaw hyn, nid ydynt yn gwrthryfela yn erbyn eu gilydd, fel y ceisiwyd profi gan y Proffeswr Newcomb yn ddiweddar, o flaen y "Gymdeithas Americanaidd er Hyrwyddo Gwyddoniaeth." Ond y mae yr achos terfynol mor bell oddiwrth fod yn anghyson, neu yn wrthwynebol, i achos effeithiol, fel y mae natur yn fynych yn cynnwys cyfuniad o achosion effeithiol—y rhai sydd yn ddall eu hunain—wedi eu rhagdrefnu gan yr achos terfynol i amcan neillduol. Os myn Mair addoli pan y mae Martha yn gweithio, ni raid iddi ymguddio i hyny. Ac ni raid i'r meddwl sydd yn alluog i ganfod dau achos yn gweithio mewn natur, er nad ydynt yn cyflawni yr un gwaith guddio, neu ddifodi y naill er mwyn rhoddi lle i'r llall. Onid oes genym brofion mor eglur ag oedd gan Adda, fod y glust wedi ei llunio i glywed a'r llygad i weled; ac onid ydym mewn gallu i ddeall yn llawer gwell nag ef fod y dyben hwn yn cael ei gyrhaedd trwy weithrediad y peirianwaith mwyaf manwl a chywrain? Ni raid gwrthod y syniad peirian-

yddol mewn trefn i dderbyn yr athrawiaeth o achosion terfynol (*teleology*). Mewn trefn i egluro hyn, meddylier fod seryddwr wedi gosod ei delescope ar ben un o fynyddoedd uchaf Cymru i archwilio rhai o'r ser. Byddai yn rhaid i oleuni y seren deithio trwy filiynau o filldiroedd o ether, a thrwy filoedd o filldiroedd o awyr; yna trwy wydrau y telescope, cyn iddo gyrhaedd ei lygad ef; yna trwy y llygad, gyda ei ddeuddeg neu ugain mil o hirgronellau, yn ol Young a Helmholtz, i'r ymenydd. Nid ydyw ei amcan yn cael ei gyrhaedd hyd nes yr argreffir gan y goleuni ddelw y seren yn ei lygad ef. Buasai yr attaliad neu y methiant lleiaf yn y gweithrediad hwn yn ddigon i attal gweledigad eglur o'r seren. Ohid oes yn y cyfryw weithrediad fynegiad amlwg o achos peirianyddol, ac mewn undeb â hyny fynegiad llawn mor amlwg o amcan? Daw yr amcan i'r golwg yn nghyfansoddiad y telescope ac yn nghyfansoddiad y llygad. Yn sicr yr un deall ag sydd yn canfod perthynasau a chysylltiadau mewn achos peirianyddol ydyw yr oll sydd yn eisieu i ganfod cyfuniadau o achosion ag sydd yn cyfansoddi achos terfynol. Neu fel y dywed Paul Janet: "Cyfeiliorna y gwyddonwyr pan yn credu eu bod wedi alltudio achos terfynol o natur ar ol iddynt ddangos pa fodd y mae rhyw fath o effeithiau yn ddeilliaw oddiwrth rhyw fath o achosion."

Dichon fod yr hyn a ddywedwyd ar berthynas y ddau achos yma yn ddigon i ddangos fod y ddau yn dilyn eu gilydd yn wastad. Ac y mae yr hyn a nodwyd yn eu cylch yn ein harwain i ofyn ymhellach,

Ar ba Egwyddor y gorphwys yr Achos hwn?

Dywed Aristotle am yr achos hwn ei hun mai y dyben ydyw ar gyfrif yr hwn y gwneir peth (τὸ οὗ ἕνεκα). Yr *amcan* neu y *dyben* ar gyfrif yr hwn y gwneir unrhyw beth, ac nid achos terfynol (αἰτία τελική) y galwai yr hen Athronydd ef. Yr ysgolwyr a ddechreuodd ei alw yn achos terfynol. Nid y gorchwyl, na chwblhad y gorchwyl, pa beth bynag ydyw, a olygir wrth yr achos hwn, ond y dyben neu y drychfeddwl. Dyna ddyn, er engraifft, yn bwriadu ac yn ymgymeryd âg adeiladu tŷ neu long; neu yn ymgymeryd â dryllio y creigiau neu wrteithio y ddaear; neu yn ymgymeryd â rhyw welliant moesol neu ddeallol: rhaid fod ganddo rhyw ddyben ynddynt oll. Yr achos ei hun, fel y nodwyd, ydyw y dyben, yr hwn sydd yn gwreiddio fel syniad yn y meddwl. Yn ychwanegol at hyn, rhaid fod y dyben yn cynnwys y syniad am foddion neu gyfryngau, mewn trefn i'w gyrhaedd. Fel hyn, gellir dyweyd fod yr achos hwn yn ei wreiddyn yn cynnwys dau ddrychfeddwl cyfunol; sef y drychfeddwl o amcan terfynol, a'r drychfeddwl o foddion cyfaddas i'w gyrhaedd. Gellir dyweyd am y cyntaf, Dyma *ragwelediad;* a gellir dyweyd am yr ail, Dyma *gynllun* i'w gario allan, ac i'w wneyd yn ffaith. Nid ydyw holl athrawiaeth achosion terfynol yn ddim ond effaith rhagwelediad, a hwnw yn cael ei gyrhaedd trwy foddion cyfaddas, neu yn ol cynllun. Heblaw hyn, nid ydym wedi cyrhaedd i waelod y pwnc heb ddyweyd fod y ddau, y rhagwelediad a'r cynllun, yr amcan terfynol a'r cyfuniad angenrheidiol o foddion i'w sylweddoli, yn gorphwys yn *ymwybodolrwydd* yr amcanwr a'r cynllunydd.

Yn awr, y cwestiwn nesaf ydyw hwn:—A yw y ddirnadaeth fewnol

hon yn un o egwyddorion cyntaf, angenrheidiol a chyffredinol y meddwl, fel yr edrychir ar berthynas achos ac effaith? Gwyddom yn dda fod ychydig o egwyddorion sylfaenol, angenrheidiol, a chyffredinol, megys yr egwyddor o unrhywiaeth, yr egwyddor o ofod, yr egwyddor o amser, a'r egwyddor o achosiaeth. Gellir eu cyfleu yn y ffurf ganlynol:—Nis gall gwrthddrych a'i wrthgyferbyniad hanfodi ar yr un foment, ac yn yr un ystyr; y mae pob peth yn hanfodi mewn lle; cymer pob dygwyddiad le mewn amser; y mae gan bob effaith ei achos. Y mae y gosodiadau hyn yn hunanbrofiedig, y rhai a elwir gan Dr. McCosh yn *criteria of various kind of truths*. Yn awr, a ydym i olygu fod yr egwyddor o achos terfynol yn un o egwyddorion cyntaf, sylfaenol, cyffredinol, ac angenrheidiol y meddwl? Ateba un dosbarth o feddylwyr y cwestiwn hwn yn nacäol, ac yn eu plith Paul Janet, yn ei draethawd galluog, ac yn ddiddadl y cyflawnaf a'r galluocaf yn yr iaith Saesoneg, ar achosion terfynol.* Athronydd Ffrengig ydyw y gŵr hwn. Yn ol ei syniad ef, nid ydyw achosion terfynol i'w golygu fel egwyddor sylfaenol y meddwl, ond fel egwyddor a gyrhaeddir trwy gasgliad a dosbarthiad, trwy sylw a phrofiad. "Pe buasai yr egwyddor o achos terfynol," meddai, "yn egwyddor gyntaf, *à priori*, fel yr egwyddor o achosiaeth, gallesid ei chymhwyso ymhob man ac at bob amgylchiad; ond nid ydyw felly." Tybia fod lliaws mawr o arddangosion natur yn hollol amddifad o'r mynegiad o ddyben,—megys ffurf y mynyddoedd, ffurf y cymylau uwch ben, ffurf yr aberoedd tanllyd o lafa a lifant o ffrwydriad y mynydd tanllyd; fod rhai bwystfilod yn meddu dau ben, eraill heb benau o gwbl. A ymlaen i sylwi:—

Nid ydyw yr athrawiaeth o achosion terfynol (*finality*) gan hyny, yn ol ein syniad ni, i'w golygu yn egwyddor gyntaf; *deddf natur* ydyw, yr hon a gesglir trwy sylwadaeth a phrofiad. Golygwn hi yn yr un modd ag y golyga y naturiaethwyr ddeddfau cyffredinol fel *tueddiadau*, fel y dywedant, yn hytrach na deddfau manwl (oblegid eu bod yn wastad i raddau mwy neu lai yn gysylltiedig âg eithriadau)—deddf cynnildeb, deddf rhaniad llafur, deddf cydberthynasiad; felly am ddeddf achosion terfynol, yr hon a ymddengys yn cynnwys y deddfau hyn—tuedd at derfynoldeb, y duedd, yr hon sydd yn amlwg mewn bodau organaidd, ac fel y tybiwn, pethau nad ydynt felly. Swm y cwbl ydyw hyn: nis gellir penderfynu achosion terfynol *à priori* fel ammod angenrheidiol y meddwl; rhaid i ni eu cyrhaedd, eu cadarnhau, a'u dosbarthu trwy archwiliad.

Fel hyn, tra y mae yr awdwr hwn yn ymresymu fod deddf achosiaeth yn "ddeddf angenrheidiol" y meddwl; neu, a defnyddio gair Kant, yn "ddeddf gyfansoddiadol y meddwl," yn ddeddf pob arddangosiad naturiol yn ddïeithriad, yr hon a gadarnheir trwy adgynnyrchiad cyson o'r un math o arddangosion o dan yr un ammodau; myn osod yr egwyddor o achos terfynol i orphwys ar gasgliad a phrofiad.

Yn ol dosbarth arall o feddylwyr, atebir y cwestiwn yn gadarnhaol. Sylwa Jouffrey fel y canlyn:—"Y cyntaf o'r gwirioneddau hyn ydyw fod gan bob bôd ei ddyben. 'Nid oes dim wedi ei lunio yn ofer,' medd Aristotle. A chyfetyb hynyma i'r egwyddor o Achosiaeth (sef y berthynas sydd rhwng yr achos a'r effaith); y mae yn meddu ei holl

* *Final Causes*, by Paul Janet, translated from the second edition by W. Affleck, B.D. With Preface, by Robert Flint, D.D., L.L.D.

brawf, ei holl gyffredinolrwydd, a'i holl angenrheidrwydd, ac nid ydyw ein rheswm yn canfod mwy o eithriad i'r naill nag i'r llall." Eto: "Yr ydym yn gweled mai angenrhaid ydyw fod yr Achos [terfynol] yn cynnwys, gyda y rheswm o ddechreuad, y rheswm hefyd o amcan at yr hwn y mae yn cyfeirio."* Yn awr, ynte, fel y mae deddf achosiaeth yn un o egwyddorion cyfansoddiadol y meddwl dynol, felly hefyd yn ol Jouffrey, Dr. Noah Porter,† a lliaws eraill, yr ydym i edrych ar yr egwyddor o Achos terfynol. Y mae yr achos effeithiol a'r achos terfynol yn gwreiddio yn y meddwl, ac yn gweithredu ar fater oddiallan iddo. Heb achos terfynol nid ydyw yr achos effeithiol ond peth gwag, annirnadwy, am ei fod yn beth hollol anmhenodol; tra nas gall gynnyrchu dim penodol, nis gall gynnyrchu dim o gwbl. Byddai yr achos terfynol ar wahan i'r achos effeithiol yr un mor ddiystyr a gwag, am y rheswm na byddai ond amcan gwag yn unig, cyffelyb i fwriad un i gychwyn am daith i'r Sêr Sefydlog, ac heb y moddion a'r cyfleusderau i gyrhaedd yno. Os ydyw y darnodiad a roddasom o Achos effeithiol yn yr erthygl flaenorol yn gywir, sef mai gweithrediad gallu neu egni a olygir wrtho, yr hwn sydd yn gwreiddio mewn Ewyllys; gallwn ychwanegu yma trwy ddyweyd ei fod, nid yn unig yn ymdrech a benderfynir mewn amser a lle, ond yn ymdrech a chyfeiriad neu amcan penodol iddi. Nid oes y fath beth yn bod ag ewyllysiad cyffredinol heb ewyllysiad neillduol. Os ewyllysio o gwbl, rhaid ewyllysio rhywbeth neillduol,—megys cerdded at y drws, rhedeg ar ol y defaid, codi neu roddi pwysau o'r neilldu, darllen llyfr, &c. Mewn geiriau eraill, rhaid fod gan ewyllysiad bob amser ei ddyben, hyny yw, achos terfynol. Ac ymhellach, rhaid i'r achos hwn yn gyntaf oll fod yn wybyddus yn yr ymwybodolrwydd; oblegid arddangosiad o feddwl, ac nid o fater, ydyw. Nis gall ein profiad ein dysgu ymhellach nag am ganlyniadau achosion yn unig, am y symudiad neu y cyfnewidiad a gynnyrchir; oddiwrth y rhai hyny yr ydym yn casglu rhywbeth ynghylch gwreiddyn a natur y gweithredydd. Trwy brawf yn unig yr ydym yn dyfod i ddeall fod un sylwedd yn toddi mewn dwfr, a'r llall yn caledu; neu bod y tân yn toddi haiarn, ond yn caledu clai. Canlyniad profiad yn unig, meddwn, ydyw ein gwybodaeth mewn materion o'r fath; ond nid felly am ymdrech feddyliol. Mewn ymdrech feddyliol cyrhaeddir y canlyniad am ei fod wedi ei ragweled a'i ragfeddwl, a thrwy hyny ei ddarostwng i gyflawni rhyw amcan neillduol. O ganlyniad, rhaid edrych ar y canlyniad *à priori*, neu fel peth blaenorol i brofiad. Ac heblaw hyn eto, nid oes neb yn barod i addef bodolaeth amcan, pa le bynag y gwelir ef, nad ydyw yr un mor barod i addef bodolaeth perthynas rhwng yr amcan a'r moddion i'w gyrhaedd. Mae y berthynas hon rhwng yr amcan a'r moddion yn treiddio trwy yr holl greadigaeth, ac y mae yn rhaid edrych arni fel sail pob eglurhad o ffeithiau ac arddangosion natur. Y berthynas rhwng yr amcan a'r moddion i'w gyrhaedd a elwir yn *Egwyddor Cyfaddasiad.* Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd fe welir ein bod, nid yn unig yn edrych ar yr athrawiaeth o achosion terfynol fel deddf natur, ond yn tueddu i osod ei phen i

* Gwel y syniad hwn yn cael ei wrthwynebu gan Paul Janet, yn nechreu ei waith ar Achosion Terfynol; ond nid yn llwyddiannus.
† *The Human Intellect*, p. 594. By Noah Porter, D.D., President of Yale College.

orphwys ar yr un egwyddor ag y gorphwys y berthynas a fodola rhwng achos ac effaith—yn un o wirioneddau cyntaf y meddwl. Hyn a olyga y Prifathraw Noah Porter, D.D., pan y mynega fod hanfod yr achos terfynol yn ddarwelediad (*intuition*), yr hon sydd athrawiaeth a gamddeallir gan lawer o'r Saeson. "Teimlir nerth yr ymresymiad hwn," sef yr ymresymiad oddiwrth amcan, medd Joseph Le Conte, "trwy ddarweledlad, ac y mae ei effaith yn anorchfygol i bob meddwl syml, gonest, ac heb ei flino gan gyfrwys-ddadleuon uchaniaeol." Y mae y dybiaeth fod ffeithiau naturiol yn amcanion hefyd, yn amlygu ei hun yn barhaus mewn gwyddoniaeth ddamcanol. Gallwn ddyweyd fod gwyddoreg mor bell oddiwrth ddinystrio darweledlad mewnol y meddwl, fel y mae yn rhaid iddi sefydlu ei hun ar hyn. Neu mewn geiriau eraill, y mae y ffaith o hanfodiad achos terfynol mewn natur yn dyfod yn wirionedd angenrheidiol i wyddoreg ddamcaniaethol, nid yn unig fel casgliad oddiwrth ffeithiau, ond fel gosodiad penodol yn ol yr *à priori*. Neu yn eglurach, y mae yr egwyddor o achosiaeth terfynol, fel y nodwyd yn flaenorol, yn achosiaeth sydd yn gwreiddio mewn ewyllys. Gallu hunanymwybodol ydyw, yr hwn sydd yn symud ymlaen at nôd rhagbenodedig. Y mae egwyddor yr achos hwn yn meddu yr anrhydedd o fod yn *egwyddor gychwynol* pob peth, ac yn *egwyddor derfynol* pob peth.

Gadawer i ni symud ychydig ymlaen eto, i sylw yn fanylach ar yr hyn a nodwyd genym eisoes, sef

YR EGWYDDOR O GYFADDASIAD.

Mae hon yn ymweithio i'r golwg trwy holl ranau y greadigaeth. Y mae y maes hwn mor eang fel y rhaid i ni foddloni ar nodi yn unig ychydig o osodiadau, ac ychydig o'r prif ffeithiau. Ac yr ydym yn dewis nodi yn gyntaf oll y gosodiadau canlynol:—

1. Fod Natur, fel cyfangorff, wedi ei sylfaenu ar amcan.

2. Fod Natur yn arddangos, fel peth cyffredinol a rhesymol, fod y naill beth wedi ei gyfaddasu ar gyfer y llall. "Duw a wnaeth y naill beth ar gyfer y llall."

3. Fod Natur yn amlygu yn llawn fod moddion yn cael ei ddefnyddio i gyrhaedd dyben penodol.

Gwasga y gosodiadau hyn eu hunain arnom yn barhaus, a hyny yn llawn mor nerthol ac argyhoeddiadol i'r meddwl ystyriol â phe buasent wedi cael eu hargraffu ar draws gwynebau tanllyd holl heuliau y greadigaeth. Cododd yr Atheniaid allor, ac yn ysgrifenedig arni, "I'r Duw Nid Adwaenir." Yr oedd yr allor hon yn mynegu, nid yn unig fod ganddynt hwy ddirnadaeth am y fath Dduw, ond fod ganddynt amcan neillduol wrth ei chodi. A phe buasai y tri gosodiad uchod wedi eu hargraffu ar wynebau yr holl heuliau, fel y gallesid eu darllen o bob byd perthynol iddynt, ni fuasai y syniad o amcan yn gwasgu ei hun ar ein meddwl yn fwy nerthol ac anwrthwynebol nag y gwna eisoes wrth i ni edrych ar natur. Ac nid oes neb yn barod i addef bodolaeth amcan, heb ar yr un pryd fod yn llawn mor barod i gydnabod fod perthynas rhwng y moddion a'r amcan sydd mewn golwg. I'r rhai hyny sydd yn edrych trwy lygaid y wyddoreg fwyaf cywir, y maent wedi eu hysgrifenu ar bob haul; ac nid arnynt hwy yn unig, ond ar

bob gwrthddrych naturiol—y moroedd, y mynyddoedd, y coedwigoedd, pob llysieuyn, y cyfansoddiad dynol—*pob peth.*

Wrth ddyweyd fel hyn, nid ydym yn golygu fod pob peth ar ei ben ei hun, trwy holl ymherodraeth eang natur, yn arddangos amcan, ond eu bod yn gwneyd hyny fel y maent yn rhan o'r cyfan. Ymddengys arddangosion natur weithiau, nid yn unig yn deg ac agored, ond yn chwareus, ac hyd yn nod yn dwyllodrus a siomedig. Os ydyw cymdeithas weithiau yn arddangos ei hun y peth nid ydyw, gwna natur yr un peth. Ceir ganddi hedyn gwyllt a gwenwynig, yr hwn sydd mor debyg i wenith da fel nad ellir ei wahaniaethu oddiwrtho oddieithr yn ei effeithiau. Ac er mai Hanesiaeth Naturiol sydd yn ein cynnysgaeddu â'r nifer liosocaf o ffeithiau i brofi achosion terfynol, eto o fewn y maes hwn fe geir rhai ffeithiau gwrthwynebol iddynt. Weithiau canfydda y naturiaethwyr fod gan rai creaduriaid organau nad ydynt yn gallu deall pa ddyben sydd iddynt, fel y bledren yn y cyfansoddiad dynol; bryd arall, canfyddant fod yr un organ yn cyflawni amryw ddybenion, a'r rhai hyny yn wahanol hollol i'w gilydd. Hefyd, tybiant eu bod yn gweled mewn rhai creaduriaid organau hollol ddiddefnydd.* Dygir y rhai hyn a'r cyffelyb ymlaen gan rai naturiaethwyr i geisio gwrthbrofi yr athrawiaeth o achosion terfynol. Atebir hwy yn dra llwyddiannus gan Paul Janet.† Ond tra yr edrychir ar natur fel un gyfundrefn, gwelir fod yr amcan a amlyga ei hun yn yr oll yn cyrhaedd yr holl fanylion hefyd, a hyny ar sail prawf nad ellir ei wrthod heb ar yr un pryd wrthod pob cyfatebiaeth ag sydd yn cyfeirio yn uniongyrchol a nerthol at ein meddwl. Mewn undeb â chorff y gellir deall yr amcan sydd i'r llygad a'r glust. Yn ei hundeb â'r llaw y gellir deall amcan y fawd. Neu ynte, dyna ddyn yn casglu ynghyd ddefnyddiau at adeiladu tŷ—ceryg, priddfeini, calch, coed; fe ŵyr pawb fod ganddo amcan yn ei feddwl, a hwnw yn amcan penodol, yr achos terfynol, yr hwn sydd yn esbonio dyben y fath gasgliad. Yn awr dyma yr egwyddor ag y mae yn rhaid sefyll arni yn y mater hwn—*Pa beth bynag a benderfynir yn y presennol gan y dyfodol, rhaid fod ganddo ddyben neu amcan.* Pan y cyfunir ynghyd wahanol arddangosion i'r dyben o gynnyrchu canlyniad terfynol, yr hwn nad allai gynnyrchu ei hun mwy nag y gallai defnyddiau tŷ osod eu hunain i fyny yn dŷ heb i ryw un eu defnyddio mewn modd deallgar i'r amcan hwnw. Y foment yr amlyga unrhyw beth fwriad, cynllun, a darpariaeth at y dyfodol, y mae o fewn tiriogaeth amcan. Y mae y cynllun, yr hwn sydd yn cyfuno arddangosion gwahanol ynddynt eu hunain, mewn trefn i gyrhaedd amcan, yn edrych i'r dyfodol, ac yn defnyddio moddion cyfaddas, y rhai sydd o fewn natur, mewn trefn i'w gyrhaedd. Dywed Paul Janet fel y canlyn: "Pan y mae cyfuniad o arddangosion, y rhai y gellir eu hegluro trwy gyfeirio yn syml at eu hammodau rhagflaenol, nid oes yn hyn ddim mwy na'r berthynas o achos ac effaith. Ond pan y mae cyfuniad, mewn trefn i ddyfod yn ddealladwy, rhaid i ni gyfeirio nid yn unig at yr ammodau rhagflaenol, ond at ei ganlyniadau dyfodol, am nad ydyw y berthynas syml o achos ac effaith yn ddigonol; y mae wedi ei

* Darwin, *Origin of Species*, 5th ed., pp. 227, 228.
† *Final Causes*, pp. 167—172.

drosglwyddo i'r berthynas o *foddion a dyben.*" Yn y goleuni hwn ymddengys yr holl greadigaeth fel *gigantic teleological construction.*"

Y mae yr egwyddor o gyfaddasiad, fel y nodwyd, yn golygu trefniad o foddion neu weithredyddion i gyrhaedd dyben neillduol. Ac y mae yn rhaid iddynt fod wedi eu cynnysgaeddu â'r cyfryw allu, ac â'r cyfryw berthynas y naill a'r llall, fel y maent yn gyfaddas hollol i gynnyrchu ffeithiau; hyny yw, rhaid i bob moddion, neu bob gweithredydd, fod mor gymhwys i gynnyrchu yr hyn a wna, fel nad all gynnyrchu dim arall. Gwelwn engreifftiau o hyn—

1. Yn y byd elfenol. Yma gwelir y nerthoedd elfenol mwyaf, a'r rhai hyny yn gwbl wrthwynebol i'w gilydd, wedi eu cydgyfaddasu yn y fath fodd fel y mae undeb a chynghanedd natur yn dibynu ar eu cydweithrediad. Meddylier am y pedair elfen fferyllol sydd yn cyfansoddi y bywyd organaidd, sef yr *oxygen*, yr *hydrogen*, y *carbon*, a'r *nitrogen*. Yr *oxygen*, dyma yr elfen fwyaf fflamllyd—rhïant tân; *hydrogen*, dyma y sylwedd adnabyddus mwyaf di-dân; y *carbon*, y mae hwn wedi ei dynghedu i losgi; y *nitrogen*, dyma ddefnydd y powdr gŵn, a'r hyn a elwir *nitro-glycerine*. Eto, mor ogoneddus y mae y nerthoedd elfenol hyn wedi eu cywrain gydgyfaddasu mewn cyfartaledd mor fanwl fel y maent yn adeiladu pob corff bywydol. Pe dygwyddai y graddau lleiaf o anghyfartaledd rhyngddynt, ni fyddai yn bosibl i un math o fywyd—llysieuol, anifeilaidd, na dynol—fodoli; ïe, byddai mesur o anghyfartaledd rhwng yr elfenau hyn â'u gilydd yn ddigon i rwygo y ddaear yn yfflon, a pheri iddi ymddangos, fel yr ymddengys y lleuad yn bresennol i lygaid y serydd wr, yn fyd wedi ei ddinystrio. Fel hyn, gwelwn fod llïaws o nerthoedd yn gweithio yn ddiorphwys mewn natur ag y byddai yr anghyfartaledd lleiaf rhyngddynt yn ddigon i droi yr holl greadigaeth yn afluniaidd a gwag; ond y maent wedi eu cydgyfaddasu yn y fath fodd gan y Fferyllydd Dwyfol fel y mae undeb, trefn, prydferthwch, a bywyd y greadigaeth, yn dibynu ar eu cydgyfaddasiad a'u cydweithrediad.

2. Yn y byd organaidd y gwelir hyn yn dyfod i'r golwg amlycaf. Gellir dyweyd mai y cyfaddasiad bwriadol hwn ydyw ammod bodolaeth organiaeth fywydol, yr hwn sydd yn amlygu ei hun yn ei chenedliad, yn ei dadblygiad, ac yn ei hamcan eithaf. "Dyma *egwyddor lywodraethol* y bywyd organaidd," fel ei gelwir gan Claude Bernard, yr hon yn unig sydd yn egluro ei ffurfiad a'i gyfansoddiad yn ol cynllun penodol, a'r hon sydd yn cynnwys trefniad a chyfuniad o'r holl elfenau y rhai sydd yn gwneyd i fyny y math, y *type* rhagfwriadedig. Preswylia yn guddiedig ymhob hedyn bywydol, y drychfeddwl creadigol, yr hwn a ymweithia i'r golwg yn nadblygiad ei gorff. Sylwer ar hyn. Yn y gallu ffurfiol, neu y drychfeddwl creadigol, y gwreiddia holl neillduolrwydd pob corff cyfluniol, ac nid yn yr elfenau anian-fferyllol sydd yn ei adeiladu. Y drychfeddwl creadigol sydd yn rhedeg trwy bob organiaeth fywydol, a hyny o dan ammodau neillduol ac yn ol cynllun penodol. Y drychfeddwl hwn, ac nid cydweithrediad elfenau fferyllol, sydd yn diogelu unrhywiaeth pob peth bywydol, fel y mae pob hedyn yn cael ei gorff ei hun. Meddylia rhai esbonwyr fod amlinelliad neu ddelw o gorff pob dyn ar ei enaid ef, fel y mae delw o'r goeden ar gefn pob deilen sydd yn tyfu arni; neu fel y mae delw o'r holl gorff yn y

llaw; ac mai y ddelw hon fydd yn diogelu unrhywiaeth y corff yn yr adgyfodiad cyffredinol. Yn yr adgyfodiad llenwir i fyny y corff, yn ol y dybiaeth hon, yn ol y ddelw o hono ag sydd ar yr enaid. Pa fodd bynag am hyn, dengys natur fod gan bob bywyd ei gynddelw, ei ddrychfeddwl creadigol, yr hwn, tra yn ymguddio ei hun yn natur y bywyd, sydd ar yr un pryd yn dadguddio ei natur ef. Trwy ei holl hanfodiad fe erys pob cyfluniaeth neu organiaeth fywydol o dan ddylanwad ac yn ngafael y drychfeddwl creadigol hwn. Hwn, meddwn, sydd yn gweithio pob peth ymlaen at ei ddyben.

Os edrychwn ymhellach ar egwyddor cyfaddasiad yn ngoleuni a gwasanaeth rhyw organ neillduol mewn corff cyfluniol, hawlia y llygad y lle blaenaf. Dyma ffenestr y bywyd; ac ar hon tynir delw gan y goleuni o'r pethau sydd o'n hamgylch ac o fewn cyrhaedd ein golwg. Adeiledir ffenestr bob amser er mwyn bod yn gyfleusdra i'r preswylydd sydd oddimewn i ddal cymundeb â'r hyn sydd oddiallan, ac nid er mwyn bod yn gyfleus i edrych i mewn i'r tŷ. Pa bryd bynag yr ydym yn gweled llygad byw, yr ydym yn y fan yn casglu fod yno rhyw fod yn byw y tu ol iddo. Ac y mae ei lygad ef wedi ei osod fel ffenestr, a hono bob amser yn ymyl ei ymenydd, trwy yr hon y derbynia ei wybodaeth am y gwrthddrychau sydd o'i amgylch. Y tu ol i lygad yr anifail y mae ei holl reddfau a'i nwydau a'i flysiau. Y tu ol i lygad dyn y mae—nid yn unig ei flysiau a'i dueddiadau, perthynol i'r bywyd anianol, ond ei ewyllys, ei serch, ei ddeall, ei gydwybod a'i reswm,—ei holl ysbryd fel bôd anrhanadwy. Deil hwn gymundeb â'r byd allanol, a'i holl arddangosion a'i wrthddrychau, y rhai a gyflwynir iddo trwy y ddelw a dynir gan y goleuni o honynt ar rwydleni y llygaid. Cyflwynir egwyddorion pethau i'r ysbryd trwy y glust heb ddarlun o honynt; canys pa ddelw a osodir i egwyddorion? Ond cyflwynir gwrthddrychau ac arddangosion natur i'r enaid trwy y ddelw a dynir o honynt ar y llygad. Heb y ddelw hon, ni allwn ganfod dim yn gywir. Y mae dau fath o olwg, sef yr un cyffredinol a'r un neillduol. Nid ydyw y cyntaf yn golygu dim mwy na bod goleuni yn cyffwrdd â gewyn dyner y llygad. Byddai y cyffyrddiad hwn yn ddigon i'n galluogi i wahaniaethu rhwng nos a dydd; ond nid i weled yn benodol. Mewn trefn i weled gwrthddrychau yn eu maint priodol, ac yn eu lliw eu hunain, rhaid i'r goleuni dynu delw o honynt ar rwydleni y llygad, yr hyn sydd yn gofyn am weithrediad neillduol a chywrain dros ben, yr hwn sydd yn dra thebyg i'r gweithrediad sydd yn cymeryd lle yn arlunbeiriant y *photographer* pan yn tynu darlun.

Mewn trefn i weled y gweithrediad hwn yn eglurach, gadawer i ni edrych arnynt yn eu cyferbyniad â'u gilydd.

1. Ystafell fechan, dywell, yn agored yn ei gwyneb yn unig i'r goleuni fyned i mewn iddi, ydyw yr arlunbeiriant (*camera*), gyda gwasgodlen wedi ei lleoli yn briodol yn ei gefn. Heblaw hyn, rhoddir haen o *lamp black* dros yr holl ystafell oddimewn, mewn trefn i attal adlewyrchiad lleiaf goleuni ynddi, oddieithr y goleuni sydd yn rhedeg i mewn oddiwrth y gwrthddrych y tynir ei ddelw. Byddai adlewyrchiad goleuni o ochrau yr ystafell yn dinystrio eglurder y ddelw ar y wasgodlen sydd ar y cefn. Yr un modd am y llygad dynol. Ystafell fechan, dywell ydyw, a gwasgodlen yn ei chefn, y *retina*, yr hon

sydd wedi ei gwisgo â math o sylwedd du, yr hwn sydd wedi ei fwriadu i attal pob math o adlewyrchiad goleuni yn y llygad oddieithr y goleuni sydd yn llifo i mewn trwy agoriad bychan yn y gannwyll, oddiwrth y gwrthddrychau sydd yn bresennol i'r llygad, ac yn tynu eu delw ar y wasgedlen wleb sydd ar y cefn.

2. Er fod y goleuni yn treiddio trwy agoriad yn mhen blaen y naill a'r llall, ac yn disgyn ar y rhwydlen y tu ol iddynt, eto nid ydyw hyn yn ddigon i dynu delw gyflawn. Y mae yn rhaid wrth ddau beth i ffurfio delw gyflawn a pherffaith. Yn gyntaf, rhaid i'r goleuni sydd yn rhedeg oddiwrth un gwrthddrych gael ei *wahanu*, ei *ddidoli* yn hollol, oddiwrth y goleuni a lifa oddiwrth wrthddrychau eraill. Tuag at gyrhaedd didoliad hollol, rhaid i'r goleuni redeg oddiwrth bob pwynt i wrthddrych a disgyn yn unig ar y pwynt cyferbyniol yn y ddelw; felly ni bydd cymysgedd yn y ddelw o oleuni yn llifo oddiwrth wahanol wrthddrychau. Yn ail, rhaid i'r ddelw fod yn *glir* ac yn *amlwg*. I gyrhaedd hyny, rhaid i ddigon o oleuni syrthio oddiwrth wrthddrych ar y ddelw. Yn awr, sylwer ar yr anhawsder. I'r graddau y mwyheir yr agoriad—dyweder, canwyll y llygad—i ollwng mwy o oleuni i mewn ar y wasgcdlen gefn, i'r un graddau lleiheir didoliad y ddelw. Ar y llaw arall, os lleiheir yr agoriad, daw y ddelw yn fwy didoledig a phenodol; ond y mae yn colli i'r un graddau mewn eglurder. Yn awr, tuag at gyflenwi y diffyg hwn, fe geir gwasanaeth y cromlain (*lens*). Os bydd y *lenses* wedi eu llunio yn gywir, ac wedi eu gosod yn briodol yn yr arlun-beiriant, y maent yn casglu ynghyd ac yn cyfleu y goleuni oddiwrth filoedd o wahanol bwyntiau, fel pe yn ei godi allan ac yn ei wahanu oddiwrth wrthddrychau eraill, ac yn ei osod yn ei le priodol ar y ddelw. Fel hyn, am bob pwynt goleu ar wrthddrych, ceir pwynt goleu cyferbyniol ar y ddelw; ac fel y mae gwrthddrych yn meddu nifer mawr o bwyntiau goleu, gwneir i fyny y ddelw o bwyntiau goleu afrifed cyferbyniol. Trwy y gweithrediad dirgel a chywrain hwn o eiddo y *lens* yn yr arlun-beiriant ac yn y llygad, llunir delw, yr hon sydd ar unwaith yn *ddidoledig* ac yn *eglur*.

3. Yr ydym wedi tynu cymhariaeth rhwng y llygad ag arlun-beiriant yr arlunydd ; ond gellir nodi ymhellach mai y rhan ryfeddaf o'r cyfan ydyw y trefniad celfyddydol, yr hwn sydd mor guddiedig fel ag i ddianc yr ymchwiliad manylaf, drwy yr hwn y gall y llygad newid yn ddisymwth o edrych ar wrthddrychau pell i edrych ar rai agos. Y mae y llygad yn meddu gallu ynddo ei hun, fel y dangosir gan Helmholtz, i weithredu fel chwyddwydr trwy newid ei *lenses*.

Ond nid yw y ddelw ei hun, yn yr arlun-beiriant ac yn y llygad, ond *moddion* yn unig i gyrhaedd *amcan* uwch: yn y cyntaf, i gynnyrchu darlun ; yn yr olaf, i gynnyrchu gwelediad. Gwelir yn y naill a'r llall y cyfaddasiad mwyaf cywrain o ddeddfau anianyddol i gyrhaedd amcanion neillduol. Gwelir yn y llygad hefyd, yr hyn sydd uwchlaw gweithrediad pob deddf mewn anianeg a fferylliaeth, oblegid gall ef adnewyddu ei hun, heb gael ei adnewyddu ; cyfaddasu ei hun, ac heb gael ei gyfaddasu. I'r hwn sydd yn meddu dau lygad, cyflwynir pob gwrthddrych gweledig i'w feddwl trwy un ddelw o honynt, tra y mae dwy ddelw yn ei lygaid—un ymhob llygad. Po fwyaf a chwilir i gyf-

ansoddiad yr organ fechan hon, mwyaf oll ydyw dirgelwch ei gweithrediad. Nid yw gwyddoreg yn gallu egluro na lleihau dirgelion natur, ond eu mwyhau. I'r graddau y mwyheir terfynau yr amgyffredadwy, mwyheir terfynau yr anamgyffredadwy. Y mae yr amgyffredadwy fel cylch bach o oleuni yn nghanol cylch mawr o dywyllwch yr anamgyffredadwy. Yr oll a welir yn arlun-beiriant yr arlunydd ac yn y chwyddwydr, ydyw gweithrediad peiriannol, anianyddol, a fferyllol. A chan mai cynnyrch y deall dynol ydynt, beth yn amgen ellid ddysgwyl? Tra yn y llygad, gwelir gweithrediad peiriannol cyffelyb iddynt, ynghyd a chyfaddasiad o ddeddfau anianyddol a fferyllol cyffelyb, ond i *amcan penodol*. Dyna y gwahaniaeth rhyngddynt. Yn y llygad arweinir ni at rywbeth anamgyffredadwy y tu ol i'r celfyddydol, yr anianyddol, a'r fferyllol. Y mae y dwyfol yn sefyll yma yn nghanol yr anianyddol. Fel yr oedd yr Athraw Dwyfol yn sefyll yn nghanol ei ddysgyblion ymgynnulledig ar y mynydd, ac fel yr oeddynt yn edrych arno, Efe a esgynodd i fyny o'u canol hwynt, gan arwain a thynu eu llygaid hwynt i edrych i'r nef, a "chwmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt;" felly am holl arddangosion natur. Pan ydym yn manwl sylwi ar natur, cyfaddasiad y naill beth ar gyfer y llall, ac yn neillduol ar weithrediadau greddfau ac organau cywrain, fel y llygad, y glust, y galon, &c.,—yr amlygiad a geir ynddynt o ddealltwriaeth, o ddyben, ac o Achosion terfynol,—yr ydym yn canfod y Dwyfol yn sefyll megys yn ein canol, ac yn esgyn i fyny o'r terfynol a'r amgyffredadwy i'r annherfynol a'r anamgyffredadwy.

Y cwestiwn nesaf ydyw, Beth yw tynged Achosion terfynol yn eu perthynas â'r

DDAMCANIAETH O DDADBLYGIAD?

Nid oes neb yn meddwl nad oes gan yr athronydd a'r duwinydd hawl gyfreithlawn i ymholi pa fodd y cydsaif y ddamcaniaeth hon âg egwyddorion amlycaf athroniaeth a duwinyddiaeth. Ni raid iddynt symud eu pabell oddiar y tir y pabella y dadblygwyr eu hunain arno mewn trefn i wneyd hyn. Gallant ymaflyd ynddynt ar eu tir eu hunain. Derbynia rhai athronwyr duwinyddol, fel Dr. McCosh, y ddamcaniaeth hon fel gwyddoreg â chymaint o bosibilrwydd yn perthyn iddi fel ag i'n galluogi i esbonio trwyddi hi *ddull y Greadigaeth;* ac amcanant ddangos ei bod yn hollol gydweddol â'r syniad Cristionogol am Dduw. Haerir ei bod yn hollol gyson â'r syniad am achosion terfynol, a'i bod yn agor o'n blaen y dull trwy yr hwn y gweithreda gallu, neu achos. Prin y gallwn daflu ein hunain mor bell ag y gwna Dr. McCosh gyda'r ddamcaniaeth hon, pan yn dyweyd ei bod "wedi ei gweithio allan," "wedi ei phrofi," "wedi ei harddangos." Mwy dewisol genym sefyll yn wylaidd wrth babell y meddylwyr hyny a edrychant ar y ddamcaniaeth ddadblygiadol fel un sydd yn fwy neu lai priodol i egluro dull y greadigaeth, ond fel un sydd wedi bod yn analluog hyd yn hyn i roddi cyfrif am arddangosion natur. Nid ydyw eto wedi cael caniatâd i eistedd yn nheml Gwyddoriaeth, ond gorfodir hi i sefyll ar ei thraed yn llys barn yr oes, nid fel troseddwr, ond fel tyst; ac i'n tyb ni, y mae yn methu a dal y prawf. Y mae Darwiniaeth, fel seren y boreu, ar suddo o'r golwg mewn goleuni cryfach; ac y mae Spenceriaeth wedi

ymaflyd mewn gorchwyl rhy fawr, a rhy anhawdd i'w gyflawni, ac yn dechreu marw eisoes o dan ei bwysau.

Bydded i'r darllenydd gofio fod gwahaniaeth pwysig rhwng y ddamcaniaeth hon fel y delir hi gan Darwin a chan Spencer. Yn llaw y cyntaf, math o ddamcaniaeth ydyw ar hanesiaeth naturiol, yn cyfyngu ei hun i derfynau Bywydeg, ac o fewn y terfynau hyny yn ymdrafod âg ammodau bywyd, ac yn ceisio profi fod bywyd y greadigaeth wedi bod yn rhedeg gyrfa faith, ac wrth redeg ei fod wedi trawsnewid, a hyny yn ol deddf benodol, o ffurfiau îs i rai uwch, o'r anmherffaith i'r perffeithiach. Nid ydyw Darwin yn amcanu alltudio y syniad o achosion terfynol o derfynau amser a lle. Yr un pryd, nid ydoedd yn credu ynddo. Pan y traetha ar lïaws o ffeithiau o dan yr enw cyffredinol Ffurfnewidiaeth (*Morphology*), dywed: "Nis gall dim fod yn fwy anobeithiol na'r ymdrech i egluro yr unweddiaeth hwn mewn cynddelwau mewn aelodau o'r un dosbarth trwy leoldeb, neu yr athrawiaeth o achosion terfynol." Y flwyddyn olaf y bu byw, talodd ymweliad â'r Duc o Argyle yn Llundain. Yn ystod yr ymddyddan rhyngddynt, dywedodd y Duc wrtho fod yn anmhosibl edrych ar weithrediadau rhyfeddol natur heb weled eu bod yn arddangosion ac yn effeithiau o feddwl. Edrychodd Darwin yn graff arno a dywedodd: "Wel, y mae hyn yn gwasgu ei hun arnaf yn fynych gyda nerth anorchfygol; ond waith arall (gan ysgwyd ei ben) ymddengys yn ffoi ymaith." Llefara Darwin am ddadblygiad fel dull, ac nid fel achos o ganlyniad. Ni byddai yn deg ei gyhuddo o annuwiaeth, nac o amcan i dori asgwrn cefn yr ymresymiad oddiwrth amcan, yr hwn sydd yn profi bwriad. Y mae ei ddadblygiad ef yn ganlyniad "Dosbarthiad Naturiol;" hyny yw, yn ol ei eglurhad ef ei hun: "Anhawdd ydyw peidio a phersonoli natur; ond yr hyn a olygwyf wrth natur ydyw gweithrediad casgliadol yn unig, a chynnyrch llïaws o ddeddfau; ac wrth ddeddfau, dilyniad o ddygwyddiadau fel y penderfynir hwy genym ni." Ond pa le y mae gwraidd ei Fywydeg ddadblygiadol? Dyma ei atebiad: "Pan yr edrychwyf ar bob creadur, nid fel creadigaeth neillduol, ond fel disgyniad unionlinellol o ychydig o fodau a fu byw yn hir cyn gwaddodi gwely cyntaf y gyfundrefn Siluriaidd, hwy a ymddangosant i mi yn ardderchog." Gwelir nad ydyw Darwin yn gwadu na chrewyd rhyw ychydig o bethau bywydol rywbryd yn ol. Gwelir fod ganddo Dduw, yr hwn a ddygwyddodd ddeffro o'i gwsg yn ddigon hir i anadlu bywyd i ryw ychydig o ffurfiau materol yn unig, a hyny ryw hanner tragywyddoldeb yn ol; yna, syrthiodd yn ol i gysgu, ac y mae heb ddeffro byth. Ond pe ddygwyddai ddeffro, cai weled fod y bywyd a anadlodd i ychydig, neu un, o ffurfiau materol, wedi llïosogi, ac wedi esgyn i fyny o'r glaswellt a'r chwŷn i goed mawrion a ffrwythlawn; o'r ymlusgiad isaf hyd at ddyn! Ond y mae y ddamcaniaeth hon ymhell o fod wedi ei phrofi fel esboniad ar ddadblygiad organiaeth fywydol, ac y mae y dybiaeth o drawsnewidiad rhywogaethau yn cael ei churo i lawr gan ffeithiau o bob cyfeiriad. Ymhellach, pe buasai wedi llwyddo i brofi ei thybosodiadau, ni buasai trwy hyny yn effeithio ar y cwestiwn o achosion terfynol tra yn cadw o fewn terfynau gwyddoreg, ac heb neidio i derfynau uchanianaeth, a chymysgu y cwestiwn Pa fodd, gyda'r cwestiwn Paham. Yn wir,

y mae y ddamcaniaeth o ddadblygiad gan Darwin yn fynegiad o'r egwyddor fwyaf cywrain a chymhlyg o gyfaddasiad y naill beth ar gyfer y llall.

"Yn ol fy meddwl i," medd y naturiaethwr enwog Agassiz, "nid oes dim yn dangos gweithrediad meddwl bwriadol yn fwy uniongyrchol a hollol na'r holl ddosbarthiadau hyny ar ba rai y mae rhywogaethau, tylwythau, trefn, a dosraniadau, wedi eu sefydlu mewn natur; nid oes dim yn awgrymu yn eglurach fod ystyriaeth bwyllog ar y pwnc hwn, na'r amlygiad cywir o'r holl nodweddau hyn trwy ddilyniad o unigolion y rhai y mae eu bywyd wedi ei gyfyngu i amser cymharol fyr. . . Tra y mae rhywogaethau yn parhau am gyfnodau meithion, y mae yr unigolion sydd ynddynt yn newid yn barhaus, ac yn meirw y naill ar ol y llall, yn olynol. Nid oes dim yn y deyrnas anorganaidd yn gwasgu ei hun mor nerthol arnom â'r unoliaeth cynllun ag sydd yn amlygu ei hun yn nghyfansoddiad gwahanol rywogaethau. O begwn i begwn, dan bob llinell canolddydd, amlyga y tethogion, yr adar, yr ymlusgiaid, y pysgod, yr un cynllun cyfansoddiadol. Amlyga y cynllun hwn ddirnadaeth ddansoddol o'r fath fwyaf dyrchafedig, ac y mae yn tra rhagori ar y dosbarthiad trefnol eangaf o eiddo meddwl dyn, a rhaid wrth yr ymchwiliad manylaf i alluogi dyn i gyrhaedd rhyw fath o ddrychfeddwl priodol am danynt. . . . Eto, dywedir wrthym fod y perthynasau rhesymegol hyn, yr undeb rhyfeddol hwn, yr amrywiaeth diderfyn yma mewn unoliaeth, yn effeithiau egnïon cwbl amddifad o ddealltwriaeth, o feddwl, o allu i gyfuno, neu ddirnadaeth o amser a lle. Os oes dim mewn natur yn dyrchafu dyn uwchlaw anifeiliaid y maes, y meddiant o'r gallu hwn sydd yn gwneyd hyny. Heb y doniau hyn, y rhai sydd yn ein codi i ystad uwch o ragoroldeb a pherffeithrwydd, nis gallasai un o'r nodau cyffredinol o berthynas ag sydd yn cysylltu llwythau mawrion y deyrnas lysieuol ac anifeilaidd fod yn ganfyddadwy a dealledig. Pa fodd, gan hyny, y gallasai y perthynasau hyn fod yn ddealledig ond trwy gymhorth galluoedd cyfatebol? Os yw y perthynasau hyn y tu hwnt i alluoedd deallol dyn i gydio ynddynt, os nad yw dyn ei hun yn ddim ond darn o'r holl gyfundrefn, pa fodd y gallesid galw y gyfundrefn i fod os nad oes dealltwriaeth uwch, sydd yn Awdwr pob peth?"*

Yn llaw Spencer y mae y ddamcaniaeth ddadblygiadol yn gwisgo gwedd fwy beiddgar a herfeiddiol. Amcana efe esbonio tarddiad ac achos cyntaf pob peth trwy weithrediad achosion a deddfau anianyddol. Ymgymera â phenderfynu y cwestiwn o darddiad y ddynoliaeth trwy dybied ei bod yn bodoli mewn mater difywyd, a bod cadw hunandarddiad yn cysylltu gronynau poethion y ser-lwch nofiedig â'r byd cyflawn a gorphenedig, ac hyd yn nod â dyn. Y mae ei ddamcaniaeth ef yn ddigon eang i gynnwys pob peth mewn creadigaeth, yn faterol, bywydol, cymdeithasol, moesol, a chrefyddol. Dyma yr ymdrech benaf a wnaed erioed i gyfansoddi creadigaeth trwy weithrediad egnïon peiriannol, a hyny heb Dduw, heb amcan, ac heb y bwriad lleiaf i ddangos bodolaeth y fath beth â'r syniad o Achos terfynol. Y mae calon y ddamcaniaeth hon yn faterolaidd a di-Dduw, ac y mae rhai o'i hamddi-

* Address delivered by Agassiz to the University of Massachusetts.

ffynwyr mwyaf aiddgar, fel Fiske ac Abbott, yn troi cefn arni. Addefa y diweddaf fod y greadigaeth yn amlygiad o gynllun; fod y cynllun hwnw yn ffrwyth Dealltwriaeth Anfeidrol; fod y gwirionedd hunanbrofedig o Enaid yn treiddio trwyddo; a bod athrawiaeth yr "Anwybyddadwy," yr hon sydd yn ceisio gosod ei hun yn sail i athroniaeth, yn freuddwyd gwag ac afresymol. Yn ol awdurdod mor uchel â'r Proffeswr Cope, y mae dadblygiad beiriannol—yn Lloegr, yn Germany, ac yn America—yn encilio yn raddol o'r ffordd i roddi lle i ddadblygiad organaidd. Pa beth a olygir wrth hono? Dyma ydyw: y ddadblygiaeth sydd yn rhoddi ei le ei hun i Dduw yn ei greadigaeth ei hun. Y ddadblygiaeth sydd yn edrych ar weithrediadau yr Achosydd Personol hwn fel mynegiad o gynllun, fel y mae gwaith y peirianydd medrus yn fynegiad o gynllun. Y mae gweithrediad yr Achos hwn trwy yr holl greadigaeth mewn undeb â gwirioneddau hunan-brofedig, y rhai a gydnabyddir o angenrheidrwydd gan ein meddyliau. Y mae Efe yn treiddio trwy yr holl greadigaeth; yn Fywyd ei holl fywyd; fel awyr o'i hamgylch, a'r greadigaeth oll fel cymylau yn nofio ynddo. Ac nid yn unig y mae Efe o'i hamgylch. ond y mae Efe ynddi, fel y mae goleuni yn y ffurfafen. Efe sydd wedi rhoddi, ac yn rhoddi iddi ei holl ffurfiau a'i holl gynddelwau, fel y mae y cymylau yn derbyn eu ffurfiau gan yr awyr sydd o'u hamgylch ac ynddynt. Ac y mae y ffurfiau a'r cynddelwau hyn—pob peth gweledig—wedi arwain meddyliau dynion fel Socrates a Cicero, yn foreu yn hanes y byd, i ymresymu fod Creawdwr yn bod, a bod ei amcanion i'w gweled yn ei weithredoedd. Nis gellir egluro trefu anianyddol, ddeallol, a moesol y greadigaeth, trwy un math o egni materol a pheiriannol; rhaid cael meddwl i'w egluro. Dull gweithrediad y meddwl hwn, ac nid galluoedd ac achosion, ydyw deddfau natur. Arddengys natur gynllun, ac amcan, a chyfaddasiad; ac nid ydyw cynllun cyn ei gyflawni yn ddim ond meddwl; ond y mae cynllun wedi ei gyflawni yn dadguddio Meddyliwr; ac y mae Meddyliwr yn Berson.

JOSEPH ROBERTS.

*Racine, Wisconsin.*

# PRYDAIN FAWR A'R FASNACH MEWN GWLYBYROEDD MEDDWOL YMHLITH BRODORION INDIA AC AFFRICA.

Y MAE y testun hwn yn addef ffaith ac yn awgrymu cwestiwn. Y ffaith: fod masnach mewn gwlybyroedd meddwol yn cael ei dwyn ymlaen ymhlith cenedloedd brodorol India ac Affrica; a'r cwestiwn: pa beth sydd a wnelo Prydain Fawr â hyny? Y ddau beth hyn—y ffaith a'r cwestiwn—a ddeuant yn bresennol dan sylw.

Y mae y testun yn addef, neu yn cymeryd yn ganiatäol, y dygir ymlaen fasnach mewn gwlybyroedd meddwol ymhlith poblogaeth frodorol India ac Affrica. Nid oes angen am brofi hyn fel ffaith; y mae bodolaeth y fasnach yn ddigon hysbys, heb fod neb yn cynnyg ei gwadu. Eithr tra yn cymeryd y ffaith ei hun, fel y cyfryw, yn ganiatäol, cyfyd oddiwrthi ddwy ystyriaeth a hawliant sylw: fod y fasnach hon yn y gwledydd a enwyd yn cael ei dwyn ymlaen ar raddfa ëang a chyflym-gynnyddol, ac fod yr effeithiau sydd yn canlyn hyny yn arswydus o andwyol.

Y mae y fasnach mewn gwlybyroedd meddwol ymhlith brodorion India ac Affrica yn cael ei dwyn ymlaen ar raddfa ëang, ac y mae ei chynnydd diweddar yn aruthrol fawr a chyflym.

Y mae hyn yn wirionedd am India. Addefir yn gyffredinol fod trigolion y wlad hono yn flaenorol i'w dygiad o dan reolaeth Prydain yn bobl sobr; ac y mae yn rhaid addef eu bod, erbyn hyn, yn dra gwahanol i hyny. Ni olygir nad oedd diodydd meddwol yn cael eu gwneuthur a'u hyfed yno cyn i Brydain ei meddiannu, ac ni awgrymir fod pobl India yn bresennol i gyd yn feddwon. Eithr yn flaenorol i'r rheolaeth Brydeinig nid oedd yfed diodydd meddwol yn arferiad cyffredinol ymhlith y bobl; y *castes* isaf oeddynt yn arfer eu hyfed; ac anaml y byddai meddwdod yn cymeryd lle, oddieithr ar uchelwyliau rhai o'r duwiau. Erbyn hyn, modd bynag, y mae cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle, a hwnw er gwaeth; y mae ymyfed yn bygwth prysuro i fod yn arferiad gyffredinol yn y wlad. Y mae mesur helaeth o *ddemand* am wirodydd wedi ei greu, ac yn cael ei greu yn y wlad; ac y mae masnach lwyddiannus yn cael ei dwyn ymlaen, mewn canlyniad, i'w gyflenwi. Ni chynnygiwn olrhain yr achosion, yr amgylchiadau, a'r ammodau o dan ba rai yr ymffurfiodd yr arferiad niweidiol hon o dan reolaeth Prydain; ac nid ymholwn parth cyfodiad a dadblygiad y fasnach yn y dyddiau gynt; nid oes a fynom, ar hyn o bryd, gymaint â hanes y mynedol ag á'r sefyllfa fel y mae. Cyfyngir y cylch i hanes y deg neu y deuddeg mlynedd diweddaf.

Sicrhawyd gan lawer o dystion o flaen y Ddirprwyaeth a benodwyd gan Raglaw-Reolwr Bengal yn 1883—4, fod meddwdod wedi cynnyddu

yn ddirfawr yn y Dalaeth hono yn ystod y pum' mlynedd blaenorol. Ac y mae hyny yn cydfyned yn hollol â thystiolaeth arall: fod y cynnydd yn mesur y gwirodydd a ddistylliwyd yn y Dalaeth yn nghyfnod yr wyth mlynedd a derfynai yn yr adeg a nodwyd (1883—4), o leiaf yn 134 y cant ar yr hyn a ddistylliwyd yn ystod yr wyth mlynedd cyn hyny; ac yn mhellach, fod y cynnydd yn mesur y gwirod a ddadforiwyd am y pum' mlynedd olaf o'r un cyfnod yn ddeuddeng mil o alwyni yn y flwyddyn. Ac nid yw pethau wedi gwella ar ol hyny. Ceir y prawf yn nghyfrifon cyllid y Llywodraeth. Yr oedd cyfartaledd blynyddol derbyniadau y Llywodraeth mewn toll ar y gwlybyroedd meddwol yn Bengal am y saith mlynedd a derfynent yn 1886 agos iawn yn 50 y cant yn uwch na'r cyfartaledd am y saith mlynedd oedd yn blaenori. Yn Bombay yr oedd cynnydd cyllid y Llywodraeth am y pum' mlynedd a derfynent yn 1886 yn 31 y cant oddiwrth y diodydd a wnaed yno; ac yn 22 y cant ar y rhai a ddadforiwyd. Ac yr oedd adroddiad swyddogol y *North West Provinces* am 1886, yn dangos fod y cyllid oddiwrth y tollau ar ddiodydd meddwol yn parhau i gynnyddu, a'i fod yn uwch y flwyddyn hono nag y bu erioed cyn hyny, yn 12 y cant mwy na'r flwyddyn flaenorol. Ac wrth edrych ar yr holl dderbyniadau i drysorfa y Llywodraeth oddiwrth y diodydd meddwol, yn ein holl diriogaethau yn India, am y pum' mlynedd diweddaf am ba rai y mae y cyfrifon yn gyrhaeddadwy, cawn fod y cynnydd yn gyson a pharhaus. Yr oedd y cyfanswm yn 1882—3 yn £3,609,000; yn 1883—4 yn £3,836,000; yn 1884—5 yn £4,012,000; yn 1885—6 yn £4,152,000; ac yn 1886—7 yn £4,266,000. Dengys hyn fod y Llywodraeth wedi derbyn mwy o gyllid oddiwrth y doll ar ddiodydd meddwol yn 1886—7 o chwe' chant a dwy ar bymtheg a deugain o filoedd o bunnau, nag a dderbyniodd yn 1882—3; ac y mae hyny yn gynnydd cyson o ugain y cant am y pum' mlynedd, a chymeryd holl India i mewn i'r cyfrif. Arwydda hyn oll fod y fasnach hon yn eang a llwyddiannus yn y wlad hono; ac fod ei chynnydd yn y blynyddoedd diweddaf hyn wedi bod yn rhyfeddol o fawr a chyflym.

Ac y mae yr unrhyw fasnach yn cael ei chario ymlaen gyda llawn cymaint o fywiogrwydd a ffyniant, a chyda mwy o elw, a llai, os yr un, o gydwybodolrwydd, ymhlith cenedloedd brodorol Affrica. Cymerai ormod o amser a gofod i osod ger bron y tystiolaethau a'r profion a roddent syniadau gweddol glir a chyflawn am eangrwydd y fasnach yn y cyfandir pwysig hwn. Ac yn wir y mae yn anmhosibl, yn ol natur pethau, cael ystadegaeth fanwl: rhaid boddloni ar ddesgrifiadau cyffredinol yn hytrach na manylion. Ond tra nas gellir cael y ffigyrau, y mae y ffeithiau, ysywaeth, yn anwadadwy Dygir y diodydd hyn i Affrica o bob pwynt: o'r Gogledd ac o'r Dwyrain, o'r Dehau ac o'r Gorllewin—yn neillduol o'r ddau bwynt diweddaf, ac yn benaf o'r Gorllewin. Gellir nodi fel engraifft fod Affrica wedi talu i wledydd eraill, yn y tair blynedd a derfynent yn 1886, y swm o £81,000 am y *gin* a'r *rum* a ddygwyd iddi trwy Sierra Leone yn unig. A phan y cofir fod y peth a elwir *gin* yn cael ei werthu, wedi ei gludo ymhell i fyny i'r wlad, am bedair ceiniog y botelaid, a'r gwlybwr a elwir *rum* am un geiniog y galwyn, rhaid fod y mesur a

gafwyd gan y marsiandwyr yn Sierra Leone, am un a phedwar ugain mil o bunnau, yn aruthrol fawr. Cyfrifir fod dros ddeng miliwn ar hugain o alwyni o bob math o wirodydd wedi eu tywallt, megys, i Affrica o'r flwyddyn 1883 hyd ddiwedd y flwyddyn 1887. Mewn adroddiad o eiddo y Parchedig William Allan, gweinidog yn perthyn i Eglwys Loegr yn Llundain, yr hwn a fu ar ymweliad â Gorllewinbarth Affrica, dyddiedig Ebrill, 1888, ceir y desgrifiad a ganlyn: "Ond parodd yr hyn a welais ar hyd fy nhaith wedi glanio, ac yn enwedig pan yn myned i fyny i'r canoldir, i Abbeokuta, gur i'm calon. Potelau gwirod a gwrddent â'm llygaid ar bob llaw; ystorfeydd anferth o faint wedi eu llenwi â'r diodydd meddwol a llofruddiog, bâdau wedi eu trwmlwytho â chasgeni *rum*, coffrau gwyrddion ymha rai yr oedd y costrelau *gin* wedi eu pacio yma ac acw a phobman, y ffyrdd, i ba le bynag yr awn, a'r gwrychoedd o'u deutu, â photelau *gin*, wedi eu gwaghau, yn wasgaredig ar hyd-ddynt, ac nid potelau yn unig, eithr hefyd *jars* o gryn faintioli mewn rhwyd-waith gwïail y rhai a ddefnyddid i ddal *rum*, a'r rhai, oni buasai am eu hamlder, a fuasent yn werth arian, ond oblegid fod y fath gyflawnder o honynt, a deflid ymaith fel pethau diwerth. Y mae nid yn unig heolydd y trefi a'r prif-ffyrdd a'r dyfr-ffyrdd, fel y rhai o Lagos i Abbeokuta, ond y ffyrdd croesion a'r llwybrau a arweiniant i'r pentrefi pellenig, oll yn cyd-dystio i gyfesuredd aruthrol ac ofnadwy a pharhaus gynnyddol y fasnach ddrygionus a diraddiol hon." Nid rhyfedd fod y gŵr da a welodd y pethau hyn â'i lygaid yn dyweyd fod ei galon dan ei chur. Onid ydym ni yn teimlo aeth wrth ddarllen yr hanes, ac edrych ar y portread! Eithr ar ol y cwbl rhaid addef, gyda Syr John Kennaway, yn ei araeth yn Nhŷ y Cyffredin, yn mis Ebrill y flwyddyn a aeth heibio, nad oes genym ni yn y wlad hon ond syniad hynod o anmherffaith am y mesur o wlybyroedd meddwol a ddadforir yn flynyddol yn Affrica.

Yr ydym yn dyfod at yr ystyriaeth arall a gyfyd o'r ffaith a addefir yn y testun. Wedi meddwl ychydig am eangder a ffyniant cynnyddol y fasnach yn y ddwy wlad o dan sylw, arweinir ni i ofyn: Beth ydyw canlyniadau y fath ffyniant? Ac yr ydym yn gwybod beth i'w ddysgwyl. Dywed Syr William Gull ei fod ef yn credu mai Alcohol yw y peth mwyaf dinystriol y gwyddom am dano yn y wlad hon. Cofir i Mr. Gladstone ddywedyd yn Nhŷ y Cyffredin, fod dylanwad y diodydd meddwol yn fwy marwol, am ei fod yn fwy parhaol, na'r tair ffrewyll hanesyddol fawr,—newyn, rhyfel, a'r pla, gyda'u gilydd. Ysgrifenai yr hybarch Archddiacon Farrar mewn papyr galluog yn y *Contemporary Review*, ryw ddwy flynedd yn ol, i'r perwyl hwn: "O fewn terfynau un plwyf bychan yn Llundain, heb fod ynddo fwy na phedair mil o eneidiau, yr wyf yn dyst personol pa fodd y mae y ddiod, flwyddyn ar ol blwyddyn, yn achos o ymosodiadau, o ladradau, o buteindra, o ymlosgach, o hunan-laddiadau, o erchyll greulonderau; o fod plant yn meirw fel gwybed, fod hen wragedd yn cael eu curo gan eu meibion meddwon, gwragedd yn cael eu mathru a'u hanafu gan yr adynod adgas a alwant yn wŷr iddynt, ond y rhai y mae y ddiod wedi eu gwallgofi i gythreuligrwydd, ac o'r bron i bob trosedd ar restr ddu y calendar, oddeithr tywallt gwaed yn uniongyrchol, ac hyd yn nod hyny

hefyd, ond fod y trueiniaid tlodion a aberthir felly yn marw mor araf fel nad oes neb yn ei alw yn llofruddiaeth. Yr holl bethau hyn yn y modd mwyaf llythyrenol a welais yn myned ymlaen wrth ein drysau, hyd yn nod dan gysgod y Fynachlog, ac o fewn ergyd bwa i'n Seneddd-dai." Gwelir fod Dr. Farrar yn defnyddio lliwiau ofnadwy o gryfion; ond pwy a awgryma eu bod yn rhy gryfion? Pa le mae y neb a ammheua gywirdeb y darlun? Ac wedi gweled yr holl bethau hyn yn ein gwlad ein hunain—wedi bod yn dystion o'r dirywiadau poenus mewn iechyd a chymeriad personol, o'r dinystr dybryd ar gysuron ac amgylchiadau teuluol, o gyffredinolrwydd galarus troseddau a thrueni cymdeithasol sydd yn canlyn ffyniant y fasnach gartref; wedi gweled fod i'r *gin-palace* gymaint a wnelo â'r amddifadrwydd a'r darostyngiad a'r trueni sydd yn wastadol yn rhythu yn ein gwyneb ar heolydd dinas fel Liverpool, ac fod cymaint a wnelo â thlottai, ysbyttai, gwallgofdai, puteindai, carcharau, a chrogbrenau y wlad hon, nid ydym yn dysgwyl, nis gallwn ddysgwyl pethau gwell dan ddylanwad ffyniant y fasnach ymhlith brodorion y gwledydd ag y mae pob peth yn eu cyflyrau yn eu gosod o dan fwy fyth o anfanteision. Yn wir yr ydym yn analluog i feddwl y gwaethaf am ddylanwad y diodydd hyn ar y brodorion yn y gwledydd dan sylw. Dywedai Mr. Samuel Smith yn Nhŷ y Cyffredin ar y 13eg o Fawrth, 1888, fod yfed diodydd alcoholaidd yn gymedrol yn beth anmhosibl i bobl Asia, a dyfynai o'r *Contemporary Review* i'r perwyl canlynol: "O herwydd rhyw neillduolrwydd, mae'n debyg, ag sydd eto heb ei ddarganfod, naill ai yn eu cyfansoddiad corffol, neu yn fwy tebygol yn eu cyfansoddiad meddyliol, y mae unrhyw fesur o alcohol yn ymddangos fel yn rhoddi y rhan fwyaf o'r Asiaid—yr Iuddewon yn eithriad—ar dân, gan gynnyrchu ynddynt awydd anorchfygol am ychwaneg o hono, a'u cymhell i barhau i yfed nes colli eu hymwybodolrwydd mewn cyflwr diymadferth o feddwdod." Y mae y Sais a'r Gwyddel a'r Cymro, ysywaeth, yn yfed, ac yn yfed nes meddwi; ond nid yn yfed er mwyn meddwi. Buasai yn dda ganddynt pe gallasent yfed ac yfed, a dal i yfed, a bod yn sobr ar ol y cwbl. Ond nid felly yr Indiad. Wedi iddo ef gael blas ar alcohol, efe a ŷf, ac a ddeil ati i yfed, nid yn unig nes meddwi. ond er mwyn meddwi! Pa beth a raid fod effaith andwyol y ddiod ar y rhai a wnant hyny! Y mae un effaith, modd bynag, yn sicr: tystiolaethir yn ddiamwys gan y meddygon yn India fod marwolaethau o *delirium tremens* yn dyfod yn gyffredin yn y wlad. Ac y mae y ffaith ofnadwy hon yn cynnwys cyfrolau o ddychrynfeydd.

Ac y mae yr un desgrifiad cyffredinol yn gywir hefyd am genedloedd brodorol Affrica. Dywedai Mr. Joseph Thomson, F.R.S., fod yr awydd am *gin* yn Affrica yn cynnyddu tu hwnt i bob cyfartaledd i'r dymuniad am bethau gwell. Ac yr oedd yn drwm ei glywed ef yn dyweyd, mewn darlith o flaen Cymdeithas Ddaearyddol Manceinion, ei fod wedi teithio ac wedi dyoddef er mwyn y Negro, i'r pwrpas o agor ei wlad i fasnach a gwareiddiad; ond wrth weled effeithiau difäol y swm enfawr o wlybyroedd meddwol a ddygir yno, ei fod yn ofni y buasai yn well i'r hyn a wnaethai fod heb ei wneuthur, ac mai gwell a fuasai i Affrica barhau yn Gyfandir Tywyll.

Gallesid ysgrifenu pethau trymion lawer iawn yn erbyn y fasnach

ymhlith hyd yn nod Mahometaniaid Gogledd Affrica, ond rhaid ymattal.

Uwch ben y galanas a wnaeth y fasnach hon yn Madagascar, nis gellir amgen na theimlo mal Dewi Wyn ar achos arall, a dywedyd :—

Edrych yn y drych hwn dro,
Gŷr galon graig i wylo!

Y mae hanes gweithrediadau Cymdeithas Genadol Llundain yn yr ynys hono, yn un o bennodau rhyfeddaf y ganrif bresennol. Cafodd Cristionogaeth yno rai o'i buddugoliaethau enwocaf, a hyny yn ngwyneb yr anhawsderau mwyaf a'r gwrthwynebiadau creulonaf. Ni chafwyd prawf amlycach o fod gwaed y merthyron yn had yr eglwys, yn unman erioed. Ac wedi i flynyddoedd cystudd erlidiau fyned heibio, ac i haul llwyddiant a dedwyddwch tymmorol dywynu ar yr holl ynys, oedd erbyn hyn wedi ei goresgyn gan Gristionogaeth, och! medrodd y gwlybyron meddwol y ffordd i mewn iddi; ac y mae yr hafog a wnaethant ynddi yn ofnadwy. Yr oedd y *rum* a wneid o'r gweddillion yn melinau siwgr Mauritius, yn rhy wael i'w gynnyg yn marchnadoedd Ewrop; ond bernid ei fod yn burion i bobl Madagascar, a gwthiwyd ef arnynt; a hwythau, yn eu diniweidrwydd, a'i derbyniasant; ac mewn canlyniad cododd y troseddau mewn un flwyddyn i'r fath uchder ag sydd yn ddychrynllyd i feddwl am dano. Wrth weled yr effeithiau arswydus hyn, penderfynodd y brenin, Radma I., attal y pla: talodd y doll, a gorchymynodd dywallt cynnwys pob casgen ar y traeth. Parodd hyn i farsiandwyr Mauritius achwyn, ac ymyrwyd gan y swyddogion Seisonig; ac o'r dydd hwnw allan y mae *rum* gorwael Mauritius yn rhedeg yn rhydd yn Madagascar, gan ei gorlifo â throseddau a thrueni. Daeth Radma II., gŵr ieuanc hynod o obeithiol, un diwrnod yn feddwyn gwallgof; ac wedi naw mis o deyrnasiad truenus, efe a fwrddrwyd trwy orchymyn ei gyfrin-gynghor ei hun. Y mae cyfrifoldeb a gwaradwydd ein gwlad ni, yn yr achos ysgeler hwn, yn ofnadwy i feddwl am dano. Ac nid yw yr hyn a wnaed yn Madagascar ond engraifft o'r hyn a wneir yn barhaus gan farsiandwyr diegwyddor ariangar Mauritius, ymhlith y brodorion ar hyd glenydd Dwyreiniol Affrica.

Am Ddeheudir Affrica, dywed y Proffeswr Hofmeyer: "Y mae y dyn gwyn wedi dysgu y brodorion i yfed *brandy* trwy arfer ei yfed ei hunan, a thrwy ei ddwyn mewn masnach i'w plith. Ac y mae y *brandy* hwn, a wneir yn y drefedigaeth, yn waeth am ei fod wedi ei gymysgu, ac y mae ynddo elfenau sydd yn cyffroi tymherau drwg nes gwneyd y dyn yn ellyll. . . . Os dechreua y brodorion yfed *brandy*, y mae y chwennychiad awchus am dano yn myned yn fuan yn aflywodraethus; ac yn ddioed bydd eu gwartheg wedi eu gwerthu er mwyn cael arian i'w brynu. Wedi hyny ant yn lladron, a suddant yn barhaus yn ddyfnach, nes colli eu nerth a'u hiechyd, a marw yn druenus. Y mae y fasnach mewn diod yn Affrica yn golygu dinystr a marwolaeth i'r brodorion. Yn y fl. 1883, cyhoeddwyd mewn adroddiad swyddogol fod cant a chwech o'r brodorion wedi lladd eu hunain trwy yfed *brandy* mewn dau fis. Ond pa nifer yn Neheudir Affrica sydd yn dihoeni ac yn marw, o ddydd i ddydd, o dan effeithiau y diodydd hyn, heb fod

neb dynol yn cadw cyfrif." Ac y mae Dr. Clark yn sylwi fod y bobl ar arfordir Deheuol Affrica yn dra dirywiedig. Gwerthir yno, meddai efe, gostrelaid o *gin* am chwe' cheiniog; a dywed iddo weled miloedd o enethod yn gorwedd yn feddwon o amgylch gwageni y masnachwyr. Ac yr oedd un o'r penaethiaid brodorol, o'r enw Kama, yn cwyno, dair neu bedair blynedd yn ol, fod y gwragedd yn yfed ac yn meddwi, ac yn taflu ymaith eu dillad, gan ymgolli i bob teimlad o wyleidd-dra a gwedduarwydd. Y mae y ffeithiau hyn, er nad ydynt ond ychydig o lawer a allesid eu dwyn ymlaen, yn dangos fod y sefyllfa yn y rhanbarth hwnw o Affrica yn ddifrifol i'r eithaf.

Ac yn Ngorllewin Affrica y mae pethau, os yn bosibl, yn waeth fyth. Mae *gin* Hamburg, yr hwn a arllwysir yno mor helaeth, mewn gwirionedd yn hollol wenwynllyd; ac y mae y "*trade*" *rum* yn cynnwys defnyddiau mor niweidiol fel, tra mae y dyn du, druan, yn awchus am dano, y mae yn andwyo ei gyfansoddiad gyda chyflymder. Edrydd y Parch. Willam Allan hanes ag sydd yn rhoddi prawf dychrynllyd o hyn. Yr oedd gorilla wedi ei bwrcasu yn Gaboon, gyda'r bwriad o'i ddwyn drosodd i'r wlad hon. Ond fel y bu y dygwyddiad, bu yr hen ewythr farw ar y fordaith; ac yn hytrach na'i gladdu yn y dyfnder, rhoddwyd ei gorff mewn casgenaid o *trade rum*, i'r dyben o'i ddwyn yn ddilwgr i olwg ei geraint yr ochr hon i'r môr. Ond pan agorwyd y gasgen, wedi glanio yn Liverpool, yr oedd yr olwg arno yn ddychrynllyd. Yr oedd y gwirod ag y dysgwyliasid iddo ei gadw yn bur, wedi llosgi blew a chroen yr hen greadur yn llwyr, gan adael ei gnawd mewn cyflwr o fadredd adgas a ffiaidd. A'r *rum* hwn, yr hwn a losgodd flew a chroen y gorilla, yw y ddiod a yfir wrth y miloedd o alwyni yn mharthau gorllewinol, ac i fyny i ganoldiroedd Affrica! Y mae hwn yn waeth, yn fwy marwol, na'r peth a elwir "*Cape Smoke*," am yr hwn y dywedai *Commander* Cameron: "Y gwirod gorwael ag sydd yn bwyta allan galon rhai o'r llwythau brodorol goreu." Ond pa angen llïosogi tystiolaethau ar y cwestiwn hwn? Tra yr yfir y fath swm anferth o'r fath wlybyroedd, nis gall yr effaith amgen na bod yn andwyol i foesau ac amgylchiadau a chyfansoddiadau y bobl.

Ac arweinir ni gan hyn oll i weled yn eglur fod y fasnach mewn diodydd meddwol yn India ac Affrica yn llesteirio masnach gyfreithlawn mewn nwyddau priodol yn y gwledydd hyny, ac yn rhwystr anorfod i wir wareiddiad. Mae y bobl o dan ddylanwad y ddiod yn myned yn annhueddol i weithio; yn wir, y maent yn myned yn anghymhwys ac analluog i lafurio. Ac ymhellach, y maent yn myned yn ddiofal am y nwyddau y mae bywyd gwaraidd yn eu hawlio, ac yn ddichwaeth atynt; a thra y gwariant eu harian am y ddiod, y maent yn amddifad o foddion i'w pwrcasu. Rhaid i ni gydsynio â Mr. Joseph Thomson, nas gall diwydrwydd a chynnildeb ffynu lle y ffyna y fasnach mewn *gin*, mal y gwna yn Affrica; a lle na byddo diwydrwydd a chynnildeb yn ffynu, ni cheir yno ddadblygiad adnoddau, na dyrchafiad mewn moes na chwaeth. "Y mae ein gwlad ni," ebai Mr. Alexander McArthur, yn Nhŷ y Cyffredin, ar y 24ain o Ebrill, 1888, "yn wlad law-weithfäol a masnachol, ac y mae o'r pwys mwyaf i ni gael maes eang i'n masnach, a chwsmeriaid llïosog i'n nwyddau. A phe cymerid gofal priodol o'r

llwythau brodorol [yn Affrica], caem hwynt yn fuan yn gwsmersiaid gwerthfawr. Cof genyf," ychwanegai, "glywed y diweddar hybarch Dr. Moffat, yr hwn a lafuriodd yn Affrica mor faith a llwyddiannus, yn dyweyd ar un achlysur, nad oedd gwerth pum' punt o nwyddau Prydeinig yn cael eu gwerthu yn Bechuanaland pan yr aeth efe gyntaf yno, ond fod yno werth degau o filoedd yn cael eu gwerthu yn flynyddoedd cyn iddo ymadael." Eithr erbyn hyn y mae y fasnach mewn *brandy* yn dechreu taflu ei heffeithiau difäol ar y fasnach mewn nwyddau priodol i wareiddiad a moes; y mae y nwyddau hyny, yn ol cynnydd y wanc am *rum* a *gin*, yn myned yn ddialw am danynt. Ac y mae cwmni y Royal Niger, ac yr wyf yn meddwl gwmni neu ddau arall, yn dechreu agor eu llygaid i'r ffaith, ac yn ymdrechu cyfyngu masnach y ddiod hyd y gallant.

Eithr ar ol y cwbl, yr hyn sydd yn gwneyd y peth yn fwyaf ofnadwy o ddifrifol yw fod ffyniant y fasnach yn y diodydd yn India ac Affrica yn dyfod yn rhwystr aruthrol i ledaeniad Cristionogaeth yn y gwledydd hyny. A pha mor analluog bynag ydym i gyfrif y golled i'r byd o adael adnoddau cyfoethog Affrica heb eu dadblygu, a'r golled i'r wlad hon o fod heb gwsmeriaeth ei thrigolion lliosog i nwyddau cyfreithlon masnach; a pha mor analluog bynag ydym i ddirnad colled ein brawd du o fod heb fendithion bywyd gwareiddiedig, y mae ei golled o fod heb efengyl gogoniant y bendigedig Dduw, a chrefydd bur y Testament Newydd, yn annhraethadwy fwy. Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, ydyw yr unig Waredwr. "Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall; canys nid oes enw arall dan y nef wedi ei roddi ymhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig." Cristionogaeth yn unig a all osod i lawr sylfeini gwir wareiddiad, a phlanu egwyddorion gwir foesoldeb yn y galon ddynol, a'u meithrin a'u dadblygu mewn bywyd ymarferol ar ol hyny. Gras Duw, a'r iachawdwriaeth a ddygodd gras Duw i bob dyn, sydd yn dysgu i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon. A gras Duw, a'r iachawdwriaeth trwy ras, yn unig sydd yn rhoddi sail a rheswm a modd i ddysgwyl am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangosiad gogoniant y Duw mawr, a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Crefydd Iesu Grist yn unig a gyferfydd âg angen penaf dyn yn India ac Affrica, yn gystal ag yn ein gwlad ein hunain. Yr ydym yn credu hyn, ac am hyny yn teimlo ein bod yn ddyledwyr i'r Groegiaid ac i'r barbariaid hefyd; i'r doethion ac i'r annoethion hefyd. Yr ydym yn anfon Biblau a Chenadon, fel y byddo i air yr Arglwydd seinio ymhob gwlad. Ac y mae hanes y ganrif bresennol, hyd yn hyn, yn tystio na bu ein hefengyl ni tuag at yr Indiad melynddu, na'r Affricaniad du, mwy na thrigolion anwar ynysoedd y môr, mewn gair yn unig, eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn sicrwydd mawr. Naturiol gan hyny yw ein bod yn edrych yn eiddigeddus wrth weled y temtiwr yn eu temtio hwynt, a pherygl myned ein llafur ni yn ofer. Yn y blynyddoedd diweddaf hyn y mae maglau angeu masnach y ddiod yn cael eu gwasgaru ymhob cyfeiriad, yn y gwledydd hyn. Estyna yr Ethiop ei ddwylaw, a phrysura y marsiandwr diegwyddor i roddi iddo y gostrel *gin*, er mwyn elw, cyn bod yr Eglwys Gristionogol yn gallu estyn iddo

y Bibl. Amgylchynir y Cenadwr âg anhawsderau o bob natur a math. Cyfyd lluoedd o rwystrau yn ei ffordd, yn ol natur pethau, yn y gwledydd y llafuria ynddynt; ond y mae y rhai gwaethaf o honynt, ysywaeth, yn cael eu dadforio o'i wlad ei hun.

Ac y mae y rhwystrau hyn—heblaw peryglon gwastadol yr eglwysi yn ngwyneb y fath amgylchiadau—yn ymrestru i ddau ddosbarth. Y naill yw y rhwystrau sydd ar ffordd i'r gair gyrhaedd clustiau, heb son am ddylanwadu ar galonau pobl ag mae y ddiod yn eu cadw yn feunyddiol mewn syfrdandod a dideimladrwydd, neu yn gwneuthur gwallgofiaid ellyllaidd o honynt. Gwyddom am rwystrau o'r natur hyn gartref; ond beth am danynt ymhlith cenedloedd Paganaidd! Y dosbarth arall o rwystrau ydynt y rhai a godant o ragfarnau yn erbyn y dyn gwyn a'i bethau, y rhai a gadarnheir gan effeithiau y gwlybyron meddwol. Y mae llawer o'r penaethiaid brodorol, ac eraill ydynt yn caru eu cenedl, wrth weled effeithiau trychinebus y ddiod, yn sylwi mai y dyn gwyn, a hyny yn fynych trwy ddichell, neu drais, neu y ddau, sydd wedi ei dwyn i'r cyrhaedd; a'r dyn gwyn drachefn sydd yn cynnyg iddynt y Bibl a'r Efengyl: y mae llawer o benaethiaid y llwythau brodorol, wrth sylwi ar hyn oll, yn dyfod i gasâu y dyn gwyn, a'i Fibl a'i Efengyl, yn gystal a'i *gin* a'i *frandy*. Gwna y fasnach hon agendor mawr rhwng y cenadon a'r bobl yr anfonir hwynt i bregethu iddynt; ac y mae yr afonydd a dywelltir ganddi yn India ac Affrica, yn fil-fil anhawddach i'w croesi i fyned at y bobl, na'r moroedd sydd rhyngom a'r cyfryw wledydd, a'r tawch afiach a gyfyd o'r afonydd llygredig hyny, yn ei gwneyd yn fwy anhawdd byw a llafurio yno, na holl elfenau anfanteisiol yr hinsoddau. Pâr yr anhawsderau a'r rhwystrau hyn, y rhai er mwyn budr-elw a deflir mewn modd mor ddibris ac mor greulon ar ffordd llwyddiant yr efengyl ymysg y Paganiaid, archoll anaele yn man tyneraf calon pawb ymhob man a'r sydd yn caru dyn, ac yn caru Crist.

Ond y cwestiwn a gyfyd yw, Pa beth sydd a wnelo Prydain Fawr â hyn oll? Ac y mae yn rhaid ateb: Llawer ymhob rhyw fodd. Y mae gan Lywodraeth Prydain allu mawr, a dylanwad mawr yn India ac yn Affrica; ac y mae gan Farsiandwyr Prydain ran fawr yn nygiad y fasnach ddifrodus hon ymlaen yn y gwledydd hyny. Mewn canlyniad y mae Prydain Fawr—y Llywodraeth a'r bobl—o dan gyfrifoldeb ofnadwy yn ngwyneb y sefyllfa ddifrifol sydd wedi bod o dan sylw.

Ar yr un pryd, dyledus yw cofio nad oes gan y Llywodraeth Gartrefol awdurdod uniongyrchol dros yr oll o'r Meddiannau Prydeinig yn y gwledydd hyn; ac fod rhai parthau heb fod ganddi awdurdod o gwbl ynddynt. Gyda hyn hefyd yr ydym yn dymuno cydnabod fod y Llywodraeth wedi dadgan syniadau ar y cwestiwn ag yr ydym yn falch o'u cael. Dywedodd Is-Ysgrifenydd y Trefedigaethau (Baron Henry De Worms) yn ei araeth ar gynnygiad Mr. Alexander McArthur, yn Nhŷ y Cyffredin, yn Ebrill, 1888, eiriau i'r perwyl hyn: "Y mae yn ddyledswydd ar y Llywodraeth, ac yn ddyledswydd na bydd iddi yn ddiau ei hesgeuluso, i ledaenu dylanwad daionus crefydd a gwareiddiad ymha le bynag y byddo gallu a dylanwad Prydain yn cyrhaedd. Ac y mae y Llywodraeth yn fyw i bwysigrwydd y ddyledswydd o am-

ddiffyn y rhai analluog i amddiffyn eu hunain." A chwareu teg i Dŷ y Cyffredin, pasiwyd penderfyniad Mr. McArthur yn unfrydol. Arglwydd Salisbury hefyd, mewn atebiad i'r Ddirprwyaeth a ymwelodd âg ef mor ddiweddar a'r 14eg o Ragfyr diweddaf, a addawodd na byddai unrhyw ymdrech ar ran y Llywodraeth yn eisieu. "Ni bydd i ni," ebai efe, "byth beidio cymhell y mater, pa bryd bynag y gwelwn gyfleusdra i wneyd hyny yn effeithiol. Bydd i ni ei wasgu mewn amser ac allan o amser, canys yr ydym yn credu fod swm enfawr o hapusrwydd neu drueni dynol yn dibynu ar y cwrs a gymer y negeseuaeth"—y negeseuaeth ar y cwestiwn gyda theyrnasoedd eraill. Ac y mae hyn yn ein hadgofio fod Arglwydd Granville, o dan y Weinyddiaeth o'r blaen, wedi ymdrechu, ond wedi methu, yn y Gynnadledd yn Berlin, ennill y teyrnasoedd i gyd-ddeall er cyfyngu (o leiaf) y fasnach yn Affrica. Yr ydym am roddi pob credyd i'r Llywodraeth ag y mae ganddi hawl iddo, a hyny gyda'r boddhad mwyaf.

Ac ni wnawn gam â Marsiandwyr Prydain. Y maent yn ddwfn iawn mewn camwedd, ond nid y rhai dyfnaf. Yn ystod y fl. 1887 anfonwyd 398,980 o alwyni o wirod o'r wlad hon i Affrica; o'r Unol Dalaethau, 747,030 o alwyni; tra mae Germany yn euog o fod wedi anfon 5,481,400 o alwyni yno, yn ystod yr un flwyddyn. Er fod Prydain yn ddrwg, ac yn ddrwg iawn, nid Prydain, fel y gwelir, yw y waethaf.

Eithr wedi y cwbl y mae genym gŵynion difrifol iawn yn erbyn Llywodraeth ein gwlad; ac ni ddylid ymattal heb eu traethu. Nid yw syniadau cymeradwy mewn areithiau ar achosion neillduol gan y Prif-Weinidog, a swyddogion cyhoeddus eraill, yn ddigon; ac nid yw addewidion teg i foddloni arnynt. Y maent oll yn burion yn eu lle; ond y mae llïaws mawr o ffeithiau er hyny yn profi y Llywodraeth yn euog o chwareu a chellwair gyda yr hyn sydd yn fwy dinystriol na'r pla. Y mae y drefn a fabwysiadwyd yn India tua'r flwyddyn 1877—y drefn o osod y Distylloedd ar ardreth, wedi achosi cynnydd dirfawr mewn yfed a meddwi yno byth er hyny. Ac nid oes dim ammheuaeth fod îs-swyddogion yn India, yn eu zel i godi y cyllid, yn cymhell ac yn cefnogi helaethiad y fasnach, gyda phob dyfalwch. "Yn ystod fy ymweliad diweddar âg India," ebai Mr. Samuel Smith, yn Nhŷ y Cyffredin, dros flwyddyn yn ol, "dywedid wrthyf ar bob llaw fod y Llywodraeth yn cymhell y defnyddiad o ddiod gadarn, er mwyn y cyllid; ac yr wyf yn mawr ofni fod y cyhuddiad yn rhy wir." A nos Fawrth, y 30ain o Ebrill, y flwyddyn hon, efe a gynnygiodd y penderfyniad canlynol: "Fod y Tŷ hwn yn ystyried fod cyfundrefn gyllidol Llywodraeth yr India yn arwain i sefydlu distylldai, a siopau gwirod ac *opium*, mewn llïaws mawr o fanau lle na buont, hyd yn ddiweddar, a hyny yn groes i opiniynau y brodorion, ac i wrthdystiadau y trigolion; ac fod y fath ychwanegiad at y cyfleusderau i yfed, yn cynnyrchu cynnydd parhaol yn y defnyddiad o'r gwlybyron, gan wasgar trueni a dinystr ymhlith y dosbarth gweithiol yn India, yn galw am sylw dioed y Llywodraeth gyda golwg ar leihau y cyfryw gyfleusderau." Dygodd Mr. Smith, yn ei araeth bwyllog a galluog, gyhuddiadau trymion iawn yn erbyn y gyfundrefn gyllidol sydd yn bresennol mewn grym yno; ac yn erbyn y Llywodraeth mewn

cysylltiad â hi. Un o effeithiau y gyfundrefn hon yw gwerthu y gwirod yn anghyffredin o rad, ac y mae yn amlwg i ba le y mae hyny yn arwain. Cyhudda Mr. Smith Lywodraeth yr India hefyd o ddychwelyd yn ol at y gyfundrefn hon, ar ol yr ymdrech a wnaed i'w chyfnewid mewn canlyniad i ddadguddiadau erchyll y Commissiwn yn 1883–4; dychwelwyd at gyfundrefn 1877, am fod y cyllid o dan y cyfnewidiad yn lleihau. Egwyddor gyntaf y Llywodraeth yw cyllid mawr, a ffordd ddidrafferth i'w gasglu. Am hyny y mae Mr. Smith yn condemnio mynegiadau Brysgenadwri Awst, 1887, yr hon y gellir ei hystyried fel amddiffyniad swyddogol i'r gyfundrefn, fel un anghywir a chamarweiniol. Mae yn wir fod Sir John Gorst yn gwingo, yn brathu ac yn cicio, o dan symbyliad dynoethiadau y ddadl y noson hono; ond ni thyciodd iddo: cariwyd y cynnygiad, yn erbyn y Llywodraeth, gyda mwyafrif o ddeg.

Ac heblaw fod cyfundrefn y Llywodraeth yn cynnyrchu gwirod rhad, y mae ar yr un pryd wedi rhoddi toll drom ar yr hyn a elwir "*toddy*"—sudd y balmwydden—yr hwn, pan yn ffres, sydd yn gwbl ddiniwaid. Ac ni raid dywedyd mai tuedd anocheladwy—os nad amcan—hyn ydyw gyru y bobl i yfed gwirod *contractors* y Llywodraeth.

Ac nid yw yr achwynion yn erbyn y Llywodraeth wedi darfod eto. Y mae yn ffaith fod rhai o'r is-swyddogion yn erlid Dirwestwyr. Ysgrifenai un o honynt: "A gawn ni eistedd yn llonydd, a goddef i'r symudiad [Dirwestol] fyned rhagddo ac ymledaenu, a thrwy hyny oddef i swm mawr o gyllid gael ei fforffedu?" Cyhoeddodd ustus o'r enw A. Keyser, yn nhalaeth Colaba, rybudd yn bygwth cosbi y Dirwestwyr am gymhell y bobl i beidio yfed; yr oedd cynnal cyfarfod Dirwestol yn dyfod yn drosedd i'w gosbi gan farnwyr; a chafodd wyth o bersonau eu carcharu am hyny.

Y mae gan y Llywodraeth nid yn unig ddylanwad yn yr India, ond hefyd bob awdurdod yno; a hi a saif yn euog ger bron nefoedd a daear nid yn unig o beidio arfer ei gallu i attal difrod y ddiod, ac i bleidio yr ymdrechion o blaid sobrwydd, eithr hefyd o fabwysiadu *policy*, ac o gefnogi a chymhell arferion, ag ydynt, o angenrheidrwydd, ac yn anocheladwy, yn peri llwyddiant i'r fasnach, ac o ganlyniad gynnydd mewn yfed a meddwi; a chyda hyny, achlesu rhai ag ydynt yn gwrthwynebu ac yn erlid cyfeillion Dirwest a rhinwedd. Nis gellir bod yn rhy ddiolchgar i'r Aelod Anrhydeddus dros Sir Fflint, am ei ffyddlondeb gonest yn dal y ffaith o euogrwydd y Llywodraeth, yn yr achos hwn, ger bron y wlad.

Nid yw gallu, ac nid yw dylanwad y Llywodraeth Brydeinig yn Affrica mor gyffredinol, nac mor fawr ac uniongyrchol; ac felly nid yw ei chyfrifoldeb yn gymaint ag ydyw yn India. Ar yr un pryd, y mae ganddi lawer o nerth dylanwad, a mesur o allu ag y gellid ei ddefnyddio, os nad i attal y llifeiriant dinystriol, i gyfyngu llawer iawn arno. Gwelsom eisoes fod y Prif-Weinidog wedi addaw gwasgu y mater at ystyriaeth y rhai y perthyn iddynt, mewn amser ac allan o amser; ac y mae i'w fawr obeithio yr adgofir ef yn fynych o'i addewid.

Am farsiandwyr Prydain, rhaid cydnabod fod lliaws mawr o honynt yn hynod o ddigydwybod. Nid oes gan lawer o honynt ddim mewn golwg ond elw personol. Y maent nid yn unig yn fyddar i hawliau

cyfiawnder a dynoliaeth, eithr hefyd yn ddeillion, hyd yn nod i *good policy*. Eu nod uchaf yw: "Nyni—*nyni*—a gawn bob cyfoeth gwerthfawr; nyni a lanwn ein tai âg ysbail." Ac er mwyn hyny y maent yn barod i ddyweyd: "Cynllwynwn am waed, ymguddiwn yn erbyn y gwirion yn ddiachos; llyncwn hwynt yn fyw fel y bedd, ac yn gyfan fel rhai yn disgyn i'r pydew." Y mae ein darllawyr mawrion gartref, er yn barod i gyfranu deng mil at adeiladu Eglwys Gadeiriol, yn gallu edrych yn ddigon tawel ar eu diottai yn gwasgaru galanas a difrod ar bob llaw, pan y mae hyny yn dwyn iddynt bob cyfoeth gwerthfawr, ac yn llanw eu tai âg ysbail. Ac os yw ein darllawyddion teitlog gartref, y rhai y tybir eu bod mor grefyddol, mor ddideimlad nes eu bod er mwyn elw yn parhau i dywallt llifeiriant o wlybyroedd i foddi cysuron presennol miloedd ar filoedd o'u cymydogion agosaf, yn y byd hwn, a diffodd eu gobeithion ar gyfer y dyfodol, ychydig iawn yn wir a ellir obeithio oddiwrth y marsiandwyr, y rhai ydynt yr un mor gaeth i elw presennol, ac yn cario ymlaen eu marsiandïaeth yn y gwledydd pell o dan amgylchiadau ag y mae y dylanwadau moesol i attal y cyfryw ryseddau yn llai teimladwy. Nid ydym eto wedi anghofio erchyllderau y gaethfasnach. Yr oedd ymhlith marsiandwyr Prydain, cyn dyddiau Granville Sharp, ddigon o ladron dynion i gyflenwi marchnadoedd y Trefedigaethau â deng mil a thriugain o gaethion bob blwyddyn, a hyny wedi i ddeng mil feirw ar y fordaith, ac ugain mil yn ychwanegol feirw cyn cynnefino â hinsoddau gwledydd eu caethiwed. Cymhellai y rhagolwg ar gael pob cyfoeth gwerthfawr a llanw eu tai âg ysbail, lu o farsiandwyr y wlad hon, am flynyddau lawer, i dwyll a thrais a chreulonder rhy arswydol i'w ddesgrifio. Ond, fel y dywed Dr. Farrar, "Y mae hen raib y gaethfasnach wedi ei ddilyn gan raib mwy trachwantus a dinystriol y diod-werthwr!" Gwna elw y fasnach y masnachwr yn ddideimlad i'r gwaradwydd a'r cywilydd a berthyna iddi, a phâr hyn fod y rhagolygon yn y cyfeiriad hwn yn dywyll ac anaddawol iawn. Y mae marsiandwyr Prydain, fel dosbarth, yn fwy anobeithiol na'r Llywodraeth; ac y maent yn achosi rhai o brif rwystrau y Llywodraeth, yn Affrica yn neillduol, i weithredu yn fwy effeithiol er cyfyngu y fasnach.

Y cwestiwn mawr yw, Pa beth sydd i'w wneyd—pa beth a ellir ei wneyd yn yr amgylchiadau hyn? Rhaid troi at y bobl. Y cwestiwn unwaith eto yw, "Beth a ddylai Israel ei wneuthur?" Rhaid i grefyddwyr y wlad, yr holl bobl sydd yn ofni Duw yn Mhrydain Fawr, bawb yn ei gylch ei hun, ymdrechu creu a chyffroi syniad cyhoeddus iach a chryf ac effro ar y cwestiwn. Ni wna llai y tro na theimlad cyhoeddus digon cywir, a digon nerthol, i gondemnio y fasnach fel un anghyfreithlawn ac anfoesol, nes dwyn y masnachwyr i deimlo eu bod yn faich annyoddefol ar gydwybod y wlad, ac nad oes gan grefydd, mewn unrhyw fodd, rad na bendith iddynt yn eu masnach. Pan yr oedd Samuel Bradburn yn arolygwr ar gylchdaith Bristol—yr unig un y pryd hwnw—agos i gan' mlynedd yn ol, anfonwyd cais i'r pulpud un nos Sabboth am weddi ar ran cadben a dwylaw llong y bwriedid iddi hwylio allan drannoeth. Ymddengys i'r cais gael ei wneyd nid gan y cadben ei hun, canys nid oedd efe yn grefyddwr, er yn wrandäwr rheolaidd pan gartref, eithr gan chwaer iddo oedd

yn aelod eglwysig. Deallodd y pregethwr mai caethlong oedd yr hon y ceisid gweddi ar ran ei chadben; ac efe a weddïodd am i gydwybod y cadben ei attal i gychwyn i'r fordaith; neu os mynai efe fyned er gwaethaf aflonyddwch a dychrynfeydd ei gydwybod, am iddo gael y fath groes-wynt ystormus nes peri iddo ddigaloni, a throi yn ol; neu os byddai efe ar ol y cwbl yn benderfynol i fyned rhagddo, am i'r llong suddo, a'i i'r cadben a'r dwylaw foddi yn yr eigion mawr! Yr oedd ymadroddion cryfion a difrifoldeb mawr y pregethwr, yn peri fod y weddi hono yn un ofnadwy. Ac atebwyd y rhan gyntaf o honi. Methodd y cadben, wedi clywed y fath weddi, a chaledu ei gydwybod yn ddigonol i gychwyn i'r fordaith. Nid "Sam Bradburn" oedd y dyn i adael i'r cadben fyned at ei orchwyl melldigedig o dan y dybiaeth ei fod yn myned ato dan fendith Duw. A rhaid i'r egwyddor hon gael ei gweithio allan yn achos y fasnach sydd yn melldithio Affrica y dyddiau hyn hefyd. Rhaid i grefyddwyr Prydain benderfynu: *No surrender! No compromise! No quarters!* Gofynai Farrar, "A yw cydwybod y genedl yn farw? Os nad yw, oni chyfyd llais digon cryf i'w deffro o'i thrymgwsg!" Ond paham un llais, er iddo fod mor awdurdodol a chryf â'r eiddo Chatham, pan yn appelio at yr esgobion a'r barnwyr? Paham nad deng miliwn o leisiau? Y mae y fasnach yn cael ei hamddiffyn gan anwybodaeth, ac arferiad, a blys, ac elw. Ond y mae llais crefyddwyr gwlad wedi ymddeffro i hawliau cyfiawnder, fel llef yr Arglwydd, yn gwasgaru fflamau tân, nes ysu amddiffynfeydd anghyfiawnder a chelwydd.

A thra yn ymdrechu i ddeffro y syniad cyhoeddus, ac i godi moesoldeb masnachol i safon uwch, bydd yn angenrheidiol gwylio gweithrediadau y Llywodraethau Indiaidd a Threfedigaethol; a chymhell y Llywodraeth Gartrefol i arfer pob gallu a dylanwad posibl i wahardd y fasnach, lle byddo modd gwneyd hyny, a chyfyngu ar ei therfynau ymhob man. A chyda chynnydd cywirdeb a nerth yr opiniwn cyhoeddus, bydd yn hawddach dylanwadu ar y Llywodraeth hefyd. Yr ydym yn llawenychu am fod penderfyniad Mr. Samuel Smith, ddiwedd Ebrill diweddaf, wedi pasio yn Nhŷ y Cyffredin, yn fwy o herwydd ei fod yn adlewyrchu y syniad cyhoeddus, ac yn gymhorth i'w gryfhâu, nag am fod ynddo bwysigrwydd deddfwriaethol. Y mae defnyddio y fath gyfleusderau yn bwysig iawn. Ond rhaid i grefyddwyr Prydain yn gyffredinol weithio yn benderfynol i lesteirio y fasnach ddamniol hon yn India ac Affrica; ac un ffordd effeithiol i hyny yw arfer pob moddion cyfreithlon i'w llethu a'i thori i fyny yn Mhrydain Fawr ei hun.

WILLIAM HUGH EVANS.

*Liverpool.*

# NODIADAU LLENYDDOL.

*The Preachers of Scotland from the Sixth to the Nineteenth Century.* Twelfth Series of the Cunningham Lectures. By WILLIAM GORDON BLAIKIE, D.D., LL.D., Professor of Apologetical and Pastoral Theology, New College, Edinburgh. Edinburgh: T. & T. Clark.

CYFROL ddarllenadwy a thra addysgiadol. Y mae Scotland, fel Cymru, yn dra rhwymedig am yr hyn ydyw i'w phregethwyr; ac wrth fwrw golwg dros eu llafur hwynt y mae y gyfrol ragorol hon yn dangos y nerth sydd wedi bod wrth wraidd llwyddiant y genedl Ysgotaidd trwy yr oesoedd. Yr oedd Dr. Blaikie yn ŵr tra chymhwys i ymgymeryd â'i pharotoi. Mae efe bob amser wedi bod yn fyw i draddodiadau crefyddol goreu ei genedl, wedi cael pob mantais i astudio yr oll a allai daflu unrhyw oleuni ar ei hanes, ac yn meddu pob cymhwysder mewn gallu ac ysbryd i ddangos rhwymedigaeth ei wlad i'w phrif gymwynaswyr, ynghyd a'r cyfrifoldeb sydd ar bregethwyr y dyddiau hyn, a phregethwyr y dyfodol, i fod yn ffyddlawn i'r ymddiried a osodir arnynt. Nid oedd y defnyddiau ond prin i ffurfio barn am y llafurwyr boreuaf, ond cesglir yn amlwg y rhaid fod eu gallu ar eu cydwladwyr yn fawr, ac fod eu haddysg wedi profi iddynt yn ddaioni parhaus. Nid hygoeledd i gyd ydyw y chwedloniaeth sydd wedi tyfu o amgylch eu henwau, ond dengys, er megys mewn aralleg, fel yr oedd eu dylanwad yn fywyd ac yn fendith. Mae yn werthfawr meddwl nad ydoedd y Goruchaf yn gadael ei hun yn "ddidyst" yn y wlad hono trwy yr oesoedd, ond ei fod yn barhaus yn gofalu am godi dynion a'u profent eu hunain yn rhai yr ymddiriedid cenadwri iddynt o'r orseddfainc, ac fod yn rhaid i'w cydwladwyr wrando arnynt. Cawsant hwythau eu rhan o helbulon. Yr oedd y gallu gwladol am lawer o amser yn tybied y dylsai arfer pob ymadferth er gorfodi y bobl i gymeryd y golygiadau crefyddol ac eglwysig oedd yn gymeradwy yn ei olwg ef, ac yn tybied nad oedd eisieu ond iddo fod yn ddigon penderfynol na chai ei ffordd arnynt hyd eithaf ei ewyllys. Ond fel yn yr holl erlidigaethau crefyddol,—ac yn wir fel y mae "resolute government" Arglwydd Salisbury yn awr gydag Iwerddon,—nid oedd hyny yn ateb unrhyw ddyben pan oedd calon y genedl wedi ei meddiannu gan amcan gwahanol. A pha greulonaf yr erledigaeth, cryfaf yn y byd oedd y bywyd ysbrydol a ffynai yn eu plith. Y mae yr hanes a geir yma am bregethu a chrefyddolder y Cyfammodwyr yn hynod o werthfawr. Y mae hefyd yn dra dyddorol gweled fel yr oedd pregethu y gwahanol gyfnodau yn ei gyfaddasu ei hun i'r amgylchiadau a'r amseroedd. Mae yn wir fod pobl dda yn fynych yn teimlo fod perygl mawr mewn gwyro o gwbl oddiwrth ddulliau o feddwl ac ymadroddi ag oeddynt wedi eu gwarantu gan lwyddiant neillduol yn nyddiau y tadau; ond fe geid er hyny eu bod, o'u cymhwyso at amgylchiadau gwahanol, yn profi yn gwbl aflwyddiannus, ac fod yn angenrheidiol yn barhaus cael dynion o feddwl byw ac ysbryd effro i adrodd wrth eu cydwladwyr yr ystori am drefn Dwyfol gariad i achub y byd. Drachefn a thrachefn fe geir fod dynion, wrth chwilio am athrawiaeth i'r amseroedd, yn colli golwg ar hanfod cenadwri Duw, ac felly yn "pregethu efengyl arall, yr hon nid oedd arall,"—yn pregethu efengyl nad oedd yn efengyl o gwbl. Canlyniad anocheladwy hyny bob amser ydoedd dirywiad a marwolaeth. Mae profiad yr oesoedd yn dysgu yn amlwg nad oes ond yr "ymadrodd am y groes" yn ateb dyben mawr pregethu, "yn nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr." A gallwn deimlo yn hyderus fod y gwirionedd "megys y mae yn yr Iesu," yn ddigon eang i gyfarfod â phob cyfnewidiad-

au, yn ddigon cyfoethog i ddiwallu holl anghenion y byd. Ac y mae "pob ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd"—weithiau trwy ddarweddiad athrylith, ond yn fynych trwy ddwys fyfyrdod, ac yn enwedig trwy gael ei ysbryd wedi ei drwytho mewn defosiwn—"yn debyg i wr o berchen tŷ, yr hwn sydd yn dwyn allan o'i drysor bethau newydd a hen." Ac y mae Dr. Blaikie yn teimlo mai gwerth neillduol yr adolygiad a gymer yn y gwaith hwn ar bregethu tri chant ar ddeg o flynyddoedd yn ei wlad, ydyw y wers a all roddi i bobl y dyddiau hyn a phobl y dyfodol gyda golwg ar bregethu. Mae yr amgylchiadau erbyn hyn wedi newid yn fawr; mae llawer iawn o waith nad oedd ond y pregethwr i wynebu arno yn y dyddiau gynt, yn awr yn cael ei wneyd gan yr ysgolfeistr, a'r proffeswr athrofaol, a'r newyddiadur, a'r cyhoeddiadau, a'r llyfrau; ac y mae llawer yn tybied y dylai hyn oll beri i'r pregethwr ei osod ei hun yn ffordd y nerthoedd hyn, a gweithio i'r un amcanion. O ran Dr. Blaikie, pob croesaw iddo gymeryd mantais ar gaffaeliadau gwerthfawrocaf y "meddwl diweddar," yr hwn fel etifedd yr oesoedd, a ddylai fod—fel yn wir y mae—yn gyfoethog iawn; pob croesaw iddo hefyd gymeryd y fantais oreu ar y dulliau mwyaf cyfaddas i ennill clust a sylw, ac felly i ennill calon y rhai a wrandawant arno; ond doed a ddêl, glyned wrth y gwirioneddau achubol, ac nac ymffrostied "ond yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist." Dywed yr awdwr:—

Gallai llyfr fel hwn wasanaethu fel rhybudd i'r rhai hyny, os oes rhai felly, a ddychymygant fod y pulpud efengylaidd hyd yma wedi rhoddi gormod o le i Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Gwelwch yr hyn y deuwch iddo, bregethwyr, pan beidia Efe a bod yn Haul yn eich ffurfafen! Cydnabyddwch fel yn gyfreithlawn fod pregethu y presennol yn dangos ei fod ymlaen ar bregethu cenedlaethau a fu. Ond gwelwch ei fod ymlaen. Gwelwch ei fod yn ddadblygiad teg a ffydd lawn, ac nid yn chwyldroad. Gwelwch ei bod yn rhoddi ei lle priodol i genadwri gras, yr hon o ddyddiau pell y sanctaidd Columba yn yr Hebrides pell, ymlaen trwy amseroedd y Lolardiaid a'r Merthyron, y Diwygwyr a'r Cyfammodwyr, yr Ymneillduwyr a'r blaid Efengylaidd, sydd wedi dwyn gorphwysdra i'r blinderog, tangnefedd i'r trallodedig, a bywyd i'r rhai oedd yn ysbrydol yn feirw; sydd wedi ysbrydoli y merthyr a'i rinwedd gwronaidd, wedi cysuro y weddw yn ei nos o wylofain, wedi calonogi y cenadwr yn ei lafur unig; sydd wedi gwneyd meibion llafur yn amyneddgar, diwyd, a gonest, a dyrchafu ein gwlad o farbariaeth i le anrhydeddus ymysg y cenedloedd. Dyma yr etifeddiaeth a ddaeth i lawr i ni oddiwrth ein tadau; ac y mae ar law pregethwyr ieuainc ein gwlad i ddyweyd pa un a ydyw yn awr i gael ei gosod o'r neilldu, pa un bynag ai yn barchus ai mewn dirmyg; ai ynte ai ni fydd iddi eto sylweddoli arwyddlun Milton:—

Fel sudda 'r seren ddydd i wely 'r môr,
Ac eto 'n fuan gwyd ei chrymawl ben,
Gan drefnu 'i phelydr, ac mewn llewyrch claer
A ddysgleer fflamia yn nhalcen teg y wawr.

Pris y llyfr ydyw 7s. 6c.

*Letters from Wales: a Republication, by permission, of a Series of Letters in the "Times," dealing with Wales in especial relation to the Land, the Church, and the Tithe.* By a *Special Correspondent.* London: W. H. Allen & Co.

Go ychydig o ddarllenwyr Cymru sydd byth yn gweled y *Times*, ond y mae llawer o honynt bellach yn gwybod digon yn ei gylch i allu dygymmod yn rhagorol â pheidio bod o nifer ei ddarllenwyr. Yr ydym wedi clywed cryn lawer am gyfres o lythyrau o Gymru a gyhoeddwyd ynddo o bryd i bryd yn ystod y blynyddoedd 1887, 1888. Y maent yn awr wedi eu cyhoeddi

gyda'u gilydd, ac yn gwneyd y gyfrol sydd o'n blaen, a werthir am hanner coron, a gallai y neb a faliai am eu darllen gael felly yn hawdd gyfleusdra i wneyd hyny. Wrth reswm y maent wedi eu hysgrifenu, fel ffug lythyrau Pigott, oddiar safle y *Times*. Y rheswm mawr a foddlonai Mr. Soames fod y llythyrau enwog hyny yn ddilys, oedd eu bod yn cynnwys pethau ag y buasai efe *yn dysgwyl* i Mr. Parnell eu hysgrifenu. Mae y *Times* a'i gyfeillion, yr un ffunud, wedi hen wneyd eu meddwl i fyny mewn perthynas i Gymru, ac y mae y *Special Correspondent* hwn yn ysgrifenu yn gyson â hyny. Ymddengys mai Cymro ydyw, ac nid ydyw yn amddifad o allu ac ysgolheigdod, er ei fod weithiau yn ysgrifenu yn lled esgeulus. Fel engraifft o'r *slipshod* neu y llipraidd yn ei arddull, gellid nodi y defnydd direswm a wna o'r gair *phenomenal;* mae bron bob peth ag sydd i unrhyw fesur yn rhyfedd, yn ——, wel, yn *phenomenal*. Buasai peth fel yna gan rai o'r "*preachers*," sydd, dybygid, mor esgymun yn ei olwg fel na fyn eu galw felly ond dan amddiffyniad dyfyn-nodau, yn beth y buasai ei chwaeth gaeth yn ffroeni yn ysblenydd uwch ei ben. Ond pell ydym o warafun iddo bob clod a all hawlio ynglŷn â'r ymdrech hon o'i eiddo i wneyd Cymru yn fwy adnabyddus i'r deyrnas. Mae yn amlwg ei fod wedi cymeryd llawer o drafferth i chwilio i helyntion ein gwlad, ac y mae ffrwyth ei ymchwiliad yn gosod ger bron lawer o wybodaeth werthfawr. Ond y mae cryn lawer o'r pethau ag y gwel yn dda eu dyweyd wrth y Saeson yn ein cylch yn bethau sydd yn *gwbl newyddion* i Gymru ei hun. Dyma ychydig o'r pethau hyny:—Rhoddir ar ddeall bod a fynai y terfysgwyr Gwyddelig â dechreu y cyffro gwrthddegymol, ond nad oedd y Cymry yn hoffi eu dull hwy am fod yn well ganddynt hwy, y Cymry, ddichell na thrais. Mae yn Nghymru bob sect grefyddol y gellid meddwl am danynt, a chanddynt gapelau ymhob man, ac y maent, yn ol rhyw awdurdod sydd yn ngolwg yr awdwr yn "uchel," yn cario eu gwaith ymlaen yn y gobaith o gyfranogi o'r nawdd gyhoeddus a ddangosir fel wedi bod yn rhy hir yn cael ei gorfaelu gan un sefydliad henafol. Fe fydd yn syn gan bobl dda Bethesda ddeall fod nerth y cynhwrf gwrthddegymol yno, er na wybuant ddim yn ei gylch ond a glywsant o draw. A bydd yn syn gan Gymru oll ddeall fod un o'u cenedl yn ddigon anwybodus neu yn ddigon di-egwyddor i ddyweyd fod yr holl gyrff Ymneillduol Cymreig yn gymdeithasau politicaidd, *political organizations;* ac yn neillduol, fod hyny yn arbenig yn wir am y Methodistiaid Calfinaidd, er fod eu crefyddolder a'u lledneisrwydd y fath fel na feddylient am gyfeirio at wleidyddiaeth yn yr un o'u cynnulliadau. Nid ydyw y bobl hyny, er fod y Cymro hwn yn meddwl am danynt bobpeth sydd yn ddrwg, byth yn cyfeirio at Eglwys Loegr,—er fod yr angenrheidrwydd am ei dadsefydlu iddynt mor oleu a'r dydd,—ond mewn dull parchus a Christionogol; ac eto edrychant arni, medd y gŵr hwn, fel eu "gelyn," am ei bod yn llefaru gydag awdurdod nad allant hwy hòni, a gwaeth na'r cwbl, am ei bod yn eu hamddifadu o'u cwsmeriaid; oblegid, medd efe, rhaid peidio anghofio fod y capel yn anturiaeth fasnachol, yn llwyddiant arianol pa un y mae gan yr addolwr fudd neillduol. Y mae rhai hyd yn nod o'r "pregethwyr,"—ond felly hefyd yn rhy halogedig i'w crybwyll ond rhwng dyfynnodau,—yn cydweithio â'i chlerigwyr; ond arlyr un prydly maent yn barod i anghofio pob gwahaniaeth rhyngddynt â'u gilydd er ymladd yn erbyn yr Eglwys. Fe fydd hefyd yn newydd iawn i Gymru fod ei gwasg newyddiadurol yn cymeryd mantais ar yr iaith Gymraeg, sydd yn ddyeithr i'n cydddeiliaid yn Lloegr, i gyhoeddi cabldraethau ac i ennyn gwrthryfel yn y modd mwyaf dibris y gellid meddwl am dano, ac felly yn cadw y Cymry mewn cynddaredd gwastadol. Ysgrifenant o blaid dadsefydliad, gan apelio at raib, ac anwybodaeth, a rhagfarn crefyddol y bobl. Ond prin y maent yn llwyddo, gan fod y bobl yn rhy ddeallus iddynt; gwyddant na fyddent hwy ddim elwach o hyny, ac y mae y person yn foneddwr yn y plwyf ag y mae pawb yn dyfod ato am gynghor, ac efe—bondigrybwyll!—ydyw yr unig ddolen

rhwng y dosbarthiadau uchaf a'r isaf; hebddo ef byddai cymundeb rhyngddynt yn anmhosibl; ac y mae son am ddadgysylltiad yn peri i rai amaethwyr "deallus" wir ddychrynu wrth feddwl na allai efe, wedi hyny, fyw yn eu plith. Yr oedd y pregethwyr eu hunain mewn un plwyf yn condemnio y gwrth-ddegymwyr; ond er hyny y mae eu henw yn rhy wahanglwyfus i gyffwrdd âg ef ond rhwng dyfyn-nodau—"y pregethwyr." Priodolir mwy nag sydd weddus o'r drygau y cwyna yr awdwr o'u plegid, gyda golwg ar ffyniant y teimlad o blaid dadgysylltiad, i Mr. Gee, a dywedai fod ei gyd-Ymneillduwyr yn ei gondemnio am fod yr hyn y dadleua drosto yn niweidiol i'w hamgylchiadau; ac eto mae y teimlad gwrthddegymol yn cael ei ddesgrifio fel wedi ennill y fath nerth fel na allai dynion dalu y degwm pe mynent, rhag iddynt gael eu boycotio gan eu cymydogion. Nid ydyw Cymru, hyd y deallwn, yn gwybod am gymaint ag un pregethwr, fel y cyfryw, a gymerth ran yn yr ymgyrch gwrthddegymol, ac eto mae y dyn hwn yn barhaus yn rhoddi yr holl gyfrifoldeb am dano ar "y pregethwyr." Bydd yn dda gan ein cyfeillion yn Sir Feirionydd ddeall fod gohebydd wedi hysbysu yr awdwr, ac yntau wedi cyhoeddi hyny trwy y *Times* i'r bydysawd, fod gweinidogion y Methodistiaid Calfinaidd yn Sir Feirionydd yn "fwy diwylliedig ar y cyfan nag mewn unrhyw sir arall;" ond hwy ydyw gelynion gwaethaf yr Eglwys, ac y maent yn *agitators* mor beryglus fel y mae enaid yr ysgrifenydd yn cael ei ddirwasgu i'r casgliad "nad all y corff Calfinaidd a'r Eglwys gydhanfodi yn hir yn Nghymru." Iddo ef, bid sicr, y mae i'r Eglwys beidio a bod yn anmhosibl; a chan nad all y Methodistiaid gydhanfodi â'r Eglwys, a fynai efe gael help Mr. Balfour a "llywodraeth benderfynol" Arglwydd Salisbury i yru y Methodistiaid o'r byd? Cymered ein brodyr y Wesleyaid gysur, y mae gan y *Correspondent* air rhagorol iddynt. Yn ol nerth y Methodistiaid, medd efe, y mae chwerwder yr elyniaeth yn yr Eglwys, ond yn ol nerth y Wesleyaid y mae y rhagolwg am heddwch. Ai nid yw ein cyfeillion yn ddiolchgar iawn am y *compliment?* Ond lled sigledig ydyw hanesyddiaeth y gŵr, a phe gwyddai ychwaneg am y Wesleyaid, yn gystal ag am y "lleng" o enwadau eraill sydd, yn ei eiriau ef, yn Nghymru, mae yn debyg y newidiai ei dôn. Nid ydyw ei wybodaeth yn eang. Dywed fod cryn lawer o weithiau plwm ar un adeg o amgylch Trallwm, fel o amgylch y Wyddgrug; diammeu y byddai yn dda gan bobl y wlad a ddesgrifir weithiau, medd efe, fel "Sir Drefaldwyn," wybod ymha gyfnod yn hanes y ddaearen y bu y Trallwm yn ganolbwynt i weithiau plwm. Yr un modd am Bethesda fel cartref y cynhwrf gwrthddegymol, a'r terfysgwyr Gwyddelig yn cymeryd rhan yn ei ddechreuad, a'r enwadau Cymreig yn lleng ac yn cynnwys pob sect y gellir meddwl am dani, heblaw eu bod oll yn *organisations* politicaidd, ac oll, ac yn enwedig y Methodistiaid Calfinaidd, yn casâu yr Eglwys,—nid oes bodolaeth i'r pethau hyn, a llawer eraill o gyffelyb natur y sonia am danynt,—ond yn nychymyg a rhagfarn yr ysgrifenydd ei hunan. Mae ganddo gryn gydymdeimlad â'r heddgeidwaid yn nherfysgoedd y degwm, a theimla fod y Llywodraeth ar fai yn penodi Dirprwywr i chwilio i'w hymddygiadau, er fod y Dirprwywr hwnw, ar ol gwneyd ymchwiliad llwyr, ac ar gais y Llywodraeth Doryaidd, yn cael mai eu byrbwylldra trahaus hwynt oedd wedi achosi y terfysgoedd. Ac mae yn amlwg mai ychydig iawn sydd ganddo o feddwl am Mr. Bridge, oblegid pa fusnes oedd ganddo ef i adael i'r amaethwyr gwyno o herwydd yr Eglwys, a phaham na fuasai yn bwrw llawer mwy o amser yn Meifod? Ar ei hynt o sir i sir, y mae yr un cwestiynau yn barhaus yn codi i fyny, a'r un rhagfarnau yn cael eu hawyro. Mae yr Eglwys yn mhob man yn ennill tir, oblegid onid yw cyfrifon Ionawr 1887, y rhai yr oedd Mr. Gee yn gelu, yn dangos hyny? Ac onid ydyw y cyfoethogion yn cyfranu i adeiladu ac adgyweirio Eglwysi? Ac onid oes niferi anferth yn derbyn conffirmasiwn? Mae yn wir, chwedl y Deon Edwards, fod lliaws mawr o'r rheiny na welir hwynt byth wedyn

o fewn muriau yr Eglwys, ond er hyny, yn ol yr ysgrifenydd hwn, mae cyfrifon y conffirmasiwn yn "unimpeachable figures." Nid oes dim dadlu yn eu cylch. Tuedda i gydolygu â rhyw bobl ddoeth yn yr Eglwys y bydd pum' mlynedd yn ddigon i sefydlu ei llawn uchafiaeth yn Sir Benfro, a gellid meddwl na fydd eisieu nemawr ychwaneg yn Nghymru oll. Mae yr Ymneillduwyr yn edrych gyda dwfn ddirmyg ar waith yr Eglwyswyr yn gwneyd y fath ymdrech i broselytio eu pobl hwynt i'r Eglwys, ac er fod yr ysgrifenydd ei hun yn edrych ar broselytio fel peth dirmygedig, eto priodola hyny i zel adnewyddol yr Eglwys trwy ba un y mae am adfeddiannu Cymru, a gwel fod yr Ymneillduwyr yn cwyno am fod yr Eglwys yn *poachio* ar eu *preserves*. Mae pob *poachio* arall yn beth melldigedig; ond mae hwn yn sanctaidd iawn. Mae hyd yn nod Arglwydd Selborne yn ei fendigo. Ac am yr Ymneillduwyr, y maent hwy, fe wyr pawb,—canys y mae diweddar Ficer Caerfyrddin, a hwnw yn awr yn Esgob Llanelwy wedi dyweyd,—yn darfod o'r tir; mae eu nifer yn myned yn llai, a'u casgliadau yn ysgafnach o flwyddyn i flwyddyn. Am yr ystadegau a gyhoeddant, nid oes dim dibynu i fod arnynt. Onid yw y Methodistiaid Calfinaidd—y bobl felldigedig hyny sydd yn gyfrifol am bob drwg,—wrth ofyn am nifer eu gwrandawyr, yn galw am fod pawb yn cael eu cymeryd i fewn i'r cyfrif fo yn arfer gwrando gyda hwynt, er na fyddont oll yn bresennol ar yr un pryd, yn golygu fod pob un a ddelo ar ryw ddamwain i'w haddoldai i'w gyfrif yn un o'u gwrandawyr? Y maent, medd efe, "yn dymuno cael eu twyllo." Ië, y mae ganddynt bregethwyr neillduol yn myned oddiamgylch, sydd yn codi pum' gini am bregethu, a llawer o bobl yn dyfod ar eu hol, a phob un o'r rhai hyny yn cael ei gymeryd i restr eu gwrandawyr. Ac o ran hyny, nid ydynt yn cyfrif mewn trefn i osod i lawr eu ffigyrau; maent yn ddigon dryg-ionus i daro i lawr unrhyw ffigyrau, os dychymygant y gallai hyny wneyd rhyw-beth tuag at ddinystrio yr Eglwys. Dychwela yr ysgrifenydd drachefn a thrachefn at bwnc y tir, a phob amser i ddangos nad oes eisieu dim ond parhau y drefn ar bethau sydd yn awr yn bod. Wedi dyfynu cwynion trymion a gyhoeddir yn y wasg Gymreig, boddlona ar eu galw yn gamgy-huddiadau; ac am ffeithiau ofnadwy *Landlordism in Wales* gan Adfyfr, y peth cryfaf sydd ganddo i'w ddyweyd gyda golwg arnynt ydyw fod y pamphled sydd yn eu cynnwys mewn amlen werdd. Ond fe wêl fod cyfrif-oldeb ofnadwy ar y tirfeddianwyr, am nad ydynt yn dyfod allan yn rhyfel y degwm yn llawer mwy pybyr o blaid yr offeiriaid. Mae arnom ofn y bydd rhai o'n darllenwyr tirion yn digon pechadurus i lawenhau wrth un ffaith dra dyddorol a gyhoeddir ganddo, sef fod llawer o'r offeiriaid duwiol, wrth weled y tirfeddianwyr mor anffyddlawn iddynt yn yr helynt yma, wedi penderfynu fotio o hyn allan gyda y Radicaliaid! Ond y mae ganddo fygythiad ofnadwy arall, na flina yn ei daranu yn erbyn y tirfeddianwyr, sef nad ydyw cynhwrf y degwm ond dechreuad y rhyfel yn erbyn y tir, ac mai y diwedd anocheladwy fydd yspeiliad cyffredinol, a chymdeithas oll yn cael ei dymchwelyd i dryblith a dinystr. A dyma y frawddeg olaf: "Os ydyw y golygiadau hyn yn gywir, y mae yn ymddangos fel gwirionedd amlwg y teilynga gweithrediadau yr Eglwys yn Nghymru yn yr amser presennol gael eu gwylio gyda y gofal mwyaf a'u dilyn gyda phryder neill-duol gan y rhai sydd yn gofalu am barhad heddwch a threfn."

Yr ydym wedi gosod ger bron ein darllenwyr syniadau ag y mae cyhoedd-usrwydd mawr wedi ei roddi iddynt yn ein cylch, ond fel y mae y goreu y modd y mae hyny yn y *Times*, papyr ag y mae ei anghlod yn glod a'i gabl yn ogoniant. Nid awn i'w sarhau trwy gynnyg unrhyw farn arnynt. Y maent, fe wyr pawb, yn llawn o anwireddau, ac yn arddangos ysbryd o'r fath gulni a thraha a chwerwder ag a bâr i ddyn ddiolch am ysbryd rhydd, iachus, a chrefyddol Anghydffurfiaeth Gymreig, lle nad yw yn bosibl i nod-wedd o'r fath ag sydd yn llanw y llythyrau hyn hanfodi. A gwae y Sefydliad ag y mae eisieu dadleuon o'r fath yma i'w amddiffyn.

*Tro yn yr Eidal.* Gan O M. EDWARDS, B.A., Athraw mewn Hanes yn Ngholegau Balliol a Chorff Crist, Rhydychen. DogIellau: E. W. Evans.

MAE y gyfrol fechan brydferth hon yn haeddu croesaw mawr gan y Cymry ymhob man. Mae ei hawdwr wedi cyrhaedd enwogrwydd ag y mae ei genedl yn falch o hono; ac y mae ei gariad at Gymru mor fyw yn ei fynwes, fel y mae, er holl gyfrifoldeb pwysig ei sefyllfa yn y Brifysgol, yn awyddus i'w gwasanaethu. Gan ei fod yn cael gwibdaith i'r Cyfandir, ysgrifenodd, fel yr elai ymlaen, er mwyn cyfeillion a fuasent yn hoffi cyfranogi o'i fwynhad, yr hyn a welai ac a ddelai ar draws ei feddwl; a dyna sydd yn gwneyd i fyny y 88 o bennodau a geir yn y llyfr hwn. Yr oedd ganddo ef gymhwysder llawer iawn uwch at y fath waith nag sydd gan lïaws o'r bobl dda sydd yn ysgrifenu hanes teithiau, lle na cheir ond enwau y manau yr ânt trwyddynt, ynghyd a'r ffeithiau a grybwyllir yn y *guide-books*. Yr oedd meddwl Mr. Edwards yn llawn o hanes oreu y manau yr ymwelai â hwynt; yr oedd ganddo hefyd lygad i weled eu gogoniant; ac heblaw hyny yr oedd ganddo fedr i'w darlunio yn y fath fodd fel y gall ei ddarllenydd deimlo eu bod yn fyw o flaen ei lygad, a'i fod yntau yn cael eu mwynhau. Mae ei wybodaeth lenyddol helaeth hefyd yn cael ei gosod dan deyrnged, ac yn gwneyd ei waith yn hynod o ddifyr ac addysgiadol. Nid oes genym ond ychydig weithiau o'r natur yma yn ein llenyddiaeth, ac yn sicr nid oes genym yr un mor ddyddorol ac mor fyw, ac ar yr un pryd mor gywir ac ysgolheigaidd ag ydyw hwn. Darllenasom ef gyda gwir hyfrydwch; a hyderwn y darllenir ac y mwynheir ef gan lïaws mawr o'n cydwladwyr. Y mae ei Gymraeg yn llithrig a choeth, ond weithiau yn rhodresu mewn dirodresrwydd. Nid ydyw ei orgraff yn sefydlog nac yn ddealladwy. Dyblir y cydseiniaid yn helaeth, ond er hyny ysgrifenir "anaearol," "anifyr," "anaturiol," er y ceir mewn un lle "aunyniol." Nid ydys yn sicr pa un ai "Rhufen" ai "Rhufain" oedd y ddinas fawr, er y delir yn bur dŷn wrth "Rydychen." Mae y ph wedi ei throi dros y drws, ac ni cheir ond "Ioseff," "gorffen," "proffwydo," &c. Mae y *c* mewn Francis, Francesco, &c., yn fynych, os nid bob amser, yn myned yn *s*. Am "sosejus," a geiriau cyffelyb a ddygir i mewn, nid ydyw ein hen iaith dda yn debyg o allu eu harddel. Pan mae peth yn ddyeithr i ni, gwell cymeryd ei enw gydag ef, ac fe fydd hwnw yn ei ffurf ei hun lawer mwy dealladwy a golygus nag wedi ei lurgynio i sillebiaeth Cymreig. Ond nid ydyw pethau fel yma ond prin yn werth eu henwi. Y mae y llyfr yn un gwir dda, a difyr hynod. Y mae yn 240 o du dalenau, ac nid yw ei bris mewn llïan ond swllt. Addewir nifer o lyfrau cyffelyb dan yr enw "Cyfres y Werin." Pob llwyddiant i'r anturiaeth, a phob clod i wŷr ieuainc galluog a dysgedig Cymru am yr awydd dwfn sydd yn eu meddiannu i wasanaethu eu cenedl.

*Miriam: ei dyddiau olaf.* Gan DAVID OWEN, M.A., gynt o'r Ceinewydd, Ceredigion. Llanelly: D. Williams a'i Fab.

GELWIR y llyfryn hwn yma yn Nofel Gymreig. Nid ydyw ond bychan (pris 6c.), ac nid oes ynddo nemawr helyntion yn cael eu dwyn i sylw; ond y mae yn ddesgrifiad rhagorol o fywyd syml pobl dda a chrefyddol Ceredigion, ac wedi ei ysgrifenu yn eu tafodiaeth bert a phrydferth hwynt. Mae yr awdwr yn "gweled anian" â'i lygaid ei hun. Wrth ddesgrifio cwmni teuluaidd yn teithio dywed: "Ond dyma oedd yn eu boddio yn fawr, sef canfod fel y gwnai yr wybren oedd yn oleulwyd a dihaul beri i lesni y meusydd edrych can lased, a gweled mor ddyfnliwiog oedd ambell ysmotyn glas o dir pori ar hyd wyneb y fro." Blodeuyn prydferth ydoedd Miriam, yn gwywo cyn ymagor, ond yn ngafael y darfodedigaeth erch yn cael gorphwys mewn tangnefedd. Mae "arogl y maes" ar lawer o'r desgrifiadau a geir yn y llyfr.

HYSBYSIADAU.

Llyfr Newydd at Wasanaeth yr Ysgolion Sabbothol.

Yn awr yn barod, mewn llian, pris Hanner Coron,

**BRASLUN**

O

# FYWYD AC EPISTOLAU PAUL.

GAN

**JOHN EVANS (EGLWYSBACH).**

*TREFFYNNON: P. M. EVANS & SON.*

Ar Werth gan yr holl Lyfrwerthwyr; neu yn uniongyrchol oddiwrth y Cyhoeddwyr yn ddidraul trwy y Post, ar dderbyniad ei werth mewn Stamps neu Order.

**Mewn Llian, pris 1s. 6c.**

# YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

Cynnwysiad:

1. *Cychwyniad a Chynnydd yr Ysgolion.*—Gan y Parch. David Evans, M.A., Gelligaer.
2. *Llafur yr Ysgolion Sabbothol i'w ddwyn yn mlaen mewn Ysbryd Cariad.*—Gan y Parch. Charles Davies, Liverpool.
3. *Canu yr Ysgol Sabbothol.*—Gan Mr. Eleazer Roberts, Liverpool.
4. *Yr Athrawon.*—Gan Mr. R. D. Roberts, M.A., D.Sc., Clare College, Cambridge.
5. *Yr Athraw yn parotoi ar gyfer ei Ddosbarth.*—Gan y Parch. John Evans (Eglwysbach).
6. *Y gelfyddyd o addysgu yn ei chysylltiad â'r Ysgol Sabbothol.*—Gan Mr. S. J. Williams, Blaenau Ffestiniog.
7. *Safonau Addysg yr Ysgol Sabbothol.*—Gan y Parch. John Owen Jones, Llanberis.
8. *Holi.*—Gan y Parch. Evan Peters, Bala.
9. *Cysylltiad yr Ysgol Sabbothol a'r Band of Hope.*—Gan Ceridwen Peris, Fourcrosses.
10. *Yr Ysgol Sabbothol yn Lloegr.*—Gan Mr. T. Apsimon, Southport.
11. *Yr Ysgol Sabbothol fel Moddion Gras.*—Gan y Parch. T. Lewis, B.A., Coleg Annibynol y Bala.
12. *Chwiliwch yr Ysgrythyrau.*—Gan Dyfed.
13. *Olysgrif.*—Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor.

TREFFYNNON: P. M. EVANS & SON.

CYFROL GOFFADWRIAETHOL CYNFAEN.

YN AWR YN BAROD, YN UN GYFROL,

PRIS PEDWAR SWLLT,

DETHOLIAD O BREGETHAU Y DIWEDDAR BARCHEDIG JOHN HUGH EVANS (Cynfaen). Mae y Gyfrol yn cynwys Braslun o Fywyd yr Awdwr, a'i ddarlith ar Job, yn nghyda PHRYDDEST FUDDUGOL CADVAN er coffadwriaeth am dano. Anfoner pob archebion at MRS. J. H. EVANS, 43, Tennyson Street, Liverpool. Rhoddir yr elw arferol i Lyfrwerthwyr a Dosbarthwyr.

Yn awr yn barod, mewn llian hardd, pris 8s. 6c.

WILLIAMS PANT-Y-CELYN,

YN CYNNWYS EI

Holl Gyfansoddiadau Barddonol,

Oddieithr ei Hymnau, gyda Hanes ei Fywyd, a Thraethawd Beirniadol ar ei Weithiau, gan y Golygydd, y

PARCH. N. CYNHAFAL JONES,

LLANIDLOES.

Mae y gyfrol hon y cydgasgliad cyflawnaf o Weithiau Perganiedydd Cymru a gyhoeddwyd erioed—ac mae y ffaith fod cannoedd lawer o'r gyfrol wedi eu herchi cyn ei hymddangosiad o'r wasg yn siarad yn uchel am ei theilyngdod, a'r anghen a deimlid yn y wlad am Weithiau Prif Emynydd y Genedl.

P. M. EVANS & SON, PUBLISHERS, HOLYWELL.

Yn awr yn barod, Pris 1s. 6c., mewn amlen liwiedig, y Ffugchwedl Boblogaidd

Y DREFLAN:

EI PHOBL A'I PHETHAU

WEDI EI HYSGRIFENU GAN

AWDWR "RHYS LEWIS."

Mae y chwedl hon wedi derbyn cymeradwyaeth mwyaf calonogol y wasg, ac ynddi ceir desgrifiadau naturiol o gymeriadau ac amgylchiadau gwir Gymreig, wedi eu portreadu yn null dihafal a mwyaf hapus yr Awdwr.

Ar werth gan yr holl Lyfrwerthwyr, neu yn uniongyrchol oddiwrth y Cyhoeddwyr,

P. M. EVANS & SON, HOLYWELL.

RHIFYN CLXXX

JAN 3 1918

# Y TRAETHODYDD.

## MEDI, 1889.

CYNNWYSIAD.

Tu dal.

John Jones o Ramoth. Gan y Parch. EVAN ROBERTS ... ... ... ... 269

Hollt Ddaearegol yr Arabah ac Akabah. Gan y Parch. JOHN JONES, F.G.S. ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 277

Hen Aralleiriad o'r Bedwaredd Salm ar Bymtheg ... ... ... ... ... ... 283

Cymeriad yr Iesu a'i Ddylanwad ar y Byd. Gan y Parch. R. D ROWLAND ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 284

Amaethyddiaeth. Gan JOHN EVANS, F.L.S. ... ... ... ... ... ... ... 291

Personoliaeth yr Ysbryd. Gan y Parch. SAMUEL T. JONES ... ... ... 296

Mr. J. W. Prichard, Plasybrain, a Mr. Robert Hughes, Tyddyn y blawd ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 300

Y Parch. Edward Roberts, Ceunant, Arfon. Gan y Parch. W. RYLE DAVIES ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 304

Blodeuyn mewn Anialwch. Gan y Parch. O. PARRY-OWEN ... ... ... 319

Crybwyllion Henafiaethol. Gan R. PRYS MORRIS ... ... ... ... ... 320

Y Sabboth. Gan GLASWYRON ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 326

Anffyddlondeb Athrawon. Gan y Parch. J. MYFENYDD MORGAN ... 327

Cau y Tafarnau ar y Sabboth a'r Ddirprwyaeth Frenhinol. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A. ... ... ... ... ... ... ... ... ... 333

Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 352

*CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF TACHWEDD 1, 1889.*

SWLLT.

TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

# P. M. EVANS & SON, HOLYWELL

Yn awr yn barod, pris mewn llian hardd. 1s. 6c.; amlen, 1s.,

## Y SISWRN,

SEF

DETHOLION PRUDD A DYDDANOL, NEWYDD A HEN

O WEITHIAU

DANIEL OWEN,

Awdwr poblogaidd "RHYS LEWIS," "Y DREFLAN," &c.

---

## GWOBR - LYFR I BLANT.

Yn awr yn barod, pris mewn llian, 1s. 6c.; amlen. 1s.,

## DARLITHIAU TODD I BLANT.

Wedi ei gyfieithu gan y Parch. ELLIS EDWARDS, M.A., Bala.

---

Yn awr yn barod, pris mewn llian, 1s. 6c.; amlen, 1s.,

## CANEUON,

Ar destynau Crefyddol a Moesol, gan y diweddar Barch. ROGER EDWARDS, Wyddgrug, cyn-Olygydd "Y Drysorfa."

---

Yn awr yn barod, pris mewn llian, 1s. 6c.

## Llyfr Rhagorol fel Gwobr i Ferched Ieuainc.

## FY CHWAER,

Coflant am Miss JONES, Cefn y gader, yr Wyddgrug, gan ei brawd y diweddar GLAN ALUN.

Page 357

# Y TRAETHODYDD.

## JOHN JONES O RAMOTH.

Yr oedd John Jones—neu fel y galwai efe ei hun, John Richard Jones, i'w wahaniaethu ei hun, mae yn debyg, oddiwrth y John Jonesiaid afrifed sydd yn Nghymru—yn ŵr o hynodrwydd mor fawr, a neillduolrwydd mor arbenig, a rhai rhagoriaethau mor ddysglaer, fel nad ydym yn teimlo rhwymau i wneyd unrhyw esgusawd dros ei godi i sylw darllenwyr y Traethodydd. Mae y ffaith ei fod yn Gymro mor aiddgar, yn llenor da, ac yn fardd gwych, yn galw am i ni beidio ei anghofio fel un o enwogion ein cenedl. Ac y mae yr hynodrwydd mwy sydd yn perthyn iddo, fel arweinydd y blaid a sefydlydd yr enwad crefyddol a elwir y "Bedyddwyr Albanaidd" yn Nghymru, wedi ei wneyd yn offerynol i godi i sylw rai pynciau Duwinyddol, na ddylent syrthio i ebargofiant. Dyna y rheswm penaf a'n cymhellodd i roddi adgof uwch anghof i'w goffadwriaeth. Mae Mr. Jones wedi marw er ys saith mlynedd a thriugain i'r flwyddyn hon; ac er fod amrai hen bobl sydd yn ei gofio eto yn fyw, nid ydyw cof y rhai henaf o honynt ond "cof plant," fel nad oes ganddynt ond ychydig i'w adrodd am dano. Dygwyddai fod lliaws o berthynasau agos yr ysgrifenydd yn perthyn i'w blaid, ac yn edmygwyr mawr o hono. Trwyddynt hwy, yn nyddiau ei fachgendod, pan oedd coffadwriaeth Mr. Jones eto yn lled wyrdd yn yr ardaloedd, daeth i wybod cryn lawer am dano, ac am ei ddaliadau crefyddol. Bu yn dadleu nid ychydig yn eu cylch, ac yn hyny cafodd fendith, trwy ddeffro ei feddwl ac addfedu ei farn, i wrthod rhai pethau yn bendant, ac i gymeradwyo pethau eraill. Yr ydym yn adrodd hyn o gyfrinach, i ddangos fod genym barch mawr i'w goffadwriaeth.

Plwyf Llanuwchllyn, yn Sir Feirionydd, sydd yn meddu yr anrhydedd o fod yn fangre genedigaeth Mr. Jones, fel llawer iawn o enwogion eraill. Dywedir fod y plwyf bychan hwn wedi cynnyrchu nifer mwy o ddynion enwog nag un plwyf arall yn Nghymru, pa fodd bynag y mae cyfrif am hyny. Tybia rhai fod purdeb awyr yr ardal, cynnyrch ei thir, ei bara ceirch, ei llaeth enwyn, pysgod ei llyn enwog, &c., o duedd naturiol i fagu ymenydd mawr. Meddylia eraill fod y ffaith fod yr ardal er ys dros gant a hanner o flynyddoedd dan weinidogaeth sefydlog, effro, a meddylgar yr hen Ymneillduwyr, a'r

gweinidogion hyny trwy y blynyddau yn cadw ysgol ddyddiol i'r naill ar ol y llall, yn ddigon o gyfrif am hyn. Bu yno hefyd ddadleuon brwd, oedd o duedd i ddeffro ac awchlymu y meddwl. Priodola eraill y peth i'r ffaith fod poblogaeth y gymydogaeth yn denau, eu trigleoedd yn byw ar wahân, heb rwbio nemawr yn eu gilydd, ond mewn cymundeb â hwy eu hunain, â natur, ac â Duw. Dichon fod y pethau hyn gyda eu gilydd yn ddigon i gyfrif paham y mae Llanuwchllyn wedi bod er ys oesoedd bellach mor gynnyrchiol o enwogion.

Mewn amaethdŷ bychan o'r enw Brynmelyn, yn y plwyf uchod, ar y 13eg o Hydref, 1765, y ganwyd y bachgen penderfynol, a ddaeth wedi hyny i aflonyddu y byd o dan yr enw "John Jones o Ramoth." Ymddengys fod ei rieni yn aelodau gyda yr Annibynwyr yn yr Hen Gapel. Yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, a bu ei fam farw yn 1782—pan nad oedd John ond yn 17 oed—gan adael tystiolaeth dda o'i ffydd yn Nghrist. Gweinidog yr Hen Gapel pan oedd John yn fachgen ydoedd yr enwog B. Evans, wedi hyny o'r Drewen. Ar ol ymadawiad Mr. Evans daeth gŵr ieuanc wedi cael addysg dda, o'r enw Timothy Davies, o Lanbrynmair, yn ei le, a chyda Mr. Davies y bu John R. Jones yn yr ysgol, yn derbyn addysg dda tra y parhaodd, pan ydoedd o 12 i 14 oed. Dangosodd yn yr oedran cynnarol hwnw ei fod o feddwl cyflym a phenderfynol, ac yn meddu ar alluoedd cryfion os nad talentau dysglaer. Ar ol gadael yr ysgol, bu am rai blynyddau yn gweithio ar y tyddyn gyda'i dad; ond llyfrau a darllen oedd wedi myned â'i fryd yn lled lwyr trwy gydol yr adeg hono. Yr oedd ei feddwl hefyd dan argraffiadau crefyddol dwys er yn foreu, a rhyw awydd pregethu wedi ei feddiannu yn gynnar ar ei oes.

Tua'r adeg yr oedd J. R. Jones yn ddeg oed, darfu i'r Bedyddwyr yn y Deheubarth anfon pregethwyr teithiol, fel cenadon trwy Wynedd; ac ar yr 19eg o Awst, 1776, bu Dafydd Evans o'r Dolau, a Morgan Evans o Bantycelyn—dau ŵr poblogaidd—yn pregethu yn hen gapel Llanuwchllyn. Mae yn debyg fod J. R. Jones yn eu gwrandaw hwy, ac eraill a ymwelsant â'r ardal yn y blynyddau dilynol, canys cawn fod ei feddwl wedi ei dueddu yn lled foreu at olygiadau y Bedyddwyr. Yr oedd eglwysi Bedyddiol ymhell cyn hyn wedi eu sefydlu yn Ngwrecsam, Cefnbychan, a Glynceiriog, ac yr oedd ambell un oeddynt yn aelodau yn yr eglwysi hyny yn byw yn ardaloedd Penllyn yr adeg hon. Ymwasgodd J. R. Jones at y rhai hyny, a bu yn eu hanerch mewn ffordd o bregethu iddynt rai gweithiau cyn ei fedyddio trwy drochiad. Un tro cymerodd G. Jones o Goed-y-foel ef i'r Glynceiriog, er mwyn i'r brodyr yno ei glywed a rhoddi eu barn arno. Traddododd ei bregeth iddynt yn bwyllog, eglur a chryno, er mawr foddlonrwydd i bawb oedd yn gwrandaw. Yr oedd hyny, dybygid, tua'r flwyddyn 1787. Yn gynnar yn 1788, daeth Dafydd Hughes, gŵr o'r Deheudir, ond oedd erbyn hyn newydd ymsefydlu fel gweinidog yn Ramoth, Frondanwy, i Lanuwchllyn i bregethu. Cymerodd dŷ o'r enw Penrhiw Dwrch, i bregethu ynddo. Daeth J. R. Jones i gydnabyddiaeth âg ef, a bedyddiwyd ef Mehefin 7, 1788, yn yr afon gerllaw Trawsfynydd, gan Henry Dafydd, Llangloffau. Yn fuan ar ol hyny galwyd ef i bregethu i'r lleoedd oedd dan ofal Dafydd Hughes, sef Ramoth, Harlech, Abermaw, Trawsfynydd, a Llanuwchllyn. Cyn pen ychydig dychwel-

odd Dafydd Hughes yn ol i'r Deheudir, a cheisiwyd gan J. R. Jones gymeryd gofal yr eglwysi yn ei le. Wedi bod yn y sefyllfa hono am tua deunaw mis, teimlodd awydd angerddol am ychwaneg o ddysg i'w gymhwyso i'w waith pwysig, a meddyliodd am fyned i Athrofa Bristol i'r perwyl hwnw; ond ni chydsyniai yr eglwysi dan ei ofal â hyny mewn un modd, ond rhoddasant alwad unfrydol iddo i fod yn weinidog rheolaidd arnynt; a neillduwyd ef i'r gwaith Tachwedd 4ydd, 1789—can' mlynedd i'r flwyddyn hon, pan nad oedd efe ond ychydig dros 24 mlwydd oed.

Daeth ar unwaith yn bregethwr poblogaidd anarferol. Yr oedd yn ddyn tàl, prydferth, o safiad boneddigaidd, dros ddwy lath o uchder. Meddai dalcen uchel, llygaid craffus, ei wallt yn grych ac yn gringoch, ac yn cael ei godi yn ol oddiar ei dalcen Yr oedd ei lais yn uchelseiniol, yn glir ac yn awdurdodol, ond yn tueddu mwy at y cras, metelaidd, na'r peraidd a meddal Yr oedd ei barabl yn rhwydd a chroew, ei iaith yn goeth a phur, ei draddodiad yn nerthol ac awdurdodol, ei feddyliau yn gryfion a dyrchafedig, a'i ysbryd yn danllyd ac angerddol. Pregethai nes y byddai y rhai mwyaf difraw yn crynu ger ei fron. Yn ystod yr adeg o 1789 hyd 1795—pan rhwng pump a deg ar hugain oed,—yr oedd yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn Nghymru. Nid oedd gan y Bedyddwyr odid Gymanfa yn y Deheubarth yn ystod y blynyddoedd hyny na byddai raid cael "Jones o Ramoth" i bregethu ynddynt, a phregethu y byddai gyda zel a dylanwad mawr ar y tyrfäoedd.

Tua'r flwyddyn 1795, pa fodd bynag, dechreuodd cyfnewidiad ymweithio yn ei feddwl gyda golwg ar y dull apostolaidd o bregethu, ynghyd ag amryw bynciau eraill mewn athrawiaeth a threfn eglwysig. Cyfnewidiad oedd hwn, ar ryw olwg, a dyweyd y lleiaf, sydd yn alarus i feddwl am dano, pan gofiom yr effeithiau a achlysurodd ymysg y Bedyddwyr yn Ngogledd Cymru. Rhoddir hanes y cyfnewidiad hwn yn syniad a barn Mr. Jones fel y canlyn:—Yn 1794 yr ydoedd yn pregethu gyda zel a brwdfrydedd mewn cyfarfod pregethu a gynnelid yn y Cefn bychan, a dygwyddai fod gŵr o'r enw Robert Roberts, Rhosddu, ger Gwrecsam, yno yn gwrandaw. Gofynodd y gŵr hwnw rywbryd i J. R. Jones, a oedd efe yn bur sicr mai y dull hwnw o bregethu oedd yr un iawn yn ol yr Ysgrythyr? Atebodd yntau yn gadarnhäol, gan ddywedyd, "Beth bynag a ymaflo dy law ynddo i'w wneuthur gwna â'th holl egni." Bu peth dadl rhyngddynt ar y mater. Yn y man dywedodd R. Roberts fod ganddo ef lyfrau o waith Mr. Archibald McLean o Edinburgh, yn dangos pethau yn eglur mewn goleu pur wahanol, ac y byddai yn bleser ganddo adael iddo gael eu benthyg a'u darllen. A hyn y cydsyniodd yntau. Ar y cyntaf addefa fod ei ragfarn yn gryf yn eu herbyn; ond bu i'r goleuni newydd belydru ar ei feddwl nes ei lwyr ennill i'r un golygiadau. Wedi iddo gael yr hyn a dybiai ef oedd y gwirionedd, penderfynodd aberthu pobpeth er ei fwyn, a gwneyd pob ymdrech i'w ledaenu ymysg ei frodyr; yr hyn beth y bu hefyd ddiwyd i'w wneuthur. Yn fuan agorodd Mr. Jones ohebiaeth â McLean a'i frodyr yn yr Alban, a phasiodd cryn nifer o lythyrau rhyngddynt gyda golwg ar ddwyn ymlaen y diwygiad yn Nghymru. Edrychai John Jones erbyn hyn ar yr Hen Fedyddwyr—a phob enwad arall, wrth gwrs, yn fwy fyth—"yn Fabylonaidd," wedi

puteinio ymhell oddiwrth burdeb a symledd yr Efengyl mewn athrawiaeth a dysgyblaeth. Bu y lefain am rai blynyddau yn gweithio yn y blawd, ac effeithiodd i raddau mwy neu lai ar yr holl eglwysi yn siroedd Môn, Arfon, a Dinbych. Yr oedd bron yr holl weinidogion dan ei ddylanwad, ac nid oedd neb yn meiddio codi llef yn ei erbyn, ond Thomas Jones, gweinidog Glynceiriog. Yr oedd yr enwog Christmas Evans o Langefni, ac Edward Francis o Gaernarfon, ymhell dan ei ddylanwad. Ymddengys i Christmas Evans ac Edward Francis gael cyfarfyddiad â Mr. McLean yn Liverpool, a bod y gŵr hwnw yn cael lle i dybied fod y ddau wedi eu llwyr ennill drosodd ar y pryd. Modd bynag, yn raddol, dechreuodd y rhai mwyaf crefyddol a meddylgar yn eu plith betruso ac ail feddwl. Yn y cyfamser daeth gwaith A. Fuller yn erbyn golygiadau McLean allan drwy y wasg, ac atebiad McLean, a *Strictures* A. Fuller wedi hyny, pa rai a ddarllenwyd yn fanwl gan lawer o honynt: a'r canlyniad fu peri iddynt betruso ac arafu, ac i rai ddechreu tynu yn ol.

Rywbryd tua diwedd 1801, gellid tybio,—fel y mae yn rhyfedd, nid yw y dyddiad ar gael er ei fod yn un o'r dyddiau hynotaf,—galwyd cynnadledd o'r holl siroedd, gan Mr. Jones a'i blaid, i gyfarfod yn Ramoth, i gynnyg sefydlu a phenderfynu y dadleuon oedd yn eu mysg, ac yn ol C. Evans—"i gael gweled pwy oedd am ddiwygio yn ol y gwirionedd, a phwy oedd am aros yn yr hen Fabylon fawr." Yr oedd Jones wedi parotoi ei ganlynwyr i'r frwydr, ac yn dysgwyl iddynt ei gefnogi ar ol iddo ef agor y pwnc. Ond dystaw a thawedog oeddynt oll, nes y darfu iddo eu ceryddu yn llym am eu llwfrdra. Bellach cododd Robert Morgan—dyn ieuanc a ddaeth wedi hyny yn gydweinidog â Mr. Jones—ac a geisiodd lefaru yn ffwdanus o blaid y diwygiad. Ar hyn, aeth yn ddadleu brwd trwy y cyfarfod, yn enwedig rhwng John Jones a Christmas Evans, gan gyfarch eu gilydd yn "ti a thithau," yn ol arfer newydd y Bedyddwyr Albanaidd. Wedi llawer o ymdderu, pa fodd bynag, cododd J. Jones ar ei draed o dan y pulpud, ac yn ei ddull awdurdodol ei hun, tynodd allan bapyr-len fawr wedi ei hysgrifenu yn ddillyn, a darllenodd restr o resymau, yn dangos paham yr oedd efe yn ymneillduo oddiwrth y Bedyddwyr yn Nghymru. Cyfarfod hynod oedd hwn. Mae desgrifiad C. Evans o hono yn fywiog a tharawiadol, ond gan y tybiwn iddo gael ei gario gan ei deimladau brwd i raddau o eithafion, ni ddodwn ef i mewn yma. Dyna pryd y sefydlwyd yr hyn a elwir yn gyffredin Sandemaniaeth yn Ngogledd Cymru.

Bellach ceisiwn osod o flaen y darllenydd natur ac elfenau y Sandemaniaeth hon, y bu cymaint o gynhwrf ac ymddadleu yn ei chylch. Teg ydyw dyweyd mai prin y mae yn briodol galw John Jones a'i blaid yn Sandemaniaid. Yr oedd efe ei hun yn *ymwrthod* â'r enw yn bendant, a hyny, dybygid, oddiar resymau teg. Annibynwr, mae yn debyg, oedd Robert Sandeman, ac er mai yn ei gyfundeb ef y dygwyd McLean i fyny, eto pan drodd yn ddiwygiwr, gadawodd y blaid hono a daeth yn Fedyddiwr, ac wrth gymeryd y cam hwnw, ymddengys iddo adael ar ol braidd holl neillduolion y Sandemaniaid. Ni ddarfu i John Jones, ychwaith, fyned ymhellach yn y cyfeiriad hwnw na dilyn McLean. Er y cwbl, dyna yr enw

wrth ba un yr adnabyddir y blaid hon yn y wlad. Yn ol darluniad yr enwog Christmas Evans o Sandemaniaeth, fel y myn ef ei galw, gellid meddwl mai y gyfundrefn fwyaf niweidiol a'r ellyll mwyaf anrheithiol i grefydd ysbrydol, y gellid braidd meddwl am dano, ydyw; ei bod yn erbyn Ysgol Sabbothol ac ymdrechion cenadol, yn ddeifiol i wresogrwydd crefyddol, megys dwyreinwynt ar lysiau. Dengys hyn trwy ddangos yr effaith anrheithiol a gafodd ar ei brofiad ef ei hun yn bersonol, yn gystal ag ar grefydd yr eglwysi yn gyffredinol. Myn ef hefyd osod Mr. Jones allan fel dyn meistrolgar hunanol, na allasai oddef cael ei wrthwynebu; un fel Cesar, yn well ganddo fod yn benadur mewn *pentref*, na bod yn ail yn *Rhufain;* ac mai dynion sychion, di-weddi, oedd ei bleidwyr a'i ganlynwyr. Gyda phob dyledus barch i Mr. Evans, er mor anwyl ei goffadwriaeth genym, yr ydym yn rhwym o anghytuno âg ef yn y dystiolaeth hon. Wedi darllen yn ystyriol y "Crynhodeb o egwyddorion ysgrythyrol," sef cyffes ffydd y blaid hon, nis gallwn weled ond ychydig o bethau ynddi i anghytuno a hwynt, yn enwedig yn y prif bynciau athrawiaethol. Er ei bod yn gwadu tragywyddol genedliad y Mab, y mae yn dal ei bersonoliaeth a'i Dduwdod yn eglur. Er ei bod yn gwadu cyfammod Duw âg Adda a'i had, y mae yn dal cwymp dyn a'r pechod gwreiddiol yn ddiamwys. Am y trefniadau eglwysig na allem gytuno â hwynt, y maent, ar y cyfan, yn bethau dibwys, ac heb fod yn perthyn yn hanfodol i fywyd crefydd. Mae yn rhaid mai yn y dadleuon cecrus, a'r teimladau drwg a achlysurodd y symudiad, yn fwy na'r gyfundrefn ei hun, yr oedd y niwaid anrheithiol i grefydd ysbrydol. Gyda golwg ar Mr. Jones ei hun, er yn benderfynol ac anhyblyg, mae yn rhaid i ni gredu ei fod yn ŵr cywir a chydwybodol dros yr hyn a ystyriai efe yn wirionedd. Treuliodd ei oes mewn ymdrech diflino i ogoneddu Duw a llesâu dynion. Bu ei lafur hefyd yn llwyddiannus a bendithiol, canys parhaodd i ennill a bedyddio dysgyblion hyd ddiwedd ei oes. Dywedir i Elias o Fôn, ar ryw adeg gael cyfle i'w wrando yn pregethu, ac mai argyhoeddiad ei gydwybod ef ydoedd, fod J. Jones yn "ddyn Duw mewn gwirionedd." Er ei fod yn naturiol yn benderfynol, os nad ystyfnig, eto mae yn amlwg mai nid gan awelon hyrddiog mympwyon y gyrid ei lestr, ond fod ynddo lawer o ager egwyddor, a chariad at ei Waredwr.

Dyna ydoedd yr hyn a elwid—ond fe ddichon a gamenwid—yn *Sandemaniaeth:* ymgais i sefydlu Eglwys Gristionogol, ar gynllun Apostolaidd, yn ol egwyddorion syml y Testament Newydd, ac yn ol esiampl y cyn-Gristionogion. Gadael heibio bob traddodiadau eglwysig fel pethau aflan, a dilyn Crist a'i apostolion yn fanwl i'r llythyren. "*Commissiwn* Crist i'w apostolion, Matthew xxviii. 18—20," yn ol McLean, ydyw rheol fawr crefydd Crist: "Gan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymynais i chwi." Mae genym barch mawr i'r syniad hwn. Y Bibl ydyw unig, ddigonol, ac anffaeledig reol ein ffydd a'n hymarweddiad. Dyna egwyddor fawr Protestaniaeth a Phuritaniaeth. Dylid bod yn ofalus rhag dirymu Gair Duw trwy ein traddodiadau ein hunain, na chymysgu defodau mympwyol â gair awdurdodol y nef. Teimlwn yn eiddigeddus dros awdurdod Gair Duw fel rheol fawr pob peth crefydd. Ond y mae modd cario hyn yn rhy bell, ac allan o'i

derfynau. A dyma wnaeth John Jones o Ramoth, dybygid, yn ei sel danbaid, nes tori ei hun allan o bob cydymdeimlad â'i gyd-Gristionogion, oddieithr ychydig o Fedyddwyr yn yr Alban. Aeth yn gul ac yn gyfyng i'r eithaf, gan ystyried pawb yn Babyddol ond ei blaid ef ei hun. Mae modd gwyro ar y llaw *ddehau* yn gystal a'r llaw aswy. Dylid cofio mai llyfr egwyddorion ydyw y Bibl, ac nid llyfr manylion. Llyfr Dwyreiniol ydyw hefyd, wedi ei ysgrifenu filoedd o flynyddau yn ol, ymysg cenedl fechan gyfyng ei syniadau, a neillduol iawn ei harferion. Felly nid ei fanylion sydd i fod i ni yn fam-reolau pa fodd i fyw bob dydd ymhob gwlad ac oes, ond ei egwyddorion sydd i'w cymhwyso at amgylchiadau pob dyn, ymhob man. Dyna fel y mae y Bibl yn llyfr i bawb o bobl y byd. O'i gymeryd fel hyn, ni byddem byth heb arweinydd anffaeledig ar bob amgylchiad. Wrth ochel bod yn fympwyol a defodol, dylid gwylio rhag bod yn ffurfiol a llythyrenol. Mae dilyn y rheol a'r llythyren yn gaethiwed; dilyn yr ysbryd a'r egwyddor sydd yn rhyddid. Wrth roddi lle mawr i'r Testament Newydd, dylid peidio diystyru yr Hen Destament. Y Bibl, yr holl Fibl, a dim ond y Bibl, ydyw crefydd Protestaniaid. Nid ydyw hyn yn peri na ddylem gymeryd pob addysg a hyfforddiant a allwn gael oddiwrth Hanes yr Eglwys a dadblygiad athrawiaethau crefydd mewn oesau diweddar. Mae dal gafael yn egwyddorion mawr y Bibl yn bwnc o *Ffydd*, ond y mae y cymhwysiad beunyddiol o honynt at amgylchiadau bywyd wedi ei adael i ddoethineb ein *Rheswm*.

Dylem yn wastad fedru gwahaniaethu rhwng yr hanfodol a'r amgylchiadol mewn crefydd. Yn hyn y mae Sandemaniaeth, fel ei gelwir, yn methu yn ddirfawr, dybygem. Cofus gan yr ysgrifenydd, pan yn fachgen lled ieuanc, fod mewn dadl âg un o ganlynwyr Jones o Ramoth; hen ŵr o berthynas agos iddo, at yr hwn y teimlai lawer o barch fel dyn cywir, er yn lled gyfyng. Yn yr ymddyddan soniasom am y "pwysig a'r dibwys," neu yr "hanfodol a'r amgylchiadol" mewn crefydd. Methai yntau a gweled y gwahaniaeth. Iddo ef yr oedd pobpeth a ddysgwyd gan Grist a'i apostolion mor bwysig a'u gilydd. I egluro y gwahaniaeth, dywedasom fod credu yn Nghrist a chyfranogi o Swper yr Arglwydd yn bur wahanol; fod y cyntaf yn hanfodol i fyned i'r nefoedd, ond nid felly yn hollol yr olaf. Nid oedd efe yn barod i gydnabod y gwahaniaeth. Yn ol ei syniad ef, yr oedd y naill mor hanfodol a'r llall. Yr un un ag a ddywedodd "Cred," a ddywedodd hefyd, "Gwnewch hyn er coffa am danaf." I egluro ymhellach, dywedasom : a chaniatâu fod cyfranogi o Swper yr Arglwydd yn hanfodol, fod y dull, y modd, a'r amser yn ddibwys; ond ni chaniatâi efe hyn ychwaith, ond yr oedd yn ystyried y dylid dilyn Crist a'r Apostolion yn fanwl i'r llythyren "bob dydd cyntaf o'r wythnos," a chondemniai yn llym y dull oedd gan rai o dori y bara yn barod â chyllell, ac nid ei *ddryllio* â'u dwylaw wrth fyned ymlaen. Ar hyn gofynasom, a oeddynt hwy yn defnyddio "bara croew" yn yr ordinhad, ac hefyd yn lledorwedd wrth y bwrdd fel y gwnai Crist a'i Apostolion, yn ol yr arfer ddwyreiniol? Atebai nad oeddynt, y naill na'r llall. Nid ydych felly yn dilyn Crist, meddwn wrtho, canys yn sicr "bara croew" oedd ganddo ef yn yr oruwchystafell ar y Pasg, ac ar eu lledorwedd yr amgylchynent y bwrdd. Wedi peth dystawrwydd, addefodd fod y "bachgen am

unwaith yn hytrach wedi cael y trechaf arno." Dwyn i mewn arferion dwyreiniol, megys "golchi traed y saint," ac arfer y "cusan sanctaidd," teimlo zel angerddol drostynt, a rhoddi pwys mawr arnynt fel pethau hanfodol crefydd, yn sicr oedd yn cario J. Jones a'i blaid yn eithafol o bell, gan edrych ar bawb arall yn Fabylon lygredig. Yn ei barch mawr i Air Duw, ei zel danbaid dros y gwirionedd, a'i wrthwynebiad pendant i ddefodau dynol a chrefydd wladol, yr ydym yn teimlo fod ei goffadwriaeth yn fendigedig, a'i enw yn beraroglaidd yn Meirion hyd heddyw.

Trwy ddyfod dan ddylanwad McLean, bu cyfnewidiad mawr yn syniad Mr. Jones gyda golwg ar "natur ffydd," neu yn hytrach daeth i edrych ar ffydd mewn goleu newydd. Dywed am ffydd, mai crediniaeth noeth o wirionedd Gair Duw ydyw; ac mai dyna ydyw "sicrwydd ffydd," sicrwydd o wirionedd yr efengyl. "Ffydd gadwedigol," meddai, "heb na mwy na llai, yw crediniaeth o'r efengyl fel gwir Air Duw." Gellid meddwl ei fod yn dal allan fod holl fendithion a phrofiadau crefydd yn ganlyniad ffydd, ac nad oes angen dim parotoad blaenorol i gredu. O herwydd hyn yr oedd ei wrthwynebwyr, yn enwedig C. Evans, yr hwn oedd o natur danllyd, a thymher boethlyd, yn galw ei ffydd yn "ffydd noeth ddigariad;" ac yn dal mai y syniad hwn am natur ffydd oedd yn effeithio mor ddeifiol ar rasusau, ac mor anrheithiol ar brofiadau crefyddol yr eglwysi, yn bregethwyr ac aelodau. Dyma oedd yn eu gwneyd mor sychion a dadleuol, "ffydd pen" ac nid "ffydd y galon." Nid ydym yn canfod, wedi y cwbl, fod syniadau Mr. Jones am "natur ffydd" mor wyrgam ac anysgrythyrol ag yr haerai ei wrthwynebwyr ei fod. Gwir ei fod yn dal yn gryf nad oes dim yn ffydd ond ymafliad goleuedig a deallus yn y gwirionedd gwrthddrychol, ac mai peryglus iawn ydyw synio am ffydd fel rhyw dyb ddychymygol, neu deimlad dall oddimewn. Mae llawer o wir hefyd yn y dywediad hwnw o'i eiddo, fod ei wrthwynebwyr yn cymysgu ffydd ynddi ei hun, â'i heffeithiau, megys edifeirwch dwys, gobaith clir, a chariad cynhes. Mae y Bibl yn rhoddi pwys mawr ar "ffydd yn unig" fel achos offerynol cyfiawnhâd yr euog, a bod trefn gras yn ffordd i gyfiawnhâu yr *annuwiol;* nid cyfiawnhâu y duwiol neu yr ailanedig. Ceir duwinyddion goreu yr oesoedd, a Dr. Edwards yn arbenig yn eu plith, yn ofalus rhag gosod cyfiawnhâd allan o gyrhaedd yr *annuwiol*, a dysgu fod yn rhaid i ddyn gael ei wneyd yn dduwiol mewn trefn i gredu. Dichon, ar yr un pryd, fod Mr. Jones yn gorfanylu, pan ddywed mai ffrwyth ffydd ydyw ymddiried yn Mherson Crist, ac mai ffydd ei hun ydyw credu tystiolaeth y Gair. Tybed nad ydyw ffydd yn llawn cymaint o ymddiried mewn person ag ydyw o ddirnadaeth ddeallawl o athrawiaeth yr efengyl?

Fel yr awrymwyd yn barod, aeth syniad Mr. Jones am y dull iawn o bregethu dan gyfnewidiad mawr. Yn ei flynyddoedd cyntaf, pan oedd gyda yr Hen Fedyddwyr, byddai ef ei hun yn pregethu gyda zel a thanbeidrwydd mawr, gan waeddi nes byddai y cymoedd yn diaspedain gan ei lais clochaidd; ond trwy ddarllen llyfrau McLean, &c., gwelodd ei gamsyniad, a daeth i bregethu mewn dull athrawol, digyffro, gan ddefnyddio y naill ran o'r Ysgrythyr i egluro y llall. Diau

fod cryn lawer o bregethu tanbaid a bloeddfawr, heb lawer o sylwedd, yn y wlad ar y pryd. Yr oedd C. Evans, yn arbenig, yn pregethu yn danllyd iawn, gan ddefnyddio ei ddammegion tarawgar, a rhoi ffrwyn i'w ddychymyg bywiog, yn ddramayddol, nes cyffroi a swyno yr holl wlad. Dichon fod hyny wedi gyru Mr. Jones yn fwy i'r cyfeiriad arall. Pa fodd bynag, mae llawer i'w ddyweyd dros syniadau Mr. Jones am bregethu. *Athraw*, yn fwy nag *areithiwr*, ydyw y pregethwr Cristionogol i fod. Yr oedd yr Apostol Paul, tra yn Corinth o leiaf, yn rhoddi heibio bob *oratory* fel y gallai ddysgu gwirioneddau yr efengyl "yn eglurhâd yr Ysbryd a nerth." Mae pregethwyr athrawol fel John Wesley yn rhoi mwy o argraff ar y byd na phregethwyr areithyddol fel George Whitfield. Y mae Pedr danllyd yn fwy poblogaidd yn y byd na Paul athrawaidd, am fod dynion yn fwy awyddus am gael eu cyffroi na'u haddysgu. Am yr un rheswm, mae "llefaru â thafodau" yn fwy poblogaidd na "phrophwydo." Dysgu gwirioneddau a dyledswyddau crefydd a ddylai fod prif nod y pulpud, er fod tipyn o ddawn i dynu sylw y difraw a'r difater yn werthfawr yn y pregethwr. O gymaint ag y mae *adeiladu* yn well na *chyffroi*, o gymaint a hyny y mae y *pulpit teacher* yn fwy o werth na'r *pulpit orator*. Da fyddai fod tipyn o gymysgedd, ond yn sicr dylai fod y diweddaf yn is-wasanaethgar i'r cyntaf. Mae o flaen ein meddwl yn awr ddwy gynnulleidfa, y naill wedi bod er ys blynyddau o dan weinidogaeth y pregethwr athrawol, sydd yn ymdrechgar i "iawn gyfranu gair y gwirionedd," a'r llall wedi bod am dymmor maith o dan weinidogaeth y pregethwr areithyddol, sydd yn wastad yn amcanu at y *sensational*. Wel, y mae y gyntaf yn annhraethol fwy goleuedig, egwyddorol, a sefydlog yn eu crefydd na'r ddiweddaf. Dyna oedd amcan John Jones, "pregethu y gair," "dysgu a phregethu." Dichon iddo yntau, wrth ochel un eithaf, fyned braidd i eithaf arall, a thrwy hyny ogwyddo at yr oer a'r difywyd. Ond "yn eglurhâd y gwirionedd" oedd ei arwyddair ef bob amser yn y pulpud: "porthi â gwybodaeth ac â deall." Yr oedd Christmas Evans fel Llyfr y Dadguddiad, a John Jones fel yr Epistol at y Rhufeiniaid.

Am yr ugain mlynedd dilynol i'w ymadawiad oddiwrth yr Hen Fedyddwyr, ymroddodd Mr. Jones i weinidogaethu i'r eglwysi a lynasant wrtho, yn benaf Ramoth a Harlech. Ymohebai gryn lawer â'i gyfeillion yn yr Alban, ac â "Beirdd Eifion," yn arbenig R. Ab Gwilym Ddu a Dewi Wyn. Yr oedd yn Gymro da, ac yn Sais gweddol. Nid oedd yn anhyall yn y tair iaith oedd ar y groes—Hebraeg, Groeg, a Lladin. Yr oedd hefyd yn fardd a cherddor rhagorol, fel y nodwyd. Nid awn yn y fan hon i son dim am yr anghytundeb a fu rhyngddo ar un adeg â'i gydweinidog, Robert Morgan—yr hwn gyda llaw oedd yn berthynas agos i'r ysgrifenydd,—ac y mae ei lythyr at y gŵr hwnw, fel y ceir yn "Adgof uwch anghof" yn ddangoseg o'r dyn, sef llym, gonest, a didderbyn-wyneb i'r eithaf. Pa fodd bynag gwnaed y rhwyg hwnw i fyny yn fuan, a buont yn gyfeillion mawr hyd y diwedd. Wedi gorlafur dibaid am lawer o flynyddoedd, dygodd John Jones arno ei hun nychdod a henaint cynamserol. Mae ei lythyr, dyddiedig Ebrill 18, 1822, at R. Ab Gwilym Ddu, yn effeithiol iawn. Dyma rai o'i eiriau:—"Gallaf

wirio i chwi, fy hen gyfaill caredig, ddarfod i mi lafurio yn fy nghorff, ac yn fy meddyliau hefyd, hyd eithaf fy ngallu, os nid yn hytrach tu hwnt i fy ngallu, er mwyn enw ac achos Iesu Grist, er ys yn agos i 34 o flynyddoedd bellach. Yr wyf wedi teithio ar fy nhraed trwy bob math o dywydd, dros fynyddoedd ac afonydd, er ys mwy na 22 o flynyddoedd, hyd oni safais ar ganol fy ffordd ddydd Sadwrn diweddaf, a da i mi oedd tŷ brawd Cristionogol i droi i mewn iddo, yn amgen buasai raid i mi syrthio a gorwedd ar y ffordd fawr." Ar ol cystudd poenus bu farw Mehefin 27, 1822, yn 56 mlwydd oed. Cyfansoddodd R. Ab Gwilym Ddu farwnad brydferth iddo, a nodweddiadol iawn ydyw y ddwy linell ganlynol o'r gwrthddrych:—

Gair Duw oedd ei gredo ef,
Hyd a wyddai, rhaid addef.

EVAN ROBERTS.

*Dyffryn.*

---

# HOLLT DDAEAREGOL YR ARABAH AC AKABAH.

MAE y llinell uchod yn cychwyn i fyny yn Syria, yn rhedeg drwy ddyffryn yr Iorddonen, y Môr Marw, tir Edom, anialwch Sin, nes myned i lawr i'r Akabah—neu Elath yr Ysgrythyr. Mae Dr. Hull, er ei bod yn un hollt neu *fault*, eto yn ei dosbarthu yn ddwy ran, ac yn galw y naill y rhan ogleddol, a'r llall y rhan ddeheuol. Mae ei hyd, o derfyn i derfyn, dros 200 o filldiroedd. Ac mewn ystyr ddaearyddol a daearegol mae y llinell hon a'i therfynau yn fangre o hynodrwydd ac arbenigrwydd neillduol. Nid oes ar ddalenau gwyddoniaeth nac ar holl *dablets* daeareg yr un *fault* mor amlwg, arbenigol, ac arwyddocaol á'r un y cyfeiriwn ati.

Yn yr ysgrif hon bwriadwn roddi hanes y rhan ogleddol o'r llinell, a gadael y llall hyd ryw adeg arall. Geilw Dr. Hull y rhanbarth hon, *The Jordan-Arabah Depression.* Enw presennol yr Iorddonen gan y brodorion ydyw *y disgynydd;* ystyr y gair *Ghor*, yr hwn sydd yn enw ar y dyffryn, ydyw *dyfnder;* ac ystyr y gair Arabah ydyw *suddedig.* Dyma nodwedd ddaearyddol y dyffryn trwy ba un y rhed yr Iorddonen i ben ei thaith; dyffryn dwfn, disgynedig a suddedig; y lle hynotaf, ac hefyd y llecyn dyfnaf ei waelod, o weithrediad natur ei hun, ar wyneb y ddaear. Ac nid peth hynod yn y parthau hyny fyddai canfod y cymylau yn hofran yn llawer is na lefel y Môr Mawr; gan fod gwyneb y Môr Marw 1292 o droedfeddi yn is na gwyneb Môr y Canoldir. Yn wir, dyma y gynfas ddwfr isaf ei gwely ar holl arwyneb y belen ddaearol.

Erbyn heddyw mae y fangre hynod hon wedi cael sylw arbenig gan ddysgedigion a gwyddonwyr, ac wedi cael ei harchwilio, ac hefyd ei mapio allan, a hyny nid yn unig yn ei gwedd ddaearyddol, ond hefyd ei gwedd ddaearegol. Oddeutu 50 o flynyddoedd yn ol, amlygodd un o'r enw Leopold von Buck, ddymuniad ar i Gymdeithas Ddaearegol Llundain anfon allan nifer o'i gwŷr mwyaf cymhwys a dysgedig i archwilio y Môr Marw a'i derfynau, a dywedai y buasai canlyniad y cyfryw archwiliad yn destun o ddyddordeb a llawenydd i'r holl fyd. Ond nid Cymdeithas Ddaearegol Llundain a gafodd yr anrhydedd o wneyd hyny ac o ddal lamp oleu daeareg uwch ben y llanerch ddofn a dirgeledig hon am y waith gyntaf, ond cymdeithas arall, llawer ieuengach a llawer mwy llednais ei honiadau, sef y *Palestine Exploration Fund.* Bu hon am flynyddoedd yn flaenorol yn dwyn ymlaen archwiliad daearyddol, yr hyn sydd bellach wedi ei orphen, a'r canlyniad wedi ei gyhoeddi mewn cofiantau a mapiau, at yr hyn y buom yn galw sylw amser yn ol ar ddalenau y TRAETHODYDD. Ond erbyn heddyw mae yr archwiliad daearegol hefyd wedi ei gwblhau, a'r canlyniadau yn ein meddiant.

Yn mis Tachwedd 1883, yr ydys yn canfod y cwmni daearegol yn cychwyn i'w taith, a'u hwyneb tua'r dwyrain; ac un diwrnod gwelir hwy yn dechreu ar yr anialwch, yn dilyn llwybr plant Israel, gan ddringo i fyny o'r dehau i'r gogledd, trwy yr anialwch a thir Edom, ac i'r Môr Marw ac Engedi, nes cyrhaedd dinas Jerusalem, ac wrth fyned yn cyflawni amcan eu cenadaeth. Dyma y boneddigion oedd yn cyfansoddi y fyntai: Dr. Hull, Athraw daearegol yn Ngholeg Brenhinol Dublin, ac efe oedd y penaeth; Uch-Gadben Kitchener, yr hwn oedd ar y pryd yn yr Aipht, ac yn un o aelodau yr archwiliad blaenorol; Dr. Gordon Hull, meddyg y cwmni, a mab i'r cyntaf; Mr. Armstrong, yr hwn hefyd a wasanaethai yn yr archwiliad blaenorol; Mr. Henry C. Hart, naturiaethwr y fyntai; a gweithredai Mr. Reginald Laurence o Goleg Brenhinol Dublin fel arsyllydd a *meteorologist.* Gweithredai Dr. Gordon Hull hefyd fel *photographer.* Yr oedd gan y Cwmni y cyflenwad angenrheidiol o bob celfi, arfau ac offerynau, er cyflawni y gwaith yr anfonwyd hwynt o'i blegid, a hyny yn drwyadl. Cawsant bob hamdden a mantais i gyflawni y program gosodedig am y rhan gyntaf o'r daith, sef o'r Akabah hyd yn Engedi, yn ystlys orllewinol y Môr Marw. Ond o herwydd amgylchiadau gwrthwynebus, ac yn enwedig disgyniad cnwd trwchus o eira anamserol ar y ddaear, methwyd a dilyn y gwaith i'r gogledd, a bu raid dychwelyd cyn gallu ei gwblhau yn hollol. Mae Dr. Hull erbyn hyn wedi cyhoeddi ffrwyth yr ymweliad ac ychwaneg, mewn dwy gyfrol,—un yn cynnwys y wedd hanesiol ac amgylchiadol, a'r llall y wedd wyddonol i'r daith. Gelwir y naill yn *Mount Seir*, a'r llall, *Memoir on the Physical Geology of Arabia Petrea, Palestine, and adjoining Districts.* Yr Iorddonen a'i dyffryn ydyw gwrthddrychau yr archwiliaeth ogleddol. Mae i'r afon hon fwy nag un tarddle, un wrth wraidd yr Hermon, a'r llall—y brif a'r bwysicaf—yn Cesarea Philippi. Mae hi yn dechreu ei chwrs yn ffrwd risialaidd, gref a bywiog, ac yn rhedeg ar hyd gwely garw a charegog, i Lyn Huleh, yr hwn sydd yn gorwedd saith troedfedd uwchlaw Môr y Canoldir. Yna drachefn rhêd ar hyd sianel oriwaered, a rhwng glenydd

o'r fasalt, i fynwes Môr Tiberias, a thrwyddo. Mae y llyn hwn yn *sheet* brydferth o ddwfr, croew ei flas, a dysglaer ei olwg. Ei hŷd ydyw pedair ar ddeg o filldiroedd, a'i led yn y man lletaf ydyw wyth milldir. Y môr bach hwn ydyw y creadur mwyaf diymddiried a thwyllodrus mewn bod, gan y bydd yr ystorm yn codi arno mor ddisymwth, ac yn gyffelyb yn gostegu, a llawer gwaith yn y dydd y dygwydda hyny! Mae yn gorwedd 682 o droedfeddi islaw y Môr Mawr; a chan ei fod yn îs na llyn Huleh o 689 o droedfeddi, ac mai 12 milldir ydyw y pellder sydd rhyngddynt, gwna hyny y ddisgynfa yn 57 o droedfeddi y filldir. Ar yr ystlys ogleddol iddo, ceir cyfres fynyddig fasaltaidd Safed; i'r dwyrain ceir gwastadtir Jaulon a'r Hauran, ar ba un y gwelir lliaws o hen grydau a llosg-dyllau, a fu unwaith yn gweithio yn nerthol, ac yn lluchio ffrydiau o lafa llosg, pa un a welir yn wasgaredig ar hyd y fangre; ond y maent yn bresennol yn llonydd a diwaith. Ar ei draeth ceir gro cymysg ac amrywiaethol, yn cynnwys ceryg calch, callestr, a basaltaidd, ac hefyd amrywiaeth o gregyn, ac oll wedi eu llyfnhau a'u caboli gan weithrediad dwfr. Wedi i'r afon adael Môr Tiberias, y mae hi yn disgyn ac yn prysuro i fynwes y Môr Heli. Mae y pellder rhwng y ddau fôr hyn yn 66 o filldiroedd, a gwaelod y ddisgynfa yn 1292 o droedfeddi islaw Môr y Canoldir, ac yn 610 o droedfeddi islaw Môr Tiberias, yr hyn a wna naw troedfedd o ddisgyniad y filldir. Mae yr afon yn rhedeg i lawr, ar ol gadael Môr Tiberias, rhwng glenydd uchel a chymysg o dywod, gro, a chlai calchaidd, pa rai a geir yn welyau dilynol; a cheir ynddynt hefyd amryw fathau o gregyn-ffosylau. Mae cyflenwad mawr o ddwfr yn disgyn yn wastadol i'r Môr Marw, nid yn unig o'r Iorddonen, ond hefyd o afonydd eraill, yn enwedig afonydd gwlad Moab, a rhai hefyd o ochr y gorllewin. Mae y môr hwn, mewn rhai manau, yn hynod ddwfn, ac yn ddyfnach ar ochr Moab, ac yn fwy felly mewn rhai manau ar yr ochr hono na'u gilydd. Yn ol y *soundings* a wnaed yn y flwyddyn 1848 gan yr Is-Gadben Lynch, yr oedd ei ddyfnder yn mesur 1298 o droedfeddi; ac yr oedd hyny yn fwy o fesur nag oedd rhwng ei wyneb a gwyneb Môr y Canoldir. Y mae ei bwysau a'i halltrwydd yn cynnyddu fel yr eir i lawr iddo, ac felly fe'i ceir yn llawer trymach a halltach yn ei waelod nag ar ei wyneb. Dyma gyfrol o ddwfr ag y mae ei wely ddyfnaf, a'i bwysau drymaf, a'i flas halltaf o holl ddyfroedd y byd. Mae Môr y Werydd yn rhoddi 6 phwys o halen mewn 100 rhan o ddwfr; mae y Môr Marw yn rhoddi yn agos i 25 pwys yn yr un mesur.

Yn awr y cwestiwn a awgrymir ydyw, paham y mae mor hallt, a phaham y mae Môr Tiberias yn groew, a'r ddau yn cael eu cyflenwi â dwfr yr un afon? Yr ateb syml ydyw, nad ydyw y Môr Marw yn meddu mynedfa allan (*outlet*), pan mae Môr Tiberias yn meddu un. Mae yn ffaith a gadarnheir gan archwiliadau diweddar nad oes un *outlet* i'r Môr Marw, gan fod ei wely yn rhy ddwfn a'i lefel yn rhy isel i hyny, —yn is, fel y dywedwyd, o 1292 na gwyneb y Môr Mawr. Dyma y rheswm am ei fod yn aros yn halen, a heli. Ond er ei fod heb fynedfa allan, ac er fod lliaws o afonydd eraill yn rhedeg iddo, eto nid yw byth yn orlawn, ac yn gorlifo ei geulanau. Mae bob amser yn cadw o fewn erchwynion ei wely, er y bydd, ar adegau, yn fwy a llai. A'r hyn sydd yn ei gadw yn ei fesur a'i nodwedd ydyw *process* y mygdarthiad (*evaporation*),

yr hyn sydd mewn gweithrediad ar ei wyneb yn barhaus, a thrwy yr hyn y codir ac y sugnir y dwfr, a hyny yn gymhariaethol bur a chroew, i'r cwmwl, gan adael yr halen ar ol yn y môr. A phan y bydd ei bwysau yn ormod i'r dwfr allu ei ddal yn ei ffurf doddedig, y mae yn ei ollwng i'r gwaelod, lle y mae yn ceulo, ac yn ymffurfio yn haenau halenaidd. Dyna ydyw ei waelod, yn gyntaf, math o glai glâs, a haenau o risialau halen a *gypsum*, yn gorwedd arno. Yn y pen deheu-orllewinol iddo, ceir mynydd lled uchel, a elwir Jebel Usdum, yr hwn sydd gan mwyaf yn graig hâl, ac fe allai fod a wnelo hyny â halltrwydd neillduol y dyfroedd. Mae ei hŷd oddeutu 47 o filldiroedd, a'i led gyferbyn â'r "Tafod"—y *Lisan*, yn 8 milldir. Bydd codiad a gostyngiad y dwfr yn amrywio ychydig, tua phum' troedfedd, mwy neu lai, mewn blwyddyn. Ar drai isel ceir traeth hir yn y pen deheuol, yr hwn a orchuddir pan fydd y dwfr yn weddol uchel. Oddigerth yn y ddau ben, mae y môr fel mewn cawg neu gafn, yn cael ei amgylchu gan lenydd uchel a serth, ac yntau yn gorwedd yn isel a dwfn. Mae glenydd tir Moab yn gyfansoddedig o'r dywodfaen a'r galchfaen yn un gyfres, ond pan dorir ar eu hunoliaeth gan yr agenau a gwelyau yr afonydd sydd yn rhedeg i'r môr. Mae y glenydd cyferbyniol, yn yr ochr orllewinol, yn cynnwys y galchfaen, y dywodfaen a'r graig hâl. Ceir pob sicrwydd erbyn hyn nad oes yn ei ddyfroedd yr un pysgodyn, na rhithyn o fywyd, er y dywed Lartet y gwelwyd pysg bychain yn chwareu mewn dwfr bâs yn y pen deheuol; ond myn Dr. Tristam mai yn nwfr y ffrydiau croew sydd yn rhedeg iddo yr oeddent, ac mai am ychydig amser y gallent fyw. Sicrheir gan y rhai sydd wedi gweled, y bydd pysgod yr Iorddonen, wedi myned i ddwfr y Môr Marw, yn meirw yn fuan, ac y gwelir eu hesgyrn yn wasgaredig ar ei draeth, wedi eu taflu yno gan ei dònau.

Ymhlith pethau mwyaf dyddorol y dyffryn, ceir y ffynnonau poethion—*Thermal Springs*,—pa rai sydd oll o natur fwnawl. Fe ddyry y Dr. Hull y lechres ganlynol o honynt:—

1. *Hammian*—i'r gorllewin i Fôr Tiberias. Tymheredd, 143 Fahr.—dwfr swlphwraidd.
2. *Yark-muck Chasm*—yn Gadara. Tymheredd, 109 Fahr.—dwfr swlphwraidd.
3. *Zerka Main*—yn Moab, ac yn rhedeg i'r Môr Marw. Tymheredd, 109 Fahr.
4. *Ain Zara*—yn myned i'r Môr Marw ar du y dwyrain. Tymheredd, 109 Fahr.
5. *Engedi*—yn myned i'r Môr Marw ar du y gorllewin. Tymheredd, 81 Fahr.
6. *Ain-el Beida*—yn yr ochr ddeheuol i Jebel Usdum. Tymheredd, 93 Fahr.—dwfr swlphwraidd.
7. *Ain W. Khubarah*—yn myned i'r Môr Marw ar du y gorllewin. Tymheredd, 93 Fahr.
8. *Ain Feshkah*—gorllewin i'r Môr Marw. Tymheredd, 82 Fahr.
9. *Jericho, Ain-es-Sultan*—yn y gorllewin i'r Iorddonen. Tymheredd, 71 Fahr.

Fe welir oddiwrth y detholiad uchod fod y ffynnonau o'r tymheredd uchaf i'w cael ar yr ochr ddwyreiniol i ddyffryn yr Iorddonen. Ceir

chwech o honynt a'u poethder yn amrywio o 109° i 144° Fahr., ac fe'u ceir yn rhedeg ar hyd llinell yr hollt—y *fault*—sydd yn nodweddu y dyffryn, yr hyn, medd Lartet, sydd ffaith arwyddocaol mewn ystyr ddaearegol.

Deuir i'r casgliad y bu y fangre hon ar un adeg, o'r Libanus hyd yr Akabah, am bellder o 200 o filldiroedd, yn un môr mawr, llydan a dwfn, a'i wyneb mor uchel, os nad yn uwch, na gwyneb presennol Môr y Canoldir. Mae presennoldeb gwelyau cymysg o ro, llaid, a chlai, yn y ceunentydd, ac ochrau yr afonydd, yn yr uchder o 100 troedfedd uwchlaw gwyneb Môr y Canoldir, yn profi hyny, ac y bu y dwfr mor uched â hyny rywbryd. Mae yr awdwr a enwyd yn crybwyll y ffaith y ceir profion eglur o weithrediad dwfr ar ochrau uchel creigiau Safed, mor uched a Môr y Canoldir, ac y mae yn tynu y casgliad y bu Môr Tiberias mewn un cyfnod, a'i ddwfr yn cyrhaedd y fan mewn lled ac uchder. Yn wir, y mae cregyn-bysg presennol Môr Tiberias yn gwisgo delw eu tarddiad morawl, ac yn tystio drwy hyny fod eu henafiaid yn breswylwyr yr eigion dwfn a hallt oedd yn gorchuddio yr holl ddyffryn. Dywed yr awdwr ymhellach, nid yn unig fod y dyffryn hwnw wedi ei orchuddio â dwfr, ond y bu holl Syria, Arabia, ac Affrica Ogleddol, yn waelodion moroedd dyfnion a llydain, gyda'r eithriad o gyfres fynyddig Sinai, a'r creigiau cyffelyb a geir o bob tu i'r Môr Côch. Gelwir y cyfnod hwnw yr *Eocene Period*. Hefyd dyma dymmor y ffurfio a'r gwaddodi; cyfnod yr oedd natur mewn seibiant yn adeiladu, a hyny ar waelodion a lloriau y dyfnder mawr. Dyma y gwaith yn cymeryd lle o ffurfio gwelyau o greigiau, yn mesur miloedd o droedfeddi o drwch, mewn modd anelwig ac anweledig, yn mynwes yr eigion, ac yn benaf y galchfaen. Ac yn ddilynol i'r cyfnod hwnw, daeth cyfnod arall, yr hwn a adnabyddir yn ol amser daearegol, y *Miocene Period*. Dyma yr adeiladu ar ben. Dyma ddiwedd ar y seibiant, a'r gwaith dystaw a wneid gan natur yn flaenorol, mewn cynhyrfiadau a chyfnewidiadau, pan y cymerodd dyrchafiad a gostyngiad le, pan y codwyd un ran ac y gostyngwyd y llall, pan y dyrchafwyd y creigiau ffurfiedig o'r dyfnder i'r golwg, a'u sefydlu yn wastad-diroedd uchel, ac y dyfnhawyd hefyd wely y môr. Dywed yr awdwr mai y pryd hyn y codwyd cyfres y Libanus i'w huchder presennol, y gostyngwyd dyffryn yr Iorddonen, ac yn wir yr holl linell hyd yr Akabah. Yn y cyfnod hwn yr adffurfiwyd gwyneb yr holl ddaear, mewn amrywiaeth ac arddunedd, fel y ceir hi yn bresennol.

Ac y mae dyffryn yr Iorddonen heddyw yn ei ffurfiad yn brawf eglur, ac yn ganlyniad i'r hyn a elwir, mewn iaith ddaearegol, yn *fault* neu hollt, pan y cyfnewidiwyd ac y symudwyd safleoedd y creigiau a'r haenau. Dyma farn prif wyddonwyr a daearegwyr sydd wedi archwilio y fan eu hunain. Ac wrth edrych ar y map daearegol, a ddarparwyd gan yr Archwilwyr, canfyddir hyny, a gwelir yn eglur y gwahaniaeth amlwg sydd rhwng natur y ffurfiadau yn y ddwy ochr gyferbyniol i'r dyffryn. O'r Akabah hyd Jericho, ceir y ffurfiadau ar yr ochr ddwyreiniol yn llawer hŷn na'r rhai a geir ar yr ochr orllewinol. Ac o Jericho hyd Fôr Tiberias, er fod yr haenau yn perthyn i'r un ffurfiadau, eto ceir hwynt yn gwahaniaethu, a'r rhai sydd ar y gorllewin yn meddu rhagoriaeth. Weithiau gwelir yr annhebygrwydd hwn

mewn darn lled hir o hollt, yn mesur fe allai rai miloedd o droedfeddi tel yr hon, er esiampl, a geir yn mhen deheuol y dyffryn, gyferbyn â Mynydd Hor. Ac nid yn unig ceir yn y dyffryn arwyddion o un hollt fawr, ond o amryw o holltau llai ac eilraddol, yma a thraw, pa rai, er eu bod yn ymddangos yn fychain, eto ydynt yn ddigon pwysig i'w gosod ar y map A dywed Dr. Hull am y *fault* hon, mai hi ydyw y pegwn neu yr echel i holl symudiadau daearegol y dyffryn, ac hefyd y tiroedd cylchynol. Diammeu y byddai deall yn drwyadl wyddoniaeth y dyffryn hwn, yn agoriad i ddadgloi ac egluro holl ddirgelwch y gwledydd cylchynol yn y cyfryw bethau.

Y mae yn gwestiwn dyddorol beth oedd natur y cynhyrfiad a'r cyfnewidiadau a achosasant yr hollt fawr hon ? Pa un ai yn raddol ai ynte yn sydyn y cymerodd le ? Tybia Dr. Hull yn ei lyfr mai graddol iawn fu y gweithrediadau hyny, a'u bod wedi parhau am hir amser, a bod y toriad yn y dyffryn, ynghyd a chodiad y tir yn Edom a Moab, yn y dwyrain, ac hefyd tir Palestina yn y gorllewin, yn effaith yr un gweithrediadau, ac wedi cymeryd lle ar yr un amser, yr hyn a elwir efe "*The tangential pressure of the earth's crust due to contraction.*" Felly gellid tybied fod y tir yn graddol godi o'r môr, ac yn peri i fwrdd-dir Judea ac Arabia hefyd gael ei godi yn uwch ; *hefyd fod y* grawen yn cwympo i fewn ar yr ochr orllewinol, nes ei dryllio a'i malurio, ac y buasai y bwrdd-dir a enwyd y peth cyntaf i wneyd ei ymddangosiad, a buasai y tyllau a wneid drwy y symudiad yn cael eu llenwi â dwfr y môr cyntefig. Diau mai dwfr cyntaf Môr Tiberias, a'i bysgod cyntaf—fel y ceir profion arnynt o'u tarddiad morawl—*ydoedd* dwfr a physgod yr unrhyw Fôr. Ac y mae yr un peth i'w ddyweyd am ddwfr cyntaf y Môr Heli, ei fod wedi aros ynddo o'r môr mawr *cyntefig*. A chan fod gwaelod ei wely wedi ei ddyfnhau trwy y cyfnewidiadau yr aethai drwyddynt, ceir fod swm ei ddyfroedd yn helaeth, a'i ddyfnder yn fawr ; ac y mae yr afonydd cylchynol yn ei gyflenwi *yn barhaus*. Dyma y llynclyn sydd yn yfed yr holl Iorddonen, holl afonydd Moab, ac afonydd Palestina ; ac er nad oes iddo fynediad allan, eto *nid yw* byth yn cael ei ddigoni, ac er pob peth y mae yn cyfateb i'w enw, *yn* Fôr Marw. Yn y cyfnod maith a nodwyd y dygwyd dyffryn yr Iorddonen i'w ffurf a'i agwedd bresennol, ac yn wir dyma'r *adeg y* lleihäwyd dyfroedd Môr y Canoldir, gan ei droi yn gadwen o lynoedd, ac y cysylltwyd ei ynysoedd, megys Sicily a Malta, â'r tir mawr.

JOHN JONES.

# HEN ARALLEIRIAD O'R BEDWAREDD SALM AR BYMTHEG.

CAFWYD yr Aralleiriad a ganlyn, gyda'r nodiad Saesoneg sydd yn ei ragflaenu, wedi eu hysgrifenu yn ddestlus ar ddalen wen mewn hen gopi o *Hervey's Meditations*, a brynwyd rai blynyddoedd yn ol mewn siop hen lyfrau yn Awstralia, gan Mr. D. Hugh Evans (*Daniel Ddu o Fôn*), a fu yn ddiweddar ar ymweliad â'r hen wlad. Pwy fedr roddi i ni ychwaneg o hysbysrwydd am y Parch. R. Thomas, a'i gasgliad o Emynau at wasanaeth Eglwys Beaumaris, a'i gyfrol o Bregethau Cymraeg?

The following beautiful versification of the 19th Psalm is taken from a collection for the use of Beaumaris Church, by the Rev. R. Thomas, author of Sermons, &c., in the same language.

Mae uwch ein pen ffurfafen faith,
A'i gloywlas waith wybrenol;
Mae dysglaer gyloh y nefol gaer,
Yn datgan Saer anfeidrol.

Mae 'r haul o ddydd i ddydd yn son
Am nerth yr Ion yn llafar;
Mae 'n dangos Hollalluog waith,
I wledydd maith y ddaear.

Y nos mae 'r lloer heb gwsg na hûn
Yn traethu 'r un rhyfeddod;
Yn adrodd yma i'r byd bob awr
Ddechreuad mawr ei hanfod.

O'i chylch holl ser y wybrol fro,
Ac yn eu tro 'r planedau
Sy 'n taenu 'r hanes gwir o hyd
O'r gogledd fyd i'r dehau.

Beth, er eu bod â dystaw dro
Yn cylchu 'r fro ddaearol?
Beth, os na ddaw na llais nac iaith
O'u rhodau maith dysgleiriol?

Rheswm, er hyn, a glyw eu llef
O entrych nef yn unfodd,
Yn canu fyth â dibaid dôn,—
Deheulaw 'r Ion a'n creodd.

# CYMERIAD YR IESU A'I DDYLANWAD AR Y BYD.

Y MAE un o'n poëtau ni ein hunain yn darlunio dyn yn myned i ben y Wyddfa i *feirniadu* codiad yr haul. Llwyddodd i fyned â'r dymher feirniadol gydag ef i ben y mynydd, ond y foment yr ymddangosodd brenin y dydd, fe ffôdd yn y fan. Mae y beirniad ar ei ddeulin yn addolydd Duw mewn Natur.

Tebyg i hyn ydyw hanes dynion yn eu perthynas â Christ yr Arglwydd. Gosododd aml un ei fryd ar y gorchwyl o feirniadu ei gymeriad Ef, a'i gyferbynu â mawrion y byd. Ond wedi dyfod i'w bresennoldeb—i wyddfod Haul y Cyfiawnder, y mae y beirniad, megys er ei waethaf, yn troi yn addolydd. Y fath ydyw urddas tawel y cymeriad fel y mae yn dofi beiddgarwch meddyliol, ac yn peri i falchder ysbryd dynu ei sandalau yn ei wydd. Ond os na allwn ei feirniadu ni a gawn ei edmygu,—ei ddyrchafu goruwch ein llawenydd penaf. Nid oes perygl camgymeryd yn y cyfeiriad hwn, oblegid pe meddem "ddoniau dynion ac angelion," a phe rhoddid y cyfryw ar lawn waith, fe fyddai cymeriad yr Iesu yn aros "uwchlaw pob bendith a moliant" —"yn fendigedig yn oes oesoedd."

Yn awr, yn yr ysbryd ac i'r amcan uchod, y dymunem wahodd y darllenydd i ddyfod gyda ni tra yn ceisio dilyn esiampl y ddau ddysgybl gynt: "A hwy a ddaethant, ac a welsant lle yr oedd Efe yn trigo, ac a arosasant gydag Ef y diwrnod hwnw." Dichon y bydd nodi y ddwy ystyriaeth a ganlyn yn gynnorthwy i ni fyned ymlaen:— Mawredd y Cymeriad, a Dylanwad y Cymeriad.

Priodoledd amlwg yn nghymeriad yr Iesu ydyw ei FAWREDD. Geiriau yr angel am dano ydoedd: "Hwn a fydd mawr," ac y mae llais yr oesau yn ateb, "Y dystiolaeth hon sydd wir." Codai y mawredd hwn o'i ddyfnderoedd Ef ei hun.

Nis gall *amgylchiadau* neu *safle gymdeithasol* roddi cyfrif am dano. Yr oedd holl gylch a chwrs ei fywyd yn amddifad o'r elfenau hyny sydd yn tynu sylw a gwarogaeth cymdeithas. Nid amgylchiadau ffafriol roddes fawredd arno Ef, ond Efe a roddes fawredd ar yr amgylchiadau mwyaf cyffredin. Cysegrodd lafur, a thaflodd oleuni dysglaer er esiampl i gylchoedd symlaf bywyd.

Nid oedd ei fawredd yn gynnyrch *yr oes* yr ydoedd yn byw ynddi. Y mae pob hanesydd gonest a astudiodd y cyfnod hwnw yn gorfod cydnabod nas gallasai y dylanwadau meddyliol a chrefyddol oedd ar waith roddi bôd i gymeriad Iesu o Nazareth. Saif Efe mewn gwrthgyferbyniad hollol i ysbryd a thueddiadau llywodraethol ei oes. Yn yr ystyr hwn, "gwreiddyn o dir sych" ydoedd, ond nid tir sych "Phariseaeth" na "Saduceaeth" roddodd fôd i Wreiddyn Jesse. Nis gallasai awyrgylch Judea gynnyrchu y Blaguryn digymhar a dyfodd mewn dystawrwydd yn neillduaeth Nazareth.

Dengys ei hanes hefyd iddo dyfu yn annibynol ar y *sefydliadau* hyny ag y tybir eu bod yn dullweddu cymeriadau arweinwyr yr oesau. "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth ac yntau heb ddysgu?" Ni dderbyniodd ei addysg wrth draed yr un Gamaliel; nid oedd ei enw ar restr y Rabbiniaid Iuddewig. Treuliodd ran helaeth o'i fywyd mewn pentref gwledig, fel "mab y saer." Treuliodd y gweddill—ei fywyd cyhoeddus—yn y wlad leiaf ei maintioli. Ni fu braidd dros ei therfynau. Nid oes hanes iddo deithio gwledydd i ymweled â chewri meddyliol, fel rhai o enwogion y byd Cenedlig. Nid oes argraff Groeg na Rhufain ar ei ddysgeidiaeth. Eto i gyd, yr oedd yn llefaru "megys un âg awdurdod ganddo." Yn ei bresennoldeb yr oedd yr ymadrodd "Rabbi" yn dyferu yn naturiol dros wefusau ei wrandawyr. "Ni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti." Ac y mae yn aros hyd y fynyd hon yn oruchaf ymysg holl ddysgawdwyr y byd. Teimla y mwyaf o honynt, wedi ei adnabod, nad ydynt deilwng i "ddattod carai ei esgid."

Ond nid mawredd meddyliol yn unig sydd yn cyfansoddi mawredd cymeriad yr Iesu. Y mae yn perthyn iddo hefyd fawredd *moesol* ac *ysbrydol*,—y mawredd hwnw sydd yn argraffu ei hun ar y gydwybod, yr ewyllys, a'r serchiadau. Mewn gwirionedd, cymeriad yr Iesu sydd wedi dadguddio mawredd moesol i'r byd. Efe hefyd ydyw ei safon. Mae holl fawredd teyrnas nefoedd yn cyfranogi o'r "unrhyw ddelw." Un wedd ar y mawredd hwn ydoedd *hunan-lywodraeth*, *hunan-feddiant perffaith*. Yn nghanol yr amgylchiadau mwyaf anhawdd, yn wyneb yr ymosodiadau mwyaf annheg, ni chollodd yr Iesu ei hunanfeddiant am amrantiad. Yn yr adegau hyny pan oedd ei ddysgyblion yn colli pob llywodraeth arnynt eu hunain, yr oedd yr Athraw yn hollol dawel. Nid oes hanes iddo ar un adeg roddi ffordd i nwyd ddigofus. Ni chyflawnodd un weithred i ddial ar ei elynion. Ni lefarodd air ag oedd yn gosod angenrheidrwydd arno i'w alw yn ol. Rhodiai yn barhaus mewn tawelwch urddasol,—rhyw dangnefedd mewnol na welodd y byd ei fath.

Amlwg, hefyd, yn ei gymeriad Ef ydyw yr egwyddor o *ymaberthiad*. Treiddiai hon drwy bob rhan o fywyd yr Iesu. Nid yn unig yr oedd gweithred olaf ei oes yn arddangosiad digyffelyb o aberth, ond yr oedd ei holl yrfa yn dwyn tystiolaeth i'r un egwyddor.

Mae cysgod Hunan,—hunan-gais, hunan-fwynhad,—yn tywyllu rhyw gymaint ar y cymeriadau dysgleiriaf ymysg dynion. Ond, wele gymeriad nas gallodd Hunan sangu ar ei derfynau. Yr oedd ei holl gyfeiriad at eraill. Daeth Mab y dyn, nid *i'w* wasanaethu, ond *i* wasanaethu. Dibrisiodd ei hun mewn trefn i fod yn gymwynaswr dynolryw. Daeth Efe i "geisio"—nid enwogrwydd personol, nid dyrchafiad cymdeithasol—ond yr "hyn a gollasid." "Crist nis boddhaodd ei hun." "Eraill a waredodd." Gosododd ei ewyllys ei hunan o'r neilldu, er mwyn cyflawni ewyllys yr Hwn a'i hanfonodd, a gwneuthur ei waith Ef.

Ac ynglŷn â'r ymaberthiad hwn, gellir nodi y *rhinweddau goddefol* sydd wedi eu gogoneddu yn ei gymeriad Ef. Yn y cydser yma o brydferthion, y tywyna ei addfwynder, ei amynedd, ei dynerwch—"hynawsedd Crist." Mae y portrëad geir o hono yn yr ystyr hwn,

"oll yn hawddgar." Dyma gymeriad heb ronyn o'r garw, y sarug, a'r chwerw yn ei lychwino. "Tywalltwyd gras ar ei wefusau." Yr oedd ei dynerwch mor fawr fel na fynai dori y "gorsen ysig," na diffodd "llin yn mygu." Yn nghanol y cymeriadau haiarnaidd, oer, diserch, sydd yn ymddangos yn awr ac eilwaith yn yr hanes Efengylaidd—cynnrychiolwyr y "Sancteiddiach ydwyf fi na thydi,"—y mae addfwynder yr Iesu yn anadlu arnom fel awel haf yn nghanol oerni gauafol.

Ond yr ydym hefyd i gadw mewn cof fod yr holl dynerwch hwn yn gorphwys ar *burdeb*. Yr oedd ei holl brydferthwch yn brydferthwch sancteiddrwydd. Ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau. Cwestiwn fu yn dyrysu y byd am oesau ydoedd hwnw,—"Pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?" Ond, wele un wedi ei eni o wraig, un o fysg meibion dynion, a'i gymeriad yn lân oll, heb unrhyw staen neu anaf arno; cymeriad difai, difrycheulyd,—"sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid." "Wedi ei demtio ymhob peth—heb bechod." Anadlai awyr sancteiddrwydd ymhob man. "Efe a dŷn ei anadl yn ofn yr Arglwydd." Fel hyn y mae Mr. Smith yn ei esboniad rhagorol ar Esaiah, yn cyfieithu yr ymadrodd, "Ac a wna ei ddeall ef yn fywiog yn ofn yr Arglwydd" (Esa. xi. 3). Dadleua yr esboniwr fod yr ymadrodd hwn, yn ei ystyr briodol, yn un o'r profion mwyaf diamwys o burdeb dihalog y Gwaredwr—"Efe a anadla yn ofn yr Arglwydd." Ebai Mr. Smith:—"Y mae yn ddarnodiad hynod o gryf o anmhechadurusrwydd—anmhechadurusrwydd ag oedd yn briodoledd i Grist yn unig. Yr ydym ni, pa mor bur bynag y gallo fod ein hamcanion, wedi ein cwmpasu gydag awyrgylch o bechod. Nis gallwn lai nag anadlu yr hyn sydd, un adeg yn ennynu ein nwydau, adeg arall yn fferu ein teimlad cynhesaf, ac yn gwneuthur ein gyddfau yn analluog i roddi tystiolaeth onest neu foliant gogoneddus. Fel oxygen i dân sydd yn marw, felly y mae y bydolrwydd a anadlwn i'r pechod sydd o'n mewn. Nis gallwn wrtho; yr awyrgylch ydyw i ba un y ganwyd ni. Ond oddiwrth hyn Crist yn unig oedd rydd. Yr oedd Efe yn awyrgylch iddo ei Hun, *yn tynu ei anadl yn ofn yr Arglwydd*. Am dano ef yn unig y tystiolaethir, er yn byw yn y byd, nad ydoedd wedi ei heintio â phechod y byd. Ni ddarfu i wynt creulondeb yr un dyn erioed gynneu digllonedd ansanctaidd o fewn ei fynwes; ac ni ddarfu i anghrediniaeth dynion gario i'w enaid Ef ei farwol oerni. Hyd yn nod pan yn cael ei arwain gan y diafol i awyrgylch temtasiwn, ni churodd ei galon gan yr un uchelgais gwrthryfelgar. Yr oedd Crist yn tynu ei anadl yn ofn yr Arglwydd.

Gallai efe edrych yn llygad ei oes, a'r oesau oll, a gofyn, "Pwy a'm hargyhoedda i o bechod?" Methodd ei elynion a gwneyd hyny. Mae Pilat wedi crynhoi y dystiolaeth am dano,—"Ni chefais yn y dyn hwn ddim bai." Pe buasai y Bradwr wedi canfod eiliw o wall yn nghymeriad ei Feistr, buasai hyny yn lleddfu rhyw gymaint ar ing ei feddwl; ond nid oedd yn bosibl cyfeirio at ddim o'r fath. Yr oedd mellt cydwybod o'i fewn yn cyhoeddi diniweidrwydd y Croeshoeliedig. "Pechais, gan fradychu gwaed gwirion!"

Ac nid cymeriad *heb ei brofi*—ei lwyr brofi—ydoedd cymeriad yr Iesu. Nid mewn unigedd y treuliodd ei oes, ond yn nghanol cymdeithas.

Nid meudwy ydoedd Ef yn llechu yn ogofeydd yr anialwch, ond Mab y Dyn yn ngwir ystyr y gair. "A'i gael mewn dull fel dyn;" yr ydoedd i'w gael yn y wledd ac yn yr angladd, yn y synagog ac yn y farchnadfa, yn y pentref tawel ac yn y ddinas boblog. Daeth Efe yn bwyta ac yn yfed. Carai ddynion â'i holl galon. Croesawai bob gradd yn ddiwahaniaeth. Derbyniai y cynghorwr pendefigaidd heb wenieithio iddo: derbyniai y tlawd heb ei sarhau. Yr oedd rhyw gyfaredd yn ei bresennoldeb oedd yn attynu pob gradd. Yr unig ddosbarth a edrychai yn elynol arno oedd y dosbarth a ddywedent am y *bobl*, melldigedig ydynt." Galwent hwy ef yn "gyfaill publicanod." "Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid." Eithaf gwir. Ond yr oedd yr Iesu yn gallu gwneyd hyn oll heb fyned yn bechadur ei hunan. Nid hwy oedd yn gosod argraff eu pechod arno Ef, ond Efe oedd yn gosod delw ei burdeb arnynt hwy. Daeth i'r cyffyrddiad agosaf â phechod y byd, heb gyfranogi o hono, heb gael ei lychwino ganddo. "Ni wnaeth bechod." Yr oedd gyda phechaduriaid ymhob man, ond o ran ei gymeriad arosodd drwy y cyfan yn "ddidoledig oddiwrth bechaduriaid.

Pa gyfrif a roddir am hyn oll? Y mawredd moesol sydd yn argraffedig ar yr holl gymeriad; cymeriad sydd yn sefyll wrtho ei hunan yn ei wreiddiolder, yn ei unoliaeth, ac yn ei gydbwysedd; cymeriad sydd yn gyfuniad o bob rhinwedd y gall meddwl dyn ei ddymuno, neu gyrchu tuag ato. Pa fath ddyn yw hwn? Onid yw syllu ar y portrëad geir o hono yn y pedair Efengyl yn peri i ni ailadrodd geiriau y canwriad wrth droed ei groes: "Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn!"

DYLANWAD EI GYMERIAD. Mae hyn yn cael ei gydnabod ar bob llaw, mai y dylanwad moesol cryfaf o fewn y byd ydyw cymeriad yr Iesu. Credir hyn yn ddiysgog gan Gristionogion, ac fe addefir yr un peth gan wŷr nad ydynt yn cysylltu eu hunain âg unrhyw ffurf weledig ar Gristionogaeth. Ymysg y dosbarth olaf, gellir enwi awdwr y cyfrolau gwerthfawr ar "Hanes Gwareiddiad a Moesoldeb yn Ewrop." Ni fynai yr awdwr hwnw, fel y credwn, gael ei gyfrif ymysg amddiffynwyr Cristionogaeth yn y cyfnod hwn. Hanesydd beirniadol ydyw efe am yr oll a ddêl yn ei ffordd, ac felly, hawlia gael ei wrandaw fel tyst diduedd. Ond attolwg, beth ydyw ei dystiolaeth ar y pwnc sydd genym mewn llaw? Wel, yn un o'r cyfrolau a nodwyd (*History of Morality from Augustus to Charlemagne*, Vol. II.), ceir y brawddegau a ganlyn:—"Cristionogaeth a gyflwynodd i'r byd gynllun-gymeriad (*ideal character*), yr hwn, drwy gyfnewidiadau deunaw canrif sydd wedi llanw calonau dynion â serch brwdfrydig; a'r hwn sydd wedi profi ei hun yn abl i weithredu ar bob oedran, ar bob cenedl, ar bob tymheredd, ac ar bob sefyllfa. Y mae y cymeriad hwn wedi bod, nid yn unig y patrwm uchaf o rinwedd, ond y symbylydd cryfaf yn yr ymarferiad o hono; ac wedi dylanwadu mor ddwfn fel y gellir yn wirioneddol dystiolaethu fod yr hanes syml am dair blynedd fer o fywyd ymarferol, wedi gwneyd mwy i adnewyddu a thyneru dynolryw na holl draethodau yr athronwyr, ac na holl annogaethau moesolwyr y byd. Mewn gwirionedd, y cymeriad hwn sydd wedi bod yn ffynnonell yr oll sydd oruchaf a phuraf yn y bywyd Cristionogol. Yn nghanol yr holl bechodau a'r

gwendidau, yn nghanol yr holl dwyll offeiriadaeth yr oesoedd, a'r penboethni sydd wedi anurddo hanes yr Eglwys, y mae wedi cadw yn nghymeriad ac esiampl ei Sylfaenydd egwyddor fyth-barhaol o adgenedliad."

Dyna dystiolaeth un nad yw yn "canlyn gyda ni" fel proffeswr Cristionogol, mewn llawer o bethau. Ond fel beirniad, fel hanesydd, angenrhaid a osodwyd arno i ddwyn y dystiolaeth fwyaf ddiamwys i gymeriad y dyn Crist Iesu. Craffer ychydig eto ar ei ymadroddion: y maent yn haeddu gwneuthur o honom hyn iddynt. Beth sydd yn cael ei addef yn y dyfyniad uchod?

1. *Fod* Cristionogaeth wedi cyflwyno i'r byd gynllun o gymeriad—un nas gellir rhagori arno. Yn awr, mae pethau pwysig wedi cael eu trosglwyddo i'r byd drwy gyfundrefnau eraill, hen a diweddar: ond i grefydd y Testament Newydd yr ymddiriedwyd y gorchwyl o gyflwyno i'r holl fyd yr un peth mawr ag y bu calon dyn yn breuddwydio am dano drwy yr oesau cymeriad perffaith.

2. *Fod* y cymeriad hwn, drwy gyfnewidiadau deunaw canrif, wedi llanw calonau dynion â'r cariad mwyaf brwdfrydig. Addefiad rhyfedd a phwysig ydyw hwn. At bwy arall y gellir cymhwyso y peth? Ceir hanes dynion yn dylanwadu yn rymus ar eu cydoeswyr; yn ennill calonau i'w dilyn ac i aberthu er eu mwyn. Ond, wedi iddynt gilio o'r golwg, y mae y brwdfrydedd yn darfod, a'r swyn yn pallu. Daw ereill i deyrnasu yn eu lle. Ond wele eithriad i'r rheol. Dyma un cymeriad nad ydyw deunaw canrif ddim wedi llacio yr afael sydd iddo ar feddwl y byd. Parhâ i lanw calonau â chariad brwdfrydig. Y mae ei orsedd yn serchiadau plant dynion yn gadarnach nag erioed. Y mae ei ragfynegiad yn cael ei sylweddoli yn mhob gwlad: "Mi a dynaf bawb ataf fy hun." Nid oes neb ond Efe yn medru tynu pawb. Dylanwada ar bob rhywogaeth o feddwl, pob dosbarth mewn cymdeithas. Mae cariad Crist fel yr arddangosir ef yn ei gymeriad, yn deffro teimladau dyfnaf y galon, ac yn cynnyrchu brwdfrydedd nas gall un dylanwad arall ei oeri na'i ddiffodd.

3. *Fod* ei ddylanwad mor ddwfn fel y gellir tystio iddo wneyd mwy i adnewyddu a thyneru y ddynoliaeth na holl draethodau yr athronwyr, a holl wersi moesolwyr y byd. Mae cymdeithasu â chymeriad yr Iesu yn dwyn dynion i feddiant o fywyd newydd, a'r bywyd hwnw yn argraffu ei hun mewn llinellau o dynerwch ar eu holl weithredoedd. Beth sydd yn rhoddi cyfrif am y bywyd, yr yni meddyliol a chymdeithasol, sydd yn nerthol-weithio yn y gwledydd hyny lle y mae Cristionogaeth wedi rhoddi ei throed i lawr? Mae yr esboniad i'w gael yn nghymeriad Crist. Pa le y mae cuddiad cryfder yr ysbryd dyngarol, yr ymdrechion clodwiw i leddfu poen a thrueni y ddynoliaeth? Mae hyn oll yn deilliaw o gymeriad yr Hwn a rodiai oddiamgylch gan wneuthur daioni. O hono Ef y mae rhinwedd yn myned allan i fywhâu, i iachâu, ac i dyneru y ddynoliaeth.

Addefir, fel y gwelir uchod, fod yr Iesu wedi gwneyd mwy yn y cyfeiriadau hyn na holl ddysgawdwyr yr oesau ynghyd. Saif ar fynydd Hanes, fel y gwnai ar fynydd y gweddnewidiad, mewn dysgleirdeb difrycheulyd yn *unig*—heb gystadlydd! Pwy a gyffelybir iddo Ef ymysg meibion y cedyrn? Mae yr hyn a ddywedodd ein

pêr-ganiedydd am yr angelion, yn wirionedd am holl anfarwolion amser:—

Holl angelion nef gwmpasog,
  Sydd o nifer gwlith y wawr,
Pe b'ai 'u tegwch a'u hawddgarwch
  Oll mewn un rhyw angel mawr;
T'wyllai 'i harddwch mewn mynydyn
  Toddai 'i ddoniau maith yn un,
*Wrth ymddangos i'w gymharu*
  *A'r hwn wisgodd natur dyn.*

Ei gymharu â'r Iesu! Ni fynai yr un angel yn y nef fod yn euog o'r fath ryfyg. "Ac addoled holl angelion Duw ef!" Yr oedd Gabriel, mae yn ddiau, yn cynnrychioli ei frodyr angelaidd pan ddywedai, "Hwn a fydd mawr, ac a elwir yn Fab y Goruchaf." Ac os dyna syniad yr angel, pa faint mwy cyfaddas ydyw yn ei berthynas â dynion? Pe casglid holl dywysogion ymherodraeth y meddwl i'r un man; ïe, pe gwneid un athrylith lachar, fawreddog o'r oll,—

T'wyllai 'i harddwch mewn mynydyn,
  Toddai 'i ddoniau maith yn un,
Wrth ymddangos i'w chymharu
  A'r hwn wisgodd natur dyn.

Addoled holl feibion athrylith Ef! Ac y mae y dynion mwyaf, galluocaf, sancteiddiaf, wedi ac yn ymgrymu ger bron cymeriad y dyn Crist Iesu. Y maent, gyda'r doethion, yn ei gydnabod fel yr Hwn a anwyd yn Frenin, ac yn offrwm "aur, thus, a myrr" eu calonau ger ei fron. Ac y mae meddyliau cyffredin, heb un argraff o goethder na dysg, fel y bugeiliaid gynt, yn cael eu llanw yr un ffunud gan ogoniant y cymeriad, ac yn

Rhyfeddu byth y geni 'n dlawd,
  Y byw dan wawd a chroesau;
Y dyoddef cosb heb unrhyw fai,
  A'r ufuddhâu heb rwymau.

Ond nid mawredd *graddau* yn unig ydyw mawredd cymeriad yr Iesu; y mae, hefyd, yn fawredd o *natur* ac *ansawdd* hollol wahanol i bob mawredd arall. Nid yn unig y mae mawredd y cymeriad yn uwch, ond y mae cymeriad y mawredd yn wahanol. Y mae yr Iesu yn fwy na phawb am ei fod yn wahanol i bawb. Yr oedd Efe ei hun yn hòni ac yn dysgu hyn. Seiliai ei holl addysg ar ei Bersonoliaeth ei hun: "Yr wyf fi yn dywedyd i chwi." Cyflawnai ei wyrthiau yn yr un modd: "Yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod a rhodia." Cyhoedda ei hun yn oleuni y byd, bara y bywyd, a ffynnonell gwirionedd. Hona y berthynas agosaf â'r Dwyfol. "Myfi ydwyf oddiuchod." Nid esgyn i ucheldera u gwirionedd mewn mynydau ysbrydoledig yr ydoedd Efe, ond sefyll yn ddigryn ar yr ucheldera u hyny, gan gyfarch y byd oddiarnynt. Llefarai y gwirioneddau mwyaf aruchel a ddisgynodd ar glustiau dyn erioed heb un arwydd o ymdrech. Yr oedd cwestiynau mawrion bywyd a bodolaeth yn glir iddo Ef,—y dyfodol yn noeth ac yn agored o flaen ei olygon. Treiddiai i gilfachau cudd y galon ddynol, gwyddai beth oedd mewn dyn. Ond gesyd ei hun yn

ogyfuwch â Duw: "Myfi a'r Tad un ydym." Y mae yn darbyn gwarogaeth Ddwyfol. Rhyfedd a dyeithriol ydyw ei agwedd at bechod y byd. Y mae ei ymadroddion yn erbyn drwg yn llosgi fel ffwrn; ond hona awdurdod Ddwyfol i faddeu pob pechod, ac yr oedd ei gyhoeddiad o bardwn yn disgyn fel miwsig Paradwys ar yabryd yr euog edifeiriol. Geilw bawb ato ei Hun, ac addawa orphwysfa enaid i bob un a ufuddhâ i'w air. Dywed hefyd, fod peidio ei arddel gar bron dynion yn arwain i wrthodiad ganddo Yntau, pan ddêl yn ngogoniant ei Dad i farnu y byw a'r meirw.

Yn y pethau hyn, a'u cyffelyb, saif yn wahanol i bob cymeriad dynol y gwyddys am dano. Teimlir y buasai yn rhyfyg, ie, yn wallgofrwydd yn neb arall i geisio ei efelychu. Ond ynddo Ef yr oedd yn hollol naturiol, er ei fod yn gwbl groes i hanes gyrfa pawb eraill. Wele, beth newydd dan yr haul!

> Yn mhlith a fu, neu eto ddaw,
> 'D oes debyg iddo Ef.

Pa fodd yr esbonir ei ymddangosiad yn y byd? O ba le y daeth? Cymeriad Crist; ai o'r nef yr ydoedd, ai o ddynion? Mae rhan o'r byd, fel y Phariseaid gynt, yn petruso ateb y cwestiwn. Os dywedant o'r ddaear, rhaid iddynt roddi cyfrif am dano ar yr un egwyddor â dynion eraill. Ond pa fodd y gwneir? Dywed deddf dadblygiad: "Nid yw yr ateb ynof fi." Ac etyb Iuddewiaeth: "Nid ydyw ynof fi." Ond os dywedant mai o'r nef, yna rhaid cydnabod ei ddwyfoldeb, a hyny nis mynant. Ond beth a ddywedai y rhai oedd yn ei adwaen oreu? Beth oedd tystiolaeth yr un fu yn pwyso ar ei fynwes? Onid hyn: "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a drigodd yn ein plith ni. Ac ni a welsom ei ogoniant Ef, gogoniant megys yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd!"

Cyn terfynu, dymunem adgoffa y gwirionedd mai cymeriad Crist sydd yn rhoddi cymeriad i Gristionogaeth. Y mae ei hawliau fel crefydd y byd yn gorwedd ar gymeriad ei Sylfaenydd. Y mae iaith y Cristion unigol yn eithaf cyfaddas i'r grefydd Gristionogol ymhob oes:—

> Pe unwaith y darfyddai
> Awdurdod Calfari,
> Darfyddai pob cysuron
> Ar unwaith genyf fi;
> O bawb, yn sicr, byddwn
> Y druenusaf un,
> Fe 'm llyncai 'r bedd dychrynllyd
> Yn fuan iddo 'i hun.

Gall y gelyn ymosod, a llwyddo i ddymchwel rhyw bethau a ystyrid yn brofion--yn *evidences*—mewn amser aeth heibio; ond y mae un peth yn aros yn ddiysgog—cymeriad yr Iesu! Y mae Hwn ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.

Dyma neillduolrwydd y grefydd Gristionogol; y mae ei sail a'i sylwedd mewn *cymeriad*. Gallai Mahometaniaeth fyned rhagddi heb Mahomet. Nid yw sylfaenwyr hen grefyddau India a China ond cysgodion anelwig yn ngwyll hanesiaeth. Ond pe tynid cymeriad yr

Iesu o Gristionogaeth, fe syrthiai yr holl gyfundrefn i'r llawr. Byddai y Shecinah wedi ei golli o honi, a'i chysegr sancteiddiolaf yn ddim ond adfail dywell ac oer. Ond yn y meddiant o gymeriad ei Sylfaenydd, fe erys yn ddisigl yn ngwyneb pob rhyferthwy, a "phyrth uffern nis gorchfygant hi."

Y mae yn canlyn yn naturiol mai rhagorfraint Cristionogion ydyw syllu ar y cymeriad bendigaid hwn; cymdeithasu â'i hanes; myfyrio ar ei brydferthion. Fe ddywedir fod llygaid y sawl sydd yn edrych ar yr haul yn myned yn heulog. Mae yr haul yn gosod ei ddelw ynddynt. Y mae hyny yn wir, mewn ystyr uwch, am y rhai sydd yn edrych ar Oleuni y Byd; cyfnewidir hwy i'r unrhyw ddelw. Sylweddolir iddynt yr addewid: "Dy lygaid a welant y Brenin yn ei degwch." Ac yn ngoleuni heulog ei gymeriad Ef, daw y meddwl i dystiolaethu am dano: "Ti yw Mab Duw, Ti yw Brenin Israel." Daw y galon hefyd i ddirgrynu mewn addoliad ger ei fron, gan gyffesu, "Fy Arglwydd a'm Duw."

R. D. Rowland.

*Caernarfon.*

---

# AMAETHYDDIAETH.

Nid ydyw Amaethyddiaeth, fel cangen o efrydiaeth, ond dechreu cael y sylw y mae yn deilyngu yn Nghymru, ac yr ydym yn calonog longyfarch awdurdodau Coleg y Gogledd am symud yn y cyfeiriad hwn i hyrwyddo addysg amaethyddol yn ein gwlad. Hwyrach nad oes yr un alwedigaeth na chelfyddyd ymha un y mae cymhwysiad o egwyddorion cywir yn talu yn well nag mewn amaethyddiaeth; ac hwyrach nad oes yr un gyda yr hon yr esgeulusir yn gymaint rhoddi y sylw priodol i'r egwyddorion a'r elfenau hanfodol i lwyddiant. Gyda ein rhenti uchel, a'r gystadleuaeth gartrefol a thramor sydd ar bob llaw yn ein cyfarfod, gweddus yw i bob un y mae a wnelo mewn unrhyw ffordd â galwedigaeth yr amaethwr astudio sut i wneyd pobpeth yn y modd mwyaf cynnil ac effeithiol. Y mae rhai personau yn erbyn athrawiaethu fel hyn mewn llyfrau ar bynciau amaethyddol, a gwawdiant y syniad o ddysgu elfenau amaethyddiaeth yn yr Athrofa neu yn ngweithdŷ y fferyllydd. Dadleuant mai yr unig ffordd i dd'od yn ffermwyr llwyddiannus yw cael digon o brofiad ar y ffarm, ac nad ydyw y gosodiadau a'r cyfarwyddiadau damcanol a geir mewn llyfrau ond heresi wael a chyfeiliornus, croes i bob synwyr cyffredin. Camgymeriad dybryd ydyw hyn. Y mae damcaniaeth gywir yn unol â'r ymarferiad goreu; ac nid yw yr hyn a ddysgir mewn llyfrau Amaethyddol, fel rheol, ond profiad yr amaethwyr a'r gwyddonwyr mwyaf gwybodus, wedi ei gofnodi fel cynnorthwy i'r neb a fyno ymberffeithio drwy eu llwyddiant neu eu haflwyddiant hwy.

Er deall yn briodol elfenau amaethyddiaeth, rhaid gwybod ychydig o egwyddorion fferylliaeth, llysieuaeth, daeareg, anianeg, &c.; ond na feddylied neb mai rhyw glytwaith o'r gwyddorau hyn ydyw Amaethyddiaeth. Nid yw y rhai hyn ond llawforwynion defnyddiol i esbonio anhawsderau ac i awgrymu gwelliantau. Daw fferylliaeth i'n helpu i ddeall cyfansoddiad y tir, a'r elfenau angenrheidiol i dyfiant ein cnydau. Dysg i ni hefyd werth meithrinol y gwahanol fwydydd, a galluoga ni i ddewis y rhai mwyaf cyfaddas i'r dyben mewn golwg.

Gallem nodi engreifftiau wrth y degau o'r cynnorthwy a rydd y gwahanol wyddorau i ddadblygu amaethyddiaeth; ond yn bresennol gadawn i'r uchod ateb ein pwrpas. Pan sylfaenir Ysgolion Canolraddol yn ein gwlad, edrychwn ymlaen yn obeithiol at ddyfodol dysgliaer pan drwythir ein plant yn y gwybodaethau hyn.

Y mae Amaethyddiaeth yn faes eang iawn, ac yn cyrhaedd i amryw o wahanol gyfeiriadau; ond hwyrach nad oes yr un ran o hono yn fwy teilwng o'n sylw, ac o amgylch pa un y mae cymaint o anwybodaeth neu esgeulusdra yn ffynu â chynnyrchiad Llaeth, Caws, ac Ymenyn; ac yn sicr nid oes dim a ddyry fwy o ad-daliad am y sylw a roddir iddo na'r pwnc hwn.

Bwriadaf fyned i mewn dipyn yn helaeth i'r mater yma; a pe byddai fy sylwadau—pa rai a fwriedir i awgrymu yn hytrach nag i ddyhysbyddu y testun—yn foddion i symbylu ein darllenwyr ieuainc i fwy o ymchwiliad ac ymröad, byddent wedi cyrhaedd yr amcan mewn golwg wrth eu hysgrifenu. Dywedwn air ar

I. Laeth o ran ei gyfansoddiad.

II. Laeth o ran ei gynnyrchiad.

III. Ymenyn.

Ond yn gyntaf, BETH YW LLAETH? Wel, i ateb y cwestiwn hwn yn briodol, rhaid cael cynnorthwy y chwydd-wydr (*microscope*) a fferylliaeth. Pe rhoddem ddyferyn o laeth yn haen deneu ar dafell o wydr o dan y chwydd-wydr, gwelem ei fod yn gynnwysedig o ronynau mân yn nofio mewn gwlybwr. Y rhai hyn sydd yn cynnyrchu yr ymenyn; ac y mae pob un o honynt yn gynnwysedig o bilen allanol yn amgau o'i mewn y gwahanol frasderau. Y crynynau (*globules*) hyn sydd yn peri fod llaeth yn wyn, ac y maent yn amrywio mewn maint o $\frac{1}{5000}$ i $\frac{1}{2000}$ o fodfedd mewn tryfesur.

Pan roddir y llaeth mewn llestr, coda y crynynau hyn i'r wyneb, am eu bod yn ysgafnach na'r gwlybwr, a ffurfiant yr hufen. Y mae yr ysgydwad a gynnyrchir wrth gorddi y llaeth yn peri iddynt rwygo ac ymuno â'u gilydd i wneyd yr ymenyn. Po fwyaf fydd maint y gronynau hyn, cyflymaf yr ymffurfia yr hufen a'r ymenyn. Yn llaeth y fuwch *Ayrshire* y maent yn fach neillduol, ac o ganlyniad y maent yn ymranu yn fwy cyfartal drwy y llaeth, ac yn peri fod y caws a wneir o hono yn fras ac unffurf.

Trwy gymhorth fferylliaeth gellir dadansoddi y gwlybwr y cyfeiriasom ato yn barod, a chawn ei fod yn gynnwysedig o ddwfr, ynghyd a'r pethau canlynol mewn ystâd doddedig:—cawsed (*casein*), alwyn (*albumen*), sugr (*lactose*), ac amryw sylweddau mwnawl (*mineral substances*).

Yn y daflen isod rhoddwn ddadansoddiad cyflawn o laeth, a gwel y darllenydd ar unwaith y cyfartaledd a fodola cydrhwng y gwahanol bethau.

| | | |
|---|---|---|
| i. Dwfr .. .. .. .. .. .. .. .. | | 86·675 |
| ii. Yn nofio yn y dwfr ar ffurf crynynau— | | |
| (*a*) Brasder (*fat*) .. .. .. .. .. | | 3·800 |
| iii. Yn doddedig yn y dwfr, ac felly yn bresennol hefyd yn y llaeth enwyn— | | |
| (*a*) Sugr (*Lactose*) .. .. .. .. .. | | 4·600 |
| (*b*) Sylweddau bloreiaidd (*nitrogenous substances*) } *casein, albumen* .. | | 3·950 |
| (*c*) Sylweddau Mŵnawl— | | |
| Sur ffoddig (*phosphoric acid*) .. | ·284 | |
| Llyshal (*potash*) .. .. .. | ·235 | |
| Calch (*lime*) .. .. .. .. | ·173 | |
| Llyshal-lasnur (*potassic chloride*) | ·140 | .. ·975 |
| Llysnur (*soda*) .. .. .. | ·070 | |
| Halen (*sodic chloride*) .. .. | ·047 | |
| Crilysnur (*magnesia*) .. .. | ·021 | |
| Egrid haiarn (*oxide of iron*) .. | ·005 | |
| | | 100·000 |

Gwelir oddiwrth yr uchod fod llaeth yn cynnwys amrywiol elfenau, yr hyn sydd yn gosod y fath arbenigrwydd arno fel ymborth i ddyn ac anifail. Y mae ynddo y pethau sydd yn angenrheidiol at gynnaliaeth dyn; a cheir y rhai hyn ynddo yn y cyfartaledd priodol, ac hefyd mewn dull hawdd iawn i'w treulio. Gwasanaetha y *casein* (yr hwn a gynnyrcha *gaws*) i wneyd i fyny y gewynau; ac o'r *brasder* y daw allan wres ac yni i'r corff; tra y ffurfir yr esgyrn allan o'r sylweddau *mwnawl* a nodir yn y daflen.

Llaeth o ran ei gynnyrchiad. Pan ystyriwn y ffaith fod ryw 125,000 o dunnelli o fenyn, ac yn agos i 100,000 o dunnelli o gaws yn cael eu hatgludo yn flynyddol, i'r wlad hon o wledydd tramor, gwelwn ar unwaith y dylid gwneyd pob ymdrech yn ein gallu i gynnyddu y cyflenwad cartrefol.

Y mae amledd ac ansawdd y llaeth yn ymddibynu ar amryw o bethau, ymysg pa rai gellir nodi—

1. *Rhywogaeth.* Fel buchod yn rhoddi cyflawnder mawr o laeth, saif y *Shorthorn*, yr *Ayrshire*, a'r *Irish Kerry* yn y dosbarth blaenaf; tra y mae llaeth yr *Alderney*, y *Jersey* a'r *Devonshire* yn brin, ond o ansawdd rhagorol.

2. *Oedran.* Y mae buwch yn ei hamser goreu pan o 4 i 5 oed; ac nid oes dim yn fwy costus na hen fuwch. Tua 9 oed, y mae cyflawnder ac ansawdd y llaeth yn syrthio yn fyr.

3. *Bwyd.* Gan fod y llaeth yn dyfod o'r gwaed, a bod cyflenwad ac ansawdd y gwaed yn ymddibynu ar y bwyd, gwelwn ar unwaith mor bwysig ydyw y pwnc o borthi y fuwch. Dylai yr amserau priodol i fwydo, swm a natur y bwyd, ynghyd a'r parotoadau angenrheidiol arno, gael ein sylw neillduol. Er sicrhau *quantity* o laeth, rhodder digonedd o fwyd iraidd a noddlyd, megys glaswellt, *clover*, &c.; ond i sicrhau y *quality*, rhodder bwyd sychach a chyfoethog mewn elfenau caws ac ymenyn, megys *oilcake*, ffa, bràn, ceirch, meillion-wair, &c.

4. *Triniaeth gyffredinol yr anifail.* Gofaler fod glanweithdra, digonedd o le, ac awyriad da (*ventilation*) yn y beudŷ. Pan gedwir y gwartheg mewn buchdai cyfyng a chauedig, buan yr halogir yr awyr gan yr ulyfsur (*carbonic acid*), a'r sylweddau niweidiol eraill a deflir

[illegible] ... y llaeth ... [illegible]

[illegible]

[illegible] ... y llaeth.

[illegible] ... cyfansoddiad a gan, yn :—

| | |
|---|---|
| Dwfr | [illegible] |
| Braster | 8[illegible]·5 |
| Caws | 1· |
| Sugr | ·4 |
| Sylweddau mwnawl | ·6 |
| | 100 |

Gwelir oddiwrth yr uchod mai y braster sydd yn y mwyafrif o ddigon, ac mai pethau damweiniol, megys, ydyw y tri olaf. Y mae y beirniaid medrus wrth feirniadu yr ymenyn yn cymeryd i sylw amryw o nodweddion, y rhai a dyry Mr. Primrose McConnell yn ei lyfr gwerthfawr fel y canlyn, yn ol eu pwysigrwydd :—

Safon—100.

30. Blas *(flavour)*; Yn beraroglaidd a hyfryd.
20. Cadwraeth *(keeping)*; Yn araf i newid a gwaethygu.
15. Cyfansoddiad *(texture)*; Y graen yn gauad.
15. Lliw *(colour)*; Yn naturiol ac unffurf.
10. Gwneuthuriad *(make)*; Glanweithdra, rhyddid oddiwrth laeth enwyn, halen yn briodol, &c.
10. Caledwydd *(solidity)*; Yn ddurfing ac nid yn toddi yn rhwydd.

Gwelir ar unwaith mai nid hawdd yw d'od i fyny â'r safon uchod, a diammheu mai ychydig iawn o fenyn a geir yn agosâu at y perffeithrwydd hwn; ond ar yr un pryd da yw cael safon i ymgyrhaedd ato yn hyn fel ymhob peth arall. Cyn byth y gellir llwyddo i gael ymenyn o radd uchel, rhaid gofalu fod y llaethdŷ, a phob peth a berthyn iddo, yn lân, yn oer, yn awyrog, ac yn cael ei gadw mewn tymheredd unwedd o tua 60° F.

Gwneir ymenyn yn y wlad yma o

1. Hufen croyw.
2. Hufen sur.
3. Hufen sur ynghyd a'i laeth.
4. Hufen wedi ei ledferwi *(Devonshire cream)*.

Y mae eu rhagoriaethau a'u gwaeleddau yn perthyn i bob un o'r dulliau uchod; ond awn heibio ar hyn o bryd.

Pwnc sydd wedi cael llawer o sylw yw y dull goreu i "osod y llaeth" er cynnyrchu yr hufen. Y mae dau gynllun hollol wahanol. Y cyntaf a'r mwyaf cyffredin yw dodi y llaeth mewn padellau bâs yn y llaethdŷ, mewn tymheredd o tua 50° F. neu 60° F. Yna ymffurfia yr hufen yn raddol ar y wyneb. Y gwrthwynebiad i'r cynllun hwn ydyw fod y llaeth yn y padellau cêg-lydain yn cael ei ddynoethi yn ormodol i ddylanwadau yr awyr. Cynnyrcha y dynoethiad yma surni yn y llaeth. Achosir suriad cyffredin y llaeth gan aelod aruthr-fychan o'r byd llysieuol. Gelwir ef yn *Bacterium Lactis*. Perthyna i'r dosbarth llysieuol a elwir *Schizomycetes*; ac y mae mor fychan fel y mae yn rhaid cael cymhorth y chwydd-wydr cryfaf i'w ganfod. Y mae yn bresennol yn yr awyr a lleoedd eraill, a phan y ca fynedfa i'r llaeth dechreua ar ei waith o newid y sugr (*lactose*) i *Lactic Acid* (sur llaethig). Dangosir y cyfnewidiad fel y canlyn yn iaith y fferyllydd:—

$$C_{12}H_{22}O_{11} + H_2O = 4\,C_3H_6O_3$$

Lactose. Dŵr. Lactic Acid.

Mae yr *Acid* hwn yn ceulo y *casein* (cawsed), ac yn awr y mae y drwg yn d'od i fewn. Ar ol ei geulo, cymysga y cawsed fwy neu lai â'r hufen, ac y mae y menyn a wneir o hono yn fwy tueddol i waethygu a myned yn ddrygsawrus. Gan hyny gofaler dihufenu y llaeth cyn iddo suro, mewn tua 12 awr; ac hefyd gofaler fod y llestri a'r llaethdŷ yn berffaith lân, gan fod budreddi hefyd yn cynnyrchu y surni y cyfeiriwyd ato. Er mwyn ei ochelyd yn gymaint ag y mae yn bosibl, y mae cynllun arall wedi ei ddyfeisio. Yn ol dull Swartz, rhoddir y llaeth mewn celyrnau metelaidd cul, tua dwy droedfedd o ddyfnder. Amgylchynir hwy â rhew, neu gosodir hwy mewn ffrydlif barhaus o ddwfr oer mewn cafn. Ymgoda yr hufen yn gyflym i'r wyneb, yn berffaith groyw a rhydd oddiwrth *gawsed*. Y mae y tymheredd isel â pha un yr amgylchynir y llaeth yn lleihau i'r eithaf y cyfnewidiadau fferyllawl y cyfeiriwyd atynt, ac y mae yr ymenyn a wneir o hono yn cadw yn well heb waethygu. Y mae cynllun Cooley ar yr un egwyddor, ond gadawn ef heb ddim ond ei enwi. Y mae dyfais fwy diweddar na'r rhai a nodwyd i ysgaru yr hufen a'r llaeth oddiwrth eu gilydd, a chan mai hon yw y fwyaf perffaith, teilynga ychydig o'n sylw. Cyfeirio yr ydym at y peiriant esgreiddiol (*centrifugal machine*). Yn y peiriant yma cylchdroir y llaeth gyda y cyflymdra mwyaf chwyrn—ryw 6000 o droadau y fynyd. Mewn ychydig fynydau daw yr hufen i'r wyneb yn y canol, ac arweinir ef allan drwy bibell yn y top, tra y daw y "llaeth glâs," fel ei gelwir, allan drwy bibell yn yr ochr. Dihufenir y llaeth yn llawer mwy trwyadl gyda y dull yma na chyda yr un cynllun arall; ac y mae y llaeth yn berffaith ffres, ac yn barod i'w ddefnyddio ar unwaith.

Yn Denmark y mae y peiriant hwn, ynghyd a'r Swartz, mewn bri mawr; ac y mae y dirfawr ofal a gymerir yno gyda phob rhan o'r gwaith yn peri fod ymenyn y wlad hono mewn ffafr neillduol trwy holl

wledydd y Cyfandir, ac yn hawlio gwell pris yn y farchnad nag ymenyn goreu Prydain. Teilwng o sylw hefyd, yn y cysylltiad hwn, ydyw y drafferth fawr a gymer y Llywodraeth yn Denmark i rwyddhau ffordd yr ieuenctyd sydd â'u cyfeiriad at Amaethyddiaeth, ac yno hyfforddir hwynt yn drwyadl yn egwyddorion sylfaenol eu galwedigaeth.

Cyn terfynu hyn o lith, dywedwn air yn fyr ar gorddi y llaeth. Amcan y corddi yw peri i'r crynynau brasder y cyfeiriwyd atynt ymuno â'u gilydd i wneyd yr ymenyn. Y mae yn bwysig i'r llaeth fod yn y tymheredd priodol wrth gorddi, os ydym am gael ymenyn o'r iawn ryw. Os bydd y tymheredd yn rhy isel, bydd yr ymenyn yn galed ac yn hir cyn d'od; os yn rhy uchel, daw yn fuan, ond bydd yn feddal, yn ychydig, ac yn ddiflygiol mewn graen. Tua 60° F. yw y tymheredd mwyaf addas. Peidier hefyd a gòr-gorddi y llaeth, ond ymattalier can gynted ag yr ymddangoso yr ymenyn yn fân-ronynau. Yn arbenig gofaler fod yr ymenyn yn hollol rydd oddiwrth laeth enwyn, onidê bydd i'r cawsed sydd ynddo droi blas yr ymenyn.

Rhag blino y darllenydd â meithder, terfynaf, gan obeithio y bydd i'r sylwadau hyn fod yn foddion i gynnyrchu ymchwiliad pellach yn y maes dyddorol hwn.

JOHN EVANS.

*Bow Street.*

---

# PERSONOLIAETH YR YSBRYD.

TUEDD beryglus yr oes hon, gyda golwg ar Berson Crist, ydyw addef ei bersonoliaeth tra yn gwadu ei Dduwdod; ond y cyfeiliornad mawr, gyda golwg ar yr Ysbryd, ydyw addef ei Dduwdod, tra yn gwadu ei bersonoliaeth. Gellir casglu beth oedd barn gymysglyd yr Eglwys gyntefig ar y pwnc pwysig hwn oddiwrth eiriau Gregory Nazianzen: "Gan y rhai deallus yn ein plith, ystyrir yr Ysbryd Glân gan rai fel gallu, gan eraill fel creadur, gan eraill fel Duw, ac y mae eraill heb wybod yn sicr pa syniad i'w dderbyn, gan nad yw y Bibl yn dysgu dim pendant o berthynas iddo." Yr achos o'r cymysgedd hwn, yn ddiau, oedd mai ychydig o sylw a gafodd yr athrawiaeth hon yn ystod y pedair canrif gyntaf. Yr oedd y dadleuon y pryd hwnw yn benaf ynghylch y Mab; ac yr ydym yn cael mai yn Nghynghor Caergystenyn (O.C. 381) y cyffeswyd yr Ysbryd fel "Arglwydd a Rhoddwr bywyd, yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth y Tad, a'r hwn gyda'r Tad a'r Mab a addolir ac a ogoneddir." Ac nid cyn Cynghor Toledo (O.C. 589) y cafodd y geiriau *filioque*—"ac oddiwrth y Mab"—eu hychwanegu, yr hyn a achosodd y rhwyg dilynol rhwng yr Eglwys Ddwyreiniol a'r un Orllewinol.

Ond nid i'r canrifoedd cyntaf yn unig y gellir priodoli y cyfeiliornadau hyn, oblegid cawn fod rhai eto yn parhau i wadu personoliaeth yr

Ysbryd. Nid ydyw, meddir wrthym, yn ddim amgen nag ansawdd *(quality)*, neu ŷni *(energy)*, neu ddull gweithrediad Dwyfol. Mae yn rym, ond nid yn berson Dwyfol. Pan sonir felly am breswyliad yr Ysbryd, ni olygir preswyliad personol yn y saint; ond gellir dyweyd fod un yn meddu Ysbryd Duw pan y dygwyddo fod yn debyg o ran egwyddor a chymeriad i Dduw. Yn debyg fel y dywedir weithiau fod un yn meddu ysbryd un o gewri yr oesau gynt—megys ysbryd Luther neu Howard—yn unig am fod tebygrwydd yn y cymeriadau i'w gilydd. Yn ol y syniad cyfeiliornus hwn, nid yw meddu Ysbryd Crist yn golygu mwy na bod yn feddiannol ar feddwl Crist. Dylid, gan hyny, roddi lle amlwg yn ein duwinyddiaeth i'r gwirionedd mawr a phwysig hwn.

Gellir crynhoi y prawfion a ddygir ymlaen yn gyffredin o'i blaid i'r tri hyn: fod (1) briodoleddau personol; (2) weithrediadau personol; ac (3) enwau personol yn cael eu priodoli iddo yn y Bibl. Ni wnawn ond yn unig nodi y rhai hyn yn bresennol. Goddefer i ni felly ofyn—*Beth yw person?* Cawn fod y gair gwreiddiol—*persona*—yn yr iaith Ladin, yn golygu, yn gyntaf, y gorchudd *(mask)* a arferid gan yr *actor* ar y *stage;* yna daeth i ddynodi yr *actor* ei hun; wedi hyny y cymeriad a actid felly; ac yn ddiweddaf, daeth i olygu unrhyw un yn meddu unrhyw gymeriad neu safle. Gall y gair fod yn cael ei wneyd i fyny o dri o eiriau eraill—*per se una;* yn golygu bôd unigol *(an individual)*. Gan adael y gair, cawn fod athronwyr yn gwahaniaethu yn fawr am yr hyn yw hanfod personoliaeth. Rhydd rhai bwys neillduol ar *ymwybyddiaeth;* tra y dywed eraill ei fod yn gynnwysedig mewn *dealltwriaeth.* "Eisteddle deall"—*the seat of intellect*—medd Paley, "sydd berson." "Y mae person," medd Locke, "yn golygu bôd meddylgar a deallol, yn feddiannol ar reswm, ac yn alluog i ystyried ei hun fel efe ei hun, yr un bôd meddylgar ar wahanol adegau, ac mewn gwahanol leoedd." Yr un modd y dywed Taylor, ac eraill. Ond y farn fwyaf cyffredin ydyw, fod hanfod personoliaeth yn yr *ewyllys.* Y mae pa beth bynag sydd yn gweithredu o hono ei hun, medd Aristotle, yn berson. Ac fe ddywed Coleridge mai unigolrwydd yn bodoli ynddo ei hun, ac yn gweithredu o hono ei hun, yw personoliaeth. Yn awr, mewn ffordd o gasgliad, ac hefyd gyfuniad o'r gwahanol ddeffiniadau athronyddol hyn, cynnygiwn y darnodiad hwn o berson, sef *Bôd deallol, ymwybyddol, a rhydd i weithredu.* Gwelir y gwahaniaeth felly rhwng person a pheth. *Peth* yw yr hyn y gweithredir arno; *person*—yr hyn sydd yn gweithredu o hono ei hun.

Ond y cwestiwn yn awr yw, a ellir profi, yn ol y darnodiad hwn, fod yr Ysbryd Glân yn berson. A ellir profi ei fod yn rhydd-weithredydd? Cawn fod amryw eiriau yn y Bibl yn dynodi gweithrediad y Tad gyda golwg ar yr Ysbryd, megys *rhoddi, anfon, gweinyddu, tywallt, gosod,* &c. Ond ceir amryw eiriau hefyd yn gosod allan weithrediad yr Ysbryd o hono ei hun; megys *deilliaw, dyfod, syrthio, gorphwys, ymadael,* &c. Mae y rhai hyn, yn ol y darnodiad uchod, yn weithrediadau person. Dynodant *ewyllysgarwch, dechreuad, sydynrwydd, parhad,* ac *attaliad* ei weithrediadau, gan ei osod allan fel rhydd-weithredydd, ac felly yn berson.

Ond y mae gwrthddadl yn cyfodi yn naturiol yma, sef, Onid yw y Bibl weithiau yn personoli cariad, ac eto na feddylia neb fod cariad yn

berson; ond dywed Paul yn eglur fod cariad "yn hirymaros, yn gymwynasgar," nad yw "yn cenfigenu, yn ymffrostio," &c. Priodolir y pethau hyn, meddir wrthym, i gariad,—yr hyn, wrth gwrs, sydd beth, ac nid person,—am eu bod yn wir am y dyn cariadlawn. Yn awr, onid yn yr un modd y dywedir fod yr Ysbryd Glân yn cyflawni gweithredoedd personol, pan nad ydyw yn berson, ond yn rhinwedd neu allu y Tad, gan mai y Tad sydd yn gweithredu trwy ei allu hwn, yr hwn allu a elwir yr Ysbryd Glân? Ni wnawn ond cyfeirio at eiriau yr Arglwydd Iesu yn Efengyl Ioan (pen. xvi. 8, &c.), i gyfarfod yr wrthddadl hon: "Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith; canys onid ăf fi, ni ddaw y Dyddanydd atoch; eithr os mi a ăf, mi a'i hanfonaf ef atoch." Yma cawn un person Dwyfol yn anfon person Dwyfol arall. Ond pwy a all yr Un arall hwn fod? Mae y cwestiwn hwn yn ein dwyn ar unwaith i ganol dirgelwch mawr athrawiaeth y Drindod. Gwnaed llawer cais cyn hyn i egluro y geiriau rhyfedd—"tragywyddol genedliad," a "thragywyddol ddeilliad," yn eu perthynas â'r Ail a'r Trydydd Person, o'r Tadau eglwysig hyny a dybient iddynt dderbyn eu hanfod o'r Tad, hyd ysgrifenwyr diweddar,—mwy uniongred hefyd, dybygem,—y rhai a ddeallant y geiriau fel yn golygu gweithrediad tufewnol, arosol, yn yr hanfod Ddwyfol; nid peth allan o'r hanfod, ond *yn* yr hanfod; peth arosol, a thragywyddol, ac angenrheidiol yn null y Duwdod o hanfodi. Ac y mae *dull* o hanfodi yn golygu, o angenrheidrwydd, yn ei berthynas â Duw, *drefn* o hanfodi; oblegid nis gellir meddwl am yr Anfeidrol yn bod, mwy nag yn gwneuthur dim, ond mewn trefn. Er fod y Tri Pherson yn tragywyddol gyd-hanfodi, ac felly yn ogyd-ogyfuwch â'u gilydd, eto rhaid credu eu bod yn bodoli felly mewn trefn berffaith, hyny yw, fel Tad, Mab, ac Ysbryd; neu fel Cyntaf, Ail, a Thrydydd. Yn unol, felly, â'r drefn hon o fodoli, rhaid mai y Tad, fel y Person cyntaf, yw ffynnonell wreiddiol pob peth, nid yn unig o'r tu allan, ond hefyd *yn* yr Hanfod Ddwyfol ei hunan, fel y gellir dyweyd mai yn y Tad y mae,—nid yr *oedd*, ond y *mae*, yn dragywyddol-arosol,—hyd yn nod sail bodolaeth y Mab a'r Ysbryd Glân. O'r Tad y maent yn dragywyddol; y Mab yn dragywyddol-genedledig, a'r Ysbryd yn dragywyddol-ddeilliedig o'r Tad a'r Mab. Ac nid yn unig dyma drefn eu hanfodiad, ond dyma hefyd drefn eu gweithrediad. Mae y Tad yn gweithredu pob peth o hono ei Hun, yn a thrwy y Mab; a'r Tad a'r Mab yn a thrwy yr Ysbryd. Nis gall yr Ysbryd weithredu trwy y Mab, na'r Mab trwy y Tad, gan fod hyny yn groes i drefn eu hanfodiad. Yr un modd, nis gall yr Ysbryd anfon y Mab, na'r Mab anfon y Tad. Y Tad yn unig all anfon y Mab, a'r Tad a'r Mab yn unig all anfon yr Ysbryd. Fel yma y dywed Awstin ar hyn: "Pan ddywedir fod y Tad yn anfon y Mab, nid ydym i feddwl fod un yn fwy, a'r llall yn llai; ond am fod un yn Dad a'r llall yn Fab; un yn genedlydd, a'r llall yn genedledig; un, o'r hwn y mae yr hwn a anfonir; y llall, yr hwn sydd o'r hwn a enfyn. Oblegid y Mab sydd o'r Tad, ac nid y Tad o'r Mab. Ni ddywedir fod y Tad yn cael ei anfon, oblegid ni fedd Efe neb i fod neu i ddeilliaw o hono."—(*Athrawiaeth y Drindod*).

Wedi rhoddi yr eglurhâd hwn ar drefn hanfodiad a gweithrediad y Personau Dwyfol, dymunwn gyfeirio y darllenydd eilwaith at eiriau

Crist fel atebiad i'r wrthddadl y cyfeiriwyd ati. "Myfi," meddai, "a'i hanfonaf ef atoch." Nid ydyw yr Ysbryd, medd yr wrthddadl, ond personoliad o allu neu rinwedd yn y Tad. Rhaid, felly, mai wrth yr *Ef* y dywedai Crist ei fod yn ei anfon, yr ydym i ddeall y Tad; ac yn unol â hyn, rhaid fod yr Ail Berson yn anfon y Cyntaf,—y Mab yn anfon y Tad; yr hyn, yn ol yr eglurhâd uchod, sydd yn amlwg yn anmhosibl. Rhaid felly fod yr *Ef* yn addewid Crist, yn cyfeirio at ryw Drydydd, yr Hwn a raid fod yn Berson mor wirioneddol a gwahanol oddiwrtho â'r Tad. Y trydydd Person hwn felly yw yr Ysbryd Glân, anfonedig y Tad a'r Mab, fel y mae y Mab yn anfonedig y Tad.

Ac y mae Efe nid yn unig yn Berson, ond yn Berson *Dwyfol*. Ceir prawf o hyn hefyd yn yr un paragraph, sef ei fod yn "Ysbryd y gwirionedd," ac yn "tywys i bob gwirionedd." Mae gwirionedd yn anfeidrol fel Duw ei hun, ac nid oes ond Duw anfeidrol fedr ei gynnwys a'i amgyffred yn llawn. Nis gallwn synio am wirionedd ar wahân i Dduw y gwirionedd,—pa un bynag a edrychwn arno fel *harmony* rhwng meddwl a *reality*, ai ynte yn ei berthynas â pherffeithrwydd bodolaeth. Mae yn anwahanol gysylltiedig â'r syniad am Dduw. Efe yw "Arglwydd Dduw y gwirionedd." Rhaid deall Duw oll i ddeall gwirionedd oll. Ond nid oes a ddeall Duw ond Duw ei Hun, ac Efe yn unig felly a ddeall yr holl wirionedd, fel y mae yn ffynnonellu ac yn cartrefu ynddo ei Hun. Duw yn unig, o ganlyniad, fedr "dywys i bob gwirionedd." Ond yr Ysbryd, medd Crist, ac fel "Ysbryd y gwirionedd," sydd yn gwneyd hyn; ac felly rhaid fod yr Ysbryd yn Dduw. Efe fel Duw a dywys i wirioneddau natur. Yn ei oleuni Ef y gwelodd hyd yn nod yr hen athronwyr paganaidd oleuni. Yr oedd y gwirioneddau mawrion a ganfyddasant hwy ymhell uwchlaw cyrhaeddiadau rheswm noeth. Mor uchel a dyrchafedig yw syniadau Plato am ddaioni Duw! Er profi fod personoliaeth Dwyfol wedi creu byd arall o bersonoliaeth, mewn trefn i'w lanw â'i gyflawnder ei Hun, dywed fod "Duw—yr unig Fôd da—yn gyflawn, nid yn unig ynddo ei hun, ond yn ei duedd barhaus i gyfranu; fel yr haul, yr hwn sydd, nid yn unig yn dangos gwrthddrychau eraill, ond yn cyfranu iddynt wres a bywyd. Mae yn natur Duw, fel *y* Da, i gyfranu ei Hun i'w greaduriaid." Mor agos, onidê, i eiriau Ioan: "Duw cariad yw!" Buasai ymadroddion fel hyn yn anesboniadwy ond yn ngoleuni geiriau Crist, sef fod yr Ysbryd fel Ysbryd y gwirionedd, er nad yn ysbrydoli pawb, eto yn dadguddio i bawb,—yn tywys hyd yn nod hen athronydd o bagan i bob gwirionedd, gan ei arwain hyd froydd pur yr ysbrydol, y tragywyddol, a'r anweledig!Ië, nid arwain *at*, ond *i'r* gwirionedd y mae yr Ysbryd. Nid oddiallan, ond oddifewn i Dŵr Llundain, y mae ei ogoniant; yno y mae y coronau, y perlau, &c. Felly nid o *amgylch*, ond o *fewn* i'r gwirionedd y mae gweled ei ardderchogrwydd a'i ogoniant. Ond rhaid cael Person Dwyfol yr Ysbryd Glân i'n tywys iddo. "Efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd."

SAMUEL T. JONES.

*Rhyl.*

# MR. J. W. PRICHARD, PLASYBRAIN, A MR. ROBERT HUGHES, TYDDYN Y BLAWD.

YN y TRAETHODYDD am 1883, 1884, cawsom yr hyfrydwch o gyhoeddi amryw Lythyrau dyddorol o eiddo y Cymro teilwng, Mr. J. W. Prichard. Mae yn dda genym yn awr gael gosod ger bron ein darllenwyr dri yn ychwaneg o'i lythyrau, y rhai a anfonodd at awdwr doniol y *Gell Gymysg*, Mr. Robert Hughes o Dyddyn y blawd, neu fel y gelwir ei dŷ ar wynebddalen y *Gell Gymysg*, o Neuadd y blawd, Llanddeusant, Môn, ac wedi hyny o Dy'n y cae, Llanfwrog. Cawsom eu gweled trwy garedigrwydd gorŵyr i Mr. Robert Hughes, Mr. John Hughes, Menai View, Bangor, yn meddiant yr hwn y maent. Gwych pe cawsid ychwaneg o lythyrau y tadau meddylgar, rhinweddol, a dyddan hyn, y rhai a gymerent hamdden yn eu gohebiaethau i dywallt eu calonau i'w gilydd.

## I.

**Mr. Robert Hughes, at Tyddyn y Blawd.**

Fy hen Gyfaill Robert Hughes,

Dyma i chwi ryw swm o loffion gorchestwaith Taliesin Ben Beirdd; ef a allai na welsoch monynt. Eu gyru a wnaed i mi o Gaerludd, oddiwrth Mr. William Owain, penadur y Gwyneddigion ac awdwr y Geiriadur Cymraeg a Saesoneg sydd weithian yn yr argraffwasg yn Llundain, ac amryw draethodau eraill sydd yn perthynu i'r Gymraeg, &c. Pan ddarllenoch y barddwaith hwn, dymunaf arnoch ei yru i mi yn ei ol pan gaffoch gyfleusdra, a'ch barn am y gwaith. Y mae llawer o waith y Cynfeirdd yn yr argraffwasg, ac fe fyddant yn barod cyn pen hir ddyddiau. Y mae y Gwyneddigion yn bwriadu, os caffant gymhorth addas i'r perwyl, roddi mewn argraff Holl Waith y Cynfeirdd, ag sydd heb fyned ar ddifancoll, a'u cyhoeddi i'r byd yn blyg-lyfrau cyfleus. Ac hefyd y maent yn bwriadu cyhoeddi bob blwyddyn lyfr dan yr enw *Cambrian Register*, yn rhoi hanes yr holl bethau mwyaf hynod a ddigwyddasant yn Nghymru yn y Cynoesoedd, dan lywodraeth ein Tywysogion, &c.; ac hefyd hanes am y Celfyddydau, eu cynnydd, a than nodded pwy y bu pob cangen o ddysgeidiaeth yn fwyaf llwyddiannus, a'r amseroedd y dechreuasant fyned yn ddi-ymgeledd.

Rhyfedd mor ddyeithr fu chwi a minnau y blynyddoedd a aethant heibio. A ydyw'r Awen wedi marw genych, ynte cysgu y mae? Os wedi marw y mae hi, y mae yn llawn bryd canu marwnad iddi; ond os cysgu y mae, y mae yn bryd iddi godi o'i chyntyn, rhag ofn i orffrydau'r dychymyg, y serch, a'r meddylfryd ymddrysu, megys dyn a f'ai yn glaf o'r cysgadglwy'. Fy nghyfaill mwyn, os byw ydyw'r Awen, moeswch glywed pa beth a pha reswm a ddywed hi drosti ei hun am fod cyhyd yn fud.

Mi wyf, fel cynt, yr eiddoch tra bwyf,

J. W. PRISIART.

Plasybrain, Mai 23ain, 1801.

## II.

**Mr. Robert Hughes, late of Tyddyn y Blawd, now of Llanfwrog, Anglesea, care of Mr. John Thomas, Smith.**

Fy hen Gyfaill Robert Hughes,

Mi a gefais ddwy gerdd o'ch cyfansoddiad gan John Thomas y Gof, Mwrog, dan ammod i mi eu hadferu yn ol yn lân ac yn ddiwall; felly, i gyflawni

fy addewid, dyma hwy i chwi, a dyma i chwithau damaid praw o waith Thomas Edwards o'r Nant, o waith ei law ei hun. Dymunaf arnoch eu cadw yn lân, a phan flinwch arnynt, dychwelwch hwy i mi yn eu hol, ynghyd a Llythyr Mr. Gwilym Owain. Y mae hwnw yn werth ei ddarllain a'i ystyried, o ran parch at y gŵr a'i hysgrifenodd. Yr wyf yn lled gydnabyddus âg ef er's mwy na phymtheg mlynedd, os nid deunaw, a llawer llythyr caredig a gerddodd rhyngom o hyny hyd heddyw. Yr oedd genyf lythyr arall yn llawn llonaid dwy bapyrlen, oddiwrth Mr. Owen; ond mi a'i benthycais i rywun nas gwn pwy, ac y mae colled nid bychan genyf ar ei ol; ac y mae arnaf ofn i flodeuwaith fy nghyfaill Gwilym fyned rhwng y cwn a'r cigfrain. Nid hwyrach na buasai waeth iddynt hwy furgyn o gerdd Elisa Gowper i'w difyru.

Yr ydych chwi a minnau wedi myned mewn gwth o oedran,* ac ysgadfydd na bydd rhywrai yn chwerthin am ben ein ffolineb yn yr oes nesaf, ac yn dyweyd â gwên fingam, "Nis talai Brytwn Bach a Bardd y Blawd eu pobi ynghyd i wneyd teisen gri." Wele, wele, nis tŷf gwallt melyn ar ben pawb, onidê ni buasai fy ngwallt i ddim yn ysmoelgoch, a'ch gwallt chwithau yn loywddu.

Mi freuddwydiais fy mod yn llygoden goch yn dyfod i ymweled â chwi ryw noson yn ddiweddar; ond och fi! fe neidiodd rhyw anghenfil gwrthun ar ddull cath goch, dan godi ei gwrych a chwyrnu arnaf yn arswydus, a chan ei harswyd, mi a ddeffroais cyn i mi gael siarad cymaint ag un gair â chwi. Yr wyf yn tybiaw, oni buasai'r hen gath, y buaswn yn mynu llonaid sach o newyddion ganthoch o hwnt ac wng. A fyddwch chwi yn breuddwydio ambell dro? Yr wyf fi yn tybiaw fod llawer iawn o freuddwydwyr yn y byd, ac yn ymleferydd trwy eu cwsg; rhai yn breuddwydio am enw, parch, ac anrhydedd; eraill am elw a chyfoeth; eraill am bob math o wychder a phrydferthwch; rhai am gerddoriaeth, a phob difyrwch maswedd a miwsig; rhai am ladd a lladrata, a dinystrio dinasoedd a threfydd; eraill am gariad cibddall, a phryd a gwedd, yr hwn a ddiflana fel mwg; a mil filoedd yn breuddwydio am grefydd, heb erioed wybod pa beth ydyw sylwedd crefydd, ac yn ymleferydd trwy eu hunain am Dduw, a phriodoliaethau'r Duwdod, ac heb erioed gredu gair Duw, na'i adnabod ef. Mae rhai yn breuddwydio am ragarfaethiad ac etholedigaeth neillduol; eraill am alwedigaeth gyffredinol, cwymp oddiwrth ras, a chymmod â Duw trwy weithredoedd, &c. Rhy faith fyddai i mi enwi breuddwydion holl blant Adda, a'r tybiau gŵyrgeimion y syrthiasant iddynt, ac y denwyd hwynt gan y diafol mewn cwsg, &c. Fy nghyfaill anwyl, onid yw hyn yn rhybudd i ni wrth weled eraill yn hepian mewn cwsg, ar geulan dinystr, nas hepiom ninnau, a threulio ein hamser gwerthfawr mewn difrawder a chwsg? Mi fyddaf ambell dro yn teimlo arswyd ar fy nghalon, rhag fy mod yn tybiaw fy mod yn effro yn fy enaid, a minnau yn y cyfamser mewn syrthni a thrwmgwsg. Yr wyf yn sicr fod mwy yn siarad ar flaen eu tafodau am Dduw, a gweithrediadau Ysbryd y gras, nag y sy'n adnabod y gwirionedd; mwy o daeru ac ymbleidio dros enwau dynion nag o edifarhau am bechu yn erbyn Duw; mwy yn credu dynion na gair Duw; mwy o bechod nag o ras, mwy o ryfyg nag o wir ffydd; mwy o ragrith na phurdeb; mwy o gelwydd na gwirionedd, a mwy o dwyll a phechod nag a ddychymygodd un gwir gristion, ie, pan fwyaf yn y goleu.

Byddwch wych, fy hen gyfaill. Fe allai mai dyma'r tro diweddaf y caf gyfleusdra i ysgrifenu atoch y tu yma i'r *Bedd*. Ond pa un bynag, hyn a daer ddymunaf ar Dduw, roddi i mi gymhorth i wneuthur yn fawr o'm hamser tra y bo côf a synwyr yn fy meddiant, a gair Duw yn yr iaith yr wyf yn ei deall, ac yn cyhoeddi, "Yr hwn a ddêl ataf ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim."

Mi wyf yr eiddoch,

Plas y brain, Nos Galanmai, 1808. J. W. Prichard.

III.

Plas y brain, Medi 7, 1808.

Mr. Robert Hughes, at Ty'n y cae, Llanfwrog, Anglesey.

Y Bardd anwyl a'm hen Gyfaill mwyn,

Mi a dderbyniais eich llythyr caredig, ynghyd a cherddi Thomas Edwards y Nant. Yr wyf fi o'r un farn â chwithau mewn perthynas i Twm o'r

* Yr oedd J. W. Prichard ar y pryd tua 59, a Robert Hughes tua 55.

Nant. Dyn yn llawn o ehediadau prydyddiaeth ydyw efe, a digon o synwyr yn yr hyn a ddywedo ac a ysgrifeno; a phe buasai efe wedi cael cystal dygiad i fyny o ran dysg â rhai o Feirdd y twf heddyw, nid llawer a fuasai i'w gystadlu âg ef mewn Barddoniaeth, ac amrywiol bethau eraill. Llawer iawn o lythyrau gerddodd rhyngof fi ac ef er's saith neu wyth o flynyddoedd, ac mae yn dda genyf am dano, ac mi a ddymunwn ei lwyddiant yn mhob daioni. Y mae ganddo ef, fel finnau, lawer o elynion, ac yn benaf *Gwŷr y Gynau Duon*, â'r rhai y mae efe holl ystod ei fywyd mewn rhyfel, a hyny o achos ei fod yn dywedyd y caswir arnynt, yr hyn sy anhawdd ganthynt ei oddef. Mi a gefais lythyr oddiwrth y Nant, ac mi dybygwn ei fod wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn gwŷr y gynau unwaith eto, ac yn rhith y *Bardd Cwsg* y mae efe am ddywedyd yr holl gaswir arnynt, ac fel Samson cyn ei farw, ladd ddeng mwy o'r Philistiaid nag yn holl ystod ei fywyd. Digon gwir y dywedasoch fod rhai yn myned i Rydychain i'w perffeithio mewn drygioni, dan rith myned i'w parotoi i dderbyn yr Ysbryd Glân; ond y mae y rhan fwyaf o honynt, cyn gynted ag y caffont arddodiad pawen sanctaidd yr Esgob, yn derbyn nod y bwystfil ac arwydd y fall yn eu talcenau, mal y bo yn hawdd i bawb eu hadnabod, a gweled mor amlwg â haul hâf, dan faner pwy y maent yn milwrio. Digon, a gormod, am feibion a llwyth Lefi.

Soniasoch fod ŵyr i Wm. Roberts, o'r Garreg fawr, wedi troi allan yn llabi o Brydydd. Dymunaf gael gwybod yn mha le y mae efe yn byw, a pha un o ferched Wm. Roberts ydyw ei fam, a phwy ydyw ei dad. Mewn perthynas i'r hyn a grybwyllasoch am dano, sef ei fod yn hoffi ymarfer â geiriau ansathredig gan ddynion cyffredin, y mae'n eglur ddigon fod y Beirdd godidocaf ymhob oes yn arfer geiriau gorhenaidd ac ansathredig; a hyny weithiau nid o ddiffyg geiriau cyffredin o'r un sain, ond am eu bod wrth hyny yn cadw ac yn coleddu'r iaith yn fwy yn ei grym a'i phurdeb. Nid rhaid i mi ddwyn dim gwell tystion am hyn o beth na Goronwy Owain a Dafydd ap Gwilym; ond yr un pryd, nid wyf fi yn canmawl neb am arferyd geiriau henaidd oni byddant yn gwybod eu tarddiad a'u grym, ac yn hyddysg yn wyth ran ymadrodd yr iaith, a'i chynseiliau, a'i phlethiadau. Ond nid un o gant o feirdd y twf heddyw a ŵyr am ddim o'r fath beth; felly gwell fyddai iddynt adael geiriau dieithr heibio, hyd onis delont yn hyddysg ac yn gelfydd yn yr iaith. Ac i ddywedyd i chwi'r gwir, nid gwaith un-dydd un-nos ydyw dysgu Cymraeg. Mi fum i fwy na deg mlynedd ar hugain yn myfyrio ac yn dysgu'r iaith Gymraeg; ond wedi'r holl drafferth a'r boen, nid ydwyf fi ddim hanner Cymro etwa; ac nis byddaf yn canfod mo'm gwallau fy hun, hyd na byddont yn rhedeg yn dryfrith o dan fy llaw, a gormod gwaith fyddai codi'r holl falciau heb ail 'sgrifenu'r cwbl; ac ysgadfydd, wrth wneuthur hyny, i'r ail fod yn fwy ei wallau na'r cyntaf. Ond hyn sydd genyf i'w ddywedyd o'm plaid fy hun, ac i'w ddadleu o ethryb fy anfedrusrwydd, sef, na's cefais neb i'm haddysgu a'm cynnorthwyo i ddeall yr iaith pan oeddwn yn ieuanc a'm cynneddfau yn fywiog; nis cefais i neb yn athraw ond y ganwyll a'r llyfr, ac yn nhrymydd y nos, mewn rhyn ac anwyd, y lladratais i y parth mwyaf o'r hyn oll a ddysgais; a bu ryfedd genyf lawer gwaith fy mod wedi dyfod yn fy mlaen cystal.

Y mae'n syn gan i feddwl, wrth eich clywed yn dywedyd fod arnoch gymaint o gywilydd glywed eich galw yn *Hen Brydydd*, a phe buasid yn eich galw yn *Garn Lleidr*. Dawn o eiddo Duw ydyw Barddoniaeth. Och fi, paham y gweddai fod ar neb gywilydd am rodd a dderbyniodd efe gan Dduw? Ond os gwna neb gamddefnyddio rhodd Duw, a'i threulio ar faswedd a choegddigrifwch, hyny yn gyflawn a wna achos gwarth a chywilydd; a hyny ydyw'r achos fod Prydyddion yn wawd a gwaradwydd, &c.

Wele, fy hen gyfaill mwyn, dyna i chwi chwedl go hir, ac nis gwn i yn iawn pa beth a ddywedaf yn rhagor, oni soniaf am un o ddeddfau newyddion y prophwyd El—s, a D—c Ll—d; ond y mae'n debyg mai gwell i mi dewi, rhag ofn i mi gael fy ysgymuno gan weision neu ddisgyblion y Prophwydi; o herwydd mae'n debyg y gwyddoch fy mod yn ddarn o Fethodist pen-chwiban, ac y mae'r Wesleyaid a'r Methodistiaid, o hyn allan, am ymryson am y mwyaf eu trwst a lleiaf o rinweddau.

Oni bai fod Mr. Peswch wedi fy nal yn garcharor er ys dyddiau, buaswn wedi dyfod i ymweled â chwi, ac i roi tro yn y gymydogaeth yna, i ysgwyd llaw ac ymddiddan â'm hen gyfeillion. Rhoddwch fy ngwasanaeth yn garedig at fy

nghyfaill Edward Elias a Wil Jones y saer, gynt o Newhaven. Dymunaf gael llythyr oddiwrthych pan gaffoch ronyn o hamdden ac amser.

Yr eiddoch yn ddiffuant tra bwyf,
J. W. PRICHARD.

Bu agos i mi anghofio dymuno arnoch roi fy anerch yn garedig at Sion Thomas Sion Lasrws y gôf. Mi glywais rywun yn dywedyd ei fod wedi dyfeisio rhyw fath o ennyg neu ddull newydd o falu eithin yn borthiant anifeiliaid. Da chwi, gyrwch ei hanes i mi yn gyflawn, a pha faint o fesur a all un dyn falu gyda'r peiriant newydd mewn ysbaid un awr; a pha un ai gwaith olwynion, ynte adlamiad dur *(springs)*, neu bob un o'r ddau, sy'n gwneuthur y gwaith, &c. Deisyfaf arnoch roi desgrifiad i mi mor ehelaeth ag y medroch dan sêl.

Ac yr oedd y llythyr canlynol at Robert Hughes yn yr un sypyn, oddiwrth John Thomas, y gôf, y cyfeiria J. W. Prichard ato, yr hwn oedd dad i'r Parch. Thomas Jones, Amlwch, ac i'r Parch. Rees Jones, yr hwn y cyfeiria ato yn niwedd y llythyr fel yn pregethu am Israel yn myned o'r Aipht.

Robert Hughes,
Fel yr oeddwn nos Sul yn dyfod o Penterfyn, daeth y geiriau canlynol i fy meddwl. Gobeithiaf na byddant yn dramgwydd i chwi.

'R wy 'n coelio byddwch ar amserau yn gorfod diodda llawer loes
O herwydd treulio 'ch dyddiau 'n unig ac oedi cynig codi 'r groes;
Os ych yn mygu cymhelliadau, nid ydi y rheiny i bara byth,
Er mai gofid fydd dragwyddol os bydd y rheol ddim ond rhith.

Fy anwyl gyfaill, 'r wy 'n eich caru, o herwydd hyny 'r wy' mor hŷ,
Coelio 'r wy' fod Duw 'n eich galw wrth eich enw at deulu 'i dŷ;
Ni bu 'r eglwys yma orau heb rai beiau ynddi 'n bod,
Er hyny mae hi 'n nofio 'r tonau ar amserau tryma erioed.

Gwell oedd noddfa gyda Noa, i nofio 'r dyfnion donau du,
Er fod Cam a Chanaan ynddi, na boddi gyda 'r cewri cry';
Os yma dros y teulu talwyd, yma hefyd dont yn hy'
I godi 'r groes a chario 'r faner, yn dyner ar y ddaear ddu.

Gwnewch arddeliad mwy cyhoeddus efo 'r rhai gwnaech ddewis fyw,
Nid eisio 'ch gyru at ryw barti, ond rheiny fyddo deulu Duw;
Bod dan y golofn gyda 'r fyddin y byddo 'r Brenin yn eu plith,
Yr amser gora i gasglu manna yw bora gola dan y gwlith.

Pan ddeuthum adre mi a'i rhois i lawr â phensil, ond nid oeddwn yn meddwl eu hail godi nes clywais Rhys neithiwr yn son am Israel yn myned o'r Aipht.

Yr ydwyf yn dymuno eich lleshad ym mhob peth gan yr Arglwydd.

JOHN THOMAS.

# Y PARCH. EDWARD ROBERTS, CEUNANT, ARFON.

Nid ydyw yr enw uchod yn adnabyddus, fe ddichon, i lawer o ddarllenwyr y TRAETHODYDD. Yr oedd yn un o'r gweinidogion mwyaf diymhongar ac anghyhoedd, ond ar yr un pryd yn un o'r cymeriadau mwyaf pur a dyrchafedig a fu mewn unrhyw wlad, a theimla y rhai a'i hadwaenent fod ei goffadwriaeth yn dra anrhydeddus.

Yn gyntaf oll, dymunwn roddi syniad lled gywir i'r darllenydd pa fath un ydoedd Edward Roberts o ran ymddangosiad. Y peth cyntaf a wna un wrth ddarllen gwaith dyn neu ei gofiant, fydd tynu darlun o hono yn ei feddwl, ac yn fynych bydd hwnw yn bur anghywir. Yr wyf yn cofio clywed Mr. Edward Foulkes, henaf, Llanberis, unwaith pan yn gadeirydd pryd yr oedd *Y Gohebydd* yn darlithio, yn dyweyd fod yn rhaid iddo gael gwneyd ymddiheurad cyhoeddus o herwydd iddo dynu darlun anghywir o'r Gohebydd. Yr ydoedd wedi tynu darlun cawr o ran corff, yn gystal ag o ran meddwl; ond erbyn gweled *y bychan*, yr oedd wedi rhyfeddu, ac wedi digio braidd hefyd wrth Ragluniaeth, yn hytrach nag wrth ei ddychymyg. "Ond," meddai, "y cawr oedd yn fy meddwl drachefn, cyn diwedd y ddarlith; a chorff cawr ddylasai fod gan y Gohebydd hefyd." Rhaid cydnabod fod llawer yn ymddangosiad dynion. Hyn yw sylfaen y ddwy wyddor hyny: Pwyllwyddeg a Phrydwyddeg—*Phrenology*, *Physiognomy*, gwyddorau sydd yn proffesu adnabod natur neu gymeriad dyn oddiwrth ei ymddangosiad, yn enwedig oddiwrth ffurf ei ben, ac amrywiol fynegiadau ei wynebpryd. Ni pherthyn i ni, ar hyn o bryd, ddyweyd dim am y naill na'r llall o'r gwyddorau hyn. Ni raid i ni, ychwaith, wrth gydnabod fod rhyw ystyr i'r hyn a ddywed y gwyddorau hyn, rwymo ein hunain i'w dilyn i'w canlyniadau eithaf—i gredu nid yn unig mewn angenrheidrwydd moesol, ond mewn angenrheidrwydd naturiol, fel esboniad eithaf ar gymeriad dyn. Ar yr un pryd, y mae yn debyg na welwyd cymaint ag un dyn erioed, pa mor ammheus neu elynol bynag y gallai fod i'r gwyddorau hyn, nad ydoedd yn rhoddi rhyw gymaint o bwys ar ymddangosiad dynion. Rhaid addef hefyd fod mwy o bwys yn cael ei roddi yn barhaus ar hyn. Yn ddiweddar, yn Leipzig, cyhoeddwyd cyfrol hardd o ddarluniau prif enwogion Germany o'r flwyddyn 1476 hyd 1869, ynghyd a chofnodiad byr, ar waelod y ddalen, o brif ffeithiau eu bywyd. Ystyrir fod y darlun, yn ngoleuni y prif ffeithiau a nodir, yn ddigonol i gyflwyno y cymeriad, gyda graddau helaeth o berffeithrwydd, ger bron yr edrychydd. Y mae y gyfrol ryfedd hon yn awr ger fy mron, ac y mae yn anhawdd meddwl y gallai unrhyw un fyned trwyddi, nid yn unig heb deimlo dyddordeb dwfn ynddi, ond hefyd heb weled fod gwahaniaeth eglur rhwng prif linellau ymddangosiad enwogion y gwahanol ddosbarthiadau,—megys yr ath-

ronydd a'r milwr, y cerddor a'r gwleidyddwr. Gwasanaetha hyn oll fel rheswm am geisio, yn gyntaf oll, osod Edward Roberts ger bron y darllenydd o ran ei ymddangosiad, cyn dyweyd dim am ei fywyd.

Yr ydoedd o ran ei gorff, ac yn enwedig ei ysgogiadau, yn un ag y sylwai pobl arno ymhob man lle y byddai. Yr oedd yn llawn chwe' troedfedd o daldra, ac yn hollol syth o ran ei ystum corfforol; yr oedd yn meddu corff cymesur a lluniaidd. Yr oedd ei ben yn *well-formed*, ys dywedir, dan gnwd da o wallt du, hollol ddigrych, yr hwn a dorid yn gryno, fel perthen, gylch ei ben; ei dalcen yn uchel a llawn hysbysolrwydd; ei lygaid yn llym-dreiddiol, dan arleisiau trwchus, braidd; ar brydiau ymddangosai ei lygaid fel yn croes-dremio, yr hyn ynghyd a'r syndod a fynegai, oedd yn elfen o ddirgelwch yn ei edrychiad; yr oedd ei wyneb yn graddol golli o'r bochgernau hyd yr ên, yr hon oedd braidd yn fain, ac o gylch yr hon y ffurfiai ei gernflew du trwchus oedd yn tynu yn ol, hanner cylch; yr oedd ei enau yn gauedig, ei wefusau yn deneu, a'i drwyn yn dwyn yr un nodweddolrwydd; ei wyneb yn wyn a glân, gyda rhosyn coch ar ei ruddiau, yr hwn yn y diwedd a brofodd yn un twyllodrus. Yn awr, pa fath ddyn a fuasai y darllenydd-tirion yn ddysgwyl i Edward Roberts fod? Dychymygaf ei glywed yn dyweyd: "O ran ei ymddangosiad gallasai, gellid tybied, fod yn boblogaidd." Gallasai, ac nid o ran ei ymddangosiad yn unig, fel y ceir gweled eto. Yr wyf yn cofio y diweddar Barch. Roger Edwards, D.D., unwaith, yn cyfarch efrydwyr y Bala, ac yn dyweyd ei fod yn cyfarch "*potentially great men*, pa un bynag a welid hwy felly *actually* ai peidio." Yr oedd Edward Roberts yn *potentially great man*, yn yr ystyr gyffredin i'r gair; ond paham na fuasai felly *actually*?

Yr wyf wedi cyffwrdd, o bosibl, â'r prif rwystr, wrth gyfeirio at ei ysgogiadau fel yr hyn a dynai sylw pobl ato. Buasai arafwch ei ysgogiadau a delw-debygrwydd ei ystum yn ddigon i rwystro y dyn mwyaf i fod yn boblogaidd. Llawer gwaith y bum yn ei wylied bob cam o'r drws i'r man yr eisteddai yn Nghyfarfod Misol Arfon. Deuai i mewn, daliai ei het o'i flaen, a cherddai yn araf, araf, fel rheol ar hyd yr *alley*, heb edrych ar neb na chymeryd sylw o ddim. Wedi myned i eisteddle wrth ochr y sêdd fawr, eisteddai yno ar hyd y cyfarfod, yn hollol yn yr un ystum â phe buasai yn eistedd i dynu ei ddarlun; ac ar ddiwedd y cyfarfod, äi allan gyda yr un arafwch yn hollol. Y mae rhyw reswm am hyn oll.

Y mae i ysgogiadau corfforol, teimladau, meddyliau a gweithredoedd dynion, hanes gweledig ac anweledig, fel y mae i'r planedau; a phe gallai bywgraffydd wneyd ei waith yn berffaith, dangosai yr hyn ydoedd yn penderfynu pob tuedd, yn cynnyrchu pob teimlad, yn arwain i bob gweithred, ac felly yn ffurfio cymeriad ei wrthddrych, ac yn dangos gwir werth bywyd dyn i ddynolryw. Ystyriaeth fel hyn barodd i un ddyweyd yn ddiweddar: "Pan raid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist, mi gredaf y bydd yno aml i grefftwr gladdwyd yn naeargelloedd y Spaenwyr, wedi ei arteithio i farwolaeth am ei grefydd, yn sefyll yn fwy gogoneddus na Charlemagne neu Frederick Barborossa."

Ganwyd Edward Roberts yn Hafodlas, Ceunant, Rhag. 5, 1827. Enw ei rieni oedd Richard a Margaret Roberts. Bu iddynt bump o blant, sef Edward, Mary, Catherine, Margaret, a Robert. Cawsant oll fyw i

sefydlu mewn teulu oedd; ond erbyn hyn y maent oll, oddieithr Robert a Margaret, wedi marw. Pan oddeutu deg oed, aeth Edward i weithio i Chwarelau Dinorwig. Derbyniwyd ef i gymundeb eglwysig pan yn dair ar ddeg oed. Dewiswyd ef yn ddiacon pan yn ddeunaw oed. Aeth i'r ysgol i Glynnog, at Eben Fardd, pan yn un ar hugain oed. Dechreuodd bregethu pan yn ddwy ar hugain. Aeth i Athrofa y Bala pan yn dair ar hugain. Ebrill 5, 1858, pan yn un ar ddeg ar hugain, ymunodd mewn priodas âg Ann Jones, Aberdesach, Clynnog. Dechreuasant eu bywyd priodasol mewn tyddyn o'r enw Tan'rallt, lle y treuliasant fywyd dedwydd hyd derfyn ei oes ef. Dewiswyd ef yn fugail gan eglwys y Ceunant yn 1869, ac ordeiniwyd ef yn 1870. O'r amser y gadawodd y Bala hyd y pryd y dewiswyd ef yn fugail, yr ydoedd yn parhau i ddilyn ei alwedigaeth yn ystod yr wythnos, ac yn pregethu ar y Sabbothau. Wedi rhai misoedd o gystudd, bu farw Chwefror 5, 1885, gan adael ei briod a'i unig blentyn i alaru ar ei ol. Chwefror 10, daeth tyrfa fawr i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref, yn Llanrug. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth wrth y tŷ, ac ar làn y bedd, gan y diweddar Barch. Rees Jones, Portdinorwig, a'r Parchn. John Jones, Bryn'rodyn, John Williams, Bangor, Thomas Gwynedd Roberts, Rhostryfan, Evan Roberts, Caernarfon (y pryd hyny), R. Prydderch Williams (A.), Waenfawr, ac eraill; a chefais innau y fraint o draddodi pregeth angladdol, y noswaith hono, yn nghapel y Ceunant, oddiar Josua i. 2, pryd yr oedd yr holl ardal wedi dyfod ynghyd, a'r capel wedi ei lanw o alarwyr.

Dyma brif ffeithiau ei hanes,—dyma yr agoriadau, neu yn hytrach dyma y ffenestri trwy ba rai y gallwn weled y cymeriad yn ymffurfio yn raddol, dan bwysau yr amrywiol ddylanwadau oeddynt fel llifogydd parhaus yn curo arno. Fe wêl y darllenydd oddiwrth yr hyn a ddywedwyd uchod, mai yn ardal y Ceunant y bu Edward Roberts fyw o'i gryd i'w fedd, oddieithr yr ychydig amser y bu yn Clynnog a'r Bala, ac un lle arall, yr hwn a nodir yn fuan. Y mae crediniaeth yn y byd, er yn foreu iawn, fod gan y lle y megir dynion ynddo ddylanwad mawr arnynt mewn llawer ystyr. Dywed Homer am Ithaca, Τρηχεῖ', ἀλλ' ἀγαθὴ κουροτρόφος: ysgythrog, ond mamaeth dda i'r ieuainc. Y mae hyn yn golygu fod cymeriad yn ymffurfio yn naturiol, ac nid yn gelfyddydol; y mae yn tori ei ffordd ymlaen yn y byd moesol, fel y mae yr afon trwy y byd naturiol.

Y mae hyn yn ein harwain i ddyweyd gair am y Ceunant. Y mae y gair Ceunant yn hollol gamarweiniol i'r darllenydd, ac yn enw hollol anmhriodol ar yr ardal. Paham y rhoddwyd y fath enw ar y lle, y mae yn anhawdd gwybod. Y mae yr anfarwol Ceiriog yn rhoddi desgrifiad da o geunant yn y llinellau canlynol:—

> Edrych ar y ceunant du,
>   Fel bedd ar draws y bryniau;
> Bedd, yn wir, medd hanes, fu
>   I lawer un o'n tadau.

Ond mor wahanol i hyn yw ardal y Ceunant, Arfon. Y mae yn debyg nas gellir, ond yn bur anfynych yn ein gwlad, gael golygfa i'w chymharu â'r olygfa a geir o'r fangre dawel a diaddurn hon. Saif yr ardal oddeutu pedair milldir i'r de-ddwyrain o Gaernarfon, rhwng y

Waenfawr a Llanrug,—yr olaf o'r lleoedd hyn yr ochr ogleddol i'r Ceunant.

Wrth edrych o ddrws tŷ Tan'rallt—preswylfod Edward Roberts—gwelir ynys Môn, mam Cymru, fel gardd brydferth ger ein bron, a mwg ei phentrefydd yn esgyn yn golofnau i'r nen, nes ein hadgofio am addoliad y Derwyddon yn yr hen amser gynt. Gwelir Arfon dirion, deg, yn cusanu glanau y Fenai arianaidd, dlos, yr hon sydd megys yn chwerthin rhwng swynion Môn ac Arfon. Ar y dde ceir Beaumaris ac Ynys Seiriol; ac ar y chwith gwelir rhanau eithaf Lleyn, tu hwnt i'r Eifl—pellder o 45 milldir. Tu hwnt i wlad Môn gwelir môr Iwerddon, a'r llongau mawrion yn ei fritho, ac ar adegau clir bydd bryniau Iwerddon, a'r *Isle of Man*, yn eglur yn y pellder o 60 milldir, ar hyd ffordd rydd aderyn. Tu ol i'r ardal y mae trum o fryniau, moelydd a mynyddoedd Eryri fel yn llawenhau ac yn codi i edrych y naill dros ysgwydd y llall ar yr olygfa; a'r Wyddfa, brenhines ein mynyddoedd, megys yn gwylio yr oll, ac yn temtio y meddwl i edrych i fyny! Wedi ysgrifenu yr uchod, yn ddamweiniol iawn, gwelais y desgrifiad canlynol o'r ardal, o eiddo un o'n gweinidogion mwyaf llengarol:—"Da iawn yr ydym yn cofio treulio Sabboth yno, yn nechreu yr haf, pan yr oedd natur wedi ymdrwsio yn holl wisgoedd ei gogoniant. Yr oedd mynyddoedd Eryri yn cyrhaedd am yn agos i ddeugain milldir, o Gonwy i'r Eifl (yn Lleyn), fel ffram i'r darlun. Yr oedd Beaumaris yn y golwg fel rhyw dref awyrawl, yn rhy dlws rywsut, dan wên yr haul, i fod yn ddaearol. Yr oedd y Fenai deg odditanodd, ac yn dwyn i'n cof brydferthion glanau y Rhine. Yr oedd colofnau gwlad Môn yn llewyrchu yn y pellder, a'r môr a'r awyr am y tecaf eu gwynebau, ac aml i long fel aderyn byw yn croesi yn araf o làn i làn."

Dyma lle y ganwyd ac y magwyd Edward Roberts, ac yma y treuliodd ei holl fywyd. Maddeuer i mi am roddi ei ddesgrifiad ef ei hun eto o'r lle fu yn faes ei lafur o'i gryd i'w fedd:—

Yn bendant y Ceunant cu—yw Goror
  Prif hawddgarwch Cymru;
Hwyl enaid i foliannu
Gaf yno dan ei Gefn Du.*

Cofnod hoff yw 'r Cefn Du hwn—a erys
  I wirio lle gwelwn
Fawredd y Duw glodforwn—
Y Bôd cryf wnaeth y byd crwn.

Talcen y byd crwn, toloiog—ydyw ef,—
  Nawdd da 'r Ceunant ochrog;
A'r wlad i lawr, oludog,
O dan ei llwyth, yn dwyn llôg.

Dyna y Ceunant yn anianyddol. Ond y mae yn bur sicr fod gan yr Ysgol Sabbothol a'r cyfarfodydd eraill yn y Ceunant lawer mwy i'w wneyd yn ffurfiad cymeriad Edward Roberts na'r olygfa eang a dyddorol a geir yno. Mae yn ymddangos nad oedd ond un diacon yn y Ceunant pan yr oedd efe yn blentyn. Yr oedd yno ŵr llafurus iawn gyda chrefydd o'r enw John Morris; efe oedd pobpeth gyda'r Ysgol

* *Y Cefn Du* yw enw y mynydd sydd wrth gefn y Ceunant.

Sabbothol yn yr ysgoldy bach, cyn adeiladu y capel; ond Thomas Griffith ddewiswyd gyntaf yn ddiacon yn y Ceunant. Dywed Edward Roberts mai yn 1832 yr ymunodd Thomas Griffith â chrefydd, y flwyddyn yr oedd y cholera yn Nghaernarfon, a dewiswyd ef yn ddiacon yn 1836. Dywed am dano: "Yr oedd Thomas Griffith, fel y dywed Shakspeare am y dyn doeth:—

> His plausive words
> He scattered not in ears, but grafted them
> To grow there and to bear fruit.

Byddai ei eiriau cynnwysfawr nid yn unig yn disgyn ar ein clustiau, ond megys yn cael eu cysodi ynddynt, fel y byddent yno yn arosol, i roddi argraff ar ol argraff, drachefn a thrachefn, nes chwyddo yn gyfrolau mawrion yn ein meddyliau." Yr oedd Thomas Griffith yn ysgrythyrwr "cadarn," ac yr oedd efe, ac eraill, yn hynod ofalus am yr ieuenctyd. Collodd yr hen ddiacon ei olwg rhyw ddair blynedd ar ddeg cyn myned at ei wobr; ond bu yn ffyddlawn i'r Ysgol Sabbothol, a holl ranau eraill y gwaith, hyd y diwedd, er yr holl anfanteision; ac, yn y diwedd, aeth i mewn i dderbyn gwobr y ffyddloniaid.

Nid oes dim neillduol i'w ddyweyd am rieni Edward Roberts, heblaw fod ei dad yn ddyn gweithgar, cynnil, a bucheddol, er nad oedd yn grefyddwr; ac yr oedd ei fam yn wraig ofalus, rinweddol a chrefyddol. Ni ddymunwn haeru ei fod yn perthyn i rhyw henafiaid anghyffredin o alluog,—er y gellir gwneyd hyny gyda phawb, ond myned ddigon pell yn ol!—na'i fod ymhell uwchlaw y cyffredin o ran ei feddwl pan ei ganwyd, fel y mae arfer rhai. Yn wir, y mae lle i feddwl mai i bethau damweiniol bywyd y mae priodoli y gwahaniaeth mawr sydd rhwng dynion a'u gilydd, yn hytrach nag i'r gwahaniaeth cynhenid sydd rhyngddynt pan yn dyfod i'r byd, neu i'r gwahanol dueddiadau teuluaidd a etifeddir ganddynt. Am y naw mlynedd cyntaf, nid oes dim i'w ddyweyd am Edward Roberts ond ei fod, fel plant eraill y Ceunant, yn barhaus dan ddylanwad anymwybodol yr olygfa eang geir o'r ardal, dylanwad parhaus yr hen flaenor ac eraill, a dylanwad yr aelwyd, heb un math o ysgol ddyddiol i'w gychwyn ar yrfa bywyd. Mor wahanol yw manteision plant y Ceunant, gydag addysg, erbyn heddyw! Y mae dwy ffaith fach gwerth eu crybwyll yn ei hanes ef yn y cyfnod hwn. Y gyntaf, *ni chafodd geiniog erioed gan ei dad.* Ni fuaswn yn dyweyd hyn ar ol neb ond efe ei hun, gan mor anhygoel ydyw. Ond wrth ddyweyd, nid oedd, mewn un modd, yn rhoddi argraff ar y meddwl ei fod yn ystyried ei dad, trwy hyny, yn galed neu angharedig tuag ato, ond yn hytrach yn teimlo yn ddiolchgar am iddo trwy hyn ei ddysgu i weled gwerth mewn arian, ac i wneyd defnydd priodol o honynt. Yn ail, *ni wariodd geiniog erioed am felusion neu oferedd.* Yr oedd hyn yn ganlyniad naturiol y ffaith gyntaf, ond eto yn dangos fod addysg y tad wedi bod yn llwyddiannus, ac wedi dwyn ei fab i afael yr egwyddorion hyny sydd mor hanfodol i lwyddiant mewn bywyd, sef diwydrwydd a darbodaeth. Tybed a yw rhieni yn peidio dinystrio eu plant yn moreu eu dyddiau, trwy rhyw wedd o garedigrwydd tuag atynt? A yw melusion y plant yn nhymmor

mebyd, yn peidio bod yn rhieni gwastraff a meddwdod mewn addfedrwydd oedran ?

Pan ydoedd Edward rhwng naw a deg oed, aeth i weithio i Chwarelau Dinorwig. Yr oedd hyn yn amgylchiad pwysig yn ei fywyd. Yr oedd yn rhaid iddo aros yn ardal Dinorwig trwy yr wythnos, a myned adref dros y Sabboth. Dywed ei frawd, Robert Roberts, mewn llythyr ataf, fel y canlyn: "Yr oedd yn aros dros yr wythnos gyda'n hewythr a'n modryb, yn Tanybwlch, un o'r lleoedd mwyaf anfanteisiol i fachgen ieuanc fyw yn grefyddol yn yr holl ardaloedd, oddieithr y dafarn yn unig, ac y mae arnaf ofn mai dyna wir hanes y lle hyd heddyw. Gyda fy ewythr yr oedd Edward yn gweithio hefyd. Bu yn bur brofedigaethus ei feddwl pa fodd i fyned o'r fath le i'r cyfarfod eglwysig, ganol yr wythnos, i Dinorwig. Ond, trwy drugaredd, ni chafodd eu dylanwad neu yn hytrach eu hesiampl hwy argraff ddrwg arno; gyda'i lyfrau yr oedd ei wir bleser ef."

Arferai Edward Roberts ddyweyd "fod ei grefydd wedi costio llawer iddo" yr adeg hon; ond nid yn unig cadwodd ei gymeriad er yr holl anfanteision, ond gadawodd dystiolaeth yn meddwl pawb o'r teulu "fod Edward yn dduwiol, os oedd rhywun yn dduwiol." Hyn hefyd ydoedd barn Thomas Griffith, blaenor y Ceunant, ac fel canlyniad derbyniwyd ef i gymundeb eglwysig pan yn dair ar ddeg oed,—oedran cynnarol iawn y pryd hyny.

"Gyda'i lyfrau yr oedd ei wir bleser ef;" ond pa le yr oedd yn eu darllen tra yr ydoedd dan y fath anfanteision ?

Yr adeg hono, oddeutu 45 mlynedd yn ol, yr oedd Mr. Edward Ellis, gŵr sydd eto yn fyw ac yn ddiacon o "radd dda" gyda y Methodistiaid Calfinaidd yn Ninbych, yn cadw ysgol ddyddiol yn Dinorwig. Sefydlodd Mr. Ellis ysgol nos i wŷr ieuainc Dinorwig. Yr oedd rheolau yr ysgol nos yn lled gaeth, rhag i nifer yr ysgolheigion fyned yn rhy liosog.

Dywed Mr. Ellis am yr ysgol wrthyf, mewn llythyr fel y canlyn:—

Achosodd yr ysgol nos gryn gynhwrf yn ardal Dinorwig a'r lleoedd cyfagos. Yr oedd genyf o 40 i 50 ynddi, a'r oll yn chwarelwyr, o ddeunaw oed hyd ddeg ar hugain, ac ychydig uwchlaw hyny. Y testunau ydoedd Saesoneg, Rhifyddiaeth, a Gramadeg. Yr oedd pawb, braidd yn ddïeithriad, yn cymeryd dyddordeb mawr yn yr ysgol. Yr oeddwn newydd ddyfod o Lundain, ac yn llawn yni i gyfranu addysg, ac yr wyf yn lled sicr fy mod wedi galluogi llawer i fyned ymlaen yn hwylus gyda'r testunau hyn eu hunain ar ol i mi roi terfyn ar yr ysgol. Ac yr wyf dan yr argraff fod y Parch. E. Roberts yn un o honynt. Ni fu dim neillduol rhyngof âg ef. Ond pan fyddem yn cyfarfod â'n gilydd, byddai ymddyddan cynhes yn cymeryd lle. Y tro diweddaf y gwelais ef ydoedd yma, pan y daeth o dan yr Arholiad Cymdeithasfaol. Yr oedd William Davies, Dinorwig, gydag ef, ac yr oedd yn dda genyf eu gweled, a chanddynt hwythau fy ngweled innau.

Yr oedd rheolau yr ysgol yn cau Edward Roberts allan, oblegid yr oedd amryw flynyddoedd dan ddeunaw oed. Y mae hyn yn esboniad digonol paham na fu dim neillduol rhwng Mr. Ellis âg ef. Ond er pob rheol, yn ol geiriau John Foulkes—un o'r ysgolheigion sydd eto yn fyw—cafodd E. Roberts dderbyniad "yn unig ar gyfrif ei hoffder o addysg." Treuliodd E. Roberts a J. Foulkes ac eraill oriau hirddydd haf ar hyd y ffyrdd, nid i wag-rodiana nac i ffol-chwedleua, fel y gwna

llawer y dyddiau hyn, ond i ddysgu eu gwersi mewn Gramadeg a llyfrau da eraill. Dyma yr atebiad i'r cwestiwn, pa fodd yr oedd E. Roberts yn darllen dan ei anfanteision mawr. Pa raid i ni aros yn hwy heb dalu teyrnged i Mr. E. Ellis am ei lafur a'i wasanaeth mawr i'r chwarelwyr? Gwnaeth y gwasanaeth mwyaf i ardal Dinorwig trwy gyehwyn llawer o'r dynion goreu, i fyd a chrefydd, fu yn yr ardal erioed; ac er mai ychydig o honynt sydd yn awr yn fwy, y mae eu dylanwad yn aros, ac fe bery am genedlaethau lawer. Dylai hyn, ynghyd a llawer o bethau tebyg, beri i brydnawn-ddydd oes Mr. Ellis fod yn dawel a digwmwl.

Rhyw flwyddyn cyn i Edward Roberts gael ei dderbyn i gymundeb eglwysig, yr oedd eglwys y Ceunant wedi dewis dau flaenor at Thomas Griffith. Nid oes dim i'w ddyweyd am Edward y blynyddoedd dilynol, ond ei fod yn barhaus gyda'i lyfrau, a phob tro yr elai i Gaernarfon yr oedd yn sicr o gael rhyw lyfr newydd, a hyny er tipyn o ofid i'r hen ŵr ei dad, oblegid yr oedd efe yn methu deall beth wnai y bachgen â hwy, heblaw ei fod yn ofni iddynt beri diflasdod iddo ar ei waith. Nid oedd ei fam yn cydolygu â'i phriod am werth a dylanwad llyfrau. Ymhen rhyw bump neu chwe' blynedd bu un o'r blaenoriaid ddewiswyd, sef Robert Williams, Panthafodlas, farw, ac fe farnwyd mai priodol oedd dewis blaenoriaid at Thomas Griffith a Hugh Griffith. Dewiswyd Thomas Jones, Tanygraig, ac Edward Roberts, yn y flwyddyn 1846, pan ydoedd E. Roberts rhwng 18 a 19 oed. Ac y mae yn ymddangos na pharodd hyn syndod o gwbl, ond i Edward Roberts ei hun! Dywed ei frawd yn y llythyr y cyfeiriwyd ato eisoes, ar hyn: "Cofus genyf ei glywed yn ymgyfymliw â fy mam yn y brofedigaeth hono trwy ddyweyd mai hi oedd yr achos i hyny syrthio i'w ran ef. Yr oedd fy mam wedi ei annog i roddi rhyw fater bychan i'r plant ar nos Sabbothau, eu holi, a rhoddi rhyw gynghorion bychain syml iddynt, yr hyn a wnaeth, a dygwyddodd fod lawn mor hapus gyda hyny a dim a'r a wn i yn ei hanes. Nis gwn beth a gymhellodd fy mam i hyny. Ond modd bynag buasai y cyfryw ymddygiad yn taro yn lled chwithig yn awr." Blaenor gyda'r Methodistiaid yn ddeunaw oed, ie, yn y flwyddyn 1846! Pa nifer o flaenoriaid deunaw oed oedd yn y Corff y pryd hyny? Ië, pa nifer sydd heddyw, tybed? Pan gofiwn nad prinder rhai hŷn oedd y rheswm i eglwys y Ceunant ddewis Edward Roberts, y mae y ffaith hon yn dyweyd llawer am dano.

Yr adeg hon yr oedd adfywiad Dirwestol yn y gymydogaeth, ac ymroddodd Edward Roberts ac eraill i'r gwaith da hwn, i'r hwn hefyd y bu yn ffyddlawn ar hyd ei oes. Fel y canlyn yr ysgrifenai y diweddar Robert Parry, llywydd undeb y chwarelwyr, yr hwn oedd yn ddiacon ffyddlawn yn y Ceunant, ar hyn yn y flwyddyn 1879: "Ac yn ol tystiolaeth gyffredinol y wlad ar y pryd, yr oedd y nifer lïosocaf o'r cyfarfodydd hyn yn rhai neillduol dda. Ond pa fodd bynag am hyny, sicrheir i'r diwygiad hwnw (yn 1849) fod yn foddion i gadw y gymydogaeth hon rhag llïosogi nifer y meddwon ynddi, fel na cheir heddyw ymhlith y to hwnw ond ychydig iawn o eithriadau yn ymyryd dim â'r diodydd meddwol."

Pan yr ydoedd Edward Roberts rhwng un a dwy ar hugain oed, aeth i'r ysgol i Glynnog, at Eben Fardd. Y pryd hyn y dechreuodd

bregethu. Yr oedd yn rhywyr gan bawb ei weled yn dechreu, gan mor fuan a chyflawn y llanwai bob cylch y gosodid ef ynddo. Gweithiodd yn galed yn Nghlynnog, ac ymhen rhyw flwyddyn a hanner aeth i'r Bala, pan ydoedd yn dair ar hugain oed. Ni fu yn y Bala yn hir; nis gallaf ddyweyd yn fanwl pa hyd; ond gwnaeth ddefnydd da o'r amser y bu yno. Tystiolaeth Dr. Parry ydoedd, na welodd neb erioed wedi dysgu gramadeg yr iaith Saesoneg mor lwyr ag Edward Roberts. Yr esboniad ar hyn, mae yn bur debygol, yw fod y llafur yr aeth drwyddo am flynyddoedd gyda Mr. Ellis, yn Dinorwig, cyn myned i Glynnog, yn dwyn ffrwyth amlwg erbyn y cynauaf yn y Bala.

Dychwelodd Edward Roberts i Arfon, ac at ei orchwyl bydol. O'r adeg hon hyd 1858, pryd y priododd, ac yn wir hyd 1869, pryd y galwyd ef i fugeilio eglwys y Ceunant, nid oes dim i'w ddyweyd am dano ond ei fod yn dilyn ei orchwyl fel chwarelwr, yn pregethu y Sabbothau, yn weithgar gyda holl ranau gwaith Crist yn y Ceunant, ac yn darllen llawer ac yn meddwl mwy, ar hyd y blynyddoedd. Yr wyf yn teimlo fod cyfiawnder yn galw am sylw byr arno fel llenor, fel bugail, fel pregethwr, a Christion.

Fel *Llenor*. Nid wyf yn deall iddo anfon llinell erioed i'r wasg, er ei fod yn llenor a bardd lled wych. Yr oedd yn debyg i Dr. Duncan yn hyn, yn gadael i eraill redeg i'r wasg, tra yr oedd efe yn ymddifyru mewn meddwl, ysgrifenu ambell englyn, a gwneyd nodiadau ar rhyw lyfr. Gallesid yn hawdd lenwi tu dalenau â'i englynion a'i bennillion, ond boddloner ar ychydig, fel engraifft o'r cyfan.

*Coffadwriaeth am Lydia Parri, Penhafodlas.*

Parod oedd Lydia Parri,—ou emau
  Y cymmod oedd ganddi;
Addurniad gras oedd arni,
A'i mwyn "Ho!" a'i "Hamen" hi.

*Englynion er Cof am Owen Hughes, Fuches las.*

Owen Hughes ga'dd yn ein Hiesu—Geidwad
  I'w gadarn waredu;
Glân trwy 'i oes ei foes a fu,—
Iawn oedd ei ogoneddu.

Mae Owen Hughes fry 'n mwynhâu—pereiddfaeth
  Y pur addfed ffrwythau;
Fry hwn a fed ar fryniau
Y ne' hoff yr hyn fu 'n hau.

O Dduw doeth, yn Dad bydd di—i'w deulu,
  I'w dal yn y c'ledi;
Iddynt boed i Ti roddi
Londer a llawnder yn lli'.

*Coffadwriaeth am y diweddar John Jones, Ty'ncoed, Clynnog.*

Noswyliodd John Jones wiwlwys—o'i ludded
  I wledda a gorphwys;
Yn Ty'ncoed bu 'n tynu cŵys
Briodol at baradwys.

Rhodiai 'n gyfion, wiwlon was,—a sefai
Wrth safon y deyrnas;
Gŵr oedd a garai addas
Olud a grym deiliaid gras.

Ei boenau a ddybenodd,—ei wylo,
A'i waeledd a beidiodd;
O'r gofid byr a gafodd
Draw aeth i fyd wrth ei fodd.

Côr Sïon a'i croesawa—fry yno
Yn llon freiniol dyrfa;
Yr eglwys wiwlwys wyla
Ar ei ol, ŵr duwiol, da.

Wele 'r fan, ar lawr ei fedd,—y gorwedd
Gwir garwr tangnefedd;
Pan gyfyd hefyd, i hedd
Esgyna John Jones geinwedd.

Y llyfr diweddaf a ddarllenodd, gan wneyd nodiadau arno, ydoedd *Natural Religion*, gan Proffeswr Seeley, awdwr *Ecce Homo*. Y mae y ffaith hon ynddi ei hun yn dangos ei fod yn feddylgar; ond y mae dau beth ynglŷn â'r ffaith hon sydd deilwng o sylw. Ymhen tri mis ar ol marwolaeth Edward Roberts, ysgrifenodd y Prifathraw, y Parch. David Charles Davies, M.A., ysgrif ar lyfr y Proffeswr Seeley i'r TRAETHODYDD, Ebrill, 1885, ac er syndod, dechreuodd ei ysgrif yn hollol gyda'r un frawddeg ag y dechreuodd Edward Roberts ei nodiadau. Hyny ydyw, y mae y ddau yn dechreu eu beirniadaeth ar waith y Proffeswr Seeley, trwy sylwi ar yr arwyddair ar ddalen gyntaf y llyfr, sef y geiriau canlynol o eiddo Wordsworth:—

We live by admiration.

Dywed y Prifathraw: "Ond fel y mae yn wybyddus i ddarllenwyr, yr hyn a ysgrifenodd ef yn y pedwaredd llyfr o'r *Excursion* ydoedd:—

We live by admiration, hope, and love,
And even as these are well and wisely fixed,
In dignity of being we ascend.

Gan na fuasai y frawddeg gyfan yn ateb i amcan y gwaith, y mae awdwr *Natural Religion* yn ei darnio, ac yn gadael allan ran bwysig o'r meddwl. Dywed Wordsworth ein bod yn byw, nid trwy edmygedd yn unig, ond trwy obaith a chariad hefyd, ac ymhellach ein bod yn esgyn mewn urddas trwy feithrin y teimladau hyny, yn unig pan y sefydlir hwynt yn dda ac yn ddoeth, hyny ydyw pan y sefydlir hwynt ar wrthddrychau teilwng. Pe dyfynasai Proffeswr Seeley yr oll, ni a gawsem feddwl y bardd yn llawn; ond buasai hyny yn dangos i ni y gwahaniaeth rhwng gwirionedd y dyfyniad ac amcan y llyfr y gosodasid ef yn arwyddair iddo. Nid pregethwyr yn unig, fel y gwelir, sydd yn cymeryd darn o adnod yn destun, ar wahan oddiwrth ystyr ei chysylltiadau."

Dywed Edward Roberts: "Y mae yr awdwr wedi bod yn hapus iawn yn ei arwyddair: 'We live by admiration.' Nis gallesid cael dim yn fwy nodweddiadol o amcan y llyfr. Ac, y mae yn ymddangos i mi

fod yr hyn sydd yn amlwg trwy y llyfr, sef gallu a chywreinrwydd, yn dyfod i'r golwg hefyd yn newisiad yr arwyddair hwn; oblegid hyn yn unig y mae yr awdwr yn broffesu, a hyn yn unig y mae yn geisio brofi."

Onid yw hyn yn rhyfedd? Ac onid prawf o neillduolrwydd meddwl y ddau ysgrifenydd yw eu bod yn dechreu gydag arwyddair y llyfr? Ond cyn i Edward Roberts fyned trwy y rhan gyntaf o'r llyfr, yr oedd yn teimlo fod crefyddolder ei ysbryd yn derbyn niwed, a bu raid cael pobl ieuainc y Ceunant i Tanyrallt i gynnal cyfarfod gweddi, er mwyn cael ei ysbryd yn ol i'w le!

Fel *Bugail*. Dywedai Goethe "na allai neb ladd barddoniaeth ond y beirdd." Felly hefyd ni all neb ladd bugeiliaeth ond y bugeiliaid. Yr oedd Edward Roberts yn gwneyd gwaith bugail yn y Ceunant lawer o flynyddoedd cyn cael ei *alw* yn fugail, a chyn cael ei ordeinio. Ond yn 1869 fe'i galwyd, ac yn 1870 fe'i hordeiniwyd. Felly bu yn fugail ordeiniedig am y pymtheng mlynedd olaf o'i fywyd. Ac yr oedd eglwys y Ceunant yn teimlo ei bod wrth ei alw yn dyfod yn rhydd oddiwrth bob cyfrifoldeb iddo am yr hyn a wnaeth ynddi, cyn ac ar ol hyny! Ond yr oedd ef yn rhy debyg i'r Bugail da i roddi pwys ar hyny. Yr oedd Edward Roberts yn gynllun o fugail yn ei ofal am yr eglwys, ei fanylrwydd, a'i ffyddlondeb gyda holl ranau y gwaith. Mae yn wir fod ganddo fantais i rai pethau nad yw gan lawer o'i frodyr yn y ffaith fod Eglwys y Ceunant yn fechan, ac wedi ei bendithio, o'r dechreu hyd yn awr, â blaenoriaid gweithgar a ffyddlawn. Gallasai hyn fod yn achlysur i'r bugail fod yn fwy diofal; ond nid felly y bu. Rhoddir engraifft neu ddwy, er dangos mor fanwl ydoedd Edward Roberts fel bugail. Yr oedd yn cadw llyfr,—*Superintendent's Roll Book, a year at one view* (Gall & Inglis, Edinburgh), yn yr hwn yr oedd enwau yr holl eglwys. Yn y llyfr hwn yr oedd yn cadw presennoldeb pob aelod eglwysig yn ystod y flwyddyn, yn nodi pwy oedd yn dechreu ac yn diweddu pob cyfarfod eglwysig, pwy fyddai wedi dyweyd ei brofiad neu wneyd sylw yn y cyfarfod, a phob manylrwydd am dderbyniad, dysgyblaeth, &c., a gymerai le yn yr eglwys. Yr oedd ganddo lyfr arall hefyd, yn yr hwn y cadwai grynodeb o bob cyfarfod eglwysig. Yr wyf wedi agor yn ddamweiniol ar Rhag. 15, 1880:— "Dechreuwyd gan John Thomas, Gors. Gwrandawyd ar y plant gan John Hughes, Pant y coed. Cafwyd sylw ar y pregethau y Sabboth gan Robert Parry, Pant hyfryd. Dywedodd John Thomas, Gors, air o'i brofiad o hono ei hun: ofnai nad oedd fel y morwynion call, yn cymeryd mantais ar y byd i ymbarotoi; fod y byd yn ei ddyrysu yn lle ei helpu. W. Jones, 'Rallt, drachefn, a ddywedodd ranau o'r bregeth oedd wedi dal ar ei feddwl. Elizabeth Roberts, Ty'nllwyn, a ddywedodd, 'Os gwasanaetha neb fi dilyned fi." Yr oedd yn teimlo fod cryn werth mewn 'gwasanaethu a dilyn,'—dyfod at yr Iesu. Gofynodd E. R., Tan'rallt, air i Jane Owen, Gatehouse. 'Pwy a drig yn dy babell?' ac 'Nac ofna, braidd bychan.' Margaret Jones, Panthyfryd, *dim* ar ei meddwl—DIM! Elen Hughes, Ty Newydd: 'Gwylia ar dy droed pan elech i dŷ Dduw.' Cath. Williams, Glanygors: 'Rhoddaf iddynt ddwfr phïol lawn;' teimlo ei bod yn cael pethau chwerwon iawn, ond o law Tad trugarog hefyd. Hannah Hughes, Cae hoedyn, darn o bennill: 'Yr aberth a roes, a'm cyfyd i fyny o ddyfnder fy loes.'

William Parry, Gellod, penill: 'Mae y [illegible].' Mary Hughes, Ty Isaf: 'Hepiasant [illegible]' [illegible] y oedd. Catherine Griffith, Brynewil: G[illegible]—[illegible] arni am drugaredd. Adroddwyd profiad Mary Hughes, Ty [illegible], o ei chystudd: Methu peidio grwgnach, ond meddai 'Mae [illegible] edrych ar aberth y groes,' &c. Diweddwyd gan [illegible] Pantycoed. Nifer 56." Drachefn, ar derfyn pob blwyddyn, [illegible] Edward Roberts wneyd math o adolygiad ar y flwyddyn. [illegible] yr hyn ysgrifenwyd ganddo fel crynodeb o'i sylwadau ar derfyn 1883. Yr wyf yn dewis yr hyn sydd ganddo am 1883 yn hytrach na rhyw flwyddyn arall, o herwydd ei fod yn cynnwys gair o goffad am Robert Parry, diweddar Lywydd Undeb y Chwarelwyr, yr hwn, fel y crybwyllwyd eisioes, ydoedd yn ddiacon yn y Ceunant.

*Sylwadau ar derfyn y flwyddyn 1883.*

1. Calwyd 61 o gyfarfodydd eglwysig yn ystod y flwyddyn. 2. Y mae tri [illegible] wedi cael y fraint o fod ynddynt oll braidd. [Erbyn troi i lyfr y [illegible] nid yw un o'r tri.] 3. Y mae wyth wedi cael dros ddeugain. 4. Y mae 19 heb gael cyfarfod eglwysig o gwbl yn ystod y flwyddyn. Yr oedd 7 [illegible] 8 o'r rhai hyn yn waelion, ac 11 yn esgeuluso eu cyd-gynnulliad eu hunain. 5. Y mae 8 heb gael pump cyfarfod eglwysig yn ystod y flwyddyn. 6. Y mae 20 wedi cael dros bump, ond heb gael deg. 7. Nifer presennol ar gyfartaledd ydoedd oddeutu 37. Gwelwn oddiwrth hyn fod yn agos i hanner cant o aelodau, [illegible], yn cael digon ar ychydig iawn o seiadau yn y flwyddyn. Gallant wneyd y tro a [illegible] llai na deg o seiadau yn y Ceunant am flwyddyn! Y mae yn rhaid fod hyny o ffyddloniaid sydd yma yn rhai ffyddlon dros ben. Y mae yr Arglwydd [illegible] yn gwenu arnynt, am eu ffyddlondeb. *Bu farw Robert Parry, Pant [illegible], [illegible], yr hwn oedd yn ddyn galluog, ac yn ddiacon blaenllaw. Bydd colled fawr ar ei ol.*

Pa fugail all ddyweyd hanes ei eglwys fel hyn? Yr oedd Edward Roberts yr un mor fanwl gyda chofrestr y bedyddiadau, Swper yr Arglwydd, ymweliadau â'r cleifion; ac mor ffyddlawn gyda phob cyfarfod yn y Ceunant ag ydoedd gyda'r cyfarfod eglwysig. Ni allesid dyweyd am dano ef, fel y dywedwyd gynt, ac fel y myn rhai ddyweyd yn awr, am y bugeiliaid: "Gwae fugeiliaid Israel, y rhai sydd yn eu porthi eu hunain; oni phortha y bugeiliaid y praidd? Y braster a fwytewch, a'r gwlan a wisgwch, y bras a leddwch; ond ni phorthwch y praidd. Ni chryfhasoch y rhai llesg, ac ni feddyginiaethasoch y glaf, ni rwymasoch y ddrylliedig chwaith, a'r gyfeiliornus ni ddygasoch adref, a'r golledig ni cheisiasoch; eithr llywodraethasoch â thrais, ac â chreulondeb."

Fel *Pregethwr*. Yr oedd yr un manylrwydd yn dyfod i'r golwg yn Edward Roberts fel pregethwr ag a welsom ynddo fel bugail. Y mae taflenau yn awr ger fy mron sydd yn dangos pa nifer o bregethau a wnaeth ar hyd ei fywyd, ymha le y bu yn pregethu, a pha beth oedd ei destun yno!

Y mae y daflen olaf a grybwyllwyd yn cymhell sylwadau ag y byddai yn dda i lawer o leoedd eu cymeryd i ystyriaeth; ond ni fuasai dim yn bellach o feddwl Edward Roberts na hyny, ac felly nid yw yn deg eu dwyn i mewn ynglŷn â'i goffadwriaeth. Er y gallasai ef, mewn un ystyr, wneyd y tro gydag ychydig o bregethau, eto yr ydoedd yn cyfansoddi llawer, ac yn cyfansoddi gyda'r manylrwydd

mwyaf. Buasai yn dda genym ddyfynu llawer o'i bregethau, ond rhaid boddloni ar un frawddeg neu ddwy o'i bregeth ar Phil. i. 9—11. "Ac yn awr," meddai, am y Philippiaid, "y maent yn y nefoedd, gydag Ef, mewn gogoniant! Yn y sefyllfa fwyaf ardderchog y gall dyn byth ddychymygu bod ynddi! Y mae gan ddyn allu mawr i ddychymygu. Gallwn ddychymygu ein bod yn gallu treiddio trwy fynyddoedd o dân; ein bod yn gallu ymwibio trwy yr eangderau; a dychymygu miloedd o bethau na allwn ni byth eu cyrhaeddyd. Ond pa faint bynag o eofnder ac o feiddgarwch a all fod mewn dyn i ddychymygu, ni ddychymygodd neb erioed gael ei hun mewn sefyllfa uwch, a mwy ardderchog, na bod wedi ei godi i garu yr hyn y mae Duw yn ei garu, ac i gasâu yr hyn y mae Duw yn ei gasâu: y mae dyn yn fawr mewn gwirionedd, pan wedi ei godi i'r sefyllfa yna."

Y mae hyn yn ddigon i ddangos pa fodd yr oedd yn ysgrifenu ei bregethau. Ond er ei fod wedi ysgrifenu cannoedd rai o bregethau da, pregethwr "anghyhoedd" ydoedd Edward Roberts, fel y sylwyd ar y dechreu. Ni fu erioed yn pregethu mewn Cymdeithasfa na Chyfarfod Misol. Ni ddywedai air yn y Cyfarfod Misol ar unrhyw fater. Ond pe buasai Cyfarfod Misol Arfon yn gwybod gymaint o ddifyrwch a fyddai yn gael wrth fesur a phwyso ei weithrediadau, a'r rhai a siaradent gymaint ynddo!

Crybwyllwyd eisoes fod ei arafwch yn erbyn iddo fod yn boblogaidd. Nid oedd yn llefarwr hylithr—nid oedd yn gallu canu ei bregethau. Yr oedd yn naturiol, er, o bosibl, y buasai rhai yn barod i ddyweyd mai naturiol annaturiol ydoedd. Gofynwyd unwaith i Johnson a oedd Burke yn debyg i Tullius Cicero, a'i atebiad ydoedd: "Nac ydyw, syr, y mae yn debyg i Edmund Burke." Felly, Edward Roberts, yr ydoedd fel ef ei hun. Yr ydoedd yr un dyn yn y pulpud ag ydoedd wrth siarad â chyfaill ar y ffordd. Yn wir, y feirniadaeth oreu ar Edward Roberts fel pregethwr, oedd yr hyn a ddywedodd bachgen bach wrth ei dad mewn atebiad i'r gofyniad, "Sut yr oeddit yn leicio y pregethwr yna, John?" "Nid pregethu yr oedd hwna," meddai John, "siarad â rhywun yr oedd o o hyd." Dyna Edward Roberts fel pregethwr. Bum yn dychymygu lawer gwaith pa fath un fuasai pe buasai wedi cael ei gynhyrfu yn iawn! Yr oedd rhyw grac yn ei lais ar brydiau, allasai ollwng ffrwd o felodedd nefol am ben y gynnulleidfa; ond yn ei weddi, yn hytrach nag yn y bregeth, y deuai hyny bob amser i'r golwg.

Yn ddiweddar daeth dau gyfaill i fyny i'r brifddinas, sef y Parch. Edward Lloyd, Prenteg, a'r Parch. W. Jones, Trawsfynydd, y cyntaf i ymgynghori â meddyg ar gyfrif anhwyldeb ar ei lais, a'r olaf ar hynt bregethwrol. Treuliasom oriau difyr yn nghymdeithas ein gilydd wrth son am y peth hyn a'r peth arall. Yn unol âg un o wendidau y ddynoliaeth, dywedais wrthynt beth oeddwn yn ei wneyd. Ac er fy syndod, dywedai y naill a'r llall bethau rhyfedd ac anhygoel am Edward Roberts fel pregethwr. Gofynais iddynt ysgrifenu gair ataf ar hyny. Ac yn awr, caiff yr hyn a ysgrifenasant hwy fod yn derfynol am Edward Roberts fel pregethwr. Fel hyn yr ysgrifena y Parch. Edward Lloyd:—

**Drwg iawn genyf na buaswn yn gallu ysgrifenu yn fanwl hanes y bregeth hynod y cyfeiriais ati o eiddo y diweddar Barchedig Edward Roberts, Ceunant,**

yn Horeb, Prenteg. Credaf na phregethwyd yr un bregeth yn Horeb, yn ymyl y deng mlynedd ar hugain diweddaf, a gofir yn well, a hyny o herwydd y gorfoledd a dorodd allan, na'r bregeth y cyfeirir ati. Nid yw y dyddiad genyf, ac y mae yn anmhosibl ei gael, yma o leiaf, erbyn hyn, a hyny am fod yr hen dadau oedd yn dal cysylltiad agosaf â'r gwaith ar y pryd wedi meirw, a'u teuluoedd wedi symud o'r ardal i fyw, a'r cofnodau, o ganlyniad, wedi myned ar ddisperod. Testyn y bregeth oedd Gen. iii. 9: "A'r Arglwydd Dduw a alwodd ar Adda, ac a ddywedodd wrtho, Pa le yr wyt ti?" Dywedai Jane Williams, Glanygors, yr hon oedd yn bresennol, ac un sydd yn meddu "côf llyfr," o'r bron, wrthyf y dydd o'r blaen mai un o'i brif bwyntiau oedd, ddarfod i Dduw, o'i drugaredd, fyned ar ol Adda, er ei fod wedi pechu yn ei erbyn. Duw yn chwilio am y pechadur, a'r fath drugaredd mai Duw oedd yn chwilio, meddai, ydoedd pwnc y bregeth. Gallaf finnau ddyweyd fy mod yn cofio yn dda, er nad oeddwn ond llefnyn, fod rhyw ddifrifwch nas gallaf ei ddesgrifio wedi meddiannu y pregethwr ar y pryd. Safai yn syth, a'i gorff mor llonydd a phe buasai wedi ei hoelio wrth y lle, oddigerth ambell i daflaid a roddai i'w law yn awr ac yn y man. Yr oedd ei eiriau fel saethau yn llaw Ysbryd Duw, a phob un o honynt yn myned yn syth i galonau y gwrandawyr, nes peri iddynt lefain â'u holl allu am eu bywyd. Gwelodd llawer eu hunain yn bechaduriaid yn yr odfa hono; ac o drugaredd Duw, gwelsant drugaredd yn chwilio am danynt. Yr wyf yn cofio yn dda fod y diweddar William Parry, Hendre sela, yn nodedig, yn y fath hwyl, fel yr oedd wedi anghofio ei hun, mewn un ystyr beth bynag, yn hollol. Yr oedd fy rhieni yn cyd-ddal sêt gyda theulu Hendre sela ar y pryd. Yr oedd dau deulu ymhob sêt o'r bron, am fod y capel yn rhy fychan i bob teulu gael sêt "wrtho ei hun." Yr oedd yr hen dad, W. Parry, yn ddyn tal—dwylath, os nad ychwaneg o daldra. Yr oedd yn ymrwyfo, ac yn gorfoleddu yn anghyffredin. Curai y sêt â'i ddyrnau, nes oedd pob peth yn crynu o'i amgylch, a hyny heb gofio dim am y "clwyf da," fel y dywedir, neu rhyw anhwyldeb arall oedd ar ei law ar y pryd. Yr wyf yn cofio yn dda i arswyd syrthio arnaf rhag iddo fy nharo, a'r canlyniad fu i mi gipio fy mrawd bach oedd gyda mi dan fy nghesail, a rhedeg i'r llawr am ddiogelwch. Yr wyf yn enwi W. Parry am fy mod yn dygwydd bod yn yr un sêt ag ef; ond nid oedd ef ond un ymysg cynnulleidfa oedd yn eu hwyliau. Ychydig, rhyw flwyddyn neu ddwy fe allai, cyn marwolaeth Mr. Roberts, yr oeddwn yn pregethu yn Nghapel y Ceunant, ac yntau yn dygwydd bod yn gwrando. Gofynais iddo a oedd yn cofio yr odfa y cyfeirir ati, a'r atebiad ydoedd: "Ydwyf, O! ydwyf. Odfa ryfedd oedd hono. Gwyn ei fyd na chawn fwy o'i chyffelyb." Y mae ef, erbyn hyn, wedi myned oddiwrth ei lafur at ei wobr; ond sicr yw y cofir am dano gyda pharch ac anwyldeb gan bob un a'i clywodd yn pregethu "y bregeth hynod" yn Horeb tra y byddant byw.

Wele eto lythyr y Parch. W. Jones:—

Mae enw y Parch. Edward Roberts, Ceunant, yn wastad yn peri i mi gofio am un o'r cymeriadau mwyaf syml a dirodres a berthynai i Gyfarfod Misol Arfon yn ystod y deng mlynedd y cefais y fraint o fod yn aelod o hono. Er nad oedd yn cael ei restru ymysg pregethwyr blaenaf Arfon, eto yr oedd gan bawb a'i hadwaenai syniad uchel am dano fel dyn, Cristion, a phregethwr. A'r cynnulleidfaoedd y byddai yn pregethu iddynt amlaf oedd yn coleddu y syniadau uchaf am dano fel pregethwr. Fy syniad i am Edward Roberts, ar ol ei wrando ddwy waith neu dair yn y dydd, am fis cyfan, ydoedd ei fod yn bregethwr sylweddol a defnyddiol. Ac er nad oedd yn hyawdl a llithrig ei ddawn, yr oedd bob amser yn gryno, trefnus, a rheolaidd. Yr oedd yn ymwybodol nad allai wneyd llawer o sŵn, ac am hyny, amcanai wneyd y diffyg hwnw i fyny â sylwedd. Pan yr oedd ef a minnau ar daith trwy Sir Aberteifi, yn 1866, cafodd rai odfeuon grymus iawn. Yr wyf yn cofio tair o honynt yn arbenig. Un yn Penmorfa, boreu Sabboth, Mawrth 4ydd, ar y geiriau hyny yn Gen. iii. 9, "Adda, pa le yr wyt ti?" Yr wyf yn cofio byth am un sylw a ddywedodd, sef, "fod rhywbeth arddunol hyd yn nod yn marnedigaethau Duw," gan gyfeirio at y darn llaw ar galchiad y pared. Odfa arall hynod, a'r hynotaf, mae'n debyg, yn ei oes, oedd yn Blaenanerch, y nos Sabboth hwnw. Yr wyf yn credu nad oes neb oedd yn yr odfa hono wedi gallu ei anghofio. Ei destun oedd Esaiah lxvi. 13: "Fel un yr hwn y dyddana ei fam ef." Wedi bod yn siarad am hanner awr, oblegid siarad y byddai

Edward Roberts, dywedai: "Clywais hen frawd yn Sir Gaernarfon yn dyweyd ei fod wedi bod yn gwrando ar yr anfarwol Williams o'r Wern yn pregethu ar yr adnod hon. Ac yr oedd Williams yn dyweyd fod yr adnod wedi cael ei llefaru oddiwrth ddull mam yn dyddanu ei phlentyn bach oedd wedi cael ei adael ganddi am rhyw dymmor i ofal estron. Ond iddi, ar ei dychweliad, ei gael ef yn llefain." A phan yn adrodd fel yr oedd yr hen efengylydd yn darlunio y fam, cymerodd y Bibl yn ei freichiau, a newidiodd ei lais a dywedai yn y modd mwyaf nefolaidd: "A ddarfu dy fam dy adael di, yr un bach? Ni wnaf dy adael di byth eto. A fu y pethau bryntion yn frwnt wrthyt? Ni chânt gyfle byth mwyach." Ar hyny tywynodd goleuni ar yr hyn a ddywedai nes y torodd allan yn orfoledd cyffredinol trwy yr holl gynnulleidfa, am amser maith. Odfa arall oedd yr un am d'deg o'r gloch yn Nghyfarfod Misol Ceinewydd, er nad ydoedd mor effeithiol a'r ddwy arall.

Yr wyf yn credu fod Edward Roberts yn meddu graddau helaeth o wybodaeth yn y gwahanol wyddonau. Talodd sylw i hanesiaeth hen a diweddar, ac yr oedd wedi myfyrio llawer ar wahanol gyfundraethau athronyddol y byd. Cefais ef yn gyfaill cywir bob amser, yn Gristion gloew, ac yn feirniad craff. Mae genyf barch calon i'w goffadwriaeth. Heddwch i'w lwch!

Mae yn dda genyf fy mod wedi ymgymeryd âg ysgrifenu gair am Edward Roberts, pe na buasai ond am y ffeithiau a adroddir yn y llythyrau hyn. Ac yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar, y fynyd hon, i swyddogion Ceinewydd am beidio cornelu gŵr Duw tra yr ydoedd yn eu plith. Yr oedd holl ragoriaethau Edward Roberts fel priod, tad, cyfaill, cymydog—ac yr oeddynt yn llawer—yn gystal ag fel bugail a gweinidog, yn cyfodi o'i ragoriaethau fel *dyn a Christion*. Yr ydoedd yn meddu dynoliaeth dda. Yr oedd rhanau israddol ei natur dan lywodraeth fanwl rhanau uchaf ei natur; ei flysiau, ei nwydau, a'i dymherau dan reolaeth fanol ei reswm a'i gydwybod; ac yr oedd ei holl natur wedi ei heneinio gan ysbryd crefydd ein Harglwydd Iesu Grist. Ni fu y pechod sydd yn gyffredin yn barod i amgylchu gweision Duw—awydd am glod a phoblogrwydd—erioed yn fagl iddo ef; ac nid wyf yn meddwl fod y fagl arall, yr hon sydd, hyd yn nod, yn fwy cuddiedig a pheryglus, sef awydd bod yn enwog mewn sancteiddrwydd a duwioldeb, erioed wedi bod yn brofedigaeth iddo ef, er ei fod yn enwog yn y pethau mwyaf hyn.

Yr oedd ei dduwioldeb personol a'i lafur gweinidogaethol yn anwahanol gysylltiedig â'u gilydd. Yr ydoedd yn ymborthi ar yr hyn a roddai i eraill. Yr oedd yn astudio Gair Duw, nid yn unig er parotoi ar gyfer y pulpud, ond hefyd er ei adeiladaeth ysbrydol ei hun; a thrwy yr olaf yr ydoedd yn cyrhaedd y cyntaf. A pha weinidog bynag sydd am lwyddo mewn gwirionedd, rhaid iddo wneyd yr un modd.

Yr oedd Edward Roberts yn weddïwr mawr. Gweddi a myfyrdod ydoedd ei fwyd a'i ddiod. Yr oedd ei glywed yn gweddïo yn ddigon i benderfynu mai nid gŵr cyffredin, wedi y cwbl, ydoedd ymhlith gweision yr Arglwydd.

Bu farw, fel y bu fyw, yn hollol dawel a digyffro, mewn llwyr ymddiried yn ei Dduw. Yn ei ddyddiau olaf yr oedd yn aros mewn myfyrdod, yn esbonio, ac yn cael profiad o un o'i hen destunau: "Ymgedwch yn nghariad Duw, gan ddysgwyl trugaredd ein Harglwydd Iesu Grist i fywyd tragywyddol." Ac felly yr aeth i dangnefedd.

Wedi rhoddi trem, fel hyn, ar fywyd Edward Roberts, y mae yn bur hawdd rhoddi cyfrif am ei arafwch corfforol. Ond cymeryd yn

ganiataol ddylanwad y meddwl ar y corff, fe ymddengys ei arafwch fel canlyniad naturiol ei fanylrwydd ar hyd ei fywyd. Yr ydoedd yn naturiol—yn ol ei eiriau ef ei hun, er syndod, yn ddiau, i lawer oedd fel fy hunan—o dymher wyllt! Yr oedd ei alwedigaeth fel chwarelwr yn feithrinfa i hyny. Hyny ydyw, y mae chwarelyddiaeth yn feithrinfa i sydynrwydd a byrbwylldra. Mor wahanol yw chwarelyddiaeth i amaethyddiaeth yn hyn. Rhaid i'r amaethwr aros yn "dda ei amynedd" i'r gwair a'r ŷd dyfu, a'r anifeiliaid besgi; tra y mae y chwarelwr yn rhedeg gyda phylor, yn ei dywallt i'r graig, yn galw am dân, yn tanio, yn rhedeg am ddiogelwch; ond, cyn iddo gymeryd ei anadl, dyna y pylor yn ffrwydro, y graig yn cwympo, ac yntau yn rhedeg yn ei ol yn llon, a'i obeithion wedi eu sylweddoli. Nid rhyfedd fod cymaint o wahaniaeth rhwng y chwarelwyr a'r amaethwyr yn eu sydynrwydd. Yr oedd yr addysg foreuol gafodd Edward Roberts i fod yn gynnil a manwl gyda phob peth, a golygfa eang y Ceunant, yn tueddu i'w wneyd yn sylwgar a phwyllog. Gwyliodd gymaint arno ei hun rhag colli ei dymher tra yn ardal Dinorwig, a phan dan wawd bechgyn drwg yn ei alw "y blaenor," fel yr effeithiodd hyd yn nod ar ei gorff a'i gerddediad. Bu am rai blynyddau yn swyddog eglwysig ieuanc ymhlith hen swyddogion, ac yr ydoedd yn bur naturiol iddo gydweithredu â hwy mewn dystawrwydd. Yr oedd yn edmygwr mawr ar Eben Fardd, yr hwn oedd yn nodedig am ei arafwch a'i dawedogrwydd. Treuliodd ei oes yn fyfyrgar a neillduedig, a'r rhan olaf o hono yn fwy o amaethwr nag o chwarelwr. Beth ond arafwch allasai fod yn ganlyniad naturiol hyn oll? Y mae cyfrifoldeb mawr hefyd ar gyfundebau crefyddol. Yr wyf yn cofio yn dda glywed y diweddar Barch. Emrys Evans, Dinbych, yn sylwi ar hyn unwaith yn y Bala. Dywedai mai y Methodistiaid Calfinaidd oedd i'w beïo na fuasai ef gystal pregethwr a Mr. Thomas (yn awr Dr. Owen Thomas). Ffermwr, meddai, fu raid iddo ef fyned, ac yr ydoedd gystal ffermwr ag ydoedd Mr. Thomas o bregethwr, a chystal ffermwr a neb oedd yn Nyffryn Clwyd. Pa sawl pregethwr y mae yr hen Gorff—a phob corff arall—wedi ei ddyfetha? Yr oedd Edward Roberts yn well pregethwr nag y mynai Arfon iddo fod. Dywedai y diweddar Barch. Rees Jones, Porthdinorwic, uwch ben bedd Edward Roberts: "Dyma gorff un eto o weision yr Arglwydd wedi ei roddi yn y bedd heb i Arfon erioed ei adnabod, na deall ei werth." Ië, a gallesid yn briodol ofyn, Pa hyd y pery pethau fel hyn?

W. RYLE DAVIES.

# BLODEUYN MEWN ANIALWCH.

Full many a flower is born to blush unseen,
And waste its sweetness in the desert air!—GRAY.

BLODEUYN mewn anialwch! Fedd y byd
Olygfa fwy derbyniol na honyma,
Er gwyllted y dyrysni hwn, a ddŷd
Brydferthwch cu i ffrwyno yr olygfa?
Mor annibynol yw yr Ynn gerllaw,
A'r Derw hen mor dalgryf ydynt yno;
Ond gwelaf un blodeuyn bach o draw
Sydd wrth eu traed yn serchog wenu croeso.

Blodeuyn mewn Anialwch! Er y drain
A'r gwyllt fieri sydd o'i gylch yn gaerau,
Ar aden awel gyr drwy frigau rhai'n
Ei berarogledd i eneinio 'r pigau.
Er nad oes iddo gymhar yn y byd,
Gwasgara gyda 'r pedwar gwynt ei riniau,—
Cyflawna *hwn* ei neges fach o hyd
Mor lwyr, mor ffyddlon, a phe 'n ardd o flodau.

Blodeuyn mewn Anialwch! Ai nid hyn
Yw presennoldeb Cristion ar y ddaear?
Yn ei hanialwch rhyw Flodeuyn Gwyn
A blanwyd gan law Un sydd "oll yn hawddgar."
Er hacrwch pechod, llaw yr Ysbryd Glân
A baentiodd arno wynder claer Paradwys,
A gwawl gogoniant, megys tònau mân,
Sydd yn pelydru rhwng ei ddail heb orphwys.

Blodeuyn mewn Anialwch! Er nad oes
Gadernid derw 'r byd yn perthyn iddo,
Yn nerth i'w foncyff y mae Gwaed y Groes
Yn mwydo 'r ddaear lle mae hwn yn gwreiddio.
Fel drain o'i amgylch, annuwiolion byd
A'u hanystyriol fyw rydd friw i'w galon,
Ond gwasgar ei arogledd wna o hyd
Yn bersawr i fedyddio ei gyd-ddynion.

Blodeuyn mewn anialwch! Mae o'i gylch
Chwŷn aflan annuwioldeb yn blaguro,
Ond dwyfol wlith ei ddalen ef a ylch,
A cheidw 'i wynder rhag cael ei lychwino.

Mewn iselfrydedd dangos mae o hyd
Mor anghymharol ydyw gwên yr Iesu,
A adlewyrcha; ac mewn anial fyd
Fe 'i gogonedda er nas gall ond gwenu!

O. PARRY-OWEN.

---

# CRYBWYLLION HENAFIAETHOL.

## NANT MYNIAWYD NEU MYNAWYD, AC AFON FATHA.

GOSODIR yr hen enwau hyn ger bron, mewn rhan, am fod y rhan olaf o honynt yn lled gyfateb i enwau gwŷr a oesent yn y cyfnod terfysglyd a gwaedlyd hwnw a fu ar Wynedd pryd yr ymladdai y Gwyddelod, neu y Llychyniaid a'r Gwyddelod, &c., yn erbyn y Cymry, am y bendefigaeth arni. Ac ymddengys fod safleoedd cyfanneddol y ciwdodau hyn yn yr amser crybwylledig yn eu cysylltiad â'r wlad, rywbeth yn debyg i fel yr oedd rhwng plant Israel a'u gelynion yn nghyfnod y Barnwyr. Ac, yn ol hyn, mae yn ymddangos nad oeddynt mewn rhyfel gwastadol â'u gilydd, ond y byddai yspeidiau diryfel weithiau yn cymeryd lle.

Yn awr gan fod rhanau o'r enwau lleol hyn yn hafal i enwau gwŷr a oesent yn gyfamserol â'r cyfnod terfysglyd a gwaedlyd a nodwyd, nid rhy annhebyg ydyw i'r Nant a'r Afon gael eu henwau oddiwrth wŷr a gynniweirient eu broydd y pryd hyny. Ond erbyn hyn, y mae yr enw cyntaf—Myniawyd, neu Mynawyd—wedi ei lwyr golli o fod yn arferedig ymysg Cymry Cymru, os bu erioed felly. Dichon ei fod. Eithr i beidio pwyso yn benderfynol ar fod y lleoedd hyn yn eu rhan-enwau yn dwyn enwau gwŷr a gynniweirient eu cymydogaethau y pryd a nodwyd, ceir, os hyd yn nod yn wahanol, gymeryd mantais arnynt fel goseiliau i ymdrafod ar eu pwys am bersonau a ddygent enwau tebyg yn yr hen amseroedd, ac hefyd i gywiro syniad yn mherthynas i ystyr enwol un o honynt. Ond wrth fyned ymlaen, mae yn rhaid gadael llawer o bethau yn anmhenderfynol, ac ar ryw olwg ni fyddai waeth tewi a son a gadael iddynt. Eto, er hyn, fe allai y gellir dwyn i sylw rai pethau dyddorol, ac felly anturiwn osod ger bron y sylwadau dilynol

Y man neu y manau a adnabyddir yn awr fel "Nant Myniawyd" neu "Nant Mynawyd" ydynt dyddyn, gyda'i dyddyndŷ perthynol, yn mhlwyf Llan Fihangel y Pennant, yn Swydd Feirionydd. Mewn perthynas i'r rhan gyntaf o'r enw, y mae yn ymddangos yn ddiogel iddo gael ei gymeryd oddiwrth y nant fechan a red i lawr heibio a cherllaw y tyddyndŷ, ac y gellid ystyried mai Nant Myniawyd, neu

Nant Mynawyd, y gelwid yr unrhyw tuag adeg adeiladiad y tyddyndŷ neu ffurfiad y tyddyn. Onidê, ymddengys na feddai y nant hon enw gwahaniaethol yn flaenorol, neu ynte iddo gael ei newid fel dynodiad ar y tyddyndŷ i gael lle i'r *mŷn awydd* honedig. Eithr nid yw yn ymddangos fod digon o reswm dros dybio nas gelwid y nant ei hun yn Nant Myniawyd, neu Nant Mynawyd, neu'r cyffelyb, cyn ffurfiad y tyddyn neu adeiladiad y tyddyndŷ, ac y gelwid hwythau felly o'i herwydd.

Ond mae y syniad mai dwyn enw personol mewn rhan y mae y tyddyndŷ dan sylw, yn groes i ddysgeidiaeth yr ardalwyr am darddiad yr enw. Canys fel y lled awgrymwyd, gosodant hwy allan mai *mŷn awydd* sydd i'w olygu wrth y *Mynawyd* neu *Myniawyd* a geir yn ddynodiad arno, gan gymeryd yr ystyr oddiwrth hen draddodiad a fynega am gyflead maleisus *mŷn gafr* mewn adeilad perthynol i'r tyddyndŷ, er mwyn ceisio profi perchenog a phreswylydd y fan yn euog o'i ladrata, a thrwy hyny ei ddienyddio, fel y gellid meddiannu y tyddyn gan berchenog tyddyn cyffiniol, neu ddalydd rhyw le cysylltiedig, i'r hwn y gommeddai ei werthu. Eithr y mae yr ystyr hwn o *myn awydd* a ddyry'r ardalwyr, yn hollol groes i ergyd y traddodiad, ac i'w syniad hwythau ynghylch yr helynt traddodiadol, ac amcan gosodiad y *mŷn* gafr yn yr adeilad.

Nid ydys heb deimlo fod gormod o anhawsder i brofi yn ddios mai cywir y syniad o enw personol mewn cysylltiad â'r rhan-enw dan sylw, ac wrth ymsynio o barth yr ystyr dichon y daw i feddwl y darllenydd am offeryn digon adnabyddus a defnyddiol a elwir *myniawyd*, enw pa un o ran sain a llythyreniad sydd yn hollol gytuno âg un o'r ffurfiau enwol a osodwyd, ac sydd hefyd yn lled agos felly i'r llall. Ond, pa hawl bynag a ddichon fod gan yr offeryn hwn yn ngosodiad yr enw, ymddengys mai diogelach priodoli dynodiad y lleoedd dan sylw i draddodiad am enw personol.

Fel rheswm dros y dyfaliad mai dwyn enw personol mewn rhan y maent, dygwn ger bron yn y sylwadau canlynol enwau personau ag sydd yn tebygu i'r dulliau sydd yn y penawd, ynghyd ag eraill sydd, dybygid, o'r un gwreiddyn, a rhywbeth yn tebygu o ran ffurf. Y mae y gair neu yr enw *vanawyt* i'w gael mewn pennill allan o'r *Gododin*, a thybia Mr. Silvan Evans y golygir wrtho y fan yr ymladdwyd y "vreithel" (brwydr) a nodir yn y llinell ei ceir ynddi. Tybia Skene mai ffurf arall ar *Manau*, ydyw, ac nid amgen na *Cath Manan Tichernac*, a *Bellum Contra Euboniam* yr hen Frut Cymreig, a ymladdwyd gan Aedan yn y flwyddyn 583. A gosodir fod Zeuss yn ei ystyried fel berf ffurfiedig o *ban* (uchel), eithr tybia Ab Ithel mai enw personol ydyw. Ymddengys mai "shaft" (picell) yw y gair a ddefnyddia y Dr. W. Owen Pughe am dano yn ei gyfieithiad Saesoneg o'r llinell.

Mewn cysylltiad â hyn, ceir nodi, gan yr ymddengys mai enw ar frwydr, neu'r fan yr ymladdwyd brwydr yw "gatraeth" y Gododin,* yn ol fel y mae yn ymddangos oddiwrth y llinell ddilynol allan o'r unrhyw,"—

**O vreithell gatraeth pan adroddir.**

* *The Four Ancient Books of Wales*, Skene, Cyf. ii., tu dal. 63.

Ymddengys hefyd mai enw ar frwydr neu y fan yr ymladdwyd y frwydr, neu y "vreithel vanawyt" yw "van-awyt" yn y cysylltiad hwn. Ond wele y pennill lle ei ceir:—

KAEAWC kynnivyat kywlat erwyt.
Ruthyr eryr en ebyr pan llithywyt.
E amot a vu not a gatwyt.
Gwell a wnaeth e aruaeth ny gilywyt.
Rac bedin ododin odechwyt.
Hyder gymhell ar vreithel vanawyt.
Ny nodi nac ysgeth nac ysgwyt.
Ny ellir anet ry vaethpwyt
Rac ergyt catvannan catwyt.

Ond i adael hyn fel yna yn awr, y mae yn ddigon eglur y ceir *Manawyd* fel enw personol yn y llinell olaf o'r tair canlynol, a gymerwyd yma allan o Gerdd "Am Veib Llyr Ab Brochwel Powys," fel eu ceir yn y *Myf. Arch.*, arg. MDCCCLXX., tu dal. 57—8:

Ys cyweir fy nghadeir ynghaer sidi
Nis plawdd haint a henaint a fo yndi
Ys gwyr Manawyd a Phryderi.

Ond pwy tybed ydyw y Manawyd hwn, a hefyd pwy ei gydymaith Pryderi yn y gerdd? Am yr olaf, dichon mai Pryderi ab y Pwyll ydyw, canys yn y gerdd a elwir "Preiddiau Annwfn," ceir y ddwy linell ganlynol:

Bu kyweir karchar gweir yghaer sidi
Trwy ebostol pwyll a phryderi.

Eithr am bwy yw Manawyd, yr ydys eto mewn caddug. Dywed Skene yn ei *Four Ancient Books of Wales*, mai o Manau (Manaw) y daw y gair Manawyd, ac mai oddiwrth Manawyd y daw yr enw personol, Manawydan, ac fod Manawydan yn Gymraeg, a Mannanan yn y Wyddelaeg, yn enwau cyfystyr. Dichon hyn fod, ond y mae Manawyd yn enw personol yn ogystal a Manawydan, pa un bynag a olygir hyny gan Skene yn ei sylw ai ni wneir. Yn Ystori Kilhwch ac Olwen, neu y Twrch Trwyth, yn y Mabinogion, ceir "amamwydan m. llyr," sef, a Manawydan, neu a Mamawydan mab Llyr. Yn nyfyniad Skene allan o draethodyn cywrain yn yr ysgriflyfr Gwyddelig, Llyfr Melyn Lecan (*The Four Ancient Books of Wales*, cyf. i., tu dal. 78—9), ceir crybwyllion am Manandan mac Alloit, Manannan mac Cérp, Manannan mac Lir, a Manandan mac Atgnai. Nid annhebyg nad Manawydan neu Mamawydan mab Llyr y Mabinogion, yw y crybwylledig Manannan mac Lir. Ac yn y dyfyniad y cyfeiriwyd ato fe'i gosodir yn fasnachydd clodfawr rhwng Erin a'r Alban, a Manan, a'i fod yn Dderwydd, a'r mordwywr goreu a fynychai Erin; yr arferai wybod trwy wyddoniaeth wrth sylwi ar y wybren yr amser y parhâi yr hin yn dawel, ac y parhâi y dymhestl. Ac felly yr Ysgotiaid a'r Brutaniaid a'i galwent yn dduw y môr, ac addolid ef gan y cenedloedd yn ol fel yr ymffurfiai mewn llawer dull ymysg y gwahanol giwdodau.

Dywed Skene fod hanes y Manannan mac Llyr i'w gael bron yn yr un geiriau yn Egluriadur Cormac, ac ei gwneir gan draddodiadau Gwyddelig eraill yr un â Manannan Mac Alloid, megys yn y pennill mewn hen gerdd Wyddelig i'r ystyr yma:—

Manannan fab Llyr, oddiwrth y Llyn,
  Llawer brwydr ymladdodd;
Oirsben oedd ei enw; wedi buddugoliaethau
  Gannoedd, o farwolaeth y bu farw.*

Ond pa un bynag ai fel un ai fel dau berson gwahanol y dylent gael eu golygu, y mae y tarddiad chwedlonol neu y chwedl allan o'r crybwylledig *Lyfr Melyn Lecan* yn eu dangos megys yn ddau. Ac am Manannan mac Alloid, dywed ei fod yn Dderwydd o'r Tuath De Danann, ac mai yn amser y Tuath De Danann yr oesai, mai Oirsben yn sicr ydoedd ei gyfenw; mai efe ydoedd y Manannan hwnw oedd yn Aran, ac mai oddiwrtho ef ei galwyd yn Eambain Ablach; mai efe ydoedd yr hwn a laddwyd yn mrwydr Cuilleann gan Uillean Abradhruadh, fab Caithir, fab Nuadad y llaw arian, yn amddiffyniad penaduriaeth Connaught; a phan agorwyd ei feddrod, mai yno y tarddodd Loch Oirsben allan dros y wlad, fel mai oddiwrtho ef yr enwyd Loch (Llyn) Oirsben; ac mai efe ydoedd y Manannan cyntaf.

Yn ol y traddodiad neu y chwedl grybwylledig, fel y dangoswyd eisoes, un o'r Tuath neu'r Tuatha De Danann, ydoedd y Manannan mac Alloit, neu Alloid a nodwyd, ac os cywir y tarddiad Gwyddelig yn hanes y Werddon gan Keating, am giwdodiad y Tuatha De Danannan, yr ydoedd y gŵr hwn yn un o'r Cymry. Canys dangosir ynddo mai hil Seara oeddynt y Tuatha De Dananniaid, a disgynyddion o Magog ab Japheth. Ac yn yr hanes hwnw mynegir oddiar awdurdod Charles Mac Cuillenan yn ei *Psalter Cashel*, y disgyna y Cymry o Briotan Maol, yr hwn y mae yn ymddangos a osodir allan yn yr unrhyw hanes fel disgynydd o'r un Magog.

Yn awr ai Prydain ab Aedd Mawr ydyw y Briotan Maol† hwn? A gadael heibio fanylrwydd enwol, gellir nodi fod rhyw gymaint o debygolrwydd ffurf a sain cydrhwng yr enwau â'u gilydd. A chan y dengys traddodiad neu chwedloniaeth y preswyliai hil Magog yn yr ynys hon, ac yr hònir hefyd gan hen draddodiad neu chwedloniaeth ddarfod i ryfel gymeryd lle rhwng Brutus a'r Cewri, ac am orchfygiad Gogmagog gan Corineus, ceir trwy hyn eiliw o debygolrwydd ddyfod rhyw gyfran o Droianiaid Brutus, neu ddisgynyddion o honynt, i'r ynys hon, pa fodd bynag am y gŵr ei hun. A rhydd hyn hefyd le i ddyfaliad mai at bobl a'u hymladdau, ac nid at wrthddrychau meirwon, neu ddiwylliant tirol, neu foesol, y cyfeiria y chwedl. A chan y ceir yr enw Gogmagog ynglŷn â'r unrhyw, nid rhy annhebyg ydyw fod rhai o hil Magog yn dwyn perthynas â hi ymysg y pleidiau gelynol y cyfeirir atynt. Ond y mae yr honiad traddodiadol neu chwedlonol yn yr Hanes crybwylledig gan Keating am ddisgyniad y Cymry o Magog yn groes i ddysgeidiaeth y genedl.

Ond i adael heibio yr honiadau traddodiadol neu chwedlonol hyn o barth Brutus a disgyniad achyddol y Cymry gydag ond ychydig grybwylliadau, ceir yn nesaf osod ger bron y llinellau dilynol allan o hen

* Cymerwyd y pennill uchod o un Saesoneg.

† Ond gesyd Edward Lluyd (Llwyd) fod "*Maol* [Maodhol]" yn Ysgotaeg-Wyddelaeg yn golygu *gwas*, ac felly ni chyd-dery yr ystyr hwn â'r dynodiad o *Mawr* mewn cysylltiad â Prydain ab Aedd Mawr.

gerdd* lle y mae yr enwau personol *Manawydan* a *Mynawyd* i'w cael yn y ffurf sillebol o *Manawidan* a *Manauid*:—

Manawidan ab llyr.
Oet duis y cusil.
Neustuc manauid
Eis tull o trywruid.

Neu mewn Cymraeg diweddar:—

Manawydan, fab Llyr,
Dyfn oedd ei gyngor.
Onis dug Manawyd
Darianau tyllog o Trywruid?

A ydys i ddeall mai dau berson gwahanol ydyw "Manawidan ab llyr" a "Manauid" y llinellau hyn? Tebygol ein bod. Ac yn ol rhediad yr hen gerdd y cymerwyd hwy allan o honi, yr oeddynt yn byw yn amser yr enwog frenin Arthur. Eto, er y sonir fel hyn am Manawyd ac eraill o enwau cyff berthynasol, nid ydys yma yn gallu hunanu yr un o honynt â Mynawyd y Nant Mynawyd a grybwyllwyd. Er hyny yr ydys wrth eu dwyn ger bron yn cael y fantais o'u gosod fel attegion i'r syniad a nodwyd mai dwyn enw personol y mae. Ond os ydys gywir yn hyn, pwy bynag ydoedd y gŵr a wisgai y cyfryw enw yn y cysylltiad hwn, neu pa beth bynag a fu ei helynt, ymddengys y rhaid aros ar y wybodaeth neu y casgliad ei fod yn ddigon nodedig i osod ei enw fel un o ddynodiadau lleol yr ardal. Ac hefyd, os oesai yn y cyfnod terfysglyd a gwaedlyd a nodwyd a fu ar Wynedd, mewn cysylltiad â'r ymladd crybwylledig rhwng y Gwyddelod, neu y Llychlyniaid a'r Gwyddelod, &c., â'r Cymry, y mae yn rhy anhawdd penderfynu pa un ai Cymro ai un o'r ciwdodau gelynol ydoedd, neu ynte gyda pha blaid y trigianai. Eithr os oesai yn y cyfnod y cyfeirir ato, yr oedd hyny yn y burned neu y chweched ganrif. Ond bu helyntion blin rhwng y Cymry a'r Gwyddelod mewn rhanau o Wynedd yn ddiweddarach.

Hellach dygwn ymlaen yr enw lleol arall a nodir yn y penawd, sef "Afon Fatha." Ond wrth wneyd hyny y mae yn briodol nodi fod yr absennoldeb o *Mynawyd* ymysg enwau personol y Cymry yn awr, yn rhoddi gwell hawl iddo i gael ei osod yn y cyfnod crybwylledig nag i Fatha, a geir mewn cysylltiad âg afon Fatha. Canys dichon nad yw namyn ffurf ar *Mathew*, enw neu gyfenw ag sydd yn cael ei ddefnyddio weithiau yn Nghymru yn awr. Ac o ran hyny gelwir "Pont Fathew" yn bresennol ar y bont sydd yn croesi yr afon dan sylw wrth Fryn Crug. Ond o'r tu arall, gan yr ymddengys fod yr enw *Math* neu *Fatha* i'w gael ar un o elynion y Cymry, ac nas ceir y cyfryw enw yn nghrybwyllion traddodiadol y Cymry ar un o honynt hwy eu hunain a oesai ar y pryd, rhydd hyn radd o sail i'w ddyfalu fel un o'r gelynion hyny. Ac hefyd gan nad yw yn ymddangos fod na hanes na thraddodiad yn mynegu pwy yn benodol oedd y gŵr sydd â'i enw ar yr afon, y mae hyn eto yn hytrach yn bleidiol. Ond o'r tu arall, gan, fe allai, y gwisgwyd y cyfryw enw gan rai o Gymry y cyfnod, nid yw yn ddiogel ei restru fel un o'r gelynion hyny. Ac heblaw hyn, gan nad oes brawf nad oddiwrth un o Gymry cyfnod diweddarach y cafodd

* *The Four Ancient Books of Wales.* Cyf. II., tu dal. 51.

yr afon ei henw, y mae ei dynodiad o gymaint a hyn o wanach hawl i henafiaeth enwol na *Mynawyd* yn nghysylltiad â *Nant Mynawyd*. Modd bynag, wedi gosod y gwahanol ochrau hyn yn lled deg ger bron, awn yn awr ymlaen gyda'n sylwadau.

Yn nghanol cymaint o ansicrwydd, y mae yn ymddangos yn debyg mai dynodiad personol sydd ar yr afon hon—Afon Fatha. Rhed ymlaen ar ei thaith o dan Bont Fatha, a heibio i bentref Bryn Crug, pa un sydd yn nghymydogaeth Tywyn, Meirionydd. Gwelir oddiwrth a nodwyd nad ydys yn gallu penderfynu pwy oedd y gŵr sydd â'i enw ar yr afon dan sylw; ond gan y dyga enw hafal i un ag y cyfeirir ato mewn hen farddoniaeth, ac y ceir hefyd y cyfryw enw mewn rhyddiaeth sydd ar gof a chadw, dygir ei henw i sylw fel hyn ar ei bwys. Un rhyddiaeth y cyfeirir ato, yw y Man-gofion yn Ysgrifau Iolo,* ac yno y ceir y fath enw a Math ap Mathonwy, lle hefyd ei gosodir yn dal perthynas âch-linellol â rhai o benaethiaid y ciwdodau Gwyddelig a Llychlynig, &c., ag oeddynt elynion y Cymry yn y cyfnod a nodwyd—y bummed neu y chweched ganrif. Ac ym Mabinogi Math ab Mathonwy, fe'i dangosir yn arglwydd Meirionydd, ac yn berthynas a chydoesydd â Gwydion ab Don. Gesyd y Trioedd hwy hefyd fel yn gydoeswyr, a nodir ynddynt† ddarfod i'r blaenaf (Math) ddysgu "Hut" i'r llall. Ond rhy brin y gellir edrych ar y gosodiad ei fod yn addysgwr i Gwydion, yn cyfateb i'r âch-linell yn y Man-Gofion, gan ei gosodir yno fel ŵyr iddo. Dichon y golygir gan awdwr y llinellau dilynol yr oesai Math yn myw Gwydion, ond gydag Eunydd y mae yn ei gysylltu fel gweithredydd. Eithr fe allai y gesyd ynddynt fod y ddau y cyfeirir atynt gyntaf yma, yn rhai medrus gyda'r Hudlath, ac fel rhai a arferent hudoliaeth yn yr un oes â'u gilydd. Ond wele y llinellau mewn dwy ffurf, y flaenaf allan o'r *Four Ancient Books of Wales* (cyf. ii., tu dal. 200), a'r llall o'r *Myf. Arch* (MDCCCLXX., tu dal. 60):—

*(a.)* Math ac ennyd hutwyt gelwyd ryd eluinor,
Y myw gwytyon ac amaethon, at oed kyghor.

*(b.)* Math ag Eunydd
Hudwyd gelfydd
Rydd elfinor
Ym myw Gwydion
Ac Amaethon
Atoedd cynghor.

Yn tu dal. 303 o'r ail gyfrol o lyfr Skene, ceir y llinellau dilynol, lle yr ymddengys fod yr unrhyw Math (Fath) yn cael ei alw yn "uathheu" (Fathew), yn yr ail o honynt:—

Neu bum gan wŷr keluydon.
Gan nathheu gan gouannon.
Gan eunyd gan elestron.
Ry ganhymdeith achwysson.
Blwydyn ygkaer gofannon.

Yn y *Myf. Arch.* (tu dal. 34), "Emnyd" ac nid "eunyd" yw y ffurf a geir ar yr enw. Ond yn ngodreu'r ddalen, fel darlleniad arall, ceir

* *Iolo MSS.*, tu dal. 81. † *Myf. Arch.*, MDCCCLXX., tu dal. 390 a 480.

"Ieuuyd—iewydd." Eithr wele y llinellau hyny yn ol y llyfr crybwylledig, ac y mae yr enw yn y drydedd linell o honynt:—

Neu bum gan uyr kelydon
Gan Vatheu gan Govannon
Gan Emnyd gan Elestron
Ry ganhymdeith achuysson
Blwydyn yg Kaer Govannon.

Ond cymerir yma mai y ffurf o "eunyd," neu yn ol dull diweddarach, *Eunydd*, sydd gywir. Ac oddiwrth y ffurf enwol hwn gellir nodi fod annedd o'r enw Bron, neu Fron Eunydd, yn nghymydogaeth Afon Fatha, eithr ei bod ar y tir gwrthgyferbyniol iddi, i Afon Dysyni. Ba gynt, tua mangre yr annedd hon, dyddyn—yn awr yn unedig â thyddyn arall—yn dwyn yr unrhyw enw, a diammeu iddo ei gael yn herwydd rhyw berson neu gilydd a'i gwisgai. Ond dichon fod *Eunydd* yn enw rhy gyffredin yr amser aeth heibio i'w briodoli i'r gŵr y cafodd y Fron (Bron Eunydd) ei dynodiad oddiwrtho. Modd bynag, y mae y fath gyd-darawiad enwol, heblaw agosrwydd lleol yr afon a'r annedd i'w gilydd, rhwng "uatheu" (Fathew) ac "eunyd" (Eunydd) y gerdd, fel ag i ganiatâu y crybwylliad, ac fe allai mai yr un ydynt.

R. PRYS MORRIS.

*Dolgellau.*

---

# Y SABBOTH.

SABBOTH anwyl! arnat ti
Cysgod Nef a deifl ei hun;
Fel pe bae ei gorchudd hi
Yn agored, fel y bo i ddyn
Deimlo chwäon balmaidd byw,
O serchiadau calon Duw.

Yn dy wynfyd dwyfol pur,
Gwena crefydd wrth ei bodd;
Yn wellhad daearol gur
Dyry 'n hael ysbrydol nodd:
Ysbryd Duw yn t'wynu hedd
Adlewyrcha ar dy wedd.

Trem dy lygaid sanctaidd glan
Lleddfa 'n llafur oll i gyd;
A dyrchefir môr o gân
I'th glodfori dros y byd,
Dŷn y Nef i'n daear ni
I gusanu 'i hangen hi.

Llaw Trugaredd dyner sydd
Yn dy wisgo gyda swyn;
Ysbrydola lygad ffydd,
Gloewa yn dy wyddfod mwyn:
O mae Nef ei hun mewn bri
Sabboth anwyl, ynot ti!

GLASWYRON.

*Port Dinorwic.*

# ANFFYDDLONDEB ATHRAWON.

Mae yn amlwg mai un o'r sefydliadau mwyaf bendithiol ag y cafodd Cymru ei breintio â hwy erioed ydyw yr Ysgol Sabbothol. Mae y lles a dderbyniwyd trwy y sefydliad hwn wedi bod yn anmhrisiadwy. Naturiol ydyw fod ei enw yn boblogaidd, parchus, ac anwyl gan y werin Gymreig yn gyffredinol. Dyma y sefydliad a fu yn gareg sylfaen i fawredd rhai o gymeriadau gloewaf a goreu ein hanwyl wlad. Priodol iawn, gan hyny, y galwyd hi yn "Athrofa y dyn tlawd." Ni fu erioed enw mwy cymhwys ar unrhyw sefydliad.

Ond fel ag y mae i bob cyfundrefn a chymdeithas ddynol ei pheryglon a'i hanhawsderau, y rhai a fygythiant ei niweidio a bwyta ei nerth, felly hefyd y mae i'r Ysgol Sabbothol. Er ardderchoced ei neges a'i hamcan, ac er y gorchestion deallol a moesol a gyflawnodd yn y gorphenol, y mae iddi ei pheryglon neillduol. Ac nid y lleiaf o'r cyfryw, mewn unrhyw fodd, ydyw anffyddlondeb yn ei hathrawon.

Mae anffyddlondeb gydag unrhyw achos yn tybied ac yn cynnwys dau beth : sef diffyg brwdfrydedd a phybyrwch yn mhlaid yr achos—yr hyn yn naturiol a genedla oerni a difaterwch yn y fynwes o barthed iddo ; ac hefyd anghysondeb ac afreoleidd-dra yn yr ymddygiad, sydd yn anocheladwy yn dilyn teimlad difater. Felly rhaid fod pwnc ein hysgrif yn meddu ar bwysigrwydd neillduol. Nid rhywbeth "diddrwg di-dda" ydyw anffyddlondeb, yn ei wreiddyn, ei dyfiant, na'i ffrwyth ; ond yn hytrach, mae yn gyfryw ag sydd yn foddion i roddi bodolaeth i effeithiau o'r fath fwyaf pwysig a difrifol.

Mae anffyddlondeb yn doriad ar ddeddf sydd yn ffurfio asgwrn cefn pob cymdeithas flodeuog, lewyrchus, ac iachus ; ac y mae tori deddf, bob amser, yn sicr o ddwyn canlyniadau anhyfryd. Beth pe tybiem fod deddfau natur yn gweithredu mor anghyson ag y ceir llawer o aelodau ymhob cymdeithas ddynol ? Beth a ddywedem am lysieuyn, neu goeden, yn tyfu ac yn peidio tyfu, bob yn ail ddydd neu wythnos ? Beth a feddyliem am yr haul yn gwneyd dydd a nos, haf a gauaf, wrth fympwy, heb un reol; yn gwneyd haf pan mewn tymher fywiog a hoew, a gauaf pan mewn tymher ddrwg ? Y fath ganlyniadau difrifol a gymerent le fel ffrwyth y fath anghysondeb yn nghwrs gweithrediadau natur! Yr ydym yn crybwyll y pethau hyn er dangos yr hyn sydd yn rhwym o gymeryd lle fel canlyniad i weithrediadau oriog ac anghyson ynglŷn âg unrhyw beth.

Y mae yn hen sylw fod gweithredoedd dynion yn ymdaenu ymhell iawn o ran eu heffeithiau oddiwrth y neb a'u cyflawnodd. Er egluro y gwirionedd hwn, mynych y cymherir hwynt i dafliad careg i lyn o ddwfr llonydd, yr hyn a bâr i gylch bychan grychu ar wyneb y dwfr, a chylch arall drachefn, ac un arall eangach wedyn, nes cyrhaedd o'r cylchoedd hyn yn y diwedd i ymylau pellaf y llyn. Dichon nad anmhriodol i ninnau fenthyca yr unrhyw gymhariaeth wrth ymdrin â gwaith yr athraw yn yr Ysgol Sul. Mae gan ei ymddygiad ddylanwad ofnadwy bwysig. Gellir dyweyd fod gan ei ymddygiad fel athraw

ddylanwad pedwarplyg: sef arno ef ei hun; ar ei ddosbarth; ar yr Ysgol; ac ar grefydd yn gyffredinol.

Yn awr, o barthed i ddylanwad ffyddlondeb neu anffyddlondeb yr athraw *arno ef ei hun*, gellir dywedyd nad oes yr un ffaith yn fwy eglur na bod llwyddiant unrhyw ymgais neu orchwyl yn dibynu, i fesur mawr, ar yr egni, yr ymdrech, a'r cysondeb gyda pha rai yr ymdeflir i'r gwaith. "Llaw y diwyd a gyfoethoga," medd yr Ysgrythyr, ac y mae hyn yn wir ymhob ystyr. Y mae yn wir mewn ystyr arbenig ynglŷn â gwaith yr athraw yn yr Ysgol Sabbothol. Am yr athraw diog, swrth, ac anghyson yn ei gyflawniadau, y mae, o angenrheidrwydd, yn anhwyluso ac yn anghymhwyso ei hun fwyfwy i'w waith. Mae ei arf yn myned yn rhydlyd a di-fin. Y mae yn colli y blâs hwnw a ddylai fod ganddo at ei orchwyl; mae ei gydymdeimlad â'i ddyledswyddau yn myned yn brinach brinach yn barhaus. Wrth reswm, mae yn angenrheidiol cael calon wresog, yn gystal a phen goleu, er cyflawni dyledswyddau athraw yn briodol; ac y mae yr athraw esgeulus ac anffyddlon nid yn unig yn gwneyd niwed i ddadblygiad ei ddeall ei hun, ond gwaeth na hyny, y mae yn graddol golli y teimlad, y zel, a'r brwdfrydedd a ddylent fod yn ei galon ar ran llwyddiant amcanion mawrion y sefydliad.

Cyn myned ymhellach, teg ydyw i ni grybwyll ein bod yn cymeryd y gair "anffyddlondeb" yn ei ystyr letaf a dyfnaf. Nid ein golygiad ydyw mai yr unig ffordd i athraw fod yn anffyddlawn ydyw trwy absenoli ei hun, yn awr ac eilwaith, o'i ddosbarth. Yr ydym yn cymeryd golwg llawer eangach na hyny ar ein testun. Mae yn bosibl ddigon, dybygem, i athraw fod yn bur gyson yn ei ddosbarth, ac eto fod yn gwbl anffyddlawn yn nghyflawniad ei waith. Yn wir, credwn fod nifer lluosocach o lawer o'n hathrawon yn anffyddlawn mewn ystyriaethau ereill nag sydd felly o ran rhoddi eu presennoldeb yn yr Ysgol. Onid llawer a roddant bob Sul bresennoldeb eu *cyrff* yn yr Ysgol, ond ymha le y mae *hysbrydoedd*, wys? Nid ydynt yn dyfod i'r Ysgol â'u harfau yn loewon, ac wedi parotoi yn ystod yr wythnos ar ei chyfer. Nid ymddangosant fel rhai wedi bod yn arlwyo gwleddoedd ar gyfer eu dosbarthiadau, ac yn ceisio astudio ansawdd eu meddyliau a chyflwr eu calonau. Yn wir, tybiwn mai hyn wedi'r cyfan sydd yn cyfansoddi yr anffyddlondeb *mawr*.

Soniasom am y niweidiau a ddeilliant oddiwrth anffyddlondeb ar ran athraw fel yn bedwarplygiol; ond rhaid i ni gofio fod cysylltiad agos iawn rhwng y plygion hyn â'u gilydd. Er engraifft, mae yr athraw diofal, llac, ac anghyson, nid yn unig yn niweidio ei hun, ond hefyd, drwy yr un act neu actau ag y mae yn effeithio yn niweidiol arno ef ei hun, ei fod yn parlysu bywyd iachus *ei ddosbarth*. Bydd i'r dosbarth, ond odid, gyfranogi yn bur fuan o syrthni a difaterwch eu hathraw. Os gwel y dosbarth mai peth dibwys gan yr athraw fod yn absennol o'u plith, byddant hwythau yn dra thebyg o'i efelychu. Os canfyddant mai cyfyng ydyw cylch amgyffrediad ysgrythyrol eu hathraw, ni byddant yn debyg o lafurio llawer yn ystod yr wythnos er dyfod i fyny â'i safon. Os canfyddant nad ydyw ysbryd eu hathraw wedi ei drwytho a'i lefeinio yn ddwys gan athrawiaethau bywiol y Bibl, ond ei fod yn trin y cyfryw mewn ysgafnder a chellwair, gobaith gwan fydd iddynt

dderbyn unrhyw oleuni ac addysg ysbrydol o dan ei arweiniad. Yn wir, pan ystyriom yr hyn ydyw gwir safle a gallu yr athraw yn yr Ysgol Sul, nis gallwn lai na chanfod ar unwaith mai enaid ac ammod ei lwyddiant ydyw ei ffyddlondeb ef ei hun.

Mae gan yr ysgolfeistr yn yr Ysgol Ddyddiol lawer mwy o adnoddau i bwyso arnynt er hwylysu ei waith nag sydd gan athraw yn yr Ysgol Sabbothol. Mae grym y wïalen, a braich gref y llywodraeth wladol, yn attegu dylanwad yr ysgolfeistr, pe dygwyddai i bob moddion arall fethu. Ond am yr athraw yn yr Ysgol Sul, grym *moesol* ydyw yr unig un a all gynnal ei freichiau ef; nid oes ganddo un gallu arall y tu cefn iddo. Os metha ei gariad, ei hunanymwadiad, a'i zel lywodraethu ac arwain ei ddosbarth, ni fydd ganddo un gallu arall i syrthio yn ol arno.

Yn wyneb yr ystyriaethau hyn a'u cyffelyb, nis gallwn lai na chanfod fod ymddygiad athraw diofal ac anffyddlon yn dra sicr o esgor ar ganlyniadau alaethus iawn.

Pan gofiom hefyd am nodweddion yr oes yr ydym yn byw ynddi,—am ei themtasiynau deniadol a chryfion i'r ieuanc dibrofiad, ac am yr athrawiaethau ammheus a ledaenir ynddi, &c., nis gallwn lai na theimlo i'r byw bwysigrwydd gwaith yr athraw yn yr Ysgol Sul. Nis gall byth gymeryd gormod o boen a thrafferth er gwreiddio meddyliau a chalonau aelodau ei ddosbarth yn athrawiaethau mawrion yr Hen Lyfr, ac er eu hyfforddi yn llwybrau rhinwedd mewn oes mor derfysglyd a drwg.

Sonir cryn lawer am addysg yn yr oes hon, ac am godi y safon yn ein gwahanol sefydliadau addysgawl. I'n bryd ni, dylid ar bob cyfrif godi y safon hefyd yn yr Ysgolion Sabbothol, yn gymaint â'u bod yn y dyddiau gynt yn gorfod cyfranu addysg *elfenol*, yn gystal âg un athrawiaethol a moesol. Erbyn hyn mae yr ysgolion dyddiol wedi dyfod mor gyffredin, fel nad esgeulusir yn hollol addysg elfenol unrhyw blentyn pa bynag, yn enwedig yn yr iaith Saesoneg. Yn ngwyneb y ffaith hon, gellid meddwl y dylai ein Hysgolion Sul godi yn eu safon, gan fod y plant yn gallu darllen yn rhugl a rhwydd ar bwys yr addysg a gyfrenir iddynt yn yr ysgolion elfenol. Ond beth ydyw y ffaith? Rhaid cydnabod fod safon yr Ysgol Sul mewn llawer man braidd yn is nag y bu erioed. Mae yr "oes oleu hon," yn dywyllach o lawer na'r oes o'r blaen o ran ei gwybodaeth yn "nyfnion bethau Duw." Gwyddom am hen wŷr a hen wragedd yn ngwahanol barthau ein Tywysogaeth fechan a allant adrodd o'u cof salmau, efengylau, ac epistolau cyfain, ac esbonio eu cynnwysiad hefyd, tra y mae llawer o feibion a gwyryfon yr oes hon yn myned yn fwy dyeithr beunydd i'w Bibl. Hefyd, y mae naws y gwirioneddau ag y maent mor adnabyddus â hwy ar brofiadau, a'u hargraff amlwg ar fucheddau yr hen gymeriadau y cyfeiriwn atynt, tra, ysywaeth, mai'r gwrthwyneb i hyn sydd wir am lïaws o'r tô ieuanc. Os bydd y pen yn ddyeithr i gynnwysiad llyfr Duw, y canlyniad naturiol ydyw na bydd delw Awdwr y llyfr yn cael ei hadlewyrchu yn ansawdd y galon a ffurf y fuchedd.

Wedi crybwyll y pethau hyn, ein gofyniad naturiol ydyw, A oes rhywbeth a wnelo athrawon yr Ysgol Sul yn yr oes hon â'r dirywiad amlwg sydd wedi cymeryd lle yn yr hen sefydliad ardderchog? A ydyw athrawon yr oes hon yn ol mewn llafur a dyhewyd crefyddol i athrawon yr oes o'r blaen?

[illegible] athraw [illegible] yn [illegible]ywyddu ac yn arwain ei ddisgyblion [illegible] yn gam neu yn gywir. Os ydyw [illegible] a [illegible], nid oes dim yn fwy naturiol i [illegible] athraw. A ydyw ef yn ymorol ei [illegible]? A ydyw yn ei egluro yn ddeall[illegible] yn peidio eu harwain i [illegible] cysylltiedig â'r Ysgrythyr [illegible] y gair cysegrlan yn eu cof a'u calon [illegible] uchod a'u cyffelyb, beiddiwn [illegible] a phendant o athraw anffyddlawn [illegible]

[illegible] athraw yn yr Ysgol Sul yn [illegible] a bâr iddo wneyd ei waith yn [illegible] naturiol ato, yn cael ei [illegible] hwn ar y mater, dichon [illegible] athraw da,—un a [illegible] "yn bobpeth i bawb," fel yr [illegible] ar y mater, o bwys [illegible], lawer pryd, ydyw un yr [illegible] neu ieuenctyd gwamal a [illegible] yn afreolus a [illegible] yr athraw i'r man pell [illegible] rhag bod yn sarug [illegible] yn y cyfeiriad hwn drachefn [illegible] o darfu rhai o'r [illegible] a dichon na ddeall[illegible]

[illegible] dosbaid yr Ysgol [illegible]—yr ieuenctyd [illegible] yr ysbrydoedd," a [illegible] yn eu dyrysu [illegible] â hwynt, a [illegible] yn dra thebyg o'r [illegible] athrawon [illegible] yn fodlon i [illegible] i drenio eu [illegible] athraw [illegible]

[illegible] athraw [illegible] anffyddlawn [illegible] yn y wmlen [illegible]

[illegible]

pharod i'w waith. Mae adeg cynnaliad yr Ysgol yn rhy fèr ac anaml i'r dysgybl wneyd rhyw gynnydd mawr yn ei wybodaeth dduwinyddol yn ystod oriau yr Ysgol yn unig. Mewn gwirionedd, lle i *ddeffro* yr ymadferthoedd meddyliol, a rhoddi cyfeiriad priodol iddynt i weithredu ydyw yr Ysgol Sabbothol, lle i ddysgu y dyn ieuanc i feddwl drosto ei hun am bethau y byd ysbrydol.

Gall athraw da *awgrymu* digon o bethau mewn ychydig amser fel ag i roddi gwaith i'r dysgybl feddwl drosto ei hun ar y pethau hyny yn ystod yr wythnos ddyfodol. Yn awr, onid ydyw ymddygiad yr athraw anffyddlawn yn angharedig dros ben? Dichon iddo lwyddo ar dro neillduol i ennill sylw manwl ei ddysgyblion at bwnc neillduol, a chynhyrfu cryn lawer ar eu cywreinrwydd ymchwiliadol. Ond, o ddiffyg amser neu rywbeth, dichon y gohirir yr ymdriniaeth â'r pwnc dan sylw hyd y Sul dyfodol. Pan ddaw y Sul hwnw, hwyrach y bydd yr athraw diofal yn absennol; neu os bydd yn bresennol, y tebygolrwydd ydyw na fydd wedi darllen na meddwl dim yn rhagor ar y mater. Fel hyn, caiff yr ymchwilwyr ieuainc eu siomi yn enbyd; toflir dwfr oer ar eu holl obeithion a'u rhagddysgwyliadau. Caiff eu meddyliau ieuainc eu crebychu a'u newynu, o ran yr athraw, yn lle eu diwallu â "didwyll laeth y Gair." Ac y mae yn bosibl na lwydda un athrawiaeth Ysgrythyrol i gyffroi eu hawyddfryd ymchwiliadol i'r fath raddau byth ond hyny. "Gobaith a oeder a wanhâ y galon." Nid oes ddadl yn ein meddwl nad oes engreifftiau o'r fath yma yn dygwydd yn fynych iawn yn Ysgolion Sul "gwlad y breintiau mawrion."

Mae athrawon diog, anghyson, ac aflêr, yn bwyta nerth deallol a moesol Ysgolion Sul ein gwlad, ac yn cenedlu yr un difaterwch yn eraill ag sydd wedi parlysu eu hanianawd hwy eu hunain. Yn lle magu to o feddylwyr clir, cedyrn yn yr Ysgrythyrau, o dan eu haden, meithrinant genedl o gorachod eiddilaidd. Mewn gair, mae y cyfryw athrawon yn falldod ac yn felldith i'n Hysgolion Sabbothol, ac i achos crefydd yn gyffredinol. Gwyn fyd na feddai ein Hysgolion ddigon o wroldeb moesol i daranu y gwir yn ddidderbyn wyneb wrth yr athrawon llesg a musgrell hyn, a dyweyd wrthynt, "Am nad ydych nac oer na brwd, ni a'ch chwydwn chwi allan o'n genau."

Hefyd, mae yr athraw anffyddlawn, trwy absennoli ei hun o'r Ysgol, yn gosod esiampl ddrwg o flaen yr *holl Ysgol*,—yn dangos yn eglur nad ydyw yn teimlo yn briodol bwysfawredd ei swydd, a thrwy hyny yn tueddu i gynnyrchu argraff ar feddyliau eraill nad ydyw o nemawr bwys pa un a ddeuir i'r Ysgol ai peidio. Ac y mae, drwy hyn, yn cynnyrchu syniadau afiachus yn marn a theimlad y gymydogaeth y preswylia ynddi, o berthynas i grefydd yn gyffredinol. Mae ei ymddygiad yn tueddu yn gryf at ddifwyno a lladd y teimlad o gysegredigrwydd a fodola yn mynwes pobl Cymru o barthed i bethau crefyddol. Hefyd y mae yn anhwyluso peirianwaith yr holl Ysgol, gan ei fod yn aelod mor bwysig o honi. Bydd yn rhaid cael athraw arall yn ei le yn ystod ei absennoldeb; ac, wrth reswm, bydd yr athraw hwnw, trwy ei ddiffyg adnabyddiaeth â dosbarth yr athraw esgeulus, yn llafurio o dan anfantais neillduol ymhob ystyr; a phrin y gellir dysgwyl iddo gymeryd yr un gafael a dyddordeb yn y dosbarth wrth ddyfod ar dro achlysurol i'w plith â phe buasai gyda hwynt yn gyson. Felly, bydd y dosbarth yn

*dyoddef* yn herwydd yr annhrefn. Nid mewn tybiaeth neu ddychymyg yn unig, ysywaeth, y bodola pethau annymunol fel hyn, ond y maent yn cymeryd lle yn wirioneddol yn Ysgolion Sul Cymru y naill Sabboth ar ol y llall.

Bron na ddywedem mai musgrellni, diffyg zel, a diffyg myfyrdod gweddigar ar ran ein hathrawon sydd yn cyfrif am y nifer amlaf o wendidau ein Hysgolion. I'n bryd ni, y mae gwaith yr athraw yn llawer pwysicach na gwaith yr arolygwr. O blith ein holl ddysgawdwyr, athrawon, a chynghorwyr crefyddol, nid ydym yn gwybod am neb sydd yn dyfod i gymundeb mor agos a phersonol â'r rhai y mae a wnelont â hwy âg y mae yr athraw yn ei ddosbarth yn yr Ysgol Sabbothol. Mae yr ymgom yn y cylch cyfyng hwn yn agos a chyfeillgar. Gall yr athraw, wrth gyflwyno ffrwyth ei fyfyrdod i sylw ei ddysgybl, ei ireiddio âg enaint serch ei fynwes ei hun i'r fath raddau fel y bydd yn dra sicr o gael tramwyfa ebrwydd i fewn i'w feddwl a'i galon ieuanc. Mae hyn yn fantais arbenig; ac os bydd i'r athraw ei dibrisio, ni bydd neb arall yn debyg o gael y gyfryw fantais ar ei ol.

Gan mai math o fagwrfa Gristionogol ydyw yr Ysgol Sabbothol, y mae anffyddlondeb ar ran ei hathrawon yn cael effaith niweidiol iawn ar *grefydd* y gymydogaeth. Mae lle i ofni nad ydyw gweinidogaeth yr efengyl—yn y wedd *athrawiaethol* arni—yn cael ei deall a'i mwynhau yn briodol yn yr oes hon, a hyny am y rheswm nad ydyw archwaeth ac amgyffredion lliaws y gwrandawyr yn gyfryw fel ag i'w hiawn brisio. Nid ydyw eu deall yn ddigon goleuedig i amgyffred ac olrhain ond pur ychydig o wirioneddau mawrion trefn cadwedigaeth pechadur! Mae safon y pulpud a safon deall y gwrandawyr yn rhy bell y naill oddiwrth y llall. Un o'r prif resymau sydd yn cyfrif am yr amryfusedd hwn ydyw nad yw yr Ysgol Sabbothol wedi cyflawni ei gwaith yn ddigon trwyadl ar ei deiliaid. Ac y mae yn ddilys genym, pe'd olrheinid y drwg hwn i'r gwraidd, y cawsid allan mai athrawon diog, anfedrus, ac anffyddlawn sydd yn cyfrif am ran helaeth o hono,—dynion ag ydynt yn treulio oriau yr Ysgol heibio heb deimlo fod ganddynt neges i'w chyflawni a chenadwri i'w thraethu wrth yr ieuenctyd a ymddiriedwyd i'w gofal. Y mae hyn yn profi y niwed a ddeillia oddiwrth ymddygiad athrawon esgeulus mewn goleuni clir a chyffredinol iawn. Mae yn un o'r agweddau gwaethaf ar ganlyniadau bywyd dilafur athraw esgeulus.

Wrth fyfyrio yn ddwys uwch ben y pwnc yn ngoleuni yr ystyriaethau uchod, argyhoeddir ni ar unwaith fod pwysigrwydd enfawr yn perthyn i waith yr athraw. Mae yn hau yr hyn fydd efe ei hun, yn gystal ag eraill, yn ei fedi mewn sefyllfa ddyfodol. Yn ddilys, mae canlyniadau drwg diofalwch yr athraw anffyddlawn yn gyfryw ag sydd yn llefain yn uchel yn nghlustiau pob athraw anonest ar iddo ymysgwyd o'i gysgadrwydd, ac ymaflyd o ddifrif yn nghyrn yr aradr yn awr, tra y pery ei dymmor gweithio. Mae ei safle yn wir bwysig, ei ddylanwad yn cyrhaedd ymhell, a bydd ei gyfrifoldeb i'w Arglwydd yn fawr pan elwir arno i roddi i fyny ei oruchwyliaeth.

J. MYFENYDD MORGAN.

*Abercannaid, Merthyr Tydfil.*

# CAU Y TAFARNAU AR Y SABBOTH A'R DDIRPRWYAETH FRENHINOL.

*The Welsh Sunday Closing Act. Lord Aberdare's Challenge to the Western Mail, "Is the Increase in Sunday Drunkenness in Wales real or apparent only?" With an Introduction by* W. LUSHINGTON STEPHEN, Esq., LL.B. Cardiff: Daniel Owen & Co.

*Evidence taken by the Royal Commission appointed to enquire into the working of the Sunday Closing Act,* 1881, *the effects of its enactments in regard to the Diminution or Increase of Intemperance, and to the Causes which have led to such Diminution or Increase.* Cardiff: Daniel Owen & Co.

I LAWER o'n cydwladwyr yr oedd clywed am yr ymosodiad cethin yn y Deheudir ar ein Deddf i Gau Tafarnau ar y Sabboth mor ddyeithrol ag a fuasai clywed taran yn tori mewn wybren glir. Yr oedd yr ymdrech i sicrhau y Ddeddf wedi bod mor gyffredinol, a'r profiad o'i llwyddiant ymhob man wedi peri cymaint o foddhad fel yr oedd yn dra hynod deall fod newyddiadur cyfrifol wedi ymgymeryd â phrofi ei bod yn gymaint methiant fel yr ydoedd yn gwneyd mwy o ddrwg nag o ddaioni, ac nad oedd un ymwared yn bosibl oddieithr ei llwyr ddileu. Ac yr oedd gweled bron yr holl bapyrau newyddion yn cyhoeddi fod y ddadl ar y mater yn derfynol, ac fod Arglwydd Aberdar wedi ei argyhoeddi yn gymaint ganddi fel nad allai bleidleisio yn erbyn diddymiad y Ddeddf, ond fod yn rhaid iddo er ei ofid gydnabod ei bod wedi ac yn gwneyd mwy o niwed nag o les, yn ychwanegu yn fwy fyth at ein syndod. Yr oedd y Philistiaid trwy yr holl deyrnas yn gorfoleddu; yr oedd llawer o bobl dda yn teimlo gofid a dwfn bryder; ond yr oedd lliaws mawr, wrth weled ymhob cyfeiriad y fath brofion sicr o lwyddiant yr Act, a chlywed y fath dystiolaeth dda iddi trwy Gymru oll, yn penderfynu yn dawel i aros nes i'r awel fyned heibio, gan deimlo yn hyderus y ceid, bob yn ronyn, ddealltwriaeth mwy clir ar y mater; a chredent hefyd fod yn anmhosibl fod trefniad ag y gwyddent ei fod trwy ein holl ardaloedd wedi profi yn gymaint bendith, wedi bod, fel y dywedai y *Western Mail*, yn "felldith i Gymru." Erbyn hyn dyma yr holl lythyrau ar y mater a ymddangosodd yn y newyddiadur hwnw wedi eu cyhoeddi gyda'u gilydd yn llyfr golygus, yr hwn sydd i'w gael am chwe' cheiniog; ac wedi i'r Llywodraeth, ar awgrymiad y *Western Mail*, yn raslawn apwyntio *Royal Commission* i chwilio i fewn i weithrediad yr Act, ac i'r Commissiwn hwnw fod ar waith am ryw wythnos yn gwneyd ei ymchwiliad, dyma yn awr adroddiad cyflawn o'r tystiolaethau a roddwyd o'i flaen wedi ei gyhoeddi yn llyfr tair-colofnog o yn agos i 80 o du dalenau, yr hwn sydd i'w gael am ddim ond dwy geiniog. Mae yn ymddangos ei fod yn ormod i'r Dirprwywyr allu gorphen eu gwaith

yn Mehefin, ac wedi eistedd am chwe' diwrnod eu bod wedi cymeryd seibiant hyd yr wythnos olaf yn Medi, pryd y dechreuant ar ei gwaith drachefn yn y Trallwm, gan ddyfod ymlaen, fel y gallant, i Wrexham, a Rhyl, a Ffestiniog, a Bangor, ac yna ddychwelyd i'r Deheudir i dderbyn unrhyw dystiolaethau ychwanegol a ddewiser osod ger eu bron yno. Ond yn y cyfamser, heblaw y tameidiau achlysurol a allasai ein cyrhaeddyd trwy y papyrau, dyma gyfleusdra rhagorol trwy y llyfrau rhadlawn hyn i ymgydnabyddu â'r holl ddadl, cyn belled ag y mae wedi ei chario hyd yma, ac felly i ymbarotoi gogyfer âg eisteddiadau terfynol y Dirprwywyr yn Medi a Hydref. Mae yn debyg y teimla llawer o'n darllenwyr ei fod megys "llosgi goleuni dydd," chwedl Falstaff, i gymeryd y fath anferth drafferth a chost gydag achos sydd i ymron bawb o honom mor amlwg fel nad oes lle i ddau feddwl yn ei gylch. Ond bydd yn gryn beth cael boddlonrwydd am wir werth y dadleuon a godid trwy y blynyddoedd yn erbyn yr Act. Ac yn enwedig, prin y gellid rhoddi gormod o bris ar y cyfleusdra a geir trwy y fath ymchwiliad i ddwyn i'r golwg ei diffygion, ac felly i weled pa gyfnewidiadau sydd yn angenrheidiol er ei gwneyd o'r lles mwyaf i'n hanwyl wlad. Nid ydyw mewn un modd yn beth newydd fod amcanion gelyniaethus yn cael eu goruwchreoli i ddwyn oddiamgylch ddybenion da. "Chwi a fwriadasoch ddrwg i'm herbyn; ond Duw a'i bwriadodd i ddaioni, i ddwyn i ben, fel y gwelir heddyw, i gadw yn fyw bobl lawer." Wedi pasio Deddf Forbes Mackenzie yn Scotland yn 1853, fe godwyd yno dirfawr ystwr mewn ffordd o haeru fod anghymedroldeb ac afreolaeth y wlad yn llawer mwy nag erioed o'r blaen, ac fod pobpeth yn galw am ei diddymu. Penodwyd *Royal Commission* i wneyd ymchwiliad yno, yr hwn a wnaeth ei adroddiad yn 1860, a chaed fod y tystiolaethau o bob cyfeiriad mor gryfion o blaid yr Act fel, o hyny hyd yn awr, "na symudodd ci ei dafod" i gyfarth yn ei herbyn, ac y byddai yn anmhosibl cael neb a ofynai am bleidlais fel ymgeisydd am aelodaeth seneddol ar y tir o fod yn wrthwynebydd iddi. Yr un modd wedi pasio Act gyffelyb yn Iwerddon yn 1878, nid oedd diffyg am lewion yno a godent eu llef yn groch yn erbyn y drygau y dywedid ei bod yn achosi, ac a waeddent am ei dileu fel melldith nad allai y wlad ymgynnal dani. Yn rhesymol iawn penodwyd *Parliamentary Select Committee* i wneyd ymchwiliad; ac wedi gwneyd hyny, gan dderbyn yn groesawus bob tystiolaethau oedd gan bawb i'w gosod ger eu bron, darfu i'r boneddigion a benodwyd wneyd eu hadroddiad dros flwyddyn yn ol; ond yn lle son am ddiddymu yr Act, dadganent yn unfrydol fod yr Iwerddon yn galw am ei gwneuthur yn ddeddf barhaus, a chymeryd o fewn cylch ei gweithrediad y pum' dinas a adewsid allan, ac estyn siwrnai sychedig y dyn ar ei daith, y *bona fide traveller*, i chwe' milldir, a chau y tafarnau nos Sadwrn trwy yr Iwerddon oll am naw o'r gloch. Ac er mor ddibris ydyw Mr. Balfour o lais y wlad hono ar bethau eraill, addefai fod ei llais yn y mater yma mor gryf fel na chollai, meddai, y cyfleusdra cyntaf a ddelai yn ei ffordd i basio mesur a gorfforai ei dymuniadau. A thra yr ydym yn ysgrifenu, gwelwn ei fod ef a Mr. Smith, er gwaethaf Mr. Cavendish Bentinck ac eraill, yn ymrwymo i wneyd eu goreu i basio yr Act cyn i'r eisteddiad hwn fyned heibio. Yr ydym yn hyderus mai

cyffelyb fydd canlyniad y cyrhwrf a godwyd yn Nghymru mewn perthynas i'n Deddf ragorol ninnau i Gau y Tafarnau ar ddydd yr Arglwydd, ac y teimlwn ar ol hyn yn ddiolchgar am wasanaeth ein cyfeillion—y gwrthwynebwyr.

Y mae enw un pendefig wedi ei ddwyn i gryn gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos hwn ag y mae yn dda genym gael y cyfleusdra yma i ddangos y cam gofidus a wnaed âg ef yn ngolwg ei gydwladwyr. Prin y mae angen dyweyd ein bod yn cyfeirio at Arglwydd Aberdar. Efe yn wir a fu yn foddion i ddwyn yr achos i sylw neillduol. Yr oedd y *Western Mail* wedi cymeryd ei le o'r dechreuad fel gwrthwynebydd penderfynol i'r Act, a byth a hefyd, yn ei ffordd ef, yn taranu yn ei herbyn. Ond prin yr oedd neb yn malio am ei wrthwynebiad, ac oddiallan i'w gylch bach ei hunan, prin yr oedd ei daranau i'w clywed. O'r diwedd fe gyhoeddodd erthygl yn yr hon yr ydoedd wedi casglu ynghyd ffigyrau a ddangosent fod meddwdod ar y Sabboth yn Nghymru wedi dirfawr gynnyddu; a chan y priodolai hyny oll i'r Act, honai ei fod wedi profi yn ddi-wrthwynebiad nad oedd dim i'w wneyd â hi ond ei diddymu. Yn wir mor hyderus y teimlai gyda golwg ar derfynolrwydd ei ddadl, fel yr honai nad oedd y ffigyrau wedi gadael "yr un colyn na bach ar ba rai y gellid crogi ammheuaeth." Dygwyddodd i'r erthygl hono ddyfod dan sylw Arglwydd Aberdar, a chan deimlo dwfn ddyddordeb yn y mater, ysgrifenodd lythyr i'r *Western Mail* yn dadgan yr anhawsderau a deimlai—ac yn enwedig wedi y profiad a gawsai o annilysrwydd cyfrifon o'r fath—gyda golwg ar y ffigyrau a osodid ger bron yn yr erthygl, ac yn ymofyn i ba raddau y gallai y gwahaniaeth mawr rhyngddynt godi oddiar ddulliau gwahanol o weinyddu y gyfraith, neu oddiar weinyddiad llymach o honi ar yr hen linellau? Awgrymai hefyd y gallai y papyr wneyd gwasanaeth pwysig wrth chwilio i'r pethau hyn, a chyhoeddi ffrwyth yr ymchwiliad. Mewn canlyniad anfonwyd allan Gymro ieuanc, "Our Commissioner," i weled sut yr oedd pethau yn bod, yr hwn a ysgrifenodd naw o lythyrau doniol i'r *Western Mail* yn rhoddi ffrwyth ei ymchwiliad, ac yn dangos y fath felldith ddigymysg i Gymru oedd y Ddeddf i Gau Tafarnau ar y Sabboth, a'r fath Baradwys a fyddai yr hen wlad wedi ei diddymu. Ysgrifenodd Arglwydd Aberdar ddau neu dri o lythyrau ymhellach; ac o un o honynt fe dynwyd allan ddyfyniad, yr hwn a gyhoeddwyd trwy yr holl newyddiaduron, ac yn yr hwn y deallid ac y cyhoeddid trwy y byd oll fod Arglwydd Aberdar wedi ei argyhoeddi gan y llythyrau yn y *Western Mail* fod yr Act wedi, ac yn gwneyd mwy o ddrwg nag o dda yn Nghymru, ac nad allai bleidleisio yn erbyn ei diddymiad. Yn fuan wedyn fe ddaeth y Barnwr Grantham i Gaerdydd i gynnal brawdlys, a chan ddeall fod ymosodiad ofnadwy yn cael ei wneyd ar y Cymry ynglŷn â'r Ddeddf hon, fe deimlodd yntau ysfa i ymuno yn y dwndwr, ac fel Gwyddel yn Donnybrook, teimlai afiaeth neillduol wrth droi ei *shillelah* o amgylch ei ben, a delio dyrnodiau enbyd ar y Cymry mwynion. Trinai ni yn gethin am fynu y Ddeddf, gan fod yn amlwg, yn ei fryd ef, nad allem ei chadw; a chan fod dyhiryn neu ddau ger ei fron oedd wedi methu am unwaith, er tyngu, a phrofi eu bod yn *bona fide travellers*, ymollyngodd y Barnwr urddasol—er fod yn ammheus ai Cymry oedd y rhai blysig hyny—i'n condemnio fel cenedl

am anudoniaeth. Dengys y cyfrifon barnol,—a chydnabyddai yr Ysgrifenydd Cartrefol mewn atebiad i ymofyniad Mr. D. A. Thomas yn Nhŷ y Cyffredin nad oedd awdurdod uwch,—fod achosion Seisonig o anudoniaeth lawer yn lliosocach, yn ol yr herwydd, na rhai Cymreig: ond pryd bynag y ceir rhyw achos o'r fath yn Nghymru, y mae yn ormod i wŷr fel Homersham Cox, a Horatio Lloyd, ac Arglwydd Grantham osgoi y demtasiwn o ffyrnigo yn echrys uwch ein pen, a'n condemnio fel pobl am y cyfryw anwiredd, er na feddylient mewn rhanau eraill o'r deyrnas ond am gymeryd pob achos ar ei ben ei hun, a chondemnio y troseddwr yn unig. Ond mae yn amlwg fod y Barnwr dysgedig yn Nghaerdydd yn teimlo ei fod mewn cwmni da, a chan ddeall fod Arglwydd Aberdar yn ein trin, yr ystyriai y buasai yn dra annheilwng iddo yntau beidio.

Ond mae yn amlwg fod Arglwydd Aberdar ymhell o fod yn gyfrifol am y golygiadau sydd gyda'r fath ddibrisdod anfad wedi eu priodoli iddo mewn perthynas i Ddeddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru, ac nad ydyw yn deilwng o'r condemnio fu arno gan gyfeillion, nac o'r ganmoliaeth a roddwyd iddo gan elynion y Ddeddf hono. Y mae i'w farnu wrth yr oll a ddywed, ac nid wrth ddyfyniad annheg wedi ei gymeryd mewn hollol ddibrisdod o holl rediad ei lythyrau. Y prif anfadrwydd a ddynoethid gan ohebydd y *Western Mail* oedd y camddefnydd a wnelid o adran y *bona fide traveller*. Dengys ei Arglwyddiaeth fod hyny yn cymeryd lle cyn pasio y Ddeddf Gymreig, wedi i Arglwydd—y pryd hyny Syr Richard—Cross ddwyn i fewn i Act 1874 y cyfyngiad a nodai "na ystyrid dyn yn *bona fide traveller* oddieithr i'r lle y lletyai y noswaith o'r blaen fod dair milldir o'r lle y gofynai am gael diod." Ystyriai Aberdar mai camgymeriad oedd hyny, a'i fod yn amlwg, er cystal oedd amcan Arglwydd Cross, fod y fath gamddefnydd wedi ei wneyd o'r geiriau fel, yn lle dynodi y pellder lleiaf a allai un deithio, eu bod wedi eu cymeryd i ddynodi pellder o deithio pa un y gwneid dyn yn *bona fide traveller*, pa un bynag a fyddo felly ai peidio. Deil fod hyny yn hollol y tu allan i ystyr y geiriau a gofidia yn fawr fod yr heddgeidwaid a'r ynadon wedi ymollwng i'w cymeryd yn y fath olygiad. Wedi cyfeirio at achosion a ddesgrifir gan y gohebydd, dywed ei Arglwyddiaeth :—

> Yn awr, nid wyf yn petruso dyweyd am yr holl achosion hyn, nid yn unig fod y rhai a yfent, ond fod y tafarnwr a werthai y ddiod, wedi troseddu y gyfraith, ac y gellid ei gymeryd i fyny a'i ddirwyo, gyda y rhagolwg am fforffedu ei drwydded os parhâi yn y camwedd. Yna paham na chèrid y gyfraith allan? Yr wyf yn meddwl fod y *Superintendent* Matthews, "gwas hen a phrofedig i'r bobl," fel yn gywir y desgrifia eich gohebydd ef, yn esbonio yr achos yn eglur. Dywed wrth eich gohebydd fod yn awr "rhwng 40 a 50 o gerbydau ar gerdded ar y Sabboth i ddwyn dynion yma, *yn unig er mwyn meddwi. Mae y dynion hyn yn dyfod o'r tu allan i'r terfyn o dair milldir, ac ni ellwch eu rhwystro i gael diod*. . *Mae ynadon a heddgeidwaid yn ddiamddiffyn yn y mater*."
>
> Yn sicr, os dyma yr ystyr a osodant ar ffiniad tair milldir Syr R. Cross, *maent* yn ddiamddiffyn. Ond yr wyf fi yn dal fod y fath ddeongliad ar yr adran yn gwbl ddiawdurdod. Ac yr ydwyf yn dal, pe rhoddai yr ynadon a'r heddgeidwaid rybudd teg i'r tafarnwyr yr ystyrient eu gwaith yn rhoddi diod i rai a ddelent yn unig er mwyn yfed, fel trosedd o'u trwydded, y byddai yr holl drafnidio ffiaidd ac adgas yma wedi ei ddarostwng mewn tri mis. Nid wyf yn siarad heb wybodaeth. Byddai pethau tebyg i'r rhai sydd yn ffynu yn Porth yn cymeryd lle yn Prestwich, ryw chwe' milldir o Liverpool. Deuai niferi mawr

ion o gerbydau yno bob Sabboth o Liverpool, yn llawn o "rai ar eu taith," y rhai a gaent ddiod yn hir heb unrhyw ymyriad. O'r diwedd cymerodd yr ynadon galon, a rhoisant rybudd y cèrid y gyfraith allan yn fanwl; ac mewn ychydig wythnosau yr oedd Prestwich wedi cael ymwared o'r pla hwn. Mae yn amlwg oddiwrth adroddiad eich gohebydd, nad oes a fyno yr achosion posibl a awgrymais o gynnydd meddwdod ar y Sabboth yn Nghymru â Chwm Rhondda. Yma y mae y cynnydd, mae yn amlwg, yn codi oddiar lacrwydd yn ngweinyddiad y gyfraith, ac nid o ychwaneg o fanylder. A hyd oni chèrir y gyfraith allan yn briodol, a heb leihad mewn canlyniad yn nifer y cosbedigaethau, ni allaf fi gydnabod fod Deddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru wedi profi y methiant y credwch chwi ei bod.

Ac mewn llythyr diweddarach gesyd ei Arglwyddiaeth yr un pwys ar fod y geiriad am y dyn ar ei daith yn cael ei ddeall yn well, gan gydnabod, oddiwrth y camddeongliad a roisid mor gyffredin arno, y gallai fod peth amwysedd ynddo, er y daliai mai y prif reswm am hyny oedd llacrwydd yr heddgeidwaid. Ac am yr yfed mewn tai annhrwyddedol, *shebeens*, yr oedd hyny yn cymeryd lle cyn Act 1881, a daliai na byddai diddymu yr Act, a chymeryd yr oriau a nodid yn flaenorol, yn lleihau dim ar y drwg hwnw. Yna gofyna :—

A ydym, gan hyny, i gydnabod ein bod wedi ein curo, ac yn hollol ddiamddiffyn yn yr ymgyrch yma rhwng trefn ac anghyfraith? A ydyw adnoddau gwareiddiad yn annigonol i gario ymlaen ryfel lwyddiannus yn erbyn y *scoundrels* hyn? Byddai yn ddrwg genyf dybio felly, a rhaid i mi wrthod derbyn golygiadau anobeithiol eich gohebydd ar y pen hwn. Mae yn debyg yr atebai efe, "Rhoddwch i'r bobl gyfleusderau rhesymol i foddhau eu harchwaeth at ddiod, a châi yr heddgeidwaid y teimlad cyhoeddus a chydweithrediad calonog o'u tu, yn lle, fel yn bresennol, yn eu herbyn." Nid wyf yn gwadu fod peth grym yn y fath ymresymu; ond ofnwyf y byddai yn hir, yn hir iawn, cyn y byddai i'r fath gyfnewidiad beri effaith dda, ac y rhaid cymeryd mesurau cryfach a mwy uniongyrchol. Ni all fod haenau isaf poblogaeth Caerdydd yn waeth na rhai Glasgow a Dundee, lle, er gwaethaf peth osgöad, y mae Deddf Cau ar y Sabboth yn cael ei chario allan yn effeithiol. Ar hyn fe roddwyd tystiolaethau digonol o flaen Pwyllgor yr Arglwyddi ar Anghymedroldeb, at yr hwn y cyfeiriais eisoes.

Ymddengys fod eich gohebydd yn tybied fy mod wedi cymhell iddo ymweled â Merthyr am fy mod yn gwybod nad ydyw y dref hono yr hyn ydoedd unwaith, ac nad oes gan ei phobl mwyach ddigon o ysbryd i feddwi. Nid felly. Yr oedd yr hanes a gawswn cyn agoriad y ddadl hon am y gwelliant cyffredinol mewn sobrwydd yn Merthyr, a fy sylw fy hun ar y peth yn Nyffryn Aberdar, wedi fy arwain i gredu fod cryn welliant yn y naill a'r llall o'r rhanbarthau poblogaidd hyn. Am y gwelliant yma nid oes genyf ammheuaeth; ond yr oedd wedi dechreu ymhell cyn pasio Deddf Cau ar y Sabboth yn Nghymru, ac yr ydwyf yn ei briodoli i achosion eraill a mwy cyffredinol. Yr wyf yn sylwi bod eich gohebydd yn myned yn bur ysgafn heibio i'r fath leoedd poblogaidd yn Nyffryn Aberdar, er engraifft, â Mountain Ash a Phenrhiwceiber, lle y dywedir wrthyf, ac yr wyf yn credu, fod yfed ar y Sabboth wedi peidio yn llwyr, a lle nad ydyw cario yr Act allan, hyd y gwelir, yn peri dim anfoddlonrwydd; ac nid ydyw y gwelliant yma yn cael ei gyfyngu i'r manau hyny.

Yna y mae yn dilyn y paragraph y rhoddwyd y fath gyhoeddusrwydd iddo :—

Wedi gwneyd y sylwadau hyn ar adroddiadau eich gohebydd, yr ydwyf, sut bynag, wrth gymeryd golwg gyffredinol ar y ffeithiau a'r ffigyrau a ddygodd ger bron, yn rhwym o gydnabod eich bod wedi profi eich gosodiad am gynnydd ymyfed dros ranbarthau eang, poblogaidd, a chynnrychioliadol o'r wlad, ac wedi profi y drwg sydd yn codi o arosod attalfeydd, y rhai, os nad yn anmhosibl i'w cario allan, nad ydynt yn sicr wedi eu cario allan, ond ydynt wedi cefnogi heriad o'r gyfraith a gweithrediadau llechwraidd a than gêl, y rhai na allant lai na

darostwng moesoldeb y boblogaeth. Yn wir y mae effaith y darlun a osodir ger bron gan eich gohebydd ar fy meddwl i y fath, fel pe byddai Mesur yn cael ei ddwyn i'r Senedd i ddiddymu Deddf Cau ar y Sabboth yn Nghymru, na allwn, oddieithr cael tystiolaethau am effeithiau gwell yn cael eu cynnyrchu gan well gweinyddiad o'r Ddeddf, bleidleisio yn ei erbyn. Byddwn yn rhwym i addef gyda gofid fod yr Act, y galwyd am dani gydag unfrydedd ymddangosiadol, ac oedd yn codi cymaint o obaith gonest am welliant, wedi methu yn ei hamcan, a'i bod wedi gwneyd, ac yn gwneyd, mwy o niwed nag o les. Yn y cyfamser, gadewch i mi ddiolch i chwi am wneuthur yr ymchwiliad, nid heb lawer o drafferth a thraul, sydd wedi taflu cymaint o oleuni ar fater ag oedd yn dywyll ac ammheus. Ni allaf obeithio y teimla pawb gyda golwg arno fel yr ydwyf fi wedi gwneyd, neu y byddant yn ddigon teg i gydnabod methiant eu gobeithion. Bydd eu dyledswydd o gymaint a hyny yn fwy, trwy bob moddion yn eu gallu, i fynu gweled fod yr Act yn cael ei chario allan yn briodol. Yna, ac yna yn unig, y gwelir yn eglur pa un a yw y methiant, yr ydych yn ymddangos i mi wedi ei brofi, yn ddyledus i anmhriodoldeb cynhenid yr Act, ynte i achosion ag y gellid eu llywodraethu.

Mae yn ddiammeu genym y teimla llawer o'n darllenwyr yn ddiolchgar am y cyfle hwn i gael gweled y safle a gymerai Arglwydd Aberdar yn yr achos pwysig yma. Fe welir ei fod ef yn credu fod y golygiad ag y mae llacrwydd gwaradwyddus yr heddgeidwaid a'r ynadon wedi goddef iddo ffynu mor gyffredinol,—sef fod gwaith dyn yn teithio tair milldir yn ei wneyd, i amcanion yr Act, yn *bona fide traveller*,—yn gam-ddeongliad hollol o eiriad yr adran hono yn y Ddeddf. Creda hefyd nad oes eisieu i heddgeidwaid ac ynadon Cymru ond dangos yr un diysgogrwydd yn y mater yma ag a wnaed yn Prestwich, a manau eraill, na cheid terfyn buan ar yr holl flinder. Mae yn amlwg ddigon fod dirfawr afreolaeth wedi codi ynglŷn â hyn mewn llawer o'n hardaloedd, ond eto y mae efe, mae yn amlwg, ymhell o gredu y rhaid i ni addef ein bod wedi ein trechu yn yr ymgyrch rhwng trefn ac anghyfraith, ac fod adnoddau gwareiddiad yn annigonol i gario y rhyfel ymlaen yn erbyn y *scoundrels*, chwedl yntau, sydd yn peri cymaint o flinder, ac yn dwyn arnom gymaint o waradwydd. A phaham na ellid cario yr Act allan yn Nghaerdydd fel y ceir boddlonrwydd i Act gyffelyb gael ei chario allan yn nhrefi mawrion Scotland? O leiaf, ni all efe gydnabod iddi fod y methiant ag y myn y *Western Mail* ei bod wedi ei phrofi yn Nghymru, nes y bo prawf teg wedi ei osod arni, yr hyn, hyd yma, na ellir dyweyd ei fod wedi ei roddi o gwbl. Nid ydym yn synu fod darllen llythyrau gohebydd y papyr hwnw yn ei lanw â dwfn dristwch, ac yn peri iddo deimlo, *pe byddai yn rhaid cydnabod na ellid cael trefn well ar bethau*, fod y Ddeddf yn fethiant; ond ni all efe gredu fod cael trefn well yn anobeithiol: ac ergyd ei holl ohebiaeth ydyw y dylem oll, fel cyfeillion rhinwedd a sobrwydd, wneyd ein goreu i fŷnu gweled fod y Ddeddf yn cael ei gweinyddu fel y dylid ei gweinyddu.

Ac i'r amcan hwn yr ydym yn credu fod genym achos i lawenhau am apwyntiad y *Commission*. Yr un pryd yr ydym ymhell o deimlo yn falch o'r Llywodraeth am ei hamcan yn hyn. Mae yn bur amlwg nad ydoedd yn cael ei hysu gan awydd i gadarnhau yr Act. Gwrandawodd yn unig ar ysgrech *un* papyr newydd, a hwnw wedi bod erioed yn elyn calon i'r Ddeddf, ac ar y pryd wedi crynhoi ei holl ymadferth i'r ymdrech o geisio ei diddymu. Ac wrth benodi y Dirprwyaeth y mae

yn grefyddol wedi gofalu na châi yr un Cymro, na neb yn cydymdeimlo â'r Cymry, neu yn malio dim yn eu cylch, na neb a adwaenid fel yn bleidiol i Gau ar y Sabboth, gael bod o'u nifer. Fe anturiodd benodi un o'r pump yn ŵr o'r golygiadau gwleidyddol peryglus ag y gŵyr pawb eu bod yn ffynu yn Nghymru; ond gallasai deimlo yn lled hyderus na wnai *un* rhyw lawer o ddrwg. Yr oedd y *Western Mail* a chyfeillion y fasnach—y "fasnach ddieflig a dinystriol mewn diodydd meddwol," chwedl Arglwydd Randolph Churchill—yn dirfawr lawenhau, gan deimlo yn hyderus nad oedd ond un canlyniad yn bosibl i'r fath ymchwiliad, ac y ceid tafarnau Cymru, bellach, am oes y byd, yn agored ar y dydd sanctaidd. Ni allwn, wrth reswm, wybod beth fydd adroddiad y Dirprwywyr; ond mae yn dda genym weled eu bod hyd yn hyn, fel dynion gonest, wedi dangos llawer o degwch wrth ddwyn yr ymchwiliad ymlaen. Ond yr ydym yn teimlo y fath hyder yn yr achos sydd gan Gymru yn y mater yma i'w osod o'u blaen fel, "a bydded ein gelynion yn farnwyr," y bydd yn anhawdd iddo beidio dyfod o'r prawf yn fuddugoliaethus. A phe byddai yn bosibl i'r Dirprwywyr hyn, "rhag ofn yr Iuddewon," wneyd adroddiad croes i rediad y tystiolaethau, fe fyddai y tystiolaethau eu hunain yn aros; ac nid yw yn bosibl fod yr adeg ymhell pan ddychwelir i allu bobl a fydd yn barod i ddeddfwriaethu yn eu hol. Yr hyn sydd yn bwysig yn awr ydyw ein bod oll yn ffyddlawn i wneyd y defnydd goreu o'r cyfleusdra hwn i osod ger bron dystiolaeth a theimlad ein cenedl ar y mater yma, ac felly i gadarnhau yr Act, a sicrhau gweinyddiad llawn a di-bartïaeth o honi yn ein holl ardaloedd.

Fe ddechreuwyd yr ymchwiliad yn y rhan ag y gwyddai pawb ei bod y waethaf mewn anghymedroldeb ar y Sabboth o Gymru oll. Pe buasai y tystiolaethau yn Nghaerdydd a Merthyr Tydfil ac Abertawe yn weiniaid, ni fuasai mor ryfedd; ac yn sicr ni fuasai yn profi ond ychydig iawn am y gweddill o'r Dywysogaeth. Ond mae yn dda genym weled nad oeddynt yn weiniaid o gwbl. ond mai yr unig gasgliad teg a ellid dynu oddiwrthynt ydyw fod yn rhaid i'r Ddeddf barhau, ac mai yr unig gyfnewidiad sydd yn anocheladwy ydyw ei gwneyd yn fwy llym, a'i gweinyddu yn llawer iawn gwell. Y mae rhai pethau ag y mae darllen y tystiolaethau wedi argraffu yn bur glir ar ein meddwl, a thybiwn y gallent brofi yn ddyddorol i'n darllenwyr, fel y maent yn dangos beth, hyd yma, ydyw ffrwyth yr ymchwiliad. Ymddengys fod yr adroddiad sydd o'n blaen o eiddo pobl dda y *Western Mail*, yn bur gyflawn, ac yr ydym yn ddiolchgar iddynt am dano. Mae yr is-benawdau aml a osodant i mewn yn fynych yn hollol gamarweiniol, ac yn bradychu gorawydd i gael gan y darllenydd edrych ar y tystiolaethau yn y goleuni a fynent *hwy* osod arnynt. Ond nid ydyw hyny nac yma nac acw. Am y tystiolaethau eu hunain y maent yn bwysig iawn, ac yn hawlio pob ystyriaeth. Nodwn dri pheth ag y mae eu darllen wedi eu dangos yn bur amlwg i ni.

I. Er cymaint yr annhrefn y deallem ei fod yn ffynu yn Sir Forganwg ynglŷn âg ymyfed ar y Sabboth, mae yn hyfryd genym weled nad ydyw yn agos mor fawr ag y mynai gelynion y Ddeddf gael gan y byd gredu.

Yr oedd y *Western Mail*, mae yn wir, yn "llef un yn llefain yn y diffaethwch," ac wedi ei adael bron yn gwbl ar ei ben ei hun; ond chwareu teg iddo, fe *lefodd* yn rhagorol; ac nid rhyfedd fod rhai pobl dda wedi eu dychrynu yn fawr ganddo. Yr ydoedd yn dangos mor amlwg y fath felldith andwyol i Gymru ydoedd ei Deddf i Gau ar y Sabboth, ac nad oedd obaith am danom mewn un modd ond trwy ei diddymu mor fuan ag y gellid. Ond erbyn hyn, nid ydyw hyny yn agos mor amlwg ag y dysgwylid ei gael.

Yr oedd yr ystadegau a ddygid ger bron yn ymddangos yn rhyfeddol o gryfion. Yn ol cyfrifon y Llywodraeth yr oedd nifer yr euogfarniadau, y *convictions* am feddwdod ar y Sabboth yn Nghymru am 1883 yn 287; am 1884 yn 298; ond am 1885, yr ydoedd yn 796; ac am 1886 yn 883; ac am 1887 yn 965. Yr oedd y cynnydd felly yn gyflym ac yn ofnadwy, yn enwedig yn y tair blynedd 1885, 1886, 1887. Ond erbyn edrych, yr oedd y ffigyrau yn cael eu cymeryd o gyfrifon gwahanol. Fe gyhoeddodd y Llywodraeth gyfrifon eraill am 1885 ac 1886, wedi eu cymeryd yr un fath â'r rhai am y blynyddoedd blaenorol; ac yn ol y rheiny, nifer yr euog-farniadau am 1885 oedd 451, ac nid 796; a'r nifer am 1886 oedd 313, ac nid 833. Ni chaed cyfrif yn y dull yma am 1887. Ond ar yr 8fed o Ragfyr, 1888, fe gynnygiodd Mr. Cavendish Bentinck, gwrthwynebydd cryf i Gau ar y Sabboth, fod cyfrif yn cael ei gymeryd am y tair blynedd 1885, 1886, 1887 ynghyd, ac ar dir cwbl wahanol i'r hwn y cymerasid y cyfrif am y blynyddoedd eraill. Yr hyn a ofynid yn y cyfrifon hyny oedd "Return of all Convictions of Persons arrested for Drunkenness on Sunday in England and Wales," a defnyddid yr un geiriau am 1885 ac 1886; yr oedd y cyntaf yn cael ei wneyd ar gynnygiad Mr. Onslow, a'r ail ar gynnygiad Mr. Isaacs. Ond yr oedd y cyfrif a wneid ar gynnygiad Mr. Cavendish Bentinck am y tair blynedd, nid o euog-farniadau pawb a gymerwyd i fyny am feddwdod ar y Sabboth yn Lloegr a Chymru, ond yn "Return for England and Wales of the total number of Convictions in respect of such Offences under the following Enactments as involve Drunkenness, 3 & 4 Vict. c. 97, s. 13; 10 & 11 Vict. c. 89, ss. 29 and 61; 35 & 36 Vict. c. 94, s. 12," &c. Mae hyny yn cynnwys, nid meddwdod ac afreolaeth cyffredin, fel a olygid yn y cyfrifon eraill, ond meddwdod gweision y rheilffyrdd pan ar eu dyledswydd yn ngwasanaeth y cwmnïau, a phob trosedd o'r eiddynt yn erbyn rheolau y cwmnïau a allai brofi yn beryglus i neb; a meddwdod, afreolaeth, ac anweddeidd-dra ar unrhyw heol, neu mewn swyddfa heddgeidwaid, neu *police station-house;* a meddwdod ar unrhyw brif-ffordd neu le cyhoeddus, pa un bynag ai adeilad ai peidio, neu mewn unrhyw le trwyddedol. Mae yn amlwg fod y rhwyd yma lawer iawn yn lletach, ac nid rhyfedd ei bod yn 1885 wedi casglu 796 o droseddwyr, yn lle 451, fel a geid yn nghyfrif Mr. Onslow; ac yn 1886 wedi dwyn ynghyd 833, yn lle 313, fel a geid yn nghyfrif Mr. Isaacs. Yn awr ni fynai y *Western Mail* fod dim gwahaniaeth oll rhwng y cyfrifon hyn, eithr honai fod y 796 am 1885, a'r 883 am 1886, wedi eu casglu yn gwbl yr un fath a'r 298 am 1884; ac anwybyddai yn hollol y cyfrifon ar gynnygiad Mr. Onslow a Mr. Isaacs am 1885 ac 1886, y rhai oeddent yn llai yn 1885 o 345, ac yn 1886 o 520! Mae yn wir fod y

Swyddfa Gartrefol yn dal fod y cyfrifon cyntaf wedi eu gwneyd ar dir rhy gyfyng; nid ydym yn dadleu yn erbyn hyny; ond mae yn amlwg nad oedd dim rheswm cymharu cyfrifon a wnelsid ar dir cyfyng, gyda chyfrifon wedi eu gwneyd ar dir llawer iawn lletach, fel cyfrifon am *yr un* euogfarniadau. Ac y mae yn dda genym weled fod y *Commission* wedi gwneyd hyny yn anmhosibl o hyn allan. Mewn cyfeiriad at yr atebiad a roisid gan Mr. Stuart-Wortley yn mis Mawrth diweddaf, dywedai y Cadeirydd, Arglwydd Balfour o Burleigh, "Gan fod y cyfrifon wedi eu cymeryd ar sylfon wahanol, ni ellir eu cymharu." Drachefn: "Yr oedd y cyfrifon hyn o'n blaen, ac yn arholiad Mr. Lushington (Ysgrifenydd parhaus y Swyddfa Gartrefol), gofynais iddo a ellid gwneyd unrhyw gymhariaeth rhyngddynt. Dywedai yntau, 'Na ellir, yn sicr.' Felly nid yw y ddau gyfrif hyny, can belled ag y mae a fynom ni â hwynt, ond o ychydig werth." Gofynai ei Arglwyddiaeth i'r boneddwr oedd ger ei fron ar y pryd, y Cynghorwr Sanders o Gaerdydd, a fyddai efe yn foddlawn ar yr adroddiad a'r atebiad a roisai efe iddo? Yr oedd Mr. Sanders wrth reswm yn foddlawn. Yr ydym ninnau. Ond trwy hyn, gymaint o ddadl fawr y *Western Mail* sydd wedi ei dymchwelyd!

Ni fynem am fynyd gau ein llygaid ar yr annhrefn ynglŷn âg ymyfed ar y dydd sanctaidd sydd wedi ffynu i'r fath raddau mewn manau lle y mae poblogaeth fawr a chymysg, a manau sydd hefyd ar gyffiniau Lloegr, lle nad oes Cau ar y Sabboth. Ond yn lle cymeryd hyny yn ddadl anobaith a dywedyd, "Gosodwn ben arnom a dychwelwn i'r Aipht," mae yn gwbl amlwg i ni mai galwad sydd arnom yn hyn oll i ymwroli, ac i fŷnu symud ymaith yr annhrefn. Fe waeddid am ddiddymu y Ddeddf trwy Gymru oll; ond mae yn bwysig deall nad oes ond rhanau, a rhanau neillduol o'n gwlad lle y mae yr afreolaeth wedi ffynu. A chymeryd cyfrif Mr. Cavendish Bentinck am 1885, 1886, 1887, yr ydym yn cael mai cyfanrif y rhai a euog-farnwyd am feddwdod ar y Sabboth yn Nghymru, yn ystod y tair blynedd, oedd 2,594. Ond o'r nifer yna yr oedd 73 y cant o Sir Forganwg ei hunan, a 12 y cant o Sir Ddinbych; hyny yw, yr oedd 85 y cant o'r holl nifer allan o'r ddwy sir yna yn unig, gan adael felly ddim ond 15 y cant ar gyfer holl siroedd eraill Cymru. Pe buasai raid addef fod y siroedd y cyfeiriwyd atynt, fel y dywedai yr hen bobl, "tu hwnt i hel dail iddynt," yn sicr ni allai neb haeru fod hyny yn wir am Gymru oll. Ac y mae yn bur amlwg i ni nad ydyw yn wir hyd yn nod am Sir Forganwg. Yr oedd yr attaliad a osodid ar bleser cynifer o filoedd a ystyrient nad oedd y Sabboth ond dydd i'w dreulio mewn rhysedd a meddwdod, ac yn enwedig ar ennillion masnach sydd yn ddiarhebol o ddi-egwyddor, mor lym, fel nad ydoedd i synu ato o gwbl fod ymgais egnïol yn cael ei wneyd gan lïaws i osgoi neu i droseddu y Ddeddf. Yr oedd y *bogus clubs*, y ffug glybiau, clybiau na hanfodent ond er mwyn rhoddi cyfleusdra i'w haelodau i yfed, yn profi yn ddrwg anaele. Drachefn yr oedd y tai di-drwydded, y *shebeens*—enw o wlad y Gwyddel ac yn golygu yno, "tafarnau bol y clawdd,"—yn peri mwy fyth o lygredigaeth. A gwaeth na'r naill a'r llall, yr oedd y "trafaelwyr gonest," y *bona fide travellers*, y rhai y golygid bod y Ddeddf—ond iddynt deithio tair milldir—yn rhoddi iddynt hawl i brynu, ac i'r

tafarnwyr i werthu iddynt ddiod yn ddidrai, mewn llawer o ranau o'r wlad wedi dyfod yn bla ar y boblogaeth, heblaw eu bod yn dwyn y fath ddinystr arnynt eu hunain ac ar eu teuluoedd. Mae yn dra gofidus meddwl i'r fath eithafion y mae chwantau dynion,—chwant yr yfwyr am y ddiod, a chwant pobl y fasnach "ddieflig a dinystriol" am arian,—yn eu gyru. Ac nid ydyw yn anhawdd deall, lle yr oedd cynifer o ddyhirod, neu "*scoundrels*," chwedl Arglwydd Aberdar, wedi dyfod ynghyd, fod eu mwynhad yn felusach fyth am eu bod yn ei fynu ar y draul o sathru dan draed y deddfau ag y mae pobl onest wedi eu pasio er amddiffyn i'r wladwriaeth. Yr oedd desgrifiadau gohebydd y *Western Mail* o'r pethau hyn yn ofnadwy mewn gwirionedd, ac nid ydym yn synu fod llawer o bobl dda wedi eu dychrynu yn gymaint ganddynt fel ag i deimlo yn barod i dderbyn unrhyw fesurau a allent addaw rhyw gymaint o ymwared rhag trychineb mor fawr. Dadleuid nad oedd ond un ymwared yn bosibl, ac mewn trefn i sicrhau hyny—diddymiad yr Act—nid oedd dim yn ormod i'w wneyd mewn ffordd o ddesgrifio y drygau oeddent wedi eu hachosi ganddi.

Ond y mae yn hyfryd iawn genym ddeall, erbyn hyn, fod yr arlunydd, er mwyn bod yn sicr fod ei liwiau yn ddigon cryfion, wedi eu gwneyd gryn lawer yn rhy gryfion. Yr oedd unwaith 140 o *bogus clubs* yn Nghaerdydd, a chyfrifid yn 1883 fod 2,854 yn aelodau o honynt, a mawr oedd y meddwdod a lochid ynddynt. Ond dywedai yr *Inspector* James o flaen y Dirprwywyr, "They have all been put down;" nid ydynt mwyach! Haerai gohebydd y *Western Mail* fod 1000 o *shebeens* yn Nghaerdydd. Yr oedd Mr. Lewis Williams, U.H., wedi cynnyg iddo £100 os gallai brofi hyny, ac i foddlonrwydd Arglwydd Aberdar; ond ni chlywyd eto fod y wobr dda wedi ei hawlio. Ac fel y dywedai Mr. Williams ger bron y *Commissioners*, pe buasai cynifer, y buasent yn sicr o fod wedi clywed am eu heffeithiau yn y *police courts*. "Ond yn ystod y chwe' mis diweddaf," meddai, "ni fuom erioed mor rydd oddiwrth droseddau, ac yn enwedig troseddau pwysig, yn hanes y dref. 'Daw trosedd i'r golwg;' ni ellwch ei gadw o fewn *shebeen*. . Am feddwdod ar y Sabboth, yn ystod y pum' mis cyntaf o'r flwyddyn hon yr oedd genym ddeunaw o achosion; yn 1881 yr oedd deunaw o achosion. Ond mae y boblogaeth yn y cyfamser wedi cynnyddu 50 y cant, fel mewn gwirionedd y mae meddwdod yn llai o'r drydedd ran. Ac y mae genyf gyfrif o garchar ei Mawrhydi, yn dangos fod genym lai o garcharorion am y rhan yma o'r dosbarth nag oedd genym wyth mlynedd yn ol." A phan oedd y gohebydd—Mr. David Davies—a haerai fod yn Nghaerdydd 1000 o *shebeens*, o flaen y Dirprwywyr, ac y gofynodd y Cadeirydd iddo pa nifer yr ystyriai ei fod yn gwybod am danynt y pryd hyny oddiwrth ei adroddiadau, ei ateb oedd: "O gant a hanner i gant a thriugain." "Nhad," ebai bachgen dewr, "roedd milodd o gathod yn y cefn ma neithiwr yn miawian ac yn cathrica'n ddychrynllyd trwy'r nos." "Taw, fachgen," ebai yntau, "doedd na ddim lle i filoedd." "Wel, roedd na gantodd." "Doedd na ddim lle i gantodd." "Roedd na igeinia, ynte." "Doedd na ddim lle i igeinia chwaith." "Wel wir, roedd na ryw gath blaw 'n cath ni." Mae yn amlwg hefyd, erbyn hyn, nad yw anfadrwydd y *shebeens* yn Nghaerdydd, er gwaethed ydyw, mor ofnadwy ag yr ofnem

unwaith Ac y mae yn amlwg nad ydyw can waethed ag y bu, ond fod ymdrechion canmoladwy yr awdurdodau, fel y maent wedi symud ymaith y clybiau, yn llwyddo hefyd i garthu i ffwrdd y *shebeens*. Am y *bona fide traveller*, mae yn amlwg ei fod yntau wedi peri blinder dirfawr yn Sir Forganwg, fel mewn rhai manau eraill yn ein gwlad. Ond nid ydym yn cael fod neb o'r tystion eraill yn gallu myned mor bell â phobl barchus y *Western Mail* wrth ddesgrifio maint y drwg; yn wir, yr ydym yn cael amryw o wŷr call a chyfrifol yn rhoddi tystiolaethau cryfion sydd yn dangos fod yn anmhosibl fod y desgrifiadau a roddent hwy yn gywir. Ond nid ydyw hyny o gymaint pwys, yn enwedig yn wyneb y goleuni sydd bellach wedi ei gael ar ystyr yr adran yn yr Act sydd yn darpar ar gyfer tori syched anniwall y dyn ar ei daith. Yr oedd y *Western Mail* yn cymeryd yn ganiataol, fel y gwnelsid mor gyffredin gan yr heddgeidwaid a'r ynadon, os teithiai dyn dair milldir fod ganddo hawl i ofyn am ddiod, ac na ellid ei nacâu; a dangosai mewn lliwiau cryfion fod y bobl wedi cymeryd y gallu hwnw i'w llaw eu hunain yn y fath fodd fel yr oedd yn anobeithiol darostwng yr annhrefn heb agor y tafarnau oll. Ond barnai y rhan fwyaf o'r tystion na fuasai hyny ond meddyginiaeth a fuasai yn profi yn llawer gwaeth na'r afiechyd.

> The pigs committed suicide
> To save themselves from slaughter.

Ond bellach, mae y mater i'w ddeall yn wahanol. Gwelsom eisoes mor gryf yr ysgrifenai Arglwydd Aberdar mewn ffordd o ddangos nad ydyw teithio tair milldir yn gwneyd dyn, yn ol yr Act, yn *bona fide traveller*. Ac mewn llythyr arall, na ddyfynasom o hono, ysgrifenai, ac efe ei hun oedd yn italeiddio: "Ond wedyn, *mae yn rhaid cario y gyfraith allan*. Mae yn *rhaid* condemnio yn awdurdodedig y deongliad ar adran y *bona fide traveller* a roddid gan y *Superintendent* Matthews a Capt. Colquhoun." Ac y mae yn wirioneddol dda genym weled yr olwg iachus a gymerai y *Commissioners* ar hyn. Pan oedd Maer Caerdydd ger bron ac yn dyweyd yr ymddangosai fod yr ynadon a'r heddgeidwaid yn dychymygu, cyhyd ag y byddai pobl tu allan i gylch y tair milldir, nad oedd ganddynt allu,—gofynai y Cadeirydd, "Ond beth sydd yn y gyfraith sydd yn peri y gred yna, yr hon yr wyf yn addef sydd yn ffynu?" Crybwyllai y Maer y deongliad a roid arni; gofynai yntau, "Ond a ydyw y deongliad yna wedi ei benderfynu yn farnol gan lys uwch fel y gwir ddeongliad, a'r hwn a fyddai yn rhwymedig ar yr ynadon?" Pan atebwyd nad ydoedd, gofynai drachefn: "Yna, pam na phrofid ef gan y rhai sydd yn meddwl fel yr ydych chwi, a gallwn ddyweyd, fel yr wyf finnau, nad ydyw dynion sydd yn ymddwyn felly yn *bona fide travellers?*" Dywedai Mr. Fowler, ynad cyflogedig Abertawe, y golygid y gallai dyn, os byddai dair milldir o'r lle y lletyai y noswaith o'r blaen, hawlio diod fel *bona fide traveller*, yr hyn yn ei farn ef oedd gyfeiliornus. A gofynai y Cadeirydd, "A ellwch chwi, trwy unrhyw ymdrech o ddychymyg neu gywreinrwydd, dynu yr ystyr yna o'r adran?" Gofynai Syr R. Harrington i dyst arall, "Ai ni fyddai cylchlythyr oddiwrth ryw awdurdod gyda golwg ar wir ystyr yr adran yn ddefnyddiol?" Gofynai y Cadeirydd drachefn a thrachefn, pan gyfeiriai tystion at an-

hawsder yr adran, gan ddeall fod teithio tair milldir yn rhoddi hawl i gael diod, "A oedd unrhyw apêl wedi ei wneyd at lys cyfreithiol gyda golwg ar ystyr yr adran,"—gan roddi ar ddeall yn amlwg ei fod ef yn gclygu mai nodi y pellder lleiaf oedd ei hamcan, tra yr oedd y cwestiwn, Pa un a oedd dyn yn *bona fide traveller* ai peidio, i'w benderfynu ar ystyriaethau eraill. A gofynai efe a Syr R. Harrington amryw weithiau, "Ai nid gwell fyddai gadael y cyfrifoldeb o brofi ei fod yn onest yn ŵr ar ei daith, a hyny i foddlonrwydd yr ynadon, ar y trafaeliwr ei hunan," gan roddi ar ddeall yn amlwg eu bod hwy yn golygu fod y syniad fod teithio tair milldir yn ei wneyd felly, yn gamgymeriad hollol. Gofynai Syr R. Harrington drachefn i Mr. Fowler yn Abertawe, "A allai efe roddi cyfrif am ffyniant y camddealltwriaeth wedi y dadganiad cyhoeddus o'u barn a roisid gan y fath wŷr ag ef ei hun a Mr. North, *stipendiary* Merthyr Tydfil?" Atebai yntau nad oedd dim ond amwysedd y geiriad. Mae yn gwbl amlwg pa ystyr a amcenid drosglwyddo trwy y geiriau a ddefnyddir yn yr adran; ond fe ellid haeru fod yn bosibl tynu o honynt ystyr gwahanol. Gallwn, fodd bynag, ddysgwyl yn hyderus mai un ffrwyth i'r ymchwiliad fydd gwneyd yn anmhosibl yn y dyfodol y gamp gywrain hono. Ac fel y mae pethau i ddyfod yn taflu eu cysgod o'u blaen, mae yn llawen genym ddeall fod y *bona fide traveller*—yr hwn a ddeffinid yn ddoniol gan un o'r tystion fel "un sydd yn teithio i gael diod!"—yn awr yn cael ei ddwyn ger bron yr ynadon, a'i gosbi yn ddiarbed. Nid ydyw ychwaith yn syn genym ddeall,—fel y bu, chwedl Arglwydd Aberdar yn Prestwich,—fod y rhywogaeth yn awr yn diflanu o'r tir.

Y mae hyn oll yn dangos i ni yn lled eglur nad ydyw pethau mor anobeithiol ag y mynai ysgrechfeydd y *Western Mail* i ni gredu eu bod; ac yn enwedig na raid i ni gredu fod "adnoddau gwareiddiad yn annigonol i gario ymlaen ryfel lwyddiannus yn erbyn y *scoundrels*"—gair rhagorol, fy Arglwydd!—a fynent wneyd chwalfa ar bob trefn, a bwrw ein hanwyl wlad i ddinystr.

II. Mae yn foddhaol iawn gweled mor gryfion ydyw y tystiolaethau am effeithiau daionus yr Act.

Nid oes neb, hyd yn nod o'i gelynion, yn gallu tystiolaethu yn ei herbyn ond ar bwys afreolaeth sydd yn amlwg yn codi oddiar ddiffyg yn ei gweinyddiad; a hyd yn nod felly, nid oes dim llais oddiwrth unrhyw gyrff cyhoeddus, neu unrhyw nifer o ddynion, yn cael ei ddwyn yn ei herbyn o gwbl. Ond am y tystiolaethau o'i phlaid, y maent yn gryfion a lliosog iawn. Wrth reswm y mae ei chyfeillion oll yn cwyno o herwydd y camddefnydd a wneid o adran y *bona fide traveller*, ynghyd a'r llacrwydd mewn ffyrdd eraill a ddangosid yn ei gweinyddiad; ond dangosant oll fod Cymru yn ei dwfn werthfawrogi, ac na allai oddef ei diddymu. Gwych oedd gweled Syr Hussey Vivian, A.S., yn arwain "ardderchog lu" ei hamddiffynwyr gyda phenderfyniad cryf o'i phlaid wedi ei basio gan Gynghor Sirol Sir Forganwg, o'r hwn y mae yn Gadeirydd, ac wedi ei basio gan fwyafrif o 53 yn erbyn 3! Yn dilyn ceid penderfyniadau eraill, oddiwrth Bwyllgor Gweithiol Cymdeithas Ryddfrydol De Morganwg, yn cael ei gyflwyno gan Mr.

A. J. Williams, A.S.; oddiwrth Gynghor Trefol Caerdydd, yn cael ei gyflwyno gan y Maer; oddiwrth Gynghor Sirol Sir Fynwy, yn cael ei gyflwyno gan y Cynghorwr Grove, y cadeirydd; oddiwrth Gynghor Trefol Pontfaen, yn cael ei gyflwyno gan y Maer; oddiwrth 376 o weinidogion Ymneillduol yn Sir Forganwg, ynghyd a Chyfarfod Misol Methodistiaid Calfinaidd Dwyrain Morganwg, yn cael eu cyflwyno gan y Parch. J. M. Jones, Caerdydd; oddiwrth 1100 o fwnwyr y *Great Western Colliery* yn Nyffryn Rhondda, ynghyd a Chymanfa Annibynwyr Morganwg, yn cael eu cyflwyno gan Mr. Thomas Williams, U.H., Gwaelodygarth; oddiwrth gyfarfodydd cyhoeddus yn Mhontypridd yn 1887, yn cael eu cyflwyno gan y Parch. John Pugh; oddiwrth chwech ar hugain o eglwysi o'r gwahanol enwadau yn Mhontypridd, yn cael eu cyflwyno gan Mr. William Jones; oddiwrth nifer o gynnulleidfaoedd o'r gwahanol enwadau yn Merthyr Tydfil, yn cael eu cyflwyno gan Mr. Bowen; oddiwrth Gynghor Trefol Abertawe, yn cael eu cyflwyno gan y Maer; oddiwrth Gymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd yn y Deheudir, yn cael ei chyflwyno gan Mr. Thomas Phillips o Abertawe; a chyflwynwyd deiseb gan Alderman Freeman, o Landwr, wedi ei harwyddnodi gan 2,454 o drigolion yr ardal o blaid parhad yr Act, ynghyd a phenderfyniad wedi ei basio yn Nghapel yr Annibynwyr yn y lle hwnw, gan 900 o bobl. Yr oedd yr adeg yn fer, onidê ni fuasai ond hawdd iawn, mae yn ddiammeu, cael lliaws mawr yn ychwaneg. Ac am y nifer fawr o dystiolaethau personol i effeithiau bendithiol yr Act yn y gwahanol ardaloedd, y maent yn rhyfeddol o gryfion. Detholwn ar antur ychydig o honynt. Dywedai Mr. Alfred Thomas, A.S.: "Cyn dyfod Deddf Cau ar y Sabboth, mi welais lawer o feddwdod ac annhrefn yn yr heolydd. Gallaf ddyweyd i mi weled mwy o feddwdod mewn un Sul cyn pasio yr Act nag a welais ar bob Sul wedyn." Alderman Richard Cory: "Yr wyf yn ystyried fod yr Act wedi gwneyd gwaith tra ardderchog gyda golwg ar sefyllfa gymdeithasol, foesol, a chrefyddol y bobl. Ar brydnawn Sul mae yr heolydd wedi gwella yn rhyfeddol, ac y maent yn hynod o wahanol i'r hyn fyddent. Cyn yr Act yr oedd heol Bute yn beryglus i un fyned ar hyd-ddi, ac ni chaniatawn i ferch neu chwaer i mi wneyd hyny o herwydd y dadwrdd, yr ymgecru, a'r terfysgoedd. Wedi i'r Act ddyfod i weithrediad y mae mor dawel ag unrhyw ran arall o'r dref, ac nid oes na meddwon na dadwrdd o unrhyw fath. Y mae—ni ddywedwn, ei bod yn gwbl nefol—ond yn sicr y mae yn rhyfeddol o wahanol i'r hyn oedd o'r blaen." Ficer Llandaf: "Yr wyf yn meddwl yn sicr fod gwelliant amlwg wedi cymeryd lle." Y Parch. David Young: "Yr ydwyf yn credu ei bod wedi bod yn ddaioni tra mawr i'r Dywysogaeth. . Y mae gwahaniaeth mawr iawn yn heolydd bron bob tref a phentref yn y Dywysogaeth. . Yr oedd Ferndale yn un o'r lleoedd gwaethaf cyn pasio yr Act; yn ystod y tair blynedd y bum i yno yn byw ni welais ddyn meddw o gwbl. . Flynyddoedd yn ol prin y gallwn fyned trwy yr heolydd ar brydnawn Sabboth heb weled afreolaeth; yn awr gallaf fyned o Canton i'r Docks, lle y mae genyf un capel, heb weled dim o'r fath." Mr. F. J. Beavan: "Mi fum yn arolygwr Ysgol Sabbothol y Wesleyaid yn Loudoun-

square am tua 27 o flynyddoedd. Am yr un mlynedd ar ddeg diweddaf, yr oedd genyf, ar y ffordd i fy ysgol, i fyned trwy ran orllewinol y dref, ac nid wyf yn petruso dyweyd, wedi i'r Act ddyfod i weithrediad, a chofio fel yr oedd pethau cyn hyny, nad oes dim cymhariaeth yn nhrefn yr heolydd trwy ba rai y byddaf yn myned." Mr. Lewis Williams, U.H., Cadeirydd y Bwrdd Ysgol: "Yr wyf yn ystyried fod yr Act wedi bod o'r lles mwyaf yn y dref. Yr oedd Bute-street cyn pasio yr Act y fath fel na fuasai yn ddoeth i foneddwr adael i'w wraig neu ei blant fyned trwyddi heb amddiffyn. Mae cyfnewidiad yn awr wedi cymeryd lle, ac yr wyf wedi bod yn annog merched ieuainc i gymeryd rhan mewn gwaith cenadol yno; yn wir, mae fy merched i fy hun ar waith felly mewn rhanau o'r dref lle na feiddiasent fyned cyn pasio yr Act. Dymunwn ddyweyd fod tystiolaeth nifer mawr o athrawon o ysgolion y Bwrdd yn dangos fod gwelliant amlwg yn sefyllfa y plant o ran dillad ac esgidiau wedi pasio yr Act. . Mae y mwyafrif mawr o weithwyr y dref hon yn ffafr yr Act. . Yr wyf wedi bod yn siarad â'r *foremen*, a dywedant fod y dynion yn dyfod at eu gwaith yn awr yn well na chyn pasio yr Act." Mr. Thomas Williams, U.H., Merthyr Tydfil: "Yr wyf yn cofio yn bur dda, cyn i'r Act ddyfod i weithrediad, fod cryn lawer o annhrefn a therfysg yn yr heolydd, attalfeydd ar y palmant, dynion yn feddwon ac yn ymladd yn yr heolydd; ond ni welais hyny o gwbl wedi i'r Act ddyfod i weithrediad. . Mae gwelliant dirfawr yn y dref hon. . Mae y dynion yn dyfod yn fwy rheolaidd at eu gwaith ar fore Llun na chyn pasio yr Act." Morgan Williams, pwyswr (yn rhoddi ei dystiolaeth yn Gymraeg a'r Proffeswr Rhys yn cyfieithu): "Yr wyf wedi cael profiad 30 mlynedd yn y pyllau yn Nowlais. Pan oedd y tafarnau yn agored ar y Sul ni ddeuai y dynion yn ol yn rheolaidd at eu gwaith ddydd Llun. Ond yn awr deuant yn rheolaidd. Y mae tua 3,500 yn gweithio yn Nowlais. Teimlad unfrydol y dynion ydyw fod yr Act yn llwyddiant ardderchog. . Ni fu o gwbl y fath weithio yn Nowlais am y 30 mlynedd diweddaf ag wedi pasio yr Act." Mr. Price, oedd yn *sergeant of police*, yn nosbarth Pontypridd: "Mae yr Act wedi bod yn llwyddiant mawr yn y dosbarth hwnw. . Cyn iddi ddyfod i weithrediad yr oedd at eu gilydd 50 o gwsmeriaid ymhob un o'r wyth tafarn yn y dosbarth rhwng 12 30 a 2 30 ar y Suliau. Fe wnai hyny tua 400. Wedi yfed am ddwy awr, byddai y rhan fwyaf o honynt yn ymadael mewn mwy neu lai o feddwdod. Yn ystod y ddwy awr byddai ymladdau yn fynych yn cymeryd lle, a gelwid yr heddgeidwaid i ostegu y terfysg. Wedi troi allan am 2 30 byddai y dynion hyny yn cerdded hyd yr heolydd mewn afreolaeth, ac nid oedd yn bosibl i ddau neu dri o gwnstabliaid gadw trefn arnynt. . Nid oes genyf ddim petruster i briodoli y gwelliant i Act Cau ar y Sabboth." Y Parch. John Pugh: "Adwaenwn Bontypridd cyn i Act Cau ar y Sabboth ddyfod i weithrediad. Ymwelais â'r lle y tro cyntaf yn ngwanwyn 1880, ac am bedwar o'r gloch prydnawn, wrth ddyfod i lawr High-street, gwelais ymladdfa rhwng 50 o lowyr meddwon a'r Gwyddelod a'r Saeson o ardal y Graig. Aethum i fyw yno yn Ebrill, 1881. . Wedi pasio yr Act yr oedd gwelliant amlwg yn yr hwyr. . Adeiladwyd fy addoldŷ yn 1870, ac am ddeng mlynedd yr oedd yn llawn digon mawr, ond o fewn tri mis

wedi pasio yr Act daeth yn llawer rhy fychan. . Ni chynnyddodd y boblogaeth gymaint y pryd hyny ag wedyn. Mi sylwais hefyd fod gwelliant yn nghartrefi y bobl, ac yr wyf yn credu i mi ymweled â'r rhan fwyaf o dai Pontypridd, oddieithr, wrth reswm, y tafarnau." Y Parch. Aaron Davies, Pontlottyn: "Yr wyf wedi gweled lles mawr oddiwrth yr Act yn fy ardal i fy hun. Mae yr heolydd mewn gwell trefn, ac y mae mwy o dawelwch yn y gymydogaeth. Cyn yr Act byddai genym derfysgoedd ar y Sabbothau, yn neillduol gerllaw dau o'r capelau. Dryllid ffenestri y capelau. Wedi yr Act ni welsom ddim o'r fath. Y mae wedi darfod yn llwyr. . Gwnaeth Mr. Bircham, *Inspector* Deddf y Tlodion, adroddiad oedd yn dangos lleihad tlodi plwyfol rhwng 1874 ac 1884. Yn Sir Fynwy, lle ni chauir y tafarnau ar y Sul, nid oedd y lleihad ond 5 y cant. Yn Sir Forganwg yr oedd y lleihad yn 18 y cant; yn Sir Gaerfyrddin yn 16 y cant; yn Sir Benfro yn 42 y cant; ac yn Sir Frycheiniog yn 24 y cant. Yr wyf fi yn priodoli y lleihad mawr yn Nghymru i Ddeddf Cau ar y Sabboth." Mr. William Evans, *manager* gweithiau Cyfarthfa: "Nid wyf yn petruso dyweyd fod gwelliant amlwg wedi pasio yr Act. Mae genym i ddelio â llawer iawn o waith ar y Sul. Cyn pasio yr Act yr oedd anhawsder i gadw y ffwrneisiau ar waith. Codai hyny oddiar yfed parhaus yn nhafarnau Dowlais." Y Parch. John Griffiths, Archddiacon Llandaf: "Cyn pasio yr Act yr oedd y dref lle yr wyf fi yn byw yn lled hynod am halogi y Sabboth, a chodai hyny oddiwrth anghymedroldeb. . Yn union wedi pasio yr Act yr oedd cyfnewidiad tra hynod, yr hwn a ymddangosai yn y drefn a ffynai yn gyffredin ymysg y bobl, ac yn nghartrefi y bobl, ac yr oedd cyfnewidiadau mwy amlwg fyth yn agwedd y dref." Mr. J. T. D. Llewelyn, Cadeirydd brawdlys chwarterol Sir Forganwg: "Gallwn feddwl fod Act Cau ar y Sabboth wedi cael effaith dda. . Yr wyf yn sicr. . Mae teimlad y bobl, can belled ag yr wyf fi yn gwybod, yn gwbl unfrydol yn mhlaid parhad yr Act." Ac yn gyffelyb y tystiolaethai Mr. Thomas Phillips, U.H., Mr. Thomas Davies, cyn-Faer Abertawe, Mr. E. R. Daniel, U.H., Mr. William Williams, U.H., Mr. F. C. T. Naylor, cyfreithiwr, Mumbles, Mr. P. Vivian, Mr. H. A. Chapman, aelod o'r Cyngbor Sirol, Abertawe, a llawer eraill o foneddigion parchus a dylanwadol.

Yn sicr fe fyddai meddwl am fynyd am diddymu, neu hyd yn nod wanhau yr Act, pan y rhoddir y fath dystiolaethau cryfion o'i phlaid, a hyny hyd yn nod yn y manau lle y mae wedi bod leiaf llwyddiannus, yn rhywbeth a fyddai yn hynod mewn gwirionedd!

III. Y mae hefyd wedi ein taro yn dra hynod wrth ddarllen yr *Evidence* nad oes nemawr neb yn meiddio galw am ddiddymu na gwanhau y Ddeddf, tra y mae bron yr holl dystion am ei chryfhau, a chael ei gweinyddu yn llawer mwy effeithiol.

Y mae ychydig, bid siwr, yn tystiolaethu yn anffafriol. Mae Mr. Carr, un o berchenogion, a golygydd y *Western Mail*, fel y gallesid dysgwyl, â'i holl enaid yn ei herbyn. Haera fod yr Act yn erbyn barn y dosbarth gweithiol yn y rhan hono o'r wlad, ac fod yn rhaid i'r gweithiwr Prydeinig gael ei gwrw ar y Sul. Ac nid ydyw yn beth i synu ato fod ei

"Special Commissioner," Mr. David Davies, yn nofio yn yr un cwch ag ef. Y mae dau offeiriad Pabaidd, Father Jones a Father Wade, yn ceisio cwyno yn ei herbyn. Felly hefyd y Parch. Griffith Roberts, rector Dowlais. Yr oedd efe yn erbyn pasio yr Act am nad ydyw yn credu mewn deddfwriaeth ar wahân i Gymru, a beïa ar ei manau gweiniaid; ond ar yr un pryd mae yn gorfod dyweyd: "Yr wyf yn credu fod cau y tafarnau ar brydnawn Sul yn beth da. Mae yn symud temtasiynau o ffordd dynion ieuainc. Yr wyf yn gwybod, fel mater o ffaith, yr arferai rhai dynion ieuainc wneyd pwynt o fyned yn rheolaidd o amgylch y tafarnau ar nos Suliau, tra y maent yn awr yn aros adref." Nid cynddrwg, Mr. Roberts! Nid oes gan y Parch. Mr. Jones, ficer Oystermouth, neu Mumbles, air da i'w ddyweyd am dani; dywed ei bod yn fethiant hollol yn y Mumbles, a'i bod yn gadael argraff foesol ddrwg ar y bobl; ond nid oes ganddo ddim i'w argymhell fel ymwared. Y mae *Ex-superintendent* Thomas hefyd yn ei herbyn, am y creda, fel Mr. Carr, y myn dynion ddiod, pa ddeddfau bynag a ddyger i fewn. Creda Mr. Walter Smyth, U.H., y dylid ei diddymu, er nad ydyw am adael y tai yn agored am yr oll o'r Sul. Ac y mae anadl Mr. H. De La Beche Dillwyn yn ei herbyn am fod y *bona fide travellers* yn ei boeni; y mae yn gweled hefyd mai ei heffaith ydyw creu drwg gwaharddedig, *malum prohibitum*, yr hwn nad yw yn ddrwg ynddo ei hun, *malum per se*; ac fod yn anhawdd iawn cael gan ddynion deimlo ei fod yn anghyfreithlawn cymeryd glasiad o gwrw ar y Sul pan y mae yn gyfreithlawn gwneyd hyny ddydd Llun. Nid ydyw y boneddigion hyn yn gryfion fel ymresymwyr, a phrin y mae yr un o honynt, er yn rhagfarnllyd, nad oes ganddo ryw eiliw o gydymdeimlad âg amcanion daionus yr Act. Yr unig un ag y mae ei ddigofaint yn llidiog ydyw golygydd parchus y *Western Mail*, Mr. Lascelles Carr. Mae efe, mae yn amlwg, wedi "ymddigio hyd farw," a phrin y daw o'i enau air nad ydyw yn anadlu celanedd. Ond pan ddywedwn fod yr un gŵr dro yn ol yn ei bapyr yn condemnio Ymneillduaeth Cymru fel yn waeth na'i masnach feddwol, fe fydd ein darllenwyr yn abl i ffurfio syniad gweddol am werth ei wrthwynebiad. Yr oedd Cymru oll yn cael ei chynhyrfu yn fawr pan ddywedodd golygydd y *North Wales Chronicle*, gryn lawer o flynyddoedd yn ol bellach, fod Ymneillduaeth yn "ddrwg mwy" na Phabyddiaeth. Erbyn hyn, dybygid, y mae pethau wedi myned lawer yn waeth: y mae Ymneillduaeth Cymru, sydd fel y cydnebydd Eglwyswyr parchus, wedi cadw ein hanwyl wlad "rhag Paganiaeth," yn waeth na'r fasnach mewn diodydd meddwol, y fasnach na all Arglwydd Randolph Churchill, yr hwn sydd yn ymladd dan yr un faner â Mr. Lascelles Carr, wneyd yn well na'i galw yn "ddieflig a dinystriol." Ac eto dyma y gŵr—Sais dybygid—sydd wedi codi yr wchw fawr yn erbyn ein Deddf Gymreig i Gau ar y Sabboth, ac y rhyngodd bodd i Lywodraeth ei Mawrhydi, mewn canlyniad, benodi *Royal Commission* i edrych i fewn i'r mater, a gweled ai nid oedd yn bosibl, rywsut, gwneyd tipyn o ffafr â'i chariadus gyfeillion o'r fasnach feddwol, y rhai trwy Loegr a Chymru sydd yn dychrynu yn gymaint wrth deimlo y dirgryniadau o'u hamgylch ag ydynt mor ddiammheuol yn rhagarwyddion trychineb. Ond y mae byddin y gwrthwynebiad, fel yr ymddengys ymhlith y tystion sydd o'n blaen yma, ac yn enwedig wrth gofio mai yn y manau hyny

yn unig y gallesid dysgwyl ei chael yn gref, yn ymddangos yn dila i'w ryfeddu.

Am y tystion eraill, mae yn dda genym weled eu bod yn gryfion a lliosog. Y maent yn deall yn berffaith beth sydd ganddynt i'w ddyweyd, ac y maent yn llefaru mor ddiamwys fel nad oes perygl am fynyd i neb eu camddeall. Nid oes yr un o honynt yn ysgrechain, ond fe deimlir fod yn eu geiriau gyfoeth o nerth tawel sydd yn codi, mewn rhan, o ddyfnder eu hargyhoeddiadau, ac yn fwy fyth o ddwfn ymwybodolrwydd eu bod yn dadleu achos sydd yn annhraethol gysegredig yn ngolwg Cymru lân. Am y clybiau, nid ydynt yn petruso am fynyd i ddyweyd, os ydynt yn gwerthu diodydd meddwol, y dylent gael eu cau, neu fynu trwyddedau a bod dan arolygiaeth yn gwbl yr un fath â'r tafarnau. "Fe'm tueddir i feddwl," ebe Mr. Fowler, "y penderfynai unrhyw ddyn, wrth weled eu ffurfiad, eu bâr, eu gwydrau, a chyffelybrwydd hollol y clybiau cyffredin i'r tafarnau, y byddai eu gwahardd yn beth da ynddo ei hun, ar wahan i Ddeddf Cau ar y Sabboth." A'r *Inspector* James: "Fe fyddai yn dda iawn gen i pe byddai clybiau yn cael eu gosod ar yr un tir â'r tafarnau, fel y gallai yr heddgeidwaid fyned iddynt heb warrant. Yr wyf yn meddwl hefyd y byddai yn lles mawr eu cau yr un pryd â'r tafarnau, fel nad allo y rhai sydd yn gadael y tafarnau am un ar ddeg o'r gloch fyned ar ol hyny i'r clybiau." A'r *General* Lee: "Yr ydwyf yn meddwl y dylai clybiau parchus ymostwng i gymeryd eu cofrestru a'u trwyddedu, fel y byddo i glybiau eraill gael eu gosod dan yr un reolaeth." Felly hefyd Mr. J. T. D. Llewelyn, Mr. E. R. Daniel, a llawer eraill. Am y tafarnau sydd yn gwerthu yn groes i'r Act, a'r *shebeens*, y maent yn unfryd y dylid eu hattal. Ebe y Parch. David Young: "Fe ddylai y gyfraith fod yn ddigon cref i'w gosod i lawr." A phan ofynodd y Cadeirydd, A dybiai fod hyny yn bosibl, ei ateb oedd, "Yr wyf yn tybied y dylai fod yn bosibl, fy Arglwydd." Drachefn: "Yr unig beth sydd yn fy nyrysu i yw fod manau a ddrwgdybir am wythnosau a misoedd a blynyddoedd heb eu gosod i lawr." Ac am y *bona fide traveller*, y maent oll yn teimlo y dylai y truan hwnw gael gorphwys bellach! Mae rhai, i'r dyben o gael ganddo aros gartref, am estyn "ei bolyn" i chwe' milldir, eraill i saith, eraill i ddeg. Pan ofynodd y Cadeirydd i un o'r rhai a enwasai y ffigyr olaf, Mr. S. T. Evans o Gastellnedd, Paham y nodai ddeng milldir, atebai, "Nid wyf fi yn gaeth at ddeg mwy na deuddeg." "Neu ugain?" "Nac ydwyf, fy Arglwydd." "Eich amcan yw gwneyd yn anhawdd i'r rhai hyny fyned a meddwi?" "Ië." Mae eraill yn foddlawn ar dynu ymaith eiriad anffodus Arglwydd Cross, a pheidio nodi unrhyw bellder, ond gadael ar y teithiwr i brofi, i foddlonrwydd yr ynadon, ei fod ar ei daith i ryw amcan heblaw i gael diod feddwol. Ond teimla y rhan fwyaf o lawer y byddai pob trefniadau o'r fath yn rhwym o arwain i ddrygau, ac nad oes ond un ymwared yn bosibl, sef dileu yn gwbl adran y *bona fide traveller*. Mae yn amlwg fod ymysgaroedd Arglwydd Emlyn yn teimlo yn gynhes at y gŵr ar ei daith, a gellid meddwl ei fod yn synu yn ddirfawr at galedi y tystion a waharddent iddo gael ei ddisychedu â diod feddwol. Ond y maent hwythau fel y creigiau. Y Parch. David Young: "Yr wyf yn ystyried fod diwygiad cyffredinol y wlad yn llawer mwy pwysig nag ychydig

anghyfleusderau." "Deallais y dymunech wneyd i ffwrdd yn hollol â hawl rhai sydd yn wirioneddol yn teithio i gael diodydd meddwol!" "Byddai yn well genyf hyny na'r drwg arall, a'r hwn sydd fwy." "Ond pe byddai y baich o brofi ei fod yn onest ar ei daith wedi ei daflu ar y dyn ei hun, a ydych yn ystyried y byddai o unrhyw niwed i un gael swm cyffredin o *refreshment* ar y Sul?" "Ni ddywedwn fod, ond fe fyddai teimlad pobl Cymru, sydd yn ddiammeu yn hynod o gryf, i fesur yn cael ei archolli trwy hyny." Drachefn mewn atebiad i Syr R. Harrington: "Yr wyf yn dewis y drwg lleiaf." Gofynai Arglwydd Emlyn i *General* Lee, "A rwystrech chwi i ddyn a gerddai dair milldir i fyned a thair milldir i ddychwelyd, i gael glasiad o gwrw?" Atebai yntau: "Nid wyf fi yn ystyried y byddai yn galedi mawr iawn i ddyn gerdded tair milldir heb gwrw. Mae drwg yr adran bresennol, fel y saif, mor fawr fel y dylai dyn sydd yn cerdded allan dair milldir, ac eisiau *refreshment*, gario *flask*." Dywedai Mr. C. H. James: "Y mae teimlad cryf yn Nghymru y dylai y Sabboth gael ei gadw yn wahanol i ddiwrnod arall." Dywedai Archddiacon Griffiths: "Mae yn anhawdd iawn cael hyd i *bona fide traveller*. Nid yw dyn fawr byth yn gweled un." Gofynai Arglwydd Emlyn, "A ydych chwi yn meddwl rhoddi ar ddeall i'r Ddirprwyaeth nad oes llawer yn cerdded i'r wlad am adfywiad ar y Sul?" "Digon tebyg fod cryn nifer yn Nghastellnedd, ond prin y mae eu rhodfa yn myned dros awr neu ddwy." "Ond gallai dyn heinyf gerdded saith neu wyth milldir yn yr amser yna?" "Nid wyf yn meddwl y tueddid hwy i fyned mor bell. Nid oes ond ychydig iawn yn Nghastellnedd yn myned ond am rodfeydd byrion pan mae yr addoldai yn nghau." Dywedai y Parch. Mr. Lewis, ficer Briton Ferry: "Yr wyf fi fy hun yn bleidiwr cryf i Gau ar y Sabboth, ond yr wyf yn dymuno fod adran y *bona fide traveller* yn cael ei thynu yn llwyr o'r Act." Ebe Mr. Thomas Phillips, Abertawe: "Yr wyf yn credu y gall rhai ar eu taith wneyd fel y gwna boneddigion yn gyffredin, a chymeryd ychydig *sandwich* gyda hwynt, os bydd yn angenrheidiol cael lluniaeth." A phan wnelai Arglwydd Emlyn ei apêl deimladol at Mr. P. Vivian, "Ai ni fyddai yn galed ar ddyn fo wedi ei alw ymaith am bellder o ddeng milldir o'i gartref i gael ei rwystro i fŷnu *refreshment*," ateb annhrugarog hwnw ydoedd: "Ni allaf fi feddwl am ddyn o'r fath heb feddu y rhagfeddwl o gymeryd rhywbeth gydag ef i'w fwyta." Ac yn debyg y tystion eraill. Y maent yn dal nad oes ar weithwyr Cymru ddim eisieu y ddiod ond i amcanion cyfeddach, ac wrth deimlo eu gwendid yn wyneb y lliaws temtasiynau ag y mae masnach beryglus y diodydd meddwol yn osod yn eu ffordd, eu bod yn ddwfn awyddus am gael eu hamddiffyn rhagddynt eu hunain; yn wir, mai eu dymuniad mawr fyddai *dileu y fasnach feddwol yn gubl oll.* Am yr ychydig ag sydd wedi eu handwyo i'r fath raddau gan y fasnach hon nes llwyr ddiddarbodi, a myned yn "*scoundrels*,"—ys dywed Arglwydd Aberdar,—wel, y mae yn ddyledswydd ar y wladwriaeth gymeryd mesurau i'w hamddiffyn ei hun rhagddynt, fel hefyd y teimla pobl dda fod yn ddyledswydd arnynt hyd y diwedd weddïo drostynt, ac ymdrechu er eu hachubiaeth.

Dyma ni wedi ymdrechu bwrw golwg ar yr ymchwiliad fel y

dygwyd ef ymlaen hyd yma yn y Deheudir. Bydd y Ddirprwyaeth ymhen ychydig ddyddiau bellach yn ymweled â'r Gogledd. Hyderwn, fel y mae ein hachos yma gymaint yn gryfach nag ydyw yn y De, na fydd i neb o honom fod yn ddiofal; ond gan y bydd i gyfeillion y fasnach feddwol, yn sicr, wneyd eu goreu, ac fod hwn yn gyfleusdra na ellir byth dysgwyl ei well i ni gael perffeithio yr Act a chadarnhau y gweinyddiad o honi, y byddwn oll yn effro i wneyd ein rhan o blaid achos ag y tystiolaetha ein cydwybod ei fod yn achos da, yn achos ein gwlad, ac yn achos ein Duw! Diammeu y ceir cymanfaoedd a chynnulliadau eraill y gwahanol gyfundebau crefyddol yn flaenllaw i anfon gwŷr cymhwys i osod eu teimlad ar achos mor bwysig ger bron y Dirprwywyr. Mae yn sicr y bydd rhai yn gwneyd yn fach o'u gwaith, gan awgrymu eu bod hwy wedi "cymeryd ochr" yn y mater. Gwych oedd genym glywed am y chwarelwr gwrol o Dalsarn oedd yn ymddangos yn llys yr ynadon yn Nhaernarfon pan wrthwynebid —ac yn llwyddiannus—adnewyddu trwydded y dafarn lygredig hono yn Nyffryn Nantlle, i'r hwn y gofynodd cyfreithiwr y dafarn, Ai nid ydoedd yn *Good Templar*,—gan olygu fod hyny ar unwaith yn dirymu ei holl dystiolaeth; ond atebodd y Cymro, "Ydwyf, ac mi hoffwn i wybod faint gwaeth ydw i o hyny?" Yr un modd, faint gwaeth ydyw y bobl sydd yn cysegru eu holl lafur i'r amcan o geisio dyrchafu eu cydwladwyr, pan yn rhoddi eu tystiolaeth yn erbyn amcan ag nad allai ei lwyddiant olygu dim llai na'u dirywiad a'u dinystr? Fe fyddai yn chwith gan Gymru weled y rhai hyny, ei chyfeillion goreu, yn sefyll draw oddiwrthi yn awr ei phrofedigaeth. Ond y mae i ni yn fater o ddirfawr foddhad fod y fath werth erbyn hyn yn cael ei osod yn ein holl ardaloedd ar Sabbothau sobr, fel nad oes brinder am leisiau cryfion, y rhai o bob cyfeiriad a ddywedant fod yn rhaid cadarnhau y Ddeddf. Pob clod i'n Cynghorau Sirol am gymeryd y mater i fyny mor bybyr, ac ymbarotoi mor egnïol i beri clywed eu llais ger bron y Ddirprwyaeth. Da oedd genym glywed Cadeirydd parchus Cynghor Môn yn dyweyd fod y pwyllgor a benodwyd yno i'r amcan yma wedi cael fod bron holl dafarnwyr Mam Cymru yn bleidiol i'r Act. Dysgwyliwn hefyd y bydd penderfyniadau yn cael eu cyflwyno o liaws o gyrff cyhoeddus eraill yn ein gwlad, ac y ceir dadganiadau oddiwrth weithwyr ein trefi a'n hardaloedd, ac yn enwedig oddiwrth chwarelwyr Llanberis, y Penrhyn, Nantlle, Ffestiniog, &c., a'r rhai hyny wedi eu harwyddnodi gan filoedd ar filoedd, ac yn dangos mewn ffordd nad allo neb ei chamgymeryd y rhaid i Gymru gael ei Sabbothau, o leiaf, yn rhydd oddiwrth felldith y fasnach feddwol.*

DANIEL ROWLANDS.

* Dyma y dadganiad a arwyddnodir yn Mangor:—"We, the undersigned Inhabitants of the Parish of Bangor, desire to express to the Royal Commission appointed to enquire into the working of the Sunday Closing Act for Wales, our conviction that that Act has proved of very great benefit to the country, and strongly protest against the idea of its being repealed; and we consider, if a *bona fide* traveller clause is to be applied at all, that the distance should be extended to not less than seven miles."

# NODIADAU LLENYDDOL.

*Hanes Duwinyddiaeth.* Gan y Parch. LEWIS EDWARDS, D.D.
*Nodiadau Deongliadol ac Ymarferol ar yr Epistol at yr Hebreaid.* Gan y Parch. OWEN THOMAS, D.D., Liverpool. Gyda Rhagarweiniad mewn rhan yn newydd.
*Y Pulpud Cymreig: allan o Gofiant y Parch. John Jones, Talsarn, gan y Parch.* OWEN THOMAS, D.D. Gyda Rhagymadrodd yn cynnwys Byr-grybwylliad am y Parch. John Jones.
*Cofiant y Parchedig Henry Rees, Liverpool, yn cynnwys casgliad helaeth o'i Lythyrau. Gan y Parch.* OWEN THOMAS, D.D. Rhan I.

MAE y llyfrau hyn oll yn cael eu cyhoeddi gan y Meistri Hughes o Wrexham, ac y mae Cymru yn dra dyledus iddynt am eu dwyn allan mewn diwyg mor hardd, ac mor hynod o radlawn. Y mae llawer o ddarllenwyr y TRAETHODYDD wedi astudio gyda dirfawr foddhad y gwaith cyntaf ar ei ymddangosiad fel *Rhaglith* i argraffiad o Gorff Dduwinyddiaeth Dr. Lewis. Camgymeriad oedd i draethawd mor gyflawn a meistrolgar gael ei osod yn unig fel Rhaglith i waith o'r fath; ond yn awr y mae yn ymddangos ar ei ben ei hun, yn gyfrol ddestlus o 180 o dudalenau, mewn rhwymiad hardd a chryf, cyfaddas i'r gwisgo a ddylai fod arni trwy flynyddoedd o astudiaeth, ac i'w chael am ddim ond hanner coron. Mae y rhan gyntaf o'r gwaith yn ymdriniaeth—ac ni raid dyweyd ei bod yn alluog ac addfed—ar yr hyn a ellid ei alw yn athroniaeth duwinyddu, yn dangos fel y mae dadguddiad yn golygu athrawiaeth, ac athrawiaeth gyfundraeth, a'r gwahanol gynlluniau trwy ba rai yr amcanwyd corffori y drychfeddwl, gyda beirniadaeth werthfawr arnynt, ynghyd a chynllun ardderchog a gynnygia yr awdwr ei hunan. Mae yr ail ran yn rhoddi golwg gryno, ond hynod o gyflawn, ar hanes duwinyddiaeth, gan ddilyn yn y naill gyfnod ar ol y llall yr athrawiaethau mawrion a ddelent i sylw ac y cyrhaeddid golygiadau mwy cyflawn yn eu cylch yn y gwahanol ddiwygiadau a gymerasant le yn hanes yr eglwys. Y mae lliaws mawr bellach wedi codi yn ein plith ag y mae efrydiau o'r natur yma o ddirfawr ddyddordeb iddynt, ond nad ydynt wedi cael cyfle i ddarllen ac astudio y gwaith anmhrisiadwy hwn yn yr argraffiad o lyfr Dr. Lewis; a dysgwyliwn y byddant yn awchus i wneyd y gyfrol brydferth yma yn eiddo iddynt.

Mae gwaith rhagorol Dr. Thomas ar *Yr Epistol at yr Hebreaid* wedi ei gyhoeddi yn gyffelyb, ac yn gyfrol dra golygus o dros ddau gant o dudalenau, o blyg mwy, ar bapyr da, mewn rhwymiad tra dymunol, ac i'w chael am ddim ond pum' swllt. Camgymeriad mawr ydoedd iddo yntau, wrth gyfieithu Testament Newydd Darluniadol Dr. Kitto, ac ysgrifenu Nodiadau Ychwanegol, "lithro," a defnyddio ei air ef ei hun, i ysgrifenu nodiadau o'r fath gyflawnder a gwerth fel ag i fod o nodwedd hollol wahanol i'r gwaith yr ymgymerasai â'i ddwyn i sylw y Cymry, yn lle cyhoeddi ei gynnyrchion at wasanaeth ei gydwladwyr ar wahan, ac yn ei enw ei hun. Cyhoeddasom yn ddiweddar adolygiad llawn ar y Testament Newydd Darluniadol, lle y galwyd sylw neillduol at gyfraniadau llawnion a chyfoethog Dr. Thomas. Hyderwn fod llawer o'n cydgenedl wedi perchenogi y gwaith gwerthfawr hwnw. Ond y mae hwn yn gyfleusdra ag y bydd yn dda gan liaws gymeryd mantais arno i gael ei Esboniad ar yr Epistol at yr Hebreaid ar wahan, ac

y mae mor gyflawn yn eiddo iddo ef ei hun fel nad ydyw y gyfrol drom a sylweddol yn cynnwys ond rhyw naw cant o linellau, neu lai na thri ar ddeg o du dalenau o waith Dr. Kitto. Am Dr. Thomas nid rhaid i'r Cymry yn sicr am lythyrau canmoliaeth iddo ef fel esboniwr ar yr Ysgrythyrau. Y mae ar hyd ei oes wedi gwneyd hyny yn hoff bwnc ei efrydiaeth. Mae yn ammheus a oes gweinidog yn y deyrnas sydd wedi casglu ynghyd lyfrgell gyfoethocach mewn gweithiau ar esboniadaeth ysgrythyrol na'r eiddo ef. Ac fe ŵyr pawb mai nid wedi eu casglu ac ymhyfrydu ynddynt fel llyfrbryf yn unig y mae efe, ond y mae hefyd wedi eu darllen yn awchus a'u hastudio yn ddyfal. Y mae hefyd yr un mor wybyddus ei fod, er holl helaethrwydd ei ddarlleniad, yn meddwl uwch ben y pethau mawrion drosto ei hun, ac mewn dirnadaeth a barn a darweledigad, yn dangos ymadferth ag sydd yn ei osod yn amlwg ymysg y cedyrn; heblaw fod ei ddwfn gydymdeimlad âg ysbryd y gwirionedd yn peri fod ei "ymadrodd yn dyferu fel gwlith." Nid yw ond peth bychan i ddyweyd na chafodd darllenwyr Cymreig erioed y fath gyfleusdra i geisio myned i mewn i ystyr ogoneddus yr Epistol ag a geir yn y gwaith hwn, a diammeu y buasai ei barch a'i awdurdod yn dra uchel pe wedi ei gyhoeddi yn yr iaith Saesoneg.

Y mae dymuniad cryf wedi ei amlygu mewn amryw o gylchoedd pwysig am argraffiad rhad o'r bennod fawr ar y *Pulpud Cymreig* yn Nghofiant y Parch. John Jones. Yn sicr fe ddylai yr argraffiad hwn, sydd yn agos i ddau gant o du dalenau wythplyg, wedi eu hargraffu yn rhagorol, am swllt, fod yn ddigon i foddloni unrhyw awydd am radlonrwydd. Yr oedd y tri gwaith yma wedi eu hystrydebu gan yr argraffwyr, onidê fe fuasai eu gwerthu am y fath brisiau yn gwbl anmhosibl; ac er hyny, mae yn amlwg nad oes dim ond lledaeniad tra helaeth a'u ceidw yn ddigolled. Hyderwn y bydd y llyfr hwn, yn arbenig, yn cael ei ledaenu wrth y degau o filoedd, ac y bydd pobl Cymru yn gyffredinol, ac yn enwedig y tô ieuanc, yn ymgydnabyddu trwyddo â hanes a gwaith y dynion ardderchog a roddes Duw i'n gwlad, y rhai y mae eu hargraff wedi ei adael mor amlwg arni, ac y dylai eu coffadwriaeth fod yn fendigedig gan ein cenedl ddyddiau y ddaear. Ni ddylai fod gwobrwyo ynglŷn âg arholiadau yn ein plith heb fod copïau lawer, mewn rhwymiad da, o'r gwaith rhagorol hwn yn cael eu rhoddi yn llaw ein plant a'n pobl ieuainc. Bydded ei ysbryd yn fagwraeth cryf i ddaioni yn ein plith; a pheth bynag a ennillom nad allai fod yn gyrhaeddadwy i'n tadau apostolaidd, parhaed eu sancteiddrwydd a'u zel ymhlith eu plant hyd byth.

Llawenhaem yn fawr weled y Rhan gyntaf o *Gofiant y Parchedig Henry Rees* yn dyfod i'n dwylaw, a phrin y mae eisieu i ni ddyweyd ein bod y cyfle cyntaf a gawsom wedi dechreu ei darllen, ac wedi dechreu, nad oedd yn bosibl i ni ei rhoddi o'n llaw heb fyned drwyddi. Deallwn fod yr holl waith wedi ei ysgrifenu, ac y cyhoeddir ef mewn deuddeg o ranau misol, swllt yr un. Owen Thomas yn ysgrifenu am Henry Rees! Mae crybwyll y fath beth yn ddigon o warant i filoedd lawer o bobl oreu Cymru am werth y gwaith, ac am y cyfoeth o ddyddordeb a mwynhad a daioni a allant ddysgwyl oddiwrtho. Ac yn sicr y mae y Rhan yma y fath ag na all lai na chyfiawnhau eu dysgwyliadau. Fel hanesydd y drydedd Efengyl, y mae Dr. Thomas "wedi dilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad;" ni fu dim poen yn ormod ganddo i fynu boddlonrwydd llawn am y ffeithiau a esyd ger bron; tra y mae ei gymdeithas faith ac agos â Mr. Rees wedi rhoddi iddo y cyfleusderau goreu i'w adnabod, a'i gôf gafaelgar—y gellid meddwl na all ollwng i golli nemawr ddim a ddaeth erioed iddo—wedi cadw yn ofalus y pethau oedd yn werth eu cofnodi yn ei gylch, fel yr oeddynt mewn cyflawnder rhyfedd yn barod at ei wasanaeth. Ni fydd dyddordeb y gwaith yn ddim llai, ond ar rai golygiadau yn fwy, na Chofiant y Parch. John Jones; ac y mae yn anhawdd meddwl am bethau teilyngach i ni fel cenedl fod yn falch o honynt ac yn ddiolchgar am eu cael nag a osodir ger bron yn y ddau waith mawr hyn.

*Hanes Methodistiaeth Gorllewin Meirionydd, o'r dechreuad hyd y flwyddyn* 1888. (Cyfrol Canmlwyddiant.) Gan y Parch. ROBERT OWEN, M.A., Pennal. Cyfrol I. Dolgellau: E. W. Evans.

MAE yr amgylchiadau a gofnodir yn y gyfrol ddyddorol hon, yn sicr, yn deilwng o'u cadw mewn coffadwriaeth, ac ni allasai y gorchwyl o ysgrifenu eu hanes ddisgyn i ddwylaw gwell na'r eiddo Mr. Owen. Y mae efe wedi treulio ei einioes yn y rhan yma o'r wlad; wedi cymeryd erioed y dyddordeb dyfnaf yn ei chrefydd, ac wedi cael llawer o'r cyfleusderau goreu i gymdeithasu â'r rhai a gymerent y rhan fwyaf blaenllaw yn nygiad y gwaith mawr ymlaen; yn ychwanegol at hyn oll, y mae wedi astudio yn dda bob llenyddiaeth ag oedd yn gyrhaeddadwy ar y materion y mae yn ymwneyd â hwynt; ac y mae wedi cyfleu ei faterion yn drefnus a doeth, ac ysgrifenu yn y fath fodd ag sydd yn gwneyd darllen ei lyfr yn orchwyl hyfryd a boddus. Ac er mai yw y gyfrol hon, sydd yn 500 o du dalenau, ond y gyfrol gyntaf, ac i'w dilyn gan un arall gyffelyb, prin y teimlai neb, ac yn enwedig o'r rhai sydd yn cymeryd dyddordeb yn y gwaith da yn Ngorllewin Meirionydd, fod ynddi nemawr o ddim a allesid ei adael allan, tra y mae y rhan fwyaf o lawer o'i mater yn ddyddorol i bawb "sydd yn meddwl am ei enw Ef." Yr oedd "gwroniaid o flaen Agamemmon," ac y mae llawer iawn o'n cydwladwyr ninnau wedi gwneyd gwaith ardderchog a pharhaus, er nad ydyw eu henwau mor adnabyddus â'r cedyrn cyntaf. Yr ydym erbyn hyn wedi ein cael ein hunain mewn amgylchiadau tra gwahanol i'r eiddo ein tadau, ac weithiau bron yn dueddol i anghofio nad fel y mae pethau yn awr yr oeddent erioed. Ond heblaw y gwerth anmhrisiadwy sydd yn yr etifeddiaeth a adawsant i ni ar eu hôl, fe fyddai yn golled fawr i ni anghofio eu ffydd, eu hunanymwadiad, eu llafur, a'u dirfawr ffyddlondeb gydag achos y Gwaredwr. Fe fyddai yn drychineb i'w plant fod yn anwybodus am lafur eu tadau dysyml, y rhai y mae yr Anfeidrol wedi gosod y fath fawredd arnynt. Ac ni allwn ninnau wneyd ond ychydig iawn o ddim gwaith fydd yn aros, oddieithr i ni fod yn barhaus yn tynu ein nerth o'r un ffynnonellau. Hyderwn y bydd llawer o'n cydwladwyr yn gwneyd â hwy eu hunain y caredigrwydd o astudio y gyfrol ddyddorol hon. Ceir ynddi nid yn anfynych ysgrifenu prydferth. Wrth gyfeirio at enwau lleoedd yn y rhanbarth, sydd yn taflu goleu ar eu hanes, dywedir: "Tra nad yw dynion i'w cael yn meddu lleferydd byw, i adrodd hanes eu hoes, mae y pethau a wnaethant—fel graian mân y nentydd yn dangos lle unwaith y bu y llifeiriant—yn meddu tafodau byw, y rhai sydd, wedi iddynt hwy feirw, yn llefaru eto." Y tawelwch wedi yr erledigaeth yn Nhowyn, trwy Mr. Corbett, o Ynysmaengwyn: "Trannoeth ystorm ydoedd. Wedi i'r dymhestl fyned heibio, y gwyntoedd ostegu, a'r gwlawogydd beidio, y mae tawelwch yn dilyn, yr elfenau fel pe wedi blino yn ym'add, a môr a thir wedi dyfod mor llonydd â llyn llefrith. Gellwch weled eich cysgod yn y llyn dŵr, a chlywed deilen rhedynen yn disgyn ar y llawr, gan faint y tawelwch sydd o'ch deutu. Eto i gyd, mae y dymhestl wedi gadael ei hôl ar ddyn ac anifail, a natur drwyddi draw wedi ymddryllio, a bydd gwaith nid bychan i adgyweirio yn ol llaw. Felly," &c. Fe geir cryn lawer o eiriau cartrefol yr hen Gymry mwynion eu hunain, y rhai a roddwyd i lawr yn llythyrenol fel y deuent o'u genau, ag y teimlai y darllenydd na fynai fod hebddynt. Yr oedd Harri Sion, Nanymynach, a William Sion, Tyddynyberllan, wedi cytuno i fyned i Wylmabsant Llanfihangel-y-Pennant, ac i aros am eu gilydd. Ond pallodd amynedd y diweddaf yn dysgwyl, a chychwynodd o flaen y llall. Pan ddaeth Harri Sion, a gweled fod ei gymydog wedi myned, aeth i'w ystabl a chyfrwyodd ei farch i fyned ar ei ol. Cychwynent tuag adref yn bur hwyr. "Mae gen' i geffyl," ebe Harri Sion. "A wnaiff o gario ei ddwbwl?" gofynai y llall. "Gwnaiff." Felly aethant tuag adref, y cymydog yn farchogwr, a'r perchenog wrth ei agil.

Vedi cyrhaedd Tyddynyberllan disgynodd y perchenog, heb wybod mai ar i geffyl ei hun yr oedd wedi dyfod, a disgynodd ei gymydog, a dywedai, ' Cymer ofal o dy geffyl." "Yr andros o honot ti," ebe W. Sion, "wrth dy gil di ar fy ngheffyl fy hun!" Nid rhyw lawer o ddawn oedd gan Sion Tychan *Vawr* yn Llwyngwril, a therfyniad cyffredin ei weddi ydoedd, ' Hwda, ni, Arglwydd; cymer ni yn rhodd ac yn rhad, trwy Iesu Grist, Amen." Yr oedd yno Sion Vychan *Vach* hefyd, yr hwn yn anffodus a oddodd yn yr afon. Ac yr oedd yn Llwyngwril drydydd Sion Vychan, a ldynodid, i'w wahaniaethu, yn *Ganol;* yr oedd efe yn Fedyddiwr zelog, ac vedi bod yn dadleu llawer â Sion Vychan *Vach*, a gorfoleddai o lawenydd 'od ei hen gyfaill wedi myned i'r nefoedd yn y ffordd iawn. "Wel, wel," neddai, "'roeddwn i yn dyweyd wrtho o hyd fod yn rhaid i bob un aiff i'r nefoedd fyned *dros ei ben yn gyntaf*." Byddai Mr. Evans, Maesypandŷ, amaethwr cefnog yn yr ardaloedd, oedd wedi mabwysiadu golygiadau y *Plymouth Brethren*, yn *plagio* Richard Jones, Abergynolwyn, trwy ddyweyd od arno eisieu i'r holl enwadau fod yn un. Un diwrnod gwnai helynt fawr o ıyny yn nghanol cwmpeini lliosog adeg cneifio. "Hwyrach, wir, Mr. Evans, nai chwi sydd yn eich lle," ebe Richard Jones, "ond yr wyf fi yn meddwl mai yn llwythau yr ydym i fod; pawb yn ol ei lwyth, a than ei luman ei hun. Yn lebyg fel y mae y ffermydd yma. Oni fuasai un ffarm fawr yn beth rhyfedd awn? Gwartheg pawb wedi dyfod at eu gilydd; buchod pawb, teirw pawb, lloi pawb, defaid a geifr pawb; oni fuasai yn anodd iawn gwybod p'run fuasai p'run, ac eiddo pwy fuasai pwy. Yr wyf fi yn credu mai fel y maent y mae hi oreu, digon o gloddiau a gwrychoedd rhwng ffermydd pawb." Am y dymher grefyddol a ddangosir trwy y gyfrol, a'r gofal calon am waith yr Arglwydd, ni fyddai ond ofer nodi engreifftiau. Y fath gwestiwn pryd-ferth a ofynai Mr. Charles i Dafydd Humphrey o Gorris, pan yn ymofyn a oedd yno Ysgol Sul: "A oes yma geiliog yn canu yn y fan yma, Dafydd?" Da iawn genym gael yn y gyfrol gymaint o hanes Lewis William, Llanfachreth, y dyn sanctaidd ac anwyl oedd, o gariad, yn dysgu y plant i ddarllen cyn prin medru darllen ei hun, yn dysgu y wyddor iddynt ar "Ymdaith Gwyr Harlech" a ddysgasai efe gyda'r *militia*, yn eu cadw mewn trefn trwy *military drill*, yn dwyn pawb i'w garu, ac yn llythyrenol yn "cerdded o amgylch gan wneuthur daioni." Tyner iawn ydyw yr hanes a roddai Mr. Jones, Ty Mawr, am dano y tro olaf y bu yn nghapel Bryn-crug, bron wedi llwyr golli ei olwg, ac yn cerdded ol a blaen, a'i ben i lawr ar draws y capel o flaen y pulpud, yn hir wedi i bawb fyned allan, ac yn dyweyd mai dyna y tro olaf iddo weled yr hen addoldy; ac wedi dyfod at y drws, i gychwyn gyda Mr. Jones tua Gwyddelfynydd, yn troi yn ol drachefn, a'i wyneb unwaith eto i mewn i'r capel, ac yn dyweyd, "Ffarwel i ti yr hen gapel am byth; gwelais lawer o Dduw ynot ti erioed."—Mae y gyfrol o ran argraffwaith a rhwymiad yn hynod o ddestlus; ei phris yw 5s., ond yn is i danysgrifwyr, a da iawn genym fod rhestr y rhai hyny mor fawr.

*Gemau o Fywyd yr Hynod Ioan Jones, Rhuthyn.* Gan RHUDDENFAB. Wrexham: Hughes & Son.

BYDDED wyrddlas goffadwriaeth Ioan Jones, y crefyddol, y pert, a'r dyddan. Fe'i hadwaenid gan lawer o'i gydwladwyr, ac yr oedd pawb a'i hadwaenai yn ei barchu, yn ei edmygu, ac yn ei garu. Fe ddylai y gyfrol ddestlus hon —pris 1s. 6c.—gyrhaedd llawer o'r Cymry, ac nid ydyw yn debyg y bydd i neb a ddechreuo ei darllen ei dodi o'r neilldu nes ei darllen i'r pen, ac fe fydd yn rhyfedd os na chaiff ei hun wedi gwneyd hyny yn ddoethach ac yn well. Yr oedd rhyw fywiogrwydd rhyfedd yn meddwl Ioan Jones, ac nid oedd ond peth cyffredin iddo daro ar syniadau dysglaer, a'r rhai hyny yn fyn-ych yn ir gan wir eneiniad. Un engraifft o lawer o'i bethau da a geir yn y

gyfrol hon:—"Peth pwysig iawn i'r bobl ifinc yma ydi edrych pwy ydi'u *companions* nhw wrth fyn'd am *walks*. Y mae y Bibl yn d'eyd fod 'ymddiddanion drwg yn llygru moesau da,' ac os nad ydi y *companions* yn dda mae'n rhaid fod yno lygru'n myn'd ymlaen. Os cym'rwch chi'i gynghor gin hen ffrind,—mi cewch o am ddim, a dyma fo,—g'newch run fath ag Enoch: '*A rhodiodd Enoch gyda Duw;* ac ni welwyd ef; canys Duw a'i cymerodd ef.' Mae'n rhaid fod Duw yn *gompanion* difyr, ne' fase Enoch ddim yn cael blas ar ei gymdeithas am dros bum' mlynedd a thriugain a thri chant o flynyddoedd! Mae ffrindie gore'r ddaear 'ma yn ffraeo 'n amal iawn, ac yn myn'd yn elynion pena; ond y mae *friendship* â Duw yn myn'd yn fwyfwy ar hyd oes Enoch, nes aeth hi mor *hot* yn y diwedd fel y cym'rodd Duw o ato 'i hun! Os yden ni am rodio, rhodiwn gyda Duw.

Cyfres y Ceinion. *Gweledigaethau y Bardd Cwsg.* (Darluniadol.) Gan Ellis Wynne. Yr ugeinfed argraffiad.

Mae yn dda genym weled "Cyfres y Ceinion" wedi cyrhaedd ei phedwaredd gyfrol ar ddeg. Hollol deilwng oedd cynnwys y *Bardd Cwsg* ynddi, ac mae yn ddyddorol gweled fod hwn yr ugeinfed argraffiad o lyfr difyrus ac addysgiadol "Ellis Wynne o Lanynys." Mae amryw o'n llenorion goreu wedi ei ddarllen amryw weithiau drosto, a phe delai yr argraffiad hylaw yma o hono i'w dwylaw fe fyddai y brofedigaeth iddynt, fel i ninnau, yn ormod i beidio ei ddarllen unwaith eto. Mae yr argraffiad cyntaf wedi ymddangos er ys dros 180 o flynyddoedd, a chan fod ein gwlad ar y pryd ymhob ystyr mor isel, nid rhyfedd fod yn y gwaith gryn lawer o sylwadau ac ymadroddion sydd bellach yn lled eirwon, ac na ellid eu defnyddio mwy. Ond fe ddarllenwyd llawer arno yn mhob oes o hyny hyd yn awr, ac y mae yn anhawdd meddwl na pharodd i liaws o'n cydwladwyr edrych gyda mwy o ddychryn ar bechod, a cheisio rhodio yn llwybrau y bywyd. Am y Gawres ofnadwy a ddesgrifir yn niwedd y llyfr, dywed yr Eryr nefol: "Ac nis meddaf mo'r geiriau i ddadgan ei moddion hi; ond mi fedra ddywedyd i ti mai cawres dri-wynebog oedd hi; un wyneb tra ysgeler at y Nefoedd, yn cyfarth, yn chwyrnu, ac yn chwydu ffieidd-dra melldigedig at y Brenin nefol: wyneb arall teg tua'r Ddaear, i ddenu dynion i aros yn ei chysgod: a'r wyneb arall at Annwn, i'w poeni byth bythoedd. Mae hi yn fwy na'r ddaear oll, ac yn cynnyddu eto beunydd, ac yn gan' erchyllach na'r holl uffern. Hi a barodd wneyd uffern, ac sy'n ei llenwi hi â thrigolion. Pe ceid hon o uffern, fe ai Annwn yn Baradwys; a phe ceid hi o'r ddaear, fe ai'r byd bach yn nef; a phe cai hithau fyned i'r nef, hi a droai'r gwynfyd yn uffern eithaf! Nid oes dim yn y bydoedd oll (ond hon) nad Duw a'i gwnaeth. Hon yw mam y pedair Hudoles ddiwyd; a hon yw mam Angeu: a hon yw mam pob drygioni a thrueni; â chanddi grap ofnadwy ar bob dyn byw. Hi a elwir Pechod. Y sawl a ddiango o'i bachau hi, gwyn ei fyd byth, eb yr Angel."

Am swyn y *Bardd Cwsg*, gyda'i synwyr da, ei onestrwydd diarbed, ei athrylith, ei naturiolrwydd, a'i Gymraeg gref a pherseiniol—y mae yn anwrthwynebol. Cyrhaeddodd ei gyfaredd ni y tro hwn, a defnyddio ei eiriau prydferth ef ei hun, "ar brydnawngwaith teg o haf hir-felyn tesog," ac ni ollyngodd ni nes cyrhaedd y tu dalen olaf. Ceir yn yr argraffiad hwn ryw 11eg o ddarluniau, a wnaed, fel ein hysbysir gan Gymro ieuanc "sydd yn gweithio fesul dydd," ond y maent yn sicr yn dangos ymadferth mewn arluniaeth sydd yn deilwng o honiadusrwydd llawer uwch. Ac y mae "Llyfrbryf," yn ei ddull dyddan a dyddorol, yn rhoddi i ni ychydig o hanes Ellis Wynne, ynghyd a desgrifiad doniol o'i wlad. Ychwanegir rhai nodiadau hefyd, y rhai a fyddant o wasanaeth gwerthfawr i ddarllenwyr ieuainc.

HYSBYSIADAU.

## Newydd at Wasanaeth yr Ysgolion Sabbothol.

**Yn awr yn barod, mewn llian, pris Hanner Coron,**

# BRASLUN
O
# 'WYD AC EPISTOLAU PAUL.

GAN

## JOHN EVANS (EGLWYSBACH).

*TREFFYNNON: P. M. EVANS & SON.*

Werth gan yr holl Lyfrwerthwyr; neu yn uniongyrchol -th y Cyhoeddwyr yn ddidraul trwy y Post, ar dderbyniad ei mewn Stamps neu Order.

**Mewn Llian, pris 1s. 6c.**

# GOLION SABBOTHOL
## CYMRU.

Cynnwysiad :

*hwyniad a Chynnydd yr Ysgolion.*—Gan y Parch. David Evans, M.A., Gelligaer.
*fur yr Ysgolion Sabbothol i'w ddwyn yn mlaen mewn Ysbryd Cariad.*—Gan . Charles Davies, Liverpool.
*u yr Ysgol Sabbothol.*—Gan Mr. Eleazer Roberts, Liverpool.
*Athrawon.*—Gan Mr. R. D. Roberts, M.A., D.Sc., Clare College, Cambridge.
*Athraw yn parotoi ar gyfer ei Ddosbarth.*—Gan y Parch. John Evans (Eglwys-

*lfyddyd o addysgu yn ei chysylltiad â'r Ysgol Sabbothol.*—Gan Mr. S. J. Blaenau Ffestiniog.
*au Addysg yr Ysgol Sabbothol.*—Gan y Parch. John Owen Jones, Llanberis.
—Gan y Parch. Evan Peters, Bala.
*lltiad yr Ysgol Sabbothol a'r Band of Hope.*—Gan Ceridwen Peris, Fourcrosses.
*Ysgol Sabbothol yn Lloegr.*—Gan Mr. T. Apsimon, Southport.
*Ysgol Sabbothol fel Moddion Gras.*—Gan y Parch. T. Lewis, B.A., Coleg Anni- Bala.
*iliwch yr Ysgrythyrau.*—Gan Dyfed.
*grif.*—Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor.

TREFFYNNON : P. M. EVANS & SON.

COLEG Y GOGLEDD.—Agorir y Coleg ar y 1af o Hydref. Dechreua yr Arholiad am Ysgoloriaethau ar yr 17eg o Fedi. Cynnygir £500 yn flynyddol mewn Ysgoloriaethau; heblaw pump o Uwch-Ysgoloriaethau (£30 yr un, ynghyd ag addysg ra[d]) roddir yn flynyddol mewn pynciau neillduol. Gellir cymeryd rhan o gwrs Fer[idd] Prifysgolion Edinburgh a Glasgow, ynghyd a rhan o Gwrs Wyddonol Edinburgh [yn y] Coleg.—Am bob manylion ynghylch yr Ysgoloriaethau a'r Arholiadau, anfoner a[t y] Cofrestrydd.

---

# CYFROL GOFFADWRIAETHOL CYNFAEN

Yn awr yn barod, yn un Gyfrol,

PRIS PEDWAR SWLLT,

DETHOLIAD O BREGETHAU Y DIWEDDAR BARCHEDIG JO[HN] HUGH EVANS (Cynfaen). Mae y Gyfrol yn cynwys Brasluniau o Fyw[yd yr] Awdwr, a'i ddarlith ar Job, yn nghyda PHRYDDEST FUDDUGOL CADV[AN] er coffadwriaeth am dano. Anfoner pob archebion at MRS. J. H. EVANS, 43, Te[...] Street, Liverpool. Rhoddir yr elw arferol i Lyfrwerthwyr a Dosbarthwyr.

---

Yn awr yn barod, mewn llian hardd, pris 8s. 6c.

# WILLIAMS PANT-Y-CELYN

YN CYNNWYS EI

## Holl Gyfansoddiadau Barddonol,

Oddieithr ei Hymnau, gyda Hanes ei Fywyd, a Thraethawd Beirniadol [a]r Weithiau, gan y Golygydd, y

## PARCH. N. CYNHAFAL JONES,

LLANIDLOES.

Mae y gyfrol hon y cydgasgliad cyflawnaf o Weithiau Perganiedydd Cymru a gy[hoedd]wyd erioed—ac mae y ffaith fod cannoedd lawer o'r gyfrol wedi eu herchi cyn e[i] ddangosiad o'r wasg yn siarad yn uchel am ei theilyngdod, a'r angen a deimlid yn y[r oes] am Weithiau Prif Emynydd y Genedl.

P. M. EVANS & SON, PUBLISHERS, HOLYWELL.

---

Yn awr yn barod, Pris 1s. 6c., mewn amlen liwiedig, y Ffugchwe[dl] Boblogaidd

# Y DREFLAN:

## EI PHOBL A'I PHETHAU

WEDI EI HYSGRIFENU GAN

## AWDWR "RHYS LEWIS."

Mae y chwedl hon wedi derbyn cymeradwyaeth m[wyaf] calonogol y wasg, ac ynddi ceir desgrifiadau naturiol o g[ym]eriadau ac amgylchiadau gwir Gymreig, wedi eu portread[u] yn null dihafal a mwyaf hapus yr Awdwr

Ar werth gan yr holl Lyfrwerthwyr, neu yn uniongyrchol oddiwrth y Cyhoeddwyr,

P. M. EVANS & SON, HOLYWELL

RHIFYN CLXXXI

JAN 3 191[illegible]

# Y TRAETHODYDD.

TACHWEDD, 1889.

CYNNWYSIAD.


| | Tu dal. |
|---|---|
| Ar ol Marw. Gan y Parch. W. Williams ... ... ... ... ... ... | 445 |
| Y Tad Damien. Gan Edmygydd ... ... ... ... ... ... ... ... | 459 |
| Gorthrwm. Gan y Parch. D. Adams, B.A. ... ... ... ... ... ... | 469 |
| "Y Parch. R. Thomas, Beaumaris." Gan Llenor ... ... ... ... | 476 |
| Carnhuanawc. Gan y Parch. John Davies, F.S.A., Pandy ... ... ... | 478 |
| Angladd Mab y Wraig Weddw o Nain. Gan John Edwards ... ... | 496 |
| Smith ar Esaiah. Gan y Parch. Griffith Owen ... ... ... ... ... ... | 500 |
| Y Gwyrthiau. Gan y Parch. W. James ... ... ... ... ... .. .. | 506 |
| Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... | 528 |


*CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF IONAWR 1, 1890.*

SWLLT.

TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

# P. M. EVANS & SON, HOLYWELL

Yn awr yn barod, pris mewn llian hardd, 1s. 6c.; amlen, 1s.

## Y SISWRN

SEF

DETHOLION PRUDD A DYDDANOL, NEWYDD A HEN

O WEITHIAU

DANIEL OWEN,

Awdwr poblogaidd "RHYS LEWIS," "Y DREFLAN," &c.

---

## GWOBR-LYFR I BLANT

Yn awr yn barod, pris mewn llian, 1s. 6c.; amlen, 1s.,

## DARLITHIAU TODD I BLANT

Wedi ei gyfieithu gan y Parch. ELLIS EDWARDS, M.A., Bala

---

Yn awr yn barod, pris mewn llian, 1s. 6c.; amlen, 1s.,

## CANEUON,

Ar destynau Crefyddol a Moesol, gan y diweddar Barch. ROGER EDWARDS, Wyddgrug, cyn-Olygydd "Y Drysorfa."

---

Yn awr yn barod, pris mewn llian, 1s. 6c.

Llyfr Rhagorol fel Gwobr i Ferched Ieuainc

## FY CHWAER,

Cofiant am Miss JONES, Cefn y gader, yr Wyddgrug, gan ei brawd y diweddar GLAN ALUN.

# Y TRAETHODYDD.

## AR OL MARW.

### YMCHWILIAD.

### I.

I'r cwestiwn hwn, fel i bob cwestiwn arall, y mae dau eithaf gwrthgyferbyniol. Gwelir yr eithaf cyntaf yn yr atebiad a roddir gan y rhai ag y mae eu parch i'r Bibl yn gymesur â'u cred mewn ysbrydoliaeth eiriol. Boddlonant hwy ar yr atebiad syml a roddir gan Solomon, heb gofio fod y geiriau hyny yn ateb y cwestiwn mewn dwy wedd. Y geiriau ydynt, "A'r ysbryd at Dduw yr Hwn a'i rhoes." Gyda phob parch i'r meddyliau syml hyn, dymunem adgofio iddynt fod crediniaeth yn ysbrydoliaeth eiriol y Bibl wedi bod o gymaint magwraeth i faterolaeth ag i ddiogi meddyliol. Onid un o eiriau mawr, cyffredinol y Bibl, ydyw yr uchod, yn cael ei ddefnyddio i ddysgu tywyllwch? Solomon sydd yn ei ddefnyddio, a chawn ganddo ddau wirionedd arall llawn mor eang: "Cofia yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuenctyd;" "Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu." Yr agoriad, fel y credwn, i ddeall yr ymadroddion, "pridd i'r ddaear" a'r "ysbryd at Dduw," a geir yn y geiriau, "fel y bu." Wrth orphen gyrfa bywyd, mae dyn yn dychwelyd i'r un sefyllfa ag yr ydoedd cyn ei greadigaeth. Yn ol dim a ddywed yr adnod, fe all fod hyny yn ddihanfodiad. Dysgeidiaeth Cymru i'w phlant ydyw, mai "o ddim" y gwnaed corff dyn ar y cyntaf. Cymhwyser y ddysgeidiaeth hon at eiriau Solomon, dyna ydyw,—pan yn marw bydd y corff yn dychwelyd i *ddim*, neu y mae yn *peidio a bod.* Os ydyw hyn yn gywir gyda'r rhan hon o'r adnod, y mae yr un egwyddor o esboniadaeth i'w chymhwyso at yr ail ran. Ymgolla yr enaid yn Nuw, fel y mae y corff yn ymgolli yn y pridd, gyda'r unig wahaniaeth fod y corff a'r ysbryd yn dyfod dan ddeddfau gwahanol. "At Dduw," ymha le? Beth y mae genedigaeth yn ei ddyweyd am dano? I'r fath dywyllwch a materolaeth y'n harweinir! Onid mwy cydfynedol â rheswm ydyw credu mai cadarnhad cyffredinol ydyw y geiriau "at Dduw," i'r gosodiad cyffredinol yn nechreu y bennod, "Cofia dy Greawdwr." Nid oes dim a fyno y geiriau a mynegu i ba le yr â yr ysbryd. Yr *idea* ydyw cysylltiad a dibyniad creadur ar ei Greawdwr, ynghyd a chyfrifoldeb y dibyniad hwnw.

Yr eithaf gwrthgyferbyniol ydyw athrawiaeth gymhlethedig y Pabyddion, a'u dilynwyr yn Eglwys Loegr, am *Burdan*. Eithaf hysbys ydyw fod yr athrawiaeth hon wedi cael ei bod i amcanion offeiriadol, ac wedi ei chyfaddasu i'w hystad bresennol trwy ad-drefniad ar y syniadau Iuddewig a Phaganaidd, ond heb yr un sail Ysgrythyrol iddi o gwbl amgen na "Llyn Hinnom" yn hanes y genedl Iuddewig.

Rhwng y ddau eithaf hyn—crediniaeth y rhai a ymorphwysant ar ysbrydoliaeth eiriol yr Ysgrythyrau, a'r syniad Pabaidd am Burdan, y mae posibilrwydd syniad arall.

Eto cawn Brotestaniaid ar y mater hwn yn ymranu yn eu mysg eu hunain. Un dosbarth a gred mai yr hyn sydd yn dilyn marw, i'r saint, ydyw gwynfyd perffaith; i'r annuwiol, dadblygiad uniongyrchol o drueni, neu uffern. Dosbarth arall a olyga fod rhyw gymaint o amser yn cymeryd lle rhwng derbyniad y gwynfyd ar un llaw, a'r adfyd ar y llaw arall. Mae yn debyg nad oes gwell gosodiad ar y wedd Brotestanaidd gul i'r cwestiwn na'r eiddo Dr. Hodge, yr hwn a ddywed, "fod eneidiau y cyfiawn pan yn marw, yn cael eu gwneyd yn berffaith mewn sancteiddrwydd, a'u bod yn myned yn uniongyrchol i ogoniant." Er mai dyma syniad mwyafrif mawr Protestaniaid, gofynaf, Ai dyma wir syniad y Bibl, ac a ydyw y syniad hwn yn dal yn llawn gysondeb y ffydd? Atebwn yn nacäol. Ond caniatawn gymaint a hyn, fod adnodau unigol, wrth eu tynu o'u cysylltiadau, yn dysgu hyny; ond yn eu cysylltiadau naturiol, nid ydynt yn dysgu yr hyn a briodolir iddynt. Yn y Testament Newydd y mae genym gyfres o adnodau yn gosod allan y saint fel "yn myned i mewn i lawenydd eu Harglwydd." Ni ddywedant ddim am yr amgylchiadau sydd yn cymeryd lle rhwng marwolaeth a llawenydd terfynol y saint. Gosodant allan yn ddigwestiwn y mynediad hwn fel yn cymeryd lle mewn amser, ac felly yn ddadblygiad.

I. Ymofynwn beth ydyw Athrawiaeth y Bibl am Berson Dyn.

Y mae holl ymwneyd y Bibl â dyn yn edrych arno fel person. Nid cwestiwn o anianeg ydyw, nac eneideg *(psychology)*; ond dyn fel person. Pan y cyfeiria y Bibl at ddyn mewn cysylltiad â'r cwymp, nid at ran o hono y cyfeirir. Fel person y syrthiodd dyn, ac fel person y mae cariad anfeidrol yn ei waredu. Daw holl fendithion y prynedigaeth i ddyn fel person. Fel ffrwyth dyoddefaint ac iawn ein Gwaredwr, daw maddeuant a sancteiddhad i ddyn fel dyn. Yr un peth sydd yn cymeryd lle hefyd mewn gogoneddiad. Hyd y gallwn ddeall y syniad cyffredin am yr hyn sydd yn dilyn marw, dysgir fod ymwneyd gras â dyn yn wahanol yn ei ogoneddiad i'r hyn ydyw yn ei ailenedigaeth, ac yn ei sancteiddhad. Yn ol y syniad cyffredin o ogoneddiad uniongyrchol, nid ydyw Duw mwy yn ymwneyd â dyn fel *person*. Yn ngwaith yr Anfeidrol yn symud yr enaid i ogoniant, tra yn gadael y corff yn y bedd, y mae gweithrediad deublyg; ymwneir â'r enaid ar wahan, ac â'r corff ar wahan. Tra y mae y corff yn myned dan oruchwyliaeth iachäol, ac o ganlyniad gosbawl y bedd, mae yr ysbryd yn mwynhau sefyllfa ddigosb—sefyllfa berffeithiedig. Ond a ydyw y wedd hon ar bethau yn gydfynedol â goruchwyliaethau blaenorol Duw tuag at ddyn? Yn nhri cam mawr perffeithiad y saint—ailenedigaeth, cyfiawnhad a pherffeithiad—nid ydym yn cael fod gweithrediad

gwahanol tuag at yr enaid ragor y corff. Telir sylw i ddeddfau arbenig y naill a'r llall. Ni chaniateir i'r ysbrydol ymwthio yn ormodol i'r anianol (*physical*), oblegid gwendid y corff. Credwn y gwelir y ddeddf hon yn rhedeg trwy hanes y prynedigaeth. Y mae pob parotoad a pherffeithiad sydd yn cymeryd lle ar, ac mewn perthynas i ddyn, yn cymeryd lle yn *gymesur*. Nid oes cyfres o weithrediadau gwahanol ar yr enaid, ragor y corff, yn nechreuad y gwaith da. Buasai yr un mor hawdd, os nad yn haws, i Dduw wneyd y gwahaniaeth yn y dechreu—yn nghamrau cyntaf y prynedigaeth, nag yn ei chamrau olaf. Ond yn holl waith Duw, nid oes yr un *anomaly*. Gwir y sieryd gwyddonwyr weithiau am "freaks of nature." Ond ai nid ellir esbonio hyd yn nod y rhai hyny yn gyduuol â gweithrediad natur, a phrofi trwyddynt gydunedd y gweithrediad? Ond pwy erioed a glywodd am "freaks" *of the soul?* Pan y mae cynnydd gras yn cael ei osod allan yn y Bibl, gosodir ef allan dan arwyddluniau sydd yn y modd mwyaf eglur yn gofyn am gysondeb. Nid anfynych y cymerir arwyddlun o adeilad, pren, corff,—oll yn wrthddrychau sydd yn gofyn am gynnydd mewn cydbwysedd. Yn awr, yn ol cyfatebiaeth, y mae gyda ni yr un lle i ddysgwyl cysondeb yn nghamrau olaf perffeithiad y saint ag yn y camrau cyntaf. Mewn geiriau eraill, dysga y Bibl fod Duw yn ymddwyn tuag at ddyn yn ei holl hanes fel *person*. A chaniatâu fod y corff yn myned o dan barotoad—bydded y parotoad o ba natur bynag, yn ol ein gosodiad blaenorol rhaid fod yr enaid yn myned o dan oruchwyliaeth gyfatebol. Os nad ydyw hyn yn ffaith, rhaid i ni gredu fod anghysondeb yn ngweithrediad Duw yn hyn yn unig, sef yn y gweithrediad uchaf o'i eiddo. Nid ydyw fod dyn yn agosâu at y byd ysbrydol yn galw am gyfnewidiad yn y gweithrediad. Ac edrych ar yr enaid a'r corff yn wrthgyferbyniol, oddiar safle pechod, gofyna yr enaid am fwy o berffeithiad na'r corff. Yr enaid ydyw eisteddle pechod; nid yw y corff ond cyfrwng trwy ba un y mae yr enaid yn amlygu yr hyn sydd ynddo. Yna y mae y syniad cyffredin o ogoneddiad uniongyrchol yn ein harwain i'r dyryswch hwn: fod Duw yn marwolaeth y saint yn ymddwyn yn wahanol at ddyn i'r hyn y mae yn arferol o ymddwyn; neu os ydyw y gogoneddiad yn cymeryd lle yn uniongyrchol, y rhaid fod y corff yn cydgyfranogi â'r enaid. Ond pa bryd? Y mae cyfatebiaeth—hanes ymwneyd Duw â dyn—yn gystal â'r ffaith yn marwolaeth ein cyfeillion a "hunant yn yr Iesu," yn gwadu y ddau osodiad.

Ein gosodiad nesaf ydyw, Os ydyw yr enaid yn angeu yn cael ei wneyd yn berffaith mewn sancteiddrwydd, rhaid fod ei ogoniant yn gymesurol. Mor bell ag y gallwn ddeall perthynas Ysgrythyrol sancteiddrwydd a gogoniant, mae y naill yn tybio y llall. Mwynhau gwyneb Duw sydd berffeithiad gogoniant a sancteiddrwydd. Un o osodiadau mwyaf neillduol y Bregeth ar y Mynydd ydyw, "Gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw." Purdeb sydd yn sicrhau gwelediad o wyneb Duw. Mae yn hyfryd genym osod allan ogoniant y nef fel bod yn mhresennoldeb Duw. I'r graddau y mae yr enaid yn anmherffaith yn y byd hwn, dyna raddau ei bellder neu ei agosrwydd at wyneb Duw. Yn y llythyr at yr Hebreaid dywedir hefyd yn eglur: "Gan fod Duw yn rhagweled rhywbeth gwell am danom ni, fel na

pherffeithid hwy hebom ninnau." Yn awr os ydyw duwiolion, fel y tybia y syniad cyffredin, yn cael eu gwneyd yn berffaith yn angeu, pa le y mae y dadblygiad sydd yn aros y credadyn yn yr adgyfodiad? Os ydyw yn cael ei berffeithio yn angeu, rhaid nad oes yr un dadblygiad pellach yn yr adgyfodiad a'r byd ysbrydol, gan nad ydyw y gair *perffeithio* yn caniatâu graddau. Pan ymddangoso Crist, medd Ioan, y bydd y credadyn yn debyg iddo. Yn ol barn gyffredinol yr Eglwys, mae ymddangosiad Crist yn golygu ei ddyfodiad ddydd y Farn. Os felly, yn nydd y Farn ddiweddaf y bydd y saint yn berffaith, gan mai dyma y pryd yr amlygir Crist, y *model* gogoneddus. Ond beth sydd yn d'od o'r Cristion rhwng cyfnod ei farwolaeth a'r Farn ddiweddaf? Gwir y dywed rhai mai yn berthynasol y defnyddir y gair "*perffeithio*." Daw y saint yn berffaith mor bell ag y mae pechod yn y cwestiwn. Ond ai peth perthynasol ydyw perffeithrwydd yr efengyl? A ydyw y corff yn rhydd oddiwrth bechod pan yn y bedd? Y mae rhywbeth mwy na'r perthynasol, mwy na'r nacaol, yn mherffeithrwydd yr efengyl. Nid absennoldeb o bechod yn unig ydyw. Pan y mae pechod yn cael ei symud o'r enaid, rhoddir egwyddor bendant o berffeithrwydd i gymeryd ei le—bywyd ysbrydol. Nid cadw y dyn rhag boddi yn unig ydyw, ond rhoddi bywyd newydd, yr hwn y rhaid iddo wrth ei ammodau arbenig ei hun. Hyd y gallwn weled, mae yr ammodau hyn yn golygu undeb cyflawn enaid a corff mewn ystad o berffeithrwydd. Am hyny nis gellir siarad am berffeithrwydd hyd nes y bydd y corff yn gadael y bedd.

Eto, y mae y syniad cyffredin am ogoneddiad uniongyrchol yn tybio gwyrth neillduol bob tro y mae dyn duwiol yn marw. *Bywyd o anmherffeithrwydd* ydyw bywyd y saint mewn amser. Ni chlywsom neb erioed yn dadgan fod bywyd y dyn duwiol yr ochr yma i farw yn fywyd o berffeithrwydd; ond yn y mynydau difrifol hyny, pan y mae yr ysbryd yn ehedeg ymaith, dygir y dyn o ran ei ysbryd i ystad o berffeithrwydd. Trwy y grediniaeth hon, dysgir, neu o leiaf *fe olygir*, fod Duw yn tori ar ei ddull cyffredin o weithredu, yr hyn sydd yr un â gwyrth. Beth ydyw yr oruchwyliaeth ofnadwy bwysig y mae dyn yn myned dani yn ngwahaniad yr enaid a'r corff, nis gwyddom; ond hyn a wyddom, ni welsom ddim yn amgylchoedd gwely marw yr un Cristion yn cyfeirio at ddim allan o'r dull cyffredin. Yn *wir*, y mae marw, y *process* o ymddattodiad, yn tystio i'r gwrthwyneb. Y mae dadguddiad yn gwbl ddystaw ar y mater. Y wyrth fawr, yn ol y *Bibl*, yn hanes pob dyn, ydyw ei *ailenedigaeth*. Wedi myned trwy borth difrifol yr édifeirwch i fywyd, dadblygiad sydd yn ein hamgylchynu, wedi hyny, ar bob llaw. Sancteiddhad pechadur, *gwaith* ydyw, hyd ddydd Iesu Grist, nid hyd angeu. Cynnydd Duw ydyw y cynnydd, ond dadblygiad y pren. I ddadblygiad y pren y mae yn perthyn—yr impiad, y ffrwytho, a'r addfedu. Peth croes i natur fyddai gweled y pren yn neidio o'r impiad i'r addfedrwydd. Ymhellach, hyd y gallwn weled, nid oes dim yn natur angeu yn gofyn am hyn. Fel yr ydym wedi ein dysgu, rhan o gynllun dadblygol gras ydyw angeu. Nid oes dim yn angeu yn groes i waith sancteiddhad, na dim yn dyblu y gweithrediad. Nid ydyw angeu, hyd y gwyddom, yn cael ei gynnysgaeddu â gallu deublyg tuag at berffeithio y

saint, yr hyn y rhaid ei gredu os ydyw y syniad cyffredin o ogoneddiad uniongyrchol yn wir.

I wneyd i ffwrdd â'r wrthddadl, dywed yr enwog Dr. Hodge fod yn rhaid cymeryd iachawdwriaeth dyn fel dadblygiad naturiol. Pe byddai yn waith goruchnaturiol, gwneid i ffwrdd â'r ddadl ar unwaith. Ond tybia efe mai gwaith goruwchnaturiol ydyw, ac felly, nid oes grym yn y ddadl. Ond ai nid ydyw y gŵr dysgedig, yma, yn dilyn yr un llwybr a'r materolwyr? Ai nid dyma eu cynllun hwy o wneyd i ffwrdd â'r gwyrthiol yn nghrefydd Crist? Gwrthddadl bwysig o eiddo Rhesymolwyr hefyd yn erbyn gwyrthiau ydyw, eu bod yn ddrylliad ar drefn natur; mai y goruwchnaturiol ydyw y gwyrthiol, ac nad oes le iddo mewn natur. (Christlieb: "*Modern Doubt*," &c.) Anghofir yma mai y goruwchnaturiol yn tori trwy, ac yn gwneyd defnydd o'r naturiol, sydd yn cyfansoddi gwyrth. Yn holl wyrthiau y Bibl cawn gadarnhad pendant fod Duw—neu y goruwchnaturiol—yn gweithio gyda, a thrwy natur. Nid yw y goruwchnaturiol un amser yn symud ymaith y naturiol i wneyd lle iddo ei hun. Trefn naturiol Duw, bellach, ydyw marw; ac wrth i ras goruwchnaturiol wneyd defnydd o hono, nid yw yn ei symud i'w diriogaeth ei hun, ac felly yn peri i'r hyn a gyflawnir ganddo beidio a d'od dan yr enw gwyrth. At hyn ychwanegwn nad oes yma yr annaturiol ychwaith, i roddi bod i wyrth. Yr annaturiol yn yr adenedigaeth—os priodol yr ymadrodd—yn rhoddi bod i wyrth, ydyw y ffaith fod dyn wedi colli sancteiddrwydd ei greadigaeth. Ond cariad anfeidrol ydyw y gweithredydd yma, ac nid yr annaturiol. Yr oedd angeu yn y byd cyn Adda. Yn ol cyfatebiaeth, ac yn ol dadguddiad, graddol hollol ydyw sancteiddhad cyn ac yn angeu, ac nid ydyw y syniad naturiol am angeu yn gwanychu dim ar y ddadl. "Gan fod yn hyderus yn hyn, y bydd i'r Hwn a ddechreuodd ynoch waith da ei orphen *hyd* ddydd Iesu Grist."

Fel dadl dros y syniad goruwchnaturiol o'r perffeithiad mewn sancteiddrwydd yn angeu, defnyddir iachâd y gwahanglwyfus. Nerth y ddadl, hyd y gwelwn, ydyw, fod y gwahanglwyfus wedi ei lanhau ar y foment; ac os cyflawnwyd y fath waith arno *ef*, ai tybed nad ellir gwneyd yr un peth ar y duwiol yn angeu? Ni raid ond adystyried, na welir gwendid yr eglurhad neu y cadarnhad hwn o'r ddadl. A ydyw iachâd y gwahanglwyfus wedi bod yn sydyn? Onid trefniad arferol Duw oedd rhoddi iachâd graddol i'r gwahanglwyfus? Yr oedd *process* neillduol i fyned trwyddo. Ië, ond yn ymwneyd Crist â'r gwahanglwyfus, nid oedd dim o'r pethau hyn yn cymeryd lle? Nid i'r un manylrwydd mae yn wir; eto yr oedd Crist yn gofyn am ddangosiad i'r offeiriad. Ac onid trefniant *anarferol* oedd iachâd y gwahanglwyfus gan Grist, a hyny i amcan *anarferol?* Ac ai yr amcan anarferol hwnw ydoedd profi gogoneddiad uniongyrchol y saint? A ogoneddwyd y gwahanglwyf ar ei iachâd? Rhestrir iachâd y gwahanglwyfus yn ddieithriad ymysg gwyrthiau Crist; ac eto wele yr enwog Dr. Hodge, yn ei zel dros ogoneddiad uniongyrchol, yn defnyddio gwyrth mewn un amgylchiad i esbonio ymaith wyrth mewn amgylchiad arall. Cyn y bydd dim gwerth yn y prawf oddiwrth y wyrth hon, rhaid i ni dybio mai amgylchiad anarferol ydyw marw yn hanes dadblygiad gras. Ond ai dyma wir gymeriad marw? Oni ddisgyna hyn

i ran yr annuwiol fel y duwiol? Amgylchiad ydyw marw sydd yn cyfarfod dynoliaeth oll. "Ffordd yr holl ddaear" y gelwir pyrth y bedd. Dwy ddeddf fawr gyffredinol llywodraeth Duw ydyw—"Gosodwyd i ddynion farw unwaith," ac "wedi hyny bod barn."

Ymhellach, i gadarnhau y ddadl dros ogoneddiad uniongyrchol, dygir ymlaen dröedigaeth yr Apostol Paul. Gorwedd nerth yr wrthddadl hon yn sydynrwydd yr hyn a gymerodd le ar y ffordd yn agos i Damascus, a deallir fod sydynrwydd y cyfnewidiad moesol yn mywyd Paul yn profi sydynrwydd y cyfnewid i ogoniant yn angeu. Yn nesaf at fywyd ein Gwaredwr, bywyd Paul ydyw yr un y mae Rhesymolwyr fwyaf ymdrechgar yn ceisio gwneyd i ffwrdd âg ef. Tebygol mai y rheswm am hyn ydyw mai yn mywyd Paul, yn nesaf at fywyd Crist ei Hun, y mae y goruwchnaturiol yn d'od i'r golwg gryfaf. Addefant fod bywyd Paul yn llawn o wyrthiau, a'i dröedigaeth yn *key-note* i'r bywyd. Yn ol hyn, gwneir yr un camgymeriad â chyda'r prawf oddiwrth y gwahanglwyfus. Dygir gwyrth ymlaen i brofi nad oes gwyrth. Ond cyn myned ymhellach, a ydyw y ddwy ffaith yn cyd-daraw? A oes cymhwysder yn adenedigaeth un sant i brofi perffeithiad terfynol yr holl saint? Yr hyn a gariodd ddylanwad aroesol ar Paul ydoedd cyd-darawiad y geiriau, "Paham yr wyt yn fy erlid i?" â chydwybod euog oddimewn. Dyma hefyd sydd yn rhoddi cyfrif am sydynrwydd y cyfnewidiad, cariad Crist yn gorchfygu calon erlidiwr. Ond ai hyn sydd yn d'od i'r golwg pan mae amser yn cilio, a thragywyddoldeb yn ymestyn i gyfarfod yr hwn y mae Duw yn ei garu? Nid argyhoeddiad sydd yn cymeryd lle yn angeu, ond meddianiad llawnach *o ffrwyth* yr argyhoeddiad. Nid cyfiawnhad, ond dadblygiad sancteiddhad, yr hwn bob amser sydd raddol. Ymhellach, ac yn gryfach, y mae profiad yr Apostol yn dadgan yn ddifloesgni wendid y ddadl a seilir ar ei hanes yn ffafr "gogoneddiad uniongyrchol." Os ydyw marw yn meddu y fath le yn hanes dadblygiad crefydd, paham y mae Paul yn *ymdrechu* cymaint am ei adgyfodiad? Gyda Phaul, nid yw marw ond peth ailraddol. Buasai rhyw gyfaddasder yn nefnyddiad dyddiau olaf yr Apostol er profi hyn; ond nis gwelwn ond anamseriad perffaith mewn dwyn ymlaen dröedigaeth i brofi terfyn amserol bywyd crefydd.

II. Ymofynwn beth ydyw Dysgeidiaeth Crist a'r Testament Newydd am Hades?

Gellir dosranu dysgeidiaeth Crist ar hyn i dair adran. 1. Y cyfeiriadau at y presennol a'r dyfodol fel cyfnodau o weithgarwch a gorphwysfa. 2. Y dadganiad pendant yn Nammeg y Goludog. 3. Dywediad Crist wrth y llofrudd ar y groes.

1. Yn wahanol i bawb o'i flaen, defnyddiai Crist ymadrodd am angeu sydd yn dangos yn eglur wir gysylltiad y byd hwn a'r byd ysbrydol. Pan yn siarad am angeu fel terfyn bywyd, nid yw Crist byth yn cyfeirio ato fel effaith pechod, nac fel sefyllfa ymha un y mae y corff a'r enaid mewn sefyllfa o sefydlogrwydd. Ymadrodd neillduol Crist ydyw cwsg, yr hwn air sydd yn gosod allan yn fwy cywir na'r un arall gysylltiad y materol a'r ysbrydol. Yn ol y wedd hon ar angeu, nid yw y sefyllfa yn y byd ysbrydol ond parhad o'r presennol; ac y mae y cysylltiad mor agos fel nad ydyw y tori ar y cysylltiad yn angeu ond peth perthynasol. Fel y mae llais *dyn*

'n gallu adfer y berthynas mewn cwsg naturiol, felly y mae llais yr Arglwydd Iesu yn adfer y berthynas yn nghwsg angeu. Yn anianddol, y mae gweithgarwch y meddwl yr un â phan yn effro, er nad dyw yn cymeryd yr un ffurf. Felly, yn ol cyfatebiaeth, y mae ;weithrediad y meddwl yn angeu yr un ag mewn bywyd. Cwsg, 'n ol Crist, ydyw y naill, a chwsg ydyw y llall. Nid ydyw telerau odolaeth yn gwahaniaethu cymaint oddiwrth eu gilydd fel ag i ladd cymundeb.

Yn ol y Bibl y mae sefyllfa derfynol yr annuwiol a'r duwiol wedi ;yfnewid cymaint fel nad oes ynddynt yr agosrwydd cymundeb hwn i'r ddaear. Mae y ddwy sefyllfa derfynol yn unffurf yn nhelerau eu odolaeth, ac y maent yn meddu ynddynt eu hunain hanfodion eu od. Tori ar yr hanfodion hyn a fyddai tori ar y fodolaeth. Mor ell ag y mae ein profiad ni yn myned, nis gallwn feddwl am waith yr enaid yn dyfod i gymeryd i fyny ei undeb â'i gorff, heb fod rhyw gymaint o amrywiaeth amser, ac felly attaliad ar fodolaeth mewn ;rueni neu wynfyd. Gwir y gellir dyweyd mai gweithrediad Duw ydd hyn, ond nid yw Duw un amser yn cyfnewid deddfau ewyllys lyn. Gellir dyweyd hefyd nad ydyw y cyfnod y mae yr enaid yn ei gymeryd wrth adael y cyflwr o ysbrydolrwydd noeth y mae ynddo i ymuno â mater, ond yn mwyhau yr ymdeimlad o wynfyd neu gosb. Bydd cael ei gorff i'r duwiol i undeb â'i enaid, er mwynhau dedwyddwch y nef, yn taflu pont dros yr amser byr yna, fel na bydd yn cael ei adnabod. A gellir dyweyd yr un peth, ond yn wrthgyferbyniol, am ofid yr annuwiol. Ond yn ngwyneb y gosodiadau hyn, gofynwn, Pa un ai yn undeb y corff a'r enaid, ai ynte yn eu gwahaniad, y mae gwynfyd y saint yn fwyaf cyflawn, a dyoddefaint yr annuwiol yn fwyaf trwm? Mae y syniad cyffredin ar hyn eto yn tybio gwyrth, ac yn ei chreu er mwyn d'od allan o'r dyryswch. Ar y llaw arall, derbynier y syniad o sefyllfa ganol, a daw y pethau hyn i gyfarfod ar dir perffaith naturiol. Gan mai sefyllfa o barotoad ydyw, y mae undeb yr enaid â'r corff yn bosibl heb dybio gwyrth. Daw hefyd yn llawer mwy agos i syniad Crist am angeu fel cwsg. Yr hyn ydyw gweithrediad y meddwl mewn cwsg naturiol, dyna ydyw ei sefyllfa o fyfyrdod, yn ei fyd ei hun, wedi ymadael â'r byd hwn. Mae y berthynas yn nês â'r ddaear, a chymdeithasiad drychfeddyliau yn fwy materol. Nid sefyllfa o waith a gweithredoedd ydyw, ond sefyllfa o adfyfyrdod. "Y mae y nos yn dyfod pan na ddichon neb weithio." Yn y geiriau hyn nid yw ein Gwaredwr yn cau allan bob gweithrediad, gan y byddai hyny yn anghyson â'r gair *nos*. Nid ydyw y *nos* yn derfyn ar bob gweithrediad. Medda yr ymenydd yn y cyfnod hwn ar weithrediad yn perthyn iddo ei hun. Dyrchafa cwsg y meddwl i ystad uwch o weithgarwch na phan y mae yn effro; y mae yn weithgarwch meddyliol pur. A chario y gymhariaeth yn llawn, dyma, yn ol Crist, ydyw angeu. Nid terfyn ar bob gweithgarwch, ond cyfnewidiad ar ffurf y gweithgarwch. Yn angeu y mae y gweithgarwch yn dyfod yn uwch nag mewn bywyd. Ar hyn cytuna tystiolaeth gwyddonwyr. Profa y dysgedigion hyn i ni fod yr ymenydd, hyd yn nod yn angeu a'r bedd, yn llawn gweithgarwch. Yr hyn y mae dyn yn ei golli yn angeu ydyw telerau y gweithgar-

wch yn ei berthynas â'r byd hwn. Fel y mae y nos naturiol yn peri 'r gweithiwr roddi ei arfau o'r neilldu a chilio o'r maes, felly y mae angeu yn gwneyd â phob dyn. Megys nad yw cwsg yn ystad o anweithgarwch, felly nid ydyw angeu. Ac megys y mae cwsg yn meddu ar ei weithgarwch ei hun, felly y mae angeu.

2. Y dadguddiad pendant yn Nammeg y Goludog. Yn ngwyneb y ddammeg hon, y llwybr goreu i ni ydyw ymofyn, A ddarfu i Grist, pan ar y ddaear, ddadguddio rhywbeth newydd am sefyllfa yr enaid ar ei fynediad i'r byd ysbrydol? Ac eithrio ei gyfeiriad difrifol ac ofnadwy at y "pryf na bydd marw" yn Efengyl Marc, nis gallwn weled ei fod wedi gwneyd mwy na chadarnhau syniad ei oes am y dyfodol. Ac eithrio y cyfeiriad uchod—yr hyn a wnawn gyda phetrusder—nid oedd modd i Grist gyfeirio mewn gwedd eangach at y byd anweledig nag y gwna yn y ddammeg hon. I ddyfod o hyd i ddysgeidiaeth y ddammeg, ein gwaith cyntaf ydyw ymholi i'w hamcan. Gellir crynhoi pob syniad am hyn i ddau brif osodiad. Ei hamcan ydyw (1) dysgu yn bendant am y dyfodol; neu (2), dysgu fod dynion, trwy weithredoedd annynol, yn cau eu hunain allan o gymdeithas y rhai a dreuliasant eu bywyd mewn gweithredoedd o gariad. Gan fod y gosodiad hwn yn sefyll y tu allan i faes ein hymchwiliad, ein lle fydd ceisio profi mai nid y gosodiad cyntaf ydyw amcan y ddammeg.

Hyd y gallwn sicrhau, syniad cyffredin yr Iuddewon yn amser Crist am y sefyllfa ddyfodol ydyw yr un a geir gan Josephus yn ei "Atebiad i'r Groegiaid," sef,—

(1.) Lle tanddaearol, anorphenedig, lle perffaith dywyll, lle i gadw eneidiau. Angelion ydyw gwarcheidwaid y fan hon, y rhai a roddant gosbedigaethau tymmorol yn ol natur yr achos.

(2.) O'r neilldu yn y lle hwn y mae llyn o dân anniffoddadwy, i'r hwn ni thaflwyd neb eto. Cedwir hwn hyd ddydd barn Duw, pryd y teflir yr annuwiol i'r gosbedigaeth dragywyddol hon.

(3.) I'r lle tanddaearol hwn y mae drws, yn cael ei wylio gan archangel a'i lu. Fel yr agorir i'r enaid, y mae yn cael ei arwain gan angel i'r lle sydd yn perthyn iddo. Arweinir y cyfiawn i'r ddeheulaw gan lu o angelion, y rhai a ganant hymnau wrth ei arwain i wlad o oleuni. Yma y mae y cyfiawnion wedi bod o ddechreu y byd. Mwynhant y pleserau sydd yn nodweddu pob un o honynt, ac arosant yma i ddysgwyl am fywyd tragywyddol yn y nef. Dyma fynwes Abraham.

(4.) Am yr anghyfiawn, dygir hwy trwy orthrech i'r aswy law. Gwneir hyn gan yr angelion sydd i ofalu am danynt, a gyrir hwy megys carcharorion trwy rym. Gwthir hwy i gyffiniau y llyn o dân ar eu taith ddiorphwys trwy Hades, lle y teimlant ei wres deifiol a'i swn ofnadwy, o'r lle hefyd y clywant bersain y cyfiawn; ond nis gall y dewraf o honynt eu cyrhaedd pe ceisiai, gan fod *chaos* dwfn a llydan rhyngddynt.

Wele syniad cydwladwyr ein Gwaredwr. Cymerwch yn awr i ystyriaeth sobrwydd a gofal ysgrifenwyr y Testament Newydd, o'u cyferbynu âg ysgrifenwyr cyffredinol y cyfnod hwn, y rhai sydd mor lawn o grebwyll gorliwiedig, a chewch ddysgeidiaeth dammeg y Goludog a Lazarus yn cyd-daraw yn hollol yn ei phrif linellau â'r desgrifiad uchod gan Josephus. Cyfeiria y naill fel y llall at *Hades* fel derbynfa gyffredinol i eneidiau sydd yn ymadael â'r bywyd hwn. Mae yma hefyd, yn ol y naill a'r llall, amrywiaeth *lle* a *gwaith*. Felly nid ydyw Crist trwy y ddammeg hon wedi rhoddi goleuni newydd ar y dyfodol.

Os nad ydyw y cyferbyniad hwn yn ddigonol, gallwn edrych arno rn ngoleuni cyflawn Eglwys yr Hen Destament ar *Hades*. Wrth daflu ;olwg dros gylch ffurfiad a dadblygiad yr Ysgrythyrau, cawn fod yr ıthrawiaeth a ddysgir trwy y gair, a'r gair ei hun, wedi cymeryd tair ırosfan.

(1.) *Yr un deimladol.* Wrth yr arosfan hon yr ydym yn golygu y nodd yr oedd teimlad yn rhoddi ffurf ac ystyr i'r gair Hades. Mewn ›ethau o'r fath hyn y mae *teimlad* yn arweinydd lled sicr, ond ei adael ddo ei hun. Nid oes ganddo yr hamdden hwnw sydd yn darostwng ›ob peth dan awdurdod deddf. *Angen* ydyw crëwr iaith. Yn awr ›an yr oedd ein cyn-dadau yn colli eu hanwyliaid o'u mysg, yr oeddynt rn eu colli a hiraeth yn eu dilyn, gan greu iaith wrth fyned ymlaen. Job a Jacob sydd wedi codi cŵr y llen i ni gael gweled pa fodd yr oedd rr henafiaid yn siarad am angeu a'r dyfodol.

Dywed Job (xxvi. 5, 6): "Pethau meirw a lunir odditan y dyfroedd, ı'r rhai sydd yn trigo ynddynt hwy. Y mae Hades yn noeth ger ei ron ef, ac nid oes dô ar ddystryw." Y mae Hades yma yn diriogaeth lywell, yn agendor yn gorwedd o dan y cefnfor. Y byd isaf ydyw, lle r cesglir y meirw, a lle y trig ysbrydoedd wedi eu dadwisgo. Nis ;wyddom yn iawn o ba le y daeth y syniad o Hades i Job. Gallai mai 'el gwrthosodiad i eiriau Bildad pan y cyfeiriai at ogoniant Duw yn ıchelderau y nefoedd. Ond y mae yma fwy na hyn. Yr oedd Hades wedi cael ei lle yn meddwl Job, byth er pan y cafodd y gobaith pwysfawr y gallai Hades fod yn olygfa ei brawf a'i ryddhâd,—y llys yn yr hwn y cyfarfyddai â, ac yr amddiffynid ef gan ei Farnwr. Gallai hefyd, gan ei fod yn awr yn edrych ar Hades fel gwir gartref ei ysbryd—"Os dysgwyliaf, Hades sydd dŷ i mi,"—ei fod yn agor ei salm trwy ldangos nad ydyw presennoldeb Duw yn cael ei gaethiwo i'r nef nac 'r ddaear, ond hefyd i'r diriogaeth anhysbys o dan y ddaear. Eto, ;allai ymhellach mai cyfeiriad Bildad (xxv. 5) at y lleuad sydd wedi ıwgrymu y meddwl am Hades, oblegid ymysg y Groegiaid henafol rstyrid y lleuad, gan ei bod megys yn ymsuddo dan y ddaear, yn fyd ıanddaearol. Yn ganlynol dodid arwyddluniau o'r lleuad mewn beddıu, fel y byddai i oleuni gwastadol lewyrchu ar ysbrydoedd y meirw. (Cox ar Job.) Pa un bynag o'r syniadau hyn sydd fwyaf cywir, os nad rw yr oll felly, hyn sydd sicr,—y mae eu tystiolaeth yn unffurf i'r synad o *bersonoliaeth* sydd yn gorwedd yn ymadrodd Job. Nid preswylfa r corff yn unig ydyw Hades, ac nid tir o anymwybyddiaeth ydyw. Felly syniad oes Job ydoedd, fod Hades yn gartref i ysbrydoedd byw, r rhai ydynt mewn cyflwr o brawf.

I'r un cyfeiriad yr arweinir ni gan Jacob. "Yn ddiau disgynaf yn ılarus at fy mab i Hades" (nid y bedd, ond *Sheol*). Yma yr ydym yn ;weled yn eglurach wir nerth teimlad yn rhoddi bôd i'r syniad o Sheol ıeu Hades. Sefyllfa anhysbys ydyw, nid lle o beidio a bod. Yr oedd Jacob yn myned at ei fab Joseph. Joseph oedd Joseph yn Hades, yn ;ystal a phan ar y ddaear. Daw y syniad o bersonoliaeth i'r golwg rma eto. Gesyd y Vulgate yr un gwirionedd yn llawn mor gryf,—"filium meum in inferium." Nis gall y cyfieithiad cyffredin o "*feddrod*," fod yn cyfleu meddwl Jacob yma. Credai efe fod ei anwylyd Joseph, o ran ei gorff, wedi syrthio yn ysglyfaeth i wyllt anifeiliaid yr

anialwch, a'i esgyrn wedi eu taenu ar hyd gwastadeddau Sichem. "Cymhwyso hyn at y bedd," medd Taylor Lewis o'r Taleithiau, "sydd gymhwyso ein rheitheg ddiystyr ddiweddar ni at ffurfiau cyntefig ymadroddion y rhai a ddefnyddid nid i baentio ond i arddangos teimlad." At hyn gellir ychwanegu fod gan yr henafiaid air neillduol am feddrod: "meddiant beddrod," medd Abraham (Gen. xxiii. 4, 9).

Ond beth ydyw gwir feddwl y geiriau Sheol a Hades? Dywed yr ysgolheigion goreu wrthym fod yn anmhosibl cael gwell cyfieithiad o'r gair Hebraeg, "Sheol," na'r gair Groeg, "Hades." Gellir casglu yr afrifed farnau am ystyr y gair Sheol i ddau ddosbarth. Gellir gosod y dosbarth cyntaf dan syniad Gesenius,—fod y gair yn golygu "ceudod, neu diriogaeth danddaearol." Yr ail ddosbarth a gymerant y ferf Hebraeg sydd yn dynodi hyn i olygu ymofyniad, fel y gair Groeg *ἐρωτάω*, neu o hawliad fel *αἰτέω*, ac yn wastad yn golygu *ymadrodd*, yn lle y weithred *bendant* o ymchwiliad. (Gwel Lange, Genesis.) Y farn fwyaf cyffredin ac addfed ydyw fod y gair Sheol wedi tarddu o'r gair Sha-al, yr hwn sydd yn meddu y syniadau hyn: (*a.*) Ymchwiliad syml. (*b.*) Y drychfeddwl o hawliad. Camgymeriad yr ieithwyr henafol, medd Mr. T. Lewis, ydoedd rhoddi y syniad ailraddol i'r brif ferf, gan gymeryd Sheol felly i olygu *hawlio*, yn hytrach na bod y rhai a adewid yn wylofus *ymofyn* am y meirw.

Hades, yn iaith y Groegiaid, o'r ochr arall, a olyga y byd nas gellir ei weled. Gwneir ef i fyny o *ἀ (privative)*, a *ἰδεῖν*, gweled. Felly medda y syniad o beidio ymddangos, o sefyllfa o fodolaeth mewn byd anhysbys. Wrth hyn gwelir fod y ddwy iaith yn golygu yn derfynol yr un peth, gyda'r eithriad eu bod yn cyfeirio at wahanol gynneddfau. Cyfeiria y Groeg at y llygad yn syllu i'r tywyllwch i geisio rywfodd ganfod i ba le y mae yr enaid yn myned. Yr Hebraeg, o'r ochr arall, a gyfeiria at y glust yn dystaw ymwrando yn nghanol dystawrwydd newidiad dau fyd.

(2.) *Y syniad o Le.* Fel yr oedd dynion yn ymgydnabyddu â marw, yr oeddynt yn gallu dwyn y cyfnewidiad pwysig dan ddeddfau caeth. Yn yr adran o'r blaen, yr oeddym yn gallu mwynhâu rhyddid y fynwes ddynol, a'i gwres yn cydio yn dŷn yn y rhai oedd yn gorfod rhagflaenu. Yma yr ydym yn gorfod anadlu mewn caethiwed, hyd yn nod yn mhresennoldeb angeu. Bellach yr ydym wedi d'od i gyfnod gŵr gyda y cwestiwn hwn; i'r adeg y mae dynion wrth ddilyn eu hanwyliaid yn gallu gofyn "Paham," a "Pha fodd." I'r cyfnod hwn y perthyn lliaws cyfeiriadau yr Hen Destament at farw a'r dyfodol. Y syniad o *le* y mae Lowth a Herder yn dadleu drosto. Cymerant hwy Sheol i olygu sefyllfa ddychymygol, danddaearol y meirw, gan gyfeirio am gadarnhad at Psalm xxviii. 1; xxx. 3; lxxxviii. 5; Esa. xiv. 19; xxviii. 15, &c. Ceir y syniad mewn rhyw ffurf yn Job, ac y mae Moses hefyd yn rhoddi yr un goleuni arno yn llyfr Numeri. Yn Deut. xxxii. 22 cyfarfyddir â'r syniad hwn, ond yn cael ei guddio o'r golwg bron gan y syniad o *sefyllfa* ac o *gosb.* "Canys tân a gynneuwyd yn fy nig, ac a lysg hyd uffern isod."

Cawn lyfr y Salmau yn llawn o'r ystyr hwn i'r gair Hades. Yn y Cyfieithiad Awdurdodedig cyfieithir Hades yn Bedd, er mawr niwed i feddwl y gair. Ond er mor lawn ydyw llyfr y Salmau o'r syniad

yma, cawn y syniad cyntefig o ddysgwyliad pryderus o'r byd anweledig yn gymhlethedig âg ef.

Yr un peth ellir ei ddyweyd am lyfrau Solomon. Ceir ganddo ef yn fynych frawddeg arferedig yn nyddiau Job, ᾅδης καὶ ἀπώλεια (LXX), Hades ac Apoleia. Mae y geiriau hyn yn neillduol i Job a Solomon.

Yn mhrophwydoliaeth Esaiah y syniad mwyaf cyffredinol o Hades ydyw yr un danddaearol, y tanddaearolfyd. Y prophwyd Jeremïah a gymer syniad dyddiau Moses i'r gair Sheol. Yr hyn i Moses oedd yn diriogaeth anhysbys, Sheol, sydd i Jeremïah yn Babylon. Oddiwrth ymadrodd a ddefnyddir gan brophwyd y gaethglud, Ezeciel, am Babylon, gellir gweled nerth cyfeiriad Jeremïah. "Tir nis gwyddost," ydyw ymadrodd y prophwyd. Dywed Ezeciel (xxxii. 18) mai y rhai dienwaededig, y rhai aflan, sydd yn "disgyn i'r tir isaf, i'r pwll." Yn awr i'r Iuddewon yr oedd y Babyloniaid yn ddienwaededig, ac felly y mae Jeremïah, trwy ddefnyddio ymadrodd Moses am uffern, yn dyweyd fod myned i Babylon yr un peth â myned i Hades. Yn Babylon yr oeddynt yn trigo, ac o Babylon y mae addewid dychweliad i bobl Dduw.

Ezeciel ydyw y cyntaf i edrych ar Sheol neu Hades yn debyg i'r Testament Newydd. Yn y bennod y cyfeiriwyd ati (xxxii.) cawn grynodeb llawn o syniad y genedl yn ac wedi y caethgludiad. Cawn yma bedwar arweddiad i Hades. *(a.)* Y byd isaf. *(b.)* Y bedd fel arosfan ar y ffordd i Hades. *(c.)* Hades fel lle o gosb. *(d.)* Fel lle hefyd o gymdeithasiad. Nid yn unig y mae yr holl dyrfa sydd yn disgyn i'r pwll yn derbyn eu gwobr, ond hefyd y maent yn ymwybodol o gosbedigaeth y naill a'r llall. "Pharaoh a'u gwel hwynt, ac a ymgysura."

Yn y Prophwydi Lleiaf y syniad mwyaf cyffredin ydyw, "Y byd tanddaearol." Y dyfnder mwyaf ar gyfer yr uchder mwyaf sydd gan Amos (ix. 2) yn yr ymadrodd, "Pe cloddient hyd Hades, a phe dringent i'r nefoedd." Jonah, yntau, pan yn son yn gwynfanus am "fol Hades" (ii. 2), a gyfeiria at yr un man. Hefyd pan y mae Habacuc yn cyferbynu meddwl meddwyn i Hades (ii. 5), yr un meddwl a ddaw i'r golwg.

Yn awr, wrth adael yr Hen Destament, ac eithrio Ezeciel, yr ydym yn cael yn nghyfnod y Prophwydi gymysgedd o syniadau y cyfnod yn rhedeg yn gyfochrog â'r syniadau a goleddid yn nyddiau Job a Jacob.

Felly tystiolaeth yr Hen Destament i'r byd dyfodol ydyw, Lle anweledig eneidiau, neu yn hytrach dynion, yn yr hwn y mae adnabyddiaeth a chymdeithasiad. Hefyd y mae i'r sefyllfa ei therfyn.

Yma dygir ni yn ol at ein gosodiad blaenorol, sef tystiolaeth Crist yn ngwyneb gosodiadau Josephus. Hyd yn hyn, nid ydym wedi gweled fod Josephus wedi camddarlunio syniadau ei genedl. Hefyd nis gallwn weled fod dim yn gwrthdaraw y syniad Iuddewig yn nammeg y Goludog a Lazarus. Nis gallwn weled ychwaith fod goleuni newydd yn cael ei roddi yma ar y dyfodol.

Bellach yr ydym mewn sefyllfa i fyned ymlaen gydag ymadroddion neillduol o eiddo Crist. Yn nghyfnod y Testament Newydd, nid oes neb wedi cyfeirio yn fwy mynych at Hades na'n Gwaredwr ei hun. O'r un ar ddeg o gyfeiriadau yn y Testament Newydd at Hades, y mae

Crist wedi defnyddio *saith*. Eto, er mor fynych y darfu i Grist gyfeirio at y sefyllfa hon, nid ydym yn cael, ac eithrio y cyfeiriad yn Marc ix. at y "pryf na bydd marw a'r tân na ddiffydd," ei fod wedi rhoddi dim goleuni ychwanegol ar y sefyllfa ddyfodol. Gyda golwg ar y "pryf" a'r "tân" eto, ai nid ydyw hyn yn gynnwysedig yn Llyn Hinnom hanesiaeth frenhinol yr Iuddewon? Yr oll a allwn gydnabod ydyw fod Crist wedi rhoddi mwy o gysondeb yn syniadau ei genedl, a gosod mwy o barhad ar y syniadau hyn.

Yn awr gallwn droi i edrych ar syniad Crist yn Matthew v. 22. Wedi gwneyd cyfeiriad arbenig at ddadblygiad y teimlad o ddigofaint mewn dyn, daw Crist yn niwedd yr adnod at ddadblygiad llawn digofaint o ran ei natur a'i gosb. Y geiriau ydyw y rhai hyn: "Pwy bynag a ddywedo, O ynfyd, a fydd euog o dân uffern" (γέενναν τοῦ πυρός). Ni pherthyn i ni sylwi ar amrywiol anhawsderau esboniadaeth yr adnod, ond yn unig i'r graddau y dygir i sylw feddwl yr ymadrodd "Gehenna o dân." Cyfeiria y geiriau at dair gradd yn nadblygiad y teimlad o ddigofaint. Y gyntaf ydyw, digio heb ystyr. Yr ail, dyweyd *Raca*, gair yn dynodi teimlad sarug, ffroenuchel; y dyn a ddefnyddia yr ymadrodd hwn ydyw y dyn a all edrych yn ddirmygus ar ei gyd-ddyn gan ei alw yn farbariad, y dirmygedig. Gwysir hwn o flaen cynghor eglwysig uchaf y genedl. Y drydedd radd ydyw defnyddiad y gair *Ynfyd*. Yr hwn a wna hyn a garia y pechod o ddigofaint i'r safle uchaf, i'r safle agosaf at lofruddiaeth weithredol. Gan mai troseddiad moesol ydyw hwn, ymwneir âg ef gan lys a chosbedigaeth foesol. Y gosbedigaeth hon, os nad y llys hefyd ydyw, Gehenna o dân.

Y cwestiwn sydd yn d'od i'n cyfarfod yn awr ydyw hwn: Pa un ai llys a chosbedigaeth yn perthyn i'r ddaear ydyw hwn, ai ynte i'r byd anweledig? Barn dysgedigion ydyw fod Crist yn cyfeirio yma at Hinnom, a Hinnom erbyn hyn ar lafar gwlad wedi d'od yn gyfystyr â Gehenna, fel yn wrthgyferbyniol i Baradwys. Dosrenir y gair Gehenna fel hyn:—γη = tir, a Hinnom, enw dyn. Dywed Dr. Ginsburg fod gardd Eden yn ysgrifeniadau y Talmud yn cael ei galw "cartref y dedwydd;" a bod dyffryn Hinnom yn wastad yn golygu "cartref yr annedwydd," lle y drygionus, oblegid y trueni a'r aflendid sydd yn perthyn i'r lle. Aiff y Dr. dysgedig mor bell a dyweyd nas gwyr am yr un engraifft yn amser Crist lle y defnyddid Gehenna mewn cysylltiad â chosbedigaeth yn yr ysgrifeniadau uchod, nad oedd yn golygu lle pechaduriaid ar ol marw. Nid ydym yn cael yn unman fod Hinnom fel llosgfa wedi ei barhau hyd ddyddiau Crist; ac wedi i aberthiad i Moloch ddiflanu o'r tir yn y caethgludiad Babylonaidd, nid oes genym brawf fod yr un bôd dynol wedi cael ei roddi i'r fflamau. Oddiwrth y pethau hyn ymddengys mai nid llys a chosbedigaeth ddaearol ydyw y "Gehenna o dân." Rhaid, gan hyny, mai llys a chosbedigaeth yn y byd ysbrydol ydyw.

Yn yr holl gyfeiriadau eraill o eiddo Crist at yr hyn sydd yn dilyn marw ac yn cael ei gyfieithu "Uffern," y mae Crist, gydag un eithriad, yn defnyddio y gair *Gehenna*. Yr eithriad hwn ydyw Matt. xi. 23. Wrth gyfeirio at fendithion uchel Capernaum, a'r defnydd a wnelsai o honynt, dywed Crist y byddai iddi gael ei "thynu i lawr hyd yn Hades." Yma saif y gair Hades yn wrthgyferbyniol i'r *nef*,—yr uchder mwyaf

a'r dyfnder mwyaf. Felly ystyr y gair Hades gan Grist ydyw, y byd tanddaearol, anweledig, byd yr ysbrydoedd.

Yn Marc ix. 43—49, yr ydym yn cael dadblygiad yn athrawiaeth y sefyllfa ddyfodol. Mae y tân yn "anniffoddadwy," ac nid ydyw eu pryf hwynt "yn marw."

Nid oes ammheuaeth nad oedd yr Iuddewon y pryd hwn yn edrych ar Gehenna fel carchardŷ amserol yr annuwiol. Yr oeddynt yn dysgu yn bendant fod terfyn i fod ar boenau uffern. Y doethawr Iuddewig dysgedig yn amser yr Apostolion, R. Akiba, a ddywed yn eglur: "Mae cosbedigaeth yr annuwiol yn Gehenna yn parhau ddeuddeng mis." Dyma yr unig fan y mae Crist yn gwrthddyweyd y syniad cyffredin. Gwir y gellir dwyn gwrthddadl ymlaen, nad oes yma gynnydd yn nadblygiad yr athrawiaeth, gan fod Esaiah (lxvi. 24) yn dysgu yr un peth. Cydnabyddwn ar unwaith fod Crist, hyd yr oedd yn bosibl, yn cadw yn fanwl at eiriadaeth yr Hen Destament; ond y mae defnyddiad Crist o honynt yma yn gyfryw ag i roddi i ymadrodd a ddefnyddiwyd o'r blaen ddeuni newydd. Hyd y gallwn weled, gesyd Esaiah olygfa y gosbedigaeth hon allan mewn amser, a hyny dan oruchwyliaeth yr efengyl. Prophwydoliaeth ydyw, medd Dr. Alexander, am lwyddiant terfynol yr efengyl; am ddyfodiad Iuddewon a Chenedloedd, heb yr un mur gwahan, i Sïon. Bydd hyn yn ofid dwys, yn bryf na bydd marw, i'r rhai hyny a wrthgiliant oddiwrth grefydd Crist. O'r ochr arall, y mae geiriau Crist yn hollol glir oddiwrth bob meddwl dammegol; y maent yn sicr a diammheuol y peth ydynt. (Alford.) Yma y mae y gosbedigaeth yn foesol, ac yn gosbedigaeth am wrthod Crist yn yr efengyl. Felly y mae yn osodiad ychwanegol i eiddo dysgawdwyr y genedl. Nid cosbedigaeth mewn amser ydyw. Dywed Crist yn bendant na bydd y pryf yn marw, na'r tân yn diffodd. Syniad llawn yr ymadrodd yw hwn, cedwir y rhai a deflir i'r tân mewn bôd i'r unig amcan o ddyoddef. A digofaint dwyfol sydd yma yn difa, a'r digofaint hwnw hefyd sydd yn cadw pechaduriaid i'w difa. At farw na bydd marw, medd Stier, y mae y geiriau hyn yn cyfeirio. Gan hyny, y mae Crist yn y geiriau hyn yn cyfeirio at derfyn eithaf cosbedigaeth pechod. Felly dysgeidiaeth Crist am Hades ydyw, byd tanddaearol; Hades fel cosbedigaeth a llys yn y byd ysbrydol; ac hefyd Gehenna fel cyfrwng tragywyddol gosbedigaeth y gwrthodiad o hono fel Gwaredwr.

Yn nghyfnod agosaf yr Eglwys at Grist ni chawn gyfnewidiad yn ystyr a meddwl y gair Hades. Gesyd Llyfr yr Actau iddo yr un ystyr a Llyfr y Salmau. I weled grym y gair fel y defnyddir ef gan Paul (1 Cor. xv.), nis gallwn wneyd dim yn well na defnyddio cyfieithiad y *Dwyfol Oraclau*: "Angeu! pa le mae dy golyn? Hades! pa le mae dy fuddugoliaeth?" Yn yr ymadroddion hyn y mae yn berffaith eglur i ni fod terfyn i fod ar Hades, fel Hades. Nid yw y bedd i ysgaru dros byth ysbrydoedd oddiwrth eu cyrff, mwy nag y mae Hades i lywodraethu ar ysbrydoedd ymadawedig. Nid oes a fynom yn awr a dadleu natur cosbedigaeth dragywyddol.

Ioan eto, yn llyfr y Datguddiad (xx. 14) a ddwg yr un dystiolaeth â Phaul. "A marwolaeth a Hades a fwriwyd i'r llyn o dân. Hon yw yr ail farwolaeth." Dyweyd, fel y gwna y cyfieithiad cyffredin, fod "marwolaeth ac uffern yn cael eu bwrw i uffern," sydd wrthun ac

annealladwy. Y mae yn dal allan fod un uffern i gael ei dinystrio yn y llall.

Nis gallwn oblegid ei neillduolrwydd fyned heibio i dystiolaeth Pedr (2 Pedr ii. 4). Defnyddia ef air na cheir yn unman arall trwy yr holl Fibl. Wrth gyfeirio at Dduw wedi bwrw yr angelion syrthiedig i uffern, dywed Pedr mai i Tartarus y bwriwyd hwy. Nid Hades, na Gehenna, a ddefnyddir, ond Tartarus. Yn ol yr hyn a allwn wybod am Tartarus, ni a gawn mai ymadrodd Cenedlig ydyw, wedi ei fabwysiadu gan yr Iuddewon. Yn amser yr Apostolion yr oedd y gair wedi d'od i gael ei arfer i osod allan yr ystad sydd wrthgyferbyniol i Elysium. Mor bell ag y gellir deall, cyfleai Elysium yr un syniad i'r Groegiad ag a gyfleai Paradwys i'r Iuddew. Felly y mae Tartarus yn cyfateb i'r gair Hades. Ymadrodd hollol Iuddewig ydyw Gehenna, ac ni ddefnyddir ef gan yr un o'r Apostolion ond Iago, a hyny pan yn ysgrifenu at y deuddeg llwyth.

Yn awr bydd y ddwy ystyriaeth ganlynol yn ddigon i argyhoeddi pawb diduedd am werth dywediad pwysig Crist wrth y lleidr yn ei berthynas â gogoneddiad uniongyrchol. (1) Defnyddiai yr Iuddewon "Baradwys" yn gyfystyr â "mynwes Abraham." Yn ol Josephus, man i aros gogoniant terfynol y byd ysbrydol ydyw mynwes Abraham. (2) Dyma yr ystyr y bwriadai Crist i'r lleidr ei ddeall. Yr oedd yr argyfwng yn rhy bwysig i ddefnyddio gair dyeithr, ac ni feddai Crist amser i egluro ymadrodd newydd. Os oedd Iesu am gyflwyno cysur presennol i'r truan oedd yn marw, sicr ydyw y buasai yn gwneyd hyny âg ymadrodd ag yr oedd y dyn yn ei ddeall. Os ydyw hyn yn wir, yna nid oes dim yn y ddadl oddiwrth y gair hwn yn ffafr gogoneddiad uniongyrchol. Bellach gallwn ddwyn ein hymchwiliad i ffurf neillduol fel ag i weled yn fwy cryno yr hyn sydd yn cael ei ddysgu. Felly dodwn ger bron y ffeithiau hyn.

1. Mai term cyffredinol ydyw Hades yn cyfeirio at le âg iddo ddwy adran.

(1) Paradwys, Mynwes Abraham, Elysium.

(2) Uffern, Gehenna, Tartarus.

Oddiwrth ddammeg y Goludog a Lazarus, gwelir fod Crist yn gosod y ddau yn Hades. Y goludog yn y fflam, a Lazarus yn mynwes Abraham. Eto profa addewid Crist i'r lleidr eu bod eu dau—Crist a'r lleidr—wedi myned i Hades. Arosodd y lleidr yno; ond dychwelodd Crist, ac esgynodd i ddeheulaw Duw.

2. Mae y sefyllfa yn Hades i dd'od i derfyniad.

(1) Nid oes dim yn holl ddadganiadau y Bibl yn groes i hyn.

(2) Y mae genym ddadganiad pendant Josephus; un o brif brophwydi cyfnod diweddaf yr Hen Destament (Hosea xiii. 14); a thri o apostolion penaf Crist, yn tystio i sicrwydd hyn.

W. WILLIAMS.

*Buenos Aires, gynt o Walchmai.*

# Y TAD DAMIEN.*

In all times and places the Hero has been worshipped. It will ever be so. We all love great men; love, venerate and bow down submissive before great men: nay, can we honestly bow down to anything else? Ah, does not every true man feel that he is himself made higher by doing reverence to what is really above him? No nobler or more blessed feeling dwells in man's heart. And to me it is very cheering to consider that no sceptical logic, or general triviality, insincerity and aridity of any time and its influences, can destroy this noble inborn loyalty and worship that is in man. (CARLYLE on *Heroes and Hero-worship.)*

YN ystod y misoedd diweddaf cafwyd prawf newydd a hynod darawiadol o wirionedd y syniad a osodir allan yn y paragraph uchod, yn yr edmygedd dwfn o fywyd a llafur yr offeiriad Pabaidd, y Tad Damien; y parch diffuant a ddangoswyd tuag at ei goffadwriaeth ymhlith uchelwyr y deyrnas; ac yn arbenig y brwdfrydedd a gynnyrchwyd trwy ei farwolaeth am ddwyn ymlaen y gwaith y cysegrodd efe ei fywyd iddo. Yn wir, y mae ei lafur wedi peri i eraill osod y nod yn llawer uwch na dim y meddyliodd efe am ei gyrhaedd. Ymgeleddu gwahangleifion ynysoedd Sandwich oedd gorchwyl mawr ei fywyd ef. Ond y mae ei farwolaeth, trwy ba un y galwyd sylw at ei waith, wedi achlysuro yr ymofyniad, Oni ellir gwneuthur rhywbeth i'r chwarter miliwn o wahangleifion sydd yn yr India? Onid oes modd rhoddi terfyn ar y clwyf yno, fel yr ydys wedi gwneuthur yn y wlad hon? Onid ydyw yn bosibl gwaredu dynoliaeth oddiwrth y pla ofnadwy hwn? Un engraifft ychwanegol o wirionedd dywediad John Wesley: "Y mae Duw yn claddu ei weithwyr, ond yn cario ymlaen ei waith." Braidd na ellir dyweyd mai y rheol ydyw fod marwolaeth gweithiwr difrifol yn taflu bywyd newydd i'r gwaith a wneid ganddo.

Bwriedir yn y nodiadau canlynol roddi crynodeb o'r ffeithiau dyddorol a ddygir i'n sylw gan Mr. Clifford am fywyd, cymeriad, a gwaith y Tad Damien. Wrth ddarllen am yr offeiriad yn ngwanwyn 1887, mewn cylchgrawn a ddaethai i'w law, penderfynodd y gŵr hwn dalu ymweliad âg ef, i edrych a allai wneuthur rhywbeth er ei gynnorthwyo. Treuliodd auaf y flwyddyn hono yn India, lle y cafodd lawer o gyfleusderau i ymgydnabyddu â'r ffeithiau ynghylch y gwahanglwyf yno. Wedi dychwelyd i'r wlad hon, croesi y Werydd, a myned ar draws cyfandir eang America, nes cyrhaedd i San Francisco, hwyliodd oddiyno dros y Môr Tawelog nes cyrhaedd, tua chanol Rhagfyr, 1888, i Ynysoedd Sandwich. Gorwedda y rhai hyn tua hanner y ffordd rhwng yr America ac Awstralia. Y benaf o'r ynysoedd ydyw Hawaii,†

* FATHER DAMIEN: A Journey from Cashmere to his Home in Hawaii. By Edward Clifford. London: Macmillan & Co., 1889.

† Y mae arwynebedd yr ynys hon yn 4500 o filldiroedd ysgwar; yr hyn sydd tua'r un faint ag arwynebedd saith o siroedd Cymru, sef Caernarfon, Dinbych, Meirionydd, Trefaldwyn, Aberteifi, Maesyfed, a Brycheiniog.

yr hon sydd yn fynych yn rhoddi ei henw i'r ynysoedd oll. Darganfyddwyd hwy gan Cadben Cook yn 1778; a chan frodorion y brif ynys y lladdwyd ef yn 1779. Ond ni ymwelwyd â'r ynysoedd gan ddynion gwynion am ddeugain mlynedd ar ol hyn, oddieithr y galwai ambell long fasnachol yno yn achlysurol, gyda y rhai a arweinid i'r cyfeiriad hwnw wrth bysgota morfilod. Gwnaeth y rhai hyn, pa fodd bynag, niwed anferth i'r brodorion trwy ddwyn i'w plith arferion a fu yn ddinystriol i lawer o honynt. Y canlyniad ydyw lleihad dirfawr yn y boblogaeth. Ar un adeg, yr oedd yn yr ynysoedd 400,000 o drigolion; ond dywed Mr. Clifford nad oes yno yn awr uwchlaw 40,000. Yn 1881, talodd brenin yr Ynysoedd ymweliad âg amryw wledydd er ceisio perswadio rhai i ymfudo ac ymsefydlu yno, o herwydd y lleihad parhaus yn y boblogaeth.

Yn 1809 arweiniwyd brodor ieuainc o un o'r ynysoedd mewn modd rhagluniaethol i'r America. Cafwyd ef un boreu yn wylo wrth borth Coleg Yale, a chymerwyd ef i mewn yn garedig gan un o'r graddedigion a breswyliai yn y Coleg o'r enw Mr. Dwight.* Enw y bachgen oedd Obookiah. Yn fuan daeth i ddymuno cael ei "ddysgu i ddarllen y Bibl, a'i anfon adref at ei bobl i ddyweyd wrthynt am weddïo ar y Duw sydd i fyny yn y nefoedd." Yr oedd gyda'r bachgen hwn ddau eraill, a elwid Tennooe a Hopu. Bu farw Obookiah ymhen oddeutu blwyddyn wedi dyfod i Yale; ond arbedwyd y ddau eraill, a chadwyd hwy dan addysg am nifer o flynyddoedd. Gyda'r ddau fachgen hyn, aeth o Boston ddeuddeg o wŷr a gwragedd i Ynysoedd Sandwich, a chyrhaeddasant yno y dydd olaf o Fawrth, 1820. Pan oedd y ffyddloniaid hyn yn cychwyn i'w taith, dywedid wrthynt gan eu cyfeillion: "Prin y gellir gobeithio i chwi gael byw i weled dymchweliad eilunaddoliaeth yn yr Ynysoedd." Ond er eu syndod cawsant y dymchweliad eisoes wedi cymeryd lle, a chwyldroad rhyfeddol wedi ei ddwyn oddiamgylch. Ar ol llawer o ryfela, yr oedd y brenin Kamehameha y Cyntaf wedi llwyddo i uno yr holl ynysoedd â'u gilydd yn un deyrnas; ac hefyd wedi diddymu y "tabu," math o *caste system* hynod o ddarostyngol, oedd hyd y pryd hwnw wedi ffynu ymhlith y brodorion. Yr oedd yn drosedd yn haeddu marwolaeth, yn ol y gyfundrefn hono, i ddyn ganiatâu i'w gysgod ddisgyn ar benaeth, neu hyd yn nod sefyll pe dygwyddai i'w enw gael ei grybwyll mewn cân; ac felly yr oedd bywyd dynion yn gwbl at drugaredd y brenin a'r penaethiaid. Nis gallai gwraig fwyta gyda'i gŵr, nac ychwaith fwyta cig ieir, cig moch, *cocoanut*, na *bananas*,—pethau a aberthid i eilunod,—dan boen marwolaeth. Pan wedi gorphen adeiladu teml, offrymid dynion i'r duwiau. Y mae yn awr ar gael raff ag yr oedd un offeiriad wedi llindagu â hi dri ar hugain o ddynion. Yr oedd lladd plant bychain yn arfer gyffredin; llabyddid gwallgofiaid i farwolaeth; a chleddid hen bobl yn fynych yn fyw, neu yntau gadewid hwy i drengu.

Ond erbyn i'r cenadon gyrhaedd yn 1820, ac anfon Hopu—un o'r ddau fachgen brodorol—i'r lan i wneyd ymchwiliad i agwedd pethau, derbyniasant ganddo y newyddion:—"Y mae Kamehameha wedi marw.

* Fel hyn yr ysgrifena Mr. Clifford am dano. Credwn mai Dr. Dwight oedd y gŵr, yr hwn oedd ar y pryd yn Llywydd y Coleg.

Mab iddo, Liholiho, sydd yn awr yn teyrnasu. Y mae y 'tabu' wedi ei ddiddymu, y delwau wedi eu llosgi yn tân, y temlau wedi eu dinystrio; y mae rhyfel wedi cymeryd lle, ond yn awr y mae heddwch." Prin y gellid credu y fath newyddion. Un diwrnod cyfodasai y brenin galluog o'r lle yr oedd yn gwledda, ac aethai i eistedd wrth yr un bwrdd â'i wragedd i fwyta ac yfed. Dilynwyd ei esiampl gan y prif offeiriad. Llanwyd y bobl â dychryn; ond ni ddisgynodd arnynt unrhyw arwyddion o anfoddlonrwydd dwyfol; ac yn fuan yr oedd yr hen gaethiwed wedi diflanu, a rhyddid yn cael ei fwynhau trwy yr holl ynysoedd. Ac wedi i'r brenin gwblhau ei waith, clafychodd a bu farw. Prudd-aidd yw darllen ddarfod iddo, pan yn ymyl marw, ofyn yn ofer i ryw fasnachwr Americanaidd ddyweyd wrtho am Dduw yr Americaniaid; ond pwy a ŵyr na ddarfu iddo wrth ymbalfalu ei hunan am dano lwyddo i'w gael?

Rhoddodd ei fab dderbyniad croesawus i'r cenadon. Daeth ef a'i bum' gwraig ar unwaith i gyfarch gwell iddynt, yn noethion. Awgrymodd y cenadon mai gwell fuasai iddynt wisgo am danynt; a'r tro nesaf y galwodd y brenin yr oedd ganddo het am ei ben, a hosanau sidan am ei draed. Tywysoges, chwe' troedfedd o daldra, o'r enw Kapiolani, oedd un o'r dychweledigion cyntaf at Gristionogaeth, yr hon yn 1824 a wnaeth wasanaeth pwysig at fwrw ymaith ofergoeledd y trigolion. Bu ei gweithred yn achlysur i'r drydedd ran o'r boblogaeth droi yn Gristionogion. Annibynwyr oedd y cenadon cyntaf hyn, ac iddynt hwy y perthyn yr anrhydedd o ddychwelyd yr ynysoedd oddiwrth Baganiaeth at Gristionogaeth. Yn 1839 yr aeth y Pabyddion i'r Ynysoedd; ac yn ddiweddarach drachefn y cyrhaeddodd cenadon yr Eglwys Sefydledig yno.

Cyn myned ymhellach, dichon y gellir yn briodol wneyd ychydig sylwadau ar nodweddion daearyddol yr ynysoedd. Dyma ddesgrifiad Mr. Clifford:—

One can imagine how delightful the aspect of these delicious tropical islands must have been to the first missionaries. The whole scene is so exactly described in the following lines of Tennyson that it seemed to me, when I was there last January, as if they must have been written to describe it,—

"Courage!" he said, and pointed toward the land,
"This mounting wave will roll us shoreward soon."
In the afternoon they came unto a land
In which it seemed always afternoon.
All round the coast the languid air did swoon,
Breathing like one that hath a weary dream,
Full-faced above the valley stood the moon;
And like a downward smoke, the slender stream
Along the cliff to fall and pause and fall did seem.

A land of streams! some, like a downward smoke,
Slow-dropping veils of thinnest lawn, did go;
And some thro' wavering lights and shadows broke,
Rolling a slumbrous sheet of foam below.
They saw the gleaming river seaward flow
From the inner land: far off, three mountain-tops,
Three silent pinnacles of aged snow,
Stood sunset-flush'd.

The mountains and the river are there, and the delicious streams are for ever falling by scores down the green precipices of Hawaii into the blue sea. How

lovely that sea is can scarcely be told. One puts one's hand in, and all round it is the softest and most brilliant blue; below are growths of pure white coral, and among them swim fishes as brilliant as paroquets. Some are yellow like canaries, some are gorgeous orange or bright red. I tried to paint a blue fish, but no pigment could represent its intensity. The loveliest of all was like nothing but a rainbow as it sported below me. Groves of cocoanut trees rise from the water's edge. The gardens are rich with roses, lilies, myrtles, gardenia, heliotrope, and passion-flowers.

Near by is a great tropical forest, which I always feared as I entered; for there is an element of the terrible in this tremendous vegetation, and in the perfect stillness of it all. The trees are wreathed with humid creepers; the ferns are fourteen feet high; even the stag's horn moss grows taller than a man. Every foot of space is occupied with rank vegetation.

The Sandwich Islands are a collection of volcanoes, of which the fires appear to have died out in southward order. In Hawaii, the largest and most southerly island, they still rage. Out of its great lake of liquid boiling lava the fire-fountains toss themselves high into the air, red as blood in daylight, orange at twilight, and yellow as a primrose by night—a fearful sight, and approached by three miles of scarcely less terrible lava, black and glittering, and hardened into shapes like gigantic crocodiles and serpents. Sometimes the traveller sees that it is red hot only eight inches below the sole of his foot.

Even more wonderful, perhaps, is the great extinct crater of Haleakala, on the island of Mani. It is the largest crater in the world—nine miles in diameter—and it contains in its hollow fourteen great tumuli or extinct volcanoes, some of them 700 feet high. As I watched the scene at sunrise, it seemed to me that I was not only in another planet, but in another dispensation.

Except the crater, there was nothing to be seen around or below me but miles and miles of white clouds, slowly turning pink before the coming sun. Above them arose two far distant mountain-tops, Mona Loa and Mona Kea, and occasionally there was a rent in the great tracts of cloud, and a bit of blue sea appeared.

This vast crater yawned in the immediate foreground, a deathly abandoned place, but not without the beauty which almost always marks Nature's works, if we have but eyes to see them aright. The strange lights and shadows were unlike anything which I have ever beheld before or since. The colours of the tumuli were dim but splendid, going through the range of dull purple, dull pink, dull brown, dull yellow, dull green. The floor of the crater was gray and black, composed of the dust of lava accumulated through centuries, and probably never trodden by the foot of man.

Y llyn o dân yn ynys Hawaii, a ddesgrifir uchod, ydoedd cartref tybiedig y dduwies Pele. Cerddodd Kapiolani ar draws y gwastadedd o *lava* nes cyrhaedd hyd at làn y llyn, ac yna taflodd iddo y ffrwythau cysegredig i'r dduwies *(ohelo berries)*, gan herio y dduwies i'w niweidio. Arswydai ei chanlynwyr yn yr olwg ar ei rhyfyg, ond ni ddygwyddodd iddi unrhyw drychineb. Yna trodd hithau atynt ac a fynegodd am y gwir Dduw, gan gyffesu ei ffydd yn Iesu Grist. Ar gyfrif y dyddordeb ychwanegol hwn a berthyn i'r llyn o herwydd ei gysylltiad â hen grefydd y brodorion, yn gystal a hynodrwydd naturiol yr olygfa, y mae Mr. Clifford yn rhoddi desgrifiad manwl a bywiog iawn o hono, yr hwn y byddai yn resyn ceisio ei gyfieithu :—

It is a long, slow ride up the mountain, but when one reaches the highest elevation the view is sufficiently surprising. The traveller finds himself on a curious green plain, from which many tufts of white smoke are rising. It looks as if weeds were being burned; but no, it is the steam coming out of cracks in the ground, and when he goes up to the place he finds it both hot and wet, and crowds of lucky ferns grow there as thickly as possible. In the middle of this plain is sunk the crater of Kilauea, a monstrous cup, of which the bottom is a waste of lava, and the sides are precipices about nine miles in circumference.

In its centre is a small black burning mountain with several peaks, from which volumes of white smoke continually ascend. Nearly at the foot of this mountain the lake of fire is situated. By night the smoke is illuminated, and about a dozen fiery furnaces are seen.

On one side of the crater there is a zigzag path down the precipice, which is clothed with tropical vegetation. The ferns and mosses are beautiful, and everywhere grow the scarlet and yellow ohelo berries, which are in season each month of the year, and which taste something like whortle-berries. They were held sacred to the goddess Pele.

At the bottom of the precipice the vegetation ceases suddenly, and the most absolutely abandoned place is reached. What looked a flat plain from the top is now discovered to be a wilderness of dark lava, all solid, but in every conceivable form of mud wave and mud flow; often it is twisted into coils exactly like rope, and there are regions where it seems as if some intelligence had been at work to shape it into tens of thousands of huge crocodiles and serpents and antediluvian beasts. These wonders must be seen to be believed in. They often look positively wicked. In some parts the sulphur has its way, and the lava erections are bright lemon colour. One place is a ruined tower, with a red-hot oven half-way up it, and a perpetual squilching and hissing and fizzing going on. Generally the lava is blackish in colour; sometimes it is iridescent, sometimes it has a sheen, like satin, and glitters brightly in the sun.

A great deal of it is as hard as stone, but sometimes it is brittle, and is spread out in thin folds like drapery. Under a man's weight it breaks with a screech, and down he goes—perhaps for five inches, perhaps for five feet. It is best to follow closely in the guide's footsteps. There are three miles to be walked over before one reaches the mountains. The lava is often rent with wide, deep cracks, and in some places I found that it was red-hot only eight inches below the sole of my foot. Sometimes the crust has heaved and broken; under it is a hollow, and then more lava underneath. The ground is often almost burning hot. Somehow it is not as horrible as one would expect—the sun is so brilliant, the air is so good, and the guide is so cool.

At last the traveller begins to ascend the spur of the mountain, a very big dreadful crack has to be jumped across, and almost immediately afterwards he looks down, and just below him he sees close at hand the lake of fire. And if he is not frightened and silly, he climbs down and stands at its edge, shading his face and eyes from the burning heat, and near enough to dip his long alpenstock into the lava. The lake is about 100 yards in diameter. Its rim rises about ten feet from the ground, and sometimes the boiling lava surges up till it overflows. But the best effects are when the inside wall shows itself for about twelve feet, for then the lava dashes up round it in waves, and continually undermines it with red-hot grottoes till it topples in with a crash. These waves of lava are not unlike the waves of the sea, only their colour is the colour of coral or of blood, and their spray is red instead of white. Above them there is often a beautiful lilac or violet effect, and this violet atmosphere of the lake of fire is one of the loveliest things about it.

The lava is as liquid as thick soup, and of a bluish gray colour, with occasional greenish tints. It keeps simmering and heaving, and then it breaks in all directions into most lovely vermilion cracks, changing into violet and then into dead gray. All the time a roaring sound goes on like the roaring of the sea. Wherever the slightly cooling crust cracks it is red-hot.

And now as one watches, a scarlet fountain begins to play in the middle of the lake. At first it is about two feet high, with golden spray, then it gets wilder and larger and more tumultuous, tossing itself up into the air with a beautiful sportiveness—great twistings of fiery liquid spring into the air, like serpents and griffins. It is terrible. It is splendid. It is exquisite. And it is almost indescribable. I visited the volcano six times, and generally saw some of these fire fountains, and the roaring, tossing waves at the edge of the volcano never ceased.

Sometimes a thin blue flame breaks through the cracks or roars up through a chimney at the side. All around the lake is a deposit of "Pele's hair," a dun-coloured glassy thread that is always ready to stick into one's hand, with numberless little points. In some places it lies so thick that it looks like a blanket of disagreeable tawny fur.

It is necessary to look out for a sudden change of wind at Kilauea. I had almost to run one day to escape being stifled with fumes of sulphur, and I picked up a lovely scarlet honeybird which had rashly flown that way, and met a sulphurous death.

My last view of the volcano was at night, when its red colour changed to the yellow of a daffodil. Enormous waves and fountains of fire were then playing and flinging up wreaths of spray, which fell almost at my feet, and lay like red-hot snakes till they cooled into pitchiness.

While I was there the sky at evening was very green, and peculiarly lovely in contrast with the orange of the fire. The calm, nearly level outline of the distant mountain (Mona Loa) and the young tender moon made a delightful relief from the fiery terrors in front of me.

I left Kilauea feeling that I had seen one of the most wonderful sights that the world contains, and I had learnt the lesson that even a lake of fire can be beautiful.

Un peth a'n tarawodd ni yn rhyfedd ydyw uchder mawr y llosgfynyddoedd yn yr ynysoedd hyn. Y mae Kilauea yn 13,953 o droedfeddi uwchlaw gwyneb y môr. Uchder yr Wyddfa ydyw 3570 o droedfeddi; ac felly y mae llosgfynydd Kilauea agos can uched a phe gosodid pedair Wyddfa ar eu gilydd. Ac y mae Mona Kea yr un uchder a Kilauea, a Mona Loa yn 13,760 o droedfeddi o uchder. Prif borthladd yr ynysoedd ydyw Honolulu, yn ynys Oahu; ac y mae yn awr fasnach led helaeth yn cael ei dwyn ymlaen rhwng yr ynysoedd a phorthladdoedd gorllewinol Unol Dalaethau yr America.

Ar un o'r ynysoedd a elwir Molokai y mae sefydliad (*settlement*) y gwahangleifion. Dywedir fod 2000 o drigolion yr ynysoedd o dan y clwyf. Hir a chul yw yr ynys; tua'r dehau y mae y tir yn gorwedd yn isel, ac yn codi yn raddol nes cyrhaedd yr uchder mwyaf, sef 1500 o droedfeddi, tra y mae y disgyniad tua'r gogledd yn hynod o serth. Rhwng gwaelod y clogwyni a'r môr y gorwedd dau bentref y gwahangleifion, y rhai a elwir Kalawao a Kalaupapa. Cychwynai Mr. Clifford o Honolulu mewn agerlong fechan o'r enw *Mokolii* tua Molokai, am bump o'r gloch dydd Llun, yr 17eg o Ragfyr diweddaf. Gyda'r wawr drannoeth yr oedd yr agerlong ar gyfer Kalaupapa. Ond yr oedd y môr yn rhy arw iddynt allu glanio yno, ac felly aethant ymlaen i Kalawao. Ac yno hefyd yr oedd yn gyffelyb. Ond penderfynwyd gollwng cwch i lawr, a chyfeirio at bwynt creigiog oddeutu milldir a hanner oddiwrth y dref. Bu y trefniad hwn yn achlysur i Mr. Clifford, cyn gadael y cwch, gael golwg ar y Tad Damien yn disgyn i lawr y bryn gydag ugain o wahangleifion, a chael ei gyfarfod ar y lân yn gynt nag y dysgwyliasai.

Gwell, hwyrach, fyddai rhoddi yn y fan hon ychydig o hanes boreuol yr offeiriad, a'r modd yr arweiniwyd ef i lafurio ymysg y gwahangleifion yn ynys Molokai Ganwyd ef ar y 3ydd o Ionawr, 1841, yn agos i Louvain, yn Belgium, lle y mae brawd iddo yn awr yn fyw, ac fel yntau yn offeiriad yn yr Eglwys Babaidd. Bu farw ei fam o ddwy i dair blynedd yn ol, a'i dad ddeuddeng mlynedd o'i blaen. Y dydd yr oedd yn bedair ar bymtheg oed, cymerodd ei dad ef i weled ei frawd, yr hwn oedd ar y pryd yn ymbarotoi at fyned yn offeiriad. Gadawodd ef gyda'i frawd i giniawa, tra yr elai ef ei hun i dref gyfagos. A phenderfynodd yntau gymeryd y cyfleusdra a estynid iddo trwy yr ymweliad hwnw i gario allan hen fwriad oedd yn ei galon, ac ymgy-

segru i'r offeiriadaeth. Ac felly ni ddychwelodd adref gyda'i dad, ond arosodd gyda'i frawd. Wedi hyny, pa fodd bynag, wedi i'r holl drefniadau gael eu cwblhau, ymwelodd â'i gartref, a derbyniodd fendith a chymeradwyaeth ei fam, yr hon oedd yn wraig o grefyddolder dwfn. Ei enw yn llawn oedd Joseph Damien de Veuster. Rhoddasai ei frawd ei fryd ar fyned yn genadwr i Ynysoedd Môr y De, a gwnaethid yr holl drefniadau i gario y bwriad hwnw allan; ond cymerwyd ef yn glaf dan glefyd trwm, ac er ei fawr siomedigaeth gwaharddwyd iddo fyned allan. Gofynodd Joseph a fyddai yn rhyw gysur iddo pe yr elai ef allan yn ei le; ac wedi cael atebiad cadarnhaol, anfonodd, yn groes i reolau y sefydliad, i'w gynnyg ei hun fel ymgeisydd. Nid oedd eto wedi cwblhau ei addysg, ac ni oddefid ychwaith i'r efrydwyr anfon unrhyw lythyrau heb eu dangos yn gyntaf i'r *Superior*. Un diwrnod, pan wrth ei efrydiau, daeth y gŵr hwnw i mewn ato, gan ei gyfarch mewn geiriau ceryddol, ond gyda thôn ganmoliaethol: "O fachgen diamynedd! Chwi a anfonasoch y llythyr hwn, ac yr ydych i fyned allan." Mor fawr oedd ei lawenydd fel y rhedodd allan ac y neidiai fel ebol gwyllt, nes peri i'w gydefrydwyr bron dybio ei fod o'i bwyll.

Am nifer o flynyddoedd bu yn llafurio yn rhai o ynysoedd eraill y Môr Tawelog; ond dygwyddodd ei fod un diwrnod yn 1873 yn bresennol ar gysegriad capel yn Ynys Mani, pan y gofidiai yr esgob oblegid ei anallu i anfon neb i lafurio ymysg gwahangleifion Molokai. Yn achlysurol yn unig y buasai yn alluog i anfon iddynt ychydig gymhorth am amser byr. Ond ar yr adeg hono yr oedd amryw o offeiriaid ieuainc newydd gyrhaedd i Hawaii, a dywedodd Damien wrth yr esgob yr äi efe ar unwaith i ymsefydlu yn eu plith, os penodid un o'r offeiriaid newyddion i gymeryd y dosbarth yr oedd efe ar y pryd yn llafurio ynddo. Ac ychwanegai fod ei galon wedi gwaedu lawer pryd wrth feddwl am drueni corfforol ac anfanteision ysbrydol y gwahangleifion. Derbyniwyd ei gynnyg; a'r diwrnod hwnw, heb gymaint a chanu yn iach i'w gyfeillion, efe a gychwynodd i Molokai, mewn cwch oedd yn cymeryd gwartheg i'r ynys. Ac wedi gosod ei droed arni, dywedodd wrtho ei hun: "Wel, Joseph, fy machgen! dyma bellach waith dy oes." Yr oedd hyn yn Mai 1873, pan oedd yn 32 mlwydd oed, ac yn meddu ar iechyd da a chyfansoddiad rhagorol.

Yn yr India nid ymddengys y gwneir un ymgais i gadw y rhai sydd yn dyoddef oddiwrth y clwyf ofnadwy hwn ar wahan; ond y mae llywodraeth Ynysoedd Sandwich wedi cydnabod er ys llawer o flynyddoedd yr angenrheidrwydd hollol am lwyr wahanu y cleifion oddiwrth y rhai sydd yn rhydd oddiwrth y clwyf, ac felly wedi gosod i fyny sefydliad yn Molokai i'r amcan hwn. Y mae yno ar hyn o bryd uwchlaw mil o wahangleifion; ac anfonir yno yn barhaus y rhai y gwelir fod y clwyf wedi ymaflyd ynddynt yn yr ynysoedd eraill. Yr oedd yn myned yno bymtheg o wahangleifion ar y llong yr oedd Mr. Clifford yn hwylio ynddi o Honolulu. Ac er pob ymdrech o du y llywodraeth i ddarpar ar gyfer cysur ac ymgeledd y trueiniaid, y mae yn hawdd dychymygu mai lle torcalonus i'r eithaf raid fod ynys yr hon y mae bron ei holl boblogaeth yn dyoddef oddiwrth glefyd sydd hyd yma wedi profi yn anfeddyginiaethol. Fel rheol, nid ydyw oes y gwahanglwyfus ond oddeutu pedair blynedd. Tua'r amser hwnw y mae yr afiechyd yn cyrhaedd

y rhanau mewnol a bywydol, ac yn ddïeithriad yn terfynu yn angeuol.

Yn 1873, pan yr aeth y Tad Damien i Molokai yr oedd yno le truenus mewn gwirionedd. Lletyid oddeutu pedwar ugain o'r cleifion yn yr ysbytty; ond mewn bythynod wedi eu gwneuthur o goed, neu o gangau coed wedi eu gosod wrth eu gilydd yn lled didrefn, a'u gorchuddio â dail, y preswyliai y rhan fwyaf o honynt. Bu yr offeiriad ei hun yn aros am rai wythnosau dan gysgod pren *(pandanus tree)*, yr hwn sydd yn aros eto yn y fynwent gerllaw yr Eglwys. Yn y tai tlodaidd hyn y preswyliai y cleifion ar draws eu gilydd; pob oed, pob rhyw, a chan mwyaf yn gwbl ddyeithr i'w gilydd nes cael eu dwyn ynghyd gan eu trueni. Ond treulient eu hamser i chwareu cardiau, dawnsio, yfed diodydd meddwol a wneid ganddynt o wreiddiau y *Ki*, yn nghanol budreddi ac annhrefn annesgrifiadwy. Yr oedd glanweithdra yn anhawdd, pe buasent dueddol iddo, am fod dwfr yn brin, a bod y cleifion dan orfodaeth i'w gludo bellder mawr o ffordd. Mor aflan oedd y tai fel y gorfyddid yr offeiriad yn fynych i gilio allan o honynt er mwyn anadlu awyr bur am ychydig fynydau pan ar ganol cyflawni ei orchwylion offeiriadol, a barnodd yn ddoeth fel hunan-amddiffyniad ymarfer â thybaco. Nis gellid cyffelybu yr ynys ar y pryd ond i fynwent fyw,—*a living graveyard.* Ond trwy ymroddiad a llafur y Tad Damien y mae yr olwg ar y lle erbyn hyn yn dra gwahanol.

Yn 1874 chwythwyd i lawr y rhan fwyaf o'r tai gwaelion uchod gan wynt deheuol cryf *(cona)*, yr hyn a ddarostyngodd y preswylwyr i drueni mawr yn ystod y gwlawogydd a ddilynodd. Ar gais yr offeiriad, anfonwyd iddynt well defnyddiau at adeiladu tai newyddion. Cyflogid seiri gan y rhai a feddent y modd i hyny; i'r lleill adeiladwyd tai gan yr offeiriad â'i ddwylaw ei hun, yn cael ei gynnorthwyo gan fechgyn gwahanglwyfus a ddysgid ganddo i wneuthur y cyfryw waith. Erbyn hyn y mae y tai yn ddestlus a chyfleus; ac y mae yn yr ynys bump o eglwysi. Dangosa y llywodraeth bob gofal am yr anffodusion, a chaniateir i bob person bum' pwys o *fresh beef* bob wythnos, heblaw llaeth a chacenau, a rhyw bethau eraill. Ac y mae yno hefyd fasnachdŷ lle y gellir prynu pob math o *tinned fruits.*

Y mae yr afiechyd hefyd erbyn hyn wedi gwisgo ffurf lai mileinig; ac nid yw gweled dynion wedi eu hanffurfio a'u hanafu ganddo yn beth mor gyffredin ag ydoedd ar fynediad y Tad Damien yno. Gwelir gwedd llawer mwy siriol a chysurus ar y cleifion; ac y mae eu sefyllfa foesol a chrefyddol wedi gwella yn ddirfawr. Y mae bellach anhawsder, o herwydd cysuron y sefydliad, i attal personau nad ydynt wahangleifion, mewn rhai amgylchiadau, i ymfudo i'r ynys. Caniateir weithiau i wraig fyned yno gyda'i gŵr gwahanglwyfus, ac i ŵr gyda'i wraig wahanglwyfus. Dywedir nad ydyw merched mor agored i'r clwyf ag ydyw meibion. Y mae yn Molokai yn awr wraig, yn gwbl iach, a aeth yno gyda'i gŵr gwahanglwyfus. Wedi ei farw, ymbriododd â gwahanglwyfus arall; ac y mae yn awr yn briod â'r pedwerydd gwahanglwyfus. Ac yr oedd y Tad Damien yn teimlo yn wrthwynebol i wahaniad gorfodol rhwng gŵr a gwraig, am ei fod yn gwneyd y rhai a wahenid yn llawer mwy truenus dan eu dyoddefiadau.

Y mae yno yn awr gyflawnder o ddwfr glân a phur. Deallodd yr offeiriad ymroddedig un diwrnod fod yn mhen uchaf dyffryn a elwid Waihanau, lyn o ddwfr. Wedi ymweled â'r lle, cafodd fod y dwfr yn oer ac adfywiol, a bod y llyn yn 72 troedfedd wrth 55 troedfedd o faintioli, ac yn 18 troedfedd o ddyfnder; a hysbyswyd ef nad ydoedd byth yn sychu i fyny. Y mae bellach bibellau wedi eu gosod i lawr, a phob anghyfleusdra a phrinder wedi eu symud ymaith.

Yr ydym wedi gadael allan lawer o ymadroddion cryfion y gallesid eu dyweyd am drueni diymgeledd y gwahangleifion yn naturiol, yn gystal ag am eu hiselder moesol; ond y mae yn yr awgrymiadau a roddwyd fantais ddigonol i gynnorthwyo y darllenydd i ffurfio rhyw syniad am y gwaith oedd o ddydd i ddydd i'w gyflawni gan yr offeiriad hunanaberthol; ac am fawredd y llafur yr aeth trwyddo i effeithio y fath gyfnewidiad yn agwedd y sefydliad, er iddo gael pob cefnogaeth a chynnorthwy dichonadwy gan y Llywodraeth. A hyderwn nad oes eisieu ychwaneg er llanw y meddwl âg edmygedd o'i ymaberthiad.

O'r cychwyn nid oedd y Tad Damien yn dysgwyl na byddai iddo yntau ryw ddydd ei gael ei hun yn wahanglwyfus. Parhaodd, pa fodd bynag, yn rhydd oddiwrth bob arwyddion o'r clwyf am ddeng mlynedd. Tua'r pryd hwnw (1883), dychymygodd ei fod wedi ymaflyd ynddo; ond sicrheid ef gan y meddygon fod ei ddychymyg yn gwbl ddisail. Un diwrnod, pa fodd bynag, llosgodd ei droed â dwfr poeth, ac er ei ddychryn ni theimlai oddiwrth y llosg unrhyw boen,—arwydd sicr fod yr anhwyldeb wedi ymaflyd ynddo. Yn fuan daeth arwyddion eraill i'r golwg. Ac o'r diwedd gorfuwyd Dr. Arnim, meddyg Germanaidd, i'w hysbysu fod ei ofnau yn gywir. "Nid yw yn un braw i mi," meddai yr offeiriad, "yr wyf yn gwbl sicr o'r ffaith er ys llawer dydd."

Dywedir fod tri math o wahanglwyf. Yn y cyntaf y mae yr holl gorff yn cael ei orchuddio â rhyw wynder cenllyd, heb unrhyw niwed arbenig i iechyd cyffredinol y cyfansoddiad. Hwn y cyfeirir ato beunydd yn yr Ysgrythyrau; ond y mae erbyn hyn yn dra anghyffredin. Yn yr ail, y mae y traed a'r dwylaw yn myned yn ddideimlad, ac yn raddol yn madru ymaith. Darostyngir yr holl gorff ganddo i wendid, a gwneir ef yn agored i anhwylderau neillduol eraill. Yn y trydydd y mae y corff yn cael ei orchuddio â chornwydydd. Yr olaf yw y mwyaf poenus; ac yr oedd y Tad Damien yn dyoddef oddiwrth yr ail a'r trydydd. "Pan y byddaf yn pregethu i'm pobl," meddai, "nid wyf yn dywedyd, Fy mrodyr, fel y mae eich arfer chwi; ond byddaf yn dywedyd, Ni wahangleifion. Y mae pobl yn fynych yn tosturio wrthyf, gan fy ystyried yn ddyn anffodus; ond yr wyf fi yn edrych arnaf fy hun fel y dedwyddaf o genadon." O hyn allan gwaherddid iddo fyned i'r ynysoedd eraill, a gorfodid ef i fyw yn unig ymysg "ei wahangleifion." "Ni fynaswn fy ngwella," meddai, "pe gorfyddid i mi tuag at hyny adael yr ynys a rhoddi i fyny fy ngwaith." Perthynai i'r Gymdeithas a elwir "*The Society of the Sacred Heart of Jesus and Mary.*"

Y mae yn Kalaupapa offeiriad Pabaidd arall o'r enw y Tad Wendolen, a thair boneddiges—*Franciscan Sisters*, yn llafurio yn ddiwyd ymysg y gwahangleifion; ac yr oedd gyda'r Tad Damien yn

Kalawao y Tad Conradi, a dau lëygwr, y rhai a elwid y Brawd Joseph, Americanwr, a'r Brawd James, Gwyddel.

Cymerodd Mr. Clifford gydag ef swm o *gurjun oil*, yr hwn a geir o goed ffawydd, sydd yn lliosog yn Ynysoedd Andaman, ar dueddau Burmah. Credir fod yr olew hwn yn effeithiol i feddyginiaethu y gwahanglwyf os defnyddir ef mewn pryd. Rhwbir y croen âg ef am rai oriau yn ddyddiol; ac yfir hefyd symiau bychain o hono. A chesglir fod effeithiau daionus yn dilyn y defnyddiad o hono yn Molokai. Ychydig o ffydd oedd gan y Tad Damien ynddo, ond defnyddiai ef yn gydwybodol, a derbyniodd oddiwrtho lawer o les. Yr oedd y clwyf, pa fodd bynag, wedi gafael yn rhy ddwfn yn ei gyfansoddiad; a daeth yn amlwg cyn hir nad oedd yn yr olew unrhyw effaith a allai attal terfyniad angeuol yr afiechyd. Derbyniodd Mr. Clifford, ar ol gadael yr ynys, amryw lythyrau oddiwrth y Brawd James, gydag Olysgrifau oddiwrth y Tad Damien. Rhaid i ni gael rhoddi y rhai hyn yn ei eiriau ef ei hun:—

My love and good wishes to good friend Edward. I try to make slowly my way to the Cross, and hope to be soon on top of my Golgotha.—Yours for ever,

J. DAMIEN.

Feb. 21, 1889.

O'r adeg gyntaf y cyfarfu Mr. Clifford, cyfarchai ef wrth ei enw,—Edward.

Dyma y llythyr olaf oddiwrtho:—

Kalawao, 28 February, 1889.

My dear Edward Clifford,—Your sympathising letter of the 24th gives me some relief in my rather distressed condition. I try my best to carry without much complaining and in a practical way, for my poor soul's sanctification, the long foreseen miseries of the disease, which, after all, is a providential agent to detach the heart from all earthly affection, and prompts much the desire of a Christian soul to be united—the sooner the better—with Him who is her only life.

During your long travelling road homewards, please do not forget the narrow road. We have both to walk carefully, so as to meet together at the home of our common and eternal Father. My kind regards and prayers and good wishes for all sympathising friends. *Bon voyage, mon cher ami, et au revoir au ciel. Votus tuus.*

J. DAMIEN.

Tair wythnos wedi ysgrifenu yr uchod teimlai yn sicr fod y diwedd yn agosâu; a mis i'r un diwrnod, sef Mawrth 28, bu raid iddo aros yn ei wely. Dywedai:—

You see my hands, all the wounds are healing, and the crust is becoming black. You know that is a sign of death. Look at my eyes too. I have seen so many lepers die that I cannot be mistaken. Death is not far off.

I should have liked to see the Bishop again, but *le bon Dieu* is calling me to keep Easter with Himself. God be blessed!

How good He is to have preserved me long enough to have two priests by my side at my last moments, and also to have the good Sisters of Charity at the *Leproserie*. That has been my *Nunc Dimittis*. The work of the lepers is assured, and I am no longer necessary, and so will go up yonder.

Hyfryd ydyw meddwl am dano yn nghanol ei holl hunanaberthiad yn berffaith ddiymhongar. Nid edrychai arno ei hun fel gwron na sant, ond fel pechadur colledig yn ceisio gwneyd a allai dros ei

Waredwr. Pan y gofynodd y Tad Wendolen iddo a wnai efe fel Elias adael iddo ef ei fantell, fel y gallai gael hefyd ei *galon fawr*, ei ateb oedd, "Pa beth a wnaech â hi? Y mae yn llawn gwahanglwyf."

Adfywiodd ychydig ar ol hyn; ond syrthiodd yn ol drachefn yn fuan. Yr oedd ei ddyoddefiadau ar adegau yn arteithiol, ond aeth trwyddynt oll mewn amynedd perffaith. Cyn cyrhaedd naw mlwydd a deugain oed gwelai ei fod yn marw, ond dywedai mewn tawelwch:— "Wel, ewyllys Duw a wneler, Efe a ŵyr oreu. Y mae fy ngwaith, gyda'i holl ddiffygion a'i fethiantau yn ei law Ef, a chyn y Pasc byddaf wedi cael gweled fy Ngwaredwr."

Bu farw mewn tangnefedd ar y 15fed o Ebrill, a chladdwyd ef yn nghanol dagrau ei gydlafurwyr, yn gystal a'r lliaws trueiniaid yr aberthodd ei fywyd er eu mwyn.

Dyma stori bywyd y Tad Damien, mor syml ag y gallwn ei rhoddi. Credwn mai da fyddai i filoedd Cymru,—yn Eglwyswyr ac Ymneillduwyr,—gymeryd ychydig hamdden yn nghanol cyffroadau yr amseroedd, i edrych ar fywyd a marwolaeth y gŵr duwiol hwn. Yn eithafoedd y ddaear, allan o gyrhaedd perthynasau a chyfeillion, ni a'i gwelwn yn ymaberthu er mwyn y gwahangleifion, gan roddi i fyny yn llawen bob peth yr ystyria Cristionogion yn gyffredin fod yn werth byw er ei fwyn; yn ymfoddloni i lafurio mewn unigrwydd, heb gyfaill na chydymaith ond a gaffai ymysg y trueiniaid eu hunain, nes y darfu i rym ei esiampl fod yn attyniad i eraill ymfudo ato. Pob parch i'r brodyr a'r chwïorydd sydd wedi ei ddilyn; ond parch dauddyblyg i'r gŵr a agorodd y ffordd iddynt trwy wneyd aberth o hono ei hun.

Gwaith teilwng i Etifedd Coron Prydain oedd llywyddu mewn cyfarfod i gymeryd mesurau i anrhydeddu ei goffadwriaeth, ac i ddwyn ymlaen yn Ymherodraeth eang India y gwaith a gyflawnwyd gan y Tad Damien yn y Mor Tawelog. Pob llwyddiant i'r symudiad.

EDMYGYDD.

---

# GORTHRWM.

PRYDDEST FUDDUGOL YN EISTEDDFOD ABERMAW, MAWRTH 1AF, 1889

GAN Y PARCH. D. ADAMS, B.A., BETHESDA.

I.

DIRLETHOL Orthrwm, unbenaethol deyrn,
Darlunia, Awen, yn ei falchder ffrom.
Gwreichiona 'i lygaid fellt yn ddigllawn fyllt,
A chymyl llid fyth ar ei aeliau drig.
Gewynau 'i freichiau preiffion ŷnt o ddur,
A bustl lifa 'n ffrwd drwy wythi 'i gorff.

Ymnydda seirph dialedd yn ei wallt,
Gan chwythu eu gwenwyn, a blaenllymu eu llid
Yn ngwŷn cynddaredd eu dialgar nwyd.
Penglogau ddyd yn lleithig dan ei draed,
Mynwesau tyner wna yn sedd i'w drais,
A gwaedd trueiniaid iddo—erchyll deyrn—
Sydd fiwsig anghymharol ei fwynhad.
Gefynau heiyrn, ac arteithglwydi hagr
Addurnant ystafelloedd palas hwn.
Trueni 'i ddeiliaid yw ei fwyniant ef;
Fel hunllef, lletha anadl dewrder gwlad,
Ac ofn barlysa fraich y dewraf rai.
Hyf angeu lecha fyth tu ol i'w wg;
Fel milwr daniai gyflegr yn y gad.
Ei air yn fellten red drwy fronau llu
O weision, hyblyg offerynau 'i drais,
Gan ddeifio 'n olosg bob tynerwch mwyn,
A durio 'u gwaedlin â chreulondeb hagr.
Saif Mammon greulon ar ei ddeheu law,
Gan wgu 'n sarug ar drysorgist wag,
A minio trais y Teyrn i'w llanw 'n glau.
Creulondeb didosturi sydd gledd
Yn llaw 'r trethgasglydd i'w gymhwyso i'w waith.

"Dos," ebe Gorthrwm, "tretha chwys y tlawd,
Lafuria, boena, nes y curia 'i gnawd;
Tro ffrwd melinau ei ddiwydrwydd clau
I faes fy ngloddest er ei ddyfrhau;
Degyma 'i lafur, tolla 'i win a'i ŷd,
I borthi 'm glythion segur weis o hyd.
Dos cneifia 'r defaid a borthasant hwy,
Ddiffynent fyth rhag bleiddiaid haint a chlwy;
Ond cnu y defaid dwg i'm clydu i,—
Gofalu am danaf yw eu penaf fri.
Betrusi di?"
"Teimladau tlodion gwael?
Parlysu braich diwydrwydd dyn a'i fael?
Gwaedd galonrwygol mam amddifaid cu
Yn gweled newyn gwelw ar drothwy 'i thy!"
"'D yw hyn ond pluf i nyth fy nghysur i."—
"Rhegfeydd yn torchi 'n felldith tua 'r nen,
A dagrau 'u cyni 'n lafa ar fy mhen?—
Ni 'm dawr; ni 'm dawr. Pa les yw deiliaid gwlad,
Os hwy ni wasanaethant i fwynhâd
Eu teyrn? Er teyrniaid crëwyd dyn i fyw
Ei daliad am hanfodi yw gweini i'w Lyw."

Trais gwyd y llifddor; anghyfiawnder red
Yn ddylif nes gorchuddio ffiniau deddf
A hawliau iawnder. Boddir cysur myrdd.

Ysguba 'r gorthrwm, fel poeth ruthrwynt cryf,
Gan rwth ddiwreiddio cedyrn dderw 'r fro,
A darnio tai yn ulw mân o'i flaen.
Clyw un yn cwyno, dan falurion cell
Y carchar, feiddiai aros draws ei lwybr :—

"Fy ngwlad orwedda yn ei gwaed,
Gan ffengyll Gorthrwm rhychir hi;
A gallu didosturi gaed
Yn fyddar i'w chwynfanus gri!
Gwladgarwch fflamiai yn fy mron;
Hyf nerthai 'mraich a miniai 'm cledd
I wanu holl orthrymwyr hon—
A chloddio i Orthrwm ddyfnaf fedd.

"Ond tori 'm cledd wnai Gorthrwm hyf,
A Gorthrwm rwymai 'm tafod i,
Rhag rhestru nerth cyfiawnder cryf
I ymladd ein rhyfeloedd ni:
Dan draed haiarnaidd orthrwm certh
Gorweddai 'm gwlad mewn ingawl aeth,—
Fy mamwlad hoff! A mi 'n ddinerth
Raid orwedd yn y carchar caeth!"

"Mae genfa 'i draha 'n mhen fy ngwlad,
A'i orthrwm yn yspardyn ddur,
I'w gyru i ddinystr dinacâd,
Tra 'i gwaed yn mwydo ar ei dir:
A rhaff caethiwed rhwymir ni
Wrth gerbyd gorthwm estron cas
I'w dynu *ef* i hawddfyd, bri,
Tra 'n cyflog *ni* yw dirmyg gwas.

"Fel gelod yfant waed fy ngwlad,
Neu drychfil bora arall gnawd,*
'R ol gwanu a chlwyfo—greulon gâd—
Tâl eu cynnaliaeth yw—eu gwawd.
O Dduw! carchara 'r Gorthrwm sy 'n
Caethgludo hedd a chysur gwlad;
O'i garchar gollwng iawnder fyn
Deyrnasu 'n rhyddid a mwynhad."

II.

Tir-arglwydd segur, balch, a ymfrashâ,
Mewn trais a balchder chwyddo beunydd wna.
Myn fod yn deyrn, yn orthrwm deyrn ei hun,
Yn arglwydd cyfoeth tir a chynnyrch dyn.
A hawlia 'n eiddo, nid ei anifeiliaid,
Ond cydwybodau a barn pob un o'i ddeiliaid.
Gorthryma 'i ddeiliaid,—a gorthrymir yntau
Gan swyn Helwriaeth, a chan drais ei chwantau.

* Parasite.

Y march weryra; yr helgorn ddyry gri,
A bloedd bytheuaid a'i hateba hi:
Y cwn a'r meirch garlamant yn eu bâr,
Hyf fylchant gloddiau tir y deiliaid gwâr.
'N awr dyrchir bloedd; a'r cadnaw red i'w hynt
Gan wibio yn ei flaen yn nghwmni 'r gwynt,
Tra 'r cwn a'r meirch yn dilyn fyth yn gynt.

. . . . . .

Ar hwyr y dydd y llwynog red i'r graig
Ogofawl, safa i herfeiddio 'r aig;
Ac adref blin ymlusga 'r helgwn mwy,
A Nimrod yntau yn eu dilyn hwy.

Haf at y loddest 'n awr, wrth fwrdd y wledd,
Lle myga 'r cigfwyd, llifa 'r gwin a'r medd.
Canlyna 'r ddawns; dihuna nwyd anmhur—
Moesoldeb welwa, a griddfana'r tir;
Helwriaeth a glythineb fraich yn mraich,
A'r deiliaid tlawd yn ochain dan y baich!
Ymbesga 'r helgwn uwch eu digon fyth;
Gweryra 'r meirch, ac esgyn fry eu chwyth
Fel torchau mwg yn aberth diolch llawn,—
A rhwysg a gloddest yn y palas gawn.

Tra 'r foethus wledd yn gwrido pawb trwy 'r palas,
Nesawn at annedd a'i phreswylwyr gwelwlas.
Clyw 'r ffermwr—deiliad y tir-arglwydd hwn—
Yn ocheneidio i'r nefoedd dan ei bwn:—

"Trwy oerni 'r gaua' a gwres yr haf,
Dal ati i weithio a gweithio wnaf,
Fy ngwraig a'm plant a minnau sydd
Yn codi cyn y cwyd y dydd.
Noswylia 'r haul i'r Werydd fôr
A huna yr asgellog gôr
Rai oriau cyn yr hunwn ni.
'R ol im' orphwyso, o'm hemrynt i
Poen erlid gwsg. A phan y daw,
Llawn ydyw o freuddwydiol fraw.
Mi welaf ddydd y rhent yn d'od,
Ac i'w gyfarfod gwag yw 'm cod
A gwg ar ael fy meistr tir,
Ac atafaeliad, tlodi, a chur.
Mewn anial diffaith caf fy hun,
A rhua llewod yn eu gwŷn
A'u bar, o'm hol yn ddiymdroi,
A minnau 'n ffoi, a methu ffoi.
Cadwynir fi gan aeth a braw
A fwltur i fy ngwylied ddaw.
Gan bryder llam fy nghalon wael,
Ac oer-chwys dreigla dros fy ael.

A deffro wnaf o gwsg di-hedd
I weithio er arlwyo gwledd
I'm meistr tir. Ei orthrwm mawr
Ni ad im' saib am fynyd awr.
Mae cwn fy meistr yn well eu saig
A'u cysur, na fy mhlant a'm gwraig.
Fy Nuw! ai peiriant ydyw dyn
I weithio fyth heb saib na hûn,
Er porthi gwleddoedd gloddest fall?
O Dduw, yw 'th lygaid di yn ddall
I orthrwm traws sy 'n llethu 'n gwlad?
Eu rhwymau tòr, rho in' rhyddhâd!"

III.

Gwel acw 'r blwyfol Eglwys, rwysgfawr, wag,
A'i phigdwr yn gofgolofn gorthrwm hir
Gorfodaeth crefydd wladol. Mewn gwisg wen,—
Arwyddlun iawnder a sancteiddrwydd pur,—
Uwch beddau iawnder a sancteiddrwydd gwyl,
Y person dderllyn, âg undonol lais,
Ei "Anwyl Gariadus Frodyr."
Nimrod draws
Yn fuan ddeil ei gwsg, erlidiwyd hwnt
Gan ddawns a gloddest hadl y nos o'r blaen.
Cardotwyr yno sydd â'u llygaid ar
Y torthau a'r pysgod. Ahab yno gawn
A'i fryd ar fferm rhyw Naboth dlawd gerllaw,
Gan gydio maes wrth faes trwy orthrwm blin.
Apostol iawnder Duw a hawliau dyn
Bregetha ar ufudd-dod. "Dyled pawb,"
Medd ef, "yw ufuddhau i raith a deddf.
Gwas Duw yw 'r teyrn. Cyffwrdd âg ef
Yw cyffwrdd canwyll llygad Duw ei hun.
Mae hawliau *eiddo* 'n gysegredig fyth.
A gwae y neb a godo finiog arf
Yn erbyn urddasolion gwaed, a thir!
Sarhad ar Dduw a chysegr-yspail yw
Anufuddhau i raith ei Eglwys Lân.
Traddodiad ydyw seiliau sicraf cred;
Eu derbyn a drwyddeda nef-fwynhad
Y Goron, Eiddo,—Gorsedd Duw ei Hun,
Sy 'n sylfaenedig ar Ufudd-dod. Hyn
Yw Alpha ac Omega dyled dyn."

Gwel eto law haiarnaidd deddfau 'r wlad
Yn casglu gorthrwm-ddegwm yn y plwyf,—
Yn bachu chwys a gwaed tylodion lu
I dalu am wasanaethu eiddo a gwaed;
I gynnal un ragrithia i fydol rwysg,
A wincia ar foethusrwydd halog lys,

Fendithia bob rhyfeloedd gwaedlyd, traws;
Gynffona 'n wasaidd i urddasol fri
Arglwyddi 'n tiroedd; werth gyfiawnder cryf
Er prynu ffafr a gwleddoedd Nimrod draws!

Swn morthwyl yr arwerthwr gnulia dranc
Eglwysig orthrwm crefydd yn ein gwlad.
Brefiadau 'r gwartheg blith, a'r defaid gwâr
A ddegwm-attafaelir, esgyn fry 'n
Dystiolaeth ger bron Duw yn erbyn trais
Cynnaliaeth crefydd drwy orfodol rym.
Mae dydd ein gwaredigaeth yn nesâu.
Gwirionedd Duw a dŷr efynau trais,
Saernïai Senedd gwlad am grefydd Crist.
Fel Lazarus o'i fedd, ei chodi wna,
A dryllia rwymau 'r bedd, a rhodia 'n rhydd,
Nes gwena 'r nef a'r ddaear wrth ei gwel'd.

IV.

Annelaf at orthrymwyr Negroaid Affrig fad,
Saernïent gyffion am eu traed, gaethgludent hwy o'u gwlad.
Y fflengyll rychai 'u cefnau, lle 'r hauent gnwd o boen,
Yn nentydd rhedai 'u chwys a'u gwaed, a hwythau 'n lleeg ddihoen:
Dihoenent mewn caethiwed, yn gaethion pell o'u gwlad,
Ymhell o awyr rhyddid hael, ymhell oddiwrth fwynhad.
Breuddwydient am dir Affrig, lle treulient febyd rhydd,
Yn rhydd fel ewig ysgafn-droed, di-rwymau fel y dydd.
Ond deffro i gaethiwed y planigfeydd wnaent hwy,
Ac adgof am eu rhyddid gynt a wnai ddyfnhau eu clwy'.

Ond beth yw caethder caethion Amerig oll, pe 'n un,
Yn ymyl caethder gorthrwm blys y dyn orthryma 'i hun?
Yn feistr ac yn gaethwas; yn fflangell ac yn gefn;
Yn farnwr, yn garcharor caeth, a charchar erch drachefn!
Mae 'n hollbresennol Pharo, oddiwrtho ni cheir ffoi,
Heb fôr i'w foddi yn un man, na phlaau all ei droi.
Fel sarph yn marwol frathu, heb un sarph bres gerllaw,
Heb angeu i'n gwaredu fyth o ingoedd poen a braw.
Yn fwltur yn ymborthi ar fywyd a mwynhad,
Yn fyw i boenau gorthrwm blys, a marw i ryddid mad!
Mewn bedd, a methu marw; yn farw ac eto 'n fyw;
Gefynau gorthrwm blys, nid all eu tori, ond dwrn Duw!
O Dduw tosturia wrtho, yn gaethwas blys anmhur,
Tor rwymau ei gaethiwed tyn, dwg ef i ryddid gwir.

V.

Cân eto, awen, gerdd i orthrwm cariad—
Caethgludol serch, gorthrymus swyn Angharad.

Heb 'wyllys ac heb allu, at alwad llygad mun,
Wrth denyn ei hewyllys hi, yn gaethwas serch ei hun.
"Dos rhed ar negeseuau;" a rhedeg wnaf i'm hynt
Mor hoew galon-ysgafn, mor rydd yn wir a'r gwynt.
"Tyr'd, caria faich gofalon;" a'm hysgwydd dano 'n gref,
Caf gariad i fy nerthu nes difodi 'i bwysau ef.
"Dyoddef rew-wynt gauaf i'm gwasanaethu 'n lew;"
Y gauaf wnaf yn haf-ddydd, a thodda 'm serch y rhew.
Fel Jacob tra 'n gwas'naethu am Rahel saith mlwydd gynt,
Eheda 'r blwyddi yn eu blaen yn gyflym fel y gwynt;
Anghofir pob blinderon; y lludded droa 'n hoen;
Y caethder sydd yn rhyddid cu, fel eiddo 'r pranciol oen.
O gaethder bendigedig! Hawddammor orthrwm serch!
Y rhyddid penaf ydyw bod yn gaethwas swynol ferch.

Gwel dyner fam yn gwylio wrth wely 'i phlentyn claf
A phob pesychiad a rydd ef, yn gwânu 'i chalon gaf.
Peryglus wres y dwymyn, a gwres ei serch ei hun
Fyn sychu gwaed ei chalon wan tra 'n gwylio 'i hanwyl un.
O orthrwm cydymdeimlad! Ai poenus orthrwm yw?
Na, na, perlewyg o fwynhad, rydd ef i ddyn a Duw.

Ei gariad yr Apostol i wlad estronol bell
I gyfoethogi pagan tlawd â thrysor "gwlad sydd well;"
Trysorau iachawdwriaeth, a chariad Duw at ddyn,
A dafn o'r cariad Dwyfol yw ei gariad ef ei hun.
Ond dig ac erledigaeth yn daliad yw ei ran
A'i daflu i garchar tywyll, oer, wna 'r pagan yn y man.
Ond gorthrwm mwyn ei gariad, dyr farau heiyrn ei gell,
A'i wên dry 'r carchar tywyll oer yn rhyddid "gwlad sydd well."

VI.

A gilia stormydd gorthrwm, ddiffoddir bolltau trais?
Ddeil cymyl llid uwch ben ein byd i wgu yn barhaus?
A ddryllir mo 'r gefynau i'w toddi 'n didau serch?
Ddaw iawnder i deyrnasu 'n gry', yn lle creulondeb erch?
Pan na orthryma Judah, o gyfoeth neu o waed,
Ac Ephraim dlawd ni bydd yn wawd i orthrwm dan ei draed?

Daw, gwlawia 'r nef gyfiawnder a heddwch ar ein byd,
A chariad Duw rwym ddynol-ryw, mewn undeb serch ynghyd.
Fe berchir hawliau *dynion;* nid cyfoeth fyth, ond moes:
Lladd gorthrwm dyn a'i greulon wŷn wna Cariad Angau 'r Groes.
Ein barnwyr fyddant gyfiawn, a'n trethwyr garant hedd,
Gorseddir iawnder, cariad llawn; i orthrwm cloddir bedd.
A dyn ddaw 'n ddyrchafedig; a dwrn cyfiawnder hyf
Barlysa drais pob teyrn sarhaus. Hwn wneir gan Ddüw yn gryf!

'R arwyddair fydd, "Daioni y llïaws ac nid un;"
A'r *un* fanteisia yn mhob man ar lwyddiant ei gyd-ddyn.
Ymdodda 'r un i'r llïaws, a'r llïaws nertha 'r un;
Gogoniant Duw gais dynol-ryw, a hawliau dyn fel dyn.

## "Y PARCH. R. THOMAS, BEAUMARIS"

SYR,—Gan fod genyf yn fy meddiant gyfrol o bregethau y gŵr uchod yr ymofynwch am dano yn y TRAETHODYDD diweddaf, myfi a chwiliais yn ddyfal yn ein Geiriaduron Bywgraffyddol a llyfrau eraill, am ryw gofnod am dano, ac am ei Weithiau Llenyddol; ond nid oes air am dano yn *Williams's Eminent Welshmen*, *Enwogion Cymru* Foulkes, nac yn *Cymru* y Parch. O. Jones; nid oes dim son am ei enw yn *Enwogion Môn, henafol a diweddar*, gan Gwalchmai. Y mae yn rhaid gan hyny, gallai un feddwl, nad oedd yn "enwog," ac mai ebargofiant yw y lle priodol i'w enw fod ynddo mwy, heb goffadwriaeth am dano nac am ei waith, fel llawer gweinidog arall. Ond y mae y diweddar Barch. W. Rowlands (*Gwilym Lleyn*), a wnaeth gymaint er goleuo y Cymry am enwogion anghofiedig, wedi rhoddi, mewn modd cryno, yr hyn y gallai fod o ddyddordeb i chwi a'ch darllenwyr ei weled. Dyma fo at eich gwasanaeth:—

Y Parch. Richard Thomas ydoedd fab i'r Parch. Ellis Thomas, Person Llanllyfni, Arfon, a Jane ei wraig, yr hon oedd ferch William Parry, o'r Monachdy, Clynnog, ac wyres i Ellis Evans, o'r Bribwll, yn Sir Feirionydd, a Jane ei wraig, yr hon oedd chwaer i'r ddiweddar Elen Glynn, Elernion, Llanaelhaiarn, sylfaenyddes Elusendai Llandwrog. Efe a anwyd Hydref 13, 1758. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Ramadegol Bottwnog, a chafodd ei godi oddiyno i Rydychain, fel y dengys y dyfyniad canlynol o goflyfr Coleg Oriel, 1776, Rhag. 17:—"Ric. Thomas, 18, Ellis fil. de Bottwnog. Carnarv. Cler. Fil." Efe a raddiwyd yno, fel y dengys y dyfyniad canlynol o Lyfrau Graddogion Rhydychain (arg. 1851):—"Thomas (Rich.) B.A. May 25, 1780; M.A. 22. 1783." Cafodd ei ordeinio yn ddiacon gan John Warren, Esgob Bangor, ar Sul y 3ydd o Fedi, 1781, ac yn offeiriad, gan yr un esgob ar Sul y 21fed o Fedi, yn 1783, a'i benodi yn Ben-Athraw Ysgol Biwmares, ac hefyd yn weinidog Llanfaes a Phenmon, ar y 12fed o Dachwedd, 1783. Efe a briododd Elizabeth Owen, o Benhesgin, Môn, Chwefror 14, 1791. Ar y 1af o Chwefror, 1830, cafodd ei ddyrchafu i bersoniaeth Llanfair Fechan. Pan oedd yno efe a adeiladodd ar ei drarul ei hun bump o annedd-dai i dlodion, ond ar dir mewn dadl am ei berchenogaeth, pa un ai cyttir ai tir yn perthynu i ystad Baron Hill ydoedd; ond ar y dybiaeth mai yr olaf ydoedd, gofynwyd a chafwyd rhyw fath o ganiatâd, er na wnaed erioed drosglwyddiad o honynt. Y mae y llywodraeth drostynt wedi syrthio i ddwylaw arolygwyr y tlodion a'r wardeiniaid. Ni bu erioed waddoliaeth yn perthyn iddynt. Adeiladodd hefyd ysgoldy ger y Persondy, lle y cadwai athrawes i ddysgu merched, a'r cwbl ar ei draul ei hun. Yr oedd yn rhoddi ymaith i'r tlodion 100p. at eu gilydd yn flynyddol. Y gorchwyl diweddaf a wnaeth oedd rhoddi 20p. i'r Gymdeithas er Lledaenu yr Efengyl mewn Parthau Tramor. Bu farw Medi 5, 1834, yn 76 oed, a chladdwyd ef yn Llanfair Fechan.—*Llyfryddiaeth y Cymry*, tu dal. 729.

Mewn nodyn ar waelod y ddalen amlygir fod yr uchod wedi ei dderbyn ganddo yn "Llythyrau y Parchn. J. Evans, Llanllechid; Deon Vincent, Bangor; a T. James, Netherthong, Huddersfield."

Cyhoeddodd y Parch. R. Thomas gyfrol o Bregethau, heb amseriad ar y wyneb-ddalen, ond y mae dyddiad ei gyfarchiad at y darllenydd yn "Beaumaris, Dec. 4, 1790." Y mae Rowlands yn amryfus yn ei gosod yn 1800. Y mae y gyfrol hon ger ein bron, y wyneb-ddalen fel hyn:—

Pregethau ar amryw Destunau buddiol; gan y Parchedig R. Thomas, A.M. Caerlleon: Printiedig gan I. Fletcher, er Budd i I. Pool ac I. Fletcher.

Y mae y Llyfr yn cael ei gyflwyno i "John, Esgob Bangor." Yn ei *Advertisement to the Reader*, dywed:—

The writer of the following Sermons lays no claim to originality. He is indebted for the greatest part of the matter contained in them to some eminent Divines of the Church of England, from whose works he has borrowed, without scruple, whatever suited his purpose. His design was to furnish Welsh readers with a few practical and useful sermons, written in a plain easy style, adapted to every capacity. How far he has succeeded, must be left to the public at large to determine.

Yn canlyn y mae "At y Darllenydd" yn Gymraeg:—

Mae y rhan fwyaf o sylwedd y Pregethau canlynol wedi ei gymeryd allan o lyfrau gwŷr dysgedig o Eglwys Loegr, i ba rai yr wyf fi yn cydnabod fy rhwymedigaeth. Ond beth yw hyny i ti? Gwna di yn ol y cyngor, ac yna nis gwaeth i ti o ba le y daeth, pa un ai oddi wrthyfi, ai oddi wrth arall. A Duw a roddo i ti râs i ddarllain yn ystyriol, ac i wneuthur deunydd o'r hyn a ddarllennych. Dalier sylw. Yn y pregethau canlynol mae y llythyrenau hyn, h. y., yn sefyll yn lle, hyny ydyw.

Y mae yn cynnwys 25 o bregethau, ac yn 230 o du dalenau 8plyg. Y mae Mr. Rowlands, wrth son am y gyfrol hon, yn ychwanegu:—

Yn 1809, daeth allan "Yr Ail Lyfr," yn cynnwys 30 o Bregethau, gan yr un awdwr, wedi ei argraffu yn Ngwrecsam, a'i gyflwyno "To Sir Robt. Vaughan, Bt., M.P." Ceir hefyd restr o "Subscribers' Names." Yn 1822, daeth allan "Y Trydydd Llyfr," yn cynnwys 45 o Bregethau, gan yr un awdwr, a'i argraffu yn Llanerch y Medd.

Ni wneir un sylw ganddo am y "Casgliad o Hymnau, neu Salmau" y cyfeirir ato, ac nid wyf wedi ei weled, nac wedi gweled yr un o'r llyfrau eraill o bregethau.

Gellir dyweyd wrth ystyried yr uchod fod Mr. Thomas yn teilyngu congl ymhlith yr "Enwogion" cystal o leiaf ag y mae un arall ag sydd ymron yn gyfenw âg ef, y dywedir am dano, "Ennillodd wobr ar Englyn i'r —— yn Eisteddfod ——, ac ar y —— yn Eisteddfod ——." Y mae yn syn genyf na buasai Gwalchmai yn gwybod am dano. Gwir mai yn Arfon y ganwyd ef, ac yn y diwedd y bu farw. Ond yn Môn y treuliodd fwyaf o'i oes. Mae yn syn na chawsid mwy o'i hanes, gan mai mor ddiweddar â 1834 y bu farw.

Nid af i feirniadu y pregethau yn y gyfrol gyntaf, gan mai beirniadu "*eminent Divines*" Eglwys Loegr fyddai hyny. Ymddengys mai nid i'w cyhoeddi y bwriadwyd hwy gyntaf, ond iddynt gael eu pregethu i'w blwyfolion. Ni wnaeth ef yn hyn ond yr hyn a wnaeth Ieuan Brydydd Hir o'i flaen, pan oedd yn gurad yn Nhowyn Meirionydd, yr hwn yn y "Cyflwyniad" o'i Bregethau (a gyhoeddwyd yn 1776) i Syr Watkin, a ddywed:—"The following collection of Sermons was

selected to be published from among many others, which I translated for my own use, during the course of my ministry." Ac y mae yn dyweyd yn onest ar y wyneb-ddalen fod y pregethau "wedi eu cyfieithu o waith yr awduron gorau yn Saesoneg." Y mae yn debyg hefyd mai nid y curad a'r periglor hyn yw y rhai diweddaf a wnaethant yn gyffelyb. Chwarddais yn galonog wrth weled y geiriau "hyny ydyw" yn llawn yn y pregethau, er yr hysbysiad pwysig yn y Rhagymadrodd fod "h. y." yn sefyll yn eu lle.

Am yr Emyn, ymddengys mai cyfieithiad i'r Gymraeg gan ryw law fedrus o aralleiriad C. Wesley, ydyw, a welir yn yr Attodiad i Lyfr Salmau Saesoneg y Wesleyaid. Dywedir (yn 1830) fod yr Attodiad wedi ei gymeryd yn benaf o weithiau eraill Wesley, argraffedig neu ysgrifenedig. Tybiaf mai yn nghasgliadau y Wesleyaid y ceir hwy gyntaf yn Gymraeg. Gwelir y pedwar pennill cyntaf yn *Dyferion y Cysegr* (1807), a'r oll yn Nghasgliad y Wesleyaid (7fed argraffiad, 1826), ond gyda'r gwahaniaeth canlynol:—Llinell 2, "A gloywlas;" 11, "Adrodd y mae;" 19, "Beth er na chlywn na gair nac iaith;" 23, "yn canu byth â dilyth dôn." Ceir hwynt yn Nghasgliad y Parch. R. Phillips, Ficer Bettws Abergele (1855 a 1859), gyda pheth cyfnewidiad. Yn y Llyfr Hymnau Wesleyaidd diweddaraf (o leiaf yn y 4ydd argraffiad diwygiedig, 1857) y mae y cyfieithiad yn newydd, ac yn y Mesur Hir, ac nid Mesur Salm, ac i'm tyb i y mae y cyfieithiad hwn yn llawer gwanach na'r cyntaf (gwel hymn 30, a gadewir y 5ed pennill allan). Hwyrach y gŵyr rhywun o'ch darllenwyr pwy a'i cyfieithodd gyntaf.

LLENOR.*

---

# CARNHUANAWC.

MAE bellach dros ddeugain mlynedd wedi myned heibio er pan y mae y Parch. Thomas Price, neu Carnhuanawc, yn ei fedd. Gellir dywedyd am ei gyfoedion: "A'r oes hono hefyd a gasglwyd at eu tadau." Ychydig o'r oes hon sydd yn gwybod ond nesaf peth i ddim am dano, ac y mae nifer y rhai sydd yn ei gofio yn llai fyth. Dywedai cyfaill wrthym y dydd o'r blaen nad oedd Carnhuanawc wedi cael ei le priodol ar lechres llenorion Cymreig, ac fe allai fod hyny yn wir i raddau. Dichon mai gorchwyl pur anhawdd yw rhoddi darluniad cywir a chyflawn o ddyn fel Carnhuanawc. Gwaith anhawdd iawn, meddai y seryddwyr, yw desgrifio ambell i seren, am ei bod yn ymgolli yn y goleuni

* Wedi i'r uchod fyned i ddwylaw yr Argraffydd, cawsom nodiad cyffelyb oddiwrth Mr. Edwin P. Jones, Eirianfa, Abergele.

y mae hi ei hun yn ei greu. Wedi goleuo canwyll yr ydym yn sylwi ar y ganwyll yn nghanol ei goleuni, ac nid oes dim yn fwy eglur na'r ganwyll ei hun; hyny yw, nid oes perygl i ni golli y ganwyll yn ei goleuni. Mae y ser yn rhoddi bron ddigon o oleuni i ddangos eu hunain, ond nid ydynt yn gyru y nos ymaith, ac felly nid oes dim yn fwy amlwg na'r ser eu hunain; a gellir dywedyd yr un fath am y lleuad, hyd yn nod pan yn taflu llif o oleuni dros y wlad. Ond pan mae yr haul yn codi, mae yn dwyn y dydd gydag ef, ac yn dadguddio miloedd o wrthddrychau. Ac yr ydym yn defnyddio ei oleuni i edrych ar y gwrthddrychau y mae yn eu dangos, ac nid i edrych i fyny ato ei hun. Fel hyn, i gryn fesur, y tybiwn y mae wedi bod gyda golwg ar Carnhuanawc, yr hanesydd Cymreig mwyaf a welodd y ganrif hon. Yr ydym yn ei golli, i raddau helaeth, yn y goleuni y mae efe ei hun wedi wasgaru. Taflodd gymaint o oleuni ar gynifer o faterion Cymreig, fel yr ydym, yn ystod y deugain mlynedd diweddaf, yn cael ein temtio i ddefnyddio y goleuni a wasgarodd i edrych ar yr hyn a ddadguddiwyd, yn hytrach nag arno ef ei hun. Mewn gair, yr ydym yn colli Carnhuanawc yn ei oleuni ei hun. Mae nifer mawr o ddynion llai na Carnhuanawc wedi codi yn Nghymru ar ei ol, ac wedi cael sylw mwy,—dynion na lwyddasant i wasgar ond digon o oleuni i ddangos eu hunain.

Byddai hanes Carnhuanawc, a'i roddi yn fanwl, yn hanes Cymru am y blynyddoedd y bu yn blodeuo. Nid oedd na sefydliad na mudiad ag oedd â'i amcan i leoli ei genedl, ac i hyrwyddo llenyddiaeth Gymreig, nad oedd ef â bys ynddo.

Ganwyd Carnhuanawc, yn ol un awdurdod, yn mhlwyf Llanfihangel Bryn Puan, neu yn briodol Llanfihangel Bryn Pab Ioan; yn ol awdurdod arall, yn Llanafan Fawr, yn agos i Lanfairmuallt, yn y flwyddyn 1787. Mae yn dygwydd yn aml, pan y bydd niwl o gwmpas lle genedigol dyn mawr, fod amryw o leoedd yn ymryson â'u gilydd am yr anrhydedd o roddi genedigaeth iddo, fel yr oedd saith o ddinasoedd yn hawlio Homer y bardd Groegaidd. Mae y ddau blwyf bychan a enwasom yn hawlio awdwr *Hanes Cymru*. Diau mai Llanafan Fawr sydd â'r hawl flaenaf i Carnhuanawc. Er fod y Parch. Rice Price, ei dad, yn offeiriad plwyfydd Llanfihangel a Llanganten pan anwyd ei fab Thomas, er hyny yn mhlwyf Llanafan Fawr yr oedd yn byw, mewn amaethdŷ bychan o'r enw Pencae'r Elyn, preswylfod ei dad yn nghyfraith, Mr. Evan Bowen, gŵr o dylwyth da. Yn y flwyddyn 1792, cafodd y Parch. Rice Price guradaeth barhaol Llanlleonfel, plwyf cyfagos. O fewn y plwyf hwn mae y Garth, lle y cafodd Charles Wesley wraig, ac yn Eglwys Llanlleonfel y cysylltwyd yr emynydd enwog mewn glân briodas â Miss Wynne, gan ei frawd mwy enwog, y Parch. John Wesley. Gan mai yn y flwyddyn 1794 y cymerodd y briodas hon le, mae yn bur debyg fod tad Carnhuanawc, offeiriad y plwyf ar y pryd, yn bresennol ar yr amgylchiad. Yr oedd yr hen dŷ lle ganwyd Carnhuanawc yn gorwedd mewn man tawel a neillduedig, ond mae y golygfeydd o'i amgylch yn anarferol o swynol. Ar y dde y mae mynyddoedd Eppynt yn y pellder, ar ffurf hanner lleuad. O du y Gogledd y mae mynyddoedd Alpaidd yn cau y dyffryn islaw allan o "dwrf a swn gofidiau'r byd." Yma, mae y llygad yn disgyn ar feusydd

gleision a melynion bob yn ail, yn cael eu hymylu gan goedydd prydferth. Acw, mae creigiau noethion, rhaiadrau gwylltion, a nentydd hanner cynddeiriog. Mae yr holl gymydogaeth yn fynyddig, a'r ddaear ymhell o fod yn fras; eto mae swyn rhyfedd yn perthyn i'r gymydogaeth hon, fel i holl wlad Buallt. Mae pawb sydd yn adnabod Brycheiniog yn addef, er mai gwlad rhwng y mynyddoedd ydyw, mai dyma y dernyn mwyaf clasurol o hen wlad Brychan.

Aethom y dydd o'r blaen i edrych am yr hen annedd lle gwelodd Carnhuanawc oleuni y dydd gyntaf, ac er ein siomedigaeth ddirfawr, hysbyswyd ni fod yr hen dŷ wedi llosgi i lawr yn y flwyddyn 1852.

Y mae plwyf genedigol Carnhuanawc, ac yn wir yr holl blwyfydd cylchynol, yn llawn o draddodiadau, ac olion henafiaethau Cymreig. Mae yn anhawdd meddwl am gymydogaeth sydd yn meddu ar gymaint o ddyddordeb i'r hanesydd, yr henafiaethydd, a'r bardd, â'r gymydogaeth o gwmpas Llanafan Fawr. Y mae yn gyfryw gymydogaeth ag y dysgwylid i ddyn o fath Carnhuanawc gael ei godi ynddi. Y mae y plwyfydd oedd o dan ofal ei dad, yn gyfoethog braidd ymhob peth oedd â swyn i hanesydd a henafiaethydd ieuanc. Ceid ynddi ryw daliadau dyeithrol yn cael eu hawlio i'r Arglwydd faenor, o dan yr enwau "Tal-di-estyn," "Y Cymmortha," "Y Fuwch Larder," "Porthiant Herwyr," "Y Maccwyn," a'r "Mabryddiaeth," &c. Yr oedd Llanafan Fawr, lle ganwyd Carnhuanawc, yn llawn o draddodiadau. Yr oedd Sant Afan, i ba un y cysegrwyd yr Eglwys, yn gefnder i Sant Dewi, ac y mae Giraldus yn rhoddi hanes gwyrth ryfedd a gymerodd le yn yr eglwys hon, ar adeg o halogiad yn amser Harri I. Daeth un o arglwyddi Maesyfed i'r gymydogaeth i hela. Un prydnawn trodd ei gwn i'r Eglwys pan oedd amser hela drosodd, ac aeth ef i mewn gyda hwy, a chysgasant yno dros y nos. Yn blygeiniol iawn pan ddeffrodd yr heliwr, yr oedd y cwn wedi myned yn gynddeiriog, ac yntau yn ddall. Yn y cyflwr yma y bu am lawer o flynyddoedd. Aeth ar bererindod i Jerusalem, ac adferwyd ei olygon. Wedi hyny aeth i'r rhyfeloedd sanctaidd, ac yno y terfynodd ei fywyd yn anrhydeddus wrth amddiffyn y ffydd Gristionogol. Nid yw hon ond un o'r lliaws traddodiadau oedd yn y gymydogaeth pan oedd Carnhuanawc yn ieuanc. Yn ymyl hen gartref Price, mae gweddillion hen lys Elystan Glodrudd, mab Cuhelyn ab Iardur, tywysog y wlad rhwng yr Hafren a'r Wy, yn y ddegfed ganrif; hefyd Cwm Llewelyn, lle syrthiodd ein "Llyw olaf," a'r ysmotyn lle y dywedir fod ei lwch yn gorwedd. Mae braidd yn syn genym na fuasai rhagor o ddynion ymchwilgar fel Carnhuanawc wedi cyfodi mewn gwlad mor gyfoethog mewn pethau a berthynent i'r "amser gynt."

Yr oedd y wlad yn llawn hefyd o draddodiadau diweddarach ac o ddosbarth gwahanol i'r un ydym wedi ei roddi eisoes. Dywed Carnhuanawc ei hun ei fod yn cofio, pan yn ieuanc, gwrando ar hen ewythr iddo yn adrodd hanesion dyddorol y dyddiau gynt. Yr hen ewythr hwn oedd Evan Bowen, gŵr oedranus a anwyd yn y flwyddyn 1714, ac wedi ymddyddan âg amryw oedd yn byw yn amser Cromwell. Dywedai yr ewythr, ymhlith pethau eraill, pan y taflwyd offeiriad plwyf Llanfihangel allan o'i fywoliaeth, yn amser y chwyldroad Eglwysig, iddo gilio i fwthyn gwael o dan y mynydd, ac mai tynu

*betting** ydoedd pan ddaeth cenad i'w hysbysu fod Charles II. wedi d'od yn ol i'r orsedd, a bod y ffordd yn rhydd iddo ddychwelyd i'w fywoliaeth. "Un peth tra nodedig yr haerai yr hen wr," meddai Carnhuanawc, "gyda llawer o ddifrifoldeb, megys un wedi ei dderbyn oddiwrth dystion cywir, sef, i frain yr Eglwys oll, ar ymadawiad yr offeiriad, ymadael â'r Eglwys, a chanlyn yr offeiriad i'w dŷ, a nythu yno." Adroddai yr un hen ewythr i fyntai o wŷr meirch Cromwell ddyfod i Fwlch-y-Garth, annedd ei dadcu, ac i'r meirch gael eu troi i'r ysgubor i ben yr ŷd, tra y byddai y milwyr yn ysbeilio y tŷ. Cynhyrfodd hyn ferch o forwyn oedd yno, a chymerodd gawell o wenyn, a thaflodd ef i blith y meirch yn yr ysgubor. Wrth gael eu brathu gan y gwenyn, aeth y meirch yn gynddeiriog wyllt, a ffwrdd â hwy nerth eu traed, a'u perchenogion ar eu hol, ac ni ddychwelasant mwy. Ni fuasem yn ymdroi gyda hyn oni b'ai ein bod am ddangos mewn pa fath awyrgylch y dygwyd Carnhuanawc i fyny. Yr oedd ei feddwl wedi ei drwytho, er yn fachgen, â thraddodiadau a hanesion lleol y gymydogaeth. Y plentyn hwn oedd tad y dyn a gysegrodd, mewn blynyddoedd dyfodol, ei amser a'i gyfoeth i chwilio i henafiaethau ei wlad a'i genedl.

Pan oedd Thomas yn wyth mlwydd oed, ac yn llawn nwyfiant ac uchelgais, y mae yn cychwyn i'r ysgol gyda ei frawd hynaf, i bentref bychan yn y gymydogaeth. Cyn ei fod braidd yn alluog i ddarllen, mae yn dangos chwaeth neillduol at rifyddiaeth, onglau, a cherddoriaeth, ac yn enwedig at y delyn. Cyn ei fod yn ddeuddeg oed y mae yn gwneyd ymgais, a hwnw heb fod yn un aflwyddiannus iawn, i wneuthur offeryn cerdd tebyg i'r delyn Gymreig.

Pan oedd Thomas yn dair ar ddeg oed, symudodd ei dad i fyw i dref Llanfairmuallt, a danfonwyd y bachgen ieuanc i ysgol glasurol, a gedwid gan y Parch. Thomas Morgan, Curad y plwyf. Wedi bod yno am bum' mlynedd, symudwyd ef i hen Ysgol Ramadegol Aberhonddu, lle yr arosodd am chwe' blynedd. Y Parch. Mr. Barker oedd y pryd hwnw wrth ben y sefydliad. Buasai Thomas yn aros yn hwy yn Aberhonddu oni buasai am farwolaeth ei dad, ac yn wir yr oedd yn angenrheidiol i'r rhai hyny oedd yn meddwl am urddau Eglwysig, aros yn yr ysgol am saith mlynedd cyn y buasai Dr. Burgess, Esgob Tyddewi ar y pryd, yn caniatâu urddau iddynt. Ni buasai Price yn cael ei ordeinio ar ben chwe' blynedd, oni b'ai i'r Esgob gael allan, trwy ei brofi, ei fod yn ysgolhaig mor rhagorol.

Yr un flwyddyn ag yr aeth Thomas Price i ysgol Aberhonddu yr ymladdwyd brwydr Trafalgar, a throdd y fuddugoliaeth a ennillwyd yn fantais uniongyrchol i Price ieuanc. Yn fuan wedi hyny daeth amryw o swyddogion Llynges Ffrainc i fyw i Aberhonddu fel carcharorion rhyfel, ac yr oeddynt yn ddynion o ddysg a moes. Mynychai y rhai hyn dŷ Theophilus Jones, hanesydd Brycheiniog, a byddai Thomas Price yno yn aml yn cynnorthwyo Jones gyda dwyn allan yr ail gyfrol o'r hanes. Daeth y Ffrancod yn fuan yn hoff o'r gŵr ieuanc, ar gyfrif ei wybodaeth a'i ymddygiad boneddigaidd, a daeth yntau yn hoff o

* Gair a arferir yn rhai o Siroedd y Deheudir am dynu gwyneb y tir yn dywyrch teneu a'u llosgi yn lludw er achlesu y ddaear.

honynt hwythau; ymwelai â hwynt yn aml, a thrwy gymdeithas fynych â hwynt, rhoddwyd rhyw fath o orpheniad i'w addysg, a daeth i siarad Ffrancaeg yn rhwydd. Mynychai dŷ hen delynwr o'r enw Watkins, a daeth yn chwareuwr gwych ar y delyn; a dywed ef ei hun mai y dôn gyntaf a ddysgodd ar y delyn oedd "Pys a menin."

Yn y flwyddyn 1808 daeth Thomas Price i gysylltiad âg Arglwyddes Hester Stanhope, nith i William Pitt, y gwleidyddwr enwog. Creadures bur hynod ydoedd Arglwyddes Hester, ond yr oedd yn foneddiges o ddiwylliad mawr. Cymerodd dŷ yn ymyl Llanfairmuallt, ac yno y bu yn byw, mewn rhwysg a gwychder, am rai blynyddoedd. Nid oedd neb yn fwy yn ei ffafr na Thomas Price; yr oedd croesaw iddo bob amser i ddyfod i'w thŷ. Bu unwaith ar daith yn ei chwmpeini yn Aberystwyth, ac oddiyno i Dregaron, ac yn ol dros y mynyddoedd i Lanwrtyd. Diau i ddyfodiad Price i gydnabyddiaeth â nith William Pitt fod yn foddion i eangu ei syniadau am y byd, ac hefyd fod o lawer o gynnorthwy iddo i ddiwyllio ei feddwl mewn blynyddoedd dyfodol.

Pan yr oedd Carnhuanawc yn yr ysgol yn Aberhonddu, o 1805 hyd 1811, yr oedd Theophilus Jones yn brysur gyda chasglu defnyddiau gogyfer â dwyn allan yr ail gyfrol o *Hanes Brycheiniog*. Cafodd lawer o gynnorthwy gan Rice Price, tad Carnhuanawc; ond cafodd gynnorthwy neillduol gan y mab. Yr oedd Thomas yn treulio llawer o'i amser yn nhŷ Jones, ac nid oedd dim yn fwy cydweddol â'i chwaeth nag edrych dros bapyrau hanesydd Brycheiniog. Yr oedd yn Price chwaeth neillduol at arlunio, a bu ei bwyntel yn bur ddiwyd mewn darpar darluniau ar gyfer y gwaith ardderchog oedd o dan law Jones ar y pryd. Gwaith Carnhuanawc ydyw bron yr oll o'r darluniau sydd yn egluro yr ail gyfrol o *Hanes Brycheiniog*. Efe hefyd, yn benaf, a drefnodd yr achau a'r croniclau sydd yn y gwaith. Mae yn ammheus a fuasai Theophilus Jones, yr hwn oedd yn wael iawn ar y pryd, yn troi allan waith mor gyflawn a gorphenedig ag ydyw *Hanes Brycheiniog* oni b'ai am y cynnorthwy a dderbyniodd oddiwrth Carnhuanawc, er nad oedd y pryd hwnw ond un ar hugain oed.

Er i Price gael ei lyncu i fyny i raddau mawr gan y gelfyddyd o arlunio, ac er cymaint ei duedd at henafiaethau, eto ni oerodd ei serch at y delyn Gymreig. Yr oedd bob amser yn cysylltu telyn ei wlad â cherddoriaeth gysegredig yr hen eglwys Brydeinig. Yr oedd seiniau y delyn yn gysegredig ganddo, ac ystyriai ei cherddoriaeth yn foddion diwylliad a dyrchafiad. Gellid meddwl oddiwrth yr hyn y mae ef ei hun yn ddywedyd, yn un o'i adgofion o'r dawns a'r delyn, ei fod yn teimlo yn alarus wrth edrych yn ol ar y chwyldroad yr oedd y diwygiad Methodistaidd wedi ei ddwyn oddiamgylch yn y cyfeiriad yma. "Dygodd cyfodiad y Methodistiaid," meddai, "gyfnewidiad mawr gyda golwg ar arferiadau y bobl. Edrychid ar y delyn a'r dawns fel arferiad lygredig. Dywedodd fy nhad ei fod yn cofio hen ŵr yn Llangammarch neu Abergwesin, yr hwn oedd yn arfer chwareu y delyn, ond ymunodd â'r Methodistiaid, ac yna taflodd y delyn i fyny; bwriodd hi o dan y gwely, ac yno y bu nes iddi ymddatod a chael ei bwyta gan y gwyfyn, a chwympo yn ddarnau oddiwrth ei gilydd. Oddeutu y flwyddyn 1800, yr wyf yn cofio hen Ddaniel y telynwr yn chwareu wrth ffynnonau Llanwrtyd; telyn un-res oedd

ganddo; yr oedd yn chwareu i'r dawns; clywais ef yn chwareu amryw o Alawon Cymreig, ac yn eu plith, 'Ar hyd y nos.'" Yr oedd Carnhuanawc yn hoff o bob math o offer cerdd, ond yr oedd braidd yn addoli y delyn. Yr oedd iddo ef

**Iaith enaid ar ei thannau.**

Bu farw ei dad yn y flwyddyn 1810, ddwy flynedd o flaen Theophilus Jones; ac y mae Thomas yn awr yn gorfod gadael Aberhonddu, a gwynebu y byd ei hunan. Mae ei fam yn hollol analluog i roddi dim cynnorthwy iddo fyned ymlaen ymhellach gydag addysg golegawl, ac yn wir oni buasai i'w brawd, sef y Parch. William Bowen, yr hwn oedd yn offeiriad yn Lloegr, farw yn fuan ar ol ei gŵr, buasai gweddw y Parch. Rice Price yn ddigon tlawd. Dywedir na dderbyniodd ei phriod erioed fwy o gyflog na hanner can' punt y flwyddyn.

Yn Mawrth, 1811, derbyniodd Thomas Price urddau Eglwysig, gan Dr. Burgess, esgob Tŷ Ddewi, yn Nghaerfyrddin, a chafodd drwydded yr un dydd i wasanaethu curadiaeth Llanir, ger Llandrindod, a Llanfihangel Helygen, yn Swydd Faesyfed. Tra y bu yn gwasanaethu y ddau blwyf hyn, trigai gyda'i fam yn Llanfairmuallt, a cherddai dros fryniau noethion i gyflawni dyledswyddau ei swydd. Yr oedd yn gerddwr di-ail drwy ei oes, ac ni welid ef nemawr byth ar anifail nac mewn cerbyd, oddieithr pan y byddai Arglwyddes Llanofer yn danfon ei cherbyd am dano wedi iddo symud i gantref Crughywel, yr hyn a fyddai yn aml.

Nid oes genym ond un peth i ddywedyd am dano pan yn gurad yn Swydd Faesyfed. Yr oedd Eglwys Llanfihangel mewn ystad adfeiliedig pan aeth yno. Teimlodd ei bod yn ddyledswydd arno i gyflwyno adroddiad manwl o sefyllfa yr adeilad i gofrestrydd yr esgobaeth, sef ei hen gyfaill Theophilus Jones. Ni wnaeth Jones yr un sylw o'r mater. Ymhen chwe' mis mae yn galw sylw y Cofrestrydd eilwaith at yr un mater, gan roddi ar ben yr adroddiad ddarlun o'r hen Eglwys adfeiliedig, gyda llidiard y fynwent oddiar y bachau, yn gorwedd ar y llawr yn ddarnau, a buwch y clochydd yn y weithred o fwyta rhaff cloch yr Eglwys, a'r hen fuwch yn ymddangos fel wedi mwy na hanner newynu; wrth dalcen yr Eglwys yr oedd y ddau warcheidwaid eglwysig, â'u breichiau yn estynedig yn dal i fyny yr adeilad. Chwarddodd Theophilus Jones yn iachus pan ddaeth yr adroddiad i'w law, a bu hyn yn foddion i'r hen Eglwys gael ei hadnewyddu.

Bron gyda bod Thomas Price yn derbyn urddau cyflawn, mae yn gadael Cantref Buallt am gymydogaeth Crughywel, ar ddymuniad yr henafieithydd dysgedig, Archddiacon Payne. Mae, yn y flwyddyn 1813, yn ymgymeryd â churadiaeth Llanbedr-Ystrad-yw, Llangenau, a Phartrishow. Mae wedi gosod ei draed i lawr eto mewn gwlad sydd yn llawn o henafiaethau. Yma y mae ceryg cerfiedig, cylchau Derwyddol, meini hirion, cestyll, ac wmbreth o weddillion Rhufeinig. Mae pob darn o'r ddaear y mae yn rhodio arni yn rhoddi ysbrydiaeth newydd iddo, ac yn awchlymu ei chwaeth at ei hoff waith. Yma mae yn dyfod i gysylltiad âg Archddiacon Payne, yr hwn oedd yn meddu y llyfrgell oreu yn Sir Frycheiniog, ac un oedd wedi rhoddi cynnorthwy

mawr i Theophilus Jones; a chan gofio i Archddiacon Payne y cyflwynodd Jones *Hanes Brycheiniog.*

Ymhen tair blynedd eto, mae Price yn cael ei benodi gan Arglwydd William Somerset yn gurad Llanelly a Llangattwg, yn yr un rhan o'r wlad. Yn y flwyddyn 1819 gwnaeth ddarpariadau i fyned allan i India Orllewinol, gan ei fod wedi derbyn bywoliaeth gwerth £400 y flwyddyn, fel y tybiai ef. Ond pan oedd ar gychwyn allan, daeth i ddeall nad oedd y fywoliaeth yn werth hanner y swm hyn ar ol tynu pob taliadau allan, ac ar hyny rhoddodd i fyny bob meddwl am ymadael â gwlad ei enedigaeth.

Yn y flwyddyn 1825 cafodd fywoliaeth Cwmdu gan yr Arglwydd William, ond nid oedd Price i gael dim ond y degwm mân. Dyma yr unig ddyrchafiad a gafodd Carnhuanawc yn yr Eglwys. Ni fu erioed yn derbyn mwy na rhyw ddau gant o bunnau y flwyddyn. Clywsom gyfaill yn dywedyd iddo ef glywed Carnhuanawc yn tystio ei fod yn llwyddo i fyw, a dyna i gyd, pan oedd yn gurad Llangattwg; ac wedi iddo gael bywoliaeth Cwmdu, yr oedd yn medru rhoddi ychydig o elusen, a byw, a dim yn rhagor. Ac ystyried yr hyn a wnaeth dros yr Eglwys, ac yn enwedig dros lenyddiaeth ei wlad, mae yn rhyfedd na buasai rhyw esgob neu noddwr Eglwysig wedi ei weled, a gwneyd rhywbeth drosto.

Wedi clywed Carnhuanawc yn siarad mewn Eisteddfod yn Aberhonddu, dywedai y Parch. Thomas Watkins, Penoyre, gŵr o gyfoeth a dysg, yn nghlyw arglwyddi a llu o foneddigion: "Os na wobrwyir gwr o allu a gwybodaeth Mr. Price trwy ddyrchafiad yn yr Eglwys, gwr ydyw wedi ei eni

To blush unseen,
Or waste his fragrance on the desert air."

Yr oedd ugeiniau o ddynion diwerth yn yr esgobaeth yn derbyn tri chymaint a Charnhuanawc, ac nid oes gymaint a'u henwau wedi dyfod i lawr atom ni. Fe allai y byddai cystal i ni ddywedyd yn y fan hon, mai hen lanc ydoedd hyd ei fedd. Tra y bu yn gurad, lletŷa yr oedd yn Crughywel, ac wedi iddo gael bywoliaeth Cwmdu, nid aeth i fyw yno am lawer o flynyddoedd, ond arosai yn Crughywel.

Yn ystod haf 1825 ymwelodd â chyfandir Ewrop am y waith gyntaf, a throdd y daith hon i ddybenion da. Cymerodd sylw manwl o olygfeydd natur; edrychodd allan am henafiaethau Celtaidd; astudiodd nodweddion y gwahanol genedloedd y daeth i gysylltiad â hwy,—pa fodd yr oedd gwynebpryd y naill yn gwahaniaethu oddiwrth y llall, a pha mor bell yr oedd eu hieithoedd yn tebygu neu yn annhebygu i'w gilydd. Gwnaeth nodiadau pur gyflawn o'i daith yn ei ddyddlyfr, ac anfonodd eu sylwedd i'r *Seren Gomer* yn ngwanwyn y flwyddyn ganlynol. Gwnaeth ymgais, yn ystod y daith hon, i wneyd prawf ar haeriad Dr. Owen Pughe, sef fod tafodiaith o'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad gan y Wallooniaid—trigolion deheubarth y Netherlands. Ar ol sylw manwl, y casgliad y daeth Carnhuanawc iddo oedd nad oedd Dr. Owen Pughe yn iawn. Nid ydym yn gwybod beth oedd ei syniad ar y mater yma mewn blynyddau diweddarach.

Yn misoedd Gorphenaf ac Awst, 1826—haf anarferol o sych—teithiodd trwy Ogledd Cymru, a chyn dychwelyd aeth drosodd i'r Iwerddon, ac ysgrifenodd yr hyn a ganlyn yn ei ddyddlyfr am wynebpryd y Gwyddelod :—

Mor fuan ag yr ymadewais â Dublin am Limerick, ymddangosai y trigolion yn anffurf yn eu cymeriad cenedlaethol. Maent o gorffolaeth dda, heb fod ymhell uwchlaw y maintioli cyffredin, ond o'r fath wneuthuriad, pe yn cael gwell meithriniaeth, buasent yn ddynion a edrychent yn rhagorol. Pan ystyriom pa mor dlawd maent yn byw—ar datws a dwfr,—mae yn rhyfedd eu bod mor lluniaidd yr olwg arnynt, ac mor uchel eu hysbryd. Mae y gwallt, o Dublin i Limerick, yn ddu—gan mwyaf yn ddu fel y glo—a phan welir y gwallt yn fwy goleu, mae yn beth tra anaml, ac yn eithrad i'r rheol gyffredin. Mae y llygad bob amser yn llwyd; ni welais lygad du o Dublin i Limerick, nac hefyd lygad glas. Gerllaw Cerrigogunniel sylwais ar lygad oedd ychydig yn ddulas, ac ymysg y plant ar wallt oedd ychydig yn felynach. Yn agos i Limerick mae y gwyneb yn hir yn hytrach nag yn grwn—Savoyaidd yw y llygaid a'r aeliau; ac eithro hyn, nid oes dim ynddynt yn Gyfandirol. Maent yn lluniaidd ond nid yn brydferth, nac yn neillduol o hagr. Mae y trwyn, yn gyffredin, yn tueddu at droi i fyny, a'r ffroenau heb fod yn amlwg iawn. Mae y man lle y cydia y gwyneb a'r talcen yn isel ac yn ddwfn—ymhell o fod yn Roegaidd. Mae y gwyneb yn llawn, yn dyfod yn gulach at yr ên. Mae yr ên yn cilio ychydig yn ol, ac mae gan y dynion yr arferiad i gadw eu genau yn agored, fel pe na byddai y gwefusau yn ddigon mawr i guddio y dannedd. Nid yw y llygad yn dangos digon o'r gwŷn i fod yn brydferth. Mae mwy o debygolrwydd mewn pryd a gwedd yn yr Iwerddon nag wyf wedi sylwi yn Lloegr, ar yr un faint o dir, ac yn arbenig yn Nghymru, lle mae amrywiaeth mawr yn ffurf y wyneb.

Daeth adref gyda darluniau o hen dyrau crynion yr Ynys, ac adeiladau eraill a welodd, yn ogystal a'r golygfeydd mwyaf rhamantus y bu yn syllu arnynt, wedi eu tynu â'i law ei hun.

Ymhen blwyddyn ar ol dychwelyd o'r Iwerddon, mae yn ymweled â'r Alban, gan gymeryd o fewn cylch ei daith yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd. Talodd ymweliad â'r manau hyny a anfarwolwyd gan Ossian, Burns, a Scott. Astudiodd, yn ol yr amser y bu yno, ddaeareg yr Alban, ei llysiau, ei choedydd, a'i henafiaethau, gan wneyd ffurf wynebau y trigolion yn astudiaeth neillduol. Daeth adref âg amryw o ddarluniau yn egluro y pethau hynotaf a welodd ar ei daith. Yr oedd ei hoffder at deithio yn codi oddiar ei awydd am ychwanegu at ystorfa ei wybodaeth. Yn 1829 gwnaeth daith bur fanwl trwy Lydaw, ac ysgrifenodd hanes maith o honi ar ol dychwelyd, i'r *Cambrian Quarterly Magazine.* Ymwelodd â phob man o ddyddordeb, a gwnaeth sylw manwl o iaith ac arferion y trigolion; heliodd i fyny ac i waered am hen lawysgrifau oedd yn y wlad, a phob gweddillion henafiaethol a allasai ddyfod o hyd iddynt, gan egluro yr holl daith â darluniau. Mae hanes y daith hon wedi ei gyhoeddi yn ei *Literary Remains.* Cawn ef eto yn cymeryd taith trwy ganolbarth Lloegr, ac yn dychwelyd gyda nodiadau arni, a darluniau o honi. Nid oedd gorphwys iddo. Pan gartref yr oedd gyda ei lyfrau ddydd a nos; a phan oddicartref, yr oedd yn brysur gyda ei ysgrifell a'i bwyntel, yn casglu defnyddiau i fod wrth law pan fyddai galwad am danynt,—naill ai i ateb gofyniadau gohebwyr, neu i fod o wasanaeth iddo ei hun mewn araeth neu draethawd. Efe fu â'r llaw flaenaf yn cychwyn y *Cambrian Quarterly Magazine.* Daeth y gyfrol gyntaf allan yn 1830, wedi ei chyflwyno i'r diweddar Iarll Shaftesbury.

Bu yn ddiwyd am rai blynyddoedd yn casglu defnyddiau i droi yn ol syniadau John Pinkerton, gyda golwg ar gyff cenedloedd y byd. Yr oedd Carnhuanawc wedi ei glwyfo yn arw gan ryw gyfundrefn a gyhoeddodd Pinkerton yn y *Dissertations on the Origin and Progress of the Scythians or Goths.* Yr oedd rhagfarn Pinkerton mor gryf yn erbyn y cenedloedd Celtaidd, fel ag i'w wneuthur yn hollol anghymhwys at y fath orchwyl, er uched ei safle fel ysgrifenydd medrus. Rhaid addef fod John Pinkerton yn ddyn tra galluog, yr oedd yn gyfaill mynwesol i Horace Walpole, a chyhoeddodd ar ol marwolaeth Walpole waith o dan yr enw *Walopolia.* Yr oedd haeru fod y Celtiaid yn arwariaid, a dim ond un radd uwchlaw yr anifeiliaid direswm, fel y gwnaeth Pinkerton, yn peri i waed Carnhuanawc ferwi yn ei wythïenau. Yr oedd y gwaith a gyhoeddodd Pinkerton yn myned o dan seiliau y Datguddiad Dwyfol, yn gwadu athrawiaeth y cwymp, a phrynedigaeth dyn, a'r gwirionedd fod Duw wedi "gwneuthur o un gwaed bob cenedl o ddynion i drigo ar wyneb y ddaear." I droi yn ol y gyfundrefn hon, ac i wrthweithio ei thuedd niweidiol, cyhoeddodd Carnhuanawc ei draethawd galluog o dan y penawd *On the Physiognomy and Physiology of the Present Inhabitants of Britain.* Yn y traethawd hwn y mae yn profi oddiwrth amrywiaeth mawr o ffeithiau a ddaethent o bryd i bryd o dan ei sylw ei hun, ac a gadarnheir ac a eglurir gan ysgrifenwyr eraill, nad yw y gwahaniaeth y cyfeiria Pinkerton ato ond canlyniad diwylliad a ffrwyth naturiol achosion allanol a dygwyddiadol. Cafodd traethawd Carnhuanawc ei adolygu yn ffafriol mewn amryw o gylchgronau gallnocaf y deyrnas. Darfu i Syr William Ouseley, yr ysgolhaig dwyreiniol enwog, ysgrifenu ato a'i longyfarch ar ymddangosiad ei draethawd galluog, gan ei annog i beidio digaloni os byddai i rai o'r cyhoeddiadau ei drin dipyn yn arw. "Yr oedd Voltaire," meddai, "yn talu i ddynion am ysgrifenu beirniadaeth lem ar ei lyfrau, ac fel hyn daeth ei lyfrau yn wybyddus a dyddorol i rai na fuasent heb hyny byth yn clywed am danynt."

Yr ydym yn meddwl mai y peth cyntaf a ysgrifenodd Carnhuanawc i gyhoeddiad Cymraeg oedd cyfres o lythyrau i'r *Seren Gomer*, cylchgrawn misol a ddygid allan o dan olygiaeth alluog y Parch. Joseph Harries (*Gomer*), gweinidog gyda y Bedyddwyr yn Abertawe. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn hwn Ionawr 1, 1818, a chafodd y golygydd gan brif ysgrifenwyr y Dywysogaeth ysgrifenu iddo. Mae yr hyn a arweiniodd i ymddangosiad llythyrau cyntaf Carnhuanawc yn y *Seren* yn dra dyddorol erbyn hyn, ac nid oes eisieu esgus am gyfeirio at yr helynt yn y fan yma. Fe allai na ddygwyd un ddadl ymlaen o'r pryd hyny hyd yn awr gyda mwy o allu na'r ddadl ar Barhad yr iaith Gymraeg yn *Seren Gomer.* Yn y flwyddyn 1824 rhoddodd rhai o arweinwyr Cymdeithas Gymreigyddol Lleyn dramgwydd i Brutus, yr hwn oedd yn byw yn Sir Gaernarfon. Er mwyn poeni y beirdd a'r llenorion, ysgrifenodd Brutus erthygl ffyrnig, ond dra galluog, i'r *Seren*, yn trin yr Eisteddfodwyr a'r Gymraeg yn ddiarbed. Gosododd yr erthygl hon yr holl Gymdeithasau Cymreigyddol trwy Wynedd, Essyllt a Dyfed, mewn cythrwfl mawr. Gwelodd Brutus yn fuan ei fod wedi "gosod ei droed ynddi," ac wedi cynhyrfu llu yn ei erbyn. Fel hyn daeth dyn anadnabyddus a dinôd yn enwog ar unwaith, a

daeth ei ffugenw yr un mwyaf hynod ac anmharchus yn y Dywysogaeth. Edrychid arno fel bradwr y Gymraeg, a phentyrid pob math o enllib ar ei ben. Carnhuanawc oedd y cyntaf a ddaeth allan i amddiffyn y Gymraeg mewn llythyr tra galluog. Dywedai y golygydd, wedi i lythyr Carnhuanawc ymddangos, nad oedd braidd angen atebiad i Brutus, gan nad oedd ei gecraeth ond adsain o'r hyn oedd wedi ymddangos flwyddyn yn ol yn y *Cambrian* a'r *Carmarthen Journal*, gan D. W. Ramsey, a'r hyn oedd wedi ei wrthbrofi yn alluog gan ysgrifenwyr eraill. Yr oedd y golygydd yn ceisio tawelu pethau, a dwyn y ddadl i derfyniad ar unwaith. Modd bynag, yn y rhifynau dilynol ymddangosodd atebion ffyrnig oddiwrth amryw o ohebwyr galluog. Hefyd, yn yr un cylchgrawn ymddangosodd *squib* yn cyhoeddi damwain echryslawn, fod "Brutus ab Dic" wedi cyflawni hunanladdiad trwy grogi ei hun, gan ddesgrifio holl amgylchiadau y dygwyddiad, a bod ei gorff i gael ei gladdu ar groesffordd rhwng Llundain a Chaergybi. Credid hyn gan lawer hyd y mis dilynol, pan ymddangosodd llythyr maith a nerthol gan Brutus, yr hwn oedd wedi ei gyffroi yn ofnadwy gan yr hysbysiad am ei farwolaeth. Yn y llythyr hwn y dangosodd Brutus y fath alluoedd ag a sefydlodd ei gymeriad fel ysgrifenydd Cymraeg o'r radd flaenaf. Wedi i amryw wrthateb, dywedodd y golygydd ei fod yn cau i fyny y ddadl oddieithr fod gyda rhywun ryw resymau newyddion. Ar hyny dyma Carnhuanawc yn ddyfod allan yr ail waith, mewn llythyr mwyn a boneddigaidd. Er ei fod yn collfarnu y golygiadau a gyhoeddwyd gan Brutus, dywedai: "Eithr mewn perthynas i resymau Brutus am ddilead y Gymraeg, os gellir galw y fath haeriadau yn rhesymau, gan ys pa fodd yr ymddangosant iddo ef ei hun, eto, pan eu dynoethwyd gan 'Gideon' ac eraill, ymddangosai eu gwegi, a gwelid nad oedd dim ynddynt yn haeddu y sylw lleiaf, oddieithr yr iaith hyawdl y gwisgwyd hwy gan fedrusrwydd eu hysgrifenydd; ac yn hyn braidd nas galaraf am eich penderfyniad i derfynu y ddadl; o herwydd bydded amcanion Brutus y peth a fyddont, mae ei ddull o ysgrifenu mor dlws a llyfn, fel na allwn lai na dywedyd y buasai ei ddoniau yn anrhydedd i'w wlad oni b'ai fod ei egwyddorion mor adgas." Fel hyn y terfynodd y ddadl a adnabyddid wedi hyny fel "Ymladdfa y Cewri," ac a sefydlodd gymeriad Brutus fel ysgrifenydd Cymraeg campus a thalentog; ac wedi y ddadl hon adnabyddwyd Thomas Price byth mwy fel Carnhuanawc, canys wrth y llythyrau hyny y gosododd y ffugenw hwn gyntaf.

Yn fuan wedi hyn mae gohebiaeth alluog a dysgedig yn cael ei dwyn ymlaen ar dudalenau yr un cylchgrawn rhwng Carnhuanawc a Dr. Owen Pughe, ar ddau gwestiwn henafiaethol. 1. "Ai Ffordd Rufeinig yw y ffordd sydd yn myned trwy yr hen glawdd wrth y *Stonehenge*, sef gwaith Emrys?" 2. "A oes geiriau Gwyddelaeg, ai nid oes, yn ngwaith Myrddin?" Fel y gellid dysgwyl, dygwyd y ddadl hon ymlaen gyda medr mawr, ac yr oedd y llythyrau yn dangos fod y ddau ohebwr yn henafiaethwyr dysgedig. Awdurdod Carnhuanawc dros ddadleu fod geiriau o'r iaith Wyddelaeg yn ngweithiau Myrddin oedd y Parch. Edward Davies, awdwr y *Celtic Researches;* ond addefodd mewn blynyddau diweddarach nad oedd digon o sail dros yr hyn a haerai. Gyda golwg ar yr hen ffordd wrth y *Stonehenge*, ar ol ymweled â'r lle a gwneyd ymchwiliad mawl, daeth Carnhuanawc i'r casgliad mai Rhuf-

einig ydoedd. Ymhen blynyddoedd wedi hyny, ar ol ymchwiliad manylach, yr oedd yn ddigon gostyngedig a boneddigaidd i addef ei fod wedi gwneuthur camsyniad. Fel hyn y dywed ef ei hun ar y mater hyn :—

Yn agos i ddeunaw mlynedd yn ol, rhyfygais gynnal ymryson â'r clodfawr Owen Pughe perthynol i'r haeriad hwn o eiddo Davies, bod amrywiaeth Gwyddelaeg yn ganfyddadwy yn ngwaith Myrddin, a chefnogwn farn Davies. Ac Owen Pughe a'i gwrthwynebai yn gyfangwbl, fel y gellir gweled yn *Seren Gomer*. Mae llai na deunaw mlynedd yn ddigon i achlysuro amrywiol gyfnewidiadau yn meddyliau dynion; ac er nad ydyw rhwysg yr amser hyn wedi peri i mi gydnabod yn gwbl gyfeiliorni y daliadau a gefnogwn, eto nis gallaf ddywedyd nad wyf yn teimlo rhyw betrusder, neu yn hytrach yn ffaelu a meithrin yr un hyder ynddo ag ar y pryd hwnw, a hyn o herwydd na cheir yn holl waith Myrddin ond un ymadrodd o dri gair yn unig, yn yr hwn y gellir haeru fod y cyfryw amrywiaeth yn ganfyddadwy. Ond er nas gallaf ddywedyd dim yn ychwaneg ar y pen hwn, naill ai er cadarnhâd na gwrthddadleuad; eto mae cyfiawnder yn galw arnaf i wneuthur un cyfaddefiad cyhoeddus perthynol i'r ymryson rhagenwedig. Ar y pryd hwnw myfi yn fy anwybodaeth a'm ffrwst a'm hunan-ddigonedd, a haeres gyda chondra mawr fod ffordd Rufeinig yn cerdded trwy y clawdd amgylchawl wrth *Stonehenge*, sef gwaith Emrys. Ac Owen Pughe a wadai gywirdeb y cyfryw haeriad. Ac yn awr, ar ol edrych ar y lle a manwl sylwi arnaw, yr wyf yn argyhoeddedig mai nid *ffordd Rufeinig* yw y ffordd ag sydd yn croesi y clawdd, ond mai un o ffyrdd cyffredin y wlad ydyw.*

Wrth gyfeirio at addefiad Carnhuanawc, mae y doniol David Rhys Stephens yn gwneyd y sylw a ganlyn : "Mae braidd yn beth dedwydd fod rhai dynion yn syrthio i gamsyniadau er mwyn i'r byd gael ei fendithio âg onestrwydd mewn ymchwiliad, ac âg unplygrwydd prydferth mewn cyfaddefiad." Parhaodd Carnhuanawc i gyfoethogi tu dalenau y *Seren* am flynyddoedd lawer âg erthyglau yn dal cysylltiad â iaith, hanesiaeth, a llenyddiaeth ei wlad. Yr oedd ei enw yn ddigon i beri i'w gynnyrchion gael eu darllen gyda blas. Dywedir mai anaml y byddai neb yn edrych dros un ran o'r *Seren* nes y byddai erthygl Carnhuanawc wedi ei darllen drwyddi. Cyn ei fod yn ddeg ar hugain oed, yr oedd wedi dyfod yn awdurdod ar bob pwnc llenyddol a hanesyddol oedd yn dal cysylltiad â Chymru. Yr oedd yn rhaid ei fod wedi darllen a myfyrio yn galed pan yn ieuanc, fel ei gyfaill ieuengach Thomas Stephens, yr hwn nad oedd ond wyth ar hugain oed pan ennillodd y wobr am ei draethawd rhagorol, "*The Literature of the Kymry.*"

Yr oedd Carnhuanawc yn tori cystal ffigiwr ar lwyfan yr Eisteddfod ag yn un man. Yr oedd yn siaradwr rhagorol. Yr oedd ei fynediad i fyny i'r esgynlawr yn ddigon i daflu deng mil o bobl i deimladau brwdfrydig, ac wedi dechreu siarad, gwefreiddiai y dorf, a daliai hi wrth ei wefusau.

Y tro cyntaf y tynodd sylw fel areithiwr Eisteddfodol oedd yn Aberhonddu yn y flwyddyn 1822. Syr Charles Morgan oedd y Llywydd; ac yr oedd yn bresennol brif deuluoedd Deheudir Cymru, a llenorion enwocaf y Dywysogaeth Nid oedd Carnhuanawc y pryd hwn ond pymtheg ar hugain oed. Mae yn codi ar ei draed ar y llwyfan, ac yn dal yn ei law hen lawysgrif; mae yr olwg arni yn dra henafol, ac mae llawer yn awyddus i wybod rhywbeth yn ei chylch. "*Gododin*"

* *Hanes Cymru*, tu dal. 327.

Aneurin ydyw, ac mae yr areithiwr yn myned i alw sylw yr Eisteddfod at ei hawdwr. Dywedai nad oedd eisieu gwneyd esgus dros alw sylw yr Eisteddfod at Aneurin fardd. Tân barddoniaeth Aneurin a gynhyrfodd Gray, ac yr oedd barddoniaeth Seisonig yn dra dyledus iddo; gallai ychwanegu, nid yn unig fod edmygwyr barddoniaeth yn ddyledus i'r hen feirdd Prydeinig, ond fod llawer o'r hyn oedd gysegredig a dyrchafedig mewn bywyd cyffredin yn dal cysylltiad agos â'r traddodiadau a'r hanesiaeth a gedwid yn eu barddoniaeth. Cododd yr Eisteddfod i hwyl, a gwnaeth gymaint o farc fel na chafodd lonydd tra y bu byw. Cawn ef yn Nghaerfyrddin y flwyddyn ganlynol, ac yn gwneyd araeth ragorol ar y "Gyfundrefn Farddol." Dywedai nad oedd yn petruso dywedyd fod deddfau Lloegr, a hyd yn nod y Cyfansoddiad Prydeinig, yn fwy dyledus i'r Beirdd Cymreig nag oedd ond ychydig yn barod i ganiatâu. Yn y blynyddoedd dyfodol y mae yn bresennol yn Eisteddfodau y Trallwm a Dinbych, ac yn tanio y miloedd â'i hyawdledd. Cynnyrchodd rhyw deimlad rhyfedd yn Eisteddfod Dinbych yn 1828. Yr oedd ei Uchelder Brenhinol, y Duc o Sussex, yn bresennol, a dywedir iddo, ar ol gwrando ar y gystadleuaeth ar y delyn, ddywedyd, mewn llais ag y gellid ei glywed trwy y dorf, "Nid yw yn rhyfedd fod tannau y delyn Gymreig a golygfeydd swynol y dyffrynoedd yma, yn gosod ar dân enaid gŵr o alluoedd Mr. Price."

Ar ddiwedd un o'i areithiau yn Eisteddfod y Trallwm, yn 1824, gwnaeth gyfeiriad tyner at yr hen Iolo Morganwg, yr hwn oedd yn fyw y pryd hwnw, ond mewn henaint a thlodi, yn gyfyngedig i'w gartref. Cyflwynodd sefyllfa isel yr hen Dderwydd i gydymdeimlad y dorf, ac ar ddiwedd y cyfarfod gwnaed casgliad iddo. Dwy flynedd y bu fyw wedi hyn.

Gwnaeth Carnhuanawc ddefnydd da o'r gallu oedd ynddo i ddylanwadu ar ei wrandawyr er tynu allan gydymdeimlad "y gwŷr mawr" yn y Dywysogaeth at lenyddiaeth y Cymry. Ffrwyth ei areithiau a'i lythyrau ef oedd Pwyllgor y Llawysgrifau Cymreig, yr hwn a wnaeth gymaint mewn cyhoeddi llyfrau na fuasent byth yn cael eu cyhoeddi oni b'ai am y Pwyllgor hwn.

Y *Gododin* oedd y trysor gwerthfawrocaf yn ngolwg Carnhuanawc o bob peth oedd o fewn i'w lyfrgell Er ei fod yn dra pharod bob amser i fenthyg llyfrau, ni roddai fenthyg y *Gododin* ar un cyfrif, hyd yn nod i'w gyfaill mwyaf mynwesol. Yr oedd yr hen lawysgrif hon wedi bod yn eiddo Theophilus Jones, oddiwrth yr hwn y daeth i Mr. Price. Mae yn dyddio yn ol mor bell â'r flwyddyn 1200. Mae yn ddiammeu fod Gwilym Tew, yr hwn a flodeuodd o 1440 hyd 1470, wedi bod yn berchen yr hen lawysgrif hon, canys y mae ei enw wrthi fel ei pherchenog. Ceir hefyd enw Rhys Nannor arni fel ei pherchenog, yr hwn oedd yn cydoesi â Gwilym Tew. Yr oedd Theophilus Jones yn gosod gwerth mawr ar y *Gododin*, a dywed yn ei *Hanes Brycheiniog* yr hyn a ganlyn o barth iddi:—"Dyma y copi y tybia Mr. Davies, Olveston [sef y Parch. Edward Davies, awdwr y *Celtic Researches*], yw yr un y cyfeiria Lhwyd ati, ag a ddywedir iddi gael ei cholli o Lyfrgell Hengwrt. Rhoddwyd hi i mi gan Mr. Thomas Bacon, a phrynodd yntau hi gan berson yn Aberdar." Aeth yr hen lawysgrif hon, gyda llyfrau Carnhuanawc, i'r Fenni, a thebyg yw ei bod yn eu plith pan

brynodd Syr Thomas Phillips, yr henafiaethydd, ei holl lyfrau gan ei etifeddion.

Yn y flwyddyn 1836 awgrymwyd i Carnhuanawc gan ei gyd-drefwr, Mr. Thomas Williams, y dymunoldeb o gael Hanes Cymru wedi ei ysgrifenu. Yr oedd Mr. Williams yn argraffydd ac yn gyhoeddwr, ac yn pregethu yn achlysurol gyda y Wesleyaid. Yr oedd yn llenor gwych, a chafodd ei urddo yn fardd "yn ol braint a defod beirdd Ynys Prydain" yn un o hen Eisteddfodau Aberhonddu, gan Dr. Owen Pughe, ryw driugain mlynedd yn ol. Ennillodd amryw wobrwyon yn Eisteddfodau y Fenni. Ennillodd hefyd wobr yn un o Eisteddfodau Aberhonddu am yr awdl oreu i "Gyfieithwyr y Bibl." Adnabyddid ef fel llenor wrth yr enw "Cynidr." Nid oes ond rhyw dair blynedd er pan fu farw Mr. Williams. Cawsom yr hyn a ganlyn o'i enau ef ei hun mewn perthynas i gyhoeddiad *Hanes Cymru*:—"Pan ddaethum i'r dref hon [Crughywel] yn 1829, gosodais i fyny argraffwasg, a daeth Carnhuanawc yn gyfaill a noddwr i mi. Yn 1836 prynais argraffwasg newydd, yn meddu y gwelliantau diweddaraf. Dywedais wrth fy hen gyfaill un diwrnod nas gallwn gyfrif ar ddigon o waith i fy mheiriant newydd, ac yn nghwrs y siarad rhyngom, cychwynwyd y syniad o gael Hanes Cymru yn Gymraeg Yr oedd Carnhuanawc i ysgrifenu y gwaith, a minnau i'w argraffu a'i gyhoeddi, a dwyn yr holl draul, ac yna rhanu yr elw â'r awdwr. Nid oedd un cytundeb rhyngom ond mewn geiriau. Argraffwyd yr hysbysiadau am y gwaith a gwasgarwyd hwynt, cyn bod un linell o'r Hanes wedi ei hysgrifenu. Beth bynag, tua mis Hydref y flwyddyn hono daeth y rhifyn cyntaf o *Hanes Cymru* allan. Argraffwyd dwy fil o gopïau, ac yr oedd yn ol yr hysbysiad un rhifyn o'r gwaith i ddyfod allan bob dau fis. Yn y fan yma y dechreuodd fy helbul ynglŷn â'r gwaith. Aethom yn y blaen gyda y rhifynau dilynol, ond gyda llawer o oediad. Yr oedd yr oediad yn milwrio yn dost yn erbyn yr ymgymeriad, fel peth oedd i dalu ei ffordd. Wedi cyrhaedd y chweched rhifyn, er mwyn amddiffyn fy hun rhag colled, ac i symbylu fy awdwr i fyned yn y blaen gyda y gwaith mor fuan ag yr oedd modd, gwnes gynnygiad i dalu iddo ddeg punt am bob rhifyn, ar yr ammod ei fod yn darpar copi fel ag i fy ngalluogi i ddwyn un rhifyn allan bob dau fis. Am ddau neu dri mis gwnaeth hyn, ond syrthiodd yn ol eto i'r un man. Yn awr gwrthodais fyned ymlaen, ac arosodd y gwaith am flwyddyn heb i ddim gael ei wneyd, a chododd oerfelgarwch rhyngom. Aethum ato yr ail waith, a chytunasom fyned yn y blaen, ac o'r diwedd gorphenwyd y gwaith mewn pedwar rhifyn ar ddeg a hanner. Dylwn ychwanegu," meddai yr hen ŵr, "nad oedd dim oerfelgarwch rhyngom pan fu Carnhuanawc farw. Yr oeddem wedi gwneyd i fyny y cwbl, ac yn gyfeillion calon."

Dyna yn fyr oedd hanes yr amgylchiadau a arweiniodd i gael *Hanes Cymru*, a hanes helbulon yn y cyhoeddwr a'r awdwr ynglŷn âg ef. Dylid cofio mai nid diogi na difrawder oedd yn peri nad oedd y cyhoeddwr yn cael copi yn amlach gan yr awdwr. Cofus genym i ni weled llythyr at y cyhoeddwr, ychydig amser yn ol, oddiwrth yr awdwr, yn ei lawysgrifen ef ei hun. Yn y llythyr hwn dywedai Carnhuanawc wrth y cyhoeddwr, "Na wnai ef, er mwyn rhoddi

gwaith i'r argraffwasg, ysgrifenu *rhywbeth*, nac arfer y prysurdeb oedd yn anghyson â chywirdeb a manylwch." Diau mai hyn oedd wrth wraidd holl ofid y cyhoeddwr ynglŷn â'r gwaith. Yr oedd Carnhuanawc mor gydwybodol fel hanesydd, fel na wnai ysgrifenu dim heb fod ganddo awdurdod drosto ag y gallai ymddiried ynddi. Dosranai a chymharai ffeithiau hanesyddol, ac edrychai yn fanwl i ddilysrwydd pob math o groniclau. Weithiau byddai am wythnosau cyn dyfod o hyd i lyfr neu lawysgrif a ddymunai gael. Yn hir cyn i'r gwaith gael ei orphen, anfonodd i'r holl gyhoeddiadau Cymreig y rheswm am yr oediad yn nygiad y gwaith allan. Weithiau ar ol ysgrifenu dernyn, cai allan fod ei awdurdod yn ammheus; rhoddai y pin o'i law a ffwrdd âg ef am bellder i wneyd ymchwiliad manylach. Nid oedd yn beth anghyffredin iddo, yn nghanol ysgrifenu, fyned i Paris neu i Lundain, er mwyn boddloni ei hun gyda golwg ar ryw bwynt anhawdd ei benderfynu. Nid oedd un aberth yn ormod iddo wneyd er mwyn sicrhau cywirdeb.

Wedi i *Hanes Cymru* ddyfod allan, yr oedd gwaith mawr Carnhuanawc wedi ei gwblhau. Er cymaint a ysgrifenodd, *Hanes Cymru*, yn ddiau, ydoedd ei brif waith. Nid oedd yn ol o'i fywyd ond chwe' blynedd, ond llanwodd bob blwyddyn â gwaith. Byddai yn eistedd i fyny bron drwy y nos i astudio, ac ni chaniatâi iddo ei hun ond ychydig o gysgu. Druan âg ef, cafodd weled iddo fabwysiadu cynllun a fu yn foddion i fyrhau ei einioes. Yn mis Mai, y flwyddyn ddiweddaf y bu fyw, pan yn ei lyfrgell, clywid ef yn cwympo yn y nos yn drwm ar y llawr, a bu am naw awr cyn dadebru. Ni phegethodd mwyach, ond ymwelai â'r tlodion ac ysgrifenai. Yn ei wendid olaf rhoddodd gynnorthwy i orphen cyfieithiad o'r Testament Newydd i'r Llydawaeg. Ei ymddangosiad cyhoeddus diweddaf oedd yn Eisteddfod y Fenni, yn Hydref, 1848, pan yr ennillodd wobr am draethawd, "Ar ddeddfau Rhuddlan trwy ba rai yr unwyd Cymru â Lloegr." Yr oedd ysbryd Carnhuanawc yn uchel yn yr Eisteddfod, er fod ei gorff yn wan,—mor wan fel mai prin y gallai sefyll ar ei draed.

Yr oedd ei galon yn llamu gan lawenydd wrth weled fod yr Eisteddfod hon, trwy ganiatâd y Frenhines, o dan nawdd Tywysog Cymru, ac yn yr Eisteddfod hon y cynnygiodd Tywysog Cymru wobr am y Traethawd goreu ar "Lenyddiaeth y Cymry o Gruffydd ab Cynan i Gwilym Ddu," yr hon a ennillwyd gan Thomas Stephens, Merthyr. Yr oedd yn bresennol gynnrychiolwr o Prwssia, yn mherson Chevalier Bunsen, un o ddynion mwyaf galluog Germany; un arall o Twrci yn mherson Tywysog Calimaki, yr hwn oedd yn disgyn o'r Groegiaid henafol; hefyd yr oedd Ffrainc yn cael ei chynnrychioli ar yr amgylchiad. Heblaw y rhai hyn, yr oedd y Duc o Northampton, Mr. Hallam yr hanesydd enwog, Mr. H. A. Layard, a hufen boneddigion a boneddigesau Cymru, yn bresennol. Yn yr Eisteddfod hon y derbyniodd Mr. Evan Thomas, gŵr genedigol o Aberhonddu, wobr o driugain gini a deg am y *model* goreu yn "egluro hanesiaeth Cymru." Ni welwyd o fewn i'r ganrif hon y fath gynnulliad urddasol mewn cysylltiad â llenyddiaeth Gymreig. Siaradodd Carnhuanawc bum' gwaith yn ystod yr Eisteddfod ar ei hoff bynciau, gyda hyawdledd mawr. Pan oedd Bunsen yn gwrando arno, gwnaeth y sylw, "fod y

corff fel pe yn ymddangos yn farw, ond fod yr ysbryd yn trigo ynddo mewn modd goruwchnaturiol ar y pryd. Aeth adref o'r Eisteddfod ac ymhen tair neu bedair wythnos mae yn myned un diwrnod â saer maen gydag ef i edrych am geryg i ddarpar bedd iddo, a dychwelodd a bu farw y noswaith hono.

Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Cwmdu, yn y man a nodasid allan ganddo ef ei hun, a defnyddiwyd y ceryg oedd ef wedi eu dewis i ddarpar ei fedd. Saif Eglwys Cwmdu yn un o'r dyffrynoedd tlysaf yn Nghymru. Wrth weled prydferthwch y fan braidd nad yw y byw yn eiddigeddu wrth y meirw. Dywedai Dr. Carl Meyer, o Rinteln, gŵr a fu yn byw am dymmor yn Cwmdu, er mwyn dysgu Cymraeg, a mwyn-hau cymaint o gymdeithas Carnhuanawc ag a allai gael, wedi clywed am farwolaeth ei hen gyfaill: "Mae yn drueni na fuasai yr arferion Cristionogol yn caniatâu i ni gladdu Carnhuanawc o dan un o'r hen garneddau ar gopa y mynydd prydferth uwchlaw Cwmdu, lle y buom ein dau laweroedd o weithiau yn eistedd i lawr ac yn edrych ar yr haul yn marw."

Y dydd o'r blaen cawsom y fraint o sefyll wrth fedd Carnhuanawc, a darllen ar ei gareg fedd yr hyn a ganlyn :—

> Gwelid yn ei gorff gwiwlan,
> Ei wisg lwys a'i foesau glân,
> Ei dalcen mawr ysplenydd,
> Ei wên deg mal huan dydd,
> Ei eres lygad eirian,
> Hylym a dwys mal fflam dân,
> A'i gerddediad gorddidawr,
> Nodau mwys ei enaid mawr;
> Ei lais oedd fel y delyn,
> Synai a denai bob dyn:
> Ffrwyth Hymettus felus faeth,
> Oedd ei eres dda araeth.

Cyfansoddwyd y llinellau uchod gan y Parch. John Jones (*Ioan Tegid*), hen gyfaill calon i Carnhuanawc.

Nid oes dadl nad oedd Carnhuanawc yn ddyn rhagorol, ac yn wir yn ddyn mawr. Nid yn unig yr oedd yn ddyn ag oedd wedi darllen llawer, a diwyllio ei feddwl yn dda, ond yr oedd yn ddyn o gynneddfau cryfion,—ymhell uwchlaw y cyffredin.

Mae yn anhawdd meddwl am neb a lanwodd fywyd â mwy o waith: ac yr oedd yn ddyn mor amlochrog, fel nad oedd nemawr gangen o wybodaeth nad oedd ef yn gwybod rhywbeth am dani. Yr oedd yn ysgolhaig Celtaidd rhagorol; yr oedd yn medru siarad ac ysgrifenu iaith y Llydawiaid; siaradai Ffrencaeg yn rhwydd; yr oedd yn ddaearegwr campus; yn rhifyddwr gwych; yn ysgolhaig Groeg a Lladin addfed; yn feistr ar yr Hebraeg; yn seryddwr da; yn llysieu-ydd gweddol; yn chwareuwr y delyn; yn arluniwr na cheid yn fynych ei fath; ac yn meddu ar ystorfa ddihysbydd o wybodaeth gyffredinol. Yr oedd yn esiampl nodedig o'r hyn a all dyn ei gyflawni heb ryw lawer iawn o fanteision addysg,—heb waed na chysylltiadau teuluaidd uchel, ac heb gyflog ond prin ddigon i ddwyn dau ben y llinyn ynghyd. Gwaith pur anhawdd yw rhoddi darnodiad o'i fywyd, canys fel dynion mawrion yn gyffredin nid oedd yn amlwg i'r byd yn holl agweddau

ei gymeriad, a gwnaeth ei hun yn llai amlwg i'r cyhoedd am ei fod mor hoff o astudiaeth. Nid yn aml y byddai yn ymdroi ymhlith y werin ond ar achlysuron mawrion a neillduol. Wedi iddo ddringo i enwogrwydd, nid oedd llyfr yn cael ei ddarpar oedd yn dal rhyw gysylltiad â Chymru a Chymraeg, nad oedd ei awdwr yn ymgynghori â Charnhuanawc. Yr oedd y llythyrau a ysgrifenai fel atebion i ohebwyr yn ddigon o orchwyl i ddyn cyffredin, heb wneyd dim ond hyny. Pan oedd Dr. Campbell, y bardd, yn darpar Bywgraffiad Mrs. Siddons, y chwareuyddes, yr hon a anwyd yn Aberhonddu, cafodd gynnorthwy neillduol gan Carnhuanawc. Mae Dr. Campbell yn ei "ganmol i'r cymylau," ac yn cydnabod ei ddyled arbenig iddo. Casglodd Carnhuanawc bob math o adgofion oedd yn aros yn nhref Aberhonddu am Mrs. Siddons, a gwnaeth ddarlun o'r tŷ lle cafodd ei geni, ac anfonodd hwynt i Dr. Campbell. Ymddengys mai digon digalon y teimlai y Dr. i fyned ymlaen gyda y Bywgraffiad nes iddo ddyfod o hyd i Carnhuanawc. "Anwyl Mrs. Siddons," meddai yn ei lythyr at Carnhuanawc, "yr oedd yn angyles, ond mae cythreuliaid yn fforddio gwell defnyddiau at fywgraffiadau nag angelion. Mae hen foneddigesau diddant—fu unwaith yn brydferth, ac yn gyfeillesau mynwesol iddi—yn arllwys ar fy mhen ffrydiau o brofion o barth i'w duwioldeb a'i phurdeb; ond yr Arglwydd a'm helpo, nis gallaf wneyd defnydd o'u cleber wag; ond yr ydych chwi wedi fy ngosod mewn gwell ysbryd."

Bu Carnhuanawc yn dal gohebiaeth am gryn amser â Comte de la Villemarque, un o lenorion mwyaf dysgedig Llydaw, ar faterion Celtaidd. Tua'r un adeg dygai ymlaen ohebiaeth â Syr William Betham o barth i drigolion boreuol Ynys Prydain, er fod y ddau yn hollol anghytuno gyda golwg ar y mater yma. Yr oedd y dynion mwyaf yn teimlo eu bod yn ennill rhywbeth wrth ohebu neu ddal cymdeithas â Thomas Price.

Yn Hydref, 1834, daeth yr enwog Edward Irving ar daith trwy Ddeheudir Cymru, er mwyn ei iechyd. Un prydnawn mae yn cyrhaedd tref brydferth Crughywel mewn gwendid mawr, ac yn edrych allan am Carnhuanawc mor fuan ag y gosododd ei droed i lawr yn y dref. Ni bu Edward Irving fyw ond mis wedi hyn.

Rhoddodd Mr. Price gychwyniad i gyfnod newydd mewn llenyddiaeth Gymreig; mewn gwirionedd, agorodd fyd newydd nad oedd yn bod o'r blaen i'r Cymro. Prin yr ydym yn credu y buasai Thomas Stephens yn dringo mor uchel fel ysgolhaig Celtaidd, oni b'ai i Thomas Price godi o'i flaen. Nid ydym yn gwybod iddo golli mewn cystadleuaeth Eisteddfodol ond unwaith, sef, yn y Fenni yn 1838. Yr oedd triugain gini yn cael eu cynnyg am y traethawd goreu "Ar y dylanwad mae Traddodiadau Cymreig wedi ei adael ar lenyddiaeth Ewrop." Y beirniad oedd Hallam, hanesydd y "canol-oesau." Yr oedd pump o gyfansoddiadau wedi dyfod i law, ac ennillwyd y wobr gan un Mr. Hardinge, o Forganwg. Tra yr oedd traethawd Carnhuanawc yn dangos cymaint o lafur, a barn lawn mor addfed, yr oedd Mr. Hardinge wedi llwyddo i wisgo ei draethawd mewn iaith lyfnach a thlysach. Beth bynag, rhoddodd Bunsen ac eraill ganmoliaeth uchel i draethawd Mr. Price, a chymhellwyd ef i'w gyhoeddi; ond gwrthododd, am y rheswm

y hanes hyny yn [illegible] wobrwyodd y traethawd [illegible] y *Literary Remains.* [illegible] lawer o ysbwriadau [illegible] ei gylueddu y mae yn [illegible] enillodd yn Eisteddfod Liverpool [illegible] punt' punt, am y traethawd [illegible] Gymraeg." Mae sylwedd y [illegible] *Hanes Cymru.* Yn 1845 [illegible] Fenni, am y traethawd goreu [illegible] llenyddiaeth henafol yn y Gymraeg [illegible] gyn y traethawd hwn lafur [illegible] weddillion llenyddiaeth Gymreig [illegible] ennillodd i gyfnodau, a [illegible] rodd anghwilfiau, yn debyg fel mae [illegible] ei *Literature of the Kymry.* Tua [illegible] yn Eisteddfod y Fenni am y traethawd goreu ar [illegible] hwy hyd yr unwyd Cymru â Lloegr," a [illegible] wnaeth.

Diau mai gorchestwaith Carnhuanawc yw Hanes Cymru. Mae y gwaith yn cynnwys Hanes Cymru o'r [illegible] y Tywysog Llewelyn ab Gruffydd, gyda [illegible] dilyngwyddiadau wedi hyny. Mae pawb yn [illegible] Hanes Cymru goreu sydd yn bod [illegible] fod Hanes Cymru eto heb ei ysgrifenu. Dyma farn Mr. E. A. Freeman, yr hanesydd. Mae *Hanes Cymru* Carnhuanawc yn [illegible] hanes i ni ddylyngwyl i gael hanes ein gwlad ynddi yn gyflawn. Byddai dwain o gyfrolau o faintioli gweddol yn ddigon bach i gynnwys hanes Cymru fel y dylai gael ei ysgrifenu. Mae gwaith Carnhuanawc yn cynnwys llawer o ddefnyddiau, a'r rhai hyny wedi eu [illegible] yn dda, gogyfer â hanes mwy cyflawn. Byddai casglu hanes Cymru fel ag i wneyd Hanes cyflawn yn waith mawr iawn, ac yn waith [illegible] byddai yn ormod o ymgymeriad i un dyn. Mewn gwirionedd dylai casglu a chyhoeddi Hanes Cymru fod yn ymgymeriad cenedlaethol. Oni fyddai yn llawer gwell i Bwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol ymgymeryd â gwaith fel hyn na rhoddi symiau mawrion o arian fel gwobrwyon o flwyddyn i flwyddyn, am gyfansoddiadau nad ynt yn y diwedd ddim yn dyfod o honynt? Nid yw yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ychwanegu dim gwerthfawr iawn at lenyddiaeth Gymreig wedi dyddiau Carnhuanawc a Thomas Stephens. Pe b'ai y Pwyllgor yn ymgymeryd â rhyw waith cenedlaethol fel Hanes Cymru, byddai yn gosod y genedl o dan ddyled fawr iddo.

Gyda golwg ar *Hanes Cymru* Thomas Price, er ei fod yn hanes y gellid ymddiried yn ei gywirdeb, ac wedi ei drefnu yn ol cynllun manteisiol ddigon, eto y mae ei iaith yn anystwyth, os nad yn glogyrnog, yn aml. Gellid meddwl wrth ddarllen yr hyn y mae Carnhuanawc wedi ei ysgrifenu yn Gymraeg, ei fod yn well ysgrifenwr yn yr iaith Saesoneg. Dalia Mr. Williams, cyhoeddwr *Hanes Cymru*, ei fod yn llawn cystal ysgrifenwr Cymraeg ag oedd o ysgrifenwr Saesoneg, er yr addefai ei fod yn llawer iawn gwell siaradwr yn Saesoneg nag ydoedd

yn Gymraeg. Mae hyn i'w ddywedyd gyda golwg ar yr iaith yn *Hanes Cymru*, fod yn anhawdd iawn i unrhyw ddyn ysgrifenu allan ar y pryd, mewn iaith lefn a thlos, yr hyn a geid mewn hen lyfrau Lladin a Ffrengig, neu yn hen lawsgrifau y chweched ganrif, fel y byddai Carnhuanawc yn gorfod gwneyd yn aml, pan oedd y cyhoeddwr ar ei gefn am gopi. Mae yr orgraff yn *Hanes Cymru* ar ei phen ei hun. Pan ddaeth y rhan gyntaf allan, ymddangosodd yr hyn a ganlyn ar ei chlawr :—

O ran llythyreniad, buasai yn dda gennyf afaelyd mewn rhyw gyfundraeth arddeledig gan y cyffredin, ond ni lwyddais i gael allan un. Ceisiais y cyfryw beth yn argraphiadau diweddar yr Ysgrythyrau, ond methais a'i gael. Ceisiais ef hefyd yn y Cyhoeddiadau Cylchynol, ond gwelais yno fod pob Golygydd â'i drefn ei hun. Am hyny ymosodais i ffurfio trefn i mi fy hun; ond yn hyn cyfarfum â chynifer o rwystrau, fel y barnais yn oreu adael y dosbarth hwn gan mwyaf yn nwylaw yr Argraffyddion, gan ymddiried yn eu medrusrwydd a'u cynnefindra â'r cyfryw orchwylion.

Dywedir fod Mr. Price yn bregethwr da; yr oedd yn syml ac efengylaidd, a thebyg yw pe buasai yn talu cymaint o sylw i bregethu ag a dalodd i lenyddiaeth Gymreig, y buasai yn rhagori. Yn nechreuad ei weinidogaeth y cyfansoddodd ei bregethau goreu o ddigon. Pregethodd ddwy waith yn Aberhonddu o flaen Barnwyr y Frawdlys Sirol. Dyma dystiolaeth boneddwr o Loegr am dano fel pregethwr wedi ei glywed am rai misoedd yn haf 1826 :—"Yr oedd Mr. Price yn gweithio yn rhy galed; yr oedd ei bregethau yn fyr iawn, ac yn cael eu traddodi heb unrhyw nodiadau o'i flaen; ac er eu bod yn iachus o ran athrawiaeth, ac yn aml yn wreiddiol a tharawiadol, fel y gellid dysgwyl i bregethau dyn galluog fod, eto yr oeddynt yn dangos eu bod yn bregethau gŵr oedd yn ymddiried gormod i'w adnoddau ei hun, ac heb fod yn cyflenwi ei feddwl trwy astudio." Gallwn ni, sydd yn edrych arno yn y pellder, gasglu mai yn gywir fel hyn yr ydoedd fel pregethwr.

Gwnaeth lawer iawn yn ei ddydd dros Gymdeithas y Biblau. Ni chafodd y Gymdeithas hon erioed gefnogwr mwy zelog ac aiddgar. Efe oedd yn un yn cychwyn cangen y Fibl Gymdeithas yn Aberhonddu, a bu yn ysgrifenydd iddi tra y bu byw. Cawn ef yn Liverpool yn 1817 yn dadleu hawliau y Gymdeithas.

Mae yn rhaid i ni cyn terfynu gyfeirio at y gwasanaeth mawr a wnaeth i Lydaw. Yr oedd Mr. Price wedi cael ei daro â syndod pan ddarllenodd nad oedd yr Ysgrythyrau gan y Llydawiaid wedi eu hargraffu yn eu hiaith eu hunain. Galwodd sylw y Fam Gymdeithas at hyn yn 1819. Tua yr amser hwn dechreuodd astudio iaith Llydaw. Wedi iddo godi y mater i sylw, ni chafodd orphwys hyd nes i'r Testament Newydd gael ei gyfieithu i'r Llydawaeg, gan M. Le Gonidec. O'r flwyddyn 1824 hyd y flwyddyn 1835, daliodd Mr. Price ohebiaeth gyson â goruchwylwyr Cymdeithas y Biblau gyda golwg ar gyfieithiad M. Le Gonidec o'r Ysgrythyrau i'r Llydawaeg. Yn Adroddiad y Gymdeithas am 1827, ceir y paragraph a ganlyn :—"Gellir nodi yma fod person yn awr gyda y gorchwyl o gyfieithu y Testament Newydd i'r Llydawaeg, yr hon sydd yn dwyn tebygolrwydd

mawr i'r Gymraeg. Mae y cyfieithiad wedi ei argraffu mor belled i hanner St. Ioan; ac y mae Proffeswr Kieffer wedi danfon y prawflen i'r wlad hon, ac mae offeiriad o Gymru yn edrych drostynt, ac anfonir ei nodiadau beirniadol i'r cyfieithydd." Yr "offeiriad" hwn oedd Carnhuanawc. Edrychodd dros y cyfieithiad yn fanwl, ac anfonodd ef yn ol i M. Le Gonidec.

Pan benderfynodd y Bedyddwyr Cymreig sefydlu gorsaf genhadol yn Llydaw, penodwyd ar y Parch. John Jenkins fel cenadwr: a chyn myned allan anfonwyd ef i'r Cwmdu at Carnhuanawc i gael cyngher a chyfarwyddyd gyda golwg ar faes ei lafur.

Nid oedd neb yn llawenhau yn fwy yn mynediad y Parch. James Williams allan i Lydaw, a'i sefydliad yn Quimper, yn y flwyddyn 1842, na'r Parch. Thomas Price. "Yr wyf wedi gweled hysbysiad," meddai y diweddar Dr. Phillips, Henffordd, "am Gofiant i Carnhuanawc, ac yr wyf yn gobeithio y gwneir cyfiawnder â'i ymdrechion o blaid Llydaw."

Darfu i Carnhuanawc wasanaethu ei wlad a'i genedl â thalentau nad yw yn dyfod ond anaml i ran Cymro i'w meddu. Cysegrodd ei ddysg, ei alluoedd, ei amser a'i arian i lesoli Cymry Prydain a Chymry Llydaw. Pe buasai yn dewis, buasai yn hawdd iddo gael nodded y pendefigion oedd yn awyddus am ei gynghorion a'i gymdeithas, a dringo i gylchoedd uchel, heb lawer o waith ond gyda mwy o dâl. Tra yr oedd ei symledd naturiol a'i gariad at ei wlad a'i phobl yn ei alluogi, heb un trais ar ei natur, i ddal cymdeithas â'r tlawd, yr oedd ei alluoedd a'i wybodaeth yn ei gymhwyso i gymdeithasu â'r gwŷr mwyaf eu dysg a'u diwylliad yn Ewrop. I bawb a edmygant dalentau dysglaer, serch dwfn at ei wlad a'i lenyddiaeth, ac unplygrwydd cymeriad, bydd coffadwriaeth Carnhuanawc yn barchus ac anwyl dros byth

JOHN DAVIES.

*Pandy, Abergafenni.*

---

# ANGLADD MAB Y WRAIG WEDDW O NAIN.

MAE goslef ddwys y Bregeth ar y Mynydd
Yn cael ei chludo 'n hyglyw ar adenydd
Awelon Galilea, gan lwyr ddenu
Rhyw dyrfa fawr, i fyn'd ar ol yr Iesu.
Fe 'u swynwyd gymaint gan ei rasol eiriau,
Maent wedi derbyn cymaint o'i rasusau,
Fel nad oes fynyd awr o seibiant iddo:
Daw un â'i gloff, neu ddall, neu fyddar ato;

Rhyw dad â'i fachgen lloerig; neu ganwriad
Yn erfyn dros ei was, gan roi dadganiad
O ffydd a saif yn golofn o ymddiried
Yn eglwys Dduw dros byth. Ond daw ymwared
I bawb mewn cyni; nid oes un anhwyldeb
A saif am foment yn ei bresennoldeb.

Mae 'r Iesu a'i ganlynwyr wedi bod
Yn teithio er y boreu; erbyn hyn,
Mae 'r haul yn nesu at y gorwel pell
Tu ol i drumau Carmel, ac mae gwrid
Ei danllyd wedd yn trochi 'r Hermon bàn,
Mewn ffrwd o wawl; a Thabor gwyd ei ben,
Fel i gusanu hwyrol wên yr haul;
A than ei gysgod, wrth ei odrau 'n glyd,
Daw Nain i'r golwg—llanerch lawn o swyn—
A lecha yno mewn tawelwch dwfn.

Mae 'r dyrfa 'n fyw gan obaith a mwynhâd
Yn nghwmni 'r Iesu; gwelant ddyddiau gwell,
Yn hanes Hwn, yn gwawrio ar eu gwlad,
Mewn gwaredigaeth lwyr rhag gormes drom
Yr estron creulawn: a pha ryfedd yw
Os clywir mawl yn esgyn tua 'r nen,
Mewn seiniau pur, o galon lawn y dorf?

Ond fel mae 'r dyrfa 'n esgyn,
Hyd gribog ael y bryn,
Torf arall sydd yn disgyn,
Yn wylaidd ac yn syn:
Mae 'r ddinas sydd yn gorphwys,
Yn ngwenau haul prydnawn,
Fel yn cyd-gwrdd i arllwys
Ei gofid yno 'n llawn.

Arafa, fwyn awen, a gwel yr olygfa,
A saif yn rhyfeddod i angel a dyn:
Un marw a ddygir yn araf i'r gladdfa
Gan bedwar, ar elor ddiaddurn ei llun;
A'r ddinas a ddilyn, gan arllwys ei gofid,
Mewn cwynfan diattal, a'i dagrau yn lli';
Ond ar gŵr y dyrfa, rhyw *un* a ganfyddir
Oedd ddwysach ei galar a thrymach ei chri.

O mor amddifad yw! Fe fu cyn hyn,
Yn dilyn corff ei phriod tua 'r bedd;
A heddyw eto, dilyn gorff ei mab,—
Ei unig blentyn,—i'r un llanerch lom.
Mae 'n weddw a di-blant; mor drom yw 'r groes!
A mwy, ni wêl un man i'w rhoi i lawr!

Mae 'r nefoedd fel yn dwyn yr oll a gâr.
A'r bedd yn lledu ei safn i guddio 'r oll
O'r golwg. O! 'r fath dristwch lethai hon
Bron i'r un bedd a'i mab.
Ond llygad Un
Sydd arni, ŵyr ei helynt tywyll oll.
"A'r Arglwydd pan ei gwelodd,"—yn y fan,
Ei gydymdeimlad rêd yn fywiol ffrwd.
Fel arfer, at y trallodedig rai!
Ai hwn yw 'r angladd cyntaf gwrddodd Ef?
Ai 'r weddw athrist hon yw 'r gyntaf un
Yn dilyn corff ei phlentyn tua 'r bedd
A welodd? Ond ni welodd un erioed
Na hon mewn dyfnach galar, duach nos!
"Nac wyla!" meddai.
Try ei golwg syn
At un a fyn ei chyfarch, pan y mae
Ei henaid bron ar drengu. A wêl Efe
Un arwydd gofid arni? Pa fath iaith
Estronol yw, "*Nac wyla!*" Pwy a fedd
Fwy achos wylo? . . .
O olygon heirdd!
Un olwg arno Ef rydd esmwythâd
I'w chalon friw; hi baid a wylo; gwawr
O obaith gyfyd yn ei chalon lesg
A ddaw cyn hir yn sicrwydd tawel, cryf,
Yn sŵn ei eiriau awdurdodol Ef:
Ac O mor swynol,—fel mae 'r weddw drist
Yn dechreu teimlo glân i'w gofid dwfn!

Hawdd gofyn paham mae yr Iesu yn gynta',
Yn myn'd at y weddw, gan ddywedyd "Nac wyla."
Ai nid yw yn gwybod dyfnderoedd ei allu,
Ai nid yw yn gwybod ei fod ar gyflawni
Un weithred ryfeddol a fydd yn ddigonol,
Heb erchi, i sychu ei dagrau yn hollol?
O gŵyr; ond er hyny ni fyn wneyd y mwyaf,
Heb roddi amlygiad o'r fynwes dyneraf.
Mae 'r fath ragarweiniad i wyrth mor ryfeddol,
Yn ddrych a ddangosa dosturi anfeidrol,
Mor eglur â'r gallu di-drai ddaw i'r golwg,—
Gwir allu y Duw-ddyn,—mewn gweithred mor amlwg.

Mae 'n gadael y weddw, mae 'r dorf yn ymagor
I wneuthur ffordd iddo. Mae 'n cyffwrdd â'r elor!
A'r rhai sy 'n ei dwyn a safant mewn dychryn,—
A saif y ddwy dyrfa. Pa beth sydd i ddilyn!
Rhyw foment o bryder angerddol oedd hono
I'r dyrfa, a safent fel delwau yn gwylio.
Pa beth fydd y diwedd? Ai rhyfyg gorphwyllog,
A'i gyr tros derfynau rheolau sefydlog,

A deddfau ein crefydd, nes sarnu teimladau
Tyneraf pob mynwes, a gwatwar ei briwiau?

Ond trwy y dystawrwydd, llef uchel gyfoda,
A dreiddia fel mellten trwy enaid y dyrfa—
"Y mab ieuanc, yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod!"

O eiriau beiddgar, oes rhyw ystyr iddynt?
Ai geiriau un o'i bwyll, neu gabledd ydynt?
Mae teyrnas lom marwolaeth yn eu herbyn,—
Y ffordd ddisathr,—a holl allu 'r gelyn,
Hen elyn Duw a dynion. Wêl y geiriau
Ryw ffordd i dreiddio trwy diriogaeth angau,
Nes d'od o hyd i'r enaid noeth, a'i gludo
Ar eu hadenydd, at yr arch a'r amdo?

Anfeidrol Nerth a dreiddia gyda 'r llef,—
Nerth sydd yn drech na gallu angau 'i hun;
Y nerth a ddygodd fydoedd fyrdd i fod
O'r tryblith gwyll; y nerth sy 'n dal yr oll
Yn eu cylchrodau cyson; nerth a saif,
Ryw foreu ddaw, uwch ben mynwentydd byd,
Gan wasgar bywyd, nes diddymu 'n llwyr
Bob olion o farwolaeth; dyna 'r nerth
A redai allan yn y ddwyfol lef,—
Ac yn ei rym *y marw ddaeth yn fyw!*
Cyfododd yn ei eistedd yn eu gwydd,
Gwrid ddawnsia ar ei ruddiau. Yna try
Ei olwg ar y dyrfa syn; ond UN
Sydd yn ei dynu ato 'i Hun yn llwyr,—
Yr Un a roes y llef, yr Un a ddyg
Enaid yn ol o'r byd ysbrydol pell.
Hwn yw ei Berchen mwy; ni faidd, ni fyn
Ond caru Hwn. Ond—O dynerwch pur—
Yr Iesu roes y llanc yn ol i'w fam!

Pwy all ddarlunio 'r cyfarfyddiad hwn?
Y cyfarfyddiad rhwng y fam a'i mab,
Ar ol y fath ysgariad? Oedd y fam
Yn adrodd wrtho am y galar dwfn
Yr aeth ei henaid drwyddo, am yr ing
Oedd yn dirwasgu 'i henaid bron i'r bedd
Ar ol ei golli; neu 'n adgofio am
Yr adeg dywell,—diwrnod claddu 'i dad?
Ond cwyd yr enedigaeth ryfedd hon
Ei chalon lawn i fyny at yr Hwn
A roes ei bachgen iddi 'n ol drachefn!
Mewn parch mae 'n d'od, gan syrthio wrth ei draed;
A'r olwg arni rydd y dorf ar dân,
Oedd fel yn fud gan o'n; a chyda bloedd,
Sydd yn adseinio trwy ororau 'r wlad,

Dyrchafant fawl i'r Iesu. "Prophwyd mawr
Gyfododd yn ein plith; ymwelodd Duw
A'i bobl." A sain y floedd a rêd fel tân,
A'r son am dano sydd yn llauw 'r tir;
Ac ar adenydd oesau ddaw, fe ddwed
Yn hyglyw, am y weddw gynt o Nain,—
Ei mab,—ac am yr Iesu; ac fe saif
Y wyrth ryfeddol yn rhyw golofn byth,
O allu, gras, a chariad MAB Y DYN.

*Seacombe.* JOHN EDWARDS.

---

# SMITH AR ESAIAH.

*The Book of Isaiah.* By the Rev. GEORGE ADAM SMITH, M.A. In two Vols. Vol. I. Isaiah I.—XXXIX. London: Hodder & Stoughton.

Y MAE hwn yn waith tra phwysig a gwerthfawr. Byddai yn dda genyf allu gosod ger bron darllenwyr y TRAETHODYDD ychydig o nodweddion cyffredinol y llyfr, ynghyd ag ychydig ddyfyniadau, fel ag i roddi mantais iddynt gael rhyw syniad am ei rediad a'i werth.

Fe elwir y llyfr yn *Exposition* ac nid *Commentary*. Byddai tynu llinell o wahaniaeth rhwng y ddau air yn tybied gormod o wybodaeth ar fy rhan i, neu ry fychan ar ran y darllenydd. Fodd bynag, fel yr wyf fi yn eu deall, *Exposition* ydyw y gair priodol i'w ddefnyddio i osod allan natur y gwaith hwn; o herwydd y mae yn llythyrenol ddwyn i'r golwg y gwirioneddau mwyaf prydferth a dwyfol. Y mae yr awdwr fel dyn yn cerdded trwy ystôr fawr, ac yn barhaus yn cyflwyno ger ein bron y defnyddiau mwyaf gwych, a'r defnyddiau hyny yn aml wedi eu dwyn allan o'r cornelau mwyaf llychlyd ac anhygyrch. Neu y mae fel dyn yn araf gerdded y wlad, yr hwn yn aml sydd yn rhwygo croen y ddaear dan ei draed, ac yn cyfeirio ein sylw at y mwnau cyfoethog sydd yn gorwedd islaw.

Y mae y llyfr yn hynod ddarllenadwy. Byddai dyweyd ei fod mor ddarllenadwy ag unrhyw ffugchwedl yn debyg o beri camargraff; o herwydd nid darllenadwy ydyw am ei fod yn ysgafn, ond am ei fod yn sylweddol. Yma chwi a gewch feddwl clir yn sefyll uwch ben ei fater, ac enaid llawn brwdfrydedd yn ymdrin âg ef. Y mae yma lawer o newydd-deb yn y dull y cyflwynir y gwirionedd ger ein bron. Dyma yr hyn a ddywed am *dristwch*:—"Fe erys yr anhawsder byth, pa un a gamddefnyddir fwyaf gan ddynion, ai eu tristwch, ai eu llawenydd; ond nis gall yr un enaid difrifol ammeu am foment pa un o'r ddau yw y mwyaf dinystriol (sef pa un ai y camddefnydd wneir o dristwch ai ynte o lawenydd). Yn y naill amgylchiad, y pechod yw rhoddi ffordd i

demtasiwn; yn y llall y pechod yw gwrthwynebu yr Ysbryd Glân. Cenadwri ddiweddaf Duw at ddyn ydyw tristwch: Duw yn siarad gyda *phwyslais* ydyw. Y mae y dyn sydd yn ei gamddefnyddio yn dangos y gall gau ei glustiau pan y mae Duw yn llefaru uchaf. Y mae calongaledwch ac anedifeirwch ar ol tristwch yn fwy peryglus na bod yn anghymedrol mewn llawenydd; y mae y canlyniadau bob amser yn fwy pruddaidd. Y mae y camddefnydd wneir o dristwch yn ddwbl—sef trwy ei gamgymeryd, a thrwy ei herio."

Dyma hefyd a ddywed am *ddifaterwch* neu *galongaledwch:* "Y mae gan eglwys Dduw i ddysgu na bydd i unrhyw ychwanegiad at ffurfiau na threfn brydferthach arnynt, adennill yr addolwyr o gyflwr o galongaledwch. Nid ydyw dideimladrwydd ond y gragen, yr hon a gynnyrchir gan y teimladau mewn hunan-amddiffyniad pan y gadewir hwynt gan yr enaid marwaidd a diddylanwad i guro ar barwydydd caled ffurfiau. Ac nid oes dim a dodda y gragen hon o galedwch ond y fflam angerddol hono yr hon a gynneuir gan gyffyrddiad yr Ysbryd Dwyfol a dynol â'u gilydd; pan y cwympa ffurfiau ymaith, ac y cenfydd yr enaid gyda gwyneb agored y Tragywyddol ei hun."

Drachefn, pan yn cymharu y *byd* â *chrefydd*, dywed: "Mor gyffredin ac anmherthynasol ydyw rheolau syml crefydd, yn ymyl hawliau beiddgar, bostfawr, a sarhaus y byd; ac fel y mae chwerthiniad uchel a gwynebgaled y byd yn peri i brydferthwch purdeb ac anrhydedd welwi."

Dylid dyweyd cyn myned ymhellach nad yw yr awdwr yn ymdroi ond ychydig gyda chwestiynau rhagarweiniol, megys hanes y prophwyd, neu ysbrydoliaeth y llyfr. Ymdrina ychydig âg amseryddiaeth y llyfr, at yr hyn y ceir galw sylw eto. Dywed hefyd fod yr esboniad yn seiliedig ar astudiaeth fanol o'r testun Hebraeg. Ymddengys ei fod wedi cyfieithu yr holl lyfr o'r gwreiddiol, ond er ein gofid nid oedd cynllun y cyhoeddwyr, dybygid, yn caniatâu i ni gael dim ond yr esboniad heb y testun.

Ymae y gyfrol gyntaf, a'r unig gyfrol hyd yn hyn sydd wedi ei chyhoeddi, yn cymeryd i fyny y 39 pennodau cyntaf o'r brophwydoliaeth. Dyma fel y dywed yr awdwr: "Y mae pawb yn gwybod fod llyfr y prophwyd Esaiah yn ymranu yn ddwy ran rhwng pennodau xxxix. a xl. Y mae y gyfrol gyntaf o'r esboniad yn cynnwys y 39 cyntaf; a bydd yr ail gyfrol yn cynnwys y gweddill. Eto, y mae rhaniad arall yn amlwg ar y pennodau cyntaf hyn. Y mae y rhan fwyaf o'r pennodau yn dwyn perthynas amlwg âg amgylchiadau yn ystod oes y prophwyd, tra y mae eraill yn cyfeirio at amgylchiadau hanesyddol na chymerasant le hyd ymhell ar ol i'r prophwyd ymadael." Cymhwysir gan yr awdwr amseryddiaeth manwl at y llyfr.

Y mae yr amseryddiaeth hwnw yn cael ei benderfynu gan bedwar ymosodiad o eiddo yr Assyriaid ar wlad Canaan. Gwnaed y cyntaf yn 734—732 C.C., pan oedd Ahaz yn teyrnasu, gan Tiglath-pileser II.; yr ail gan Salmanassar a Sargon yn 725—720; y trydydd gan Sargon, 712—710; y pedwerydd gan Sennacherib, 701. Gwnaed y tri olaf yn ystod teyrnasiad Hezeciah. Yn ychwanegol at yr adegau neillduol hyn yn hanesyddiaeth y wlad, y mae tri amser neillduol yn hanes y prophwyd: ei alwad yn 740 C.C.; marwolaeth Ahaz, a dyrchafiad Hezeciah ei

ddysgybl yn 727; ac ymosodiad Sennacherib ar y wlad yn 701. Gan gymeryd mantais ar yr amseriadau uchod, y mae wedi dosbarthu yr esboniad i bedwar o lyfrau, pob llyfr yn cynnwys cyfnod penodol: y llyfr cyntaf yn ymestyn dros yr amser o alwad y prophwyd hyd farwolaeth Ahaz, 740—727; yr ail yn cynnwys prophwydoliaethau o ddyrchafiad Hezeciah yn 727 hyd farwolaeth Sargon yn 705; y trydydd yn cynnwys yr amryw brophwydoliaethau ynglŷn â'r yni gwladwriaethol oedd ymysg y genedl ar farwolaeth Sargon, o 705 hyd 701; y pedwerydd yn dwyn perthynas âg ymosodiad Sennacherib ar Jerusalem yn 701. Ychwanegir gan yr awdwr lyfr arall yn cynnwys prophwydoliaethau cyfeiriedig at amgylchiadau y tu allan i amser Esaiah.

Effaith yr amseryddiaeth manwl a gymhwysir gan yr awdwr ydyw cymeryd allan amryw bennodau o'u cysylltiadau fel y maent yn Esaiah, fel y ceir pennodau lled ddiweddar yn gynnar yn yr esboniad, ac i'r gwrthwyneb. Cymhwysir yr amseryddiaeth hwn gan yr awdwr at yr oll o'r 39 pennod, ond yn unig y bennod gyntaf, yr hon er ei llefaru yn 701, sef deugain mlynedd ar ol i yrfa gyhoeddus y prophwyd ddechreu, eto a ddodir yn gyntaf yn y brophwydoliaeth ac yn yr esboniad, a hyny o herwydd ei chymeriad neu ei chynnwys, yn fwy na'i hamseriad. Y cymeriad hwnw iddi ydyw, ei bod yn cynnwys y prif linellau sydd yn rhedeg trwy y llyfr i gyd, ac felly yn ffurfio arweiniad naturiol i'r oll.

Y mae yr esboniad yn y ffurf o ddarlithiau neu erthyglau, y rhai sydd yn cymeryd i mewn gynnwys pennod, ond weithiau lai, ac weithiau fwy. Mewn gair, y mae y rhan a gynnwys erthygl yn cael ei benderfynu yn hollol gan y gwirionedd yr ymdrinir âg ef; ac y mae y gwirionedd hwnw weithiau yn ymestyn dros bennod neu ddwy, neu ychwaneg, ac weithiau lai. Y mae wedi gadael heibio y dull cyffredin o ymdaith y wlad o gam i gam, ac arolygu y gwirionedd o adnod i adnod; yn hytrach, y mae wedi cymeryd ei safle ar fangre amlwg, ac oddiyno yn penderfynu daearyddiaeth y lle,—nid i ganlyn gwrychoedd a chloddiau mympwyol ac arwynebol pennodau ac adnodau, ond yn unol â *natur*. Y mae ei ddaearyddiaeth yn cael ei phenderfynu gan ei ddaeareg; yr allanol gan y mewnol. Yr wyf fi yn tybied ein bod yn ennill trwy hyn; o herwydd y mae dull o'r fath yn ymaflyd yn ac yn cyflwyno ger ein bron y *prif wirionedd;* ac unwaith y ceir syniad clir am y gwirionedd arweiniol, nid yw y perygl agos gymaint i gamesbonio brawddegau neillduol. Y mae y dull hwn yn dwyn y gwirionedd i ganolbwynt, yr hyn a bâr i'w ddylanwad fod yn llawer cryfach na phe yr edrychid arno yn wasgaredig, neu tra yn myned heibio i ni o ychydig i ychydig, o adnod i adnod.

Y mae rhai o'r materion yr ymdrinir â hwynt yn yr erthyglau hyn yn hynod ddyddorol, megys—"God's Commonplace;" "Atheism of force and Atheism of fear;" "The Spirit of God in man and the animals;" "Politics and Faith;" "Man, or character and the capacity to discriminate character;" "Isaiah to Women;" "An Old Testament believer's Sick Bed; or the difference Christ has made;" "Had Isaiah a Gospel for the individual?" &c.

Gadawer yn awr i ni gymeryd sylw ychydig yn fwy manwl o rai o'r erthyglau hyn. Y mae rhai o honynt heb fod mewn cysylltiad âg un-

rhyw bennod yn neillduol. Erthyglau ydyw y rhai hyn sydd yn cyflwyno ger ein bron amgylchiadau neu wirioneddau neillduol, fel materion wrthynt eu hunain, er deall o honom y cyfeiriadau wneir atynt yn nghwrs y gwaith. Un o'r materion hyn ydyw, "Byd y Prophwyd." Dywed yr awdwr nad oes modd deall hanes Palestina heb i ni feddu drychfeddwl am ei safle ddaearyddol. Y mae Syria, yr hon a gauir i fyny ar y naill law gan Fôr y Canoldir, ac ar y llaw arall gan anialwch Arabia, a'i rhediad yn naturiol yn Ogleddol a Deheuol, neu yn fwy cywir yn Ogledd-Ddwyreiniol a Deheu-Orllewinol, a hyny i wastadeddau neu ddyffrynoedd cynnyrchiol, llawn o afonydd, y rhai bob amser a werthfawrogid yn y Dwyrain. Y mae rhanau fel hyn bob amser yn dylanwadu yn ddwbl ar y byd; ar y naill law, denant lwythau newynog yr ucheldiroedd a'r diffaethleoedd cymydogaethol; ac ar y llaw arall, anfonir hwy ymaith drachefn yn fyddinoedd dysgybledig ac anorchfygol. Y dyffrynoedd mawrion oedd yn tynu tô ar ol tô i ymsefydlu ynddynt, oeddynt yr Aipht ac Assyria. Yr oedd holl fyd y Prophwyd yn gorwedd rhwng yr erchwynion hyn. Ond rhwng y gwledydd cryfion hyn â Chanaan, yr oedd amryw fân deyrnasoedd yn gylch o'i hamgylch, y rhai oedd yn llawn o breswylwyr, ac yn barhaus yn cael eu cyffroi a'u hysgwyd gan anghydfod. Gwelir yma amddiffyniad y Brenin mawr i Ganaan; yr oedd y mân deyrnasoedd—Moab, Edom, Hamath, &c., yn rhy wan i wneyd ymosodiad unigol ar Israel, ac mewn gormod o elyniaeth at eu gilydd i ymuno er gwneyd ymosodiad; ond pan mewn dychryn gan swn rhuad y llew o Assyria neu yr Aipht, pan yn ymdaith tua'u gwlad, cymhellid hwy i ymuno er hunanamddiffyniad. Hefyd dyma oedd y ddwy wlad fwyaf a chryfaf, ac yr oedd y ddwy â'u llygaid ar Ganaan, ac felly pan y bygythiai y naill ymosod, ysgyrnygid arni gan y llall. Felly er deall y mynych gyfeiriadau at y naill wlad a'r llall yn y brophwydoliaeth, rhaid i ni feddu drychfeddwl am eu safle ddaearyddol, a'u perthynas wleidyddol â'u gilydd.

Pennod ddyddorol arall ydyw yr un sydd gan yr awdwr ar Alwad a chysegriad Esaiah i'w swydd. Ymddengys mai gwron y prophwyd yn nyddiau ei ieuenctyd oedd y brenin Uzziah, neu Azariah. Un diwrnod aeth y brenin i'r deml i aberthu â'i ddwylaw ei hun; ac fel cerydd arno am wneyd yr hyn ni pherthynai iddo, tarawyd ef â'r gwahanglwyf. Darfu i'r amgylchiad eangu bryd, neu syniadau ysbrydol y prophwyd. Ymeangodd ac ymestynodd yr hyn oedd ffugyrol a gweledig ynglŷn â'r deml, nes y daeth yr oll yn sylweddau ysbrydol. Y mae yn gweled yr Arglwydd yn eistedd ar orsedd uchel a dyrchafedig, a'i odrau yn llenwi y deml. O amgylch yr orsedd yr oedd angelion yn llefain "Sanct, Sanct, Sanct;" gwynebau a thraed y rhai oeddynt guddiedig rhag yr Anfeidrol Sanct. Ystyr y gair sanctaidd ydyw "gosod o'r neilldu," "gosod mewn pellder oddiwrth." Ac felly y gwelai y prophwyd yr Arglwydd trwy gyfrwng y weledigaeth hon, yn cael ei gario i'r pellder oddiwrtho; fel yr oedd y gwahaniaeth rhwng gweithred hyf y brenin a'r pellder ofnadwy, ynghyd a'r mawrhydi dwyfol y preswyliai yr Anfeidrol ynddo, y gwahaniaeth rhwng trwst dibarch y bobl yn y deml, ac addoliad gwylaidd yr angelion o amgylch yr orsedd, yn llenwi y prophwyd â theimlad parchedig o fawredd Duw.

Yn dilyn hyn y mae mwg yn llenwi yr holl le; nid mwg yr arogldarth cymeradwy, ond y mwg neu y niwl hwnw sydd bob amser yn codi o gyffyrddiad sancteiddrwydd â phechod, fel dwfr a thân â'u gilydd; neu y dylni sydd yn amgau meddwl eiddil yn mhresennoldeb gwirionedd mawr; neu y tywyllwch sydd yn syrthio ar lygad afiach pan yn agored i lewyrch tanbaid haul hanner dydd. Mewn gair, y cywilydd hwnw ydyw, a deimlir gan y prophwyd yn mhresennoldeb y Duw Anfeidrol, nes llefain o hono, "Gwae fi, canys darfu am danaf." Yna ehedodd ato un o'r seraphiaid gyda marworyn, er cymeryd ymaith ei anwiredd. Yn awr y mae maddeuant yn ei wneyd yn ddigon tyner a llednais ei deimlad i glywed lleferydd Duw: "Pwy a anfonaf, a phwy a ä drosom ni?" Ac y mae yr un maddeuant yn ei wneyd yn ddigon gwrol i ateb: "Wele fi, anfon fi." Y mae mewn gair yn gwybod ei ddyledswydd, ac yn meddu gwroldeb i'w chyflawni; ac y mae y naill a'r llall yn codi o'r ymwybyddiaeth o faddeuant. Yn dilyn hyn y mae gan yr awdwr sylwadau rhagorol ar y mater—*Beth yw galwad i weinidogaeth yr efengyl yn ngoleuni galwad y prophwyd.* Mewn adeg fel hon, adeg o benbleth a chyfyng-gynghor, yn gystal ag adeg pan y mae swyn llawer gwasanaeth buddiol arall yn galw arnom, byddai yn dda i ni dalu sylw ystyriol i'r egwyddorion a gynnwysir yn ngalwad y prophwyd. Ni ddarfu iddo gael galwad yn ystyr gyffredin y gair, sef galwad oedd yn ei orfodi; nid oedd yr un llais yn gorchymyn iddo fyned; na'r un o'r "galwadau" a ddymunir mor fawr gan eneidiau hwyrdrwm i'w rhyddhau hwy oddiwrth y cyfrifoldeb o benderfynu y swydd yr ymgymerant â hi. Ar ol profi blas maddeuant a glanhâd, gadawyd ef iddo ei hun. Nid oedd yno yr un wŷs na gorfodaeth; ond clywodd y cwestiwn yn cael ei ofyn, nid iddo ef yn neillduol, ond yn gyffredinol: "Pwy a ä drosom?" Ac yn wirfoddol efe a ymaberthodd i'r gwaith. Nid aberth ydyw yr ymostyngiad hanner-cysglyd hwnw i nerth amgylchiadau neu dybiaethau; ond yr hunan-ymroddiad penderfynol ac ewyllysgar o eiddo enaid rhydd a rhesymol. Y mae llawer sydd yn edrych allan am ryw orfodaeth anwrthwynebol i'r weinidogaeth mewn ufudd-dod i'r farn gymdeithasol, neu dyb y cylch y maent yn troi ynddo; ac y mae eraill yn cymeryd i fyny y weinidogaeth fel y swydd y maent yn debyg o gael lleiaf o wrthwynebiad i fyned iddi. "But," meddai Mr. Smith, "God will have no drift-wood for his sacrifices, no drift-men for his ministers. We—not God—have to make the decision."

Byddai cael myned trwy rai o'r erthyglau ychydig yn fanwl yn fwy o ras nag y gellid ei ddysgwyl; ond gyda chaniatâd, gwneir sylw byr o ddwy neu dair eto. Y mae ganddo erthygl ar "Y tair Jerusalem," yn cynnwys y pennodau ii.—iv. yn Esaiah, y rhai sydd yn ddadganiad o brofiad pob un sydd wedi bod yn sefyll uwch ben cymdeithas er ceisio ei gwella. Gelwir y Jerusalem gyntaf yn *Ideal Jerusalem*, ac ef ei hun yn *Idealist.* Y mae pob diwygiwr ar y cyntaf yn cychwyn ar ei waith yn ol rhyw gynllun sydd ganddo yn ei feddwl. Y mae yno yn ffurfio gwlad berffaith, Utopia; ac y mae yn gweled ei gynllun wedi troi yr anialwch yn ardd, a'r preswylwyr yn angelion. Gweler y darluniad gloew sydd ganddo o'r Jerusalem ddychymygol hon yn pen. ii. 1—5. Ond y mae yn haws cynllunio na sylweddoli yn aml; ac felly y ceir yn

mhrofiad y prophwyd. Pan yr aeth i gymhwyso y cynllun at y preswylwyr cafodd ei siomi; yr oedd y cynllun yn rhy berffaith at ddefnyddiau mor bwdr, a digiodd gymaint wrth ddyn fel y dywed: "Peidiwch chwithau â'r dyn yr hwn sydd â'i anadl yn ei ffroenau, canys ymha beth y gwneir cyfrif o hono?" Canlyniad siomedigaeth fel hyn yn aml ydyw fod y diwygiwr yn digio, neu yn tori ei galon, ac yn troi cefn ar y gwaith. Ond ni wnaeth Esaiah hyny. Y mae cynllun drachefn yn cael ei gymhwyso ganddo, a gwelir yr effaith gogoneddus yn pen. iv. Y gwahaniaeth rhwng y ddau ydyw fod mwy o Dduw yn yr ail. Yn y cyntaf y mae y ddinas yn fwy amlwg na'r Brenin, sef yr Arglwydd; ond yn yr ail y mae y Brenin yn fwy amlwg na'r ddinas. Yn y cyntaf y mae *dynion* yn fwy amlwg na *Duw;* ond yn yr ail y mae *Duw* yn cael mwy o le na *dynion.* Mor gywir, onidê, yw y desgrifiad o brofiad pob un ag y mae ganddo rywbeth i'w wneyd i geisio gwella cymdeithas? *Idealist* yw dyn i ddechreu, yna *Realist;* ond os o ddifrif, daw i deimlo mai "Prophwyd yr Arglwydd" ydyw.

Y mae gan yr awdwr erthygl ragorol ar "Winllan yr Arglwydd, neu mai gwir wladgarwch yw cydwybod i bechodau ein gwlad." Heb ymdroi yma y mae yn syn mor debyg oedd anhawsderau mawrion amser y prophwyd i'r hyn ydynt yn awr. Nodir dau beth, sef *cwestiwn y tir,* a *meddwdod.* Y mae gwareiddiad bob amser yn cael ei ddilyn gan yr awydd i feddu, a'r awydd i wario; cydio maes wrth faes yw y naill, codi yn foreu i ddilyn diod gadarn yw y llall.

Wrth ymdrin â'r mater, "Claf wely dan yr Hen Destament, neu y gwahaniaeth y mae Crist wedi ei wneyd," dywed yr awdwr mai y gwahaniaeth mawr wnaed ganddo Ef, oedd taflu goleuni ar y tragywyddoldeb tywyll. Wrth ddarllen cân Hezecïah yn pen. xxxviii., cymerir ni i ryw fyd tywyll trymaidd, heb oleuni yn tywynu arno, nac yn debyg o dywynu. Diau fod Hezecïah, fel yr oedd y genedl yn gyffredin, yn credu mai nid diddymdra oedd y dyfodol, tu hwnt i farw; ond y byddai mewn bod ymysg eraill, wedi eu cau i fyny mewn tywyllwch dilewyrch, diobaith, digariad, a dibobpeth, da a drwg. Pwy, medd yr awdwr, wrth ddarllen cân Hezecïah, a geiriau gobeithiol seintiau y Testament Newydd, sydd heb deimlo fod Crist wedi gwneyd gwahaniaeth?

Dau amgylchiad mawr oes y prophwyd oedd Gwaredigaeth Jerusalem (pen. xxxvi., xxxvii.), ac Adferiad y brenin Hezecïah (pen. xxxviii., xxxix.) Addewir dyfodol hirfaith i'r naill, a dim ond 15 mlynedd i'r llall. Awgryma hyn y cwestiwn i'r awdwr, A oedd gan y prophwyd efengyl i'r unigol? Y modd yr atebir ydyw, mai amcan mawr cenadwri y prophwyd oedd dyrchafiad a llwyddiant yr eglwys, fel er mai unigol oedd ffurf ei gyfeiriadau, eto ei fod yn golygu cymdeithas. *Tydi,* nid *chwi,* y gelwir cenedl, pobl, &c. Ond er fod ei genadwri yn gyfeiriedig at y lliaws mewn ffurf unigol, eto nid yw heb genadwri i'r unigol wrtho ei hun. Yn un peth, yr oedd wedi myned trwy brofiad tanllyd ei hun. Hefyd yr oedd ganddo "yr unigol fel ei gynddelw." Nid teyrnas yn unig oedd y dyfodol, ond yr oedd yn frenin gogoneddus. Dwyreiniwr oedd y prophwyd; ac felly yr oedd ei ddrychfeddwl am nerth, gogoniant, &c., yn gysyllt-

iedig â pherson unigol; tra yr ydym ni, yn y Gorllewin, yn cysylltu llwyddiant wrth sefydliadau.

Heb flino y darllenydd ymhellach, terfynwn trwy ddyweyd ein bod wrth ddarllen prophwydoliaeth Esaiah yn ngoleuni yr esboniad gwerthfawr hwn yn teimlo fel pe yn cerdded trwy ddyffryn, â'r hwn yr oeddem yn gydnabyddus o'r blaen, ond eto gyda'r holl wahaniaeth yn ei ymddangosiad ag y mae dechreu haf yn ei gynnyrchu rhagor yr hyn ydoedd yn nhrymder gauaf. Ac y mae llawer pennod ynddo, nad oedd, ar yr olwg gyntaf, yn cynnwys dim ond enwau a pharotoadau i ryfel, yn troi allan yn ngoleuni yr esboniad hwn i fod yn guddfan y gwirioneddau cyfoethocaf. Ac er fod yn y brophwydoliaeth ranau, y rhai sydd bob amser fel ser dysglaer wedi tynu sylw yr eglwys; ac fel y dywed yr awdwr, "dysgleirdeb pa rai sydd wedi taflu y cyd-destunau a'r amgylchiadau cyntefig i gysgodion mwy tywyll;" eto trwy rym yr yspïenddrych a roddwyd yn ein llaw gan yr awdwr, yr ydym yn canfod ser mor ddysglaer mewn llawer cyfeiriad â'r rhai a ddarganfyddasid eisoes.

GRIFFITH OWEN.

*Wrexham.*

---

# Y GWYRTHIAU.

## I. SYLWADAU RHAGARWEINIOL.

1. *Sefyllfa Meddwl yr Oes gyda golwg arnynt.*—Un o'r prif rwystrau sydd ar ffordd llawer, yn yr oes hon, i gredu yn y Bibl fel Llyfr Duw ydyw y Gwyrthiau. Bu fel arall. Pan y rhoddwyd y Bibl gyntaf i'r byd, ni dderbynid ef fel dadguddiad o'r nef hebddynt. Gofynid y pryd hwnw am arwydd yn y ffurf o wyrth; ond yn awr, derbynir unrhyw arwydd yn hytrach na gwyrth. Cyfnewidiodd ysbryd y byd o fod yn wanc angerddol am y gwyrthiol, i fod yn edmygedd eithafol o deyrnasiad deddf. Pa un ai mantais ai anfantais i wir grefydd ydyw y cyfnewidiad hwn, nid hawdd penderfynu; ond y mae y cyfnewidiad ei hun mor drwyadl ac amlwg fel nas gellir ei wadu, a'r amgylchiadau a fu yn achlysur i'w ddwyn oddiamgylch y fath fel nas gellir eu ddirmygu. Ein dyledswydd gan hyny ydyw cydnabod yn barchus yr arwedd hon ar y meddwl dynol, ac ymdrechu ei chyfarfod yn deg yn ysbryd yr efengyl. Tra yn addef fod gan yr anmharodrwydd hwn i gredu yn y goruwchnaturiol hawl i'n hystyriaeth fwyaf pwyllog, ac i driniaeth foneddigaidd, ni ddylid colli golwg ar bwysigrwydd y gwyrthiau fel profion o ddwyfoldeb y grefydd Gristionogol, a rhan hanfodol o'r dadguddiad a roddodd Duw i'r byd. Tybia rhai, a fynant gael eu galw yn amddiffynwyr y ffydd, fod adeg gwasanaethgarwch y gwyrthiau wedi myned heibio, ac mai darpariaeth yn unig oeddynt ar gyfer sefyllfa meddwl ag y mae y ddynoliaeth bellach wedi tyfu allan o honi. Ac â

rhai mor bell a thybied mai ennill i Gristionogaeth, ar y cyfan, fuasai fod yr Arglwydd Iesu wedi ymgadw rhagddynt, fel y gwnaeth Ioan Fedyddiwr, Mahomet, a dysgawdwyr eraill, a chysegru ei fywyd yn llwyr i bregethu Efengyl Teyrnas Dduw, ac addysgu y byd yn ngwirioneddau moesol ac ysbrydol bywyd tragywyddol. Credant hyn am eu bod yn ystyried yr anfanteision diweddar a ddeillia oddiwrthynt yn fwy na'r manteision gynt. Ond priodola y dybiaeth hon annoethineb i Sylfaenydd Cristionogaeth ac i'r Duw a'i danfonodd. Cymeradwywn yn fawr y pris uchel esyd y dosbarth hwn ar y profion o'i dwyfoldeb sydd yn gorwedd yn natur ysbrydol yr Efengyl ei hun, ac yn ei gwerth fel gallu moesol i adferu dyn; ond nid priodol ei dyrchafu yn y wedd hon ar draul dibrisio y profion allanol roddwyd trwy y gwyrthiau. Mae iddynt eu lle a'u gwasanaeth parhaol yn nghynllun Duw i achub y byd.

2. *Natur a Grym y Profion Gofynol.*—Saif y gwyrthiau eu hunain yn ein dyddiau ni mewn angen am eu profi; ac nid gorchwyl anhawdd ydyw gwneuthur hyny, ond bod yn ofalus i gyfyngu y prawf i'r gwyrthiau fel *ffeithiau hanesyddol.* Yn yr ystyr hwn gorphwysant ar seiliau ansigladwy. A chaniatâu fod gwyrth o gwbl yn bosibl, nis gellir eu gwadu na'u hammeu. Penderfynir materion pwysig bob dydd, a chyhoeddir dedfryd marwolaeth yn ein llysoedd barn, ar dystiolaethau llai eglur a chedyrn. Dylid gwahaniaethu yn glir rhwng y wyrth fel *effaith,* a'r *achos* a'i cynnyrchodd. Un peth ydyw *sicrwydd y ffaith,* peth arall hollol ydyw *dull gweithrediad y gallu* a'i dygodd oddiamgylch. Fel testunau ymchwil i'r meddwl, nid oes gysylltiad hanfodol rhyngddynt, ac y mae y tystiolaethau o blaid y naill yn hollol wahanol eu natur i'r tystiolaethau dros y llall. Mae y profion o adgyfodiad mab y weddw o Nain, fel gwirionedd hanesyddol, i'w cadw yn hollol ar wahan i'r ymholiad—"Pa fodd y cyfodir y meirw?" Yr oedd y rhai a fu yn llygad-dystion o'r amgylchiad yn gwbl alluog i wahaniaethu rhwng dyn byw a chorff marw, er nad oeddent yn alluog i egluro natur y trawsnewidiad o fod yn gorff marw i fod yn ddyn byw, nac i esbonio natur y gallu a'i heffeithiodd. Pa un ai cymhwysiad newydd o allu naturiol ydoedd, ai gweithrediad deddf uwch yn gwrthweithio deddfau is natur, neu yn eu hattal, ai ynte cyfryngiad uniongyrchol gallu Dwyfol, nid yw o un pwys yn awr. Yr unig gwestiwn mewn dadl ydyw, pa un a gyfodwyd mab y weddw o farw yn fyw ai naddo,—pa un a ydyw y gwyrthiau yn weithredoedd gwirioneddol ai nad ydynt. Nid oes sicrwydd y gallasai y gwyddonwyr mwyaf dysgedig olrhain yn fanwl natur a gweithrediadau y gallu a fywhaodd y marw, pe cawsent ddyfodiad digon agos ato; ond, gydag ychydig eithriadau, penderfynir pa un ai byw ai marw ydyw holl drigolion y ddaear, ymhob oes a gwlad, gan y bobl gyffredin. Anfynych y gofynir am farn y dysgedig am un a dybir ei fod yn farw, cyn ei gladdu allan o olwg. Ar hanes y gwyrthiau y mae y Testament Newydd yn gyflawn a phendant; ar natur y gallu gwyrthiol y mae yn gymharol ddystaw; yn unig dywed na allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn oni b'ai fod Duw gydag ef, ac y mae manylu llawer ar y pen hwn yn profi yn niweidiol i'r achos. Da fyddai peidio beichio unrhyw ddeffiniad o wyrth â'r *modd* yr oedd y gallu Dwyfol yn gweithredu ynddi, gan fod hyny yn fynych yn arwain i anhawsderau, os nad i ddyryswch.

Wrth efrydu y gwyrthiau, testun cyntaf ein hymchwil ddylai fod eu *gwirioneddolrwydd*. Yna, fel casgliad naturiol, daw eu dwyfoldeb a'u dyben. Yr un modd, pan yn eu hamddiffyn ac yn ceisio argyhoeddi eraill o berthynas iddynt, eu gwirioneddolrwydd sydd i gael y lle blaenaf. Ofer sôn am ddim arall nes y byddo y ffaith allanol weledig wedi ei sefydlu. Hyn oedd baich dadl y dyn a anesid yn ddall: "Un peth a wn i, lle yr oeddwn i gynt yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled." Nid ymrwystrai efe yn gymaint gyda'r gofyniad, "Pa *fodd* yr agorodd Efe dy lygaid di?" Ac wrth ateb hwn drachefn, nid elai y tu hwnt i ffeithiau gweledig a wyddai yn sicr. Gofynir, "Pa mor bell y gall tystiolaeth brofi y goruwchnaturiol?" Gellir ateb nad yn uniongyrchol i'r goruwchnaturiol y dygir y dystiolaeth, ond i'r naturiol a'r profadwy, nad yw yn hawdd camsynied yn ei gylch; megys "dall," "poeryn," "clai," "iro," "ymolchi," a "gweled." Gwir fod y naturiol yma, os profir ef, yn awgrymu presennoldeb y goruwchnaturiol; ond nid â'r olaf y mae a wnelo y tyst, eithr â'r blaenaf. Gofynir ymhellach, "A ddichon tystiolaeth, neu unrhyw nifer o dystiolaethau, pa mor lliosog, eglur, a chedyrn bynag y byddont, sefydlu ffaith nas gellir canfod un achos iddi ond gweithrediad gallu goruwchnaturiol?" Arweinia y gofyniad hwn ni at hanfod y gwahaniaeth rhwng ammheuwyr y gwyrthiau a'r credinwyr ynddynt. Dywed y blaenaf fod bodolaeth y goruwchnaturiol ei hun yn ammheus, ac felly o angenrheidrwydd bodolaeth pob peth seiliedig arno; dywed y credadyn, gan ei fod ef yn credu yn y goruwchnaturiol, ei fod yn barod i wrando yn ddiragfarn y tystiolaethau o blaid y gwyrthiau.

3. *Gwrthddadl Hume i'r Gwyrthiau.*—Sylwedd gwrthddadl Hume ydyw, Fod yn annichonadwy cael tystiolaeth ddigon nerthol i brofi dim sydd yn groes i gysondeb deddfau natur. Dywed:—"Ni ddichon unrhyw dystiolaeth brofi gwyrth oddieithr i'r dystiolaeth fod yn gyfryw ag y byddai ei geudeb yn fwy o wyrth na'r ffaith a geisia sefydlu." Braidd nad ydym yn barod i dderbyn yr hèr, a cheisio profi mai mwy rhyfedd na'r gwyrthiau eu hunain fuasai i'r holl dystiolaethau o'u plaid fod yn anghywir a disail. Ond barna efe y tystiolaethau yn annigonol. Dywed fod profiad yn ein dysgu y dichon tystiolaethau fod yn anghywir, ond nad oes un prawf fod natur yn gwyro oddiwrth ei chwrs arferol. Gellir ateb mai trwy dystiolaeth, i fesur helaeth, yr ydym wedi d'od i wybod am gysondeb natur, gan nad oeddem yn llygad-dystion o gysylltiad yr holl achosion â'u heffeithiau yn yr oesoedd a aethant heibio. Os yw tystiolaeth o werth yn y naill, paham nad yw yn y llall? Os dywedir, fel y gwna Hume, mai profiad pawb ymhob oes a gwlad yw fod gweithrediad deddfau natur, i bob ymddangosiad, yn ddiwyro, cymerir yn ganiataol yr hyn sydd i'w brofi; oblegid y ddadl yr ochr arall ydyw mai profiad rhai, mewn rhyw oes a rhyw wlad, yw fod ffeithiau wedi dygwydd oedd yn ymddangos yn groes i drefn gyffredin natur. Dywed ymhellach—"Fod adgyfodiad dyn oddiwrth y meirw yn wyrth, o herwydd na welwyd hyny mewn un oes na gwlad." A ydyw yn golygu gwneyd eithriadau o'r rhai a gofnodir yn y Bibl? Os ydyw, dylasai ddyweyd hyny, oblegid yr honiad yw fod rhai, mewn rhyw oes a gwlad, wedi gweled adgyfodiad oddiwrth y meirw, a'u bod yn ystyried hyny yn wyrth. Ystyrir ymresymiad

Hume gan ammheuwyr y dyddiau hyn yn rhy wan i brofi yr hyn a amcanai efe iddo brofi, ac yn y ffurf ddiniwed y gosodir yr wrthddadl yn bresennol gan J. S. Mill ac eraill, nid yw yn golygu ychwaneg na bod y gwyrthiau yn ddygwyddiadau mor eithriadol fel y mae yn gofyn tystiolaethau cryfion iawn i'w profi. Cydnabyddir hyn i raddau gan bleidwyr y gwyrthiau, ac y maent yn foddlon i'r mater gael ei benderfynu yn deg yn ol natur y tystiolaethau, ond yn unig iddynt gael eu gwrando yn ddiragfarn.

Nid yw yr wrthddadl hon yn cyrhaedd y rhai a welodd y gwyrthiau, oblegid nid ar dystiolaeth yr oeddent hwy yn derbyn y profion, eithr trwy eu synwyrau corfforol a'u barn bersonol; ac nid ydym ninnau yn ymddibynu yn hollol ar dystiolaeth, gan fod ffeithiau eraill lawer yn ei chyfnerthu, ac yn cryfhau y prawf yn ddirfawr. Heblaw hyn, y mae gwrthddadl Hume yn groes i ysbryd ymchwiliadol yr oes, ac yn cloddio o dan sail gwyddoniaeth. Gwrthodir y gwyrthiau yn unig am eu bod yn anhawdd i'w hesbonio a'u cysoni â gweithrediadau cyffredin natur, tra y mae ysbryd gwyddonol yn croesawu pob peth tebyg i ffaith, ac yn gwneyd ymchwiliad trwyadl i'w natur, pa mor anhawdd bynag y byddo i'w egluro. Cydnabod ffaith ydyw sylfaen gwyddoniaeth, a thrwy ddarganfod ffeithiau newyddion yn barhaus y dygir ymlaen yr oruwchadeiladaeth. Nid yw yn cymeryd yn ganiataol fod dim yn wir nac yn anwir nes ei brofi; try o'r neilldu bob rhagfarn, a chwilia yn ddiduedd am y gwirionedd. Dyma y cwbl ofynir ar ran y gwyrthiau.

4. *Y Gwyrthiau o Natur Urddasol a Deniadol.*—Wrth agosâu at y gwyrthiau, a chymeryd ardrem gyffredinol arnynt oll, nid ydym yn canfod dim ynddynt fel gweithredoedd, nac yn amcan eu cyflawniad, sydd yn codi rhagfarn yn eu herbyn. Nis gellir dyweyd hyn am wyrthiau yr Eglwys Babaidd na'r rhai a gofnodir yn Apocrypha y Testament Newydd. Yno sonir am Iesu Grist yn gwneyd adar o glai, ac yn peri iddynt hedfan i ddifyru y plant oedd yn cydchwareu âg ef. Dywedir iddo daro yn farw un oedd yn cilgwthio yn ei erbyn ar yr heol; a phan ddarfu i egwyddor-was yn ngweithdŷ Joseph lifio ystyllen yn rhy fer, iddo Ef a'i dad cyfrifol ei thynu allan drachefn i'r hŷd gofynol. Cilia y meddwl yn ol yn reddfol oddiwrth y rhai hyn fel rhai gwrthun, pechadurus, a ffol. Ond am wyrthiau y Testament Newydd maent o nodwedd sydd yn denu y meddwl atynt; maent yn weithredoedd urddasol, caredig, a dymunol; ac, o dan yr amgylchiadau, naturiol i'w cyflawni. Pe b'ai gwyrthiau yn cael eu cyflawni o gwbl, rhai fel hyn y dysgwylid iddynt fod. Dyma weithredoedd teilwng o Dduw, a nodweddiadol o Waredwr y byd. Os ydynt uwchlaw natur, nid ydynt yn ei threisio nac yn tynu un dianrhydedd arni; eithr yn hytrach, gosodant urddas arni, trwy ei hadferu i'w naturioldeb mwyaf prydferth. Gollyngwyd y wraig oedd wedi cydgrymu ac na allai mewn modd yn y byd ymuniawni, yn rhydd oddiwrth ei gwendid i gymeryd ei ffurf naturiol gynt. Parwyd i'r dieflig ffyrnig adael trigfan y meirw, a chymeryd ei le yn esmwyth mewn cymdeithas yn ei ddillad a'i iawn bwyll. Arddangosant nerth; ond nid yn rhodresgar, nac heb wir alw am dano. Cyfranant gymwynasau i lawer heb wneyd cam â neb. Amlygant garedigrwydd pur heb ynddo ddim awydd am hunan-glod. Gwir eu bod yn weithredoedd rhyfeddol o eithriadol;

ac, i'r rhai sydd wedi sylwi yn fanwl ar gysondeb diwyro y deddfau sydd yn eu hamgylchynu bob dydd, y maent, mewn un ystyr, yn bur anhawdd i'w credu; ac nis gall y cyfryw gredu eu bod yn ffeithiau heb brofion anarferol o nerthol; er, ar yr un pryd, eu bod, mewn ystyr arall, o natur hynod dderbyniol a chymeradwy. Yn yr agwedd meddwl yma, ac yn y teimlad hwn, y dymunir myned ymlaen i ystyried y profion o wirioneddolrwydd y gwyrthiau.

II. Y Profion o'u Gwirioneddolrwydd.

1. *Tystiolaeth yr Ysgrythyrau.*—Cofnodir, yn gymharol fanwl yn yr Efengylau, lawer o wyrthiau, a chyfeirir at liaws mawr o rai eraill. Rhaid eu bod oll yn gannoedd os nad yn filoedd, ond byddai profi fod ychydig o honynt, neu hyd yn nod un o honynt, yn wyrth wirioneddol, yn sefydlu eu posibilrwydd ar unwaith, ac yn gwneuthur eu credu yn orchwyl cymharol hawdd. Cyn manylu ar dystiolaeth yr Ysgrythyrau, priodol fyddai sylwi ar esboniadau anghredinwyr ar yr hanes. Cymerwn yn gyntaf eiddo Rhyddfeddylwyr y ddeunawfed ganrif. Cyfaddefai anffyddwyr y ganrif o'r blaen fod yr Efengylau yn ddi-os yn cynnwys cofrestr o weithredoedd y mynai yr ysgrifenwyr iddynt gael eu hystyried yn wyrthiau rhyfeddol; ond dalient mai twyllwyr oedd Iesu Grist a'i ddysgyblion, ac mai castiau dichellgar ac ystrywaidd a gyflawnid ganddynt oedd yr hyn a elwid yn wyrthiau. Dywedent fod Iesu Grist yn cytuno â dynion ymlaen llaw i ffugio afiechyd er mwyn iddo Ef gael y clod o fod wedi eu hiachâu, a bod y dysgyblion wedi lladrata corff yr Iesu er mwyn twyllo'r byd ei fod wedi adgyfodi. Yr oedd y rhai a fedrai wneuthur hyn yn ddigon rhydd i unrhyw orchwyl; am hyny nid oedd un gred i'w gosod ar eu tystiolaethau. Cynnwysai y dybiaeth eithafol hon o eiddo y Rhyddfeddylwyr elfenau ei hunan-ddinystr.

Cyfododd damcaniaeth arall, hollol wahanol, sef eiddo y Rhesymolwyr, yr hon sydd yn dal fod yr Apostolion, nid yn dwyllwyr, ond yn ddynion gonest, a bod yr Efengylau wedi eu hysgrifenu gyda gofal mawr am gywirdeb hanesyddol, ond mai camsyniad oedd cydnabod fod yno wyrthiau o gwbl. Mewn llawer o'r amgylchiadau, nid oedd yr ysgrifenwyr yn proffesu hyny. Nid oedd porthi y pum' mil yn wyrth; ond mai esiampl haelfrydig yr Iesu gyda'r bachgenyn a'r pum' torth a'r ddau bysgodyn a ddilynwyd gan eraill yn y dyrfa, fel y cafwyd digon a thros ben i ddiwallu pawb. Nid oedd y darn arian yn safn y pysgodyn at dalu y dreth, yn golygu dim ond gwerth arianol y pysgodyn hwnw. Mewn amgylchiadau eraill, addefir fod ymddangosiadau a ystyrid yn wyrthiau; ond hawdd cyfrif am y camsyniad, oblegid, er fod y dysgyblion yn ddigon gonest, yr oeddent yn anwybodus ac ofergoelus, ac felly yn hawdd eu twyllo. Yr oeddent yn berffaith onest, ond nid oedd eu barn ar y gwyrthiau yn anffaeledig. Hawdd oedd cymeryd cerdded ar *lân* y môr yn gerdded *ar* y môr, gan yr ymddangosai felly o'r llong trwy dywyllwch y nos. Nid oedd y meddiannaid gan gythreuliaid ond gorphwylledd yn codi o'r dychymyg, a hollol hawdd ei wella trwy beri i'r dyoddefydd gredu fod y cythreuliaid dychymygol wedi ffoi. Ac am y rhai y dywedir eu cyfodi o feirw, nid oeddent wedi marw. Dywed yr Iesu hyny yn eglur am ferch Jairus. Tybiai y bobl fod mab y weddw o Nain wedi marw; ond gan fod y

claddedigaeth mor fuan ar ol y farwolaeth, dygwyddai camsyniad yn fynych; gwelodd yr Iesu mai amgylchiad o'r fath oedd hwn, a gorchymynodd i'r marw ymddangosiadol gyfodi oddiar yr elor, &c. Ysgrifenai yr Efengylwyr yr hanes yn syml heb un amcan i guddio dim; am hyny hawdd, meddant, ymhob achos, yw canfod y llinell derfyn rhwng y gwirioneddol a'r hyn a dybid yn oruwchnaturiol. Bu i'r golygiad cywrain hwn ei ddydd, ond y mae erbyn hyn wedi myned heibio.

Yn ddiweddarach, ymddangosodd dosbarth o esbonwyr a dderbyniant elfenau goreu y ddau esboniad blaenorol, gan wrthod y rhai gwaethaf. Credant, gyda'r Rhyddfeddylwyr, fod yr ysgrifenwyr yn bwriadu i'r gweithredoedd rhyfedd a gofnodant yn yr Efengylau gael eu cymeryd yn wyrthiau; a chredant hefyd, gyda'r Rhesymolwyr, fod Crist a'i apostolion yn ddynion cywir a gonest. Ond pa fodd i ddal gafael ar y ddau syniad hyn heb ganiatâu y goruwchnaturiol? Cyfarfod yr anhawsder hwn ydyw prif amcan y Ddamcaniaeth Chwedlaidd, neu Alegoraidd, y cyfeiriwn yn awr ati, ag sydd wedi swyno cymaint ar feddwl y byd. Yn ol hon, nid yw yr holl wyrthiau ond duwiol chwedlau a ddarfu yn raddol ymffurfio ac ymgasglu o amgylch Person y Gwaredwr. Myntumir fod chwedlau lawer yn perthyn i bob crefydd; yr oedd y paganiaid, ymhob oes a gwlad, yn priodoli gweithredoedd rhyfedd i'w duwiau, ac yn coroni eu gwroniaid â gorchestion ac â buddugoliaethau hanner dychymygol, er mwyn eu dwyfoli ar ol iddynt farw. Naturiol felly i'r Cristionogion, yn eu hedmygedd diderfyn o'u Blaenor, yn ngwrs amser, ei wisgo â gallu goruwchnaturiol; ac felly, yn raddol, daeth y dyn Crist Iesu i gael ei ystyried ganddynt yn Berson Dwyfol, ac yn wneuthurwr Gwyrthiau. Os oedd rhyw sail hanesyddol i'r gweithredoedd rhyfedd hyn, nid ydoedd ond bychan; creadigaeth ffydd ac ofergoeledd gan mwyaf oeddent; o leiaf, nid oeddent yn cynnwys elfen wyrthiol, gan fod hyny, yn ol natur pethau, yn hollol anmhosibl. Wrth fyned heibio, gellir sylwi nad yw yr wrthddadl hon hanner mor olygus ag yr ymddengys i'r rhai anwybodus am hen grefyddau y byd, oblegid nid oes genym hanes am un grefydd â gwyrthiau yn sêl ar ei sefydliad, ond crefydd y Bibl. Cysylltir gwyrthiau â sefydliad yr Oruchwyliaeth Iuddewig, ac â sefydliad y Grefydd Gristionogol; ond nid oes son am gymaint ag *un* grefydd arall yn cael ei sefydlu trwy wyrthiau. Eithr gan mai dyma y wedd arbenig sydd ar anghrediniaeth yn y gwyrthiau yn ein dyddiau ni, cyfarfod yr wrthddadl hon yn deg ydyw ein dyledswydd benaf.

Y pwnc, bellach, i'w benderfynu ydyw, Pa un ai hanes gwir a syml o fywyd Iesu Grist sydd genym, ai ychydig ffeithiau bywyd dyn da o'r enw, wedi eu gwyrdroi a'u chwyddo, gan edmygedd ei ganlynwyr, i gyfansoddi cymeriad hanner-dychymygol, a ystyrir erbyn hyn yn Berson Dwyfol. Gwna yr ammheuwyr lawer o'r ffaith nad oes gyfeiriad mewn hanes at yr Efengylau sydd genym ni wrth eu henwau, cyn y flwyddyn A.D. 180, neu oddeutu 150 o flynyddau ar ol marwolaeth ein Harglwydd, a dywedant fod yma ddigon o amser i'r chwedlau oedd ar led dyfu i'w cyflawn faintioli, ac ymffurfio yn gyfundrefn grefyddol, mewn rhan yn ddychymygol, ac mewn rhan yn wirioneddol, yn gyffelyb i'r crefyddau paganaidd, a honant mai felly y bu. Ein hymholiad ninnau yw, Ai hyn ydyw yr Efengyl? Yn ol rheolau

beirniadaeth i benderfynu dilysrwydd hen draddodiadau, nid yw 150 o flynyddau yn lleihau nemawr ar eu gwerth. Ond ni raid i ni syrthio yn ol ar hyny. Yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, mae y rhai mwyaf cymhwys i orchwyl o'r fath wedi bod yn olrhain y mater, ac yn archwilio holl lenyddiaeth y cyfnod hwn, yn unol â deddfau mwyaf manwl Gwyddoriaeth Hanesiol, i'r amcan o gael allan pa un a oedd hanes Iesu Grist, yn sylweddol fel y mae gyda ni, yn cael ei dderbyn y pryd hwnw, ai nad oedd. Nid yw o gymaint pwys pwy ysgrifenodd yr Efengylau, na pha bryd, os gellir profi fod yr hanes sydd ynddynt yn sylweddol yr un ag a bregethid gan ddysgyblion cyntaf Crist. Nis gellir rhoddi hyd yn nod dalfyriad o'r ymresymiad hanesyddol ar y pen hwn (gweler *Bampton Lectures*, 1877); ond y casgliad sicr, digamsyniol, ac anocheladwy ydyw: Fod yr hanes a gynnwysir yn yr Efengylau yn cael ei dderbyn a'i gredu gan yr Eglwys Gristionogol dros yr holl gyfnod o A.D. 180 yn ol i A.D. 80. Os cydgasgliad o chwedlau ydyw, yr ydoedd yn gyflawn o fewn i hanner can' mlynedd i'r croeshoeliad. Anhawdd i'r Cymry fuasai credu mai cymeriadau hanner-ffugiol ydyw John Elias, Williams o'r Wern, a Christmas Evans, o fewn hanner can' mlynedd i'w marwolaeth, tra y mae y rhai a'u clywodd yn pregethu eto yn fyw. Mwy anhawdd fuasai twyllo yr holl Eglwys mai cymeriad hannerffugiol oedd Iesu o Nazareth, yr Hwn yn ei ddydd a dynodd lawer mwy o sylw na'r tri uchod ynghyd, a'i pherswadio mai ffug oedd ei holl weithredoedd nerthol Ef, tra yr oedd amryw o'r rhai fu yn gwrando arno ac a iachäwyd ganddo eto heb adael y ddaear.

Dros y cyfnod oddiyno yn ol i'r Pentecost, cyrhaedda un o'r profion cryfaf ellir gael mewn hanesyddiaeth, sef Epistolau Paul. Addefa holl ammheuwyr dysgedig Ewrop ddilysrwydd ac awduriaeth yr Epistolau at y Rhufeiniaid, y Corinthiaid, a'r Galatiaid, y rhai a ysgrifenwyd o fewn wyth mlynedd ar hugain i weinidogaeth ein Harglwydd. Gellir ychwanegu pedwar eraill a addefir felly gan y *rhan fwyaf*, sef yr Epistolau at y Thessaloniaid, y Philippiaid, a Philemon. Ysgrifenwyd y cyntaf o'r rhai hyn o fewn tair blynedd ar hugain i farwolaeth Crist. Dengys Row fod Epistolau Paul yn nodedig o werthfawr fel profion:—
1. Am fod y cyfeiriadau sydd ynddynt at ffeithiau yr Efengylau yn achlysurol, ac heb eu bwriadu i fod yn brofion o gwbl. 2. Gesyd yr epistolau hyn, fel llythyrau cyfeillgar yn gyffredin, eu hawdwr yn agored ger ein bron yn holl amrywiaeth cyfnewidiol ei feddwl a'i galon, fel y mae ei holl obeithion a'i siomedigaethau yn amlwg, a'i onestrwydd y tu hwnt i ammheuaeth. 3. Dangosant ef, er yn frwdfrydig ac angerddol ei deimlad, yn ddyn o farn bwyllog a chref. Sylwer yn neillduol arno yn 1 Cor. xii., xiii., xiv., pan yn rhoddi cyfarwyddiadau gyda golwg ar wir werth ac iawn ddefnyddiad y doniau gwyrthiol. 4. Profant ei fod yn ddyn o ysbryd rhyddfrydig, eang, a goddefgar, parod i gyd-ddwyn â'r rhai oedd yn gwahaniaethu oddiwrtho ar gwestiynau heb fod yn hanfodol. 5. Gwelir oddiwrthynt, nid yn unig ei fod ef ei hun yn derbyn prif ffeithiau yr hanes efengylaidd, ond fod y rhai yr ysgrifenai atynt hefyd yn eu derbyn. 6. Fod yn yr eglwysi yr ysgrifenai atynt nifer lliosog o wrthwynebwyr penderfynol iddo, y rhai, os medrent, a wrthbrofent ei osodiadau; ond nid oes engraifft o neb yn ei wrthwynebu ar fater hanesyddol.

Er mwyn bod yn berffaith ddiogel, cyfyngir y prawf i'r pedwar Epistol a dderbynir gan bawb. Ceir yn yr Epistolau hyn fynych gyfeiriadau at yr Iesu fel Person Dwyfol, ac at yr Ymgnawdoliad, a llawer o'r ffeithiau a gofnodir yn yr Efengylau; ond dywedir nad oes yma gyfeiriad at un o'r gwyrthiau a gyflawnid ganddo. Wrth drin pynciau athrawiaethol nid oedd y gwyrthiau yn dyfod ar ffordd yr apostol; ond cyfeiria yn helaeth at y doniau gwyrthiol oedd yn yr Eglwys (1 Cor. xii., xiii., xiv). Sonia am danynt yn yr un geiriau ag a ddefnyddir yn yr Efengylau, fel "arwyddion, a rhyfeddodau, a gweithredoedd nerthol" yn 2 Cor. xii. 11, 12; a dywed yma ac yn Rhuf. xv. 18, 19, ei fod ef yn arfer eu cyflawni trwy holl ystod ei weinidogaeth. Yn Gal. iii. 5 cyfeiria yn achlysurol at y ffaith ei fod yn cael ei gydnabod gan yr Eglwys fel un oedd yn cyflawni gwyrthiau. Paul o bawb sydd yn galw sylw at wyrth fawr sylfaenol y grefydd Gristionogol, sef Adgyfodiad Crist (1 Cor. xv). Heblaw hyn, cawn ef yn amser Stephan, yn fuan ar ol yr esgyniad, yn wrthwynebwr zelog i Gristionogaeth, a sicr yw ei fod wedi rhoddi ystyriaeth lwyr i'r holl bwnc. Yr oedd yn gydoeswr ac yn gydlafurwr â'r rhai y bu yr Arglwydd Iesu yn myned i mewn ac allan yn eu plith. Gwelir felly fod y gwyrthiau wedi eu cadarnhau o fewn i chwarter canrif i'r esgyniad mewn llythyrau sydd yn awr ar gael, a bod yr awdwr,—tyst ag y mae yn anhawdd cael ei well,—wedi bod yn cymdeithasu llawer â sylfaenwyr cyntaf Cristionogaeth, a bod yr holl eglwysi yn ei amser yn coleddu yr un syniadau ag ef am y gwyrthiau, ac yn cyflwyno addoliad i'r Iesu fel Person Dwyfol. Os cyfundrefn o chwedlau ydynt, yr oedd yn ei llawn rwysg cyn ei amser ef. Rhaid gan hyny ei bod wedi cyrhaedd ei llawn dŵf mewn ychydig fisoedd, neu flynyddoedd o bellaf; yr hyn a ymddengys, yn ol natur pethau, yn hollol anmhosibl.

Wrth ddyfod at yr Efengylau fel cyfansoddiadau, gwelir ar unwaith eu bod yn dwyn nodwedd anefelychadwy yr Oes Apostolaidd. Yr oedd yr Apostolion cyntaf wedi cymdeithasu cymaint â'r Arglwydd Iesu ei Hun, ac wedi yfed mor helaeth o ysbryd ei ddysgeidiaeth, fel mai hollol hawdd ydyw adnabod cynnyrchion yr oes yr oeddynt yn byw ynddi oddiwrth weithiau y Tadau Apostolaidd yn yr oesoedd dilynol. Hawdd ydyw adnabod yr emynau gyfansoddwyd yn ngwres y diwygiad mawr yn Nghymru, megys eiddo Williams o Bantycelyn, Ann Griffiths, ac eraill, oddiwrth emynau, pa mor dda bynag, a gyfansoddwyd wedi i'r hinsawdd grefyddol oeri; ond llawer mwy hawdd ydyw adnabod cyfansoddiadau yr oes apostolaidd oddiwrth eiddo yr oesoedd dilynol. Daw hyn i'r golwg wrth gymharu dysgeidiaeth y Testament Newydd â'r hen ysgrifeniadau a ddarganfyddwyd yn ddiweddar, a elwir *Dysgeidiaeth y Deuddeg Apostol.* Er engraifft, gorchymyna y *Ddysgeidiaeth* i beidio ymprydio fel y rhagrithwyr, "Oblegid," meddai, "y maent hwy yn ymprydio ar yr ail ddydd o'r wythnos, ac ar y pummed; ond chwychwi pan ymprydioch gwnewch hyny ar y pedwerydd dydd, ac ar y ddarparwyl." Sylwa Bruce, "Mor blentynaidd y syniad fod newid dydd yn ddarpariaeth rhag rhagrith, ac mor ddwyfol yr ymddengys yn ei ymyl ddywediad ein Harglwydd: 'Fel nad ymddangosech i ddynion dy fod yn ymprydio.'"

Nis gallwn fyned i mewn yma i ddilysrwydd ac awduriaeth yr

Efengylau, ond mor bell ag i ddangos y rhaid fod y Gwyrthiau yn rhan hanfodol o'r ysgrif gyntaf o honynt, ac o ddysgeidiaeth yr Apostolion cyn dechreu ysgrifenu o gwbl. Barna rhai mai copi o Efengyl Marc ydoedd yr ysgrif wreiddiol; os felly, yr oedd ynddi o leiaf un ar ddeg o wyrthiau. Tybia eraill mai "Llyfr o Ddywediadau," wedi ei gasglu gan Matthew, oedd y ffynnonell, o ba un y cafodd yr Efengylwyr oll eu defnyddiau. A chaniatâu hyny, y tebygolrwydd yw fod yn y llyfr hwnw lawer o wyrthiau, oblegid y mae dywediadau Crist, lawer o honynt, yn anwahanol gysylltiedig â hwynt,—megys iachâd y claf o'r parlys, a'r dywediad "Ha fab, cymer gysur, maddeuwyd i ti dy bechodau." Pa fodd yr oedd yn bosibl ysgar hanes iachâd merch y wraig o Ganaan oddiwrth yr ymddyddan maith a fu rhwng yr Iesu â hi, a'r gwirioneddau a ddysgodd i'r byd trwy y wyrth ei hun? Neu, pa fodd yr oedd yn bosibl dadgysylltu yr anerchiad maith ar fara y bywyd, yn y synagog yn Capernaum, oddiwrth y wyrth o borthi y pum' mil, yr hon a'i hachlysurodd? Yn ol tybiaeth arall, yr oedd Matthew, Marc, a Luc yn defnyddio yr un ysgrif wreiddiol, a gellir dyfod o hyd i'w chynnwys trwy gasglu ynghyd yr adroddiadau sydd agos yn yr un geiriau yn y tair Efengyl. Os gwneir hyny, ceir fod oddeutu un ar ddeg o wyrthiau ynddi. Gelwir sylw at y gwahanol farnau hyn yn unig er mwyn dangos fod pob tybiaeth resymol, hyd yn nod *o eiddo* yr ammheuwyr penaf, am darddiad yr Efengylau yn rhwym o gymeryd i mewn y gwyrthiau. Diammeu i'r Apostolion ar y cyntaf ymroddi i bregethu yr hanes am yr Iesu, a chan fod cylch eu gweinidogaeth yn gyfyng, daeth ei holl gynnwys yn feddiant cyffredinol i'r Eglwys mewn ffurf draddodiadol. Nis gallasai yr hanes oedd yn fyw yn *nghof y* saint fod yn faith cyn cymeryd ffurf ysgrifenedig. Naturiol ydyw tybied i un o'r Apostolion cyfarwydd â'r gwaith, fel Matthew, ysgrifenu hanes cymharol gyflawn o'r prif ffeithiau, ac i Marc, cydymaith Petr, wneyd yr un peth o dan ei arolygiaeth ef. Addefa ammheuwyr, fel J. S. Mill, fod hanes y pedair Efengyl y fath fel y buasai yn anmhosibl i olynwyr yr Apostolion ei gyfansoddi, na'r Apostolion eu hunain a'u cydlafurwyr wneyd dim ond ei ysgrifenu fel y cawsant ef o'u blaen yn mywyd eu Hathraw. Y dysgyblion cyntaf yn ddiau, ac nid eu holynwyr yn niwedd y ganrif gyntaf a'r ail ganrif, sydd yn gyfrifol am yr hanes fel ag y mae genym yn y pedair Efengyl. Ceir ynddynt nifer mawr o wyrthiau amrywiol iawn o ran eu natur, ond yr oll yn gyfryw ag y gallai y bobl gyffredin brofi eu gwirioneddolrwydd. Cyflawnwyd hwynt yn gyhoeddus, a rhai o honynt yn lle amlaf y bobl oedd, heb unrhyw ddarpariaeth ymlaen llaw, na dim tebyg i ymdrech na methiant. Gwelwyd hwynt gan elynion penaf Crist, y rhai wedi hyny a'i rhoddasant Ef i farwolaeth, ond nis medrent eu gwadu; a sicrheir hyn oll gan dystion nad oedd yn hawdd iddynt gamsynied yn eu cylch, ac a addefir gan bawb yn ddynion gonest a chywir.

2. *Tystiolaeth Cymeriad Moesol Iesu Grist.*—Ceir fod y prawf cryfaf o'r Gwyrthiau yn cyfodi o burdeb a sancteiddrwydd dihalog cymeriad yr Iesu. Ei gydymdeimlad dwfn â dynoliaeth yn ei thrueni sydd yn rhoddi y gwir reswm paham yr oedd yn eu cyflawni; a phe anghredid y gwyrthiau a gyflawnid ganddo, y mae Efe ei hun, fel dyn perffaith, yn aros yn wyrth foesol yn hanes y byd, a'r fwyaf o'r holl wyrthiau i gyd

*Ei Gymeriad Moesol yn ymddibynu ar wirioneddolrwydd ei Wyrthiau.*—Cydnebydd Dr. Baur a'r ysgol feirniadol alluog, ond hynod ammheugar, a sylfaenodd, fod Iesu o Nazareth yn addef mai Efe ydoedd y Messïah, a'i fod yn proffesu cyflawni gwyrthiau, ond gwna hyn ar draul ei ysbeilio o'i sancteiddrwydd dilychwin. 1. Gyda golwg ar ei Fessïaeth, dywed mai cael ei orfodi i ymddarostwng at syniadau ei oes a wnaeth. Gan fod holl obeithion y genedl Iuddewig wedi cymeryd y ffurf o Deyrnas y Messïah, yr oedd yn rhaid iddo Ef, fel Diwygiwr a fynai ddyrchafu y genedl, a'r ddynoliaeth yn gyffredinol trwy y genedl, ddwyn ei gynlluniau i gydffurfiad â'i gobeithion, a phroffesu mai Efe oedd y Messïah hir-ddysgwyliedig. Nid oedd un llwybr arall yn agored iddo. Addefa Baur fod hwn yn angenrheidrwydd poenus ddigon, ond nid ydyw yn wahanol i'r hyn y gorfodir pob gwir ddiwygiwr i ymostwng i'w gyflawni. Rhaid yw iddo ddyfod i lawr at y bobl, a chydnabod fod llawer o'u syniadau a'u dysgwyliadau yn gywir a chyfreithlawn, er na fyddont felly mewn gwirionedd, ac yn raddol eu gweithio i fyny drwyddynt i sefyllfa foesol uwch. Felly yr oedd yn rhaid i Iesu o Nazareth gyfaddasu ei Hun a'i grefydd at amgylchiadau yr oes, neu, mewn geiriau eraill, gydnabod fel gwirionedd yr hyn y gwyddai nad oedd felly, ac i addef, fel hiraeth cyfreithlawn calon dyn, yr hyn nad oedd ond cyfeiliornad ei ddychymyg. Diolchwn i Dr. Baur am yr addefiad gwerthfawr fod Iesu o Nazareth yn cymeryd arno ei Hun mai Efe oedd y Messïah addawedig; ond pe buasai yn rhaid i ni ei dderbyn fel Gwaredwr y byd ar y telerau y cynnygir Ef i ni ganddo ef, dywedem yn dawel a phenderfynol y buasai cystal genym hebddo.

Cyfaddefwn yn rhwydd fod syniadau yr Iuddewon am y Messïah, ac am deyrnas nefoedd, yn anghywir, cyfeiliornus, a llygredig, ac hefyd fod yna haen drwchus o wirionedd o dan y tryblith i gyd. Ond daliwn fod Iesu o Nazareth, gyda chraffder anffaeledig, yn medru gwahaniaethu rhwng y gwir a'r gau, ac iddo, gyda gonestrwydd perffaith, nodi allan y gwahaniaeth, ac ymdrechu, gyda phenderfyniad didroi-yn-ol, arwain y bobl oddiwrth eu traddodiadau cyfeiliornus eu hunain, at addewidion pur a dyrchafedig ysgrythyrau yr Hen Destament, a'u cyflawniad yn ei Berson ei Hun. Ac mai o herwydd iddo sefyll yn erbyn syniadau yr amseroedd, a thros wirionedd digymysg, y gwrthodwyd Ef ac y rhoddwyd Ef i farwolaeth gan y genedl oedd â'i holl obeithion yn canolbwyntio ynddo, ac yn dysgwyl am ei ymddangosiad. Cymhwysa Baur yr un egwyddor at y Gwyrthiau. Drychfeddwl mawr llywodraethol y genedl oedd y byddai i'r Messïah gyflawni gwyrthiau, ac yr oedd yn fater o angenrheidrwydd i unrhyw un a broffesai ei Hun yn Fessïah i blygu i awdurdod dra-arglwyddiaethol y drychfeddwl hwn. Nid o'i fodd y gwnaeth Iesu o Nazareth addef mai Efe oedd y Messïah, ac ni fuasai byth yn ymostwng i chwareu rhan y gwneuthurwr gwyrthiau oni b'ai fod barn y cyhoedd yn ei orfodi. Angenrheidrwydd poenus yr amseroedd, medd efe, oedd yn peri iddo broffesu y naill a'r llall. Yn ol y dybiaeth hon, yr ydoedd Iesu Grist wedi ei osod mewn amgylchiadau yr oedd yn rhaid iddo broffesu gwneyd yr hyn sydd, yn ol natur pethau, yn hollol annichonadwy, sef cyflawni gwyrthiau. Yr oedd yn rhaid i'r Hwn dreuliodd ei fywyd

cyhoeddus i gondemnio ffug-ymddangosiad a rhagrith, ac a gyhoeddodd fwy o waeau uwch ben y pechod hwn na'r holl bechodau eraill ynghyd, gyfranogi o'r un camwedd erchyll ei hun. Yr oedd y Diwygiwr moesol mwyaf ymddangosodd eto yn hanes y byd, a Sylfaenydd y grefydd sydd i ddiorseddu pob crefydd arall, a'r hon, ar gyfrif ei phurdeb a'i harucheledd, sydd i fod yn grefydd gyffredinol yr hil ddynol, o dan yr angenrheidrwydd blin o ddyfod ei hun yn wag-ymhonwr a thwyllwr! Diolchwn eto am yr addefiad fod Iesu Grist yn proffesu cyflawni gwyrthiau; ond os nad ydoedd yn eu cyflawni mewn gwirionedd, ar ol cymeryd arno ei fod yn gwneyd, nis gallwn, mewn modd yn y byd, ei dderbyn fel Eneiniog Duw a Gwaredwr dynion oddiwrth eu pechodau. Ymddengys fod yn rhaid i ni, tuag at ddal sancteiddrwydd dihalog Iesu o Nazareth, gredu hefyd ei fod mewn gwirionedd yn cyflawni gwyrthiau.

Cyffelyb ydyw syniadau Renan. Dywed fod Iesu Grist yn anmharod iawn i wneuthur gwyrthiau, ac mai mewn tymher anfoddog, a chan rwgnach a beïo ar y sawl oedd yn ceisio ganddo, y cyflawnai hwynt. Nid oeddent yn wyrthiau gwirioneddol, bid sicr, ond ffug i amcanion crefyddol. Pan y darfu iddo yn ymddangosiadol gyfodi Lazarus o'r bedd, cael ei orfodi a wnaeth, gan y sefyllfa yr oedd ynddi, i gymeryd y fantais oreu ar ofergoeledd ei oes, gan y dysgwyliai y bobl wyrth, ac y byddai cyfarfod â'u dysgwyliadau yn gymhorth iddynt gredu ynddo. Hawdd i ni, gyda'n syniadau gorllewinol diweddar am onestrwydd a gwirionedd, ydyw ei feïo. Ond pwy o'r rhai sydd yn barod i wneyd hyn, ac i hollti blew gyda golwg ar ddrwg a da, a fedrai wneuthur y filfed ran o'r daioni a wnaeth Efe yn ei oes? Ac os ydynt yn ddiffygion, nid arno Ef yn gymaint yr oedd y bai, eithr ar yr amgylchiadau a'i gyrodd iddynt; ac nid oeddent yn y diwedd ond brychau ar wyneb yr haul, dysgleirdeb yr hwn sydd wedi eu llwyr guddio er ys oesoedd. Ciliodd y swyngyfareddwr a'r gwneuthurwr gwyrthiau o'r golwg, ond mae y diwygiwr crefyddol i aros yn dragywydd. Hyn, mor deg ag y gallwn ei osod mewn geiriau, ydyw barn Renan, a dyma y gwerth uchaf a fedr roddi ar gymeriad moesol Iesu o Nazareth ar ol gwrthod ei wyrthiau. Mewn atebiad iddo, gellir nodi: 1. Nid yw yr hyn a ddywed am anmharodrwydd Crist i gyflawni gwyrthiau yn gywir. Gwrthodai eu cyflawni i foddio cywreinrwydd yr Iuddewon a'u syched afiachus am y rhyfeddol; ond nid oes hanes am dano yn gwrthod yr hollol gais taer cymaint ag un a ddaeth ato am ymwared. 2. Nid yw Iesu Grist, yn ol ei farn ef, ond cymharol ddibechod; mae purdeb dilwgr ei natur wedi myned i golli. Nid hawdd ydyw credu yn y gwyrthiol; eithr nid oes un anhawsder moesol ar y ffordd i hyny, fel sydd ar ein ffordd i dderbyn person fedr ffugio, yn esiampl perffaith o fywyd sanctaidd, ac yn arweinydd anffaeledig trwy fywyd i anfarwoldeb. Ymddengys, yn ol Renan, os amddifedir ni o'r gwyrthiau, ein bod ar yr un pryd yn cael ein hysbeilio o'r cymeriad perffaith. *Nid* ydym eto yn barod i'r golled ddyblyg hon; gwell genym yn hytrach ymladd am ychydig ymhellach â'r anhawsderau sydd ynglŷn â ffydd yn y goruwchnaturiol. Ac y mae y ffaith nas gellir dal gafael yn y cymeriad pur, heb gredu iddo gyflawni gwyrthiau, yn myned ymhell iawn i brofi fod y gwyrthiau yn ffeithiau hanesyddol.

*Cymeriad Moesol Crist yn Agoriad i Ddirgelwch y Gwyrthiau.*—Nid hawdd ydyw cysoni y ffaith fod yr Iesu yn cyflawni Gwyrthiau â rhai o brif nodweddion ei garictor, megys ei addfwynder, ei ostyngeiddrwydd, ei hunanymwadiad, a'i gasineb hollol at boblogrwydd, oni fyddai yn tarddu o'r ffynnonellau mwyaf pur ac ysbrydol; ond hawdd canfod fod y deongliad uchod yn wrthgyferbyniol hollol i wirionedd. Cyflawnai Efe lawer o'i wyrthiau mewn neillduaeth, allan o olwg y bobl; ac yn fynych erfyniai yn daer ar iddynt beidio gwneyd ei wyrthiau yn gyhoeddus, yr hyn sydd yn hollol groes i dybiaeth Baur a Renan, a'r dosbarthiadau o esbonwyr a gynnrychiolant, sef ei fod yn eu gwneuthur yn unig er mwyn boddloni gwanc afiachus y cyhoedd am danynt. Yr allwedd i'r dirgelwch hwn ydyw ei gariad a'i dosturi tuag at ddynion yn eu trueni a'u dyoddefaint. Dywed Bruce, yn brydferth iawn, fod Matthew wedi cael gafael ar y gwir reswm paham yr ydoedd yn cyflawni gwyrthiau o gwbl, yn ngeiriau y brophwydoliaeth: "Efe a gymerodd ein gwendid ni ac a ddyg ein clefydau" (viii. 17). Mae y gallu gwyrthiol mor wylaidd ag ydyw o ddwyfol, fel y tystia prophwydoliaeth arall: "Ni lefain, ac ni chlyw neb ei lais Ef yn yr heolydd" (Mat. xii. 19). Nid ei awydd am fod i fyny â dysgwyliadau y bobl a'i cymhellodd i'w cyflawni, ond ei agosrwydd atynt yn eu hiselder, a'i undeb â hwynt yn eu natur, ac yn rhwymau cydymdeimlad oedd mor drwyadl fel yr ydoedd wedi cymeryd eu doluriau yn faich arno ei hun.

Dichon y gofynir,—Os ei gariad oedd y cymhellydd, paham na fuasai yn symud yn hollol bob trueni a dyoddefaint? Yr ateb i hyn yw fod ei gariad a'i allu dan lywodraeth ei ddoethineb, ac yn ddarostyngedig i amcanion uchaf ei ddyfodiad i'r byd. (1.) Fel rheol, yr oedd gallu gwyrthiol Crist, yn nyddiau ei gnawd, yn gyfyngedig i Wlad yr Addewid. Gwyddom fod eithriadau, ond y maent o'r fath natur fel y profant y rheol; "Ni'm danfonwyd i ond at ddefaid colledig tŷ Israel." (2.) Yr oedd ffydd yn elfen angenrheidiol yn nghyflawniad y gwyrthiau. Nid allai Efe wneuthur gwyrthiau yn Nazareth o herwydd anghrediniaeth y trigolion. Cymer rhai ammheuwyr fantais ar hyn i hòni nad oedd ei wyrthiau yn ddim ond dylanwad naturiol ffydd ar y rhai a iachäwyd. Anghofir nad oedd ffydd y claf ei hun yn angenrheidiol. Gwnai ffydd y canwriad y gwasanaeth ar ran ei was, ac eiddo y wraig o Ganaan ar ran ei merch; ac nis gallasai y meirw weithredu ffydd fel cyfrwng eu hadgyfodiad. Nid yw yr angenrheidrwydd am ffydd yn dangos fod terfyn i'r gallu gwyrthiol ei hun, ond fod terfyn i'w weithrediadau. Gyda chydymdeimlad tyner y llifai allan, ac yr oedd awelon oerion anghrediniaeth yn rhewi y ffrydiau. Sonia y gwyddonwyr am gael prawf wyrth wedi ei chyflawni o flaen pwyllgor detholedig o naturiaethwyr dysgedig, nad ydynt yn rhy barod i gredu mewn gwyrthiau. Mae hyn yn bur anhawdd o herwydd absennoldeb ffydd, os nad yw hefyd yn ymylu ar gabledd i gynnyg gosod Gwaredwr y byd ar ei brawf o flaen pwyllgor y Gymdeithas Brydeinig. Mae oerfelgarwch cynnulleidfa yn ddigon i rewi ffrwd hyawdledd yr areithiwr mwyaf galluog. Felly am y gallu gwyrthiol, er fod ei adnoddau yn ddiderfyn, dichon i feirniadaeth sychlyd, a gelyniaeth benderfynol, rwystro ei weithrediadau. Dyma y rheswm fod yr Iesu yn cyflawni

llai o wyrthiau ar derfyn ei weinidogaeth, wedi i'r genedl benderfynu ei wrthod Ef, na phan yr oedd yn anterth ei boblogrwydd yn misoedd cyntaf ei weinidogaeth yn Galilea. Daw yr un gwirionedd i'r golwg yn fwy amlwg fyth, yn yr angenrheidrwydd anhebgorol sydd am ffydd yn iachawdwriaeth yr enaid. (3.) Yr oedd yn rhaid i'w wyrthiau hefyd fod yn ddarostyngedig i amcanion uchaf ei deyrnas ysbrydol; rhaid i iechyd corff fod yn is-wasanaethgar i iechyd enaid, a'r bwyd a dderfydd i'r bara a bery i fywyd tragywyddol. Pan y darfu eu porthi beri i'r bobl ei ganlyn o herwydd bwyta o'r torthau a'u digoni, yr gadwodd rhag eu porthi yn wyrthiol, a pharodd i lawer o'r cyfryw ddysgyblion beidio ei ganlyn mwyach.

*Ei Gymeriad Moesol y Wyrth fwyaf o gwbl.*—Cymerwn yn ganiatad fod ein Harglwydd yn ddiddrwg, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid. Ond, gan ei fod yn ddyn, nis gallai fod felly heb fod yn wyrth foesol yn hanes y ddynoliaeth. "Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan? Neb." O'i flaen pawb yn bechaduriaid, o'i amgylch pob dyn yn llygredig, ac ar ei ol nid ymddangosodd un dibechod. Dyma fwlch yn yr olyniaeth. Dyma ddolen nad yw yn cydio âg un arall yn nghadwyn dadblygiad. Yr wrthddadl fawr yn erbyn y gwyrthiau ydyw eu bod yn tori ar gwrs cyson natur. Os felly, dyma wyrth yn sicr, o natur uwch, ar raddfa eangach, ac anhawddach ei chysoni â deddfau sefydlog na'r un wyrth arall. Saif yn hollol ar ei ben ei hun, heb neb yn debyg iddo, er fod llawer wedi eu hanfon gan Dduw heblaw Efe. Galwyd Abraham i fod yn gyff cenedl ac yn gyfaill Duw, ond yr ydym yn canfod y ddysgyblaeth foesol a ffurfiodd ei gymeriad ef. Codwyd Moses i fod yn arweinydd a deddfroddwr, ond yr ydym yn meddwl ein bod yn canfod rhai o'r galluoedd moesol oedd ar waith yn ei gymhwyso ef. Daeth Ioan Fedyddiwr oddiwrth Dduw i fod yn Rhagredegydd y Messiah, ond gwelwn ynddo ef elfenau goreu y genedl a'r grefydd Iuddewig wedi ymgorffori. Ond am gymeriad moesol Iesu Grist, saif yn ddigysylltiad. Yn ei ymyl nid yw holl sancteiddrwydd yr Hen Oruchwyliaeth ond cysgod, na'i holl brophwydi ond dysgawdwyr anmherffaith ac anwybodus; ac o'u cymharu âg Ef, nid yw apostolion penaf yr Eglwys Gristionogol ond dynion halogedig ac agored i gyfeiliorni. Yn ei enedigaeth yr ydym yn ei gael y peth Sanctaidd a elwir yn Fab Duw. Yn ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, eglurir Ef yn Fab Duw mewn gallu, ac yn Ben uwchlaw pob peth i'r Eglwys. Pe llwyddai anffyddwyr i esbonio i ffwrdd y nifer fwyaf o'r gwyrthiau a briodolir iddo, ni fuasai y gwyrthiol wedi ei symud ymaith, gan ei fod Ef ei Hun yn aros yn wyrth foesol, a'r fwyaf yn hanes y byd. Teimlir grym yr ymresymiad hwn gan yr anffyddwyr eu hunain, ac i fod yn gyson, gwadant burdeb dilwgr ei natur, er yr addefant ei fod yr engraifft agosaf at sancteiddrwydd dihalog a welwyd erioed ar ein daear ni; ond ammheuant fod sylweddoli y drychfeddwl o sancteiddrwydd perffaith yn ddichonadwy. Gesyd y Bibl Ef allan fel "yr Hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau," yn nghanol byd ag yr oedd pawb ynddo wedi pechu, ac wedi myned yn ol am ogoniant Duw. Os ydoedd y wyrth foesol aruthrol fawr hon yn bosibl, mae yr holl wyrthiau a gyflawnodd yn gymharol hawdd i'w credu.

3. *Tystiolaeth yr Eglwys.*—Mae dau nodwedd arbenig a neillduol yn

perthyn i'r Eglwys fel cymdeithas sydd yn gwneuthur ei bodolaeth yn brawf o'r gwyrthiol. (1.) Mae ei pharhad yn ymddibynu ar *argyhoeddiad personol o'r gwyrthiol;* o leiaf, yr oedd felly yn y canrifoedd cyntaf. Yr oedd y ffaith fod un yn mabwysiadu crefydd Crist yn golygu ei fod ef yn bersonol yn argyhoeddedig fod yr hanes am dano Ef ac am ei weithredoedd nerthol yn wir; ac oni b'ai fod personau yn cael eu hargyhoeddi felly yn barhaus, darfuasai yr Eglwys Gristionogol yn hollol o'r byd. Nis gellir gosod gormod o bwys ar y ffaith hon wrth ddefnyddio yr ymresymiad hanesyddol o blaid y gwyrthiau. (2.) Yr oedd bodolaeth yr Eglwys fel cymdeithas yn gorphwys ar *hanes personol ei Sylfaenydd.* Nid yw bodolaeth llawer o gymdeithasau a chrefyddau yn ymddibynu mwy ar eu sylfaenwyr nag oedd bodolaeth yr Ymherodraeth Rufeinig yn ymddibynu ar y traddodiad am sylfaenydd y ddinas. Ond am Gristionogaeth fel crefydd, a'r Eglwys fel sefydliad, y maent yn hollol ddibynol am eu bodolaeth ar Berson a gwaith eu Sylfaenydd. Symuder Crist ymaith, ac ni fydd cymaint ag un athrawiaeth yn aros, oblegid Efe ei hun ydyw y dadguddiad.

Ceisia ammheuwyr osod yr holl wyrthiau yn yr Hen Destament a'r Newydd ar yr un tir o ran eu gwerth, ac os methir profi gwirioneddolrwydd rhyw un, hònant eu bod oll mewn perygl. Dim o'r fath beth. Nid yw methu profi un wyrth gymharol ddibwys, yn penderfynu dim gyda golwg ar y gwyrthiau eraill. Pe b'ai camsyniad o barthed i un neu ychwaneg, beth sydd a fyno hyny â'r gweddill? Rhaid i bob un sefyll neu syrthio ar ei theilyngdod ei hun, oddieithr fod un o honynt o angenrheidrwydd yn brawf-wyrth. Nid oes neb yn dal ychwaith eu bod oll yn gyfartal mewn pwysigrwydd. Nid yw profi adgyfodiad y dyn y taflwyd ei gorff i fedd Eliseus mor bwysig a phrofi adgyfodiad Crist; ac nid yw y profion sydd genym o'r blaenaf i'w cymharu â'r profion sydd genym o'r olaf. Gesyd y Testament Newydd adgyfodiad Crist yn wyrth sylfaenol y grefydd Gristionogol, ac wrth hon yr oedd yr Apostolion yn foddlawn sefyll neu syrthio. Hyd nes y gwrthbrofir hon, bydd y gwyrthiol heb ei esbonio i ffwrdd; ac os profir hon, bydd y wyrth sylfaenol yn aros, a Christionogaeth ar y graig. Os Crist ni chyfodwyd, ofer yw ein ffydd ni; ond os sefydlir ei adgyfodiad Ef yn ffaith, bydd y goruwchnaturiol wedi ei sicrhau, rhagfarnau athronyddol a gwyddonol yn erbyn y gwyrthiau wedi eu dystewi, a'r prif rwystr sydd ar ffordd llawer i gredu yr efengyl wedi ei symud. Nis gellir rhoddi yma y profion o adgyfodiad Crist, ond mor bell ag y mae bodolaeth yr Eglwys yn dwyn tystiolaeth i'r ffaith. (1.) Sefydlwyd yr Eglwys yn hollol ar ffydd yn ei adgyfodiad, ymhen ychydig ddyddiau ar ol y croeshoeliad, ac yn y ddinas lle y rhoddwyd Ef i farwolaeth. (2.) Mae yr Eglwys Gristionogol, yn rhinwedd y ffydd hon, wedi bodoli am dros ddeunaw cant o flynyddoedd, ac wedi creu y chwyldroad moesol mwyaf a welwyd yn hanes y byd, ac wedi cynnyrchu cymeriadau na welwyd mo'u cyffelyb y tu allan i Gristionogaeth. (3.) Er fod yr erlidwyr creulonaf a'r beirniaid galluocaf wedi gwneuthur ymdrechion egnïol a phenderfynol i geisio siglo ffydd yr Eglwys yn ei adgyfodiad, nid ydynt wedi llwyddo i wneyd hyny hyd yr awr hon.

III. Yr Anhawsderau i Gredu yn y Gwyrthiau.

Prif anhawsder pob dosbarth i gredu yn y Gwyrthiau ydyw methu eu

cysoni â threfn gyffredin natur. Addefa y Naturiaethwyr mwyaf anffyddol fod gwyrthiau yn bosibl, os oes Duw yn bod, yn ystyr y Bibl o'r Gair, ac nid yn ystyr *Cosmic Deity* y Gwyddonwyr; ond dywedant os ydyw yn bod, mai ei drefn arferol o weithio ydyw trwy gwrs cyffredin natur. Tardda eu hanghrediniaeth yn y gwyrthiau o ddwy ffynnonell, sef o sicrwydd am gysondeb natur, ac o ansicrwydd am fodolaeth Duw; a'r ddwy ffrwd hyn, wedi ymuno, sydd yn ffurfio cenllif anffyddiaeth y byd dysgedig. Cymer y dosbarth lliosog, annysgedig, yn ganiatäol fod gwyrth yn groes i ddeddfau natur, ac am hyny daliant ei bod yn anmhosibl. Nid ydym yn cydymdeimlo â'r dynion hyny na wnant ddim â'r ammheuwyr hyn ond eu dwrdio, oblegid y mae lle i ofni ein bod ni yn gyfrifol i fesur helaeth am ein hammheuaeth hwy—(1) trwy fyw yn annheilwng o'r grefydd sydd yn wyrth foesol, (2) trwy dywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth ar fater y gwyrthiau. Credwn mor drwyadl a neb pwy bynag yn nghysondeb deddfau natur; heb hyn buasai gwyrth yn anmhosibl. Dygwydd a damwain fuasai y cwbl. Trefn gyson sydd yn gwneuthur eithriadau yn ddichonadwy. Ac i'r gwyddonydd galluog sydd wedi treiddio i mewn i sefydlogrwydd natur, ac sydd hefyd yn credu yn y gwyrthiau, y maent yn llawer mwy gogoneddus nag oeddent i'r rhai a'u gwelodd yn cael eu cyflawni. Synent hwy wrth eu gweled; ond syndod arwynebol yr anwybodus ydoedd, ac nid syndod dwfn yr athronydd naturiol.

Nid yw y dywediad fod gwyrthiau yn groes i ddeddfau natur eto wedi ei brofi, ac y mae yn bur ammheus a ellir ei brofi. Gadawer i ni, o leiaf, ddeall ein gilydd am ystyr "deddfau natur," ac am ystyr "eu troseddu." Yr ydym yn hoffi, er mwyn eglurder, y gwahaniaeth a wneir rhwng "deddfau natur" a "galluoedd natur." Mae yr ymadrodd "galluoedd natur" yn esbonio ei hun. Wrth "ddeddfau natur" y meddylir yn unig *rheolau cyson* gweithrediad y galluoedd hyn. Sonir weithiau am weithrediad deddf dysgyrchiant; *yn fanwl* nid y ddeddf sydd yn gweithredu, ond y *gallu; trefn* y gweithrediad ydyw y ddeddf. Pan y priodolir nerth i'r ddeddf, amlwg yw fod y *gallu* a'r *modd* y gweithia yn un yn y meddwl y pryd hwnw. Nid anfynych, edrychir ar y ddeddf fel *achosydd* y gweithrediadau, yr hyn sydd yn gamddefnydd gwaradwyddus o'r gair. Nis gall deddf noeth naturiol na moesol, achosi ufudd-dod iddi ei hun. Beth a feddylir eto wrth "Natur?" Pa un ai y greadigaeth faterol, ei galluoedd a'i deddfau, gan gau allan ddyn, ynte a ydyw Natur i gynnwys dyn yn meddu deall, cydwybod, serchiadau, ac ewyllys? Cauir dyn allan gan rai, a gosodir ef i mewn gan eraill. Nid yw o gymaint pwys, i'r amcan presennol, ymha le y gosodir ef, ond yn unig i ni ddeall ein gilydd.

Amlwg yw fod dylanwad dyn ar Natur, i'w llywio a'i threfnu, yn fawr iawn. Gwir na fedr ddifodi llwchyn, na dileu unrhyw allu na deddf; ond y mae ei fedrusrwydd yn helaeth i roddi cyfeiriadau i alluoedd Natur, a'u cyfuno er cyrhaedd ei amcanion ei hun. Ffrwyna y trydan, a thry ef braidd at y gwasanaeth a fyno. Par iddo gyfleu seiniau i'r glust, goleuni i'r llygad, a gwybodaeth i'r meddwl, a hyn oll heb droseddu un o'i ddeddfau. Arweinia belydrau yr haul fel ufudd weision i dynu y darluniau a ewyllysia, a hyny heb ormesu ar iawnder-

au y pelydryn gwanaf. Os na fydd un gallu yn ddigonol at ei wasanaeth, cyfuna amryw o honynt yn ol ei ewyllys. Cysyllta y tân a'r dwfr i gynnyrchu ager, a thry hwn at orchwylion lawer nas gallesid yn hawdd eu gwneyd hebddo. Dan ddylanwad ysbryd dyn y crëir ac yr adnewyddir wyneb y ddaear. Heb ei gymhorth ef nis gallasai Natur wneyd ond ychydig mewn cymhariaeth; ond yn ei law ef dichon gyflawni mwy nag sydd wedi ei ddarganfod eto. Os yw dyn, creadur meidrol, yn alluog i wneyd cymaint heb droseddu un o ddeddfau Natur, oni fedr Duw, anfeidrol mewn gallu a doethineb, wneuthur annhraethol fwy drwyddi, heb ei threisio mewn un modd? A phwy all brofi na fedr wneyd gwyrth drwyddi? Nid ein hamcan ydyw profi mai trwy Natur y mae y gallu dwyfol yn gweithredu yn y gwyrthiau; yr ydym yn dal o'r dechreu fod y *modd yn ddirgelwch;* ond dangos yr ydym nas gellir profi fod gwyrth yn groes i ddeddfau Natur. Gwyddom, er engraifft, fod bara, yn y wyrth o borthi y pum' mil, yn cael ei gynnyrchu mewn dull gwahanol i'r dull cyffredin o wneyd bara. Mae y fferyllydd weithiau yn dwyn allan sylweddau o drysorau y greadigaeth mewn dulliau anarferol, ac mewn byr amser; a phe medrai gyfuno yr elfenau amrywiol a chyfoethog sydd yn ei amgylchynu ar bob moment, fel y medr Duw eu cyfuno, pa rwystr fyddai ar ei ffordd i wneyd bara heb hau na medi, ac hefyd heb droseddu un o ddeddfau Natur? A phwy a ŵyr na ddarfu i'r Iesu, mewn dull cyffelyb, ddwyn allan, o ystorfeydd llawnion Natur, y bara a'r pysgod i borthi y miloedd, heb greu yr un gronyn newydd o sylwedd, nac ychwaith droseddu yr un ddeddf osodedig. Os dywedir na fuasai gweithred felly yn wyrth, gofynwn am brawf o'r gosodiad. Rhaid i wyrth fod yn fwy na'r hyn a fedr y ddyfais ddynol aruchelaf gyflawni trwy Natur; ond yr ydym yn methu canfod paham y rhaid i wyrth, cyn bod yn wyrth, fod yn rhywbeth amgen nag a fedr Duw gyflawni, trwy y nerthoedd rhyfeddol a'r defnyddiau cyfaddas sydd yn drysoredig ganddo yn Natur, a hyny heb droseddu un o'i ddeddfau. Rhaid i wyrth fod yn amlygiad anghamsyniadwy o gyfryngiad dwyfol i amcan goruchel; a dyna y cwbl ofynir yn ol dysgeidiaeth y Testament Newydd i gyfansoddi gwyrth.

Nis gellir profi fod yn rhaid i wyrth fod yn attaliad ar weithrediadau galluoedd Natur. Dichon y rhaid i weithrediadau rhai o'i galluoedd gael eu *haneffeithioli*, ond cymer hyn le yn feunyddiol. Un o ddeddfau sefydlog Natur yw fod gweithrediad gallu uwch yn aneffeithioli gweithrediad gallu is. Mae gallu bywyd yn y glaswelltyn distadlaf yn aneffeithioli, i fesur, weithrediad nerth dysgyrchiant arno. Er fod y gallu hwn yn pwyso yn drwm, a chyda chysondeb didor arno, fel ar y pridd sydd wrth ei wraidd, eto blagura tuag i fyny, a chyfyd gynnaliaeth iddo ei hun yn barhaus yn erbyn gwrthwynebiad penderfynol y gallu mawr hwn; eto nid oes wrthryfel yn Natur, na'r un gallu yn cael ei rwystro i gael ei ffordd ei hun.

Dywedir fod y wyrth o gerdded ar y môr yn attal gallu dysgyrchiant. Nid dyna brofiad Pedr pan ddechreuodd suddo; teimlai ef fod y gallu yno ac yn gweithredu. Yr oedd yno allu cryfach yn ei wrthweithio, dyna y cwbl. Ceir hyny bob amser pan y codir pwysau oddiwrth y ddaear. Yr unig wahaniaeth yw ein bod yn deall pa fodd y mae y gallu cryfach yn gweithredu mewn amgylchiadau cyffredin, ac

heb fod yn deall pa fodd y gweithreda yn y wyrth. Honir drachefn fod adgyfodiad o feirw yn groes i ddeddfau Natur, ac mai y ddeddf yw fod yn *rhaid* i bawb farw. Y ddeddf yw fod pawb *yn* marw. Nis gall y rheol wneyd marw yn rheidrwydd. Y cwbl a feddylir yw fod nerthoedd ar waith yn tynu i lawr i farwolaeth, ac y byddant yn sicr o wneyd hyny, yn y dyfodol fel yn y gorphenol, oddieithr iddynt gael eu haneffeithioli. Maent yn gweithio yn nghyfansoddiad dyn yn barhaus, ond fod nerth bywyd o'r tu fewn iddo yn eu gwrthweithio. Nid yw adgyfodiad yn golygu dim mwy na gweithrediad gallu digon nerthol i wrthweithio dylanwad y galluoedd sydd yn peri yr ymddattodiad, ac, ar ol marwolaeth a dadansoddiad, i sicrhau adferiad i ail fywyd. Pwy a ddywed fod hyn yn anmhosibl? Mae yr hyn a elwir yn allu bywyd wedi adeiladu, o hedyn bychan, ein cyfansoddiad rhyfedd presennol, heb droseddu un o ddeddfau lleiaf Natur; a phwy feiddia ddyweyd nas dichon yr un Duw adgyfodi y cyfansoddiad hwn, ar ol iddo farw ac ymddattod, trwy yn unig ad-drefnu defnyddiau sydd eisoes *yn bod*, a chyfuno a chyfeirio y nerthoedd gogoneddus sydd yn drysoredig yn Natur? Mae y dybiaeth fod gwyrth yn groes i ddeddfau Natur, neu yn attaliad ar gwrs naturiol eu galluoedd, yn greadigaeth y meddwl dynol yn hollol, ac nid yw y Testament Newydd yn gyfrifol am dani o gwbl.

Dull arferol Duw mewn Natur ydyw gweithio yn araf a *graddol*; *ond* dichon nad yw amser mor hanfodol iddo Ef at bob math o waith ag y mae rhai yn barod i feddwl. Nid oes dim yn fwy sicr i'r gwyddonydd na bod ein daear ni unwaith yn hollol amddifad o fywyd o unrhyw fath, na dim yn fwy amlwg na'i bod yn awr wedi ei gorchuddio â bywyd. Felly rhaid fod dechreu i fywyd arni. Pa fodd y *dechreuodd*, *nis* gwyddom. Dywed Huxley ei fod ef yn credu mai trwy ymweithiad rhyfeddol galluoedd dirgeledig Natur y dechreuodd; ond gofala ddyweyd mai yn rhinwedd ei "ffydd athronyddol" y creda hyny, a'i fod yn groes a thu hwnt i'r "wybodaeth wyddonol" y mae wedi gyrhaedd hyd yn hyn. A chaniatâu ei fod yn gywir, gellir *ymresymu*, *Os* dygwyd bywyd, fel y mae i'w ganfod yn bresennol, yn ei holl ogoniant amrywiaethol, allan o groth marwolaeth ar y cyntaf, trwy ymweithiad galluoedd Natur, paham y dywedir ei bod yn groes i ddeddfau Natur i'r meirw ail fyw eto mewn gogoniant? Ar y llaw arall, os mai trwy weithred greadigol Duw y dygwyd Natur drwodd o farwolaeth *i fywyd* ar y cyntaf, "Pa beth? ai anghredadwy y bernir genych chwi y cyfyd Duw y meirw?"

Yr hyn sydd yn ei gwneuthur yn anhawdd i lawer o'r Naturiaethwyr mwyaf dysgedig gredu yn y gwyrthiau ydyw, nad yw eu Duw hwy yn meddu ar ddeall ac ewyllys. Nid yw yn ddim amgen na phersonoliad o holl Natur a'i galluoedd yn tragywyddol ymweithio, ac yn ymweithio ar y cyfan er lles a chysur preswylwyr y ddaear; *ond* heb fod o dan arolygiaeth meddwl na llywyddiaeth ewyllys, mwy nag y mae cylchrediad gwaed dyn o dan lywodraeth ei ewyllys ef. Dywedant fod Duw yn trigo yn barhaus yn Natur, ond ei garchar ydyw hi, ac nid ei deml; gan hyny, ofer ydyw gweddïo arno, ac nid oes nemawr le i wyrth. Gan fod un o honynt hwy wedi dadgan *cyffes ei* "ffydd" ar ddyfodiad bywyd i'r byd, goddefer i ninnau wneyd cyffes o'n ffydd ar fater y Gwyrthiau.

Fod ysbryd yn medru dyfod i gyffyrddiad â mater sydd ffaith anwadadwy, os oes ysbryd mewn dyn; a chredwn nad yw "ymweithiad galluoedd Natur" yn ddim llai na Duw yn gweithio—"Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn,"—a bod y cwbl o dan lywodraeth ei ewyllys Ef, yr hon sydd yn gweithredu yn unol â'i anfeidrol ddoethineb a'i ddaioni; a bod ei drefniadau cyson a sefydlog mor ddoeth a da, fel mai peth eithriadol iawn yw myned tu hwnt iddynt mewn dim. Eto, gan fod y greadigaeth faterol yn is-wasanaethgar i amcanion uchaf ei deyrnas ysbrydol, a bod pechod a marwolaeth wedi dyfod i mewn i'w lywodraeth foesol, ei fod wrth ddwyn i mewn y bywyd ysbrydol i adferu dynoliaeth, wedi rhoddi ychydig nifer o amlygiadau o hono ei Hun mewn dull eithriadol a elwir yn "Wyrthiau." Pa un a ydoedd yn y Gwyrthiau hyn yn gweithredu trwy gyfryngau gwahanol i'w alluoedd mewn Natur nis gwyddom ni, ac ni pherthyn i ni wybod; yn unig sicrheir ni mai Duw oedd yn cyd-dystiolaethu, trwy arwyddion a rhyfeddodau ac amryw nerthoedd, er ein sicrhau "ddarfod i'r Tad ddanfon y Mab i fod yn Iachawdwr i'r byd."

Saif rhwystr arall ar ein ffordd i gredu yn Ngwyrthiau y Bibl, sef Gwyrthiau proffesedig diweddarach. Diau fod llawer o ffug-wyrthiau wedi eu cynnyg a'u derbyn fel rhai gwirioneddol; ac y mae y fath dwyll, fel pob rhagrith cysylltiedig â chrefydd Crist, yn rhwystr difrifol ar ffordd llawer i gredu yn y rhai gwirioneddol. Nid ydym yn barod i ammeu pob gwyrth ond y rhai a gofnodir yn y Bibl. Rhaid i bob un, Ysgrythyrol neu Eglwysig, sefyll neu fethu yn ol y profion. Dyger pob gwyrth i frawdlys synwyr cyffredin goleuedig a gonest, a barner hi wrth y rheolau canlynol:—(1) Amcan teilwng o Dduw; (2) Tystiolaethau clir ac anghamsyniadwy gan bersonau cymhwys ag oeddent mewn cyfleusderau i farnu; ac (3) Absennoldeb unrhyw fantais bersonol i'w chyrhaedd trwy dwyllo. Os gwneir y prawf hwn, yr ydym yn credu yn sicr y diflana agos yr holl "Wyrthiau Eglwysig," ac y saif Gwyrthiau y Bibl yn ffeithiau sefydlog, ac yn brofion anwadadwy o Ddwyfoldeb Cristionogaeth.

W. JAMES.

*Aberdar.*

---

# NODIADAU LLENYDDOL.

*A New Commentary on Genesis.* By FRANZ DELITZSCH, D.D., Leipsig. Translated by SOPHIA TAYLOR. Vol. II.

*The Prophecies of Isaiah.* Expounded by Dr. C. VON ORELLI, Basel. Translated by Rev. J. S. BANKS, Headingley College, Leeds Clark's Foreign Theological Library.

GALWASOM sylw o'r blaen at waith Delitzsch ar Genesis ar ymddangosiad y gyfrol gyntaf yn y Gyfres hon. Mae yr un a nodir uchod yn ei gwblhau. Ceir ynddo, ac mewn dull cryno a chynnwysfawr, ffrwyth dirfawr lafur mewn ymchwiliad a meddwl, er ceisio gosod ger bron ystyr y rhan yma o'r Gair. Mae efe yn dal ei afael am ei fywyd yn yr Ysgrythyrau fel yn

Ddwyfol ysbrydoledig, ac ar yr un pryd yn ymofyn i'w hystyr gyda beirniadaeth ddilyffethair ac ymchwiliad hollol rydd. Fe gaiff y darllenydd sal yn anfynych ei olygiadau ar ymadroddion neillduol dipyn yn wahanol i'r hyn y mae efe wedi arfer glywed a meddwl; ond eto yn y pen draw yn arwain i'r un gwirioneddau mawrion. Er engraifft, *angelion* oedd y "triwyr" a safent ger bron Abraham (pen. xviii.), er ei fod yn anerch un o honynt fel ei Arglwydd, ac yntau yn llefaru wrtho yntau fel yr Arglwydd: "A dywedodd yr Arglwydd wrth Abraham, &c.;" a bod Abraham yn eiriol ger ei fron dros Sodom, ac yn llefaru am dano fel "Barnydd yr holl ddaear." Nid Jehofah a dau angel oedd yno, ond tri o genadon nefol ymhlith rai yr oedd Jehofah yn amlygu ei Hun, a thri o herwydd natur driphlyg eu swyddogaeth,—addaw, cosbi, a gwaredu. Ond am fod y genadwri o ras i Abraham yn uwch na'r rhai o farn a thrugaredd i Lot, mae y ddau yn ddarostyngedig i'r un, yn yr hwn yn arbenig yr oedd Jehofah yn bresennol i Abraham. Am eu bod yn genadon Duw, y mae Abraham yn gweled yn y tri, ac yn enwedig yn yr un, a Lot yn y ddau, bresennoldeb Duw ei Hun. Felly yr oedd Duw yn llefaru wrth Moses, yn ol Stephan, "trwy law yr angel, yr hwn a ymddangosodd iddo yn y berth." Drachefn, yn y cyfeiriad at "y Siloh," y darlleniad a geir ydyw: "Nid ymedy y deyrnwialen o Judah, na ffon yr arweinydd oddi rhwng ei draed ef, nes y daw i Siloh, ac iddo ef y bydd ufudd-dod pobloedd." Ca fod Judah wedi dal ei uchafiaeth ymhlith y llwythau nes y darfu i'r genedl o ddeuddeg llwyth ymgynnull yn Siloh, pan oedd y wlad dda wedi dyfod yn eiddo iddynt. Fel yn Josua xviii. 1: "A holl gynnulleidfa meibion Israel a ymgynnullasant i Siloh, ac a osodasant yno babell y cyfarfod; *a'r wlad oedd wedi ei darostwng o'u blaen hwynt.*" Yr oedd hyn felly yn dro nodedig yn eu hanes. Y mae yn cael hefyd fod Siloh yn bwynt o ba un yr oedd arglwyddiaeth lwythol Judah yn troi yn arglwyddiaeth genedlaethol. Wedi marwolaeth Josua, Judah o hyd sydd yn llanw y lle amlwg yn hanes y genedl, nes o'r diwedd y mae brenhiniaeth tŷ Dafydd yn cael ei sefydlu; a hono yn y pen draw yn cyrhaedd ei gogoniant eithaf yn ymddangosiad y Crist, o had Dafydd, yr Hwn "a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd." "Fel hyn," meddai, "mae y brophwydoliaeth yn meddu Crist fel pwynt eithaf ei chyflawniad: y mae yn Fessiaidd heb fod raid i ni ddeall Siloh fel yn cyfeirio at berson."

Y mae Orelli o'r un ysgol, a'i lafur wedi bod yn dra gwerthfawr. Galwasom sylw tua phedair blynedd yn ol at ei lyfr ar "Brophwydoliaethau yr Hen Destament am Deyrnas Dduw, yn cael eu holrhain yn eu dadblygiad hanesyddol,"—a gyhoeddwyd yn yr un Gyfres, gwaith a gydnabyddir o werth neillduol. Ymddangosodd y gyfrol yma ar Esaiah yn Germany fel un o lawer o rai cyffelyb sydd yn gwneyd i fyny yr hyn a elwir "Yr Esboniad Cynnwysfawr," fel y mae llyfr y Parch. George Adam Smith, ar ba un y ceir erthygl yn y rhifyn hwn o'r TRAETHODYDD, yn cael ei chyhoeddi fel rhan o'r *Expositor's Bible.* Mae yn gyfrol o dri chant a hanner o du dalenau, ac yn cymeryd i fewn yr oll o lyfr y prophwyd Esaiah. Maent yn amcanu at wneyd esboniadau y gyfres yn weddol fyrion, heb lwytho y cyfrolau ond â chan lleied ag a ellid o wahanol olygiadau a phethau ag y gellid eu gadael allan. Amcana Orelli at fod yn gryno a chlir, ond gosyd ger bron feddwl y prophwyd mewn goleuni dysglaer ac ardderchog. Y mae yn wirioneddol "gynnwysfawr."

*Cofiant a Phregethau y Parch. Richard Owen, y "Diwygiwr."* Dan Olygiaeth y Parch. WILLIAM PRITCHARD, Pentraeth. Amlwch: J. Matthews.

"EFE oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo," ac yr oedd lliaws mawr o'i gydwladwyr "yn ewyllysgar i orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef." Y mae llawer o'n darllenwyr yn cofio darllen gyda mawr foddhad erthygl Mr.

Pritchard arno yn y TRAETHODYDD y flwyddyn ddiweddaf, a bydd yn llawen ganddynt ddeall ei fod wedi trefnu y cyflawnder defnyddiau oedd ganddo at ei law mewn perthynas iddo yn gyfrol hardd o rhyw bedwar cant o du dalenau. Mae y gyfrol yn hynod o ddarllenadwy, ac anhawdd, dybygid, fyddai i neb ei darllen heb deimlo ei fod trwy hyny yn cael ei wneyd yn well. Yr oedd cryn lawer o Philistiaeth yn cael ei ddangos yn y barnau a ddadgenid am Mr. Richard Owen yn ei ddydd, ac mae yn ddigon tebyg yr hona yr un ysbrydiaeth ei hawl i gyhoeddi ei ddedfryd ar y llyfr sydd o'n blaen. Ond fe brofodd efe yn allu mawr iawn yn Nghymru, ac yr oedd y dylanwad a ennillodd wedi ei gyrhaeddyd mewn ffordd hynod o deg. Yr ydoedd erioed yn efrydydd dyfal iawn o'r Ysgrythyrau; yr ydoedd ei dduwioldeb yn ddwfn a diammheuol; ac yr oedd gonestrwydd a difrifoldeb ei amcan, gyda'r tân cryf oedd yn ei ysbryd, yn peri fod ei bregethu yn anghyffredin o lwyddiannus. Dywedir fod rhywun yn crybwyll wrth Napoleon I., fod rhai o hen faeslywyddion y Cyfandir yn taeru nad oedd yn rhyfela yn ol rheolau rhyfel; ond ei ateb tawel ef ydoedd, "Yr wyf fi yn eu curo nhw." Croesaw yr un ffunud i feirniadaeth oer ddyweyd a fyno am Mr. Richard Owen, fel ysgolhaig, a duwinydd, a phregethwr; ond yr oedd efe, er gwaethaf ei ddiffygion, yn llwyddo *i gyrhaedd amcan mawr pregethu*, ac yn hyny yr ydoedd yn llawer mwy na lleng o'r rhai a fuasent, mewn ystyriaethau eraill, yn edrych i lawr arno. Ac y mae yn gysur mawr iawn i feddwl ei fod, trwy y cwbl, wedi cadw ei lwybr mor lân yn ystod ei daith fer yn y byd yma. "Cyfraith gwirionedd oedd yn ei enau ef, ac anwiredd ni chafwyd yn ei wefusau; mewn hedd ac uniondeb y rhodiodd gyda mi, a llaweroedd a drodd efe oddiwrth anwiredd." Ymddengys yn awr oddiwrth gofnodion a gedwid ganddo ef ei hun, ond am ba rai na chrybwyllodd erioed wrth neb arall, fod cryn *dair mil ar ddeg* wedi eu dwyn trwyddo i ymuno â gwahanol eglwysi ein gwlad. Mae yn ddiau, fel gyda phob deffroad cyffelyb yn hanes ein crefydd sanctaidd, fod llawer o'r rhai hyny wedi "dychwelyd at eu ffolineb, megys y mae y ci yn dychwelyd at ei chwydfa." Ond trwy drugaredd y mae lliaws mawr yn aros; a pha garedigrwydd mwy a ellid wneyd â'r rhai hyny na'u hannog i brynu y llyfr hwn? Gallai miloedd lawer hefyd, heblaw y rhai a ddygwyd at grefydd trwy weinidogaeth Mr. Richard Owen, dderbyn mwynhad a gwir adeiladaeth wrth ddarllen y llyfr. Pob clod i Mr. John Matthews, Trysorydd y Dysteb, am ymgymeryd â gofal cyhoeddiad y llyfr. Bydd yn hyfryd gan lawer o'r Cymry tirion feddwl, wrth ymdrechu o blaid lledaeniad llyfr nad all lai na phrofi yn ddaioni ac yn fendith i'r neb a'i darlleno, y cânt hefyd wneyd rhywfaint tuag at gysuro gweddw ac amddifaid gŵr ag y mae ganddynt gymaint o barch i'w goffadwriaeth, ac y teimlant gymaint o anwyldeb tuag ato.

*Llyfr y Tri Aderyn.* Gan MORGAN LLWYD o Wynedd. Gyda Rhagarweiniad gan y Parch. OWEN JONES, B.A. Liverpool: Isaac Foulkes

DYMA gyfrol arall, pris swllt, o "Gyfres y Cwinion," newydd ddyfod i'n llaw. Llawen iawn genym weled ei chyhoeddi. Mae yn arw meddwl fod triugain mlynedd wedi myned heibio er pan gyhoeddodd John Jones, Llanrwst, yr argraffiad diweddaf o'r gwaith rhagorol hwn. Yn niwedd erthygl werthfawr Dr. Edwards ar "Ysgrifeniadau Morgan Llwyd" yn y TRAETHODYDD yn 1848, fe ofynid, "Yn awr, a oes neb a gymer mewn llaw roddi argraffiad newydd a hardd o'i holl ysgrifeniadau?" Gan faint y dyddordeb a deimlid yn yr erthygl hono, a chan ddysgleiried y dyfyniadau a wneid ynddi o'r *Tri Aderyn*, ni fuasai ond naturiol dysgwyl gweled argraffiad ardderchog o ysgrifeniadau Morgan Llwyd yn fuan yn dyfod o'r wasg, ac ar unwaith yn cael ei brynu. Drachefn yn 1876, ynglŷn â

chyhoeddiad y "Gân Anghyhoeddedig"—y cawsai yr anwyl a'r galluog Ioan Pedr afael arni—yn y TRAETHODYDD, amlygid dymuniad cyffelyb am gael argraffiad o'i holl ysgrifeniadau, gyda Chofiant mor gyflawn ag a ellid, dan olygiad Ioan Pedr, ac ychwanegid: "Ni fyddai y gyfrol yn un fawr, ond byddai o werth neillduol; a gellid yn rhesymol ddysgwyl y byddai llawer yn ein dyddiau ninnau, ac yn yr oesoedd a ddeuant, fel y bu yn nyddiau ein tadau, yn ddoethach ac yn well o gymdeithasu âg ysgrifeniadau Morgan Llwyd o Wynedd. Pan y mae Cymru yn estyn marchnad rwydd i gynifer o lyfrau drudfawr a chymhwysiadol ddibwrpas a argymhellir i'w sylw gan estroniaid, ai gormod dysgwyl y rhoddai roesaw rhesymol i weithiau un o'i phlant ei hun, ac un o'r meddylwyr dyfnaf a fagodd?" Ond bu raid aros wedyn am dair blynedd ar ddeg, ac nid ydys yn awr yn cael ond *Y Tri Aderyn*. Yr ydym yn ddiolchgar, sut bynag, am ychydig, ac yn rhoddi croesaw calonog iawn i'r llyfr hwn. Ni allesid cael cymhwysach Golygydd. Nid oedd neb yn gwybod yn well am Morgan Llwyd, neb yn gallu cydymdeimlo yn fwy nawsaidd â'i ysbryd; ac y mae gyda manylder ysgolheigaidd wedi gofalu am roddi y llyfr yn ein dwylaw fel y cyhoeddwyd ef yn yr argraffiad cyntaf gan yr awdwr ei hun. Mae ei amlinelliad o "Fywyd yr Awdwr" yn rhagorol; yr unig gŵyn a deimlem yn ei erbyn oedd ei fod yn rhy gryno. Ofnwn fod ystori Morgan Llwyd yn ddyeithr bellach i lawer iawn o'n cydwladwyr; ac y mae yr awdurdodau y cyfeirir atynt gan Mr. Jones, yr un modd, allan o gyrhaedd llawer o'r rhai a ddarllenant y llyfr hwn; ond y mae ei hanes ef mor ddyddorol fel y buasai ei osod ger bron mor gyflawn ag y gellid yn rhwym o brofi yn ddyddorol i bawb a'i darllenasai, a buasai y parotoad goreu i fwynhau y llyfr. Ond yn y tair tudalen ar hugain a gymerwyd, neu ganiatawyd i'r amcan yma yn y llyfr hwn, ni allesid gwneyd gwaith gwell. Hyderwn yn fawr y cyhoeddir yr un ffunud, a than ofal yr un golygydd, y gweddill o'i ysgrifeniadau, yn ol y rhestr a geir ar tu dal. xvi. Fel yma yr ysgrifena Mr. Jones am y gwaith hwn:—

Dammeg yw y llyfr drwyddo; ond dammeg sydd yn cynnwys portread o hanes yr amseroedd, addysgiadau gwerthfawr, rhybuddion difrifol, a gwirioneddau ac egwyddorion o'r fath fwyaf pwysig, a'r oll yn cael eu cyfleu mewn dull y mae yn anhawdd i neb beidio eu derbyn, unwaith y cymero y drafferth i dori y plisgyn fel ag i brofi y cnewyllyn sydd oddimewn iddo. Nis gallai ddethol tri mwy cymhwys o holl adar y nefoedd na'r *Eryr*, y *Golomen*, a'r *Gigfran*, i osod allan Cromwell a'i ddiduedd-rwydd tuag at y Diwygwyr Puritanaidd ac Anghydffurfiol, eu hegwyddorion a'u hysbryd, yn mha oes bynag; a'r Eglwys Sefydledig, fel yr oedd Laud a'i greaduriaid wedi ei darostwng yn ei rhagfarn, ei llygredigaeth, a'i hysbryd creulon ac erlidgar. Llwydda i beri i bob aderyn gadw at ei lais a'i anianawd ei hun yn ddiwyro trwy yr ymddyddan i gyd. Teimlwn ei fod yn ein harwain, weithiau, i ddyfnderoedd ein naturiaeth ein hunain, nes yr ydym yn ymgolli ynddynt; a phryd arall i uchelderau dirgelion naturiaeth yr Anfeidrol, nes yr ydym wedi dallu gan y dysgleirdeb; ond wrth aros gydag ef am enyd, teimlwn ein bod yn graddol dd'od atom ein hunain. Dyry oleu clir i ni ar sefyllfa y wlad yn yr adeg hono; ar yr ymdrech a gymerai le rhwng rhyddid a chaethiwed; rhwng cyfiawnder a gormes; rhwng purdeb a llygredigaeth mewn cred a buchedd; rhwng goleuni a thywyllwch. Atebir ynddo lawer o gwestiynau dyrys ac anhawdd, a dattodir ambell i gwlwm dyrys; a chredwn na cheir mewn odid i awdwr gymaint o synwyr wedi ei wasgu i mor lleied o eiriau, yn neillduol felly mewn rhai adranau. Weithiau ceir adrau lawn o frawddegau byrion, ond tra chynnwysfawr, yn ail i'r hen ddiarhebion y mae yn eu hadrodd, sydd fel llinynau o berlau yn dysgleirio yn eu goleuni eu hunain. Profa ei hun yn ysgrythyrwr dihafal, ac, o ganlyniad, yn dduwinydd da; yn athronydd o dreiddgarwch dwfn; yn sylwedydd craff ar natur, yr hon a ddyry efe dan dreth yn hollol i'w amcan ei hun; ac yn efengylydd gwresog sydd yn medru ei ffordd at galonau dynion, ac yn cysegru ei fywyd i'r amcan hwnw. Nid oes genym yr un o'i bregethau; ond tybiwn ein bod yn cael eu hadsain o big y *Golomen* ambell i waith; dychymygwn weithiau ein bod yn gwrandaw arno, yn awr oddiar gopa mynydd Ebal yn cyhoeddi y felldith a'r gwae uwchben cynnulliad o Gymry mewn ysgubor, neu ar ben yr heol ar ddydd marchnad neu ffair, nes y gwelir wynebau yn gwelwi gan y difrifwch a'r awch sydd yn ei hyawdledd miniog; a'r funyd nesaf oddiar gopa Gerizim, yn cyhoeddi gwynfyd a bendith i'r pechadur a gredo, nes y cynnyrcha lawenydd a gorfoledd, a'r dyrfa o'i flaen yn crogi wrth ei wefusau, pryd y

mae rhyw drydan dwyfol, byw, yn treiddio trwy yr oll pan yn gwrandaw, yn yr iaith yn yr hon y'u ganed, fawrion weithredoedd Duw. Ceir yno, nid y golud a gynnygir a'r nerth a deimlir, yn unig, ond hefyd ryw "odidowgrwydd ymadrodd" na chlywsant ei gyffelyb. Yr oedd yn arglwydd llwyr ar drysorau yr iaith Gymraeg, yn ei phriod-ddull ac yn ei geiriau; tywalltai ffrydlif o hyawdledd nad yn fynych y clywid ei gyffelyb. Felly hefyd y mae yn ysgrifenu. Nid oes odid i un o'n hawdwyr "clasurol" Cymreig y gellir ei gystadlu âg ef. Teimlwn fod y fath feddyliau yn teilyngu eu gwisgo yn y "wisg oreu" a fedd iaith i'w rhoddi, a bod y fath wisg yn teilyngu y meddyliau uchaf y gall y meddwl dynol eu cynnyrchu i'w llanw; yma cawn y naill a'r llall; y meddyliau "fel afalau aur, yn ngwaith arian cerfiedig" yr iaith a'r briod-ddull Gymreig fwyaf pur a choeth.

*Y Cerddor.* Hughes & Son, Wrexham.

DERBYNIASOM amryw rifynau o'r misolyn uchod, ac eiddunwn iddo yn ddiffuant hir oes a mawr lwyddiant. Llawer ymgais a wnaethpwyd, fel yr adgofir i'r darllenydd gan y Golygwyr yn y rhifyn cyntaf, "i wasanaethu Cerddoriaeth Gymreig drwy gyfrwng cylchgroniaeth yn ystod y ganrif bresennol." Ond rywfodd neu gilydd, mae bron bob ymgais hyd yn hyn wedi troi allan yn fethiant. Nis gwyddom yn iawn pa gyfrif a ellid roddi am hyny. Anhawdd genym gredu nad oes yn "Nghymru lân, gwlad y gân," alwad am gyhoeddiad i drin materion cysylltiedig â cherddoriaeth, a dysgwyliwn yn hyderus yr estynir i'r cyunyg diweddaf hwn y gefnogaeth angenrheidiol i lwyddiant.

Fe gymhellir i sylw y darllenydd fwy nag unwaith hawliau Cymdeithas y Cerddorion. Da oedd genym glywed am y symudiad hwn; mae iddo o leiaf ddau waith pwysig iawn i'w hyrwyddo. Un ydyw Cerddorfäaeth, cangen ag sydd wedi ei hesgeuluso yn ddirfawr yn yr amser a aeth heibio, ac un y dylid rhoddi arbenigrwydd neillduol iddi cyn y gellir hòni gradd uchel o berffeithrwydd mewn Cerddoriaeth. Mae yn rhyfedd fod ein cerddorion wedi ennill y fath enwogrwydd, ac eto gymaint ar ol mewn defnyddiad offerynau a ystyrir yn gwbl angenrheidiol gan bawb profiadol er mwyn amlygu yn eu holl ogoniant gyfansoddiadau uwchraddol. Mae yn y rhifynau hyn gyfres o erthyglau galluog gan Mr. D. Emlyn Evans ar y pwnc hwn. Y gwaith arall y cyfeiriwyd ato ydyw sicrhau fod mwy o sylw yn cael ei dalu i Gerddoriaeth Gymreig yn ein Cyngherddau Cenedlaethol. Os delir mai dyledswydd yr Eisteddfod ydyw cadw i fyny neillduolion Cymreig a meithrin talent Gymreig, mae yn ddiddadl ei bod, mewn Cerddoriaeth, yn syrthio yn fyr o gyflawni y ddyledswydd hon. Cyfansoddiadau Seisonig ac Ellmynig a welir bron yn gyfangwbl yn llanw hysbysleni eisteddfodol flwyddyn ar ol blwyddyn, a hyny ar draul cadw allan weithiau gwir deilwng o eiddo cyfansoddwyr Cymreig. Dymunem hefyd awgrymu y gwneid gwaith tra gwerthfawr gan y gymdeithas hon, neu gan unrhyw gymdeithas arall, pe ymroddid i ddwyn i fwy o sylw ein hofferyn cenedlaethol, y Delyn, a'r hen ddull swynol a phrydferth o ganu gyda'r tannau. Anfynych yn awr y gwelir neb yn abl i chwareu y delyn deir-res, tra y mae perygl i'r arferiad henafol o ganu pennillion lithro i anobeithiol ebargofiant. Gresyn nas gellid gwirio yn awr eiriau Llewelyn Ddu o Fôn:—

> Mwyn yw telyn o fewn tŷ
> Lle byddo teulu dedwydd,
> Pawb â'i bennill yn ei gwrs,
> Heb son am bwrs y cybydd.

Ond y gwir yw ein bod trwy ddiofalwch yn debyg o golli yn llwyr y nodwedd arbenig hon o'n heiddo fel cenedl.

Heblaw y gyfres o erthyglau ar Gerddorfäaeth, cynnwysa *Y Cerddor* ysgrifau ar amryw o bynciau dyddorol, ynghyd a Bywgraffiadau, Adolygiadau, ac amrywiaeth o gyfansoddiadau gwreiddiol gan rai o'n prif gyfansoddwyr.—J. G. R.

*Prawf fod Athrawiaeth awdurdodedig y Methodistiaid Calfinaidd a'r Methodistiaid Wesleyaidd ar y Sacramentau, yn hollol gyttun â'r athrawiaeth yr Eglwys; a bod y Methodistiaid Calfinaidd yn rhwymedig gan eu Gweithred Gyfansoddiadol i ddysgu yr Athrawiaeth hon.*

ANFONWYD i ni y pamphledyn uchod gyda'r post. Y mae wedi ei ysgrifenu gan y Parch. P. C. Ellis, Llanfairfechan, ac y mae y rhagymadrodd sydd yn dwyn ei enw wedi ei gyfeirio "at bawb yn y plwyf hwn sydd yn caru y gwirionedd." Mae yn debyg felly ei fod wedi ei fwriadu ar gyfer preswylwyr heddychol plwyf Llanfairfechan, er fod *ychydig* o Fethodistiaid, [illegible] ddwy adran y cyfeirir atynt, y tu allan i'r plwyf hwnw. Mae yn anhawdd deall beth allai fod ei amcan. Rhydd ar ddeall fod y Methodistiaid Calfinaidd yn "cablu Sacramentau Crist." Y mae hyn ei hunan yn [illegible] yn hynod o debyg i gabledd, ac mae yn gwbl sicr nad oes yr un o'r [illegible] hyny, nac yn Llanfairfechan nac mewn un ran arall o'r ddaear, yn euog o'r drygioni y mae y gŵr hwn mor ddibris yn eu cyhuddo o hono. Mae y dyfyniadau a wna o'r *Cyffes Ffydd*, yr *Hyfforddwr*, a'r *Geiriadur*, ynghyda Phregethau Mr. Wesley, bid sicr, yn eithaf cyson â'r dadganiadau yn safonau Eglwys Loegr mewn perthynas i'r Sacramentau. Ond yn ddiau y mae yn bwnc i'w brofi mai yn ystyr Uchel-Eglwysig person Llanfairfechan y mae y dadganiadau hyny i'w cymeryd; ac y mae yr anhawsder i wneyd hyny *o fewn Eglwys Loegr ei hunan*, yn llawn mor fawr ag y gall fod mewn unrhyw gylch y tu allan iddi. A phe byddai hyny yn bosibl, fe fyddai gagendor mawr wedyn i fyned drosto cyn y gellid gwneyd allan mai yn y cyfryw ystyr yr edrychai y tadau Methodistaidd—Calfinaidd a Wesleyaidd—ar yr ymadroddion a ddefnyddient, ac a ddyfynir yma. Yn wir mae yn hawdd meddwl fel y buasai y dynion doeth a sanctaidd hyny yn brawychu wrth feddwl y buasai neb yn codi yn Nghymru a fuasai yn meddwl am fynyd am geisio dangos eu bod yn credu "y rhaid mai trwy fedydd yr ailenir;" fod y geiriau, "i gymdeithasu â Duw yn aberth ei Fab yn yr ordinhad," yn golygu "gwir bresennoldeb Crist yn y cymun;" ac "y rhaid fod y Methodistiaid yn dal y gwir bresennoldeb." Yr hyn y gosodent hwy y pwys mawr arno oedd *ffydd*, ac i ffydd y mae Crist o angenrheidrwydd yn bresennol yn yr ordinhadau; ond prin y mae Mr. Ellis yn meddwl am hyny, a chanddo ef, y gweinidogion sydd wedi eu hordeinio yn ol trefn yr Eglwysi Esgobol sydd yn meddu gallu "i fod yn offerynau i adeni ac i faethu y rhai ydynt gyfranogion o honynt;" yr hyn sydd "yn gwneyd y Methodistiaid o'r dechreuad yn amddifad o fywyd ysbrydol," ac felly—oll yn golledig! Mae yn dda mai nid yn llaw y boneddwr parchedig hwn y mae agoriadau teyrnas nefoedd. Pe felly, "ychydig" yn sicr a fyddai "y rhai cadwedig." Yr un ffunud y mae ei ymresymiad fod y Methodistiaid Calfinaidd trwy basio eu Gweithred Gyfansoddiadol—yr hyn a wnaethant yn unig er dangos pwy a pheth ydynt—wedi eu gwneyd eu hunain yn "Eglwys Sefydledig, neu Sefydliad Gwladol," yn llawer tebycach i daeru gwrach, nag i ymresymu meddyliwr ac ysgolhaig. Mae yn debyg fod argraffu a lledaenu y pamphledyn main hwn wedi costio tipyn o drafferth, a rhywfaint o draul; ond gellid yn rhesymol gofyn, "I ba beth y bu y golled hon?" Ni fuasai waeth i'r gŵr parchedig feddwl am droi y gogleddwynt yn ol â'i anadl, nag am i hwn wneyd yr un argraff, heblaw o resyndod at ei annhraethol gulni, ar feddwl neb o Ymneillduwyr goleuedig a chrefyddol Llanfairfechan, nac yr un llan nac ardal arall trwy Gymru oll.

---

TREFFYNNON: ARGRAFFWYD GAN P. M. EVANS AND SON.

*Pris, mewn llian, 6s.*

# Y PREGETHWR.

N cynnwys oddeutu Triugain o Bregethau gan weinidogion ymadawedig, sef, David Cadwalader; Thomas Charles, Bala; David Charles, B.A., Trefecca; Hugh Charles, lon; Henry Davies; John Davies, Nantglyn; John Davies, Nerquis; Roger Edwards, Vyddgrug; John Elias; Thomas Elias; John Foulkes, Abergele; Robert Hall; James lamilton; William Havard; John Hughes, Pont Robert; James Hughes, Lleyn; Morris lughes; Richard Humphreys, Dyffryn; William Jay, Bath; Lewis Jones, Bala; Thomas ones, Dinbych; Thomas Jones, Caerfyrddin; Richard Jones, Llanfair; Richard Jones, ala; Owen Jones; David Meyler, Abergwaen; John Mills, Llundain; John Parry, Caer; loses Parry, Dinbych; Edward Payson, America; John Phillips, Bangor; Henry Rees, iverpool; Ebenezer Richard; Richard Thomas; Robert Roberts, Clynnog; Robert toberts, Rhosllanerchrugog; John Roberts, Liverpool; William Roberts, Caergybi: James herman, Llundain; Griffith Solomon; Robert Thomas; Richard Williams, Liverpool; oseph Williams, Liverpool.

P. M. EVANS & SON, Cyhoeddwyr, Holywell.

*Pris, mewn llian, 5s.*

# ESBONIAD BEIRNIADOL

## AR GENESIS I JOB.

GAN Y DIWEDDAR BARCH. OWEN JONES, LLANDUDNO.

YN cynnwys Nodiadau Beirniadol ar y rhanau anhawddaf eu deall o Ysgrythyrau Sanctaidd yr Hen Destament. Nid oes ar law o'r gwaith hwn ond ychydig o gopiau, chan fod marwolaeth ddiweddar yr awdwr yn rhwym o ychwanegu gwerth y Gyfrol yn golwg y cyhoedd, erfynir ar bwy bynag a ddymuna gael copi erchi yn ddioed, er gochel iomedigaeth.

P. M. EVANS & SON, Cyhoeddwyr, Holywell.

## Llyfr Newydd at Wasanaeth yr Ysgolion Sabbothol.

Yn awr yn barod, mewn llian, pris Hanner Coron,

# BRASLUN

O

# FYWYD AC EPISTOLAU PAUL.

GAN

## JOHN EVANS (EGLWYSBACH).

TREFFYNNON: P. M. EVANS & SON.

Ar Werth gan yr holl Lyfrwerthwyr; neu yn uniongyrchol oddiwrth y Cyhoeddwyr yn ddidraul trwy y Post, ar dderbyniad ei werth mewn Stamps neu Order.

# CYFROL GOFFADWRIAETHOL CYNFAEN.

YN AWR YN BAROD, YN UN GYFROL,

PRIS PEDWAR SWLLT.

DETHOLIAD O BREGETHAU Y DIWEDDAR BARCHEDIG JOHN HUGH EVANS (Cynfaen). Mae y Gyfrol yn cynwys Braslun o Fywyd yr Awdwr, a'i ddarlith ar Job, yn nghyda PHRYDDEST FUDDUGOL CADVAN er coffadwriaeth am dano. Anfoner pob archebion at MRS. J. H. EVANS, 43, Tennyson Street, Liverpool. Rhoddir yr elw arferol i Lyfrwerthwyr a Dosbarthwyr.

---

Yn awr yn barod, mewn llian hardd, pris 8s. 6c.

# WILLIAMS PANT-Y-CELYN,

YN CYNNWYS EI

## Holl Gyfansoddiadau Barddonol,

Oddieithr ei Hymnau, gyda Hanes ei Fywyd, a Thraethawd Beirniadol ar ei Weithiau, gan y Golygydd, y

## PARCH. N. CYNHAFAL JONES,

LLANIDLOES.

---

Mae y gyfrol hon y cydgasgliad cyflawnaf o Weithiau Perganiedydd Cymru a gyhoeddwyd erioed—ac mae y ffaith fod cannoedd lawer o'r gyfrol wedi eu herchi cyn ei hymddangosiad o'r wasg yn siarad yn uchel am ei theilyngdod, a'r anghen a deimlid yn y wlad am Weithiau Prif Emynydd y Genedl.

P. M. EVANS & SON, PUBLISHERS, HOLYWELL.

---

Yn awr yn barod, Pris 1s. 6c., mewn amlen liwiedig, y Ffugchwedl Boblogaidd

# Y DREFLAN:

## EI PHOBL A'I PHETHAU

WEDI EI HYSGRIFENU GAN

## AWDWR "RHYS LEWIS."

---

Mae y chwedl hon wedi derbyn cymeradwyaeth mwyaf calonogol y wasg, ac ynddi ceir desgrifiadau naturiol o gymeriadau ac amgylchiadau gwir Gymreig, wedi eu portreadu yn null dihafal a mwyaf hapus yr Awdwr.

---

Ar werth gan yr holl Lyfrwerthwyr, neu yn uniongyrchol oddiwrth y Cyhoeddwyr,

P. M. EVANS & SON, HOLYWELL

This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.

3 2044 090 288 655